110 d 549.

HANES

YR

EGLWYS GRISTIONOGOL,

YN GYFFREDINOL,

O DDYDDIAU YR APOSTOLION HYD YR AMSER PRESENNOL.

GAN D. MORGAN,

GWEINIDOG YR EFENGYL YN MACHYNLLETH.

MEWN DWY GYFROL.

CYF. I.

YSTYRIAIS Y DYDDIAU GYNT, BLYNYDDOEDD YR HEN OESOEDD.—SALMYDD.
PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SY DDA.—PAUL.

ABERYSTWYTH:

ARGRAFFWYD DROS YR AWDWR GAN J. COX, HEOL NEWYDD,

AC AR WERTH GAN

H. HUGHES, ST. MARTIN'S LE GRAND, LLUNDAIN.

—

1833.

ENTERED AT STATIONERS' HALL.

BODLEIAN
LIBRARY

RHAGYMADRODD.

Hanes yr Eglwys Gristionogol a raid fod yn hanes o'r pwys mwyaf yn ngolwg pob dyn a broffesa ei fod yn credu yn nwyfoldeb y dadguddiad am Iesu Grist, a'r hyn a briodolir iddo yn yr ysgrythyrau sanctaidd; o blegid nid yw yn amgen na hanes Cristionogaeth ei hun. Ystyriaeth o bwysfawrogrwydd y cyfryw hanes a orphwysai ar feddwl awdwr y cyfrolau canlynol er uwch ugain o flynyddau; ac ystyriaeth o fyrdra ei gydwladwyr mewn gwybodaeth o'r testun pwysig hwn, a'u hamddifadrwydd o un cyfrwng i gyrhaedd hyny, (yn mhellach nag am y deng mlynedd ar hugain cyntaf wedi esgyniad ein Harglwydd, a gynnwysir yn llyfr yr Actau, yn eu hiaith eu hunain,) a'i tueddodd i gyhoeddi yr hyn a welir yn y tudalenau canlynol.

Mor bell ag y mae yr hyn a gyhoeddir yn y llyfr hwn yn wirionedd, nid rhaid iddo wrth ei ganmoliaeth ef na neb arall; ac od oes ynddo un peth yn groes i wirionedd, ni ddichon canmoliaeth neb ei wellhau, ac ni theilynga y cyfryw sylw cymmeradwyol oddi wrth y cyffredin. Ond goddefir i'r awdwr dystio, yn y modd

mwyaf difrifol, mai am y gwirionedd, a'r gwirionedd yn unig, yr oedd ei ymofyniad penaf yn yr olrheiniad a wnaeth; a'i amcan blaenaf yn yr hyn a ysgrifenodd oedd, gosod allan yr hyn oedd wirionedd yn y modd egluraf, ac yn yr iaith fwyaf ddealladwy ag y medrai, ger bron ei gydwladwyr.

Mae yn dra ymwybodol na bydd i'r hyn a gyhoeddir foddhau pawb; ac ni chwennychai foddhau neb dynion ar draul yr hyn a farnai yn wirionedd, canys byddai hyny yn hollol anghysson â phriodol ddyben hanesyddiaeth.

Y mae i hanes eglwysig ei anhawsderau, fel hanesion eraill; canys nid anfynych y gwelir ffeithiau yn cael eu coffau yn hannerog, a'u lliwio mewn rhan yn y lliw cryfaf, er tywyllu y rhan arall; a phersonau a gyhoeddir *y duwiolaf* a'r mwyaf *rhinweddol* yn fynych, wrth eu bod yn feddiannol ar rinweddau pleidiol, mor bell ag yr oeddynt yn gwasanaethu dybenion y gwahanol ysgrifenwyr; fel y mae yn dra anhawdd i gael allan yr hyn sydd wirionedd, heb chwilio awduron o wahanol a chyferbyniol farnau. Y mae wedi dygwydd i'r eglwys Gristionogol fel y dygwyddodd i'w Sylfaenydd a'i Phen, sef fod dynion yn dywedyd, Wele, llyma eglwys Dduw, neu, Wele acw; a mynych y gosodir hi allan gan haneswyr fel rhywbeth heb un bodoliaeth, heb un egwyddorion, ac heb un drefn na ffurfiad hanfodol a chyntefig perthynol iddi, ond fel rhywbeth dygwyddiadol, i'w llunio a'i gosod i fynu yn ol meddwl ac ewyllys, er gwasanaethu cyfleusdra y sawl a gymmerai arnynt yr anturiaeth.

Pa mor bell yr ymgadwyd yn yr hanes canlynol oddi wrth y drygau uchod, a adewir i farn ac ystyriaeth ddifrifol y darllenwyr. Ond hyn a ddywedir yn eofn, ni chelwyd un ffaith o herwydd ei bod yn milwrio yn erbyn golygiadau unrhyw blaid o Gristionogion, ac ni arbedwyd un llafur, trwy bob moddion cyrhaeddadwy i'r awdwr, er cael allan y gwirionedd yn gyflawn am bob ffaith a goffeir, a chwiliad i mewn i gymmeriad y personau a nodir yn yr hanes hwn, cyn fanyled ag y gellid, er eu gosod ger bron y darllenydd yn eu cyflawn nodweddiad. Canys bernir nad yw uniondeb neu anuniondeb unrhyw gyfundraith crefyddol, a threfniad eglwysig, yn ymddibynu ar rinwedd ymddangosiadol neu anrhinweddoldeb neb dynion a'u proffesai; gan y gwelir cyfundraethau crefyddol a threfniadau eglwysig hollol anghysson â'r un a sylfaenwyd ar sail yr apostolion a'r prophwydi, yn cael eu hamddiffyn a'u proffesu gan ddynion o gymmeriad, a ymddangosent yn dra rhinweddol; ac eraill a ellid farnu oedd yn nês at y gwirionedd, yn cael eu hamddiffyn a'u proffesu gan ddynion o gymmeriad, âg ynddynt luaws o bethau beius. O herwydd hyn, ymdrechai yr awdwr, yn ei olrheiniad o hanes yr eglwys, i ymgadw yn wastadol rhag dau beth; sef, rhoddi barn ehud ar sefyllfa cyflwr neb dynion ger bron Duw, a phenderfynu dim yn nghylch eu hachos tragywyddol wrth y cyfundraith a broffesent, a'r trefniad eglwysig a ymarferent, a rhoddi barn am gymhwysder unrhyw gyfundraith crefyddol, ac uniondeb unrhyw drefniad eglwysig, wrth gymmeriad unrhyw bersonau a'u proffesai.

Yn wyneb hyn, nid yw yn annaturiol fod pob darllen-

ydd ystyriol yn barod i ofyn, Pa fodd ynte y mae i ni gael gwir gymmeriad unrhyw gyfundraith crefyddol a threfniad eglwysig? Mae yn ddiau nad wrth ymddangosiad hardd-deg a chymmeriad uchel y rhai a'u proffesa; nid wrth efengyleiddrwydd neu anefengyleiddrwydd unrhyw athrawiaeth neillduol, a gynnwysa y credöau a'r erthyglau perthynol iddynt; nid wrth eu hynafiaeth a'u hir barhad, ac nid wrth amlder a lluosogrwydd eu pleidwyr. Eithr y mae yn rhaid eu pwyso yn nghlorian y cyssegr, o ran yr egwyddorion ar ba rai y sylfaenir, y cyfreithiau wrth ba rai y rheolir, yr awdurdod pa un a ymarddelwant, a'r teimladau pa rai a gynhyrfant yn eu hymarferwyr. Cyssondeb y rhai yma â'r hyn a ddywedir yn y Testament Newydd am eglwys Dduw, a gwir a chyflawn nodweddiad Iesu Grist a amlygir yno, a rydd i unrhyw gyfundraith crefyddol a threfniad eglwysig y cymmeriad o gywirdeb a dwyfol darddiad yn unig. Ond pan y gwelir unrhyw drefniad yn sylfaenedig ar egwyddorion gwladwriaethol, yn cael ei reoli gan gyfreithiau dynol, yn dyrchafu dynion mewn awdurdod i orsedd Crist yn ei eglwys, ac yn nacâu i ddynion eu hawl naturiol o farnu drostynt eu hunain mewn pethau crefyddol, a'u rhyddid i wneud yr hyn a farnont yn ddyledswydd arnynt tu ag at Dduw a'u cyd-ddynion, heb fod yn agored i erledigaeth, trwy eu drygu yn eu personau a'u meddiannau o herwydd hyny, y mae yn rhy anhawdd cyssoni y cyfryw drefniad eglwysig â'r darluniad a roddir yn yr ysgrythyrau o eglwys Dduw, na rhoddi iddo yn briodol yr enwad o eglwys Gristionogol, er ei bleidio gan amryw o ddynion harddwych eu hymddangosiad mewn pethau eraill.

Byddai yn ormod gorchwyl i enwi yn y lle hwn yr awduron y derbyniodd yr awdwr y cynnorthwyon mwyaf oddi wrthynt yn nghyfansoddiad yr hanes canlynol; a bernir hyny yn afreidiol, i raddau, gan fod enwau yr awduron hyny ar odref y dail yn nghorph y gwaith. Ni thybia yr awdwr ei hun, yn y mesur lleiaf, yn anffaeledig yn yr hyn a gyhoedda; ond efe a'i cyfrif yn fraint i gael ei argyhoeddi mewn modd eglur a theg, os ydyw wedi cam-ddarlunio a gosod allan unrhyw ffaith a goffeir yn y cyfrolau hyn, neu yn y casgliadau a dyn oddi wrthynt, neu y cymhwysiad a wna o honynt. Ac nid yw yn annheimladwy y gall fod yn y cyfrolau canlynol lawer o wallau, mewn iaith a dull ymadroddi, i olwg beirniaid, y rhai y dichon iddynt ddyfod i'w dwylaw. Ond digon yw dywedyd, mai nid i foddhau y dosparth hwnw o ddynion yn hyny y cyfansoddwyd hwynt, eithr er cynnorthwyo yr ymofynydd didwyll am wirionedd pethau, er ei addysg yn nghylch yr hyn a berthyn i eglwys Dduw. Cyflwyna hwy yn awr, fel y maent, i ymchwiliad a barn ei gydwladwyr, a gofal Rhagluniaeth y nef; ac os bydd iddynt genhedlu mwy o ysbryd ymofyn yn neb o'u darllenwyr am adnabod yr hyn sydd wirionedd, a thueddu meddwl neb, i ryw fesur, i adnabod y gwirionedd megys y mae yn yr Iesu, yn nghyd â chadarnhau eraill yn y gwirionedd presennol, rhydd eu cyhoeddiad ddywenydd nid ychydig i'r awdwr, er eu dirmygu a'u gwrthod gan yr hunan-geisiol a'r anystyriol.

ARWEINIAD I MEWN.

DEALLIR wrth Grefydd Gristionogol, y grefydd honno a sylfaenir ar y ffeithiau a'r adroddiadau hyny a wneir yn yr ysgrythyrau am Iesu Grist; ac wrth Gristionogion, y deallir y bobl hyny ag sydd yn proffesu eu crediniaeth o'r pethau hyn, ac yn ymdrechu cydffurfio â'r egwyddorion, y gosodiadau, a'r rheolau a roddwyd iddynt gan Grist yn yr ysgrythyrau. A'r hyn a ddeallir wrth Eglwys Gristionogol, yw y bobl hyn yn eu cyssylltiad cyffredin trwy y ddaear a'r nefoedd; neu y nifer hyny a fyddo yn arfer, neu a ddichon gydgyfarfod â'u gilydd mewn unrhyw le ar y ddaear i addoli a dwyn yn mlaen achos eu Blaenor, yn ol ei ewyllys dadguddiedig. Gwel tudalen 102, yn y gyfrol I. o'r hanes hwn.

Pan y ganed ein Harglwydd Iesu yn nyddiau Augustus Cæsar, ac y dechreuwyd gosod i fynu y grefydd Gristionogol, dywedir fod yr amherodraeth Rufeinig yn uchder ei nerth a helaethder ei mawredd a'i henwogrwydd, megys wedi darostwng yr holl ddaear o dan ei hawdurdod, ac adferyd heddwch trwy y byd. Er arwydd o hyn, dywedir fod teml Janus wedi ei chau yn Rhufain y bummed waith er ei sylfaeniad, a'r tro diweddaf y gwnaed hyny.

Nid oedd y Rhufeiniaid ar y cyntaf ond haid o bobl grwydredig, wael, ac anwaraidd, a ddaethent, fel y tybir, o ryw ran o Asia Leiaf; eithr mewn yspaid saith cant a hanner o flynyddau, ymgodasant, trwy rym eu harfau a'u dewrder milwraidd, a phob dyfais gyfrwysgall, fel y dygasant y rhan fwyaf o'r gwledydd mwyaf bras, a'r teyrnasoedd ehangaf a chyfoethocaf ar y ddaear i'w meddiant, a holl bobloedd a ieithoedd y byd oddi tan eu llywodraeth. Judea, y deyrnas hyfryd y bu Dafydd dduwiol a Solomon ddoeth yn lywodraethu, oedd yn awr wedi dyfod mor isel â bod yn dalaeth o'r amherodraeth alluog hon. Cyrhaeddai amherodraeth Rhufain y pryd hwn, fel y bernir, o fôr y Werydd i'r afon fawr Euphrates, sef tua thair mil o filltiroedd o hyd, ac o glawdd mawr Antonius, a therfynau mwyaf gogleddol Dacia, hyd fynydd mawr Atlas, yn nhrefngylch yr Haul yn arwydd y Cranc, sef tua dwy fil o filltiroedd o led; yn cynnwys o leiaf tu ag un cant ar bymtheg o filoedd o filltiroedd o dir yn bedwar-ochrog, a chan mwyaf yn drigiannol ac yn ffrwythlawn. Gorweddai yr amherodraeth hon yn benaf rhwng y chwechfed gradd ar hugain a'r pymthegfed a deugain o gyhydedd gogleddol y ddaear; yr hyn oedd yn ei gwneuthur yn feddiannol ar y gwledydd mwyaf toreithiog, a'r moroedd a'r aberoedd mwyaf cyfleus i fasnach, ac i fodoli yn yr awyr fwyaf dymherus a iachus, ac i gynnwys y dynion mwyaf dewr, grymus, a medrus yn yr holl fyd.

O ddyddiau Nimrod a Ninus, sylfaenwyr amherodraeth fawr Assyria, pa un a ddechreuwyd yn mhen tua thri chan mlynedd wedi y diluw, hyd ddyddiau Augustus Cæsar, yr oedd tua dwy fil o flynyddau. Yn yr yspaid hwn, cododd i fynu amryw deyrnasoedd ac amherodraethau ëang, y naill ar ol y llall, a mynych y darostyngid y naill gan y llall. Golygir amherodraeth Assyria, neu Caldea, prif-ddinas pa un oedd Babilon, wedi dymchweliad Ninefeh, y flaenaf, nid yn unig o ran amser, ond hefyd o ran cyfoeth, dysgeidiaeth celfyddydol, cywreinrwydd, gwareidd-dra, &c., o holl deyrnasoedd y ddaear. Dyma lle yr oedd pethau ac arferiadau dynolion fel yn eu cryd, yn cael eu magu; ac oddi yma y tarddasant allan i'r Aipht a gwledydd eraill yn lled foreu. Er y dysgleiriai yr amherodraeth hon unwaith fel haul yn mysg y llu, ac er yr eisteddai megys yn dywysoges yr holl ddaear, etto gorfu arni roddi ei lle a'i gorsedd i amherodraeth y Mediaid a'r Persiaid, yr hon a ddaeth yn enwog ar ei hadfail, ac a dywyllodd ei goleuni.

Amherodraeth y Mediaid a'r Persiaid hithau a orfu roddi ei lle a'i llywodraeth i fynu i'r dewrwych a'r hyfion Roegiaid, pa rai a'i goresgynasant ac a sylfaenasant eu gorsedd amherodrol ar ei hadfail. Yr oedd yr amherodraeth hon yn enwocach mewn gwybodaeth gelfyddydol, dysgeidiaeth o bob math, a medrusrwydd i drin arfau rhyfel, ac mewn ymdrech i feithrin pob arferiadau a moesau da, nag un a fu o'i blaen. Ond buan y darostyngwyd hi, ac y meddianwyd ei thaleithiau ëang gan amherodraeth Rhufain, yr hon yn unig o honynt oedd â'i gwreiddyn, ei chorph, a'i nerth yn benaf yn y pedwaran hwn o'r byd, a elwir Europe; a daeth yn helaethach ac yn fwy nerthol ac ofnadwy nag un a fu o'i blaen, fel ei gelwir yn briodol yn arglwyddes y gwledydd. Meddylir yn lled gyffredin, mai hon a osodir allan yn gymharol, yn ngweledigaeth Nebucodonosor, trwy goesau cymmysglyd y ddelw, a thrwy y pedwerydd bwystfil anghenfilaidd, yn nghyd â'r corn bychan a ddeuai allan o un o'r pedwar corn ar ben y bwch blewog, a ddangoswyd yn ngweledigaethau Daniel y prophwyd.

Pan yr ydym fel hyn yn gweled y fath chwyldröadau ar y ddaear, ac yn canfod y naill amherodraeth yn ymgodi ac yn darostwng y llall o'i blaen, nid anfuddiol a fyddai i ni sylwi ar rai o'r achosion naturiol o hyny. Er y credir yn ddiysgog fod gan Ragluniaeth y nef law yn y pethau hyn, etto gwelir ynddynt yr achosion priodol trwy ba rai y dygid y cyfnewidiadau hyn oddi amgylch. Sylfaenwyr yr amherodraethau hyn oll oeddynt ar y cyntaf yn ddynion dewrion, gwrol, a gweithgar, yn ymarfer â byw yn galed a chynnil, ac yn ymgynnefino â gorchestion; a thrwy hyn, pan yn ymroddi i ryfel, yn gorchfygu y ffordd yr elent. Eithr wedi dyfod i fwynhau cyfoeth, mewn gwledydd breision, a llawnder gormodol o bob daioni, ymroddent i segurdod, meddwdod, a gloddest, yr hyn oedd yn naturiol yn gwanhau eu galluoedd meddyliol a chorphorol; fel y daethant yn anghymmwys i gynnal a meithrin unrhyw gelfyddydau yn eu mysg, ac i fod yn analluog i amddiffyn eu hunain a'u meddiannau—yn llawer islaw eu hynafiaid mewn pob rhin-

wedd naturiol a moesol, ac yn ysglyfaeth hawdd i neb rhyw ddewrion a ymruthrent arnynt.

Trigolion y dwyrain oeddynt oll wedi myned i'r agwedd wael a'r meddalwch hyn, trwy eu segurdod a'u gloddest—yn ymffrostgar mewn rhyw orwychder allanol ac ymddangosiadol, â'u meddyliau yn llawn o duedd caeth-wasaidd—yn analluog i ymegniadau meithrinol i gelfyddydau, a hunan-amddiffyniad, ac yn llawn cariad i eistedd yn dawel yn nhemlau gloddest, pan yr ymosododd y Groegiaid arnynt; pa rai yn fuan, wedi mwynhau eu llawnder a'u brasder, a ddilynasant eu camrau, fel y daethant i'r un sefyllfa nychlyd·â hwythau. Eithr y Rhufeinwyr, a'r Gogleddwyr a ymfyddinent o dan eu llummanau, oeddynt y pryd hwn yn llawn dewrder a gwroldeb; yn rymus mewn meddwl a chorph, trwy ymarfer â byw yn galed ar bethau cyffredin, a dilyn gorchestion yn feunyddiol, ac yn ymffrostio mewn, ac yn meithrin tymherau milwraidd; yn anwaraidd i'r eithaf, gan ddirmygu gosod terfyn hyd yn nod ar leoedd eu preswylfëydd, er ymgrwydro o le i le, a gwneuthur rhyddid ac ymgrwydriad mewn ehangder diderfyn, trwy olygfëydd o ddyoddefiadau, gwaed, a lladdfëydd, gan wneuthur gerwindeb brwydrau, a grym arfau rhyfel, y mwyniant penaf. Grymusder a dewrder a welid y pryd hwn yn ffurfiad cyrph, ac a wreichionai yn ysgogiadau meddyliau, a thrwy weithredoedd dwylaw y gogleddwyr, fel na allai y dwyreinwyr gwanllyd sefyll o'u blaen: a thrwy hyn dyrchafwyd arglwyddes y gwledydd i'w gorsedd.

Daeth y Rhufeiniaid nid yn unig yn enwog o ran ehangder eu hamherodraeth, ond hefyd yn glodfawr mewn dyngarwch, doethineb, ac iawnder eu llywodraeth, ac yn eu hymdrechiadau i feithrin gwybodaeth a dysgeidiaeth, ac i wareiddio a moesoli trigolion y gwledydd a orchfygent, yn fwy na neb a fu o'u blaen wedi y diluw. Anfonent gennadau i osod i fynu eu cyfreithiau, i ddwyn yn mlaen weithfëydd, ac i ddysgu celfyddydau a phob gwybodaeth oedd yn adnabyddus yn yr oes honno; a threfnent ffyrdd a phob moddion gwybodaeth cymdeithasol a masnachol rhwng y naill wlad a'r llall yn yr amherodraeth, hyd eithaf ei therfynau. Trwy y pethau hyn, codwyd ei chymmeriad mor uchel, fel y darfu i lawer o deyrnasoedd ymostwng yn wirfoddol i'w llywodraeth, a cheisio ei nawdd a'i chymhorth. Fel hyn daeth cynnifer o daleithiau yn un deyrnas, a gynnwysai fwy nag ugain a chant o filiynau o drigolion, ac i agosach undeb a chyssylltiad, trwy fod yn ddeiliaid o'r un llywodraeth; a daethant i fwy o adnabyddiaeth o arferiadau, defodau, ac ieithoedd, a chydweithrediad â'u gilydd, nag a fu mewn un cyfnod gwybodus o'r blaen.

Er nad amcanai y Rhufeiniaid yn y pethau hyn oll ond boddhau eu tueddiadau eu hunain, sicrhau eu gorsedd, ac enwogi eu hamherodraeth, etto nid all un Cristion lai na gweled llaw yr Arglwydd ynddynt, a chyflawniad o brophwydoliaeth y nefoedd yn y cyfan—yn llenwi y pantau, gwastatâu y bryniau, ac yn parottoi y ffordd er hwylusu taeniad efengyl ein hiachawd-

wriaeth trwy yr holl ddaear. Nid yn unig yr oedd haelfrydedd y Rhufeiniaid yn fawr tu ag at eu deiliaid mewn pethau gwladol a naturiol, ond hefyd yr oeddynt yn caniattâu rhyddid crefyddol iddynt; fel yr oedd pob cenedl yn cael addoli y duw a ddewisent, ac yn y drefn a welent oreu, er eu bod yn baganiaid. Bu hyn yn foddion neillduol er helaethiad gwybodaeth, gan y goddefid i'r Iuddewon godi eu synagogau, a thaenu eu hysgrifau trwy bob rhan o'r amherodraeth; a gwasanaethodd yn fawr er rhwyddhau ffordd yr apostolion yn eu teithiau, yn mhlaniad cyntaf Cristionogaeth yn y gwahanol wledydd.

Dosranid holl drigolion yr amherodraeth fawr i dair gradd; sef, dinasyddion, taleithwyr, a chaethion. Y blaenaf oeddynt yn mwynhau mwy o freintiau, rhyddid, ac urddas na neb arall; a'r ail ni feddiannent nemawr gwell na chysgod rhyddid; ond y trydydd oeddynt mewn cwbl waseidd-dra, ac yn hollol ymddibynol ar ewyllys eu harglwyddi, pa rai a ymddygent tu ag atynt fel y gwasanaethai oreu i'w hamcanion, gan eu breinio weithiau, a phryd arall eu gorthrymu yn galed, a'u cospi yn fynych yn farbaraidd hyd farwolaeth.

Ond yr hyn yn benaf a deilynga ein sylw yn y traethawd hwn, ydyw, crefydd a dysgeidiaeth holl drigolion y ddaear, yn flaenorol i osodiad i fynu y grefydd Gristionogol. Er amlder trigolion y ddaear, a'u bod yn byw mewn gwahanol oesau; yn preswylio mewn gwahanol wledydd; yn llefaru gwahanol ieithoedd; yn dilyn gwahanol gelfyddydau; yn cael eu llywodraethu gan wahanol a chyferbyniol dueddiadau ac arferiadau, ac yn gosod allan wahanol nodweddiadau, etto y maent oll, ag sydd yn wybodus i ni, yn cyduno, mewn barn ac addefiad, fod rhyw UN BOD mawr a goruchel, neu FODAU, a deilynga eu parch a'u haddoliad; a dangosant y farn hon mewn rhyw gyflawniadau crefyddol yn gyhoeddus. Fel, i ba wlad bynag yr edrychwn, y gwelwn offeiriaid, allorau, aberthau, ac addoliad cyhoeddus, ac ymarferiadau crefyddol, yn cael eu dwyn yn mlaen; a chedwid gwyliau gosodedig ganddynt; a themlau, neu leoedd cyssegredig, oedd yn agored, yn mha rai yr addolent. Holl ddynolryw yn gyffredin a effeithir, yn mhob oes, gan barchedigaeth i Dduwdod, yn mhob lle ac amgylchiad; a byddai ymddygiadau, moesau, a chyflawniadau dynion, yn cyfateboli i nattur, priodoliaethau, a chynneddfau a briodolid ganddynt i'r hwn a dybid fod yn dduw, a'r wybodaeth a feddent o hono. Meddylir yn lled gyffredin fod ystyriaeth wedi aros am gryn amser ar feddyliau holl drigolion y ddaear, nad oedd ond un Bod goruchaf, pan yr oeddynt gan mwyaf wedi ymwylltio mewn eilunaddoliaeth, a'u meddyliau wedi eu llyffetheirio gan y fath waelaf a ffieiddiaf o goelgrefyddau.

Y mae yn lled sicr i gyfundraith eilunaddoliaeth gael ei ddechreuad yn y grediniaeth o fod y byd hwn, a'r bydoedd eraill, wedi eu creu gan un Bod Hollalluog, yr hwn a ystyrient y Goruchaf; ond fod eu gofal, eu llywodraeth, a'u holl achosion, wedi eu hymddiried i ryw gymdeithasfa o ysbrydion gall-

uog, pa rai a enwid yn dduwiau; a thybient fod y rhai hyn yn dyfod i breswylio i wahanol fodau a phethau yma ar y ddaear. Dechreuodd y dybiaeth yn foreu iawn, fel y bernir, yn ngwlad Caldea, ac a ffynodd yn fuan yn mhlith yr holl genhedloedd; fel y daethant cyn pen hir i feddwl mai eu dyledswydd a'u braint oedd boddhau yr îs-dduwiau hyn, trwy gyflwyno iddynt eu hymarferiadau crefyddol, a chymmodi ac heddychu â hwy, pan y tybient eu bod wedi eu hanfoddhau, trwy eu haberthau. Golygent fod un o'r ysbrydion galluog hyn uwchlaw y lleill mewn awdurdod a swydd, fel yr oedd i drefnu a sefydlu yr holl gymdeithas, a gosod pob un o'r lleill yn ei briodol sefyllfa a'i swydd; ac nid oedd un o honynt i fyned i swydd a chylch y llall; a phob un yn anymddibynol yn ei gylch ei hun, fel nad allai yr hwn oedd uwchaf fyned i gylch un arall, yn ol ei ewyllys ei hun: felly yr oedd pob un yn dduw yn ei gylch ei hun, ac i dderbyn addoliad oddi wrth ddynion am y gwasanaeth a weinyddai yn y cylch hwnw. Fel hyn y meddylir i'r athrawiaeth o amryw-dduwiau hanfodi ar y cyntaf, pa rai sydd yn aneirif mewn rhifedi, ac yn amrywiol nid yn unig mewn enwau, ond hefyd mewn priodoliaethau, cynneddfau, a gweithredoedd, er eu tebygolrwydd mewn amryw bethau i'w gilydd yn mhob gwlad.

Gan y bernid fod yr îs-dduwiau hyn yn dyfod i breswylio ar y ddaear mewn pethau neu fodau, nid yw yn annhebyg nad mewn gwroniaid *(heroes)* y tybiwyd iddynt breswylio gyntaf, ac mai hwy a gydnabyddwyd gyntaf yn dduwiau ar y ddaear; o blegid yr oedd preswyliad y rhai hyn ynddynt yn eu galluogi i wneuthur gorchestion o haelioni, mewn sefydlu teyrnasoedd, adeiladu dinasoedd, a dwyn gwaredigaethau, neu weini barnedigaethau, &c. Pan y byddai marw y gwroniaid hyn, golygent fod yr ysbrydion oedd ynddynt yn myned i breswylio wedi hyny i rai o'r bodau uwch ben, sef yr haul, y lleuad, neu rai o'r sêr, a'u bod oddi yno yn tywallt eu heffeithiau haelionus a grymus ar y ddaear: fel y daeth y rhai hyn yn wrthddrychau o'u mawrhad a'u haddoliad, fel preswylfëydd y duwiau.

Ni ellir meddwl fod y pethau hyn ar y cyntaf yn briodol dduwiau, ond arwydd-luniau *(hieroglyphics)*, megys lluaws o bethau eraill, i osod allan fodoliaeth, mawredd, priodoliaethau, a chynneddfau y Bod goruchaf, neu yn hytrach yr îs-dduwiau a olygent fod yn llywyddo y byd. Ond yn fuan suddodd y bobl gyffredin i'r fath dywyllwch ac anwybodaeth am y Bod goruchaf, a'r îs-dduwiau tybiol, fel y daethant yn hollol anwybodus o'r pethau yma, i aros, ymddiried, ac ymfoddloni yn eu harwyddion allanol, ac yn gwbl anhysbys o'u hystyr cyntefig.

Nid oedd i'r cyfundraith eilunaddoliaeth ond dechreuad bychan, dim mwy na dychymmygu îs-dduwiau, heb wadu y Bod goruchaf, na thynu dim oddi wrtho, ond ei ragluniaeth, a chodi i fynu arwydd-luniau o ddyfais ddynol, trwy ba rai yr oedd y bodau hyn i gael eu cydnabod a'u haddoli. Eithr gwelodd yr offeiriaid a'r blaenoriaid dyfeis-ddrwg yn fuan fod eu parch, eu helw, a'u mawrhad hwy gyda'r bobl yn ymddibynu ar eu hanwybodaeth o

ystyr cyntefig yr arwyddion hyn, ac o ddechreuad eu cyfundraith, yn nghyd âg ar eu sêl dywyll a phenboeth dros eu defodau allanol; felly darfu iddynt wneuthur pob ymdrechiad, trwy bob twyll a chyfrwysdra, i chwanegu y rhai hyn, ac arwain y werin yn mhellach bellach i bob tywyllwch a choegddefodau.

Y mae yn lled debyg mai Noah a'i feibion, yn nghyd â'u gwaredigaeth yn yr arch, oedd y pethau blaenaf a osodwyd i fynu yn wrthddrychau eilunaddoliaeth gan y rhan fwyaf, os nid pawb, o genhedloedd y ddaear; canys tybient yn ddiau fod rhai o'r bodau anweledig ynddynt yn eu galluogi i wneud yr hyn a wnaethant. Pa bryd y dechreuwyd eilunaddoliaeth sydd anadnabyddus; eithr y mae yn sicr ei fod er mor foreu â dyddiau Abraham, canys dywed yr ysgrythyr fod ei dadau yn gwasanaethu duwiau y cenhedloedd; a dywedir yn mhummed llyfr Judith i Abraham gael ei erlid allan o Ur y Caldeaid, ac iddo ffoi i Mesopotamia, o achos ei fod yn proffesu mai un gwir a bywiol Dduw oedd yn bod: ac â hyn y cyduna amryw hanesion Iuddewig. Lle y gwelir fod eilunaddoliaeth yn uchel yn Caldea tua dechreu y pummed canrif ar ol y diluw; pa faint o amser cyn hyny y dechreuodd, sydd anadnabyddus. Ond er fod eilunaddoliaeth fel hyn wedi dechreu yn foreu yn Caldea a'i hamgylchoedd—yn benaf yn mhlith hiliogaeth Cam—etto ni ddaeth i orchuddio yr holl genhedloedd ond yn raddol; ac y mae yn sicr fod gwybodaeth o'r gwir a'r bywiol Dduw wedi aros yn hir yn mysg amryw deuluoedd heblaw teulu Abraham, megys ei gwelir gyda Melchisedec, Job a'i gyfeillion, Jethro, Baalam, ac amryw eraill, y rhai a gyflwynent addoliad syml iddo yn ol y dadguddiad oedd ganddynt am dano.

Y duwiau a berchid gan y Rhufeiniaid yn amser dyfodiad yr Arglwydd Iesu i wisgo cnawd, oeddynt gan mwyaf yr un â'r rhai a addolid gan y Groegiaid; a dywedir gan Hesiod fod eu rhifedi tua deng mil ar hugain. Y blaenaf yn eu plith oedd Jupiter, yr hwn a fernir oedd yr un â Japheth, mab Noah, a thad y Groegiaid. Cymmerai y senedd Rufeinig arni edrych i mewn i deilyngdod duwiau pob cenedl a ddarostyngid ganddynt; ac os caid hwy yn deilwng, cofrestrid hwy fel y cyfryw, a rhoddid cyflawn ryddid i'r neb a ewyllysiai i'w haddoli yn y brif-ddinas. A dywedir mai am na ddaeth neb dros Iesu Grist i ymofyn am gymmeradwyaeth y senedd, ac i'w gofrestru yn Rhufain, y codwyd yr erledigaeth gyntaf yn erbyn ei ganlynwyr yn y brif-ddinas, a lleoedd eraill yn yr amherodraeth.

Addolai y Persiaid a'r Mediaid yr elfen dân yn benaf, fel y cadwent dânau yn oleuedig yn wastadol ddydd a nos yn eu lleoedd addoliad, wrth ba un y cyflawnent eu gwasanaeth crefyddol. Bernir gan rai i'r grefydd hon gael ei dechreu gan un a elwir Zoroaster; ond gyda mwy o debygolrwydd i wir y dywedir mai oddi wrth y Magiaid—yr enw yn ol pa un ei gelwir—y cafodd ei dechreuad, cyn codiad i fynu y cyfrwys-ddyn hwnw, eithr iddo ef wneud rhai cyfnewidiadau ynddi. Gwel tudal. 289, cyf. I. o'r hanes hwn. Credai y Magiaid cyn ei amser ef fod y cyfan yn y byd hwn yn tarddu oddi wrth

ddwy egwyddor fawr dragywyddol, un yn berffaith dda, o'r hon y deilliai pob daioni, ac a elwid ganddynt yn oleuni, a'r llall yn hollol ddrwg, o ba un y deilliai yr holl ddrygau sydd yn y byd, a hi a alwent yn dywyllwch. Eithr wedi undeb Zoroaster â hwy, efe a'u dysgodd i gredu mewn un Bod, anfeidrol mewn gallu, doethineb, a daioni, yr hwn a alwai yn Dduw Goruchaf; a'r hwn a ddywedai iddo roddi bod i fod arall ychydig islaw iddo ei hun, ag oedd yn berffaith dda; ac iddo ef y perthynai creadigaeth y byd hwn a'i lywodraeth; ac yr oedd pob peth a wnaeth yn dda, fel ei galwai yn angel da, neu yn angel y goleuni; ac o hono y deilliai pob daioni. Ond fod bod arall, a alwai yn angel y tywyllwch, yr hwn a ddywedai oedd yr achos o bob drygau ar y ddaear; ei fod heb ei greu gan neb, ond wedi deilliaw yn naturiol, yn gyferbyniol i'r un da, fel y deilliai cysgod oddi wrth sylwedd corphorol: ac mai oddi wrth y ddau hyn y tarddai y cymmysgedd o dda a drwg a welir ac a deimlir yn y byd hwn. Fod y ddau hyn mewn ymdrech gorchestol yn erbyn eu gilydd yn barhaus; ac mor bell ag y mae yr angel da yn llwyddo i orchfygu y llall, y mae daioni yn llwyddo; ac mor bell ag y mae yr un drwg yn llwyddo, y mae drygau yn amlhau: felly y parhant hyd ddiwedd amser. Ond yn niwedd amser, y bydd i'r da lwyddo, a llwyr orchfygu yr un drwg, a'i chwyrndaflu ef a'i holl bleidwyr i le o boenau; yna y bydd dedwyddwch digymmysg yn holl lywodraeth angel y goleuni am oesau diderfyn. Yr unig ddefodau a sefydlid yn eu plith oedd, cynneu tân, fel arwydd o'r haul, ffynnon goleuni, am y tybient mai yno y preswyliai yr angel da yn benaf. Herwydd ei bod yn anhawdd i gadw tân yn nghynneu bob amser, yn wyneb gwyntoedd a thymhestloedd, ar y mynyddau a'r meusydd, lle yr oedd ar y cyntaf gan y Magiaid, darfu i Zoroaster ddysgu iddynt i adeiladu temlau harddwych, i'w gadw bob amser yn oleuedig. Dywedir fod ei ddyfeisiau yn ddyfnion, ei lwyddiant a'i barch yn fawr, a'i enw a'i goffadwriaeth yn enwog yn mhlith y Magiaid hyd heddyw. Gelwir yn eu plith y Bod goruchaf wrth yr enw MYTHIA, a'r angel da wrth yr enw ŒROMESDES, a'r un drwg wrth yr enw ARIMAN, hyd heddyw.

Y mae yn eglur y cyflawnai yr holl genhedloedd eu haddoliad ar y cyntaf ar y meusydd agored, neu ar benau y mynyddoedd, ac mewn llwyni cauadfrig; ond pa amser y dechreuasant adeiladu temlau, sydd ansicr. Bernir gan rai mai wedi amser Solomon, ac mai y deml honno yn Jerusalem oedd y gyntaf a adeiladwyd at wasanaeth crefyddol. Beth bynag am hyny, mae yn eglur fod yn mysg yr holl genhedloedd, agos, demlau harddwych a drudfawr wedi eu hadeiladu cyn dyfodiad Crist yn y cnawd, ac yn cael eu cyssegru i'r gwasanaeth gyda llawer o ddefodau rhwysgfawr, gan feddwl fod y duwiau yn dyfod i breswylio ynddynt; ac i'r dyben o'u hennill i hyny, gwnaent eu harddu â phob cywreinwaith a defnyddiau gwerthfawr a fedrent gael gafael ynddynt. Yn nheml Belus yn Babilon, yr oedd y delwau oll, a'r holl ddodrefn, a llestri y gwasanaeth i gyd, yn aur dilin, yn werth un miliwn ar hugain o bunnau o'n harian ni, pa rai a yspeiliwyd oll gan Xerxes, brenin y

Mediaid a'r Persiaid. Teml fawr Diana yn Ephesus oedd un o ryfeddodau y byd. Yr oedd yn 425 o droedfeddi o hyd, ac yn 220 o droedfeddi o led; yn sefyll ar 107 o golofnau mynor, yn 60 troedfedd o uchder bob un; yr hon y buwyd 250 o flynyddau yn ei hadeiladu gan holl Asia, ar draul y cyffredin. Yr oedd i'r holl demlau leoedd dirgel, i'r rhai nid âi neb ond yr offeiriaid; a lleoedd cyhoeddus yn perthyn i'r bobl yn gyffredin; ac yr oeddynt oll wedi eu haddurno âg arwyddluniau y duwiau, i ba rai yr oeddynt yn gyssegredig. Yr oedd offeiriaid a gwahanol swyddwyr eraill yn perthyn i bob teml; ac yn mhlith y rhai hyn yr oedd gwahanol raddau, hyd yr archoffeiriaid, i ba rai y perthynai y dirgelwch mwyaf, ac yn mha rai y rhoddai y bobl eu cred a'u hymddiried yn benaf, ac a ystyrid y sancteiddiaf, gan y bernid fod mwy o gymdeithas rhyngddynt a'r duwiau na neb eraill; a byddent yn gyffredin y cyfoethocaf mewn golud o holl drigolion y ddaear.

Amrywiai yr aberthau a offrymid i'r duwiau yn y naill wlad a'r llall, a'r naill amser a'r llall, ac i'r naill dduw a'r llall, yn nghyd â'r dull yn mha un y cyflawnent eu gwasanaeth crefyddol. Mewn rhai manau, byddai llysiau y meusydd, megys ŷd a blodau, a ffrwythau coedydd, megys gwin, olew, &c., yn cael eu hoffrymu. Ond golygai yr holl genhedloedd fod aberthau gwaedlyd yn angenrheidiol er symmud ymaith yr hyn a ystyrient yn bechod, ac i heddychu y duwiau. Pan y byddai creadur byw yn cael ei ddwyn at yr allor i'w ladd, anfonid un o amgylch i gyhoeddi yr hyn oedd yn cymmeryd lle, ac i annog y bobl i weddio ar eu duw am lwyddiant ar y gwaith; a byddai y creadur wedi ei wisgo âg ysnodenau, a'i oreuro yn harddwych, i'w tyb hwy. Byddai y cantorion yn canu âg offer cerdd o'i flaen; ac mor fuan ag ei dygid at yr allor, gweddiai yr offeiriaid ar y duw hwnw am faddeu i'r bobl, a derbyn eu haberth. Gorchymynid i bob dyn halogedig ymadael o'r lle, ac yna lleddid ef, a theflid olew a gwin ac amryw bethau eraill arno er ei berarogli. Gwedi hyn agorid ef, ac edrychai yr archoffeiriad ei rannau tumewnol oll; o blegid dywedent mai trwy ryw arwyddion yr oeddynt yn deall meddwl eu duwiau; ac nid oedd un creadur anafus yn dderbyniol. Yn ol hyn llosgent ran o hono, ac ar y rhan arall gwleddai yr aberthwyr, pan y cyflawnid pob gloddest a llygredigaeth. Arferent yn gyffredin ganu âg offer cerdd ac â llafar yn eu haddoliadau, yn gystal à gweddio yn eu hymarferiadau cyhoeddus. Ac nid anfynych y byddai creaduriaid rhesymol yn aberthau gwaedlyd gan y rhan fwyaf o'r holl genhedloedd.

Ystyrid cyfundraith eilunaddoliaeth yn ddwy ran, sef un ddirgelaidd, ac un gyhoeddus. Yr un gyhoeddus a berthynai i bawb o'r addolwyr yn gyffredin, a'r un ddirgelaidd i rai neillduol a fyddent wedi eu dysgu iddi trwy hir brofiad a llawer o ddefodau, yr hyn a elwid *dirgelwch y duwiau*. Gwedi i un gael ei ddwyn i fynu i'r dirgelwch, a'i dderbyn fel un teilwng, nid oedd i ddadguddio yr hyn oedd ynddo i neb, dan y boen o'i osod i farwolaeth yn ddiarbed. Yr oedd i hwn ddwy radd, sef y dirgelwch lleiaf, a'r un mwyaf. I'r gradd uchaf nid oedd neb i'w derbyn ond offeiriaid teilwng a ffyddlon, a

fyddai wedi eu cymhwyso i hyny trwy lawer o ddysgeidiaeth yn y gelfyddyd; ac ar fod yn hwn yr ymddibynai effeithioldeb eu gweinidogaeth, a sancteiddrwydd eu cymmeriad, i raddau annhraethol. Llawer a ddywedir am y dirgelwch hwn, o ran ei gynnwysiad, yr amcan o hono, a'r effeithioldeb cydfynedol âg ef. Ond geilw yr apostol ef yn *weithredoedd anffrwythlon y tywyllwch;* a diammau mai o hono ef y tarddai holl dwyll, grym, a chynnaliaeth eilunaddoliaeth yn mhob oes. Canys oddi wrth yr hyn a ymarddelwai yr offeiriaid oedd yn cymmeryd lle rhyngddynt a'r duwiau yn y dirgelwch hwn, argreffid yn ngolwg y werinos ryw sancteiddrwydd anghyffredin ar eu cymmeriad, a rhoddid parch ac awdurdod anarferol i'w swydd a'u gweinidogaeth, er hudo y bobl i ymostwng i'r defodau gosodedig ganddynt.

Y mae yn deilwng o'n sylw nad oes un cyfundraith crefyddol wedi bod ar y ddaear, pan wedi dirywio oddi wrth ei egwyddorion dechreuol, nad yw ei flaenoriaid cyfrwysgall—elw, parch, a mawrhad pa rai a ymddibynai ar gynnaliaeth i fynu y cyfundraith hwnw—wedi ymarddelwi i ryw ddirgelwch, neu reddf ddirgel-drosglwyddedig, ar ba un yr ymddibynai effeithioldeb y cyfundraith cynnaliedig ganddynt. Ni phroffesid un dirgelwch i gyfundraith eilunaddoliaeth yn ei symledd cyntefig; ond wedi i'r offeiriaid gael eu llenwi âg arwydd o barch, elw bydol, a llywodraeth ar gydwybodau dynion, a gorlwytho y bobl â defodau rhodresgar, yr oedd yn rhaid dyfeisio y dirgelwch hwn, er rhoddi effeithioldeb yn y cyfan. Felly, yr un modd, blaenoriaid yr Iuddewon yn nyddiau ein Hiachawdwr, pan wedi colli presennoldeb yr Arglwydd, a dwyn i mewn luaws o ddefodau o'r eiddynt eu hunain, a ymarddelwent i ryw reddf ddirgel a drosglwyddid iddynt, meddent, oddi wrth Moses, neu rai o'r prophwydi, i wybod ac egluro meddwl Duw, yr hwn a elwid ganddynt yn ddirgel-draddodiad perthynol iddynt eu hunain, ar y meddiant o ba un yr ymddibynai effeithioldeb eu swydd, a llwyddiant eu gweinidogaeth.

Hefyd, wedi dirywiad y grefydd Gristionogol, haerir fod rhyw ddirgelwch sancteiddiol yn gorphwys gyda'r tad sanctaidd o Rufain, yr hwn, pe na bai ond yr anghenfil mwyaf ar agwedd dyn, etto a ddywedir ei fod wedi derbyn greddf ddirgel oddi wrth yr apostolion, ac yn drosglwyddedig o'r naill i'r llall yn olynol, er sancteiddio pob peth agos a gyffyrddo âg ef. Trwy y dirgelwch hwn dywedir ei fod yn rhoddi sancteiddiad i'r oll a ddywedo, a wnelo, ac a gyffyrddo âg ef, ac yn ei gyfranu i ryw raddau i bob person y rhoddo ei law arno, er ei gymhwyso i waith y weinidogaeth; pan y mae yn mhob ystyr arall yr anghymhwysaf iddi. Yr un peth ydyw y dawn, neu y dirgelwch a ddywedir fod esgobion Lloegr wedi ei dderbyn ryw amser yn ol oddi wrth esgobion Rhufain, ag sydd yn aros yn barhaus yn esgobion y deyrnas hon; fel y maent yn medru cyfranu rhyw sancteiddiad i leoedd addoliad, a thir claddedigaeth y marw, a'i roddi mewn rhyw raddau i bob dyn y gosodont eu dwylaw arno; fel nad oes neb yn gymmwys i bregethu yr efengyl yn eu haddoldai, oddi eithr eu bod wedi eu derbyn trwy law rhyw esgob, bydded eu duwioldeb,

eu cymhwysder, a'u dwyfol anfoniad i'r weinidogaeth, mor eglur ag y byddo. Yr hyn a ddengys yn eglur fod pleidwyr pob un o'r cyfundraethau hyn yn gosod effeithioldeb eu trefniad, a nodweddiad cymmeradwyol eu gweinidogion yn ngolwg y werin, i ymddibynu ar y dawn dirgel hwn; pan mewn gwirionedd nad yw ond yr un peth â dirgelwch y paganiaid, a dyfais gythreulig yn ei dechreuad, i gynnal i fynu barch a chyfoeth dynion gyda'r hyn nad arddelai y nefoedd mo honynt ynddo. Pan y mae yn eglur i bob dyn rhesymol, fod sancteiddrwydd cymmeriad pob dyn, ei gymhwysder a'i lwyddiant gweinidogaethol, os bydd yn y sefyllfa honno, yn ymddibynu ar ddylanwadau uniongyrchol Ysbryd Duw ar ei enaid ei hun, ac nid trwy law neb arall, a chyd-agweddiad ei feddwl â gair Duw, a'i barodrwydd a'i ffyddlondeb i wneuthur ei ddyledswydd er lleshau ei gyd-greaduriaid.

Nid oedd yn holl gyfundraith eilunaddoliaeth ddim a dueddai yn y mesur lleiaf i ddiwygio y byd, nac yn gynhyrfiad lleiaf i rinwedd, nac yn annogaeth mewn un ystyr i fywyd sanctaidd a defnyddiol, nac yn arwain i gyssur a heddwch personol, teuluaidd, a gwladol; ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Os edrychir ar y duwiau a'r duwiesau a berchid yn mhlith yr holl genhedloedd, nid oedd un o honynt yn cael ei osod allan fel yn enwog am dduwioldeb, gwir rinwedd, a dyngarwch; ond, yn groes i hyny, yn noddwyr, yn llywyddion, a llunwyr creulonderau, gormes, drygioni, a phob llygredigaeth yn gyffredin yn mhob lle. Os edrychir ar eu hoffeiriaid a'u prif weinidogion, pa rai a broffesent eu bod yn gwybod dirgelwch y duwiau, yr oeddynt bob amser yn blaenori mewn pob ysgelerder, twyll, a hocced, ac yn llawn ymegniadau i arwain y werin yn ddyfnach ddyfnach i dywyllwch, caethder, a thrueni, ac yn brif bleidwyr i bob drwg—yn dysgu y bobl i gredu, os cyfranent yn helaeth o'u meddiannau at gynnal addoliad yr eilunod, ac os byddent yn astud a ffyddlon yn y cyflawniad o'u defodau, fod iddynt gyflawn ryddid i ddilyn pob oferedd a bryntni, a chyflawni unrhyw drachwant y tueddid hwy iddo. Os edrychir i'w haddoldai, neu eu lleoedd cyssegredig, wele hwynt yn westdai gloddest, yn olygfëydd o alanasdra, ac yn llochesau pob ffieidd-dra. Ac os edrychir ar eu cyflawniadau, a elwid ganddynt yn grefyddol, nid oeddynt ond defodau coegaidd ac arferion gwarthus a phechadurus, ac yn fynych yn llawn creulonder, trwy fod creaduriaid rhesymol yn cael eu haberthu er eu gwasanaeth ar allorau y duwiau, ar wahanol achosion—yn enwedig ar eu huchel-wyliau, pa rai a gedwid yn fynych oblegid amldra y duwiau, ac am fod eu cadw yn fawr er elw yr offeiriaid. Yr oedd y defodau yr amserau hyn i amryw o'r duwiau, megys i Bacchus, Cupid, Venus, mam y duwiau, &c. mor ffiaidd, fel na oddefid hwy i gael eu cyflawni o fewn y prif ddinasoedd, hyd yn nod gan y swyddogion paganaidd eu hunain.* Rhydd yr apostol ddarluniad cywir ac

* Rollin's Ancient Hist. vol. x.

eglur o honynt yn y bennod gyntaf o'i lythyr at y Rhufeiniaid, ac mewn ychydig eiriau yn ei lythyr at yr Ephesiaid, pan y dywed,—"Na fydded i chwi gymdeithas â gweithredoedd anffrwythlon y tywyllwch; canys brwnt yw adrodd yr hyn a wneir ganddynt yn y tywyllwch." A'r darluniad uchod y cyduna yr hyn a ddywed Lucian, hanesydd credadwy yn mhlith y Groegiaid, a Juvenal a Persius, ysgrifenwyr adnabyddus yn mhlith y Lladinwyr, pa rai a roddant hanes alaethus am sefyllfa grefyddol y paganiaid, yn nghyd â moesgarwch a rhinwedd yn mhlith hyd yn nod y rhai mwyaf deallus a gwareiddiol o honynt tua dechreuad yr oes Gristionogol.

Wrth weled llygredigaeth crefydd yr amryw dduwiau, y mae yn amlwg fod llawer o'r dynion mwyaf dysgedig, a'r anianyddion mwyaf deallus, wedi dyfod i ammau ei geirwiredd, a chwedi myned yn annuwiaid yn eu barn tu ag amser ymddangosiad ein Hiachawdwr ar y ddaear. Fel y dywed Mr. Gibbon am y Groegiaid a'r Rhufeiniaid,—"Y werinos gyffredin a ystyrient y naill gyfundraith crefyddol fel y llall yn wirionedd; yr athronwyr dysgedig a ystyrient y naill fel y llall yn dwyll; a'r llywyddion gwladol a ystyrient y naill fel y llall yn wasanaethgar iddynt hwy i gyrhaedd eu hamcanion hunan-geisiol."

Gwedi cymmeryd golwg fer fel hyn ar grefydd y cenhedloedd, nid anmhriodol a fyddai i ni sylwi ychydig ar y ddysgeidiaeth a goleddid yn eu plith; canys bu llawer a wnelai yr eglwys Gristionogol â hon hefyd. Dosranid y ddysgeidiaeth hon i ddwy gangen yn gyffredin tua dechreuad yr oes Gristionogol, pa rai a elwid yn DDWYREINOLIAETH a GROEGIAETH. Y flaenaf ydoedd yr hon a ddysgid ac a goleddid yn Persia, Caldea, Syria, Arabia, yr India, a'r Aipht. Er eu bod yn gwahaniaethu mewn enwau, ac mewn rhai pyngciau, yn y naill wlad a'r llall, etto meddylir eu bod yn un yn eu hegwyddorion yn mhob un o'r gwledydd uchod, ac nad oeddynt yn gwahaniaethu nemawr mewn rhai pethau oddi wrth yr hyn a ddywedwyd yn barod am yr athrawiaeth a achosodd yr amryw dduwiau yn Caldea.

Ond sylwir yma ar y gangen honno o ddysgeidiaeth y dwyrain, a elwir y *Gnosis*, â pha un y bu a wnelai Cristionogaeth yn y dechreuad yn benaf, a'r hon a gynnwys rai o brif egwyddorion dysgeidiaeth yr holl wledydd uchod. Gelwir hi *Gnosis*, am yr ymhonai ei phleidwyr i fwy o wybodaeth grefyddol na'r cyffredin o ddynion, ac oddi wrthynt hwy y cymmerodd y blaid foreuol honno o gyfeiliornwyr yn mhlith y Cristionogion yr enw *Gnostiaid*. Golygai y rhai hyn fod un Nattur neu Fod dwyfol a deallol, yn anfeidrol mewn doethineb a daioni, ac yn dragywyddol mewn dedwyddwch, yr hwn a ddarlunient fel yn mhell uwchlaw amgyffred neb creaduriaid marwol, ac a'i galwent BUTHOS. Yr hwn a ddywedent oedd yn preswylio mewn rhyw ëangder diderfyn o oleuni pur a dysglaer, a elwid ganddynt *Pleorma*, yn ol yr iaith Roegaidd, ac a arwydda Cyflawnder; ond ni chaniattaent fod nemawr neu ddim a wnelai â'r byd hwn, mewn creu, cynnal, na llywodraethu. Ond gyda golwg ar greadigaeth y byd hwn, ei gynnaliaeth

a'i lywodraeth, yr oeddynt yn ymddyrysu, yn ymwylltio mewn dychymmygion, ac yn anghydunol yn eu barnau â'u gilydd.

Y rhan fwyaf o bleidwyr y ddysgeidiaeth hon, oddi eithr y rhai a broffesent y ddwy egwyddor dragywyddol, oeddynt yn barnu fod rhyw ddefnydd gweledig *(matter)* tragywyddol, o ba un y lluniwyd y pethau gweledig, yn nghyd â chyrph dynion ac anifeiliaid, yr hwn oedd yn hanfodol a naturiol ddrwg, a'r gwreiddiol achos o'r holl ddrygau sydd yn y byd. Dywedent fod y defnydd hwn yn bodoli ar y cyntaf o'r tu allan i'r Pleorma, yn ysgogi ac yn ymsymmud yn un clamp annhrefnus ac afluniaidd, trwy ryw hunangynhyrfiad afreolaidd: ond, rywfodd, i'r Buthos tragywyddol yn y Pleorma roddi effeithiad i ddau fod îs-radd iddo ei hun, o wahanol ryw, yn wrryw a benyw, ac i'r rhai hyn ddwyn i fod luoedd o'r un fath fodau â hwy eu hunain; a'r blaenaf yn mhlith pa rai a elwir ganddynt DEMIURGUS, yr hwn a gynhyrfwyd, rywfodd, i fyned at y clamp defnydd afluniaidd, a'i lunio i'r drefn a'r dull y mae y byd hwn ynddo yn bresennol. Gwedi iddo ffurfio corph dynol o'r defnyddiau ag oedd yn naturiol a chwbl ddrwg, iddo gymmeryd, rywfodd, ran o'r nattur ddwyfol a breswyliai yn Pleorma, a ffurfio ei enaid, a'i uno â'r corph hwn, yr hon enaid oedd yn naturiol dda. Fel hyn, golygent fod dyn wedi ei wneuthur o ddwy ran, a dau ryw, un yn ysbrydol a naturiol dda, a'r llall yn ddaearol a naturiol ddrwg. Yn mhellach, dywedent i'r Demiurgus hwn wrthryfela yn erbyn y Buthos—pa un ai cyn ffurfio y byd, ai gwedi hyny, nid ydynt yn cydweled—ac iddo chwennychu gosod ei hun yn ben, a'i ddifeddiannu ef hyd yn nod o'i Bleorma; a dygodd y byd hwn yn gynghreiriol iddo: eithr ni ddarfu i'r eneidiau wneuthur hyny o'u bodd, ond fel y darostyngwyd hwy gan y corph, a thrwy effeithiad Demiurgus arnynt. Fod yr eneidiau yn y byd yma mewn caethiwed a thrueni, yn eu perthynas â'r cyrph drygionus naturiol, a than lywodraeth Demiurgus wrthryfelgar: ac mor bell ag y maent hwy yn cyduno â chynhyrfiadau a thueddiadau drwg y rhai hyn, y maent i'w beio; ond mor bell ag y maent yn eu gwrthsefyll, y maent yn rhinweddol. Fod y Buthos tragywyddol yn anfon allan amryw gennadau o'r Pleorma, o dosturi at eneidiau dynion sydd o'r un nattur âg ef ei hun, i gynnyg iddynt heddwch, a dysgu iddynt ffordd o waredigaeth; ac os gwrandawent arnynt, caent eu gwaredu o'r cyrph, a'u dwyn atto ef ei hun i'r trigfanau dedwydd yn y Pleorma. Fod y Demiurgus yntau yn gwneud a allai i ddwyn a chadw yr eneidiau yn ei wasanaeth, ac yn eu caethder a'u trueni; ac yn erlid ac yn lladd y cennadau a anfonid i'w hadferu. Eithr yn y diwedd y gwna y Buthos ei lwyr orchfygu, a hollol waredu yr eneidiau dylifiadol oddi wrtho, o'u holl drueni a'u caethiwed, gan eu dwyn i drigfanau y goleuni pur atto ei hun, lle y byddant dros byth mewn dedwyddwch a thawelwch perffaith; pan y bydd iddo lwyr ddymchwelyd y greadigaeth hon, a ddaeth i fod trwy effeithiad Demiurgus i'w sefyllfa ddechreuol, er dinystr tragywyddol i'w gwneuthurwr.

Dyma brif egwyddorion eu dysg o barthed i grefydd; ond yr oedd y casgliadau defnyddiol a wnaent oddi wrth y rhai hyn yn wahanol iawn. Rhai o honynt a farnent oddi wrth hyn, y dylent farweiddio eu cyrph, trwy bob moddion, a'u dwyn yn ddarostyngedig i'r eneidiau, a'u dinystrio, fel carcharau, er gollyngdod i'w heneidiau; a bod yn ddiofal am bob peth a berthynai i'w cyrph; ond arfer pob moddion i ddyrchafu eu heneidiau yn uwch uwch i gymdeithas â'r ysbrydoedd anweledig a breswylient Pleorma. Oddi wrth yr egwyddorion hyn y cododd Ariaeth yn yr eglwys Gristionogol; canys nid oedd ei phleidwyr yn golygu am Dduwdod Crist yn fwy nag un o'r *Aionau*—yr enw wrth ba un y gelwid yr ysbrydoedd a breswylient Pleorma—a lluoedd o olygiadau o'r cyffelyb yn mhlith y Cristionogion cyntefig; ac oddi yma y deilliodd yr heidiau meudwyod a monachod yn mhlith y Cristionogion y dyddiau gynt. Y casgliad a dynai eraill oddi wrth yr egwyddorion uchod, oedd, gan mai yr enaid yn unig a berthynai i'r Duwdod, ac mai am hwnw yr ymofynai, a bod y corph yn hanfodol naturiol ac anfeddyginiaethol ddrwg, mai y peth goreu a wnaent oedd boddhau y corph yn yr oll a chwennychai, gan nad oedd un gofyn ar ei ol wedi ymadawiad yr ysbryd. Mewn canlyniad ymroddent i bob pleser, gloddest, ac oferedd naturiol yn ddiymattal, gan ddywedyd mai i hyny yr oedd eu cyrph yn dda; a dywedent mai athrawiaeth pleidwyr Demiurgus oedd yr un wrthwynebol i hyny.

Ond y mae genym fwy o hysbysrwydd am yr ail gangen o ddysgeidiaeth a enwyd, sef Groegiaeth. Hon oedd y ddysgeidiaeth fwyaf cyffredin yn yr holl amherodraeth Rufeinig yn amser ymddangosiad ein Harglwydd yn y cnawd, fel nad ystyrid neb o gymmeriad ar nid oedd i ryw raddau yn adnabyddus o honi. Er cael golwg fwy eglur arni, y mae yn rhaid i ni ei rhanu o dan yr enwau canlynol. Yr un flaenaf a enwir oedd EPICURIAETH, yr hon, o ran ei hegwyddorion, sydd yn gwadu y Bod o Dduw, ac ysbryd-oedd anweledig, a sefyllfa o wobr a chosp mewn un byd ar ol hwn. Er, fe allai, fod yn anhawdd cael un yn mysg pleidwyr y ddysgeidiaeth uchod a ddywedai, mewn geiriau eglur, nad oedd un Duw; ond gosodent allan yr hwn a dybient fod felly, fel un mewn rhyw sefyllfa na wyddai ddim am greadigaeth y byd hwn, na'i gynnaliaeth, na'i lywodraeth, ac fel un nad oedd yn sylwi ar unrhyw amgylchiad a berthynai i neb creaduriaid ar y ddaear. Dywedent i'r byd hwn ddyfod i fod trwy ryw ymgynhyrfiad mewn mân-ronynau o ddefnyddiau ag oedd yn dragywyddol mewn bod, a dygwydd ymgyfarfod â'u gilydd, ac ymuno yn y drefn a'r dull y maent ynddo yn bresennol; ac mai yr un dygwyddiad a damwain sydd yn eu cynnal a'u llywodraethu yn barhaus fel y maent. Hefyd haerant fod dedwyddwch pob dyn yn gynnwysedig mewn mwynhad o gymmaint o bleser a chyfoeth ag a allo ei gael; a'i unig rinwedd ydyw gwybod pa bleser sydd gymmwysaf iddo fwynhau, ac ymgyfranogi o hono, yn y fath fodd ag y gallo barhau hwyaf yn hyny. Yr oedd pleidwyr y dybiaeth hon yn dra lluosog y dyddiau

gynt yn mhlith y Rhufeiniaid, yn enwedig yn mhlith y rhai oedd lwyddiannus yn y byd; ac y mae lle mawr i ofni fod llawer yn mhob gwlad y dyddiau hyn yn lled debyg iddynt yn eu barn. Gyda golwg ar y rhai hyn y llefara ein Harglwydd ddammeg y gwr goludog, a goffëir gan Luc yr efengylwr.

Tra thebyg i'r rhai hyn oedd y blaid arall o ddysgedigion a elwir ACADEMICIAID, pa rai, er nad oeddynt yn gwadu un peth yn benderfynol, etto, oeddynt yn gosod allan bob peth yn amhëus ac yn ddadleuol, gan ddywedyd fod y gwirionedd am unrhyw fodau a phethau ysbrydol yn annichonadwy i gael gafael ynddo—yn cymmeryd arnynt fod bob amser yn ymofyn am yr hyn oedd wirionedd, eithr heb ddyfod yn benderfynol am un peth, nac i sefydlu wrth ba reol yr oeddynt yn meddwl dyfod o hyd iddo; a thrwy hyny yn byw yn gwbl benrydd, gan ymroddi i fwynhau pob pleser a chwennychai eu nattur lygredig, ag a allent ddyfod o hyd iddo.

Y ddysgeidiaeth a berthynai i ddosbarth lluosog o athronwyr eraill yn mhlith y cenhedloedd, oedd, PERIPATETICIAETH, pleidwyr pa un a addefent fod Duw, a bod ar ddynion rwymau i'w addoli; a bod rhinwedd a drwg yn bodoli yn mhlith dynolryw. Etto, yr egwyddorion a osodent allan, nid oedd ynddynt un tuedd i gynhyrfu nemawr neu ddim ar un dyn i garu y naill, nac i arswydo y llall. Aristotle, prif ddysgawdwr y cyfundraith hwn, a ddywedai fod y greadigaeth hon, fel rhyw beirianwaith, yn ysgogi o honi ei hun yn naturiol, ac nad oedd Duw ond fel rhyw dyn-lafn *(spring)* wedi rhoddi iddi yr ysgogiad blaenaf. Darluniai Dduw fel rhyw Fod coethedig, dyrchafedig, a goruchel, heb fod a wnelai â dim yn y byd hwn, ac nad oedd yn sylwi ar amgylchiadau, a'r hyn a wnelai dynion ar y ddaear—yn preswylio mewn rhyw sefyllfa ddedwyddol, ac yn ysgogi holl nattur, a hyny o angenrheidrwydd, yn fwy nag oddi ar un ewyllys a dewisiad ynddo. Nid yw yn eglur pa beth oedd golygiadau Aristotle a'i ganlynwyr am anfarwoldeb yr enaid, a sefyllfa dynion ar ol eu hymadawiad â'r byd hwn; canys traddodent eu meddyliau ar y pethau hyn mewn iaith mor dywyll, a thrwy y fath fwys-eiriau, fel pe na chwennychent i neb eu deall. Ond gan eu bod yn gwadu rhagluniaeth Duw tu ag at, a'i lywodraeth ar y byd, yn nghyd â bodoliaeth ysbrydoedd anweledig, nid allai fod nemawr o wahaniaeth rhyngddynt a'r Epicuriaid, ond mewn geiriau; ac y mae yn anhawdd meddwl pa beth a allent wneuthur yn chwaneg er dileu rhwymau moesol creaduriaid rhesymol.

Pleidwyr cyfundraith arall a elwir STOICIAETH, a briodolent raddau mwy o effeithioldeb a llywodraeth i Dduw yn y byd hwn, na dysgyblion Aristotle. Ni chyfyngent Dduwdod i'r byd uchod yn unig, i drefnu y nefoedd, a rhifo nifer y sêr, ond dysgent ei fod yn mhob lle trwy y bydysawd, yn ei fywioli, yn nattur ddirgel, weithgar, a threiddgar tân. Dywedent fod ei gyssylltiad fel hyn à'r greadigaeth yn tarddu oddi ar angenrheidrwydd a gorfodiaeth ei nattur, a bod hyd yn nod ewyllys Duw ei hun bob amser yn

gweithredu yn ddarostyngedig i'r hyn a alwent Tynghedfen; o ganlyniad nad allai fod yn weinyddwr cosp i'r beïus, nac yn rhoddwr gwobr i'r rhinweddol. Yr oedd eu cyfundraith yn amddifadu dynion o'u prif ogoniant, a phrif annogaeth i fywyd rhinweddol, trwy eu bod yn gwadu anfarwoldeb yr enaid, a sefyllfa o wobr a chosp yn y byd arall.

Eithr PLATONIAETH oedd y cyfundraith oedd yn dyfod yn nesaf at y gwirionedd o bob athronddysg a broffesid yn y dyddiau gynt. Plato, sylfaenydd hon, oedd anianiaethydd hynod ac enwog, a anwyd o deulu urddasol yn Athen, 430 o flynyddoedd cyn dechreu yr oes Gristionogol, ac a ddygwyd i fynu dan ofal yr hyglod Socrates, tad yr athronwyr, dan ofal yr hwn hefyd y dygwyd i fynu Aristotle, a llawer o'r doethion cyffelyb. Gwedi hyn ymdeithiodd trwy holl wledydd gwareiddiedig Europe, yna yr Aipht, a rhanau o Asia; pan y lluddiwyd ef i fyned i'r India gan ryfeloedd blin oedd yn y parthau hyny, er ceisio gwybodaeth gywir o bethau, yn enwedig o barthed i grefydd; a dychwelodd i Athen, lle y bu yn ben athraw yn athrofa yr Atheniaid hyd ei farwolaeth, 347 o flynyddoedd cyn ymddangosiad ein Hiachawdwr. Gan gymmaint ei awydd am wybodaeth, ymgyfeillachai â phob dynion, o bob plaid ac enwad, yn mhob lle yr âi iddo, a chwiliai bob ysgrifau a allai ddyfod o hyd iddynt; fel nad oes lle i ammau yr hyn a ddywedir am dano, sef ei fod wedi cyfeillachu â rhai o'r Iuddewon dysgedig, a gweled rhai o lyfrau, os nid y cyfan o'r Hen Destament. Canys llawer o'r Iuddewon oedd y pryd hwnw yn wasgaredig ar hyd y gwledydd y tramwyodd efe drwyddynt, y rhai yr oedd ganddynt eu hysgrifau sanctaidd yn mhob gwlad, yn yr iaith Roegaidd y pryd hwnw; ac ni ellir meddwl i ymofynydd mor awyddus am wybodaeth esgeuluso y cyfleusdra o chwilio y rhai yma: a daeth, o herwydd hyn, mae yn debyg, i gael ei alw yn Moses Athen. Cynnwysai y cyfundraith a osodai allan o barthed i grefydd, mai un gwir a bywiol Dduw goruchaf oedd, yr hwn oedd creawdwr, cynnalydd, a llywodraethwr pob peth; a'i fod yn un o nattur ysbrydol, yn berffaith mewn doethineb, cyfiawnder, a daioni. Fod dyn yn meddu ar enaid anfarwol, ac yn ddeiliad gwobr neu gosp mewn byd arall, yn ol fel y byddai ei ymddygiadau yn y byd hwn. Eithr yr oedd yn hynod o dywyll a chymmysglyd yn ei addefiad o holl-wybodaeth, holl-bresennoldeb, a holl-alluogrwydd Duw; ac addefai fod lluaws o îs-dduwiau, megys Socrates, ei athraw: a phriodolent iddynt deilyngdod o ryw fath o addoliad, gan roddi iddynt aberthau, er eu heddychu, pan y meddylient eu bod wedi eu hanfoddloni. Haerir gan rai nad oedd Plato yn credu yn y fath bethau â hyn, ond ei fod yn gwneud hyny mewn cydffurfiad âg arferion y gwledydd: eithr y mae yn rhy anhawdd i gredu fod dyn o'r fath ysbryd ag oedd efe, wedi dywedyd ac ysgrifenu dros, ac yn caniattâu arfer dim ond a gredai oedd wirionedd. Barnai mai y ffordd oreu i godi yr enaid i agosrwydd at Dduw, oedd trwy farweiddio y corph; a gosodai yn mhlith ei ddysgyblion luaws o reolau caeth yn nghylch bywioliaethu yn farweiddiedig i nattur, pa rai a gedwid yn fanwl ganddynt.

ECLECTICIAETH oedd gyfundraith arall a ddechreuwyd yn mhlith athronwyr cyn dechreu yr oes Gristionogol. Amlhaodd pleidwyr hon yn ddirfawr yn y dwyrain a'r gorllewin wedi dechreu yr athrofa glodfawr yn Alexandria; canys myfyrwyr a ddeuent yno o bob parth. Cynnwysai y cyfundraith brif egwyddorion Plato o barthed i grefydd, a'i reolau marweiddiedig; felly daeth i gael ei galw yn *Blatoniaeth Newydd*, er, mewn gwirionedd, ei bod yn gymmysgfa o ddysgeidiaeth y Dwyreinolion a'r Groegiaid. Canys prif egwyddorion y blaid hon oedd, fod y gwirionedd yn wasgaredig yn mhob cyfundraith, ac yn arferion pob cenedl, ac mai dyled dynion oedd chwilio am dano, yn mhob lle, ac yn mysg pob plaid o ddynion. Ni bu egwyddorion un cyfundraith mor ddinystriol i Gristionogaeth syml â hon, o ran athrawiaeth ac ymarferiad: o herwydd dysgodd y Cristionogion yn foreu iawn i fwyta pethau wedi eu haberthu i eilunod, ac i odinebu gyda defodau y Cenhedloedd; a symmudodd ymaith neillduolrwydd ac unigolrwyddd yr efengyl, fel eu hunig reol cred ac ymarferiad.

Oddi wrth y sylwadau byrion hyn ar sefyllfa ac agwedd yr holl genhedloedd cyn amser ymddangosiad ein Harglwydd Iesu yn y cnawd, gwelir yn amlwg fod dynolryw wedi cael llawn brofiad o'r oll a allai pob celfyddydau dynol wneuthur iddynt er eu hadferyd a'u diwygio. Canys wele yma y cyfreithwyr doethaf a llymaf, megys Solon, Draco, ac eraill, wedi gwneud eu goreu, a chrefydd wedi ei choethi i'r eithaf, ac athronyddiaeth wedi ei gwrteithio a'i threiddio i'r pen pellaf, etto yn annhraethol bell o roddi allan wir gymmeriad y Duw a'u gwnaeth, ac yn mhell o osod allan yn mha le y mae gwir ddedwyddwch i'w gael, a'r modd y mae dynion i'w fwynhau. Yr hyglod PYTHAGORAS, er ei holl ymresymiad dros anfarwoldeb yr enaid — ac, fe allai, y blaenaf a'r penaf a wnaeth hyny yn mhlith y cenhedloedd — sydd etto yn gadael y peth yn y fath dywyllwch, fel nad yw yn golygu fod yr enaid mwyaf rhinweddol yn gymmwys i un dedwyddwch, mwy na'i drosglwyddiad, wedi yr ymadawo âg un corph, i ryw gorph arall, ronyn gwell, hwyrach, na'r un y preswyliai ynddo o'r blaen. Er y proffesai rhai o honynt fod dedwyddwch dyn yn gynnwysedig mewn bod yn rhinweddol, etto, pe gofynid i'r doethaf o honynt yn mha beth y cynnwysid rhinwedd, byddent yn barod i ymwylltio ar hyd meusydd dychymmygion, ac ymddyrysu ar hyd llwybrau anghyssonderau diddiwedd; fel na byddem ronyn agosach i wybod pa le y mae dedwyddwch yn bodoli, nag oeddym ar y cyntaf, yn ol eu dilyn trwy eu holl ysgogiadau.

ARISTOTLE a ddywedai fod gwir rinwedd yn gynnwysedig mewn medrusrwydd i gyrhaedd llawnder o gyfoeth, iechyd, a golud y byd hwn; a gosodai i lawr, fel egwyddor safadwy yn mhlith ei ddysgyblion, mai heb gyflawnder o'r pethau hyn, nad oedd yn ddichonadwy i un dyn fod yn rhinweddol a dedwydd; o ganlyniad, fod y goreu a'r doethaf o ddynion yn rhwym o fod yn annedwydd mewn henaint, afiechyd, a thlodi. DIOGENES, y blaenaf a'r doethaf yn mhlith y Stoiciaid, a ddywedai mai henaint, afiechyd,

a thlodi, oedd y trueni mwyaf a allai un dyn ei gyfarfod. PLATO, Moses yr Atheniaid, a adawai ddynolryw, er ei holl wybodaeth, yn hollol dywyll am yr hyn oedd bechod, am drueni dyn, am ffordd ei waredigaeth, ac am adgyfodiad y meirw, a nattur gwir rinwedd. Eithr dywedai mai mewn doethineb, anrhydedd, cyfoeth, iechyd, a thynghedfen dda, yr oedd rhinwedd yn gynnwysedig yn gyfan; a phwy bynag a feddiannai y rhai hyn, ei fod yn sicr o fod yn ddyn dedwydd. ZENO a ddywedai fod rhinwedd yn gynnwysedig yn nghydraddoldeb dynolryw; ac y gwnai credu hyn ddyn yn ddedwydd. THALES, pan ofynwyd iddo pa beth a roddai y cynnaliaeth goreu i ddyn yn wyneb ei gystudd, a attebodd, gan ddywedyd, "mai gweled ei elyn mewn gwaeth sefyllfa nag ef ei hun." Yr Epicuriaid nid oedd ganddynt olwg ar ddim fel yn rhinwedd ac yn ddedwyddwch dyn, ond ei fod i gymmeryd byd da a helaethwych beunydd. Nid amheuir na ddarfu i'r doethion hyn, trwy eu rheolau caethion, wareiddio mesur ar y cenhedloedd mewn ystyr wladol, a'u gwneuthur yn well deiliaid i lywodraethau dynol. Ond O! mor wael oedd yr oll a osodent allan er eu cymhwyso fel deiliaid byd tragywyddol! ac mor gymhwys ydyw darluniad yr apostol o honynt, pan y dywed *eu bod heb obaith ganddynt, ac heb Dduw yn y byd, a bod y byd trwy ddoethineb heb adnabod Duw!*

Y genedl Iuddewig, o bob cenedl ar y ddaear, a anrhydeddwyd â'r breintiau mwyaf a'r cyfleusderau goreu i fod yn rhinweddol a da; canys yn eu plith hwy y cododd Duw i fynu ei brophwydi, yr ymddiriedwyd oraclau y nefoedd, ac y gwnaeth yr Arglwydd ddadguddio ei fraich nerthol mewn gweithredoedd rhyfedd a mawrion; ac iddynt hwy yr ymagorodd rhagluniaeth ei mynwes dyner, er eu hamgeleddu mewn modd neillduol. Gallesid disgwyl oddi wrthynt hwy gyflawnder o bob ffrwythau daionus, ac iddynt fod yn halen y ddaear, er gosod allan wir gymmeriad Duw, mewn pob ymddygiadau cysson â hyny, a dangosiad o nattur gwir rinwedd, ac o ffordd i ddynolryw fod yn ddefnyddiol a dedwydd; ond nid felly yr oedd yn bod gyda hwy. Er agos i gan mlynedd cyn ymgnawdoliaeth ein Harglwydd, yr oedd yr Iuddewon wedi colli eu hanymddibyniaeth fel teyrnas, a'u gwlad wedi dyfod yn dalaeth deyrngedol i amherodraeth Rhufain. Yn yr yspaid hwn, a chyn hyny ond nemawr gwell, yr oeddynt yn ymsuddo i'r tywyllwch a'r trueni mwyaf, yn llawn terfysg, amrysonau, llofruddiaethau, a gwrthryfel yn erbyn eu llywyddion, gan waelu yn feunyddiol, o ran eu cymmeriad, eu moesau, a'u crefydd.

Gwedi dyfod Herod, a elwir y Mawr, mab Antipater, o Idumea, yn frenin arnynt, trwy roddiad y Rhufeiniaid, yr hwn oedd bagan, ac yn wr estronol i'r genedl Iuddewig, ac a fu yn fflangell galed iddynt, efe a wnaeth ei oreu i ddwyn yr holl ymarferiadau paganaidd i'w plith, ac nid ychydig y darfu iddo lwyddo yn hyny. Gwedi ei farwolaeth, rhanwyd ei deyrnas rhwng ei dri mab. Daeth Judea i feddiant Archelaus, yr hwn oedd un o'r tywysogion gwaethaf; ac o herwydd ei draha, ei ormes, a'i greulonder, a ddiorsedd-

wyd, ac a alltudiwyd o'r wlad; a Judea a wnaethwyd yn dalaeth lywodraethol gan raglawiaid, a anfonid yno o Rufain, wedi hyny. Ystyriaeth o'u bod o dan lywodraethwyr estronol, pa rai a gwhwfanent eu llummanau yn eu dinas sanctaidd, a godent eu harwyddion yn eu lle cyssegredig, ac a osodent arnynt deyrnged, a chasglwyr trethi, i gynnal i fynu lywodraeth ddyeithr, y rhai a ddirmygent eu cenedl a'u crefydd, oedd yn eu gyrru i ymderfysgu a gwrthryfela yn barhaus; yr hyn a ddygai arnynt bwysau dialedd y Rhufeiniaid, trwy fin eu cleddyfau, nes eu gwasgu i waelder dyfnach ddyfnach yn feunyddiol, ac yn y diwedd ddwyn arnynt hollol ddinystr.

Ond pe na buasai y Rhufeiniaid, nac un genedl arall, yn gorthrymu, yn caethiwo, ac yn gwneuthur dim yn erbyn yr Iuddewon, yr oeddynt y pryd hwn wedi myned mor ddirywiedig o ran egwyddorion a moesau, a chyn llawned o gynhenau, llidiawgrwydd, a chreulondeb yn eu plith eu hunain, a hyny tu ag at eu gilydd, fel yr oeddynt yn eglur yn gwbl hunan-ddinystriol. Y Sanhedrim, prif gynghor y wladwriaeth, yr hon a wnaid i fynu gan ddeg a thriugain o flaenoriaid y genedl, i ba un y perthynai gweini y llywodraeth mewn gwlad ac eglwys, oedd tua dechreu yr oes Gristionogol wedi myned yn hollol ranedig yn nghylch prif byngciau eu crefydd ac achosion y wladwriaeth, ac a flaenorid gan y dynion mwyaf drygionus, treisiol o freintiau y bobl, a gwrthwynebol i bob rhinwedd a daioni. Yr archoffeiriaid, fel y dywed Josephus, oeddynt o'r dynion gwaethaf eu hegwyddorion, annuwiolaf eu bywydau, a ffieiddiaf eu bucheddau; a'r swydd a werthid yn fynych i'r uwchaf ei gynnyg, a phryd arall a feddiannid trwy rym arfau a thywallt gwaed. A'r offeiriaid yn gyffredin nid oeddynt ronyn gwell, am eu bod yn llai eu gallu a'u hawdurdod; a'r bobl, trwy effeithiad y fath siamplau yn eu blaenoriaid, oeddynt yn cydredeg yn awyddus i bob drygioni, llygredigaeth, ac annheimladrwydd, gan ymroddi i bob hudoliaethau a choelgrefydd.

Y mae yr hyn oedd egwyddorion a chynnwysiad crefydd gyntefig yr Iuddewon, i'w dysgu yn llyfrau yr Hen Destament, pa rai a ddarllenid yn wythnosol, nid yn unig yn Jerusalem, ond hefyd yn mhob tref a phentref trwy holl wlad Palestina, er amser Ezra, ac yn mhob gwlad a dinas yn mhlith y cenhedloedd eraill, lle y byddai mwy na deg o Iuddewon yn preswylio, yn y lleoedd cyssegredig a'r synagogau a adeiladent i'r perwyl hwnw. Ond gellir sylwi fod yr Arglwydd yn sefyll mewn sefyllfa driphlyg â'r Iuddewon, er pan y dygwyd hwy i fynu o wlad yr Aipht;—sef, *yn gyntaf*, Fel Creawdwr, Cynnaliwr, a Llywydd moesol; ac fel y cyfryw y rhoddodd iddynt ddeddfau a rheolau moesol, pa rai a berthynant i bawb, am mai efe yw Arglwydd pawb oll. *Yn ail*, Fel Pen eglwysig; ac fel y cyfryw y rhoddodd iddynt reolau a deddfau gwasanaeth eglwysig, i'w dysgu yn nghylch gwrthddrychau ysbrydol a threfn iachawdwriaeth eu heneidiau, pa rai nid oeddynt yn perthyn i un genedl ond hwy, neu rai a ymunent â'u heglwys, oddi eithr fel y maent i ni yn bresennol wedi eu cyflawni yn

Nghrist, a'r gwasanaeth Cristionogol o dan yr efengyl. *Yn drydydd*, Fel brenin gwladol; yn y sefyllfa hon y rhoddodd iddynt ddeddfau a barnedigaethau yn nghylch eu swyddogion, a threfn eu masnachau, eu teuluoedd, yn nghyd â'u holl achosion gwladol, a'u hysgogiadau milwriaethol, fel nad oedd Moses, a'r holl flaenoriaid dilynol, ond ei raglawiaid, a'r offeiriaid a'r Lefiaid ei swyddogion yn ei deyrnas; y tabernacl, a chwedi hyny y deml, oedd ei frenhinllys ar y ddaear. Yr offrymau a'r aberthau oeddynt, yn yr ystyr flaenaf, yn cysgodi Crist a'i aberth; ac yr oeddynt hefyd yn dâlion y genedl at gynnal y llywodraeth; canys swyddogion y llywodraeth oeddynt i gael cyfran helaeth o honynt. Yn yr ystyr flaenaf yr oeddynt i'w rhoddi heibio cyn gynted ag yr ymddangosai y sylwedd; yn yr ail ystyr yr oeddynt yn parhau hyd nes rhoddi heibio y llywodraeth honno. Yn yr ystyr yma, gwelwn fod Paul a'r Cristionogion yn Judea yn offrymu yn mhell wedi diddymiad yr offrwm, yn yr ystyr flaenaf; canys yn ddiau buasai offrymu yn yr ystyr flaenaf yn bechod ynddynt wedi marwolaeth ein Hiachawdwr, am y buasai yn wadiad ei fod wedi ymddangos; ond offrymu yn yr ystyr ddiweddaf oedd yn eithaf cyfreithlon iddynt tra y parhaodd y trefniad gwladol hwnw heb ei ddiddymu.

Y mae yn eglur fod yr Iuddewon, cyn ymddangosiad ein Harglwydd, wedi ymlithro i, a chymmeryd i'w cyfundraith lawer o egwyddorion ac arferiadau dychymmygol y paganiaid, a gosod traddodiadau dynol yn gymmysgedig â'r grefydd osodedig iddynt gan y nefoedd, trwy ba rai, medd y gwirionedd, yr oeddynt yn gwneuthur gair Duw yn ddirym. Ni chyhuddir yr Iuddewon unwaith gan ein Harglwydd, na chan yr apostolion, na neb haneswyr, o fod erioed wedi cynnyg llygru yr ysgrythyrau trwy unrhyw gymmysgiad â hwy—na, yr oeddynt yn dwyn mawr sêl dros burdeb y rhai hyn, a thros ddarlleniad beunyddiol o honynt; ond trwy chwanegiad eu traddodiadau attynt yn eu cyfundraith crefyddol, a'u gwneuthur yn eu heglurhad yn ddarostyngedig i'r rhai hyn, y daethant yn llygredig ac yn ddirywiedig yn eu crefydd. Lle gwelir yn amlwg y dichon fod gan ddynion yr ysgrythyrau yn eu purdeb, ac y gallant ddwyn sêl dros y purdeb hwnw, a'r darlleniad o honynt, etto, trwy chwanegiad at air Duw yn eu crefydd, wneuthur y cwbl yn ddiles, a bod yn eu crefydd yn ddirywiedig ac yn wrthodedig gan yr Arglwydd. Yr Iuddewon, gan mwyaf, yr amser dan sylw, a ystyrient fod dwy gyfraith; un yn ysgrifenedig yn llyfrau yr Hen Destament, a'r llall yn draddodiadol o enau i enau, yn drosglwyddedig trwy ryw ddawn dirgel ac anffaeledig, o flaenor i flaenor, meddent hwy, er dyddiau Moses. Dywedent fod y gyfraith draddodiadol hon, neu y dawn o'i gwybod, yn aros yn benaf yn yr archoffeiriad, yr hwn oedd yn fwyaf cyffredin yn flaenor y Sanhedrim; a phan y byddai un yn marw, dylifai y dawn hwn i'w olynydd, pan y gwisgid ef â'i swydd, ac yr elai i'w sefyllfa: yr hyn a barhaodd dros hir flynyddau.

Ond yn amser Adrian, amherawdwr Rhufain, daeth sefyllfa yr Iuddewon yn anobeithiol o gael eu hadferyd i'w gwlad a'u breintiau yn fuan: a chan

y meddyliasant fod perygl o golli y ddeddf draddodiadol, yn eu cyflwr gwasgaredig, penderfynasant ei gosod mewn ysgrifen; a'r gwaith a ymddiriedwyd i un Rabbi Juda, prif athraw yr athrofa oedd ganddynt yn Tiberias Galilea, a blaenor y Sanhedrim y pryd hwnw, yr hwn, o herwydd ei sancteiddrwydd ffugiol, a elwir y Sanctaidd. Hwn, wedi derbyn y fath ymddiried, a ysgrifenodd y ddeddf draddodiadol mewn chwech o lyfrau mawrion, harddwych, a threfnus, a elwir y MISHAH; ac yn fuan gwnaed adysgrifau o honynt, er eu taenu yn mhlith yr Iuddewon, pa rai sydd mewn bri mawr ganddynt hyd y dydd hwn. Er dangos eu parch i'r Mishah, y mae llawer o'r Iuddewon dysgedig wedi ysgrifenu esboniadau helaeth arno wedi hyny, y rhai a elwir TALMUDS, neu GAMARA, pa lyfrau sydd mewn cymmeradwyaeth mawr gan yr Iuddewon hudoledig yn mhob lle hyd yn bresennol.

Y mae y gyfraith draddodiadol mewn rhai pethau yn gysson â'r un ysgrifenedig trwy ysbrydoliaeth Duw; mewn pethau eraill yn anghysson â'i llythyren ac â'i gwir ystyr, ac yn cynnwys lluaws o chwanegiadau. Y mae yn dra sicr mai dangos y gwahaniaeth rhwng y ddwy gyfraith yma ydoedd cynnwysiad pregeth yr Arglwydd Iesu ar y mynydd. Dywedai yr Iuddewon mai wrth y ddeddf draddodiadol yr oedd deall a phenderfynu meddwl y ddeddf ysgrifenedig. Fel hyn, daeth meddwl Duw yn ei gyfraith sanctaidd, i ymddibynu ar ewyllys blaenoriaid llygredig. A dywedent fod yr un draddodiadol yn rhagori cymmaint ar yr un ysgrifenedig, fel yr oedd y flaenaf yn ysbryd ac yn fywyd, a'r olaf ond llythyren farw—yr olaf yn ûs, a'r llall yn ŷd pur—yr olaf yn ddyfroedd oerion, a'r llall yn felus win, yn nghyd â llawer o'r cyffelyb bethau a ddywedent, er twyllo y werinos, a dwyn yn mlaen eu hudoliaeth. Gosodai yr archoffeiriaid a blaenoriaid yr Iuddewon y pwys mwyaf ar y dawn dirgel hwn o wybod y gyfraith draddodiadol, fel pe buasent trwy hyn yn gwybod meddwl Duw, yn anffaeledig; a dygent y werinos anwybodus i dderbyn yr hyn a ddywedent fel oraclau y nefoedd, ac i osod rhyw barch, sanctteiddrwydd, ac anffaeledigrwydd anarferol ar eu swydd a'u cymmeriad.

Pa bryd y dechreuwyd y twyll a'r hudoliaeth hyn sydd ansicr; eithr y mae yn bur eglur nad oedd mewn bod am rai ugeiniau o flynyddoedd wedi Caethiwed Babilon; a thebygol nad oedd ar y dechreu, fel pob dirywiad arall, ond ychydig o ryw draddodiadau dynol a ddyfeisiasai rhyw flaenor llygredig, a dybiai ei hun yn ddoethach na'r rhai a ysgrifenasent, yr hyn a chwennychai osod i fynu yn addoliad Duw. Gwedi hyny, y naill flaenor llygredig yn dyfod ar ol y llall, yn eu chwanegu; ac wrth weled fod hyny yn mawrhau eu parch, eu helw, a'u hawdurdod gyda'r bobl, hwy a'u chwanegasant i'r hyn ydynt yn bresennol yn y Mishah. Fel hyn y gwelwn fod y genedl wrthnysig hon yn cael ei dwyn rhagddi, gan dwyllo a chael ei thwyllo, trwy ei blaenoriaid hudoliaethus a'u traddodiadau dychymmygol, nes ei dyfod i'r cyflwr gwaelaf, a'i goddiweddyd â'r barnedigaethau trymaf.

Y mae yn lled eglur fod lluaws yn mhlith yr Iuddewon yn nyddiau ein

Hiachawdwr wedi mynwesu golygiadau lled debyg i'r Dwyreinolion o berthynas i Dduw, a llywodraeth y byd presennol, sef ei bod wedi ei rhoddi i ddwylaw rhyw *Aionau;* ac yn priodoli yr un llywodraeth i Beelzebub ag a briodolent hwythau i Demiurgus, i'r hwn y priodolent bob drwg, er difeio eu hunain. A dywedent mai un o'r Aionau da oeddynt yn ddisgwyl i'r byd i'w orchfygu, ac i'w gwaredu hwythau, gyda rhyw fawredd annhraethol.

Fod amryw bleidiau crefyddol yn mhlith yr Iuddewon sydd eglur, wrth yr hyn a ddywedir i ni yn y Testament Newydd, a chan haneswyr; pa rai a elwir Phariseaid, Saduceaid, Herodaniaid, ac Esseniaid.

Y Phariseaid oedd y blaid luosocaf, anrhydeddusaf, gywiraf eu deall, foesolaf eu hymddygiadau, wresocaf eu sêl dros grefydd, a mwyaf eu hawdurdod o neb yn eu plith. Hwy oedd yn dwyn sêl yn benaf dros draddodiadau; a thebygol mai o herwydd hyny, a'u bod yn golygu mai iddynt hwy yn fwyaf neillduol yr ymddiriedwyd y dirgelwch hwn, a'u bod o blegid hyny yn sancteiddiach na neb eraill, y rhoddwyd yr enw Phariseaid iddynt gyntaf. Ond er eu holl sancteiddrwydd ymddangosiadol, a'u sêl dros eu crefydd, rhodda ein Harglwydd ddarluniad alaethus o'u cyflwr, a chyhoedda y gwaeau trymaf yn eu herbyn, o blegid mawredd eu twyll a'u rhagrith coethedig. Josephus, yr hanesydd Iuddewig, a ddywed eu bod, fel plaid, yn gwadu yr athrawiaeth o adgyfodiad cyrph y meirw, ac mai trosglwyddiad yr enaid, wedi marw y dyn, i gorph arall, oedd y cwbl a gredent wrth adgyfodiad. Ond y mae yn debyg fod hyn yn gamgymmeriad yn yr hanesydd; canys yr oeddynt yn addef adgyfodiad y meirw, ond nid yn un cyffredinol, eithr i had Abraham yn unig.

Y Saduceaid oedd blaid led luosog yn eu plith, pa rai oedd yn agos o'r un golygiadau am fodau ysbrydol â'r Epicuriaid, er eu bod yn rhoddi rhyw gydnabyddiaeth i bum llyfr Moses eu bod o roddiad Duw, a hyny yn benaf er mwyn cael eu galw yn Iuddewon. Canys pe credasent i'w dwyfolder hwy, credasent hefyd i lyfrau eraill yr Hen Destament, ag oedd yn dwyn yr un prawf o hyny, ac yn cynnwys yr un athrawiaeth, pa rai a wrthodent hwy. Gosodent holl ddedwyddwch dyn mewn hawddfyd tymhorol; gan wadu anfarwoldeb yr enaid, adgyfodiad y corph, a bodoliaeth angylion da a drwg.

Yr Herodaniaid oedd y blaid honno yn mhlith yr Iuddewon, ag oedd yn bleidiol i Herod a'i deulu, fel iawn feddianwyr gorsedd Israel, a gweinyddiad ei llywodraeth, a thros gyd-gymmysgiad o ddefodau Rhufeinig â'r grefydd Iuddewig, er eu huno, dros yr hyn y dygai Herod fawr sêl; ac nid yw yn annhebyg fod rhai yn eu plith yn meddwl mai efe, neu un o'i had, oedd y Messiah addawedig, yn ol yr hyn a welir yn yr Actau, xii. 21.

Yr Esseniaid oedd blaid arall dra lluosog yn mhlith yr Iuddewon, medd haneswyr, er na ddywedir i ni am dani gan Grist na'r apostolion. Y cyfundraith a bleidiai y rhai hyn oedd gymmysgfa o egwyddorion y Dwyreinolion a'r grefydd Iuddewig. Addefent ddwyfoldeb llyfrau yr Hen Destament; ond chwilient allan ystyr cyfrinachol i bob rhan o hono, a

gwrthodent ei ystyr llythyrenol. A golygent mai enaid dyn oedd pob peth oedd dda, ac a ellid ei wneuthur yn dda ynddo; o ganlyniad arferent bob gerwindeb tu ag at eu cyrph, gan eu cystuddio ac arfer pob defodau marweiddiedig tu ag attynt. Rhai o honynt, a elwir *Esseniaid Golygiadiol*, a ymgadwent oddi wrth ymuno mewn priodas—bwyta a gwisgo ond yr hyn a fyddai yn eithaf gwael—dilyn unrhyw alwedigaeth fydol—a thrigo mewn un breswylfa neillduol; ond ymgrwydrent mewn anialwch, fel y gallent, meddent hwy, ddarostwng eu cyrph, a dyrchafu eu meddyliau yn fwy i gymdeithas â'r ysbrydoedd anweledig. Pan y cyfarfyddent yn nghyd i addoli ar y seithfed dydd, arferent weddio a chanu gyda rhyw leisiau anarferol, a gwneuthur yr ystumiau mwyaf dychrynllyd ar eu cyrph, gan ddywedyd eu bod yn cael eu cynhyrfu i hyny trwy gariad dwyfol o'u mewn. Hawdd ydyw gweled y modd y dilynwyd y rhai hyn gan luaws yn mhlith y rhai a ddaethant i broffesu Cristionogaeth.

Oddi wrth amryw achosion, y mae yn eglur fod yr Iuddewon yn amser ein Hiachawdwr wedi ymsuddo i iselderau anwybodaeth yn nghylch pethau ysbrydol a dwyfol, a'r genedl gan mwyaf wedi ymroddi i bob drygioni a phenrhyddid bywyd. Fod y genedl uchel-freiniog hon wedi syrthio i'r fath gyflwr gwael a thruenus y dyddiau hyny, a brofir yn anwadadwy yn hanes bywyd ein Harglwydd, a rydd yr efengylwyr, yn ei athrawiaeth yn eu cylch, a'i ymadroddion cyfeiriedig attynt—yn enwedig yn y syniadau gŵyredig oeddynt wedi ffurfio am gymmeriad y Messiah, a'u hymddygiadau tu ag atto pan ymddangosodd yn eu plith. Disgwyliai y rhan fwyaf o'r genedl Iuddewig am ymddangosiad y Gwaredwr a addawsai Duw i'w tadau, gydag awydd mawr. Ond nid oedd eu disgwyliad yn gyfeiriedig at y cyfryw un ag a nodai yr ysgrythyrau: nid oeddynt yn meddwl am Waredwr ysbrydol i'w gwaredu o gaethiwed pechod a diafol, ac i'w bendithio âg edifeirwch a maddeuant pechodau, yn nghyd â heddwch â Duw yn y byd hwn, ac â'r gobaith o fywyd tragywyddol yn y byd arall; eithr disgwylient ryw flaenor galluog mewn rhyfel, a ddygai iddynt waredigaeth ddaearol trwy ei ddewrder a grym arfau milwriaethus. O herwydd eu breuddwydion hyfrydol am deyrnas ddaearol, awdurdod fydol, a llywodraeth helaethwych y Messiah yn y byd hwn, cadarnhawyd eu meddyliau cnawdol mewn cymmaint rhagfarn, nes oedd eu calonau yn hollol dywyll i wir a phriodol gymmeriad Iesu Grist yn wyneb yr ysgrythyrau. Dyma y maen tramgwydd a'r graig rhwystr, ar ba un yr ymddrylliasant; fel y gwrthodasant y gwir Fessiah anfonedig gan y Tad, y lladdasant ef, ac yr erlidiasant ei ddysgyblion, gan ddwyn arnynt eu hunain ddinystr amserol a thragywyddol.

Plaid arall o grefyddwyr oedd ar gyffiniau Judea, a elwid SAMARIAID, pa rai oeddynt gymmysgedd o Iuddewon a Chenhedloedd, fel cenedl, ac felly hefyd o ran eu crefydd. Dywedir i Salmanasar, brenin Assyria, wedi iddo gaethgludo deg llwyth Israel tu hwnt i Babilon, ddwyn llawer o'r cenhedloedd o'r gwledydd hyny i'w gwlad, pa rai wedi eu dwyn a aflonyddwyd

gan lewod—iddynt wneuthur achwyniad o'u herwydd wrth y brenin, ac iddo yntau benderfynu mai yr achos o hyny oedd eu bod ddim yn addoli Duw y wlad honno. Gwedi hyny, iddo anfon attynt offeiriaid Iuddewig i'w dysgu yn y grefydd honno, ac addoli Arglwydd Dduw Israel; ac, mewn canlyniad, i lawer o'r Iuddewon ymuno a chydwladychu â hwy yn eu hen wlad, a chymmeryd yr Arglwydd yn Dduw iddynt mewn cyssylltiad â duwiau y Cenhedloedd. Fel hyn daethant yn broselytiaid hannerog. Ychydig wedi terfyniad Caethiwed Babilon, yr oedd un Sanbalat yn llywydd ar y wlad honno; a Manaseh, mab Jehoiada yr archoffeiriad, a briododd ferch y llywydd. Nehemiah a'i bwriodd allan o'i swydd, o blegid ei briodas anachol; yntau, yn lle ymadael â'i wraig, a aeth at ei dad-yn-nghyfraith i Samaria. Sanbalat a adeiladodd iddo deml ar fynydd Gerasim, yn debyg i'r un yn Jerusalem, trwy ganiattâd Darius y Mediad: a Manaseh a urddwyd yn archoffeiriad yno i'r Samariaid; ac felly y bu, a'i hil ar ei ol, hyd amser Justinian, rai cannoedd o flynyddau wedi hyny. Derbyniai y Samariaid bum llyfr Moses fel dadguddiad dwyfol, a hwy yn unig. Parhâi amrafael ac anghydfod gwastadol rhwng yr Iuddewon a'r Samariaid; er y dangosai yr olaf gyfeillgarwch tu ag at y blaenaf pan mewn hawddfyd, etto yn eu hadfyd dirmygent hwy, a byddent yn mawr ychwangu eu gofid. Pan y byddai rhyw amrafael rhwng yr Iuddewon a'u gilydd, mewn achos gwladol neu grefyddol, y blaid wanaf a enciliai at y Samariaid am nodded a chymhorth, a hwy a dderbynid ganddynt—yr hyn oedd fel olew ar y tân amryson yn barhaus, modd y daethant yn gymmaint gelynion i'w gilydd, fel na wnaent y gymmwynas leiaf y naill i'r llall. Dygwyd llawer o'r Samariaid yn foreu i gofleidio Cristionogaeth.

Oddi wrth yr hanesion hyn, gwelir yn amlwg y fath oedd sefyllfa naturiol, foesol, a chrefyddol y byd, a'r angen dirfawr oedd am ymddangosiad Mab Duw, i ddattod gweithredoedd y diafol, ac i egluro gwir gymmeriad Duw i ddynion, a goruchwyliaeth yr Ysbryd Glan, er adferyd dynolryw. Pob moddion wedi eu harferyd, eithr wedi methu; fel yr oedd y byd yn myned yn waeth-waeth, ac yn dyfnach ddyfnach mewn trueni yn barhaus. Megys y dywedodd un pagan—sef, "y byddai raid i'r byd gael ei ddinystrio yn fuan, neu y deuai rhyw un galluog iddo i'w waredu." Ac onid ymddengys dyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist yn drugaredd anfeidrol? canys os ydyw yn drugaredd i gael iechyd a rhyddid, neu waredigaeth tymhorol oddi wrth berygl a fyddo yn ymyl, ac yn sicr o gymmeryd lle, pan y mae pob peth arall wedi methu, pa faint mwy oedd dyfodiad Iesu Grist, pan ystyriom sefyllfa holl ddynolryw, yn eu perthynas â thragywyddoldeb, ag oedd yn ymyl y perygl mwyaf, a phob moddion wedi methu dwyn un waredigaeth? Yr oedd nattur yn ei holl fywiogrwydd wedi gweithredu ei rhan; athronddysg a'r celfyddydau yn eu hamrywiaeth wedi eu gyrru i'w heithafoedd; deddfau a barnedigaethau wedi eu gweinyddu yn eithaf eu llymdoster; y nefoedd a'r ddaear, a chrefyddau Iuddewon a Chenhedloedd wedi myned hyd eu ter-

fynau pellaf er attal llwyddiant pechod, ond yn gwbl ofer; a holl ddoethineb creuedig a gwybodaeth dynion wedi methu cael allan un ffordd i achub dynolryw o grafangau marwolaeth a thrueni. Eithr Duw, yn nghyflawnder yr amser, a anfonodd ei Fab ei hun er dileu pechod: a molianned pobloedd ef am ei drugaredd annhraethol.

Hawdd ydyw gweled oddi wrth yr hyn a ddywedwyd, nad yw y cyfeiliornadau, y defodau, a'r dirywiadau a anurddodd yr eglwys Gristionogol, ond yr un pethau ag a welir yn mhlith Paganiaid ac Iuddewon yn eu cyflwr dirywiedig, cyn ymddangosiad ein Harglwydd Iesu yn y cnawd.

HANES YR EGLWYS.

PENNOD I.

Yn cynnwys Hanes am Iesu Grist—ei Enedigaeth—ei Ragflaenor—ei Fywyd—ei Weinidogaeth—a'i Farwolaeth.

YMDDANGOSIAD Iesu Grist yn y cnawd, dygiad i mewn yr iachawdwriaeth dragywyddol trwy ei fywyd a'i farwolaeth, a gosodiad i fynu yr eglwys Gristionogol yn mhlith dynolryw mewn canlyniad i hyny, oedd prif destun y prophwydoliaethau Hebreaidd, a phrif wrthddrychau addewidion y cyn-oesoedd—disgwyliadau hiraethlon y ffyddloniaid gynt, yn nghyd âg amcan yr holl osodiadau cysgodol. Ganed y Messiah bendigedig yn nghylch y flwyddyn pedair mil a phedair o oes y byd, yn ol barn Archesgob Usher, y chwechfed ar hugain o deyrnasiad Augustus Cæsar, yr amherawdwr Rhufeinig, a'r drydedd ar ddeg ar hugain o deyrnasiad Herod, a elwir Herod Fawr, brenin Judea. Bernir yn gyffredin fod cyfrifiad yr amser a gedwir yn ein plith ni, yn dechreu yn rhy ddiweddar o ychydig fisoedd yn fwy na phedair blynedd, i'r amser cywir y ganed ein Harglwydd Iesu: canys byddai yr offeiriaid Iuddewig bob amser yn cychwyn eu gwaith, mewn modd cyhoeddus, pan yn ddeg ar hugain oed, Num. iv. 3. Felly gellir barnu i Ioan Fedyddiwr yntau gymmeryd ei swydd, trwy ddechreu ei weinidogaeth, pan yn ddeg ar hugain; ac felly y gwnaeth Iesu Grist hefyd, Luc iii. 23. Yr oedd y flwyddyn honno i Ioan yn cymmeryd lle, medd Luc, ar y bymthegfed flwyddyn o deyrnasiad Tiberius, yr amherawdwr Rhufeinig, Luc iii. 1, 2. ac mae yn dra sicr mai chwe mis oedd ein Harglwydd yn ieuangach na Ioan, ac felly yn dyfod yn ddeg ar hugain yn mhen chwe mis ar ei ol ef. Er atteb i hyn, a chymmeryd fod ein Harglwydd heb ei eni hyd yr amser cyffredin, fel y mesurir ef gyda ni, ni byddai ein Harglwydd wedi ei eni hyd yr unfed flwyddyn ar ddeg ar hugain o deyrnasiad Augustus, ac o ddeutu tair blynedd wedi marwolaeth Herod Fawr; hyn a wrthddywedai Mathew yn pen. ii. 1. Meddylir i'r cyfryw gamgymmeriad ddyfod i ymarferiad trwy

nad oeddynt yn cyfrif yr amser, er y dechreuad, yn yr eglwys Gristionogol, na'r byd, yn ol y dull presennol. Eithr yn y flwyddyn 527, dechreuodd un Dionysius Exiguis, Scythiad o genedl, ond y pryd hwnw yn llywydd mynachlog yn Rhufain, wneuthur cyfrifiad o'r amser yn ol genedigaeth ein Harglwydd, yn ei feddwl ef, yr hwn ddull a chyfrifiad a gymmeradwywyd yn fuan yn mhlith pawb ag oedd yn proffesu Cristionogaeth, er ei fod yn gyfrifiad anghywir. Tybir mai yr hyn a arweiniodd yr Abad i'r cyfeiliornad hwn oedd, ei waith yn dechreu ei amser ar y pryd y daeth Tiberius i feddiant unigol o orsedd Rhufain; a'r efengylwr Luc yntau yn dechreu cyfrif ei bymtheg mlynedd o'r amser y daeth Tiberius i fod yn gyd-feddiannydd yr orsedd âg Augustus, yr hyn oedd ychydig o fisoedd yn fwy na thair blynedd yn nês yn ol na phan y dechreuodd Dionysius gyfrif ei amser. Dywed Dr. Hales, i Beda ein cydwladwr, yr hwn a ddygodd y drefn hon o gyfrif yr amser gyntaf i Frydain fyned flwyddyn yn nês yn ol na'r Abad; yr hyn sydd yn gwneuthur y gwahaniaeth i gyd yn fwy na phedair blynedd; ac y mae heb ei ddiwygio hyd heddyw.* Gan hyny fe fydd i fesuriad yr amser, yn yr hanes canlynol, gael ei alw, nid oedran Crist, ond *cyfrifiad cyffredin.*

Er fod y gwaeledd a'r ymostyngiad mwyaf yn weledig yn ngenedigaeth ein Harglwydd Iesu, etto yr oedd mawredd ac ardderchawgrwydd neillduol yn perthyn i'r amgylchiad. Hysbyswyd ei enedigaeth yn gyntaf gan angel o'r nef, pan yr oedd gydag ef luaws o lu nefol yn moliannu Duw am yr hyn oedd wedi cymmeryd lle. Gwaith yr Ysbrydion mawreddog hyn yn mynegi gyntaf am enedigaeth y Messiah i'r bugeiliaid yn ngwlad Judea, a ddangosai yn eglur nattur y mawredd a berthynai i'r hwn a aned yn Methlehem, ac a ddodwyd yn y preseb, ac mai nid dynion a ymdröent mewn mawredd a phleserau bydol oedd y rhai a welai ei ogoniant ef, eithr y cyfryw a ddilynent uniondeb a gonestrwydd, er mewn amgylchiadau isel. Danfonwyd y doethion hefyd, trwy gyfarwyddyd seren a ffurfiwyd yn yr awyr i'r dyben hwn, i ymweled âg ef, ac i'w addoli; ac offrymasant iddo aur, thus, a myrr. Byddai yn annoeth ac anfuddiol i sylwi ar holl ffrwyth dychymmygion dynion yn nghylch pwy oedd y doethion hyn, a pha fodd y deallasant ystyr y seren, ac y cynnyrfwyd hwy i ymofyn am yr hwn oedd wedi cael ei eni yn llywydd yn Judea. Eithr y mae yn debygol eu bod yn dyfod o Arabia, y wlad lle preswyliai hiliogaeth Abraham o Cetura, ac amryw o genedlaethau ereill. Yr oedd wedi bod yn y wlad honno, a'r cylchoedd, lawer o ddynion enwog mewn gwybodaeth, pa rai a adawsent ar eu hol dystiolaethau eglur am y Messiah, y Llywydd mawr ag oedd i ddyfod i'r byd: megys Job, a Jethro, gyda'r hwn y bu Moses yn byw am hir flynyddau; ac yma yr oedd Balaam yn byw, yr hwn a ddywedodd am ddyfodiad Crist fel seren, a Llywydd yn codi o Jacob. Ac o'r wlad hon y daeth brenines Seba i weled a chlywed doethineb Solomon. Dywedir hefyd fod yn y wlad honno blaid o ddoethion yn myned dan yr enw Magiaid, adnabyddus i'r byd y pryd hwnw fel rhai ag oedd yn astudio ac yn gwybod mwy na'r cyffredin. Nid annhebyg mai rhyw nifer o'r rhai hyn, trwy effaith y tystiolaethau ag oedd wedi aros yn eu gwlad am y Brenin mawr, ag oedd i ymddangos yn Israel, gweledlad ei seren, ac effeithiad neillduol Duw ar eu meddyliau, a arweiniwyd i ymofyn am dano, er anrhydeddu ei ymddangosiad, a chyflwyno eu hanrhegion iddo, yr hyn oedd yn dra gwasanaethgar i'w rieni yn wyneb eu hamgylchiadau.

* See Prid. vol iii. p. 657. Y Parch. S. Lloyd, Amser. pp. 15, 16.

Byddai arferiad gynt yn y gwledydd dwyreiniol, pan y byddai tywysog yn myned i ryfel yn erbyn ei elynion, neu i feddiannu ei deyrnas, neu pan y byddai priodfab yn myned i ymofyn am y briodferch, o anfon cennadau neillduol o flaen y cyfryw, i gyhoeddi eu dyfodiad. Felly pan yr oedd Duw yn dwyn ei gyntafanedig i'r byd, yr hwn oedd wedi cyhoeddi rhyfel yn erbyn Satan a'i gynghreirwyr, a'r hwn oedd i gymmeryd gorseddfaingc Dafydd ei dad, ac yn dyfod fel priodfab i ymofyn ei ddyweddi, yntau ni adawodd yr amgylchiad yn ddistaw a disylw: eithr nid oedd y cynnyrfiad, a'r gennadwraeth oedd o'i flaen ef, o'r cyfryw ag oedd y byd yn ddisgwyl. Gorchymynwyd i holl angelion y nef i'w addoli. Anfonwyd Ioan Fedyddiwr, mewn ffordd ryfeddol a gwyrthiol, yn gennadwr i gyhoeddi ei ddyfodiad i'r ddaear, ac i barottoi'r ffordd o'i flaen.

Llawer sydd wedi cael ei ddywedyd yn nghylch nattur a dyben swydd a gweinidogaeth Ioan. Eithr efe a hysbysa ei hun yr hyn oedd ei weinidogaeth. "Pan anfonodd yr Iuddewon o Jerusalem offeiriaid a Lefiaid i ofyn iddo, Pwy wyt ti? Ac efe a gyffesodd, ac ni wadodd, a chyffesodd, Nid myfi yw'r Crist. A hwy a ofynasant iddo, Beth ynte? Ai Elias wyt ti? Yntau a ddywedodd, Nagê. Ai'r Prophwyd wyt ti? Ac efe a attebodd, Nagê. Yna dywedasant wrtho, Pwy wyt ti? fel y rhoddom atteb i'r rhai a'n danfonodd. Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am danat dy hun? Eb efe, Myfi yw llef un yn gwaeddi yn y diffaethwch, Unionwch ffordd yr Arglwydd,"* gan eu cyfeirio at Esay. A dywedodd hefyd am dano ei hun, mai "yr hwn sydd ganddo y briodferch yw'r priodfab: ond cyfaill y priodfab, yr hwn sydd yn sefyll ac yn ei glywed ef, sydd yn llawenychu yn ddirfawr o blegid llef y priodfab: y llawenydd hwn mau fi gan hyny a gyflawnwyd."† Oddi wrth yr ysgrythyrau hyn, a'u cyffelyb, y gwelir nattur a dyben gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr, a'r sefyllfa yr oedd efe yn cyflawni ei swydd ynddi. Nid y Prophwyd na'r Crist oedd efe. Dichon fod yma gyfeiriad at ryw brophwyd neillduol: etto, gellir dywedyd yn eofn nad oedd Ioan yn brophwyd, yn ol ystyr fanylaidd y gair; eithr fel y dywed ein Harglwydd Iesu, yr oedd efe yn fwy nag un prophwyd a fu o'i flaen ef; er hyny y lleiaf yn nheyrnas nefoedd, a fyddai fwy nag ef. Hyny yw, yr oedd swydd a gweinidogaeth Ioan uwchlaw swydd a gweinidogaeth neb o'r prophwydi a fu o'i flaen; etto, nad oedd ei swydd a'i weinidogaeth gymmaint, mor oleu, nac mor ardderchog â swydd a gweinidogaeth y lleiaf o ddysgyblion Crist, dan yr oruchwyliaeth efengylaidd, sef y deyrnas ag oedd efe i'w gosod i fynu ar y ddaear, mewn canlyniad i'w farwolaeth. Felly nid oedd gweinidogaeth Ioan, yn briodol, yn un Iuddewig, nac yn un efengylaidd; ac nid oedd ei sefyllfa yntau, fel gweinyddwr, yn briodol yn perthynu i'r eglwys Iuddewig, na'r un Gristionogol—nid oedd efe na'r Prophwyd na'r Crist. Pwy ynte oedd efe? a pha beth oedd ei sefyllfa weinidogaethol? Yr oedd efe o flaen ac uwchlaw yr holl brophwydi Iuddewig a'u gweinidogaeth, yn gymmaint ag iddo ef gael y fraint o ddangos y priodfab â'i fŷs i'r bobloedd, a'i gyssegru ef yn bersonol mewn modd cyhoeddus i'w swydd a'i weinidogaeth gyfryngol: ni bu neb o'i flaen ef yn y weinidogaeth hon, na neb ar ei ol; etto yr oedd y rhai a ddaeth ar ei ol ef â chanddynt weinidogaeth oleuach a chyflawnach, i ddywedyd am Grist. Yr oedd efe yn fwy na'r mwyaf, a llai na'r lleiaf. Gweinidogaeth neillduol oedd ei eiddo ef. Pwy

* Ioan i. 19—23. † Ioan iii. 29.

oedd efe? Cyfaill y Priodfab, ag oedd wedi cael ei anfon i waeddi, "Wele, y mae'r Priodfab yn dyfod, ewch allan i'w gyfarfod ef." Cennad neillduol oedd, a anfonwyd o flaen wyneb y Tywysog mawr, i gyhoeddi ei fod yn dyfod i gymmeryd meddiant o'i orsedd, i osod i fynu ei deyrnas, ac i ddwyn yn mlaen y rhyfel yn erbyn ei holl elynion.

Mae y rhai sy'n gosod Ioan allan, o ran ei sefyllfa weinidogaethol, a'i weinidogaeth, yn Iuddewig, yn ei ddifreinnio ef, trwy ei daflu yn ol i blith y prophwydi: a'r rhai sydd yn ei ddwyn yn mlaen, trwy ei osod yn efengylaidd, o ran ei sefyllfa, ei fedydd, a'i weinidogaeth, ydynt yn ddiau yn gosod anfri mawr ar Grist, trwy wneuthur Ioan yn ddechreuwr a sylfaenydd Cristionogaeth; ac mor afresymol yw dywedyd ei fod ef felly, â phe dywedid ei bod yn olew dydd cyn i'r haul godi! Eithr gwyddai Ioan yn llawer gwell am nattur a dyben ei swydd, pan y dywedodd am Iesu Grist, "'Rhaid ydyw iddo ef gynnyddu' yn ei swydd a'i weinidogaeth lwyddiannus, 'ac i minnau leihau' yn fy ngweinidogaeth, fel seren ddydd yn tywyllu yn wyneb codiad yr haul." Yr hyn a ddengys, nad oedd ei weinidogaeth yn briodol efengylaidd, amgen ni buasai raid iddo leihau yn wyneb cynnydd Iesu Grist, yn ei weinidogaeth. Cyssegrwyd Iesu Grist mewn modd cyhoeddus i'w swydd a'i weinidogaeth gan Ioan, trwy fedydd dwfr, mewn cyfeiriad at y dull a'r modd yr oedd yr offeiriaid gynt yn myned i'w swydd, trwy olchiadau a dwfr: ond fel nad oedd ein Harglwydd o lwyth Lefi a theulu Aaron, nid allasai gael hyny trwy y drefn, na chan yr offeiriaid yn gyffredin; am hyny danfonwyd cennadwr neillduol i'r gorchwyl. Yr hwn, wedi iddo wneuthur hyn, a dangos Crist yn bersonol i'r bobl, a galw eu sylw atto, mewn modd tra chyffrous, a roddodd heibio ei weinidogaeth, a gweinidogaeth Iesu Grist a ymddysgleiriodd. Cyfyngodd yr Arglwydd Iesu ei weinidogaeth bersonol yn mhlith y genedl Iuddewig, ac o fewn gwlad Judea, gan mwyaf; yr hon a barhaodd, yn ol y farn fwyaf gyffredin, ychydig o fisoedd rhagor i dair blynedd. Cynnwysir gan awdwr llyfr yr Actau, weinidogaeth Iesu Grist mewn dau beth, sef, *yr holl bethau a ddechreuodd efe eu gwneuthur, a'u dysgu.**

Cynnwysai yr athrawiaeth a gyhoeddai, ddadguddiad cywir ac eglur o Dduw, yn ei briodol nodweddiad a'i briodoliaethau—o'i lywodraeth ar y byd—o druenusrwydd cyflwr dyn syrthiedig—o'i wir a'i briodol gymmeriad ef ei hun, fel mab Duw, a'r Messiah addawedig—dyben ei ymddangosiad, a'i daer alwad ar ddynion i edifarhau a chredu yn yr efengyl—anfarwoldeb yr enaid, ac adgyfodiad y meirw—sicrwydd y sefyllfa o wobr a chosp mewn byd arall—y farn dragywyddol—ac mai ef ei hun a fyddai y Barnwr. Yn ei holl ddysgeidiaeth, y mae efe yn dwyn deddf foesol y nefoedd allan yn ei phriodol lewyrch, oddi tan y cwmmwl tywyll ag oedd wedi ei ddwyn arni, trwy gam-esponiadau yr athrawon Iuddewig. Yn ei weinidogaeth a'i fywyd ef yr ymddysgleiriai hi, yn ysbrydolrwydd ei nhattur, ehangder, manylrwydd, uniondeb, a pherffeithrwydd ei gofyniadau. Yma y dangosir hi yn anghyfnewidiol barhad ei rhwymedigaeth, yn wyneb pob cyfnewidiadau yn sefyllfa ei deiliaid, ac yn rheol sefydlog rhwng pob creadur rhesymol a'i Greawdwr. Dengys yr Arglwydd Iesu, mai ar y gwirioneddau hyn yr oedd yn meddwl adeiladu ei eglwys, ac mai wrth y rheol hon yr oedd yn bwriadu dwyn yn mlaen ei deyrnas yn y byd. Gwnaed gan ein Harglwydd luaws mawr o wyrthiau nerthol, y rhai oeddynt oll o nattur a thuedd wasanaethgar a

* Act i. 1.

llesiol iawn i ddynolryw, ac yn brofion mor amlwg o'i ddwyfol anfoniad, fel yr oedd ei wrthwynebwyr yn methu eu gwrthddywedyd, ond ymgynddeiriogi yn eu hwyneb. Yr oedd efe yn gwneuthur gwyrthiau â'i air ac yn ei enw ei hun—nid fel y prophwydi a'r apostolion yn enw arall—ac yn y modd mwyaf cyhoeddus, yn y tai a'r pentrefydd, y trefydd a'r dinasoedd, y deml a'r synagogau, ac ar y maesydd; ger gwydd lluaws o ddynion o bob sefyllfa a chymmeriad, ar bob math o ddynion, ac yn ngolwg cyfeillion a gelynion hefyd. Ei wyrthiau ef oeddynt oll o'r fath ag a ddaliai yr ymchwiliad mwyaf manylaidd, yn y goleu egluraf, a chan ddynion ag oedd yn meddu ar y cyfleusdra goreu, yr annogaethau cryfaf, y cymmwysderau helaethaf, a than lywodraeth y tueddiadau mwyaf cynnyrfiol, i chwilio i mewn i'w nattur a'u geirwiredd. Yr oedd ei wyrthiau yn dwyn gyda hwy bob peth ag oedd yn eu gwahaniaethu yn y modd amlycaf, ac yn annhraethol fawr, oddi wrth bob twyll, ffug, a hocced: attynt hwy yr oedd efe yn galw sylw ei elynion a'i gyfeillion, ger gwydd pa rai yr oeddynt yn cael eu cyflawni y pryd hwnw, fel profion diymwad ac uniongyrchol o ddwyfoldeb ei anfoniad; ac arnynt hwy y gorphwysai yn y modd mwyaf tawel a hyderus. Y gwyrthiau a gyflawnwyd gan ein Harglwydd, oeddynt ynddynt eu hunain yn ffeithiau o'r fath ag oedd yn eglurhau eu hamcan, ac yn dwyn gyda hwy y fath eglurdeb argyhoeddiadol ac awdurdodol, nes oedd ei elynion yn gorfod cyfaddef, gan ddywedyd, "Y mae'r dyn yma yn gwneuthur llawer o arwyddion: os gadawn ni ef fel hyn, pawb a gredant ynddo;"* a thystiolaethant am dano ef, "Wele, fe aeth y byd ar ei ol ef."†

Nid oedd yn beth annisgwyliadwy i ymddangosiad y fath Berson, cyflawniad o'r fath weithredoedd, a chyhoeddiad o'r fath athrawiaeth, greu yn mhlith yr luddewon gynnwrf nid bychan: er na bu neb erioed yn mhellach oddi wrth ddangos unrhyw chwennychiad o goeg-foledd, nag oedd ein Harglwydd; fel y cyflawnwyd yn berffaith ynddo ef yr hyn a ddywedodd y prophwyd Esay am dano—"Ni waedda ac ni ddyrchafa ei lais, ac ni phair glywed ei lef yn yr heol;"‡ etto yr ym yn gweled pobloedd o bob gwlad a goror o amgylch i Judea, a Judea hefyd, yn ymdyrru i wrando arno. Wrth sylwi ar ddwyfoldeb a nefolder cymmwysderau y pregethwr, purdeb ei weinidogaeth, mawredd a dysgleirdeb y gwyrthiau a weithredid ganddo, sancteiddrwydd a rhinweddau bywyd yr hwn ag oedd yn gweithredu, a'r effeithiau ymddangosiadol ag oedd ar rai prydiau yn gydfynedol â gweinidogaeth Iesu Grist, gallasem feddwl y buasai llwyddiant ei lafur yn annhraethol fawr, a nifer ei wir ddysgyblion yn aneirif. Er nad allwn ddywedyd gyda sicrwydd pa nifer oedd ei wir ganlynwyr y dyddiau hyny, etto gallwn fod yn dra sicr nad oeddynt ond ychydig iawn, mewn cymmariaeth i'r rhai ag oedd yn cefnu arno, a hyny o'r bobl waelaf ac iselaf eu hamgylchiadau. Y rhan fwyaf o'r bobl, yn enwedig y blaenoriaid, oeddynt yn aros yn wyneb y cwbl yn ddideimlad, yn ei wawdio a'i ddirmygu, yn ceisio ei ddyrysu ef, er cael rhyw beth fel esgus i'w erlid: ac eraill o dan ei weinidogaeth ef heddyw yn gwaeddi, *Hosana;* ond y foru yn gwaeddi, *Croeshoelier ef.*

Nid ellir priodoli yr aflwyddiant a gyfarfu Arglwydd y bywyd âg ef, yn ei weinidogaeth, i ddim, ond i fawredd llygredigaeth a chaledrwydd calon dynolryw. Ac y mae yma amlygiad hollol eglur o fod drygioni dynion o'r

* Ioan xi. 47. † Ioan xii. 19. ‡ Esa. lxii. 2.

fath, fel nad yw'r moddion moesol goreu, er eu bod o weinyddiad Duwdod tu ag at ddynion, yn ddigon i'w symmud a'u dwyn at Dduw, ac at eu dyledswydd. Pan yr ydym yn gweled yr ychydig nifer ag oedd wedi dyfod allan o blith y werin wrthnysig, i gredu ynddo fel unig obaith Israel, ac i orphwys arno fel eu hunig Waredwr, nid allwn yn rhesymol briodoli hyn i ddim llai nag i ras penarglwyddiaethol Duw, trwy yr hwn y gweithredodd efe ar eu calonau, nes y dygwyd hwy i dderbyn y dystiolaeth am dano fel yr unig-anedig oddi wrth y Tad. O blith y dysgyblion hyn, dewisodd yr Arglwydd ddeuddeg, pa rai a enwodd efe yn apostolion.*

Wrth sylwi yn fanylaidd ar hanes yr apostolion, yn amser gweinidogaeth bersonol yr Arglwydd Iesu, ei ymddygiad tu ag attynt, a'i ymddiddanion wrthynt, fe welir graddau o nattur y deyrnas ag oedd efe yn meddwl osod i fynu yn y byd hwn, a'r dull ag oedd efe yn bwriadu dwyn yn mlaen ei eglwys yn mhlith dynion. Meddyliaf y gellir ystyried yr apostolion fel yn sefyll mewn tair sefyllfa, neu yn llenwi sefyllfa driphlyg, y pryd hwnw; sef apostolion, eglwys, neu cynnrychiolwyr yr eglwys ag oedd Crist yn fwriadu ei ffurfio yn y byd (canys nid oedd un eglwys Gristionogol yn ei hiawn a'i chyflawn drefn tra y bu Crist ar y ddaear), a gweinidogion cyffredin, neu cynnrychiolwyr y gweinidogion hyny ag oedd Crist yn fwriadu eu codi i fynu o oes i oes er adeiladaeth yr eglwys, hyd ei ail ddyfodiad. Yn mhob un o'r sefyllfaoedd hyn, yr oedd Iesu yn annerch ei apostolion, weithiau yn y naill, a phryd arall yn y llall, trwy roddi iddynt gyfarwyddiadau ac addysgiadau, er dangos pa fodd yr oedd y cyfryw sefyllfaoedd i gael eu llenwi wrth fodd Duw, ac er llwyddiant ei deyrnas; ac y mae wedi rhoddi iddynt lawer o addewidion mawr iawn a gwerthfawr, er annogaeth i wneud felly. Mae yr hyn oll hefyd a fynegodd efe i'w apostolion, er eu haddysg, eu cyfarwyddyd, a'u hannogaeth, yn bod felly i ninnau yn bresennol, mor bell ag yr ydym yn y sefyllfaoedd hyny ag yr oedd yr apostolion yn cynnrychioli, pan y llefarwyd y pethau hyn wrthynt. Fel apostolion, ni gawn ein Harglwydd yn eu hannerch, gan eu dysgu a'u cyfarwyddo yn yr hyn a berthynai i'r sefyllfa honno, yn y ddegfed bennod o'r efengyl a ysgrifenwyd gan Mathew, a'r nawfed bennod o'r efengyl gan Luc. Ymwisgo â'r swydd apostolaidd, sydd, feddyliwn, yn bechod rhyfygus, yn neb gweinidogion cyffredin yr eglwys; a ffolineb ydyw i neb ddisgwyl cyflawniad o'r addewidion a berthynai iddynt hwy yn y sefyllfa honno. Ac fel cynnrychiolwyr yr eglwys Gristionogol, ag oedd i'w ffurfio a'i sefydlu ar y ddaear, y mae ein Harglwydd yn aml yn eu hannerch, eu cyfarwyddo, eu dysgu, eu hannog, eu calonogi, a'u cyssuro trwy ei addewidion hyfrydlawn iddynt; pa rai oedd yn dyfod yn eiddo i'r eglwys, fel y cyfryw, mor fuan ag y ffurfid hi yn ei threfn efengylaidd, ac i barhau felly yn eiddo iddi tra y parhäai hi yn ei threfn apostolaidd. Yn mhlith amrywiol o bethau ereill a fynegodd Iesu Grist iddynt yn y sefyllfa hon, y mae yr hyn sydd ysgrifenedig yn y ddeunawfed bennod o'r efengyl gan Mathew, yn deilwng o sylw pob un ag sydd yn chwennych gweled eglwys Dduw yn ei threfn apostolaidd, yn enwedig yr hyn sydd o'r bymthegfed adnod hyd yr ugeinfed o'r bennod uchod. Yn y ddeunawfed adnod, y mae ein Harglwydd yn awdurdodi rhyw rai, i *rwymo a rhyddhau* yn ei deyrnas ef, yr hyn a arwydda lywodraeth: canys llefarir gan Iesu Grist, yn y lle hwn, mewn dull cyfeiriedig at y modd y byddai

* Luc vi. 12, 13. a Mat. x. 1.

brenhinoedd yn y dwyrain yn arferol o roddi agoriadau i'w penswyddwyr, fel arwydd o'u hawdurdod lywodraethol. Ond i bwy y mae Crist yn rhoddi yr awdurdod yma? a chyda phwy y gorphwys yr hawl i weini llywodraeth teyrnas Iesu Grist?—y cyfryw ydynt ofyniadau o bwys neillduol. O blegid yn y cyflawniad o hon, y mae holl drefn neu annhrefn yr eglwys yn sefyll. Mae llawer yn ymhonni meddiant o'r awdurdod lywodraethol hon: ond pe gwnaid sylwi yn ddiduedd ar yr hyn a ddywed ein Harglwydd o flaen ac ar ol yr adnod hon, yr hyn yn ddiau sydd yn gwneuthur i fynu ranau o'r un ymadroddiad, gwelid yn dra amlwg mai i'r apostolion, fel cynnrychiolwyr yr eglwys neu yr eglwysi ag oedd i'w ffurfio a'u sefydlu trwy eu gweinidogaeth, y rhoddodd efe yr awdurdod o rwymo a rhyddhau.* Canys pe golygid fod yr awdurdod hon yn gorphwys, fel y myn llawer, gyda'r Pab o Rufain, a'i ben-graddolion, o ganlyniad efe a hwy ydyw yr eglwys y sonia Crist am dani yn yr adnod o'r blaen, a hwy ydyw y ddau neu dri y dywedir am danynt yn yr adnodau ar ol y testun dan sylw. Ac os golygir fod yr awdurdod yn gorphwys gyda brenin unrhyw wlad, a'i swyddwyr gwladol, fel y taera eraill, yna efe a hwy ydyw yr eglwys at ba un y mae'r brawd tramgwyddedig i fyned â'i gŵyn, ac o flaen pa rai y mae'r brawd cyhuddedig i sefyll, a chael ei brofi: a hwynthwy ydyw'r ddau neu dri yr addawa ein Hiachawdwr ei bresennoldeb iddynt, pan wedi ymgynnull yn ei enw, i ymdrin â dysgyblaeth eglwysig. Hefyd, pe yr addefid fod yr awdurdod hon yn gorphwys, fel y dywed llawer, gyda chorff neu gymmanfa o weinidogion a swyddogion eglwysi, wedi ymgyfarfod mewn cynnadledd, o ganlyniad nid ydym i edrych arnynt mwy yn swyddwyr eglwysig, eithr yn eglwys; canys gan yr eglwys y mae yr awdurdod hon, yr hon oedd yn dyfod yn nghyd i wrandaw cŵyn y tramgwyddedig, i ystyried achos y cyhuddedig, a bwrw allan yr ystyfnig. Gan hyny o honynt hwy y dichon dau neu dri fod wedi ymgynnull at eu gilydd, i weddio a thrin dysgyblaeth eglwysig, i ba rai y mae yr addewid o bresennoldeb Iesu Grist wedi cael ei rhoddi: ond meddylir nad oes llawer a gred y cyfryw beth.

Heblaw fod yr haeriadau uchod yn ymddangos yn annhebyg i wirionedd, o herwydd en hanghyssondeb â holl rediad ymadrodd ein Harglwydd yn y lle hwn, y mae wedi dygwydd yn anffodus i'r ymarddelwyr uchod, nad yw y gair eglwys wedi cael ei gymmwyso at neb o honynt hwy yn un lle yn yr ysgrythyr.† Dadleua rhai tros fod yr awdurdod yma wedi cael ei roddi i swyddwyr yr eglwysi, oddi wrth yr hyn a ddywed ein Harglwydd yn Mat. xvi. 14, 15, wrth yr apostol Pedr. Ond er mor debyg yr ymddengys y geiriau yn y naill le a'r llall, etto mae yn bur amlwg i ni mai nid yr un peth sydd i'w ddeall wrth y ddau le, fel y dengys y cyssylltiadau. Yn pen. xvi. amlyga Iesu Grist beth oedd gwaith yr apostolion yn plannu eglwysi trwy eu gweinidogaeth, yn enwedig Pedr, yr hwn a gai y fraint o fod yn brif offeryn i sefydlu yr eglwys Gristionogol gyntaf yn Jerusalem, a dwyn i mewn flaenffrwyth y Cenedloedd: eithr yn pen. xviii, dengys Iesu Grist y drefn a'r llywodraeth ag oedd i fod yn ei eglwysi. Oddi wrth y gyfran hon o'r gwirionedd, dysgir ni gan ein Harglwydd, y byddai yr eglwysi a ffurfid ac a blannid gan yr apostolion, yn ol ei drefn ef, yn gynnulleidfaoedd ag a fyddai yn ddichonadwy i gydymgyfarfod â'u gilydd yn yr un lle, i wrando cŵyn yr aelod tramgwyddedig, ac i ystyried achos y cyhuddedig. A bod

* Mat. xviii. 17—20. † Dr. Campbell's Lect. on Eccl. Hist. vol. i. p. 319—329.

gan bob un o'r cynnulleidfaoedd hyn, a elwir yma yn eglwys, hawl i drin a phenderfynu eu hachosion eu hunain, am yr hyn a berthynai i grefydd pob un o'i haelodau, heb fod yn gyfrifol i neb arall ar y ddaear. Canys yma golygir, yn y modd egluraf, fod barn yr eglwys yn derfynol ar achos y cyhuddedig, fel na chyfeirir ef at un llŷs arall. Yma hefyd y dangosir fod gan ddau neu dri o un o'r cyfryw eglwysi, pan yr ymgyfarfyddont mewn modd rheolaidd a threfnus, yn enw Iesu Grist, yn wyneb rhai amgylchiadau, hawl i weithredu, ac y dylai yr hyn a wneir ganddynt gael ei ystyried yn safadwy; canys y mae iddynt addewid am bresennoldeb eu Harglwydd.*

Hefyd yr oedd ein Harglwydd yn ystyried yr apostolion fel cynnrychiolwyr y gweinidogion cyffredin a fwriadai efe i'w codi i fynu, o oes i oes yn ei eglwysi, i'w blaenori a'u hadeiladu. Yn mhlith amryw bethau ereill a fynegodd efe iddynt yn y sefyllfa hon, ag a berthyn i holl weinidogion y Testament Newydd, gellir ystyried yr hyn sydd yn yr adnodau diweddaf o efengyl Mathew yn briodol iawn.† Canys y mae yr addewid a rydd ein Harglwydd o fod gyda hwy hyd ddiwedd y byd, yn dangos mai nid wrthynt hwy, yn bersonol nac yn swyddol, fel apostolion, yr oedd Crist yn llefaru; o blegid y maent hwy a'u swydd wedi darfod yn yr eglwys isod er ys cannoedd o flynyddoedd, heb neb canlyniedyddion iddynt yn y swydd honno. O ganlyniad, y mae yn rhaid eu bod hwy y pryd hwnw yn derbyn y cyfarwyddiadau, yr annogaethau, a'r addewidion uchod, fel cynnrychiolwyr y gweinidogion ag oedd i gael eu codi yn barhaus yn yr eglwysi hyd ddiwedd y byd.‡

Dewisodd ein Harglwydd ddeg a thrugain ereill hefyd, i fod yn gennadau neillduol iddo; a danfonodd hwy bob yn ddau i fyned o flaen ei wyneb i'r dinasoedd, y trefydd, &c. lle yr oedd efe ar fedr myned i bregethu yr efengyl, a gwneuthur gwyrthiau yn ei enw. Ond gan nad yw yr ysgrifenwyr sanctaidd wedi rhoddi unrhyw hanes i ni pwy oedd y deg a thrugain hyn, na pha beth a ddaeth o honynt ar ol yr un gennadiaeth a nodir, na sôn am danynt ond mewn un lle gan yr efengylwyr, fe'u gadewir; canys nid oes ond ffrwyth dychymmygion lawer yn eu cylch, yn mhellach na'r hyn a ysgrifenwyd.‡

Mae yr athrawiaeth a gyhoeddodd ein Harglwydd Iesu, a'r bywyd a fu efe byw, yn ei sefyllfa o ddarostyngiad, yn dangos nattur yr egwyddorion ar ba rai yr oedd efe yn meddwl sefydlu ei deyrnas yn mhlith dynolryw. "Fy mrenhiniaeth i nid yw o'r byd hwn," meddai efe ger bron Pilat.§ Yn yr ymadroddiad byr hwn, fe ddengys fod ei deyrnas ef yn wahanol o ran ei hegwyddorion, ei dybenion, a'r moddion trwy ba rai y dygir hi yn mlaen, i deyrnasoedd y byd hwn. Attebolrwydd dyn i ddyn am ei weithredoedd, ydyw yr egwyddor ar ba un y saif, ac wrth ba un y gweinyddir brenhiniaethau y byd hwn; eithr attebolrwydd dyn i Dduw yn unig, fel Arglwydd cydwybod, a rhydd-ymroddiad dynion iddo, ydyw yr egwyddorion ar ba rai y saif, ac wrth ba rai y gweinyddir brenhiniaeth yr Arglwydd Iesu. Yn berffaith gyson â'r egwyddorion syml a sanctaidd hyn, yr ymddangosodd ac yr ymddygodd ein Harglwydd yn y byd; a'r rhai hyn oedd cynnwysiad yr athrawiaeth a gyhoeddodd; ac o herwydd ei bleidgarwch iddynt y gwrthodwyd ef a'i

* Y mae yn lled debygol fod yma gyfeiriad gan ein Harglwydd at arferiad yr Iuddewon, pa rai a farnent nad oedd llai na deg o ddynion mewn oedran, wedi ymgyfarfod â'u gilydd yn un o'u Synagogau, yn ddigonol i wneuthur i fynu gynnulleidfa addas er ymdrin âg achosion crefyddol; ac o herwydd hyn, nid adeiladent Synagog yn un man ond lle y byddai cynnifer â hyny o fewn cyfleusdra i uno yn ngbyd ar bob amser addoliad.—*Prid. vol.* i. *p.* 372.

† Mat. xxviii. 20. ‡ Luc x. 1—21. § Ioan xviii. 36.

frenhiniaeth gan yr Iuddewon. Er eglurhau hyn, sylwir fod disgwyliad mawr a chyffredinol am ddyfodiad y Messiah tua'r amser, mae yn debygol, yr ymddangosodd ein Harglwydd, nid yn unig yn mhlith cenedl Israel, eithr cenhedloedd ereill hefyd. Canys heblaw yr ysgrythyrau Iuddewig, yn cynnwys tystiolaethau am y cyfryw ddyfodiad, yr oedd traddodiadau arosol am yr unrhyw, taenedig braidd yn mhlith yr holl Genhedloedd, wedi dwyn llawer o honynt hwy i uno â'r Iuddewon yn eu disgwyliad.

Eithr yr oedd eu golygiadau yn gyffredin yn hollol gamsyniol am yr Hwn oedd yn dyfod, dull ei ddyfodiad, a nattur a dyben y deyrnas a osodai i fynu pan y deuai. Nid oedd yr Iuddewon wedi meddwl am un gwaredwr ond oedd ddynol, yn dyfod mewn rhwysg-fawredd, gogoniant, ac enwogrwydd daearol, i'w gwaredu a'u rhyddhau oddi wrth lywodraeth y Rhufeiniaid, a gosod i fynu deyrnas yn ol egwyddorion y byd hwn, yn mha un y golygent fod i genedl Israel gael ei dyrchafu mewn mawredd ac enwogrwydd bydol, a llywodraeth o'r fath ag y byddai i holl genedlaethau y ddaear fod mewn ufudd-dod iddi. Yr oedd y dychymmygion hyn am ymddangosiad y Messiah a nattur ei deyrnas, nid yn unig wedi creu y disgwyliadau cryfaf yn yr Iuddewon, ond hefyd wedi peri yr eiddigedd a'r gochelgarwch mwyaf yn y cenhedloedd cymmydogaethol. Ond ymddangosiad isel a gostyngedig Iesu o Nazareth, nid oedd yn atteb i ddisgwyliadau uchelgais yr Iuddewon; gan hyny hwy a dramgwyddasant wrtho ef a'i achos, gwrthodasant ef, ac a'i rhoddasant i farwolaeth. Er fod yn ymddangosiad ein Harglwydd y fath fawredd ysbrydol, ag a amlygai ei wir Dduwdod, a bod ei ddyfodiad i'r byd yn cael ei selio trwy y cyfryw arwyddion nerthol, ag a dystiolaethai yn eglur ei ddwyfol anfoniad—etto yr oedd bydgarwch, balchder calon, a rhwysg-fawredd bydol, wedi dallu yr Iuddewon gymmaint, ac yn eu llenwi yn gyffredin â'r fath ddychymmygion, nes oeddynt yn analluog i archwaethu, na dirnad dim gogoniant, na phrydferthwch, ond a berthynai i'r byd hwn yn unig.

Y mae holl fywyd ein Harglwydd Iesu, fel ei gosodir allan gan yr efengylwyr, yn teilyngu sylw manylaf ei ganlynwyr; nid yn unig fel y mae yn siampl i'w efelychu yn gyffredin gan ei holl bobl, ond yn neillduol fel y mae yn perthyn i weinidogion yr efengyl, a'r cyfryw y mae a wnelont â dwyn yn mlaen ei deyrnas yn weinidogaethol. Canys y mae ei fywyd, yn sicr, yn eglurhau yr egwyddorion uchod—y dybenion a'r moddion trwy ba rai y mae yn addas i'w deyrnas gael ei dwyn yn mlaen yn mhlith dynion. Er fod ein Harglwydd Iesu, mae yn debygol, a chanddo hawl i goron Judea, fel etifedd uniawn yr orsedd, hanedig yn ol y cnawd o dŷ a thylwyth Dafydd; etto ymddengys ei fod, yn ei holl fywyd, yn annhraethol bell o fod âg ynddo un cais am awdurdod a llywodraeth wladol—mor bell felly, mal ag y darfu iddo unwaith, pan yr oedd ei wrandawyr am ei gipio a'i wneuthur yn frenin, gilio allan oddi ar eu ffordd.

Ni welir yn un lle, yn mywyd Iesu, ei fod am osod ei[illegible] allan fel barnwr, er ymyrraeth âg achosion tymhorol, a barnu rh[illegible] pleidiau, mewn pethau perthynol i'r bywyd hwn, eithr hollol i'r gwrthwyn[illegible]. Pan geisiodd un ganddo erchi i'w frawd ranu yr etifeddiaeth âg ef, n[illegible] ym yn gwybod i'r Arglwydd Iesu atteb neb mor sarrug ac annerbyniol âg yr attebodd efe hwn; a hyny, mae yn debyg, o herwydd ceisio ganddo gyflawni swydd a gwaith na pherthynai iddo, a'i annerch mewn cymmeriad anmhriodol. Ac nid ym yn gallu gweled fod ein Harglwydd Iesu yn dangos y chwennychiad lleiaf am gael y llywodraeth wladol, na'r awdurdodau dynol, yn y mesur

lleiaf, i bleidio ei achos a'i deyrnas, nac yn amcanu defnyddio eu galluoedd hwy fel moddion tu ag at ddwyn yn mlaen ddyben ei ddyfodiad. Ffon na chleddyf ni welwyd yn ei law, eithr ffrewyll o fân reffynau, i yrru yr anifeiliaid allan o'r deml, ond nid i yrru neb i mewn i'w deml.

Pan yr ystyriom y pethau hyn, ac edrych pa mor ddiuchelgais a difydgarwch yr ymddangosai ein Harglwydd trwy ei holl fywyd, y mae yn anmhossibl i ni gredu iddo feddwl am osod i fynu deyrnas mewn mawredd a rhwysg bydol, yn ol egwyddorion teyrnasoedd y byd hwn, ac i'w dwyn yn mlaen mewn cyssylltiad â llywodraethau daearol. Ni ellir meddwl chwaith ei fod yn bwriadu i weinidogion ei eglwys fod yn farnwyr, yn arglwyddi, yn dywysogion, &c. er ymdrin âg achosion gwladol, nac iddynt gynnyg adeiladu ei eglwys trwy gyfreithiau, cospedigaethau, ac arfau dynol: o blegid y mae ymddygiadau hunan-ymwadol, gostyngedig, llariaidd, a llafurus ein Harglwydd, yn ein dysgu yn hollol i'r gwrthwyneb. Pan yr edrychom arno yn myned oddi amgylch gan wneuthur daioni i gyrph ac eneidiau, yn ymgyfeillachu â'r gwaelaf a'r iselaf o blant dynion, yn ymdrechu yn mhob lle i achub eneidiau, yn cydymdeimlo â'i bobl yn eu holl gystudd—a phan welom y parodrwydd oedd ynddo i wneuthur y gwasanaeth iselaf i'w bobl, megis golchi traed ei ddysgyblion, yn hytrach na chael ei wasanaethu, a'r gofal oedd yn ddangos dros anrhydedd Duw—y mae'r pethau hyn yn llefaru yn eglurach am nattur, dyben, moddion, a dull dygiad yn mlaen ei deyrnas, na phe ysgrifenid cyfrolau cyfain. Onid yw efe, yn y pethau hyn, yn siampl ogoneddus, teilwng i'w efelychu gan bawb o'i ganlynwyr, yn enwedig y rhai sydd yn dwyn perthynas â'r weinidogaeth? ac onid yw hyn yn dangos y moddion a'r dull y mae ei deyrnas i gael ei dwyn yn mlaen?

Ysbrydolrwydd nattur a dybenion teyrnas Dduw, symledd ei hagwedd ymddangosiadol, a moesoldeb y moddion trwy ba rai ei dygir yn mlaen, a welir yn eglur yn yr oll a ddywedodd, yn gystal ag a wnaeth, ein Harglwydd Iesu, O blegid fod ei athrawiaeth yn gosod allan symledd, ysbrydolrwydd a sanctteiddrwydd egwyddorion ei deyrnas, mae yr Iuddewon yn ei chablu, yn ei dirmygu ac yn ei gwrthod. Pan yr oedd efe yn dangos iddynt fod eu holl freintiau gwladol a chrefyddol, eu perthynas âg Abraham, eu gosodiadau, a'u defodau oll, yn mha rai yr oeddynt yn ymddiried am gymmeradwyaeth gyda Duw, a mwynhad o fywyd tragywyddol, yn annhraethol rhy fach iddynt; ac nad oeddynt, wedi y rhai hyn oll, o ran eu sefyllfa a'u cyflyrau ger bron Duw, fymryn gwell na'r publicanod a'r pechaduriaid, ymddigiasant wrtho, a haerasant ei fod yn ynfydu. A phan yr oedd efe yn eu galw hwy i roddi i fynu y farn gyfeiliornus ag oeddynt wedi lettya am danynt eu hunain, sef mai hwy oedd unig gyfeillion y Nefoedd, a'r llwybr dychymmygol oedd ganddynt i feddwl cyrhaedd gwynfyd, yn nghyd â'r dybiaeth lawn o wag hyder oedd ganddynt am y bendithion a'r breintiau a ddeuai iddynt trwy eu Messiah disgwyliedig, ac i ymostwng ger bron Duw, fel pechaduriaid, mewn edifeirwch, a chredu ynddo ef, fel yr unig Fessiah addawedig, o dan y perygl mwyaf i beidio—hwy a ymgynddeiriogasant yn ei erbyn, cablasant ef, a chyhuddasant ef o fod mewn cynghrair âg uffernolion.

Yr oedd pob amlygiad a wnai ein Harglwydd o nattur, egwyddorion, a dybenion ei deyrnas, yn hollol groes i olygiadau a disgwyliadau yr Iuddewon. Yr oeddynt hwy wedi ymarfer âg eglwys wladol, yr hon oedd wedi cael ei sefydlu yn ol dull a threfn, ac ar yr un egwyddorion, i raddau, â theyrnasoedd y byd yn lled gyffredin. Hefyd yr oedd sefydliad Iuddewig i

ddybenion neillduol, yn cael ei ddwyn yn mlaen, mewn graddau helaeth gyda llawer o fawredd, gogoniant, ac urddasrwydd bydol; o ganlyniad yr oeddynt yn tybied mai nid i ddadwneud y pethau hyn yr ymddangosai y Messiah, ond i'w dyrchafu. Ychydig oeddynt yn feddwl y buasai Crist, pan y deuai, yn gosod i fynu deyrnas ag a fuasai yn dileu yr hyn oeddynt hwy yn edrych arno yn brif ogoniant a harddwch eu crefydd; ond y buasai yn dyrchafu eu trefniadau allanol, a'u defodau eglwysig yn fwy, ac yn eu helaethu. Meddyliasant yn sicr, pan y deuai, y gosodai eu harchoffeiriad mewn mwy o fawredd a llywodraeth, eu hoffeiriaid yn gyffredin oll mewn mwy o wychder ac enwogrwydd, a'u holl addoliad mewn mwy o brydferthwch ac ardderchawgrwydd dynol a gweledig. Ond mawr oedd eu siomedigaeth, pe teimlasent hyny, pan yr amlygodd Iesu Grist, nad oedd ei deyrnas ef o'r byd hwn, a'i fod yn dyfod, nid i ddiwygio eu crefydd hwy, o ran ei threfn a'i sefydliad allanol, ond i'w thynu i lawr a'i dadymchwelyd, ac i osod i fynu ei eglwys ar egwyddorion, mewn dull a threfn, gwahanol i'r un ag oedd o'r blaen yn mhlith yr Iuddewon.

Pan y gofynodd y Phariseaid i'n Harglwydd, "pa bryd y deuai teyrnas Dduw," efe a attebodd, ac a ddywedodd, "Ni ddaw teyrnas Dduw wrth ddisgwyl." Fel pe y dywedasai, 'Nid fel yr ydych chwi yn disgwyl y daw teyrnas Dduw, ac nid fel y mae teyrnasoedd y byd hwn, yn dyfod gyda phob rhyw fawredd ac ardderchawgrwydd daearol, y daw hon; ond hi a fydd o wahanol nattur yn hollol, ac yn cael ei dwyn yn mlaen ar wahanol egwyddorion, ac i wahanol ddybenion.' "Canys, wele," medd ef, "teyrnas Dduw, o'ch mewn chwi y mae;" hyny yw, nid un oddi allan, i alw sylw y byd arni, ydyw, nac i atteb disgwyliadau cnawdol, ac i foddhau tueddiadau llygredig dynolryw; eithr i'w theimlo yn yr enaid, a'i hadnabod mewn cyfiawnder, tangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân. Gellir dywedyd yn eofn, pe o'r byd hwn y buasai brenhiniaeth yr Arglwydd Iesu, na fuasai neb yn fwy parod i'w derbyn na'r Iuddewon, na neb yn fwy ymdrechgar drosti, na dim yn fwy unol â'u harchwaeth hwy. Ond gan nad oedd hi o'r byd hwn, er ei bod i gael ei gosod i fynu yn y byd—nad yw hi ddynol, er ei bod yn mhlith dynion, ac er ei bod i leshau dynion, nid yw hi ddaearol, eithr ysbrydol, o ran ei hardderchawgrwydd, ei breintiau, ei dybenion, a'r moddion trwy ba rai y mae hi i gael ei dwyn yn mlaen ar y ddaear—hwy a'i gwrthodasant, ac a'i gwrthsafasant yn ei holl oruchwyliaethau.

Er nad oedd yr eglwys Gristionogol wedi cael ei ffurfio a'i sefydlu gan ein Harglwydd tra bu efe byw—canys aelod o'r eglwys Iuddewig oedd efe—etto yr ydym yn gweled yn eglur, yn ei fywyd a'i athrawiaeth, y prif linellau o'i nhattur a'i threfn. Ac fe deilynga ystyriaeth pawb, y modd difrifol y dengys yr Arglwydd Iesu, mewn amryw fanau o'r gair, fod gostyngeiddrwydd a hunan-ymwadiad yn egwyddorion hanfodol i'w deyrnas ef, a bod cydraddoldeb mewn hawl ac awdurdod yn gymmwysder angenrheidiol i holl weinidogion y Testament Newydd.* Gwedi iddo fyw yma, myned oddi amgylch gan wneuthur daioni, eglurhau y pethau a berthynent i deyrnas Dduw, a gorphen y gwaith a osodwyd iddo, dros dair blynedd ar ddeg ar hugain a hanner, yr ydym yn cael ei fod yn nesu tua diwedd ei yrfa, pan y mae ei holl rinweddau yn mawr ymddysgleirio. Yma y gwelir ei sêl dros ogoniant Duw ac anrhydedd ei lywodraeth, ei ostyngeiddrwydd, ei gariad at ei bobl,

* Mat. xviii. 1—5. Luc ix. 23. Mat. xx. 24—29, a xxiii. 8—12. Luc xxii. 24—27.

a'i gydymdeimlad â hwy, ei ofal drostynt, ei addfwynder, ei barodrwydd i wneuthur daioni i ddynion, a hyny yn wyneb yr adgasrwydd mwyaf, ei ymddiried yn ngofal ei Dad, ei ymostyngiad i'w ewyllys, a'i foddlonrwydd i'w drefn—yn pelydru mewn tanbeidrwydd annhraethadwy. Pan yr edrychom arno, a chlywed ei eiriau llawn o gariad, gras, tangnefedd, a sancteiddrwydd, yn dyferu dros ei wefusau bendigaid, ar y swpper diweddaf—a phan welom ef yn symmud ymaith yr ordinhad Iuddewig, a elwir y Pasg, ac yn dwyn i mewn yr un efengylaidd, y swpper sanctaidd, i'w harferyd gan ei bobl fel arwydd i gofio am dano hyd ei ail ddyfodiad ar gymmylau'r nef—y mae yn rhy anhawddd edrych ar amgylchiadau olaf ei fywyd, ag sydd mor llawn o nefolrwydd a gwir ogoniant, heb deimlo yr effeithiau mwyaf dymunol, a phrofi blaen-brawf o ffrwythau ei deyrnas. Ond er fod ein Harglwydd Iesu wedi arwain y fath fywyd pur, a thraethu y fath athrawiaeth nefol, a gwneuthur y fath weithredoedd nerthol, er profi dwyfoldeb ei anfoniad, a gwirionedd ei weinidogaeth; etto nid oedd ei waith ar ben, yn mhob ystyr, yr oedd pethau mawrion a phwysig a rhaid i'w cyflawni cyn adeiladu ei eglwys, a dwyn i mewn yr oruchwyliaeth efengylaidd. Yr oedd yn rhaid iddo farw, yn iawn am bechod, er eglurhau cyfiawnder Duw yn wyneb maddeuant pechodau, ac adgyfodi oddi wrth y meirw, a myned i'w ogoniant.

Pan yr edrychom ar farwolaeth y Cyfryngwr, yn ei berthynas â'r Iuddewon, yr ydym yn rhwym o edrych ar hyny fel y weithred greulonaf a fu erioed; yn amlygu yr elyniaeth a'r rhagfarn ystyfnicaf; yn gweithredu yn y modd grymusaf, yn wyneb y profion egluraf o ddiniweidrwydd, hawddgarwch, dwyfoldeb, a'r daioni mwyaf o eiddo yr Iesu bendigaid. Eithr pan yr ystyriom ei farwolaeth yn ei berthynas â llywodraeth y nef, ac âg arfaeth Duw, yn nhrefn achubiaeth pechaduriaid, ymddengya yn anfeidrol ogoneddus a phrydferth, fel canolbwynt yn mha un y mae holl ranau Cristionogaeth yn ymgyfarfod yn y modd hawddgaraf, yn sylfaen ar ba un yr adeiladir yr eglwys, ac yn brif foddion gwellhad dynolryw. Gosodwyd ef i farwolaeth yn y bedwaredd flwyddyn ar bymtheg o deyrnasiad Tiberius, amherawdwr Rhufain,* a chladdwyd ef yn medd newydd Joseph, a naddasid mewn craig; ond efe a adgyfododd yn foreu y trydydd: ac wedi iddo orphen pob peth ag oedd iddo i'w wneuthur yma, yn ol yr hyn a ysgrifenwyd, yn mhen deugain niwrnod, efe a esgynodd i ogoniant.

* Ordran cywir ein Harglwydd pan y bu farw, oedd ychydig o fisoedd gyda thair blynedd ar ddeg ar hugain, eithr ychydig fisoedd yn fyr o ddeg ar hugain, yn ol y cyfrif cyffredin.

PENNOD II.

Lle y traethir am yr hyn a gymmerodd le o Adgyfodiad Iesu Grist hyd ei Esgyniad—o'i Esgyniad hyd Dywalltiad yr Ysbryd Glan ar ddydd y Pentecost—Sefydliad yr Eglwys Gristionogol gyntaf—ei Chynnydd beunyddiol—dechreuad ei Herledigaeth—Neillduad y Saith Diacon, y swyddwyr cyffredin cyntaf yr ydym yn cael hanes am eu neillduad yn yr Eglwys—Marwolaeth Stephan, un o'r Saith Diacon—Gwasgariad y Dysgyblion o Jerusalem trwy'r gwahanol wledydd—Pregethiad yr Efengyl ganddynt yn mhob lle—Llwyddiant eu Gweinidogaeth—Sefydliad Eglwysi yn Judea, Samaria, a Galilea—Troedigaeth Saul—Yr Heddwch cyffredinol a fu i'r Eglwysi mewn canlyniad—Cynnwysiad o Hanes yr Eglwys am o ddeutu saith mlynedd.

ADGYFODIAD yr Arglwydd Iesu oddi wrth y meirw, ydyw un o'r amgylchiadau mwyaf pwysig a berthyn i'r grefydd Gristionogol; y mae fel carreg glo mewn bwa maen, ar ba un y mae grym a chadernid yr holl adeilad yn ymddibynu. Yn yr ystyr hyn yr oedd yr Apostol yn edrych arno wrth ysgrifenu at y Corinthiaid, pan y dywed, "Ac os Crist ni chyfodwyd, ofer yn wir yw ein pregethu ni, ac ofer hefyd yw eich ffydd chwithau. Fe'n ceir hefyd yn gau dystion i Dduw."* Ac adgyfodiad Crist oedd un o brif destunau y prophwydi gynt, ar ba un y syllent yn hyderus a chyda gorfoledd. At hyn hefyd y cyfeiria ein Harglwydd nid yn unig ei ddysgyblion, ond ei elynion hefyd, fel y prawf sicraf ac egluraf mai efe oedd y Messiah addawedig. Ni ddichon gelyniaeth dynion, grym eu hanghrediniaeth, a'u hymgaledwch mewn pechod, ymddangos yn fwy ysgeler mewn un lle nag yn ngwaith yr Iuddewon yn ceisio celu adgyfodiad Iesu, trwy roddi arian i'r milwyr ag oedd yn tystiolaethu iddynt am hyny. Gwedi i'r Arglwydd Iesu fynegi iddynt o'r blaen y byddai iddo adgyfodi, a'r dystiolaeth a roddodd y milwyr o fod hyny wedi cymmeryd lle, yr hon ni chynnygasant mo'i gwadu, yn nghyd â'r hanes a gawsant am y gwyrthiau a'r nerthoedd rhyfedd a gymmerasai le ar yr amgylchiad, yr hyn oedd yn brawf digonol o'i ddwyfol anfoniad; ond etto yn lle ymostwng i'r gwirionedd, wele hwy nid yn unig yn gwrthod y gwir eu hunain, eithr hefyd yn ymdrechu ei gelu oddi wrth eraill, trwy ffug a thwyll-chwedl o'r afresymolaf.

Oni ddengys hyn, yn y modd egluraf, nad yw y gwirionedd, er ei egluro i ddynion yn y dysgleirdeb mwyaf, a thrwy y moddion addasaf, yn ddigonol i'w dwyn i'w dderbyn, tra y maent o dan lywodraeth gelyniaeth calon yn ei erbyn.

Amlygu a phrofi sicrwydd adgyfodiad Iesu Grist, oedd un o brif gang-

* 1 Cor. xv. 14, 15.

henau gwaith a swydd yr apostolion, a phrif bwngc eu gweinidogaeth; ac i hyn yma yr oeddynt wedi cael eu cymmwyso mewn modd neillduol. Gwelwyd ef ganddynt â'u llygaid, teimlwyd ef ganddynt â'u dwylaw lawer gwaith wedi iddo adgyfodi; cyfeillachasant âg ef, cydfwyttasant gydag ef, gwelasant ef ar wahanol amserau, weithiau gan rai o honynt yn unigol, bryd arall yn gynnulledig gyda'u gilydd; ac efe a'u hannogodd i'w chwilio, a gwneuthur y sylw mwyaf manylaidd er eu llawn foddlonrwydd, mai efe oedd yr un a fu byw gyda hwy am flynyddau o'r blaen, yr hwn a fu farw ar y groes, ac a adgyfododd. Hysbysir i ni, gan yr haneswyr sanctaidd, am naw neu ddeg ymddangosiad o eiddo Iesu Grist i'w ddysgyblion, ar wahanol amserau, yn hyd y deugain niwrnod y bu efe gyda hwy wedi ei adgyfodiad. Er fod llen, mewn mesur, yn aros ar ymddygiadau yr Arglwydd yn ysbaid yr amser hwnw, etto yr ydym yn cael ei fod yn cyfeillachu yn felus â'i apostolion, yn eu dysgu am y pethau a berthynent i'w deyrnas, yr hon a fwriadai efe i'w gosod i fynu trwy eu gweinidogaeth hwy, yn gorchymyn iddynt aros yn Jerusalem hyd oni wisgid hwy â nerth o'r uchelder, yn rhoi addewid neillduol o'i Ysbryd Glan i hyny, ac yn eu hawdurdodi i fyned allan i'r holl fyd, i bregethu yr efengyl, a gwneuthur dysgyblion o'r holl genhedloedd, trwy eu bedyddio hwy yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan.* Gwedi hyn, eu dysgu i gadw pob peth a orchymynasai efe iddynt, gan addaw bod gyda hwynt, a'i holl wir gennadau, hyd ddiwedd y byd. Dyma ordeiniad cyntaf bedydd dwfr i fod yn ordinhad efengylaidd yn eglwys Iesu Grist.

Gwedi ymadawiad yr Arglwydd i'r nef o ben mynydd yr Olewydd, dychwelodd y dysgyblion, yn ol gorchymyn eu Harglwydd, i Jerusalem; dewisasant Mathias, trwy goelbren, i fod yn apostol, yn lle Judas fradwr. Nid ydym yn cael hanes am ddim arall a wnaethant am y deng niwrnod hyn, ond eu bod oll yn parhau yn un a chyttun, mewn gweddi ac ymbil, hyd ddydd y Pentecost.†

Yr oedd tair o wyliau neillduol, o ddwyfol drefniad, yn perthyn i genedl Israel, sef gwyl y Pasg, gwyl y blaenffrwyth, neu y Pentecost, a gwyl y Pebyll. Ar y gwyliau hyn, yr oedd holl wrrywiaid yr Iuddewon i ymddangos ger bron yr Arglwydd yn Jerusalem. Dywed Josephus fod yn cydymgyfarfod yno, ar rai o'r gwyliau hyn, fwy na thair miliwn o ddynion. Nid oes amheuaeth nad oedd y gwyliau hyn yn arwyddion coffadwriaethol i Israel, o'r hyn ag oedd yr Arglwydd wedi ei wneuthur yn y dyddiau gynt; etto meddylir eu bod hefyd yn arwyddion addysgiadol o'r hyn oedd yr Arglwydd yn fwriadu ei wneuthur iddynt, yn nyfodiad y Messiah. Yr ydym yn gweled fod cyfeiriad amlwg yn y Pasg a'r Pentecost at farwolaeth ac adgyfodiad yr Arglwydd Iesu, a thywalltiad yr Ysbryd Glan ar yr apostolion; paham hefyd nad oedd yn ngwyl y Pebyll gyfeiriad at babelliad Iesu Grist yn y cnawd? Ac os cymmerodd marwolaeth Iesu Grist le, a thywalltiad yr Ysbryd Glan, ar yr un amser ag oedd yr Iuddewon yn cadw y gwyliau cysgodol o hyny, pa fodd nad yw genedigaeth ein Harglwydd wedi cymmeryd lle ar yr un amser o'r flwyddyn ag yr oeddynt hwy yn arfer cadw gwyl y Pebyll? yr hyn oedd tua diwedd ein mis Medi ni.

Gwelwn yn hyn fawr ddoethineb Duw, yn trefnu fod y fath amgylchiadau pwysig, ag oedd yn dwyn y fath berthynas â'r byd yn gyffredin—pa rai oedd yn fuan i gael eu cyhoeddi ger gwydd holl genhedloedd y ddaear—

* Mat. xxviii. 19. † Act. i. 14—26.

i gael eu cyflawni yn y fath le, ar y fath amseran nodedig, pan yr oedd dynion o bob parth braidd dan y nef, wedi ymgynnull yno, yn cael gweled a chlywed y pethau hyny. Gwedi dyfod dydd y Pentecost, dywedir fod yr holl apostolion—ac, mae yn debyg, yr ugain a chan dysgybl y sonir am danynt gan Luc, yn llyfr yr Actau, gyda hwy—oll yn gyttun, yn yr un lle,* pan ddaeth cyflawniad o addewid y Tad arnynt mewn modd nerthol a gweledig. Gellir meddwl fod yr apostolion er adgyfodiad Iesu, yn cadw y dydd cyntaf hwnw o'r wythnos, yn neillduol, yn fwy sanctaidd nag un dydd arall; ac nid oes le i ammeu, nad ar y dydd hwn y tywalltwyd yr Ysbryd Glan ar yr apostolion: canys gwnaed hyn dranoeth i'r seithfed Sabbath er amser dyoddefaint ein Harglwydd, sef yn mhen deng niwrnod a deugain wedi y Pasg. "Yn ddisymmwth daeth swn o'r nef megys gwynt nerthol yn rhuthro, ac a lanwodd yr holl dŷ lle yr oeddynt yn eistedd. Ac ymddangosodd iddynt dafodau gwahanedig megys o dân, ac efe a eisteddodd ar bob un o honynt. A hwy oll a lanwyd â'r Ysbryd Glan." Trwy yr arwyddion gweledig ag oedd yn gydfynedol â'r amgylchiad gogoneddus a phwysig hwn, y dangosir bywiogrwydd, grymusder, ac effeithioldeb doniau yr Ysbryd Glan, pa un a dywalltwyd ar yr apostolion; a phan y dywedir ei fod yn *dafodau gwahanedig o dân*, arwyddir y gwahanol ddoniau â pha rai y gwisgwyd hwy, pob un ei ddawn priodol ei hun. Gan mai trwy gymmysgiad yr ieithoedd ar y cyntaf y gwasgarwyd trigolion y ddaear, a chan i'r gwasgariad hwn fod yn foddion ac achlysur i helaethu a chadarnhau eilunaddoliaeth yn y byd, felly yn awr trwy gynnysgaethu yr apostolion â gwahanol dafod-ieithoedd, y galluogwyd hwy i lefaru wrth yr holl genhedloedd am fawrion bethau Duw, er eu casglu yn un yn Nghrist, ac i ddinystrio eilunaddoliaeth. Gwedi i'r Ysbryd Glan gael ei dywallt ar yr apostolion, ffrydiodd y fath belydr o oleuni a gwybodaeth ysbrydol i mewn i'w meddyliau; ac ar unwaith, llanwyd eu calonau â'r fath wresogrwydd, bywiogrwydd, gwroldeb sanctaidd, a hyfdra duwiol, ag na ddarfu iddynt ei deimlo erioed o'r blaen. Tra yr oeddynt hwy gyda'u Harglwydd yn nyddiau ei ddarostyngiad, yr ydym yn eu gweled yn llawn o syniadau cnawdol, bydol, a daearol, am nattur a dybenion ei deyrnas; ac wedi iddo ãdgyfodi, gwelwn hwynt yn yr un gwyrni. Pan oedd efe yn llefaru wrthynt am fedydd yr Ysbryd Glan, gofynasant iddo, "ai y pryd hwn y rhoddai efe y frenhiniaeth i Israel drachefn."† Eithr wedi y tywalltiad hyn o'r Ysbryd arnynt, llanwyd eu meddyliau â golygiadau ysbrydol, cywirwyd eu syniadau am nattur a dybenion teyrnas y Messiah, fel y gwelsant berthynas holl brophwydoliaethau yr Hen Destament â hyn yma. Unionwyd eu barn a'u hamgyffredion am yr athrawiaeth a draddodwyd iddynt gan Iesu Grist ei hun; symmudwyd ymaith eu rhagfarn, a'r gogwyddiadau parhaus oedd yn eu meddyliau at barch, mawredd, ac elw bydol; a llyngcwyd hwy gymmaint gan bethau ysbrydol a nefol, fel nad ydym yn gweled ynddynt, o ganlyniad, un ymgais am deyrnas ddaearol, na pharch, na mawredd dynol.

Yn flaenorol i'r amgylchiad uchod, yr ydym yn cael yn yr apostolion lawer o arwyddion gwendid, llwfrdra, a digalondid, hyd yn nod yn Pedr, yr hyfaf o honynt; ond wedi eu gwisgo â nerth o'r uchelder, mae y fath fawrfrydedd, gwroldeb, a hyfdra anamgyffredadwy yn ymddysgleirio yn eu holl ymddygiadau, ag oedd yn peri i'w gelynion synu. Pan oeddynt yn sefyll

* Act. ii. 1. † Act. i. 6.

ger bron holl ffaenoriaid cenedl Israel, a'r cynghor yn Jerusalem, mewn mewn perygl am eu heinioes, dywedent wrthynt, "Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion."* A phan wedi hyn yn cael eu trin yn galed, a'u bygwth am eu bywyd, aethant allan o wydd y cynghor yn llawen, gan ei chyfrif yn deilwng i ddyoddef anmharch o achos ei enw Ef. Ac ar unwaith yr ym yn eu gweled yn cael eu galluogi i lefaru gwahanol dafod-ieithoedd, pa rai, mae yn debyg na ddarfu iddynt hwy erioed eu clywed yn cael eu llefaru, chwaethach eu dysgu, o'r blaen; trwy hyn cymmwyswyd hwy i wneuthur yn hysbys fawrion weithredoedd Duw, yn nhrefn achubiaeth dynion, yn mhlith yr holl genhedloedd. Derbyniasant hefyd allu i wneuthur gwyrthiau mawrion a nerthol, y rhai oeddynt brawf diamheuol o fod y Nefoedd yn pleidio eu hachos.

Gwnaeth y tywalltiad yma o eiddo yr Ysbryd y fath effaith anamgyffredadwy ar deimladau y dysgyblion eu hunain, pan dreiglodd y fath ffrwd lifeiriol o oleuni a gwybodaeth i'w meddyliau, fel yr ennynwyd y fath fflam o gariad yn eu heneidiau, nes gwneud i'w tafodau ddatgan mawl Duw, yn y modd mwyaf cyhoeddus, trwy ganiadau a dywediadau gorfoleddus; trwy hyn ennillasant sylw y lluaws.

Yr oedd yr Iuddewon wedi gwasgaru yn rhyfedd, ac wedi ymdaenu y pryd hwnw trwy holl wledydd adnabyddus y ddaear. Yn mhob gwlad lle y byddent yn aros, yr oeddynt yn dwyn sêl dros eu crefydd, fel yr oeddynt yn proselytio rhai o'r cenhedloedd eilunaddolgar atti hi, yn yr amrywiol fanau lle yr arosent.

Fel yr oedd wedi dyfod yn nghyd i'r wyl hon, i Jerusalem, Iuddewon a phroselytiaid o bob gwlad adnabyddus y pryd hwnw, hwy a gynnullwyd yn nghyd tua'r lle yr oedd yr apostolion yn aros, wrth eu clywed yn llefaru; a phan ddeallasant mai Galileaid anllythyrenog oeddynt, hwy a drallodwyd, ac a lanwyd â syndod, wrth eu clywed yn dywedyd am fawrion bethau Duw, yn yr iaith yr hon y ganwyd pob un o honynt ynddi. Dechreuasant ymholi â'u gilydd, a gofyn pa beth a allasai hyn fod? Rhai o honynt ag oedd yn fwy anwybodus ac anystyriol na'r cyffredin, a attebasant, gan ddywedyd, mai llawn o win melus oeddynt. Cymmerodd yr apostol Pedr achlysur oddi wrth hyn, i draddodi iddynt y bregeth ragorol a goffeir yn yr ail bennod o'r Actau. Yn ei bregeth, y mae yr apostol yn ymdrechu symmud ymaith y gwarth ag oedd y gwatwarwyr yn cynnyg ei daflu arno ef a'i gyd-apostolion, o fod yn feddwon, trwy ddangos fod meddwdod yn yr oes honno, mor gynnar â naw o'r gloch y bore, yn beth hollol anarferol yn y wlad; a pha mor afresymol oedd meddwl fod meddwdod yn peri y fath effaith â dwyn dynion i lefaru am bethau mawrion Duw, mewn gwahanol dafod-ieithoedd, na fedrent mo honynt o'r blaen. Y mae efe yn dangos iddynt y gwir a'r priodol achos o'r hyn ag oeddynt yn weled ac yn glywed. Pan oedd yr apostol yn llefaru am yr Ysbryd Glan, ac Iesu Grist, yn ei farwolaeth a'i adgyfodiad, "Ysbryd yr Arglwydd a weithredodd ar galonau y bobl, fel yr argyhoeddwyd tair mil o'r gwrandawyr, wrth glywed y pethau hyn. Gwedi iddynt gael eu dal gan y weinidogaeth, a'u dwys-bigo yn eu calonau, gwaeddasant allan ar Pedr, a'r apostolion ereill, Ha wyr frodyr, beth a wnawn ni?" Yna yr attebwyd hwynt, ac y dywedwyd wrthynt, gan yr apostol, am ddychwelyd at Dduw, mewn edifeirwch, a dangos eu hymos-

* Act. v. 29.

tyngiad i efengyl Iesu Grist, trwy gymmeryd eu bedyddio yn ei enw, fel ag y byddai iddynt gael maddeuant pechodau, ac y derbynient ddoniau yr Ysbryd Glan. Ac efe a'u hannogodd i hyn yma, trwy ddangos iddynt fod yr *addewid* yn perthyn iddynt hwy, a'u plant, "ac i bawb yn mhell, cynnifer ag a alwo yr Arglwydd ein Duw ni atto."* Yr *addewid* yn ddiau ag oedd gan yr apostol mewn golwg, oedd yr un a wnaed gan Dduw gynt i Abraham o fod yn Dduw iddo ef ac i'w had, yr hon addewid a gynnwysai ynddi ei hun holl gyflawnder yr efengyl, ac a ellir yn briodol ei hystyried yn sylfaen ac yn wreiddyn i'r oruchwyliaeth efengylaidd ag oedd yn cael ei gosod i fynu yn awr yn mhlith dynion. "Yna y rhai a dderbyniasant ei air ef yn ewyllysgar, a fedyddiwyd: ac yr oeddynt yn parhau yn athrawiaeth ac yn nghymdeithas yr apostolion, ac yn torri bara, ac mewn gweddiau."

Yma yr ydym yn cael hanes am ffurfiad a sefydliad yr eglwys Gristionogol gyntaf erioed, yn ei threfn efengylaidd; ac mae yn deilwng o'n sylw, fod hon wedi cael ei sefydlu o dan olygiaeth y deuddeg apostol, ag oedd dan gyfarwyddiadau anfethedig Ysbryd Duw. Gallwn fod yn dra sicr, mai ar yr un egwyddorion, mai ar yr un cynllun, trwy'r un moddion, ac mai i'r un dybenion y sefydlodd yr apostolion bob eglwys, yn mhob lle arall; gan hyny dylem sylwi gronyn ar osgedd hon yn Jerusalem. Gwelir yn amlwg mai cynnulleidfa gymdeithasol oedd hon, heb un trais na gorfod, wedi ymgyflwyno i'w gilydd mewn modd ewyllysgar a gwirfoddol; canys dywedir eu bod wedi derbyn ei air Ef yn ewyllysgar, ac yn parhau yn athrawiaeth a chymdeithas yr apostolion. Amlygir i ni hefyd, mai nid ar awdurdodau dynol, megys cyfreithiau, sefydliadau, trefniadau, a chyfansoddiadau gwladol, yr oedd hi yn cael ei sylfaenu, ond ar *addewid Duw:* "Canys i chwi y mae yr addewid, ac i'ch plant." Hon oedd yr ysgrif-fraint ar ba un y corpholwyd yr eglwys gyntaf.

Dywedir i ni, mai derbyn y gair yn ewyllysgar—hyny yw, ei gredu â chydwybodol ymostyngiad i'r athrawiaeth a draddodai yr apostolion, fel un ddwyfol—ydoedd un moddion effeithiol o ffurfiad yr eglwys hon, yr hyn hefyd oedd unig ymrwymiad ei haelodau i'w gilydd, pa rai oeddynt yn caru y naill y llall o barch a chariad i'r gwirionedd. Dangosir i ni yma hefyd, mai bedydd dwfr, yn enw Iesu Grist, Pen mawr y gymdeithas, oedd yr arwydd weledig o fendithion a breintiau yr addewid a'r oruchwyliaeth efengylaidd, ac o'u perthynas hwythau â hi. Yn mhellach dangosir i ni, mai y rhai a dderbyniasant ei air Ef yn ewyllysgar, a'u plant, oedd yn cael eu hystyried yn aelodau o'r gymdeithas neu yr eglwys hon: canys hwy oedd â'u henwau yn yr ysgrif-fraint, a hwy a annogid gan yr apostol pan yn ei chyhoeddi. Hefyd amlygir i ni, yn amgylchiadau y lle hwn, mai ymarfer darllain, gwrando athrawiaeth yr apostolion, gweddio, a gweini Swpper yr Arglwydd, yr hyn a olygir wrth dorri bara, oedd yr ymarferiadau eglwysig, a'r moddion trwy ba rai yr oedd yr eglwys gyntefig hon yn cael ei hadeiladu.

Fel trysor yn yr eglwys, gosodir allan fod yr aelodau yn llawn cariad ac haelioni tu ag at eu gilydd, yn gymmaint ag y dywedir i rai o honynt werthu eu tiroedd a'u meddiannau, a rhanu y gwerth i'r neb yr oedd eisiau arno. Bernir gan rai, fod pawb ag oedd yn aelodau yn yr eglwys gyntefig hon, yn gwerthu eu holl feddiannau, ac yn rhoddi y gwerth mewn trysorfa gyffredin; a bod pawb, yn ddiwahaniaeth, yn derbyn eu cynnaliaeth allan o honi, yn ol

* Act. ii. 38—40.

eu hangen. Eithr tybia ereill, nad oedd y cwbl yn cael ei roddi fel hyn mewn trysorfa gyffredin, ac nad oedd pawb yn derbyn eu cynnaliaeth allan o honi, ond y tlodion yn unig. Fod yn yr eglwys drysorfa gyffredin, ac y derbyniai y tlodion eu cynnaliaeth o honi, sydd eglur: ond pa un a oedd pawb a berthynai iddi yn gwerthu yr oll ag a feddent, ac yn bwrw y gwerth yn y drysorfa gyffredin, a bod pawb o honynt yn derbyn eu cyfraid oddi yno, sydd dra amhëus. Mewn perthynas i'r farn gyntaf, y mae yn amlwg nad oedd ar neb rwymau neu orfod i weithredu felly; canys fe ddywed Pedr wrth Ananias, fod ei dir yn ei feddiant, i wneuthur âg ef fel y mynai, cyn ei werthu; a chwedi ei werthu, fod ei werth yn aros yn ei feddiant, i wneuthur âg ef fel yr ewyllysiai. Yr hyn a ddengys, yn y modd egluraf, fod Ananias at ei lawn ryddid i wneuthur â'i dir, ac â'i werth, yn ol fel y gwelai oreu—ei gadw, neu ei werthu, a chyfranu yr hyn a welai fod yn dda o hono i'r drysorfa gyffredin—y cyfryw yn ddiau oedd sefyllfa pob un o aelodau yr eglwys. Eithr o herwydd dywedyd celwydd, a balchder ei galon, yn nghyd â'i broffes ragrithiol, yn ceisio dangos ei fod yn fwy haelionus a marweiddiedig i'r byd nag oedd, y syrthiodd y farn ar Ananias.*

Wrth sylwi ar yr hyn a ddywedir gan yr hanesydd sanctaidd am hyn, mae yn dra eglur mai dangos mae yr Ysbryd Glan fawredd cariad a haelioni yr eglwys gyntefig yn Jerusalem, a'i gofal am y tlodion, ac mai nid cyffredinolrwydd meddiannau yn hollol a amlygir. Canys dywedir, "A lluaws y rhai a gredasant, oedd o un galon, ac o un enaid; ac ni ddywedodd neb o honynt, fod dim a'r a feddai yn eiddo ei hunan, eithr yr oedd ganddynt bob peth yn gyffredin.—Canys nid oedd un anghenus yn eu plith hwy: o blegid cynnifer ag oedd berchen tiroedd neu dai, a'u gwerthasant, ac a ddygasant werth y pethau a werthasid,—Ac a'u gosodasant wrth draed yr apostolion: a rhanwyd i bob un *megys yr oedd yr angen arno.*†" A dywedir wrthym ddarfod i'r Iuddewon ag oedd yn llefaru yr iaith Roegaidd, yn yr eglwys hon, rwgnach yn erbyn yr Iuddewon ag oedd yn llefaru yr iaith Hebreig; o herwydd fod eu gwragedd gweddwon hwy yn cael eu hesgeuluso yn y weinidogaeth feunyddiol, hyny yw, nad oedd y naill yn cael cymmaint â'r llall allan o'r drysorfa gyffredin, at eu cynnaliaeth; yr hyn sydd yn dangos yn dra eglur, mai *eu gwragedd gweddwon* oedd yn cael eu cynnaliaeth allan o'r drysorfa hon, ac nid *yr Iuddewon Groegaidd*, ag oedd yn gwneuthur yr achwyniad.

Heb sylwi ar yr amryw anghyfleusderau a fyddai y dybiaeth o'u bod yn dwyn eu holl feddiannau i drysorfa gyffredin yn ein harwain, oni byddai yn fwy cysson âg ymddygiadau yr eglwysi ereill o drefniad yr apostolion, i ni olygu fod yma drysorfa gyffredin wedi cael ei gwneuthur trwy haelioni neillduol y cyfoethogion, ac mai y gwragedd gweddwon a'r tlodion oedd yn cael eu cynnaliaeth o honi? Canys mae yn eglur fod cariad a haelioni tu ag at y tlodion, a gofal mawr am danynt, yn yr holl eglwysi cyntefig, fel y sylwir etto; ond nid oedd gwerthu yr holl feddiannau a feddai pawb yn cael ei arferyd yn un o honynt. Mae yn debygol fod galwad mawr ar yr eglwys hon, yn Jerusalem, am haelioni, ar y pryd hwnw; o blegid fod cynnifer o Iuddewon gwasgaredig wedi dyfod yno o bob parth, lluaws mawr o ba rai a ddychwelwyd; ac yr oedd yn natturiol i'r cyfryw chwennych aros yn nghymdeithas yr apostolion, dros amser, er mwyn eu haddysgiadau ys-

* Act. v. 1—11. † Act. iv. 32, 33.

brydol, yn mhethau teyrnas nefoedd, heb ganddynt braidd ddim tu ag at eu cynnalineth o'u heiddo eu hunain. Hefyd, dichon fod y rhai oedd yn gwerthu eu tiroedd a'u tai yn ystyried fod Jerusalem a gwlad Judea i gael eu distrywio, ac i'w trosglwyddo i feddiant ereill yn fuan; o ganlyniad nid oeddynt yn gweled tai a thiroedd o werth i'w cadw yn eu meddiant. Oddi wrth hyn, sylwn nad oedd dim yn yr eglwys hon ond a ddylai fod yn mhob eglwys mewn ymarferiad, pan yn yr un amgylchiad ag oedd hi.

Bu yr ychwanegiad mawr—y miloedd ag oedd yn dyfod yn feunyddiol at yr eglwys—haelioni ei haelodau, a'r achwyniad a wnaed gan yr Iuddewon Groegaidd, yn achlysur i'r eglwys, trwy gyfarwyddyd yr apostolion, neillduo swyddwyr newyddion yn yr eglwys, pa rai a elwir yn ddiaconiaid; sylwir ar eu cymmwysder, eu neillduad, a'u gwaith, fel yr elom yn mlaen.

Yr oedd gan yr Iuddewon dair o oriau gweddi neillduol, ar ba rai yr arferai lluaws mawr yn feunyddiol fyned i fynu i'r deml i weddio, ac eraill a weddient gartref, gan droi eu hwynebau tu a'r deml. Yr awr gyntaf oedd yn nghylch naw o'r gloch y bore, pan yr aberthid yr oen boreuol; yr ail oedd yn nghylch deuddeg o'r gloch, yn amser y bwyd-offrwm mawr; a'r drydedd oedd yn nghylch tri o'r gloch brydnawn, pan aberthid yr oen yn aberth hwyrol. Ar ryw ddiwrnod, yn fuan ar ol dydd y Pentecost, pan ar yr awr weddi ddiweddaf, a Phedr ac Ioan yn myned i fynu i'r deml, annerchwyd hwy gan ddyn cloff o grôth ei fam, yn mhorth Prydferth y deml, ar yr hwn y galluogwyd hwy i wneuthur y wyrth ryfedd honno o roddi iddo iechyd yn y man, yn enw Iesu Grist.* Wrth weled y wyrth ryfedd a nerthol hon, a wnaed trwy yr apostolion, braw a syndod aruthrol a ddaliodd afael ar feddyliau yr holl edrychwyr; a'r bobl a redasant, ac a ymgasglasant yn nghyd attynt o bob cwrr i'r ddinas; a chwedi iddynt eu hamgylchynu, achubodd yr apostolion y cyfleusdra er eglurhau y gwir achos o'r hyn yr oeddynt yn ei weled. Wrth wneuthur hyn, hwy a osodasant Iesu Grist allan, ger bron y bobl, fel yr unig Fessiah addawedig i'r tadau gynt; a phregethasant ef yn ei farwolaeth, ei adgyfodiad, a'i esgyniad, ac mai efe oedd y Prophwyd mawr y llefarodd yr holl brophwydi am dano. A llaw yr Arglwydd oedd gyda hwy, fel y dychwelwyd eneidiau lawer at yr Arglwydd; a chwanegwyd at yr eglwys fwy na phum mil o rifedi. Cyn braidd i'r apostolion orphen llefaru wrth y bobl, dyma y storm yn ymgyfodi, a'r dymhestl yn ymdywallt; yr offeiriaid Iuddewig a blaenoriaid y deml, a'r Saduceaid anfoesgar, wedi ymgynddeiriogi, a ddaethant ar yr apostolion, ac a'u rhoisant mewn dalfa hyd dranoeth; canys yr oedd wedi myned yn rhy hwyr i gadw llŷs, y prydnawn hwnw. Dranoeth, wedi i Annas yr hen archoffeiriad diswyddedig gan y Rhaglaw Rhufeinaidd, Caiaphas ei fab yn nghyfraith, ag oedd y pryd hwnw yn y swydd yn ei le, henuriaid a blaenoriaid gwlad a theml, a'r gwyr mwyaf dysgedig yn mhlith yr holl genedl, ddyfod yn nghyd; agorwyd y llŷs, ac eisteddodd y cynghor. Yr oedd y cynghor hwn yn cael ei wneuthur i fynu o'r un personau, gan mwyaf, ag oedd yn gwneuthur i fynu y cynghor ger bron pa un y safodd, ac y condemniwyd Arglwydd y bywyd, ychydig ddyddiau cyn hyny. Gwedi dwyn yr apostolion ger bron y llŷs rhwysgfawr hwn, lle, pa un, tebygol, na buont yn ei fath erioed o'r blaen, Pedr, yn llawn o'r Ysbryd Glan, a annerchodd y cynghor gyda yr hyfdra, y mawredd, y doethineb, y priodoldeb, y gwedd-

* Act. iii. 1—11.

eidd-dra, a'r prydferthwch mwyaf, gan ddangos iddynt y modd yr iachasid y dyn cloff, a'u dirfawr berygl hwythau o wrthod Crist, fel unig Iachawdwr; yr hwn a groeshoeliasant hwy ar bren, eithr a gyfodwyd gan Dduw o feirw. Er gwaeled oedd ymddangosiad yr apostolion y pryd hwnw, meddyliaf mai nid hawdd dirnad am neb dynion a fu yn druenusach eu cyflwr, yn gyfyngach eu hamgylchiadau, ac yn fwy gofidus eu teimladau, na'r gwyr ag oedd yn gwneuthur i fynu y cynghor hwn, fel y gallasid yn hawdd weled a dywedyd wrth eu hwynebau, mai hwy, y gwyr oedd ar yr orsedd, oedd yn y ddalfa, ac nid y cyhuddedig a safent ger bron. Canys yr oeddent yn gweled eu parch, eu helw, eu mawredd, eu hanrhydedd oll, eu hawdurdod, a'u grym, yn siglo o'r gwaelod, yn barod i syrthio yn chwilfriw am eu penau, a'u claddu yn eu hadfail mewn angof tragywyddol, wrth bresennoldeb a gweinidogaeth yr apostolion, er nad oeddynt ond gwael yr olwg, ond etto nerthol trwy Dduw. Gan faint eu balchder, eu rhagfarn, eu drygioni, a chaledwch eu calonau, ni chyfaddefent y gwir, ac ymostwng nis mynent. Yr oedd y fath ddysgleirdeb dwyfol yn llewyrchu, a doethineb yn ymddangos yn, ac ar yr oll o weinidogaeth yr apostolion, fel nas medrent, trwy resymau, eu gwrthwynebu a'u gwrthsefyll—edrych i mewn yn ddiffrifol a manylaidd i'r achos dan sylw, gan danbeidrwydd euogrwydd eu cydwybodau, nis meiddient.

Pa beth oedd ganddynt gan hyny i'w wneuthur, yn wyneb y fath ddyryswch ac amgylchiadau cyfyng? Dim, ond ymdrechu taflu llwch dros yr amgylchiad, a cheisio ei wthio i gysgod a thywyllwch, a'i orchuddio â ffug o waharddiadau a bygythion i'r apostolion, i beri iddynt ddistewi. Eithr Pedr, yr hwn oedd ychydig o wythnosau cyn hyny yn methu sefyll o blaid achos ei Arglwydd, ger bron morwyn fechan, yn awr a welir gyda'i gyfaill Ioan, fel dewrion glew, a milwyr gwrol, yn edrych ar eu holl fygythion fel saethau gwellt, ac heb ofni wynebau a phenguwchau y cynghor rhwysgfawr, yn dywedydyd wrthynt yn eofn, "Ai cyfiawn yw ger bron Duw, wrando arnoch chwi yn hytrach nag ar Dduw, bernwch chwi,"* y rhai yr ydych yn arddelwi eich hunain yn farnwyr yn y cyfryw bethau: eithr am danom ni, sicr yw, "na allwn ni na ddywedom y pethau a welsom ac a glywsom."

Gwedi i'r apostolion ymadael â'r cynghor, hwy a aethant at yr eglwys, ac a ddangosasant yr hyn oll a wnaethid iddynt. Dyma ddechreuad eu herledigaeth. Gwaeth yr eglwys y peth yn destun gweddi; a phan yr oeddynt yn gweddio, rhoddodd Duw arwydd neillduol o'i foddlonrwydd iddynt, er cadarnhau eu ffydd, trwy siglo y lle yr oeddynt wedi ymgynnull ynddo, a'u llanw â'r Ysbryd Glan.† Gwelwn, fod yr Arglwydd yn cadarnhau gweinidogaeth ei apostolion, trwy eu galluogi i wneuthur gwyrthiau, nid o drugaredd yn unig, ond hefyd o gerydd a barn, trwy eu gwneuthur rai gweithiau yn offerynol i gospi troseddwyr rhyfygus â barn uniongyrchol, er mawrhad i'w air, ac fel y llenwid ei bobl â mwy o ofn a pharch iddo. Enghraifft neillduol o hyn, a welir yn ngweinidogaeth Pedr tu ag at Ananias a Sapphira ei wraig.‡ Nid ydym i feddwl fod hyn, yn y mesur lleiaf, yn cyfiawnhau y rhai hyny a arddelwant iddynt eu hunain yr hawl o wneud cyfreithiau, a gweini cospedigaethau dynol ar eu cydgreaduriaid, am nad ydynt yn cydweled â hwy mewn pethau crefyddol; ac ni allant gael un cefnog-

* Act. iv. 19. † Act. iv. 31. ‡ Act. v. 1—11.

rwydd oddi wrth hyn, hyd nes y dangosont eu bod yn yr un sefyllfa ag yr oedd yr apostolion, yn meddu ar yr un cymmwysderau, ac ar yr un awdurdod â hwythau. Dichon yr ymddengys yr hyn a wnaed tu ag at Ananias, yn weithred lemdost a gerwin ar y cyntaf i rai; ond wrth ystyried y peth yn fwy manylaidd, gwelir hi yn un gyfiawn, ddoeth, a grasol. Canys diau i lawer o ddrygau ac annhrefn gael eu rhagflaenu trwy hyn, ac amddiffynwyd anrhydedd yr Ysbryd Glan, yr hwn, mewn modd arbenig, a weithredai yn, a thrwy, yr apostolion, yn erbyn pa un y cyflawnodd Annanias y pechod ysgeler hwn; a thrwy hyn, mawrhawyd gweinidogaeth yr apostolion, fel na ryfygai neb gynnyg gwneuthur y fath dwyll rhagllaw. Cafodd y weinidogaeth yr effaith ddyladwy ar feddyliau yr eglwys, fel yr ofnasant, a phawb a wybuasant am yr amgylchiad.

Yr oedd nerthoedd a rhyfeddodau mawrion yn cael eu gweithredu yn mhlith y dysgyblion y dyddiau hyny, ac arwyddion neillduol o bresennoldeb eu Brenin yn gydfynedol â gweinidogaeth yr apostolion, fel yr oedd llawer yn cael eu chwanegu at yr eglwys yn feunyddiol; a sôn a aeth am danynt trwy yr holl wlad, a'r dinasoedd o amgylch Jerusalem. Ymgasglodd lluaws mawr yn nghyd o bob parth, a dygasant gyda hwynt eu rhai cleifion. Ac yr oedd y fath effeithiau a gallu i iachau yn cael eu hamlygu, fel yr oeddynt yn gosod y cleifion ar welyau a glythau ar hyd ochrau yr heolydd, a manau ereill, lle yr oedd yr apostolion yn tramwyo, fel ond yn unig eu tywyllu gan gysgod Pedr; a thrwy y naill ffordd a'r llall, hwy a iachawyd oll.* Ond gwnaeth hyn yr effaith mwyaf annymunol a drwg ar feddyliau yr archoffeiriad, a'r Saduceaid, tylwyth ag oedd o'r un farn âg ef ei hun, fel y llanwyd hwy o lid a chenfigen.

Gosodasant eu dwylaw drachefn ar yr apostolion, ac a'u daliasant; ac er mwyn eu hiselhau, a'u dirmygu yn ngwydd y bobl, dodasant hwy yn y carchar cyffredin, lle yr oedd y gwaelaf a'r gwaethaf o ddrwgweithredwyr yn cael eu rhoddi. Eithr anfonodd Duw ei angel, ac a'u gwaredodd hwynt, heb ofyn cennad i swyddwyr na gwylwyr, agorodd ddrysau y carchar, heb un agoriad, ac a'u cauodd drachefn; a chwedi eu dwyn hwynt allan, parodd iddynt fyned i'r deml, fel o'r blaen, a llefaru wrth y bobl holl eiriau y fuchedd hon. Gwedi iddynt gasglu cynghor yn foreu dranoeth, ac agoryd y llŷs, danfonasant swyddwyr i'r carchar, i gyrchu yr apostolion ger bron. Y swyddwyr pan ddaethant, a gawsant y carchar wedi ei sicrhau, a'r ceidwaid o flaen y drws; ond, er eu mawr siomedigaeth, ni chawsant y carcharorion a geisient ynddo. Gwnelid y cynghor hwn i fynu o'r un personau agos a'r un o'r blaen, o flaen pa un y bu Pedr ac Ioan yn sefyll. Pan glywsant chwedl drwstan y swyddwyr, hwy a drallodwyd, ac a darawyd â syndod, fel nas gwyddent pa beth i'w ddywedyd, pa beth i'w wneuthur, na pha beth a ddeuai o'r pethau hyn. Eithr pan oeddynt yn syn-feddwl am hyn, dacw un yn rhedeg nerth ei draed, ac yn dywedyd, 'Y mae y bobl a ddodasoch chwi ddoe yn ngharchar, yn sefyll heddyw yn y deml, yn pregethu, ac yn dysgu y bobl.' Gwedi iddynt glywed hyn, danfonasant swyddogion a blaenoriaid y deml attynt, i erfyn arnynt i ddyfod yn ewyllysgar; canys ni feiddient osod trais arnynt, a'u dwyn trwy orfod, rhag ofn i'r bobl oedd yn gwrando arnynt eu llabyddio. Pan y dygwyd hwy ger bron y llŷs, gofynwyd iddynt gan yr archoffeiriad, paham yr oeddynt wedi anufuddhau i'r hyn oeddynt

* Act. v. 16.

hwy wedi ei orchymyn iddynt y dydd o'r blaen. Dyma sylfaen y cyhuddiad; eithr efe a helaethodd, er dangos fod y cyhuddiad hwn yn cael ei fwyhau, trwy eu bod wedi llanw Jerusalem â'u hathrawiaeth, a'u bod yn ceisio dwyn gwaed Iesu Grist arnynt hwy. Yr apostolion a attebasant y cyhuddiad yn fyr, etto yn dra chynnwysfawr, gan ddywedyd, *Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion.* Yma gwelwn fod yr apostolion yn gwadu yn hollol hawl blaenoriaid gwladol ac eglwysig i sefydlu a threfnu crefydd dros ddynion ereill, ac i osod rhwymau cydwybod ar neb i ufuddhau i'w trefniadau; ond fod i bob un ymofyn â'r gwirionedd, ac ufuddhau iddo, drosto ei hun; a bod pob dyn yn attebol i Dduw yu unig am ei bethau crefyddol. Ac mae yr apostolion, yn ddibetrusder, yn gosod allan ger bron blaenoriad Israel, mai hwy oedd llofruddion Arglwydd y bywyd; ac ar yr un pryd, yn dangos ei fod wedi cael ei ddyrchafu, i roddi iachawdwriaeth i'r bobl, yn eu cyfeirio at yr Ysbryd Glan, yr hwn oedd yn gweithio trwyddynt hwy, fel tystion o'r pethau hyn ac yn gwasgu yn ddwysach nag o'r blaen, ar eu cydwybodau yr angenrheidrwydd o gredu ynddo. Ffromasant yn aruthr, a digiasant yn ddirfawr wrthynt, o blegid yr araeth hon, a bwriadasant eu gosod oll i farwolaeth allan o law. Eithr yr Arglwydd, yn ei fawr ddoethineb, a'i ragluniaeth ddaionus, a drefnodd iddynt ddiangfa, trwy Gamaliel, yr hwn, meddir, oedd fab i'r hen Simeon a gymmerodd Iesu Grist yn ei freichiau yn y deml gynt. Yr oedd hwn yn gallach, ac yn fwy dyngarol na'r lleill ag oedd yn y llŷs yn gyffredin. Gwedi gyrru yr apostolion allan o'r ystafell, efe a gynghorodd y cynghor, mewn modd difrifol iawn a rhesymol, i beidio a'u lladd, rhag eu cael yn rhyfela yn erbyn Duw: â hyn a cydunasant oll. Gwedi galw yr apostolion i mewn, curwyd hwy â gwiail, fel yr oedd yn arferiad gyffredin i wneuthur â gau brophwydi, rhybyddiwyd hwy yu ddifrifol, na lefarent mwyach yn enw Iesu Grist, ac a'u gollyngwyd ymaith. Hwythau a aethant allan y wydd y cynghor, mor bell o gael eu digalonni yn wyneb y pethau hyn, fel yr oeddynt yn llawenhau am ei chyfrif yn deilwng i ddyoddef anmharch er mwyn ei enw Ef: a beunydd yn y deml, ac o dŷ i dŷ ni pheidiasant a dysgu a phregethu Iesu Grist.*

Yn y cyfamser, pan oedd teyrnas Satan yn syrthio o flaen gweinidogaeth yr Apostolion, megys mellten, a lluaws mawr yn cael eu chwanegu yn feunyddiol at yr eglwys, dygwyddodd yr amgylchiad hwnw gyda golwg ar achwyniad yr Iuddewon Groegaidd yn nghylch eu gwragedd gweddwon, yr hyn a alwodd sylw neillduol yr apostolion atto. Mae yn debyg iddynt edrych arno fel yn lled bwysig; a rhag i Satan, drwy hyn, beri rhwyg ac ymraniad yn yr eglwys, hwy a alwasant yr holl luaws dysgyblion yn nghyd, a dywedasant wrthynt mai nid cymmwys oedd iddynt hwy adael gweinidogaeth y gair, a myned i wasanaethu byrddau. "Am hyny, frodyr," ebent hwy, "edrychwch yn eich plith am seithwyr da eu gair, yn llawn o'r Ysbryd Glan, a doethineb y rhai a osodom ar hyn o orchwyl."†

Yr ydym yn barod gwedi cael cynllun o eglwys yn ei sefydliad yn ol trefn apostolaidd: yma gosodir ger ein bron gynllun o neillduad y swyddwyr cyffredin cyntaf y mae genym hanes am danynt yn y Testament Newydd; gan hyny, nid all fod yr amgylchiad yn annheilwng o sylw pawb ag sy'n chwennych gweled eglwys Dduw yn cael ei dwyn yn mlaen yn ol

* Act. v. 40. † Act vi. 8.

trefn yr apostolion. Mae yn bur amlwg fod yr holl swyddau a gwaith gweinidogaethol yr eglwys oll yn cael ei dwyn yn mlaen yn hollol ac yn unig gan yr apostolion ar y cyntaf, fel y gellir meddwl mai hwy oedd yn apostolion, yn henuriaid, yn ddiaconiaid, &c. ac yn wir bu yr eglwys dros amser yn cael ei hystyried ynddynt hwy; ond yn awr, pan mae y gwaith yn ymhelaethu, a'i derfynau yn ymehangu, maent yn cyfarwyddo yr eglwys i edrych iddynt eu hunain, a dewis gwyr cymmwys i'w gosod yn ddiaconiaid. Yn y cyfarwyddyd a rydd yr apostolion, fe amlygir i ni mai gwasanaethu byrddau oedd gwaith y rhai hyn: eu cymmwysderau oedd, eu bod yn dda eu gair, sef y cyfryw oedd mor gymmeradwy ag y gallasai yr eglwys ymddiried gofal eu meddiannau a'u hachosion tymhorol iddynt, ac yn llawn o'r Ysbryd Glan a doethineb. Y modd y gosodid hwy yn eu swydd, oedd trwy rydd ddewisiad y lluaws dysgyblion, a thrwy weddi ac arddodiad dwylaw yr apostolion. Y mae yn deilwng o'n sylw fod ffurf yr eglwysi cynteefig, o ran eu trefn, eu gwasanaeth, a'u swyddogion, yn cael eu gosod allan yn nhrefn, gorchwylion, a swyddogion y synagogau Iuddewig, yn ol fel y darlunir hwy i ni.

Yr oedd y cymdeithasau a ymgyfarfyddent yn y synagogau, a'r gorchwylion a gyflawnid yno, yn hollol wahanol, ac yn anymddibynol ar y deml, ac ar y gwasanaeth a gyflawnid ynddi. Nid oedd yn y synagogau, allorau, nac aberthu creaduriaid, ond yn unig gweddio, darllen y gair, a'i eglurhau i'r bobl. Yr oedd y swyddogion a berthynai i bob synagog yn cael eu dewis gan y gymdeithas a arferai ymgyfarfod yn y synagog, a gosodid hwy yn eu swyddau trwy arddodiad dwylaw. Yr oedd un swyddwr, o leiaf, a elwid yn llywodraethwr y synagog, yn mhob un o honynt, ac mewn rhai, byddai rhagor nag un yn y swydd hon. Hwn oedd i ofalu am holl drefn addoliad y synagog, ac i flaenori yn y gwasanaeth a gyflawnid yno. Gelwid ef yn archsynagogydd, ac angel y synagog, am eu bod yn ei ystyried yn genad drostynt at Dduw, yn ei weddiau, ac yn genad dros Dduw attynt hwy yn ei waith yn darllen y gyfraith ac yn ei heglurhau: o'r cyfryw yr oedd Sothenes, yn Corinth.* Byddai gan hwn gynnorthwywyr i ddwyn yn mlaen ranau o'r gwaith, a byddai ganddo hawl i alw neb bynag o aelodau y Gymdeithas, neu eraill a ddewisai, ag a fyddai yn bresennol, i gyflawni rhyw ran o'r gwaith; fel y gwelir i Grist gael ei alw yn Nazareth;† a Paul a Barnabas yn Antiochia.‡ Y swyddog arall a berthynai i'r synagogau, oedd gweinidog neu ddiacon. Gwaith hwn oedd gofalu am y llyfrau cyssegredig, ac achosion allanol y synagog. I hwn y rhoddodd ein Harglwydd y llyfr i gadw, wedi iddo ei gau ef, yn Nazareth.§

Fel yr oedd yr Iuddewon yn gyffredin, wedi y Caethiwed, ddim yn deall yr iaith Hebreig, etto yr oeddynt oll yn meddwl nad oedd un iaith arall yn ddigon cyssegredig i roddi y llyfr sanctaidd ynddi ond hon, felly yr oeddynt yn gorfod cadw dehonglwr yn mhob synagog i ddehongli i'r bobl yr hyn a ddarllenid.

Yr oedd aelodau yn cael eu derbyn i gymdeithas y synagogau, trwy eu rhydd ymroddiad hwy eu hunain, a rhydd gydsyniad yr aelodau a fyddai yno yn flaenorol: a byddai yr hwn a fernid yn anaddas gan y gymdeithas, yn cael ei fwrw allan o'r synagog, yr hyn oedd eu dysgyblaeth.‖

Wrth sylwi ar y pethau hyn, a'r hanes a roddir i ni yn llyfr yr Actau am

* Act. xviii. 17. † Luc iv. 16. ‡ Act. xiii. 14. § Luc iv. 20.

‖ See Prid. vol i. pp. 385, 386, and Horne's Com. Introduction to the Study of the Holy Scrip. p. 294.

ffurfiad yr eglwysi yn amser yr apostolion, y mae yn bur amlwg eu bod hwy yn cael eu cyfarwyddo at yr un drefn ag oedd yn y synagogau yn mhlith yr Iuddewon yn barod. Er fod yr apostolion yn bresennol gyda'r eglwys pan y dewisasant y saith diacon, etto ni ddarfu iddynt hwy gaethiwo rhyddid y bobl o farnu a dewis eu swyddogion eu hunain. Mewn canlyniad i hyn, amlhaodd yr eglwys yn ddirfawr, a thyrfa fawr o'r offeiriaid a ufuddhasant i'r ffydd, yr hyn oedd yn fawr i'w ryfeddu, ac yn amlygiad neillduol o allu gras Duw, wrth ystyried mawredd eu rhagfarn, a'u hunangarwch.

Yr oedd yn Jerusalem amryw o synagogau yn perthyn i wahanol bleidiau crefyddol, ac Iuddewon o wahanol wledydd a fyddai yn dyfod yno ar droion, heb fod yn arosol yn y ddinas, i ba rai y byddent hwy a'u cyfeillion yn myned i addoli. Un o'r rhai hyn a elwid yn Synagog y Libertiniaid, sef yr Iuddewon a ryddfreiniwyd gan y Rhufeiniaid, neu hiliogaeth y cyfryw rai, i ba un y byddai y Cyreniaid, yr Alexandriaid, a rhai o Cilicia yn arfer ymgynnull, yn mhlith pa rai yr oedd Saul o Tarsus. Mae yn debyg fod aelodau y synagog hon yn dra lluosog, a bod yn eu mysg amryw o ddynion dysgedig ac enwog, o leiaf rhai ag oedd yn cael eu tybied felly, pa rai, wrth weled yr arwyddion rhyfeddol, a'r gwyrthiau mawrion a wnaed trwy Stephan, un o'r saith diacon, a chlywed ei hyawdledd ef, penderfynasant i gael dadleuaeth gyhoeddus âg ef. Ond pan na allent wrthsefyll doethineb a grym ei resymau, hwy a droiasant at yr hen arferiad o fod yn erlidwyr. Gosodasant yn ei erbyn i'w gyhuddo, dystion celwyddog, y rhai a haerent eu bod wedi ei glywed ef yn cablu Moses, y deml, a Duw, megys y gosododd Jezebel rai yn erbyn Naboth.

Dygwyd ei achos ger bron y cynghor, o flaen pa un y gwelir Stephan yn sefyll yn ddiysgog, er ei fod yn hollol ddiymddiffyn o ran dynion, ac yn nghanol ei elynion cynddeiriog a therfysglyd; a phan oedd pawb yno yn dal sylw arno, wele ei wyneb ef yn dysgleirio fel wyneb angel. Gwnaeth Stephan araeth ardderchog, er amddiffyniad iddo ei hun a'r achos oedd ganddo mewn llaw, yr hon a gynnwysir yn y seithfed bennod o lyfr yr Actau, ac yn mha un y gellir meddwl ei fod yn bwriadu dangos y modd yr oedd y gyfraith a'r prophwydi oll yn cyd-dystio am Grist, a'r amseroedd hyny ag oedd wedi gwawrio arnynt hwy; ond ni oddefai byrbwylldra a chynddeiriogrwydd ei wrandawyr iddo orphen, fel y bu gorfod arno fyned at y cymmwysiad cyn iddo derfynu ei ymresymiad. Ac er mor eglur yr oedd Duw yn amlygu ei fawredd a'i allu trwyddo ef, er mor argyhoeddiadol yr ymddysgleiriai y gwirionedd trwy ei ymadroddion, ac er mor hyawdl ac athrylithgar y cymmwysid ef attynt hwy, nid oedd dim yn tyccio, tra yr oedd eu calonau yn cael eu cloi i fynu a'u llywodraethu gan y fath elyniaeth yn ei erbyn. Canys er fod daioni yr achos a amddiffynai yn tywynnu gyda'r dysgleirdeb mwyaf, ac yn cael ei amddiffyn mor ogoneddus trwy y gwyrthiau mawrion a wnaed, a'r ffraethder a ddylifai y pryd hwn dros wefusau Stephan, pan yr oedd ei wyneb yn dysgleirio gan belydrau dwyfol, fel wyneb angel, "y gwaeddasant â llef uchel, ac a gauasant eu clustiau, ac a ruthrasant yn unfryd arno, ac a'i bwriasant allan o'r ddinas, ac a'i llabyddiasant." Efe a ymostyngodd ar ei liniau yn y modd tawelaf, pan yr oedd y gafod gerrig yn disgyn arno, ac a orchymynodd ei ysbryd anfarwol i ddwylaw ei Bryniawdwr, a'i ofal nesaf oedd dros ei erlidwyr; ac, yn llawn o'r un ysbryd a'i Arglwydd, efe a lefodd â llef uchel, "Arglwydd, na ddod y pechod hwn yn eu herbyn." Ac wedi hyn, efe a hunodd.

Bu tywalltiad gwaed Stephan dduwiol, mor bell o ddisychedu blaenoriaid

yr Iuddewon am waed, fel yr awchlymodd eu creulonder, y miniodd eu cigydd-dra, ac y cefnogodd eu gelyniaeth farwol, nes y codasant erledigaeth gyffredinol yn erbyn yr eglwys.* Cymmaint oedd yr ymdrech a'r egni a arferai merthyrwyr Stephan wrth ei labyddio, fel y diosgasant eu dillad, a'u rhoddi i gadw wrth draed dyn ieuangc a elwid Saul o Tarsus, yr hwn hefyd oedd yn cyduno i'w ladd ef.

Gellir ystyried Stephan yn briodol flaenor i'r holl lu mawr o ferthyron a'i canlynodd ef, o'r eglwys gristionogol yn y byd hwn i wynfyd y nef, yn llwybr merthyrdod: a pharodd marwolaeth y cyn-ferthyr hwn alar dwys yn yr eglwys ar ei ol, a chladdwyd ef yn barchus gan wyr bucheddol.

Yn gysson a'r cyfarwyddiadau ag oedd yr Arglwydd Iesu wedi eu rhoddi i'w ddysgyblion, pan oedd y dymhestl erlidigaethus hon yn chwythu arnynt yn Jerusalem, hwy a ymwasgarasant trwy holl wledydd a dinasoedd Judea a Samaria, gan bregethu yr efengyl yn mhob lle yr oeddynt yn myned iddo, eithr yr apostolion a arosasant y pryd hwn yn Jerusalem. Gwelir yma mor anfeidrol fawr yw doethineb a llywodraeth Duw, uwchlaw doethineb a threfn dynion, a'i holl elynion; y mesurau a'r moddion a amcanodd ei elynion i lethu a distrywio ei achos yn cael eu defnyddio gan Dduw yn foddion uniongyrchol i'w ledanu, ei helaethu, a'i godi yn uwch o lawer nag oedd o'r blaen. Trwy yr erledigaeth hon, gwasgariad y dysgyblion a'i gwaith yn pregethu y gair yn mhell ac yn agos, a bod llaw yr Arglwydd gyda hwynt, eneidiau lawer a ennillwyd i Grist yn mhob lle, ac eglwysi Cristionogol a sefydlwyd yn mhlith yr Iuddewon yn y naill fan a'r llall trwy Judea a Samaria. Philip, un o'r saith diacon, a aeth i waered i Samaria, ac a bregethodd Grist yn y ddinas honno, gyda llwyddiant mawr. Hysbysiaeth a ddygwyd i'r apostolion ag oedd yn Jerusalem, fod y Samariaid wedi derbyn gair Duw; yna yr aeth dau o honynt hyd yno, i ymweled â'r dysgyblion ieuaingc hyn, er eu cyfarwyddo, eu dysgu, a'u cadarnhau, a chyfranu iddynt yr Ysbryd Glan, yn ei ddoniau gwyrthiol, ac i'w sefydlu mewn trefn eglwysaidd.† Hon ydyw yr ail eglwys Gristionogol yr ydym yn darllain am dani.‡

Dygwyddodd amgylchiad neillduol y pryd hwn yn yr eglwys yma, trwy i un Simon, a elwir y Swynwr, ymuno â'r eglwys, a dyfod yn ddeiliad o'r ordinhad o fedydd, yr hwn oedd wedi bod am hir amser yn enwog mewn hudoliaeth a thwyll, fel swynwr, a chwedi ennill meddwl y bobl yn fawr am dano. Y pechod ysgeler o ariangarwch, yn ngafael pa un yr oedd Simon yn byw, ymddygiad union a diysgog yr apostolion yn wyneb y brofedigaeth, y ceryddon llymion a weiniasant tu ag at y troseddwr, a'r canlyniadau a ddywedir a ddaeth i'r euog, sydd yn rhybuddion dwys i bawb rhag rhyfygu ymwthio i waith y weinidogaeth er mwyn budr elw. Sylwir etto ar y canlyniadau gofidus y dywedir iddynt gymmerydlle yn yr eglwys, o herwydd ymddygiadau twyllodrus, cyndyn, a phechadurus Simon. Gellir sylwi yma, fod efrau yn codi yn mhlith y gwenith, yr amser puraf erioed a fu ar yr eglwys.

Yn fuan ar ol hyn, Philip a gyfarwyddir gan yr Ysbryd Glan i fyned i gyfarfod â'r Eunuch galluog o Ethiopia, yr hwn a egwyddorwyd ganddo mewn perthynas i Iesu Grist, a threfn bywyd tragywyddol trwyddo ef. Y mae yn dra eglur fod y gwr bonheddig hwn yn broselyt i'r grefydd Iudd-

* Act. vii.

† Mae yn lled amlwg nad oedd neb o'r dysgyblion cyffredin â hawl ganddynt i gyfranu yr Ysbryd Glan yn ei ddoniau gwyrthiol, er eu bod hwy eu hunain yn ddeiliaid o hono, ond perthynai hyn i'r apostolion yn unig.

‡ Act. viii. 14, 15.

ewig, yn flaenorol i hyn, ac yn ddefosiynol, etto yn anwybodus am Grist, fel un ag oedd wedi ymddangos. Gwedi i Philip bregethu iddo oddi wrth y testun oedd dan ei sylw yn barod, a chwedi iddo gael amlygrwydd o Iesu Grist, a'r bendithion trysoredig ynddo, efe a ofynodd, a oedd rhywbeth yn lluddias iddo dderbyn arwydd o'r bendithion hyn, ac o'i ymostyngiad yntau i'r drefn efengylaidd; i'r hyn yr attebwyd gan Philip, nad oedd dim, os oedd efe yn credu. Ar gyffes o'i ffydd yn yr efenygl, efe a fedyddiwyd; ac nid ydym yn clywed dim am dano mwy, ond iddo fyned i'w ffordd yn llawen.* Gwedi i Philip fedyddio yr Eunuch, efe a gymmerwyd ymaith mewn ffordd wyrthiol, ac a gaed yn Azotus (enwog Ashdod y Philistiaid gynt), tref o du y dwyrain i Fôr y Canoldir; oddi yno efe a dramwyodd trwy amryw o ddinasoedd a threfi, gan bregethu yr Arglwydd Iesu, hyd nes y daeth i Cæsarea, prif ddinas Palestina y pryd hwnw, lle preswyliai y Rhaglaw Rhufeinig: ac yma, mae yn debyg, yr arosodd hyd derfyn ei ddyddiau.

Saul o Tarsus, prif ddinas Cilicia, oedd yn barhaus yn ystod yr holl amser hwn yn erlid ac yn anrheithio dysgyblion Iesu, ac yn chwythu bygythion a dialedd yn eu herbyn. Yr oedd Saul yn Iuddew o bob ochr, o dad a mam, o lwyth Benjamin; wedi cael ei eni yn y lle uchod, o deulu urddasol, mae yn debyg, ag oedd wedi cael ei rydd-freinio gan y Rhufeiniaid. Wedi derbyn egwyddorion dechreuol ei ddysg yn ei ddinas enedigol, anfonwyd ef yn lled ieuangc i Jerusalem; yno efe a ymunodd â'r blaid Phariseaidd, a rhoddwyd ef i astudio y gyfraith, er cwblhau ei ddysgeidiaeth yn yr athrofa, ag oedd yno dan olygiaeth yr enwog Gamaliel, ei phen athraw. Nid oedd gwylder ieuengctyd, na mawredd ei ddysgeidiaeth, yn ddigonol i gadw Saul o fewn terfynau gweddeidd-dra. Gwedi iddo fod yn ddiwyd iawn yn dwyn marwolaeth Stephan oddi amgylch, aeth fel rhyw greadur drwg ysglyfaethus, a fyddai wedi cael blâs ar waed, yn hyfach, yn greulonach, ac yn fwy gorwyllt am waed nag oedd o'r blaen. Gan faint ei dywyllwch am wir ystyr y gyfraith a ddysgai, a'i sêl dros ddaliadau y Phariseaid, yr oedd yn offeryn cymmwys ar bob achlysur i weinyddu llid a chynddaredd yr archoffeiriaid a'r offeiriaid, pa rai yn rhwydd a'i hawdurdodai i garcharu a dyfetha y saint, trwy osod barn yn eu herbyn, fel prif holiedydd yn yr achos hwn. Er mwyn cyflawni ei waith yn eithaf manylaidd, efe a chwiliai am danynt yn mhob Synagog yn Jerusalem; a phan y deuai o hyd i neb o honynt, er eu gwaradwyddo a'u dirmygu ger bron y gynnulleidfa, efe a'u cospai yn gyhoeddus, fel drwg-weithredwyr, ac a'u cymmellai i gablu yr enw gogoneddus a broffesent, heb arbed na gwyr na gwragedd: a chan ynfydu yn fwy, efe a'u herlidiai hyd ddinasoedd dyeithr hefyd.†

Pan yr oedd llid Saul yn berwi ynddo, nes yr oedd ei anadl fel rhyw angerdd, yn llawn poethder digllon, a'i eiriau a'i ymddygiadau oll fel un fflam o greulonder, efe a glywodd fod rhyw nifer o ddilynwyr yr Oen yn Damascus, prif ddinas Syria gynt, yr hon oedd o ddeutu chwech ugain milltir o Jerusalem. Yn ddiatreg efe a aeth at yr archoffeiriad i geisio awdurdod i fyned at flaenoriaid y Synagog yno, i chwilio am danynt; fel y gallai, os cai efe neb o grefydd Iesu Grist, yn y ddinas honno, eu dwyn yn rhwym i Jerusalem, i'w cospi fel hereticiaid. Gwedi iddo gael llythyrau gan yr archoffeiriad i'w awdurdodi, efe a aeth i'w daith gyda brys mawr, gan feddwl yn gryf y byddai yn dra llwyddiannus yn ei orchwyliaeth ganmol-

* Act. viii. 26—40. † Act. xxii. 4, a xxvi. 9, 10, 11.

adwy, fel y tybiai: canys nid oedd Saul yn erlid yr eglwys fel un yn hoffi y gwaith, fel yr oedd yn ddrwg, nac fel un yn ymbleseru mewn poeni a lladd ei gydgreaduriaid, ond o gydwybod, fel un ag oedd yn dra sicr ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw. Yma gwelir y gwna cydwybod ddall, mewn pethau a berthyn i Dduw, a digon o sêl grefyddol yn codi oddi ar hyny, ddyn yn fwystfil erledigaethus, o ran ei dymmerau a'i ymddygiadau.

Pan oedd Saul, fel prif ymofynydd y chwil-lys hwn, gydag ereill a gyddeithient âg ef, yn neshau at ddinas Damascus, ar hanner dydd, gweledd yr Arglwydd yn dda, yn ffordd ei ras, i ymweled âg ef, gyda mawredd a gogoniant annhraethadwy—llewyrchodd goleuni o amgylch iddo, mwy na dysgleirdeb yr haul yn ei nerth—amlygodd Iesu Grist ei hun iddo mewn modd personol ac ysbrydol, nes ei ddarostwng i'r llawr. Gwedi i'r Arglwydd wneuthur ei hun yn adnabyddus iddo, ac i Saul yntau ei gydnabod, ac ymostwng iddo, cyfarwyddir ef i fyned i'r ddinas, nid fel erlidiwr mwyach, ond fel dysgybl, er cael ei ddysgu yn helaethach am yr hyn a berthynai i'w gyflwr. Pan wedi iddo godi oddi ar y ddaear, cafodd ei fod, gan ddysgleirdeb y weledigaeth, wedi colli golwg ei lygaid, fel y gorfu arno gael un i'w dywys erbyn ei law i'r ddinas. Er fod y lleill ag oedd yn cyd-deithio âg ef, wedi gweled y goleuni, a chlywed y llais, etto ni ddarfu iddynt hwy ddeall y geiriau, na gweled yr Hwn oedd yn llefaru; ac ni chafodd y weledigaeth yr un effaith ar eu cyrph na'u heneidiau hwy, ag a gafodd arno ef, er iddynt synnu a brawychu i raddau.*

Mewn canlyniad i'r weledigaeth ryfedd hon, gwnaed y fath gyfnewidiad trwyadl yn Saul, fel y daeth yn ddyn newydd hollol, yn ei olygiadau, ei dymmer, ei agwedd feddylgar, ei gais, a'i ymddygiadau; a diau iddo deimlo rhyw effeithiad tra neillduol ar ei gorph hefyd; canys dywedir, wedi iddo fyned i'r ddinas, ei fod heb fwytta nac yfed dros dridiau, a'i fod wedi gwanychu yn fawr.

Yr oedd yn mhlith y dysgyblion ag oedd yn Damascus, ddysgybl o'r enw Ananias—pa un a oedd efe yn enedigol o'r dref hon, ai gwedi ffoi yma yr oedd o Jerusalem, yn amser yr erledigaeth bresennol, sydd ansicr. Dywed amryw ei fod yn un o'r deg a thriugain, a'i fod newydd ddyfod i'r ddinas; ereill a ddywedant mai un genedigol o Damascus oedd, wedi ei ddychwelyd ar ddydd y Pentecost, yn Jerusalem, i'r ffydd Gristionogol. Hyn sydd amlwg, ei fod yn ddysgybl o enwogrwydd: canys dywedir ei fod yn wr defosiynol, yn cael gair da gan yr Iuddewon oll, ag oedd yn preswylio yno; a dug yr Arglwydd dystiolaeth i'w gymmeriad ef, trwy roddi iddo yr anrhydedd o gael cyflawni yr hyn a wnaeth ar Saul. Yr oedd llawer iawn o Iuddewon yn byw yn Damascus; a dywed Josephus i'r trigolion ladd o honynt, unwaith, gymmaint â deng mil, a thro arall ddeunaw mil; a diammeu i lawer o honynt ag oedd yn byw yma, ddyfod i Jerusalem, ar ŵyl y Pentecost, ac i rai o honynt gael eu hargyhoeddi, ac, yn mhlith ereill; hwyrach, Ananias, a'i fod wedi blaenori yn mhlith y gynnulleidfa er hyny.

Gwedi i Saul gael ei olwg a'i iechyd, a'i fedyddio gan Ananias, a chael ei ddwyn i gymdeithas y dysgyblion, efe a ddechreuodd yn ebrwydd ar y gwaith o bregethu Crist, i'w genedl ei hun ag oedd yn byw yno. Wrth ystyried yr hyn oedd efe wedi bod, yr amcan oedd ganddo mewn golwg pan yn dyfod tu a'r ddinas hon, a'r modd rhyfedd a gwyrthiol y dychwel-

* Act. ix. 7, a xxii. 9.

wyd ef, nid rhyfedd fod pawb a'i clywsant yn pregethu Iesu Grist, yn cael eu llanw â syndod: etto, nid oedd dim yn tyccio i argyhoeddi yr Iuddewon; canys hwy a'i gwrthwynebasant ef. Eithr ymresymai mor gadarn, mai yr hwn oedd efe yn ei bregethu oedd y Messiah addawedig, nes eu distewi.* Yn yr amser hwn, mae yn debyg i Saul gymmeryd taith i Arabia, i ryw ddybenion neillduol, ac iddo aros yno yn nghylch tair blynedd, a dychwelyd drachefn i Damascus. Nid yw yn annhebyg, nad yn Arabia y pryd hwn y cafodd efe amryw o'r dadguddiedigaethau a'r gweledigaethau y sonia efe am danynt, ac y gwelodd yr Arglwydd Iesu, pryd y derbyniodd oddi wrtho y swydd apostolaidd.† Ar ol ei ddychweliad i Damascus, cydymgynghorodd yr Iuddewon yn ei erbyn, a chydfwriadasant i'w ladd; i ba ddyben, llwyddasant gyda llywydd y ddinas i osod gwyliadwriaeth ar byrth y ddinas i'w ddal; eithr efe a ddihangodd, trwy gael ei ollwng i lawr mewn basged, yn y nos, trwy ffenestr, o ben y mur. Ac efe a ddychwelodd i Jerusalem, yn mhen tair blynedd wedi yr amser yr aethai efe oddi yno â llythyrau awdurdodol oddi wrth yr archoffeiriad at flaenor y Synagog yn Damascus i ddal dysgyblion Crist. Yr oedd yn ei ddychweliad yn dra gwahanol: pan yn myned, yr oedd fel llew yn rhuo am ysglyfaeth; eithr pan yn dychwelyd, fel oen, yn ceisio ymwasgu â'r dysgyblion mewn cariad. Eithr y dysgyblion y rhai oeddynt anwybodus am ei droedigaeth, eithr yn hysbys o'i dymmer erledigaethus yn flaenorol, a'i hofnasant; a chan gymmaint eu dychryn, nis gallasent roddi derbyniad croesawus iddo. Ond eu hofnau a symmudwyd yn fuan gan un Barnabas, gwr tra adnabyddus i'r dysgyblion yn Jerusalem, yr hwn a eglurodd iddynt y modd y dychwelasid Saul, ac mor wresog ac egniol y buasai dros enw yr Arglwydd yn Damascus. Mewn canlyniad, derbyniwyd ef ganddynt i'w cymdeithas, ac yn fuan efe a roddodd brawf o ddiffuantrwydd ei broffes, trwy ei ymresymiadau cadarn dros yr Arglwydd Iesu Grist, yn erbyn yr Iuddewon Groegaidd ag oedd yn Jerusalem—aelodau, mae yn debyg, oedd y rhai hyn o'r un synagog ag yntau cyn ei ddychweliad. Pan nad allent wrthsefyll doethineb, eglurdeb, a grym ei resymau, hwy a benderfynasant i'w osod i farwolaeth; eithr y brodyr a'i hanfonasant ef ymaith i Cæsarea Philippi, yr hon oedd ar derfynau Syria; ac oddi yno efe a aeth i Tarsus, ei dref enedigol.

Ni arosodd Saul y pryd hwn yn Jerusalem ond pymtheg diwrnod, ac ni welodd o'r apostolion ond Pedr ac Iago, yr hyn a ddengys eu bod hwy oll wedi myned oddi yno yr amser hwnw, ar ryw achos neu gilydd.‡

Yr oedd yr erledigaeth a ddechreuodd ar yr eglwys yn amser marwolaeth Stephan, wedi parhau, mewn mesur, yn awr am agos i bedair blynedd. Eglur yw, nad oes un dyn yn attebol i ddyn am ei gred a'i grefydd, ac felly nid all fod un erledigaeth am bethau crefyddol yn gyfreithlon, yn wyneb deddf y nef, na hawl gan neb i wneuthur cyfraith i ofyn ufudd-dod crefyddol oddi wrth y naill ddyn i'r llall, nac i gospi am fethiant crefyddol; etto, gwirionedd yw, fod dynion wedi gwneuthur y fath gyfreithiau ag oedd yn gosod math o liw cyfiawnder, yn ngwydd dynion, ar erledigaethau o dan y cyfryw. Ond yr oedd yr erledigaeth hirfaith hon, yn anghyfreithlon yn yr ystyr hyn; canys nid oedd un gyfraith y pryd hwnw gwedi cael ei gwneuthur yn senedd Rhufain, i gospi neb am ei grefydd; na chan yr Iuddewon hwythau un hawl i osod neb i farwolaeth, pa mor ddrwg bynag

* Act. ix. 1—30. † Gal. i. 12, a 2 Cor. xiv. 6—10. ‡ Gal. i. 17—21.

yr ymddangosai iddynt hwy, heb iddo gael ei brofi yn euog mewn llŷs cyhoeddus ger bron barnwyr Rhufeinig. Eithr dygwyd yr erledigaeth anghyfreithlon hon yn mlaen dros gymmaint o amser, trwy gynddeiriogrwydd yr Iuddewon, a phechadurus oddefiad y swyddwyr Rhufeinig, o dan yr enw Ceryddon crefyddol. Yn mha un y mae yn debyg i lawer gael eu gosod i farwolaeth heblaw Stephan, yr hwn yn unig y crybwyllir am dano gan yr hanesydd sanctaidd; canys fe ddywed Saul, ei fod ef, *wrth eu dyfetha, yn rhoddi barn yn eu herbyn, a'i fod wedi erlid y ffordd hon hyd angeu.**

Yn nghylch amser ymadawiad Saul i Tarsus, dywedir fod yr eglwysi trwy holl Judea, Galilea, a Samaria wedi cael heddwch; a chan rodio yn ofn Duw a diddanwch yr Ysbryd Glan, hwy a amlhawyd. Gellir sylwi yma, pa mor gadarn ac ëang yr oedd gair Duw wedi llwyddo mor foreu yn y taleithiau hyn, ac mai cynnulleidfaoedd unigol, cymdeithasol, ac anymddibynol, oedd y rhai a sefydlwyd dan olygiaeth yr apostolion: canys dywed yr hanesydd sanctaidd, mai *eglwysi*, ac nid *eglwys*, oedd yn mhob un o'r taleithiau hyny. Mae yn sicr fod dychweliad Saul, wrth ystyried ei fod yn blaenori yn yr erledigaeth ar ei dechreuad, y modd y dysgleiriodd mawredd gras a gallu Duw yn ei ddychweliad, a'r hyn a ddaeth efe mewn canlyniad—fel llestr etholedig, i fod o'r gwasanaeth mwyaf i'r eglwysi—yn amgylchiad ag oedd yn mawr leshau a chadarnhau yr eglwysi. Ond meddyliaf mai nid i'w droedigaeth ef y gellir priodoli yr heddwch a fwynhaodd yr eglwysi y pryd hwnw, canys parhaodd yr erledigaeth tua thair blynedd wedi ei ddychweliad; ac yr oedd amgylchiadau ereill perthynol i'r genedl Iuddewig y pryd hwnw, ag oedd yn peri iddynt roddi heibio y gwaith atgas o erlid.†

Tiberius, yr hwn oedd wedi mwynhau yr amherodraeth Rhufeinaidd am dair blynedd ar hugain, a fu farw o ddeutu yr amser hwnw, ac a adawodd yr amherodraeth i Caius Caligula, ei ŵyr. Yr oedd Tiberius wedi bod yn un o'r amherawdwyr gwaethaf, creulonaf, a mwyaf anmhoblogaidd; llawer o weithredoedd gwael, atgas, a ffiaidd a gyflawnwyd ganddo, fel yr oedd yn ymwybodol na byddai ei ddeiliaid byth, o herwydd ei ormes, yn meddwl yn dda am dano, na theimlo un colled ar ei ol, na gwneuthur coffa parchus o hono. Gan gymmaint ei awydd am gael ei fawrhau, yn fyw ac yn farw, efe a roddodd yr orsedd i Caius, yr hwn, tybiai, a fuasai gymmaint yn waeth nag ef ei hun, fel y byddai i'r bobl feddwl yn well am dano yn wyneb mawredd ei ddilynydd. Yn hyn, cyrhaeddodd ei amcan, i gryn raddau: canys er i Caius ar y cyntaf ymddangos yn hynaws, a gwneuthur llawer o weithredoedd lled weddûs, nes ennill serch ac ymddiried ei ddeiliaid, a myned yn lled boblogaidd, buan yr ymdangosodd yn ei briodol nodweddiad bleiddaidd. Rhoddodd Tiberius ieuangc, yr hwn oedd yr amherawdwr diweddaf wedi ei adael yn gydfeddiannydd yr orsedd âg ef, i farwolaeth; a a gwnaeth yr un peth â Macro, pen-swyddwr Rhufain, a'i gyfaill yntau, i'r hwn yr oedd efe, mewn ystyr, yn ddyledus am ei ddyrchafiad. Yr oedd Macro, fel cyfaill ffyddlon, a gweinidog gonest, a fyddai yn caru lles ei feistr a'i wlad, yn rhybuddio ac yn attal Caius yn fynych i redeg yn ol ei dueddiadau, ac i wneuthur pob drygioni, fel mewn un chwant. O herwydd hyn, blinodd y gormeswr creulawn arno, a rhoddodd orchymyn i gymmeryd ymaith ei fywyd.‡ Gwedi hyny aeth yn mlaen mewn drygioni tu hwnt i neb a fu o'i flaen ef.

* Act. xxii. 4. † Act. ix. 31. ‡ Jones's Hist. of the Christian Church.

Yn mhlith amryw bethau ffiaidd ereill a wnaeth Caius, efe a orchymynodd gael ei gydnabod megys duw gan ei holl ddeiliaid, ac i osod ei ddelw i fynu, a chodi allorau iddo trwy bob parth o'r amherodraeth. Anewyllysgarwch yr Iuddewon i wneuthur hyn, a ddygodd arnynt ei anfoddlonrwydd yn fawr. Gwedi i allorau gael eu codi i'r gormeswr trwy wahanol barthau yr amherodraeth, rhai o'r Cenhedloedd ag oedd yn preswylio yn Judea, a godasant allor iddo yn Jamnia, dinas yn Judea, yr hon a ddistrywiodd yr Iuddewon. Y Cenhedloedd hwythau, y rhai oedd yn mawr chwennych cael achos yn erbyn yr Iuddewon, a anfonasant achwyniad o herwydd hyny yn eu herbyn at Caius. Yntau yn ddioed a alwodd adref Vilitus, y rhaglaw Rhufeinig ag oedd dros Judea, yr hwn a dybiai ei fod yn rhy bleidiol i'r Iuddewon, ac a anfonodd yn ei le ef Petrionus. Gorchymynodd iddo fyned ar frys i Jerusalem, gyda byddin nerthol, a gosod i fynu ei ddelw ef yn y deml, yn y lle sancteiddiolaf, dan yr enw Jupiter; ac os cynnygai neb o'r Iuddewon ei wrthsefyll, ei fod i'w lladd yn ddiarbed, a gwneuthur yr holl genedl yn gaeth-weision.

Tarawodd cyhoeddiad y gyfraith hon yr Iuddewon â'r fath fraw, fel na wyddent i ba le i droi eu hwynebau am gymmorth, a chawsant ddigon o waith i'w wneuthur yn lle erlid y Cristionogion. Sefyll brwydr â'r fath fyddin, nis meiddient; goddef i'r fath beth gymmeryd lle yn dawel, nis medrent, mewn un modd. Yn wyneb y cyfyngder hwn, penderfynodd lluaws mawr o honynt i fyned allan, â'u gwragddd a'u plant, i gyfarfod â Petrionus, i wastadedd Ptolemais, yn ei ddyfodiad ef a'i fyddin tu a Jerusalem, â rhaffau am eu gyddfau, i erfyn arno am eu henioes a'u breintiau. Pan y canfu Petrionus hwy ar y cyntaf, tybiodd mai byddin arfog oedd yn dyfod i'w wrthsefyll; ond wedi cael hysbysrwydd yn eu cylch, efe a roddodd gennad iddynt ddynesu atto. Yna, daethant yn mlaen, â phridd ar eu penau, a'u dwylaw ar eu cefnau, fel rhai a fyddai gwedi eu bwrw i'w colli: annerchwyd y rhaglaw gan eu blaenoriaid, mewn areithiau difrifol, gostyngedig, a chyffrous iawn. Bwriasant eu hunain i lawr wrth ei draed, mewn trallod dwys, wylofain mawr, a dagrau lawer, gan ddangos eu bod yn foddlonach i farw, nag i golli eu breintiau; a'u bod yn hollol wrth ei ewyllys ef, i'w gadael i fyw gyda eu breintiau, neu i farw gyda hwynt; ac erfyniasant yn daer arno am drugaredd, ac am ei nawdd iddynt hwy, a'u gwragedd, a'u plant. Petrionus oedd mor ddyngarol, fel y darfu iddo wrando arnynt, ac yr oedodd gyflawni gorchymyn yr amherawdwr tu ag attynt.* Priodola llawer yr oediad hwn i gyfrwysdra Petrionus, yn fwy nag i'w ddyngarwch: canys dywedid y bwriadai Caligula ddyfod y ffordd honno y flwyddyn nesaf, i Alexandria; ac os gweithredai y rhaglaw tu ag at yr Iuddewon yn ol gorgorchymyn yr amherawdwr, y gwnai y fath ddifrod, fel na byddai neb i gasglu y cynhauaf; ac os esgeulusid hwn, na byddái y wlad yn alluog i gynnal yr amherawdwr, yn ei ddyfodiad, a'r rhai a fyddai gydag ef. Gwnaeth Petrionus, mae yn wir, yr esgusawd hwn yn ei lythyr, ar yr achos, at yr amherawdwr. Caligula yr amherawdwr a fu farw yn y bedwaredd flwyddyn o'i deyrnasiad, a meddiannwyd yr orsedd gan Claudius.

Mae yn dra thebyg mai y cyfnewidiadau a'r trallodau gwladol hyn, a phethau perthynol i'r cyfryw, oedd yr achos o'r ychydig lonyddwch a fwynhaodd yr eglwysi yr amser hwnw. Yn y cyfnod heddychol hwn, cawn i

* Josephus's Antiq. b. 18. c. 6. sec. 10. Goldsmith's Hist. of Rome, pp. 349—350.

Pedr gymmeryd taith trwy wahanol barthau, er ymweled â'r eglwysi, hyd oni ddaeth efe i LYDA, tref boblog ac enwog ar lân Môr y Canoldir, yn nghwrr dyffryn hyfryd a elwid Saron. Yr oedd yma wr o'r enw Æneas, yn gorwedd yn glaf o'r parlys, er ys wyth mlynedd, ac iachawyd ef gan Pedr, yn enw yr Arglwydd Iesu. Effeithiodd hyn mor fawr ar drigolion y dref, a'r wlad o amgylch, fel y troisant oll, bron, at yr Arglwydd. Yn agos i'r dref hon yr oedd JOPPA, tref borthladdol ar fin Môr y Canoldir, yn mha le yr oedd nifer o ddysgyblion i Grist yn preswylio; yn mhlith pa rai yr oedd Dorcas elusengar yn byw, yr hon yn yr amser hwn a glafychodd, ac a fu farw, pan oedd Pedr yn Lyda. Y brodyr yn Joppa, wedi clywed am dano, a anfonasant i'w gyrchu ef ar frys: yntau, wedi dyfod, a chael gwybodaeth am yr hyn oedd wedi cymmeryd lle, a weddiodd ar yr Arglwydd, ac a drôdd at y corph marw, a galwodd arni i godi, yr hyn a wnaeth yn ddioed. A hysbys a fu hyn i'r holl ardal, a llawer a ddygwyd trwy hyny i gredu yn yr Arglwydd Iesu. A Phedr a arosodd yn Joppa rai dyddiau, hyd oni anfonwyd am dano i bregethu yr efengyl i'r Cenhedloedd, yn nhŷ Cornelius yn mhen chwe neu saith mlynedd wedi esgyniad ein Harglwydd.*

* Act. ix. 32—43.

PENNOD III.

Lle y traethir am Awdwr Llyfr yr Actau, a'i Gynnwysiad—am Bregethiad yr Efengyl, a'i Llwyddiant yn Cæsarea, yn nhŷ Cornelius, blaenffrwyth y Cenhedloedd—am Ferthyrdod Iago—am Garchariad Pedr, a'i Waredigaeth—am amgylchiadau cyfyng yr Eglwysi, gan y prinder a'r newyn—am Anfoniad Saul a Barnabas yn mhellach i blith y Cenhedloedd i bregethu yr Efengyl, eu llafur, eu llwyddiant, a newidiad enw Saul yn Cyprus—am Ddygwyddiadau eu taith mewn amryw ddinasoedd yn mharthau Asia Leiaf, ac yn eu dychweliad i Antiochia—ac am y Terfysg a gododd yr athrawon Iuddewig yn yr Eglwysi, a'r Cyfarfod a fu yn Jerusalem yn nghylch hyny.

BERNIR mai Luc, cyfaill Paul, a'i gyd-deithiwr yn amryw o'i hyntiau, a'r hwn oedd gydag ef yn ei garchariad cyntaf, am bedair blynedd, ac yn yr ail yn Rhufain, ysgrifenydd yr efengyl sydd yn dwyn ei enw—ydoedd ysgrifenydd llyfr yr Actau, neu hanes gweithredoedd yr apostolion. Mae yn lled amlwg mai Iuddew oedd Luc o genedl, brodor o Antioch, meddyg wrth ei alwedigaeth. Nid yw yn hysbys i ni trwy bwy, na pha bryd, y galwyd ef i'r ffydd; eithr eglur yw, ei fod yn gydymaith anwyl iawn i'r apostol, ac yn wasanaethwr ffyddlawn a defnyddiol iddo, fel efengylydd, yn amryw o'i deithiau a'i helbulon.

Buasai hanes helaethach a chyflawnach, na'r un a roddwyd gan Luc, am weithredoedd yr apostolion a'r eglwysi cyntefig, yn beth i'w fawr ddymuno, ar amryw ystyriaethau: eithr gan nad oes, a chan na welodd anfeidrol Ddoethineb yn addas i'w roddi, y mae yn gweddu i ni ymostwng, ac ymdrechu gwneuthur y defnydd goreu o'r hyn sydd genym. Ni chyrhaedd hanes Luc yn mhellach na hanes carchariad cyntaf Paul yn Rhufain, yr hyn a gymmerodd le yn nghylch y flwyddyn 63, a'r nawfed o deyrnasiad Nero, yn mhen agos i ddeng mlynedd ar hugain wedi sefydliad yr eglwys Gristionogol gyntaf. Mae yr hanesydd sanctaidd hwn yn benaf yn cyfyngu ei hanes at weinidogaeth, teithiau, a helyntoedd Paul, yn enwedig wedi yr wyth neu y naw mlynedd cyntaf o weinidogaeth yr apostolion. Felly nid oes genym ond traddodiadau, a hanesion lled ansicr, am deithiau, helyntoedd, a llwyddiant gweinidogaethol yr apostolion ereill, na'r diwedd a ddaeth i neb o honynt, oddi eithr Iago brawd Ioan, yr hwn a laddwyd gan Herod â'r cleddyf. Ac nid yw yr hanes a roddir gan Luc yn cynnwys mwy na'r prif egwyddorion a'r llinellau ar ba rai y ffurfiwyd ac y sefydlwyd yr eglwysi cyntefig, y rhai oedd dan olygiaeth yr apostolion.*

Y mae rhyw amgylchiadau yn perthynu i bob hanes yn fwy pwysig na'i gilydd; felly, meddyliaf mai pregethiad cyntaf yr efengyl yn mhlith y

* Act. x. 1—18.

Cenhedloedd, a ffurfiad yr eglwysi boreuol, yw yr amgylchiadau mwyaf pwysig yn hanes yr eglwys Gristionogol. Er fod yr efengyl wedi cael ei phregethu gyda mesur helaeth o lwyddiant yn mhlith yr Iuddewon, a thua saith mlynedd wedi myned heibio er pan y sefydlwyd yr eglwys Gristionogol gyntaf yn Jerusalem, a bod eglwysi, ar yr un egwyddorion, ac i'r un dybenion, wedi cael eu sefydlu yn fuan wedi hyny yn Judea, Samaria, Galilea, ac amryw fanau ereill, yn mhell ac agos, yr oeddynt oll, y pryd hwn, yn gynnwysedig o Iuddewon a phroselytiaid yn unig. Hyd yn hyn, nid oedd yr apostolion eu hunain yn deall ehangder y gorchymyn *(commission)* a roddwyd iddynt gan eu Harglwydd, yr hwn a gynnwysai y dirgelwch mawr, y byddai y Cenhedloedd yn gyd-etifeddion o fendithion yr efengyl, â had Abraham yn ol y cnawd; ac yr oeddynt hwy, a'r Iuddewon dychweledig yn gyffredin, i raddau pell iawn, mewn camsynied, a than lywodraeth rhagfarn mawr yn erbyn hyny. Eithr yr amser a neshaodd, pryd yr oedd Duw, yn ei anfeidrol drugaredd, wedi meddwl dwyn hiliogaeth Japheth i breswylio yn mhebyll Sem, ac i Haul mawr y cyfiawnder lewyrchu yn ei belydr iachusol ar y Cenhedloedd diymgeledd. Er hwylusu y ffordd, a gwneuthur yn hysbys y dirgelwch hwn, ac er symmud ymaith ragfarn Pedr yn erbyn ymgyfeillachu â'r Cenhedloedd, y mae Duw yn rhoddi iddo y weledigaeth ryfedd yn Joppa, o ryw lenlliain fawr, yn disgyn o'r nef gerfydd ei phedair congl, yn cynnwys ynddi bob rhywiogaeth o greaduriaid y ddaear.* Trwy y weledigaeth hon, dysgir i'r apostol fod deddf y gwahaniaeth rhwng Iuddewon a Chenhedloedd, yr hon oedd yn sefyll ar fwydydd, diodydd, &c. wedi cael ei llwyr ddileu; nad oedd efe i ystyried neb mwy yn rhy aflan i bregethu yr iachawdwriaeth iddynt, ac i ymgyfeillachu â hwynt er eu hennill at Iesu Grist, nac i edrych ar neb o'r Cenhedloedd mwyach yn ol y golygiadau Iuddewig ag oedd ganddo hyd y pryd hwnw. A gorchymynir iddo gan yr Arglwydd i fyned yn ddinag i Cæsarea, i dŷ Cornelius, yr hwn yntau oedd wedi cael ei gyfarwyddo i anfon am dano, a'i gymmwyso i dderbyn y gennadwri a draddodai iddo, trwy y weledigaeth neillduol. Pan ddaeth efe i dŷ y Canwriad, mae yn ei gael yn disgwyl am dano, wedi cynnull ei gyfeillion a'i gydnabod yn nghyd. Gwedi dechreu o hono ef lefaru wrthynt am Iesu Grist, y mae Duw yn dwyn tystiolaeth i'w gennadwri, trwy dywallt yr Ysbryd Glan ar yr holl gynnulleidfa, megys y gwnaeth ef ar yr apostolion ar ddydd y Pentecost. Yna derbyniwyd hwy i'r eglwys Gristionogol, gan Pedr, trwy weinyddu àrnynt yr ordinhad o fedydd dwfr, yn enw y Drindod.

Fel hyn, cyflawnodd yr Arglwydd ei addewid i Pedr,† ac a'i hanrhydeddodd yn fawr, gan roddi iddo agoriadau teyrnas nefoedd, trwy ei wneuthur yn offerynol i ddwyn y Cenhedloedd i mewn i'r eglwys, yn gystal â phlanu yr eglwys gyntaf yn Jerusalem.

Pan ddychwelodd Pedr i Jerusalem, y mae yn cael yr eglwys yno, yr apostolion ereill, a'r Iuddewon crediniol yn mhob lle, yn yr un golygiadau camsyniol âg oedd ef ei hun wedi bod, ac yn mawr betruso yn nghylch addasrwydd ei ymddygiad, yn myned at bobl ddienwaededig, a'i waith yn eu dwyn hwythau i fod yn ddeiliaid o deyrnas y Messiah. Yna y mae Pedr yn symmud ymaith y tramgwydd o'u meddyliau, trwy eglurhau y peth, fel ag y bu, a'r modd y tywalltodd Duw ei Ysbryd arnynt, pan oedd efe yn pregethu iddynt. Gwedi hyny, y mae yn gofyn, Pwy oeddwn i i allu lluddias

* Act. x. 1—18. † Mat. xvi.

Duw? Ar ol hyn, distewi a wnaethant oll; ac nid tawelu yn unig, eithr mewn gorfoledd sanctaidd, y maent yn gwaeddi allan, "Fe roddes Duw gan hyny i'r Cenhedloedd hefyd edifeirwch i fywyd."* Y newydd gogoneddus am yr amgylchiad dedwyddol o fod y Cenhedloedd wedi derbyn gair Duw, a ymdaenodd yn fuan trwy yr eglwysi o amgylch, fel y dechreuodd rhai o'r dysgyblion bregethu yr efengyl iddynt, mewn manau ereill, a lluaws o honynt a gredasant ac a droisant at yr Arglwydd, a'r lle cyntaf y gwnaed hyn ynddo, oedd ANTIOCHIA.

Fel yr oedd llawer o bennaduriaid o'r enw Antiochus wedi bod yn y parthau hyny, felly yr oedd llawer o ddinasoedd wedi cael eu galw ar ol eu henwau, er coffadwriaeth am danynt. Yr un sydd dan ein sylw yn awr ydoedd prif ddinas Syria y pryd hwnw, y nesaf mewn enwogrwydd, poblogaeth, a chyfleusdra masnachol, i Alexandria a Rhufain, a'r drydedd mewn gwychder o holl ddinasoedd y ddaear. Ond nid mor enwog mewn dim â'r hyn ag ydym yn awr yn traethu yn ei gylch. Yr eglwys yn Jerusalem oedd, y pryd hwnw, fel mammaeth dirion, yn sylwi yn fanwl ar lwyddiant yr eglwysi ereill; ac o herwydd ei bod yr henaf, yn meddu ar fwy o ddonian adeiladol nag un arall, a'i bod fel canolbwynt yn mha le yr oedd yr apostolion yn cyfarfod â'u gilydd, wedi eu teithiau, a'i bod mewn cyfleusdra i anfon allan gymmorth i'r rhai ag a fyddai mewn eisiau—pan y gwybu fod yr efengyl yn cael ei phregethu gyda llwyddiant mawr yn mhlith y Cenhedloedd yn Antiochia, a ddanfonodd Barnabas attynt, gwr ag oedd wedi cael ei gymmwyso â phob addasrwydd i addysgu y dysgyblion ieuaingc, ag oedd yn y ddinas hon, yn egwyddorion Cristionogaeth yn fanylach, ac i'w cadarnhau a'u gosod mewn iawn drefn eglwysig. Yr hwn pan ddaeth, a gweled arwyddion mor amlwg o ras Duw, yn nychweliad y rhai oedd yn credu, nid allai, fel dyn ag oedd yn caru y gwaith, lai na llawenhau; ac wedi iddo eu cynghori oll, i lynu yn ddiysgog wrth yr Arglwydd: ac o herwydd ei fod yn deall fod yno ddrws ëang wedi cael ei agoryd, a llawer o waith i gael ei wneud, efe a aeth i Tarsus yn Cilicia, i geisio Saul.† Nid yw wedi ei amlygu paham yr aeth Barnabas i ymofyn cynnorthwy Saul, ar yr amgylchiad hwn, rhagor i ryw un arall o'r apostolion. Pa un a oedd efe yn gwybod yn mlaenllaw fod yr Arglwydd wedi ei fwriadu yn apostol i'r Cenhedloedd, ai ynte ei ystyried yn ddyn cymmwys i bregethu yr efengyl, yn y ddinas boblog a dysgedig honno, yr oedd, ni wyddis. Gwedi ei gael yn Tarsus, y maent eill dau yn dychwelyd i Antiochia, ac yn aros gyda'r eglwys yno flwyddyn gyfan. A llwyddodd yr Arglwydd eu hymdrechiadau yn neillduol yno, fel y cadarnhawyd eneidiau y dysgyblion, ac y chwanegwyd hwy mewn rhifedi; ac yma, y pryd hwnw, y galwyd canlynwyr Iesu Grist gyntaf yn Gristionogion.‡

Ymddengys yn eglur mai yn y ddinas hon yr unwyd gyntaf Iuddewon a Chenhedloedd yn un gynnulleidfa eglwysig; a chawn fod yr eglwys hon yn un o'r rhai lluosocaf ac enwocaf yn mhlith eglwysi y Cenhedloedd, mewn amser dyfodol, fel y gelwid Antiochia, o herwydd hyny, yn Theopolis, h. y. dinas Duw. Parhaodd Cristionogaeth yma, dros oesoedd, i fod yn dra dysglaer a blodeuog.

Yr oedd gwlad Judea wedi bod, er amser deoliad Archelaus, yn dalaeth Rufeinig, heb un brenin o'i heiddo ei hun, yn cael ei llywodraethu gan

* Act. xi. 17. † Act. xii. 22—25. ‡ Act. xi. 26.

raglawiaid a anfonid yno o Rufain, hyd ddyfodiad Claudius Cæsar i'r orsedd, yr hyn a gymmerodd le yn nghylch y flwyddyn 42. Gwedi i Claudius ddyfod i'r amherodraeth, efe a roddodd frenhiniaeth Judea i Herod Agrippa, ŵyr Herod Fawr a laddodd blant Bethlehem, a nai i Herod y Tetrarch a dorodd ben Ioan Fedyddiwr, yn nghyd â Thetrarchiaeth Herod, yr hwn a alltudiwyd gan Caius. Yr Herod hwn a anfoddlonodd Tiberius yn fawr, a chadwodd ef mewn cadwynau tra y bu efe byw; o herwydd, medd Josephus, iddo, pan yn marchogaeth yn ei gerbyd gyda Caius, cyn ei wneuthur yn amherawdwr—boddhad yr hwn, fel etifedd nesaf y goron, a chwennychai yn fawr ei ennill—a ddywedodd, y dymunai weled Tiberius wedi ei symmud ymaith, a Caius Caligula ar yr orsedd. Eutychus y cerbydwr a glybu yr ymddiddan bradwrus, ac er iddo ei gadw yn gêl dros dro, etto, pan y cyhuddwyd ef o ladrad gan Herod, efe a ddadguddiodd y gyfrinach uchod i Tiberius. Pan y bu farw Tiberius, a Herod yn ngharchar, y peth cyntaf a wnaeth Caius, ei gyfaill, oedd ei rhyddhau ef, a'i ddyrchafu yn fawr, trwy ei ddwyn i'w balas, ei wneuthur yn un o'i gydeisteddwyr wrth ei fwrdd, a gosod ar ei ben goron, a chadwyn o aur am ei wddf, o'r un pwysi â'r gadwyn haiarn ag oedd ei daid wedi ei gosod am dano, a rhoddodd iddo Detrachiaeth Philip.* Yr oedd Herod bob amser yn dangos awydd o'r mwyaf, yn mhob dull, am ennill mawredd a gwag-ogoniant; a phan y daeth i deyrnasu ar Judea, efe a wnaeth yr hyn oll a fedrai er ennill gair da yr Iuddewon. Dangosai lawer o sêl dros eu crefydd a defodau eu gwlad. Anrhegodd y deml â llawer o roddion gwerthfawr. Ond meddyliodd y buasai ei waith yn estyn ei law yn erbyn y Cristionogion, yn eu boddhau yn fwy na dim arall. Gan hyny, er mwyn cael ei ddyrchafu ganddynt, efe a achubodd y cyfleusdra o ddal Iago, mab Zebedeus, brawd Ioan; a chyda brys mawr, efe a'i lladdodd â'r cleddyf. A phan y gwelodd fod hyn wedi rhoddi cymmaint boddlonrwydd i'r Iuddewon, y rhai a sychedent yn barhaus am waed y Cristionogion, efe a chwanegodd ddal Pedr hefyd.† Eithr fel yr oedd gwyl y Pasg yn agos, rhag iddo halogi ei hun erbyn yr wyl, trwy y fath weithred, ac fel y byddai iddo gael gwell cyfleusdra i ddangos ei sêl yn erbyn y blaid newydd, ger bron y lluaws mawr a ddeuai i'r wyl o bob parth, rhoddodd Pedr mewn dalfa ddiogel tan ar ol yr wyl, er rhoddi iddynt y pleser o'i weled yn cael ei roddi i farwolaeth.

Gwelwn yma pa mor galed, a thywyll, ac anystyriol y dichon i gydwybod dyn fyned. Herod yn meddwl cadw gwyl i'r Arglwydd, pan newydd drochi ei ddwylaw yn ngwaed un y gwyddai ei fod o leiaf yn ddiniweid, ac yn ei fryd i wneuthur yr un peth âg un arall, yn ddiatreg ar ol yr wyl, a hyny yn unig er ennill hunan-ddyrchafiad, gwag-orfoledd, a phoblogrwydd y werin.

Yr oedd Iago wedi gorphen ei waith; a gwelodd yr Arglwydd yn addas i'w ddwyn adref yn ngherbyd merthyrdod, i wisgo y goron. Eithr nid felly yr oedd yn bod gyda Pedr. Gan hyny, er maint ymdrech a chyfrwysdra Herod, er grym a deheurwydd y moddion a arferai i'w gadw yn ddiogel, tan yr amser y bwriadai i'w ddwyn allan i'w aberthu, dihangol oedd efe yn llaw ei Arglwydd. Pan yr oedd Pedr wedi ei rwymo â dwy gadwyn, a'i roddi yn nghadwriaeth un ar bymtheg o filwyr, pedwar i fod ar wyliadwriaeth bob yn ail; dau o'r pedwar hyn oedd i fod yn rhwym wrth y carcharor,

* Josephus's Antiq. b. 18, c. 6, sec. 5. † Act. xii. 1—19.

un bob ochr iddo; a'r ddau arall i fod o flaen drws y carchar. Yr Iuddewon a ddisgwyllent yn fawr i'r wyl hon fyned heibio, pan y caent yr hyfrydwch o weled un o brif golofnau y blaid a'u gofidiai mor fawr, yn cael ei osod i farwolaeth. Herod yntau yn diddanu ei hun trwy edrych yn mlaen ar yr amser, wedi iddynt fwytta oen y Pasg, y byddai iddo eu boddhau âg aberth rhagorach, yn eu golwg hwy. Yr eglwys hithau, yn llawn tristwch wrth gofio ei cholled flaenorol, ac wrth ystyried yr hyn oedd ar gymmeryd lle yn awr, ni pheidiai â gweddio, eithr parhäai i gyflwyno ei hymbiliau at Dduw. Ni ymddangosai neb mor dawel yn wyneb yr amgylchiad â Phedr ei hun, hwn, er y gwyddai ei fod i gael ei ddwyn allan, a'i osod i farwolaeth dranoeth, yn ol bwriad Herod, a gysgai y noson honno, rhwng y milwyr yn y carchar. Eithr danfonodd yr Arglwydd ei angel i'w ddeffroi, ac i'w waredu, mewn modd nerthol, gogoneddus, a rhyfeddol, allan o law Herod, ac oddi wrth ddisgwyliad holl bobl yr Iuddewon. Ni amlygir i ni dros ba hyd y bu Pedr yn y carchar, na pha cyhyd y darfu i'r Arglwydd brofi amynedd ei eglwys y pryd hwnw. Arferai yr wyl barhau wyth niwrnod; ac mae yn eglur, mai ar y nos ddiweddaf, a Herod yn bwriadu ei ddwyn allan dranoeth, y gwaredwyd Pedr. Tra anhawdd ydyw amgyffred agwedd a theimladau gelynion Pedr bore dranoeth, pan, er eu mawr siomedigaeth, yn methu ei gael yn y carchar, yn ol eu disgwyliadau, ac heb wybod pa beth a ddaethai o hono. Y milwyr druain yn syn-edrych ar eu gilydd, gyda braw a dychryn mawr am eu heinioes, yn analluog i roddi un cyfrif rhesymol pa fodd yr aethai efe allan o'u gafael. Herod yntau, fel rhyw greadur ysglyfaethus, wedi aros yn hir mewn gwangc am ei ysglyfaeth, a chwedi gwneuthur pob darpariadau i wledda yn helaeth, a chyfranu yn haelionus i'w gyfeillion, a ddanfonodd ei filwyr yn brydlawn, gyda rhwysg-fawredd a rhodres i gyrchu yr helwriaeth a ddychymmygasai efe fod ganddo er ys dyddiau mewn dalfa ddiogel: ond, er ei fawr siomedigaeth, dacw hwy yn gorfod troi yn ol, heb ei gael, na'r gobaith lleiaf am hyny. Gyda yr adroddiad am yr aflwydd, ei galon a rwygai, a'i lygaid a wreichionai; ac efe a holai y milwyr yn awchlym am y golled, ond i ddim dyben; eithr gorchymynodd iddynt hwy gael eu gosod i farwolaeth.

Mae yn debyg fod Herod yn tybied fod y peth yn wyrthiol, neu yn gyfareddol, gan fod y cyffelyb beth wedi cymmeryd lle o'r blaen,* o fewn gwybodaeth i'r Iuddewon. Eithr cymmaint ydoedd balchder a chaledrwydd ei galon, ac ystyfnigrwydd ac annheimladrwydd ei feddwl, fel na fynai er dim gyfadddef y gwirionedd, nac ymostwng iddo; ac er rhoddi hug ar lygaid y bobl, rhag iddynt chwilio i mewn, a gweled gwir achos gwaredigaeth Pedr, cymmerodd ymaith fywyd y milwyr, fel y gosodid allan mai eu bai hwy oedd yr achos.

Ni bu Herod byw nemawr o amser ar ol hyn; ac ni welwyd neb wedi byw a marw o dan lywodraeth hunan-ddyrchafiad yn fwy nag ef, na neb yn eglurach prawf o ansefydlogrwydd mawrhad dynol, gwaelder coeg-foledd a phoblogrwydd y byd hwn. Efe a ymhoffai ac a ymddigrifai yn fawr mewn gosod allan ffug-fawredd a gwychder y Rhufeiniaid—ei bennaethiaid. I'r dyben hwnw, cynnaliai chwareyddiaethau yn Cæsarea yn flynyddol; ar ba amserau, ymddangosai mewn pob rhialltwch a gwychder, hyd y caniattai amgylchiadau. Pan yn cynnal un o'r chwareyddiaethau hyn,

* Act. v. 19.

daeth cennadau o Tyrus a Sidon i ymweled âg ef, i erfyn am ei heddwch i'w gwlad, trigolion pa un oedd wedi ei ddigio; ac o herwydd fod eu gwlad yn derbyn ei chynnaliaeth o wlad y brenin, yr oeddynt yn foddlon i wneuthur yr ymostyngiad mwyaf. Gwedi cael Blastus pen-ystafellydd y brenin o'u plaid, llwyddasant i gael gwrandawiad. A phan oedd Herod wedi nodi diwrnod i dderbyn ymostyngiad gwyr Tyrus a Sidon, trwy eu cennadau, yn y modd mwyaf cyhoeddus, efe a eisteddodd ar yr orseddfaingc, gyda phob mawredd brenhinol, nes dallu yr edrychwyr gan ddysgleirdeb ei ffug-ogoniant; ac i'r dyben i ddyrchafu ei hun yn fwy, efe a wnaeth araeth neillduol, ar ei fawredd a'i ogoniant ei hun. A'r bobl, yn eu hynfydrwydd, o herwydd eu mawr ddallineb, a'u hymgais i'w foddhau ef, a floeddiasant, *Lleferydd Duw, ac nid dyn ydyw.* Yn ddiatreg tarawodd angel yr Arglwydd ef, am na roisai y gogoniant i Dduw; ac, i'r dyben o ddangos ei waelder, danfonwyd pryfed i ddechreu ei ysu, yn ngwydd yr holl gynnulleidfa, ac efe a drengodd o fewn pum niwrnod, wedi yr holl ymddangosiad mawreddog hyny.

Yr Arglwydd, yr hwn sy'n anfeidrol gyfoethog o bob gras, a dywalltodd ei ddoniau yn helaeth ar ei eglwysi, mewn amryw fodd, yn y dechreuad, fel yr oedd ynddynt rai prophwydi yn rhagfynegi pethau i ddyfod. Yn yr amser hwnw daeth rhai o'r rhai hyn i waered o Judea i Antiochia; ac yn eu plith yr oedd un a elwid Agabus, yr hwn, trwy yr Ysbryd Glan, a hysbysodd y byddai i newyn mawr gymmeryd lle yn fuan trwy yr holl fyd. Y brodyr yn Antiochia, wrth glywed hyn, a deall am dlodi y rhai oedd mewn erledigaeth yn Judea, a deimlasant drostynt, a gwnaethant gasgliad, yn ol eu gallu, i'w anfon iddynt trwy law Barnabas a Saul, dau o'r henuriaid ag oedd yn aros yn eu plith y pryd hwnw. Y prinder a'r newyn hwn a gymmerth le yn amser teyrnasiad Claudius Cæsar. Dywedir am dano gan Josephus, a chan amryw o haneswyr ereill ag oedd yn byw tua'r amser hwnw; a dywedir ganddynt hefyd am farwolaeth druenus Herod. Eu cyssondeb hwy â'r hanesydd sanctaidd am y pethau hyn, yn gystal âg amryw bethau ereill, a ddengys mor bell â hyny wirionedd y naill y llall.

Gwelir yma ddaioni a doethineb Duw yn gofalu am ei bobl weiniaid yn Judea, pa rai oedd wedi ymadael â'r cwbl er ei fwyn ef a'i efengyl, ac yn awr mewn ffwrnes o erledigaeth, yn debyg o gael eu dyfetha gan dlodi a newyn. Er hyn, gofalodd yr Arglwydd am gynnaliaeth iddynt, trwy wneuthur eu cyfyngder yn hybys i'r brodyr yn Antiochia, pa rai a ddarparasant ac a anfonasant gynnaliaeth iddynt mewn pryd. Fel hyn, rhoddodd yr eglwysi yn mhlith y cenhedloedd brawf boreuol o'u cariad, eu haelioni, a'u gofal tu ag at eu chwiorydd yn mhlith y genedl Iuddewig; ac yr oedd yr hyn a wnaeth yr eglwys yn Antiochia y pryd hwnw o duedd neillduol i wanychu yr eiddigedd ag oedd yn aros yn rhai o'r Iuddewon crediniol yn erbyn y Cenhedloedd, o herwydd eu bod wedi cael eu dwyn i fwynhau yr un breintiau crefyddol â hwythau. A chan fod y Cenhedloedd wedi derbyn a mwynhau o bethau ysbrydol yr Iuddewon, dangosai a meithrinai yr haelioni a'r gofal a amlygwyd gan y Cenhedloedd yn awr a phryd arall, tu ag attynt hwythau, yn wyneb eu hangen, gariad mawr yn mhob ochr, yr hyn yw gwir amcan crefydd.

Gwedi cyflawni o Barnabas a Saul yn Jerusalem y gwasanaeth a ymddiriedwyd iddynt, dychwelasant i Antiochia, a Marc gyda hwy. A phan yr oeddynt yn gweddio ac yn ymprydio yno gyda'r eglwys a'u cyd-henuriaid, amlygodd yr Arglwydd ei ewyllys gyda golwg arnynt, mewn modd neillduol,

trwy gyfarwyddo yr eglwys a'r brodyr yn Antiochia i neillduo Barnabas a Saul i'r gwaith oedd efe wedi ei drefnu iddynt. Yr oedd Barnabas a Saul wedi derbyn eu swydd a'u cennadiaeth, a chymmwysderau i'w gweinyddu, oddi wrth yr Arglwydd; ac y mae yn dra thebyg hefyd y gwyddent am faes eu gweinidogaeth, yn flaenorol i hyn: canys dywed Saul yn fynych, mai nid oddi wrth ddyn, na chan ddynion, y derbyniodd efe y swydd apostolaidd, na'r cymmwysder i'w gweinyddu, ond yn unig oddi wrth yr Arglwydd; ac y mae yn dywedyd yn aml fod yr Arglwydd wedi amlygu iddo ei fod ef i ddwyn ei gennadwri i blith y Cenhedloedd. Gan hyny, nid ydym i olygu fod y weithred o'u neillduad yn Antiochia, yn eu gwneuthur yn apostolion, nac yn rhoddi iddynt un cymmwysder i'r gwaith, nac yn dangos iddynt faes eu gweinidogaeth, ond cydnabyddiaeth yr eglwys o'u bod yn apostolion cymmwys yn barod. Oddi wrth yr amgylchiad, yr ydym yn gweled nad yw Duw yn awdwr annhrefn yn ei eglwys, ond yn ei holl oruchwyliaethau yn bleidiwr y drefn weddusaf yn ei holl eglwysi, er mai efe sydd yn rhoddi y neb a fyno mewn swyddau yn ei eglwys, ac mai oddi wrtho ef y mae pob cymmwysder yn dyfod i weinyddu: etto ei ewyllys yw, bod pob gweinyddiad allanol yn ei deyrnas yn cael ei ddwyn yn mlaen trwy gydnabyddiaeth a chydgordiad yr eglwys y perthyna y gweinyddwyr iddi. 'Y mae i'r cyfryw ddwyn yn mlaen ei holl orchwylion mewn ymostyngiad, nid i awdurdodau dynol, nac yn ol doethineb dynion, ond i'w awdurdod Ef, ac yn ol ewyllys ddadguddiedig yr hwn yn unig sydd Ben, ac mewn ymddibyniad arno am bob gwir lwyddiant; heb hyn, bydd y moddion goreu a doethaf yn aneffeithiol.*

Gwedi ordeinio y ddau wyr hyn, trwy weddi, ympryd, ac arddodiad dwylaw yr henuriaid, dywedir eu bod wedi cael eu hanfon ymaith gan yr Ysbryd Glan, ac iddynt ddyfod i SELEUCIA, tref a safai ar afon Orontes, megys Antiochia, ond ei bod bymtheg milltir yn nes i'r môr.

Fel yr oedd yr Iuddewon yn wasgaredig bron trwy bob gwlad adnabyddus y pryd hwnw, felly yr oedd ganddynt synagog yn mhob lle yr arosai o honynt gymmaint â deg, y rhai yr oedd yn gyfleus ganddynt i fod yn bresennol ar bob addoliad. Yr oedd yr apostolion yn mhob lle y byddent yn myned iddo, yn gyntaf yn cynnyg eu gweinidogaeth iddynt hwy, trwy fyned i mewn i'w synagogau, a phregethu yr efengyl yno. Yn hyn yr oeddynt yn ymgadw at yr hyn a ddywedodd ein Harglwydd, fod yn rhaid yn gyntaf pregethu teyrnas Dduw i'r Iuddewon,† fel y byddai yn amlwg, os ei gwrthod a wnaent, eu bod yn barnu eu hunain yn annheilwng o fywyd tragywyddol. I'r daith hon, cymmerodd Saul a Barnabas Ioan, a elwir Marc, yn weinidog iddynt. 'Mae y dysgedigion hen a diweddar yn amrywio yn eu barn, pa un ai yr un Marc oedd hwn â'r un a ysgrifenodd yr efengyl sydd ar ei enw: eithr yn ol chwiliad manwl, yr hyn sydd fwyaf tebyg o fod yn wirionedd, yw, fod dau berson o'r un cyfenwad, un yn gydymaith a chyd-deithiwr â Phedr, a'r llall yn gydymaith i Paul. Yr oedd y Marc hwn yn nai i Barnabas, fab Mair ei chwaer.‡

Gwedi ymadaw o Saul a Barnabas â Seleucia, hwy a fordwyasant i Cyprus, ynys fawr yn Môr y Canoldir, yr hon sydd o ddeutu cant a hanner o filltiroedd o hyd, ac ychydig dros hanner cant o led, tu a chan milltir allan i'r môr o Syria. Fel ag yr oedd yr ynys hon yn gyfagos i wlad Judea, yr

* Act. xiii. 1—3. † Mat. xxi. 43. Act. xiii. 46. ‡ Doddridge's Exposition on the place.

oedd yno lawer iawn o'r Iuddewon. Yr ynys hon oedd lle genedigol Barnabas. Trigolion cynnenid yr ynys oeddynt yn hynod o nodedig am eu haenuwioldeb, fel yr oedd cyfreithiau y wlad yn erbyn diweirdeb, ac o blaid godineb ac anlladrwydd. Yr oedd ynddi rai yn proffesu y grefydd Gristionogol yn flaenorol i ddyfodiad yr apostolion yno, y pryd hwnw. Dichon eu bod wedi cael eu dwyn i adnabod y gwirionedd yn Jerusalem ar ddydd y Pentecost. Y lle cyntaf yma yr ymwelodd Saul a Barnabas âg ef, ac y pregethasant yr efengyl ynddo, oedd SALAMIS, dinas ar yr ochr ddwyreiniol iddi.*

Gwedi aros yma dros ychydig ddyddiau i draethu gair y bywyd yn synagog yr Iuddewon, ni hysbysir i ni am eu llwyddiant: eithr dywedir iddynt fyned ymaith, a thramwyo hyd PAPHOS, tref ar yr ochr arall i'r ynys. Yr oedd y lle hwn wedi bod yn hynod iawn o herwydd yr addoliad a gyflawnid ynddo i'r eilun-dduw Paphian Venus; eithr yn awr yn dyfod yn hynotach trwy bregethiad yr efengyl, a'r llwyddiant a fu arni yno. Yma y preswyliai Sergius Paulus, rhaglaw Rhufeinig, yr hwn a ymddengys ei fod yn wr callach na'r cyffredin, yn arfer meddwl a barnu drosto ei hun. Yr hwn, pan glywodd am yr Iuddewon dyeithr ag oedd wedi dyfod i'r ynys, a'u bod yn ymddwyn yn dra gwahanol i'r Iuddewon ag oedd yno o'r blaen, yn eu gwaith yn cymmell eu crefydd ar y Cenhedloedd, yn gystal âg i had Abraham, ac yn pregethu yr hyn nid oeddynt yn arferol o'i glywed, efe a anfonodd am danynt i ddyfod atto, ac a ddeisyfodd gael clywed ganddynt yr hyn a bregethent. Gwedi eu dyfod, a thraethu iddo am y pethau a berthynent i deyrnas Dduw, efe a ddangosodd arwyddion ei fod yn deall ac yn teimlo yr hyn a draddodid ganddynt. Cyffrôdd Satan yn fawr wrth weled hyny, ac a anfonodd un o'i weision, yr hwn, yn ol ei enw Groegaidd, a elwid Elymas, i geisio rhwystro llwyddiant y weinidogaeth, trwy ymdrechu llanw meddwl y rhaglaw â rhagfarn yn erbyn yr hyn a draddodid iddo. Yr oedd Elymas yn Iuddew o genedl, yn swynwr wrth ei gelfyddyd, a thrwy hyn, mae yn debyg, wedi ennill cryn le yn meddyliau y bobl, fel amryw o'i frodyr, trwy eu gwag hudoliaethau; a dichon ei fod felly gyda y rhaglaw ei hun, cyn dyfod Saul a Barnabas yno. Eithr Saul, yr hwn o hyn allan a elwir Paul, yn gyflawn o'r Ysbryd Glan, dan gyfarwyddiadau anffaeledig pa un, yn ol ei awdurdod apostolaidd, a gyhoeddodd arno ddedryd farnol am ei amryfusedd rhyfygus ger bron y rhaglaw, fel yr aeth ymaith yn ddall gan geisio rhyw un i'w arwain erbyn ei law.† Nid yw yn annhebyg fod Elymas yn dirmygu yr apostolion a'u gweinidogaeth, ac yn gosod ei hun allan fel un yn meddu ar fwy o wybodaeth, a doethach athrawiaeth na hwy; ac i'r farn hon o dywyllwch corphorol syrthio arno, i arwyddo dirfawr dywyllwch ac anwybodaeth ei feddwl. Gwnaeth y wyrth farnol effaith ddwys a'r mwyaf dymunol ar y rhaglaw, fel y rhoddodd gwbl gred i'r efengyl a bregethid iddo gan yr apostolion, ac y llanwyd ef â syndod duwiol, yn wyneb doethineb y drefn ddadguddiedig iddo trwy eu gweinidogaeth.

Llawer o dybiau sydd wedi bod, yn mhlith dynion da, paham y newidiwyd enw Saul, a'i alw Paul. Meddylia rhai mai mewn ffordd o barch i'r rhaglaw dychweledig hwn y cymmerodd efe ei enw; ereill a dybiant fod y ddau enw wedi eu rhoddi iddo er y dechreuad, ond ei fod yn cael ei alw yn ol y cyntaf yn mhlith yr Iuddewon, a'r diweddaf yn mhlith y Cenhedloedd,

* Act. xiii. 4, 5. † Act. xiii. 6—11.

apostol pa rai yn benaf oedd efe, ac yn mhlith pa rai y treuliodd efe y rhan fwyaf o'i fywyd gwedi hyn. Eithr barn ereill—a'r mwyaf tebyg o fod yn gywir—yw, gan fod y ddau enw mor debyg i'w gilydd, ac yn hawdd llithro o'r naill i'r llall, ei alw yn Saul, yn ol yr iaith Hebreig, a Paul, yn ol yr iaith Roegaidd, fel y gwelir mewn amryw enwau ereill; megys y gelwir Jochanan yn Hebreig, yn Johanes gan y Groegiaid a'r Lladinwyr, yn Jaen gan y Ffrangcod, yn Hans gan yr Almaeniaid, yn John gan y Saeson, ac yn Ioan gan y Cymry.* Ac mae yn lled debygol mai yn nhŷ Sergius Paulus, y dechreuwyd ei alw ef wrth yr enw Paul; a chan iddo dreulio y rhan fwyaf o'i fywyd wedi hyn yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, fe gymmerodd yr arferiad le yn gyffredin a pharhaus o hyny allan.

Gwedi i'r apostolion ymadael â Paphos, hwy a aethant i PERGA, tref yn nhalaeth Pamphylia, ar oror Asia Leiaf.

Wrth weled peryglon y daith, mae yn debyg, a bod yr apostolion yn myned yn mhellach, ac wedi aros yn hwy yn y gwledydd hyn nag y meddyliasant ar y cyntaf, digalonodd Marc, ac ymadawodd â hwy tu a'r pryd hwnw, a dychwelodd i Jerusalem. Gellir meddwl wrth yr hanesydd sanctaidd fod amryw ddychweledigion, o rai o'r manau y pregethodd yr apostolion ynddynt, yn awr yn cyd-deithio â hwynt, er cael chwaneg o ddysg a hyfforddiadau, ac er mwyn iddynt hwythau gyssuro a chyfarwyddo yr apostolion yn eu teithiau.

Yn ol iddynt ymadael â Perga, aethant i ANTIOCHIA, dinas enwog yn Pisidia, yr hon oedd dalaeth ëang o du y gogledd i Pamphylia. Fel yr oedd hon yn ddinas boblogaidd, preswyliai llawer o'r Iuddewon ynddi, ac yr oedd yno synagog ganddynt. Yr apostolion, ar y Sabbath cyntaf, a aethant, yn ol eu harfer, i'r synagog. Byddai yr Iuddewon yr arferol, wedi darfod eu gwasanaeth cyffredin, o ofyn, a oedd gan neb ag a fyddai bresennol air o gynghor i'w draddodi i'r gynnulleidfa, cyn eu hymadawiad, yn enwedig os byddai yno ddyeithriaid, yn yr eisteddle priodol i'r cyfryw. Blaenor y synagog y pryd hwn, a ofynodd i'r apostolion a wnaent hwy draethu iddynt air o gynghor. Yna Paul, wedi cael cennad, a bregethodd y bregeth ragorol honno, rhan o ba un a goffeir gan yr hanesydd sanctaidd; a bu llwyddiant neillduol yn ei chanlyn, fel y glynodd llawer o'r Iuddewon a'r Proselytiaid wrth Paul a Barnabas.† A chyda y fath hyfrydwch y gwrandawai y Cenhedloedd yr ymadroddion bywiol, fel y deisyfasant gael clywed y pethau hyn drachefn y Sabbath nesaf. Pan ddaeth y Sabbath, yr holl ddinas bron a ddaeth yn nghyd, i glywed geiriau y bywyd tragywyddol. Yr Iuddewon, wrth weled hyn, a lanwyd o genfigen; dechreuasant derfysgu y bobl, fel y codasant erledigaeth yn erbyn yr apostolion; a llwyddasant i'w gyrru allan o'r ddinas: eithr nid cyn iddynt orphen y gwaith oedd gan yr Arglwydd iddynt i'w wneuthur yno, y pryd hwnw, a bod yn foddion i ddwyn eneidiau lawer i gredu, ac i daenu peraroglau yr efengyl trwy yr ardal oddi amgylch.

Yr oedd gan yr Iuddewon anghrediniol ddau beth, trwy ba rai yr oeddynt yn cynnyrfu yr Iuddewon ereill, a'r Cenhedloedd, blaenoriaid y wlad a'r eglwys, yn erbyn yr apostolion; sef, trwy ddangos i'r Iuddewon, fod yr athrawiaeth a gyhoeddid gan yr apostolion yn dinystrio eu sefydliad eglwysig hwy, a'u bod yn cyhoeddi brenin heblaw Cæsar, i'r hwn y dylid rhoddi yr ufudd-dod a'r parch blaenaf; a thrwy hyny, eu bod yn amcanu dinystrio y

* Doddridge on the place. † Act. xiii.

drefn wladol. Trwy hyn yr oeddynt yn medru gosod yr egluys a'r wladwriaeth yn fflam erledigaethus yn erbyn yr apostolion, yn y naill fan a'r llall. Pan oedd yr apostolion yn ymadael â'r lle hwn, yn ol cyfarwyddiadau yr Ysbryd Glân, hwy a gyhoeddasant y barnedigaethau trymaf yn erbyn yr Iuddewon gwrthnysig, ac a ysgydwasant y llwch oddi wrth eu traed, yn dystiolaeth yn eu herbyn,* ac a aethant ymaith i ICONIUM, prif ddinas Lyconia, yr hon sydd yn aros hyd heddyw, yn dref nid anenwog, gerllaw mynydd Taurus, o dan yr enw Cogni. Gwedi eu myned i synagog yr Iuddewon, hwy a lefarasant wrth y bobl, yr hyn a berthynai i'w hiachawdwriaeth, a chanlynwyd eu hymadroddion â neillduol lwyddiant, fel y credwyd eu tystiolaeth gan luaws mawr o Iuddewon a Groegiaid hefyd. Ar ol hyn, yr Iuddewon anghrediniol a godasant erledigaeth yn erbyn y dysgyblion ieuainge; ond fel yr oedd y ddinas yn boblog iawn, a gwaith mawr gan yr Arglwydd iddynt i'w wneuthur yma, darfu i'r apostolion weled yr angenrheidrwydd o aros yn y ddinas ddyddiau lawer, i gadarnhau a chyssuro eneidiau y dysgyblion ag oedd yn gorfod dyoddef erledigaeth mor foreu.

Gwedi iddynt fod yn hŷ yn yr Arglwydd, yr hwn oedd yn dwyn tystiolaeth i'w hymadroddion a'u hymdrechiadau, trwy arwyddion a rhyfeddodau mawrion, fel yr ymranodd y ddinas, rhai o ochr yr Iuddewon anghrediniol, ac ereill o blaid yr apostolion, hwy a ddeallasant fod rhyw ruthr ofnadwy ar gael ei wneuthur arnynt gan yr Iuddewon a blaenoriaid y ddinas, er eu hanmharchu a'u llabyddio. Yn wyneb hyn, barnasant mai doethineb oedd iddynt ffoi i LYSTRA a DERBE, dwy ddinas yn yr un dalaeth âg Iconium, lle y pregethasant y gair. Yr oedd yn Lystra ddyn cloff o groth ei fam, yr hwn ni cherddasai gam erioed. Pan ddygwyd hwn i glywed yr apostolion, sylwodd Paul arno, a thrwy ei air, yn enw yr Arglwydd Iesu, efe a iachawyd, ac a rodiodd yn hollol ddigloffni. Wrth weled y peth rhyfedd hwn, tybiodd y Lystriaid eilunaddolgar mai duwiau oedd yr apostolion ag oedd wedi disgyn i'w plith, ac, yn ol eu tybiau dychymygol, hwy a enwasant yr apostolion yn ol yr enwau oedd ganddynt ar eu duwiau. Galwasant Barnabas yn Jupiter, yr hwn a fernir oedd prif amddiffynwr eu dinas, a Paul yn Mercurius, am mai efe oedd yr ymadroddwr penaf. Ac fel yr oedd teml i Jupiter tu allan i byrth y ddinas, yn agos i'r lle y gwnaed y wyrth ryfedd hon, yr offeiriaid ag oedd yn gwasanaethu yno, pan glywsant am dani, a ddygasant deirw, wedi eu gwisgo â blodau ac ysnodenau amryliw, gyda chaniadau, yn ol eu harferion paganaidd, i byrth y ddinas, i'w haberthu i'r apostolion, megys y gwnaent i'w heilunod. Gwelir mor bell y mae yr arferiadau paganaidd hyn yn cael eu cynnal yn ein plith ni hyd heddyw, pan mae ein cyd-wladwyr yn dwyn ychain i'w rhostio ar amryw amgylchiadau, er moledd i ddynion, wedi eu gwisgo âg ysnodenau, a'u cyrn wedi eu brith-liwio. Yr oedd yr apostolion yn wahanol iawn i Herod ac amryw ereill a gymmerasent eu haddoli gan eu cydgreaduriaid yn eu ffolineb; canys pan glywsant am yr hyn a gymmerth le yn mysg y bobl, aethant allan, ac a'u perswadiasant trwy lawer o resymau dwysaidd a phriodol, i beidio â'r fath arferiad ffol ac ynfyd; ac yn ol arfer y dwyreinwyr, i ddangos eu dirfawr ofid wrth weled truenusrwydd y bobl, a rwygasant eu dillad, a braidd, er y cwbl, y medrasant attal y bobl rhag aberthu iddynt.

Y pryd hwn yn Lystra, mae yn debyg, y darfu i'r apostol, yn mhlith

* Act. xiii. 14—52.

ffrwyth ei lafur, gael Timotheus yn efengylwr, yr hwn, yn nghyd â'i fam Eunice, a'i nain Lois, pa rai oedd yn byw yn y lle hwn, a fuont wedi hyny yn gydymmeithion anwyl i Paul, ac a ufuddhasant oll i'r efengyl.

Pan oedd yr apostolion fel hyn yn myned yn mlaen â gwaith yr Arglwydd yn Lystra, eu herlidwyr o Iconium ac Antiochia a ddaethant yno hefyd, ac, yn ol eu harfer, hwy a berswadiasant y bobl i godi erledigaeth yn eu herbyn, ac a lusgasant Paul allan o'r ddinas, ac a'i llabyddiasant ef â meini, nes y tybiasant ei fod wedi marw. Ond fel yr oedd y dysgyblion yn sefyll o'i amgylch ef, efe, er eu mawr syndod, a gododd ar ei draed, ac a aeth i'r ddinas; a thranoeth, efe a Barnabas a aethant i DERBE, ac a bregethasant y gair yno gyda llwyddiant mawr.* Gwedi iddynt aros yno dros ryw gymmaint o amser, hwy a ddychwelasant i ail-ymweled â'r eglwysi a blanasant yn Lystra, Iconium, Antiochia, &c. i gadarnhau eneidiau y dysgyblion yn y gwirionedd, a'u cynghori i aros yn ddiysgog yn y grediniaeth o'r athrawiaeth a glywsent; a dangosasant iddynt mai trwy lawer o orthrymderau yr oedd yn rhaid myned i mewn i deyrnas Dduw. Ac yn yr ail ymweliad hwn â'r eglwysi ieuaingc, hwy a ordeiniasant *henuriaid yn mhob eglwys*, fel y byddent mewn iawn a chyflawn drefn, ac y byddai rhai i ofalu am danynt, ac i weinyddu pethau sanctaidd Duw iddynt yn eu habsennoldeb hwy. Dyma y lle cyntaf yr ydym yn cael hanes am sefydliad henuriaid cyffredin yn y Testament Newydd, yn yr eglwysi cyntefig, a'r unig le y dywedir am eu hordeiniad.† Mewn amryw fanau ereill, dywedir eu bod wedi eu sefydlu—a diau fod hyny wedi cymmeryd lle yn ol yr un dwyfol awdurdod—a gelwir hwy wrth wahanol enwau, megys athrawon, bugeiliaid, esgobion, henuriaid, &c.; ond yma yr ydym yn clywed fod rhywbeth yn cael ei wneuthur tu ag attynt, pan yn myned i'r swydd.

Etto, nid yw yr hanesydd ysbrydoledig wedi rhoddi i ni fawr o hysbysiaeth pa beth oedd yr apostolion wedi ei wneuthur, na pha fodd yr oeddynt yn ei wneuthur, pan yn ordeinio henuriaid yn yr eglwysi cyntefig hyny: ond y mae yn dra sicr wrth yr hyn ydym wedi ei weled am neillduad diaconiaid, nad oedd yr apostolion yn dwyn y gwaith yn mlaen heb fod yr eglwysi yn dewis ac yn galw yr henuriaid hyn iddynt eu hunain, a bod ganddynt law neillduol yn eu hordeiniad. Canys buasai hyny yn anghysson iawn â'r dull a'r modd yr oedd y gwladwyr rhyddion hyny yn gweithredu pan yn neillduo swyddwyr gwladol, pa rai a osodid yn eu swydd bob amser trwy bleidlais gyffredin y bobl, yn y dinasoedd lle yr oedd yr eglwysi hyn wedi eu planu.‡ Ac mae yn ddiammau y buasai unrhyw ymarferiad arall yn hollol groes i'r egwyddorion rhydd ag ydym yn amlwg weled yn yr eglwysi hyn, yn eu sefydliad cyntaf gan yr apostolion; canys nid oedd yn perthyn iddynt un penaeth gwladol nac eglwysig, nac awdurdod na deddfau gwladol, nac un gosodiad dynol i rwymo yr henuriaid hyn i wneud eu dyledswydd tu ag at yr eglwysi y perthynent iddynt; ac nid oedd dim o'r fath beth yn rhwymo yr eglwysi hyny i ymddwyn yn iawn tu ag at eu henuriaid; eithr eu rhydd-ymrwymiad hwy i'w gilydd, ag oedd yn codi oddi ar eu gwirfoddol ymroddiad y naill i'r llall, eu cariad at eu gilydd, a chydwybodolrwydd o air yr Arglwydd, a'u hymostyngiad iddo, oedd eu hunig rwymau. Ond mae yn sicr fod yr eglwysi ieuaingc hyn yn talu parch mawr, a'r sylw manylaf, i gyfarwyddiadau a chynghorion yr apostolion, yn sefydliad eu

* Act. xiv. 8—21. † Act. xxiii. ‡ Doddridge on the place.

swyddwyr; a bod yr apostolion hwythau yn traddodi iddynt yr hyn oedd ewyllys Duw ar y pen hwn, trwy ddangos yr angenrheidrwydd o'r fath sefydliad, a chael rhai neillduedig i'w blaenori yn yr Arglwydd, a'r cymmwysderau oedd yn angenrheidiol mewn rhai er llenwi y cyfryw sefyllfaoedd yn yr eglwysi. Pan fyddai yr eglwysi wedi dewis a galw y cyfryw, cynnorthwyai yr apostolion hwynt yn eu neillduad trwy eu cynghorion a'u gweddiau. Ac mae eu doethineb i weled yn eu gwaith yn gadael y neillduad o swyddwyr hyd eu hail-ymweliad â'r eglwysi, fel y byddai iddynt gael ychwaneg o amser i brofi y rhai hyny ag oeddynt yn ddewis i'w blaenori yn yr Arglwydd. Gellir meddwl mai hyn oedd yr achos i'r apostol adael yr eglwysi yn Crete heb neillduo iddynt swyddwyr i weini mewn pethau sanctaidd, hyd ei ymadawiad oddi wrthynt, ac y gorfu arno adael Titus yn eu plith er eu cynnorthwyo yn neillduad eu swyddogion.*

Gwedi iddynt fel hyn ail-ymweled â'r eglwysi ag oedd yn y taleithiau hyny ag y buont ynddynt o'r blaen, hwy a fordwyasant o Attalia i Antiochia, yn Syria, y lle yr oeddynt wedi ei orchymyn i ras Duw, er cyflawniad o'r gorchwyl pwysig a gymmerasant mewn llaw, ac a gyflawnasant. I'r dyben fod yr eglwys oll yn cyd-ymgyfranogi â hwy o'r llawenydd ag oedd i'w gael trwy yr hanes cyssurlawn ag oedd ganddynt i'w roddi am eu taith lwyddiannus, a dyrchafiad teyrnas y Messiah yn mhlith y Cenhedloedd, trwy eu gweinidogaeth, hwy a gynnullasant yn nghyd yr holl eglwys. Fel hyn gorphenodd yr apostolion eu cylchdaith gyntaf yn mhlith y Cenhedloedd a breswyliai ran o Asia Leiaf, yr hon a barhaodd ychydig fwy na thair blynedd, sef o'r flwyddyn 44 hyd y flwyddyn 47.†

Tra yr oedd yr apostolion gyda yr eglwys yn Antiochia, yn ei hadeiladu trwy eu gweinidogaeth, ac yn diluddedu eu hunain yn mhlith eu cyfeillion, yn ol eu taith flinedig a llafurus, dygwyd peth o dan eu sylw ag oedd o neillduol bwys iddynt hwy a'r eglwysi yn gyffredin. Yn yr amser hwnw y codwyd y cythrwfl mawr gan yr athrawon Iuddewig, yn eglwys Antiochia, ac eglwysi ereill, pa rai a ddaethant i waered o Jerusalem, ac a hònent eu bod wedi eu danfon gan yr apostolion, yr henuriaid, a'r eglwys yno, i ddysgu yr eglwysi yn mhlith y Cenhedloedd, fod yn rhaid iddynt gymmeryd eu henwaedu, a chadw deddfau Moses oll, amgen na fyddai iddynt fod yn gadwedig. Llawer o dybiau sydd wedi bod yn nghylch pwy oedd yr athrawon Iuddewig hyny: rhai a fynant mai Cerithius ac Ebion oeddynt, dau sylfaenydd dwy blaid grefyddol a ystyrir yn gyfeiliornus, etto a fu yn flodeuog iawn; ac mae llawer o sôn am danynt mewn hanesion eglwysig perthynol i'r dyddiau gynt, ond nid oes ond traddodiadau ansicr mai hwy oedd y rhai hyn. Eithr y mae yn amlwg eu bod yn Iuddewon ag oedd yn proffesu Cristionogaeth, ac o blaid y Phariseaid, pa rai nid oeddynt yn deall y gwahaniaeth rhwng crefydd yr Hen Destament yn ei phurdeb, a chymmysgedd o draddodiadau yr henafiaid; na rhwng Iuddewaeth a'r grefydd Gristionogol; na bod y naill i roddi lle i'r llall; gan hyny, ymdrechent â'u holl egni i'w cymmodi, a gwneuthur math o grefydd gymmysglyd o honynt, yn hytrach na derbyn yr efengyl yn ei symledd. Ac fel yr oedd ysbryd ac egwyddorion Phariseaidd yn hollol groes i'r cyfryw o eiddo yr efengyl, yr athrawon ag oedd yn dwyn yn mlaen y cymmysgedd hwn, oeddynt yn selog iawn yn ei amddiffyn, a thrwy hyny yn ei ledanu. Terfysgasant lawer o eglwysi ag

* Tit. i. 5. † Act. xiv. 26, 27.

oedd yn mhlith y Cenhedloedd, nid yn Antiochia yn unig, ond wedi hyny eglwysi Galatia, fel y gwelwn yn llythyr Paul attynt. Cyfarfu yr athrawon hyn yn eu gwaith yn cyhoeddi eu hathrawiaeth, â gwrthwynebiad diysgog gan Paul a Barnabas; ac wrth ddwyn yn mlaen y ddadl, dygwyd yr holl eglwys i mewn iddi: ac o'r diwedd, penderfynasant i anfon Paul a Barnabas i fynu i Jerusalem at yr apostolion ereill, yr henuriaid, a'r eglwys yno, i ymofyn yn nghylch y pethau hyny. Meddylir fod yr hyn oedd ganddynt i fyned i fynu i Jerusalem yn ei gylch, yn ddau beth, sef, yn gyntaf, A oedd sylfaen yn ngair Duw, i osod deddf i rwymo yr eglwysi i gydymffurfio â defodau a seremoniau Moses? Yn ail, A oedd yr apostolion, yr henuriaid, a'r eglwys yn Jerusalem, wedi gwneuthur y fath ddeddf, ac wedi anfon y cennadau hyny allan i'w chyhoeddi, fel yr oeddynt yn honni? Y peth diweddaf y maent hwy yn Jerusalem yn ei hollol wadu ar unwaith. Gan hyny, y peth cyntaf oedd testun yr ymdriniaeth yn y cyfarfod yn Jerusalem.

Diau y gwyddai yr eglwys yn Antiochia fod Paul a Barnabas dan gyfarwyddiadau anffaeledig Ysbryd Duw, fel yr apostolion ereill. A dywed Paul ei fod wedi myned i fynu y pryd hwn i Jerusalem, yn ol y dadguddiad dwyfol; a diammau y gallasai yr Ysbryd Glan amlygu iddo pa fodd yr oedd iddo wneud yn yr amgylchiad, cyn iddo fyned yno.*

Ond etto, y mae doethineb mawr i'w weled yn eu hanfoniad i Jerusalem yn nghylch hyny: o herwydd yr un yw seremoniau a thraddodiadau yn mhob oes o'r byd. Rhoddir yma derfyniad hollol, yn y modd mwyaf cyhoeddus, ar yr hawl a arddelwir gan unrhyw eglwys i wneuthur cyfreithiau i rwymo cydwybodau dynion i ufuddhau i ddefodau a seremoniau anysgrythyrol. A thrwy driniaeth mor gyhoeddus o'r peth, dangoswyd yr anmhleidgarwch mwyaf yn yr amgylchiad, a gofalwyd am deimladau tyner y Cristionogion gweiniaid, yn nghyd â heddwch yr holl chwiorydd-eglwysi; gwrthwynebwyd yr athrawon Iuddewig, a gwrthbrofwyd eu haeriadau celwyddog yn yr unig le ag y dylasid ac y gallasid ei wneuthur. Gwedi anfon yr apostolion ymaith o Antiochia, a chennadau ereill gyda hwy, yn mhlith pa rai yr oedd un a elwir Titus, yr hwn wedi hyn a ddaeth yn enwog fel cyd-deithiwr a chydymaith ffyddlon i Paul, hwy a dramwyasant trwy Phenice a Samaria, ac a ddaethant i Jerusalem.† Yn y daith hon hwy a barasant lawenydd mawr i'r brodyr oll, trwy fynegi yn mhob lle am y modd y darfu i'r Arglwydd eu llwyddo yn mysg y Cenhedloedd. Eithr yr athrawon Iuddewig, neu rai o'r un egwyddorion ac ysbryd â hwynt, ag oeddynt, mae yn debyg, yn cyd-deithio â'r apostolion i fynu tu a Jerusalem, a ddywedent yn mhob lle fod yn rhaid enwaedu ar holl aelodau yr eglwysi yn mhlith y Cenhedloedd, a chadw o honynt ddeddf Moses, cyn y gallent fod yn gadwedig.

Gwedi dyfod o'r apostolion i Jerusalem, a chael derbyniad gan y brodyr oll, ymgynnullodd yr apostolion, yr henuriaid, a'r eglwys yn nghyd, i wrando yr hyn oedd ganddynt i'w ddywedyd. Ac wedi bod dadleu mawr rhwng rhai o'r athrawon Iuddewig, ag oedd am osod deddf gaethiwus ar yr eglwysi a'r apostolion, cododd Pedr i fynu, ac a ddangosodd yn eglur, nad oedd enwaediad ac ymostyngiad i ddeddfau Moses yn angenrheidiol er iachawdwriaeth y Cenhedloedd, gan fod Duw wedi amlygu digonoldeb ei ras yn eu hachubiaeth a'u derbyniad, heb y pethau hyny, yn gystal â'r

* Gal. ii. 2. † Act. xv. 3, 4.

Iuddewon a'u hymarferent, yn hollol ddiwahaniaeth, ar y cyntaf, trwy ei weinidogaeth ef. Ar ol hyn, mae yr holl gynnulleidfa yn distewi, ac yn gwrando ar Paul a Barnabas yn mynegi pa faint a wnaeth Duw trwyddynt hwythau, er dwyn y Cenhedloedd yn ufudd i'r efengyl, gan eu derbyn yn bobl iddo ei hun, heb wneuthur un gwahaniaeth rhyngddynt hwy a'r Iuddewon. Gwedi hyn, y mae Iago, yr hwn a dybir ei fod yn blaenori yn y cyfarfod, yn dywedyd ei farn, ac yn dwyn amryw ranau o air Duw allan o'r Hen Destament i gadarnhau ei olygiadau. Mewn canlyniad, y mae yr apostolion, yr henuriaid, a'r eglwys oll, yn cyduno yn erbyn golygiadau ac ymddygiadau yr athrawon Iuddewig, y rhai oedd wedi trallodi yr eglwysi; ac yn gwadu yn hollol, fod ganddynt un hawl i osod deddfau i rwymo neb mewn pethau crefyddol, lle yr oedd Duw yn eu gadael at eu rhyddid.

Ar ol hyn, y maent yn anfon llythyr caredig iawn at eu chwiorydd-eglwysi, trwy law y cennadau a anfonwyd attynt, yn mha un y maent yn dywedyd yn benderfynol, na ddarfu iddynt erioed roddi awdurdod na gorchymyn i'r athrawon Iuddewig, i ddywedyd na gwneud yr hyn a wnaethant; ac ynddo mynegid eu golygiadau a'u penderfyniad yn mherthynas i'r hyn oedd mewn dadl. Gosodasant yn y llythyr ychydig o ddeisyfiadau, er cyfarwyddo yr eglwysi i ymddygiad doeth, rhag rhoddi tramgwydd i'r Iuddewon, y rhai oedd yn preswylio yn mhob man lle yr oedd yr eglwysi, at ba rai y cyfeirid y llythyr, wedi cael eu planu. Nid oes yn y llythyr yr arwydd lleiaf o chwennychiad yn yr eglwys ag oedd yn Jerusalem, i awdurdodi a llywodraethu ar yr eglwysi yn mhlith y Cenhedloedd, nac un eglwys arall; ac nid oes un arwydd o hyny yn yr apostolion, na neb o'r henuriaid ag oedd yn bresennol. Terfynir y llythyr gyda thaer ddymuniad am heddwch a thangnefedd i'r eglwysi oll, heb fod ynddo un anathema, os na chydymffurfient â'n deisyfiadau; yr hyn a ddengys eu bod yn golygu, nad oedd gan y naill eglwys fwy i wneuthur na rhoddi cynghor i'r llall.*

Gwelir yma fuddugoliaeth rhyddid efengylaidd a chrefyddol, ar yr ymdrechiadau boreuol a wnaed er dwyn i mewn gaethiwed. Gellir gweled yma hefyd y gwahaniaeth rhwng ymarfer â defodau, neu ryw seremoniau, a gosodiad a sefydliad deddfau, er rhwymo dynion i'r ymarferiadau hyny. Y peth cyntaf, nid oedd, ac nid yw, yn mhob ystyr, yn bechod: canys yr Iuddewon crediniol, a'r eglwysi yn Judea, yn gyffredin, a ymarferent âg amryw o seremoniau Iuddewig, yn nyddiau yr apostolion; ac arferai yr apostol Paul ei hun yr enwaediad, a defodau ereill, yn fynych; a diau nad oeddynt trwy hyn yn pechu yn erbyn Duw. Eithr pan yr oedd dynion—pa un bynag ai blaenoriaid gwladol, neu rai a gymmerent arnynt lywodraethu eglwysi—yn gwneuthur cyfreithiau, ac yn sefydlu deddfau, er rhwymo cydwybodau ereill mewn pethau crefyddol, lle y gadawodd Duw hwynt yn rhyddion, dywedai yr apostol wrth ei frodyr, "Sefwch yn y rhyddid â'r hwn y rhyddhaodd Crist chwi."†

Gyda y fath ddiysgogrwydd y gwrthsafai Paul bob tebygolrwydd i draws-feddiant o ryddid yr eglwysi, fel y ceryddai yn llym ei frawd Pedr, am fod ei ymddygiad yn y mesur lleiaf yn cefnogi y deddf-wneuthurwyr, ag oedd yn ceisio dwyn i mewn gaethiwed i'r eglwysi.

Mae yr eglwysi hyny ag sydd dros y drefn henaduriaethol o lywodraeth eglwysig,‡ yn ein cyfeirio yn aml, er cael cynlluniad dwyfol o'u cymanfa-

* Act. xv. 6—29. † Gal. v. 1. ‡ Gal. ii. 14.

oedd hwy, at y cyfarfod hwn a gynnaliwyd yn Jerusalem. Ond, meddylir ei bod yn dra eglur nad oes y mesur lleiaf o debygolrwydd rhyngddynt. Canys yn eu cymanfaoedd hwy, y mae swyddwyr yn dyfod yn nghyd o'r holl eglwysi a berthyn iddynt, mewn gwlad neu dalaeth; a hwy, fel cennadon amryw eglwysi, sydd yn cyfarfod yn unig. Ac y maent yn y cyfryw gymanfaoedd yn honni hawl i wrandaw appeliadau oddi wrth yr eglwysi, er gwneud rheolau, cyfreithiau, a gosodiadau newyddion; ac i weini dysgyblaeth er cospedigaeth i'r troseddwyr: eithr nid oes y cyffelyb bethau i'w gweled yn y cyfarfod ag oedd yn Jerusalem. Nid oes y sill leiaf o sôn yn hanes y cyfarfod hwnw am gennadau yn dyfod o un eglwys, ond Paul a Barnabas, ac ychydig o gyfeillion a ddaethent drostynt eu hunain, a'r eglwys oedd yn Antiochia, yn dyfod at yr apostolion, yr henuriaid, a'r eglwys oedd yn Jerusalem, pa rai oedd wedi cael eu cyhuddo o fod wedi anfon allan y cennadau luddewig hyn, i flino yr eglwysi. Pan yr oeddynt yn ymdrin â'r achos oedd dan eu hystyriaeth, yr oedd yr eglwys yn bresennol, yn cyd-edrych i mewn i'r hyn a osodid yn eu herbyn, yn cyd-benderfynu yr achos, ac yn cyd-annerch yr eglwysi, a'r apostolion, a'r henuriaid. Er fod yr Ysbryd Glan yn llywydd yn y cyfarfod, ac er fod yr apostolion, ag oedd yn gennadau anffaeledig ynddo, yr henuriaid, a'r eglwys Gristionogol flaenaf yn y byd, wedi cydymgyfarfod—etto, nid ydym yn eu gweled, yn y radd leiaf, yn ymhonni i un awdurdod, er gwneuthur cyfreithiau a rheolau, na gweini dysgyblaeth tu ag at neb o'r eglwysi, nac yn rhoddi arnynt un gosodiad, ond ag oedd yn eglur yn ngair Duw, fel y gwelir wedi hyny gymanfaoedd hen a diweddar yn gwneuthur.* Gwedi dychwelyd o Paul a Barnabas yn ol i Antiochia, gyda Silas a Judas, y ddau gennad a anfonwyd gyda hwy oddi wrth yr eglwys yn Jerusalem, cynnullasant yr holl eglwys yn nghyd, darllenasant y llythyr, a thraddododd y ddau gennad olygiadau yr apostolion, yr henaduriaid, a'r eglwys yn Jerusalem, ar yr hyn oedd mewn dadl; a'u mawr serchawgrwydd tu ag attynt, fel chwaer-eglwys, a barasant lawenydd a diddanwch mawr i'r holl frawdoliaeth.†

* Mosheim's Eccl. Hist. 1 Cent. part 2, ch. 2, a Holdana's View of Social Worship, p. 157.

† Act. xv. 30. 31.

PENNOD IV.

Lle y traethir am ddyfodiad Pedr i Antiochia, a'r hyn a gymmerodd le y pryd hwnw rhyngddo a Paul—Paul yn dechreu ei ail daith i blith y Cenhedloedd—ei waith yn myned drosodd i Macedonia—ei lwyddiant, a phlaniad yr Eglwysi yn Philippi, Thessalonica, Berea, Athen, Corinth, &c.—ei ddychweliad i Ephesus, ei ymadawiad oddi yno ar frys, a'i fynediad i Jerusalem—ei ddyfodiad drachefn i Ephesus, a'i drydedd gylchdaith trwy ynysoedd Groeg ac Asia Leiaf—ei waith yn ysgrifenu amryw o'i epistolau—ei ymdrech am wneuthur casgl i'r saint tlodion yn Judea, yn yr eglwysi yn mhlith y Cenhedloedd—ei waith yn dwyn y casgl hwn i Jerusalem, a'r hyn a ddygwyddodd yno yn y cyfamser—Byr-olwg ar yr hyn a gymmerodd le yn ei yrfa hyd ddiwedd yr hanes a rydd Luc yn llyfr yr Actau.

PAN yr oedd Paul a Barnabas yn aros yn Antiochia, yn y cyfamser daeth Pedr, ar ryw achos, i waered o Jerusalem attynt. Gwedi ei ddyfodiad yno gyntaf, efe a ymddygodd yn hollol rydd tu ag at y brodyr Cristionogol o'r Cenhedloedd, heb wneuthur un gwahaniaeth rhyngddynt hwy a'r Iuddewon, gan fyned i'w tai, bwytta, a chyfeillachu â hwy mewn modd brawdol. Ond wedi dyfod yno rai o'r Iuddewon o Jerusalem, oddi wrth Iago, efe a ymneilluodd oddi wrthynt, fel pe buasai canolfur y gwahaniaeth heb ei dynnu ymaith. Yr oedd hyn yn beth mor groes i olygiadau yr apostolion, &c. ychydig cyn hyny yn Jerusalem—yn cefnogi cymmaint ar ddywediadau ac ymddygiadau yr athrawon Iuddewig—mor anghysson â rhyddid yr eglwys yn mhlith y Cenhedloedd—ac yn debyg o effeithio mor ddrwg ar yr Iuddewon a'r Cenhedloedd ag oedd yn aelodau o eglwys Antiochia, hyd yn nod ar Barnabas, yr hwn oedd bellach wedi bod flynyddau yn offeryn gwresog i ddwyn yn mlaen iachawdwriaeth y Cenhedloedd—nes eu dwyn hwy bron i mewn i'w rhagrith hwynt, a pheri i rwyg mawr gael ei wneud yn yr eglwys. Am hyn, cerydda Paul Pedr yn llym, a beia yn fawr ar y Galatiaid am gydymffurfio â'r cyfryw osodiadau.*

Mae yn amlwg, wrth yr hyn a ddywed Paul, a'i ymddygiad yn wyneb y ddadl hon, a'r defnydd a wna efe o ymddygiad Pedr a'r athrawon Iuddewig, wrth ysgrifenu at y Galatiaid, ei fod ef yn golygu, bod derbyniad i eglwys Crist, mwynhad o freintiau eglwysig, a chymmeradwyaeth enaid gyda Duw, yn sefyll yn ogyfuwch â'u gilydd, ar yr un tir: yr hyn sydd yn rhoddi hawl i'r naill, sydd yn ei ddwyn i feddiant o'r llall. Felly, pan yr oedd rhyw eglwys neu bersonau yn gwneuthur deddfau, er rhwymo dynion i gydymffurfio â defodau anysgrythyrol, fel ammod o dderbyniad i eglwys Crist—fod hyny yn wadiad o fod Crist yn unig sylfaen cymmeradwyaeth pechadur

* Gal. ii. 11—15.

gyda Duw.* Ymddygiad Paul, ei sylw manwl ar y ddadl, a'r hyn a ddywed ar yr achlysur, mewn rhan o'i lythyr at y Corinthiaid, y Rhufeiniaid, a'r Galatiaid, a rydd olygiadau cywir i ni ar nattur ac ehangder y rhyddid a berthyn i eglwys Dduw, yn wyneb ymgais i'w dwyn yn gaeth, a'r pechadurusrwydd o wneuthur hyny trwy ddeddfau, defodau, a gosodiadau dynol, yn y pethau a adewid i'w rhyddid.

Yr oedd achos Iesu Grist, a llwyddiant ei deyrnas yn mhlith y Cenhedloedd, yn cael lle mawr yn meddyliau Paul a Barnabas yn barhaus; ac fel yr oeddynt yn edrych ar yr eglwys yn Antiochia wedi cael ei chadarnhau yn helaeth yn ngwirioneddau yr efengyl, ac yn gyfoethog o bob doniau ysbrydol—a diau eu bod yn ofni fod yr athrawiaeth ddeddfol ag oedd wedi trallodi cymmaint ar yr eglwysi yn y parthau hyny, wedi cael ei ffordd i'r eglwysi mewn gwledydd ereill—gan hyny, penderfynasant ymweled â hwynt drachefn. Ond cyn iddynt gychwyn, cymmerodd amgylchiad anghyssurus le, yr hwn a ddengys mai dynion oeddynt, er cymmaint eu defnyddioldeb. Barnabas a fynnai gymmeryd Ioan, a gyfenwid Marc, gyda hwy i'r daith hon eilwaith, yr hwn, wedi cychwyn y tro o'r blaen, a ddychwelodd yn ei ol o Pamphylia; eithr nid oedd Paul yn gweled hyn yn addas.† Yr oeddynt mor wahanol eu golygiadau am hyn, a phob un mor bleidgar i'w olygiad ei hun, fel yr ymadawodd y ddau gyfaill â'u gilydd, ac nid ydym yn clywed iddynt gyfarfod mwy tra yn y byd hwn; ond clywn fod Marc wedi hyn yn gydymdeithydd â Paul, a'i fod yn dywedyd am dano ei fod yn fuddiol iddo ef yn y weinidogaeth.‡ Barnabas a gymmerodd Marc gydag ef, ac a fordwyodd i Cyprus, ac nid yw yr hanesydd sanctaidd yn dywedyd dim yn ychwaneg am ei helynt.

Eithr Paul a gymmerodd Silas, un o'r cennadau a ddaethai gyda hwy i waered o Jerusalem; a chwedi eu gorchymyn i ras Duw gan yr eglwys, hwy a aethant ac a dramwyasant trwy Syria a Cilicia, gan gadarnhau yr eglwysi.§ Gellir meddwl wrth hyn, fod yr eglwys yn Antiochia yn cyfiawnhau ymddygiad Paul yn fwy na'r eiddo Barnabas, yn yr amgylchiad.

Er nad ydym yn clywed yn y gair sanctaidd am blaniad yr eglwysi hyn, mwy nag am lawer o eglwysi ereill, mewn amryw daleithiau, etto mae yn ddigon eglur fod yno rai yn flaenorol i fynediad Paul a Silas attynt y pryd hwnw. Gwedi iddynt dramwy trwy y parthau hyny, hwy a ddaethant i Lystra a Derbe, y lleoedd y bu Paul a Barnabas ynddynt o'r blaen. Dyma'r fan yr oedd y dysgybl ieuangc a elwir Timotheus yn aros, yr hwn a feddylir a ennillasid i'r ffydd trwy weindogaeth Paul, yr amser y bu yno o'r blaen. Ei dad oedd Roegwr, ei fam a'i nain oeddynt Iuddewesau,‖ ac yn parchu Duw yn fawr, yn ol y drefn Iuddewig, cyn eu dychweliad at Gristionogaeth;** ac yr oeddynt wedi dwyn Timotheus i fynu yn wybodus o ysgrythyrau yr Hen Destament er yn blentyn:†† a meddylir bod rhyw brophwydoliaeth wedi cerdded am dano y byddai yn ddyn enwog dros Dduw yn y byd.‡‡ Pan aeth Paul i Lystra y tro hwn, yr oedd Timotheus wedi cynnyddu cymmaint mewn duwioldeb, a'i sel yn dysgleirio mor eglur dros y gwirionedd, fel yr oedd iddo air da gan bawb, nid yn unig gartref, eithr yn Iconium hefyd, fel y chwennychodd Paul i'w gael i gyd-deithio âg ef. Ond gan mai Groegwr oedd tad Timotheus, ni enwaedasai arno, yn ol trefn yr Iudd-

* Gal. ii. 15—19. † Act. xv. 36—39. ‡ 2 Tim. iv. 11. § Act. xv. 39—41. ‖ Act. xvi. 1.
** 2 Tim. i. 5. †† 2 Tim. iii. 15. ‡‡ 1 Tim. i. 18.

ewon—er nad oedd yr apostol yn edrych ar enwaediad, ynddo ei hun, yn bresennol yn ddim, etto, rhag attal defnyddioldeb Timotheus yn mhlith yr Iuddewon, y rhai oeddynt yn gwneuthur defnydd mawr o'r enwaediad—efe a gymmerodd Timotheus, ac a enwaedodd arno ef ei hun. Dysgir ni yma gan yr apostol, i beidio rhoddi cymmaint pwys ar bethau dibwys mewn crefydd, a rhoddi tramgwydd i ereill, ac attal eu defnyddioldeb: etto, wrth gydmaru hyn â'r hyn a ddywedwyd o'r blaen, gwelwn y dylem ochelyd gwneuthur deddfau i rwymo cydwybodau dynion, a bod mewn caethiwed dan ddeddfau dynol, mewn pethau crefyddol.

Pan oedd yr apostol yn tramwy trwy yr eglwysi yn y gwledydd hyn, yr oedd yn ofalus iawn am gadw yn ol y cynghorion a gawsai yn Jerusalem, a'r archiadau a ddeisyfwyd arnynt i'w gwneuthur, ac i eglurhau y pethau hyn iddynt; a hwy a gadarnhawyd ac a chwanegwyd yn fawr trwy yr ymweliad hwn o eiddo yr apostol.*

Paul a'i gyfeillion a ddaethant i Phrygia a gwlad Galatia; ond nid yw yn debygol iddynt aros yma nemawr o amser—etto, meddylir mai y pryd hwn y dechreuwyd planu eglwysi yn ngwlad Galatia, trwy weinidogaeth Paul—ac ni oddefai yr Ysbryd Glan iddynt gymmeryd eu taith, y pryd hwnw, yn ol eu bwriad blaenorol, trwy ranau ereill o Asia Leiaf. Canys yr oedd ganddo waith iddynt i'w wneuthur mewn rhan arall o'r byd yn gyntaf; lle y gwelwn fod teithiau a lleoedd cennadau Duw dan olygiaeth ei ragluniaeth neillduol. A chan adael Mysia o'r neilldu, hwy a ddaethant, dan gyfarwyddyd neillduol yr Ysbryd i TROAS, tref borthladdol, gyfleus, lle y byddai teithwyr yn gyffredin yn dyfod drosodd o Asia i Europe.†

Dyma yr amser cyntaf yr ydym yn deall fod Luc, ysgrifenydd yr efengyl sydd ar ei enw, a llyfr yr Actau, gwedi ymuno â Paul a'i gyfeillion, a dyfod yn gyd-deithiwr â hwynt. Pan y mae yn dadguddio ei fod yn un o'r gymdeithas, nid yw yn dywedyd hyny yn eglur, ond trwy newidiad ei ddull o lefaru. Y mae yn deilwng o sylw, nad yw efe, yn yr efengyl, nac yn llyfr yr Actau, yn dywedyd dim a wnaeth, nac a ddywedodd, dros Grist, na'i achos, er, mae yn sicr, ei fod yn ddyn cryn enwog yn ngwaith y weinidogaeth.‡ Bernir gan rai mai un o'r Cenhedloedd, proselyt i'r grefydd Iuddewig, oedd Luc; ond yr hyn a ddywedwyd yn barod sydd fwyaf tebyg o fod yn wir.§ Yr oedd yn enedigol o Antiochia, yn ddyn o wybodaeth ëang, yn ysgrifenydd medrus, unwaith yn dilyn yr alwedigaeth o feddyg, yn Gristion gwresog, ac yn un o'r rhai a lynodd wrth Paul hyd ddiwedd ei yrfa: nid yw yn hysbys pa bryd, na chan bwy, y dychwelwyd ef i'r ffydd.

Tra yr oedd Paul yn aros yn Troas, heb wybod yn iawn i ba le y mynai yr Arglwydd iddo fyned yn nesaf, wele, gwr o Macedonia a ymddangosodd iddo mewn gweledigaeth, ac a ddywedodd wrtho yn serchog iawn, "Tyred drosodd i Macedonia, a chymmorth ni. Pa fodd y gwybu yr apostol fod y gwr hwn o Macedonia, nis gwyddom; ond sicr yw, iddo ei adnabod. Pan y mynegodd efe y weledigaeth i'w gyfeillion, hwy a benderfynasant yn unfryd, fod yr Arglwydd yn eu galw hwy yno, i efengylu i drigolion Europe. "Ac yn ebrwydd," medd yr hanesydd, "ni a geisiasom fyned i Macedonia." Gwedi iddynt fordwyo yn uniawn i ynys a elwir Samothracia, a thranoeth i Neapolis, porthladd cyfleus ar oror Thracia, ar derfynau Macedonia, hwy a

* Act. xvi. 5. † Act. xvi. 8. ‡ Col. iv, 14. 2 Tim. iv. 11. a 2 Cor. viii, 18.
§ Fleetwood's Life of Christ, p. 418.

diriasant yno. Oddi yno, hwy a aethant ar draed i PHILIPPI, prif ddinas mewn parth o Macedonia.*

Yma gwelir yr apostol, yr hwn oedd wedi pregethu yr efengyl yn Syria, Arabia, Judea, Cilicia, a'r rhan fwyaf o ddinasoedd Asia Leiaf, yn dechreu ar y gwaith, yn ol trefn y Nef, o bregethu Crist yn ynysoedd y Groegiaid. Yr oedd Philippi yn ddinas ddiarfor, wedi cael ei hadeiladu ar yr afon Strymon, yr hon oedd derfyn gwlad Macedonia. Ei henw cyntaf oedd Datus: ond wedi i Philip o Macedonia, tad Alexander, ennill Thrace, a'i chwanegu at Macedonia, efe a ail-adeiladodd y ddinas hon, yn lle o amddiffyn i'w deyrnas, ac a'i galwodd ar ei enw ei hun. Poblogwyd hi ar y cyntaf gan Julius Cæsar, â lluaws o Rufeinwyr, a chwanegwyd hwy drachefn gan Augustus Cæsar, fel y daeth, wedi y cyfnerthiad hwn, yn ddinas boblogaidd.

Nid oedd yr Iuddewon yn lluosog yn y ddinas hon; canys ni ddywedir fod yno un synagog ganddynt. Eithr yr oedd yma le cyssegredig i weddio, a elwid *Proseacha*, yr hwn oedd fath o le wedi ei furio o amgylch, eithr yn ddidô, gan fod yn benagored, yn mha un yr ymgynnullent i addoli, yn y lleoedd hyny nad oedd digon o Iuddewon yn sefydlog mewn cyfleusdra i wneuthur i fynu gynnulleidfa, er cynnal addoliad synagogaidd. Yr oedd y lleoedd hyn, yn gyffredin, yn mhob man, yn nghwrr allanol i'r dinasoedd. Gan fod un o'r rhai hyn yn Philippi, aeth Paul a'i gyfeillion yno, ar y Sabbath, ac a lefarasant wrth y gwragedd oedd wedi dyfod yn nghyd i weddio i'r lle. Yn mhlith ereill ag oedd yn gwrando, yr oedd gwraig â'i henw Lydia, o Thyatira, ag oedd yn broselytes i'r grefydd Iuddewig, yr hon a werthai borphor yn y ddinas, calon pa un a agorodd Duw, er dal ar y pethau a lefarid gan Paul. Hi, wedi hyn, a lettyodd Paul a'i gyfeillion yn dra charedig, dros yr amryw ddyddiau yr arosasant yn y ddinas.

Bob dydd, pan oedd Paul a'i gyfeillion yn myned i'r lle gweddio, i gyfarfod â'r gwragedd a ddeuent yn nghyd, blinid hwy yn fawr gan ryw langces ag oedd yn meddu ar ysbryd dewiniaeth, a thrwy hyny yn dwyn elw mawr i'r rhai oedd yn ei chadw. Hon, trwy effeithioldeb Satan ar ei meddwl a waeddai ar ol Paul a'i gyfeillion, gan ddywedyd, "Y dynion hyn ydynt weision y Duw Goruchaf, y rhai sydd yn mynegi ffordd iachawdwriaeth." Anhawdd yw gwybod, beth a allasai amcan y diafol fod, yn ei waith yn dyrchafu cennadau Crist fel hyn; pa un a oedd efe, trwy hyny, yn meddwl dwyn eu gweinidogaeth i warth—trwy geisio dangos i'r bobl fod rhyw undeb a chyssylltiad rhwng eu gwaith hwy â'i gastiau ef—ai ynte ceisio eu gwawdio a'u diystyru yr oedd; megys y gwnaeth gelynion yr Arglwydd â hwy, pan yn ail-adeiladu Jerusalem a'r deml. Eithr Paul ni allai oddef iddi yn hwy, rhag iddi yn un modd ddwyn eu gweinidogaeth i warth, ac attal llwyddiant eu gwaith; gan hyny, yn enw Iesu Grist, efe a orchymynodd i'r ysbryd aflan ddyfod allan o honi: ac efe a aeth allan yr awr honno. Gwelwn yma, nid yn unig gallu Crist a'i lywodraeth oruchel ar Satan, ond hefyd nad oes un cyssylltiad rhwng gorchwylion ei deyrnas ef â chastiau dieflig y dewiniaid, ac nad yw achosion ei eglwys, a llwyddiant ei efengyl, i gael eu dwyn yn mlaen trwy y fath ofergoelion a hudoliaethau.

Gwedi bwrw yr ysbryd dewiniaeth allan o'r llangces, gwelodd ei meistriaid fod eu gobaith am eu helw, trwy hyny, wedi ei golli; a chan gynddaredd yn

* Act. xvi. 12.

erbyn y dysgyblion o herwydd hyny, hwy a ddaliasant Paul a Silas, fel rhai a ymddangosai iddynt hwy yn blaenori, ac a'u dygasant ger bron llywodraethwyr y ddinas a'r swyddogion, i le cyhoeddus ag yr oeddynt yn cynnal llysoedd ynddo. Y cyhuddwyr a ddygasant eu cyhuddiad yn eu herbyn, fel rhyw derfysgwyr crwydraidd, ag oedd wedi peri drygau lawer yn y ddinas. Y llywodraethwyr a'r swyddogion, yn y modd mwyaf byrbwyll, a gymmerasant eu perswadio ganddynt, ac a orchymynasant ddiosg eu dillad, a'u curo â gwiail, gyda gerwindeb mawr. Gwedi hyn hwy a'u taflasant i'r carchar, ac a orchymynasant i'r ceidwad i'w cadw yn ddiogel; yr hyn a amcanodd ei wneuthur trwy eu bwrw i'r carchar nesaf i mewn, lle y byddai y drwg-weithredwyr gwaethaf, ac a wnaeth eu traed yn sicr yn y cyffion. Yma y gwelwn, pan na chafodd y diafol fod yn bregethwr, iddo droi yn erlidiwr, a llenwi gwrthwynebwyr y dysgyblion â'r creulondeb a'r anghyfiawnder mwyaf.* Canys dywedir fod y cyffion yn mha un yr oedd eu traed wedi eu sicrhau, yn fath o gyff-bren mawr, yn mha un yr oedd traed y dyoddefydd yn cael eu gosod ar led, a'r dyoddefydd yntau yn gorfod gorwedd ar wastad ei gefn ar y llawr: canys yr oedd yn cael ei ddarparu, nid yn unig i sicrhau drwg-weithredwyr, ond hefyd i'w cospi.

Pan yr ŷm yn edrych ar Paul a Silas yn y sefyllfa hon, mae yn anhawdd dywedyd pa un ai teimlad o dosturi tu ag attynt hwy, sydd fwyaf a chryfaf yn ein mynwesau, neu ynte teimlad i ryfeddu doethineb Duw, yn trefnu y moddion hyn er mawrygu ei ras, helaethu ei achos, ac achub eneidiau pechaduriaid. Pan yr oeddynt hwy fel hyn wedi eu rhoddi yn y carchar, yn ddiymgeledd a chlwyfedig, heb gael cymmaint â chennad i atteb drostynt eu hunain, ganol nos, pan oeddynt yn gweddio ac yn moli Duw, llanwyd eu heneidiau â'r fath deimladau gorfoleddus o gariad Duw, ac o'i bresenoldeb dwyfol, fel eu dygwyd i lawenhau mor uchel, nes eu clywed gan eu cydgarcharorion. A Duw, yr hwn sydd yn wrandawr gweddi, a'u gwrandawodd, ac a amlygodd ei allu, er eu gwaredu, trwy beri y fath ddaear-gryn mawr, nes siglo seiliau y carchar, agoryd yr holl ddrysau, a rhyddhau rhwymau pawb ag oedd yn y carchar; er hyny ni ddihangodd neb o honynt. Ceidwad y carchar, wrth glywed swn y twrf mawr, a ddeffrodd o'i gwsg; ac wrth weled fod drysau y carchar yn agored, brawychodd yn ddirfawr; tynodd ei gleddyf o'i waun, gan fwriadu lladd ei hun, o blegid tybio o hono ffoi o'r carcharorion ymaith, am ba rai y derbyniasai efe y fath orchymyn caeth y noson o'r blaen. Eithr Paul, wedi derbyn dadguddiad o'r hyn ag oedd efe yn fwriadu ei wneuthur, a waeddodd allan â llef uchel. "Na wna i ti dy hun ddim niweid; canys yr ydym ni yma oll." Gwedi iddo glywed hyn, efe a larieiddiodd, a daeth i deimlad gwahanol am dano ei hun, a thrwy lewyrchiad goleuni dwyfol yn ei enaid, efe a welodd ei sefyllfa druenus, fel pechadur ger bron Duw; ac wedi iddo alw am oleu, efe a ruthrodd i mewn, ac yn ddychrynedig efe a syrthiodd i lawr ger bron Paul a Silas. Gwedi eu dwyn allan o'r carchar i'w dŷ ei hun, mae yn debyg, efe a ofynodd iddynt, yn y modd mwyaf difrifol, beth oedd raid iddo ei wneuthur, fel y byddai gadwedig? Paul a'i hattebodd ef, gan ddywedyd, "Cred yn yr Arglwydd Iesu, a chadwedig fyddi di a'th deulu."† Mae yn sicr fod yr attebiad hwn yn cynnwys yr unig ffordd, yn ngolwg yr apostolion, ag oedd i bechaduriaid gael cymmeradwyaeth gyda Duw, a heddwch, tangnefedd, a gwir gyssur

* Act. xvi. 22, 23. † Act. xvii. 31.

i'w heneidiau, a phroffes o ba un, oedd yn unig yn rhoddi hawl i'r eglwysi cyntefig yn y dyddiau hyny. Teimlodd ceidwad y carchar effaith y gwirionedd hwn ar ei feddwl ei hun, yn gwasgaru ei ddychrynfëydd, ac yn symmud ymaith ei holl ofnau, fel y gwelir yn yr amgeledd a weinyddodd i'r cennadau, a'r canlyniad a fu yn y teulu, trwy iddo ef a'i deulu gael eu bedyddio i'r ffydd Gristionogol yn y man.

Anhawdd yw barnu, wrth ystyried yr amser—sefyllfa Paul a Silas, a'r lle a'r amgylchiadau yr oeddent ynddynt—i'r ordinhad gael ei gweini tu ag at y teulu hwn trwy drochiad.

Y fath oedd y ddaear-gryn, fel y teimlodd yr holl ddinas hi, mae yn debygol. Dygwyd i wybyddiaeth y swyddogion yn fuan am agoriad drysau y carchar, y rhai yn wyneb hyn, a ofnasant eu bod wedi gwneuthur yr hyn nid oedd iawn: gan hyny danfonasant yn foreu at y ceidwad, am ollwng yn rhydd y dynion a roddasid yn y carchar y nos o'r blaen. Eithr Paul ni farnodd ei fod yn anghysson â'i gymmeriad fel Cristion, a'i fod yn angenrheidiol iddo, er anrhydedd yr efengyl a bregethai, naccâu myned ymaith, nes argyhoeddi y swyddogion o'u camgymmeriad, ac anghyfreithlondeb eu hymddygiadau, yn eu gwaith yn eu cospi hwy, heb eu profi yn euog, mewn llŷs cyhoeddus, a hwythau yn Rufeinwyr, trwy urddasrwydd breiniol.

Pan glywodd y swyddogion hyn, dychrynasant ac ofnasant yn ddirfawr, canys gwybuasant eu bod wedi troseddu y gyfraith, a'u bod yn agored i gospedigaeth; gan hyny, daethant hwy eu hunain attynt, ac a attolygasant arnynt yn heddychol i ddyfod allan, a deisyfasant arnynt fyned allan o'r ddinas.*

Nid yw yn annheilwng o'n sylw fod cyfrwysdra Satan yn sicrhau ei deyrnas yn mhlith dynion, trwy gydblethu ei gastiau a'i rodres âg elw dynion, eu hanrhydedd, a'u pleser, fel nad oes fodd i dynnu lawr y gwaethaf o weithredoedd anffrwythlon y tywyllwch, heb fod elw, parch, ac anrhydedd rhyw ddynion yn syrthio ar yr un pryd. A phan oedd yr efengyl, neu pan y mae hi etto yn dadwneud y naill, y mae hi yn niweidio y llall i'r teimlad a'r olwg arnynt, yr hyn sydd wedi peri erledigaethau creulawn yn mhob oes yn erbyn ei phleidwyr.

Gwedi i Paul a Silas fyned i dŷ Lydia, ac ymweled â'r ychydig frodyr oedd ganddynt yn y ddinas, hwy a'u cyssurasant, ac a ymadawsant â'r ddinas, gan adael Luc, mae'n debygol, gyda yr eglwys fechan hon, i'w hadeiladu a'i gosod mewn iawn drefn. Dyma ddechreuad yr eglwys enwog a fu yn Philippi, at ba un yr ysgrifenodd yr apostol lythyr hynod o garedig wedi hyny. Y mae Luc, o'r pryd hwn hyd yr hanes a rydd yn yr ugeinfed bennod, yn arfer y gair *hwy*, am Paul a'i gyfeillion, ac nid y gair *ni*, fel yr arfera o'r blaen, yr hyn a ddengys nad oedd efe yn cyd-deithio â'r apostol am rai blynyddau y pryd hwnw, ond ei fod, fel yr efengylwyr ereill, ar rai amgylchiadau, yn cael ei adael i iawn drefnu eglwysi ieuaingc. Parhaodd cariad neillduol yn yr eglwys hon tu ag at yr apostol, a dangosodd hyny trwy ei haelioni, ddwy neu dair o weithiau yn y cyfraniadau a anfonodd tu ag at ei gynnaliaeth, wedi ei ymadawiad oddi yno.

Gwedi i Paul a'i gyd-deithwyr ymadael a Philippi, hwy a dramwyasant i Amphipolis, dinas ac ynys yn nghanol afon Strymon, yn mha le y gwladychai lluaws o Atheniaid, ac oddi yno i Apolonia, ac yn mlaen hyd nes y

* Act. xvii. 39.

daethant i THESSALONICA, prif ddinas Macedonia, yr hon oedd 150 o filltiroedd o Philippi.* Yma y preswyliai rhaglaw a thrysorydd Rhufeinig, y pryd hwnw, ac y cynhelid y llysoedd gwladol perthynol i'r taleithiau hyny; ac o herwydd hyn, yr oedd yma luaws mawr o ddieithriaid yn wastadol; ac am ei fod yn ymyl cangen o fôr, yn lle cyfleus iawn i fasnach. Yr oedd yr Iuddewon yn dra lluosog yn y ddinas hon, fel ag yr oedd ganddynt yma synagog, yn mha un y bu Paul a Silas am dri Sabbath yn ymresymu â hwy, allan o'r Hen Destament, yr hwn oeddynt hwy am ddangos mawr barch iddo, mai yr Iesu oeddynt hwy yn bregethu oedd y Crist. Lluaws mawr a gredodd iddynt, ac o'r gwragedd penaf nid ychydig a ymwasgasant â Paul a Silas; eithr yr Iuddewon anghrediniol a lanwyd o genfigen, fel y codasant erledigaeth yn eu herbyn.

Gwedi iddynt aros yn y ddinas dalm o ddyddiau, i bregethu yr efengyl i'r Cenhedloedd, a pheidio myned i synagog yr Iuddewon, bu llwyddiant mawr ar eu llafur, fel y sefydlwyd yma eglwys flodeuog. Oddi yma aethant i BEREA, yn mha le hefyd yr oedd synagog i'r Iuddewon, i ba un yr aeth Paul a Silas, a thystiasant eiriau bywyd tragywyddol iddynt, megys yn Thessalonica. Er mawr anrhydedd i'r Iuddewon Bereaidd, dywed yr Ysbryd Glan eu bod yn foneddigeiddiach na'r rhai oedd yn Thessalonica, gan eu bod yn fwy diragfarn—yn manwl chwilio yr ysgrythyrau, fel rhydd-ymofynwyr am y gwirionedd, heb gymmeryd eu llyffetheirio gan Ysbryd rhagfarnllyd, ac heb benderfynu mai fel hyn yr oeddynt wedi arfer meddwl, ac y byddai iddynt barhau i feddwl, bydded y prawfiadau i'r gwrthwyneb yr hyn a fyddent. Wedi iddynt rydd-ymofyn, a manwl chwilio yr ysgrythyrau, at ba rai y cyfeiriwyd hwy gan yr apostol, a'u cydmaru â'r hyn a ddywedai efe am Iesu Grist, lluaws mawr o'r Iuddewon a'r Groegiaid parchus a gredodd yr hyn a ddywedwyd gan yr apostol, fel y sefydlwyd yma hefyd eglwys flodeuog.† Ond fel yr oedd llwyddiant yr efengyl yn rhoddi y fath ddymchweliad i deyrnas Satan, efe a gynhyrfodd ei holl luoedd i'w gwrthsefyll; ac fel nad oedd llonyddwch, diwedd, na digoni ar genfigen yr Iuddewon gwrthnysig oedd yn Thessalonica, hwy a ddaethant i Berea hefyd, wrth glywed am lwyddiant yr efengyl, ac a gynhyrfasant y Bereaid anghrediniol i godi yn erbyn Paul a'i gyfeillion.

Y brodyr, pan welent fod bywyd Paul mewn perygl, yn ebrwydd a'i hanfonasant ef ymaith tu a'r môr, fel pe buasai ar feddwl myned trosodd, fel na chai ei erlidwyr afael arno; ond arosodd Silas a Timotheus yn Berea, am nad oeddynt hwy mor gyhoeddus, nac yn gymmaint o wrthddrychau dygasedd eu gelynion ag oedd Paul, fel y byddai iddynt adeiladu a gosod y gymdeithas ag oedd yno mewn iawn drefn. Eithr cyfarwyddwyr Paul, mae yn debygol, yn ol eu bwriadau dechreuol, a'i dygasant ef i ATHEN, y ddinas a gydnabyddir trwy gydsyniad cyffredin, ag oedd yn brif eisteddle dysgeidiaeth a phob math o wybodaeth naturiol y pryd hwnw, ac wedi bod yn ddinas bennaf, yn mhob ystyr, yn holl wledydd y Groegiaid.‡ Er bod canolddydd mawredd, gwychder, ac awdurdod Athen wedi myned heibio pan oedd Paul yno, etto, yr oedd ynddi luaws mawr yn wastadol o brif athrawon, ymresymwyr, araethyddion, lliw-wyr, cerfwyr, a phleidwyr awen yr oes, yn preswylio y pryd hwnw; a byddai llawer iawn o ddynion ieuaingc, o bob parth o'r byd adnabyddus, yn dyfod yno, er mwyn chwanegu

* Act. xviii. 1. † Act. xviii. 10—13 ‡ Act. xviii. 15.

eu dysgeidiaeth, a chwblhau eu gwybodaeth o'r celfyddydau mwyaf manylaidd. A dywed haneswyr fod Athen yn ben ar y byd mewn eilunaddoliaeth, fel yr oedd, meddant, fwy o allorau ac eilunod yn y ddinas, nag oedd yn holl Groegia i gyd heblaw yno; ac yr oedd yr Atheniaid yn hynod o barchus o'u duwiau, ac yn dra defosiynol yn holl ranau addoliad eu heilunod.

Y mae yn ddiau fod y ddinas hon, o herwydd amlder ei chof-golofnau hynafiaethol, a'i chywreiniol bethau, yn wrthddrych difyr i bob ymweledydd myfyrgar; ac nid oedd yr apostol yn amddifad o archwaeth i sylwi ar y pethau hyn, nac o alluoedd i wneuthur manwl chwiliad iddynt, na doethineb i wneuthur y defnydd goreu o'r cyfryw bethau, yn nghyd â'r hyn oll a berthynai i'r ddinas, fel y gwelwn iddo wneuthur y pryd hwn. Ond fel yr oedd Cristionogaeth a phethau yr efengyl yn blaenori ac yn llywodraethu ei feddwl lawer uwchlaw athronddysg, efe a sylwodd, gyda theimlad galarus, fod yr Atheniaid, er maint eu breintiau, eu cyfleusderau, eu clod, eu gwychder, a'u hunandybiaeth, yn hollol amddifaid o'r hyn oedd yn gwbl angenrheidiol er eu gwir ddedwyddwch. A chan eu bod yn amddifaid o'r gwir a'r bywiol Dduw, a medrusrwydd i'w fwynhau er bywyd tragywyddol, nid oedd eu llawnder, eu mawredd, a'u gwychder, yn ei olwg ef, ond trueni mewn ymddangosiad ardderchog.

Gwedi i Paul sylwi gyda manylrwydd ar sefyllfa, agwedd, ac ymddygiad yr Atheniaid, efe a welodd fod y ddinas oll wedi ymroddi i eilunaddoliaeth; ac wrth ystyried fod yno faes ëang i weithio, efe a anfonodd am Silas a Timotheus i ddyfod atto ar frys, pa rai oedd y pryd hwnw yn aros yn Berea. Tra yr oedd efe yn aros am eu dyfodiad, ei ysbryd a gynhyrfwyd gan awyddfryd sanctaidd i wneuthur lleshad iddynt; ac am nad allai ymattal yn hwy, efe a ymresymodd â'r Iuddewon yn y synagog, ac â'r proselytiaid crefyddol, yn y farchnad neu ryw le y cai afael arnynt. Dygodd hyn sylw rhai o'r athronwyr Groegaidd arno, sef rhai o bleidwyr yr Epicuriaid a'r Stoiciaid, pa rai oedd yn tybied mor fawr am eu dysgeidiaeth a'u gwybodaeth eu hunain fel ag yr oeddynt yn llenwi eu holl bleidwyr â golygiadau balchaidd, a meddyliau mawreddog am yr hyn a berthynai iddynt hwy; ac o herwydd hyny, ystyrient Paul fel rhyw wag-siaradwr, ac edrychent arno gyda y gwaelder a'r dirmyg mwyaf. Am farnau crefyddol y pleidiau hyn, sylwasom yn yr arwaeniad i mewn. Pan oedd Paul yn pregethu Iesu Grist ac adgyfodiad y meirw, tybiasant ei fod yn mynegi am dduwiau newyddion, a chan y perthynai i'r llys enwog a gynhelid yn Areopagus i edrych i mewn i'r pethau hyn, ac i farnu yn eu cylch, hwy a ddygasant Paul ger gwydd y llys hwnw. Yr oedd dau lŷs perthynol i Athen, un cyffredin, yn cael ei wneuthur i fynu gan bum cant o'r dinaswyr, a ddewisid yn flynyddol, a'r llall oedd o bendefigion y bobl, ac yn cael eu hystyried yn eu swydd dros eu hoes, os na byddai iddynt wneuthur rhyw achos o'u deol o honi, yr hyn a edrychid arno yn ddirmyg mawr. Cynhelid y llŷs hwn yn Areopagus, sef ar fynydd y duw Mars; a chymmaint oeddynt yn feddwl am urddasrwydd y frawdle hon, fel yr edrychid ar bob un ag oedd yn eistedd yn y cynghor hwn gydag arwydd o enwogrwydd neillduol, trwy y byd yn gyffredin. Aelodau y llys hwn oedd seneddwyr Athen, ac iddynt hwy y perthynai barni pa beth oedd grefyddol, a pha beth nad oedd felly—yr hyn oedd gabledd yn erbyn y duwiau, a'r hyn nad oedd felly—a hwy oedd i gyssegru y duwiau a'r temlau newyddion; a gosodiad pob ymarferiad crefyddol

mewn grym a gweithrediad trefnus ag oedd yn perthyn i weithrediadau y llŷs ardderchog hwn.

Gan eu bod yn tybied fod Paul yn dwyn rhyw bethau newyddion i'w clustiau dygasant ef ger eu bron, er cael ychwaneg o hysbysrwydd ac eglurhad ar y pethau hyn ganddo. Yn awr gwelwn yr apostol yn sefyll ger bron y llŷs a ystyrid yr enwocaf, a'r barnwyr doethaf yn y byd. Heb ystyried dwyfolder yr araeth a wnaeth yr apostol ger bron y llŷs, y mae y beirniaid goreu yn edrych arni yn ddarn o'r ymadroddiad cymmwysaf, grymmusaf, enwocaf, a ffraethaf ag sydd yn ysgrifenedig, mewn un iaith. Yn ei ymresymiad â thrigolion Athen, nid oedd yr apostol yn ymwneud â hwy ar yr un tir ag y byddai yn ymwneud â'r Iuddewon, pa rai oedd ganddynt oraclau Duw, ac a broffesent barch iddynt. Pan oedd Paul yn sefyll yn Areopagus, defnyddiai lyfr Natur, a gwaith Aratus, un o'u prydyddion, a'r argraffiad a welasai ar un o'u hallorau, i ddangos doethineb, gallu, daioni, a gofal y Duw byw. Gwedi iddo arwain eu meddyliau trwy y greadigaeth a rhagluniaeth, a dangos iddynt gyda y fath sicrwydd yr oedd y pethau hyn yn amlygu fod barn, y mae yn dywedyd fod y dydd hwnw wedi cael ei osod, ac mai trwy Iesu Grist, yr hwn a gyfododd Duw o feirw, y byddai iddo farnu yr holl fyd. Pan glywsant son am y pethau hyn, yr Epicuriaid a'i gwatwarasant ef, gan ystyried yr athrawiaeth am adgyfodiad y meirw, fel rhyw chwedl wag; ereill gyda llawer o ddifatterwch, a ddywedasant fod hyny yn ddigon y pryd hwnw, ac y byddai iddynt ei wrandaw bryd arall am y pethau hyn.* Fel hyn y terfynwyd y cyfarfod hwn; ac aeth yr apostol allan o ganol y barnwyr dysgedig hyn, heb fawr o obaith llwyddo gyda y cyffredyn o honynt, gan eu bod yn barnu eu hunain yn annheilwng o fywyd tragywyddol, trwy eu gwrthodiad o Iesu Grist. Eithr rhai o honynt a ddaliodd ar yr hyn a lefarwyd gan Paul, yn mhlith pa rai yr oedd Dionysius, un o'r Areopagiaid, a gwraig a'i henw Damaris, yn nghyd âg ychydig o rai ereill, yr hyn a fu yn had gwerthfawr i eglwys luosog yn Athen, mewn amser dyfodol, fel y gwelwn yn yr hanes am y canrifoedd nesaf.

Pan oedd Paul fel hyn yn ymwneud â'r gwaith o bregethu yr efengyl yn Athen, daeth Timotheus atto o Macedonia, ac a ddygodd air iddo am y trallod, yr helbul, y blinderau, a'r gorthrwm mawr yr oedd y dysgyblion ieuaingc ag oedd yn Thessalonica a'r parthau hyny ynddo, o herwydd erlidigaeth boethlyd ag oedd gelynion Crist wedi ei chodi yn eu herbyn. Pan glywodd yr apostol hyn, anfonodd ef yn ol drachefn attynt i'w cyssuro a'u cadarnhau yn y ffydd, yn wyneb eu tywydd garw, gan eu hannog i lynu yn ddiysgog wrth yr Arglwydd. Yn fuan wedi hyn, y mae Timotheus yn dychwelyd at Paul i Athen drachefn, ac yn dwyn iddo y newydd cyssurlawn am gadernid a diysgogrwydd ffydd, a llafurus gariad y Thessaloniaid, fel y mae efe yn cael ei lonni yn fawr.† Nid ydym yn clywed dim am Silas yn yr amgylchiadau hyn. Gwedi hyn, ymadawsant âg Athen, a daethant i CORINTH,‡ yr hon oedd ddinas hynod o ran ei henwogrwydd yn y dyddiau gynt, ac yn sefyll ar wddf o dir sydd yn rhedeg i Fôr y Canoldir, ac felly yn gwynebu ar Asia ac Europe. Fel ag yr oedd yn anghydmarol o ran ei chyfleusdra masnachol, trwy ei bod yn aros rhwng y ddwy ran gyfoethocaf o'r byd, ac mor gyfleus i'r naill ag i'r llall, ac yn agos i borthladd-

* Act. xvii. 33. † 1 Thes. iii. 1—7. ‡ Act. xviii. 1.

oedd Cencreæ a Schœnus, hi a ddaeth yn ddinas gadarn, gyfoethog, ac aml ei thrigolion, yn fore iawn, yn gymmaint felly ag y dywedir fod y Rhufeiniaid yn ei hofni agos gymmaint â Carthage. Ei henw dechreuol oedd Ephyra; ond pan oedd y Groegiaid mewn rhyfel â'r Rhufeiniaid, Mummius, y rhaglaw Rhufeinig, a'i hennillodd ac a'i llosgodd â than hyd y llawr. Gwedi iddi gael aros yn ei phentwr lludwog am hir flynyddau, Julius Cæsar a'i hail-adeiladodd, ac a'i galwodd ar yr enw Corinth, a phoblogodd hi â henafiaid y trigolion ag oedd ynddi pan yr ymwelodd Paul â hi.

Gwedi gwneuthur Achaia yn dalaeth Rufeinig, gwnaed Corinth yn brif le gweinyddiad y llywodraeth dros y dalaeth honno; a thrwy hyn, derchafwyd hi yn fawr mewn cyfoeth a mawredd bydol, mewn enwogrwydd a dysgeidiaeth, fel y cyfrifid hi tua yr amser y bu Paul yno, yn ail Athen: eithr am ei drygioni, ei gloddestau, a llygredigaeth ei moesau, yn ddiarhebol. Pan ddaeth efe yno gyntaf, cyfarfu a dysgybl gwresog o'r enw Acwila, a'i wraig Priscila, pa rai oedd newydd ddyfod o'r Ital, o herwydd i'r amherawdwr Claudius Cæsar roddi gorchymyn i'r Iuddewon oll i ymadael â'r wlad honno. Amrywiol yw y dywediadau yn nghylch yr achos i Claudius roddi y fath orchymyn; dywed Suetonius, hanesydd ag oedd yn byw tua yr amser hwnw, mai o herwydd fod yr Iuddewon yn Rhufain yn ymderfysgu yn barhaus, ac mai un o'r enw CHRESTUS oedd yn blaenori y terfysgwyr, neu yn achosi y terfysg. Meddylia llawer mai wrth Chrestus, y golyga Iesu Grist; canys llefara yr hanesydd hwn gyda chryn ddirmyg am dano ef a'r Cristionogion mewn manau ereill o'i hanes. Ac edrych ar hyn yn wirionedd, yr hyn nid oes genym un sail i'w ammeu, ymddengys fod deoliad yr Iuddewon o Rufain wedi cael ei achosi trwy fod yr Iuddewon anghrediniol, yno, fel yn mhob lle arall, yn barhaus yn ymgynhyrfu mewn modd erledigigaethus tu ag at y rhai crediniol, nes terfysgu yr holl ddinas.

Yr oedd yr Iuddewon yn dra lluosog yn Corinth, ac yr oedd ganddynt synagog yma, i'r hon yr aeth Paul, yn ol ei arfer, am rai Sabbathau, gan bregethu Iesu Grist iddynt. Tybir ei fod ef ei hun yno hyd yr amser hwn, a bod Timotheus wedi cael ei anfon ganddo at Silvanus drachefn, i Macedonia; eithr hwy a ddaethant atto i Corinth, â newyddion gwerthfawr am lwyddiant yr eglwysi yn y parthau hyny, yn enwedig yn yr un ag oedd yn Thessalonica. Cynhyrfodd hyn ei ysbryd, ac a'i bywioccaodd, fel yr ymresymodd efe yn hyfach ac yn fwy egniol, gan dystiolaethu i'r Iuddewon a'r proselytiaid Groegaidd, mai yr Iesu hwn oedd y Messiah addawedig i'r tadau, ac mai efe oedd unig waredwr pechaduriaid.

Profodd Duw ffydd Paul drachefn yn Corinth, trwy ei adael am hir amser yn lled ddilwyddiant, fel y meddyliodd ymadael â'r ddinas; eithr rhagflaenodd yr Arglwydd hyn, trwy ymddangosiad mewn gweledigaeth iddo, i'w galonogi i fyned yn mlaen â'i waith, gan fod i'r Arglwydd bobl lawer yn y ddinas honno, ac na chai neb ei ddrygu mewn dim. Gwedi cael ei galonogi felly, y mae yn aros yno am o ddeutu deunaw mis yn ychwaneg, gan bregethu iddynt air Duw, nos a dydd; a Duw hefyd a ddug dystiolaeth i'w lafur, trwy lwyddo y gwirionedd, er dychwelyd llawer oddi wrth eu ffyrdd drygionus, a chasglwyd yma eglwys luosog iawn, a chyfoethog mewn pob dawn ysbrydol. Yn y cyfamser, tra yn aros yma, ysgrifenodd ei lythyr cyntaf at y Thessaloniaid, yr hwn, bernir, yw y cyntaf oll a ysgrifenodd; ac, yn yr un flwyddyn, sef y flwyddyn 52, neu ddechreu y flwyddyn 53, yr ysgrifen-

odd ei lythyr at y Galatiaid—canys y mae yn eglur iddo ysgrifenu hwn cyn iddo fod yno yr ail waith—yr hyn a wnaeth yn nechreu y flwyddyn 54.*

Dywedir fod yr Iuddewon oll yn dwyn eu plant i fynu mewn rhyw alwedigaeth, yn mha sefyllfa bynag y byddent, ac yr arferent ddywedyd, fod yr hwn na ddygai i fynu ei blentyn i unrhyw grefft, yn sicr o'i ddwyn i fynu yn lleidr. Er fod Paul o deulu urddasol, a chwedi cael ei ddwyn i fynu yn ysgolhaig, etto dysgwyd ef i wneuthur pebyll, o'r hon gelfyddyd yr oedd Acwila hefyd. A chan fod yr apostol y pryd hwnw mewn amgylchiadau ag oedd yn gofyn iddo weithio â'i ddwylaw, er ennill bywioliaeth iddo ei hun a'r rhai oedd gydag ef, efe a weithiodd yn galed yn y gelfyddyd honno, gyda'i gyfeillion Acwila a Phriscila. Dangosodd trwy hyn nad yw yn beth croes i ewyllys yr Arglwydd, nac yn sarhad ar yr efengyl, pan y mae cennadau Iesu Grist gyda'i waith mewn gwlad ddyeithr, heb neb yn estyn iddynt yr hyn sydd angenrheidiol i gynnal nattur, iddynt weithio â'u dwylaw mewn unrhyw alwedigaeth gyfreithlon, er ennill eu bywioliaeth. Hefyd dangosai yr apostol yn hyn ei gydymdeimlad â'r eglwysi yn eu gwendid a'u bychandra y pryd hwnw, a'r trallodau mawrion yr oeddynt ynddynt, o herwydd yr erledigaethau a ddyoddefasant; ac mae yn debyg ei fod wedi cael ei gyfarwyddo i wneuthur felly, er torri ymaith bob achos ymffrost oddi wrth y gau athrawon, y rhai a godasent i fynu yn fuan yn eglwys Corinth.† Ond meddylir nad yw hyn, yn y mesur lleiaf, yn esgusodi yr eglwysi hyny a fwynhânt y weinidogaeth efengylaidd, a gweinidogion ffyddlon i'w thraddodi, er eu lleshad ysbrydol, oddi wrth eu dyledswydd i wneud eu gorau i'w cynnal yn eu pethau naturiol, yn y fath fodd ag y gallont gwbl ymroddi i'r gwaith. A diau nad oedd yr apostol yn ei ymddygiadau y pryd hwnw yn gwrth-wneud yr hyn a ddywedodd wedi hyny yn ei lythyr at yr eglwys oedd yn Corinth, sef, *y dylai yr hwn oedd yn pregethu yr efengyl fyw wrth yr efengyl.*

Gellir barnu i'r apostol, tra yr arosodd y pryd hwn yn Corinth, fyned allan i bregethu yr efengyl yn y wlad o amgylch y ddinas, ac hefyd yn nhalaith Achaia, yr hon a elwir yn awr Morea. Canys yn ei ail lythyr at y Corinthiaid, fe annercha *yr holl saint oedd yn Achaia*; ac fe enwir Phebe, gweinidoges eglwys Cencreæ, porthladd yn nghylch naw milltir o Corinth. Y mawr lwyddiant a fu ar ei weinidogaeth yn y lle hwn, fel mewn manau ereill, a gynhyrfodd lid, cenfigen, a chynddeiriogrwydd ei elynion yn ei erbyn i'r gradd uchaf. Codasant erledigaeth yn ei erbyn, dygasant ef ger bron y rhaglaw Rhufeinaidd, ac achwynasant arno, ei fod yn gŵyr-droi y bobl, ac yn eu dysgu i addoli yn groes i drefniadau y tadau. Galio, brawd yr enwog Seneca, yr athronydd Stoicaidd, yr hwn a fu yn benathraw i Nero, yr amherawdwr, oedd yn rhaglaw Achaia y pryd hwnw, yr hwn a gyfrifid yn ddyn hynod ddeallus, ac o dymmerau hoffus iawn. Beïr arno gan amryw feirniaid am ei ymddygiad yn achos Paul y pryd hwnw; eithr meddylir nad yw y cyfryw yn iawn ystyried y peth: canys mor bell ag yr oedd efe heb fod yn gofalu am grefydd yn bersonol, yr oedd i'w feio yn fawr; ond mor bell ag nad oedd efe yn gofalu am fod yn farnwr yn achosion crefyddol rhai ereill, yr oedd yn ganmoladwy. Pa beth oedd a wnelai efe, na neb barnwyr gwladol ereill, â chrefydd neb o'u deiliaid? Fel barnwr, yr oedd attebiad Galio yn synwyrlawn ac yn ddoeth; a phe buasai holl

* Act. xviii. 23. Gal. i. 6. a iii. 1—3. a iv. 15. † 2 Cor. xi. 8—12.

farnwyr y ddaear yn sefyll ar yr un tir, ac yn ymddwyn yn ol yr un egwyddorion, er dechreuad Cristionogaeth, buasai eu gweinyddiad yn llawer mwy anrhydeddus, ac ni buasai un o fil o ddynolion yn gorfod marw yn ferthyr, o'r rhai a fu er y dechreuad hyd yn bresennol. Dengys ef i'r Iuddewon ag oedd yn dwyn y cyhuddiad, nad oedd yr hyn a osodent yn erbyn Paul o'r fath nattur ag oedd yn dyfod o fewn cylch ei swydd ef, na than olygiaeth y gyfraith yr oedd efe yn weinyddwr iddi, yr hon oedd yn un hollol wladol yn ei nhattur a'i hamcan—fod eu cyhuddiad hwy yn un moesol a chrefyddol, pe amgen y buasai efe yn cymmeryd sylw o'u hachos: gan hyny y mae efe yn eu gyrru ymaith oddi wrth y frawdle. A phan yr oedd Sosthenes yr arch-synagogydd, prif gyhuddwr Paul, yn ymadael â'r llŷs, y werin, yn gwybod am ei ddrwg-amcan, a'i genfigen yn yr achos hwnw, a'i curasant; ac er gwybod o'r rhaglaw hyny, ni wnaeth un sylw amddiffynol o hono, gan nad oedd yn ei ystyried o ddim canlyniad pwysig.* Fel hyn y gwaredodd yr Arglwydd ei weision y pryd hwn rhag dyoddef un sarhad neillduol na niweidiol, er mawr siomedigaeth i'w herlidwyr.

Gwedi hyn arosodd Paul am ychydig amser yn hwy yn Corinth; a gellir meddwl fod blaenoriaid y ddinas yn lled dirion a heddychol tu ag atto. Eithr fel yr oedd amgylchiadau yn galw am iddo fyned i fanau ereill, efe a ganodd yn iach i'r brodyr yn Corinth, ac a fordwyodd i borthladd Cencreæ, tua Syria; a chydymdeithiodd âg ef Acwila a Phriscila.† Yr oedd yn amser-oedd blinion iawn ar yr eglwysi yn Macedonia y dyddiau hyny, fel yr oeddynt yn gorfod dyoddef erledigaethau parhaus; ac y mae yn lled debyg i'r eglwys yn Thessalonica gamddeall meddwl yr apostol yn ei lythyr blaenorol yn nghylch ail-ddyfodiad yr Arglwydd Iesu, trwy dybio o honynt yr ymddangosai yn yr oes honno. Bu hyn yn achos i'r apostol ysgrifenu ei ail lythyr attynt, cyn iddo ymadael â Corinth.‡ Nid yw yn amlwg pa bryd y dychwelodd Paul i Corinth drachefn; eithr deallwn ei fod yn dal cymdeithas neillduol â'r eglwys hon, fel â'r eglwysi ereill—gan fod gofal yr holl eglwysi, fel y dywed, yn gorphwys yn agos at ei feddwl. Ysgrifenodd y Corinthiaid atto yn fuan ar ol hyn, i ofyn ei gyngor yn nghylch rhyw bethau perthynol i grefydd—y mae yn deall fod ymraniad yn eu plith, a bod amryw bethau annhrefnus iawn wedi ymlusgo i mewn i'w mysg yn fuan ar ol ei ymadawiad. I atteb eu gofyniad, ac i symmud ymaith yr annhrefn, y mae yr apostol yn ysgrifenu attynt ddau lythyr rhagorol; y cyntaf tu a'r flwyddyn 57, a'r ail tua dechreu'r flwyddyn 58.

Y llong yn yr hon y mordwyai Paul o Europe i Asia, oedd yn dyfod i Ephesus, lle yr arosai am ychydig amser. Paul, yn defnyddio y cyfleusdra, er gwneuthur daioni, a aeth i mewn i synagog yr Iuddewon, ac a ymresymodd â hwy yno. Ond gan ei fod ef, ar ryw achos nodedig, wedi addunedu bod yn Jerusalem erbyn gwyl y Pentecost ag oedd yn neshau, ni chaniattâi amser iddo wrando ar ddymuniad yr Iuddewon, na'i gyfeillion, i aros yno yn hwy y pryd hwnw. Gan adael Acwila a Phriscila yn Ephesus, efe a aeth ymaith gyda'r llong oedd yn mordwyo i Cæsarea, ac a addawodd, os rhyngai bodd i'r Arglwydd, i ymweled â hwy yn fuan drachefn.§ Gwedi ei ddyfod i Cæsarea, yn ngwlad Syria, efe a aeth oddi yno i fynu i Jerusalem.

Fel hyn y gorphenodd Paul ei ail daith, i draethu goludoedd gras Duw yn iachawdwriaeth dynion, yn mhlith y Cenedloedd, yr hon a barhaodd o

* Act. xviii. 17. † Act. xviii. 18. ‡ Doddridge's Expos. vol. iii. p. 177. § Act. xviii. 21.

ddeutu pedair blynedd, sef o'r flwyddyn 50, hyd tu a diwedd y flwyddyn 54, o'r cyfrifiad cyffredin: Nid yw yn hysbys i ni beth oedd yr adduned, o herwydd pa un yr aeth yr apostol i fynu i Jerusalem y pryd hwnw; ac ni byddai mynegi y cyfan a ddywedodd dynion am hyn, ond adrodd llawer iawn o ddychymygion; y mae y peth wedi ei adael yn hollol dywyll am yr amser presennol. Gwedi iddo gyflawni hyny, y mae yn dychwelyd i Antiochia, yn Syria, i ymweled â'i hen gyfeillion caredig. Ar ol aros yno am dalm o ddyddiau, cychwynodd i'w daith drachefn, a thramwyodd trwy wledydd Galatia a Phrygia, gan bregethu yr efengyl, a chadarnhau eneidiau y dysgyblion, ac a ddaeth, yn ol ei addewid, i EPHESUS, prif ddinas Asia Leiaf, yr hon a ystyrid y pryd hwnw yn lle o enwogrwydd a phoblogrwydd mawr. Yr oedd hi yn sefyll ar afon Layster; ac yn mhlith amryw o bethau ereill ag oedd yn gwneuthur y ddinas hon yn hynod, yr oedd teml nodedig Diana yn ei gwneuthur felly. Mewn perthynas i faintioli yr adeilad arderchog hwnw, gwel yr Arweiniad i mewn. Yr oedd yn cael ei ystyried yn un o saith rhyfeddodau y byd. Llosgwyd hi ddwywaith â thân. Y tro cyntaf llosgwyd hi ar yr un noswaith ag y gorfu ar Socrates, yr enwog philosophydd, yfed y cwpan marwol; a'r ail waith ar yr un noswaith ag y ganed Alexander Fawr. Dywedir iddi gael ei thanio y tro diweddaf yn fwriadol gan un Erostratus, yr hwn pan ei galwyd i gyfrif am y weithred, a addefodd mai ei unig amcan oedd, cael o hono ei goffa hyd ddiwedd amser. Ar hyn ei farnwyr nid yn unig a'i dedfrydasant ef i farwolaeth, ond hefyd a orchymynasant na byddai i neb byth mwy goffâu ei enw. Eithr er gosod y rhan ddiweddaf o'r gyfraith mewn grym ac ymarferiad dros ychydig amser, etto coffadwriaeth Erostratus a fu hynod, yn hanfodi yn llawer hwy na hi: canys ei enw a goffeir gan bob hanesydd a ysgrifenodd am yr amseroedd hyny. Adeiladwyd hi drachefn, yn ol trefniad y pen-saer clodwiw hwnw Democrates, ac a harddwyd â holl gywreinwaith Asia, yn nghyd â rhoddion gwerthfawr brenhinoedd lawer.*

Yr oedd y deml hon yn ei gogoniant pan yr ymwelodd Paul â'r ddinas. Anhawdd yw meddwl na dywedyd gymmaint oedd cyrchfa dynion o bob gwlad i Ephesus y dyddiau hyny; lluoedd lawer a ddeuent yno o bob gwlad, i addoli Diana yn ei theml ei hun. Ereill oedd yn dyfod agos o bob parth i ddysgu y gelfyddyd o swyn-gyfaredd, yr hon oedd mewn bri mawr yn y gwledydd hyny yr amser hwnw; ac Ephesus a ystyrid y prif le am y ddysgeidiaeth honno. A chynnullid yno luoedd lawer bob dydd ar achosion gwladwriaethol—canys yno y cynnaliai y rhaglaw ei lŷs taleithiol—heblaw yr aneirif luoedd a ddeuent yno mewn achosion masnachol, i'r hyn yr oedd y ddinas yn hynod gyfleus, gan ei fod yn borthladd dymunol, yn sefyll rhwng Asia ac Europe. Eithr yr hyn sydd yn gwneuthur Ephesus yn wrthddrych pob hanesydd crefyddol, ydyw ei bod fel yn orseddfaingc Satan, yn mha le yr oedd efe yn teyrnasu mewn rhwysg-fawredd anghyffredin, ac yn meddu ar lywodraeth anarferol ar feddyliau ei phreswylwyr, trwy eilunaddoliaeth a phob twyll, hocced, a drygioni.†

Nid annhebygol mai hyn a ddygodd sylw neillduol Paul ar y lle, pan yn myned heibio iddi y tro o'r blaen, nes ei ddwyn i benderfynu dyfod yn ol yno mor fuan ag y medrai, fel y cai ymosod ar deyrnas y tywyllwch yn mawredd ei nerth. Gwedi ei ddyfod yno, gyda Gaius, ac Aristarchus, dau

* Jones's History of the Christian Church, Vol. 1. p. 137. † Ibid.

o'i gyfeillion o Macedonia, a Timotheus, Erastus, gorchwyliwr dinas Corinth, yn nghyd â Titus, efe a arosodd yno am ddwy flynedd, hyd nes y darfu iddo bregethu yr efengyl i bawb oedd yn y ddinas a'i chylchoedd. Cyfarfu yr apostol yma â deuddeg o ddynion a broffesent eu hunain yn ddysgyblion i Grist, ond heb wybod dim mwy am dano nag a glywasent ac a ddysgasent trwy weinidogaeth Ioan Fedyddiwr yn unig. Ymddengys fod y rhai hyn yn Judea pan yr oedd Ioan yn cyflawni ei weinidogaeth; a chwedi iddynt ei glywed, a chredu ei dystiolaeth am y Messiah, ag oedd ar ymddangos yn gyhoeddus i'r byd, hwy a fedyddiwyd ganddo i'r ffydd, yr hon oedd ar fyrder i'w dadguddio, i'r hon y bedyddiai Ioan bawb a gredai ei ymadrodd ef am Grist i ddyfod. Gwedi hyn y mae yn debyg iddynt ymdeithio yn mysg y Cenedloedd, ac nad oeddynt mewn cyfleusdra i glywed am fywyd, marwolaeth, ac adgyfodiad yr Arglwydd Iesu, a thywalltiad yr Ysbryd Glan, ar ddydd y Pentecost. Fel hyn, yr oeddynt yn fychan eu gwybodaeth, eithr yn llawn cariad at Iesu Grist, a disgwyliad am dano, yn ol tystiolaeth Ioan. Tebyg iawn i'r rhai hyn oedd Apolos, yr ymadroddwr hyawdl a gwresog, a ddaeth at Acwila a Phriscila i Ephesus, ac a ddysgwyd ganddynt yn fanylach yn nhrefn iachawdwriaeth, cyn dyfodiad Paul yno, yr hwn oedd wedi myned yn bresennol i Corinth. Y mae Paul yntau yn cymmeryd y dysgyblion hyn atto, ac yn eu dysgu yn nghylch nattur a dyben goruchwyliaeth Ioan, a'r cyssondeb oedd rhwng hon a'r un efengylaidd; a hwy a dderbyniasant ei dystiolaeth ef am ymddangosiad Iesu Grist, ac efe a'u bedyddiodd hwy yn enw yr Arglwydd Iesu.* Gwedi hyn, dyry yr apostol ei ddwylaw arnynt, ac y maent yn derbyn yr Ysbryd Glan, yn ei ddoniau gwyrthiol.

Parhaodd Paul fel yma i fyned i synagog yr Iuddewon am dri mis, gan ymdrechu yn egniol, trwy bob rhesymau, i'w dwyn i weled a chredu mai yr hwn a bregethai efe oedd y Gwaredwr anfonedig gan Dduw. Ond wrth weled llawer o honynt yn ymgaledu cymmaint, nes cablu yr hyn a ddywedai, a chynhyrfu y lluaws yn ei erbyn, efe a ymneillduodd gyda'i gyfeillion crediniol oddi wrth yr anghredwyr, ac a aethant o hyny allan i gynnal eu cyfarfodydd i ysgoldy un Tyranus, yr hwn, mae yn debyg, oedd Iuddew dychweledig. Yr oedd y fath nerthoedd rhyfedd yn gydfynedol â gweinidogaeth yr apostol, fel yr oedd y cleifion yn cael eu hiachâu. Cymmaint oedd y gallu a amlygid, fel os dygent ryw ddilledyn oddi wrth ei gorph at y cleifion, a'r rhai a flinid gan ysbrydion drwg, hwy a iacheid, ac ymadawai yr ysbrydion aflan â hwynt. Fel hyn, ymdaenodd y gair am dano trwy holl Asia, nes dyfod o'r Groegiaid a'r Iuddewon oll, a drigent yn y gwledydd hyny, i glywed gair Duw; ac nid oes le i ammau nad dyma yr amser y planwyd amryw o'r eglwysi lluosog a glywn fod wedi hyn yn y parthau yma o Asia Leiaf. Er nad yw yn eglur pa un a ddarfu i Paul, neu rai o'i gyfeillion, dramwyo y pryd hwnw i bregethu yr efengyl yn ngwahanol ddinasoedd Asia, neu ynte i drigolion y gwahanol fanau ddyfod i Ephesus, a'i glywed yn pregethu, a chael eu dwyn i roddi crêd i'w ymadroddion; etto nid yw yn annhebygol fod pob un o'r ddau wedi cymmeryd lle.

* Act. xix. Amryw o wyr dysgedig a haerant, na ddarfu i Paul fedyddio y rhai hyn, ond ymfoddloni yn yr hyn oedd wedi ei wneud yn barod, gan ddywedyd bod Ioan yn bedyddio mewn effaith yn enw Iesu Grist, er nad mewn geiriau. Eithr ymddengys hyn yn lled anghyssson â thystiolaeth yr hanesydd sanctaidd yn y lle hwn; ac y mae yn dra eglur fod hanfodol wahaniaeth rhwng bedydd Ioan a'r bedydd Cristionogol. Mae yn fwy na thebyg, fod yn mhlith yr amryw filoedd o Iuddewon a unasant â'r eglwysi yn nyddiau yr apostolion, niferi lluosog o'r rhai a fedyddiwyd gan Ioan; ond mae yn eglur eu bod oll yn ddiwahaniaeth yn cael eu derbyn i'r eglwysi Cristionogol trwy fedydd drachefn.—*Doddridge on the place.*

Pan oedd y fath nerthoedd yn cymmeryd lle trwy weinidogaeth yr apostol, rhyw Iuddewon crwydraidd, y rhai a ddysgasent swyn-gyfaredd, wrth weled y modd yr oedd gwyrthiau yn cael eu cyflawni gan Paul, yn enw Iesu Grist, a anturiasant gymmeryd arnynt enwi enw y Crist yr oedd Paul yn ei bregethu, uwch ben rhyw ddyn a feddiennid gan ysbrydion drwg, er ceisio dynwared yr apostol yn bwrw allan ysbrydion aflan, a thrwy hyny chwanegu eu parch a'u cyfoeth. Pan oedd saith o feibion Scefa yr archoffeiriad yn cymmeryd arnynt i wneuthur hyny, rhyw ddyn a feddiennid gan ysbrydion aflan a ruthrodd arnynt, ac a'u gorchfygodd; diosgodd eu dillad, ac a'u barchollodd yn anafus, fel mai braidd y diangasant allan o'r tŷ â'u bywydau ganddynt yn ysglyfaeth. Mae yn anhawdd gwybod paham y rhoddodd Satan y fath dystiolaeth am Grist a'i apostol, a welwn yma iddo roddi: a ydoedd efe yn gorfod gwneuthur felly trwy ryw effeithiad dwyfol? neu ynte a wnaeth efe hyn i'r dyben i geisio dwyn gwarth ar Grist a'i efengyl, gan amcanu trwy hyny i ddwyn y bobl i feddwl fod ganddo ef wybodaeth neillduol am Iesu Grist, ac nad oedd fawr o wahaniaeth rhyngddynt, a'u bod mewn cynghrair â'u gilydd. Eithr y mae yn eglur i'r Arglwydd lywodraethu yr amgylchiad er mawr lwyddiant i'w deyrnas, gogoniant i'w enw, a dinystr i achos Satan yn Ephesus: canys gwnaed yr hyn a gymmerodd le yn hysbys trwy yr holl ddinas, ac a effeithiodd yn rymus iawn ar feddyliau y bobl yn gyffredinol, fel yr ofnasant yn ddirfawr; ac y sylwasant yn fwy manylaidd ar yr hyn a lefarid wrthynt gan Paul. Mewn canlyniad gwelir fod llawer o'r rhai a ddilynent ddewiniaeth, yn cael eu dwyn i ymostwng i'r athrawiaeth a draddodai yr apostol, ac a ddaethant i gyffesu eu twyll a'u drygioni wrth ddilyn y cyfryw rodreswaith. A chan gymmaint yr effaith a gafodd yr ystyriaeth o bechadurusrwydd y cyfryw arferiadau llygredig ar eu meddyliau, a rhag iddynt hwy na neb ereill gael eu temtio i'r fath beth gan ddim ag oedd ganddynt, hwy a losgasant eu llyfrau, a fuasai yn wasanaethgar ganddynt i hyny, yn y tân—y rhai, gan amled oeddynt, oedd werth deng mil a deugain o ddarnau arian; yr hyn, medd amryw, oedd werth tua saith mil a phum cant o'n harian ni; eithr, medd ereill, un mil wyth gant a thriugain a phump o bunnau.* Pa un bynag o'r symiau hyn sydd gywir, y mae y lleiaf yn ddigon i egluro cyflawn fuddugoliaeth yr efengyl ar nwydau mwyaf llygredig dynion, a grymusder effeithiau gwir grefydd.

Yma y gwelir crefydd nid yn unig yn dwyn ei deiliaid i adael yr hyn oedd ynddo ei hun yn eglur ddrwg, ond hefyd yr hyn oedd yn achlysur i ddrwg, a'r hyn oedd yn debyg o fod yn dramgwydd ac yn brofedigaeth i ereill, er eu bod yn bethau drudfawr iawn. Yn hyn ceir eglurhad ymarferol ar yr hyn a ddywed ein Harglwydd am dorri ymaith y fraich ddehau, &c. Onid oes genym le i ammau geirwiredd crefydd llawer yn ein gwlad ni y dyddiau hyn, pa rai nad ydynt yn foddlon i aberthu dim er mwyn achos Iesu Grist?

Gwedi i'r apostol aros i bregethu tua dwy flynedd yn ysgoldy Tyranus—yn llafurio i dynnu teyrnas Satan i lawr, a chwalu y tywyllwch a orchuddiai y bobloedd, trwy bregethiaid o Grist croeshoeliedig, a'r Arglwydd yn cydweithio â'i ymdrechiadau, fel y planwyd yn y ddinas honno eglwys flodeuog a threfnus—meddyliodd am ymadael, a myned i ymweled drachefn â'r eglwysi yn Achaia a Macedonia. Bwriadodd hefyd fyned ar ol hyny i fynu i Jerusalem, gan ddwyn gydag ef gasgl i'r Iuddewon Crist-

* Doddridge on the place.

ionogaldd ag oedd mewn tlodi a thrallodau mawrion yn Judea, o achos eu brodyr anghrediniol, a'r rhyfeloedd cartrefol oedd wedi dechreu; a chwedi hyny, i helaethu terfynau ei weinidogaeth mor bell â Rhufain. I'r dybenion hyny, efe a anfonodd ymaith amryw o'i gyfeillion, fel cennadau o flaen ei wyneb, i barottoi casgliadau i'r saint, trwy yr holl eglwysi, yn mhlith y Cenhedloedd; eithr efe ei hun a arosodd ryw ychydig amser yn hwy yn Ephesus.

Tra yr oedd efe yn aros yno, cododd tymhestl ddirfawr o erledigaeth creulawn yn ei erbyn ef a'i weinidogaeth yn y ddinas, yr hon a dorodd allan yn ddisymmwth yn ruthr mor ofnadwy â phe buasai uffern yn ymagor ar unwaith, a holl ellyllon y pydew diwaelod yn dyfod allan, yn gynnyrfiedig gan y llid a'r creulondeb mwyaf. Demetrius, gof arian, yr hwn a weithiai fath o luniau arian, bychain, o'r deml a'r dduwies fawr Diana, er gwasanaeth teuluoedd a phersonau unigol, yr hyn oedd yn dwyn elw mawr iddo ei hun a'i gydgrefftwyr, a ddefnyddiwyd i godi y terfysg. Hwn, wedi galw yn nghyd ei gydweithwyr, a ddangosodd iddynt y fath golled oeddynt hwy yn debyg o gael, trwy waith Paul a'i gyfeillion yn myned yn mlaen yn y ffordd honno; a rhag nad oedd hyn yn ddigon i ennyn y fflam, efe a areithiodd yn hyawdl i'r bobl am yr anmharch a'r dirmyg oedd athrawiaeth Paul a'i gyfeillion yn daflu ar y dduwies fawr, y deml, a'i holl wasanaeth, trwy hyny. Llwyddodd i gynneu'r tân yn goelcerth, a llanwyd y ddinas oll â therfysg. Gwaeddodd y bobl am hir amser, mai 'Mawr oedd Diana'r Ephesiaid.' Llanwyd hwy â'r fath fyrbwylldra a digofaint, ac â'r fath eiddigedd tanllyd dros eu crefydd, fel y rhuthrasant yn unfryd i'r chwareudy, lle yr arferent gyflawni amryw fath o ymarferiadau eilunaddolgar, er anrhydedd i'w gau-dduwiau. Yn eu mynediad, cyfarfuasant â Gaius ac Aristarchus, dau gyfaill i Paul, y rhai a ddygasant gyda hwy, gan feddwl yn ddiau eu bwrw i'r bwystfilod gwylltion, a gedwid mewn rhan o'r chwareudy.

Gellir gweled yma pa mor rymus yr effeithia ariangarwch dan fantell o sêl grefyddol. Nid oedd dim yn blino Demetrius yn fwy nag ofni colli ei elw bydol: ond rhag na effeithiai hyny i gynhyrfu erledigaeth yn erbyn Paul, efe a ymwisgodd â rhith o barch a sêl dros grefydd, ac yna cyrhaeddodd ei amcan. Da fuasai i'r byd pe na buasai neb ar ol Demetrius wedi bod felly.

Mynai Paul fyned i blith y gynnulleidfa derfysglyd, ag oedd yn awr fel rhai mewn eithaf gwallgofrwydd, heb wybod pa beth yr oeddynt yn ei wneuthur nac yn ei ddywedyd, naill ai er ceisio gwaredu ei gyfeillion, y rhai oeddynt yn yr enbydrwydd mwyaf, neu yn tybio y gallai argyhoeddi y bobl o'u hynfydrwydd, a'u tawelu; eithr ei gyfeillion a blaenoriaid Asia, a ewyllysient yn dda iddo, y rhai a ddaethent i fynu i'r ŵyl, a'i hattaliasant. Ysgolhaig y ddinas, neu brif ysgrifenydd y rhaglaw, yr hwn oedd yn fwy synwyrol na'r cyffredin, trwy ei araith odidog ac addas, a ostegodd y cythrwfl, fel nad ydym yn clywed ddarfod i un niweid gael ei wneuthur. Cyfeiria yr apostol mewn dau le yn ei lythyr at y Corinthiaid at ryw erledigaeth hynod, a thriniaeth galed iawn a ddyoddefasai efe a'i gyfeillion yn Asia, yn enwedig yn Ephesus: eithr pa un ai y pryd hwn, neu ryw amser arall, y bu hyny, sydd anhysbys.*

Gwedi gostegu y cynnwrf uchod, Paul a alwodd ei gyfeillion ag oedd yn

* 2 Cor. i. 8, 9. 1 Cor. xv. 32.

Ephesus yn nghyd—yn mhlith pa rai gellir meddwl fod amryw o brif swyddogion a llywyddion taleithiau Asia, pa rai oeddynt yn y ddinas y pryd hwnw—ac a ymadawodd â hwy yn y modd carediccaf, gan fyned i Macedonia. Timotheus oedd newydd ddychwelyd at Paul i Ephesus yn awr o Macedonia, ac a arosodd yno pan yr aeth Paul ymaith, er cadarnhau eneidiau y dysgyblion, a gosod yr eglwys yn Ephesus, a'r eglwysi ereill yn Asia, mewn iawn drefn: o herwydd hyn geilw rhai ef esgob Ephesus—ar yr un sail y gallesid ei alw ef yn esgob Thessalonica, &c. Ond y gwirionedd yw, na eilw yr ysgrythyr ef yn esgob unrhyw le, ac nad ellir yn briodol ei ystyried ef yn gyfryw swyddwr, eithr efengylwr.*

Yr oedd yr apostol, fel y dywedwyd, yn dal i fynu gymdeithas â'r holl eglwysi, naill ai trwy gennadau neu lythyrau. Pan oedd efe y pryd hwnw yn aros yn Ephesus, dygwyd gair iddo am annhrefn yr eglwys oedd yn Corinth, pryd y meddylir iddo ysgrifenu ei lythyr cyntaf at yr eglwys honno, cyn iddo ymadael âg Asia.† Yn y llythyr rhagorol hwn, ymdrecha yr apostol wneuthur i fynu y rhwyg oedd yn yr eglwys, trwy ddangos afresymoldeb ei hymraniad; cais ei hadferyd oddi wrth ei gŵyriad mewn athrawiaeth, yn enwedig o barth i adgyfodiad y meirw, a'r gwall mawr oedd yn eu plith mewn dysgyblaeth eglwysig. Gyrwyd y llythyr hwn attynt gyda Titus.

Gwedi tramwyo o'r apostol trwy amryw barthau o Macedonia, efe a ddaeth i dir Groeg, ac a arosodd yno dri mis. Oddi yno yr oedd yn bwriadu hwylio drosodd i wlad Syria; eithr yn gwybod am ryw gynllwyn yr oedd yr Iuddewon yn amcanu iddo ar y ffordd—sef, yn ddiau, fod yn eu bryd i'w ladd, mewn rhyw le cyfleus—newidiodd ei feddwl, a dychwelodd yn ei ol trwy Macedonia, er myned i wlad Syria y ffordd honno.‡ Yr oedd yn ymdeithio gyda Paul amryw o'i gyfeillion, o wahanol barthau; rhai yn dyfod atto fel cennadau y gwahanol eglwysi, gan ddwyn gyda hwy eu casgliadau i'r saint tlodion yn Judea: ereill, hwyrach, yn dyfod atto er mwyn addysg; a phawb o honynt am aros gydag ef cyhyd ag y gallent, er mwyn ei gyfeillach nefol, a'i addysgiadau bywiog a goleu. Pan oedd Paul ar y daith hon y darfu iddo ysgrifenu ei lythyr rhagorol, y cyntaf at Timotheus, yr hwn a adawsai efe yn Asia Leiaf, er iawn drefnu yr eglwysi ieuaingc oedd yno. Yn mha lythyr dengys yr apostol ei hun fel tad mynwesol, yn llawn o ofal am Timotheus a'r eglwysi, a chyfarwydda ef pa fodd i ymddwyn yn addas yn nhŷ Dduw, yn enwedig gyda golwg ar neillduad henuriaid a diaconiaid—yr unig ddwy swydd, meddylir, oedd yr apostol yn olygu i fod yn arosol yn yr eglwysi.

Tybir mai pan ar y daith hon, wrth fyned i Macedonia, y daeth Paul i Troas, lle yr agorodd yr Arglwydd iddo ddrws mawr o ddefnyddioldeb a llwyddiant anarferol. Eithr gan gymmaint ei ofal dros eglwysi mewn gwledydd ereill, y rhai a drallodid gan erledigaethau, cyfeiliornadau, ac ymraniadau, heb orphwysdra iddo, na hir arosfa yn un lle, yn enwedig yr amser hwnw,—methai aros yn Troas, am na chyfarfuasai â Titus, yn ol ei amcan, gyda yr hwn y dysgwyliai glywed rhywbeth am helynt y Corinthiaid. Ac efe yn myned trwy Macedonia gyda brys tua Corinth, i weled helynt yr eglwys, cyfarfu â Titus ar y ffordd, yr hwn a ddug newyddion tra chyssurus iddo yn nghylch y Corinthiaid. Dangosodd i'r apostol y modd yr

* Dr. Dwight's Theology, vol. v. p. 188. † 1 Cor. xvi. 19. ‡ Act. xx. 3, 4.

oedd ei lythyr cyntaf wedi effeithio arnynt, i'w dwyn i ymostyngiad edifeiriol, i ddiwygio oddi wrth eu beiau, ac i ymddwyn yn haelionus tu ag at y saint tlodion yn Judea. Yna, yn lle myned yn mlaen, yn ol ei fwriad, y mae yn ysgrifenu ei ail lythyr attynt, ac yn ei anfon ef gyda Titus, yr hwn a ddychwel yno drachefn. Yn mhen ychydig amser wedi hyn, y mae efe yn myned yno ei hun, ac yn ymadael â'r parthau hyny—er na rydd Luc i ni hanes am y daith hon, mwy nag amryw deithiau ereill, rhagor na dywedyd ei fod yn nhir Groeg. Ond mae yn dra amlwg mai o Corinth yr ysgrifenodd Paul ei lythyr godidog at y Rhufeiniaid, ac nid oes le i ammau nad pan ar y daith hon ei hysgrifenodd; o blegid mae yn eglur ei fod wedi ei ysgrifenu cyn iddo ef fyned yno ei hun, a phan ar ei daith tua Jerusalem â chasgl y saint ganddo, Rhuf. xv. 25—27, a phryd yr oedd Timotheus a Sopater o Berea gydag ef. Oddi wrth y pethau hyn, y mae yn lled eglur fod yr apostol wedi bod, tra ar y daith hon, yn Corinth, ac iddo ysgrifenu oddi yno ei lythyr at y Rhufeiniaid, tua diwedd y fl. 58.

Gwedi i Paul gyflawni ei weinidogaeth yn ol yr oll ag oedd efe yn fwriadu y pryd hwnw yn y parthau hyny, efe a ddychwelodd drachefn trwy Macedonia, ac a ddaeth i Troas. Trwy hyn, câfodd eglwysi Macedonia, neu rai o honynt, drydydd ymweliad o eiddo yr apostol. Dyma yr amser, yn ol iaith yr hanesydd sanctaidd, y darfu iddo ef, yn mhen amryw flynyddau, ail-ymuno â chymdeithas yr apostol; ac nid yw yn ymadael âg ef mwy hyd derfyn ei hanes, os nid hyd ddydd ei farwolaeth. Arosodd Paul saith diwrnod y pryd hwn yn Troas; ac ar y seithfed dydd wedi ei ddyfod yno, y mae yn pregethu ac yn gweini swpper yr Arglwydd i'r holl eglwys.* Parhaodd Paul i ymresymu yn dra maith, hyd hanner nos, pan syrthiodd Eutychus trwy ffenestr, yn ei gwsg, i lawr o'r llofft, a'i gyfodi i fynu yn farw, eithr a adferwyd drachefn i fywyd gan yr apostol. Tranoeth ymadawodd Paul a'i gyfeillion â Troas, ac a fordwyasant tua Syria, heb fyned i Ephesus, fel y bwriadasant unwaith, gan eu bod yn brysio i allu bod yn Jerusalem, os oedd modd iddynt, erbyn gwyl y Pentecost; eithr Paul a yrodd am henuriaid eglwys Ephesus i ddyfod i'w gyfarfod ef i Miletus. Gwedi eu dyfod, y mae efe yn eu hannerch yn y modd mwyaf synwyrol, serchus, sobr, a duwiol, gan ddangos iddynt yr ymddiried mawr ag oedd Duw wedi ei roddi iddynt, a'r perygl mawr oedd yr eglwys ynddo, sef y perygl o gael ei difa gan gyfeiliornwyr a godai ynddi ar ol ei ymadawiad ef; o herwydd hyny y mae yn eu hannog hwy i fwy o wyliadwriaeth, ffyddlondeb, a diwydrwydd yn eu gwaith.

Mae yr apostol yma, yn ei annerchiad, yn dangos mai yr un personau a swyddwyr oedd efe yn olygu wrth henuriaid, bugeiliaid, a golygwyr neu esgobion yr eglwys hon; ac nad oedd efe yn golygu wrth y gwahanol enwau hyn, wahanol bersonau na swyddogion, mewn gwahanol swyddau; ond mai gwahanol enwau ar yr un personau a swyddogion, sydd yn eglur mewn golwg ganddo. Gwedi iddo orphen ei annerchiad iddynt, y mae efe yn ymadael â'i gyfeillion Ephesiaidd, pan y maent yn ei hebrwng ef i'r llong, gan weddio gyda'u gilydd, mewn dagrau lawer, a hyny yn benaf am ddywedyd o hono, wrth bob tebygolrwydd, na chaent weled ei wyneb ef mwyach.†

Yn ymadawiad Paul â'i gyfeillion hyn, a chwedi hyny y rhai yn Tyrus,‡

* Act. xx. 7—17. † Act. xx. 23, 33. ‡ Act. xxi. 5—6.

gellir gweled y teimladau anwylaf, y serchiadau gwresoccaf, a'r cariad mwyaf nefol, yn dysgleirio yn y modd hyfrydaf, yn nghyd â mawr ragoroldeb yr efengyl yn medru creu y fath dymherau nefolaidd.

Gwedi iddynt forio heibio i lawer o ynysoedd yn Môr y Canoldir, hwy a diriasant yn Tyrus, porthladd hynod mewn hanesyddiaeth, a berthynai i'r Phœniciaid, lle yr oedd y llong i ddadlwytho. Yma yr oedd cynnulleidfa o ddysgyblion, pa rai, trwy yr Ysbryd Glan, a amlygasant i Paul y perygl mawr oedd iddo fyned i fynu i Jerusalem: canys yr Iuddewon oeddynt yn mhob man, trwy Judea a Jerusalem, wedi eu llenwi â'r fath ddigofaint a chynddaredd yn erbyn yr apostol, fel yr oeddynt wedi penderfynu, os gallent, trwy unrhyw fodd, i'w osod i farwolaeth. Cynhyrfwyd hwy i'r fath ysbryd, trwy glywed ei fod yn mhob lle yn dysgu Iuddewon a Chenhedloedd i ymwrthod â chyfraith Moses, yr hyn nid oedd wir, gyda golwg ar yr Iuddewon; canys gadawai efe hwy at eu rhyddid yn mhob lle. Eithr dangosai mai pethau dibwys a diles oedd holl ddefodau seremoniol Moses, pan wedi cael eu cyflawni yn Nghrist a'r oruchwyliaeth efengylaidd, ac na ddylasai neb wneuthur unrhyw gyfreithiau i osod un math o ddefodau anysgrythyrol ar warrau neb Cristionogion. Er y cymmerent hwy y pethau hyn yn esgus, etto eu cenfigen a'u casineb tu ag atto yn benaf oedd wedi codi oddi ar ei lwyddiant yn dwyn Iuddewon a Chenhedloedd i ufudd-dod i Iesu Grist. Eithr Paul ni chymmerai ei berswadio yn un modd i beidio myned yn mlaen ar ei daith; gan hyny, yn mhen saith diwrnod, y mae yn ymadael â'r brodyr oedd yn y lle hwnw, gyda llawer o garedigrwydd nefol, gan hwylio i Ptolemais, dinas yn nghwrr gwlad Canaan; ac oddi yno hwy a aethant ar draed i Cæsarea. Dyma'r lle yr oedd Cornelius, blaenfirwyth y Cenhedloedd, yn byw gynt; ac yma yr oedd Philip, un o'r saith diacon cyntaf a sefydlwyd yn yr eglwys, yn cartrefu. Yr oedd i Philip bedair merch yn meddu ar ysbryd prophwydoliaethol, gan ragfynegi pethau i ddyfod. Gwedi dyfod Paul i mewn attynt i lettya, hwy a ddangosasant iddo y perygl o fyned i fynu i Jerusalem.

Daeth gwr arall o brophwyd o'r enw Agabus i waered o Jerusalem, yr hwn a arwyddodd i Paul, trwy gymmeryd ei rwymo â'i wregys ef, y rhwymai yr Iuddewon yntau yn y modd hwnw, os elai i fynu i Jerusalem, ac y traddodent ef i ddwylaw y Cenhedloedd. Y brodyr oll, wrth glywed hyny, a ddeisyfiasant, gyda dagrau lawer, ar Paul, os oedd yn caru ei ryddid a'i dawelwch, i ymattal rhag myned. Eithr efe yn llawn o fawredigrwydd sanctaidd, a ddymunodd arnynt i beidio chwanegu ei flinderau â'u dagrau; gan ddangos iddynt ei fod yn barod, nid yn unig i gymmeryd ei rwymo, fel yr arwyddodd Agabus, ond i farw yn Jerusalem, dros enw yr Arglwydd Iesu. Wrth weled hyn, y brodyr a beidiasant.

Gwedi talm o ddyddiau, Paul a'i gyfeillion a aethant i fynu i'r ddinas, ac a aethant i mewn at Iago yr apostol—yr unig un o'r apostolion oedd yn aros y pryd hwnw yn y ddinas. Paul a gyfarchodd well i'r eglwys oedd yno, gan gyflwyno iddynt yr anrheg a ddygasai oddi wrth y brodyr yn mhlith y Cenhedloedd i'r brodyr yn Judea. Derbyniasant ef a'i rôdd yn garedig. Yna dengys iddynt y modd rhyfedd y llwyddodd Duw ei weinidogaeth yn ei deithiau yn mhlith y Cenhedloedd, er eu dychweliad at yr Arglwydd, yr hyn a roddodd achlysur newydd i lawenhau.*

* Act. xxi. 15—20.

Fel hyn y gorphenodd Paul ei drydedd daith trwy wahanol wledydd y Cenhedloedd, yr hon a barhaodd am o gylch pedair blynedd, sef o'r flwyddyn 54 hyd ddiwedd 58, neu ddechreu'r flwyddyn 59. Iago, a'r brodyr yn Jerusalem, a ddechreuasant ddangos i Paul fel yr oedd yr Iuddewon oll yn dwyn mawr sêl dros yr enwaediad a defodau Moses yn barhaus—eu bod wedi cael achwyniad arno ef, o'i fod yn annog pawb, yn mhob lle, i'w gadael a'u dirmygu. Maent yn ei annog, er gwrthbrofi y cyfryw gyhuddiad, i foddlonrwydd y Cristionogion gweiniaid yn Jerusalem, i gydymffurfio â chyfraith Moses yn y cyflawniad o'r defodau perthynol i adduned y Nazaread, gyda phedwar o gyfeillion ereill. A hyn y mae yr apostol yn cyduno, gan ymostwng i fyned mewn modd cyhoeddus trwy y defodau perthynol i hyny, am saith niwrnod.

Wrth gydmaru ymddygiad Paul y tro hwn, o barth i ddefodau a seremoniau, â'r hyn a ysgrifenodd yn ei lythyrau, a'i ymddygiad cyffredin, anhawdd yw peidio meddwl, ar y cyntaf, fod anghyssondeb yn yr apostol; eithr ychydig sylwadau manylach a symmud ymaith bob ymddangosiad o anghyssondeb. Dichon y gwna y sylwadau canlynol gynnorthwyo i hyn yma. Yn 1. Nid oedd yr apostol, yn ddiau, yn edrych ar y defodau a'r seremoniau, nad oedd Crist yn ofyn yn y Testament Newydd, o un pwys pa bynag, ynddynt eu hunain. Gallesid eu harfer, neu beidio, yn ol fel y byddai amgylchiadau a rhyddid meddwl yr ymarferydd. Canys gwelwn ef yma, a phrydiau ereill, yn eu harfer; ac ar rai amgylchiadau yn beio yn fawr am eu harferyd. Yn 2. Nid yr arferiad o'r pethau hyn, ynddynt eu hunain, ynte, oedd yr apostol yn feio arno; eithr y gosodiad o honynt trwy unrhyw awdurdod (heblaw awdurdod Duw) i fod yn ammod o gymundeb eglwysig, a chymmeradwyaeth enaid gyda Duw—dau beth ag y mae yr apostol yn edrych arnynt yn cydsefyll ar yr un tir.

Mae yn amlwg, tebygir, mai nid y weithred o osod ein cymmeradwyaeth gyda Duw i orphwys ar y defodau, oedd yr hyn a ystyriai yr apostol yn benaf yn bechadurus yn yr athrawon Iuddewig, fel y dywed yr hanesydd efengylaidd Milner;* eithr eu gwaith yn gosod y defodau hyny yn y fath fodd, ag nad oedd lle iddynt beidio a bod yn ddefnydd ein cymmeradwyaeth. Canys pa beth bynag a osodir trwy awdurdod yn ammod o unrhyw fraint i ddyn, y mae yn rhaid fod y peth hwnw yn ddefnydd trwy ba un y mae yn cael y cyfryw fraint. Felly, o ganlyniad, pan y gosodir defodau anysgrythyrol yn ammod o dderbyniad i eglwys Dduw, y mae yn rhaid mai y cyfryw ddefodau, a'r ymarferiad o honynt, yn unig, sydd yn rhoddi hawl i freintiau yr eglwys; ac mor bell y dichon i'r gosodydd effeithio, fel na allai neb gael cymmeradwyaeth gyda Duw, ond trwy y cyfryw ddefodau gosodedig.

Y mae yn eglur wrth ddarllain llythyrau Paul, ei fod yn edrych ar y cyfryw osodiad o ddefodau, er rhwymo cydwybodau dynion, lle mae Crist wedi eu gadael yn rhyddion, yn draws-lywodraeth, yn diswyddo Crist, fel pen a brenin ei eglwys, ac yn gosod iau ar warrau, heb angen ei dwyn—hyn a wrthsafai yr apostol yn egniol, bob amser.

Pan arferai yr apostol neb o seremoniau a defodau Moses, yr oedd yn gwneuthur hyny er mwyn heddwch, ac oddi ar gydymdeimlad â Christionogion gweiniaid o'r Iuddewon, pa rai oedd yn methu gweled pa fodd yr oedd defodau a osodid, a chyfreithiau a wnaed, gan Dduw, i gael eu dileu.

* Milner's Church Hist. vol. i. pp. 31, 32.

Dangosai yr apostol yn ei holl athrawiaeth a'i ymddygiadau, fod cariad brawdol, cydymdeimlad â'u gilydd, a gochelgarwch i roddi tramgwydd y naill i'r llall yn annhraethol fwy eu pwys yn ngolwg Duw, ac yn llawer mwy cysson â gwir Gristionogaeth, nag oedd cyflawniad o unrhyw ddefodau a seremoniau.

Pan oedd yr apostol yn myned trwy y defodau puredigaethol, cyn i'r saith niwrnod ddyfod i ben, yr Iuddewon o Asia Leiaf, ag oedd yn Jerusalem ar yr ŵyl, a'i gwelsant ef yn y deml, a chynhyrfiasant yr holl bobl yn ei erbyn yn ddiattreg Daliasant ef ac a'i bwriasant allan o'r deml, a chauasant y drysau, gan fwriadu i'w osod i farwolaeth heb wneud unrhyw fath o ymholiad ychwanegol. Ond pan yr oedd efe ar gael ei wneuthur yn ddrylliau gan y bobl, Claudius Lysias, y pen-cadpen Rhufeinig, yr hwn oedd gyda'r milwyr yn y twr, gerllaw y deml, wrth weled y cynnwrf, a'r bobl yn ymderfysgu, a Paul yn cael ei guro ganddynt, a aeth gyda chanwriad a nifer o filwyr i'w waredu ef. Gwedi iddynt ei achub o law y bobl, hwy a'i rhwymasant â dwy gadwyn, nes iddynt gael hysbysrwydd pwy ydoedd, a pha beth a wnaethai, a pha beth oedd yr achos o'r holl gythrwfl hwn; canys meddyliodd y pen-cadpen mai rhyw Iuddew crwydraidd oedd, yr hwn yn ddiweddar a barasai derfysg mawr yn y ddinas.*

Gwedi hyn, y mae yr hanesydd sanctaidd yn rhoddi hysbysrwydd am ymddiffyniad yr apostol, ymddygiadau dyngarol y pen-cadpen atto, yr helyntoedd a fu arno yn Jerusalem—cynllwyniad melldigedig yr Iuddewon yn erbyn ei fywyd—a'r modd diogel y gwaredwyd ef, ac y dygwyd ef i waered o Jerusalem i Cæsarea, gan tua phum cant o wyr arfog, i'w amddiffyn ar ei daith—a'i garchariad yno am ddwy flynedd. Dengys hefyd y modd diflino yr oedd yr Iuddewon yn ei erbyn ef, ac yn ceisio dyfetha ei fywyd, pan y mae yr holl gynghor yn myned i waered i ymddangos yn ei erbyn ger bron y rhaglaw yn Cæsarea, yr hyn oedd tua phedwar ugain milltir o ffordd, a chanddynt ddadleuwyr hywadl i bledio eu hachos, ac i wrthsefyll Paul. A phan nad allent ddwyn yn ei erbyn ddim ag oedd yn wyneb cyfreithiau Rhufeinaidd yn haeddu angau na charchar, ceisiasant berswadio Ffelix, y rhaglaw, adael iddo gael ei ddwyn i fynu i Jerusalem, i'w brofi wrth eu cyfreithiau eglwysig hwy—tra'r oeddynt wedi gosod cynllwyniad penderfynol i'w osod ef i farwolaeth ar y ffordd. Hyn a barodd i Paul godi ei achos i lŷs uwch, trwy *appelio* at orsedd-faingc Cæsar ei hun, yr hyn oedd braint pob dinasydd Rhufeinig. Ariangarwch Ffelix oedd yr achos na buasai Paul yn cael ei ollwng yn rhydd ar ol ei holiad cyntaf; canys gwyddai y rhaglaw yn dda na feddai yr Iuddewon ddim i'w osod yn ei erbyn ag oedd yn dyfod o fewn cylch ei swydd ef i farnu am dano; eithr disgwyl yr oedd y rhoddai Paul, neu rai o'i gyfeillion, iddo swm mawr o arian am ei ollwng yn rhydd. Ond pe gellid edrych ar un carchariad yn urddasol, gallem ystyried carchariad Paul y pryd hwnw felly; canys yr oedd yn y carchar penaf perthynol i'r llywodraeth *(state prison)*, o blegid achos da, yn meddu ar fynwes dawel, yn cael pob rhyddid i gyfeillachu â'i gyfeillion a ymwelai âg ef. Cafodd gyfleusdra, trwy hyn, i draddodi areithiau efengylaidd i ddau raglaw, a cher bron y brenin Agrippa, y rhai, tebygol, na chlywsent y pethau hyn, oni buasai yr amgylchiad presennol. A diau i'w areithiau doeth, bywiog, a hyawdlaidd, wneuthur argraffiadau

* Act. xxi. 30—38.

dwys ar eu meddyliau am yr amser hwnw, beth bynag a fu y canlyniadau. Er y dengys y pethau hyn oll fawr ofal Duw am ei bobl, ei ddoethineb, a'i lywodraeth ar bawb, a phob peth, fel yn medru trefnu y moddion a fyno i waredu a diogelu bywydau ei weisien, tra mae ganddo waith iddynt i wneud ar y ddaear—ac er y dengys yr amgylchiadau hyn rinweddau sanctaidd, doethineb, a doniau Paul yn dra dysglaer, etto, gan mai nid hanes Paul yr ydym yn ei ysgrifenu, rhaid i ni eu gadael.

Gwedi i'r apostol fod yn yn ngharchar yn Cæsarea am ddwy flynedd agos, yn disgwyl am gyfleusdra i gael ei anfon i Rufain, y maent yn ei osod ef, yn nghyd âg amryw garcharorion eraill, mewn llong i'w dwyn yno. Yr helyntoedd blinion a fu arnynt ar y fordaith, y gwaredigaethau hynod a gawsant, a'u mynediad diogel a llwyddiannus i ben eu taith, wedi llawer o forio enbyd—y derbyniad caredigol a gafodd yr apostol gan ei gyfeillion yn Rhufain—a fynegir yn fanylaidd a hyfryd iawn gan yr hanesydd ysbrydoledig, yr hwn oedd yn llygad-dyst o'r cyfan. Ond am nad yw y pethau hyn yn dwyn perthynas â hanes yr eglwys yn gyffredinol, rhaid i ni eu gadael yn bresennol heb helaethu arnynt.

Gwedi i Paul gael ei ddwyn yn ddiogel yn llaw Rhagluniaeth i Rufain, derbyniodd hynawsedd neillduol oddi wrth y llywodraeth. Er fod y llywyddion yn baganiaid, rhoddasant ef mewn ystyr ar ei law-gair *(parole of honour)* yn ei dŷ ardrethol ei hun, etto mewn rhyw fath o gadwyn, o dan gadwraeth milwr. Arosodd yma am ddwy flynedd, gan dderbyn pawb a ewyllysiai ddyfod atto, ar unrhyw achos, yn ddiwaharddiad, "gan bregethu teyrnas Dduw, ac athrawiaethu y pethau am yr Arglwydd Iesu Grist gyda phob hyder." Gyda hyn, terfyna Luc ei hanes am yr eglwys, wedi iddo ei dwyn yn mlaen mewn rhan hyd y flwyddyn 61 neu 62; canys bernir yn lled gyffredin i Paul gael ei ddwyn i Rufain tua'r amser hwnw, a'i fod yno hyd ddiwedd y flwyddyn 63, neu ddechreu 64, yr hyn oedd tua deng mlynedd ar hugain wedi esgyniad ein Harglwydd Iesu.

PENNOD V.

Lle y traethir am Ddechreuad yr Eglwys yn Rhufain—Rhyddhad Paul o'i garchariad—Helyntoedd ei fywyd o hyny hyd ei farwolaeth—ei Farwolaeth a'i Gladdedigaeth—yr Erledigaeth a fu ar yr Eglwys yn nheyrnasiad Nero—ac am Helyntoedd, Bywyd llafurus, a Gweinidogaeth yr Apostolion ereill.

RHUFAIN ydoedd arglwyddes y gwledydd, prif ddinas yr amherodraeth ag oedd yn dwyn ei henw, yr hon amherodraeth a ystyrir yr helaethaf ei therfynau, y gadarnaf ei hamddiffynfeydd, y luosoccaf ei deiliaid, a'r greulonaf ei gweithrediadau a fu erioed. Dechreuwyd yr amherodraeth, meddylir, gan ychydig o ffoaduriaid a ddiangasant o Gaerdroya, yn amser ei dinystriad, dan dywysiad un Æneas, a'i olynwyr, agos i ddeuddeg can mlynedd cyn genedigaeth ein Harglwydd. Eithr ni sylfaenwyd y ddinas ar fynydd Palatine, gan Romulus, hyd y flwyddyn 753 cyn y cyfrif cyffredin. Gwedi ei myned trwy amrywiol fath o gyfnewidiadau, a dulliau o lywodraeth, cynnyddodd i'r fath raddau, fel y bernir fod y ddinas tua'r amser y bu Paul ynddi, yn nghylch dwy filltir ar hugain o amgylchiad, yn sefyll ar saith o fynyddau, ac yn cynnwys o leiaf ddeuddeg can mil o drigolion.* Ni chyfrifir fod ynddi ddim llai na phedwar cant ar hugain o demlau, heblaw aneirif allorau ereill. Yr oedd yn ei themlau amrywiol a gwahanol eilunod, y rhai oeddynt yn ddirifedi; ac nid oedd rif ar luosogrwydd yr offeiriaid a wasanaethent y cyfryw. Ynddi yr oedd amryw athrofäau, gan bob enwad neu drefniad crefyddol, yn mha rai y dygent i fynu eu gwyr ieuaingc, mewn dysgeidiaeth yn gyffredinol, ac mewn adnabyddiaeth o'u hegwyddorion priodol eu hunain.

Yn flaenorol i sefydliad y grefydd Gristionogol i fod yn un amherodrol, y Rhufeiniaid oeddynt yn nodedig am eu coelgrefydd; cyflawnent wasanaeth eu duwiau gyda'r diwydrwydd a'r parch mwyaf. Harddwychent eu temlau â'r pethau mwyaf drudfawr a fedrent gael trwy yr holl amherodraeth; ac ni arbedent ddim er gosod eu duwiau allan yn y rhwysgfawredd mwyaf. Ymofynent â hwy ar bob achos o bwys, megys pan oedd y milwyr, yr amaethwyr, y marsiandwyr, &c. yn myned allan, ac yn dwyn yn mlaen eu hachosion; ac fel y byddai eu harwyddion, y diswylient eu llwyddiant. Yn wastadol gofalent am eu boddhau, trwy yr aberthau mwyaf drudfawr, a dybid a fyddai fwyaf boddlon ganddynt. Pa bryd bynag y cyhoeddid rhyfel, ac y gwnaid heddwch, byddai yn cael ei wneud dan nawdd y duwiau, a thrwy eu gorchymyn. Ac mewn canlyniad i frwydrau, pa un bynag ai goruchafiaeth ai gorchfygiad a fyddai, cydnabyddid y duwiau mewn gweddiau, aberthau, a diolchiadau.

* Dywed Goldsmith eu bod yn chwe miliwn a phedair mil ar hugain.—Goldsmith's Hist. p. 374.

Yr oedd yn Rhufain nid yn unig allorau a themlau i'r duwiau a olygent fod yn amddiffynwyr i'r ddinas a'r amherodraeth, ond hefyd allorau braidd i holl dduwiau y byd; a chydnabyddid ganddynt wahanol dymherau a rhinweddau yn dduwiau, yr hyn a ddengys fod yno ryddid cydwybod y pryd hwnw.*

Yr oedd Cristionogaeth, ac eglwys wedi ei sefydlu yn ol yr egwyddorion hyny, yn Rhufain, ryw amser yn flaenorol i fynediad Paul yno; yr hon, ymddengys, oedd yn dra lluosog y pryd yr ymwelodd yr apostol â hi. Mae lle i feddwl fod amryw o Iuddewon a Phroselytiaid o'r ddinas honno yn mhlith y dychweledigion ag oedd yn Jerusalem ar ddydd y Pentecost, ac i'r rhai hyn ddwyn gyda hwy adref y "newyddion da o lawenydd mawr" i'w cyd-ddinasyddion; trwy lafur a gweinidogaeth pa rai, dan fendith y Nef-oedd, dygwyd ereill i fod yn gydgyfranog o'r un bendithion.

Dywed yr apostol yn ei lythyr pan yn ysgrifenu attynt, fod eu ffydd hwy yn gyhoeddus yn yr holl fyd, a'u bod wedi cynnyddu mewn gwybodaeth o bethau Cristionogaidd, fel yr oedd yn credu eu bod wedi eu cyflenwi o bob gwybodaeth, ac yn abl i rybuddio eu gilydd hefyd. Mae yr apostol yn annerch amryw o aelodau yr eglwys wrth eu henwau, fel ei geraint, ac megys rhai oedd hollol adnabyddus iddo, er na buasai efe yn eu plith etto. Yr oeddynt hefyd, gellid barnu wrth ei lythyr attynt, yn ddynion enwog mewn duwioldeb, ac yn adnabyddus i'r Cristionogion yn gyffredinol fel y cyfryw.

Hefyd dywed yr apostol fod yn yr eglwys hon rai o deulu yr hwn oedd amherawdwr. A choffeir ganddo, yn mhlith y saint ag oedd yno, rai o deulu Aristobulus a Narcissus. Y blaenaf a hanai o waed brenhinol yr enwogion Maccabeaidd gynt, yr hwn a ddygwyd yn garcharor i Rufain gan Pompey. Er fod y teulu hwn yn awr wedi myned heb braidd sôn am dano gan haneswyr y byd, etto rhestrwyd rhai o'i hiliogaeth yn mhlith canlynwyr yr Oen. Narcissus oedd wedi bod yn hynod fel prif weinidog hunan-gais i'r amherawdwr Claudius; etto dywedir yma fod rhai o'i deulu yn yr Arglwydd.† Dengys hyn fod yr eglwys ag oedd yn Rhufain yn dra enwog, ar amryw ystyriaethau, ac yn boblogaidd er yn foreu—mor foreu wedi ei dechreu â dydd y Pentecost, o leiaf.

Mae un peth tra hynod perthynol i'r eglwys hon, sef fod ynddi Genhedloedd yn deall eu rhyddid oddi wrth osodiadau a seremoniau Iuddewig, a bod yno athrawon Iuddewig ag oedd yn dadleu yn erbyn eu rhyddid, fel yn eglwysi Asia. Yr hyn a ddengys fod rhyw rai wedi tramwyo hyd yno, wedi y cyfarfod mawr a fu yn Jerusalem yn y flwyddyn 49—hanes am ba un a welir yn Act. xv.—cyn mynediad Paul yno.

Hiraethodd yr apostol lawer am fyned attynt, i ymweled â'r eglwys flodeuog yma, a phregethu yr efengyl yn y ddinas fawr honno; eithr ychydig oedd yn feddwl am y llwybr a gymmerodd Rhagluniaeth i'w ddwyn. Pan y dygwyd ef yno, yn anrhydeddus, er yn garcharor mewn cadwyn, Nero oedd yn teyrnasu, a thua'r wythfed flwyddyn o'i deyrnasiad. Nid oedd Nero ond dwy-ar-bymtheg oed pan ddechreuodd deyrnasu; enw ei fam oedd Agrippina, yr hon oedd yn wraig i Claudius yr amherawdwr blaenorol, ond nid oedd efe yn fab iddo. Agrippina oedd un o'r gwragedd gwaethaf, mwyaf drygionus a chreulawn, hwyrach, a fu yn y byd erioed. Rhoddodd

* Gibbon's Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. ch. 15. And Jones's History of the Church, vol. i. p. 154. † Milner's Church History, vol. i. p. 88.

ei gwr ei hun i farwolaeth, er mwyn sicrhau yr orsedd i'w mab, yr hwn wedi hyny a'i had-dalodd, trwy ei gosod hithau i farwolaeth, yn y modd creulonaf. Pan oedd Anicetus, y dienyddwr, wedi myned i mewn i ystafell Agrippina, yn tynnu allan ei gleddyf, i roddi iddi yr ergyd angheuol, yn ol gorchymyn ei mab, hi a ddynoethodd ei mynwes, ac a waeddodd allan, 'Taro ef yma; canys dyma'r lle a roddes fod a maeth i'r anghenfil.'

Yr oedd yr holl amherawdwyr Rhufeinaidd yr amser hwnw yn llawer tebyccach i fwystfilod na dynion, oddi eithr dull eu cyrph; ond nid oedd neb yn fwy felly na Nero, er ymddwyn o hono am y pum mlynedd cyntaf o'i deyrnasiad, fel pe buasai yn well na'r cyffredin, mewn hynawsder, uniondeb, gostyngeiddrwydd, a dewrder; eithr wedi hyny torodd allan mewn pob drygioni, gwaelder, ac ysgelerder, ar unwaith.* Gwedi rhoddi mab a merch ei ragflaenor i farwolaeth, yr enwog philosophydd a'i ben-athraw Seneca, Lucan, y prydydd hyawdl, a llawer o bendefigion Rhufain, efe oedd yr hwn a fu yn euog o wneuthur y gyfraith amherodrol gyntaf i gospi Cristionogion â marwolaeth, yn achos eu crefydd.

Er fod yr eglwysi wedi dyoddef hir a blin erledigaethau, a llawer o'r saint wedi myned adref yn ngherbyd merthyrdod, etto yr oedd eu herledigaethau, hyd yma, wedi codi oddi ar lid, rhagfarn, a chenfigen yr Iuddewon yn unig, pa rai a ymddygent yn eithaf terfysglyd. Ond ni allent bob amser wneud yr hyn a fynent; canys nid oedd ganddynt hawl, yn gyfreithlon, i gymmeryd bywyd neb ymaith, y pryd hwnw: ac er maint oedd eu cynddeiriogrwydd yn erbyn y Cristionogion, yr ydym yn gweled fod cyfreithiau yr amerodraeth a'i swyddogion wedi bod yn fynych yn gysgod ac yn amddiffynfa iddynt. Er mor gyfrwys a diflino y gweithredai y Iuddewon yn eu llidiawgrwydd i geisio dwyn yr amherodraeth Rufeinig i weithredu yn erbyn y Cristionogion, trwy eu gosod allan fel rhai ag oedd yn erbyn y wladwriaeth, mewn ystyr wladol a chrefyddol, ac yn erbyn eu trefniadau hwythau, methasant hyd yn hyn a llwyddo i ennyn y fflam; a chawsant yn fynych eu mawr siomi trwy fod y swyddogion Rhufeinaidd yn taflu ymaith eu cwyn gyda dirmyg, pan y gwybyddent mai rhyw ddadleuaeth grefyddol oedd cynnwysiad eu hachwyniaeth.

Fel hyn y trefnodd yr Arglwydd, yn ei anfeidrol ddoethineb, i'w eglwysi yn eu mabandod gael nodded ac amddiffyniad o dan gysgod y llywodraeth Rhufeinaidd, er yn baganaidd, gan gymmeryd ymaith y llywodraeth oddi wrth y bobl a broffesai yr adwaenent y gwir Dduw. Diau rhaid addef fod uniondeb a chyfiawnder i'w weled yn llawer o gyfreithiau y Rhufeiniaid, a bod llawer o enwogrwydd yn y gweinyddiad o honynt; etto ni fedrir gweled mai i hyny, nac i rinweddau eu swyddogion, y gellir bob amser briodoli yr hynawesdd a'r amddiffyniad a fwynhaodd yr eglwysi oddi wrthynt yn y dyddiau boreuol hyny: eithr gellir meddwl ei fod yn tarddu yn aml oddi ar eu hanwybodaeth o'r gwahaniaeth rhwng Cristionogrwydd âg Iuddewaeth, a'u bod yn hollol ddisylw o egwyddorion y naill na'r llall, amgen ni oddefasent amryw o weithiau i'r Iuddewon weithredu mor afreolaidd ag y gwnaethant, trwy gymmeryd ymaith fywyd y Cristionogion, yn groes i'r gyfraith, fel y gwelir yn achos Stephan, &c.

Gwedi iddynt gadw Paul yn rhwym yn ei dŷ ardrethol ei hun am ddwy flynedd, rhyddhawyd ef, er nad ydym yn clywed pa fodd y gwnaed hyny,

* Goldsmith's Hist. of Rome, p. 375.

nac ar ba sail; ond y mae yn dra eglur nad oedd gan ei gyhuddwyr ddim i'w osod yn ei erbyn a gydnabyddid yn fai yn wyneb y gyfraith. Tra y bu Paul yn y caethiwed hwn, efe a ysgrifenodd amryw o'i lythyrau at y gwahanol eglwysi, pa rai a gydnabyddir yn rhan o'r dadguddiad dwyfol, a elwir yr ysgrythyrau, megys ei lythyr at yr Ephesiaid, y Phillipiaid, y Colossiaid, a'r un at Philemon, yn mha ysgrifau, fel yn ei epistolau ereill, y mae yr apostol yn dangos ardderchogrwydd ac addasrwydd trefn achub ar gyfer colledigaeth y byd pechadurus—ei bod oll yn mhob ystyr yn hollol o ras a thrugaredd Duw—yn berffaith gysson â'i ddwyfol lywodraeth—yn canolbarthu yn unig yn Nghrist a'i aberth iawnol—ac yn tueddu ac yn rhwymo pawb a'i hadnabyddo i fywyd sanctaidd.

Oddi wrth yr epistolau a ysgrifenodd Paul pan yn Rhufain, yr ydym yn gweled fod llawer o'i gyfeillion yno, naill ai wedi myned gydag ef o wlad Judea, neu wedi ei ganlyn yn fuan wedi hyny, pa rai oedd yn ddefnyddiol iawn iddo i'w hanfon fel cennadau at yr eglwysi, ac i'w gyssuro yntau yn wyneb ei flinderau. Yn mhlith ei gyfeillion y mae yn enwi Tychicus, gyda'r hwn yr anfonodd ei lythyr at y Colossiaid,* Jesus, yr hwn a elwir Justus,† a Marc neu Barnabas.‡ Yr hyn a ddengys yn dra eglur mai nid yr un oedd hwn â Marc cyfaill Pedr; canys yr oedd hwn gyda Pedr tua'r un amser§ ag oedd y llall gyda Paul, ac mor belled oddi wrth eu gilydd ag yr oedd Babilon a Rhufain; er fod rhai, i geisio symmud y rheswm hwn, yn dywedyd fod Rhufain yn cael ei galw yn Babilon y pryd hwnw. Mae yn wir ei bod yn cael ei galw yn Babilon mewn iaith ffiguraidd yn llyfr y Dadguddiad, a hyny yn benaf gyda golwg ar yr eglwys yn Rhufain, ac nid y ddinas; ond nid oedd llyfr y Dadguddiad wedi ei ysgrifenu hyd flynyddau lawer ar ol epistolau Pedr, ac nid oes son mewn ysgrifau eraill y dyddiau hyny fod Rhufain yn cael ei galw yn Babilon. Onesimus, gwas Philemon, yr hwn hefyd a ddaeth at Paul, ac a ennillwyd trwy ei weinidogaeth i'r ffydd,‖ Epaphras, yr hwn a debygir oedd un o henuriaid yr eglwys yn Colossia,¶ Luc y Physigwr anwyl, a Demas,** oeddynt gydag ef. Epaphroditus, cennad eglwys y Philippiaid, a Timotheus oedd hefyd yno yn mhlith ei gyfeillion.††

Yn y llythyrau hyn, gwelir yn eglur, tybiwn, mai nid yn amser carchariad cyntaf Paul yr ysgrifenodd yr apostol ei ail lythyr at Timotheus, fel y barna rhai, canys; pan yn garcharor y tro cyntaf, yr oedd yn hawdd dyfod o hyd iddo, ac yr oedd yn ysgrifenu ei lythyrau, ac yn anfon cennadau at yr eglwysi a'i gyfeillion o amgylch, heb neb yn eu herlid nac yn eu rhwystro, ac yr oedd Timotheus gydag ef yn Rhufain. Ond pan yr ysgrifenodd ei ail lythyr at Timotheus, yr oedd mewn carchar mor gaeth, fel oedd yn anhawdd iawn cael allan yn mha le yr oedd, a chwedi cael ei adael gan ei gyfeillion, o herwydd poethder yr erledigaeth oedd yn eu herbyn.‡‡ Yn ei garchariad cyntaf, y mae yr apostol yn hyderus iawn y byddai iddo ddyfod yn rhydd yn fuan, ie, yr oedd mor sicr o hyny a'i fod yn gorchymyn i'w gyfeillion barottoi iddo letty;§§ ond mor bell o fod felly yn ei ail lythyr at Timotheus, fel yr oedd yn dywedyd, *Myfi yr awr hon a aberthir, ac amser fy ymddattodiad a neshaodd.*‖‖ Gwedi ei ddyfod yn rhydd, o bellaf tua dechreu y flwyddyn 64, mae gradd o dywyllwch yn aros ar ei daith o

* Col. iv. 7. † Col. iv. 6. ‡ Col. x. § 1 Pedr v. 13. ‖ Philemon. ¶ Col. iv. 12.
** Col. xiv. †† Phil. i. 1. a ii. 25. ‡‡ 2 Tim. i. 1, 7, a iv. 16, 21. §§ Phil. ii. 24, a xxii.
‖‖ 2 Tim. iv. 6.

hyny hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn, bernir yn gyffredin, a gymmerodd le yn y flwyddyn 68.* Meddylir yn sicr nad oes un sail i gredu iddo fod yn yr Hispaen, nac yn Mrydain, rhwng ei ddau garchariad; er fod yr apostol wedi dywedyd wrth ysgrifenu ei lythyr at y Rhufeiniaid, ei fod yn bwriadu dyfod heibio iddynt i'r Hispaen; ond y mae yn rhaid i ni gofio mai fel dyn yr oedd efe yn bwriadau hyny. Ni wyddai y pryd hwnw am y pedair blynedd o garchariad y gorfu arno fyned trwyddo wedi hyny, mwy na llawer o anhawsderau eraill a gyfodai yn yr amser hirfaith hwn. Meddylir hefyd fod byrdra yr amser o'r naill garchariad hyd y llall—a golygu y lleoedd hyny ag mae mesur o sicrwydd fod yr apostol wedi bod ynddynt—yn dangos yn dra eglur, na bu efe yn yr Hispaen, &c. yr amser hwnw. Canys nid oedd, yn ol y farn gywiraf a ellir gael, ddim mwy nag o dair i bedair blynedd o'r amser y rhyddhawyd ef gyntaf, hyd yr amser y bernir iddo ddyoddef marwolaeth: ac y mae yn lled eglur ei fod wedi tramwyo yr amser hwn trwy barthau Asia, Judea, Macedonia, ac Achaia.

Bernir i'r apostol, wedi ei ryddhau, aros am ryw gymmaint o amser yn yr Ital, yn enwedig tra y bu yn ysgrifenu ei lythyr rhagorol at yr Hebreaid, yr hyn a wnaeth yn rhyw barth o'r wlad honno, yn yr hwn yr addawa i ymweled â hwy ar fyrder. Gwedi hyn, efe, yn nghyd â Timotheus a Titus, a fordwyasant allan o ryw borthladd yn yr Ital, ac a aethant drosodd i CRETE, ynys ëang yn Môr y Canoldir, lle y pregethasant gyda llwyddiant mawr. Arosasant yma gryn amser, nes i eglwysi gael eu casglu, a'u sefydlu, mae yn debyg, yn mhob dinas yn yr ynys. Eithr fel yr oedd rhyw angenrheidrwydd yn galw ar Paul i ymadael oddi yno, cyn iddo gael amser i osod y cymdeithasau hyn mewn iawn drefn eglwysaidd, y mae yn gadael Titus ar ei ol yno, i gwblhau y gwaith, gan sefydlu henuriaid neu esgobion yn mhob dinas lle yr oedd y cymdeithasau crefyddol hyn wedi cael eu casglu. I'r dyben i'w annog a'i gyfarwyddo yn y gorchwyl hwn, a phethau eraill perthynol i'w waith, er gosod yr eglwysi hyn mewn trefn, ysgrifenodd yr apostol y llythyr ag sydd yn dwyn ei enw atto, o Colossia, fel y tybir.

Gwedi ymadael o Paul â Crete, y mae efe a Timotheus yn dyfod i wlad Judea, yn ol ei fwriad a'i addewid i'r Hebreaid,† ac yn ymweled unwaith yn rhagor â'r eglwysi yn Jerusalem a'i hamgylchoedd. Yr oedd yr olwg yn awr yn wahanol iawn i'r apostol ar y wlad a'r eglwysi yn yr ardaloedd hyny, i'r hyn oedd pan yr ymwelodd efe â hwy o'r blaen‡—Iago yr apostol wedi cael ei osod i farwolaeth, a llawer, mae yn debyg, o ddynion da a duwiol eraill yn yr un modd—dinystr Jerusalem yn prysuro yn gyflym—yr Iuddewon yn ymranu yn wahanol bleidiau, ac yn lladd eu gilydd fel gwallgofiaid, a miloedd lawer o honynt yn cael eu gosod i farwolaeth yn feunyddiol gan eu gelynion.

Gwedi iddynt aros am ryw gymmaint o amser yn ngwlad Syria, daethant i Cilicia, gwlad enedigol Paul; ac oddi yno daethant i wledydd Galatia a Colossia, yn ol addewid Paul a'i orchymyn i Philemon, i barottoi lletty iddo; yr hyn a ddengys ei fod yn bwriadu aros yno dros yspaid o amser. Tra yr oedd efe yn aros yma, ysgrifenodd ei lythyr at Titus, yn mha un y rhydd iddo amryw gyfarwyddiadau; ac a ddeisyf arno ddyfod i'w gyfarfod ef i Nicopolis.§ Gwedi hyn ymedy â Colossia, ac y mae yn dyfod i Ephesus,

* Fleetwood's Hist. of the Apostles, p. 389. † Heb. xiii. 24. ‡ Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 159. § Tit. iii. 12.

lle y gedy efe Timotheus ar ei ol, i adeiladu a chynnorthwyo yr eglwys luosog oedd yno. Yna y mae ef ei hun yn myned i Macedonia. Tybir mai dyma y pryd y gadawodd efe y fantell, y llyfrau, a'r memrwn, (sef yr ysgrif wreiddiol o'i lythyrau) yn nhŷ Carpus, yn Troas, pa rai a erfynia efe ar Timotheus eu dwyn gydag ef i Rufain.*

Pan yn Macedonia, ymweledodd yr apostol â'r eglwys oedd yn Philippi, yn ol yr arwyddasai iddi yn ei lythyr.† Yr oedd gan Paul deimladau tyner ac anwylaidd iawn tu ag at yr holl eglwysi; eithr y mae yr un yn Philippi fel pe byddai yn fwy mynwesol ganddo nag un arall. Yr oedd yn cofio am y fflangellau, y carchariad, a'r driniaeth arw a gafodd wrth ei sefydlu, yn ei gwneuthur yn fwy anwyl iddo yn barhaus. Gwedi iddo roddi ymweliad i'w gyfeillion yn y parthau hyny, efe a ddaeth i Nicopolis, dinas yn Epirus, lle yr oedd ar fedr gauafu; yno deisyfiasai ar Titus ddyfod i'w gyfarfod. Bernir gan rai dynion dysgedig mai oddi yma yr ysgrifenodd Paul ei lythyr cyntaf at Timotheus: eithr ymddengys y rhesymau sydd o'r ochr arall—sef, mai pan ar ei ail daith trwy Macedonia, lle y mae wedi ei osod yn yr hanes blaenorol, yr ysgrifenodd efe ef—yn llawer cadarnach.‡ Nid annhebyg yw i Titus ddwyn rhyw newyddion i Paul amy Cretiaid, a ddangosai iddo yr angenrheidrwydd o fyned attynt ei hun. Hyn a wnaeth, gan gymmeryd ei daith trwy Corinth; a chydag ef yr oedd Titus, Trophimus, ac Erastus; a chan fod Erastus yn enedigol o'r ddinas honno, efe a arosodd yno. Bernir fod hyn tua dechreu y gwanwyn. Pan ddaethant i Crete, gorfu arnynt adael Trophimus yn glaf yn Miletum, dinas berthynol i'r Cretiaid—lle gwelir nad oedd dawn i iachâu wrth ewyllys yr apostol bob amser.§

Pan oedd yr apostol yn pregethu yr efengyl, yn cynnorthwyo, yn cadarnhau, ac yn gosod yr eglwysi yn mhlith y Cretiaid yn eu hiawn drefn, dygwyd iddo y newydd am y dymhestl ofnadwy, a'r rhuthr erledigaethus ag oedd wedi torri allan yn erbyn yr eglwysi, a ddechreuasai mor echryslawn yn Rhufain. Bernir i hyn beri iddo hwylio gyda brys tu ag yno, gan feddwl hwyrach y buasai, trwy ei gydnabyddiaeth â rhai o deulu Cæsar, yn gallu llwyddo i attal y fflam rhag ennyn yn mhellach, neu o leiaf yn gallu cyssuro a chalonogi y dyoddefwyr yn wyneb yr erledigaeth. Dechreuwyd yr erledigaeth gan Nero, yr hwn y gweddai i holl erlidwyr crefydd gofio oedd yr amherawdwr cyntaf a wnaeth gyfraith i gospi dynion am addoli Duw, ac a ddygodd yn mlaen erledigaeth yn erbyn y Cristionogion. Yr oedd efe yn awr wedi bod agos i ddeng mlynedd ar orsedd Rhufain, a chwedi cynnyddu mewn drygioni ac ymarferiadau ffiaidd, adgas, a gwael, i'r fath raddau, fel nad oedd a'i boddhâi yn fwy na gofidio, poenydio, a dinystrio ei gydgreaduriaid. Dywedai mai y gerdd fwyaf soniarus ganddo oedd, ocheneidiau dynion mewn poen! a dymunai pe buasai penau holl ddynolion ar un gwddf, ac o fewn cyfleusdra iddo allu ei dorri, er ei ddifyrwch! Gosododd dân yn ei ddinas amherodrol, yr hwn a gynneuodd am dridiau, yn y fath fodd, fel nas medrai neb ei ddiffodd, nes difa y rhan fwyaf o honi. Pan oedd efe trwy hyny wedi dwyn miloedd lawer o'i ddeiliaid i'r cyfyngder mwyaf, a dyfetha llawer o honynt yn y modd echryslonaf, efe a edrychai ar y llosgiad oddi ar ryw uchelfa, gyda'r digrifwch mwyaf; ac, i'r dyben i fwynhau y wledd yn well, efe a ganai y gân a gyfansoddwyd gan elynion Caerdroya ar ddydd ei llosgiad.

* 2 Tim. iv. 13. † Phil. i. 24. ‡ See Dr. Doddridge's Gen. Introduct. to his Expos. on 1 Tim. § 2 Tim. iv. 20.

Ymddygiadau Nero yn wyneb y dinystriad hwn, a ddygodd arno ddrwgdybiaeth y bobl yn gyffredin—mai efe oedd yr achos o'r holl ddifrod a'r galanasdra yn y ddinas, trwy roddi tân ynddi i'w llosgi. O herwydd hyn, daeth yn wrthddrych o gasineb a ffieidd-dra gan bawb o'r dinasyddion. I'r dyben o symmud ymaith y dybiaeth hon, ac i esgusodi ei hun hyd y gallai, efe a roddodd y bai i gyd ar y Cristionogion; gan ddywedyd mai hwy a gynneuodd y tân: ac i'r dyben i gadarnhau hyn, rhoddodd allan gyfraith i'w cospi oll yn y modd creulonaf. Dyma ddechreuad yr erledigaeth hwnw, yn ol barn a thystiolaeth yr haneswyr mwyaf cyfrifol yn mhlith Cristionogion a Phaganiaid.

Tacitus, hanesydd paganaidd, a ysgrifenodd hanes amherodraeth Rhufain, a'i gweithrediadau, a ddywed am Nero fel y canlyn: "Er mwyn," medd ef "troi ymaith bob tybiaeth oddi wrtho ei hun am losgiad y brif ddinas, yr oedd yn rhaid gwneuthur euogion ffugiol, trwy gyfrifiad o'r bai ar ryw rai eraill. Gyda golwg ar hyn, gweinyddwyd y cospedigaethau trymaf a chreulonaf ar y dynion hyny, a alwai'r bobl gyffredin yn Gristionogion, pa rai yn flaenorol a nodesid âg enllib haeddiannol. Amryw ag oedd yn adnabyddus o'r cyfryw a ddaliwyd yn fuan; cyfaddefiadau pa rai a ddadguddiasant luaws aneirif o'r un enwad; a hwy a ddedfrydwyd oll i ddinystr anarbedol, nid yn unig am losgi Rhufain, ond o herwydd eu bod yn ddiserch tu ag at ddynolryw yn gyffredinol. Rhoddwyd hwy (medd ef) i'r poenau mwyaf llym a gerwin, pa boenau a fwyhëid yn fawr trwy eu bod yn cael eu llwytho â gwawd a gwaradwyddiadau yr edrychwyr. Rhai o honynt a wnid i fynu mewn crwyn bwystfilod gwylltion, ac a deflid rhwng y cenawon cŵn i'w llarpio ganddynt; eraill a hoelid wrth y croesbrenau, ac a adewid yno nes y trengent: tra yr oedd ereill yn cael eu hiro drostynt â gwêr, pŷg, a defnyddiau llosgadwy eraill; yna yn gosod tân ar eu penau, i oleuo yn y nos yn lle canwyllau! Gerddi Nero ei hun a neillduwyd i'r olygfa alaethus hon; ac efe a ymddigrifai gymmaint yn yr olygfa, fel yr ymgymmysgai â'r werinos a edrychai arnynt, gan anghofio ei fawredd brenhinol, ac a ymddangosai fel cerbydwr. Ymddygiadau drwg y Cristionogion a haeddai yn wir gospedigaethau trymion, er rhybudd i eraill: ond y fath driniaeth arw a drôdd gasineb y bobl yn dosturi attynt, wrth ystyried fod y dynion annedwydd hyn yn gorfod dyoddef, ac yn cael eu haberthu, nid cymmaint i uniondeb a chyfiawnder, ag i ddrwg nwydau a chreulonder y gormeswr."

Hyn oedd amgylchiadau pethau yn Rhufain pan ddaeth yr apostol yno, tua diwedd yr haf, fel y gellir meddwl, yn y flwyddyn 67, sef y cyntaf ar ol ei fod yn gauafu yn Nicopolis. A gellir barnu ei fod ef yn adnabyddus i lawer yno, fel un ag oedd yn blaenori yn mhlith y blaid ag oedd y pryd hwnw yn eithaf dirmygus, ac yn cael ei herlid; o ganlyniad rhoddwyd ef yn fuan mewn dalfa. Ymddengys i'r apostol fod ddwywaith dan holiad, ond nid ellir dywedyd yn sicr pa bryd y bu un o honynt, na pha faint o amser oedd rhwng y naill a'r llall, na pha cyhyd y bu efe yn ngharchar, cyn iddynt ei osod i farwolaeth. Dichon fod ei holiad cyntaf yn nechreu yr Hydref, ac iddo yntau yn fuan ar ol hyny ysgrifenu ei ail lythyr at Timotheus, a'r diweddaf o'i epistolau, yn yr hwn y deisyfa arno ddyfod atto yn ebrwydd, cyn y gauaf canlynol, i dalu iddo ei ymweliad diweddaf, ac i dderbyn ei gyfarwyddiadau a'i gynghorion ymadawol.* Meddylir mai tua

* 2 Tim. iv. 16.

chanol y gauaf hwnw y darfu iddynt osod Paul i farwolaeth trwy ddibendawd; canys nid cyfreithlawn oedd iddynt osod breiniol ddinasydd Rhufeinig i farw trwy groeshoeliad.*

Ymddengys wrth ail lythyr Paul at Timotheus, ei bod yn amser mor flin ar y Cristionogion yn Rhufain yn awr, fel yr oedd yn berygl o'r mwyaf i neb o gyfeillion yr apostol ddyfod atto, nac aros gydag ef; a'i fod yntau yn cael ei gadw mewn carchar mor gaeth, fel yr oedd yn anhawdd dyfod o hyd iddo. Pan yr oedd efe fel hyn yn disgwyl am y ddedryd farwol, ac amser ei ymddattodiad wedi nesu i'w yml, yr oedd wedi cael ei adael yn unig — y Cristionogion, gan mwyaf, allan o'r ddinas — nid oes le i ammau nad oedd mewn eisiau o angenrheidiau nattur. Coffeir ganddo am ymddygiad Onesiphorus, mewn modd tra anrhydeddus, yr hwn oedd wr o Ephesus, ac a ddangosasai garedigrwydd yn fynych i'r apostol, yn y ddinas honno. A phan yr oedd yn awr wedi ei ddwyn trwy ryw amgylchiad i Rufain, efe a geisiodd Paul yn ddiwyd iawn, ac a'i cafodd; ac er ei fod yn wr urddasol, nid oedd arno gywilydd o rwymau yr apostol, yr hwn oedd wedi ei lwytho â chymmaint o warth a dirmyg ag a allai dynion roddi arno: eithr efe, yn y modd tirionaf, a weinyddodd iddo yr oll a allai, er ei gyssuro, ei loni, ac er cynnal ei nattur, yn y sefyllfa yr oedd ynddi — dros ba un, a'i deulu, y mae yr apostol yn gweddio yn daer, am i'r Arglwydd ad-dalu iddo yn helaeth am ei garedigrwydd.† Gwedi dychwelyd o Onesiphorus i Ephesus, nid oedd gan yr apostol neb gydag ef ond Luc yn unig, yr hwn, yn ei holiad cyntaf, a ymddangosodd yn rhy ddigalon ac ofnus i sefyll gydag ef, ac i ddadleu ei achos.‡

Yn y sefyllfa hon yr ydym yn gweled yr apostol, fel milwr dewr, yn sefyll yn yml yr afon, yn disgwyl yn orfoleddus am y frwydr ddiweddaf, a chael gwŷs i groesi adref, wedi gorphen ei filwriaeth, i fwynhau y gongcwest a'r goron. Annogai ei gyfaill anwyl Timotheus i frysio i ddyfod atto, cyn ei ymadawiad, i dderbyn ei annerchiad olaf, ac er ei gynnorthwyo yntau am yr ychydig oedd yn ol o'i amser. Treuliodd yn ei swydd, a gwaith yr Arglwydd, yn nghylch 35 o flynyddau, sef o'r fl. 33, o'r cyfrifiad cyffredin, hyd y fl. 68, pan y gosodwyd ef i farwolaeth tua thair milltir o'r tu allan i ddinas Rhufain, mewn lle a elwir *Aqua Salvia*, trwy dorri ymaith ei ben. Cymmerodd hyn le yn y 33ain mlwyddyn o deyrnasiad Nero, yr hwn a osododd ei hun i farwolaeth yn fuan wedi hyny, yn y modd truenusaf ac anmharchediccaf; o ganlyniad terfynodd yr erledigaeth.

Dywedir i'r apostol gael ei gladdu yn Via Ostrensis, lle o ddeutu dwy filltir o Rufain, lle y codwyd adeiliad harddwych iawn, gan Cystenyn Fawr, o barch iddo, yn lle i addoli, ac iddi gant o golofnau marmor. Yr amherawdwr Theodosius wedi hyn a welodd hon yn rhy wael, a'i tynodd i lawr, ac a adeiladodd un oedd fwy, drutach, a mwy harddwych.§

Parhaodd yr erledigaeth gwaedlyd hwnw rhagor i bedair blynedd; a rhy anhawdd yw dywedyd pa nifer a osodwyd i farwolaeth yn yr yspaid hwn, yn mhob parth o'r amherodraeth ëang, nac adrodd y driniaeth galed a ddyoddefasant, yn mhob lle, eithr yn benaf yn Rhufain; canys nid oedd neb o holl swyddogion yr amherodraeth yn meddu ar gymmaint o greulondeb â Nero ei hun.

* Jones's Hist. of the Christian Church, vol. i. p. 159—163. † 2 Tim. i. 16—18. ‡ 2 Tim. iv. 11. § Fleetwood's Lives of the Apostles, p. 387.

Y mae yn naturiol i bob dyn meddylgar ofyn, pa le yr oedd yr apostolion eraill, a pha fodd yr oedd arnynt hwy, tra yr oedd Paul yn tramwyo trwy y gwledydd, gan ddwyn y "newyddion da" i ddynolryw?—pa fodd yr oeddynt yn myned yn mlaen, pan oedd apostol mawr y Cenhedloedd yn gorfod yfed dyfroedd Mara ar ei daith? Buasai dda genym pe gallasem gael hanes helaethach a sicrach am lafur, llwyddiant, trafferth, a gyrfa y rhai hyn; eithr ni rydd yr ysgrythyr ond ychydig hanes am eu bywyd, na dim am farwolaeth neb o honynt, ond un; ac nid oes unrhyw ymddibyniad i'w roddi ar un hanes arall am hyny. Gellid meddwl fod yr Arglwydd wedi cuddio marwolaeth yr apostolion oddi wrth y Cristionogion, i'r un dybenion ag y cuddiodd efe gorph Moses rhag cenedl Israel. Fel yr oedd yr eglwys, a'i swyddogion oll, ar y dechreuad, yn cael eu cynnrychioli gan yr apostolion—a chwedi ffurfio a sefydlu yr eglwys Gristionogol gyntaf yn Jerusalem, yr oedd swyddau eglwysig a gweinidogaeth yr eglwys yn aros etto dros dro yn yr apostolion. Felly arosasant hwy dros amser yn yr eglwys yn Jerusalem, i weini iddi, hyd oni osodwyd hi yn ei chyflawn drefn, dan olygiaeth ei phriodol swyddogion.

Gwedi y gwasgariad a fu ar yr eglwys yn amser yr erledigaeth a fu yn ngwlad Judea, pan y merthyrwyd Stephan, tebygol fod yr apostolion yn myned allan i bregethu yr efengyl ar eu cylchoedd i'r gwledydd o amgylch, ac yn dychwelyd yn eu hol i'r ddinas, fel canolbarth eu hymgynnulliad, dros o ddeutu deunaw mlynedd ar ol esgyniad ein Harglwydd. Tua'r pryd hwnw bernir iddynt fyned allan, mewn ufudd-dod i'r gorchymyn dwyfol, i gyhoeddi yr iachawdwriaeth werthfawr i bob creadur, ac i gwhwfanu baner y groes mewn gwledydd pellenig, heb ddychwelyd byth mwyach. Pan aeth yr apostolion allan fel hyn i'r gwahanol wledydd, nid yw yn annhebyg iddynt gymmeryd eu cyfarwyddo i'w hamrywiol gylchoedd trwy drefniad coelbren. Y cofrestriad canlynol yw y goreu a allwn ni ei gael o'r gwledydd a deithiasant, a'r lleoedd a'r modd y gorphenasant eu gyrfaoedd.

Meddylir fod pedwar o'r apostolion yn frodyr naturiol, sef Iago, Judas, (nid yr Iscariot) Simon y Canaanead, a Matthew, yr hwn a elwir Lefi. Plant Cleophas oeddynt, o Mair, cyfnither i Mair mam yr Iesu, yr hon a elwir yn aml, yn ol iaith yr Iuddewon, yn chwaer iddi.

Iago, yr hwn, er ei wahaniaethu oddi wrth un arall o'r enw, a elwir y Lleiaf, a arosodd, tebygol, yn Jerusalem yn barhaus, i flaenori yr eglwys yno. Bernir iddo ddyoddef merthyrdod tua'r flwyddyn 62, yn mhen dwy flynedd wedi iddo ysgrifenu y llythyr rhagorol sydd ar ei enw. Nid yw yn amlwg pa fodd y bu yn nghylch ei farwolaeth. Dywed amryw i un Ananias ymwthio i'r archoffeiriadaeth, ac yn absennoldeb Albinus, y rhaglaw Rhufeinig, yr hwn oedd heb ddyfod i'r wlad ar ol marwolaeth Ffestus, iddo ddwyn Iago ger bron y cynghor a'i farnu yn euog o gabledd, a gorchymyn ei osod i farwolaeth trwy ei labyddio â meini. Ereill a ddywedant mai rhuthro a ddarfu y bobl arno, mewn modd annhrefnus ac afreolaidd, heb farn y cynghor, a'i osod i farwolaeth. Y mae yn amlwg i'r archoffeiriad drygionus uchod gael ei ddiswyddo gan Agrippa y brenin, o flaen pa un yr areithiodd Paul ychydig o flynyddau cyn hyny, am ei waith yn gosod Iago i farwolaeth; canys yr oedd efe yn wr, medd Josephus, ag oedd pawb yn ei ystyried yn gyfiawn. Dywed yr hanesydd uchod hefyd mai o herwydd i'r Iuddewon

ladd Iago y cyfiawn, fel y geilw efe ef, y daeth y fath ddinystr ofnadwy ar Jerusalem.*

SIMEON, y Canaanead, neu wr o Cana Galilea, a elwir fel hyn er ei wahaniaethu ef oddi wrth Simeon arall. Gwedi iddo ymadael â Jerusalem, dywedir iddo fyned trwy wlad yr Aipht, Lybia, a Mauritania, ac, yn marn rhai, iddo fyned trwy barthau o Persia hefyd, gan bregethu yr efengyl gyda mawr lwyddiant, a dychwelyd i Judea, a'i fod dros amser yn gofalu am yr eglwys yn Jerusalem, ar ol marwolaeth Iago. Bu farw yno, trwy gael ei groeshoelio, yn yr 120 flwyddyn o'i oedran, a'r 108 o'r cyfrifiad cyffredin, wedi iddo yn flaenorol gael ei fflangellu yn greulawn.†

JUDAS oedd un arall o'r brodyr, yr hwn a aeth, wedi ymadael â Jerusalem a gwlad Judea, i Syria a Mesopotamia, ac wedi hyny i Persia, lle y dyoddefodd farwolaeth, meddant, gan yr offeiriaid Paganaidd, tu a'r flwyddyn 75, yn mhen ychydig amser wedi iddo ysgrifenu yr epistol sydd ar ei enw.

MATTHEW, yr hwn a elwir Lefi yn nechreu ei oes, cyn iddo gael ei alw gan ein Harglwydd, oedd gasglwr trethi dros y llywodraeth Rufeinaidd, ac o herwydd hyn, gelwir ef yn bublican. Bernir yn gyffredin mai efe a ysgrifenodd yr efengyl ag sydd yn dwyn ei enw, ac iddo ei hysgrifenu cyn i'r apostolion ymadael â Judea, a'u bod oll wedi dwyn adysgrifen o honi ganddynt i'r gwledydd lle y teithiasant. Mae yn debygol mai yr efengyl hon oedd y rhan gyntaf o'r Testament Newydd a ysgrifenwyd. Gwedi i Matthew ymadael â gwlad Judea, dywedir gan rai iddo fyned i Parthia a Media; eraill a ddywedant mai i barthau o Affrica ac Ethiopia yr aeth efe, ac mai yn un o'r gwledydd hyn y daeth Pantænus o hyd i'r efengyl a ysgrifenodd ef yn ei law-ysgrifen ei hun, yn agos i ddiwedd yr ail ganrif. Dywedir iddo ddyoddef merthyrdod yn un o'r gwledydd hyn, ond nid yw yn adnabyddus pa bryd na pha fodd.‡

Yr oedd eilwaith ddau frawd naturiol, Iago a Ioan, meibion i Zebedeus, o Salome, o Bethsaida, pa rai a gyfenwyd gan ein Harglwydd, meibion y daran, i ddangos y grym a'r awdurdod dwyfol a fyddai yn cydfyned â'u gweinidogaeth.

IAGO, brawd Ioan, ni bu iddo ond gyrfa fer iawn. Lladdwyd ef â'r cleddyf gan Herod Agrippa yn Jerusalem, yn y flwyddyn 44. Yr oedd yr Herod hwn yn ŵyr i Herod Fawr a laddodd blant Bethlehem.§

IOAN, a elwir y dysgybl anwyl, oedd un o'r rhai a anrhydeddodd yr Arglwydd âg amlygiadau neillduol o hono ei hun, pan ar y mynydd, &c. Efe a arosodd yn Jerusalem a gwlad Judea, gan ofalu am ei fam a mam yr Iesu, yn ol y gorchymyn oedd wedi ei gael,§ hyd eu marwolaeth. Gwedi hyn efe a aeth i Asia Leiaf, yn mha le y bu yn llafurio yn llwyddiannus i droi eneidiau at yr Arglwydd, sefydlu eglwysi, ac adeiladu y saint ar ei sancteiddiaf ffydd. Bernir gan amryw iddo ysgrifenu ei epistolau, llyfr y Dadguddiad, a'r efengyl sydd ar ei enw, yn y blynyddau rhwng 91 a 98; ond amrywia eraill am yr amser yr ysgrifenodd hwynt. Y mae yn eglur i'r epistolau a'r efengyl gael eu hysgrifenu tua diwedd y canrif, pan oedd amryw o gyfeiliornwyr wedi ymgyfodi yn yr eglwys, gwrthsefyll pa rai, meddylir, oedd ganddo mewn golwg wrth eu hysgrifenu.

* Fleetwood's Lives of the Apostles, p. 411—415. † Sympson's Church Hist. p. 18. ‡ Parch. S. Lloyd, Amser. p. 264. § Act. xii. 2.

Dywedir i'r apostol gael ei dafiu, trwy orchymyn yr amherawdwr Domitian, i bair o olew berwedig, a'i ddyfod allan oddi yno yn ddianaf; a chwedi hyny deolwyd ef i ynys Patmos, lle diffrwyth yn Môr Ægea, nid pell oddi wrth Malta, yn mha le y cafodd weledigaethau rhyfedd, ac yr ysgrifenodd lyfr y Dadguddiad yn y flwyddyn 95. Dychwelodd drachefn i Ephesus, lle treulodd weddill ei ddyddiau, ac y bu farw yn y ganfed flwyddyn o'i oedran. Dywedir fod gwendidau ei nattur a'i oedran wedi myned mor fawr cyn ei farwolaeth, fel nad oedd yn alluog i gerdded i'r addoliad; ond mynnai ei gludo yno, a'r oll a ddywedai bob amser wrth y gynnulleidfa, a fyddai, *Blant bychain, cerwch eich gilydd.* Mae hyn yn berffaith gysson â'i ysgrifau, pa rai sydd oll yn llawn o anadliadau cariad.

Dechreuodd fod yn ddysgybl i Iesu Grist pan yn ieuangaidd iawn. Nid oedd uwchlaw deg ar hugain oed pan y bu ein Harglwydd farw, a pharhaodd ei weinidogaeth 70 o flynyddau wedi esgyniad Iesu Grist. Bu farw yn ddisymmwth o angau naturiol, wedi gwanychu yn fawr trwy hir lafur a blin ddyoddefiadau, yn y 100 flwyddyn o'r cyfrifiad cyffredin, a'r drydedd o deyrnasiad Trajan yr amherawdwr, ac yn mhen deg ar hugain wedi dinystr Jerusalem.

Bernir iddo ysgrifenu ei efengyl yn ddiweddaf, er profi gwir Dduwdod a gwir ddyndod yr Arglwydd Iesu, yn erbyn cyfeiliornadau Ebion, Cerenthus, Nicoliaid, a'r Gnostiaid, a heidiasant tua diwedd y canrif cyntaf, pa rai a eilw efe yn anghristiau a thwyllwyr lawer* Mae yn ddiamheuol fod yr apostol yn gwbl adnabyddus o'r tair efengyl arall, pan yr ysgrifenodd yr hon sydd ar ei enw, a'i fod yn cadarnhau yr hyn a ysgrifenodd y tri efengylwr arall, er ei fod yn cymmeryd llwybr gwahanol iddynt braidd, gan ddwyn ei hanes yn mlaen yn ol trefn gwyliau y Iuddewig, a chasglu amryw wyrthiau Iesu Grist, ei ymadroddion, &c. na chrybwyllwyd am danynt gan yr efengylwyr blaenorol, pa rai sy'n drysor gwerthfawr i'r eglwys.†

Yr oedd hefyd yn mhlith yr apostolion ddau ereill hefyd yn frodyr naturiol, sef Simon ac Andreas, pa rai, meddylir, a fuont yn ddysgyblion i Ioan Fedyddiwr.

Simon, yr hwn a gyfenwir Pedr, a ddygwyd i adnabod yr Arglwydd ar y cyntaf, trwy weinidogaeth ei frawd, ac yr oedd yn un ag y rhoddodd yr Arglwydd ei gyfrinach a'i ddadguddiedigaethau neillduol iddo. Meddylir ei fod yn ddyn bywiog iawn o ran ei deimladau, yn meddu ar alluoedd cryfion, ac yn apostol ffyddlon, gwresog, a defnyddiol. Anrhydeddwyd ef yn fawr gan ei Arglwydd, yn ol ei addewid iddo, trwy ei ddefnyddio yn yr eglwysi cyntaf yn mhlith yr Iuddewon a'r Cenhedloedd. Wedi iddo fod dros amser fel y dywedwyd, yn pregethu yr efengyl yn ngwledydd Judea, Galilea, a Samaria, ceir hanes am dano yn dyfod i waered i Antiochia tua'r fl. 50, pan bu y ddadl rhyngddo a Paul. Gwedi hyn ni cheir fawr o hanes am dano yn yr ysgrythyr. Er i Pedr gael ei ystwytho i bregethu yr efengyl yn gyntaf i'r Cenhedloedd yn nhŷ Cornelius, etto mae yn eglur fod ynddo duedd cryf iawn at yr Iuddewon yn barhaus; ac fe ddywedir i'r Arglwydd ymddiried yr efengyl i'w phregethu i'r enwaediaid, iddo ef yn benaf.† Bernir iddo, yn ol ei ymadawiad â gwlad Judea, fyned i wledydd Pontus a Galatia; ac mae yn lled debyg iddo fod ef hefyd yn ngwlad Achaia, lle yr oedd yr Iuddewon yn dra lluosog. Amrywia dysgedigion yn fawr pa le yr ydym i ddeall wrth

* 1 Ioan iv. 1—7. † Milne's Church Hist. Vol. i. p. p. 128—134. ‡ Gal. ii. 7.

Babilon, o ba le y mae yr apostol yn danfon ei lythyrau. Mae rhai yn meddwl mai yr hen Babilon gynt yn ngwlad Caldea sydd i'w deall wrthi; ond yr oedd honno wedi myned yn adfail cyn i Pedr ysgrifenu. Eraill a feddyliant mai dinas yn ngwlad yr Aipht, ar adfail pa un yr adeiladwyd Cairo Fawr, sydd i'w ddeall wrthi; a rhai ereill, fe ddichon gyda mwy o briodoldeb, a ddywedant mai talaeth a dinas yn ngwlad Galatia oedd, lle yr oedd yr Iuddewon yn lluosog iawn. Ond beth bynag am y wlad o ba le yr ysgrifenwyd hwynt, nid oes lle i'r petrusder lleiaf am wirionedd a dwyfoldeb yr hyn a gynnwysant; ac y maent yn drysor gwerthfawr i'r eglwys hyd ddiwedd amser. Ymddengys fod Marc a Silfanus, neu Silas, gydag ef, pan yr ysgrifenodd y cyntaf, ac iddo gael ei anfon gyda Silfanus at yr eglwysi neu y saint o genedl Abraham oedd yn Pontus, tua'r flwyddyn 62; a'r ail yn fuan ar ol hyny gyda Marc. Yr oedd yr apostol wrth ysgrifenu y diweddaf, fel yn edrych arno ei hun yn agos iawn i derfyn ei yrfa, ac yn mron a rhoddi heibio ei dabernacl, megys yr hysbysodd ei Arglwydd iddo; etto ni ddywedir i ni, gydag un mesur o sicrwydd, yn mha le, nac yn mha fodd, y gorphenodd ei ymdaith. Dywedir gan gyfeillion eglwys Rhufain, iddo gael ei osod i farwolaeth yn Rhufain tua'r un amser â Paul, trwy ei groeshoelio â'i ben i waered; canys edrychai arni yn ormod anrhydedd, i gael ei groeshoelio a'i ben i fynu, yn yr un modd â'i Arglwydd. Ond ammheuir hyn yn fawr gan eraill. Yr hyn sydd fwyaf tebyg i wirionedd yw, na bu erioed yn Rhufain, eithr iddo orphen ei yrfa, a selio ei dystiolaeth, trwy ddyoddef merthyrdod, yn ol yr hyn a ddywedodd ei Arglwydd wrtho yn Babilon, y man lle y bu yn gweinidogaethu yn benaf.*

ANDREAS, brawd Pedr, wedi iddo ymadael â gwlad Judea, a dramwyodd trwy Scythia, Thracia, ac Ethiopia, gan bregethu yr efengyl; a bernir iddo farw yn y lle diweddaf, trwy gael ei groeshoelio, yn amser Vespasian, yr amherawdwr Rhufeinig.

PHILIP oedd o Bethsaida. Dywedir iddo bregethu yr efengyl yn Armenia, Media, a Calchis, a chwedi hyny iddo gael ei groeshoelio, yn nghyd â dwy ferch iddo; ond nid yw yn amlwg pa bryd y cymmerodd hyn le.

NATHANAEL, neu, fel y gelwir ef weithiau, Bartholomeus, oedd enedigol o Cana, yn Galilea. Efe oedd un o ddysgyblion boreuaf ein Harglwydd. Dywedir iddo gyflawni ei weinidogaeth mewn rhanau o Arabia, Lyconia, a Syria, a dyfod yn mhen amser i Armenia. Yno y dywedir iddo gael ei osod i farwolaeth trwy ei flingo yn fyw, trwy orchymyn Astyages, yn ol y dull o ddienyddiad yn mhlith y Persiaid.

THOMAS, yr hwn a elwir weithiau Didymus, a lafuriodd, meddant, yn Bactriana a'r India, hyd ei heithafoedd pellaf, ac a fu yn foddion i ddychwelyd llawer o honynt hwy, ac o'i genedl ei hun nid ychydig, i'r ffydd. Gorphenodd ei yrfa yn y gwledydd hyny; ond ni ellir dywedyd gydag un math o sicrwydd pa bryd, nac yn mha fodd.

MATHIAS, yr hwn a debygid oedd yn un o'r deg dysgybl a thri ugain, a ddewiswyd ar y cyntaf i'r swydd apostolaidd, ar ol esgyniad ein Harglwydd, yn lle Judas fradwr, yr hwn a ymgrogodd. Gwedi iddo ymadael â Jerusalem, efe a aeth i Ethiopia, gan bregethu yr Arglwydd Iesu, ac yno y gosodwyd ef i farwolaeth trwy ei labyddio â meini; ond nid yw yn hysbys pa bryd y cymmerodd hyny le.†

* Sabine Hist. of the Christian Church, p. 29. † Fleetwood's Lives of the Apostles.

Yr oedd amryw o swyddogion, y rhai nid oeddynt gyffredin, heblaw yr apostolion, yn yr eglwysi y dyddiau hyny; megys prophwydi, neu rai yn rhagfynegi pethau i ddyfod; ac efengylwyr. Yr efengylwyr oeddynt, gan mwyaf, yn cyd-deithio â'r apostolion, yn cael eu hanfon ganddynt ar wahanol achosion i ymweled â'r eglwysi, ac yn eu cynnorthwyo i ysgrifenu eu llythyrau; megys y gwelir fod MARC yn gydymaith i Pedr, o dan olygiad pa un y meddylir iddo ysgrifenu yr efengyl sydd ar ei enw. Ioan, a gyfenwyd Marc, oedd hefyd yn gydymaith i Paul; ac er iddo ymadael âg ef unwaith, yr ydym yn cael ei fod gyda'r apostol yn ei garchariad cyntaf yn Rhufain,* a bod yr apostol yn ei orchymyn ef yn garedig i'r eglwys yn Colossia,† ac yn dywedyd wrth Timotheus ei fod yn fuddiol iddo ef yn y weinidogaeth;‡ yr hyn sydd yn ei wneuthur yn annhebyg iawn i fod yr un person â'r hwn oedd yn gyfaill Pedr, ac nid oes unrhyw debygolrwydd rhyngddynt, oddi eithr yn y cyfenw yn unig.

LUC, fel y dywedwyd, oedd un o'r efengylwyr, a chydymaith Paul mewn amryw deithiau, ac a anfonid ganddo i ymweled â'r eglwysi, neu a adawai ar ei ol mewn manau, i osod y cymdeithasau crefyddol yn eu hiawn drefn eglwysaidd, pan y byddai ef ei hun yn cael ei alw i le arall. Bernir iddo aros am o ddeutu saith mlynedd yn Philippi, ac mai yno yr ysgrifenodd ei efengyl. Nid oes amheuaeth nad efe oedd awdwr llyfr yr Actau, yn gystal â'r efengyl sydd ar ei enw. Pa un ai yr un oedd efe â Lucius o Cyrene, a ddywedir fod yn eglwys Antiochia,§ yr hwn y dywed Paul ei fod yn un o'i geraint,‖ sydd aneglur, a chwedi bod yn achos o ddadl. Yr oedd Luc yn ysgrifenydd doeth a medrus, yn meddu ar lawer o wylder a hunan-ymwadiad; ac y mae ei ysgrifau yn drysor gwerthfawr i'r eglwys. Glynodd gyda Paul trwy ei holl dywydd, hyd yn nod yn ei ddau garchariad—nid yw yn hysbys beth a ddaeth o hono wedi marwolaeth yr apostol. Nid oes genym unrhyw sail i gredu mai enw ffugiol yw Theophilus i ba un y cyflwyna Luc ei ysgrifau, amgen eiddo rhyw berson o enwogrwydd yn yr eglwys, adnabyddus i'r efengylwr.¶

TIMOTHEUS a TITUS, nid oeddynt apostolion, nac esgobion, na gweinidogion unrhyw eglwys neu eglwysi neillduol, fel yr haera rhai; eithr efengylwyr, neu gennadau anghyffredinol, ag oedd yn cyd-deithio â Paul, ac yn cael eu hanfon ganddo, megys eraill, i ymweled â'r eglwysi, neu a adawai ar ei ol ynddynt, dros amser, er eu hiawn sefydlu. Ond y fath yw tywyllwch yr amseroedd, fel y mae hanes y rhai hyn yn niwedd eu gyrfa, yn hollol dan orchudd—fel y mae yn cysgodi gorpheniad taith yr holl gennadau ffyddlon a gwresog, a fu yn taenu ar led beraroglau Cristionogaeth trwy y byd—fel na ellir dywedyd, gyda dim sicrwydd, yn mha le, na pha fodd y buont feirw.

Nid ým yn clywed dim, mewn unrhyw hanes, gyda'r gradd lleiaf o sicrwydd, am Barnabas, wedi ei ymadawiad â Paul, a'i fynediad i Cyprus—er fod yn gyhoeddedig ysgrif yr hon y dywedir gan rai mai epistol o'i eiddo ef ydyw; eithr, o herwydd ei waelder, y mae yn sarhad ar ei gymmeriad, i feddwl mai efe ydyw ei awdwr. Yr un modd yr ysgrifau a briodolir i Hermas, ydynt, o ran eu dull, eu hymadroddion, a'u cynnwysiad, yn annhebyg iawn, a dywedyd y goreu am danynt, o fod yn waith neb ag oedd yn byw yn yr oes honno, mor agos i ddyddiau yr apostolion. Fel y dywedodd un, "Credu, caru, a dyoddef, oedd y prif orchwylion ag oedd yn ol archwaeth

* Phil. xxiv. † Col. iv. 10. ‡ 2 Tim. iv. 11. § Act. xiii. 1. ‖ Rhuf. xvi. 21. ¶ Doddridge.

y Cristionogion yr oes honno, ac nid ysgrifenu."* Eithr mae genym epistol o eiddo Clement o Rufain, yr hwn nid amheuir yn gyffredin ei eirwiredd. Tybir gan lawer mai yr un Clement oedd hwn â'r un y coffâ yr apostol am dano, wrth ysgrifenu at y Philippiaid, ac y dywed mai ei gydweithiwr oedd, a'i fod yn un ag oedd â'i enw yn llyfr y bywyd.† Bernir ei fod yn weinidog yr eglwys oedd yn Rhufain, am naw mlynedd, o gylch y flwyddyn 80; ond nid oes sicrwydd pa bryd y dechreuodd, nac y terfynodd ei weinidogaeth. Yn yr amser yr oedd efe yno, cymmerodd ymfaniad le yn yr eglwys oedd yn Corinth, trwy iddi fwrw ymaith ei gweinidogion, heb un achos, tebygol, ond iddi gael ei hudo i hyny, trwy roddi gwrandawiad i ychydig o bersonau terfysglyd a thraws-lywodraethol ag oedd ynddi. Gyda golwg ar wneuthur y rhwyg i fynu, a iachâu y briw, ysgrifena Clement lythyr tra rhagorol, yn enw yr eglwys oedd yn Rhufain, at ei chwaer-eglwys oedd yn Corinth. Bernir mai hwn, o ran ei gynnwysiad, ei ysbryd, a'i ddull o ymadroddi, yw yr ysgrif sydd yn dyfod agosaf at yr ysgrythyrau, o bob ysgrifau hen a diweddar, ag sydd mewn bod. Darllenent ef, medd Irenæus ac eraill, mewn rhai eglwysi, y dyddiau gynt, yn mhlith y llyfrau canonaidd.

Yn yr epistol hwn, annogir y Corinthiaid, trwy y rhesymau mwyaf annogaethol, a'r ymadroddion mwyaf cynhyrfiol, i undeb a heddwch â'u gilydd. Ysgelerder eu pechod o godi yn erbyn, a bwrw ymaith eu gweinidogion, pa rai a roddes Duw yn arolygwyr drostynt—y canlyniadau niweidiol, a'r effeithiau annymunol a wnai hyny ar gredwyr a gwrthgredwyr—a ddangosir ynddo yn y modd egluraf a chadarnaf. Cydnebydd lythyrau Paul at eglwys Corinth, dan yr enw hyny, fel rhai wedi eu rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw, gan ddywedyd fel hyn, "Trwy genfigen y darfu i Paul o'r diwedd gyrhaedd gwobr ei amynedd, gwedi iddo fod saith waith mewn cadwynau—gwedi ei fflangellu, a'i labyddio â meini—gwedi iddo bregethu yr efengyl yn y dwyrain a'r gorllewin. Cafodd air da trwy ffydd, a phregethu cyfiawnder trwy yr holl fyd, hyd eithaf y gorllewin; dyoddefodd lawer, a merthyrwyd ef gan dywysogion y byd yma: ond gadawodd y ddaear, a chyrhaeddodd ddedwydd drigfanau anfarwoldeb, yn siampl nodedig i'r rhai sydd yn dyoddef o herwydd cyfiawnder. Cymmerwch i fynu (medd ef) ysgrifau y bendigaid apostol—pa beth a ddywed wrthych yn nechreu ei lythyr cyntaf? Yn wir, trwy ddwyfol ysbrydoliaeth, dyry i chwi gyfarwyddiadau, gyda golwg arno ei hun, a Cephas, ac Apolos; o herwydd yr oeddych chwi y pryd hwnw yn ymranu yn bleidiau. Ond eich ysbryd pleidiol nid oedd mor niweidiol y pryd hwnw, o blegid ei fod yn gweithredu yn erbyn yr apostolion, dynion ag oeddynt mor enwog mewn sancteiddrwydd, ac un a fawr gymmeradwyid ganddynt. Ond yn awr ystyriwch pwy ydynt hwy a ddarfu eich gŵyrdroi chwi, a thorri rhwymau eich cariad brawdol. Y mae yn beth cywilyddus, frodyr, yn gywilyddus iawn. O! na ddywedwch byth ar dir Cristionogaeth, fod yr hen eglwys flodeuog yn Corinth, wedi syrthio allan â'i bugeiliaid, o herwydd un neu ddau o ddynion gweiniaid, o ysbryd pleidiol. Yr hanes o hyn sydd nid yn unig wedi ein cyrhaedd ni, Gristionogion, ond wedi ymdaenu hefyd i blith anghredwyr; fel y ceblir enw ein Duw, o herwydd eich ynfydrwydd chwi; a'ch iechyd crefyddol chwithau a fawr beryglir." Coffeir darnau chwanegol o'r llythyr hyfryd hwn, fel yr elom yn mlaen, yn eu perthynas â'r hanesion canlynol.

* Milner's Church Hist. vol. i. p. 134. † Phil. iv. 3.

PENNOD VI.

Lle traethir am Helyntoedd yr Iuddewon, a Dinystr Jerusalem—y Cyfeiliornadau a flinodd yr Eglwys—yr Erledigaethau a ddyoddefodd—yn nghyd â'i Sefyllfa, hyd ddiwedd y Canrif cyntaf.

Yn Iuddewon oeddynt wedi bod y prif offerynau i ddwyn yn mlaen yr erledigaethau gwaedlyd a fu ar y Cristionogion, am fwy na deng mlynedd ar hugain, a buant yn achos marwolaeth llawer o honynt, yn ddiau, yn y modd creulonaf, nid yn unig yn ngwlad Judea, ond hefyd yn y gwledydd cymmydogaethol. Yn awr yr oedd amser eu gofwy hwythau yn nesâu, pan yr oedd eu gweddi arswydus, "Bydded ei waed ef arnom ni, ac ar ein plant," i gael ei hatteb, trwy fod digofaint Duw yn dyfod arnynt hyd yr eithaf, er eu dinystr ofnadwy.

Dywed Josephus, yr hwn oedd yn llygad-dyst, mewn rhan, o'r hyn oedd yn cymmeryd lle, ac o ddyoddefiadau yr Iuddewon, mai oferedd a fyddai iddo ef, na neb arall, amcanu gosod allan un o fil o'r holl drallodau blinion, a'r gwasgfeuon mawrion a oddiweddodd y genedl anffodus hon, o ddechreuad y rhyfel hyd ddinystriad Jerusalem. "Ni bu cenedl," meddai, "er creadigaeth y byd, mewn fath drallod, yn cael ei phoeni a'i difrodi gyda'r fath gigydd-dra, a hyny o herwydd ei hystyfnigrwydd, ei gwallgofrwydd, ei gwrthryfelgarwch, a'i chreulondeb ei hunan."

Ni ellir disgwyl dywedyd ond ychydig am helyntoedd blinion yr Iuddewon yn yr hanesyn hwn, ac ni ystyrir hyny yn angenrheidiol, gan fod llyfr gwerthfawr Josephus, yr hanesydd goreu am y pethau hyn, wedi cael ei roddi yn nwylaw y Cymry yn eu hiaith eu hunain. Etto, gan fod dymchweliad sefydliad gwladol ac eglwysig, a dinystr Jerusalem, yn dwyn perthynas mor agos â chrefydd yn gyffredinol, ac â llwyddiant yr eglwys Gristionogol yn neillduol, ni ellir myned heibio yn ddistaw, gydag unrhyw gyssondeb. Gwedi marwolaeth Herod, yr hwn a yswyd gan bryfed, dychwelodd eu gwlad yn ol i fod yn dalaeth yn yr amherodraeth Rufeinig: ond yr oedd yr Iuddewon yn cael eu gadael, a'u hamddiffyn, yn y meddiant o'u rhyddid a'u breintiau gwladol, a chrefyddol, fel arferol, i raddau helaeth. Y rhaglawiaid a anfonwyd i lywodraethu y dalaeth er y pryd hwnw, oedd y rhai canlynol: Cuspius Ffadus, ac ar ei ol ef daeth Tiberius Alexander, yr hwn oedd Iuddew gwrthgiliedig. Gwedi ymadawiad hwn, daeth Ventidus Cumanus, yn amser rhaglawiaeth pa un y bernir i'r rhyfel a ddiweddodd yn eu llwyr ddinystriad hwy, fel cenedl sefydliadol, gymmeryd lle, yn ei ddechreuad. Achlysurwyd hyny yn y modd canlynol: Ar y gwyliau gosodedig, yr oedd lluaws aneirif o Iuddewon o bob gwlad yn dyfod

* Milner's Church Hist. Vol. i. 142.

i Jerusalem, y rhai oeddynt wedi colli ysbryd heddychlawn, i raddau mawr; ac er mwyn cynnal pethau mewn trefn, yr oedd gorfod ar y rhaglaw i osod milwyr i wylied pyrth y deml, rhag iddynt niweidio eu gilydd, ac i bethau annymunol gymmeryd lle. Ar ŵyl y Pasg, un o'r milwyr, ag oedd ar y gwasanaeth hwnw, a noethodd ei noethni yn ngwydd yr Iuddewon, er eu gwaradwyddo, fel rhai enwaededig. Llanwodd hyny hwy â'r fath derfysg, ac ysbryd gwrthryfelgar, fel y gwnaethant achwyniad wrth y rhaglaw, yr hwn a geisiodd eu tawelu, dros amser, trwy foddion esmwyth; eithr pan nad oedd dim yn tyccio, ond bod y cythrwfl yn chwanegu, efe a ddygodd y milwyr i'r lle, i'r dyben i wasgaru y terfysgwyr. Yn yr amgylchiad, lladdwyd o'r Iuddewon ddeng mil, medd rhai, a dywed eraill ddeng mil ar hugain. O hyny allan ni bu iddynt lonyddwch na heddwch.

Daeth CLAUDIUS FFELIX i'r rhaglawiaeth, yn lle Cumanus, yr hwn ni feddai y gradd lleiaf o egwyddorion cyfiawnder yn ei fynwes, dan raglawiaeth pa un y bu Paul yn garcharor, ac y bu yn areithio ger ei fron, nes ei ddychrynu. Gwaethygodd sefyllfa yr Iuddewon yn fawr yn yr amser hwnw. Heidiodd y wlad â'r dinasoedd o yspeilwyr, gau brophwydi, gau gristiau, a thwyllwyr, yn hudo y bobl yn mhob modd, ac yn eu terfysgu; a hwy a arferent y llofruddiaethau mwyaf alaethus. Tua'r amser hwn y cododd yn eu plith y dynion a elwid *Sicarii*, neu ddirgel-lofruddion, pa rai a gyflogid gan y naill a'r llall o honynt, i gymmeryd ymaith fywyd ei wrthwynebwr, mewn modd dirgelaidd; ac y mae yn rhy anhawdd mynegi nac amgyffred am y cyfrwysdra a'r castiau mileinig a arferai y rhai hyn, i gyflawni eu gorchwylion adgas. Ffelix, yn lle rhoddi attalfa, yn y mesur lleiaf, ar y rhai hyn, a wnai ddefnydd o honynt i gymmeryd ymaith fywyd gwrthddrychau ei anfoddlonrwydd, yn y modd mwyaf anghyfiawn, er chwanegu ei gyfoeth, yr hyn oedd prif wrthddrych ei ymofyniad.

Yn lle Ffelix, daeth FFESTUS i'r rhaglawiaeth. Yr oedd y fath lygredigaeth wedi dyfod i mewn, gyda golwg ar y swydd archoffeiriadol, yn awr, fel y gwerthid hi i'r uchaf ei geiniog; ac yr oedd hi wedi disgyn, trwy ryw foddion, i law Agrippa, brenin Calchis; ac yn ol ei ewyllys ef, rhoddid hi i'r neb a fynai. A chymmaint oedd y newidiadau, a chyn amled y cymmerent le, o barth i'r gweinyddwyr, fel yr oedd yn eu plith luaws mawr o archoffeiriaid diswyddedig. Pan ddaeth Ffestus i'r dalaeth, yr oedd y rhai hyn mewn rhyfel brwd â'u gilydd, o herwydd fod yr offeiriaid diswyddedig yn arddelwi rhan o'r degymau, &c. at eu cynnaliaeth, yr hyn a wrthwynebai y lleill. O'r diwedd daethant â'r peth i'w derfynu trwy fin y cleddyf.

Yr oedd yn yr amser hwnw dri rhyfel ar unwaith yn ngwlad Canaan; rhyfel cyffredin yr Iuddewon yn erbyn y Rhufeiniaid, rhyfel yr offeiriaid â'u gilydd, pa rai a ddefnyddient y Sicarii i ddwyn y difrod a'r galanasdra mwyaf echrydus y naill ar y llall; ac yr oedd yno heidiau o yspeilwyr cymmydogaethol wedi dyfod am draws y wlad, gan ei hanrheithio, trwy ladd, llosgi, a lladratta yr oll a ddeuai yn eu ffordd, yn ddiarbed.

Yn mhen ychydig bu farw Ffestus, a daeth i'w le un ALBINUS, yr hwn, o herwydd ei ormes, ei drahausder, a'i greulondeb, oedd gymmaint yn waeth na neb a fu o'i flaen, fel y dywedir eu bod oll yn angelion mewn cydmariaeth iddo ef. Er hyn oll, nid oedd yr Iuddewon yn ystyried, nac yn ymostwng o herwydd eu pechodau; eithr y terfysgiadau a'r rhyfeloedd cartrefol, a phob annhrefn, oedd yn mwyhau yn feunyddiol.

Gwedi dwy flynedd, galwyd Albinus adref, a danfonwyd GESSIUS

FFLORUS yn ei le, yr hwn oedd y diweddaf a'r gwaethaf oll; y mae Josephus ei hun yn methu cael geiriau digon ëang i osod allan ei ddrwg nwydau, nac unrhyw anghenfil arswydus, a osodai allan ei ymddygiadau trachwantus a bwystfilaidd, yn ddigon nerthol, trwy unrhyw gydmariaeth. Yn hawdd y gellid edrych arno yn dyfod i blith yr Iuddewon, fel dïenyddwr i'w poeni a'u lladd, yn hytrach nag fel llywydd a rhaglaw i'w llywodraethu. Yr oedd, yn ei holl ymddygiadau, fel pe buasai yn amcanu, trwy eu poenydio yn mhob ffordd a allasai, i'w dwyn allan i ryfel cyhoeddus yn erbyn y Rhufeiniaid, gan feddwl y cai y difyrwch o'u gweled yn dyfetha eu gilydd, neu yn cael eu difa gan eu gwrthwynebwyr. Yn yr amcan anghenfilaidd, efe a lwyddodd. Canys yn amser ei raglawiaeth ef, torodd y rhyfel allan yn egniol; a diweddodd yn ninystr Jerusalem, a llwyr ddymchweliad yr Iuddewon.*

Gwedi teyrnasu o Nero agos i bedair blynedd ar ddeg, efe a fu farw, trwy osod terfyn ar ei einioes ei hun, yn y flwyddyn 68 o'r cyfrifiad cyffredin; a meddiannwyd ei orsedd gan Galba, dros ychydig ddyddiau rhagor i saith mis. Gwedi hyn daeth Otho i'r orsedd, am dri mis a deuddydd; ac ar ei ol ef daeth Vitelius i'r orsedd, dros wyth mis a phum diwrnod. Ar ol hyny gwnaed Vespasian, ag oedd yn faes-lywydd ar y fyddin Rufeinaidd yn erbyn yr Iuddewon, yn amherawdwr, yn y flwyddyn 69; a theyrnasodd naw mlynedd, chwe mis, a pedwar diwrnod.† Lle gwelir fod pump o wahanol amherawdwyr wedi eistedd ar orsedd Rhufain, mewn llai na deunaw mis. Mor gyflawn ac eglur y cyflawnir y dywediad hwnw, sef, *fod dull y byd hwn yn myned heibio!*

Yn y flwyddyn 66, dechreuodd y ddadl gymmeryd lle rhwng yr Iuddewon a'r Groegiaid, i bwy y perthynai Cæsarea; yr Iuddewon a haerent mai iddynt hwy y perthynai, a'r Groegiaid mai iddynt hwythau. O herwydd hyn, y Groegiaid a wnaethant ryw sarhad a dirmyg i'r Iuddewon yno, pan yn y cyflawniad o'u defodau crefyddol. Dygwyd y peth ger bron Nero, i'w derfynu, yr hwn a roddes ei farn yn erbyn yr Iuddewon. Gyrodd hyn hwynt oll i'r fath wallgofrwydd, trwy Judea, a'r gwledydd cymmydogaethol, fel y codasant i fynu arfau, ac y cyhoeddasant ryfel yn erbyn yr amherodraeth, i fwrw ymaith, meddent, yr iau Rufeinaidd oddi arnynt. Dygwyd y rhyfel yn mlaen, o ochr y Rhufeiniaid, dros amser, gan Cestius Galus, rhaglaw Syria. Lluosogrwydd y rhai a laddwyd, yn mhob man, o bob ochr, oeddynt aneirif; nid oedd yn arbedol unrhyw sefyllfa nac oedran, o'r henafgwr hyd y baban. Trwy holl ddinasoedd Judea, a'r gwledydd cymmydogaethol, dygent yn mlaen y rhyfel mwyaf gwaedlyd. Er mai yr Iuddewon yn gyffredin oedd yn cael y gwaethaf, etto nid oeddynt yn ol o ad-dalu i'w gwrthwynebwyr, hyd eithaf eu gallu, yn mhob lle ag y caent gyfleusdra.

Gwedi i Galus gymmeryd y maes, ac arwain byddin luosog o wyr, medrus i drin arfau rhyfel, i wlad Judea, ni bu mor llwyddiannus ag y disgwylid; yr Iuddewon a ennillasant y dydd arno amryw weithiau, yr hyn a'u mawr galonogodd; ond yn y diwedd a drôdd er eu dinystr. Canys llanwodd hyny hwy â'r fath wag-hyder, o fod y Nefoedd yn bleidiol i'w hachos, nes eu gwneuthur yn hollol annheimladwy, yn erbyn pob cynnygion ac annogaethau, i roddi eu harfau i lawr. Galwyd Galus adref, a danfonwyd Vespasian, a Titus ei fab, yn ei le ef, i ddwyn yn mlaen y rhyfel yn erbyn yr Iuddewon, gydag egni.

* Josephus's Hist. of the War. † Goldsmith's Hist. of Rome, p. 38,-419.

Vespasian oedd ddyn o deulu isel eu hamgylchiadau, ei daid oedd filwr cyffredin, a'i dad ond ychydig gwell; eithr yr oedd efe wedi ymddyrchafu trwy ei ddoethineb, ei ddewrder, a'i deilyngdod milwraidd, hyd y lle blaenaf yn y fyddin. Pan yn yr Almaen a Phrydain, yr oedd wedi gwneuthur y fath rymusder, yn narostyngiad amryw daleithiau gwrthryfelgar, yn y parthau hyn, fel yr oedd ei glod yn uchel yn mhlith ei gyfeillion, a'i enw yn ddychryn i'w wrthwynebwyr. Hwn, a'i fab Titus, wedi casglu byddin o ddeugain mil o wyr, cwbl ddysgedig i ryfel, a ddaethant i Galilea, yn y flwyddyn 68, ac a'i darostyngasant yn fuan, trwy gyflawn oruchafiaeth. Rhoddasant y trigolion i fin y cleddyf, ac a'u cymmerasant yn garcharorion, mor llwyr, fel mai braidd y dihengai un i fynegi i'r lleill y modd y bu arnynt. Llosgwyd a dinystriwyd y dinasoedd oll, gan eu gwneuthur yn gydwastad â'r llawr. Gorchfygwyd y Samariaid, a thrigolion mynydd Tabor; a gwnaethwyd â hwynt gan Titus fel y gwnaed â'r Galileaid. Gwedi hyn, dychwelodd at ei dad i Cæsarea. Yno rhoddasant ychydig seibiant i'r milwyr, er eu hadfywiad a'u hadnerthiad, cyn myned i fynu yn erbyn Judea a Jerusalem.

Tua'r pryd hwn y gwybuant am farwolaeth Nero, a bod Galba yn teyrnasu yn ei le. Danfonwyd Titus yn ddiattreg i Rufain, er cyflwyno eu hymostyngiad i'r amherawdwr newydd, ac i ofyn ei gyfarwyddiadau ynmhellach yn nghylch y rhyfel. Ond cyn iddo allu cyrhaedd pen ei daith, yr oedd Galba wedi myned i ffordd yr holl ddaear, ac Otho ar yr orsedd. Erbyn hyn, nid oedd ar Vespasian nemawr o frys i ddwyn y rhyfel yn mlaen yn mhellach yn erbyn yr Iuddewon, hyd onid oedd swyddogion eraill y fyddin yn beio arno yn fawr. Bernir mai ei resymau dros hyny oedd, gadael amser i'r holl Iuddewon, ag oedd o dymherau terfysglyd, o bob parth, i ddyfod i Jerusalem, er amddiffyn eu gwlad a'u breintiau, fel y gallai gael cyfleusdra i wneuthur dyben arnynt ar unwaith. Hefyd yr oedd yn rhagweled mai po fwyaf o honynt a ddeuai yno, mai lleiaf i gyd o waith a fyddai iddo ef wrthynt. Canys yr oeddynt mor amrywiol eu golygiadau, â'r fath ymraniadau yn eu plith, a than lywodraeth y fath dymherau creulawn, y naill tu ag at y llall, fel yr oedd yn hawdd dirnad yr hyn a ddeuai o honynt wedi iddynt ymgasglu yn nghyd; a thrwy ddyfodiad cynnifer o honynt yn nghyd, yr oedd yn hawdd gweled y syrthient yn fuan iawn yn ysglyfaeth i newyn, ac amryw heintiau; a thrwy y pethau hyn, yr oedd yn hawdd i'w darostwng. Nid yw yn annhebyg ei fod ef yn disgwyl am bethau amgenach na goruchafiaeth ar yr Iuddewon, a'u darostyngiad iddo, sef disgwyl am amherodraeth Rhufain, yr hon hefyd a ddaeth iddo. Cyhoeddwyd ef yn amherawdwr gan y fyddin mewn amryw fanau tra yr oedd Vitelius yn fyw; ac wedi ei farwolaeth, cyhoeddwyd ef gan y senedd yn Rhufain. Yn fuan wedi hyn, aeth ei hun tua Rhufain, i dderbyn ei anrhydedd, a gadawodd y fyddin, dan olygiaeth ei fab, yn Alexandria, gyda gorchymyn iddo fyned yn ddioed yn erbyn Judea a Jerusalem.

Tra gadawodd y Rhufeiniaid ychydig seibiant i'r Iuddewon, heb iddynt deimlo llymder eu harfau, ymddygent tu ag at eu gilydd, yn Jerusalem, yn y modd creulonaf; fel gwallgofiaid, llabyddient, poenent, a llofruddient y naill y llall, yn llawer tebyccach i uffernolion nag i ddynion, mewn byd o amser. Ymranasant yno yn ddwy neu dair plaid, a phob un am gael y trechaf. Ioan o Gischala, ac un arall o'r enw Simon, oeddynt wedi dyfod i'r ddinas, a chwedi gosod eu hunain yn benaethiaid ar ryw heidiau o Iuddewon crwydraidd, ac a ymosodasant yn erbyn pendefigion a thrigolion cyn-

henid Jerusalem, nes oedd yr holl ddinas yn un twrf rhyfel, ac yn un olygfa o laddedigion o ben bwy gilydd. Dywedir nad oedd o fewn i'r ddinas yn unig, yn cael eu dyfetha trwy y cleddyf, ddim llai na deuddeg mil y dydd, am ddyddiau lawer. Gwedi iddynt ddyfetha a gwasgaru pendefigion cyntefig y ddinas, a chael yr holl ddinas o dan eu llywodraeth eu hunain, ymgynnenasant â'u gilydd, a dyfethasant y naill y llall, yn gwbl yn ol disgwyliadau Vespasian.

Cynnyddodd eu caledwch a'u creulondeb i'r fath raddau, nes oedd eu henw yn ddychrynadwy, ac yn arswyd i'r holl genedl; ac ni feiddiai neb alaru na dangos y gofid lleiaf o herwydd llofruddio ei gyfaill agosaf, na gwneuthur iddo gladdedigaeth. Nid oedd modd yn awr i neb allu llai na gweled fod dinystr Jerusalem yn prysuro yn gyflym iawn. A phan ddarllenom Josephus, yr hwn a gadarnheir yn ei hanesyddiaeth gan Tacitus, hanesydd Rhufeinig, ni ellir llai na gweled pa mor gywir a manylaidd y cyflawnwyd yr hyn a ragddywedodd ein Harglwydd yn Matt. xxiv. Marc xiii. a Luc xxi. am y pethau hyn, a'r arwyddion rhyfedd a fyddent yn rhagflaenu dinystr y ddinas honno.

Cychwynodd Títus a'i fyddin tua Jerusalem ychydig o wythnosau cyn gŵyl y Pasg, a chwedi ei ddyfod yn agos, arosodd heb osod y gwarchae o amgylch y ddinas, hyd nes i'r ŵyl gymmeryd lle. Canys gwybod yr oedd, po amlaf y byddai y geneuau a fyddai o fewn, mai lleiaf i gyd o amser ac o waith i'w wneuthur a gai efe gyda hwynt. A chymmaint oedd gwag-hyder yr Iuddewon, na ddeuai arnynt niwaid, yn enwedig tra yr oeddynt, yn ol eu tybiaeth hwy, yn cadw gŵyl i'r Arglwydd, fel yr aethant o bob parth i mewn i'r ddinas i gadw yr ŵyl. Yn y cyfamser, pan oedd miloedd wedi ymgasglu o bell ac agos i'r ddinas, dechreuodd y gwarchae. Yn fuan iawn goddiweddwyd hwy â'r newyn trymaf, ac â'r heintiau echryslonaf, ac yr oedd yn eu plith y fath ymraniadau, rhwygiadau, a lladdiadau, fel nad oedd y ddinas oll — y deml ei hun, yn bresennol — ond trigle celaneddau dynion meirwon! Danfonodd Titus, Josephus, eu cydwladwr, ag oedd yn awr yn myddin y Rhufeiniaid, attynt, i erfyn arnynt i ymostwng, er achub eu bywydau. Yn ei hanesyddiaeth, y mae rhai o'i areithiau hyawdl, ei ymresymiadau cadarn, a'i erfyniadau taer, y rhai a draddododd efe i'w clywedigaeth, er eu hennill i roi heibio eu gwrthryfel, ac i ymostwng, i'w cael hyd heddyw. Eithr hwy ni fynent wrando, ond dirmygent yr oll a ddywedai, yn y modd diystyraf; ymgyndynasant yn eu ffyrdd, gan wrthod eu trugaredd eu hunain, a hyny oddiar wag-obaith, na byddai i'r ddinas gael ei rhoddi yn llaw y Rhufeiniaid.

Yr oedd Jerusalem, wrth naturiaeth, a thrwy fedrusrwydd a nerth celfyddyd, yn un o'r lleoedd cadarnaf. Yr oedd tri o furiau cedyrn o'i hamgylch yn mhob man lle yr oedd yn esgynadwy, a thyrau cedyrn a lluosog ar bob un o'r rhai hyny. Y mur cyntaf, yr hwn a elwid yr hen fur, a ystyrid yn anysgogadwy, gyda golwg ar ei drwch a'i gadernid; ac arno ddim llai na thriugain o dyrau uchel a chadarn. Ar yr ail fur yr oedd pedwar ar ddeg o dyrau; ac ar y trydydd bedwar ugain. Y mur cyntaf oedd wedi ei adeiladu ar fryniau uchel, fel yr oedd cwmau dyfnion iawn islaw iddo; a'r lleill oedd o uchder mawr. Cylch y ddinas o amgylch oedd tua phedair milltir. Pan ymddangosodd Titus gyntaf o'i blaen hi, unodd pleidwyr Ioan a Simon â'u gilydd, a gwnaethant ymosodiad egniol a ffyrnig ar fyddin y Rhufeiniaid, nes peri ynddi radd o derfysg, ac iddi gilio yn ol, mewn rhai parthau. Ond yn fuan gorfu ar yr ymlidwyr droi yn ol, a ffoi i'r ddinas, gyda lladdfa fawr.

Tra parhaodd y gwarchae, nid dichonadwy cael geiriau addas i osod allan, nac amgyffred annedwyddwch y trueiniaid gwarchaëedig. Dros yr holl amser hwnw, llifai heolydd y ddinas gan waed; y tai a lenwid gan gyrph meirwon; y newyn du, a'i ganlyniadau chwerwon, a orchuddiai bob wyneb; y mynwesau a ddylasai fod yn llawn o diriondeb a thosturi, oeddynt wedi eu llenwi â chreulondeb ac annheimladrwydd, fel y lladdent y naill y llall; a'r gwragedd tosturiol a boneddigaidd a laddasant, a ferwasant, ac a ymborthasant ar blant eu hamysgaroedd! Pan y dywedwyd wrth Titus, am un Miriam, a wnaethai felly, dywedir iddo addunedu y pryd hwnw i hollol ddinystrio y fath ddinas, fel na byddai i'r haul dywynu byth mwy ar y cyfryw; a chan fod yr Iuddewon yn gwrthod ei radlawn gynnygiadau, ac yn parhau i fyned yn mlaen yn wyneb y fath amgylchiadau anobeithiol, ac yn eu hystyfnigrwydd yn gwneuthur y fath weithredoedd ysgeler, y mynai gladdu y coffadwriaeth o'r cyfryw bethau yn adfail eu dinas. Ymborthent ar yr ymborth mwyaf afiachus, a hyny mewn prinder mawr. Yr oedd un mesur o ŷd bara yn gwerthu er chwe can coron. Chwilient a chloddient y pyllau am gelaneddau ysgrybliaid meirwon, wedi hanner pydru, er eu cael i ymborthi arnynt!

Gormod gwaith i neb ddywedyd, yn agos i gywirdeb, rifedi y rhai a fuant feirw yn y ddinas annedwydd hon, o ddechreu y gwarchae hyd ei ddiwedd. Dywedir gan dystion credadwy, fwrw allan trwy un o byrth y ddinas, o'r 14 o Ebrill hyd y 1 o Orphenaf, ddim llai na chant a phymtheg o filoedd, wyth cant a phedwar ugain, o gyrph meirw. Bernir fwrw allan trwy holl byrth y ddinas, ddim llai na chwe chan mil o gyrph meirw, a bod tai mawrion wedi cael eu cau i fynu, yn llawn o honynt yn y ddinas. Parhaodd y gwarchae o'r 14 o Ebrill hyd yr 8 o Fedi, yn y flwyddyn 70, o'r cyfrifiad cyffredin, pan y syrthiodd yr holl ddinas i ddwylaw y Rhufeiniaid. Yna llosgasant hi â thàn, a dymchwelasant hi i'r llawr, fel na adawyd o honi ond tri o dyrau, er dangos i'r oesoedd a ddeuai ei chadernid, ac ychydig o un o'r muriau i fod yn gysgod i'r gwarchgeidwaid. Mynai Titus arbed y ddinas, yn enwedig y deml, yr hwn oedd adeilad heb ei ail; eithr nid oedd alluadwy. Er ceisio diffodd y tân, a gynneuwyd gan un o'r milwyr yn y deml, ni allai neb ei wneud, a hyny, mewn mesur, o herwydd ffyrnigrwydd y milwyr. Ond fel y dywed Josephus, dinas ag oedd, gan Ragluniaeth y nef, wedi cael ei rhoddi yn gwbl i ddifrod oedd, ac nis arbedid; ac fel y dywed ein Harglwydd, *Ni adewir yma garreg ar garreg a'r nis dattodir.*

Dywedir fod Titus yn cyfaddef, dan wylo, y rhaid fod y dynion hyny wedi anfoddloni y Goruchaf yn fawr, a'i fod Ef yn ymladd yn eu herbyn, amgen na buasai yn ddichonadwy iddo ef, na neb arall o'u gelynion, allu eu gorchfygu, yn y cyfryw le cadarn. Tystia hefyd, ei fod ef yn hollol ddieuog oddi wrth eu gwaed, a'i fod yn gorwedd wrth eu drysau eu hunain, gan eu bod mor ddall ac ystyfnig yn gwrthod ei holl gynnygion iddynt. A phan yr oedd yn dyfod heibio i'r lle ryw amser wedi hyny, dywedir iddo wylo yn hidl, wrth feddwl am ardderchawgrwydd y lle, a'r difrod a fu yno, ac iddo deimlo adgasrwydd mawr at yr Iuddewon, y rhai a barasant iddo ddwyn y fath draha arnynt, a dinystrio lle mor enwog.

Croeshoeliwyd cynnifer o'r Iuddewon, fel yr oedd prinder coed o amgylch y ddinas, er gwneuthur croesau, i'w gosod arnynt. Bernir farw, yn mhob modd, ac yn mhob lle, o ddechreu y rhyfel hwn hyd ei derfyniad, yn ninystr Jerusalem, agos i filiwn a hanner o hiliogaeth Abraham, a chymmeryd o honynt yn garcharorion agos i gan mil, pa rai a werthwyd i holl

genhedlaethau'r ddaear. Ni ymddengys y rhifedi hyn yn ormodedd, pan yr ystyriom fod yr Iuddewon i gyd, trwy yr holl wledydd, lle yr oeddynt yn wasgaredig, wedi cael eu gwahodd i ddyfod i'w gwlad, a'u hannog i gymmeryd i fynu arfau yn erbyn y Rhufeiniaid, ac amddiffyn ac adennill eu gwlad, eu rhyddid, eu crefydd, a'u dinas sanctaidd. Yr Iuddewon oeddynt yn mhob lle yn llawn o sêl dros y pethau hyn, fel y gwnaethant gyd-ffurfio yn ddiattreg â'r gwahoddiad, ac y daethant, gan mwyaf, o bob parth i'r ddinas a'i hamgylchoedd; a thrwy hyny buant yn gyd-gyfranogion o'r dinystr cyffredin.

Gwelir cyfiawnder y Nefoedd yn dysgleirio yn hyn. Yr oedd yr Iuddewon—y rhai, yn mhob lle y preswylient, oeddynt yn gyd-wrthwynebwyr i Grist a'i achos, yn gyd-euogion yn nghroeshoeliad Iesu Grist, ac yn cyd-erlid ei weision—yn awr yn cael eu gadael i fod yn gyd-ddyoddefwyr o dan y gospedigaeth. Yn amser y gwarchae, aeth o ddeutu deugain mil o drigolion y ddinas allan at y maes-lywydd buddugoliaethus, ac a wnaethant eu hymostyngiad iddo, i ba rai y rhoddodd efe eu cyflawn ryddid, i fyned i drigo i'r parth y mynent o'r wlad. Wrth bob tebygolrwydd, yr oedd y rhan fwyaf o'r rhai hyn yn Gristionogion.

Dywedir yn gyffredin i'r Cristionogion ag oedd yn Judea a Jerusalem, pan welsant yr arwyddion rhagddywededig gan ein Harglwydd, uwch ben, ac yn y ddinas, ac o'i hamgylch, ffoi-i ddinas fechan, a elwir Pèla, ag oedd tu hwnt i'r Iorddonen. Mae yn wirionedd iddynt ffoi, fel mae lle i feddwl na bu neb o honynt farw yn ninystr y ddinas; eithr ai i Pèla y ffoisant, sydd amhëus. Yy hyn sydd fwyaf tebyg i wirionedd ydyw, iddynt ffoi i amryw fanau.

Heb sylwi yn mhellach yn bresennol ar ddirfawr draha y bobl annedwydd hyn, gellir sylwi fod chwyldroad y genedl, a dymchweliad sefydliad gwladol a chrefyddol yr Iuddewon, yn brifnod amser *(epoch)* o neillduol bwys yn hanes yr eglwys Gristionogol. Canys trwy hyn y symmudwyd ymaith un o'r prif rwystrau oedd ar ffordd ei llwyddiant—yn hyn eglurwyd gwirionedd Cristionogaeth, mewn graddau mawr, trwy gyflawniad cyson o amryw brophwydoliaethau a gynnwysai yr efengyl, perthynol i'r amgylchiad hwn—a thrwy hyn dangosodd yr Arglwydd arwyddion eglur o'i anfoddlonrwydd yn erbyn erlidwyr, dirmygwyr, a gwrthodwyr ei gennadau a'i drefn rasol.

Trwy gydmaru yr hanesyddiaeth a rydd Tacitus a Josephus am ddymchweliad y genedl Iuddewig, â'r hyn a ddywedir yn y Testament Newydd, gwelir gwirionedd y sylwadau uchod yn eglur. Yn yr amgylchiadau dinystriol a ddigwyddodd i Jerusalem, rhoddwyd terfyn hollol ar oruchwyliaeth Moses, yr hon a barhaodd am amser hirfaith, yr hon oedd sylfaen neillduolrwydd a derchafiad cenedl Israel; o blegid pan ddinystriwyd y ddinas a'r deml, collasant eu grym, aeth eu llywodraeth wladol ac eglwysig o'u mysg. O hyny allan, y mae gweddill y genedl ag oedd, tra y cadwai yn agos at ei Duw, yn sefyll yn uchel mewn bri ac enwogrwydd, yn wasgaredig ac yn grwydredig ar hyd wyneb yr holl ddaear, mewn dirfawr warth, ac yn wrthddrychau diball o gasineb ac erledigaeth o oes i oes. Ond etto, er hyny, yn wyneb y pethau hyn oll, y maent yn cael eu cynnal hyd heddyw yn bobl luosog a neillduedig. Maent wedi aros ddyddiau lawer "heb frenin, heb dywysog, heb aberth, heb ddelw, heb ephod, a heb teraphim," fel arwyddion parhaus yn mhob lle o wirionedd y grefydd Gristionogol; "a chanddynt yr addewid hon, y dychwel meibion Israel, ac y ceis-

iant yr Arglwydd eu Duw, a Dafydd eu brenin, ac a barchant yr Arglwydd a'i ddaioni, yn y dyddiau diweddaf." Nid yn unig syrthiodd barnau yr Arglwydd ar ddinasoedd a threfydd yr Iuddewon, ond syrthiasant hefyd ar y wlad, o herwydd eu pechodau, fel y daeth yn anrhaith, yn ddiffrwyth, ac yn anialwch, mewn cydmariaeth i'r hyn oedd o'r blaen, fel nad yw yn alluog i gynnal ond nifer bychan o drigolion yn bresennol, i'r hyn a arferai wneuthur.

Gwedi terfynu y rhyfel blin hwnw yn ngwlad Judea, a dychwelyd o Titus i Rufain, anrhydeddwyd ef a'i dad, â gorfoledd buddugoliaethus trwy yr arwyddion mwyaf harddwych a'drudfawr a allent gael. Dyma y tro cyntaf y gwelwyd y tad a'r mab, ar yr un pryd, yn cael eu cyd-anrhydeddu yn Rhufain, mewn modd cyhoeddus. Fel ag yr oedd pob peth a feddyliai dynion fod yn hardd, yn fawr, ac yn werthfawr, yn cael eu defnyddio, a'u dwyn i enwogi eu mynediad gorfoleddus; felly dygwyd yr holl lestri aur a gymmerasai Titus o'r deml yn Jerusalem, ac yn eu plith, (ac nid y peth lleiaf) yr oedd Llyfr cyfraith yr Aglwydd, gwedi ei brydferthu yn hynod âg aur, ac â meini gwerthfawr. Y bwa a adeiladwyd ar yr achos hwn, ar ba un yr oedd y brwydrau a ennillodd Titus ar yr Iuddewon, wedi eu cerfio, oedd yn aros yn gyfan yn Rhufain hyd yn ddiweddar, os nid etto. Adeiladodd Titus deml heddwch yn Rhufain, yn mha un y gosododd yr holl ddodrefn a ddygasai o'r deml yn Jerusalem, i gadw. Ac hauwyd teml Janus, fel arwydd o heddwch cyffredinol, yr hon nid oedd wedi bod yn nghau er ys amryw flynyddau.*

Gwedi terfyniad y rhyfeloedd hyn yn ngwlad Judea, a thra parhaodd teyrnasiad Vespasian, a'i fab Titus, nid yn unig adferwyd heddwch a thawelwch i'r wladwriaeth yn gyffredinol, ond cafodd yr eglwys lonyddwch, a bu yn amser llwyddiannus iawn arni; a theyrnasiad y ddau yn nghyd oedd o ddeutu deuddeng mlynedd. Nid oedd Titus, ar y cyntaf, yn rhoddi arwyddion boddlongar, ac efe a fu yn debyg o fod yn anmhoblogaidd, fel amherawdwr; eithr yn fuan efe a newidiodd, ac a ennillodd gymmeradwyaeth a serchiadau ei holl ddeiliaid; a theyrnasodd er mawr foddlonrwydd i'r cyffredin. Dywedir mai cymmaint oedd ei ofal am wneuthur daioni i ryw un bob dydd, fel yr ystyriai y dydd na wnai ddim, yn ddydd wedi ei golli. Unwaith, ar swpper, yn mhlith amryw o'i gyfeillion, daeth i'w gof, na wnaethai ddim y dydd hwnw, gwaeddodd allan, *O gyfeillion, dyma un dydd wedi ei golli;* canys nid wyf yn gwybod i mi wneuthur dim daioni i neb heddyw! Onid yw hyn, mewn amherawdwr Paganaidd, yn argyhoeddiad dwys i lawer a broffesant eu hunain yn Gristionogion? Ond byr ac ansicr iawn yw pob mwyniant tymhorol; er mawr alar i'r holl amherodraeth, Titus a fu farw, yn yr unfed flwyddyn a deugain o'i oedran—pan nad oedd wedi teyrnasu ond dwy flynedd, dau fis, ac un diwrnod, wedi marwolaeth ei dad—trwy gael ei wenwyno gan ei frawd ei hun, Domitian, yr hwn a'i canlynodd ef yn yr orsedd amherodrol.

Ymddygodd Domitian, am amser, yn lled weddus, wedi ei ddyfodiad i'r amherodraeth; ond gwedi hyny, efe a ddangosodd yn amlwg na byddai yn ol i Nero ei hun, mewn pob drygioni, trythyllwch, oferedd, a chreulondeb.† Gwedi iddo hir ymarfer â chreulondeb tu ag at lawer iawn o'i ddeiliaid, o

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 194. † Goldsmith's Hist. of Rome, p. 419—429. and Gibb's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. i. p. 317.

bob sefyllfa a graddau, yn yr amherodraeth, mewn amryw ffyrdd, efe a ddaeth yn ddigon caled i allu codi erledigaeth yn erbyn y Cristionogion, sef trwy alltudio llawer o honynt i anialwch pellenig, a gosod amryw eraill, i farwolaeth yn y modd truenusaf, heb unrhyw fai i'w osod yn eu herbyn, ond eu bod yn dilyn eu crefydd. Gofynir yn aml, pa fodd y daeth y llywodraeth Rufeinaidd i attal rhyddid crefyddol Cristionogion, ac i'w herlid yn achos eu crefydd, pan oeddynt yn gadael rhyddid i bawb eraill, trwy yr holl amherodraeth, i ddilyn eu crefydd, yn ddiwahardd? Hyd yn nod yr Iuddewon, yr oeddynt hwy yn cael eu gadael i'w rhyddid, i ymdrin â'u pethau crefyddol, yn ol eu cyfreithiau eu hunain, tra nad oeddynt yn ymderfysgu, ac yn aflonyddu eraill, mewn pethau gwladol. Ymddengys y gofyniad yn fwy pwysig, yn enwedig pan yr ystyrir hynawsedd nattur, Cristionogaeth, a'r gwasanaethgarwch yr ymhòna iddo, ac fel y proffesa ei bod yn lleshau dynion, yn mhob ystyr, am amser a thragywyddoldeb, yr hyn yn ddiau a ddylai ei chymmeradwyo i dderbyniad caredig pawb. Ond i'r gwrthwyneb yr ydym yn ei gweled wedi bod; a phaham yr oedd felly, sy deilwng o'n sylw.

Gellir ystyried, tebygol, fod y gwrthwynebiad ag oedd yn y byd i Gristionogaeth—o herwydd pa un yr oedd ei phleidwyr yn cael eu caethiwo a'u herlid—yn codi oddiar anghyd-darawiad nattur egwyddorion anmhleidgarwch, ac anghymmysgedd ymarferiadau Cristionogaeth, â holl egwyddorion y grefydd Baganaidd, a phob crefydd arall. Er fod ychydig wahaniaeth rhwng gwahanol bleidiau yn y grefydd Baganaidd, etto yr oeddynt yr un yn y pen draw, o ran nattur eu hegwyddorion. Iuddewaeth hefyd, fel yr oedd yn cael ei phroffesu a'i hymarferyd gan ei phleidwyr, y dyddiau hyny, oedd yn lled amddifad o neb egwyddorion. Y gwahaniaeth mwyaf rhyngddi â Phaganiaeth oedd, ychydig ddefodau allanol. Yr oedd yr holl grefydd Baganaidd yn caniattau i bob dyn ffurfio a dewis ei dduw ei hun, a'i addoli ef yn y dull a fynai; a golygent fod gan eu duwiau, neu rai yn eu henwau, hawl i ddirinweddu y da, ac i ddieuogi y drwg. Gwel pob darllenydd ystyriol, pa mor debyg i hyn yr oedd barn a golygiadau yr Iuddewon am bethau yn nyddiau ein Harglwydd, pan y gŵyrent yr holl gyfraith i atteb i'w dybenion hwy, ac y dywedent am ba beth bynag y ceid lles oddi wrtho, er ychwanegu golud, parch, a chymmeradwyaeth dynion, mai da oedd. Ond nid felly y mae egwyddorion Cristionogaeth, y maent yn gymmwys i'r gwrthwyneb. Cyhoeddant hwy i'r byd, mai un gwir a bywiol Dduw sydd mewn bod, yr hwn y mae yn rhaid i bawb i'w addoli yn ei drefn ei hun, gyda'r hwn nid oes derbyn wyneb; ac mai ei ewyllys ef ydyw yr unig reol fawr, yn wyneb pa un y mae y da a'r drwg i'w adnabod. Y mae cymmaint anghyd-darawiad rhwng yr egwyddorion hyn, â'r holl grefydd Baganaidd, ag sydd rhwng goleuni a thywyllwch, fel y mae yn rhaid i'r naill ddinystrio y llall.

Nid oedd Paganiaeth, mewn dull, yn arddelwi unigolrwydd, nac yn rhwymo cydwybodau, nac yn rhoddi bywyd ac egni yn ei hymarferwyr dros un dull mwy na'r llall, er ei helaethiad a'i lledaniad yn mhlith dynolryw: canys nid oeddynt yn barnu fod gwirionedd, na dedwyddwch dynion yn fwy hanfodol yn ymddibynu ar y naill ddull na'r llall. O ganlyniad nid oeddynt yn golygu fod achos i neb fod yn fwy gwresog dros y naill ddull a ffurf o Baganiaeth na'r llall, ac y byddent yn bydlawn gymmaint wrth fodd y duwiau fod yn addoli yn y ffurf hwn, yn wlad hon, a'r ffurf arall, yn y

wlad arall, fel y byddai cyfleusdra. Nid felly yr oedd Cristionogaeth yn dysgu ei phroffeswyr ar y cyntaf. Proffesai hi ei bod yn unig ffynnon gwirionedd, a gwir ddedwyddwch holl ddynolion; a dangosai fod ynddi yr hyn a rwymai gydwybodau pawb o'i deiliaid, i gydymffurfiad cysson â hi, a hyny yn wyneb y dyoddefiadau mwyaf, a'r arteithiau llymaf; a lleinw hwy â bywyd ac â gwresogrwydd dros ei lledaniad trwy y byd, a'i dyrchafiâd yn mhlith dynion. O ganlyniad yr oedd Cristionogaeth yn dwyn ei phleidwyr i ymosod yn egniol, trwy bob rhesymau, yn erbyn yr holl gyfundraethau gwrthwynebol iddi, er eu tynu i lawr; gan ymosod yn erbyn defodau y Paganiaid a'r Iuddewon, yn ddiarbed. Ar gyfrif hyn, y dirmyga Tacitus, a Suetonius, dau hanesydd Rhufeinig, gymmaint ar Gristionogion, trwy eu bychanu, a dywedyd yn ddrwg am danynt, fel rhai ag oedd yn angharedig tu ag at ddynolryw, o herwydd eu bod yn unol wrthsefyll crefydd pleser, a holl fwyniant pechadurus dynolion. Mewn cyssylltiad â hyn, yr oedd symledd addoliad y Cristionogion yn dramgwydd i'r Paganiaid, ac yn dwyn sylw digasog eu gwrthwynebwyr arnynt. Nid oedd ganddynt hwy, yn eu lleoedd cyssegredig, ac yn nghyflawniad eu haddoliad, luosogrwydd o ddefodau, ac amldra o seremoniau rhwysgfawr, fel yr oedd gan bob pleidiau crefyddol eraill.

Ni welid gan y Cristionogion, y pryd hwnw, unrhyw aberth, allor, na theml —unrhyw ddelw, na llun dim—unrhyw oracl, na thuser, na threfniadau offeiriadol, na gwisgoedd sanctaidd, o fewn i'w haddoliadau; yr hyn a barodd i'w gelynion edrych arnynt yn annuwiaid: canys meddylient nad oedd yn ddichonadwy fod crefydd ac addoliad heb y pethau hyny. Y bai y cyhuddid hwy o hono, yn gyffredin, gan eu gwrthwynebwyr, yn y llysoedd Rhufeinig, oedd annuwiaeth.* Gwnai yr offeiriaid Paganaidd ac Iuddewig, pa rai oedd y prif offerynau i gynhyrfu y blaenoriaid gwladol a'r bobl yn erbyn y Cristionogion, ddefnydd mawr o hyn, pan, mewn gwirionedd, mai yr elw, y parch, a'r cyfoeth diderfyn, ag oedd lluoedd aneirif o honynt yn gael wrth wasanaethu, oedd y gwir achos o'u cynhyrfiad yn erbyn Cristionogaeth. Canys gwelent mor bell yr oedd hi yn llwyddo— fod y temlau yn myned yn weigion, a'r allorau heb eu haberthau—a bod eu parch a'u helw hwythau yn syrthio. Gan hyny gwnaent bob peth a allent i rwystro ei llwyddiant, trwy ddywedyd pob drygair a allent ddyfeisio am dani, a thaflu arni hi a'i phleidwyr bob gwarth a dirmyg a fedrent, er ceisio dwyn pawb i'w chasâu, yn enwedig y swyddogion gwladol; nes o'r diwedd y darfu iddynt lwyddo, trwy ennyn y fflam, a dwyn llywodraeth Rhufain i ysgogi yn egniol yn erbyn y Cristionogion, mewn amryw erledigaethau dinystriol iawn.

Gwedi i'r erledigaeth a ennynwyd yn amser Nero, a'r cyfreithiau a wnaed y pryd hwnw yn erbyn crefydd, gael eu dilëu gan ei olynwyr, gwnaeth Domitian rai newyddion, ac ail ennynwyd y tân. Dywedir fod yn ei gynhyrfu ofn am ei orsedd, trwy glywed o hono fod brenin o hâd Dafydd yn cyfodi i sefydlu brenhiniaeth gyffredinol yn mhlith dynolryw; o ganlyniad ofnodd y byddai iddo gymmeryd ymaith ei orsedd ef oddi arno. Dywedir iddo, er rhagflaenu hyn, roddi gorchymyn allan, i chwilio am bob un o'r hâd hwnw, yn mhob lle trwy ei amherodraeth, a'u gosod i farwolaeth. Pan ddygwyd ger ei fron ddau langc o wyrion i Judas yr apostol, yr hwn a enwir brawd ein Harglwydd, wrth weled gwaelder eu hymddang-

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 206.

osiad, a'u clywed yn dywedyd am deyrnas ysbrydol, efe a'u dirmygodd, ac a edrychodd ar y dybiaeth yn ffolineb.

Mae yn rhy anhawdd dywedyd, gydag un gradd o sicrwydd, pa nifer a ddyoddefodd farwolaeth ferthyrol, trwy yr erledigaeth yma, na'r un o'r blaen, a pha mor helaeth y darfu iddynt effeithio, pa un a oeddent yn cyrhaedd trwy y rhan fwyaf o daleithiau yr amherodraeth, ai ynte mewn rhyw ychydig yr oeddynt. Rhai haneswyr, megis Dodwel, ac eraill, a farnant nad oedd y dyoddefwyr nemawr o rifedi; ond y mae eraill, llawn mor gyfrifol, yn barnu fod y rhai a ferthyrwyd trwy yr erledigaethau hyn, yn fwy na deugain mil.* Yn mhlith eraill a syrthiodd yn aberth i nwydau drygionus Domitian, yn achos eu crefydd, enwir Fflavius Clemens, gwr urddasol yn Rhufain, ag oedd yn un o brif swyddwyr y ddinas, a Fflavia Domitia, yr hon a gyfrifid yn bendefiges, yn nîth i'r amherawdwr, pa un oedd wedi ei dyweddio yn wraig i Clemens. Dywedir hefyd, mai dyma yr amser y gosodwyd Timotheus i farwolaeth yn Ephesus. Alltudiwyd Ioan yr apostol yr amser hwnw i ynys Patmos, trwy orchymyn yr amherawdwr, wedi iddo ei daflu o'r blaen i bair o olew berwedig, o ba un y daethai allan yn ddianaf.

Creulondeb Domitian, o'r diwedd, a ddaeth yn faich ac yn orthrwm annyoddefol i'w holl ddeiliaid yn gyffredin, nes y darfu iddynt lunio bradwriaeth yn ei erbyn, a rhoddi terfyn ar ei fywyd annedwydd. Felly syrthiodd trwy law ei weision, yn ei dŷ ei hun, yn y flwyddyn 95, wedi teyrnasu pymtheg mlynedd, a Nerva a aeth i'r orsedd ar ei ol. Henafgwr pendefigaidd o Rufain oedd hwn, uwchlaw triugain mlwydd a phump oed, pan ddechreuodd deyrnasu, ac un flwyddyn, chwe mis, ac wyth niwrnod y teyrnasodd efe. Yn yr amser hwn efe a ddiddymodd y cyfreithiau gwaedlyd ac erledigaethus a wnaethai ei ragflaenor; galwodd yn ol y rhai a ddeolwyd o'r wlad yn achos crefydd; a rhoddodd yn ol y meddiannau a gymmerasai efe trwy drais. Dyma y pryd y dychwelodd Ioan o ynys Patmos, yr hwn, meddylir, a breswyliodd o hyny hyd ddydd ei farwolaeth yn Ephesus. Gwedi marwolaeth Nerva, daeth yr orsedd yn gyflawn ac yn unigol i feddiant Trajan, yr hwn a fabwysiadasai Nerva i fod yn gyd-feddiannydd âg ef ychydig o fisoedd cyn hyny.†

Parhaodd yr eglwys, gellir meddwl, trwy y canrif hwn, yn lled debyg, o ran ei hathrawiaeth, ei threfn, a'i dysgyblaeth, i'r un ag oedd yn nyddiau yr apostolion. Etto, wrth ystyried mawredd llygredigaeth y nattur ddynol, cyfrwysdra a dichellion Satan, a gweled mor ansefydlog yr oedd amryw o'r eglwysi cyntefig, a'r ymraniadau oedd yn llawer o honynt, megys Corinth, Rhufain, ac eglwysi Galatia, hyd yn nod pan o dan olygiaeth yr apostolion—yr oedd yn hawdd meddwl nad hir y byddent cyn effeithio rhyw gyfnewidiad cyffredinol. A phan yr edrychom i'r Testament Newydd, yn enwedig yr epistolau, yr ydym yn gweled yr eglwysi yn cael eu rhybuddio rhag ymadael â'u hegwyddorion, eu trefn, a'u hymarferiadau efengylaidd; a dangosir iddynt y perygl yr oeddynt ynddo o wneuthur felly, oddi wrth yr hyn oeddynt hwy eu hunain, a'r ymosodiadau oedd arnynt gan gyfeiliornwyr, y rhai a eilw yr apostolion yn weision Satan. Yr apostol Paul a ddywedai "fod dirgelwch yr anwiredd yn gweithio eisioes;" a rhybuddiai henuriaid eglwys Ephesus rhag bleiddiau blinion a ddeuent i'r eglwysi, y rhai nad arbedent mo'r praidd, a'r rhai y dywed fod eu dyfodiad yn ol gweithredoedd Satan, &c.

* Mosheim's Eccl. Hist. part 1. ch. 5. and Buck's Dict.

† Goldsmith's Hist. of Rome, p. 69.

Heblaw amryw o gau gristiau, gau brophwydi, a swynwyr, a godasant i fynu yn y canrif cyntaf, gellir sylwi fod tri chyfeiliornad yn ymddangos yn eu hymosodiad ar yr eglwysi yn y dyddiau hyny, yn erbyn pa rai y cyfeiria yr apostolion eu hysgrifau yn aml: sef, *Yn gyntaf*, Y rhai hyny ag oedd am osod i fynu ddefodau ac ymarferiadau Iuddewig, a gweithredoedd deddfol, mewn undeb a chyssylltiad â Christ, fel sylfaen cymmeradwyaeth enaid gyda Duw, ac yn ammod o dderbyniad i'w heddwch, a mwynhad o freintiau eglwysig. Yn pleidio y golygiadau hyn, yr oedd llawer iawn o'r Iuddewon, a broffesent ryw fath o Gristionogaeth, yn enwedig yr athrawon Iuddewig, y rhai y soniasom am danynt yn barod, yn erbyn pa rai yr ysgrifenodd yr apostol gryn gyfran o'i lythyrau at y Rhufeiniaid, y Galatiaid, a'r Corinthiaid. Derbyniodd y blaid hon wanychiad mawr trwy ddinystr Jerusalem, a dymchweliad sefydliad gwladol ac eglwysig yr Iuddewon; eithr nid llwyr ddilead: canys yr ydym yn cael eu bod wedi hyny yn blaid luosog, a neilldduedig oddi wrth eraill. *Yn ail*, Y rhai hyny ag oedd yn llettya golygiadau anghywir am berson yr Arglwydd Iesu. Gelwir y rhai hyn Gnostiaid, neu Docetæaid, Cerinthiaid, ac Ebioniaid. Ni byddai yn ddoethineb nac yn fuddiol i ni i wneuthur olrheiniad manwl i ddaliadau y rhai hyn yn bresennol, am y cyfarfyddir yn aml â hwy yn yr oesoedd canlynol, dan wahanol enwau, pan y mae eu golygiadau wedi dyfod yn fwy amlwg. Dywedir mai Simon y swynwr, yr hwn a geryddwyd gan Pedr yn Samaria, oedd blaenor y Docetæiaid, y rhai a ymranasant yn wahanol bleidiau yn yr oesoedd dyfodol. Y prif gyfeiliornad a roddir yn eu hebyn, oedd, eu bod yn gwadu gwir a phriodol ddyndod yr Arglwydd Iesu, trwy geisio dangos mai tebyg i ddyn ydoedd, ac mai ymddangosiad oedd ei ddyoddefiadau. Y Cerinthiaid a addefent ei briodol ddyndod, ond haerent nad oedd yn meddu ar briodol Dduwdod, eithr mai rhyw fod islaw y Goruchaf oedd. Yr Ebioniaid nid oeddynt yn wahanol iawn i'r Cerinthiaid, rhagor na'u bod yn ymdrechu symmud ymaith bob dirgelwch oddi wrth y peth hwn, trwy ddywedyd nad oedd Iesu Grist ond dyn yn unig, wedi cael ei eni o Mair, a'i genhedlu gan Joseph ei gwr, ond ei fod yn un rhagorach na'r cyffredin. Mae yn deilwng o'n sylw, fod y golygiadau uchod yn cael eu hystyried yn gyfeiliornus gan yr eglwys er y dechreuad—yn erbyn pa rai yr ysgrifenodd Ioan ei epistolau a'i efengyl, a hyny, meddir, ar gais y gweinidogion—ac na ffynasant ond ychydig tra bu neb o'r apostolion byw.* *Yn drydydd*, Y cyfryw a ymdrechent i osod i fynu drawsdlywodraeth yn yr eglwysi, trwy osod eu hunain yn arglwyddi ar gydwybodau eraill, o ba rai yr oedd Diotrephos, ac eraill ag oedd o'r un ysbryd ac ymddygiadau ag ef, y rhai y cyfeirir attynt yn aml yn ysgrifau yr apostolion. Hon oedd y garreg sylfaen ar ba un y codwyd adeilad mawr yr eglwys Babaidd, a'r hyn y sylwir arno yn helaethach fel yr eir yn mlaen.

Mae yn lled debyg fod yr apostolion a'r efengylwyr oll wedi marw cyn diwedd y canrif hwn, oddi eithr Ioan, y dysgybl anwyl, a Simon y Canaanead, fel y tybir; eithr amheuir hyn gan lawer. Ond y mae yn gyssur o'r mwyaf, ac yn achos o lawenydd i bob Cristion, nad ymadawsant hwy hyd nes gorphen eu gwaith, a rhoddi i ni y Dadguddiad Dwyfol yn gyflawn; a phan yr aethant ymaith, fod Duw wedi gofalu am fugeiliaid eraill i arwain ei braidd trwy yr anialwch. Gwelodd yr Arglwydd yn addas i orphen y

* Milner's Church Hist. vol. i. p. 148.

Gyfrol Sanctaidd, yr hon a elwir yn gyffredin y Testament Newydd, o fewn i'r canrif hwn; yn yr hwn yr amlyga efe holl drefn bywyd i bechaduriaid, ac egwyddorion a threfn gynlluniadol o'r eglwysi apostolaidd. Cynnwys y gyfrol hon saith ar hugain o lyfrau, a ysgrifenwyd gan wyth o wahanol bersonau, ar wahanol amserau, o fewn cylch triugain mlynedd wedi esgyniad ein Harglwydd. Canys bernir i Mathew ysgrifenu ei efengyl tua'r ddeunawfed flwyddyn o'r cyfrifiad cyffredin; a Ioan ei efengyl tua'r fl. 98. Mae yn bur amlwg fod yr efengylau a'r epistolau yn adnabyddus i'r Cristionogion o dan yr enwau hyn cyn diwedd y canrif cyntaf; o blegid coffeir hwy felly gan amryw awduron yn nechreu y canrif nesaf, fel y ceir sylwi etto. Er hyny, nid yw yn debyg eu bod wedi eu casglu yn un llyfr, fel y maent yn bresennol, mor foreu â hyny. Ond y mae yn dra sicr fod yr apostol Ioan yn wybodus o'r tair efengyl arall, pan yn ysgrifenu yr hon a ddwg ei enw ei hun, a'i fod yn eu cymmeradwyo fel hanesion gwirioneddol a chywir, am fywyd, gwyrthiau, athrawiaeth, marwolaeth, ac adgyfodiad yr Arglwydd Iesu.

Gweinidogion a gydoesent â'r apostolion, a rhai a fuont yn flaenoriaid yn yr eglwysi, yn yr oesoedd cyntaf ar eu hol hwynt, nid oeddynt ddynion o ddysg helaeth, nac yn meddu ar ffraethder a hyawdledd ymadrodd; eithr eu henwogrwydd penaf oedd yn eu symledd duwiol, cywirdeb eu golygiadau ar eglur wirioneddau yr efengyl, eu ffyddlondeb diffuant, a gwresogrwydd eu calonau gyda gwaith ac achos eu Harglwydd.

PENNOD VII.

Yn cynnwys Adolygiad ar y ffeithiau blaenorol, lle yr amlygir Helaethrwydd a Llwyddiant yr Eglwys—Cymmeriad ei Haelodau—Moddion ei llwyddiant—Dull a Ffurf ei Threfniad, a Nattur ei Llywodraeth—Sefydliad ei Swyddogion a'i Blaenoriaid—ei Defodau a'i Harferion—a'i hunig a digonol Reol yn y Canrif cyntaf.

GWNEUTHUR camddarluniad o ffeithiau, a pheidio eu gosod allan yn y modd cywiraf a goleuaf ag y gellir, sydd yn fai o'r mwyaf mewn hanesydd; eu hadolygu, a thynu casgliadau oddi wrthynt, yw ei fraint, ac i hyn, yn ddiammau, y mae ganddo hawl; a'i ddyledswydd arbenig yw gosod allan bethau hynafiaethol, yn y modd y byddo fwyaf er adeiladaeth yr oes bresennol, a dyfodol. Mae gwybod, sylwi ar, a deall y ffeithiau ysgrythyrol am bethau eglwysig, yn hanfodol i bob hanesydd eglwysig, a phob darllenydd, a ewyllysio gael golygiadau cywir ar yr hyn a berthyn i hanesyddiaeth yr eglwys Gristionogol. Canys y mae hanesyddiaeth eglwysig, fel y mae wedi bod o dan ymdriniaeth dynion, o wahanol olygiadau, fel pob hanes hynafiaethol arall, gwedi myned yn debyg i gefnfor mawr, yn rhy anhawdd i fyned drosodd yn uniawn, heb fod genym arwydd-begynau safadwy, wrth ba rai y gallwn hwylio ein llestr. Neu y mae fel rhyw anialwch mawr ag a fyddem i ymdeithio trwyddo, a fyddai yn llawn o lwybrau yspeilwyr, yn mha rai y byddem yn debyg o ymddyrysu a myned ar grwydr, oni byddai genym arwydd-nodau, i deithio wrthynt, a dangos i ni y terfynau.

Mewn hanesyddiaeth, yn fynych, gosodir allan bethau eithaf ffugiol a dychymmygol, fel y pethau mwyaf sylweddol; a'r pethau mwyaf pwysig a sylweddol, fel y pethau gwaccaf, a mwyaf diwerth; y pethau cywiraf, fel y pethau mwyaf gwrthun; a'r pethau gwrthunaf, fel y pethau harddaf ac unionaf; y gwirioneddau egluraf, fel y cyfeiliornadau mwyaf; a'r cyfeiliornadau mwyaf dychrynllyd, fel y gwirioneddau puraf. Ïe, mewn hanesyddiaeth yn aml, gwneir i'r hyn na fu, ac nid yw yn bod, i ymddangos fel pe bai wedi, neu yn, bod; ac fe guddir yr hyn a fu, a'r hyn sydd, mewn bod, nes peri iddo ymddangos fel pe na bai; ac ymdrechir yn rhy fynych, i osod allan y gwir ddoethineb, fel y ffolineb mwyaf; a chodi i fynu ffolineb ei hun, yn lle doethineb, yn wrthddrych teilwng o gymmeradwyaeth y darllenydd. Pa beth a wneir ynte yn wyneb y fath amgylchiadau â hyn? ai gadael hanesyddiaeth heb ei chwilio a'i holrhain? Nage, yn ddiau, ond mynnu prawf-faen priodol, i brofi yr oll a fyddo o dan ein sylw. A pha beth a ddichon fod yn faen-prawf cymmwys i brofi unrhyw sefydliad, ond ei egwyddorion dechreuol ei hun, ar ba rai y sylfaenwyd ef ar y cyntaf? Felly gobeithir y gwel pob darllenydd, mai nid yn ofer nac am ddim y treuliasom yr amser sydd wedi myned heibio, ac nad diles y drafferth a gymmerir i chwilio i mewn etto i'r ffeithiau blaenorol, yn y sylwadau a ganlyn,

er gosod allan egwyddorion dechreuol a sylfaenol yr eglwys Gristionogol, fel eu cynnwysir yn yr ysgrythyrau: canys y rhai hyn ydyw ein maenprawf a'n hyfforddiad ni, yn yr oesoedd dyfodol, mewn hanes, er cael adnabod gwir eglwysi Iesu Grist.

Dengys y ffeithiau blaenorol, *fod gweinidogaeth yr efengyl wedi ymdaenu, a bod effeithiau grymus yn gydfynedol â hi, er sefydlu Cristionogaeth, a phlannu eglwysi i Grist yn y byd, i helaethrwydd mawr, yn y canrif cyntaf.* Mae yr apostol wrth ysgrifenu at y Rhufeiniaid, cyn pen deugain mlynedd wedi esgyniad ein Harglwydd, yn cyffelybu llwyddiant gweinidogaeth yr efengyl, a helaethiad teyrnas Iesu Grist, i ymehangiad grymus y wawr, a thywyniad goleuni yr haul, gan ddywedyd, "Yn ddiau i'r holl ddaear yr aeth eu sŵn hwy, (sef cennadau yr efengyl y dyddiau hyny) a'u geiriau hyd derfynau y ddaear."* Esgob Newton a ddywedodd, "Mae yn amlwg wrth ddarllen yr holl hanesion eglwysig, hen a diweddar, fod yr efengyl yn cael ei phregethu, ac eglwysi wedi cael eu plannu, hyd yn nod yn nyddiau yr apostolion, nid yn unig yn Asia Leiaf, yn ngwledydd y Groegiaid, a'r Ital, prif leoedd y byd y pryd hwnw, ond hefyd mor bell i'r gogledd â Scythia, mor bell i'r dehau âg Ethiopia, mor bell i'r dwyrain â Parthia a Media, ac mor bell i'r gorllewin â'r Hispaen a Phrydain Fawr."†

Mae hyn yn gwbl gysson â'r hyn a ddywedwyd yn barod am deithiau Paul, a mynediad yr apostolion eraill allan i holl barthau y byd, a'r effeithiau grymus ag oedd yn gydfynedol â'u gweinidogaeth yn mhob lle. Fel y gwelsom ei bod yn Jerusalem a gwlad Judea, ac y clywir ei bod yn y gwledydd o amgylch Rhufain, am y lluaws mawr ag oedd yno yn cael eu dwyn i ufudd-dod i'r efengyl, a bod rhai o deulu yr amherawdwr wedi credu; felly y mae genym bob lle i farnu ei bod trwy yr amrywiol wledydd eraill i ba rai yr aethai yr apostolion. Dywedir gan haneswyr credadwy, fod canlynwyr Iesu wedi lluosogi cymmaint yn rhai o daleithiau Rhufain, fel yr oedd y rhaglawiaid a'r blaenoriaid Paganaidd yn ofni yr aent yn amlach ac yn gryfach na hwynt-hwy a'u pleidwyr.

Wrth edrych ar fawredd y llwyddiant, a'r anhawsderau yn wyneb pa rai y dygwyd ef yn mlaen, ac anghyfartalwch y moddion a'r offerynau, ynddynt eu hunain, trwy ba rai y cyflawnwyd y pethau hyn, nid dichonadwy i un darllenydd ystyriol lain a gweled llaw yr Arglwydd yn eglur yn y gwaith. Ychydig o ddynion gwael eu golwg allanol, isel eu hamgylchiadau naturiol, anllythyrenog o ran dysgeidiaeth ddynol, heb arfau rhyfel, heb frenin na byddin o eiddo y byd hwn i'w cefnogi; etto, trwy gyhoeddiad o'r Crist a groeshoeliwyd yn y modd mwyaf cyhoeddus a gwarthus, ar bren, yn alluog i wasgaru y fagddu Baganaidd, ag oedd yn toi wyneb yr holl ddaear—i ddistrywio y temlau—tynnu i lawr yr allorau—cywilyddio a chwilfriwio yr eilunod—a throi yr eilunaddolwyr wrth y miloedd at y Duw byw, a'u dwyn i gyssegru eu hunain iddo, yn aberthau byw, sanctaidd, a chymmeradwy. Gosodasant y wir grefydd i fynu mewn ymarferiad, dros y rhan fwyaf o'r byd adnabyddus, mewn llai na deugain mlynedd o amser; yr hon oedd berffaith groes i holl egwyddorion, tueddiadau, ymarferiadau, a chrefyddau blaenorol dynolryw. Diau mai o'r Arglwydd yn unig y daeth hyn, "a rhyfedd yw yn ein golwg ni." Yma y gwelwn fuddugoliaethau Nebuchodonozor, gorchestion Cyrus, cyflym lwyddiant Alexander Fawr, a holl

* Rhuf. x. 18. cydmarer hyn a'r Salm xix.

† Newton on the Prophecies, vol. ii.

rymusder y Rhufeiniaid, yn colli eu llewyrch, ac yn diflannu, megis yn ddim, yn yr olwg ar fuddugoliaeth yr Emmanuel; ïe, nid yw eu buddugoliaeth hwy oll yn deilwng o'r enw, nac i'w cydmaru â buddugoliaethau y groes, trwy bregethiad yr efengyl.

Dywedir—a hyny gyda llawer o debygolrwydd i wirionedd—fod yr efengyl wedi ei phregethu yn Mhrydain cyn dinystr Jerusalem. Eithr nid yw mor eglur ag y dymunid y modd y daeth i gael ei phregethu yma, mewn goror mor bell oddiwrth y lle y dechreuwyd ei chyhoeddi, a hyny mor foreu. O'r holl dybiau sydd am hyn, meddylir yn bresennol yn lled gyffredin, mai yr hyn sydd nesaf i wirionedd ydyw, i Brân ab Llyr Llediaith, tad Caradog, un o dywysogion Cymru, gael ei ddwyn yn garcharor rhyfel i Rufain, pryd yr oedd yr efengyl yn cael ei phregethu yno gyda mawr lwyddiant. Yn yspaid y saith mlynedd y bu efe yno, trefnodd Rhagluniaeth iddo gael clywed yr efengyl; a thrwy drugaredd y Nefoedd, nerthwyd ef i'w chredu, fel y mwynhaodd ryddid ysbrydol, er bod mewn caethiwed naturiol. Wedi ei ryddhau o'i gaethiwed naturiol, teimlodd gymmaint dros ei gyd-wladwyr, ag oedd y pryd hwnw cyn ddyfned mewn trueni a thywyllwch eilunaddoliaeth, ac arferion Paganaidd, âg unrhyw genedl ar wyneb y ddaear, fel y dygodd, yn ei ddychweliad adref, dri o gennadau Cristionogol gydag ef o Rufain, i ddysgu ei gyd-genedl. Enwau y gwyr a ddaeth gyda y tywysog hynaws a chymmwynasgar, meddir, oedd Iltid a Cyndaf (y ddau hyn oedd o'r genedl Iuddewig) ac Arwystli Hên, a elwir, yn ol ei enw Rhufeinaidd, Aristobulus, yr hwn oedd Rufeinwr. Tiriasant yn ddiogel yn Mhrydain, a llwyddasant i raddau helaeth yn fuan yn y gorchwyl canmoladwy ag oedd yn amcanedig. Dyma y moddion a'r offerynau a ddarfu i'r Arglwydd, o'i radlawn ddaioni, ddefnyddio i beri i wawr Gristionogol godi gyntaf ar ein hynafiaid.* Er y meddylir i Brân gael ei ryddhau yn Rhufain tua'r flwyddyn 59, etto nid yw yn amlwg pa bryd yr ymadawodd efe a'i gyfeillion â'r ddinas honno, na pha bryd y tiriasant yn yr ynys hon. Dichon na ddarfu iddynt ymadael â Rhufain hyd y flwyddyn 62, pan y daeth Paul yr apostol yno yn garcharor; ac iddynt ei weled, a'i glywed ef yn pregethu, cyn eu hymadawiad; a bod hyn wedi achlysuro y dywediadau a gredir gan rai, sef i Paul fod yn pregethu yn Nghymru.

Oddi wrth yr hanes blaenorol, gwelir *fod y Cristionogion cyntefig yn ddeiliaid o'r fath gyfnewidiad yn ansawdd eu calonau a'u bywydau, i'r hyn oeddynt yn flaenorol, ag oedd yn ffurfio ac yn sefydlu iddynt gymmeriad hollol wahanol i'r hyn oedd y byd yn gyffredin.* Wrth naturiaeth, yr oeddynt hwy yn annuwiol, yn caru melus-chwant yn fwy na charu Duw, yn blant digofaint, megys eraill; yn dywyllwch, yn elynion i bob daioni, ac yn feirw mewn camweddau a phechodau, gan rodio yn ol oferedd eu meddyliau. Eithr pan y dygwyd hwy i fod yn Gristionogion, enneiniwyd hwy â'r Ysbryd Glân, yr hwn a breswyliai ynddynt, yn ei ddylanwadau bywiol a nerthol, trwy ba rai y crëwyd hwy o newydd, yn greaduriaid newyddion yn Nghrist Iesu, awyddus i weithredoedd da. Gwnaethwyd hwy yn oleuni yn yr Arglwydd, a charent yr Arglwydd Iesu uwchlaw pob peth arall, a'u gilydd, fel brodyr; ac ufuddhaent o'r galon i'r ffurf o athrawiaeth a draddodwyd iddynt, gan Grist a'i apostolion. Y fath gyfnewidiad oedd mor eglur, nerthol, a chyffredinol yn y Cristionogion

* Gwel Hanes Crefydd yn Nghymru, gan y Parch. D. Peter, yn helaeth ar hyn.

cyntefig, fel y ffurfiodd ac y sefydlodd iddynt gymmeriad hollol wahanol i'r byd, ag oedd yn ddyeithr i Gristionogaeth. Am hyny gelwid hwy yn saint, yn rhai cyfiawn ac ysbrydol, yn rhywiogaeth etholedig, brenhinol offeiriadaeth, cenedl sanctaidd, pobl briodol i Dduw, fel y mynegent rinweddau yr hwn a'u galwodd allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef—yn rhai ag oedd yn gwasanaethu Duw yn yr ysbryd, ac nid yn ymddiried yn y cnawd, ond yn gorfoleddu yn Nghrist Iesu, &c. &c.*

"Y mae i'w osod i lawr fel pegwn anysgodadwy," fel y dywed un hanesydd cyfrifol, "nad oes un yn perthynu i unrhyw eglwys Gristionogol, yn wirioneddol, nad yw yn meddu ar Ysbryd Crist; ac nad oes gan unrhyw eglwys y mesur lleiaf o sail i arddelwi ei hun yn aelod bywiol o'i gorph ef, yr hon nid yw, o ran ei gweinidogion a'i haelodau, mewn undeb â'r Arglwydd, trwy yr un ysbryd. Eglwys heb un prawf o ddylanwadau a gweithrediadau yr Ysbryd Glân ar ei haelodau, nid oes ganddi ond yr enw o fywyd, eithr marw yw hi, er pa mor hardd bynag y dichon fod ei ffurf, a pha mor iachus bynag y dichon fod ei herthyglau; nid oes ganddi yr hawl lleiaf i gael ei chyfrif yn eglwys Gristionogol, mwy nag sydd gan gorph marw, neu eilun, i gael ei ystyried yn ddyn byw."†

Yr hanes blaenorol a ddengys yn eglur, *mai syml bregethiad o'r efengyl, a gweinyddiad ei hordinhadau, ac addas ymddygiad iddi, yn y gweinyddwyr, oedd y moddion trwy ba rai y llwyddodd teyrnas Iesu Grist ar y ddaear; y ffurfiwyd ac y sefydlwyd yr eglwysi cyntefig gan yr aposion a'u cydoeswyr.* Pan y gwelir ein Harglwydd yn anfon allan ei apostolion i'r holl fyd, a hwythau, mewn ufudd-dod i'w orchymyn dwyfol, yn myned i ddyrchafu banerau ei deyrnas yn mhlith yr holl genhedloedd, nid ydym yn eu gweled yn cael eu hawdurdodi âg unrhyw fawredd ac awdurdod dynol, nac yn ymwisgo âg un math o arfau cnawdol. Ymwrthodent hefyd yn hollol â phob cynghrair â hudolwyr twyllodrus, a chastiau dewinol, pa rai a eilw yr apostol yn guddiedig bethau cywilydd. Ni welwyd hwynt, ar un amgylchiad, yn erfyn ar neb brenhinoedd, nac unrhyw awdurdodau dynol, i ddyfod i ddefnyddio eu hawdurdod a'u gallu o'u plaid, er gosod i fynu deyrnas y Cyfryngwr, trwy osod gorfodaeth ar neb dynion i dderbyn eu gweinidogaeth, ac ufuddhau i'w gosodiadau. Eithr yn hollol i'r gwrthwyneb y dywed yr apostol, "Arfau ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw," &c.‡ Yn ei lythyr at y Colossiaid, dywed am Iesu Grist, "Yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu, gan rybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn, yn mhob doethineb; fel y cyflwynom bob dyn yn berffaith yn Nghrist Iesu." Mewn canlyniad, y mae yn dangos, mai trwy lafur ac ymdrech mawr yr oeddynt yn dwyn yn mlaen y gwaith o bregethu Crist, er gwneuthur yr holl Genhedloedd yn ufudd.§ Y mae yn dra eglur, oddi wrth ymddygiad Crist, a'i athrawiaeth, ac arferiadau gwastadol yr apostolion, na pherthynai i nattur teyrnas Iesu Grist arfer unrhyw foddion, a osodai drais neu orfodaeth ar feddyliau neb, neu a fyddai yn niweidio dynion yn eu personau, na'u meddiannau, a'u gosod o dan unrhyw anfantais naturiol yn achos eu crefydd.

Pan yr oedd y miloedd yn tramgwyddo wrth weinidogaeth ein Harglwydd, ac yn ymadael âg ef, efe a ofynai i'r deuddeg apostol, A fynwch chwithau

* 2 Cor. viii. 5. Rhuf. vi. 17. a xii. 1.
† Dr. Haweis's Hist. of the Christ. Church.

hefyd fyned ymaith? Yr hyn a ddengys nad oedd efe yn ewyllysio fod neb yn mhlith ei ganlynwyr, ond a fyddai yn rhydd-ewyllyswyr. Pan y gommeddwyd iddo unwaith, gan y Samariaid, foesgarwch cyffredin, trwy ei dderbyn i lettya yn eu dinas, pan ar ei daith tua Jerusalem, mynai ei ddysgyblion ddial arnynt, trwy erfyn am dân o'r nefoedd i'w dyfetha. Y mae ein Harglwydd yn eu hatteb, gan ddywedyd, nad oeddynt yn deall o ba ysbryd yr oeddynt; ac yn tystiolaethu, na ddaeth Mab y dyn i ddistrywio eneidiau dynion, ond i'w cadw*—lle gwelir yn amlwg fod distrywio dynion yn beth cwbl groes i nattur a dyben Iesu Grist, yn ei ddyfodiad i'r byd, a gosodiad i fynu yr oruchwyliaeth efengylaidd; a bod ysbryd dinystrio a niweidio eu gilydd, yn achos crefydd, (o herwydd pa un y cerydda Crist ei ddysgyblion yr amser hwn) yn hollol ddrwg, ac yn annhraethol bell o fod y cyfryw a ddylai, yn y rhai a broffesant Gristionogaeth.

Yr un yw gwir grefydd yn mhob oes o'r byd, a'r un yw cymmeriad y gwir Gristion, a thrwy yr un moddion yn ddiau y ffurfir ac y dygir hwy bob amser i'r cymmeriad hwnw, yn mhob rhyw wledydd. Ac ni ddichon i'r cymmeriad a ddarluniasom yn y sylwad blaenorol, gael ei ffurfio yn neb, ond trwy y moddion hyny a oleuo y meddwl yn ngwirioneddau Duw, a'r gydwybod yn cael ei heffeithio gan ddwyfolder ac awdurdod yr ysgrythyrau, a'r ewyllys a'r serchiadau yn cael eu denu at bethau nefol ac ysbrydol. Pa fodd y dichon distrywio dynion, yn eu meddiannau a'u personau, trwy eu carcharu, eu lladd, a'u llosgi, o herwydd crefydd, mwy na'u hannog i fod yn grefyddol trwy unrhyw wobrwyau bydol, oleuo deall neb, na deffroi cydwybodau dynion, yn nghylch pethau byd tragywyddol, na sancteiddio calonau neb er achub eu heneidiau? A ddichon gelyniaeth beri crefydd bur a dihalog, neu erledigaeth ddwyn ffrwyth sancteiddiol, neu i ddigllonedd a chreulondeb fod yn foddion i ddwyn yn mlaen y deyrnas honno ag y mae ei hansawdd yn gariad a heddwch? Y mae gwir grefydd yn benaf, yn sefyll rhwng dyn a'i Greawdwr—pa beth a ddichon fod a wnelo dynion eraill â'r peth hwn, trwy osod cyfreithiau i'w cydgreaduriaid, i fod yn grefyddol, a defnyddio eu hawdurdod i gospi, pan y meddylionf fod angen am hyny?

Nid all ymostyngiad i osodiadau dynion, a chyfreithiau dynol, fod yn wir grefydd; canys pan yr ymostyngir i drefniadau dynion, cydnabyddir eu hawdurdodau; a phan y gwneir unrhyw gyflawniad er boddhau y cyfryw, yr ŷs yn gwasanaethu dynion, ac nid yr Arglwydd—gwneud hyn mewn pethau crefyddol, a'i alw yn grefydd, sydd eilunaddoliaeth. Ein Harglwydd a ddywed am y cyfryw, "Yn ofer y'm hanrhydeddant, gan ddysgu gorchymynion dynion yn ddysgeidiaeth." Diau na pherthyn i'r eglwys Gristionogol, yn ei threfn efengylaidd, gospi dynion am droseddiadau crefyddol, trwy eu trethu, eu dirwyo, a'u difeddiannu o'u breintiau gwladol, eu meddiannau, a'u rhyddid naturiol, fel dynion; eithr ceryddon ysbrydol, a chospedigaethau—naccau i'r hwn a farno hi yn anghymmwys fwynhad o'i breintiau eglwysig, yn unig sydd yn gweddu i nattur a dyben teyrnas Iesu Grist. Amcanu gosod i fynu unrhyw gospedigaethau neu geryddon yn eglwys Dduw, heblaw hyn, ydyw amcanu ei dymchwelyd, i fod yn deyrnas o'r byd hwn, a chroesi yr oruchwyliaeth efengylaidd yn ei nattur, a dinystrio yr eglwys, fel cymdeithas grefyddol, sefydledig i ddybenion ysbrydol.

Dichon fod dyn yn ddeiliad addas a difai yn ngolwg llywodraeth wladol,

* Luc ix. 54, 55.

ac felly heb fod yn agored i gospedigaeth gan y cyfryw; pan ar yr un pryd yn ddyeithr i'r cymmeriad hwnw ag sydd wir hanfodol i aelod o eglwys Iesu Grist, ac felly yn gwbl anghymmwys i gyfranogi o'i breintiau, a'u mwynhau. Gan hyny, ar ba sail y dichon i unrhyw benaeth neu frenin gwladol fyned allan o'i derfynau ei hun, i gospi am yr hyn nid oedd fai yn ei erbyn ef, na'i lywodraeth, nac yn ddiffyg o'r hyn oedd ganddo ef yr hawl lleiaf i'w ofyn? Onid ydyw yr Arglwydd Iesu yn gymmaint Brenin yn ei eglwys, ag ydyw brenhinoedd y ddaear yn eu brenhiniaethau, ac ar eu deiliaid? Os oes yn perthynu i lywodraethwyr teyrnasoedd y byd hwn hawl i alw eu deiliaid i ufudd-dod, a'u cospi am anufudd-dod; felly, os yw Crist yn Frenin yn ei eglwys, paham nad oes yr un hawl yn perthynu iddo ef, ac iddo ef yn unig, i wneuthur hyny yn ei deyrnas ei hun? ac onid yw ei lywodraeth mor helaeth, cyflawn, a chadarn, a'r eiddo hwythau, yr hon ni ddyry efe i fynu yn dragywydd?

Pan y mae dynion yn cymmeryd arnynt drefnu, a gosod i fynu yn eglwys Crist yr hyn na threfnodd efe, ac yn ceisio dwyn yn mlaen ei achos trwy ryw foddion nad ydynt o'i osodiad ef, neu yn gadael heibio yr hyn a orchymynodd, gormesant yn echrydus ar ei awdurdod Brenhinol. Yn y peth blaenaf, y maent yn traws-feddiannu ei orsedd; ac yn y llall, yn diddymu ei gyfreithiau: a thrwy hyny yn gwneuthur eu hunain yn agored i'w ddwys anfoddlonrwydd, ac yn ddinystriol i wir grefydd.* "Pa le bynag," medd esgob Hoadley, "y digwydd i'r gwirionedd gael ei dderbyn o herwydd awdurdod dynol, bydd yno yn uniawn yr un faint o leihad oddi wrth gariad y gwirionedd, ardderchawgrwydd gwir reswm, a boddhad Duw i ddynion, yn y cyfryw amgylchiad, âg a fydd o gydnabyddiaeth o'r awdurdod hwnw."†

Oddi wrth y ffeithiau a goffawyd yn yr hanes blaenorol, gwelir *mai nid gwladol, taleithiol, na henaduriaethol, oedd yr eglwysi a sefydlwyd gan yr apostolion a'u cydoeswyr, o ran eu trefn, eu cyfansoddiad, a ffurf eu llywodraeth; eithr mai cymdeithasau anymddibynol oeddynt.* Pan aeth yr apostolion allan, yn ol gorchymyn eu Harglwydd, i bregethu yr efengyl i blith holl genhedloedd y ddaear, hwy a gymhellent ac a annogent eu gwrandawyr i ddyfod at Dduw, trwy ffydd ac edifeirwch. Yn mhob lle ag y llwyddent i ddwyn dynion i gredu yn Nghrist, er eu hiachawdwriaeth, cyfarwyddent y dychweledigion i ymuno â'u gilydd yn gymdeithasau, er cynnal i fynu addòliad cyhoeddus y gwir a'r bywiol Dduw, ac er adeiladaeth i'w gilydd, mewn cariad, trwy ymarferiad beunyddiol â'i waith sanctaidd a'i ordinhadau. Y cymdeithasau hyn a elwir yn y Testament Newydd yn eglwysi. Pe edrychem ar yr olrheiniad a wnaethom o'r holl gymdeithasau hyn, o'r un gyntaf yn Jerusalem, hyd trwy wledydd Judea, Galilea, Samaria, a holl Syria; a dilyn Paul oddi yno trwy Asia Leiaf, a gwledydd Galatia, Macedonia, Achaia, hyd Rufain ac Iliricum—gwelem y cymdeithasau hyn yn cael eu casglu, a'u galw yn mhob lle yn eglwysi.

I'r dyben o ddangos hollol anmhleidgarwch ar y pen hwn, coffeir yr awduron canlynol, y rhai nid oes gan neb le i dybied eu bod yn bleidgar i'r sylwad uchod. Canys gyda'u bod yn meddu ar onestrwydd, fel haneswyr, i draethu y gwirionedd, ac i osod allan ffeithiau, megys yr ymddangosent iddynt hwy, yn wyneb y cyfleusdra mwyaf, er gwneuthur y chwiliad manylaf; etto yr oeddynt yn byw mewn cymundeb âg eglwysi o wahanol nattur

* Brooke's Hist. of Relig. Liberty, vol. i.

† Id Marc. Aug. Epist. 78, c. 3.

a threfn llywodraeth i'r rhai a nodwyd uchod. Am ystyr y gair eglwys, dywed y dysgedig Dr. Campbell,* "ei fod bob amser, yn y Testament Newydd, yn arwyddo un o ddau beth—y rhai a ellir eu hystyried yn wahanol, er y perthynant yn agos iawn i'w gilydd. *Yn gyntaf*, Arwydda y gair eglwys ryw rifedi o bobl wedi cyfarfod â'u gilydd, neu a ddichon, neu a arferai gyfarfod â'u gilydd i'r un lle, pa un a elwir yn gyffredin yn gynnulleidfa, neu gymmanfa. *Yn ail*, Unrhyw gymdeithas gyffredin, a fyddo mewn undeb â'u gilydd, mewn rhyw gwlwm cyffredin, y rhai, hwyrach, na chydgynnullasant at eu gilydd erioed, a dichon nad ydynt, tra yn y byd hwn, yn ymgynnulledig. Yn yr ystyr flaenaf yr arferir y gair bob amser yn y Testament Newydd, am gynnulleidfa, a fyddai, neu a allai fod, yn cyfarfod â'u gilydd yn yr un lle, i ddybenion crefyddol; ac yn yr ail ystyr arferir y gair am yr holl gymdeithas Gristionogol trwy y byd.

Mae yn anhawdd bod yn ddiffygiol o wybod at ba un o'r ddau ystyr hyn y perthyna y gair eglwys, yn mhob lle yr arferir ef yn yr ysgrythyrau, ond sylwi ychydig ar y cyd-destunau. Arferwn ddywedyd wrth ymddiddan yn bresennol—yr hyn hefyd a wneir er's oesoedd rai—eglwys y Galileeaid, eglwys Groeg, eglwys Rhufain, eglwys Lloegr, eglwys Scotland, &c. fel pe bai pob un o'r rhai hyn yn gymdeithas anymddibynol a chyflawn ynddi ei hunan. Y fath ymadroddion nid ydynt i'w cael yn ysgrifau yr apostolion. Nid oeddynt hwy un amser, nac mewn un lle, yn arfer dywedyd, eglwys Asia, eglwys Macedonia, eglwys Achaia, eglwys Galatia, &c. Eithr arferai yr apostolion y gair yn y rhif lluosog, yn wastadol, mewn modd penderfynol, pan yn dywedyd am fwy nag un gynnulleidfa mewn unrhyw wlad neu dalaeth; oddi eithr eu bod yn cyfeirio eu hymadroddion at y gymdeithas Gristionogaidd trwy y byd yn gyffredinol.†

Mr. Gibbon‡ a ddywed, yn ei hanesyddiaeth manylaidd, "Y drefn lywyddol a gymmeradwywyd ac a sefydlwyd gan yr apostolion yn yr eglwysi yn eu hamser hwy, ac a ddygwyd yn mlaen ganddynt am y canrif cyntaf, a welir yn eglur oddi wrth yr hyn a ymarferent yn y rhai oedd yn Jerusalem, Ephesus, Antiochia, &c. Yr unig undeb ag oedd rhwng yr holl gymdeithasau crefyddol a sefydlodd yr apostolion, â'u gilydd, trwy holl ddinasoedd ëang yr amherodraeth Rufeinaidd, oedd, ffydd a chariad. Anymddibyniaeth a chydraddoldeb, oedd yn gwneuthur i fynu sylfaen eu hanfodiad a'u cyfansoddiad—y cyfryw oedd y cyfansoddiad, a'r cydraddoldeb, wrth ba rai y llywodraethid y Cristionogion am y can mlynedd cyntaf, wedi marwolaeth yr apostolion. Pob cymdeithas a gynnwysai ynddi ei hun werin-lywodraeth *(republican government)* anymddibynol a gwahanol oddi wrth bob un arall; etto, ar yr un pryd, yr oedd y rhai pellaf oddi wrth eu gilydd o'r sefydliadau neu y llywodraethau bychain hyn, yn cynnal y cymdeithasgarwch a'r cyfeillgarwch mwyaf â'u gilydd trwy lythyrau a chennadau. Nid oedd y byd Cristionogol y pryd hwnw wedi ei gyssylltu â'i gilydd, dan unrhyw unbenaeth, na chwedi ei osod dan lywodraeth unrhyw gymmanfa eglwysig."§

Dr. Mosheim,‖ yn ei hanes eglwysig, a ddywed, "Yr eglwysi boreuol

* Dr. Campbell oedd un o ben athrawon prif ysgol Aberdeen, yn Scotland, ac oedd mewn cymundeb â'r Eglwys Henaduriaethol Waddoledig, yn y wlad honno.

† Lect. on Eccl. Hist. vol. i. p. 203.

‡ Mr. Gibbon oedd foneddwr o ddysg anghyffredin, yn haneswr manwl a chywir; eithr am ei gred, galarus yw adrodd, ni feddai ond ychydig barch i grefydd mewn un dull.

§ Hist of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. i. p. 287—289.

‖ Dr. Mosheim oedd ben Canghellydd prif Ysgol Gottingen, ac o gymundeb yr Eglwys Lutheraidd.

oeddynt gwbl anymddibynol; nid oedd un o honynt yn cael ei gosod yn ddeiliad i unrhyw lywodraeth oddi allan iddi ei hun; eithr meddiannai pob un o honynt ei llywodraethwyr a'i chyfreithiau ynddi ei hunan. Er fod rhai o'r eglwysi a sefydlwyd gyntaf gan yr apostolion, yn cael ymgynghori â hwy weithiau, yn wyneb amgylchiadau, ar ryw achosion amhëus a phywsig, etto nid oedd ganddynt unrhyw awdurdod ar, na thros, eraill, yn y mesur lleiaf, er eu llywodraethu na gwneuthur na gosod cyfreithiau a rheolau iddynt, na dangos un math o uchafiaeth arnynt. Nid oes modd i un peth fod yn eglurach, ar wyneb hanesyddiaeth eglwysig, na pherffaith gydraddoldeb yr eglwysi apostolaidd, mewn hawl, meddiant, ac awdurdod; ac nid ymddengys, o fewn i'r canrif cyntaf ar ol esgyniad ein Harglwydd, i un math o ymgynnulliad gwahanol gynnulleidfaoedd, er dal cynnadledd eglwysig, neu undeb gweinidogion a chennadau eglwysi, gymmeryd lle, i wneud i fynu gymmanfa awdurdodol, er llywodraethu yr eglwysi—o ba un y tarddodd y llywodraeth Batriarchol. Eithr tua chanol yr ail ganrif, dechreuodd y cymmanfaoedd hyn gael eu sefydlu, er llywodraethu yr eglwysi, a hyny yn mhlith y Groegiaid, y rhai oedd yn hoff ganddynt, ac a oeddynt gynnefin, mewn ystyr naturiol, âg uno gwahanol daleithiau neu lywodraethau dan unbenaeth; ac oddi wrthynt hwy, aeth yn arferiad yn fuan, trwy yr holl wledydd, i osod i fynu gymmanfaoedd i lywodraethu yr eglwysi."*

Ond nid oedd y bobl wedi colli eu meddiant yn hollol o'r llywodraeth, na'r cynnulleidfaoedd wedi eu difeddinnnu yn gwbl o'u hawdurdod i ymdrin â'u hachosion eglwysig eu hunain, na'r cynnadleddau hwythau wedi cyrhaedd i ben uchaf eu hawdurdod a'u meddiant, hyd tua chanol y trydydd canrif. Fel y dywed Dr. Campbell, "Er fod y bobl wedi colli y llywodraeth o'u plith, i raddau mawr, yn amser Cyprian, yr hwn oedd yn byw yn nghylch y flwyddyn 250; etto mewn achos o dramgwydd a cheryddon, ni therfynid dim heb gydsyniad a chymmeradwyaeth y cynnulleidfaoedd y pryd hwnw.†

Dr. Isaac Barrow, athraw Coleg y Drindod, Caergrawnt, yr hwn a gyfrifid yn un o'r dynion dysgediccaf yn y deyrnas, fel yr amlyga yn ei amryw ysgrifau, pa un, wedi ei chwiliad manwl a llafurus i hanesion hynafiaethol, a ddywed, "Yr oedd pob eglwys ar y cyntaf wedi ei sefydlu yn gynnulleidfa neillduedig, dan lywodraeth ei hesgob a'i henuriaid ei hunan, mor anymddibynol a neillduol a'i bod yn meddu ar gyflawn hawl a gallu i ymdrin â'i holl achosion ei hun yn gwbl, a phob un yn cael eu llywyddu gan ei phen a'i chyfreithiau ei hunan. Pob esgob oedd megys tywysog yn ei gynnulleidfa ei hun, yn hollol rydd i weithredu yn ol ei ewyllys a'i ddoethineb, trwy gyngor ei seneddwyr eglwysaidd, mewn cydsyniad â'r bobl (â pha rai yr ymgynghorai bob amser, am bob peth) heb fod yn attaliedig gan neb arall, nac yn gyfrifedig i neb ar y ddaear, yn mhellach nag oedd eu rhwymau i osod allan eirwiredd eu proffes Gristionogol yn gofyn, er cynnal i fynu gymundeb brawdol, mewn cariad a heddwch gyda'r eglwysi cymmydogaethol. Gyda golwg ar hyn, os byddai efe yn euog o fai gwybodus iddynt, ag a fyddai yn achos o warth i grefydd, yr oedd yn agored o gael ei ddiarddel ganddynt, (sef yr eglwysi cymmydogaethol) fel na byddai iddo ef gymundeb â hwy mwyach, o herwydd ei ymddygiadau anghysson â Christionogaeth, yn nghyd â'r eglwys a fyddai o dan ei ofal, os byddai iddi barhau i lynu wrtho yn wyneb ei ymddygiadau beius."‡

* Church Hist. vol. i, cent. 1. part 2. c. 2. † Lect. on Eccl. Hist. vol. i, p. 319—328.
‡ Principles of Dissent. by the Rev. T. Scales, p. 88—93.

Arglwydd King, prif Ganghellydd Lloegr, er ys mwy na chan mlynedd yn ol, yn ei ymofyniad gorchestol i nattur, egwyddorion sefydliad, ac ymarferiadau yr eglwysi cyntefig, a ddywedodd, "ei bod yn amlwg, oddiwrth yr holl ysgrifau ag sydd ar gael, o eiddo ysgrifenwyr y tri chanrif cyntaf o Gristionogaeth, mai cynnulleidfaoedd unigol oedd esgobaethau yr esgobion cyntefig, heb fod yn cynnwys ynddynt ddim mwy o drigolion nag yw y plwyfau cyffredin gyda ni yn bresennol. Canys nid oedd yn ddichonadwy i'r esgobaeth honno fod yn fwy nag un gynnulleidfa, yr hon yr oedd ei holl aelodau yn gallu dyfod yn nghyd i gyfarfod i'r un lle, ar yr un amser, i weddio gyda'u gilydd, bwytta swpper yr Arglwydd gyda'u gilydd, gweithredu mewn ceryddon eglwysig gyda'u gilydd, a dwyn yn mlaen holl achosion eglwysig y naill gyda'r llall. Y pethau hyn i gyd yr oedd holl aelodau yr esgobaethau cyntefig yn eu cyflawni gyda'u gilydd, fel y tystia yr ys grifau a gyfeiriwyd attynt yn amlwg ac yn anwadadwy. Yr oedd pob eglwys yn anymddibynol, yn meddu ar gyflawn hawl ac awdurdod i drin ei hachos ei hun, i alw eihaelodau i gyfrif, i gynghori a cheryddu aelodau a droseddai, ac a fyddai yn achos o dramgwydd, heb ofyn caniattad, cydweithrediad, nac awdurdod unrhyw eglwys arall.*

Dr. Kay, esgob Caerodor, a ddywed, "fod yr hyn a goffawyd yn barod allan o waith Tertulian, yn brawf digonol, yn ol ei farn ef, fod yr eglwysi apostolaidd yn gynnulleidfaoedd anymddibynol y naill ar y llall, ac yn beffaith gydradd yn eu trefn, eu hurddiad, a'u hawdurdod.†

Cwbl gysson â'r tystiolaethau uchod ydyw y darluniad a roddir o'r eglwysi ag oedd yn Corinth a Rhufain, yn y llythyr a briodolir i Clemens Romanus. Bernir i'r llythyr hwn gael ei ysgrifenu tua'r flwyddyn 78; ac yr oedd y fath gymmeradwyaeth iddo yn Corinth, medd Dionysius, esgob yr eglwys oedd yno, yn y flwyddyn 170, fel yr oedd yn cael ei i ddarllen gan yr eglwys yn mhlith y llyfrau canonaidd. Irenæus, a ddywed am y llythyr, a Chlemens ei awdwr, yn barchus iawn; ei fod wedi gweled, a chymdeithasu â'r apostolion, "fel yr oedd eu pregethau yn swnio yn ei glustiau, a'u hymarferiadau sanctaidd ger bron ei lygaid, yn barhaus." Nid yw y llythyr yn hanes eglwysig uniongyrchol, eithr wedi ei ysgrifenu ar ddysgyblaeth eglwysig. Achlysurwyd ef trwy ymraniad ag oedd yn yr eglwys yn Corinth, pan y bwriodd ymaith ei holl swyddwyr, heb un achos cyfreithlon, yn ol barn ei brodyr yn Rhufain; ond trwy hudoliaeth dau neu dri o ddynion terfysglyd oedd yn eu plith. Y mae y llythyr wedi ei ysgrifenu, nid yn enw Clemens, fel esgob yr eglwys oedd yn Rhufain, nac un blaenor arall, na chorph o henuriaid mewn cynnadledd, ond yn enw y frawdoliaeth grefyddol oedd yn Rhufain. Ni anfonir ef at un blaenor yn Corinth, neu wlad Achaia, nac at gorph o weinidogion a gyfarfyddai mewn cymmanfa, mewn unrhyw dalaeth, ond at y frawdoliaeth, sef yr eglwys yn gyffredinol, ag oedd yn Corinth ag oedd wedi bwrw ymaith ei swyddogion—yr hyn a ddengys mai ganddynt hwy yr oedd yr awdurdod i ymdrin â'u hachos eu hunain. Yr annerch sydd fel hyn: "Eglwys Dduw, a breswylia ac a ymdeithia yn Rhufain, yn anfon annerch at eglwys Dduw, a breswylia ac a ymdeithia yn Corinth; y rhai a alwyd, ac a sancteiddiwyd yn ol ewyllys Duw, trwy ein Harglwydd Iesu Grist." Pe buasai yr eglwys hon o dan ryw awdurdod

* Enquiry to the Mode, Principles, and Discipline of the Primitive Churches, part. 1. p. 26—138.
† Eccl. Hist. p. 236. Y tri wyr dysgedig a goffawyd ddiweddaf, oeddynt o gymundeb yr Eglwys Sefydledig yn Lloegr.

oddi allan iddi ei hun, oni byddai yr amgylchiad yn galw am i'r awdurdod hwnw gael ei amlygu tu ag atti, i osod pethau mewn trefn ynddi? ond nid oes air am y fath beth. Ni arddelwir chwaith gan Clemens, na'r eglwys yn Rhufain, unrhyw hawl nac awdurdod llywodraethol ar y brodyr yn Corinth; ond cynghorir ac annogir hwy ganddynt, fel rhai oedd yn sefyll mewn perthynas â hwy fel chwaer-eglwys. Beïr arni, nid am gymmeryd hawl ac awdurdod na pherthynai iddi, yn ei gwaith yn bwrw ymaith ei blaenoriaid, ond am ddefnyddio ei hawdurdod mewn modd afreolaidd; ac hydnabyddir ei hawdurdod, yn y modd egluraf, pan ei hannogir gyda'r fath daerni i adferu ei swyddogion i'w cyn-sefyllfa yn yr eglwys. Y prif beth a ymdrechir yn yr holl lythyr i'w argraffu ar feddyliau y Corinthiaid, yw—nid am fod un perygl iddynt o gael eu galw i gyfrif gan unrhyw awdurdod uwch, ond—y mawr niwaid a wnaent i Gristionogaeth yn gyffredinol trwy eu hymddygiad, a'r angenrheidrwydd o ymostyngiad ac hunan-ymwadiad yn mhob un yn yr eglwys, er llenwi ei le, ei gyssur ei hun, ac adeiladaeth eraill. "Y mae yn bechod dirfawr (meddant) i ni droi ymaith a gwrthod y rhai hyny a gyflwynasant eu doniau a'u talentau er cyflawniad ffyddlon o'u dyledswyddau esgobaethol, gyda hyfdra canmoladwy. Bydded i ni gan hyny fod yn ddarostyngedig i'n henuriaid, a pharchu y rhai a osodir yn olygwyr neu esgobion drosom." A gosodant i lawr y rheol hon, yr hon a deilynga sylw pawb a ddymuno fyw yn ddefnyddiol, "Bydded fod dyn yn ffyddlon; bydded ei fod yn deall geiriau, neu athrawiaeth; bydded ei fod yn ddiwair, neu yn bur mewn geiriau a gweithredoedd; po fwyaf yr ymddengys felly, mwyaf gostyngedig y dylai fod, fel na byddo i'r eglwys gael dim gofid na rhwystr oddi wrtho ef na'i dalentau; ac na fydded iddo ef ymdrechu ceisio ei leshad ei hun, ond lleshad yr eglwys yn gyffredinol."

Terfynir y llythyr mewn modd dymunol, yn y geiriau hyn, "Dylem, yn enwedigol, gofio geiriau ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a ddengys i ni yr addfwynder a'r hir-ymaros mwyaf, gan ddywedyd wrthym, 'Byddwch drugarogion, fel y caffoch drugaredd; maddeuwch, fel y maddeuir i chwithau.' Yn ol y gorchymynion hyn, ac wrth y rheolau yma, bydded i ni bob amser sefydlu a chadarnhau ein hunain, fel y gallom rodio mewn ufudd-dod i'w sanctaidd air."

Claudius, Valerius, Bibo, a Ffortunatus, oedd enwau y cennadau *a ddewiswyd gan yr eglwys* yn Rhufain (fel yr oedd arferiad yr eglwysi cyntefig) i ddwyn y llythyr i'r eglwys oedd yn Corinth.*

Gallesid lluosogi tystiolaethau i rifedi aneirif, o awduron credadwy, hen a diweddar, yn cadarnhau y golygiadau blaenorol, am nattur, trefn, ac egwyddorion sefydliad anymddibynol yr eglwysi apostolaidd; eithr bernir hyn yn ddigon yn bresennol. A diau mai anhawdd yw cael dyn o ddysg cyffredin, neu dduwinydd o barch a chymmeradwyaeth, a broffesai ei fod wedi chwilio i mewn i'r pethau hyn, yn mhlith amryw gymundeb o grefyddwyr, a anturiai i wadu, neu i wrthbrofi y tystiolaethau a roddir am hyn yma. Nid yn unig y mae yn amlwg nad oedd unrhyw gyssylltiad rhwng yr eglwysi apostolaidd, a sefydlwyd gan yr apostolion a'u cyd-oeswyr, â'r llywodraethau gwladol, yn y gwledydd lle y sefydlwyd hwy—ac nad

* Gwel ychwaneg ar y llythyr hwn yn Dr. Owen, on the State of the First Churches, p. 90—100, a Lord King's Enquiry into the Primitive Churches; a Milner's Church Hist. vol.

oeddynt yn cael eu rhoddi o dan eu nawdd a'u rheolaeth, yn y mesur lleiaf—ond hefyd, eu bod o'r fath nattur ac egwyddorion ag nas gallent gael eu rhoddi felly, heb ddistrywio eu trefn a chroesi eu hegwyddorion cyntefig. Wrth ddywedyd hyn, ni feddylir, yn y gradd lleiaf, nad oes ar Gristionogion y rhwymau mwyaf i ymostwng i'w llywodraethwyr gwladol, mewn pethau gwladol; i hyn gorchymynir hwy, mewn modd eglur a phenderfynol, yn fynych gan yr apostolion. Yr apostol Pedr a ddywed, "Ymostyngwch o blegid hyn i bob *dynol ordinhad*, o herwydd yr Arglwydd, pa un bynag ai i'r brenin, megys goruchaf, ai i'r llywodraethwyr, megys trwyddo ef gwedi eu hanfon."* Mae yn sicr nad oedd yr apostol yn golygu fod gan *ddynol ordinhadau* ddim a wnelent â'r hyn oedd yn grefyddol, ac yn perthynu i addoliad Duw, amgen buasai yr apostol yn dywedyd am iddynt ufuddhau i'r hyn oedd groes i'w ymddygiad ei hun, a'r hyn oedd wedi ddywedyd mewn lle arall. Canys dywed yr un apostol, gyda golwg ar bethau crefyddol, wrth benaethiaid y wlad, a blaenoriaid yr eglwys, "Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion."* A dysgir i ni gan ein Harglwydd, pa beth sydd i'w roddi i lywodraethwyr gwladol, pan y dywedodd, "Rhoddwch eiddo Cæsar i Cæsar, a'r eiddo Duw i Dduw." Mewn pethau cerfyddol, meddai, "Na elwch neb yn dad i chwi ar y ddaear; canys un yw eich Tad chwi, yr hwn sydd yn y nefoedd."

Yn yr hyn oll a berthynai i Dduw ac achosion crefyddol, nid oedd yr apostolion yn ymostwng i un dynol ordinhad, na'r eglwysi cyntefig yn derbyn cyfreithiau, rheolau, na gosodiadau gan neb dynion, mewn unrhyw sefyllfa, oddi eithr eu bod wedi eu hawdurdodi gan Dduw i hyny. Pe byddai y brenhinoedd sanctaiddiaf, a'r penaduriaid gwladol ac eglwysig goreu a fu, ac a fydd, yn rhoddi y cyfreithiau unionaf, a'r rheolau mwyaf ysgrythyrol, a'u gosod i fynu er llywodraethu yr eglwysi, ac yn gofyn ufudd-dod crefyddol iddynt trwy eu hawdurdod—gwnaent trwy hyny geisio gwthio Crist oddi ar ei orsedd, cymmeryd y goron oddi ar ei ben, a difeddiannu yr eglwys o'i braint o fod yn eglwys i Grist, a gwneuthur ei hufuddolion yn eilunaddolwyr. Canys ni all fod dim yn wir grefyddol i Dduw, ac yn wir gysson â chyfansoddiad eglwysi Crist, ond yr hyn sydd yn uniongyrchol mewn cydwybodolrwydd, ac yn ymostyngiad i Dduw, yn wyneb ei wirionedd. Ni ddichon i un eglwys ag sydd mewn bod roddi ufudd-dod crefyddol i neb dynion ar y ddaear, heb aberthu anrhydedd a choron Crist, brenin a phen ei eglwys, a'i rhyddid ei hun, yr hyn yr oedd yr apostolion a'r Cristionogion cyntefig yn ei amddiffyn, ar draul eu meddiannau, eu henwau da, a'u bywydau. Eithr yr oeddynt yn ystyried fod eu hufudd-dod yn ofynol i'w llywodraethwyr gwladol, mewn pethau a berthynai i'w swydd a'u sefyllfa, sef, achosion rhwng gwr a gwr, fel gwladwyr, yn hollol anymddibynol ar eu crefydd.

Y mae ar bob Cristion rwymau i barchu y brenin, yn y pethau hyn, nid am ei fod yn Gristion mwy na Phagan, neu am ei fod o'r gred hon neu arall, neu am ei fod yn dilyn y trefniad crefyddol hwn neu'r llall; ond am ei fod wedi ei osod gan Ragluniaeth ddoeth y nef, i wylied drosto ef, yn ei bethau gwladol.

Meddylir ei bod yn eglur, mai dyma yr egwyddorion ar ba rai yr oedd yr apostolion yn sefydlu yr eglwysi yn eu dyddiau hwy, ac ar ba rai yr

* Cydmarer 1 Petr ii. 13, 14. âg Act. v. 28, 29.

oeddynt hwy eu hunain yn gweithredu. "Gwneuthur proselytiaid crefyddol, trwy awdurdodau gwladol, a chleddyfau y llywodraethwyr, (medd Dr. Campbell,) sydd *ormes* o'r mwyaf mewn llywodraethwyr; a rhoddi i fynu ein dealldwriaeth i gymmeradwyo a derbyn yn ganiattaol yr hyn a ddylem yn rhesymol ei ddeall, a bod yn argyhoeddedig o hono, sydd, o'n tu ni, yn *waseidd-dra* i'r graddau iselaf. Gormes a gwaseidd-dra, pa mor belled bynag y dichon iddynt fod yn gymmwys ac yn wasanaethgar i lywodraethau y byd hwn, ni allant fod, yn y mesur lleiaf, yn gymmwys i gymmeriad nefolaidd teyrnas Iesu Grist. Yr unig foddion ag y mae yr efengyl yn ganiattau i ni i'w defnyddio, er dwyn yn mlaen y deyrnas hon, ydyw y cymhelliadau a'r annogaethau a fyddo yn agor y deall i'w oleuo, ac yn effeithio i ennill yr ewyllys a'r serchiadau. Peiriant unigol pob llywodraeth wladol, trwy ba un y mae yn cael ei dwyn yn mlaen, ydyw *grym*, heb un golwg ar oleuo y deall nac effeithio ar yr ewyllys; ond ymeifl yn y corph a'r meddiannau â chospedigaeth. Ond iaith ein Harglwydd oedd, Os *ewyllysia*, neb ddyfod ar fy ol i, a bod o dan fy iau a'm harweiniad. Nid oes yma ddim yn cael ei wneuthur ag sy'n rhwystro neb pa bynag, nac yn treisio yr anewyllysgar.

Fel y mae yn eglur, fod disgwyliad yr Iuddewon am i deyrnas ddaearol gael ei gosod i fynu gan y Messiah, wedi bod yn wreiddyn a ffynnonell i'w hannghrediniaeth; felly, gellir dywedyd yn uniawn, mai gwreiddyn a dechreu y dirywiad a'r cyflawn ddadfeiliad a ragddywedwyd gan yr ysgrifenwyr ysbrydoledig, a ddeuai i Gristionogaeth, ydoedd, yr ymdrechiadau a wnaid gan ddynion i wneuthur eglwys Crist yn deyrnas o'r byd hwn, a'i chyssylltu â llywodraethau gwladol, a defnyddio moddion daearol i'w dwyn yn mlaen a'i helaethu."* Mr. Locke a ddywed, "Holl raglawiaeth ac awdurdod pob llywodraethwyr, sydd yn unig i gyrhaedd cyn belled âg achosion gwladwriaethol eu deiliaid, ac nid yn mhellach: i ofalu i drefnu ac i ddwyn yn mlaen y pethau hyn, y mae eu holl allu, eu hawl, a'u hawdurdod hwy wedi eu trefnu a'u cyfyngu. Ni allant, ac ni ddylent, mewn un modd, geisio ymhyraeth nac ymwneud, yn eu hawdurdod, â phethau eneidiol eu deiliaid."† Ond a ydyw ddim yn fantais fod yr eglwysi wedi eu cyssylltu â'r llywodraethau gwladol? a ydyw crefydd ddim yn ennill trwy ei bod yn cael ei chynnal gan y llywodraeth wladol? a ydyw hyn ddim yn rhoddi rhyw fawredd arni hi, ac enwogrwydd ar ei gweinidogion? Yn ddiau, os ydyw, rhaid mai yn ngolwg dynion o olygiadau bydol iawn y mae. Ond och! hyn sydd wedi bod ynfaen tramgwydd i lawer, nes eu dwyn i gamgymmeriad hollol am nattur teyrnas Iesu Grist, ac yn graig rhwystr i attal ei gwir lwyddiant.‡

Meddylir fod y sylwadau hyn yn dangos yn dra eglur egwyddorion, nattur, a dybenion sefydliad yr eglwysi apostolaidd; a'u bod o'r fath ag nas gallent byth gael eu cyssylltu âg unrhyw lywodraeth ddaearol, heb iddynt ddinystrio y naill y llall. Amcan pob llywodraeth wladol, ydyw cynnal trefn rhwng y naill ddeiliad a'r llall, yn nghylch achosion perthynol i'r byd hwn, er mwyn diogelu meddiannau, a bywyd natturiol, a'i gyssuron, a'u gwneuthur yn barchus, cyfoethog, a threfnus, fel deiliaid gwladol. Eithr dyben sefydliad yr eglwysi apostolaidd, a dygiad yn mlaen Gristion-

* Dr. Campbell's Preface to his Translation of the Four Gospels, vol. i. p. 58.
† On Toleration, p. 30. ‡ Haldane's Soc. Religion, p. 406, 407.

ogaeth, ydoedd, ffurfio agwedd meddwl a chalon aelodau yr eglwysi mewn ffydd a chariad, a'u dwyn i fod yn ostyngedig a hunan-ymwadol, ac i ddyrchafu eu cymmeriad crefyddol, fel deiliaid llywodraeth foesol y Jehofah, a rhai yn sefyll eu prawf am nefoedd yn dragywyddol. Mewn trefn i lywodraeth gyrhaedd yr amcan, y mae yn sefydlu trefn yn mhlith y deiliaid yn nghylch pethau y bywyd hwn, ac yn gofyn ufudd-dod a chyfrif ganddynt am eu hymddygiad tu ag at y drefn honno; felly y mae dyn yn attebol i ddyn. Ond yn mhob lle yn y gair yr ŷm yn gweled fod yr eglwysi cyntefig yn cael eu hystyried gan yr apostolion yn gyfrifol i Dduw yn unig am eu hachosion crefyddol. Grym pob llywodraeth wladol ydyw, yr hawl sydd ganddi i gospi ei deiliaid yn eu cyrph a'u meddiannau am anghydffurfiad â'i threfniadau, yr hyn a eilw yr ysgrythyr yn *ddwyn y cleddyf*. Eithr grym Cristionogaeth, a'r eglwysi cyntefig, ydoedd hawl Duw i ofyn ufudd-dod calon oddi wrth bob creadur rhesymol, a'i awdurdod i'w ddwyn i gyfrif, a'i gospi yn ysbrydol a thragywyddol am ei feiau a'i golliadau crefyddol. Caniattau hyn i ddynion mewn unrhyw sefyllfa, yw caniattau iddynt yr hyn sydd yn annhraethol allan o'u cyrhaedd hwy a'u gweinidogaeth; a cheisio cyfiawnhau yr ymhyraeth â'r pethau a fu gan benaethiaid y byd hwn, ydyw ceisio cyfiawnhau yr holl erlidwyr a'r erledigaethau a fu yn achos crefydd yn y byd erioed.

Oddi wrth y ffeithiau a goffäwyd yn barod, yn yr hanesion blaenorol, am yr eglwysi a blanwyd gan yr apostolion, meddylir y gwelir yn amlwg, er nad oeddynt wedi cael eu rhoddi o dan awdurdod neb dynion tu allan iddynt eu hunain, etto *fod yr Arglwydd wedi gosod ynddynt lywodraeth, a swyddogion i'w gweini.* "Cymmerwch fy iau arnoch, a dysgwch genyf"—yr arwyddair y cyfeiria Crist bawb atto—sydd a wnelont hwy âg ef. A rhan fawr o archiad Brenin Sion i'w apostolion, oedd, ar iddynt ddysgu i'w ddysgyblion, yn mhob lle, gadw pob peth a orchymynasai efe iddynt. Gwedi iddo ddyrchafu i'r uchelder, mewn cyflawniad o'r addewid foreuol, dywed yr apostol iddo roddi rhoddion i ddynion, a thrwy hyny roddi rhai yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon, i berffeithio'r saint i waith y weinidogaeth, er adeiladu corph Crist.* Y mae y geiriau hyn yn cyfeirio at arferiad brenhinoedd y dwyrain, pan yn dyfod i'w gorsedd, sef dangos eu haelioni, trwy roddi rhoddion helaeth a gwerthfawr i'w deiliaid, a gosod trefn a swyddwyr yn eu teyrnasoedd; felly y gwelir yma i'n Harglwydd wneuthur. Enwir agos yr un gofrestr o swyddwyr yn llythyr Paul at y Corinthiaid.†

Wrth edrych ar y cofrestrau hyn, dichon ei bod yn lled anhawdd i ni yn bresennol roddi darluniad cywir o honynt, na dywedyd yn eglur yn mha bethau yr oeddynt oll yn cyduno ac yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd. Eithr y mae yn bur amlwg fod yn yr eglwys y dyddiau hyny rai swyddau anghyffredinol, ag oedd i barhau ynddi dros ychydig amser, a rhai swyddau cyffredinol, ag oedd i barhau ynddi dros amser ei hymdaith ar y ddaear. Fel na byddai i ni fethu deall y gwahaniaeth uchod, a gwybod pwy oedd yn swyddwyr anghyffredinol, a phwy oedd y rhai cyffredinol, y mae yr Arglwydd wedi cadw gosodiad y rhai anghyffredinol yn eu swyddau yn hollol yn ei feddiant ei hun. Nid yw wedi gosod i'w eglwys, yn y gair, unrhyw enghraifft na rheol am eu dewisiad, na'u cymmwysderau i'w

* Eph. iv. 11. † 1 Cor. xii. 28.

swyddau; ac y mae gwaith rhai o honynt, dichon, yn lled anadnabyddus i'r eglwys yn bresennol. A phan yr oeddynt hwy yn cael eu gosod yn uniongyrchol gan Grist ei hun yn eu swyddau, ac yn cael eu harwain yn anfethedig yn eu gwaith gan yr Ysbryd Glan, nid oedd dewisiad a gwybodaeth eu cymmwysderau a'u gwaith, yn angenrheidiol i'r eglwys.

Eithr am y swyddau cyffredin ag sydd i barhau yn yr eglwys, yr hon y perthyn i'w gweinidogaeth i ddewis, gosod, a chynnal dynion cymmwys i weinyddu iddi yn ei phethau crefydol oes i oes, mae genym amlygiad eglur, mewn rheolau ac enghreifftiau ysgrythyrol, o gymmwysderau y cyfryw sy'n ol meddwl yr Arglwydd i'w cyflawni—y modd y gosodir hwy yn eu swydd, a'r gwaith sydd ganddynt i'w gyflawni. Llawer sydd wedi cael ei ddywedyd mewn perthynas i barhad doniau gwyrthiol a swyddau anghyffredinol yn yr eglwys. Ond ymddengys yn lled eglur, tybiwn, yn ol ystyr manylaf a mwyaf cyffredin y gair gwyrthiau, nad oedd neb yn yr oes gyntaf o Gristionogrwydd yn meddu yr hawl o roddi yr Ysbryd Glan yn ei ddoniau gwyrthiol i eraill, ond yr apostolion yn unig.* A phan y bu feirw y cyfryw y darfu i'r apostolion gyfranu iddynt allu i wneuthur gwyrthiau, yna darfu gwyrthiau yn yr eglwysi. A meddylir ei bod yn amlwg fod yr angenrheidrwydd a'r dyben o'r hawl hon wedi terfynu gyda'r apostolion; canys nid prawf uniongyrchol o ddwyfoldeb yr efengyl oedd yr hawl o roddi yr Ysbryd Glan yn ei ddoniau gwyrthiol i eraill, amgen buasai angenrheidrwydd am hyny yn barhaus: eithr prawf oedd o ddwyfolder awdurdodiad yr apostolion fel cennadau anffaeledig, i draddodi ewyllys Duw i ddynion, a sefydlu trefn a chyfreithiau yn ei deyrnas. A chan na bu neb yn meddu ar yr awdurdod hwn, nac yn gweini y swydd hon, wedi yr apostolion, o ganlyniad ni bu y sêl wrth weinidogaeth neb ar eu hol hwy. Pan oedd rhai yn Corinth yn ammau dwyfoldeb apostoliaeth Paul, pa fodd y mae efe yn gwrthsefyll y cyhuddiad? onid trwy ofyn i'r Corinthiaid pa beth y buont hwy yn ol am dano mwy na'r eglwysi a blanwyd gan yr apostolion eraill?† Wrth edrych i'r cyd-destunau, gwelir yn eglur mai y pethau yr oedd yr apostol yn ddywedyd nad oedd y Corinthiad wedi bod yn ol o honynt, trwy ei weinidogaeth ef, rhagor i'r eglwysi ereill, ag oedd yn profi dwyfoldeb ei apostoliaeth, oedd cyfraniad o eiddo yr Ysbryd Glan i'w galluogi i wneuthur gwyrthiau. Os oedd yr hawl o gyfranu yr Ysbryd Glan yn perthyn i bawb ag oedd yn gwneuthur gwyrthiau y dyddiau hyny, neu i rai heblaw yr apostolion, pa fodd y gallasai yr hawl i hyny, ynte, brofi dwyfoldeb apostoliaeth Paul? Mae yn ddiau nad oedd Paul yn ymresymu yn wanaidd nac yn ansynwyrol. Ni welir braidd neb wedi dyddiau yr apostolion yn honni hawl i ddoniau gwyrthiol mewn unrhyw ystyriaeth, ond a fyddai am osod i fynu a chynnal rhyw drefniadau, gosodiadau, a chyfreithiau newyddion ac anysgrythyrol yn yr eglwysi.

Mewn perthynas i swyddau anghyffredinol a ddarllenir am danynt yn y Testament Newydd, fynychaf, dywedir am apostolion, efengylwyr, a phrophwydi. Yr apostolion, fel y cyfryw yn unig, oeddynt, tybir, i fod yn dystion o adgyfodiad yr Arglwydd Iesu, trwy iddynt ei weled yn bersonol wedi iddo adgyfodi, i egluro meddwl Duw yn anffaeledig i ddynion, a gosod i fynu yr eglwys yn ei threfn efengylaidd. Yr oedd yr holl eglwysi, y naill fel y llall, i fod dan eu gofal; a maes eu gweinidogaeth oedd y byd. Yr oedd

* Act, viii. 14, 15. † 2 Cor, xii. 12, 13.

eglwysi drosglwyddo eu llywodraeth, eu breintiau, eu cydwybodau, a'u rhyddid i gadw i gorph o weinidogion, paham nad all y rhai hyny eu trosglwyddo i nifer llai, a'r nifer hyny eu rhoddi i ryw un mewn rhyw le? Gochelwn fyned i Rufain yn gynt nag oeddym yn meddwl, y mae y cymmanfaoedd a wrthwynebir yma yn fwy na hanner y ffordd yno. Ond y mae yr holl hanes ysgrythyrol yn eglur ddangos fod holl achosion yr eglwysi a'u llywodraeth i gael eu gweini gan yr eglwysi a'u gweinidogion, nid gan y naill heb y llall, eithr mewn cyd-weithrediad â'u gilydd, ynddynt eu hunain. Y mae gwaith pob gweinidog yn benaf yn ei eglwys, ac at yr eglwysi y cyfeiria yr Ysbryd Glan ei holl rybuddion, ei gyfarwyddiadau, a'i gynghorion yn y gair; a hwynthwy a feïir pan mewn annhrefn ac o le; a hwy a ganmolir pan yn gweithredu yn rhinweddol a gweddus. Ymddengys fod perffaith gydraddoldeb rhwng holl weinidogion y Testament Newydd. Mewn swydd ac awdurdod y mae pawb yn eu heglwys eu hunain, yn ol trefn Iesu Grist, yn gydradd, beth bynag a ddichon fod y rhagor iaeth mewn doniau, defnyddioldeb, a llwyddiant. "Chwi a wyddoch," medd ein Harglwydd, "fod penaethiaid y Cenhedloedd yn tra-arglwyddiaethu arnynt, a'r rhai mawrion yn tra awdurdodi arnynt hwy. Eithr nid felly y bydd yn eich plith chwi: ond pwy bynnag a fynno fod yn fawr yn eich plith chwi, bydded yn weinidog i chwi."*

Yr oedd yr esgobion gynt yn myned i'w swydd trwy rydd-ddewisiad yr eglwysi ac ordeiniad yr henuriaid. Cyfarwydda yr apostol Paul Timotheus a Titus, mewn perthynas i'r cymmwysderau a weddai fod yn y cyfryw swyddogion yn yr eglwysi; yr hyn oedd berffaith gysson â rhyddid yr eglwysi, i ddewis eu gweinidogion eu hunain. Canys nid gwaith yr eglwysi oedd sefydlu pa gymmwysder oedd yn angenrheidiol, ond edrych pwy oedd y personau ag oedd yn meddu ar y cymmwysderau hyny, ag oedd anfeidrol Ddoethineb wedi sefydlu i fod yn addas mewn esgob. Gwaith yr apostolion a'r efengylwyr oedd dysgu yr eglwysi pa beth oedd y gwir gymmwysiadau angenrheidiol mewn rhai i'w blaenori yn yr Arglwydd, a'u gwaith hwythau oedd edrych am y cyfryw bersonau. A diammau fod yr apostolion, yr efengylwyr, a'r henuriaid a'u canlynodd hwy yn llywodraethiad yr eglwysi, yn cynnorthwyo yr eglwysi yn eu dewisiad, ac yn blaenori yn y gwaith o ordeinio y dewisedig. Fel y dywed Clemens Romanus am hyn, "Yr apostolion, gyda'r gofal mwyaf, a ordeiniasant flaenoriaid yn yr eglwysi, ac a roddasant reolau i'w dilynwyr mewn amser dyfodol, fel wedi ymadawiad y rhai hyn, y byddai dynion cymmeradwy i'w canlyn, pa rai a ordeinid ganddynt hwy, neu gan henuriaid dilyniadol iddynt, dewisedig gan yr eglwysi, trwy gydsyniad a chyd-weithrediad yr holl eglwysi." Mewn lle arall, dywed, "Gwyddai yr apostolion, trwy yr Arglwydd Iesu, y cyfodai amrysonau yn nghylch esgobaethau, neu yr enw esgob. Gan eu bod yn perffaith ragweled hyny, hwy a ordeiniasant flaenffrwyth eu gweinidogaeth i swyddau eglwysaidd, sef esgobion a diaconiaid. Yn hyn rhoddasant ddarluniad neu reol yn nghylch y drefn weinidogaethol, fel y byddai i ddynion profedig gael eu rhoddi yn ganlyniedyddion iddynt yn y weinidogaeth. Y swyddwyr a sefydlwyd fel hyn, ganddynt hwy, a chan ddynion cyfrifol mewn canlyniad, a osodwyd felly trwy gydsyniad yr holl eglwysi."†

* Mat. xx. 25, 26. † See this Epistle as it is translated in Milner's Church Hist. vol. i. and Lord King's Enquiry, and Owen's Enquiry.

Nid oes a ddichon fod yn eglurach yn wyneb rheswm, a hanesyddiaeth yr eglwys, o ddyddiau yr apostolion hyd ddyddiau Cyprian, yn y trydydd canrif, na hawl yr eglwysi i ddewis eu gweinidogion eu hunain; ac y mae yn berffaith gysson â bod henuriaid eraill yn cydweithredu, ac yn blaenori yn y gwaith o'u hordeinio. Nid oes genym yr awgrym lleiaf, yn yr hanes ysgrythyrol, na'r hanesion eglwysig, am y canrifoedd cyntaf ar ol dyddiau yr apostolion, fod neb yn myned i'r weinidogaeth heb gael ei ordeinio gan ryw flaenoriaid eglwysig, a hyny trwy weddi, ympryd, ac arddodiad dwylaw. Ac wrth ystyried fod yr apostol yn gorchymyn i ni sancteiddio pob peth trwy air Duw, y mae yn ddiau eu bod yn ymarfer â rhyw ranau o air Duw wrth gyflawni y gorchwyl.

Amheuir y priodoldeb o arfer arddodiad dwylaw yn neillduad un i waith y weinidogaeth, gan anryw y dyddiau hyn; o blegid, meddant, arwydd oedd hyny yn nyddiau yr apostolion o gyfraniad doniau gwyrthiol; a chan fod y rhai hyny wedi peidio, dylai yr arwydd gael ei roddi heibio. Er ein bod yn credu nad oes gan y naill ddyn ddim i'w roddi i'r llall yn y ffordd honno, ac nad yw yr ordeiniedig yn derbyn dim mwy trwy ei ordeiniad na hawl yn ol trefn y Nef i weini i'r eglwys honno, ac mai y dull difrifol ac adeiladol o gydnabod un yn weinidog i'r cyfryw eglwys ydyw ordeiniad; etto nid ellir llai na gweled wrth edrych i hanesyddiaeth ysgrythyrol a chyffredin, fod arddodiad dwylaw wrth neillduo un i waith sanctaidd, yn arferedig gan yr Iuddewon pan yn neillduo un i waith y synagog, ac ar ddynion yn oes yr apostolion, pryd nad oedd doniau gwyrthiol yn cael eu cyfranu. Nid oes un lle i feddwl fod yr eglwys a'i henuriaid yn Antiochia yn rhoddi doniau gwyrthiol i Paul a Barnabas, pan yn eu neillduo yn ol gorchymyn Duw.* Yr un modd, nid oes genym le i gredu fod Timotheus yn cyfranu y cyfryw ddoniau wrth ordeinio henuriaid yn eglwysi Asia Leiaf; etto yr oedd pob un o'r rhai hyn yn cymmeryd lle trwy arddodiad dwylaw.†

Ond dywedir gan rai, pa les yw, os nad oes dim yn cael ei gyfranu i'r ordeiniedig gan y rhai a osodant eu dwylaw arno? Os yw yn weithred o ddwyfol drefniad, ni pherthyn i ni ymofyn felly; canys eglur yw fod genym lawer o bethau nad ydynt ynddynt eu hunain o un lleshad, ond arwyddion; megys dwfr yn y bedydd, a bara a gwin yn y swpper sanctaidd: etto, pan y maent o drefniad dwyfol, yr ydym yn rhwym o gydwybod i'w harferyd. Y mae yn dra eglur fod hon yn arferiad barhaol yn yr eglwys er dyddiau yr apostolion.‡

Yr ydym yn gweled fod diaconiaid wedi eu neillduo er yn foreu iawn yn yr eglwys, i ofalu am ei hachosion tymhorol. Y modd y maent i'w gosod yn eu swydd sydd eglur;§ ac y mae yr hyn a ddywed yr apostol am gymmeriad y person addas i gymmeryd y gwaith arno, yn dangos yn eglur fod y cyfryw swyddwyr i barhau yn yr eglwysi.‖ Ymddengys fod y gwaith o bregethu yr efengyl yn ddyledswydd ar bawb yn ol y dawn a feddant; ac y mae yn debygol fod y dysgyblion yn gyffredinol yn llefaru am Iesu Grist yn nyddiau cyntefig yr eglwys.¶ Etto, nid oedd hyn yn ei gwneuthur yn afreidiol i rai gael eu neillduo i waith y weinidogaeth, yn fwy uniongyrchol. Yr oedd y diaconiaid a neillduwyd gyntaf yn yr eglwys, gan mwyaf, yn pregethu; ond ni pherthynai hyn i'w swydd, ac nid fel diaconiaid y pregethent.

* Act. xiii. 3. † 1 Tim. v. 22. ‡ Lord King's Enquiry, p. 49. § Act. vi. 5, 6.
‖ 1 Tim. iii. 8, 9. ¶ Act. viii. 4. a 1 Cor. xiv. 26.

Mewn amrywiol wledydd yn y dyddiau gynt, ac hyd heddyw mewn rhai parthau o'r India, ni oddefir i'r benywod gymdeithasu â'r gwrrywod, mewn modd cyhoeddus, hyd yn nod wrth y byrddau gartref, yn ngwydd dyeithriaid. O blegid yr arferiad hon, tebygol, gorfu ar yr apostolion ordeinio gweinidogesau a diaconesau, i ddysgu a hyfforddi y merched a'r gwragedd mewn ymneillduaeth. Wrth ystyried manylrwydd y cyfarwyddiadau a rydd yr apostol yn nghylch y swyddogesau hyn, nid oes le i ammau nad oedd efe yn golygu y byddai angenrheidrwydd iddynt barhau yn yr eglwys, mewn rhyw barthau o'r ddaear. A pha reswm sydd nad all y merched fod yn fwy o ddefnydd yn yr eglwysi yn gyffredinol, a hyny yn mhlith eu hystlen eu hunain?

Er nad oedd ond dwy swydd yn yr eglwysi yn ol trefn y Testament Newydd, etto nid yw yn amlwg pa nifer o swyddogion oedd, neu sydd, i fod yn mhob eglwys; ac y mae yn lled debygol fod hyny wedi cael ei adael i'w benderfynu yn ol lluosogrwydd yr aelodau, a helaethrwydd y gwaith a fyddai i'w gyflawni. Dylid ystyried yr hyn a ddywedodd Syr Isaac Newton, "nad yw nattur yn gwneuthur dim yn ofer, ac nad yw Duw yn dwyn mwy o offerynau at unrhyw waith nag y byddo achos am danynt." Fod amryw henuriaid a diaconiaid yn mhob eglwys yn nyddiau yr apostolion, sydd eglur; a gwelir yr angenrheidrwydd am hyny wrth ystyried y gwaith oedd ganddynt i'w wneuthur, a'r dull yr oeddynt yn ei gyflawni. Gorfyddai arnynt addysgu ac egwyddori y lluoedd dysgyblion a ddeuent yn gyffredin i'r eglwysi, mewn gwahanol ddosparthiadau; a byddai amryw yn areithio yn mhob cyfarfod. Hefyd yr oeddynt ar amryw amserau yn gorfod ymgynnull mewn gwahanol fanau, rhag ofn eu herlidwyr, ac o eisiau lle cyfleus.*

Er mwyn cynnal trefn, a hwylusu y gwaith yn wyneb y fath amgylchiadau, gwelodd yr apostolion yn addas i neillduo amryw swyddogion yn mhob eglwys. Y mae yn debygol fod yr henuriaid a neillduid fel hyn gan yr apostolion yn yr eglwysi, yn meddu ar wahanol ddoniau; rhai o honynt yn meddu ar ddoniau i osod allan wirioneddau yr efengyl yn fwy cyhoeddus nag eraill; pan y byddai gan eraill ddoniau i osod allan, a dysgu y bobl yn nghyfreithiau Crist, yn fwy dirgelaidd. Ond meddylir nad oes unrhyw sail resymol nag ysgrythyrol i'r gwahaniaeth hwnw a wneir gan lawer rhwng henuriaid llëygol *(lay elders)* a henuriaid eglwysig *(clerical elders,)* neu, fel y geilw eraill hwynt, henuriaid llywodraethol, a henuriaid athrawiaethol. Y mae'r fath ymadrodd yn ceisio gwneuthur gwahaniaeth lle nid oes gwahaniaeth, yn ol trefn yr ysgrythyr. Y gwirionedd yw, nid oes neb yn gymmwys i lywodraethu yn eglwys Dduw ond a fedro ddysgu ac athrawiaethu: canys llywodraeth i'w dwyn yn mlaen trwy ddysgeidiaeth ac athrawiaeth—ac nid trwy rym ac awdurdod—ydyw llywodraeth eglwys Iesu Grist. Gan hyny, y mae cymmwysder i addysgu eraill yn ngwirioneddau yr efengyl a chyfreithiau Crist, yn hanfodol i bob henuriad eglwysig. Er y dichon fod yn yr un eglwys rai o honynt yn fwy eu doniau, yn helaethach eu defnyddioldeb, ac yn ymroddi yn fwy i'r gwaith nag eraill, at ba raddau y cyfeiria yr apostol yn 1 Tim. v. 17.; er hyny yr un yw y swydd, a'r un modd difrifol y dylent fyned iddi. Dr. Campbell a ddywed "mai y gwahaniaeth uchod oedd un o'r grisiau blaenaf i ddirgelwch yr anwiredd, trwy ba un y daeth y dyn pechod i'r fath allu ac awdurdod yn mhlith dynion.†

Oddi wrth y ffeithiau a osodwyd i lawr yn yr hanesion blaenorol, gwelir

* Haldane' View of Social Religion. † Lect. on Eccl. Hist. vol. i. p. 297—305.

fod yn yr eglwysi apostolaidd ddefodau ac ordinhadau, trwy ymarferiad ê pha rai, yr oeddynt yn cynnal i fynu addoliad cyhoeddus Duw, ac yn dwyn yn mlaen eu hadeiladaeth eu hunain. Llawer o ddadl sydd yn bod, a chwedi bod, a ydyw pob defod ac ymarferiad hanfodol i eglwys Crist a gwir grefydd, wedi cael eu hegluro yn yr ysgrythyr, ai nid ydynt? Heb amcanu sylwi ar y ddadl hon yn bresennol, gwelir yn ddigon eglur yn yr hanes a fu dan ein sylw yn y pennodau blaenorol, fod yr apostolion a'r eglwysi cyntefig yn sancteiddio y dydd cyntaf o'r wythnos, yn lle y seithfed dydd, i waith yr Arglwydd, er arwydd coffadwriaethol am ei adgyfodiad o'r bedd, a gorpheniad gwaith ein prynedigaeth.* Ar y dydd hwnw y cyfarfyddent yn fwyaf cyffredin, nid yn unig i egwyddori, rhybuddio, dysgu, ac annog eu gilydd, eithr adeiladu y naill y llall hefyd yn athrawiaeth yr apostolion. Y pryd hwnw byddai rhai o'r henuriaid neu'r cennadau presennol yn traddodi cynghorion, ac areithiau athrawiaethol, sylfaenedig ar yr ysgrythyrau, yr hyn a elwid pregethu yr efengyl. Arferent weddio yn y cyfarfodydd hyn; ac y mae yn sicr nad oedd ganddynt unrhyw ffurf ysgrifenedig o weddi, eithr gweddient fel eu cyfarwyddid gan amgylchiadau a'r Ysbryd Glan; ac arferent ganu mawl i Dduw ynddynt. Yr oeddynt yn gwneuthur casgliad i'r tlodion bob amser yn eu cyfarfodydd, a gweinyddent y swpper sanctaidd ar bob dydd yr Arglwydd.†

Pan y byddai rhyw rai yn argyhoeddedig o wirionedd Cristionogaeth, ac yn chwennych bod yn gyfranogion o'i breintiau, arwyddid eu perthynas â'r pethau hyny trwy fedydd dwfr; a phryd y byddai y cyfryw yn berchen teulu, deuai eu teulu dan yr arwydd gyda hwy.‡

Yr oedd yr eglwysi cyntefig yn gymdeithasau neillduedig oddi wrth y byd; a phan y byddai rhyw rai dan deimlad o'u sefyllfa, yn ewyllysio bod yn gyfranogion o'u breintiau cymdeithasol, derbynid hwy i'r gymdeithas, trwy gydsyniad yr holl frawdoliaeth.§ Pan y byddai neb o'r brodyr yn dirywio ac yn dadfeilio yn ei grefydd, gan ymlygru, ymdrechai yr eglwys i'w adgyweirio; os methent, naccaent i'r cyfryw gyfranogi o'u breintiau eglwysig, yr hyn oedd yr unig gosp a berthynai i'r eglwysi apostolaidd.‖

Cyfarfyddent mewn tai cyffredin—ysgoldai—yn y deml—y synagogau—ar y meusydd—ac mewn ogofëydd, heb ystyried un lle yn sancteiddiach na'r llall; ond dalient bob cyfleusdra yn mhob lle i wneuthur daioni i eneidiau dynion.¶ Ni osodid unrhyw ddefod nac ymarferiad yn ammod o dderbyniad i'r eglwysi yn nyddiau yr apostolion, ond proffes o'u crediniaeth yn Nghrist, dymuniad i'w adnabod, ac ymostyngiad i'w ewyllys dadguddiedig. A diau mai nid defodau, seremoniau, a mawrwychder allanol ac ymddangosiadol, oedd harddwch a gogoniant yr eglwysi sefydledig gan yr apostolion; ond ffydd, cariad, a rhinweddau ysbrydol. Dyma oedd eu cyfoeth a'u cyflawnder; yn y pethau hyn yr ymfawrygent; a chynnyddu yn y rhai hyn a olygent yn wir ddiwygiad. Oddi ar yr egwyddorion hyn y gweithredent, pa un bynag ai tu ag at eu gilydd, fel aelodau o'r un eglwys, ai tu ag at yr eglwysi ac achos Duw yn gyffredin. A lle byddo y rhai hyn yn ddiffygiol, oferedd ydyw ceisio gwneuthur eu lle i fynu trwy ryw ddefodau, seremoniau, a gwychder allanol, ac ymdrechu rhwymo dynion mewn rhyw undeb ac ymarferiadau allanol, heb ddim o grefydd yr eglwysi apostolaidd ynddynt.

* Ioan xx. 19, 26. Act. ii. 1. 1 Cor. xvi. 1. † 1 Cor. xvi. 2. Act. ii. 42.
‡ Act. xvi. 15, 30, 33. 1 Cor. i. 16. § Rhuf. xiv. 1. ‖ Gal. vi. 1. 1 Cor. v. 9—11. 2 Thes. iii. 6—14.
¶ Act. xix. 8, 9.

Mewn perthynas i ddefodau a threfniadau dynol mewn addoliad, dywedodd Dr. Watts fel y canlyn:—"Nid ydym yn gallu gweled, yn ngoleu rheswm nac ysgrythyr, fod gan un eglwys, neu swyddogion eglwysig, na neb dynion mewn unrhyw sefyllfa arall, hawl nac awdurdod i ddyfeisio, trefnu, gorchymyn, na gosod mewn ymarferiad, mewn un modd, unrhyw ddefodau newyddion yn addoliad Duw. Ac nid yw yn beth cymmwys i osod ar gydwybodau dynion unrhyw ddull neu amgylchiad hunan-drefnol, mewn addoliad, o'r fath ag a fyddo yn ei wneuthur yn *beth sanctaidd*, ac a roddai rwymau cydwybod ar un Cristion i gydffurfio âg ef."*

Meddai Dr. Stillingfleet,—"Crist a ddaeth i'r byd i dynnu ymaith yr iau drom o seremoniau Iuddewig, yr hon ni fedrai neb sefyll dani. Y mae yn sicr na ddaeth efe gyda bwriad i lygru gyddfau ei ddysgyblion âg un arall yn ei lle. Y brif gennadwri gyda pha un y danfonodd efe ei apostolion allan i'r byd, oedd, *dysgu* i ddynion yr hyn oll a *orchymynasai* efe iddynt. Nid oes genym y sylfaen leiaf i gredu iddo roddi iddynt unrhyw arwydd erioed fod ganddynt yr awdurdod lleiaf i ddodi ar, neu ofyn dim oddi wrth, ddynion, mewn pethau crefyddol, tu hwnt i'r hyn a ddywedodd efe wrthynt, neu eu cyfarwyddid yn uniongyrchol ac anffaeledig gan ei Ysbryd sanctaidd."†

Yn ddiweddaf, gwelwn oddi wrth y ffeithiau a goffawyd yn yr hanesion blaenorol, *fod yr ysgrythyr yn hollol ddigonol ac addas reol créd ac ymarferiadau eglwysig i ni, yn gystal âg ymarferiadau personol a chyfrinachol.* Gwedi y sylwadau blaenorol, gallesid meddwl fod y sylw hwn yn hollol afreidiol, yn enwedig i Wrthdystwyr; ond nid felly y mae: canys llawer a addefant y pethau a grybwyllwyd uchod, eithr a wadant neu a dröant heibio iddynt. Addefir yn gyffredinol gan Wrthdystwyr ddigonoldeb yr ysgrythyrau i'n dysgu am yr hyn sydd i'w gredu er ein hiachawdwriaeth, a'u bod yn rheol gyflawn i ddynion yn eu hachosion cyfrinachol a phersonol: ond dywedant nad ydynt ddigonol nac addas reol i'n dysgu am bob peth a berthyn i drefn lywodraethol ac ymarferiadau eglwysig; eithr fod yr Arglwydd Iesu wedi gadael y pethau hyn i'w trefnu a'u gosod gan flaenoriaid y gwledydd, neu yr eglwysi, fel y byddai yr amgylchiadau yn gofyn.

Mosheim yn ei hanes eglwysig a ddywed fel y canlyn:—"Ni orchymynodd Crist na'i apostolion ddim yn bennodol ac eglur yn nghylch trefn allanol ei eglwys, a'r modd y dylai gael ei llywodraethu. Oddi wrth hyn gellir casglu fod trefniad y pethau hyny wedi eu gadael, i raddau mawr, i'w cyfaddasu i'r amseroedd, trwy ddoethineb a medrusrwydd llywodraethwyr gwladol ac eglwysig. Ond, pa fodd bynag, os gwir yw fod yr apostolion yn gweithredu dan gyfarwyddiadau anffaeledig yr Ysbryd Glan, ac yn ol gorchymyn eu Hathraw bendigedig—yr hyn ni all un Cristion ei ammau—yr ydym gan hyny i edrych ar drefniad a llywodraeth yr holl eglwysi cyntefig, pa rai a gymmerasant oddi wrth y gymdeithas grefyddol gyntaf yn Jerusalem, yr hon a sefydlwyd gan yr apostolion eu hunain, o ddwyfol osodiad. Eithr i benderfynu oddi wrth hyny, y dylai y drefn honno a'r gosodiad hwnw fod yn anghyfnewidiol, i'w harfer yn ddiwahaniaeth bob amser, sydd feius: canys dichon y byddai amryw amgylchiadau yn y rhai y byddai hyny yn analluadwy. O herwydd, yn y dyddiau boreuol, yr oedd pob eglwys Gristionogol yn cael ei gwneuthur i fynu yn unig o'r *bobl*, eu *blaenoriaid* a'u

* Rational Foundation of a Christ. Church, p. 99. † Irenicum Pre.

gweinidogion, neu ddiaconiaid; ac yn wir yr oedd y rhai hyn yn hanfodol berthyn i bob cymdeithas Gristionogol y dyddiau hyny."*

Yma gwelir y caniattâ yr hanesydd clodwiw uchod ar unwaith, fod trefniad a llywodraeth yr eglwys a blanwyd gyntaf yn Jerusalem wedi eu sefydlu trwy ddwyfol awdurdod, a bod yr holl eglwysi cyntefig wedi cymmeryd eu trefn a'u llywodraeth oddi wrth honno. Etto dywed nad ŷm i edrych ar y drefn a'r llywodraeth honno yn anghyfnewidiol, ac yn gosod arnom rwymau i gydffurfio â hwy, er eu bod yn ddwyfol; o herwydd, medd ef, yr oedd yr holl eglwysi Cristionogol y dyddiau hyny wedi eu gwneuthur i fynu yn unig o bobl, blaenoriaid, a diaconiaid.

Heb fyned i sylwi ar yr amryw anghyssonderau yn y dywediad uchod, gellir gofyn, pa beth sydd yn ei gwneuthur yn analluadwy y dyddiau hyn, neu mewn unrhyw ddyddiau eraill, neu mewn unrhyw wlad neu dalaeth, i eglwysi gael eu sefydlu yn ol yr un drefn, o'r un cyffelyb bobl, blaenoriaid, a diaconiaid? Os ydoedd y drefn gyntaf o ddwyfol awdurdod, fel yr addefir ei bod, gan bwy yr oedd awdurdod i'w dileu, neu ei newid? Pa beth a ddichon gyfiawnhau gwaith neb yn rhoi heibio y drefn ddwyfol a sefydlodd yr apostolion yn yr eglwysi, i wneuthur lle i drefniadau eraill, yn ol doethineb blaenoriaid y gwledydd a'r eglwysi? Pe na buasai neb ond yr awdwr uchod o'r farn hon, aethem heibio yn ddistaw; ond nid felly y mae: canys ar yr un dybiaeth y mae pob eithriad oddi wrth y drefn a'r llywodraeth eglwysig a sefydlwyd gan yr apostolion yn yr eglwysi Cristionogol cyntaf, wedi cymmeryd lle yn mhob oes.†

Nid yw amddiffynwyr gwahanol drefniadau eglwysig gymmaint am brofi eu trefniad o'r ysgrythyr, ond trwy ddywedyd nad oes un drefn eglwysaidd wedi ei sefydlu yn y gair, i rwymo ein cydwybodau i gydffurfio â hi, a bod y peth wedi ei adael i atteb cyfleusdra wrth sefydlu eglwysi, fel yr ymddangosai mwyaf *buddiol* i ddynion a flaenorent mewn gwledydd ac eglwysi.† Os gwir hyn, y mae pob trefniad eglwysaidd yn gymmaint wrth fodd Duw â'u gilydd, y Mahometaniaid yn gystal â'r Cristionogion mwyaf syml. Ond os nad ê, y mae pob eithriad oddi wrth y drefn a'r llywodraeth eglwysig a sefydlwyd gan yr apostolion, yn bechadurus. Gan hyny, i'r dyben o edrych ar rym yr haeriadau a wneir dros gyfraith buddioldeb *(law of expediency,)* gofynir pa beth yw y gwahaniaeth sydd rhwng amgylchiadau a sefyllfa y byd yn awr, i'r hyn oeddynt yn nyddiau yr apostolion, a gyfiawnhâ ddiddymiad a newidiad yn y drefn ddwyfol, yn mha un y sefydlwyd eglwysi Iesu Grist gan yr apostolion? Dim, yn ddiau, mewn ystyr foesol, nac un ystyr arall, a ddichon effeithio ar drefn yr eglwysi; canys y maent i fod mor wahanol yn awr oddi wrth eu gilydd âg oeddynt y pryd hwnw.

Yr apostolion a edrychent ar y drefn a osodent hwy i fynu er llywodraethu yr eglwys, yn drefn addas i Iuddewon a Chenhedloedd, i Roegwyr a Rhufeinwyr, i Farbariaid a Scythiaid, crediniol, yn ddiwahaniaeth. Nid oeddynt yn newid trefn lywodraethol nac arferiadau yr eglwys, pa wlad bynag yr elent iddi. Ac os oedd y pethau hyn y pryd hwnw yn anghyfnewidiol, fel na chymmysgent, ac na chydffurfiient â threfniadau a defodau crefyddol unrhyw genedl, pa beth sydd yn eu hanaddasu yn awr, fel y rhaid eu newid? Os ydynt mor gyfnewidiol ac mor hawdd i'w hystwytho at wahanol amgylchiadau dynolryw ag y myn rhai eu bod, ni bu neb erioed yn

* Church Hist. vol. i. p. 2. ch. 2. p. 97. † See Archdeacon Paley on the subject.

ffolach na'r apostolion a'r Cristionogion cyntefig, pan y dyoddefent eu hyspeilio, eu herlid, a'u gosod i farwolaeth dros eu trefn eglwysaidd. Canys nid am yr hyn a gredent yr oeddynt yn cael eu herlid gan Iuddewon a Phaganiaid, ond am yr hyn a ymarferent âg ef, fel crefyddwyr ac eglwysi.

Hawdd a fuasai dangos, trwy resymau chwanegol, ddigonoldeb yr ysgrythyrau i bob peth a berthyn i drefn, llywodraeth, ac ymarferiadau eglwysig; a bod yr hyn a ddysgant am y pethau hyn, trwy orchymynion ac enghreifftiau, yn gosod rhwymau parhaus arnom i gydffurfio â hwy, ac â hwy yn unig. Ond pan y mae dynion wedi meddwl am eglwys i ddybenion gwahanol i'r rhai y gosododd Crist i fynu ei eglwys, nid rhyfedd gan hyny ein bod yn methu ei gweled yn yr ysgrythyrau. Eithr ond cael ein meddyliau yn syml i edrych ar yr hyn a olygid gan ein Harglwydd, wrth sefydlu ei eglwys, y mae yn hawdd ei gweled yn ei hegwyddorion, ei threfn, ei llywodraeth, a'i hymarferiad oll yn y Gair. Mae yn dra eglur fod yr apostolion yn edrych ar yr ysgrythyr yn ddigonol i holl ddybenion eglwysig; o blegid dywed Paul fod yr eglwysi wedi cael eu hadeiladu ar sail yr aposolion a'r prophwydi. "Ac o blegid hyn," meddai, "mi a anfonais attoch Timotheus, yr hwn yw fy anwyl fab, a ffyddlawn yn yr Arglwydd, yr hwn a ddwg ar gof i chwi fy ffydd i yn Nghrist, megys yr wyf yn mhob man yn athrawiaethu yn mhob eglwys.* — Ac fel hyn yr ydwyf yn ordeinio yn yr eglwysi oll.† — Os ydyw neb yn tybied ei fod yn brophwyd, neu yn ysbrydol, cydnabydded y pethau yr wyf yn eu hysgrifenu attoch, mai gorchymynion yr Arglwydd ydynt.‡ — Ond os oes neb heb ufuddhau i'r Gair trwy y llythyr yma, hysbyswch hwnw, ac na fydded i chwi gymdeithas âg ef, fel y cywilyddio."§ Gwelwn yr apostol yn rhoddi gorchymynion, rhybuddion, a chynghorion manylaidd i Timotheus, pa fodd yr ymddygai yn nhŷ Dduw, a hyny mewn dysgyblaeth. Ac os oedd y peth mor hawdd ei newid yn ol ewyllys a doethineb blaenoriaid y gwledydd, pa ham na fuasai yr apostol yn dywedyd wrth Timotheus ar unwaith am iddo wneud yr hyn oedd fwyaf cyfleus a buddiol i flaenoriaid Asia Leiaf, yn lle ei rwymo â gorchymynion mor gaeth?‖ Ac onid o herwydd fod y Corinthiaid a'r Galatiaid wedi dirywio yn eu trefn a'u llywodraeth eglwysig, yn benaf, y teimla yr apostol y fath eiddigedd drostynt, ac y beia arnynt mor fawr? Pa fodd yr oedd y peth i'w feio, os oedd i'w newid fel y byddai cyfleusdra? Gellir gofyn, os oes rhyw beth neu bethau yn nhrefn osodedig yr apostolion i'w newid, fel y byddo cyfleusdra, yn nhyb dynion, yn galw, pa ham nad yw pob peth a ddywedodd ac a osododd yr apostolion i'w newid, neu i'w roi heibio? Pa reol, a phwy yw y personau, sydd i wneuthur y gwahaniaeth rhwng y pethau arosol a'r rhai newidiol? canys nid yr un pethau a ddichon fod yn gyfleus i bob person, neu i'r un personau, mewn gwahanol wledydd, nac i ddynion mewn gwahanol oesoedd. Fe allai mai yr athrawiaeth am berson Crist, ei gyfryngdod, neu yr athrawiaeth o gyfiawnhad pechadur trwy gyfrifiad o'i gyfiawnder ef, a fyddai gyfleus i rai blaenoriaid gwledydd ac eglwysi i'w newid; o herwydd nid yw y rhai hyn yn eglurach yn y gair na threfn llywodraeth ac ymarferiadau yr eglwysi cyntefig. Fe allai mai yr ordinhad o fedydd neu swpper yr Arglwydd a fyddai yn gyfleus i ereill; ac i ryw rai ymddangosai canu a gweddio yn dra buddiol i'w newid, a'u rhoi heibio; neu,

* Cor. iv. 17. † vii. 19. ‡ xiv. 37. § 2 Thes. iii. 14. ‖ 2 Tim. ii. 2, a iii. 4. 1 Tim. iii. 14, 15. Gwel hefyd 1 Ioan iv. 6. 3 Ioan ix. 12. Dat. xxii. 19.

hyd yn nod yn gyfreithlon, os cyfreithlon er hyny yr egwyddor a wrthwynebir genym. Hyn a'n dwg yn union i ganol annuwiaeth.

Ni amheuir yn y mesur lleiaf, nad yw gwaith llawer a alwant eu hunain yn Gristionogion, wrth gellwair â'r Gair, yn ei newid a'i droi i lefaru yr hyn a fyddo yn gyfleus iddynt hwy, wedi achosi miloedd o annuwiaid yn y byd, ac yn gefnogrwydd iddynt yn feunyddiol. Pa ryfedd eu bod yn cynnyddu, a phwy a ddichon eu beio a'u gwrthwynebu ar dir teg, tra byddo yr egwyddor uchod, ag sy'n sylfaen i sefydliadau eglwysig y rhan fwyaf o enwadau crefyddol y gwledydd, mewn cymmeradwyaeth? Hefyd, y mae yr egwyddor o roddi i flaenoriaid gwledydd, neu eglwysi, hawl i newid, neu beidio ymarfer â rhai o'r gosodiadau apostolaidd yn yr eglwys, yn cynnwys ynddi fod gan y blaenoriaid hyn hawl i osod i mewn, er cyflawni eu lle, neu ychwanegu attynt, ryw osodiadau a farnont hwy yn fuddiol. Y mae y naill yn sefyll ar yr un tir a'r llall, ac yn llawn mor niweidiol. Canys os oes ganddynt hawl i chwanegu at drefn ac ymarferiadau yr apostolion yn yr eglwys, yn ol eu cyfleusdra eu hunain, pa ham nad oes ganddynt hawl i roddi i ni Fibl newydd oll? Pwy a ddichon feio Mahomet am roi ei Goran i'r byd? onid oedd ganddo ef gyflawn hawl i wneuthur yn ol yr egwyddor a weithredir arni gan lawer a alwant eu hunain yn Gristionogion? O blegid yr oedd ganddo ef a'i gyngrheirwyr yn gwbl yr un hawl i sefydlu eu credöau, a dodi ar y byd i'w credu, ag sydd gan gymmanfa o rai a alwant eu hunain yn flaenoriaid eglwysig, i drefnu a gosod defodau newyddion, a gofyn ufudd-dod iddynt oddi wrth yr eglwysi. Yr egwyddor o chwanegu at osodiadau y Gair, a gofyn ufudd-dod i hyny oddi wrth ddynion, yn ol cyfleusdra blaenoriaid gwledydd ac eglwysi, a'n dwg yn union i Mecca a Rhufain; ac ni fedrwn ddyfod byth oddi yno, na beio ar eu hymddygiadau hwy yn y lleoedd hyny, nes y gwadom yr egwyddor a wrthwynebir genym. Dr. Campbell a ddengys yn eglur, na fuasai modd byth i gyfundraeth Pabaidd ddyfod i fodoliaeth, na'r llywodraeth honno gael ei sefydlu, pe ystyriasid Gair Duw, fel unig a digonol reol i eglwys Crist.* Ond caniattau fod gan flaenoriaid gwledydd, &c. hawl i newid a chwanegu at drefniadau a gosodiadau apostolaidd yn yr eglwys, sydd wedi bod yn ddechreuad ac yn rym parhaus iddynt. Canys trwy y llywodraeth eglwysig, daeth i mewn yr holl annhrefn i'r eglwysi ar y cyntaf, fel y sylwir etto. Mae caniattau a chymmeradwyo yr egwyddor a wrthwynebir genym, yn gosod allan y diwygiad yn yr unfed canrif ar bymtheg, yn un o'r gweithredoedd mwyaf anghristionogaidd, a'r diwygwyr oll yn ddynion ffol a gwrthryfelgar.

Ond, medd rhai, nis gallwn weled fawr o drefn lywodraethol yr eglwysi, nac o'u hymarferiadau crefyddol, yn cael eu hamlygu yn y Gair.† Caniatteir gan bawb fod rhyw drefn eglwysig yn cael ei hamlygu yn y Testament Newydd, ac mai yr un drefn oedd yn yr holl eglwysi o osodiad yr apostolion, a bod yma ryw rifedi o ddefodau ac ymarferiadau yn cael eu dadguddio. Pwy a ddichon ddywedyd nad dyma yr holl drefn, a'r unig drefn, a'r cwbl o'r ymarferiadau a fyn yr Arglwydd yn ei dý? Gan bwy

* Lect. on Eccl. Hist. bl. i. p. 306, 334.

† Os edrychir am eglwys o ran ei threfn, ei llywodraeth, a'i hymarferiadau, i ddal allan lesu Grist yn yr oll ag yw, i feithrin gwir rinweddau ysbrydol, a chynnwyso, a dwyn eneidiau adref at Dduw, y mae i'w chael yn hollol gyfan ac eglur yn y Newydd; ond os edrychir am eglwys i wasanaethu rhyw ddybenion eraill, nid yw i'w chael yn y Testament.—Haddone.

y mae hawl i'w newid, na chwanegu attynt? A phwy sydd ddoethach nag efe, i wybod am drefn well, ac ymarferiadau addasach er atteb ei ddybenion yn sefydliad ei eglwys?

Gwrthddadleuir gan rai yn erbyn gwneuthur chwiliad manol i nattur a threfn llywodraeth ac ymarferiadau yr eglwys, yn ei sefydliad cyntaf; am fod hyny, meddant, yn ei gwneuthur yn llai ysbrydol, ac yn attal ei chynnydd mewn grasau. Crefydd y galon a edrychant hwy am dani yn benaf. Gwir mai crefydd yn y galon a ddylem edrych am dani yn benaf oll; ond a ydyw chwilio i holl ranau Gair Duw, ac i ymarferiadau y Cristionogion cyntefig, yn groes i wir grefydd? Y mae y cyfryw ag a wnant yr ymesgusodiad, yn gosod allan fod moddion yn gweithredu yn groes i'w dybenion, ac yn beio yr Arglwydd am amlygu ei holl ewyllys i ni. Dichon y dywed eraill mai pethau dibwys amgylchiadol yr eglwys ydynt, mewn cyferbyniad i bethau hanfodol i iachawdwriaeth. Addefir fod rhai pethau yn fwy pwysig na'u gilydd, ar ryw ystyriaethau, er eu bod o'r un awdurdod, wedi eu dadguddio yn y Gair; ond a oes rhyw un a broffesa Gristionogaeth, a ddywed fod rhyw beth a ddadguddiodd Duw yn ei Air, yn ddibwys? Y cyfryw a ddylai gofio fod yr holl ysgrythyrau yn fuddiol, i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder, fel byddo dyn Duw wedi ei berffeithio yn mhob gweithred dda. A'r hyn ni ddadguddiodd efe, ni ddylai gael un lle yn ei addoliad, o leiaf ni ddylid ei ddodi ar gydwybodau neb dynion, fel rhan o addoliad Duw, trwy awdurdod ddynol. Megys y dywed Locke,—"Yr hyn sydd ynddo ei hun yn ddibwys, heb gael ei orchymyn yn Ngair Duw, ni ddichon iddo trwy un awdurdod ddynol fod yn rhan o addoliad Duw; o blegid yr hyn sydd ynddo ei hun yn ddibwys, a fydd felly; ni all fod ynddo ddim rhinwedd i foddhau Duw, ac ni ddichon fod y fath fawredd nac ardderchawgrwydd mewn un awdurdod ddynol pa bynag, ag i'w wneuthur ef felly."* Ac fe ddichon y dywed ereill na bydd iddynt wneuthur chwiliad manol i drefn a llywodraeth yr eglwysi cyntefig, am fod y pethau hyn wedi bod yn gymmaint testunau dadl rhwng dynion da â'u gilydd. Gellir gofyn, pa beth a berthyna i grefydd, nad yw wedi bod yn achos dadleuaeth, a hyny rhwng dynion y gobeithir yn dda am danynt? Rhoi hyn heibio o herwydd hyny, a fyddai cyfiawnhau rhoddiad heibio pob rhan o grefydd. Nid o blegid chwilio y Gair am drefn ysgrythyrol, berthynol i eglwys Dduw, y mae dynion wedi ymranu, ond o ddiffyg ei chwilio, a thrwy ymlynu wrth drefniadau a gosodiadau dynol. Ac ni ddaw byth undeb a chariad, nes y chwilir y Gair, ac y cymmeradwyir ef fel unig reol yn mhob peth a berthyna i eglwys Dduw. Fel y dywed Mr. Scott yn ei Esboniad ar Ezeciel xlii. 10, 11.—"Gellir," medd ef, "gyfeirio hyn at yr amseroedd pan yr adgyweirir yr holl eglwys yn unol â'r ysgrythyrau, fel yr unig brawf-faen—pan ddelo pob enwadau o Gristionogion i weled yn ngoleu hwnw pa mor bell y maent wedi dirywio oddi wrth y gwirionedd, mewn athrawiaeth, dysgyblaeth, addoliad, ac ymarferiadau—a thrwy hyny i ganfod achos i edifarhau ac ymdrechu diwygio. Y dechreuad ymostyngiadol hwn a rwyddha y ffordd iddynt gael mwy a chyflawnach dysgeidiaeth yn holl ewyllys eu Duw." Terfynir yn awr yn ngeiriau Chillingworth,—*Y Bibl, a'r Bibl yn unig, yw crefydd y Protestaniaid.*

* Locke on Toleration.

DIWEDD HANES Y CANRIF CYNTAF.

PENNOD VIII.

CANRIF II.

Lle y dangosir yr Erledigaethau, y Gerwindeb, a'r Marwolaethau a ddyoddefodd y Cristionogion yn nheyrnasiad Trajan, ac Adrian, Amherawdwyr Rhufain.

MEDDIANNWYD gorsedd Rhufain, yn nechreuad y Canrif hwn, gan Trajan, un o'r tywysogion callaf, ac unionaf ei ymddygiadau cyffredin fel amherawdwr, a fu yn eistedd ar yr orsedd honno er ei sefydliad. Eithr digwyddodd, fel y dywed Dr. Jortin, fod yr efengyl yn llwyddo mwy, a Christionogion yn cael gwell llonyddwch, o dan deyrnasiad yr amherawdwyr gwaethaf na'r rhai goreu, yn enwedig pan y byddai y diweddaf yn wresog dros eu defodau a'u hymarferiadau crefyddol. Er marwolaeth Iesu Grist hyd esgyniad Vespasian i'r orsedd, nid oedd y Rhufeiniaid wedi gwneuthur nemawr sylw o grefydd neb, nac o lwyddiant yr efengyl, yn neillduol. Llywodraethid hwy gan dywysogion gweiniaid, llawn o bob drygioni a gwallgofrwydd: o herwydd hyny, yr oedd pob seneddwr, penadur, a deiliad teilwng o enw a chymmeriad, mewn enbydrwydd gwastadol, ac mewn ofn am eu bywydau eu hunain, fel ag yr oedd yr holl amherodraeth yn barhaus yn un olygfa o derfysg, anrhaith, a thrueni.*

Dywed Gibbon, yn ei ddarluniad bywiog o amherodraeth Rhufain, yn yr amser sydd o dan ein sylw, fel y canlyn:—"Yn hanesion yr amherawdwyr, am yr amseroedd hyny," medd ef, "gosodir allan y darluniad egluraf o'r nattur ddynol ger ein bron, yr hyn nid allwn ei gael yn nghymmeriad cymmysglyd ac amhëus hanesion diweddarach. Yn ymddygiadau y penaduriaid hyn, gallwn ddilyn llinellau drygioni, a rhinweddau naturiol, hyd eu heithafoedd pellaf—daioni yn ei raddau uwchaf, a dirywiad yn ei waelderi selaf, fel ag y perthyna i'n rhywiogaeth. Oes auraidd Trajan, Adrian, a'r Antoniaid, a ragflaenwyd gan yr oes haiarnaidd. Y mae braidd yn arddigonedd o iselder i ail-adrodd am annheilwng ganlynwyr Augustus. Eu drygioni digyffelyb, ac ardderchawgrwydd y chwareule ar ba un y gweithredent, yn unig a geidw eu coffadwriaeth rhag cael ei ddileu o blith dynolion am byth. Y tywyll-ddu a'r didosturi Tiberius, y cynddeiriog Caligula, y gwanaidd Claudius, yr afradus a'r creulawn Nero, yr anifeiliaidd Vitelius,† a'r ofnus a'r annynol Domitian, sydd oll wedi eu cyfiawn ddedfrydu i dragywyddol war-

* Jortin's Remarks, Vol. i. p. 30.

† Vitelius a ddifaodd, mewn saith mis, fwy na chwe' miliwn o bunnau o'n harian ni. Nid hawdd adrodd ei holl lygredd a'i ddrwg gydag unrhywurddas a gweddeidd-dra. Geilw Tacitus ef, *Y Mochyn Mawr.*

adwydd. Dros agos i bedwar ugain mlynedd—oddi eithr yr ychydig seibiant yn nheyrnasiad Vespasian—bu Rhufain yn griddfan dan ormes y rhai hyn; pan y dinystriwyd ei holl hen deuluoedd pendefigaidd, ac y buwyd yn min claddu pob dawn a rhinwedd."*

Gwelsom yr eglwys yn ei thaith yn yr oes haiarnaidd, fel y geilw Gibbon hi, ac yn awr dechreuwn edrych arni, yn yr hyn a eilw yn oes auraidd. Yr un hanesydd a ddywed—"Pe byddai i un dyn gael ei osod i ddangos, yn wyneb hanesyddiaeth y byd, pa ran o amser yw y pryd yr ymddengys sefyllfa dynolryw y mwyaf dedwydd a llwyddiannus, diammau y penderfynai yn ddibetrusder mai o farwolaeth Domitian hyd esgyniad Comodius i orsedd Rhufain, oedd y dyddiau hafaidd. Yr oedd yr amherodraeth, yn ei therfynau ehangaf, yn cael ei llywodraethu mewn modd galluog; etto, dan reolaeth doethineb a rhinwedd. Y byddinoedd a attelid ac a drefnid gan y pedwar amherawdwyr dilynol gyda llywyddiaeth diysgog, etto gyda thiriondeb, cymmeriad ac awdurdod pa rai oedd yn peri iddynt barchedigaeth, er yn anewyllysgar. Y llywodraeth wladol a weinyddai Trajan, Adrian, a'r Antoniaid, gyda'r gofal mwyaf; i ba rai yr oedd delw rhyddid yn hyfrydwch; ac ymhoffent yn fawr wrth ystyried eu bod yn weinidogion cyfrifol y gyfraith." Wrth ddarllen y fath hanes am sefyllfa pethau gwladol, y mae yn ddigon i beri i bob un dybied fod y dyddiau hafaidd wedi dyfod i gyfarfod âg eglwys Dduw; ond yr hanesion canlynol a ddengys pa mor bell y byddai y cyfryw dybiaeth o fod yn wirionedd.

Daeth Trajan i'r orsedd amherodrol yn y flwyddyn 98; yn fuan wedi hyny rhoddodd dalaeth Bithynia dan lywodraeth ei gyfaill, yr athrylithgar a'r clodfawr Pliny, fel ei raglaw—cymmeriad pa un a ystyrir yr hawddgaraf o'r holl Baganiaid hynafiaethol. Ymddengys fod llawer o'r cyfreithiau erledigaethus a wnaed gan yr amherawdwyr blaenorol yn aros yn barhaus yn eu grym yn erbyn y Cristionogion, er nad oeddynt mewn arferiad gwastadol i'w dedfrydu i farwolaeth yn achos eu crefydd. Pliny, yn ngweinyddiad ei swydd fel rhaglaw, oedd i farnu a gosod y cyfryw gyfreithiau mewn ymarferiad. Yr hwn, heb fod yn bresennol ar y cyfryw amgylchiadau, na chwedi gweled y cyfryw beth o'r blaen—ac wrth sylwi ar luosogrwydd y cyhuddedigion, a thoster y cyfreithiau ag oedd yn eu herbyn—a betrusodd yn nghylch yr addasrwydd o weini y cyfryw gospedigaethau, heb ymholi â'r amherawdwr am y pethau hyny. Y llythyr a anfonodd efe at Trajan, ar yr achos hwnw, sydd wedi dedwydd ddiangc ystryw yr amseroedd, ac ar gael, er rhoddi goleu ar sefyllfa Cristionogaeth y dyddiau hyny. Mae y llythyr wedi ei ddyddio yn y flwyddyn 106 neu 107, talfyriad o ba un sydd fel y canlyn:—

"C. Pliny at yr amherawdwr Trajan, heddwch a amlhaer.

"Syr,—[Gwedi iddo yn ei ragymadrodd ddangos ei anghymhwysder i gyflawni ei swydd, o herwydd na buasai efe yn bresennol pan yr holid Cristionogion cyn ei ddyfodiad i'r dalaeth honno, efe a ddywed,]—Nid wyf yn gwybod, gan hyny, i ba helaethrwydd y mae cospedigaethau y gyfraith i'w gweini arnynt; yr wyf yn petruso a oes dim gwahaniaeth i'w wneuthur rhwng hen ac ieuangc, rhwng tyner a chadarn—a oes dim maddeuant i

* Gibbon's Decline and Fall of the Roman Empire, vol. i. p. 49.

gael ei gynnyg i'r edifeiriol—pa un a yw euogrwydd y broffes addefedig o Gristionogaeth yn fai na ellir ei ddileu, trwy alwad benderfynol o honi yn ol—a ydyw y broffes hon ynddi ei hun i'w hystyried y cyfryw fai ag sydd yn gofyn ei gospi â'r fath gosp, pa mor ddiniweid bynag y byddo y cyhuddedig mewn pethau eraill—a ydyw y beiau cyssylltiedig â'r enwau cyhuddol i'w profi cyn y byddo y cyhuddedig yn agored i gospedigaeth." [Yna adrodda y modd yr oedd efe yn gwneuthur,]—"Gwedi y cyhudder un o fod yn Gristion, a'i ddwyn ger fy mron, yr wyf yn gofyn iddo, A wyt ti yn Gristion? Os addef ei fod, yr wyf yn gofyn iddo yr ail a'r drydedd waith, gan ei fygwth â chospedigaeth y gyfraith. Yna, os parhâ i sefyll yn ei broffes, yr wyf yn union yn ei orchymyn i gael ei gospi yn ol y gyfraith; *o blegid beth bynag yw nattur ei grefydd, nid oes genyf yr amheuaeth lleiaf, nad yw y fath barhad anmhlygadwy a chyndyn yn sicr yn haeddu ei gospi.* Mae rhai wedi cael eu meddiannu â'r fath wallgofrwydd â hyny, o herwydd eu bod yn ddinas-freinwyr Rhufeinaidd, pa rai a roddais mewn cadwraeth, i'w hanfon i atteb i'ch gorsedd chwi."

Gwedi hyn adrodda am restr o enwau a anfonwyd atto, o bersonau cyhuddedig gan ryw un anadnabyddus; ond wedi iddo eu dwyn ger bron i'w profi, "llawer o honynt," medd ef, "a wadasant eu bod erioed yn Gristionogion, ac adroddasant ar fy ol y deisyfiadau ar y duwiau, ac addolasant eich delw chwi, a llun y duwiau, pa rai a orchymynais eu dwyn ger bron; a gwnaethant wasanaeth cyssegredig gyda'r gwin a'r peraroglau, ac a felldithiasant Grist, yr hyn beth yr wyf yn sicr na ellid byth ddwyn un Cristion cywir i'w wneud; pa rai, gan hyny, a welais yn gymmwys i'w rhyddhau yn ddiattreg. attreg. Eraill a ddygwyd ger fy mron, y rhai a addefent eu bod unwaith yn yn arddel Cristionogaeth, ond a oeddent yn awr wedi ei gadael, rhai er ys llawer blwyddyn, eraill er ys tair a phedair, a rhai er ys ugain mlynedd. Addolodd y rhai hyn eich delw chwi, a llun y duwiau, ac a felldithiasant Grist. Yr hanes a roddasant i mi am nattur y grefydd a fuont unwaith yn broffesu, sydd fel y canlyn—pa un a deilynga y cyfryw beth yr enw o fai, neu o fath o gamgymmeriad, nis gwn i—dywedant eu bod ar ddydd pennodol yn arfer cyfarfod â'u gilydd cyn codai yr haul, i uno yn nghyd mewn gweddiau a mawl i Grist, fel Duw; yn ymrwymo eu hunain trwy lŵ cyssegredig neu sacramentaidd, na chyflawnent un drwg, trwy adael eu hunain i fod yn euog o ladrad, nac yspeilio eiddo neb, mewn unrhyw fodd—o odineb, nac o dorri eu haddewidion, na chadw yn ol unrhyw beth a roddasid i'w gadw iddynt, pan y gelwid arnynt i'w adferu. Pan orphenid y cyfarfod hwn, wedi iddynt ymadael, cyfarfyddent drachefn, i gyd-wledda, heb un gwahaniaeth rhywiogaeth, na sefyllfa, yn syml, a chwbl ddiniweid." Yna dywed fod y cyfryw gyfarfodydd wedi eu rhoddi heibio, er pan gyhoeddodd efe ddeddf yr amherawdwr yn eu herbyn. Gwedi hyn, rhydd hanes am ddwy ddynes a elwid yn ddiaconesau, a roddasai efe ar yr arteithglwyd, er eu dwyn i gyhuddo eraill o'u brodyr, ond nad allodd ef gael dim ganddynt, ond llawer o goel-grefydd anghymmedrol a llygredig. "Gan hyny," medd ef, "mi a roddes heibio bob ymofyniad yn mhellach yn nghylch hyn yma, hyd oni ymgynghorwn â chwi: canys geilw lluosogrwydd y drwg-weithredwyr am ein difrifolaf ystyriaeth at yr achos hwn. Cyhuddiadau a ddylifant i mewn bob dydd, o bob cwrr o'r dalaeth, yn erbyn tyrfaoedd o bob oedran, graddau, a rhywogaeth; a thebyg yw y cynnyddant etto: o blegid y mae yr haint coel-grefyddol hwn wedi ymdaenu, nid yn

unig trwy y dinasoedd, ond hefyd i'r pentrefydd, a thrwy anneddau yr amaethwyr."*

Y mae yn terfynu ei lythyr, gan ddywedyd nad oedd efe yn golygu y byddai eu hymdrechiadau yn erbyn Cristionogaeth, er attal ei llwyddiant, yn anobeithiol, o herwydd y llwyddiant, meddai, oedd wedi bod ar ei ymdrechiadau ef yn barod. "Canys y temlau," meddai, "ag oedd unwaith yn anghyfannedd, sydd etto yn dechreu cael eu meddiannu; y defodau cyssegredig ag oedd unwaith wedi eu hollol esgeuluso, sydd yn awr yn dechreu dyfod i ymarferiad drachefn; a'r creaduriaid offrymol ag oedd yn anhawdd cael neb i'w prynu, sydd yn bresennol yn dechreu cael gwerthiad cyflym. Oddi wrth ba bethau, meddyliwn, y gellid adgyweirio llawer, pe byddai i faddeuant gael ei gynnyg a'i hollol gadarnhau iddynt, ar eu hedifeirwch.

Yr Attebiad i'r Llythyr uchod oddi wrth Trajan, sydd fel y canlyn:—

"Fy Anwyl Pliny,—Gyda golwg ar y cyhuddiadau yn erbyn y Cristionogion, yr ydych wedi gwneuthur yn gwbl addas. Nid ellir gosod i lawr un reol gyffredin a fyddo yn berthynol i bob achos, yn mhob amgylchiad. Nid yw y bobl hyn i'w ceisio trwy chwilio am danynt, gan gyhuddwyr; ond os y cyhuddir ac y collfarnir hwynt, bydded iddynt ddyoddef yn ol y gyfraith: etto, gyda'r darpariaeth hwn, sef, os bydd i neb o honynt wadu eu Cristionogaeth, a rhoddi prawf boddlonol o hyny, trwy offrymu a gweddio ar ein duwiau ni—pa gymmaint bynag eu drwg-dybid o'r blaen—y maent i'w harbed ar eu hedifeirwch. Ond nid yw cyhuddiadau dirgel ac anadnabyddus, ar un cyfrif, i sylwi arnynt; oblegid gwnai hyny osod i lawr yr enghraifft waethaf—y fath sydd hollol anghysson âg egwyddorion ein llywodraeth."†

Ymddengys oddi wrth y llythyrau blaenorol, fod y grefydd Gristionogol wedi ymdaenu yn fawr trwy holl barthau ëang yr amherodraeth Rufeinig, yn nechreuad yr ail ganrif. Addefir gan Pliny, fod temlau yr eilunod yn y dalaeth ëang honno yr oedd efe yn rhaglaw arni, wedi myned yn anghyfaneddol, heb neb braidd yn dyfod iddynt. Hefyd, fod hyny yn bod pan oedd y cyfreithiau mwyaf llymdost mewn grym, pa rai a ddedfrydent addefiad o Gristionogaeth yn fath drosedd ag oedd, yn eu golwg hwy, yn haeddu ei gospi â marwolaeth. Ac nid oedd y dyngarol Trajan, na Pliny, er eu callineb, yn ammau priodoldeb y fath gyfreithiau, na chyfiawnder a doethineb gweinyddiad y cyfryw, hyd eithaf eu llymdoster. Cyfaddefa Pliny, iddo osod amryw i farwolaeth yn ol y cyfreithiau hyny, heb un bai arnynt, ond eu bod yn Gristionogion; a chymmeradwya Trajan hyny, a chadarnha ei fod wedi gwneuthur yn iawn; efe hefyd a'i hawdurdoda i wneuthur y cyfryw ddienyddiad heb arbed neb, oddi eithr y cyfrywa ymadawent â'u proffes, trwy wadu eu Harglwydd a'u Pryniawdwr, gan offrymu i eilunod y Paganiaid.

Rhydd y llythyrau hyn olwg foddus iawn ar symledd addoliad a gwasanaeth crefyddol, a sancteiddrwydd ymarweddiad y Cristionogion cyntefig. Canys tystiolaetha eu gwrthwynebwyr, o enau y gwrthgilwyr bradychus, na oddefent yn eu cymdeithas neb na byddai eu bywydau yn gysson â'u proffes. Hefyd, gosodent hyd yn nod y benywod tyner ar yr arteith-glwyd,

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 199. † Ibid 202

o dirnyw dangenion drygionus, eithr yn ofer. Gwelir hefyd hefyd heddychlawn y grefydd Gristionogol, a'i heffeithiad cymmodlawn ar feddyliau y rhai a'i hadwaenent.

Yn ol dywediad Pliny, yr oedd rhifedi aneirif yn proffesu Cristionogaeth, o bob gradd a sefyllfa. Hawdd, gan hyny, y gallasent amddiffyn eu hunain trwy rym arfau, a gweini dial ar eu herlidwyr; eithr yn hytrach na chodi gwrthryfel, hwy a ymostyngasant i'r dyoddefiadau chwerwaf, ac a ymwadasant â'u hiawnderau mewn modd amyneddgar a heddychol. Ac fel y gwyddent am y cyfreithiau llymion ag oedd yn eu herbyn, hwy, er achub eu hunain, a pheidio peri terfysg, a gyfarfyddent yn nhywyllwch y nos, i gyflawni eu crefyddol wasanaeth; yr hwn a gynnwysai cyd-weddio, cyd-ganu mawl, cyd-addysgu, a chynghori eu gilydd i ymgadw rhag pob peth croes i gydwybod dda, a rheolau Gair Duw; yn nghyd â chyd-gyfranogiad o'r bara a'r gwin yn y swpper sanctaidd, er cof am ddrylliad corph, a thywalltiad gwaed yr Arglwydd Iesu, yr hwn a addolent megys Duw. Galwai Pliny y pethau hyn yn goel-grefydd lygredig, y drwg melldithfawr nad oedd i'w ddileu, ond trwy dywalltiad gwaed y Cristionogion.

Mae ystyried cymmeriad yr amherawdwr hwn, a'i raglaw, eu doethineb yn mhob peth arall, eu tymherau hynaws a thadol tu ag at eu deiliaid yn gyffredin, a boneddigeiddrwydd eu hymddygiadau, wedi peri gradd o ddyryswch yn meddyliau haneswyr manylaidd, fel y methant wybod pa fodd i'w gosod yn mhlith erlidwyr crefydd, ac wrth feddwl hefyd pa mor ddiniwaid oedd y Cristionogion yn eu hymddygiadau. Yr hyn a ddywedodd Dr. Warburton a ddettyd y cwlwm dyrys hwn, a rhydd lawn foddlonrwydd ar hyn i bob ymofynydd diduedd:—Nid oedd y byd Paganaidd," meddai, "yn anfoddloni cymmaint wrth neb o herwydd eu crefydd, ag oeddynt wrth ymarddelwad i uchafiaeth ac unigolrwydd crefydd: canys yr oeddynt wedi ymgynnefino cymmaint âg ymhonniad i ddadguddiedigaethau newyddion, fel nad oedd hyn yn eu cynhyrfu; oblegid cyd-ddygent yn dawel â'r Iuddewon hyd oni ymarddelwasant i uchafiaeth ac unigolrwydd eu crefydd, fel y wir grefydd. Gwelir hyn yn y bobl a ddygasai brenin Assyria yn lle y deg llwyth yn Samaria, pan y dywedir eu bod yn ofni Arglwydd Dduw Israel, etto yn gwasanaethu eu duwiau eu hunain, yn ol defod y Cenhedloedd. Felly, ar yr un egwyddor, yr ydym yn gweled fod yr Iuddewon yn cyssylltu addoliad Paganaidd âg eiddo y gwir Dduw yn aml yn Jerusalem, ac yr oedd addoliad y gwir Dduw, mewn enw, yn cael ei gyssylltu âg eiddo y Paganiaid yn Samaria. Ond wedi dychweliad pobl Israel o gaethiwed Babilon, deallasant yn well y mawr niweid o'r cyd-gymmysgedd hwn, a daethant yn fwy penderfynol yn eu crefydd; ac arddelwasant hi fel yr unig a'r wir grefydd. O hyny allan, dechreuwyd edrych arnynt gan eu cymmydogion, a chan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid wedi hyny, gyda'r diystyrwch a'r dirmyg mwyaf; o herwydd eu bod, yn ol eu tyb hwy, mor annynol, ac o dymmer mor anghyfeillgar tu ag at ddynolryw yn gyffredin. Hyn yw yr achos fod hanesion y Cenhedloedd llawned o ddigasedd a drwgnwydau tu ag attynt. CELSUS a [illegible] yn amlwg yr hyn a orphwysai yn ddirgel yn eu meddyliau [illegible] a lefara yn eglur drostynt:—"Yr Iuddewon," medd ef, "o fod yn [illegible] wrth eu crefydd eu hunain, nid ydynt i'w beio, na neb arall ar [illegible] hyny. Yr wyf yn edrych ar y neb a edy grefydd ei wlad, ac a [illegible] y grefydd Iuddewig, neu ryw un

arall, yn llawer mwy beius. Ond os ydynt hwy (yr Iuddewon) yn ymhòni i uchafiaeth doethineb ar y rhan arall o'r byd—ac oddi ar hyny yn gwrthod cyd-gymmysgu a chyduno âg ereill, o ran eu bod yn golygu nad yw crefyddau ereill yn gydradd mewn purdeb â'r eiddynt hwy—rhaid dywedyd, nad ydynt hwy yn hyn i'w credu, nac i'w hystyried yn fwy wrth fodd Duw, nac yn anwylach ganddo, na'r cenhedloedd eraill." Oddi wrth hyn daeth yr Iuddewon i gael eu gwahaniaethu oddi wrth bawb eraill yn mhlith yr holl Baganiaid, dan yr enw, pobl ag oedd yn casâu y duwiau. Dyma oedd cymmeriad cyffredin yr Iuddewon yn y byd, a hyny o herwydd y rheswm a nodwyd.*

Pan y cyfodwyd Cristionogaeth i fynu yn y byd ar y cyntaf, a hyny, mewn ystyr, ar sail gwir Iuddewaeth, rhoddwyd derbyniad iddi gan lawer o'r Paganiaid gyda hyfrydwch mawr. Yr oedd yr efengyl yn cael gwrandawiad astud, a'r tystiolaethau goruchel ag oedd yn brawfiadau o'i gwirionedd, trwy ba rai y cymhellid hi, a dueddasant lawer o ddynion a ymarferasent â dadguddiedigaethau ffugiol, i'w derbyn i blith eu crefydd sefydledig. Mewn canlyniad i hyn, gwelwn un o'r amherawdwyr Rhufeinaidd yn ei gwneuthur yn wrthddrych difrifol ei ystyriaeth, yn ei ystafelloedd dirgel; ac un arall yn addaw i'w senedd roddi iddi dderbyniad mwy cyhoeddus. Eithr pan ddeallasant fod Cristionogaeth yn honni hawl i'r fath uchafiaeth—ei bod *yr unig wir grefydd*, na chyd-gymmysgai, ac na chyd-unai âg un grefydd arall—a'i bod hefyd yn myned yn mhellach, trwy ofyn gan bawb, yn mhob lle, i adael duwiau eu cenedl, a chrefyddau ac arferiadau eu tadau—parodd hyny y fath fraw yn y Paganiaid, a gwrthwynebiad iddi, fel y dygodd ar ei phleidwyr y tymhestloedd gwaedlyd hyny o erledigaethau y darllenwn am danynt. Dyma oedd y gwir achos o'r holl erledigaethau a ddyoddefodd y Cristionogion yn yr oesoedd hyny.

Oddi wrth hyn, gwelir yn eglur pa fodd y deuodd amherawdwyr hynaws, megys Trajan, a Marc Antonius, i fod yn mhlith erlidwyr blaenaf yr eglwys Gristionogol—amgylchiad ag sydd wedi peri dyryswch i feddyliau ymofynwyr i hanesyddiaeth hynafiaethol yr eglwys, ac a fu yn destun i'r annuwiaid ag sydd yn barod i ddal gafael ar bob peth er ceisio llenwi meddyliau y bobl â rhagfarn yn erbyn y gwirionedd, er dwyn dynion i feddwl y rhaid fod rhyw beth allan o le mewn Cristionogaeth, pan oedd y fath amherawdwyr doeth yn mhlith ei herlidwyr. Eithr yn awr y mae y rheswm yn eglur, mai o herwydd fod Cristionogaeth yn dadymchwelyd yn union-gyrchol egwyddor sylfaenol Paganiaeth, yr hon a dybient hwy oedd un o ddeddfau nattur, sef fod cyd-gymmysgiad a chymmundeb cyfeillgar rhwng holl ddynolryw mewn pethau crefyddol, yn ddyledswydd. Ac eglura Pliny hyn yn ei lythyr at Trajan, pan y dywed, nad oedd efe yn petruso dywedyd pa beth bynag oedd eu credöau crefyddol, fod eu cyndynrwydd a'u hystyfnigrwydd yn haeddu cospedigaeth. Ond yn mha beth yr oedd y cyndynrwydd a'r ystyfnigrwydd hyn yn gynnwysedig? Nid yn eu gwaith yn proffesu crefydd newydd; canys yr oedd hyn yn beth digon cyffredin yn mhlith y Rhufeiniaid: eithr yn eu gwaith yn gwrthod cyd-gymmysgu â Phaganiaeth, ac yn gwrthod offrymu peraroglau ar allorau yr eilunod. Canys nid ydym i feddwl fod y swyddwyr gwladol yn cymhell Cristionogion ar y cyntaf i hollol ymwadu â'u crefydd, ond eu bod yn gosod cyd-gymmysgiad

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 204.

mewn pethau crefyddol, yn brawl o hynawsedd a charteiddiwch eu tymherau tu ag at y Paganiaid. Ond wrth ystyried nattur ac egwyddorion Cristionogaeth, addas yn ddiau oedd i Gristionogion edrych ar y peth yn hollol wadiad o'u crefydd, ac felly yn gyfiawn ynddynt i ymwrthod â'r arferiad.

Yr oedd gwaith y Paganiaid yn edrych ar anghymmysgedd nattur Cristionogaeth—yr hyn yw ei gogoniant hi—ac ystyfnigrwydd ei phleidwyr—yr hyn sydd ynddo ei hun yn rhinwedd—nid yn unig yn gam-gymmeriad, ond yn un o'r drygau gwaethaf. Yr oedd y goreu o honynt yn ystyried anghyfeillgarwch, anghymmysgedd, ac anghymmundeb y Cristionogion mewn pethau crefyddol, yn gasineb at, ac yn wrthwynebiad i, ddynolryw. Canys dywed Tacitus, pan rydd hanes am losgiad Rhufain, yn amser Nero, am y Cristionogion, eu bod yn bobl ag oedd yn cashau holl ddynolryw. Ond pa fodd yr oedd hyn yn bod, pan mae y Paganiaid eu hunain yn dwyn tystiolaeth o hynodrwydd purdeb bucheddau ac ymddygiadau moesol y Cristionogion cyntefig? yr hyn a ddengys nad oedd unrhyw sail i'r cyfryw gyhuddiad, ond *eu bod yn gwrthod cyd gymmysgu â hwy mewn pethau crefyddol.* A chymmaint oedd rhagfarn y byd Paganaidd dros hyn, a'u tywyllwch am nattur ac egwyddorion Cristionogaeth, fel y tybient nad oedd modd i hyn fod heb yr anghariad mwyaf tu ag at ddynolryw. A dywedodd yr Apostol yn dra eglur a chynnwysfawr am yr hyn sydd mewn llaw:—*Yn yr hyn y maent yn ddyeithr, yn eich cablu chwi, am nad ydych yn cyd-redeg gyda hwynt i'r unrhyw ormod-rhysedd.**

Un o brif ddichellion Satan yn mhob oes o'r byd, ydyw, gosod y naill beth da yn erbyn y llall, megys y gosodai y pryd hwnw i fynu undeb a heddwch, er cadw gwirionedd ac iawn egwyddorion allan o'r byd. Undeb a heddwch yn ddiau ydynt bethau o werth mawr, ac a ddylid cyrchu attynt gan bawb: eithr nid dichonadwy eu cael yn safadwy, ond lle byddo gwirionedd ac uniondeb yn sylfaen iddynt. Yr oedd y grefydd Baganaidd, fel y sylwyd yn barod, yn proffesu ei bod dros ryw fath o undeb, heddwch, a chyfeillgarwch, trwy gyd-gymmysgiad crefyddol—yr hyn oedd, mewn ystyr, yn dywedyd yn eglur nad gwaeth pa grefydd a broffesid, nad oedd un yn rhagorach na'r llall—a thrwy hyny yn cau allan wirionedd ac uniondeb egwyddorol. Ond pan ymddangosodd y grefydd Gristionogol yn y byd, i godi i fynu wirionedd ac egwyddorion uniondeb fel sail gwir heddwch a chyfeillgarwch rhwng dynolryw, ymroddwwyd i'w gwrthwynebu dan rith amddiffyniad o undeb, heddwch, a chyfeillgarwch.

Maddeua y darllenydd am olrhain cymmaint ar yr egwyddor o gyd-gymmysgiad, pan yr ystyria—fel y credir genym—mai camddeall a chamarfer hon, yw un o'r prif achosion o holl ddirywiad yr eglwys Gristionogol, a'r holl erledigaethau a fu arni, ac ynddi. Pe gweithredasai Cristionogion, yn mhob oes, fel y gwnaeth y rhai cyntefig, yn y canrif cyntaf, a rhan o'r ail—sef yn ol anghymmysgedd ac anghymundeb nattur ac egwyddorion Cristionogaeth, â'r grefydd Baganaidd, ac â phob crefydd arall—nis gallasai y fath ddirywiad gymmeryd lle yn y byd Cristionogol. Ond trwy i ddynion a enwant eu hunain yn Gristionogion fyned i dir y Paganiaid, trwy sefyll dros gymmysgiad crefyddol, nes dilewyrchu Cristionogaeth, a'i dwyn i'r fath ddirywiad; a cheisio dwyn yn mlaen undeb a hedd-

* 1 Pedr

wch yn y cymmysgbeth yma, hyn a fu, ac sydd, yn un achos, ac nid y lleiaf, o'r holl ymraniadau, y rhwygiadau, a'r erledigaethau a fu ar, ac sydd yn, eglwys Dduw, yn mhob oes.

Gellir barnu, a hyny yn lled gywir, yr hyn oedd sefyllfa yr eglwys yn mhob parth o'r amherodraeth yn amser teyrnasiad Trajan, wrth yr hyn oedd ei sefyllfa yn y dalaeth ag oedd o dan lywyddiaeth y doeth a'r hynaws Pliny. Yr amser yr oedd efe yn rhaglaw ar Bithynia, yr oedd Tiberius yn rhaglaw ar Syria. Tua'r un amser, anfonodd yntau lythyr at Trajan, yn nghylch yr un achos, yn mha un y dywed—"Yr wyf wedi blino yn hollol ar y gwaith o gospi y Galileaid, neu y rhai hyny a elwir yn Gristionogion, *yn ol eich gorchymyn chwi.* Er cymmaint a thrymed y cospedigaethau, ni pheidiant â phroffesu yn ewyllysgar eu bod yr hyn ydynt, a chynnyg eu hunain i farw. O herwydd pa ham, yr wyf wedi eu hannog trwy fygythion, a phob modd, i beidio cyfaddef i mi, er dim, eu bod o'r blaid honno. Ond etto, er eu bod yn gwybod am yr erledigaeth a'r driniaeth y maent i ddyoddef, ni pheidiant â gwneuthur hyny. Gan hyny, rhynged bodd i'ch mawrhydi, hysbysu i mi pa beth a welwch yn addas i'w wneuthur iddynt."

Byddai gan y Paganiaid wyliau blynyddol yn eu prif ddinasoedd, ar ba rai y byddai gwleddoedd, ac amryw gampiau anghyffredin yn cael eu cynnal. Byddai yr amseroedd hyny yn ddyddiau o alar chwerw a dyoddefiadau blinion i'r Cristionogion yn lled gyffredin. Ar y gwyliau hyn ymgasglai trigolion y dinasoedd, a'r gwledydd o'u hamgylch, i ryw fath o adeiladau mawrion a elwid Cemmaes y Chwareudy *(Circus of the Theatre)* lle yr oedd pob peth, yn ei amgylchiadau a'i ymarferiadau, a ddygid yn mlaen yno, wedi ei addasu er ennyn brwdfrydedd yr edrychwyr yn erbyn yr oll oedd yn rhinweddol, ac er lleihau eu dyngarwch. Gwedi yr ymgasglai y tyrfaoedd lluosog i'r lleoedd hyny, ymwisgent â choronau plethedig o flodau ar eu penau; peraroglent ac arogldarthent; a phurent eu hunain trwy waed eu creaduriaid aberthiadol, pan yn cael eu hamgylchynu gan eu hallorau a'u delwau, gan ymroddi i bob pleser a digrifwch cnawdol, yr hyn a ystyrient hwy yn rhan hanfodol o'u haddoliad crefyddol. Gwelent fod y Cristionogion yn absennoli eu hunain o'r cyfryw leoedd, ar y cyfryw amgylchiad; a dangosent brudd-der a gofid o herwydd yr amryfusedd a ddygid yn mlaen yno. Edrychent ar hyn yn sarhad a dirmyg o'r mwyaf arnynt hwy a'u gawasanaeth, ac yn elyniaeth yn erbyn eu dedwyddwch. Dyngarwch, tosturi, at hrugaredd, nid oeddynt i'w disgwyl oddi wrth ddynion dan lywodraeth y fath deimladau, yn y cyfryw le.

Os digwyddai fod rhyw ran o'r amherodraeth wedi cyfarfod âg unrhyw amgylchiad gofidus yn ddiweddar, megys trwy haint, newyn, rhyfel aflwyddiannus—neu fod afon Tiber wedi gorlifo dros ei cheulanau—neu i'r Nilus beidio llifo dros y tiroedd—os byddai daeargrynfäau wedi bod, neu os byddai tymhorau annhymherus—bloeddiai y gloddestwyr Paganaidd yn ddidaw, nes dadseinio yr awyr, mai o herwydd y Cristionogion y bu hyny; ac mai o blegid eu goddef hwy, trwy ddangos gormod tiriondeb tu ag attynt, yr oedd y duwiau digiedig yn dwyn y barnau hyn arnynt. Gwaeddent, Ymaith â'r Cristionogion i'r llewod a'r bwystfilod, i'w llarpio! ac anaml y terfynai y cyfarfodydd hyn heb roddi rhyw nifer o'r rhai diniweid hyn yn aberthau i'w cynddaredd, trwy gael eu taflu i'r bwystfilod gwylltion, a gedwid gerllaw i'r Cemmaesau hyn, i'w dyfetha ganddynt.

Tua'r amser yr ysgrifenodd Pliny y llythyr blaenorol at Trajan, yr oedd

rhyfel a'r Parthiaid. Ignatius dduwiol oedd y pryd hwnw yn fugail ar yr eglwys oedd yno, yr hwn oedd yn ddyn, bron yn mhob peth, yn dwyn llawer iawn o ddelw yr apostolion. Tra yr arosai yr amherawdwr yn Antiochia, digwyddodd daeargryn mawr yno, nes dinystrio rhan fawr o'r ddinas. Blaenwyd y ddaeargryn gan daranau angherddol, gwynt aruthrol, a swn dychrynllyd o dan y ddaear. Trwy yr ysgydwad syrthiodd llawer o dai, a chladdwyd eu preswylwyr yn eu hadfail; y lleill oeddynt yn siglo fel llestr bychan mewn gwynt ar y weilgi fawr; pobl lawer a glwyfwyd, eraill a fuant feirw; a phawb a ddychrynwyd yn ddirfawr; a braidd yr achubodd yr amherawdwr ei einioes, trwy ddiangc allan, trwy ffenestr o'r tŷ lle yr arosai, yn glwyfedig. Gwedi i'r ddaeargryn beidio, llef gwraig a glybuwyd yn llefain o dan yr adfail, a chwedi iddynt gloddio atti, hi a gafwyd yn fyw, a'i phlentyn sugno wrth ei bron, yr hwn a gadwasai yn fyw am hir amser yn y lle hwnw, yn gystal â hi ei hunan, â llaeth ei bronau. Poblogrwydd ac uchel sefyllfa Ignatius, fel Cristion enwog, a gweinidog ffyddlon, ag oedd bellach wedi bod o ddeutu deugain mlynedd yn y sefyllfa honno, yn Antiochia, a ddygodd sylw ei elynion, ac a nodwyd allan fel ysglyfaeth i gynddaredd yr amherawdwr, ar yr amgylchiad, pan yr oedd ei ofergoelion wedi peri iddo feddwl mai o achos y Cristionogion yr oedd yr aflwydd hwn wedi digwydd.

Daliwyd ef trwy orchymyn yr amherawdwr, dedfrydwyd ef i farwolaeth, am na wadai ei Arglwydd, a danfonwyd ef dan warchawdlu o ddeg o filwyr, yn ol gorchymyn yr amherawdwr, oddi yno i Rufain, i'w ddïenyddio, trwy gael ei larpio yn y chwareudy gan y bwystfilod gwylltion. Priodolir amryw lythyrau, a elwir yn epistolau, i'r merthyr hyglod hwn; saith o ba rai a ddywedir iddo ysgrifenu at wahanol eglwysi, pan ar ei daith o Antiochia i Rufain, yn rhwym yn ei gadwynau. Cydnabyddir geirwiredd rhai o honynt yn gyffredin gan y dysgedigion, fel y maent yn gyhoeddedig yn awr allan o'r ysgrif a gaed yn llyfrgell y Medicii; eithr y lleill a ystyrir yn ffugiol, ac a wrthodir. Mosheim a ddywed, ei fod ef yn foddlon i lettya y dyb hon o flaen un arall; etto nad all efe lai nag edrych ar y llythyr a ddywedir iddo ysgrifenu at Polycarpus, o ran ei eirwiredd, yn eithaf amhëus, gan mor wahanol ydyw yn ei iaith a'i ddull o ymadroddiad i'r un arall. "Ac yn ddiau," medd y gwr uchod, "y mae yr holl ysgrifau a briodolir i'r sant enwog hwnw, o ran eu gwirionedd, yn gorwedd mewn tywyllwch mawr, a than lawer o anhawsdra i'w cael yn eglur i foddlonrwydd."* Wrth ei fyned yn garcharor ar ei daith hirfaith i Rufain, yr oedd yn llawn o ddyddanwch crefyddol yn ei enaid; tyrrai ei gyfeillion yn mhob lle i ymweled âg ef, a dangosent iddo bob caredigrwydd: eithr efe a achwyna ar y milwyr a'i gwarchodai. "O Syria i Rufain," medd ef, "ar fôr ac ar dir, yr wyf yn gorfod ymladd â bwystfilod ddydd a nos; yr wyf yn rhwym wrth lewpardiaid, y rhai ydynt fy ngwarchawd-filwyr, i ba rai po fwyaf a ddangoswyf o diriondeb, mwyaf i gyd o greulondeb ac adgasrwydd a gaf oddi wrthynt."† Gwedi ei ddyfod i Rufain, ni fynnai er dim i neb geisio rhoddi unrhyw attalfa ar ei ffordd i fyned i ddarbyn ei goron trwy ferthyrdod yn y dull a osodasid iddo. Ar ddydd nodedig, pan yn llawn sirioldeb, gwrolder, a thawelwch meddwl, gosodwyd ef yn nghanol y Cemmaes perthynol

* Mosheim's Church Hist. cent. 1. part 2.

† Gen. Biographical Dict.

i'r chwareudy, ger gwydd y lluaws edrychwyr a ymddifyrent yn yr olygfa, gollyngwyd y bwystfilod gwylltion arno, a drylliwyd ef yn ddarnau mewn ychydig amser. Fel hyn y gorphenodd Ignatius dduwiol ei yrfa.*

Yn nghylch yr un amser, bernir i Simeon mab Cleophas, yr hwn a elwir yn aml Simeon y Canaanead, un o apostolion Crist, gael ei osod i farwolaeth, pan yn ugain mlwydd a chant oed. Eithr nid oedd henaint, penwyni, na defnyddioldeb yn amddiffynfa rhag creulondeb y gormeswyr hyn. Hwn, wedi ei gollfarnu gan Atticus, llywydd Rhufain, a fflangellwyd am rai dyddiau, nes peri o'i wroldeb i'w erlidwyr synnu: etto ni allodd ei fawrion boenau greu un tosturi yn eu mynwesau annhrugarog; ac o'r diwedd rhoisant ef i farwolaeth, trwy ei groeshoelio.

Ystyrir hwn y trydydd erledigaeth, a meddylir iddo barhau dros holl deyrnasiad Trajan, yr hyn a fu am bedair blynedd ar bymtheg. Bu farw yn y flwyddyn 117 o'r cyfrifiad cyffredin; ond er iddo ef farw, gadawodd yn fyw, ac yn eu grym, y cyfreithiau melldigedig a wnaed er cospi dynion am wasanaethu eu Creawdwr, yn y modd y mynnai Efe iddynt wneuthur.

Gwedi marwolaeth Trajan, daeth Adrian i'r orsedd amherodrol; dan lywyddiaeth pa un blodeuodd yr amherodraeth mewn hawddfyd a llwyddiant anghyffredin. Er fod ei gymmeriad ef, fel dyn, yn dra chymmysgedig o ddrwg a da, etto, fel amherawdwr, rhagorai ar lawer. Annogodd ddygiad yn mlaen bob celfyddydau defnyddiol, trwy ei holl deyrnas; adolygodd a diwygiodd gyfreithiau y wladwriaeth; cadarnhaodd ddysgyblaeth filwraidd; ac ymwelodd yn bersonol â phob talaeth o'i amherodraeth: canys dywedai, y dylai brenin fod fel yr haul, yn ymweled yn ei ddysgleirdeb â phob rhan o'i deyrnas. Gwnaeth gyfraith yn gwahardd meistriaid i osod eu caeth-weision i farwolaeth, yn ol eu hewyllys, fel y caniatteid iddynt o'r blaen, heb eu dwyn i brawf cyhoedd. Ordeiniodd iddynt gael eu profi, pan yr achwynid arnynt, fel dynion eraill, wrth gyfreithiau y wladwriaeth. Gwneuthuriad y fath gyfraith sydd ddigonol i'w enwogi, a pheri i'w goffadwriaeth fod yn hyfryd gan bob dyn o deimlad drwy yr oesoedd, yn mhob gwlad. Ehangder a gweithgarwch ei feddwl a'i athrylith, oedd yn gwbl mor addas i'r golygiadau a'r gorchestion mwyaf, perthynol i'w deyrnas, yn gystal â'r pethau lleiaf. Eithr cywreinrwydd a gorwagedd oedd tymherau llywodraethol ei enaid.†

Y cyfreithiau erledigaethus a wnaed yn erbyn y Cristionogion yn amser Trajan, oeddynt yn parhau yn eu grym wedi dyfodiad Adrian i'r orsedd. Esmwythâwyd ychydig o'u llymdoster trwy y ddeddf honno a wnaed gan Trajan, yr hon a gofrestrwyd yn mhlith cyfreithiau y deyrnas, sef, "nad oeddid i chwilio yn negeseugar am y Cristionogion, er eu dwyn i'w cospi." Ond os cyhuddid hwy, a'u cael yn euog o ymlynu wrth Gristionogaeth, yr oeddynt i'w gosod i farwolaeth fel y drwg-weithredwyr gwaethaf, os na ddychwelent at grefydd eu hynafiaid. Ac yr oedd yn waharddedig iddynt gynnal unrhyw gyfarfodydd yn nghyd, ar unrhyw amser—o blegid ystyriai eu herlidwyr hyn yn un o brif foddion eu cynnaliaeth—yr hyn a osododd y Cristionogion mewn sefyllfa eithaf peryglus; a llawer o honynt a osodid i farwolaeth yn feunyddiol trwy ryw ddull neu gilydd.

Yn y chwechfed flwyddyn o'i deyrnasiad, daeth Adrian i Athen, yn mha

* Milner's Church Hist. vol. 1. and Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 210.

† Goldsmith's Hist. of Rome, p. 442.

le yr egwyddorwyd ei yn hon ddirgelion yr addoliad Paganaidd. Yn yr amser hwnw, Quadratus oedd fugail yr eglwys oedd yn y ddinas honno, ar ol Publius, yr hwn, meddylir, a ddyoddefodd ferthyrdod yn y teyrnasiad hwnw, neu yr un blaenorol. Bernir i'r eglwys ddyoddef erledigaeth dra chreulawn tua'r amseroedd hyny; canys yr ydoedd wedi ymwasgaru, a myned yn isel iawn ei hamgylchiadau, ac i annhrefn mawr, pan y sefydlwyd Quadratus yno. Eithr trwy ei lafur diflin ef, a bendith y Nef arno, adfywiwyd yr achos, adferwyd yr eglwys, a dygwyd pethau i drefn, fel y cyfeirir at yr eglwys honno gan Origen, ac eraill, mewn amser dyfodol, fel cynllun i'w hefelychu, o ran trefn, a phob rhinweddau moesol. Ysgrifenodd Quadratus amddiffyniad i'r grefydd Gristionogol, yn wyneb y camdystiolaethau a'r cableddau a roddid i'w herbyn gan ei gelynion; a gwnaeth un Aristides, ysgrifenydd yn Athen, yr un peth yr amser hwnw; a chyflwynasant eu hysgrifau i'r amherawdwr. Er mawr golled, nid yw yr ysgrifeniadau hyn i'w cael yn bresennol; herwydd pe baent, diau y buasent yn foddion i roddi goleu ar sefyllfa crefydd yn y byd y dyddiau hyny. Nid yw yn amlwg pa effaith a wnaethant ar feddwl yr amherawdwr; eithr bernir ei fod, er cymmaint ei sêl dros y grefydd Baganaidd, yn chwennych ymesgusodi oddi wrth weini y cyfreithiau yn ol eu llymdoster tu ag at y Cristionogion. Ond yr offeiriaid Paganaidd, yn barhaus, a osodent y bobl ar dân, yn eu campiau cyhoeddus, yn y modd mwyaf terfysglyd, am ddwyn y Cristionogion yno i'w cospi, trwy eu taflu rhwng y bwystfilod gwylltion, er eu difyrwch; a'r swyddwyr gwladol, rhag ofn, yn eu tyb hwy, i bethau gwaeth gymmeryd lle, yn rhy barod i gydffurfio â'u cais, a'u boddhau yn hyny.

Yn yr amser hwnw, ysgrifenodd Serenius Granianus lythyr at yr amherawdwr, adysgrif o ba un sydd fel y canlyn:—"Ymddengys i mi yn beth eithaf afresymol fod y Cristionogion yn gorfod dyoddef y fath driniaethau, er mwyn boddloni nwydau llygredig y werin, heb eu dwyn i brawf, a'u heuog-farnu am ryw drosedd o'r gyfraith, mewn llŷs cyhoedd." Dyma'r cyntaf o lywyddion amherodraeth Rhufain y darllenwn am dano, a amheuodd yn gyhoedd uniondeb a gweddeidd-dra y cyfreithiau cospol a wnaed gan Trajan, &c., yn erbyn y Cristionogion, a'r arferiad o ddedfrydu dynion i farwolaeth, heb fod yn euog o unrhyw fai moesol, ond yn unig addoli Duw yn ol y drefn a farnent yn fwyaf cymmwys. Yn fuan wedi ysgrifenu y llythyr uchod, ymadawodd Serenius à'r swydd honno; ond ysgrifenodd Adrian yr un canlynol, mewn attebiad iddo, at ei olynwr:—

"At Minutius Fundanus,—Derbyniasom lythyr a ysgrifenwyd attom gan yr ardderchoccaf Serenius Granianus, yr hwn a'ch blaenorai chwi yn eich sefyllfa. Nid ymddangosai i ni y pryd hwnw yn beth i'w adael heibio yn ddiystyr. Fel nas aflonydder dynion yn ddiachos, nid yw hustyngwyr i'w cefnogi mewn un modd yn eu harferion ffiaidd. Os ymddengys trigolion unrhyw dalaeth yn gyhoeddus, er gwneuthur achwyniad yn erbyn y Cristionogion, yn y fath fodd ag y byddo ganddynt lawn cyfleusdra i atteb drostynt eu hunain, ac i wneuthur amddiffyniad, boed iddynt fyned yn mlaen felly yn unig, ac nid trwy archiadau a dfoesaidd a therfysglyd. Canys llawer gweddeiddiach ydyw eich bod chwi yn cymmeryd sylw o'r achos, os eu cyhuddir gan ryw rai, na'r modd y [illegible] aent yn gwneuthur. Gan hyny, pan yr achwynir ar neb, a dangos ei [illegible] yn euog o weithredol droseddu y gyfraith wladol, boed i chwi benderfy[illegible] ei gosp yn ol natur ei fai. Ond er Hercules, os celwyddog yr achwyni[illegible], boed i chwi farnu anfadusrwydd y fath weithred, a chospi y troseddwr [illegible] ol ei hæeddiant."

Llarieiddiodd y llythyr uchod ychydig ar danbeidrwydd yr erledigaeth, er nas llwyr derfynodd. O herwydd wedi hyn, gwelwn pan oedd Arius Antoninus yn rhaglaw ar Asia, i luaws mawr o Gristionogion ddyfod fel un corph o flaen ei orsedd, pan orchymynodd roddi rhai o honynt i farwolaeth; a chan anfon y lleill ymaith, dywedodd wrthynt,—"Chwi drueiniaid! os marw a fynwch, y mae genych ddibynau creigian a chebystrau ddigon." Wrth hyn, tebygid fod y Cristionogion hwythau y dyddiau hyny wedi syrthio i gamolygiadau am farwolaeth ferthyrol, trwy edrych ar gael marw felly yn fraint, fel y meddylient mai eu dyledswyd oedd dyfod a rhoddi eu hunain i fynu i ddwylaw y swyddwyr gwladol, i'w merthyru. Dywed haneswyr am rai o raglawiaid y taleithiau eraill, eu bod yn gosod rhai o'r Cristionogion a ddygid ger eu bronau i farwolaeth, tra yr anfonent eraill i'w ffordd yn fyw. Felly nid oedd yr erledigaeth yn cael ei dwyn yn mlaen gyda'r un angerdd, nac mor gyffredin, ag yn amser Trajan.

Yn nheyrnasiad Adrian, cyfododd yr Iuddewon mewn gwrthryfel neilldiol, gan feddwl y gallent unwaith yn rhagor fwrw ymaith yr iau Rufeinaidd. Blaenorid hwy gan Iuddew a enwai ei hun Barcocheba, yr hwn a ddywedai mai efe oedd Brenin yr Iuddewon, a llwyddodd gyda'r genedl ofergoelus i gredu ei fod ef yn rhyw un mawr—y Messiah a ddisgwylient hwy i ddyfod i'r byd, yr hwn a'u gwaredai oddi wrth bob drygau—fel yr ymgynnullasant at ei fanerau o bob cwrr, er ymryson â'r Rhufeiniaid am yr amherodraeth. Gommeddodd y Cristionogion i uno â banerau y Messiah ffugiol hwn, na rhoddi un llaw o gymmorth iddo yn y gwrthryfel. O herwydd hyn, goddefasant y triniaethau creulonaf a fedrai y gwrthryfelwyr weinyddu arnynt; llofruddiwyd hwy yn ddidrugaredd yn mhob man lle yr oedd Iuddewon, nes y syrthiodd eu blaenor, pan y chwalwyd ac y distrywiwyd ei ganlynwyr, ac y rhoddwyd terfyn ar y gwrthryfel. Y canlyniad o hyn fu, cael o'r Iuddewon eu hollol warafun, dan berygl marwolaeth, i osod troed o fewn talaeth Judea mwy; a newidiwyd enw Jerusalem i Ælia Capitolia, fel nad adwaenai y cyffredin mo'r lle, mewn amser dyfodol, wrth yr enw cyntefig.*

Gwedi teyrnasu o Adrian am un mlynedd ar hugain, bu farw o glefyd hirfaith, blin, a nychlyd iawn. Canlynwyd ef yn yr orsedd gan Titus Antoninus Pius, seneddwr boneddigaidd, ag oedd yn nghylch deng mlwydd a deugain oed pan enwodd efe ef i fod yn ganlyniedydd iddo, ar yr ammod y byddai iddo yntau fabwysiadu yn ddioed un Marcus Aurelius Antoninus, i'w ganlyn, yr hwn oedd y pryd hwnw yn ddyn ieuangc, yn nghylch dwy ar bymtheg oed. Dechreuodd Antoninus deyrnasu yn y flwyddyn 138 o'r cyfrifiad cyffredin. A thrwy deyrnasiad y ddau Antoninus, bu gorsedd amherodrol Rhufain yn eu meddiant am ddwy flynedd a deugain. Dywed Gibbon, mai yr yspaid y teyrnasodd y ddau hyn, ydyw yr unig amser ag y gwelir mewn hanesyddiaeth, mai dedwyddwch pobl fawrion oedd gwrthddrych unigol y llywodraeth.†

* Goldsmith's Hist. of Rome, p. 445.

† Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. i. p. 47.

PENNOD IX.

Yn cynnwys hanes am Sefyllfa yr Eglwys — yr Erledigaethau a fu ar y Cristionogion, a'u Dyoddefiadau, yn nheyrnasiad Antoninus Pius, Aurelius Antoninus, Commodus, ac eraill a deyrnasasant yn Rhufain, hyd ddiwedd y Canrif hwn.

Yr amherawdwr Antoninus Pius a ddangosai ei fod bob amser yn llawer mwy dros feithrin heddwch nag oedd am ddwyn yn mlaen ryfeloedd, fel yr arferai ddywedyd, *ei fod yn edrych ar achub bywyd un o'i ddeiliaid, yn llawer mwy o bwys na dinystrio mil o'i elynion.* Ymddygodd yn dadol iawn tu ag at ei holl ddeiliaid, fel y llewyrchodd heddwch a thangnefedd trwy ei holl deyrnasiad; a pherchid ef yn fawr gan bawb. Ni bu efe yn euog yn bersonol o dywallt gwaed y saint; etto meddylir fod rhai o swyddwyr y taleithiau, mewn rhai manau, wedi bod yn achos i ddwyn yn mlaen yr erledigaeth yn nechreuad ei deyrnasiad. Canys, er fod Adrian ei ragflaenor wedi rhoddi cyhoeddiad allan, nad oedd neb i ddyoddef cospedigaeth heb eu profi yn euog o *fai* yn erbyn cyfreithiau yr amherodraeth, yr oedd gelynion crefydd yn awr yn ceisio dangos fod Cristionogaeth ynddi ei hun yn *fai* yn erbyn cyfreithiau y deyrnas. I'r dyben o wneud hyn yn dda, ymdrechent osod allan fod Cristionogaeth ynddi ei hun yn annuwioldeb ac yn annuwiaeth, am y gwrthwynebai eu haml-dduwiau hwy, a'u rhwysgfawr addoliadau. Yn wyneb hyn, gwnaeth Justin Ferthyr amddiffyniad gwresog a chadarn o'r grefydd Gristionogol, ac a'i cyflwynodd i'r amherawdwr. Mewn canlyniad, gwnaeth yr amherawdwr ei hun gyfraith, yn mha un y rhodda eglurhad ar y gair *bai* yn erbyn cyfreithiau y deyrnas, o du dyngarwch ac uniondeb. A dangosodd ei bleidgarwch i'r Cristionogion, trwy amddiffyn eu diniweidrwydd mewn cyhoeddiad a anfonodd at holl daleithiau Asia, lle, tebygol, y dygid yn mlaen yr erledigaeth danbeidiaf: cyfieithiad o ba gyhoeddiad sydd fel y canlyn: —

" *Yr Amherawdwr at y Cynghor Cyffredin yn Asia.*

"Yr ým yn dra sicr y cymmer y duwiau eu hunain ofal i chwilio allan y personau y cyfeiriasoch attynt: o blegid perthyn y peth yn llawer mwy iddynt hwy — os ydynt yn alluog i gospi dynion am esgeuluso eu haddoliad — nag i chwi. Eithr yr ydych yn beio y Cristionogion, ac yn eu cyhuddo o fod yn euog o annuwiaeth, yr hyn nid ydych mewn un modd yn alluog i'w brofi yn eu herbyn. Mae marw yn elw yn eu golwg hwy, a thrwy hyn y maent yn cyrhaedd eu hamcan: canys y mae yn llawer gwell ganddynt gael eu hamddifadu o'u bywyd allan, nag ufuddhau i'ch cyfreithiau chwi. Gyda golwg ar ddaear-grynfäau a gymmerant le, mewn amser hen

a diweddar, priodol i mi yw adgoffa i chwi am agwedd dychrynllyd, llwfr, a digalon eich meddyliau, pan y digwydd hyny. A chymharu eich agwedd chwi â'r eiddynt hwy, mor fawr yw y gwahaniaeth a geir rhyngddynt! Mor hyderus yn Nuw ydynt hwy, yn wyneb y fath amgylchiadau! Ar y cyfryw amserau, yr ydych chwi yn ymddangos fel pe baech yn ddyeithr i'r duwiau, ac yn esgeuluso eu haddoliad. Yr ydych yn byw yn fyr o wybodaeth ymarferol am y Duw Goruchaf; ac yr ydych yn erlid y cyfryw a'i hadnabyddant, ac sydd yn ei wasanaethu. Yn nghylch y dynion hyn, ysgrifenodd rhai o'r taleithiau at ein tad Adrian, i ba rai yr attebodd efe, nad oeddynt i gael eu haflonyddu; oddi eithr eu bod yn gwneud, neu yn amcanu gwneud, yr hyn ag oedd yn erbyn y llywodraeth Rufeinaidd. Amryw a anfonasant attaf finnau yn eu cylch, i ba rai oll y dychwelais yn attebiad a oedd gysson â gosodiad fy nhad. Ond os bydd i neb o hyn allan barhau i gyhuddo y Cristionogion fel y cyfryw, bydded i'r rhai cyhuddedig gael eu rhyddhau, er eu bod yn Gristionogion, os na fyddant yn euog o fai heblaw hyny, a chosper y cyhuddwyr."*

GOSODWYD HYN I FYNU YN Y GYMMANFA GYFFREDINOL YN EPHESUS.

Llythyrau i'r un perwyl a anfonwyd at y Larissæaid, y Thessaloniaid, yr Atheniaid, a'r holl Roegiaid, fel y dywed Eusebius; a gofalodd yr amherawdwr dyngarol hwn, am fod y cyfreithiau hyn yn cael eu cadw a'u cyflawni, tra y bu efe byw. Dyma ddyddiau hafaidd ar eglwys Dduw; pob un a berthynai iddi yn cael eistedd dan ei winwydden a'i ffigysbren ei hun, heb neb yn meiddio i'w ddrygu. Ac ni chlywn fod un cyfraith o'r blaen wedi ei gosod er amddiffyniad y Cristionogion, yn y meddiant o'u breintiau.

Parhaodd teyrnasiad Antoninus Pius dair blynedd ar hugain, o fewn i ychydig fisoedd. Gwedi ei farwolaeth, syrthiodd yr holl amherodraeth i law Marcus Aurelius Antoninus, yr hwn a fabwysiadesid gan ei ragflaenor, er dechreuad ei deyrnasiad. Yn y flwyddyn 162 o'r cyfrifiad cyffredin, dechreuodd Aurelius deyrnasu, yr hwn, er pan yn ddeuddeg oed, oedd wedi cofleidio athronddysg y Stoiciaid, a chwedi byw er hyny mewn ymarferiad o honi, pa un a gyflwynai efe yn neillduol i'w holl ddeiliaid. Ymostyngai i ddarllain gwersi ar athroniaeth i'r Rhufeiniaid, yr hyn, medd Gibbon, oedd yn dwyn clod iddo, etto yn anghysson â gwylder, gwir gallineb, ac urddasrwydd amherodrol: o blegid hyn, gelwir ef gan haneswyr yn aml Antoninus y Philosophydd. Ond beth bynag am ei ddoethineb fel dyn, a'i rinweddau fel amherawdwr, gorphwys hyn am byth yn anfri ar ei gymmeriad, sef, ei fod wedi adnewyddu y cyfreithiau erledigaethus a gwaedlyd yn erbyn y Cristionogion. Nid yw yn annhebyg ei fod yn edrych ar yr hynawsedd a'r amddiffyniad a gai pobl dda dan deyrnasiad ei ragflaenor, gyda blinder; a dywedir gan rai o'i wrthwynebwyr, fod rhai o honynt wedi cael eu haflonyddu, i raddau, cyn ei farwolaeth, trwy ei gydsyniad ef. Beth bynag am hyny, mae yn eglur, mor fuan ag y daeth y llywodraeth yn hollol i'w law, iddo agor y dyfr-ddorau, fel y gorchuddiodd cefnllif erledigaeth wyneb yr holl amherodraeth drachefn: ac ymadawodd ef yn llwyr âg egwyddorion ardderchog llywodraeth Antoninus Pius, ei ragflaenor.

Hwn a ystyrir y pedwerydd erledigaeth; a meddylir i eglwysi Asia ddyoddef cryn erwineb tra y parhaodd. Bu iddo uno un Verus gydag ef, i

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 216.

fod yn gyd-amherawdwr. Dyma yr amser cyntaf i Rufain weled dau amherawdwr mewn cydradd awdurdod yn cyd-eistedd ar eu gorsedd-faingc; etto, yn ddynion gwahanol iawn o ran eu tymherau. Verus oedd un o'r dynion gwaethaf; gwedi ymroddi i bob oferedd, drygioni, a llygredigaeth; a naw mlynedd y teyrnasodd efe.

Polycarpus oedd yn weinidog y pryd hwnw yn Smyrna, dinas yn Asia Leiaf, pa sefyllfa a lanwasai efe er mawr adeiladaeth i ddynion da, llwyddiant i achos ei Arglwydd, ac anrhydedd i'w Dduw, am bedwar ugain mlynedd. Ond yn awr, yr oedd yr amser ag oedd yn rhaid iddo selio ei weinidogaeth â'i waed wedi nesâu, yr hyn hefyd a wnaeth, yn y flwyddyn 167 o'r cyfrifiad cyffredin. Nid yw annhebyg fod Polycarpus wedi ei eni yn Smyrna, o rieni Cristionogol, yn amser teyrnasiad Nero; lle bu efe wedi hyny yn hir yn esgobaethu. Dygwyd ef i fynu yn moreuddydd ei fywyd, ar draul un Calisto, pendefiges enwog mewn duwioldeb a haelioni, ag oedd yn byw yn y ddinas honno; ac felly dygwyd ef i fynu yn egwyddorion y grefydd Gristionogol. Gelwir ef yn gyffredin gan haneswyr hen a diweddar, yn ddysgybl i Ioan yr apostol; nid hawdd gwybod o ba herwydd y gwneir hyny, oddi eithr iddo fod dros amser, yn nyddiau ei ieuengctyd, yn cyd-deithio â'r apostol. Diammau ei fod mewn cyfleusdra i weled yr apostol hwnw, a hwyrach, rai o'r lleill. Gwedi iddo dreulio bywyd hirfaith a defnyddiol iawn yn ngwasanaeth ei Arglwydd, pan oedd un Herod yn ben-swyddwr yn Smyrna, yn nheyrnasiad Aurelius Antoninus, a phan yr oedd erledigaeth yn cael ei dwyn yn mlaen yn erbyn y Cristionogion yn Smyrna, ciliodd Polycarpus allan o'r ddinas i bentref gerllaw, ac a ymguddiodd mewn rhyw le dirgel, fel nad allai yr erlidwyr ei gael allan, er chwilio yn ddyfal am dano. Yr oedd y werinos wedi cael eu cynhyrfu i'r fath lid yn erbyn Polycarpus, fel na chlywid trwy holl Smyrna, ond, "Hwn yw athraw holl Asia, efe yw tad y Cristionogion, gwrthwynebwr y duwiau, yr hwn sydd yn dysgu y bobl yn mhob lle i beidio cyflawni defodau ac addoliad ein duwiau—*ymaith â'r annuwiad!*"

Wedi i Polycarpus weled fod eraill yn dyoddef yn achos crefydd, a rhai yn cael eu gosod ar yr arteithfa o eisiau amlygu yn mha le yr oedd, efe a ystyriodd fod hyn yn anaddas ynddo, fel hen filwr, sef gadael ei sefyllfa a'i waith rhag ofn dyoddef yn achos ei Arglwydd, fel yr ymddangosodd yn gyhoeddus, gan ddywedyd, *Ewyllys yr Arglwydd a wneler.* Yn fuan wedi ei ymddangosiad, efe a ddaliwyd, pryd yr wynebodd y ceisiaid gyda'r sirioldeb mwyaf. Gorchymynodd roddi bwyd iddynt, ac erfyniodd am gael awr i ymwneud â Duw mewn gweddi, cyn ei fyned, yr hyn a ganiattawyd iddo. Ac o herwydd y melusdra a'r rhwyddineb a gafodd yn y gwaith, bu ddwy awr mewn gweddi. Wrth weled ei ymddygiad, a chlywed ei daer, ei syml, a'i wresog weddiau, cyfaddefodd y milwyr eu mawr ofid o fod gorfod arnynt ddal y fath ddyn a sant mor enwog. Pan yr oedd yn cael ei ddwyn ymaith tua'r ddinas ar gefn asyn, dywedir iddo gyfarfod â Herod, pen-swyddwr y ddinas, yr hwn oedd y prif offeryn o ddwyn yn mlaen yr erledigaeth, pa un a gymmerodd Polycarpus atto i'w gerbyd, ac a ymdrechodd ei ddwyn i wadu ei grefydd; eithr pan welodd nad allai, efe a'i taflodd allan, nes syrthio o hono ar y ddaear, yn y fath fodd ag y bu i'r hen sant gael ei glwyfo yn fawr. Gwedi ei ddwyn ger bron, ei holi, a'i ddedfrydu i farw, yn achos ei grefydd, [illegible] na chyd-gymmysgai â'r Pagan-

iaid yn addoliad eu duwiau, efe a osodwyd i farwolaeth trwy gael ei losgi yn y fflamiau tan.*

Adroddir gan rai haneswyr am lawer o wyrthiau a phethau rhyfedd a gymmerasant le ar farwolaeth Polycarpus; eithr ymddangosant yn ddychymmygion disail, yn arogli gormod o ffug-chwedlau Pabaidd i gael cred yn yr oes oleu hon. Ond y mae yn eglur iddo farw, nid yn unig yn dawel, ond yn orfoleddus; a phan ymdrechodd y rhaglaw yn y llŷs i'w ddigaloni, a'i ddwyn i wadu ei Arglwydd, trwy fygwth ei daflu i'r bwystfilod gwylltion, efe a ddywedodd yn ddi-ddychryn, "Gelwch am danynt pryd y mynoch." A phan y bygythiwyd ei losgi â thân, dywedodd, "Dechreuwch pan y mynoch, pa ham yr oedwch." Nid oes ond un llythyr yn cael ei briodoli i Polycarpus, yr hwn y dywedir iddo ysgrifenu at yr eglwys oedd yn Phillipi, ac sydd ar gael hyd heddyw. Sylwir ar hwn, ac ar y ddadl a fu rhyngddo ef âg Anecitus, gweinidog yr eglwys ag oedd yn Rhufain, yn nghylch amser cadw y Pasg mewn lle arall.

Ymdrechid i daenu pob chwedlau celwyddog am y Cristionogion y pryd hwnw, er eu gwaradwyddo, trwy ddywedyd eu bod yn lladd babanod, yn bwytta cnawd dynion, &c. Y pryd yma yr oedd Cresus, philosophydd o Rufain, yn ddiwyd iawn yn y gorchwyl hwn; mewn gwrthbrofiad i ba un, ysgrifenodd Justin Ferthyr ei ail amddiffyniad, ac a'i cyflwynodd i'r amherawdwr a'r senedd. Ennillodd yr amddiffyniad hwn i Justin, a chwech o'i gyfeillion, goron merthyrdod. Am nad allai ei wrthwynebwr ei atteb ar dir ymresymiad, efe a ymdrechodd, ac a lwyddodd, i gynhyrfu amherawdwr a swyddwyr Rhufain i godi yn ei erbyn, a'i osod i farwolaeth.

Ganwyd Justin Ferthyr yn Neapolis, sef yr hen Sichem gynt, yn nhalaeth Samaria, yn ngwlad Palestina. Ei dad oedd Roegwr, o'r enw Priscius. Dygwyd ef i fynu yn y grefydd Baganaidd, ac mewn dysgeidiaeth ddynol yn helaeth iawn, ac yn philosophydd o farn y Platoniaid. Gwedi iddo orphen ei ddysgeidiaeth yn Alexandria yn yr Aipht, teithiodd trwy amryw wledydd, er mwyn chwanegu ei wybodaeth. Pan yr oedd yn dwysfyfyrio, un diwrnod, ar lan y môr, annerchwyd ef gan henwr, o ymddangosiad gweddaidd. Gwedi iddynt ymddiddan â'u gilydd dros amser am ardderchawgrwydd cyfundraith athronol Plato, dywedodd wrtho am Gristionogaeth, a'r ardderchawgrwydd tra rhagorach a berthynai iddi, fel ei dadguddid yn yr ysgrythyrau; ac annogodd ef yn daer i ddarllain a chwilio y rhai hyn, er ei addysg ei hun. Hyn a wnaeth; ac mewn canlyniad, argyhoeddwyd ef o ragorolder a dwyfoldeb y grefydd Gristionogol, fel y darfu iddo ei chofleidio; a daeth yn amddiffynwr gwresog iddi. Cymmerodd y pethau hyn le, tua'r flwyddyn 132 o'r cyfrifiad cyffredin.* Gwedi iddo dramwyo trwy amryw wledydd, ac ymweled âg amryw eglwysi—dysgu y bobloedd yn egwyddorion y ffydd—cynnal dadleuaeth yn erbyn yr Iuddewon,† y Paganiaid philosophyddol, ac amryw gyfeiliornwyr eraill—ac ysgrifenu amryw lyfrau, er gosod allan nattur a theilyngdod y grefydd Gristionogol—efe a ddaeth i Rufain. Pan yn y lle hwnw, yn gweled y fath waradwyddiadau diachos yn cael eu taflu ar Gristionogion gan eu gelynion—ac wrth sylwi ar y modd creulawn eu gosodid i farwolaeth, heb eu profi yn euog o un bai, ond yn unig eu bod yn Gristionogion—cynhyrfwyd ef i wneuthur yr amddi-

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 162.

† Nid yw yn debyg fod Justin yn weinidog i un eglwys neillduol erioed. Milner's Church Hist. vol. i.

ffyniad uchod, ac i osod eu hachos ger bron yr amherawdwr a i senedd. Ond ni chafodd yr ysgrif yr effaith a ddymunai ar feddyliau ei wrthwynebwyr.

Yn fuan wedi hyn, gosodwyd Justin a'i chwech cyfaill mewn dalfa; dygwyd hwy ger bron y llŷs, o flaen Rusticus, prif lywydd Rhufain y pryd hwnw, yr hwn a eisteddai fel barnwr ar eu hachos. Ymdrechwyd ar y cyntaf i'w hennill i wadu eu Harglwydd, ac ufuddhau i ddeddfau yr amherawdwr, trwy aberthu i'w dduwiau. Ond pell iawn oedd yr hyn oll a ddywedwyd ac a wnaed oddi wrth effeithio un cyfnewidiad yn eu meddyliau, fel y dywedodd Justin wrthynt, "nad oedd neb ag oedd o feddwl iawn, a allai ymadael â'r gwirionedd, er cofleidio cyfeiliornad ac anwiredd." A phan eu bygythiwyd, os na chydffurfient â gosodiadau yr amherawdwr, y caent eu cospi yn ddiarbed, attebasant, gan ddywedyd, "Gwnewch hyny mor fuan ag yr ewyllysioch; canys Cristionogion ydym ni:" medd y ffyddloniaid, "gwybyddwch gan hyny na wasanaethwn ni eich duwiau chwi." Gwedi clywed hyn, y barnwr a gyhoeddodd y ddedryd ganlynol arnynt oll; sef, Eu bod hwy, am nad addolent y duwiau, ac nad ufuddhaent i osodiadau yr amherawdwr, i gael eu fflangellu, a chwedi hyny torri eu penau, yn ol y gyfraith; yr hyn a wnaed iddynt allan o law.

Fel hyn y terfynodd Justin Ferthyr ei yrfa, tua'r flwyddyn 165 o'r cyfrifiad cyffredin. Cyfrifir ef yn un o'r ysgrifenwyr penaf ar bethau crefyddol, ag oedd yn byw yn yr oesoedd hyny. Bydd rhai o'r ysgrifau yn dyfod dan ein sylw mewn lle arall.

Y mae hanes yr amherawdwr philosophyddol hwn yn llawn o'r un fath greulonderau o'i du ef, â'i swyddwyr gwladol; ac o'r un fath ddyoddefiadau amyneddgar o du y Cristionogion. Coffeir gan Justin am un Ptolemæus a Lucius a ddyoddefasant ferthyrdod yn Rhufain ychydig o'i flaen ef, heb ofyn iddynt un gofyniad, ond, a oeddynt hwy yn Gristionogion—lle yr ymddengys fod hyd yn nod addefiad o hyny yn cael ei ystyried yn brif fai, yn achosi marwolaeth yn ddidrugaredd. Ac y mae yn amlwg fod y gweithredoedd annynol ac ysgeler yn cael eu cyflawni dan olygiad, a thrwy gefnogiad, yr amherawdwr ag oedd yn gwneuthur ymarddelwad mawr o reswm a philosophyddiaeth fel prif reol ei weithrediadau; a'u bod yn cael eu cyflawni er amddiffyn coel-grefydd ac eilun-addoliaeth, y rhai oeddynt hollol groes i bob rheswm a gwirionedd. Yr oedd y creulonderau hyn yn cael eu gweinyddu tu ag at y personau mwyaf rhinweddol, ac yn unig am eu bod yn glynu wrth addoliad y gwir Dduw, yr hyn ydyw egwyddor flaenaf gwir grefydd.

Gwedi i'r amherawdwr, trwy ei swyddwyr a'i gyfreithiau gormesol, gynniwair trwy amryw wledydd, ac anrheithio yr eglwysi, cawn eu bod cyn diwedd ei deyrnasiad wedi ennyn fflam erledigaeth mewn gwlad na chlywsom o'r blaen sôn am dani mewn hanes eglwysig, sef Ffraingc, neu, fel y gelwid hi y pryd hwnw, Galia. Gan bwy y trosglwyddwyd yr efengyl i'r wlad hon, a pha bryd y dysgleiriodd ynddi, sydd anhysbys. O blegid yr hanes cyntaf a geir am hyn ydyw, yr hyn a adroddir am yr erledigaeth ddychrynllyd a fu ar yr eglwysi ag oedd yn VIENNE a LYONS, dwy ddinas agos i'w gilydd yn y wlad uchod, tua'r flwyddyn 177 o'r cyfrifiad cyffredin. Preswylwyr Vienne oeddynt, er yr hen amseroedd, yn drefedigion o Rufain, eithr gwyr Lyons oeddynt yn rhai [illegible] yr amseroedd diweddarach. Henuriaid yr eglwys oedd yn Lyons, yn [illegible] ylch amser yr erledigaeth yr adroddir yma am dani, oedd Pothinus ac [illegible] renæus: nid yw yn amlwg pa un a

oeddynt yno cill dau ar yr un pryd, ai ynte y naill ar ol y llall. "Pwy bynag," medd Milner yn ei hanes eglwysig, "a edrycho ar ddarlun y ddaear, sydd yn hawdd iddo weled fod Lyons, prif ddinas Ffraingc, yn bresennol, oddi eithr Paris, yn sefyll ar gysswllt afon y Rhine a'r Soane, mewn lle cyfleus am fasnachiaeth y byd. Mae pob tebygolrwydd, fod yn yr amseroedd gynt, masnachiaeth Môr y Canoldir yn cael ei ddwyn yn mlaen yn benaf gan fasnachwyr Lyons a Smyrna; yn y modd hwnw, meddylir, y dygwyd yr efengyl i Smyrna ac eglwysi Asia Leiaf, o Galia, ac y planwyd eglwysi yn y dinasoedd uchod."*

Mae yn amlwg mai trwy ryw foddion tebyg i hyn y daeth yr efengyl gyntaf i'r wlad hon, pryd y planwyd ynddi yr eglwysi cyntefig hyny y darllenwn am danynt. Oddi wrth enwau y personau a goffeir ynddynt, nid yn unig Pothinus ac Irenæus, ond hefyd dynion ereill o enwogrwydd ag oedd yno, ymddengys eu bod yn Roegiaid gwreiddiol. Hefyd y mae yr adnabyddiaeth neillduol a broffesai Irenæus fod ganddo ef â Polycarpus, hen weinidog yr eglwys ag oedd yn Smyrna, yn dangos mai un oddi yno ydoedd; a gwelir hyny oddi wrth yr adnabyddiaeth a'r cyfeillgarwch anarferol ag oedd rhwng y ddwy eglwys hyn â'u gilydd. Ac wrth ystyried am yr aml erledigaethau blinion ag oedd eglwysi Asia, a gwledydd Groeg, yn gorfod ddyoddef yr amseroedd hyny, nid yw yn beth rhyfedd i amryw o'u haelodau ymgrwydro i chwilio am noddfa rhag eu herlidwyr i'r dinasoedd pellenig hyny. Ymddengys, er nad oedd yr eglwysi yn Lyons a Vienne ond ieuaingc, etto eu bod yn lluosog iawn, pan ddechreuodd yr erledigaeth gymmeryd lle arnynt. Gwedi i'r dymhestl fyned heibio ychydig, ysgrifenwyd llythyr, gan Irenæus, fel y tybir, dros yr eglwysi ag oedd yn y dinasoedd uchod, at y brodyr oedd yn Asia a Phrygia. Y mae y llythyr hwn wedi ei gadw a'i goffâu gan Eusebius yn ei hanesyddiaeth eglwysig, ac yn ol barn amryw o wyr dysgedig, yr ysgrif hynafiaethol goreu ac enwoccaf a feddir genym ydyw.†

Esgusodir ni am osod darnau o'r epistol hwn ger bron y darllenydd, y rhai a ddangosant, yn y modd egluraf, y creulonderau a ddyoddefodd y Cristionogion dan deyrnasiad Antoninus, yr hwn, fel tywysog, a deilynga glod, am rai pethau, hyd ddiwedd yr oesau: ond dengys yr hyn a ganlyn ei fod ef yn un o erlidwyr creulonaf cyfeillion Iesu Grist. Dechreua yr epistol yn y modd syml hyn:—"Gwasanaethwyr Iesu Grist, ag sy'n ymdaith yn Vienne a Lyons, yn Ffraingc, at y brodyr yn Asia Briodol, a Phrygia, pa rai sydd â chanddynt yr un ffydd a gobaith o brynedigaeth â ni ein hunain; gras a heddwch, a gwir ogoniant, a amlhaer i chwi oddi wrth Dduw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist." Yna yr amlygant mor analluog oeddynt hwy eu hunain i osod allan fawredd y blinderau a'r dyoddefiadau yr oedd y saint, yn y dinasoedd hyny, yn gorfod myned trwyddynt; neu y fath lid a digasedd annherfynol a ddangosai y Paganiaid tu ag at y Cristionogion—"Gwaherddir ni ganddynt i ymddangos mewn neb tai, ond yr eiddom ein hunain—yn neb o'r ymolchfeydd, y farchnadfa, nac un lle cyhoeddus arall. Yr ymosodiad cyntaf a ddaeth oddi wrth y bobl yn gyffredin yn ddisymmwth, trwy waeddi â llef uchel, ergydio, darnio ein cyrph, yspeilio ein meddiannau, taflu cerrig attom, gyda phob dirmyg a allesid ddisgwyl oddi wrth ddynion wedi ymderfysgu ac ymgynddeiriogi—y pethau hyn oll a ddyoddefwyd genym gyda mawrfrydigrwydd. Amryw o'r brodyr a ddyg-

* Milner's Church Hist. vol. i. p. 223. † Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 222.

wyd, yn ol gorchymyn swyddwyr y ddinas, ger bron y brawdlys, a holwyd hwy yn gyhoeddus o flaen y lluaws, ai Cristionogion oeddynt? pan, ar yr addefiad o hyn, eu bwriwyd yn ngarchar, ac y cauwyd arnynt, hyd ddyfodiad y llywydd. Gwedi dyfodiad hwn i'r llýs, dygwyd hwy ger bron, pan yr ymddygwyd tu ag attynt, ganddo ef, ac eraill ag oedd yn bresennol, yn y modd creulonaf. Y brawd Vettius Epigathus, oedd wr ieuangc llawn o gariad at Dduw a dynion, o ymddygiadau tra rhagorol, ac yn ddyn diflin mewn gwneuthur daioni, wrth weled y fath drais yn cael ei wneuthur ar gyfiawnder, a ofynodd mewn modd eofn am gael gwrandawiad drostynt, ac a ymwystlodd y profai i eglurdeb nad oeddynt yn euog o ddidduwiaeth, nac o unrhyw ddrwg-ymarferiad arall. Er ei fod ef yn wr o urddas, ac er cymmaint uniawnder ei ofyniad, etto nid attebodd un dyben, ond cynhyrfu dadwrdd y werinos, a llid eu grthwynebwyr. Y llywydd anfoddog a ofynodd iddo, a oedd yntau yn Gristion? yr hyn ni wadodd, eithr addefodd yn eofn ei fod; yna gorchymynodd i'w ddïenyddio yn ddioed. Amryw eraill, wrth weled ei sêl a'i hyfdra ef, a ddilynasant ei siampl, trwy addef yn gyhoeddus eu bod yn Gristionogion, ac a ddyoddefasant y triniaethau creulonaf, yn y modd mwyaf tawel. Ond deg o'r cyfeillion a fu unwaith yn proffesu Crist, a dynasant yn ol, ac a wadasant eu crefydd, yn wyneb y blinderau hyn; sefyllfa pa rai a lanwodd ein meddyliau â thristwch dirfawr. Ymddengys fod hyn wedi peri digalondid ac arswyd cyffredin trwy yr eglwysi, nid am eu bod yn ofni y dyoddefiadau, â pha rai eu bygythid yn wastadol, 'ond,' meddant, 'wrth edrych yn mlaen, yr ydym yn ofni gwrthgilio yn wyneb yr amgylchiad.'

"Y celwyddau mwyaf gwaradwyddus a fedrid eu dyfeisio, a adroddid am danynt, sef, eu bod yn lladd eu babanod, yn ymborthi ar gnawd dynion, ac yn gwneuthur llawer o weithredoedd annaturiol eraill cyffelyb, pa rai, meddent, ni oddefai gweddeidd-dra iddynt eu hadrodd, na meddylied am danynt, a'r cyfryw ag nad oedd weddus credu am neb o ddynolryw eu bod yn euog o honynt. Trwy y pethau hyn, cynhyrfwyd y werinos i wallgofrwydd yn eu herbyn, fel yr oedd holl gylymau naturiaeth, perthynasau, a chyfeillgarwch, wedi eu hollol anghofio a'u dileu. Y pryd hwn, dywedir, cyflawnwyd geiriau ein Harglwydd yn berffaith,—'Y mae yr awr yn dyfod,' medd ef, 'y tybia pwy bynag a'ch lladdo, ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw.' Fel yr oedd dyoddefiadau y merthyron hyn uchlaw darluniad, felly yr oedd eu cynnaliaeth yn wyneb hyny uchlaw amgyffred. Disgynodd llid y llywydd, y milwyr, a'r lluaws, mewn modd neillduol, ar Sanctus y dïacon, o eglwys Vienne—ar Maturus, un a ddychwelasid yn ddiweddar, ac ymdrechwr mawrfrydig mewn pethau ysbrydol—ar Attalus o Pergamus, gwr a fuasai yn golofn hardd a chadarn yn yr eglwys ag oedd yma—ac ar Blandina, pendefiges, yr hon a ddyoddefodd y triniaethau mwyaf barbaraidd o fore hyd hwyr, gydag amcan cael ganddi ddywedyd rhywbeth a fradychai ei chyfeillion, ac amlygu rhyw ddrwg er eu gwaradwyddo. Ond yr oedd ei gwaith yn adrodd yn barhaus,—*Cristion ydwyf, ni chyflawnir drygau yn ein plith*, yn rhoddi cynnaliaeth ac adfywiad eglur iddi, ac yn peri iddi anghofio ei phoenau. Hefyd arferwyd y driniaeth waethaf, a'r sarhad mwyaf a allesid ddychymmygu, tu ag at Sanctus y dïacon, er gweled a allasent gael ganddo ddywedyd rhywbeth a achlysurai waradwydd i'r efengyl. Ond yn wyneb y pethau hyn oll, derbyniodd gynnaliaeth uwchlaw a oedd ddynol. Er fod ei boe[illegible]au yn angherddol, etto, gyda'r fath

ddiysgogrwydd meddwl y dyoddefodd, fel yr attebai, yn wyneb pob gofyniad a roid iddo gan ei boenydwyr,—*Cristion ydwyf*. Poenodd a chynhyrfodd hyn ei ddienyddwyr gymmaint, fel y rhoisant ddarnau o haiarn gwynias wrth ranau tyneraf ei gorph, nes oedd mor glwyfedig, fel mai braidd yr ymddangosai ei gorph yn debyg i eiddo dyn. Gwedi ei adael fel hyn i aros yn y carchar am rai dyddiau, meddyliai y rhai a ymhyfrydent yn ei boeni, i'w ddwyn allan drachefn, er ei wneuthur yn deimladwy o ddyoddefiadau adnewyddol. Eithr bu adnewyddiad o'r pethau hyny pan oedd ei holl gorph wedi chwyddo drosto, ac yn foddion effeithiol i'w adferu i'w lun cyssefin, ac i adfeddiannu grym ei aelodau.

"Babilas, benyw a wrthgiliasai unwaith oddiwrth ei phroffes, ar ddechreuad yr erledigaeth, a edrychwyd arni fel un addas i'w chymmeryd mewn llaw, i geisio ganddi ddywedyd yr hyn a gyhuddai y Cristionogion o ryw ddrygau. I'r perwyl hwn, gosodasant y creadur gwanllyd a gwammal yma ar yr arteithfa. Y peth y cymhellid hi i'w ddywedyd oedd, eu bod yn lladd babanod, ac yn eu bwytta. Yn ei phoenydfa, hi a ddeffrôdd o'i chwsg, ac a ymadfywiodd; ac mewn attebiad i'r hyn a ofynid iddi, dywedodd,—'Pa fodd y meddyliwch ein bod yn lladd plant, ac yn ymborthi arnynt, pa nad yw yn gyfreithlon i ni fwytta gwaed anifeiliaid?' Adnewyddodd ei gwroldeb, ac addefodd ei hun yn Gristion yn y fan, a chwanegwyd hi at y llu merthyron.

"Y dengwr hyny a droisant yn ol oddi wrth eu crefydd yn nechreuad yr erledigaeth, trwy wadu nad oeddynt yn Gristionogion, ni chredid gan y llywydd, a gwrthodwyd iddynt y lleshad amcanedig trwy eu gwrthgiliad. Dirmygwyd hwy yn fawr o herwydd eu llwfrdra, ac a arweiniwyd ymaith gyda'r lleill i'r lle dyoddef, nid fel Cristionogion, ond fel llofruddion; o blegid ddywedyd o rai o honynt, er boddhau yr erlidwyr, eu bod wedi bwytta cnawd dynion. Pan yn cael eu dwyn yno, yr oedd arwyddion eglur i bawb o'r edrychwyr i'w gweled yn eu hwynebau, o ofid, llwfrdra, a theimladau o euogrwydd a chywilydd yn gorchuddio eu meddyliau; tra yr oedd meddyliau y Cristionogion a ymlynasant wrth eu crefydd, yn llawn gwroldeb, siriol deb, a heddwch gorfoleddus. Y gwahaniaeth hwn a wybuwyd gan bawb o'r edrychwyr. Yn ol hyn, ni thynodd neb o'r Cristionogion a ddaliwyd, mewn un modd, yn eu hol; eithr parhausant hyd y diwedd.

"Y lluaws a derfysgasant, ac a waeddasant am gael y Cristionogion i'w taflu i'r bwystfilod gwylltion yn y chwareudy, i'w difyru. Er eu boddhau yn hyn, dygwyd allan Maturus, Sanctus, a Blandina, i'r dybenion hyny. A chyn dwyn y bwystfilod arnynt, Maturus a Sanctus a osodwyd ar yr arteithfa drachefn, fel pe buasent heb fod o'r blaen; a dangoswyd pob traha a dirmyg, a allasai creulondeb a gwallgofrwydd y lluaws ddychymmygu, tu ag attynt. O'r diwedd, rhoddwyd hwy i rostio ar dân, mewn cadair haiarn, nes llenwi y lle â'r arogl mwyaf annymunol oddi wrth y cnawd llosgedig! Ond ni wnaeth y cyfan unrhyw effaith arnynt, rhagor na'u dwyn i gyfaddef yn barhaus mai Cristionogion oeddynt, a rhoi terfyn ar eu hoes drafferthus a'u poenau dirfawr. Blandina a ddygwyd i'r canol, a rhwymwyd hi wrth bawl; gollyngwyd y bwystfilod yn rhyddion i ruthro arni. Hyn oll a wynebodd gyda'r sirioldeb mwyaf; a thrwy ei chynghorion a'i gweddiau, annogai bawb i ffyddlondeb a gwrolder, i ddyoddef yn llawen pa beth bynag a ddeuai i'w cyfarfod, yn achos Iesu Grist. Ond er syndod i bawb, ni chyffyrddai y bwystfilod â hi; gan hyny gorchymynwyd ei dwyn yn ol i'r carchar dra-

chefn. Gwaeddwyd am i Attalus gael ei ddwyn allan i'r chwareudy; yr hwn, wedi ei ddwyn, a arweiniwyd o amgylch, âg ystyllen yn rhwym wrtho, ac yn ysgrifenedig arni, HWN YDYW ATTALUS Y CRISTION. Ond am mai Rhufeinwr oedd, gorchymynwyd ei ddwyn yn ol i'r carchar, hyd oni chaid gwybod yn mhellach pa beth oedd ewyllys yr amherawdwr, gyda golwg arno ef, ac eraill yn yr un sefyllfa. Attebiad yr amherawdwr oedd, fod pob un a addefai ac a broffesai ei hun yn Gristion, i ddyoddef marwolaeth, yn ol ewyllys y llywydd; a bod i bob un a wadai, gael ei ryddhau.

"Gwedi hyn, galwyd cymmanfa gyffredinol; casglwyd lluaws mawr o bob graddau, oedran, a sefyllfa, o bobl yn nghyd, i glywed a gweled ewyllys yr amherawdwr yn cael ei gyflawni. Dygwyd arddelwyr y gwirionedd ger eu bronau; a phob un a gafwyd yn Rhufeinwr a dorwyd ei ben; ond y lleill oll a daflwyd i'r bwystfilod gwylltion. Eithr er mawr syndod, y cyfryw a wadent unwaith eu crefydd, a ddygwyd allan i dderbyn eu rhyddid; yn lle hyny, galwasant yn ol eu gwrthgiliad, addefasant eu hunain yn Gristionogion, a dyoddefasant ferthyrdod gyda'u brodyr. Yr oedd un Alexander o Phrygia, yn cael ei gyhuddo o fod yn offerynol i ddychwelyd y rhai hyn. Gwedi i'r lluaws wybod hyny, gwaeddasant am gael Alexander yno i'w fwrw i'r bwystfilod. Dygwyd ef yn ddiattreg i'r chwareudy, a gosodwyd ef ger brod y lluaws. Addefodd ei fod yn Gristion yn eu gwydd oll. Ac yr oedd yn bresennol gydag ef Attalus, yr hwn a fynai y bobl ei gael yno drachefn. Yn flaenorol i'w rhoddiad i'r bwystfilod i'w llarpio, gorfu arnynt fyned trwy amryw fath o ddyoddefiadau poenus, er difyrru y werinos ynfyd. Yn wyneb y pethau hyn oll, ni ddywedodd Alexander nemawr; eithr dangosodd y diysgogrwydd, y gwroldeb, a'r tawelwch mwyaf. Attalus yntau, pan wedi ei osod i eistedd mewn cadair haiarn, wedi ei gwneuthur yn wynias, a ddywedodd,—'Fel hyn yr ydych chwi yn arfer difa dynion; ond nid ydym ni yn lladd nac yn difa neb, nac yn dilyn unrhyw ddrwg-arferion o'r fath.'

"Ar y dydd diweddaf o'r gymmanfa, Blandina a ddygwyd allan drachefn, gyda dyn ieuangc o'r enw Ponticus, yr hwn nid oedd uwchlaw pymtheg mlwydd oed, pa un a ddygent allan yn feunyddiol er ceisio ei ddigaloni, wrth weled gerwindeb triniaethau eraill. Annogwyd y gwr ieuangc trwy bob moddion, i gydnabod y duwiau Paganaidd, a'u haddoli; ond am na wnai, nid oedd yno un drugaredd, tosturi, na chyfiawnder i'w ddisgwyl. Gwnaethant iddo fyned trwy amryw ddull o boenydiau, fel y bu farw, ac y dihangodd o afael eu creulondeb. A chwedi iddynt fflangellu Blandina, a'i rhoddi i eistedd yn y gadair losgedig, rhoddwyd hi mewn rhwyd o flaen tarw gwyllt; hwn, yn ei ffyrnigrwydd, a'i taflodd o amgylch ogylch dros amser: etto, nid oedd hi wedi ei chwbl orphen. Yna gwânwyd hi drwodd â'r cleddyf! Yr edrychwyr oll oedd yn gorfod cydnabod, na welsent neb yn dyoddef y cyfryw boenau gyda'r fath sirioldeb a thawelwch meddwl. Pan oedd yr olygfa erchyll hon wedi myned drosodd, y lluaws a lanwyd â math o gynddaredd bwystfilaidd, fel yr anmharchent gyrph meirwon y saint. Y rhai hyny a fygwyd ac a laddwyd yn y carcharau, a fwriwyd allan i'r cŵn i'w bwyta, ac a wylid yn ddyfal rhag i neb o'u cyfeillion i'w cymmeryd ymaith i'w claddu. Yr un modd y gwnaed â chyrph y rhai a dorwyd eu penau, ac a laddwyd yn mhob modd, oddi eithr y cyfryw a ddifawyd gan y bwystfilod. Gwaradwyddent hwy hyd yn nod yn y sefyllfa honno, gan ddywedyd, gydag eithaf dirmyg,—'Ple y mae eich Duw chwi yn awr, pa leshad a wnaeth eich crefydd i chwi? Eu cyrph drylliedig a orweddent

ar wyneb y maes yn ddrych i'r byd am chwe diwrnod. Gwedi hyn llosgwyd hwy, a chasglwyd eu lludw, a thaflwyd ef i'r afon, er eu siomi, meddant, o adgyfodiad, yr hyn a fawr ddisgwyliant am dano."

Wrth yr hyn a wnaed yn y wlad hon, gellir casglu yn naturiol, medd Eusebius, am y dinystr anfad a wnaed trwy yr holl amherodraeth dan lywyddiaeth y *clodfawr* Aurelius.* Y carcharau a lanwyd gan y lluaws Cristionogion a fwrid ynddynt; gosodid hwy yn y celloedd mwyaf tywyll a ffiaidd; niferi mawr a fuont feirw yn y cyfryw leoedd, yn hollol ddiymgeledd. Pothinus, henuriad oedranus yr eglwys ag oedd yn Lyons, yr hwn oedd dros bedwar ugain a deg oed, a ddygwyd ger bron y llŷs. Er fod ei gorph, o herwydd llafur, oedran, ac afiechyd mawr, yn ymddangos yn wael a gwanaidd iawn, etto meddai ar enaid addas, trwy ba un yr ymddangosai yr Arglwydd yn fuddugoliaethus. Gwedi i'r llywydd, y lluaws, a'r milwyr, ei anmharchu yn y modd gwaethaf, gan ei daflu oddi amgylch o'r naill i'r llall, fel nad oedd henaint na phenllwydni yn arbedol, dwbiasant ef, trwy daflu arno gerrig, a phob math o bethau nesaf at eu llaw, fel yr edrychid ar bob un na wnai ryw beth er ei ddirmygu, yn ddiffygiol iawn mewn sêl. Gwedi ei daflu i garchar, bu farw yn mhen deuddydd.†

Hyn, o lawer o'r creulonderau a adroddir am danynt yn y llythyr cyfeiriedig atto, sydd ddigonol i roddi amlygiad boddlongar i bob darllenydd o annigonolrwydd rheswm ynddo ei hun, a doethineb y byd hwn, i arwain a thywys dynion i iawn ymagweddu, pan yr ystyrir fod y fath gieidd-dra erchyll à hyn wedi cael ei ddwyn yn mlaen mewn gwybyddiaeth, ac yn ol archiad Marcus Antoninus, yr amherawdwr philosophyddol. A diau fod y cyfryw ymddygiadau yn frychau annilëadwy ar goffadwriaeth y tywysog trwy orchymyn pa un y cyflawnwyd hwynt; ac felly yn fwy anesgusodol wrth ystyried yr hyn a ganlyn:—Dywedwyd yn barod am yr amddiffyniad o Gristionogaeth, a'r gwrthddangosiad a wnaeth Justin Ferthyr i'r camgyhuddiadau a osodid yn erbyn dilynwyr Iesu Grist gan Celsus, ac eraill o'u gwrthwynebwyr, galwn yn awr sylw ein darllenwyr at un arall, a wnaed gan Melito, tua'r flwyddyn 170 o'r cyfrifiad cyffredin; ac a gyflwynodd i'r amherawdwr. Melito oedd weinidog enwog, duwiol, a pharchus, yn yr eglwys ag oedd yn Sardis yr amser hwnw. Bernir fod ei ysgrifau yn amrywiol, eithr nid oes ond darnau o'i amddiffyniad wedi eu cadw, heb fyned ar goll yn chwyldröad yr amseroedd, yn hanesyddiaeth Eusebius. Yn hwn, ymdrecha ddangos i'r amherawdwr, pa mor annatturiol oedd fod dynion rhinweddol yn gorfod dyoddef eu hyspeilio, eu herlid, eu haflonyddu, a'u defeddiannu o'u bywydau, trwy holl Asia, a hyny trwy ei osodiad amherodrol ef; pan oedd y dynion gwaethaf, llawn o bob nwydau drwg, yn awyddu am feddiannau pobl eraill, yn cymmeryd achlysur oddi wrth ei gyfreithiau ef, i droi yn gyhuddwyr yn erbyn y Cristionogion, er mwyn cael cyfleusdra i'w hyspeilio o'u meddiannau. Ac erfynia yn y modd gostyngeiddiaf ar yr amherawdwr i chwilio i mewn i deilyngdod y cyhuddiadau a roddid yn erbyn y Cristionogion, a pheidio goddef iddynt gael eu trin gyda'r fath greulondeb ac anghyfiawnder, heb eu profi yn euog o ryw fai. Deisyfa hefyd arno adalw ei gyfreithiau cospawl a osodasid allan yn eu herbyn, ac attal yr erledigaeth, fel y gwnaeth ei ragflaenoriaid. Dengys iddo fod lledaniad Cristionogaeth mor bell o fod yn drygu yr amherodraeth Rufein-

* Eusebius's Hist. vol. vi. c. i. † Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 230.

aidd, fel yr oedd ni yn hawer helaethach a chadarnach wedi helaethiad hon, nag y buasai erioed o'r blaen.

Tua'r un amser ysgrifenodd Athengoras ei amddiffyniad rhagorol i'r grefydd Gristionogol, ac a'i gosododd ger bron yr amherawdwr. Philosophydd o Athen oedd Athengoras, ac yn ddyn o ddysg mawr. Bwriadai unwaith ysgrifenu llyfr yn erbyn Cristionogaeth; ac i'r dyben o gymmwyso ei hun i hyny, ymroddodd i chwilio yr ysgrythyrau; a phan wrth y gwaith hwn, llwyr argyhoeddwyd ef o'u rhagoroldeb a'u dwyfoldeb, fel y daeth, yn lle bod eu gwrthwynebwr, yn amddiffynwr gwresog iddynt. Yn ei ysgrif amddiffynol, ymdrecha osod allan yr afresymoldeb o fod y llywodraeth Rufeinaidd yn caniattau pob math o addoliadau crefyddol i'r holl wahanol dduwiau gael eu cyflawni yn ddiwaharddiad, yn ol ewyllysiau yr addolwyr, ond Cristionogion yn unig; addoliad crefyddol pa rai sydd bur, syml, a theilwng o Dduwdod. Nid yn unig nacceid iddynt hwy gyflawni yr addoliad hwn, eithr hefyd yr oeddynt yn gorfod dyoddef y dirmyg, y drygau, a'r erledigaethau creulonaf. Yna gwrthbrofa y cyhuddiadau maleisus a osodid yn eu herbyn gan eu gelynion; sef, eu bod yn annuwiaid, yn lladd ac yn bwytta cnawd eu cyd-greaduriaid, &c. Er dangos mor ddisail oedd y cyfryw ddywediadau, cyfeiria yr amherawdwr at yr athrawiaethau a gyhoeddent, a'r bucheddau a arweinient. A gofyna iddo,—"Pa ham yr ydych yn tramgwyddo ac yn ymddigio wrth ein henw yn unig?" Yna dywed,—"Nid yw fod un yn dwyn unrhyw enw yn deilwng o lid neb; gweithredoedd drygionus a haeddant gospedigaeth. Os ydym ni yn euog o unrhyw fai, i raddau mwy neu lai, cosper ni yn ddiarbed, ond na chosper ni yn unig am ddwyn enw Cristionogion; canys ni ddichon i un Cristion fod yn ddyn drwg, heb ymddwyn yn hollol groes i'w broffes. Cyhuddir ni o fod yn esgeuluso addoli ac arogldarthu i neb o dduwiau eich dinasoedd chwi. Gwybydd hyn, O amherawdwr! nad oes ar Wneuthurwr a Phen-llywydd mawr y bydoedd oll eisiau gwaed, ac nad yw yn sefyll mewn angen am beraroglau; canys efe a ymhyfryda ynddo ei hun; ac nid oes arno eisiau dim, ond cydnabyddiaeth resymol a chymmeradwy gan ei greaduriaid." Yna erfynia am i'r amherawdwr chwilio i mewn i'w bucheddau, eu hymarferiadau, eu barnau, eu hufudd-dod i'r llywodraeth, a'u gofal am ei berson ef a'i deyrnas. "Caniattewch i ni," medd ef, "gael yn unig yr un uniondeb a chyfiawnder cyffredin ag a ganiatteir i'n gelynion, ychwaneg nid oes arnom eisiau; yr ydym yn sicr o fuddugoliaeth, ac yr ydym yn barod i roddi i lawr ein bywydau dros y gwirionedd. "Y mae," medd ef, "y gweithwyr wrth eu diwrnod gwaith, a'r hen wrageddos tlodion yn ein plith ni, er na fedrant, hwyrach, ddadlu llawer dros eu crefydd, etto yn medru dangos, i eglurdeb, ei defnyddioldeb yn eu hymddygiadau, a thrwy eu gweithredoedd da. Gwir, nad ydynt yn alluog i bwyso geiriau, a chwilio yn fanylaidd i'w hystyr, na gwneuthur areithiau hyawdl; etto, gallant amlygu cyfiawnder ac onestrwydd yn eu holl ymddygiadau. Pan eu cernodir, ni tharawant drachefn; a phan eu hyspeilir nid ymgyfreithiant. Maent yn haelionus yn rhoddi i'r rhai fyddo mewn angen; yn dysgu caru eu cymmydogion fel hwy eu hunain. Y pethau hyn oll (medd ef) a weithredir genym; o blegid ein bod yn credu fod Duw ag sydd yn llywodraethu y byd a'i holl achosion, yr hwn a'n gwnaeth ni a phawb oll, o flaen pa un yr ydym i roddi cyfrif o'n holl ymddygiadau a'n gweithredoedd."*

* Jones's Hist. of the Christian Church, vol. i. p. 213.

Ysgrifenodd Athengoras lyfr arall ar yr athrawiaeth o adgyfodiad y meirw. Ei waith sydd ar gael, a chwedi ei argraffu amryw weithiau. Ymddengys, trwy ei ysgrifau, ei fod yn ddyn o feddwl mawr, o ddysgeidiaeth a gwybodaeth helaeth, ac ystyried yr amseroedd yr oedd yn byw ynddynt; yn Gristion bywiog, gwresog, a ffyddlon. Yn yr ysgrifau a nodwyd, amlygir, nid yn unig y driniaeth a gai y Cristionogion cyntefig, ond hefyd beth oeddynt hwy eu hunain, o ran eu cymmeriad. Onid oes lle i ofni, na ellir rhoddi hèr i elynion crefydd i edrych i mewn i fywyd ac ymddygiadau proffeswyr yr oes hon, fel ag yr oedd Athengoras yn gwneuthur y pryd hwnw?

Mae gwahanol feddyliau gan haneswyr mewn perthynas i'r waredigaeth hynod a ddywedir i Marcus Antoninus a'i holl fyddin ei chael yn ei ryfel yn erbyn y Marcomanniaid, a'i ymddygiad tu ag at y Cristionogion mewn canlyniad i hyny. Cyduna haneswyr Paganaidd a Christionogaidd i ddywedyd fod yr amherawdwr mewn dirfawr gyfyngder pan yn ymlid ei elynion, rhwng mynyddau, mewn gwlad ddyeithr; wedi cael ei amgau gan ei elynion, pan oedd efe a'i holl lengi milwraidd, wedi gwanhau gan syched, fel na allent ryfela 'chwaneg â'u gwrthwynebwyr, pa rai oedd yn barod i syrthio arnynt oll i'w dyfetha; pryd y daeth tymhestl fawr o wlaw a tharanau, fel y darfu i'r amherawdwr a'i fyddin gael eu disychedu a'u hadfywio, ac i'r taranau ddychrynu a dinystrio eu gelynion, nes y cawsant fuddugoliaeth gyflawn. Ac os oedd Cristionogion yn y fyddin (yr hyn sydd amhëus) y mae yn naturiol i feddwl eu bod yn gweddio, yn wyneb y fath amgylchiad, drostynt eu hunain, a thros leshad y wladwriaeth, yn ol eu harfer. Felly, nid annaturiol oedd iddynt feddwl fod y waredigaeth wedi cymmeryd lle mewn attebiad i'w gweddiau. Ond y mae yn eglur nad oedd yr amherawdwr, y llywodraethwyr, na'r fyddin yn gyffredin, yn credu y fath beth; canys y mae y cof-golofnau o farmor a godwyd, a'r cof-ddryllliau bathedig a wnaed, trwy y gorchymyn amherodrol, er coffadwriaeth am hyn, yn amlygu eu bod hwy yn priodoli y waredigaeth yn hollol i raglunaeth Jupiter, trwy gyfryngdod Mercury. Na alwyd yn ol ychwaith y deddfau llymdost, ac na leihawyd dyoddefiadau y Cristionogion, ar yr achos hwn, sydd yn eglur wrth yr hyn a adroddwyd yn yr hanes blaenorol. Ond diau fod Marcus Antoninus, trwy ei holl deyrnasiad yn dirmygu y Cristionogion, fel philosophydd; ac yn eu herlid a'u cospi, fel amherawdwr.†

Ond er fod Antoninus yn elyn gormesol i'r Cristionogion trwy ei oes—a hyny oddi ar yr un egwyddor â Trajan, sef eu bod yn ystyried y dylasai y Cristionogion gydgymmysgu â'r Paganiaid yn eu haddoliad, ac am na wnaent hyny, golygent fod ganddynt hawl i'w cospi fel rhai cyndyn ac anufudd—etto nid oedd yn amddifad o synwyr a dynoliaeth. Yn mhlith amryw o bethau a wnaeth ac a ddywedodd, ymddengys ei eiriau diweddaf, gyda golwg ar ei fab, wrth ei brif swyddwyr, yn deilwng o'n sylw. Pan ar ei drydedd hynt filwraidd yn Vienna, prif-ddinas Austria, tarawyd ef gan glefyd marwol. Mewn gofal dwys am lwyddiant a dedwyddwch ei ddeiliaid, a daioni ei fab ar ol ei ymadawiad, efe a annerchodd y cyfeillion a'r prif swyddwyr, a amgylchent ei wely,* ar ran Commodus ei fab, yr hwn oedd i feddiannu yr orsedd ar ei ol ef. Dywedodd, "ei fod yn awr yn colli ei dad; ond gobeithiai er hyny y cai ei fab dadau lawer ynddynt hwy, gan y byddai iddynt hwy ei gyfarwyddo a'i ddysgu yn nyddiau ei ieuengctyd, yn y fath

† Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. i. p. 329.

fodd ag y bo iddo fod yn lleshad i'r cyffredin, yn gystal âg iddo ei hun. Ymdrechwch ei wneud yn deimladwy," medd yr amherawdwr trengedig, "nad yw holl gyfoeth ac anrhydedd y byd hwn i gyd yn ddigonol i ddiwallu a boddloni anwydau ac afradlonrwydd yr amherawdwr; na'r amddiffynfeydd cadarnaf, a'r byddinoedd lluosoccaf, a'r mwyaf medrus, yn alluog i ddiogelu y cyfryw rhag cyflog uniawn ymddygiadau drygionus. Sicrhewch iddo, nad yw tywysogion creulawn byth yn meddiannu eu gorseddfäau yn hir a heddychol, a bod pob gwir a hyfrydol allu bob amser yn cael ei gadw i'r rhai hyny yn unig ag sydd, trwy addfwynder, tiriondeb, a chyfiawnder, yn ennill calonau eu deiliaid. Y mae yn rhaid i chwi ei gymmeryd yn orchwyl i ddywedyd wrtho, nad yw ufudd-dod, trwy orfod, byth yn un gwirioneddol; a bod yn rhaid iddo ef, os disgwylia am ffyddlondeb oddi wrth ddynolryw, ei gael trwy eu serchiadau, ac nid trwy eu hofnau. A chan nad oes derfynau i'w allu, gosodwch o'i flaen, yn y modd dwysaf, y dylai, o angenrheidrwydd, osod terfynau cymmedrol i'w chwantau, trwy osod y gwirioneddau hyn o'i flaen; ac iddo yntau sylwi yn ddifrifol arnynt, a'u harfer. Felly cewch chwi y boddlonrwydd o gael tywysog da i'ch llywodraethu, a gwnewch i'm coffadwriaeth innau y gwasanaeth godidoccaf, gan ei anfarwoli trwy hyny." Tra yr adroddai yr amherawdwr Aurelius Antoninus y geiriau hyn, collodd ei leferydd, a threngodd yn mhen ychydig amser, yn y driugeinfed flwyddyn ond un o'i oedran, gwedi teyrnasu ychydig ddyddiau yn hwy na phedair blynedd ar bymtheg.

Ymddangosai holl amherodraeth Rhufain, o ran ei gogoniant a'i llwyddiant, fel pe buasai gwedi marw yn marwolaeth Aurelius: canys o hyny allan gwelwn restr o amherawdwyr creulawn a drygionus, neu rai gwanaidd, rhy analluog i amddiffyn a chynnal i fynu anrhydedd yr orsedd, yn teyrnasu. Yr amherodraeth a ymchwyddasai i gymmaint maintioli, sydd yn awr i'w gweled yn syrthio yn ddarnau gan ei phwysau ei hun, ac yn ddrylliedig yn ei therfynau gan ei gelynion barbaraidd a llwyddiannus, y rhai oedd yn ei hamgylchu; gwanychai yn barhaus ynddi ei hunan, trwy ymraniadau creulawn uchel-geiswyr. Egwyddorion yr amseroedd oeddynt yn hollol lygredig; fel yr oedd holl ymegniadau anianyddiaeth, i lywodraethu dynion heb grefydd a gwir wres gwladgarwch, yn mygu ymaith yn hollol ddieffaith fel ychydig anwedd mewn ehangder diderfyn. Gwelwn hefyd y bobloedd a fuasent unwaith yn ddewrion a grymus, yn awr yn ddiegni, yn analluog, yn ymroddi i loddesta a phob oferedd; ac nid i weithgarwch. Eu hysgrifenwyr a'u haneswyr, yn yr adroddiadau a wnaent am y ffeithiau mwyaf pwysig, oeddynt yn oer a hollol ddifywyd.

Rhinweddau Aurelius, ei dad, a roddodd fynediad rhwydd i Commodus i'r orsedd, yn y flwyddyn 180 o'r cyfrifiad cyffredin, pan yn nghylch pedair mlwydd ar bymtheg oed. Yr oedd efe o ran ei gorpholaeth yn hardd ac yn nerthol iawn; yn fedrus, i raddau anghredadwy, mewn ymdriniaeth â'r waywffon, y bwa a'r saethau; a dedwydd a fuasai dynolryw, pe arferasai yr un diwydrwydd i feithrin rhinweddau ei feddwl a'i foesau, âg a wnaeth i feithrin arferiadau ei gorph yn y pethau hyny.* Ei holl deyrnasiad oedd yn un bleth o anlladrwydd, ynfydrwydd, creulondeb, anghyfiawnder, ysglyfaethdra, a llygredigaeth o bob math. Yr oedd y fath debygolrwydd rhwng ei ymddygiadau ef ag eiddo Domitian, fel y gall yr

* Goldsmith's History of Rome, p. 461.

hanesydd, wrth ddarllen hanes y diweddaf, feddwl ei fod yn ail fyned dros hanes teyrnasiad y cyntaf.

Er na bu un erledigaeth gyffredinol ar yr eglwys yn nheyrnasiad Commodus, etto meddylir i amryw orfod dyoddef marwolaeth yn achos crefydd yn y naill fan a'r llall; megys Apolonius, henafgwr pendefigaidd a osodwyd i farwolaeth yn Rhufain, am na wadai Gristionogrwydd. Ní phriodolir y llonyddwch a fwynhaodd yr eglwys yn y teyrnasiad hwn, i ledneisrwydd, nac un rhinwedd arall, yn yr amherawdwr; eithr i lywodraeth Marcia, un o'ï ordderch-wragedd, arno, yr hon a ddangosai bleidgarwch neillduol i'r Cristionogion, ac a lwyddodd gyda Commodus, i gael iddynt lonyddwch tra parhaodd ei deyrnasiad. Nid oes yn yr hanes am hyn ddim ag sydd yn anghredadwy, oddi eithr fod moesau y bendefiges hon yn anghysson â hyn yma. Ond dylem gofio fod yr Arglwydd wedi anfon ymwared i'w bobl mewn ffyrdd rhyfedd, a thrwy foddion annhebyg ac annisgwyliadwy, lawer gwaith. Yr oedd Commodus, fel Domitian, yn arfer cofrestru mewn llyfr a ddygai gydag ef bob amser, enwau y rhai hyny o'ï swyddwyr a'ï gymdeithion a fwriadai i'w gosod i farwolaeth yn fuan. Ar un diwrnod, dygwyddodd y llyfr hwn ddyfod i law Marcia; ac, yn mhlith amryw ereill, gwelodd ei henw ei hun ynddo. Er rhagflaenu y canlyniadau ag oedd yn sicr o gymmeryd lle, ymdrechodd ï'w symmud ef ymaith trwy farwolaeth; hyn a wnaeth trwy gyd-weithrediad Electus, a dau ystafellydd i'r amherawdwr, ag oedd â'u henwau yn yr un llyfr.

Fel hyn y dïenyddiwyd ef yn y modd mwyaf anmharchus, yn ei dý, a chan ei deulu ei hun, wedi iddo deyrnasu yn warthus am ddeuddeg mlynedd a naw mis, a'i gelain a daflwyd allan i bydru ar y dommen. Gwedi hyn rhoddwyd yr orsedd i un Pertinax, henafgwr, o gylch wyth a thriugain oed, yr hwn a ddaethai i fynu trwy ei rinweddau, o ddechreuad gwael, i fod yn un o raglawiaid Rhufain, y pryd hwnw. Yn nechreuad ei deyrnasiad, ymddangosodd hwn fel pe buasai yn meddwl gweinyddu ei lywodraeth mewn cyfiawnder a lledneisrwydd; eithr yn fuan terfynwyd ei yrfa; gosodwyd ef i farwolaeth gan y milwyr perthynol i raglawiaeth y ddinas, yn mhen tri mis wedi iddo ddechreu teyrnasu. Y rhai hyn yn union a werthasant yr amherodraeth i un Didius, am un filiwn o bunnau o'n harian ni. Ond ni allodd hwn ei mwynhau ond dros ychydig iawn o ddyddiau. Canys y senedd Rufeïnaidd a anfonodd at Severus, blaenor y gâd Almanaidd i gynnyg iddo yr orsedd; a gorchymynwyd gosod Didius i farwolaeth.

Cyhoeddwyd Severus yn amherawdwr yn Rhufain tua'r flwyddyn 195 o'r cyfrifiad cyffredin. Yr oedd iddo y pryd hwn ddau wrthwynebydd yn ymgeisio am yr amherodraeth, sef, Niger, yn y dwyrain, yr hwn a osodasai ei hun i fynu, ac oedd wedi cael ei gydnabod yn amherawdwr gan holl Asia; ac Albinus, yn Mhrydain, a wnaethai yr un modd, a chawsai ei gydnabod felly, gan ei fyddinoedd lluosog. Eithr Severus a fu yn fuddugoliaethus arnynt eill dau, ac a feddiannodd yr orsedd am ddeunaw mlynedd. Yr oedd Severus yn ddyn o dymher greulawn tu ag at ei ddeiliaid yn gyffredin, a'i hanfoddlonai; eithr yn neillduol felly tu ag at y Cristionogion. Ond gan y perthyn y rhan fwyaf o'i deyrnasiad i'r canrif nesaf, gadewir hanes eu herledigaethau hyd ein sylwadau ar yr amseroedd hyny.

PENNOD X.

Lle y dangosir Llwyddiant Crefydd, ac Amlhad yr Eglwysi mewn gwahanol wledydd, yn enwedig yn Mhrydain—Egwyddorion, Trefn, ac Ymarferiadau yr Eglwysi, fel eu gwelir yn ngwaith Ignatius, Polycarpus, Justin Ferthyr, &c.—y Dull a'r Lleoedd yr addolent ynddynt—y Cydnabyddiaeth a wnaid o'r Ysgrythyrau yn yr Ail Ganrif.

Er maint y gwrthwynebiadau a gyfarfu Cristionogaeth â hwynt, a'r anfri a ymegniai ei gelynion i daflu arni, ac er a ddyoddefodd ei phleidwyr yn y canrif hwn, etto ymddengys iddi lwyddo yn fawr yn ehangiad ei therfynau ac amlhad ei deiliaid, yn y naill barth a'r llall o'r ddaear. Gwelsom yn barod yn llythyr Pliny, ac ysgrifau eraill, fod y Cristionogion yn dra lluosog yn Asia, a gwledydd y dwyrain, yr amser hwnw; a chyd-ddywed hanesion eraill, nad oedd braidd wlad na goror trwy yr holl ddwyrain, a'r nid oedd Iesu Grist yn cael ei gydnabod, cyn diwedd yr ail ganrif. Ac yn y gorllewin, dywedir fod llawer o drigolion yr Almaen (*Germany*) wedi derbyn yr efengyl tua'r amser hwn, a'r Hispaeniaid, yn nghyd â'r Galiaid, sef y Ffrangcod, fel y gwelsom, mewn rhan, yn y llythyr a goffâwyd yn barod oddi wrth yr eglwys yn Lyons. Trwy yr erledigaeth a godwyd yn erbyn yr eglwysi yn Lyons a Vienne, ar yr hwn y sylwasom o'r blaen, dywedir i'r ffyddloniaid gael eu gwasgaru trwy barthau eraill o'r wlad, ac iddynt trwy hyny—yn ol eu harfer yn gyffredin—fod yn foddion i helaethu crefydd, ac i osod i fynu Gristionogaeth, a phlannu eglwysi mewn gwahanol fanau.

Pantænus, anianydd enwog a aned yn Sicily, yr hwn fu yn blaenori, os nad oedd yn sylfaenydd, yr athrofa fawr yn Alexandria, yn yr Aipht, er addysgu gwyr ieuaingc yn mhlith y Cristionogion mewn celfyddydau defnyddiol—ar yr hon y cawn etto achos i sylwi—a fu yn foddion i daenu yr efengyl yn y canrif hwn, trwy barthau o Arabia, Asia, ac Ethiopia. Mewn rhyw fan yn y lle diweddaf, dywedir iddo gael yr efengyl yn ol Mathew, yn yr iaith Hebraeg, wedi ei dwyn yno gan yr efengylwr ei hun.

Dywedir fod adfywiad neillduol wedi cymmeryd lle ar grefydd yn Mhrydain cyn diwedd y canrif hwn; pan y darfu i'r Arglwydd, o'i anfeidrol ddaioni, gofio am ein hynafiaid, trwy dueddu Lles ab Coel, yr hwn a elwir weithiau Lleurwg Fawr, ac yn ol ei enw Rhufeinig, Lucius, brenin Siluria, i fod yn noddwr i grefydd Crist yn Nghymru. Yr oedd Lleurwg yn hanu o Brân Fendigaid, yr hwn a fu yn foddion i ddwyn yr efengyl gyntaf i'r ynys hon. Yr oedd yn frenin, mewn enw, ar Frydain oll; eithr ymddengys nad oedd mewn llywodraeth, ond ar y rhan honno o honi a elwir Siluria. Ei brif ddinas oedd Caerlleon-ar-Wysg. Mae yn bur amlwg fod Cristionogaeth yn isel iawn yn mhlith ein hynafiaid y pryd hwnw; a'r Derwyddon yn dra llidiog yn ei herbyn, ac yn gorthrymu yr chydig a'i pleidiai.

Danfonodd Lleurwg ddau o'i gyfeilion, a elwid Elfan a Medwy, i Rufain, at Eleutherius, esgob yr eglwys oedd yno, er gosod achos ei gydwladwyr ger ei fron, ac i ddeisyf arno anfon drosodd gynnorthwy o ddynion deallus, er ei hyfforddi ef a hwythau yn egwyddorion y grefydd Gristionogol. Gyda theimlad diolchgar i'r Arglwydd am fod y fath dywysog â Lleurwg yn cael ei dueddu i fynwesu y grefydd Gristionogol, efe a dderbyniodd y cennadau; a chyda'r parodrwydd mwyaf, anfonodd Dyfan a Ffagan, dau wr enwog, gyda hwy o Rufain, drosodd yma, i addysgu ein cenedl yn athrawiaethau pwysfawr yr efengyl.

Nid yw yn amlwg pa un a oedd Lleurwg yn proffesu yr efengyl cyn anfoniad y ddau gyfaill uchod i Rufain, ai nid oedd: ond beth bynag am hyny, hyn sydd wir, sef, ei fod wedi hyny yn broffeswr gwresog, a chwedi bod yn ffyddlon a defnyddiol er lledanu Cristionogaeth yn ei wlad ei hun, os nid yn y gwledydd cymmydogaethol; a llawer o'i ddeiliaid a ddilynasant ei gamrau.

Gwedi tirio o'r pedwar uchod yn ddiogel yn Mhrydain, derbyniwyd hwy yn garedig gan Lleurwg; a rhoddodd iddynt bob cynnorthwy i ddwyn yn mlaen y gwaith gogoneddus o herwydd pa un y daethent drosodd. Yn fuan wedi eu dyfodiad, adeiladodd Lleurwg eglwys Llandaf, yn swydd Forganwg, yn dŷ addoliad; a chyssegrodd y lle â llawer o ragorfreintiau. Dyma yr adeilad cyntaf a godwyd er addoli yr Arglwydd yn yr ynys hon. Sefydlodd Medwy yn Llan-Fedwy, yn swydd Forganwg; a Dyfan yn Merthyr-Dyfan; a Ffagan yn Llan-Sant-Ffagan. Buont oll yn weinidogion ffyddlon a llafurus yn eu dydd; a gwnaed hwy yn offerynau llwyddiannus i droi llawer o'n hynafiaid i'r ffydd Gristionogol, ac i helaethu achos ein Harglwydd. Elfan a aeth i'r rhan honno o'r wlad ag sydd yn awr yn meddiant y Saeson, ac a sefydlodd yn Glastonbury, yn Ngwlad yr Haf. Dyfan, wedi iddo fod dros hir amser yn cyhoeddi gwirioneddau melus yr efengyl, ac yn dysgu i'r Cymry lwybr bywyd tragywyddol, a derfynodd ei yrfa, trwy gael ei goroni ganddynt â marwolaeth ferthyrol, yn Merthyr-Dyfan.

Mae yn amlwg fod gohebiaeth wedi cael ei chynnal, fwy nag unwaith, rhwng Lleurwg ac Eleutherius; oblegid nyni a gawn fod y tywysog Brutanaidd yn anfon at esgob yr eglwys ag oedd yn Rhufain, wedi hyny, am adysgrif o gyfreithiau amherodrol y Rhufeiniaid, er ei addysgu ef pa fodd i iawn lywodraethu ei ddeiliaid Brutanaidd. I'r gofyniad hwn, ni a gawn yr attebiad canlynol, a anfonwyd gan Eleutherius iddo:—"Chwi a ddeisyfasoch arnom anfon i chwi adysgrif o gyfreithiau amherodrol Rhufain, gyda bwriad i'w gwneuthur yn rheolau cyfiawnder yn y llywodraeth Frutanaidd. Gyda golwg ar y cyfreithiau hyn, ni a allwn eu cymmeradwyo, ac ar yr un amser eu banghymmeradwyo; ond cyfreithiau Duw, ydynt uwchlaw un bai, nac eithriad neb. Yr wyf yn dywedyd hyn, o blegid ddarfod i chwi, trwy drugaredd Duw, yn ddiweddar, dderbyn y grefydd Gristionogol yn nheyrnas Prydain. Yn bresennol y mae genych y rhagorfraint a'r cyfleusdra i ymgynghori â'r Hen Destament a'r Newydd. Allan o'r llyfrau hyn, gellwch, gyda chymhorth eich deiliaid, gasglu corph o gyfreithiau addas, trwy ba rai, dan nodded Duw, y galluoger chwi i lywodraethu eich deiliaid. Y Cristionogion, y rhai ag sy'n byw mewn heddwch a llonyddwch, ydynt yn amgeleddol dan eich nodded, yn cael eu cysgodi trwy eich gweinidogaeth—fel y dywed yr ysgrythyr fod yr iâr yn casglu ei chywion o dan ei hadenydd. Pobl Prydain ynt eich deiliaid chwi, y rhai a roddwyd dan

eich gofal; eich braint a'ch dyledswydd yw eu meithrin, a'u dwyn yn mlaen mewn undeb a phob deall da; a gofalu ar fod pob rhinwedd yn blaguro yn eu mysg, a'u hynnill i ymostwng i'r efengyl, ac i fynwes yr eglwys. Ymdrechwch eu cadw rhag pob annhrefn, eu cynnal, eu llywodraethu, a'u diogelu rhag pob sarhad, ac oddi wrth bob llid niweidiol."*

Yn y llythyr hynafiaethol hwn, gwelir fod ysbryd a thymher Eleutherius, a'i gyd-oeswyr, yn wahanol iawn i eiddo llawer o'u holynwyr. Nid oes air yn y llythyr uchod, er ei fod yn dyfod oddi wrth esgob yr eglwys ag oedd yn Rhufain, yn arwyddo ei fod yn arddelwi iddo ei hun unrhyw hawl o osod i fynu, ac i dynnu i lawr, frenhinoedd; na gosod cyfreithiau, wrth ba rai y dylai brenhinoedd ac amherawdwyr reoli eu deiliaid, trwy y gwledydd. Dedwydd a fuasai i'r byd, pe peidiasai pob gweinidog ac eglwys ymhyraeth âg achosion brenhinoedd, a bod dim a wnelai brenhinoedd â hwythau, fel y cyfryw. Gwelwn hefyd yn y llythyr hwn, fod Eleutherius yn ystyried nad oedd un cyssylltiad rhwng sefydliad gwladol âg un crefyddol —fod Cristionogaeth o osodiad Crist, yn beth hollol wahanol, heb fod dim a wnelai âg un llywodraeth ddynol—y gallasai un fod, lle na byddai'r llall, fel nad oedd unrhyw ymddibyniad gan y naill ar y llall—ac y gallasai dynion fod yn ddeiliaid o'r naill, heb fod yn ddeiliaid o'r llall—fod y cyfreithiau wrth ba rai y sefydlid llywodraethau gwladol, i'w gosod yn ol doethineb a chyfleusderau dynion; ond bod y cyfreithiau wrth, ac yn ol, pa rai y mae achos Iesu Grist i'w lywodraethu, yn gwbl o Dduw—a bod y cyfreithiau wrth ba rai y mae achosion naturiol y gwledydd i'w trefnu, yn gyfnewidiol ac yn anmherffaith; ond bod y cyfreithiau wrth ba rai y mae Cristionogaeth i'w dwyn yn mlaen a'i threfnu, yn anghyfnewidiol ac yn berffaith. Yn mhellach, gwelir yma nad oedd Eleutherius yn annog tywysog Prydain i arfer un moddion i dreisio cydwybodau ei ddeiliaid, a'u dwyn trwy orfod i blygu i'w grefydd, ond eu MEITHRIN MEWN DEALL DA.

Er i amryw gyfnewidiadau gymmeryd lle yn egwyddorion, agwedd, ac ymarferiadau yr eglwysi tua diwedd y canrif hwn (fel y sylwir etto) y rhai a fu yn ddechreuad i'r holl ddirywiad a'r llygredigaeth a ymdaenodd yn gyffredin mewn amser dyfodol yn mysg holl Gristionogion y byd, er mawr anllewyrchiad i'w crefydd—etto, mae yn ddigon eglur, wrth ddarllain gwaith pob un a ysgrifenodd ar hyn, yn yr oes honno, fod yr eglwysi, trwy bob gwledydd a dinasoedd, yn gynnulleidfaoedd, o ran eu cyfansoddiad, yn anghyssylltiedig âg un llywodraeth wladol, perthynol i unrhyw wlad—y meddai pob eglwys ei gweinidogaeth a'i llywodraeth ynddi ei hun, heb fod yn ymddibynol y naill ar y llall, nac ar neb dynion eraill—a bod pob un o honynt mewn perthynas â swyddwyr dewisedig ganddi ei hun, yn dwyn yn mlaen waith ac achos eu Harglwydd mewn undeb a chariad â'u gilydd yn unig; gan ystyried nad oeddynt yn gyfrifol i neb ar y ddaear am eu gorchwylion crefyddol. Nid ydym i edrych ar ysgrifau y rhai a elwir yn hen dadau yr eglwys, yn anffaeledig, fel rheol ein hymddygiadau, mwy nag ysgrifau dynion ereill; eithr mor bell ag yr ydym yn gallael meddwl eu bod yn ddigymmysg, y maent i ni yn amlygiad o'r modd y dygid pethau yn mlaen, yn yr amser hwnw; ac mor bell ag y gwnaid pethau yn gysson â'r gwirionedd, yr ydym i gyd-ymagweddu â hwynt.

Yn ysgrifau y rhai a ysgrifenasant yn yr oesoedd cyntaf ar ol yr apos-

* Brooke's Hist. of Religious Liberty, vol. 1. p. 25.

tolion, gelwir y cynnulleidfaoedd Cristionogaidd wrth wahanol enwau; megys eglwysi, brawdoliaethau, deadellau, plwyfau, &c. Ond ni arferir y gair esgobaethau un amser, ac ni arferent y gair unigol, y pryd hwnw, am wahanol gynnulleidfaoedd a fyddai mewn unrhyw dalaeth, gwlad, neu deyrnas, os byddai yn y rhai hyny ychwaneg nag un gynnulleidfa.* Megys y dywed Irenæus yn ei ysgrifau, am eglwysi yn yr Almaen, Hispaen, a Ffraingc, ac nid eglwys yn un o'r lleoedd hyny.† A Tertulian yn ei ysgrifau yntau, a ddywed, Yr eglwysi yn Asia, yn Phrygia, ac yn nhir Groeg.‡ Arferent y gair *plwyf* yn foreu iawn yn gyfystyr â'r gair eglwys, neu gynnulleidfa neillduol.§

Wrth blwyf, ni olygid yr amser hwnw ryw ddarn o ddaear, wedi ei ffinio, a'i nodi allan trwy ryw arwyddion daearol; megys y nant hwn, y tŷ accw, a'r garreg yma; eithr, yn ol ystyr priodol y gair, cynnulleidfa o bobl a gyd-breswylient, a gyd-arosent, neu a gyd-gynnullent at eu gilydd.‖ Arferir ef gan Eusebius, yr hwn a ysgrifenodd hanes yr eglwysi cyntefig, tua dechreu y pedwarydd canrif, rai cannoedd o weithiau yn yr ystyr hwn, am gynnulleidfaoedd o bobl a gyd-gyfarfyddent, er addoli Duw, dan lywyddiaeth a gofal eu gweinidog, neu eu hesgob. Megys y dywed am blwyf yn Ephesus, Corinth, Athen, &c. yr hyn a olyga yn ddiau yr eglwysi ag oedd yn y dinasoedd uchod. Hefyd efe a ddywed fod yr eglwys ag oedd yn Smyrna, yn anfon annerch at yr eglwys a blwyfai yn Philomelium; a noda fod epistol Clemens o Rufain, yn cael ei anfon at eglwys Dduw a blwyfai yn Corinth, sef cynnulleidfaoedd a gyd-breswylient yn agos, ac a gyd-gyfarfyddent i addoli yn y dinasoedd hyny.

Yr eglwysi cyntefig a arferent ddal i fynu gymdeithas frawdol â'u gilydd trwy lythyrau a chennadau, pa rai a ddewisid gan yr holl eglwys, i'w hanfon y naill at y llall; ac y mae amryw o'r llythyrau hyn ar gael hyd heddyw. Ni anfonid, ac ni chyfeirid un o honynt at unrhyw benaethiaid, nac unrhyw gynnadledd a fyddai mewn gofal dros, neu lywodraeth ar, yr eglwysi hyn, mewn unrhyw wlad neu dalaeth; canys nid oedd, tebygol, neb dynion yn perthyn i'r eglwysi yn y cyfryw sefyllfa, am y canrif cyntaf wedi marwolaeth yr apostolion. Eithr danfonent eu llythyrau at gorph yr eglwys neu yr eglwysi—at y gymdeithas frawdol yn gyffredinol y danfonid hwynt, ac i aelodau y cyfryw rai y perthynai yr hyn a gynnwysent; a darllenid hwy i'r holl frawdoliaeth. Megys y gwelsom yn llythyr Clemens, yn enw yr holl eglwys oedd yn Rhufain, at yr holl eglwys a gyfarfyddai yn Corinth—llythyr Polycarpus a blaenoriaid yr eglwys oedd yn Smyrna, at yr eglwys a breswyliai neu a ymdeithiai yn Philippi. Yr eglwys oedd yn Smyrna, ar ol marwolaeth Polycarpus, ei hesgob, a enfyn annerch at yr holl eglwysi yn Asia, yn hysbysu am ei farwolaeth ferthyrol. A llythyrau Ignatius sydd oll yn gyfeiriedig ac anfonedig at yr eglwysi yn gyffredinol, oddi eithr un, yr hwn sydd at berson unigol: a'r llythyr rhagorol oddi wrth eglwysi Vienne a Lyons at eglwysi Asia a Phrygia, yr hwn yr adroddwyd rhanau o hono yn barod, sydd oll yn yr un

* Dr. Campbell's Lect. on Eccl. Hist. vol. i. p. 205. † Lib. 1. c. 3. p. 34.

‡ Adver. Prexbam, p. 314.

§ Paroicias yn Groeg, Parœcia yn Lladin, Parish yn Saesneg, Plwyf yn Gymraeg, h. y. rhai yn cyd-fod, cyd-aros, neu gyd-breswylio.—Lord King's Enquiry, part 1. p. 16.

‖ Dr. Campbell's Lect. on Eccl. Hist. vol. 1. p. 206.

modd; ac a ddangosant fod yr eglwysi trwy yr holl wledydd o'r un cyfansoddiad y pryd hwnw.* Eu bod oll o'r fath gyfansoddiad, sydd eglur; a'i bod yn alluadwy iddynt ddal cymdeithas â'u gilydd—pob un yn unigol, fel corph arni ei hun i gymdeithasu yn rhydd âg un arall, heb gael eu cyfyngu neu eu llywodraethu gan unrhyw benaeth gwladol nac eglwysig; a chan bob un o honynt gyflawn hawl i chwilio ac i farnu yr hyn a anfonid atti, ac i ymarfer yn ol yr addasrwydd a welai yn y pethau hyny, heb fod yn gyfrifol i neb ar y ddaear.

Nid yn unig y mae dull y llythyrau neu yr epistolau hyn yn rhoddi addysg i ni, eithr rhydd eu cynnwysiad oleuni boddlongar ar nattur a threfn cyfansoddiad ac ymarferiadau yr eglwysi cyntefig, am y canrif sydd dan ein sylw. Sylwasom ar ddarnau o epistol Clemens, a anfonwyd yn niwedd y canrif o'r blaen at yr eglwys oedd yn Corinth. Er mwyn i'r darllenydd gael barnu drosto ei hun, coffeir yn gyntaf ranau o lythyrau Ignatius, yr hwn oedd, fel y sylwyd yn barod, yn weinidog da a duwiol am o ddeutu deugain mlynedd yn yr eglwys oedd yn Antiochia, yn niwedd y canrif cyntaf, a dechreu yr ail; ac a ddyoddefodd farwolaeth ferthyrol yn dra gorfoleddus dros achos ei Arglwydd tua'r flwyddyn 108.

Priodolir saith o lythyrau iddo, chwech o ba rai a ysgrifenodd at wahanol eglwysi, a'r llall at Polycarpus, yr hwn oedd berson unigol. Ysgrifenodd un at yr eglwys oedd yn Ephesus, Magnesia, Smyrna, Philadelphia, Tralian, a Rhufain, a'r llall at Polycarpus, esgob yr eglwys ag oedd yn Smyrna. Bernir iddynt gael eu hysgrifenu, gan mwyaf, pan oedd ar ei daith, yn cael ei arwain gan y milwyr, o Antiochia i Rufain, yn ol gorchymyn yr amherawdwr, er ei roddi rhwng y bwystfilod gwylltion. Amheiiir dilysrwydd a digymmysgedd yr ysgrifau hyn gan amryw wyr dysgedig, yn enwedig y llythyr a ddywedir iddo ysgrifenu at Polycarpus. Golygir fod yr iaith, a llawer o'r ymadroddion a arferir ynddynt, yn annheilwng o'r awdwr, fel un ag oedd yn byw mor agos i oes yr apostolion. A chynnwys rai ymadroddion o olygiadau anghywir am bethau, yr hyn ni ellir credu fod yr hen sant apostolaidd yn euog o hono.† Heblaw hyn, hefyd, gesyd allan fod gwahaniaeth rhwng esgob a henuriad y pryd hwnw yn yr eglwysi. Ond nad yw yn nodi pa beth oedd y gwahaniaeth, pa un ai gwahanol swyddau, ai ynte gwahanol raddau o uchafiaeth yn yr un rhestr a swydd, ydoedd, sydd .dra amlwg i'r neb a ddarlleno y llythyrau hyn. Eithr fod y llythyrau hyn yn rhanu swyddau yr eglwys i dair rhestr, sef i esgobion, henuriaid, a diaconiaid, sydd eglur; ac wrth fod hyn yn cael son cymmaint am dano yn ei ysgrifau, a bod y peth heb ei grybwyll oll yn ysgrifau ei ragflaenwyr, ei gydoeswyr, a'i olynwyr nesaf, y mae llawer yn ammau purdeb ei lythyrau.

Fel y gwelsom yn llythyr Clemens, yr hwn oedd yn byw ychydig o'i flaen, nad oedd ond dwy swydd o drefniad yr apostolion, pa rai a enwa efe esgobion neu henuriaid, a diaconiaid. Polycarpus, yr hwn oedd gydoeswr âg Ignatius, ni enwai, yn ei lythyr at yr eglwys oedd yn Philippi, ond dwy swydd; ac a'u henwa yr un modd â'r apostol Paul yn ei lythyr at yr eglwys honno.‡ Dr. Campbell a ddywed,—"Nid yn unig y mae llythyr Polycarpus yn wahanol, o ran ei ddull o ymadroddi, i lythyrau Ignatius, eithr ymddengys

* Lord King's Enquiry, part 1. p. 20.

† Dr. Campbell's Lect. on Eccl. Hist. vol. 1. p. 194—197. a Phil. l. 1.

‡ Ibid, p. 186.

i mi yn wahanol mewn golygiad hefyd." Justin Ferthyr, yr hwn oedd ond ychydig iawn o flynyddau ar ol Ignatius, pan yn ei ail amddiffyniad yn olrhain yn fanylaidd i holl drefniadau ac ymarferiadau yr eglwysi yn yr amser hwnw, ni chrybwyll air am y cyfryw wahaniaeth. Yn ysgrifau Irenæus, Clemens o Alexandria, a Tertulian, pa rai a ysgrifenasant tua diwedd yr ail ganrif, a dechreu y trydydd, ac mor bell yn mlaen âg amser Cyprian, cymhwysid y geiriau esgobion a henuriaid at yr un personau â swyddogion eglwysig, yn ddiwahaniaeth. A dangosir yn amlwg y priodolid yr un gwaith iddynt hyd hanner y trydydd canrif, sef fod yr hyn oll a wnaid gan yr esgobion yn yr eglwysi, yn cael ei wneuthur hefyd yn yr un modd gan yr henuriaid,* fel y ceir sylwi etto yn helaethach, pan yr ymdrinir âg ysgrifau yr awduron uchod. Nid oes neb a ammau na ddechreuodd gwahaniaeth gymmeryd lle tua hanner neu ddiwedd yr ail ganrif; ond nid gwahaniaeth swyddau oedd y pryd hwnw, eithr gwahaniaeth graddau yn yr un rhestr a swydd ydoedd.

Y mae Dodwell, prif amddiffynydd y gwahaniaeth hwn, yn dywedyd mai newydd ddechreu yr oedd y gwahaniaeth, a bod yr eglwysi yn hollol anadnabyddus o awdurdod esgobaethol yn amser Ignatius; ac mai hyny oedd yr achos ei fod ef yn dywedyd cymmaint am dano, rhagor i neb arall, o fewn agos i ddau can mlynedd iddo; ac ni allai y gwr dysgedig hwn ei olrhain yn nês yn ol i oes yr apostolion na hyn. Y nesaf a grybwyll am y gwahaniaeth ydyw Pius, esgob yr eglwys oedd yn Rhufain, tua chanol yr ail ganrif, mewn llythyr a ddywedir iddo ysgrifenu at Justus, esgob oedd yn Vienna, yr hwn a ddywed, "Bydded i'r henuriaid a'r diaconiaid dy barchu di (yr esgob) nid fel un uwch radd, ond fel gweinidog Iesu Grist."† Er nad yw yn amlwg pa bryd y dechreuodd y gwahaniaeth gymmeryd lle, y mae yn ddigon eglur nad oedd ond bychan iawn ar y dechreu, fel llawer o ddefodau eraill; ond cynnyddodd yn ddirfawr, eithr nid effeithiodd ond ychydig, yn yr ail ganrif.

Fel y perthynai i'r eglwysi amryw weinidogion neu henuriaid, o drefniad yr apostolion,‡ mewn amser, rhai o'r rhai hyn, mewn rhyw fanau, a ragorasant ar eraill o'u cyd-swyddogion, o ran hynafiaeth, dawn, ffyddlondeb, neu ddefnyddioldeb, fel y rhoddwyd mwy o flaenoriaeth a pharch iddynt; felly daethant i eistedd yn eu haddoliad cyhoeddus mewn cadair

* Lord King's Enquiry, part i. p. 67—77. † Dr. Campbell's Lect. on Eccl. Hist. p. 200.

‡ Gwelais yn ddiweddar, mewn llyfr o waith awdwr deallus, dysgedig, a chymmeradwy, o Scotland, y sylwadau canlynol ar drefn swyddau yn yr eglwysi apostolaidd:—Yn 1. Golyga yr awdwr uchod fod y gair esgobion, a'r gair henuriaid, yn y Testament Newydd, weithiau yn cael eu harfer yn gyfystyr, yn cyfeirio at yr un swydd. Yn 2. Ond am yr henuriaid hyny, y darllenir am danynt, ag oedd yn eglwysi Jerusalem, Antiochia, Ephesus, Corinth, a'r rhai a ddywedir i'r apostolion ordeinio yn mhob eglwys, Act. xiv. 23. mal cenhadau anffaeledig oeddynt oll, wedi eu cymhwyso, mewn modd uniongyrchol a gwyrthiol gan yr Ysbryd Glân, i ofalu am holl orchwylion yr eglwysi yn eu sefyllfa babaidd. Yn 3. Fod nifer o rai wedi cael eu gosod yn mhob eglwys, a thrwy arddodiad dwylaw yr apostolion, yn meddu ar ddoniau gwyrthiol, fel y galluogid hwy i lefaru â gwahanol dafodau, &c. ond nad oedd y swydd henaduriaethol i barhau ond dros yr oes honno, mwy na swyddau anghyffredinol eraill. Yn 4. Eithr fod esgobion a diaconiaid, y darllenir am eu cymmwysderau yn llythyrau Paul at Timotheus a Titus, yn swyddau gwahanol mewn amryw ystyriaeth, i'r henuriaid hyn. Fod dynion yn cael eu cymmwyso i'w llenwi trwy foddion cyffredin—i'w gosod yn eu swydd trwy hir brofiad o'u cymmwysderau—a'u bod i fyned i'w swyddau trwy ddewisiad yr eglwysi, a chynnorthwy yr henuriaid; a bod y swyddau hyn i barhau yn yr eglwysi hyd ail ddyfodiad y Barnwr. Un esgob oedd yn cael ei osod yn mhob eglwys, ond amrai ddiaconiaid. Ymresyma yr awdwr yn gadarn dros hyn, oddi wrth y modd y dyry yr apostol ei gyfarwyddiadau i Timotheus, pan yr amlyga efe unigolrwydd esgob, ond lluosogrwydd o ddiaconiaid. Ac ni amlygir i ni yn y Testament Newydd, yn un lle, fod yr esgobion gynt yn meddu ar ddoniau gwyrthiol; ond am yr henuriaid, yr oeddynt yn eu meddu, ond nid hawl i'w roddi i neb arall; perthynai hyn i'r apostolion yn unig.—*The Rev. Greville Ewing.* "An Attempt towards a Statement of the Doctrines of Scripture," &c. Meddyliais fod y sylwadau uchod yn rhoddi eglurhad ar amryw ranau o'r hanesyddiaeth ysgrythyrol.

uwch na'u brodyr, fel yr arferai yr Iuddewon wneuthur yn eu synagogau. Gwnaed hyn yn gyntaf mewn rhai dinasoedd lle buasai yr apostolion yn pregethu; a deuwyd, yn ddiniweid a difwriad, i alw yr hwn a berchid felly yn esgob, yn amlach na neb o'i frodyr; a hyny mewn ffordd o gydnabyddiaeth barchus, heb un golwg ar wahaniaeth, ond yr hyn oedd arferiad, cariad atto, a golwg ar ei deilyngdod, yn wneuthur ar y cyntaf. Mewn byr amser, ymlusgodd y gwahaniaeth i mewn gydag effeithiad grymus, dan lywodraeth a meithrindod meddyliau uchel; a daeth yn gyffredinol. Yr hyn nid oedd ar y cyntaf ond rhoddiad o rydd-gariad a pharch i'r teilwng, a ddaeth yn fuan i gael ei arddelwi fel o gyfiawnder gan eu holynwyr, pa un bynag ai teilwng ai peidio. Ar fyr, chwyddodd y gwahaniaeth gymmaint, fel y daeth yr henuriaid i fod yn ddarostyngedig i'r esgobion, ac i'w hystyried ganddynt yn rhyw swyddogion islaw iddynt hwy; a dyrchafwyd hwy uwchlaw eu gwaith priodol, a nodir iddynt yn hanesion eglwysig y canrif cyntaf a'r ail. Cadarnhawyd y gwahaniaeth trwy awdurdod cymmanfäol, yn mhen amser; a threfnwyd iddynt wahanol weinidogaeth. Dyma un o'r llwybrau, ac nid y culaf, y daeth y dyn pechod i'r byd, i lywodraethu yn yr eglwys.*

Mosheim a ddywed, "ei bod yn ddiddadl mai yr un personau a swyddogion a olygid yn y Testament Newydd, âg yn yr eglwsi am y canrif cyntaf ar ol marwolaeth yr apostolion, wrth esgobion a henuriaid."†

I ddychwelyd at lythyrau Ignatius. Dywed yn ei lythyr at yr eglwys yn Magnesia, fod yn honno *esgobion*, yr hyn nid allai fod; oddi eithr y golygai yr holl henuriaid yn esgobion. Ond, er fod cryn le i feddwl fod rhyw adysgrifenydd, ag oedd â'i feddylian yn dra chwyddedig dros y swydd esgobaethol, yn chwennych ei dyrchafu uwchlaw yr un henaduriaethol, wedi gwneuthur cam, wrth ysgrifenu ysgrifau yr hen esgob duwiol, trwy ychwanegu attynt—etto nid oes neb a feddylia eu bwrw ymaith yn hollol. Eithr y maent yn ddangosiad eglur o nattur gwir Gristionogaeth, ac nad oedd ond un gynnulleidfa dan ofal gweinidogaethol un esgob, a honno yn un o'r fath a gyfarfyddai bob amser yn yr un lle, i addoli Duw. Yn ei lythyr at yr eglwys ag oedd yn Ephesus, efe a ddywed ei fod yn mawr lawenhau yn ei lluosogrwydd a'i llwyddiant; ac wedi hyny, beia ar rai o honynt am esgeuluso eu cydgynnulliad, ac annoga hwynt i fwy o gydymdrech, gan ddywedyd—"Na cham-gymmered neb o honoch, os oes neb heb fod o fewn i'r allor, y mae yn amddifad o fara Duw. Pwy bynag nad ymgynnullo i'r un lle, gyda'r eglwys, er dyrchafu eu gweddïau at Dduw, a ddengys ei hun yn falch; ac y mae yn damnio ei hun; canys ni a wyddom fod Duw yn gwrthwynebu y beilchion.‡ Os yw gweddïau dau neu dri, pan yr ymgynnullont yn nghyd i weddio, mor llwyddiannus, â'u bod yn dwyn yr Arglwydd Iesu Grist i'w plith, pa faint mwy felly y bydd gweddiau yr holl eglwys a'i hesgob, pan y cyd-gyfarfyddant i weddio!"§ Drachefn, medd ef yn yr un llythyr,—"Amlhewch gyfarfodydd o ddiolchgarwch a gweddi; o blegid pan yr arferwch chwi ddiwydrwydd yn y rhai hyn, y mae galluoedd Satan yn cael eu dinystrio, a'i deyrnas ddrygionus yn cael ei chwalu, trwy undeb eich ffydd chwi." Ac mewn perthynas i weinyddiad swpper yr Arglwydd, efe a ddywed,—"Un bara a dorir genych; a'r hwn a ymneillduo oddi wrth yr un allor hon, sydd yn amddifadu ei hun oddi wrth fara

* Dr. Campbell's Lect. on Eccl. Hist. p. 153.

† Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 101.

‡ Milner's Church Hist. vol. i. p. 173.

§ Dr. Owen's State of the First Churches, pp. 104, 105.

Duw. Na fydded i ni wrthwynebu yr esgob, ond rhoddi ufudd-dod iddo, fel trwy hyny y byddom yn ddeiliaid i'r Arglwydd." Yr un awdwr yn ei lythyr at yr eglwys oedd yn Magnesia, a ddywed—"Yr wyf yn eich annog i wneuthur pob peth yn undeb Duw; yr esgob i flaenori, yr henuriaid yn lle cynghorfa yr apostolion, a'r diaconiaid yn cyflawni y weinidogaeth a ymddiriedwyd iddynt gan Iesu Grist. Na fydded dim yn eich plith ag a fyddo yn eich gwahanu, ac yn eich rhanu oddi wrth eich gilydd; ond bydded undeb cyflawn a pherffaith rhyngoch â'ch gilydd, ac â'ch esgob, a'ch blaenoriaid.* Mae rhai yn wir a alwant un yn esgob, ond a wnant y cwbl yn anymddibynol arno: y cyfryw a ymddengys i mi, eu bod wedi colli cydwybod dda; canys nid yw eu hymgynnulliadau yn sefydlog yn ol y drefn Gristionogol.† Fel nad oedd Iesu Grist yn gwneuthur dim yn bersonol, na thrwy ei apostolion, heb fod yn un â'r Tad, felly na wnewch chwithau ddim heb eich esgob a'ch henuriaid; ac na fydded i neb o honoch ymlithro oddi wrthynt; eithr ymgynnullwch at eich gilydd, fel y byddoch oll yn un mewn deisyfiadau, gweddi, gobaith, a meddyliau." Yn mhellach yn yr un llythyr, efe a ddywed, "Un eglwys, un allor, un esgob, fel y byddoch oll yn un mewn gweddi a deisyfiad; mae fod genych ddim yn wahanedig yn groes i gydwybod a gorchymyn.‡ Ac na ddirmyged neb o honoch eich esgob, o herwydd ei oedran; ond cydnabyddwch ef gyda chariad a pharch."§

Yn ei lythyr at yr eglwys oedd yn Smyrna, dywed—"Chwi oll ag sydd yn eglwys Smyrna, ufuddhewch i'ch esgob, megys y gwna Iesu Grist i'r Tad; a'r henaduriaeth, fel i'r apostolion; ac anrhydeddwch y diaconiaid, yn ol gorchymyn Duw. Na fydded i wasanaeth eglwysig gael ei gyflawni heb yr esgob; y cymmundeb hwnw, a weinyddir gan yr esgob, neu yr hwn y canniattao efe iddo, yn unig a ystyrir yn safadwy. Pa le bynag y byddo yr esgob yno bydded y bobl hefyd, fel pa le bynag y mae Crist, yno y mae y wir eglwys. Nid yw yn gyfreithlon i fedyddio, na gweini y swpper sanctaidd, heb yr esgob, neu yr hwn a awdurdoder ganddo; hyn sydd gymmeradwy gyda Duw, fel y byddo pob peth yn safadwy a chyfreithlon.‖ Pwy bynag a wnelo mewn eglwys ddim heb fod yn wybodus i'r esgob, sydd gan hyny yn addolwr diafol."¶

Mae yr un awdwr drachefn, yn ei lythyr at yr eglwys oedd yn Philadelphia, yn dywedyd—"Ffowch oddi wrth bob ymraniad; lle byddo y bugail, yno y dylai y praidd ei ganlyn; o blegid mae llawer o fleiddiau yn gudd-iedig, ag sydd yn ceisio eich dwyn ymaith: ond na fydded iddynt gael lle yn eich undeb chwi. Pwy bynag sydd yn eiddo Duw a Iesu Grist, y maent gyda'r esgob; a phwy bynag a edifarhao am ei bechod, a ddaw i undeb yr eglwys sydd yn eiddo Duw, ac yn byw yn ol Iesu Grist. Na thwyller chwi, fy mrodyr, os bydd i neb ganlyn yr hwn a baro rwygiad, neu a fyddo yn achos o ymraniad yn yr eglwys, a pheri ymadawiad, ni chaiff etifeddu teyrnas Dduw. Perchwch eich esgob, a'ch henuriaid, a'r diaconiaid; na wnewch ddim yn yr eglwys heb yr esgob. Eich corph cedwch fel teml Dduw; cerwch undeb; gwyliwch rhag ymraniadau; a byddwch ganlynwyr i Iesu Grist, megys y mae efe i'r Tad. Yn mha le bynag y mae ymraniadau a digofaint, nid yw Duw yn trigo yno; Duw, gan hyny, a faddau

* Lord King's Enquiry, part 1. p. 28. Ibid, p. 170. † Milner's Church Hist. vol. i. p. 176.
‡ An Enquiry into the State of the Primitive Churches, by an Impartial Hand, p. 29.
§ Ibid. p. 85. ‖ Ibid. p. 160. ¶ Ibid. p. 56.

i'r rhai edifeiriol, os dychwelant felly i undeb Duw, a henaduriaeth yr esgob."* Gwedi hyn, dywed—"Yr wyf yn ysgrifenu gyda'r hyder mwyaf at eich cariad duwiolaf; gan eich cymmell yn y modd gwresoccaf i arfer un ffydd, un pregethiad o'r gair, ac un gweinyddiad o'r swpper sanctaidd yn eich plith; o blegid cnawd Iesu Grist a dorwyd drosom, sydd un, a'i waed a dywalltwyd, sydd un; ac un bara sydd i'w dorri; un allor i'r holl eglwys; ac un esgob, gyda'r henuriaid, a'r diaconiaid, fy nghyd-wasanaethwyr."† Arferai yr eglwysi cyntefig gynnal cymdeithas â'u gilydd, nid trwy lythyrau yn unig, ond trwy anfon cennadau oddi wrth y naill at y llall, i ymweled ac i gynnorthwyo eu gilydd. Yr oedd y cennadau hyn o ddau fath —yn gyffredinol, ac yn neillduol. Yn gyffredinol, pan na byddai unrhyw achos neillduol yn galw, mwy na chael gwybod hynt eu gilydd; ond yn neillduol, pan y byddai eglwys wedi cael ei hamddifadu o'i hesgob, trwy ryw foddion neu gilydd, neu pan y sefydlid esgob mewn unrhyw eglwys. Felly, pan oedd Ignatius yn cael ei ddwyn ymaith oddi wrth yr eglwys yn Antiochia, i Rufain, i'w ferthyru, y mae yn erfyn ar yr eglwys yn Philadelphia, i anfon cennad attynt hwy; a chyfarwydda hwynt y modd yr oeddynt i wneuthur. "Y mae yn gweddu i chwi," medd ef, "fel eglwys Dduw, wedi ymgynnull o honoch oll i'r un lle, ddewis a neillduo cennad a fyddo gymmwys a ffyddlon i gyflawni cennadwriaeth Duw drosoch chwi, fel y galloch chwi a hwythau ogoneddu enw Duw."‡ Rhydd yr un fath gyfarwyddyd i Polycarpus drachefn, pa fodd yr oeddynt hwy i ddewis cennad drostynt, i wledydd Syria, trwy alw yr holl eglwys i'w neillduo i'r gwaith.

Hefyd yn ei lythyr at yr eglwys oedd yn Tralian, dywed wrthi am ofalu i beidio cyflawni neb pethau eglwysig heb ei hesgob. "Canys," medd ef, "y mae y rhai sydd yn yr allor yn bur; ond pwy bynnag a wnelo ddim, heb yr esgob, yr henuriaid, a'r diaconiaid, sydd anmhur."§ Yn ei lythyr at Polycarpus, efe a ddengys ei fod, fel esgob yr eglwys oedd yn Smyrna, i adnabod pob un o'r eglwys ag oedd yn braidd dan ei olygiaeth, yn bersonol, wrth eu henwau; ac i fod yn addfwyn a gostyngedig ei ymddygiadau tu ag at bawb yn yr eglwys—tu ag at wasanaeth-feibion, a gwasanaeth-ferched, gan ofalu am yr amddifaid a'r gwragedd gweddwon ag oedd yn ei esgobaeth; ac nad oedd dim i gael ei wneuthur yno, heb ei wybodaeth; na neb i briodi heb ymgynghori âg ef, a chael ei ganiattad.‖

Onid yw y tystiolaethau hyn yn dangos yn eglur mai cynnulleidfaoedd cymdeithasol, anymddibynol ar eu gilydd, y llywodraethau gwladol, a phawb dynion eraill, oedd yr eglwysi cyntefig, o ran ffurf eu cyfansoddiad? Onid yw yn amlwg, oddi wrth yr hyn a goffawyd o'i waith, nad oedd yr eglwysi at ba rai yr oedd efe yn ysgrifenu, neu yr esgobaethau, fel y myn rhai eu galw, ond cynnulleidfaoedd a gyfarfyddent yn yr un lle, er ymdrin â gwahanol bethau crefyddol? A hawdd ydyw dangos nad oes air yn ysgrifeniadau neb yn y canrif hwn, na'r un blaenorol, a ddengys fod un eglwys mewn bod wedi ei sefydlu a'i ffurfio ar un egwyddor wahanol i hyn yma.

Yr ysgrif nesaf a goffeir, ydyw, y llythyr a briodolir i Polycarpus, yr hwn a anfonodd efe, yn nghyd â holl flaenoriaid eglwys Smyrna, at eglwys Dduw yn Philippi. Mae hwn, fel y llythyrau ereill i gyd, yn cael ei anfon

* Enquiry, &c. by an Impar. Hand. p. 171. † Dr. Owen's State of the First Churches, p. 103.

‡ Enquiry, &c. by an Impar. Hand. p. 27. § Ibid, p. 30. ‖ Ibid, p. 28.

a'i gyfeirio at luaws yr eglwys, corph y frawdoliaeth, ac nid at un person neu bersonau neillduol. Y swyddwyr ag oedd yn yr eglwys yn Philippi, a alwai yr apostol Paul yn esgobion a diaconiaid, a eilw Polycarpus yn henuriaid a diaconiaid; ac efe a ddengys beth oedd gwaith yr henuriaid, a'r modd yr oeddynt i'w gyflawni. "Bydded," medd ef, "i'r henuriaid fod yn dyner wrth bawb, ac yn drugarog a thosturiol; gan adferyd y rhai a ânt ar gyfeiliorn, ymweled â'r rhai sydd weiniaid, heb esgeuluso y gweddwon a'r amddifaid, y tlodion a'r trallodedig—a gofalu bob amser i ddarparu y pethau sydd onest ger bron Duw a dynion—ymgadw rhag bod yn ddigofus, na derbyn wyneb neb personau, a barnu yn anghyfiawn; na byw yn agos i gybydd-dod; na chredu chwedlau drwg yn rhy fuan; a rhag llymdoster mewn barn, gan gydnabod ein bod ni oll yn agored i gael ein barnu."*

Yn nesaf, coffeir rhai tystiolaethau o waith Justin Ferthyr, y rhai sydd hollol gydsyniol â'r hyn a amlygwyd am nattur a threfn gyfansoddol yr eglwysi cyntefig, yn ei ddyddiau ef. Yn mhlith pethau eraill, ysgrifenodd Justin ddau amddiffyniad o'r grefydd Gristionogol, ac a'u cyflwynodd hwy i lywodraethwyr y Rhufeiniaid; a'i ymddiddan â Trypho yr Iuddew. Mae yr oll a wnaeth wedi ei ysgrifenu o'r flwyddyn 150 hyd y flwyddyn 165, yn yr hon y dyoddefodd ferthyrdod. Yn ei amddiffyniad diweddaf, efe a rydd hanes yn oleu a manylaidd, o ddull, trefn, ac ymarferiadau yr eglwysi y dyddiau hyny. Dengys yn amlwg, mai dychweliad i'r ffydd oedd sail eu sefydliad eglwysig. "Pob un," medd ef, "a argyhoeddir, ac a gredo wirionedd yr hyn a draddodir ac a ddysgir genym, ac a gymmero arno ei hun allu byw yn ol yr athrawiaeth, cyfarwyddwn ef i geisio yr Arglwydd trwy ympryd a gweddi, er maddeuant o'r pechodau a wnaeth o'r blaen; a chydunwn ein hunain gydag ef mewn ympryd a gweddi, i'r dybenion hyny." Yna y dywed, os na byddent fedyddiedig, wedi iddynt roddi prawf boddlongar o'u penderfyniad i arwain bywyd duwiol, a phroffesu eu cydsyniad â gwirioneddau Cristionogaeth, y bedyddid hwy mewn modd difrifol.† "Y rhai sydd yn credu ac yn fedyddiedig," medd ef, "a dderbynir i blith y ffyddloniaid, pan eu dygwn at y rhai oll a enwir yn frodyr, er mwyn undeb, gweddi, a deisyfiad drosom ein hunain, a thros y rhai yn awr a oleuwyd, a phawb eraill, gydag un meddwl."‡ Yn mhellach, dengys y modd yr oeddynt yn cyflawni eu haddoliad cyhoeddus, gan ddywedyd—"Ar y diwrnod a elwir dydd Sul, y mae pawb (yn ddiau pawb a berthynai i'r eglwys) yn ymgynnull i'r un lle, o'r ddinas, y pentrefydd, a'r meusydd o amgylch, pan y darllenir cyfran o ysgrifeniadau neu gofiant y prophwydi a'r apostolion. Gwedi i ni ganu mawl, y mae yr esgob, neu y *blaenor*, yn traddodi pregeth, er ein haddysg a'n hannogaeth, mewn cyfeiriad at y pethau rhagorol a ddarllenwyd. Ar ol hyn, cyfyd y bobl oll, a chyflwynant eu gweddi at Dduw, pan y bydd swpper yr Arglwydd i gael ei weini. Gwedi rhoddi y bara a'r gwin at y gweinidog, sef yr esgob, efe a'u derbyn ac a weddia yn hirfaith, gan foliannu a gogoneddu Arglwydd pawb oll, trwy ei unig Fab, yr Arglwydd Iesu Grist, a'i Ysbryd Glan. *Yn ol ei alluoedd*, fel hyn, gweddia, a thâl ddiolch am y trugareddau presennol ag ydym yn dderbyn; pan ddengys yr holl bobl eu cydsyniad, trwy ddywedyd, *Amen*. Gwedi i'r gweinidog gyssegru yr elfenau, trwy ei weddiau, a

* Dr. Cave's Life of Polycarpus, p. 127.
† Enquiry into the Primitive Churches, by an Impar. Hand, p. 54. Ibid, p. 79.
‡ Dr. Owen's State of the First Churches, p. 106.

chydsain y bobl, y mae y diaconiaid yn eu cymmeryd, ac yn rhoddi o honynt i bob un a fyddo bresennol; ac yn cymmeryd o'r elfenau cyssegredig i'r brodyr a fyddo yn absennol o herwydd afiechyd."* Yna dengys y modd y terfynent eu cyfarfodydd, sef trwy wneuthur casgliad. "Pob un," medd ef, "sydd alluog ac ewyllysgar, a rydd yn ol ei sefyllfa; a'r hyn a gesglir, a roddir i ofal yr esgob, fel y byddo iddo gyfranu o honynt er cynnorthwyo y gweddwon, yr amddifaid, y cleifion, y gorthrymedig, y carcharorion, y dyeithriaid, yr ymdeithwyr, a phawb a fyddo mewn angen;" canys ystyrir ef yn olygwr cyffredin dros bawb o'r cyfryw a berthyna i'w eglwys.† Dengys yn amlwg y cyfryw oeddynt y pryd hwnw yn briodol i nesu at fwrdd yr Arglwydd. "Nid yw yn gyfreithlon," medd ef, "i neb gyfranogi o'r bwyd sacramentaidd, heb eu bod yn dderbynwyr o Gristionogaeth, o ran yr oll sydd ynddi i'w gredu a'i ymarfer, a bod yn fedyddiedig."‡

Dengys yr anianydd enwog a duwiol hwn yn ei holl ysgrif, nad oedd ond dau swyddwr yn yr eglwysi yn ei ddyddiau ef, y rhai a eilw efe weithiau yn flaenoriaid, llywodraethwyr, esgobion, henuriaid, gweinidogion, a diaconiaid. Ond rhag i neb feddwl fod yr hwn a eilw efe yn flaenor, yn llywodraethu dros henuriaid, neu weinidogion eraill, fel rhyw esgob taleithiol, efe a ddywed *mai blaenori yr oedd ar y brodyr yn yr eglwys* a ymgynnullai i'r un lle, er ei fod yn amlwg bod amryw swyddwyr yn mhob un o'r eglwysi yn gyffredin y dyddiau hyny,§ fel y gwnawn sylwi etto.

Oddi wrth y tystiolaethau a'r hysbysiadau hynafiaethol hyn, gwelir nid yn unig nattur ac egwyddorion sefydliad yr eglwysi a'u llywodraeth, yn yr ail ganrif, ond hefyd y dull duwiol a syml eu gweinyddid. Er nad oeddynt yn cael eu llywodraethu gan neb awdurdodau gwladol na chymmanfäol, na thrwy unrhyw benaeth dynol, etto cadwent undeb yr ysbryd yn nghwlwm tangnefedd. Nid esgeulusent fod yn un mewn ymarferiadau. Eithr yn benaf yr oedd eu hundeb yn gynnwysedig mewn bod yn un ysbryd, un ffydd a chariad; gan gydymdrechu i helaethu teyrnas yr Arglwydd Iesu. Gwelsom yn barod y modd, a pha mor ymdrechgar yr oeddynt i ddwyn yr undeb hwn yn mlaen; sef trwy anfon llythyrau a chennadau oddi wrth y naill eglwys at y llall; ac y mae amryw dystiolaethau fod hyny yn atteb y dyben. Hegesippus, yr hwn a deithiodd yn y canrif hwn o Rufain i Jerusalem, trwy amrywiol eglwysi, yn mhlith gwahanol genhedlaethau a ieithoedd, a ddywed, "eu bod oll yn un yn dysgu yr athrawiaeth a'r ymarferiadau ag oedd y gyfraith, y prophwydi, a'r Arglwydd wedi ddysgu iddynt." Diau nad oedd unrhyw ardderchawgrwydd nac enwogrwydd dynol yn eu lleoedd o addoliad. Nid oedd ganddynt demlau wedi eu cerfio, eu goreuro, a'u gweithio yn gywrain mewn harddwychder gan ddynion; eithr cyfarfyddent weithiau ar y maesydd—mewn coedwigoedd—ogofëydd—mewn tai annedd, ac eraill o bob math—ac weithiau mewn llongau. Fel y dywed Justin Ferthyr,—"Trwy Iesu Grist, yr ydym ni oll wedi ein gwneuthur yn offeiriaid i Dduw, yr hwn sydd wedi addaw derbyn ein haberthau yn gymmeradwy trwyddo ef, yn mhob lle, trwy bob rhan o'r ddaear." Nid oedd ganddynt y pryd hwnw un llyfr gweddi gyffredin, na gwisgoedd i addoli ynddynt, amgen y rhai a wisgent yn gyffredin ar brydiau eraill; o leiaf, ni osodid y pethau hyn ar y gweinidogion, na neb eraill, gan unrhyw awdurdod na deddfau.‖

* Enquiry, &c. by an Impar. Hand. p. 42. † Ibid. ‡ Ibid, pp. 12, 114. § Dr. Owen's Inquiry, part 2. pp. 4, 14, 17, 26, 108, 109, 111. ‖ Enquiry, &c. by an Impar. Hand. ‖ Ibid, 105. ‖ Ibid, 109. ‖ Enquiry, &c. by an Impar. Hand, part. 2. p. 24—32.

Er y byddai rhai o'r gweinidogion, er yn foreu iawn, yn coffâu yn eu gweddiau ranau o air Duw, yn neillduol y rhan honno a elwir yn gyffredin gweddi yr Arglwydd, yr hon a alwai Cyprian ac eraill yn rheol gweddi, etto, diau y gweddïai pob un yn gyhoeddus *yn ol ei allu* neu ei *ddawn*, fel y dywed Justin Ferthyr. Ac y mae gweddiau Polycarpus ac eraill i'w cael hyd heddyw, yn mha rai nid oes un cyfeiriad at unrhyw ffurf osodedig. Yn mhellach, y mae yn amlwg nad oedd unrhyw gredöau ffurfiedig arddodiadol o eiddo dynion, wedi eu gwneud a'u gosod ar yr eglwysi, i'w credu a'u harfer yn y canrif hwn; ond fod pob un yn cael ffurfio ei chrêd, a threfnu ei hymarferiadau ei hun, yn wyneb ysgrifeniadau y prophwydi, yr efengylwyr, a'r apostolion. Y peth cyntaf a wnaed yn debyg i gredo, oedd, rhyw ranau o'r hyn a elwir yn awr credo yr apostolion, a fyddai yn cael ei ofyn gan amryw eglwysi i'w dychweledigion ieuaingc, wrth eu derbyn yn aelodau i'w cymdeithasau crefyddol; ond nid oedd yn debyg yn yr un geiriau yn y naill fan a'r llall; a pheth llawer diweddarach na'r amser hwn yw ffurfiad y credo, fel y mae yn bresennol, a'i ddygiad i ymarferiad cyffredin; ac y mae yn ddigon eglur na ddeilliodd, fel y dywed rhai, oddi wrth yr apostolion.*

Mae yn dra amlwg fod y Cristionogion boreuol yn y canrif hwn, yn selog ac ymdrechgar iawn am ledanu yr ysgrythyrau sanctaidd trwy bob gwlad. Nid yw yn amlwg pa bryd y rhoddwyd y Testament Newydd yn un gyfrol, yn y drefn y mae yn bresennol; eithr y mae yn eglur fod y rhan fwyaf o'r llyfrau a gynnwysir ynddo, yn cael eu cydnabod a'u parchu gan yr eglwysi yn gyffredin, fel ysgrifeniadau dwyfol, yn fuan yn y canrif hwn, ac mai hwy yn unig oedd felly. Gelwir hwy, mewn ffordd o barch a neillduolrwydd, ar wahanol enwau, yn rhagor i bob llyfrau eraill, fel y canlyn:—Geilw Ignatius hwy, y prophwydi, yr efengylwyr, a'r apostolion; Polycarpus, yr ysgrythyrau sanctaidd; Justin Ferthyr, cofiant y prophwydi a'r apostolion; Dionysius, ysgrythyrau yr Arglwydd, a'r ysgrythyrau dwyfol; Melito, y Testament Hen a Newydd; eglwys Smyrna, yr efengyl; Theophilus o Antiochia, yr ysgrythyrau sanctaidd, &c. A chyn diwedd y canrif hwn, gelwir y pedair efengyl ar yr un enwau, a phriodolir hwy i'r un ysgrifenwyr; felly yr adnabyddir llyfr yr Actau a'r epistolau yn gyffredin; a phriodolid hwynt i'r un personau, fel yr awduron o honynt, âg y gwneir yn bresennol.

Dywed Eusebius yn ei hanes eglwysig, fod ganddo ef ysgrif o waith Tatian, dysgybl i Justin Ferthyr, er cyssoni, neu ddangos cyssondeb y pedair efengyl; ac o waith Pantæus, prif athraw ysgol Alexandria, mewn ffordd o esboniad ar y Testament Newydd, a ysgrifenwyd ganddynt yn y canrif hwn. Dywedir hefyd am Quadratus, ac eraill a deithiasant wledydd lawer, i bregethu yr efengyl, iddynt roddi adysgrifau o'r llyfrau sanctaidd i'w dychweledigion yn mhob lle.

Nid oes lle i ammau nad oedd y dydd cyntaf o'r wythnos yn cael ei ystyried yn sanctaidd, a'i gadw felly, gan y Cristionogion, yn y canrif hwn. Dywed Pliny, "fod y Cristionogion, yn ei amser ef, yn arfer cyfarfod â'u gilydd ar ddydd pennodol, i ganu mawl i Grist, fel Duw, ac i rwymo eu hunain iddo trwy lŵ sacramentaidd" A dywedir yn y llythyr a briodolir i Barnabas.—"Yr ydym yn cadw yr wythfed dydd yn orfoleddus, o herwydd mai ar hwn y cyfododd yr Arglwydd Iesu." Ignatius yntau a ddywed—

* Enquiry, &c. by an Impar. Hand. part. 2, p. 63.

"Bydded i ni gadw dydd yr Arglwydd; canys arno ef y cododd ein Bywyd." Ac medd Justin Ferthyr, "mai ar y diwrnod a alwent y Sul, yr ymgynnullai yr eglwysi o'r ddinas, y pentrefydd, a'r maesydd, at eu gilydd," &c.

Eglur hefyd yw, fod y ddwy ordinhad, sef bedydd a swpper yr Arglwydd, yn cael eu gweini yn mhlith y Cristionogion yn y canrif hwn, fel yr amlygwyd yn barod. Gweinyddid bedydd trwy gymmwyso dwfr at y bedyddiedig; weithiau trwy drochiad, neu daenelliad; a phryd arall trwy dywalltiad—yn cael ei weini ar ddynion mewn oedran, ag ma fyddai fedyddiedig o'r blaen; ac ar fabanod, yn enw y Drindod. Nid oes air o sôn am unrhyw ddefodau cyssylltiedig â gweinyddiad yr ordinhad hon, y rhai y clywir am danynt yn y canrifoedd canlynol. Dywed Justin Ferthyr yr adwaenai efe lawer, yn ei ddyddiau ef, a gyrhaeddasent driugain, a thriugain a deg mlwydd oed, ag oedd wedi eu dysgyblu o'u mebyd. Cysson â hyn y cyd-dystia eraill, am yr arferiad y dyddiau hyny, fel y ceir sylwi etto. Coffâwyd cymmaint yn barod yn nghylch gweinyddiad yr ordinhad o swpper yr Arglwydd yn y ddwy elfen, neu mewn bara a ffrwyth y winwydden, fel na helaethir yn bresennol.

Pan sefydlid esgob neu weinidog mewn unrhyw eglwys, gosodid ef yno trwy ddewisiad a galwad yr holl eglwys, a thrwy gydweithrediad gweinidogion amgyffiniol; ac a osodid yn ei swydd trwy arddodiad llaw yr henuriaid.* Nis darllenwn am gymmaint âg un heb fod felly, pan yn cael ei osod yn ei swydd y dyddiau hyny, hyd yn nod yn mhlith y rhai a alwent yn hereticiaid, pan osodid hwy yn y weinidogaeth.†

* Eusebius lib. 6. c. 11. p. 212. † Ibid, c. 43. p. 243.

PENNOD XI.

Lle y traethir am Ddirywiad yr Eglwys yn ei Llywodraeth, ei Hegwyddorion, a'i Hymarferiadau—Sefydliad y Cymmanfaoedd—Gosodiad i fynu Egwyddorion Philosophyddiaeth Eclecticiaidd, a'u hymgymmysgiad âg eiddo Cristionogaeth, a'u Chwiliad i mewn i gael ystyr cyfrinachol i'r holl Ysgrythyr, yr hyn a fernir a fu yn achosion o ddadfeiliad Crefydd a dirywiad yr Eglwysi.

HYD yma yr ydym wedi gweled yr eglwys Gristionogol yn ei hieuengctyd prydweddol, ac yn ymddysgleirio mewn diweirdeb; yn dal athrawiaeth y deuddeg apostol, fel coron hardd ar ei phen; a'r byd, yn ei barch, ei fawredd, ei gyfoeth, a'i bleserau, dan ei thraed. Ei gweinidogion a ymddysgleiriant, nid mewn dysgeidiaeth ddynol, nac athrylithrwydd, hyawdledd, a gwybodaethau naturiol; eithr mewn duwioldeb a symledd sanctaidd, mewn sêl dros y gwirionedd, ac mewn hunan-ymwadiad, ac ymroddiad hollol i Dduw, ac i leshad eu cyd-ddynion. Ond er mawr alar, cawn fod dirywiad yn cymmeryd lle yn yr eglwysi a'u gweinidogion; y fath ddirywiad a eilw yr ysgrythyr yn ddirgelwch yr anwiredd—yn ddyfodiad y dyn pechod—yn ddyfodiad anghrist—yn fathru y ddinas sanctaidd—ac yn butteindra o'r mwyaf. Diau mai nid ar unwaith y daeth y cyfryw ddirywiad; a dywed yr apostol fod dirgelwch yr anwiredd yn gweithio y pryd hwnw (a gweithio a wnaeth) fel lefain mewn blawd, nes suro y cwbl, gan mwyaf; fel y gwelir ei effeithiad yn amlwg cyn diwedd yr ail ganrif. Nid all ei bod yn anmhriodol i ni sylwi ar ei ddechreuad, a chadw golwg ar ei gynnydd graddol; o blegid fel yr aeth i fynu, y daw i lawr; a'r gwrth-foddion a'i gosododd i fynu, a'i dwg i'w ddinystriad. Er fod y gweinidogion a ddaethent i fugeilio yr eglwysi y dyddiau cyntaf ar ol yr apostolion, y gorau, am a wyddom ni, a fu er dyddiau yr apostolion hyd yn bresennol, etto y mae yn sicr eu bod yn rhy anwyliadwrus, hyd yn nod arnynt eu hunain; fel yr hauwyd efrau yn mhlith y gwenith. Cynhyrfwyd hwy eu hunain i arfer moddion a fu yn brif gynnorthwy i ddwyn yn mlaen y dirywiad a fu, ac a erys, yn gorchuddio rhan fawr o Gristionogaeth hyd heddyw. Ni amcanir dywedyd eu bod hwy yn anelu at wneuthur y drygau hyn, ond gweithredasant mewn annoethineb, a buant, trwy hyny, yn achlysur o ddrygau lawer. Ond y mae yn llawer rhyfeddach, fod amryw yn y pedwarydd canrif ar bymtheg, yn ymfoddloni yn eu dirywiad, yn ei gymmeradwyo, ac yn ei ystyried yn anrhydedd; a chysson â hyny y gweithredant yn barhaus.

Dechreuasant newid dull, trefn, ac egwyddorion sefydliad eglwys Dduw, a gosod gweinyddiad ei llywodraeth mewn lle nad oedd ei sylfaenydd dechreuol wedi ei gosod. Dechreuwyd, tua chanol y canrif am yr hwn yr ydym yn ysgrifenu, sefydlu cymmanfaoedd; ac yn y cymmanfaoedd hyny, dechreu-

asant ymarddelwi hawl i wneuthur cyfreithiau a rheolau, a gosod i fynu ddefodau newyddion, yn yr eglwysi, a gofyn ymostyngiad iddynt gan y rhai hyny; dan y golled o ddeoliad hollol, os amgen. Trwy hyn dechreuwyd newid egwyddorion sylfaeniad yr eglwysi, a'u dwyn i fod yn gyfrifol i ddynion meirwon, yn lle i'r Duw byw; a neillduwyd penaduriaid dynol i ofalu am, a llywodraethu yr eglwys, yn lle ei phen a'i phriodol Briod. Trwy ryw foddion fel hyn, daeth un penadur i fod yn benaeth cyffredinol iddi A dyma y dirywiad yn ei gyflawn nerth, yr hyn a fydd o dan ein sylw fel yr elom yn mlaen.

Y mae cymmanfaoedd y cyfryw nad ellir dywedyd yn eu herbyn, mwy na moddion eraill, pan yr ymdrinir â hwy ar egwyddorion moesol, er rhoddi gwybodaeth, dysgeidiaeth, cyfarwyddiadau, a chynghorion. Ond pan eu cynnullir ac y cynhelir hwy ar egwyddorion seneddau a llysoedd brawd, i wneuthur cyfreithiau, ac i weini llywodraeth yr eglwysi ynddynt—fel y gwnaed y rhan amlaf o lawer, er eu dechreuad hyd yn awr—y maent, fel y peiriannau gwaith grymusaf, wedi bod yn ddechreuad ac yn gynnaliaeth i bob drygau ac annhrefn yn yr eglwys; yn gŵyr-wneud crefydd yn hollol, o ran ei hegwyddorion a'i dybenion, trwy ei throi, yn lle bod yn oruchel barch a rhyddwasanaeth i'r Jehofah, i fod yn gaethiwed, ac yn ddynol barch a gwasanaeth i greaduriaid marwol. Dangoswyd yn ein hanes am y canrif diweddaf, nad oes un crybwylliad yn yr ysgrythyr am ddim yn debyg i'r hyn a elwid mewn amser dyfodol yn gymmanfaoedd, neu gynghorfëydd. Dywed Mosheim, nad oedd yr amlygiad lleiaf am ddim yn debyg iddynt hyd tua chanol y canrif hwn; pan y dechreuwyd hwy gan y Groegiaid, y rhai a arferent mewn ystyr naturiol, i uno gwahanol sefydliadau llywodraethol â'u gilydd o dan unbenaeth. Felly y meddyliasant wneuthur â'r gwahanol eglwysi ag oedd yn eu plith, sef eu huno yn un eglwys daleithiol, mewn cwlwm cymmanfäol. Oddi wrthynt hwy, medd ef, yr aeth yr arferiad allan trwy yr holl wledydd, lle y pregethid yr efengyl; fel y gwelwn fod amryw gymmanfaoedd wedi cael eu cynnal, mewn gwahanol wledydd, cyn diwedd y canrif hwn.*

Ystyrid y cymmanfaoedd hyn yn gyffredinol, ac yn neillduol, neu yn daleithiol. I'r rhai cyffredinol, yr oedd cennadau o bob parth o'r byd, lle byddai eglwysi wedi eu plannu, i gael eu hanfon; nid llawer o'r rhai hyn a fu er y dechreuad. Y rhai neillduol, neu daleithiol, oeddynt yn cael eu gwneuthur i fynu gan ryw nifer o eglwysi a anfonai eu cennadau i gyfarfod â'u gilydd mewn rhyw un lle bob blwyddyn, neu yn amlach, fel y byddai yr achos yn gofyn. A'r hwn a arferai flaenori yn y rhai hyn, a ddaeth i gael ei ystyried yn esgob y dalaeth honno. Ymdrinient yn y cyfarfodydd hyn âg achosion yr eglwysi a anfonasent eu cennadau yno; gwnaent gyfreithiau a rheolau, pa rai a elwir yn ganonau; ac a ddodent ar y rhai a berthynent i'r gymmanfa i'w cadw; a dygent y troseddwr o honynt i gyfrif; a dedfrydent ef i gospedigaeth yn ol ei fai, yn gymmaint â phe troseddasai y rhanau mwyaf pwysig o air Duw. Yn y dechreu nid oedd awdurdod ac effeithioldeb y cymmanfaoedd taleithiol hyn yn cyrhaedd yn mhellach na'r dalaeth y perthynent hwy iddi: eithr yn fuan gwelwn fod esgobion, ag oedd yn gwneuthur i fynu gymmanfa, mewn un dalaeth, am estyn eu hawdurdod dros daleithiau eraill, er eu dedfrydu i gospedigaeth o ddeoliad, am na chydymffurfient â'u gosodiadau hwy. Nid yw yn amlwg wrth ba reol yr oedd-

* Mosheim's Eccl. Hist. cent. 2, part 2, chap. 2.

ynt yn rhanu y taleithiau a berthynai i bob cymmanfa; canys gwelwn fod rhai yn llawer mwy na'u gilydd, ac yn fwy ar rai amserau na'u gilydd. Yr oedd llawer iawn o esgobion mewn rhai cymmanfaoedd yn Affrica, yn amser Cyprian. Daeth y cynnulleidfaoedd a berthynai i'r cymmanfaoedd taleithiol hyn, i gael eu galw yn eglwys y dalaith hon neu'r llall, yn lle yr hen ddull o'u galw yn eglwysi; ac nid hir y bu y blaenoriaid a gyfarfyddent yn y cyfryw gymmanfaoedd cyn arddelwi iddynt eu hunain yr enw eglwys; a pha ham lai? o blegid yspeiliasant yr eglwysi o'u gwaith, eu breintiau, a'u rhyddid.

Dywed Mosheim drachefn,—"Newidiodd y cymmanfaoedd hyn ddull eu hagwedd cyntefig tu ag at yr eglwysi, ac a'u dygasant yn hollol i drefn newydd: canys trwy y rhai hyn, lleihawyd rhyddid a breintiau dechreuol y bobl, ac ychwanegwyd gallu ac awdurdod yr esgobion yn fawr. Ni oddefai gostyngeiddrwydd a challineb y gweinidogion duwiol a fu gyntaf yn yr eglwysi ar ol yr apostolion, iddynt arddelwi iddynt eu hunain y fath allu ac arglwyddiaeth âg a ymwisgodd y rhai a ddaethai yn ganlynol iddynt hwy. Ar y cyntaf cydnabyddid mai cennadau yr eglwysi oeddynt, ag oedd yn eu cynnrychioli hwynt, a'u bod yn gweithredu yn enw, a thrwy awdurdod, y bobl; ond yn fuan anghofiasant yr iaith a'r agwedd ostyngedig hon; mewn modd annirnadwy ymehangasant derfynau eu hawdurdod, fel y trôdd eu gweithredoedd gwasanaethgar yn arglwyddiaeth ormesol, a'u cynghorion, yn gyfreithiau llymdost; ac yr haerent yn eofn eu bod hwy wedi eu hawdurdodi gan Iesu Grist, i arddodi i'w bobl reolau llywyddol i'w ffydd a'u hymarweddiad."* Daeth pethau eraill i mewn trwy y cymmanfaoedd hyn, a fu yn ddefnyddiau neillduol i adeiladu Babilon Fawr, sef y gwahaniaeth mawr a wnaethant rhwng swyddwyr yr eglwysi â'u gilydd, a rhwng y swyddogion a'r bobl, trwy alw y naill yn wŷr llên *(clergy)* a'r lleill yn wŷr llëyg *(laymen.)*† Ni ymddangosai y gwahaniaeth hwn ond bychan a dibwys ar y cyntaf, ond chwyddodd yn fwy; a sefydlwyd ef trwy awdurdodau cymmanfaoedd; a bu, yn y canlyniad, yn foddion i fawrhau awdurdod gormesol yr esgobion, ac i iselhau a difeddiannu y bobl o'u breintiau a'u rhyddid eglwysig.

Yr oedd yr eglwysi ar y cyntaf i ddewis ac anfon cennadau drostynt i'r cymmanfaoedd; ac fel y daeth i'r un rhai gael eu dewis i'r gorchwyl hwn o hyd, daethant i feddu trwy hyn ar fwy o awdurdod a llywodraeth yn yr eglwysi na'u brodyr; a daeth yr henuriaid eglwysig i gael eu hystyried yn fuan yn is-radd iddynt.

Yr oedd awdurdod dybiol yr esgobion a'r cymmanfaoedd wedi cynnyddu yn fawr cyn diwedd yr ail ganrif; fel y gwelir yn achos Victor, esgob Rhufain, ac ychydig o'i frodyr yn yr Ital, mewn cymmanfa, pan y tybiasant y medrent esgymmuno holl eglwysi y dwyrain, a'u gweinidogion, am na chadwent y

* Dechreuasant ddywedyd, "Fod yr eglwysi yn orphwysedig ar yr esgobion, gan ba rai y gweinyddid yn benaf eu holl lywodraeth hwy." a chysson â hyny y gweithredasant. *Cyprian.* Mosheim's Eccl. Hist, vol. i. p. 159. *Clergy*, yn ol yr ystyr a briodolent hwy i'r gair, a arwyddai, *etifeddineth briodol a neillduol yr Arglwydd.* Yn mhen amser daethant i ystyried fod pob un a ymwisgai â'r enw yn fwy dysgedig, medrus, cyflawnach o wybodaeth, doethineb, deall da, a phob addurniadau sancteiddiol, na neb arall, *Laymen*, yr hyn a arwyddai yn yr ystyr a briodolid iddo ar y cyntaf, *y bobloedd;* eithr mewn amser dyfodol, olrheiniasant y gair oddi with *lapis*, hyny yw *carreg*, yr hyn a arwyddai, yn ol eu golygiad hwy, dynion annysgedig, tywyll, anfedrus, disynwyr, annheimladwy, ac anghymmwys iawn i ymddiried pethau crefyddol iddynt. Dyma'r modd yr iselhawyd y naill, ac y dyrchafwyd y llall, ac y cyflawnhawyd y cyssegr-yspail o fyned â'r llywodraeth eglwysig o law y bobl i ddwylaw yr esgobion.

† Dr. Campbell's Eccl. Hist. vol. i. p. 297—305.

Pasg ar yr un amser â hwy yn Europe. Helaethwyd terfynau yr eglwys Gristionogol yn fawr yn y canrif hwn; ac yn mhob man lle y seiniai yr efengyl, ac y plennid eglwysi, ymdrechid sefydlu a chynnal cymmanfaoedd yno. I'r un graddau âg y cynnyddodd gallu ac awdurdod y cymmanfaoedd, y lleihawyd breintiau a rhyddid y bobl—y mwyhawyd y gwahaniaeth rhwng y swyddwyr eglwysig—ac y cadarnhawyd awdurdod ac uchafiaeth yr esgobion.* Meddyliasant yn fuan ar ol y canrif hwn, i wneuthur yr holl eglwysi trwy y byd yn un sefydliad mawr, ac yn un mewn cwlwm cymmanfäol, a'r holl sefydliadau taleithiol i'w hystyried yn aelodau, ac yn wasanaethgar i'r un sefydliad cyffredin hwnw. I ofalu am y sefydliad cyffredin, yr oedd yn rhaid gwneuthur swyddwyr newyddion, na chlybuwyd am danynt o'r blaen, yn yr eglwys, pa rai a enwyd yn Batriarchiaid. Cawn sylwi ychwaneg ar y rhai hyn fel yr elom yn mlaen. Gwnaeth yr athrawon Cristionogol i'r bobl gredu mai ewyllys Crist oedd iddynt hwy fwynhau yr un hawl, breintiau, gradd, a sefyllfa yn yr eglwys Gristionogol, âg a fwynhâai yr offeiriaid Iuddewig yn eu sefydliad hwy. Bu y grediniaeth hon yn achos o anrhydedd ac elw mawr i'r urddiad sanctaidd. Y dybiaeth yma a ddechreuodd gael lle, a'i gosod allan yn dra egniol, yn fuan ar ol dinystriad Jerusalem yn amser Adrian; pan y collwyd pob gobaith am adferiad a sefydliad gwladol ac eglwysig yr Iuddewon, i'w ogoniant blaenorol, ac i'w gwlad gael ei dyrchafu o'i hadfail. Meddyliodd yr esgobion y gallent hwy ddyfod i mewn i'w meddiant, a chael eu gwisgo âg anrhydedd, a'u gosod mewn cymmeriad a gradd, yn debyg i'w harchoffeiriaid hwy, a'r henuriaid yn debyg i'w hoffeiriaid, a'r diaconiaid fel eu Lefiaid. Nid yw yn debyg fod y rhai a luniasant ac a ddechreuasant y dybiaeth wrthun hon—sef gwneuthur cymhariaeth rhwng swyddwyr oedd mor wahanol yn nattur a dybenion eu swydd—yn meddwl ac yn amcanu at y canlyniadau a gymmerasant le trwy hyny; eithr meddylir eu bod yn gwneuthur hyn mewn anwybodaeth a diniweidrwydd. Ond pan unwaith y cyhoeddwyd ac y sefydlwyd y dybiaeth, hi a ddygodd ei heffeithiau naturiol; a'r effeithiau hyny oedd y rhai mwyaf niweidiol i grefydd bur, a'r hwylusdod mwyaf i ddygiad i mewn ddirgelwch yr anwiredd. Bu y cyfeiliornad hwn yn achos i wahaniaeth gael ei sefydlu rhwng y gweinidogion a phobl eu gofal, na oddefai nattur bur, hynaws, a gostyngedig yr efengyl, mo hono. Oddi wrth hyn daeth gweinidogion y Testament Newydd i gael eu galw yn offeiriaid, a daeth y gair *arch* i gael ei gyssylltu âg enwau rhai o honynt.†

Gwedi newid fel hyn drefn ac egwyddorion sylfaenol yr eglwysi, a'u dwyn i agwedd gydrywiol âg egwyddorion y cymmanfaoedd, y rhai oeddynt fel peiriannau galluog a chymmwys, neu fel y garreg anianol, y dychymmygir am dani, yr hon a dry yr oll a gyffyrddo â hi yn aur—felly, rhoddent argraffiadau o sancteiddrwydd ar bob peth a gyffyrddent âg ef, a thaeniad rhwydd, effeithiol, a chyffredinol, trwy yr eglwysi, i'r hyn oll a argraffent. Felly, o hyn allan, nid oedd unrhyw athrawiaeth, pa mor wrthun ac anysgrythyrol bynag, nac unrhyw ymarferiad neu ddefod er pa mor wael ac afresymol bynag, na fedrai y cymmanfaoedd hyn eu sanctteiddio, a'u gosod mewn cymmeradwyaeth ac ymarferiad, yn yr hyn a elwid yn eglwys Gristionogol. Ni ddywedir fod y dirywiad hwn yn hollol fel

* Dr. Campbell's Lect. on Eccl. Hist. vol. i. p. 218.
† Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 98. and Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 180.

hyn ar unwaith, neu fod yr eglwysi wedi cael eu dwyn yn gwbl i'r sefyllfa hon yn y canrif hwn, nac ar unrhyw amser arbenig: eithr dywedir yn hyf, mai newidiad trefn ac egwyddorion llywyddol yr eglwys i sefydliad y cymmanfaoedd, a rhoddiad y fath awdurdod yn meddiant swyddogion yr eglwysi, a ddechreuodd yn y canrif hwn, ydoedd dechreuad yr holl ddirywiad a'r annhrefn a welwyd yn y byd yn mhlith y rhai a enwid yn Gristionogion.*

Yn nheyrnasiad yr amherawdwyr hyglod a fu yn eistedd ar orsedd Rhufain yn y canrif hwn, adfywiodd dysgeidiaeth a phob celfyddydau defnyddiol trwy yr amherodraeth; a sefydlwyd athrofäau er dwyn hyn yn mlaen, yn y naill fan a'r llall. Y gwahanol bleidiau o philosophyddion a adfywiasant, ac a ymdrechasant i ledanu eu gwahanol olygiadau, gan fod y byd y pryd hwnw mewn adnewyddol ysgogiad meddwl am bethau. Ond, er fod un o'r amherawdwyr yn Stoiciad o farn, ac yn selog iawn dros hyny, etto y cyfryw oedd ansawdd calon a moesau dynion yn gyffredin, fel na lwyddodd y blaid hon ond ychydig, o herwydd caethder ei rheolau; eithr Epicuriaeth a lwyddodd yn fawr, am ei bod yn gyferbyniol yn ei rheolau, ac yn bleidgar i foddest ac anfoesoldeb. Amryw o ddynion enwog mewn dysg a dawn, a ymddangosasant tua'r pryd hwn yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid; ond nid neb yn fwy felly yn mhlith y blaenaf, na Plutarch.

Tua diwedd y canrif hwn, cododd plaid newydd o philosophyddion, ac a lwyddasant gyda chyflymdra anghyffredin, nes y bu agos iddynt dafiu pleidwyr y daliadau eraill i'r cysgod. Trwy holl amherodraeth Rhufain, llwyddodd y golygiadau hyn nes y bu agos i bob rhai eraill gael eu llwyr anghofio, a mawr yr effaith a'r niwaid a wnaethant i Gristionogaeth. Yn Alexandria, yn yr Aipht, y wlad a fuasai er ys oesoedd yn eisteddle gwybodaeth, a phob celfyddydau, y dechreuodd y cyfundraith philosophyddaidd hwn gael ei ffurfio; ac oddi yno ymdaenodd dros y gwledydd. Hoffai pleidwyr y dybiaeth hon gael eu galw yn Blatoniaid, er eu bod yn mhell iawn o fod yn proffesu egwyddorion yr athronwr hyglod Plato. Eu rheswm dros gymmeryd yr enw hwn oedd, eu bod yn edrych ar olygiadau Plato am Dduw—am y byd arall—ac am y bodau ysbrydol, yn nes i'r gwirionedd nag eiddo neb o'r doethion eraill a fu yn y byd. Prif egwyddor sylfaenol y cyfundraith newydd hwn oedd, nad edrychai ei bleidwyr ar fod gwirionedd i'w gael mewn unrhyw gyfundraith unigol, nac yn mysg unrhyw enwad o ddynion, ond yn wasgaredig trwy bob cyfundraethau, ac yn mhlith pawb dynion, ac mai dyledswydd dynion doethion oedd chwilio am dano, yn mhob lle, ac yn mhlith pob pleidiau. Rhoddai eu hymddangosiad o fod yn rhydd-ymofynwyr am y gwirionedd, gymmeriad mawr a derbyniad helaeth iddynt gan y cyffredin; a'u gwaith yn proffesu eu bod yn crynhoi ac yn casglu y gwir o gredöau a golygiadau pawb, a'u gwnaeth yn enwog yn ngolwg pawb. Yr egwyddor rydd, foneddigaidd, ac anmhleidgar hon, ag oedd yn sylfaen i'r gyfundraith newydd, a argraffodd arni fesur mawr o enwogrwydd, uwchlaw unrhyw gyfundraith arall yn ngolwg dynion, ac a roddodd iddi ledaniad rhwydd a helaeth yn mhlith pob enwad.†

Daeth y golygiadau newyddion sydd dan ein sylw, yn fuan i gael cryn barch—yn mhlith y Cristionogion yn enwedig—yn mysg y rhai hyny a flaenorent yn yr athrofa ag oedd ganddynt i ddwyn dynion ieuaingc i fynu mewn dysgeidiaeth, yn Alexandria. Nid yw yn amlwg pa bryd y

* Dr. Campbell's Lect. on Eccl. Hist. vol. 1. p. 297—303. † Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 168.

sefydlwyd yr athrofa uchod, na pha rai o'i hathrawon oeddynt y cyntaf a gofleidiasant ac a broffesasant yr egwyddorion newyddion hyn nghylch anianyddiaeth. Meddylir fod Athengoras, Pantæus, a Clemens o Alexandria, wedi bod oll yn athrawon yn yr athrofa hon; a'r diweddaf ydoedd bleidiwr neillduol i'r golygiadau newyddion crybwylledig. Eithr un Ammonius Saccus, priodor o Alexandria, a aned, meddir, o rieni Cristionogol—a phroffesai Gristionogaeth ei hun yn more ei oes, eithr a'i gadawodd, fel y dywed rhai; eraill a wadant hyn, ac a haerant iddo ddwyn yr enw Cristion dros ei fywyd—a fu yn foddion i ddwyn i mewn y dybiaeth flaenorol i blith y Cristionogion, i'w huno â Christionogaeth, a'i ffurfio yn rhyw fath o gyfundraith. Nid yw yn gwbl eglur pa un ai yn niwedd y canrif hwn, ai yn nechreu y nesaf, y bu y gwr hwn yn byw: eithr dywedir yn amlwg fod Origen yn ddysgybl iddo—ond dywedir hyn yn aml am rai oedd o'r un golygiadau â'r blaenaf, tra nad oeddynt wedi bod dan olygiad a dysgeidiaeth y cyfryw yn bersonol. Beth bynag am yr amser y bu Ammonius byw, a pha un byhag a lýnodd trwy ei oes gyda'r Cristionogion, ai peidio, nid yw o gymmaint pwys; eithr hyn sydd eglur, ddarfod i'r egwyddorion a gofleidiodd, a'r ymdrechiadau a arferodd, fod yn dra niweidiol, ac yn achos o lygredigaeth mawr, i Gristionogaeth. Canys yn ol yr egwyddorion hyn, dinystrid gogoniant a harddwch Cristionogaeth ar unwaith, trwy eu bod yn cymmeryd ymaith ei gwirionedd a'i neillduolrwydd, ac athrawiaethau pwysig yr efengyl yn cael eu gosod ar yr un tir â chwedl-wersi Paganaidd. Barnai efe mai rhodd iachusol y Jehofah i ddynion oedd gwir philosophyddiaeth, a bod ei hegwyddorion yn wasgaredig trwy holl chwedl-wersi a dysgeidiaeth dynion, yn enwedig yn mhlith y dwyreinwyr; ond eu bod wedi ei chamddeall a'i llygru yn fawr trwy gredöau ac ymarferiadau coel-grefyddol gwahanol genhedlaethau y ddaear; ac mai dyben Iesu Grist wrth ddyfod i'r byd oedd, rhoddi terfynau priodol i ddefodau a seremoniau coelgrefyddol y gwahanol genhedlaethau—symmud ymaith y cyfeiliornadau a ymlusgodd i mewn i dywyllu ac anharddu egwyddorion dechreuol gwir philosophyddiaeth yn mhlith pawb—ac nad oedd efe wedi amcanu dileu yr egwyddorion hyn, na ffurfio unrhyw gyfundraith o grefydd newydd, ag oedd yn anghysson à'r rhai hyny.*

I'r dyben o ddwyn yn mlaen y cyssylltiad anghenfilaidd hwn, ac i uno amryw athrawiaethau anghydrywiol yn eu nattur â'u gilydd, yr oedd yn rhaid fod ymdrech mawr i ystwytho pob ochr; rhaid oedd gŵyrdroi llawer o eiriau ac ymadroddion allan o'u hystyr gyssefin a phriodol—gadael heibio, yn y naill a'r llall, lawer o bethau fel llygredigaethau a ymlusgasent i mewn—a throi lluaws mawr o ymadroddion, athrawiaethau, a gorchymynion eglur yr efengyl, yn iaith ffiguraidd, i'w deall mewn ystyr ysbrydol. Mae yn debygol mai yr egwyddorion a'r athrawiaeth a briodolid i Hermes, prif ddysgawdwr yr Aiphtiaid mewn celfyddydau—eglurhad ar ba rai y golygai efe waith Plato—oedd prif brofiedydd Ammonius, i gyssondeb â pha un yr ymdrechai efe ddwyn egwyddorion a daliadau pawb pleidiau ac enwadau eraill trwy y byd. Rhanai holl drigolion y ddaear yn ddau ddosparth, sef y rhai cyffredin, a'r rhai ysbrydoledig. I'r rhai hyn rhoddodd amryw reolau moesau ac ymddygiadau, ag oedd yn dwyn cryn ymddangosiad o lymdoster a marweidd-dra, yn enwedig i'r dosparth diweddaf; fel, trwy y ddysgyblaeth

* Mosheim's Eccl. Hist. p. 169.

farweiddiedig, a'r moddion a orchymynai efe iddynt, y cyrhaeddent burdeb a pherffeithrwydd meddwl, a chynnal cymundeb gwastadol â'r bodau anweledig, bod yn wybodus o'r duwiau, ac yn alluog i wneuthur llawer o bethau rhyfedd trwy eu cynnorthwyon. Y rheolau moesau a roid i'r cyffredin, y rhai oeddynt yn byw yn ol nattur, yn ymhyraeth âg achosion y bywyd hwn, a elwid yn gyfreithiau. Eithr y rheolau ardderchog a rodded i'r doethion ysbrydoledig, y rhai oeddynt i fyw uwchlaw pethau y bywyd hwn, ac i ymgyrhaedd, mewn lleoedd dëoledig, at ogoniant y byd ysbrydol, a elwid yn gynghorion. Ymdrechwyd yn foreu iawn i ddwyn yr ysgrythyrau i amddiffyn y gwahaniaeth, a'r ddau fath reolau hyn i ddynion, trwy geisio dangos fod Iesu Grist wedi eu dysgu i'w ddysgyblion, trwy draddodiad dirgelaidd, ac amcan cyfrinol ei ddysgeidiaeth yn yr efengyl.

Anfuddiol a fyddai adrodd yr holl bethau, a'r gwahanol ddull, a arferai y doethion ffug-ysbrydoledig hyn, yn ol egwyddorion y Platoniaeth newydd, er gwahaniaethu eu hunain oddi wrth y bobl gyffredin — trwy eu gwisgiadau, yn y canrif hwn, ac mewn amser dyfodol, yn lleoedd eu preswylfod; a'r gerwindeb a arferent er dinystrio y cnawd, er cael yr ysbryd, meddent, yn fwy dëoledig oddi wrtho; a phuro y meddwl, er dwyn eu hunain i gyrhaedd graddau anghyffredin o sancteiddrwydd. Barnent fod y doethion hyn, a barchent eu hunain trwy ddifa eu cnawd, trwy y moddion marweiddiedig hyn, ac oeddynt yn byw bywyd ysbrydoledig nefolaidd ar y ddaear, nid yn unig yn cyrhaedd rhyw freintiau anarferol yn y byd, ond hefyd, trwy hyn, yn ymachub rhag myned trwy y puredigaeth a'r profiad gerwin ag sydd yn aros y cyffredinolrwydd o ddynolryw mewn byd arall, cyn y gallont fwynhau gwynfyd. Yr oedd hon yn hen athrawiaeth yn nghredöau y philosophyddion gynt; ond a adnewyddwyd gan y Platoniaid newyddion; a thrwyddynt hwy, dygwyd hi i blith y Cristionogion. Gwrthsafwyd yr egwyddorion hyn, dros amser, gan amryw weinidogion ag eglwysi yn egniol iawn. Trwy eu bod yn cael eu mynwesu gan y dynion mwyaf dysgedig yn mhlith y Cristionogion ar y cyntaf, gwnaeth hyn i lawer feddwl yn ddrwg am ddysgeidiaeth ddynol, a dywedyd am dani fel peth afreidiol a niweidiol i'r weinidogaeth efengylaidd. Achosodd hyn ddadl frwd a hirfaith yn yr eglwys, a pharha hyd heddyw, mewn rhyw ystyr. Y rhai hyny a gyrhaeddasent fesur o wybodaeth mewn anianyddiaeth a dysgeidiaeth gelfyddydol, a fynent fod y pethau hyn yn gymmwysder anhebgorol angenrheidiol i waith y weinidogaeth efengylaidd; fel y gallent amddiffyn y gwirionedd yn fwy grymus, a dysgu yr annysgedig yn fwy llwyddiannus. Eraill, wrth edrych ar effeithiau annymunol egwyddorion y Plantoniaeth newydd ar Gristionogaeth, a wrthwynebent bob math o ddysgeidiaeth ddynol, fel pe buasai yr egwyddorion hyny a'u cyffelyb yn anwahanedig oddi wrth wir ddysgeidiaeth; ac yr oeddynt am ddëol pob math o ddadleuaeth ac ymresymiad allan o derfynau yr eglwysi, fel pethau niweidiol i ysbryd gwir grefydd. Yn mhen amser, y rhai hyny ag oedd dros wybodaeth anianyddol a dysgeidiaeth ddynol, a lwyddasant, fel y gwnaed cyfreithiau trwy eu cymmanfaoedd, i gau allan yr anllythyrenog a'r anwybodus o fod yn gymmwys weinidog yn yr eglwysi.

Y golygiadau newyddion a elwir Plantoniaeth newydd, a lwyddasant mor gyflym a helaeth, fel nad oedd braidd un gweinidog, nac eglwys Gristionogol, heb eu mawr effeithio ganddynt, cyn diwedd y trydydd canrif. Anhawdd yw dywedyd na dirnad y modd yr effeithiasant, a'r graddau o ddrygau a

wnaethant i'r eglwysi. Nid yn unig yr oedd hyn fel rhyw aelod pwdr wrth gorph iach—fel rhyw un cyfeiliornad cyffredin, eithr fel gwaed afiach yn rhedeg trwy holl wythienau y corph, yn ei afiachâu oll. Felly y gwnaeth yr egwyddorion afiach hyn; rhedasant trwy bob cangen o Gristionogaeth, fel y gwanychwyd hi oll.

Yn ol yr egwyddorion hyn, yr oedd chwedlwersi a mwys-eiriau y dwyreinwyr, â chymmaint o wirionedd ynddynt, a'u deall yn iawn, âg oedd mewn unrhyw ymadroddion ysgrythyrol; a'r defodau coel-grefyddol a arferid gan y Paganiaid, o gymmaint pwys, ac mor deilwng o'u sylw a'u hymarferiad, â gorchymynion ein Harglwydd Iesu, a'i apostolion. Oddi wrth y rhai hyn y deilliodd y ddysgeidiaeth gyfrwys honno yn mhlith athrawon yr eglwysi, sef troi y pethau mwyaf eglur yn yr ysgrythyrau i dywyllwch, a'u gwneuthur oll yn aneglur a ffiguraidd. Y pethau ag sydd yn nghrefydd Iesu Grist mor amlwg ag y dichon y gwanaf o'i ganlynwyr, a'r hwn sydd yn rhedeg, eu deall, aosodwyd allan, yn ol yr egwyddorion hyn, fel pethau âg iddynt ryw ystyr cyfrinol, a dirgeledigaethau anweledig, ac annirnadwy i neb, ond y doethion ysbrydoledig. Oddi wrth hyny y barnwyd fod gair Duw yn anaddas i'r bobl gyffredin yn eu hiaith gyssefin, ac y tarddodd yr holl ddadleuaeth ddifudd a fu rhwng ysgolheigion am agos pob peth a berthyna i Gristionogaeth. Oddi wrth yr egwyddorion hyn hefyd yr heidiodd y lluaws mawr hyny o ddynion a elwir Cyfrinolwyr *(Mystics,)* pa rai a arddelwent iddynt eu hunain y fraint o ddeall meddwl cyfrinachol yr ysgrythyrau. Byddai y rhai hyn yn cael eu galw weithiau ECLECTICIAID, mewn cyfeiriad at hen blaid o philosophyddion ag oedd yn dwyn yr enw hwn yn y cynoesoedd; a phryd arall, gelwid hwy ASCETICIAID. Dibrisient ystyr llythyrenol, a golygiadau grammadegol ar yr ysgrythyrau, ond edrychent arnynt oll yn ddammeg, yn mha un y dywedai yr Arglwydd un peth, ac y meddyliai beth arall, ac mai hwynt-hwy oedd yn deall y meddwl hwnw.*

Trwy yr egwyddorion hyn, agorwyd drws digon rhwydd a llydan i ddwyn i mewn unrhyw ymarferiad o blith y Paganiaid, neu yr Iuddewon, i'w ychwanegu at osodiadau yr efengyl, os gwelai rhyw rai ef, yn wasanaethgar. Canys yn ol y dybiaeth newydd hon, safai pob crefydd yn hollol ar yr un tir â'u gilydd—gwirionedd yn wasgaredig yn mhlith pawb, a dyledswydd dynion oedd ei gasglu yn nghyd, er eu hymarferiad o hono. Oddi wrth y rhai hyn hefyd yr heidiodd y myrddiynau mynachod segurllyd, a dreuliasant eu bywydau yn eu celloedd dëoledig, gan honni eu bod yn rhy ysbrydoledig a sanctaidd i fywioliaethu yn mhlith dynion; a'u bod yn arwain bywyd uchelaidd, goruwch pethau y byd presennol.

Gorchwyl diddiwedd a fyddai olrhain holl dueddiadau niweidiol, a chanlyniadau anocheladwy yr egwyddorion hyn, er anurddo Cristionogaeth, a'r holl ffrydiau gwenwynig a darddodd oddi wrth y cyfundraith afiachus hwnw. Yr ymdrechiad digyffelyb, a ddechreuwyd yn yr ail ganrif, o wneuthur y cyssylltiad anghenfilaidd hwnw, sef ceisio uno celwydd a gwirionedd, a thywyllwch a goleuni, â'u gilydd, a effeithiodd yn yr oesoedd dyfodol i wylltio meddyliau dynion, i ryw bellafoedd, oddi wrth ysbryd, nattur, a gwirioneddau Cristionogaeth; ac a ddygasant i mewn i grêd ac ymarferiad, yn lle efengyl bur, syml, a goruchel, ryw gymmysgedd gwael o Blatoniaeth a Christionogaeth. Fel y sylwyd yn barod, nid oedd yr athrawon Cristionogol, a

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 196.

ddilynasant yr apostolion, hyd yr amser yr ydym yn ysgrifenu yn ei gylch, ond dynion diaddurniadau, o ran hyawdledd, athrylithrwydd, a gwybodaeth celfyddydol; eithr yn hynod mewn duwioldeb a'u sêl dros y gwirionedd; yn traddodi eu cennadwri am Iesu Grist mewn ymadroddion cyssefin, isel, ac eglur, heb unrhyw ffurf addurniedig yn null a chyfansoddiad eu hareithiau. Ond dechreuodd newidiad buan ddyfod i mewn. Yn lle y symledd hybarch a ymddangosai yn agwedd, dull, ac ymadroddion olynwyr uniongyrchol yr apostolion, daeth gweinidogion y gair i hoffi ymddangos fel rhyw brif ddysgawdwyr philosophyddaidd; ac i ddwyn yn mlaen eu gweinidogaeth mewn modd mwy dysgedig; a chyda dadleuaeth gyfrwysgall, gan beri i athrawiaethau egluraf yr efengyl gael eu tywyllu gan eu rhesymau a'u dychymmygion celfyddydol hwy. Gwnaed chwiliad manwl iawn i wahanol bethau crefyddol; codwyd dadleuaeth yn erbyn agos pob cangen o'r athrawiaeth Gristionogol. Eithr bu hyn yn anffodus. Ni wnaid penderfyniadau yn ol tystiolaeth eglur a syml yr ysgrythyrau, ond yn ol rheolau ac egwyddorion dychymmygol philosophyddiaeth, grymmusder, a'r rhifedi mwyaf yn eu cymmanfaoedd. Gosododd hyn fri mawr ar ddysgeidiaeth ddynol; fel y daeth yn fuan bod yn hyddysg mewn amrafael ganghenau dysgeidiaeth, ac yn wybodus yn ngwahanol ddadleuaeth yr oes, i'w ystyried yn brif gymmwysder i'r weinidogaeth.

Y cyfnewidiad annedwydd a niweidiol hwn, a ddechreuodd ymddangos yn agwedd a dull y grefydd Gristionogol yn y canrif hwn, oddi wrth ei symledd cyntefig, a briodolir i ddau o achosion,—y *cyntaf* yn tarddu oddi wrth falchder a ymlusgai i mewn i blith y rhai ag oedd yn weinidogion yr efengyl; a'r *ail*, oddiwrth ryw fath o angenrheidrwydd. Am y cyntaf, yr oedd yr athrawon Cristionogol am ymddangos yn yr un wisg, enwau, a gwychder allanol, â gweinidogion y grefydd Baganaidd, a'r un Iuddewaidd, pan yn ei gogoniant blaenorol; trwy ba rai yr oeddynt mewn parchedigaeth ac awdurdod mawr yn mysg y werin. Dechreuodd dynion dysgedig yn mhlith y Cristionogion feddwl mai y ffordd oreu i ennill gwyr o ddysg, a philosophyddion, i gymmeradwyo a mynwesu Cristionogaeth, oedd, iselhau, esmwythâu, ac ystwytho ei hathrawiaethau, yn gysson â golygiadau philosophyddol y gwyr doethion hyny. Ac fel yr ymddangosai gosodiadau syml yr efengyl yn well, ger bron y cenhedloedd a ymarferent yn barhaus â chyflawniadau rhwysgfawr a mawrwych, i'r golwg allanol, meddyliasant hwythau ei haddurno a'i phrydferthu, i'w barn hwy, â defodau crefyddol pob cenedl a breswyliai o'u hamgylch.

Un o brif ddadleuon yr Iuddewon a'r Paganiaid yn erbyn y Cristionogion ar y cyntaf, oedd, ei symledd—ei bod heb ei hallorau, ei themlau mawrwych, ei haberthau drudfawr, ei hoffeiriaid, a'i gwisgoedd sanctaidd, yn yr hyn bethau yr ystyrient hwy hanfodiad eu crefydd yn gynnwysedig. I'r dyben o symmud ymaith y gwrthddadl a'r tramgwydd hwn, blaenoriaid yr eglwysi a ymdrechasant i ymdebygoli iddynt, mewn pob defodau ac ymddangosiadau allanol, er ennill cymmeradwyaeth y werinos, a gwrthsefyll eu gwrthwynebwyr. Ond rhaid addef, mai ffordd dra chwithig a niweidiol oedd, sef cuddio gogoniant yr efengyl, er cael helaethach derbyniad iddi; a pheri iddi fod ar goll mewn gwir ardderchawgrwydd a gogoniant, er mwyn ennill poblogrwydd; a'i gwneud i ymddangos yn ddynol, er mwyn cael parch gan ddynion. Tybient mai rhyw gyflawniad tra ardderchog oedd iddynt allu gosod allan athrawiaethau yr efengyl, a gorchymynion Iesu Grist, o ran

ymadroddion, geiriau, ac arferiadau, yn yr un modd ag y gosodai anianyddion, dysgedigion, a doethion, yn mhlith Cenhedloedd ac Iuddewon, allan eu dirgeledigaethau, eu defodau, a'u harferion crefyddol hwy. Daeth y naill oes i ymdrechu i ragori ar y llall yn hyn. Dyma'r modd y tywyllwyd gogoniant Cristionogaeth, â defodau coelgrefyddol. Tynwyd ymaith dramgwydd y groes, a llanwyd y byd â sothach gwael, yn lle pur a syml wirioneddau yr efengyl.

Arferai yr Aiphtiaid, a llawer o'r dwyreinwyr, ddysgu pobl yn nirgeledigaethau eu defodau crefyddol trwy ddelwau, gweithrediadau, arwyddion, neu unrhyw ddarluniadau teimladwy a gweledig. Felly meddyliodd athrawon a blaenoriaid yr eglwysi, yn foreu, fod hon yn ffordd addas i ddysgu dynion yn nirgelwch yr efengyl. Oddi wrth hyn y tarddodd yr holl groesau a wneir gan Gristionogion ar bawb, o febyd i fedd, mewn amryw wledydd; yn enwedig yr arferiad o arwydd y groes mewn bedydd; a llawer o ddefodau eraill, a arferent ar yr amgylchiad; sef, gosod i fynu ddelwau yn eu lleoedd o addoliad, &c. tua diwedd yr ail ganrif, a ddechreu y trydydd. Y dwyreinwyr a arferent dybio fod hanfod y Duwdod yn y goleuni; a chan y deuai'r goleuni o'r dwyrain, byddent arferol o addoli â'u hwynebau tu ag yno, bob amser. Oddi wrth hyn y tarddodd yr arferiad, ag sydd hyd heddyw yn mhlith amryw a broffesant Gristionogaeth, o droi â'u hwynebau tua'r cwrr hwnw, pan yn gweddio.

Nid yw i'w ryfeddu i'r defodau coelgrefyddol hyn gael derbyniad buan, a llwyddiant helaeth, y pryd hwnw; canys dygasid y dychweledigion oll i fynu yn yr ymarferiad o'r pethau hyn, a'r cyffelyb, pan yn mhlith Iuddewon a Phaganiaid: er fod ymdrechiadau mawrion i ledanu yr ysgrythyrau, etto nid oeddynt ond anaml iawn yn nwylaw yr eglwysi yn yr ail a'r trydydd canrif. Ac wrth ystyried effeithioldeb egwyddorion y Platoniaeth newydd, yr hon oedd yn agor drws er rhoddi rhwydd fynediad i'r holl bethau hyn i'r eglwys, fel pethau, yn ol yr egwyddorion hyn, ag oedd yn berffaith gysson â'r efengyl, y mae fyth yn llai rhyfedd. Ond nid oedd un gyfraith wladol nac eglwysig wedi cael ei gosod i rwymo neb i gydffurfio â'r defodau hyn; eithr yr oedd pob eglwys at ei chyflawn ryddid i'w harfer neu beidio, hyd ddiwedd yr ail ganrif.

Yr ail reswm a roddir paham y daeth y fath newidiad yn agwedd a dull Cristionogaeth, oddi wrth ei symledd cyntefig, oedd rhyw fath o angenrheidrwydd, meddant, er mwyn gwrthwynebu y dadleuwyr haerllug a ymosodent ar Gristionogaeth, trwy eu twyll-resymau. Barnai yr athrawon Cristionogol, mai eu dyledswydd hwy oedd, cyfaddasu eu golygiadau âg egwyddorion yr efengyl, yn ol y dybiaeth gyffredin. Er ymarfogi eu hunain â rhesymau philosophyddol, ymdrechent fod yn hyddysg mewn naturiaethau ac egwyddorion; a gwybod y gwahaniaeth rhwng pethau i eithafoedd cynnildeb, fel y dymchwelent brofion a rhesymau twyllodrus eu gwrthwynebwyr. Nid oedd hyn yn anaddas, pan driniai dynion medrus hwynt; ond pan ddaeth dynion anwybodus a hunanol i ymdrin â hwy, fel y gwelir iddi fod, daethant yn achos o bob dyryswch a thywyllni, nes y bu agos iddynt orchuddio gwir Gristionogaeth, o ran ei dysgleirdeb llewyrchiadol, â thywyllwch caddugol. Fel prawf amlwg o hyn, gwelir y dyryswch a'r canlyniadau niweidiol a ddilynodd eu hymresymiadau yn nghylch yr athrawiaeth am eneidiau ymadawedig.

Dysgodd ein Harglwydd Iesu i'w ddysgyblion y ffaith syml ac amlwg,

sef, fod eneidiau dynion da, yn eu hymadawiad, yn esgyn i ddedwyddwch; ac eneidiau dynion drwg yn disgyn i le o boenau tragywyddol. Yr oedd canlynwyr Iesu Grist ar y cyntaf—gan y meddent ar fwy o dduwioldeb na chywreinrwydd—yn ymfoddloni ar dystiolaeth syml ac eglur y Gair am hyn. Ond pan ddechreuodd Platoniaeth ddyfod i mewn i'r eglwysi, dechreuasant ammau tystiolaeth yr ysgrythyrau yn ei gylch; a mynent wybod paham a pha fodd, &c. Yr oedd Plato yn dysgu i'w ddysgyblion mai eneidiau gwroniaid, dynion o enwogrwydd, ac athronwyr ardderchog oedd yn unig yn esgyn i ddedwyddwch a phreswylfod y goleuni; ond bod eneidiau dynion cyffredin yn cael eu gwasgu i waered i le o annedwyddwch, gan eu nwydau a'u chwantau; ac na chaniatteid iddynt ddyfod oddi yno, nes eu purid oddi wrth eu holl warth a'u llygredigaeth. Er fod Plato, fel ei athraw Socrates, yn golygu nad oedd ond un Duw Goruchaf, etto meddyliai fod ysbrydoedd gwroniaid, a dynion o enwogrwydd yn y byd yma, yn cael eu defnyddio fel rhyw gyfryngwyr, neu îs-dduwiau, yn llywyddiaeth achosion y byd hwn, wedi eu meirw.*

Hawdd iawn ydyw gweled y modd yr ymwylltiodd meddyliau yr athrawon Cristionogol, oddi wrth symledd yr efengyl, am yr athrawiaeth hon, dan effaith y farn Blatonaidd. Oddi wrth hon y deilliodd y dybiaeth foreuol yn yr eglwysi, nad oedd ond eneidiau y merthyron yn unig yn myned i le o ddedwyddwch; a bod yr holl eneidiau eraill yn disgyn i ryw le o buredigaeth, hyd yr adgyfodiad, neu tan eu glanheid. Oddi wrth y dybiaeth hon y cafwyd defnyddiau y Purdan; a thrwy hon y deallwyd am gyfryngdod y saint, ac sydd hyd heddyw yn cael ei ddal yn gyffredin, yn mhlith llawer a enwant eu hunain yn Gristionogion. Mewn gair, dilys yw, fod yn egwyddorion y Platoniaeth newydd, ddigon o ddefnyddiau at bob math o wag-ymarferion, ac aneirif ddefodau coelgrefyddol, pan o dan driniaeth dynion o ychydig athrylithrwydd, llawer o hunan a choeg-ddychymmygion.

Y mae yn wirionedd a eglurir yn lled gyffredin, nad oes un twyll yn dod wrtho ei hun yn unig, heb luaws o hudoliaethau i'w ganlyn; a bod un camgymmeriad yn arwain i eraill. Y Cristionogion cyntefig a fynwesasant y cyfundraith newydd, a ymwisgasant âg arferion ffiaidd y Platoniaid, ac a fabwysiadasant eu dull gerwin a dëoledig; hwy a wnaethant gam-gymmeriad a fu yn dra niweidiol i eglwys Dduw; ac a ddygasant ddirmyg o'r mwyaf ar eu crefydd ardderchog a rhesymol.

Ond nid arosasant yma: golygiad cyfeiliornus arall a gofleidiasant, yr hwn, er nad oedd mor gyffredinol â'r llall, etto oedd yn llawn mor afresymol ac anysgrythyrol; a bu yn ffynnonell i gryn lawer o ddrygau, oedd megys ffrydiau gwenwynig i'r eglwys Gristionogol. Yr oedd y Platoniaid a'r Pythagoriaid, er cynt, yn golygu ei bod nid yn unig yn gyfreithlon a goddefol, ond hefyd yn rhinweddol, i dwyllo yn grefyddol, fel y dywedent; a'i bod yn fuddiol i ddywedyd celwydd, os amcanent trwy hyny i helaethu achos gwirionedd a rhinwedd. Yr Iuddewon hefyd, a drigent yn yr Aipht, oeddynt wedi dysgu yr un athrawiaeth, fel y mae yn hawdd gweled wrth waith rhai o honynt; a chefnogent eu hunain yn y dybiaeth oddi wrth ranau o'r Hen Destament; megys gwaith Rebecca, a'r byd-wragedd yn yr Aipht, gynt.

* Yr oedd yr Iuddewon yn amser ein Harglwydd, o'r dybiaeth hon, fel y gwelir pan ofynodd.—"Pwy y mae dynion yn dywedyd fy mod i, Mab y dyn?" Y mae y dysgyblion yn atteb, Fod rhai yn dywedyd mai Ioan Fedyddiwr oedd; a rhai mai Ellas; ac eraill mai Jeremias, neu un o'r prophwydi: hyny yw, mai enaid un o'r hen wroniaid hyn oedd wedi dyfod yn llywydd i'r wlad, ac wedi ymddangos mewn corph.

O'r gwahanol ffynnonau hyn, rhedodd y cyfeiliornad allan fel ffrwd lifeiriol a gwenwynig, i blith amryw Gristionogion, cyn diwedd yr ail ganrif, er eu mawr lygredigaeth. Oddi wrth hyn, mae yn amlwg, y tarddodd yr amryw ddywediadau a welir mewn ysgrifau perthynol i'r oes honno, yn nghylch ysgrifau y Sibyliaid; a'r modd dibettrus y priodolant ysgrifau i awduron o enwogrwydd, pa rai a wyddent nad ysgrifenasid gan y cyfryw, i'r dyben iddynt gael derbyniad a chymmeradwyaeth. Ac i'r ffynnonell hon y priodolir yr holl ffug-wyrthiau a fu, y rhai y crybwyllir am danynt, er twyllo y byd. Canys, yn ol y dybiaeth hon, nid gwaeth pa un ai gwir ai ffug a fyddai y gwyrthiau, os gallesid dwyn dynion i gredu eu bod; ac yr effeithiai hyny er helaethu eu duwiolder. Yr oedd y twyll rhinweddol hwn, fel ei gelwir, yn cael ei arferyd ar y cyntaf gan lawer yn mhlith y rhai a elwir Gnostiaid; a gwych pe darfuasai gyda choffadwriaeth y rhai hyny. Ond ni ellir, mewn un wedd, ddieuogi y rhai uniawn-gred, fel rhai ag oedd yn rhydd oddi wrtho, a hyny mewn ymarferiad lled gyffredin.*

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 169—200.

PENNOD XII.

Lle y traethir am yr Awduron Cristionogol, a'u Gwaith, yn yr Ail Ganrif—yr Ymosodiadau a fu yn erbyn yr Eglwys gan Baganiaid, Iuddewon, a Chyfeiliornwyr a darddasant allan o blith y Cristionogion—y gwahanol Enwau a godasant i fynu—a'r Ymraniadau a fu yn yr Eglwysi y dyddiau hyny.

Er ffyniant yr egwyddorion niweidiol y sylwyd arnynt yn flaenorol, ni lwyddasant nemawr yn y canrif hwn, a'r un canlynol, i attal ymdrechiadau lled fawrion gael eu gwneuthur er lledaniad yr Ysgrythyrau Sanctaidd trwy bob gwlad, ac i barch mawr gael ei amlygu tu ag attynt gan y cyffredinolrwydd o'r eglwysi, fel eu prif brawf mewn pethau crefyddol. Ni dderbyniwyd yr egwyddorion hyny gan yr eglwysi i gyd ar unwaith; ac ni chymmeradwywyd hwy oll gan y cymmanfaoedd, am hir amser; ond bu gwrthwynebiad mawr iddynt mewn llawer o'u cynnadleddau, fel y sylwir etto. Dywedir gan Eusebius, fod amrai wedi ysgrifenu sylw-nodau ar yr ysgrythyrau yn yr amser hwnw; megys Pantænus, Clemens o Alexandria, Justin Ferthyr, Theophilus o Antiochia, pa rai sydd wedi myned ar goll, cyn yr oes bresennol. Dywedir hefyd fod un Tatian wedi ysgrifenu traethawd, er ceisio dangos cyssondeb y pedair efengyl.

Er mor ganmoladwy yr ymdrechiadau boreuol hyn o eiddo y gwyr uchod, ac er mor ddymunol, ar amryw ystyriaethau, fuasai fod eu gwaith ar gael hyd heddyw, etto, gellir fod yn dra sicr nad yw ein colled gymmaint, o ran dim gwir addysg a drosglwyddasent, rhagor nag y buasent yn brawf diymwad o'r parch oedd ganddynt i'r ysgrythyrau y pryd hwnw. O blegid trwy ddarfod i'r awduron hyn ddechreu llettya meddyliau am ystyr gyfrinachol i holl air Duw, anghymhwyswyd hwy yn fawr i osod allan wir ystyr yr Ysgrythyrau Sanctaidd, yr hyn a barai i'w gwaith fod yn dra annefnyddiol, ac yn llawer islaw ei werth ymddangosiadol, mewn amser dyfodol. Y ddau ystyr a briodolent i'r holl ysgrythyr oedd, un llythyrenol, ac ysbrydol, neu gyfrinachol: yr olaf a dybient ei fod yn guddiedig a dirgelaidd o dan y cyntaf, fel y mae y cnewyllyn yn y plisgyn. Nid edrychent ar ystyr llythyrenol ond gyda llawer o ddiystyrwch; pan y defnyddient eu holl ddoethineb, eu dysgeidiaeth, a'u dychymmygion, i chwilio allan yr ystyr gyfrinachol. Trwy hyny anurddasant eu gwaith, a defnyddiasant eu doniau i dywyllu yr ysgrythyrau, yn lle eu heglurhau; a chyfrgollwyd eu defnyddioldeb, yn eu tybiau dyeithr a gwylltion.

Ymddangosodd tair plaid o ysgrifenwyr yn erbyn Cristionogaeth yn yr oes honno, sef, Paganiaid, Iuddewon, a Chyfeiliornwyr a godasant yn mynwesau yr eglwysi Cristionogol eu hunain. Y prif awdwyr a ysgrifenasant yn eu herbyn, er amddiffyn Cristionogaeth, ac er gwrthsefyll yr enllibau

a'r celwyddau gwaradwyddus a fwrient hwy allan i'w herbyn, oedd, Athengoras, Melito gweinidog Sardis, Quadrantus, Miltiades, Aristides, Tatian, a Justin Ferthyr. Ac yn niwedd y canrif hwn, cododd i fynu Clemens o Alexandria, Tertulian, a Theophilus. Yr ysgrifenwyr hyn a ymosodasant ar Baganiaeth, er dangos ei gwaelder, yn egniol iawn, gyda llawer o ysbryd, barn, deheuder, ac mewn modd buddugoliaethus. Eithr nid oeddynt mor llwyddiannus, nac mor fedrus, i osod allan ogoniant, cyssondeb, cyflawnder, ac addasrwydd y grefydd Gristionogol, ar gyfer holl amgylchiadau dynolion, yn mhob rhyw sefyllfa, gyda'r un enwogrwydd ag y dymunid.

Rhai o'r awduron uchod a ysgrifenasant ar amryw bethau eraill, nad oedd ddadleugar. Er nad ymddengys doethineb mawr yn newisiad eu rhesymau, na grymusder a chywirdeb yn y rhesymau a arferent, na threiddgarwch i olrhain pethau i fanyldra, nac eglurdeb yn yr hyn yr ymdrinient âg ef—etto, ymddysgleiria eu gonestrwydd a'u mwyneidd-dra yn eu hysgrifau hwy, yn gymmaint â neb o'u holynwyr.*

Ni allodd yr Iuddewon, wedi amser Adrian, wneuthur ond ychydig ymegniad yn erbyn y Cristionogion, mewn un ffordd, o fewn i'r ail ganrif. Yr oedd y rhai a ystyrid yn gyfeiliornus, yn darddedig allan o fynwesau yr eglwysi Cristionogol, yn dra lluosog yn yr oes honno. Y blaid gyntaf o'r rhai hyn, a ellir eu henwi, oedd y DEDDFOLION, neu y cyfryw a fynent gyssylltu deddfau Moses a'r efengyl; ac a olygent eu hymostyngiad i ddefodau a seremoniau y gyfraith, mor angenrheidiol â Christ, fel defnydd eu cymmeradwyaeth gyda Duw; a bod Moses, o ran ei awdurdod, a pharhad ei weinidogaeth, yn un â Iesu Grist. Dechreuodd y blaid hon, fel y sylwyd yn barod, yn amser yr apostolion; yn erbyn pa rai yr ysgrifenodd yr apostol Paul ei lythyr rhagorol at y Rhufeiniaid, fel y tybir, a'r un at y Galatiaid, yn nghyd â'r un at yr Hebreaid. Eithr yr oedd y blaid hon y pryd hwnw yn wasgaredig trwy yr eglwysi yn gyffredin, yn enwedig yn mhlith yr eglwysi a wnaid i fynu o Iuddewon. Ond wedi i Adrian, yn yr ail ganrif, ddinystrio Jerusalem drachefn, a gwneuthur difrod ofnadwy ar yr Iuddewon, a gosod cyfreithiau llymdost yn erbyn y gweddill, llawer o honynt, ag oedd wedi cofleidio Cristionogaeth, a ymwrthodasant yn hollol â defodau Moses; fel na byddai iddynt, mewn dim, ymdebygoli i'r Iuddewon, ag oedd dan warth ac mewn perygl o'r mwyaf. Yn y cyfamser, eraill, y rhai a ddygent fawr sêl dros ddefodau y gyfraith, a ymneillduasant, ac a ymadawsant â'u brodyr, gan sefydlu yn Pera, a'i hamgylchoedd, yn ngwlad Palestina; yn mha le yr ymsefydlasant; a lle y gweiniasant holl ddefodau y gyfraith, mewn cyssylltiad âg ordinhadau yr efengyl.

Mewn ychydig amser, ymranodd y rhai hyn yn ddwy blaid, dan yr enwau NAZARENIAID ac EBIONIAID. Nid llawer a grybwyllir gan haneswyr hen na diweddar am yr enwad cyntaf; eithr y mae yn bur amlwg eu bod yn blaid dra lluosog dros amser. Gwnaent ddefnydd o efengylau neu ffughanesion am Iesu Grist, nas meddwn ni, pa rai a elwir yn efengyl yr Hebreaid—efengyl y Nazareniaid—efengyl yr Ebioniaid—ac efengyl y deuddeg apostol. Meddylir ei bod yn amlwg mai yr un oedd y rhai hyn, ond eu bod yn cael eu galw ar wahanol enwau; neu eu bod yn wahanol lyfrau, wedi eu casglu yn un llyfr, fel y mae y pedair efengyl genym ni yn bresennol. Nid oes ond un o'r awduron, a gyfrifir yn uniawn-gred, yn coffau yr

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. 1. p. 186—190.

hanesion hyn unwaith, yn y canrif hwn; a hyny gydag arwyddion digonol nad oeddynt yn cael eu hystyried yn wirionedd cywir a didwyll, yr amser hwnw.*

Yr oedd yr enw Nazareniaid ar y cyntaf yn cael ei roddi mewn ffordd o ddirmyg ar Gristionogion yn gyffredin; ond o'r amser yr ydym yn ysgrifenu am dano allan, daeth yr enw i gael ei briodoli i'r blaid hon, ag oedd yn dra gwahanol i'r Cristionogion uniawn-gred. Y Nazareniaid a olygent fod nattur ddynol Iesu Grist wedi ei chenhedlu yn yr un drefn â dynolryw yn gyffredin; a'i fod yn ei enedigaeth yn ddiwahaniaeth; ond yn mhen rhyw amser wedi hyny, ei huno â'r Duwdod. Yr oeddynt yn fawr am gynnal i fynu holl ddefodau cyfraith Moses; ond nid oeddynt am osod y pethau hyn fel rhwymau ar y Cenhedloedd dychweledig: ac ymwrthodent yn gwbl â'r holl ychwanegiadau at gyfreithiau Moses, a wnaed gan y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion. O herwydd hyn, ymddygai y Cristionogion attynt gyda llawer o addfwynder a hynawsedd.

Nid yw yn amlwg o ba le y tarddodd yr enw Ebioniaid, pa un ai oddi wrth ryw un o'u blaenoriaid, ai ynte oddi wrth eu hymddangosiad tlodaidd; ond y mae yn eglur fod y blaid oedd yn dwyn yr enw yn lluosog, a chwedi dechreu yn foreu. Attynt hwy y tybir fod yr apostol Ioan yn cyfeirio, dan yr enw gau-brophwydi, ac Anghrist. Beth bynag am hyn, yr oedd eu daliadau yn wrthwynebol ac yn ddinystriol iawn i egwyddorion Cristionogaeth. Er eu bod yn addef dwyfol anfoniad Iesu Grist, a'i fod, mewn rhyw ystyr, wedi ymgyfranogi o'r nattur ddwyfol; etto gwadent ei briodol Dduwdod, a haerent ei fod wedi ei genhedlu a'i eni yn ol trefn nattur, fel dynion yn gyffredin. Yr oeddynt yn dwyn mawr sêl dros ddefodau a chyfreithiau Moses, yn nghyd â'r holl chwanegiadau a wnaed attynt gan y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion; ystyrient fod rhwymau ar bawb Iuddewon a Chenhedloedd i gydffurfio â'r rhai hyn, mewn trefn i fod yn gadwedig. Wrth fod Paul yn ei epistolau wedi gwrthsefyll a dadwneud y golygiadau hyny, edrychent arno ef a'i ysgrifeniadau fel yn wael iawn; a gosodent hwy allan yn y modd mwyaf dirmygus. Gelwid y rhai hyn weithiau CERINTHIAID; neu yr oedd cangen o flaen hon yn myned o dan yr enw yma y dyddiau hyny.

Ymddangosodd pleidiau eraill, ag oeddynt yn lluosocach, yn fwy cyffredinol cyhoeddus, a dinystriol i egwyddorion a llwyddiant gwir Gristionogaeth, na'r rhai dan sylw, yn yr ail ganrif. Yr oedd y rhai hyn, gan mwyaf, wedi sylfaenu eu daliadau crefyddol ar hen ddysgeidiaeth a philosophyddiaeth y dwyreinwyr a'r Aiphtiaid: ac er eu bod yn dwyn gwahanol enwau, a gymmerent oddi wrth flaenoriaid y gwahanol bleidiau, ac ar gyfrif eu bod yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd mewn rhyw bethau bychain eu pwys—etto yr oeddynt yn un yn eu prif egwyddorion, ac yn ymarddelwi yr un enw cyffredin, sef GNOSTIAID. Yr enw hwn a hoffent, am ei fod yn arwyddo goleuni, neu wybodaeth, a thrwy eu bod hwythau yn proffesu mai hwy oedd yr unig bobl ag oedd yn deall egwyddorion Cristionogaeth, ac yn eu hegluro yn iawn: ac ystyrient bawb eraill, nad oeddynt o'r un farn â hwy, yn ddynion gwael, barbaraidd, anwybodus, heb fod yn deall yr ysgrythyrau, er eu hegluro mewn modd addas ac adeiladol.

Gellir ystyried y Gnostiaid dwyreiniol yn wahanol yn eu golygiadau i'r

* Dr. Paley's Evidences of Christianity, p. 170.

Gnostiaid Aiphtaidd—yr enwau wrth ba rai yr adwaenir hwynt oddi wrth eu gilydd. Y rhai dwyreiniol oeddynt y cyfryw ag a sylfaenent eu crêd, ac a ffurfient eu daliadau crefyddol, yn ol dysgeidiaeth a philosophyddiaeth y dwyreinwyr; i gydffurfiad â pha bethau y dygent eu Cristionogaeth. Barnent fod un Bôd Goruchaf, yr hwn oedd uwchlaw pawb, a thu hwnt i bob peth, a chanddo ychydig neu ddim a wnelai âg un peth. Golygent fod dwy o egwyddorion tragywyddol—tri o fodau, medd rhai o honynt—un yn llawn o haelfrydedd, daioni, a doethineb; a'r llall yn hanfodol ac hollol ddrwg. Heblaw y rhai hyn, golygent fod rhyw rifedi, saith, medd rhai, o is-fodau, pa rai a roddasent fodoliaeth i'r bydyssawd defnyddiol *(material system)*, pa un a gymmeradwywyd gan anfeidrol haelfrydedd a doethineb, ac a anrhydeddodd ran o honi â dylanwad ysbrydol oddi wrth y Bôd Goruchaf, yr hyn yw enaid dynion da: eithr yr egwyddor hanfodol ddrwg, ydyw yr achos o eneidian dynion drwg. Meddylient fod y byd hwn wedi cael ei roddi dan lywyddiaeth yr is-fodau a enwant weithiau yn angylion: un o'r rhai hyn a lywyddai y genedl Iuddewig. Y ddwy egwyddor dragywyddol hyn oeddynt yn gwrthwynebu y naill y llall, ac mewn rhyfel parhaus â'u gilydd; pob un am helaethu ei therfynau yn mhlith dynolryw. Yn mhen amser, danfonodd y Bôd Goruchaf ei Fab i'r byd, mewn ymddangosiad fel dyn, ond nid yn wir ddyn, i ddwyn y rhyfel hwn yn mlaen o blaid y da, ac i waredu y rhai daionus, a'u dwyn adref at y Bôd Goruchaf; sef, pob un a ddilynai ei reolau ef. Golygent fod eisteddle pob drwg yn y rhan ddefnyddiol; am hyny arferent bob llymder a gerwindeb tu ag at eu cyrph, trwy ymattal oddi wrth bob digrifwch allanol, a chyssuron bywyd, a llawer o bethau angenrheidiol. Arferent ymprydiau yn fynych, toriadau, teithiau, a gwasgfeuon, er marweiddio eu drygioni, a meithrin a helaethu rhinweddau eu meddyliau. Y mae yn amhëus eu bod yn golygu dim mwy am Dduwdod Crist, fel Mab y Bôd Goruchaf, rhagor na'i fod y penaf o'r is-fodau a lywyddent y byd hwn, a elwid gan rai o honynt yn *demiurge*, neu hanner-duw. Ond y mae yn amlwg eu bod yn gwadu ei briodol ddynoliaeth; ac, gan mwyaf, ddim yn credu i'w wir a phriodol ddyoddefiadau.

Enwau rhai o'r pleidiau ag oedd yn yr ail ganrif yn proffesu y golygiadau uchod, oedd SATURNIAID, dilynwyr Saturnus o Antiochia, yn Syria; y MARCONIAID, canlynwyr Marcon, mab i hen weinidog yn Pontus, a Cerdo o Syria; y BARDESANIAID, y rhai a gawsant yr enw oddi wrth Bardesanes o Edessa, yr hwn oedd ddyn hynod o gall a gwybodus, ac yn llawn o athrylithdra a dysgeidiaeth, yr hyn a ddygodd iddo lawer o enwogrwydd yn ei ysgrifau; a'r TATIANIAID, y rhai oeddynt ddilynwyr Tatian, dysgybl Justin Ferthyr; y rhai hyn oeddynt yn unol yn eu prif egwyddorion, er y gwahaniaethent mewn rhyw bethau eraill, a'r dull o osod allan eu golygiadau.

Y Gnostiaid, yn ol egwyddorion yr Aiphtiaid, oedd yn lled debyg yn eu golygiadau am yr un Bôd Goruchaf, i'r rhai a enwyd: eithr gwahaniaethent oddi wrthynt yn y pethau canlynol:—Yn 1. Yr oeddynt yn priodoli ffurfiad y bydyssawd i ddylifiadau, a alwent yn *œnons*, oddi wrth y Bôd Goruchaf, allan o ryw ddefnydd tragywyddol ag oedd yn meddu ar fywyd ac ysgogiad ynddo ei hun. Dwy o'r dylifiadau a enwid ganddynt Dynamis a Sophia—h. y. gallu a doethineb—pa rai yn gyntaf a roddasant fodoliaeth i ryw restri o angylion, a nefau, yn breswylfëydd priodol i'r rhai hyny; a rhoddwyd y byd hwn dan lywyddiaeth un arglwydd, yr hwn a alwent

Absaxas: a thrwy effeithiad y rhai hyn y ffurfiwyd ein byd ninau, o ran ei ddefnyddiau gweledig; ond am yr enaid rhesymol, golygent ei fod yn dyfod yn dra thebyg i'r dwyreinwyr. Yn 2. Golygent fod defnydd y nefau a'r ddaear a'u lluoedd yn dragywyddol, ac yn meddu rhyw fath o fywyd ac ysgogiad ynddo ei hun; ond mai ei ffurfio i'r drefn bresennol a wnaed yn nechreuad amser. Ni olygent, fel y Persiaid, fod dwy egwyddor, un yn dywyllwch, a'r llall yn oleuni tragywyddol. Yn 3. Fod yr Arglwydd Iesu yn ddau berson unol, ac nid dwy nattur, y dyn Iesu, a Christ Mab Duw. Yr un dynol a'r un dwyfol a unwyd â'u gilydd yn amser ei fedydd yn yr Iordd onen; ac ymadawodd yr un dwyfol âg ef pan ei daliwyd gan yr Iuddewon yn yr ardd. Yn 4. Priodolent yn lled gyffredin i Grist wir gorph ac enaid; eithr ni olygent oll ei fod wedi ymgyfranogi o'r nattur ddynol; fel y maent i gyd yn dywyll, yn amhëus, ac yn anghydunol ar y pen hwn. Yn 5. Nid oeddynt yn arfer dysgyblaeth lem a gerwin, fel y dwyreinwyr, tu ag attynt eu hunain, na thu ag at eu dysgyblion; rhoddai rhai o honynt ffordd i bob chwantau, gan hollol wadu fod un gwahaniaeth rhwng drwg a da; a dywedyd mai yr un peth oedd y pechod mwyaf ysgeler, a'r rhinwedd odidoccaf.

Golygai y rhai hyn i'r angylion hyny, ag oedd yn llywyddion y bydysawd, gwympo yn raddol o'u sefyllfa ddechreuol, a dwyn dynolryw gyda hwy i'r gwrthryfel; ac iddynt arfer pob ymdrechiadau i ddilëu pob gwybodaeth iawn am y Bôd Goruchaf allan o feddyliau preswylwyr y byd hwn, er sicrhau eu gorsedd ormesol, a chael gan ddynion i'w haddoli hwy. Ymderfysgodd a gwrthryfelodd y naill o honynt yn erbyn y llall; etto ymdrechasant i helaethu eu terfynau, ac amlhau eu deiliaid. Y gwaethaf a'r mwyaf terfysglyd o honynt oedd yr hwn a flaenorai ac a lywyddai y genedl Iuddewig. Ond y Bôd Goruchaf, wrth weled y fath sefyllfa druenus ag oedd dynolryw ynddi, gan y gormeswyr hyn, a anfonodd ei Fab, yr hwn a elwid Nus, neu un o'r prif ddylifiadau tragywyddol, i'r byd, i ymuno â'r dyn Iesu, er gwaredu dynion a wrandawent arno, oddi wrth lywodraeth ormesol yr angylion gwrthryfelgar hyny, ac i ddinystrio eu hamherodraeth. Pan welodd y llywydd balchaidd ag oedd ar yr Iuddewon hyn, efe a gyffrodd, ac a anfonodd ei gennadau i ddal y dyn Iesu, ac a'i gosododd i farwolaeth. Ond ni fedrent gyffwrdd à'r Crist, yr hwn â ffodd o'u gafael hwynt; ac yn erbyn pa un, nid oedd eu hymdrechiadau ond ofer.

Nid oeddynt yn golygu yn gyffredin fod dim gwahaniaeth rhwng cenhedliad, genedigaeth, a bywyd y dyn Iesu, â dynion eraill, ond fel yr oedd y dylifiad Crist, mewn undeb âg ef. Eithr y Valentaniaid oeddynt yn barnu mai corph wedi ei wneuthur i fynu o awyr oedd gan y dyn Iesu, ac iddo fyned trwy fru Mair, fel dwfr glân, yn rhedeg trwy ddyfrle dilwgr. Barnent fod dynion da, ag a fyddai yn ddilynwyr i Grist, pan yn marw, yn esgyn i fynu at y Bôd Goruchaf; ond fod eneidiau dynion drwg yn cael eu gyrru yn ol i ryw gyrph drachefn, tra yr oedd y cyrph yn dychwelyd yn ol i'r pentwr daearol, o'r lle eu cymmerwyd ar y cyntaf, yno i aros. Proffesid y tybiau uchod fel prif egwyddorion gan amryw bleidiau, ag oedd yn dwyn enwau eu gwahanol flaenoriaid; ac, dichon, yn gwahaniaethu mewn rhyw bethau oddi wrth eu gilydd; eithr a adnabyddir wrth un enw cyffredin yn ngwaith haneswyr, sef y Gnostiaid Aiphtaidd, o herwydd eu bod yn sylfaenu eu golygiadau yn benaf ar ddysgeidiaeth a philosophyddiaeth y wlad honno. Gelwir hwy yn BASILIAID, CARPOCRATIAID, SIMONIAID, NICHOL-

IAID, a VALENTIAID, &c.; ac y mae yn bur amlwg fod y rhai hyn drachefn yn ymranu i wahanol bleidiau.*

Hawdd yw gweled wrth y darluniad a roddir i ni gan haneswyr am Philosophyddiaeth y dwyreinwyr a'r Aiphtiaid, mai y maen tramgwydd, ar ba un yr ymddrylliodd eu pleidwyr, oedd, methu gweled pa fodd y gallasai pechod ddyfod i'r byd, a phob annhrefn ag sydd ynddo, yn gysson â nodweddiad y Bôd Goruchaf, ac ystyried mai efe oedd Creawdwr pob peth; a pha fodd y gallasai fod y fath aneirif ddrygau ac annhrefniadau yn parhau yn y byd, os ydoedd dan lywodraeth y Bôd hwn. I'r dyben i geisio cyssoni eu golygiadau am y Bôd Goruchaf, a'r ffeithiau o fod drygau, annhrefn, a phechod yn y byd, gwadasant fod un llaw gan y Bod hwnw yn nghreadigaeth na llywyddiaeth y byd hwn. Ymwthiasant mewn chwiliad i amryw bethau eraill yn achosion o'r byd hwn a'i lywodraeth; a daethant o hyd yn ffrwyth eu dychymmygion gwael, i ryw egwyddorion tragywyddol ag oeddynt yn achosion priodol o dda a drwg, ac îs-fodau i fod yn ffurfwyr a llywodraethwyr i'r bydyssawd. Eraill a dybiasant fod pob drygau mewn defnydd *(matter)* yn unig; ac ymdrechasant i wneuthur allan fod hwn yn dragywyddol, fel achos o bob drygau, &c. Ond trueni ddarfod iddynt erioed geisio cyssylltu yr egwyddorion dychymmygol hyn â Christionogaeth, a bod ymgais am i'w hathrawiaethau gael eu hegluro wrth yr egwyddorion hyn, a'u nyddu i'w dwyn, i'w tyb hwy, i gyd-agweddu â'r cyfryw; yr hyn a fu yn achos o'r holl bleidiau a'r cyfeiliornadau dychrynllyd a enwyd. Ymdaenodd rhai o'r cyfeiliornadau blaenorol trwy amryw ranau o'r byd, yn y canrif hwn, a'r rhai canlynol, eithr yn benaf yn Asia, a'r gwledydd dwyreiniol; ac a barasant ymraniadau mawrion mewn amryw eglwysi. A chododd amrai eraill yn y gwledydd gorllewinol, ag oedd yn sylfaenedig ar egwyddorion philosophyddaidd a feithrinid yn mhlith y Groegiaid.

Yn y canrif hwn, ymddangosodd yn yr Ital blaid a elwid y MARCHONIAID, am eu bod yn gwadu lluosogrwydd personau yn y Duwdod, ac nad oedd gwir a sylweddol wahaniaeth rhwng person y Tad, a pherson y Mab, a'r Ysbryd Glan; ac mai person y Tad, yr hwn yw Creawdwr pob peth, ydoedd yr hwn a ymunodd â'r nattur ddynol yn mherson Crist. Yr oedd rhai o'r blaid hon wedi myned mor bell, â dywedyd fod y fath undeb rhwng person y Tad, a'r dyn Crist ei Fab, fel yr oedd y Duwdod wedi ei ddarostwng i'w holl flinderau, ei drallodau, a'i angeu poenus a gwaradwyddus. Dechreuwyd y blaid hon yn Rhufain gan un Praxeas, dyn o gynneddfau galluog, dysgeidiaeth, ac athrylithrwydd anghyffredin; eithr nid yw yn amlwg fod ei ganlynwyr yn aml, nac iddynt ffurfio eu hunain yn gymdeithasau gwahanol, yn ei amser, na than ei enw ef. Ond Theodotus, yr hwn oedd wrth ei gelfyddyd yn Farcer, ac Artemon, a ddiwygiasant ryw gymmaint, yn eu tyb hwy, ar ei olygiadau ef; ac a fuant yn sylfaenwyr i blaid dra lluosog yn Rhufain, a'i hamgylchoedd, a elwid y pryd hwnw ARTEMONIAID.† Eu barn hwy oedd, fod rhyw effeithiad oddi wrth berson y Tad, neu ran o hono, wedi ymuno â'r dyn Crist Iesu yn ei enedigaeth, ac nid gwir berson y Tad, fel y dywedai Praxeas. Nid yw yn amlwg pa un a ddarfu i ddysgyblion y ddau hyn aros yn un blaid, ai ynte fod rhyngddynt ryw fesur o wahaniaeth, ar ryw bethau, ac iddynt ymranu oddi wrth eu gilydd. Ni buasai yn werth son am danynt, oni buasai ei bod yn eglur mai

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 212—240.
† Alexander Ross's View of all Religions; and Buck's Theological Dictionary.

oddi wrthynt hwy y tarddodd Sabeliaeth, ac Ariaeth, a fu, ac sydd, yn cael eu cofleidio gan lawer, ac a wnaethant gynnwrf mawr yn y byd am oesoedd.

HERMOGENIAID oeddynt blaid arall a ymddangosodd yn y canrif hwn, pa rai a broffesent eu bod yn ganlynwyr i un Hermogenes, yr hwn a wadai yr hanes a rydd yr ysgrythyr am greadigaeth y byd, a'r oll sydd ynddo; a gwneuthuriad dyn, gorph ac enaid; gan haeru eu bod oll yn ddeilliedig oddi wrth ryw dragywyddol ddefnyddiau llygredig—yn lled debyg eu golygiadau i'r Gnostiaid Aiphtaidd, fel y sylwyd yn barod. Hefyd, yn y canrif hwn dechreuodd y blaid a elwir MONTANIAID, oddi wrth un Montanus o Phrygia, yr hwn, er ei fod yn ddyn gwael yn mhob ystyriaeth, heb alluoedd na dysgeidiaeth, eithr yn gyfrwys iawn mewn drygioni, a fu yn ddechreuad i'r enwad hwn. Y brif erthygl ar ba un y sylfaenodd efe ei gyfundraith oedd, addewid ein Harglwydd Iesu, yn Ioan xiv. 16. Dywedai fod gwahaniaeth rhwng y Dyddanydd a addawai Crist, yma, a'r Ysbryd Glan, yr hwn a ddisgynodd ar yr apostolion ar ddydd y Pentecost. Haerai mai rhyw gennadwr dynol a anfonasid i'r byd i berffeithio y weinidogaeth efengylaidd, oedd y Dyddanydd; ac mai efe ei hun oedd hwnw. Golygai fod Iesu Grist a'r apostolion wedi gadael eu gweinidogaeth yn anmherffaith; nad oeddynt wedi traddodi holl gyngor Duw i'r byd; a'u bod wedi goddef llawer o bethau allan o le, o herwydd gwendid y bobl; a chwedi cyfaddasu eu rheolau a'u gosodiadau gweinidogaethol, at dymherau ac amgylchiadau eu gwrandawyr; ac, trwy hyny, osod i fynu gyfundraith moesol i'r byd, ag oedd yn anmherffaith. Gwnaeth efe, gan hyny, lawer o newidiadau yn rheolau a gosodiadau yr efengyl; a chwanegodd atti lawer o ddeddfau a sefydliadau newyddion, gerwin, a llymdost. Lluosogodd yr ymprydiau a'r gwyliau; gwaharddodd ailbriodasau, fel rhai ag oedd yn hollol anghyfreithlon; a threfnodd nad oedd y rhai a bechent yr hyn a alwai efe yn bechod ysgeler, byth i gael eu derbyn i'r eglwys, trwy un math o ymostyngiad nac edifeirwch. Gwaharddai bob gofal am, ac, braidd, ymgeledd i, gyrph, megys peth tra niweidiol i grefydd; a phob gwisgiadau prydferth a hardd, fel pethau eithaf pechadurus.

Nid arosodd y ffug-ysbrydolddyn hwn ar y pethau yma yn unig; eithr efe a ddangosodd yr un gelyniaeth yn erbyn pob addurniadau ac uchel weithrediadau y meddwl; gan ddedfrydu yn ddidrugaredd bob dysgeidiaeth, philosophyddiaeth, a gwybodaeth gelfyddydol, allan am byth o'r eglwysi. Edrychai ar y neb a ymachubai, yn amser erledigaeth, rhag dyoddef merthyrdod, trwy unrhyw foddion, yn pechu yn anfaddeuol. Llawer o'r fath oeddynt ei osodiadau; ac o herwydd eu gerwindeb, a'r ffug-sancteiddrwydd a ddangosai, a bod archwaeth yr oes honno wedi rhedeg yn fawr at y cyfryw ymddangosiadau, daeth ei ganlynwyr i fod yn dra lluosog, y rhai nid oeddynt o'r werinos fwyaf anwybodus. Yn mhlith y cyfryw yr oedd Priscila a Maximilia, dwy bendefiges a ddywedir eu bod yn fwy hynod mewn cyfoethogrwydd na rhinwedd. Byddai y rhai hyn fel yn eu blaenori yn eu penboethder, ac yn cymmeryd arnynt brophwydo a thraethu dirgeledigaethau. Trwy eu cynnorthwyon hwy, efe a adeiladodd le harddwych i ymgynnull ynddo, wedi iddo ef a'i ganlynwyr gael eu bwrw allan o gymundeb yr eglwysi, yn Pepuza yn Phrygia, yr hon a ddychymmygent oedd y Jerusalem Newydd, ag oedd yn dyfod i waered oddi wrth Dduw o'r nef.

Derbyniodd y blaid hon lawer o adgyfnerthiad, a helaethiad, wedi i un Tertulian gofleidio eu barnau, ac ymuno â hwy: canys yr oedd efe yn ddyn o alluoedd lled gryfion, ac yn wr dysgedig; eithr yn llawn o dymherau ofergoelus; yr hwn, wedi gadael yr eglwys oedd yn Carthage, ac ymuno â'r

Montaniaid, a ysgrifenodd lawer o'u plaid, a thros y dull marweiddiadol y dylai dynion fyw, er cyrhaedd gwynfyd tragywyddol.

Heblaw yr amrywiol gyfeiliornwyr, a elwir yn gyffredin yn hereticiaid, a darddodd allan fel hyn o fynwesau yr eglwysi, y rhai a ffurfiasant eu canlynwyr yn wahanol gymdeithasau, bu gosodiad i fynu ddefodau dibwys yn achos o ymraniadau mawrion yn yr eglwys gyffredin. Un o'r cyfryw, a ddarllenir am dano, yn y canrif hwn, a osodid felly, oedd, amser cadwad y Pasg. Yr eglwysi, a'r dwyreinwyr yn gyffredin, a gadwent yr ŵyl hon ar yr un dydd à'r Iuddewon, sef, y pedwerydd dydd ar ddeg o'u mis cyntaf, ar ba ddydd bynag o'r wythnos y dygwyddai. Yr eglwysi yn Rhufain, a'r eglwysi yn y gorllewin, a'i cadwent y Sul cyntaf ar ol y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis hwnw, fel y mae gyda ni yn bresennol; neu y Sul cyntaf wedi y llawn lleuad, a ddygwyddo ar, neu yn nesaf ar ol, yr unfed dydd ar hugain o Fawrth. Y gwahaniaeth hwn a barodd ddadl boeth iawn trwy yr holl eglwysi, ac a fu o ganlyniadau mawrion. Dadleuai pob ochr fod ganddi awdurdod apostolaidd o'i phlaid. Y dwyreinwyr a ddywedent fod ganddynt enghraifft yr apostol Ioan a Philip dros eu trefn; a'r gorllewinwyr a haerent fod ganddynt hwythau enghraifft Paul a Pedr dros eu hymarferiad. Eithr ymddengys yn eglur i bob hanesydd diduedd, nad oedd gan un ochr enghraifft nac archiad un o'r apostolion, dros gadw yr amser hwnw yn sanctteiddiach na rhyw amser arall; amgen buasai yr Arglwydd wedi egluro hyny yn ei air, ac nid ei adael i draddodiad ansicr, fel yr haerent hwy, i fod yn eu plith, a phob peth arall a berthynai i'w addoliad a'i wasanaeth; ac ni adawsai yr amser yn y cyfryw dywyllwch, ag a fuasai yn achos o gymmaint dadl yn ei gylch yn mhlith dynion da, a hyny mor foreu ar ol dyddiau yr apostolion.

Dywedir i Polycarpus ddyfod o Smyrna tua chanol y canrif hwn, i Rufain, at Anicetus, yr hwn oedd weinidog i'r eglwys oedd yno, er ceisio terfynu y ddadl. Ond pan nad allent gyduno yn nghylch yr amser, etto cydunasant nad oedd y peth yn werth amrafaelio ac ymranu yn ei gylch; ac a ymadawsant mewn heddwch a chariad brawdol, gan adael i bob eglwys farnu drosti ei hun am yr hyn oedd mewn dadl. Gwedi hyn tawelodd a gostegodd y cynnwrf dros ennyd, hyd oni ddaeth un Victor i fod yn weinidog yr eglwys yn Rhufain; yr hwn oedd ddyn o ysbryd terfysglyd a thra llywodraethol. Gwedi i hwn fethu argyhoeddi eglwysi y dwyrain, mwy na'i ragflaenoriaid, o'u cyfeiliornad, yn ol ei ddychymmyg ef, efe a gasglodd ryw nifer o weinidogion, nesaf atto, yn nghyd i Rufain; a hwy a esgymunasant yr holl eglwysi hyny a'u gweinidogion, ar unwaith, am na chydunent yn nghylch amser cadwad y Pasg. Y pryd hwnw dechreuodd ymraniad gymmeryd lle rhwng eglwysi y dwyrain a rhai y gorllewin, yr hyn a fu er mawr niwaid, dianrhydedd, a rhwystr i lwyddiant Cristionogaeth; ac a barhaodd felly hyd heddyw, mewn ystyr. Dofwyd llid a drwg-nwydau Victor, i raddau, trwy lythyr rhagorol a ddanfonasid atto gan Irenæus, gweinidog yr eglwys oedd yn Lyons, yn Ffraingc; yn yr hwn y dangosodd anweddeiddra ac afresymoldeb ei ymddygiadau byrbwyll a thraws-lywodraethol: a gwnaeth eglwysi Asia amddiffyniad goleu o gyssondeb eu hymddygiad.

Yn y pedwerydd canrif, terfynwyd y ddadl hon, mewn ymddangosiad, trwy gyfraith wladol a wnaed gan Cystenyn; yr hwn a benderfynodd fod y Pasg i gael ei gadw trwy y byd ar yr un amser â'r gorllewinolion: ond ni therfynodd hyn y peth yn marn yr ymbleidwyr, ac ni unwyd hwy yn eu serchiadau fel y gwelir etto.

DIWEDD HANES YR AIL GANRIF.

PENNOD XIII.

CANRIF III.

Lle y traethir am Ddyoddefiadau erledigaethus yr Eglwys yn nheyrnasiad Severus—Bywyd a Marwolaeth Irenæus yn Ffraingc, a Leonidas yn Alexandria—Yr Amddiffyniadau grymus a gwresog a wnaed gan Tertulian a Minutius Ffelix, y rhai a gyflwynwyd i'r Amherawdwr—Dyoddefiadau y Merthyron yn Carthage a'i Chylchoedd—Amgylchiadau yr Eglwysi yn nheyrnasiad Caracala, Macrinus, a'i fab Diadumenus, Heliogabalus, Alexander, a Maximinus, hyd ddyfodiad Decius i'r orsedd.

Yn nechreuad y canrif hwn, meddiannid gorsedd Rhufain gan Severus, a theyrnasodd agos i ddeunaw mlynedd, sef hyd y flwyddyn 211, o'r cyfrifiad cyffredin, pan ddaeth Caracala a Geta ei feibion i'r llywodraeth yn ei le. Ei esgyniad i'r orsedd a wrthwynebwyd yn egnïol gan Niger yn y dwyrain, ac Albinus yn y gorllewin, â'u byddinoedd lluosog; eithr efe, trwy ddewrder a grymusder ei filwyr, pa rai a anrhydeddodd efe yn fawr mewn canlyniad, a orchfygodd ei holl elynion, ac a feddiannodd yr holl amherodraeth yn dawel. Gwroldeb ac uchelfrydigrwydd a ymddangosent yn ei holl ymddygiadau; a llawer o gyfrwysdra Affricaidd a berthynai iddo. Llywodraethid ef gan y tymherau creulonaf tu ag at y rhai a'i gwrthsafai mewn unrhyw beth, fel y mae yn anhawdd i neb amgyffred y galanasdra a wnaed ar fywydau dynion tra parhaodd ei deyrnasiad.

Trwy ymddygiadau Commodus ei ragflaenor, yr amherodraeth oedd wedi llesghau, a'i chymmydogion a ormesent ar ei therfynau; eithr efe yn fuan a'i cadarnhaodd ac a helaethodd ei therfynau, gan fod yn fuddugoliaethus ar bob llaw. Tua diwedd ei deyrnasiad, arweiniodd ei fyddin luosog a dewr i Frydain, rhanau o ba un oedd y pryd hwnw mewn terfysg, a chwedi codi mewn gwrthryfel i'w erbyn. Gwedi iddo dirio yma, a'i ddau fab, sef Caracala a Geta, efe a adawodd yr olaf yn y rhan ddeheuol o'r ynys, pa ran oedd mewn ufudd-dod, ac yn llonydd, a Caracala ac yntau a aethant i'r gogledd yn erbyn y Caledoniad. Anhawsdra y ffyrdd, oerder yr hin, oeddynt o'r fath, nes dwyn afiechyd yn mhlith ei filwyr fel y bernir iddo golli yn yr hynt filwraidd hon, fwy na hanner can mil o wyr, trwy bob ystryw a'u cyfarfu hwynt: ond trwy y cwbl, gyda glewder didosturi, dilynodd ei ymgyrch, nes llwyr orchfygu ei elynion, a'u dwyn i ymofyn heddwch, ar ei ammodau ef ei hun; yr hyn a gawsant, trwy roddi i fynu i'r buddugoliaethwr ran o'u gwlad, yn nghyd â'u holl arfau, a'u defnyddiau rhyfel. Gwedi iddo adferu heddwch yn Mhrydain, ac er rhoddi i'w ddeiliaid well amddiffyn rhag y Caledoniaid, efe a adeiladodd y mur hynod hwnw o for-

gamlas, Solway, yn y gorllewin, hyd for yr Almaen yn y dwyrain, am draws canol y wlad, er cadarnhau eu diogelwch, yr hwn a elwir gwal Severus, hyd heddyw. Yr oedd yn wyth troedfedd o drwch, a deuddeg o uchder; a thwr ar ben pob milltir o honi, i lettya milwyr; a phibellau trwy yr holl wàl, er cyfleu rhybudd a chyfarwyddyd i'r gwarchgeidwaid, gyda'r brys a'r hwylusdod mwyaf. Dychwelodd Severus wedi hyn i Gaerefrog; ac yno, o herwydd hirfaith a blinderus yrfa, a'i fod yn tynu yn mhell mewn oedran, ac yn benaf oblegid ei ofid dirfawr yn achos bywyd afradus Caracala ei fab, yr hwn oedd y pryd hwnw wedi codi gwrthryfel yn ei erbyn, efe a deimlodd wendid mawr, a dadfeiliad buan yn ei nattur. Pan yn marw, gorchymynodd ddwyn ger ei fron yr ystên, yn mha un yr oeddid yn bwriadu rhoddi ei ludw i'w gadw, efe a ddywedodd,—"*Ow, ystén fechan, yr wyt ti i gynnwys yn fuan yr hyn ni fedrai y byd i gyd mo'i gynnwys unwaith!*" Felly trengodd yn y fan, mewn dirfawr boen, wedi llwytho ei gylla â gormodedd o fwyd, yr hwn a gymmerasai gyda bwriad i derfynu ei einioes.*

Severus oedd un o'r gelynion creulonaf i Gristionogaeth, o neb a fu o'i flaen. Efe oedd yn rhaglaw yn Ffraingc yn amser yr erledigaeth yno, a soniasom am dano yn y canrif blaenorol. Eithr bernir na bu iddo wneuthur un gyfraith i gaethiwo rhyddid y Cristionogion, ac i ddwyn yn mlaen erledigaeth yn eu herbyn, hyd y flwyddyn 202 o'r cyfrifiad cyffredin. Priodola rhai yr achos ei fod cyhyd heb ddwyn yn mlaen erledigaeth yn erbyn y Cristionogion, yn ol ei duedd naturiol, i'r effaith a wnaed ar ei feddwl trwy garedigrwydd un Proculus, yr hwn oedd yn Gristion, yn adferyd ei iechyd, trwy ei enneinio â rhyw fath o olew.† Beth bynag am hyn, y mae yn amlwg na tharddodd yr oediad oddiar ddim lledneisrwydd, cyfiawnder, na hynawsedd ag oedd ynddo ef. Eraill sydd yn barnu mai o herwydd fod ganddo ormod i wneud ffordd arall; a bod ganddo ddigon o le i dywallt allan ei lidiawgrwydd a'i gynddaredd ar y cyfryw ag oedd yn ceisio meddiannu yr orsedd. Cynnwysai y gyfraith a wnaeth, nad oedd i neb trwy ei holl amherodraeth adael crefydd ei hynafiaid, sef Paganiaeth, er proffesu Cristionogaeth nac luddewaeth, o dan boen marwolaeth. Eithr y Cristionogion, er gerwindeb y gyfraith, yn barnu y dylasent ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion, a aethant yn mlaen yn eu gorchwylion fel arferol. Severus yntau a safodd yn ddiysgog dros ei gyfraith, ac a orchymynodd i'w holl swyddwyr i weinyddu ei chospedigaethau yn y modd manylaf a chreulonaf. Hwn a ystyrir yn gyffredin y pummed erledigaeth.

Mewn canlyniad i wneuthuriad y fath gyfraith, a'i rhoddiad mewn grym, llanwyd y carcharau o ddynion diniwaid a goreuon y byd; gwnaed y galanasdra mwyaf erchyll; a thywalltwyd gwaed gwirion yn ffrydiau trwy barthau Asia, yr Aipht, a rhanau eraill o Affrica, a hyd derfynau pellaf yr amherodraeth; megys y tystia Tertulian, a Clemens o Alexandria, ag oedd yn byw y pryd hwnw. Dyma yr amser y merthyrwyd y gwr duwiol a da hwnw, Leonidas o Alexandria, tad Origen, yr hwn nid oedd ar y pryd ond plentyn, er hyny a annogai ei dad i fod yn ffyddlon, yn wrol, ac yn amyneddgar, ac i lynu wrth yr Arglwydd, mewn modd ffyddiog a gobeithiol, pan yn marw. A dyma yr amser y dyoddefodd IRENÆUS, esgob

* Goldsmith's Hist. of Rome, pp. 471, 472.

† Milner's Church Hist. vol. i. p. 320.

Lyons, yn Ffraingc, ferthyrdod. Meddylir mai Groegwr oedd Irenæus, a anwyd yn, neu yn agos i, Smyrna, yn Asia Leiaf. Nid annhebyg yw iddo gael ei ddwyn i fynu gan rieni Cristionogaidd; o leiaf efe a addysgwyd yn ei ieuengctyd gan Papias a Polycarpus, dau weinidog Cristionogol, yn y parthau hyny. Yr oedd efe yn ddyn a ragorai ar y cyffredinolrwydd, o ran dysg, dawn, deall, ac athrylithdra. Eithr yr hyn a'i henwogodd uwchlaw y cyfan oedd, ei fod yn weinidog syml, ffyddlon, gwresog, duwiol, a doeth, i Iesu Grist. Pa bryd, na pha fodd, y daeth efe i Ffraingc, sydd anhysbys; eithr y mae yn amlwg ei fod yno ryw gymmaint o amser cyn yr erledigaeth, pan y merthyrwyd Pothinus, gweinidog yr eglwys oedd yn Lyons. Canys ar ol marwolaeth hwn, gwelwn fod gofal gweinidogaethol yr eglwys yn cael ei ymddiried iddo ef. Dywedir ei fod, nid yn unig yn llwyddiannus i adgyweirio a chyfnerthu yr eglwysi yn Lyons a Vienne, ac i ddwyn achos Duw i fod yn flodeuog yn y manau hyny, ond hefyd iddo fod yn foddion i ledanu peraidd sain efengyl, a sefydlu eglwysi i Iesu Grist mewn amryw barthau eraill o'r wlad eang honno. Heblaw yr annerchiad a ysgrifenodd yn enw yr eglwysi yn Lyons a Vienne, at yr eglwysi yn Asia, am ba un y soniasom yn barod, dywedir iddo ysgrifenu llawer o lyfrau mawrion; ond nid oes un o honynt i'w gael yn bresennol, oddi eithr rhanau o'r pum llyfr a ysgrifenodd yn erbyn hereticiaid yr oes honno. Dyoddefodd ferthyrdod tua'r flwyddyn 208 o'r cyfrifiad cyffredin, pan oedd Severus ar ei daith trwy Ffraingc.

Tua'r amser hwn, ysgrifenwyd amddiffyniad rhagorol i'r grefydd Gristionogol gan Tertulian, pa un a gyflwynodd i'r amherawdwr. Wrth enwi TERTULIAN, nid all ein meddwl lai na chael ei gyfeirio at y rhan honno o'r byd, lle y gwelwn fod Cristionogaeth wedi myned iddi, ac eglwysi wedi eu sefydlu, na chlywsom, ac nas crybwyllasom fawr, neu ddim, am danynt, hyd yma, sef taleithiau Rhufeinaidd yn Affrica—y taleithiau a fuont unwaith yn ddrych o fawredd ac ardderchawgrwydd y Carthageniaid, ac yn eu meddiant; ond yn awr wedi newid eu harglwyddi. Nid yw yn hysbys pa bryd na pha fodd yr aeth yr efengyl yno gyntaf, na pha rai a fuont yr offerynau i sefydlu yr eglwysi Cristionogol yn y taleithiau hyny; eithr y mae yn amlwg fod yno amryw o honynt yn dra blodeuog, cyn diwedd yr ail ganrif. CARTHAGE oedd y brif ddinas amherodrol gynt; adeiladwyd hi ar y cyntaf gan haid o Phœniciaid, agos i naw can mlynedd cyn dyfodiad Crist yn y cnawd.* Yr oedd yno eglwys Gristionogol luosog ei haelodau, yn nechreuad y canrif hwn, un o weinidogion pa un oedd Tertulian. Wrth olrhain ysgrifau y dyn hynod hwn, a'r hyn a ddywed haneswyr am dano, gwelir ynddo y casgliad mwyaf cymmysgedig o ddoethineb a ffolineb, o ddysgeidiaeth ac anwybodaeth, o ffydd a gwendid, o wir ac anwir, ac o ddaioni a thwyll, ag a ellir ganfod mewn un person, mewn unrhyw oes. Llewyrchodd—os gellir dywedyd hyny am dano—o'r flwyddyn 194 hyd y 220.

Ei ysgrifau sydd yn dra helaeth a lluosog, wedi eu hysgrifenu yn yr iaith Ladinaidd; ond nid bob amser ar destunau y dymunid iddynt fod: a chynnwysant lawer o ysbryd ac archwaeth meudwyaidd: diogelwyd hwy, a daethant i waered, gan mwyaf, hyd ein hoes ni. Ymddangosai ei fod yn deimladwy iawn o fod yr eglwysi yn nesau i glaiarineb a difatterwch anarferol, a'u bod yn debyg o gael eu mawr lygru trwy eu cydffurfiad â defodau

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. pp. 233, 234.

y Paganiaid ag oedd o'u hamgylch. I wrthsefyll y pethau hyn, efe a ymdrechodd osod i fynu ryw ffurf o ddysgyblaeth erwin a thra llymdost. Ei waith yn erbyn Praxeas, ac athrawiaeth y Drindod, a ystyrir yn dra rhagorol, o ran cywirdeb ei olygiadau, ac eglurdeb a chadernid ei resymau. Llawer yw y dychymmygion sydd wedi bod, pa ham y gogwyddodd ac y cofleidiodd farn a golygiadau y Montaniaid; rhai a ddywed mai am nad oedd yn cael ei dderchafu yn ddigon uchel, yn ol ei farn ef, yn mhlith gweinidogion uniawn-gred; yn enwedig am na dderbynid ef i fod yn flaenor ar yr eglwys oedd yn Rhufain. Ond nid rhaid i ni ddychymmygu dim o'r fath, pan ystyriom ei nattur, ei dymherau, a'i anwadalwch yn mhob peth, ac ystyried fod y cyfundraith hwnw yn dwyn cymmaint o gyd-darawiad â'i dymherau a'i olygiadau. Eithr ei ysgrif er amddiffyniad i'r grefydd Gristionogol, a gyflwynodd i Severus, ydyw y darn rhagoraf o'i waith; yr hon a ystyrir yn gyffredin yn amhrisiadwy ei gwerth, er dangos nattur gwir grefydd yn y dyddiau hyny. Meddylir na anfoddlona neb o'n darllenwyr am roddi ger eu bron, yn gyfieithiedig, ranau o'r cyfryw yn y llinellau canlynol:—

"Yr ydym," medd ef, "yn gweddio ar y Duw tragywyddol, yr hwn yw y gwir a'r bywiol Dduw, am ddiogelwch i'r amherawdwyr, â pha un y dymunem iddynt fod yn gymmodlawn, uwchlaw neb arall a elwir yn dduwiau. Yr ydym yn edrych i fynu i'r nefoedd, gyda dwylaw estynedig, am ein bod yn ddiniwaid, â'n penau yn noethion, am ein bod yn ddigywilydd, heb un cymhellydd, ac yn gweddio o'n calonau yn wastadol, am hir oes i'r amherawdwyr, ac iddynt gael amherodraeth ddisigl, llysoedd diogel, byddinoedd grymus, seneddwyr ffyddlon, deiliaid moesol a da, a llywodraeth dawel a llonydd. Erfyniwn dros Cæsar, am yr hyn oll a ewyllysiai iddo ei hun, pa un bynnag ai yn ei sefyllfa gyhoeddus fel amherawdwr, neu yn ei sefyllfa ddirgel a phersonol. Nis gallwn ofyn y pethau hyn oddi wrth neb arall, ond oddi wrtho Ef, yr hwn yw ffynnon pob daioni, ac oddi wrth yr hwn yr ŷm yn gwybod y derbyniwn, os gofynwn yn ol ei ewyllys: canys efe yn unig a ddichon roddi y pethau hyn; wrth ba un y disgwyliaf am y cyfryw bethau, yr hwn wyf ei was, ac yn ei addoli yn unig; a pharod wyf i golli fy mywyd, os bydd rhaid, dros ei enw ac yn ei wasanaeth. Gan hyny bydded i grafangau bwystfilod gwylltion ein dal, eu hewinedd ein brathu trwodd, a'u traed ein sathru, tra byddo ein dwylaw yn estynedig at ein Duw; bydded i ni fod yn grogedig ar y croesbrenau, a boed i'r tân ein difa yn ulw—y cleddyf dur ein trywanu trwy ein mynwesau—Cristion mewn gweddi sydd yn y fath orchwyl ag y dichon ymgynnal dan unrhyw boenau tra yn yr agwedd honno. Pa fodd y mae hyn, ystyriwch chwi lywodraethwyr boneddigaidd. A fydd i chwi osod i farwolaeth eich deiliaid mwyaf daionus, pa rai a erfyniantar Dduw ddydd a nos dros lwyddiant yr amherawdwr? Pe byddem yn dueddol i ad-dalu drwg am ddrwg, hawdd fyddai i ni droi y sarhad hwn arnoch chwi, oddi wrth ba rai yr ŷm yn ei dderbyn. Ond na atto Duw i ni, ei bobl ef, amddiffyn ein hunain trwy rym, nac âg arfau dynol; neu fod yn anewyllysgar i ddyoddef yr hyn a amlyga eirwiredd ein crefydd. Gwybyddwch, pe byddai i ni ymddwyn, meddaf, nid fel dirgel-lofruddion, ond fel gwrthwynebwyr cyhoeddus, a fyddai arnom eisiau rhif neu allu i sefyll? Digon gwir nad ydym ond megys er doe, ond etto yr ydym wedi llenwi eich trefydd, eich dinasoedd, eich ynysoedd, eich castelli, eich bwrdeisdrefydd, eich cynghorau, eich gwersylloedd, eich llysoedd, eich neuaddau, eich sened-ddai, a'ch gorsedd-feingciau; ond *gadewn i chwi yn unig eich*

temlau. Pa ryfel nad ydym barod a chymmwys iddo, er y dichon fod anghyfartalwch rhifedi; ond etto, yr ydym y fath rai ag a deimlem hyfrydwch mewn marw, oni bai fod ein crefydd yn gofyn i ni ddyoddef marwolaeth ein hunain, yn hytrach na gweini y cyfryw beth i neb arall.

"Pe byddai i ni wneuthur ymadawiad cyffredinol â'ch teyrnas, chwi synech wrth weled pa cyn anamled a fyddech. Yr ydym yn teimlo yn hollol farw i bob amgyffrediad o fawredd ac anrhydedd bydol; nid oes dim ag sy'n mhellach oddi wrth ein meddyliau nag achosion llywyddol y byd hwn: yr ydym yn ystyried y byd i gyd i ni yn un wladwriaeth gyffredin. Yr ydym yn un corph wedi ein huno yn un mewn rhwymau crefydd, dysgyblaeth, a gobaith. Arferwn gyfarfod â'n gilydd, yn gynnulleidfaoedd, i weddio. Yr ydym yn rhwym o ymarfer llawer â'r oraclau dwyfol, er rhybudd ac adgofiad o'n dyledswyddau yn mhob amgylchiadau. Meithrinwn ein ffydd trwy air Duw; yr ydym yn adeiladu ein gobaith, yn sicrhau ein hyder, yn cadarnhau ein dysgyblaeth trwy addysgiadau, gorchymynion, annogaethau, ceryddon beunyddiol, a thrwy esgymundod, pan y bydd hyny yn angenrheidiol, er cynnal trefniad gweddus. Y diweddaf yr ydym, fel yn ngwyddfod Duw, yn ei ystyried yn beth o'r pwys mwyaf, fel rhybudd a drych i ni o'r farn ddiwedaf, pan y bydd i neb ymddwyn mor ddrwg ag y bydd yn rhaid iddo gael ei gau allan o'r cymundeb sanctaidd.

"Y rhai a flaenorant yn ein plith ydynt hynafgwyr, nid yn rhagori mewn hyawdledd a chyfoethogrwydd, eithr mewn cymmeriad rhinweddol. Y mae pob un yn ein plith yn bwrw i mewn yr hyn a ewyllysio o'i feddiannau bydol, i'r drysorfa gyffredin, bob mis, neu pan y dewiso, yn ol ei allu, fel ei tueddir; ni osodir trais ar neb. Y rhoddion hyn ydynt wystlon crefydd a gwir gariad brawdol. Trwy y rhai hyn y'n galluogir i gynnal y tlodion a chladdu yr anghenus—ymgeleddu yr amddifaid a phersonau analluog—y cyfryw ag sydd yn cyfarfod â llong-ddrylliad, a'r rhai hyny a ddedfrydir i garcharau a mŵn-gloddiau yn achos gair Duw. Yr haelioni hwn o'r eiddom tu ag at ein gilydd, sydd wedi dwyn sylw llawer arnom, nes peri iddynt ddywedyd,—*Gwelwch y modd y mae y Cristionogion hyn yn caru eu gilydd.*

"Yr ydym ni y Cristionogion yn edrych arnom ein hunain fel yn un corph, wedi ein cynnysgaethu âg un ennid; a thrwy ein bod wedi ymgorpholi felly, nid ydym byth yn ymddadleu pa beth yr ým i'w roddi y naill i'r llall. A ydyw yn beth i'w ryfeddu fod brodyr yn haelionus tu ag at eu gilydd, ag sydd yn mwynhau pob peth yn gyffredinol, yn cynnal cariad-wleddoedd cyn fynyched gyda'u gilydd? Yr ydych chwi yn ein gwaradwyddo o herwydd hyn, ac yn dirmygu ein ychydig swpperau cynnil, nid yn unig fel pethau cywilyddus a drwg, ond yn ormodedd gwarthus. Nattur y swpper yma a ddeallwch chwi wrth ei enw, o blegid yr un gair sydd yn yr iaith Roeg am hyn â *chariad.* Meddylia y Cristionogion nad allant byth fod yn rhy haelionus; canys yr ydym yn ystyried fod yr oll a roddom allan mewn gwneuthur daioni i eraill, yn ennill. Felly, gan hyny, pan elom i'r draul o wneuthur gwledd, yr ydym yn ei gwneud i ddiwallu eisiau, a llòni amysgaroedd yr anghenus. Yr ydym yn porthi y newynog, am ein bod yn credu fod yr Arglwydd yn ymhyfrydu yn y gwaith. Os ydym yn gwledda i'r fath ddybenion mawrfrydig a gogoneddus â hyn, gadewn i chwi farnu am y rhanau eraill o'n dysgyblaeth mewn pethau perthynol i grefydd bur, i'r hon nid oes dim dacarol neu aflan byth yn cael y derbyniad lleiaf. Ein heneidiau a esgynant i fynu mewn gweddi at ein Duw, cyn y byddo i ni eistedd i lawr i fwytta. Yr ydym yn bwytta yn unig yr hyn a ddigona ein nattur, ac

yn yfed ond yn unig yr hyn a weddai i ddynion diwair a rheolaidd ei wneud. Yr ydym yn swppera fel gweision ag sydd yn gwybod fod yn rhaid i ni ddeffroi yn y nos i wasanaethu ein Harglwydd, a bob amser yn ymddiddan fel rhai yn deall eu bod yn nghlywedigaeth eu Duw. Gwedi gorphen ein swpper, y mae pob un o honom yn cael ei alw i ganu mawl i Dduw: wrth hyn gellwch ddeall pa fodd yr ydym yn yfed yn ngwledd y Cristionogion. Ac yn yr un modd ag y dechreuwn, yr ydym yn diweddu, sef trwy weddio ar Dduw; ac yna yn ymadael â'n gilydd, yn yr un agwedd sobr a gwylaidd ag y daethom yn nghyd, nid fel dynion wedi bod yn yfed diod gadarn, eithr yn hytrach fel rhai a fuasent yn derbyn addysgiadau crefyddol.

"Yn awr, O farnwyr urddasol, ewch yn mlaen yn eich gorchwyl trwy eich rhith-gyfiawnder; a chredwch fi, mwy-fwy cyfiawn a fyddwch yn marn y bobloedd, po amlaf yr aberthoch y Cristionogion i'w nwydau. Croeshoeliwch, dirdynwch, dedfrydwch, a malwch yn llwch, os gellwch. Eich holl anghyfiawnder tu ag attom, ydynt amlygiadau profedig o'n diniweidrwydd; ac, er prawf, y mae Duw yn goddef i ni gyfarfod â'r holl bethau hyn; a thrwy eich ymddygiadau chwi, fe'u heglurwyd, pan y dedfrydasoch Gristionoges yn ddiweddar i anwydau dyn putteinig, yn lle i ddannedd llewod rheibus; yr hyn a ddengys eich bod yn credu fod y fath ymddygiad afian yn fwy ffiaidd ganddi na'r holl boenau angheuol a allech chwi bentyrru arni. Gwnewch eich gwaethaf, ac ehanged eich dychymmygion i'r eithafoedd pellaf, i chwilio allan ddefnyddiau a ffyrdd i boenydio y Cristionogion diniweid. Y cwbl a fydd yn hollol ofer i chwi; nid ydych yn gwneuthur dim ond galw sylw y byd arnom, a dwyn dynion i syrthio i fwy o gariad at ein crefydd. Po amlaf y torwch chwi ni i lawr, mwyaf trwchus yr ydym yn tyfu i fynu. Gwaed y Cristionogion a dywelltir genych chwi sydd fel hâd da a fwrir i'r ddaear, yn tarddu i fynu drachefn yn gnwd toreithiog.

"Yr ystyfnigrwydd a briodolwch i ni fel ein gwaradwydd, a gyfrifir genym yn athrawes addysgiadol o'r mwyaf defnyddiol, er prosoleytio y byd: canys yr hyn a alwch chwi yn ystyfnigrwydd, sydd yn taraw dynion â synedigaeth pan yn ein gweled, ac yn eu cynhyrfu i edrych i mewn yn fanwl i'r gwir achosion o hyn yma; a phwy erioed a edrychodd yn ddyfal ac onest i mewn i nattur ein crefydd, a'r nis cofleidiodd hi? a phwy a'i cofleidiodd hi, a hyny ar sylfaen addas, nad oedd yn barod i farw drosti? O herwydd y rhesymau hyn, yr ydym yn dra diolchgar i chwi am ein dedfrydu i farwolaeth; canys y mae y fath ddedwydd wahaniaeth ac anghyssondeb rhwng barn Duw a barn dynion. Felly, pan yr ydych chwi yn ein dedfrydu ar y ddaear i farwolaeth, y mae Duw yn y nefoedd yn ein rhyddhau i fywyd tragywyddol."*

MINUTIUS FELIX, cydoeswr â Tertulian, a ysgrifenodd amddiffyniad rhagorol i'r grefydd Gristionogol tua'r un amser. Buodd yn areithydd yn Rhufain cyn ei ddychweliad i ffydd yr efengyl. Cyhoeddodd ei ysgrif amddiffynol hon mewn dull o ymddiddan rhwng Cæcilius, ag oedd yn Bagan, ac Octavius y Cristion; a Minutius yn gylafareddwr (*umpire*) rhyngddynt. Dywedir fod ei ysgrif yn yr iaith wreiddiol yn dra hyawdl, bywiog, serchiadol, ac argyhoeddiadol, fel y mae anhawsdra mawr i gadw i fynu ei iaith a'i ddull ardderchog, mewn unrhyw gyfieithiad.

Y mae Cæcilius y Pagan yn dechreu trwy ddwyn ei holl gyhuddiadau yn

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 124.

erbyn Cristionogaeth, gan gyhoeddi yn ei herbyn yr holl gelwyddau gwaradwyddus a'r anfri a daflwyd arni gan ei gelynion; ac yn cyhuddo y Cristionogion o fod yn blaid beryglus ac anghyfreithlon, ag oedd yn tywallt eu dirmyg ar y duwiau, yn gwawdio eu haddoliad, yn gwatwor eu hoffeiriaid, ac yn diystyru eu temlau, nid yn unig fel pethau diwerth, ond fel lleoedd llawn o bob aflendid. Octavius, mewn amynedd mawr, a wrendy ar hyn oll, nes gorphen o'r cyhuddwr. Yna y mae yn dechreu ei araeth trwy ddangos nattur ddaionus Cristionogaeth; ac a ymdrecha hyd eithaf ei allu i'w rhyddhau oddi wrth y camgyhuddiadau a ddygwyd i'w herbyn gan y gwrthwynebwr. Nid yw efe yn gwadu nad oedd y Cristionogion yn edrych yn ddirmygus ar dduwiau y Paganiaid, ac yn barnu yn wael iawn am danynt a'u haddoliadau; ond efe a addefa hyn yn rhwydd: a dengys mai nid heb achos y gwnaent felly; ac a ymegnia i ddangos gwagder a gwaelder eu heilunod a'u gwasanaeth, gan ddywedyd,—"Y llygod, y gwenoliaid, a'r ystlumod, a'u cnöant yn ddrylliau, a'u hanmharchant, ac a eisteddant arnynt; oni bydd i chwi eu gyrru ymaith, adeiladant eu nythod yn eu geneuau; a'r pryf-copynod a weuant eu rhwydwaith dros eu hwynebau. Yn gyntaf yr ydych yn eu gwneuthur hwynt, gwedi hyny glanhewch, sychwch, a diogelwch hwynt, fel y gallwch eu hofni a'u haddoli. Pe byddai i ni allu edrych i mewn, a gweled eich holl ymarferiadau crefyddol, mae genych lawer iawn o bethau a barai chwerthin; eraill yn ddiau a alwent am ein tosturi a'n trugaredd."

Gwedi hyny y mae yn myned rhagddo gan ddangos yn eglur fod y nefoedd uchod, a'r ddaear isod, a'u lluoedd—y drefn ddoeth sydd arnynt—y gwasanaeth y mae y naill beth ynddynt yn wneud i'r llall, er na feddyliant am hyny, yn tystiolaethu yn anwadadwy y rhaid fod Achos dechreuol iddynt, a hwnw yn aneirif ei ddeall; yn enwedig dyn, o ran ei gyfansoddiad, dull ei gorph, a'r dyben o'i fodoliaeth uwchlaw un creadur arall, a brawf yn ddios fod rhyw un yn Greawdwr, ac yn Llywydd i'r bydyssawd, yr hwn ydyw y Duw a deilynga i ni ei addoli.

Er bod ei ysgrif yn hyawdl a medrus, ac yn amddiffyniad agos heb ei ail i Gristionogaeth, trwy fod ei resymau yn oleu ac yn gadarn, etto, nid gweddus yw coffau rhagor o honi, rhag chwyddo y llyfr yn ormodol. Ond ni ellir myned heibio i'r hyn a ddywed mewn attebiad i'r cyhuddiad o fod y Cristionogion yn dlodion a dirmygus. "Fod y rhan fwyaf o honom," meddai, "yn rhai tlodion, nid ydyw er ein dianrhydedd, ond er ein gogoniant. Fel y mae meddwl dyn yn cael ei wanychu trwy ormodedd ac afradlonrwydd, felly y mae yn cael ei nerthu trwy gynnildeb. Eithr pa fodd y dichon y dyn hwnw fod yn dlawd, yr hwn nid oes arno eisiau dim, a'r hwn ni chwennycha ddim ag sydd eiddo arall, a pha un sydd yn gyfoethog tu ag at Dduw? Yn hytrach y dyn hwnw sydd dlawd, yr hwn y mae ganddo lawer, ond a chwennychai fwy. Nid oes gan yr adar un etifeddiaeth; a'r anifeiliaid a gant eu porfa yn feunyddiol, ninau a ymborthwn arnynt; ac yn wir y maent wedi eu gwneuthur er ein gwasanaeth, er na chwennychasom hwy. Ni ddichon fod un dyn yn dlottach na phan ei ganed ef. Po leiaf fyddo y llwyth afreidiol, hawddaf i gyd yw esgyn i fynu tua'r nefoedd; a diau, y dyn hwnw a lwythir â'r llwyth ysgafnaf o gyfoeth, sydd debyccaf o fyned yn ddeddwyddaf adref i'r nef. Pe meddyliem fod meddu etifeddiaethau a mawredd y byd hwn yn ddaioni angenrheidiol, ni a'u gofynem gan Dduw, yr hwn yw Arglwydd pob peth, a'r hwn a rydd i ni bob peth angen-

rheidiol. Ond yr ydym yn hytrach yn dewis dirmygu cyfoeth y byd, yn lle ei fwynhau; yn chwennychu diniweidrwydd ac amynedd, yn fwy na meddiannau; ac yn dymuno bod yn dda a defnyddiol, o flaen bod yn gyfoethog ac afradlon. Ein mynych wendidau a fawr gynnyddant, ein gwroldeb a'n haml ofidiau sydd yn ein dysgu ac yn ein tywys i rinweddau."*

Er eglured a chadarned yr amddiffyniad a'r tystiolaethau hyn o blaid crefydd, er mawr anrhydedd y Cristionogion, etto nid tebygol iddynt gael ond ychydig o'r effaith dymunol ar yr amherawdwr, y llywodraethwyr, y rhaglawiaid, y barnwyr, a'r gwrthwynebwyr. Canys nid oes yr amheuaeth lleiaf na ddygwyd yr erledigaeth yn mlaen gyda'r ffyrnigrwydd mwyaf, yn erbyn canlynwyr Iesu Grist, yn nechreuad y canrif hwn. Dyoddefasant y colledion, yr anmharch, y gwaradwyddiadau, a'r creulonderau mwyaf, bron yn mhob lle; a llawer iawn a osodwyd i farwolaeth yn y modd poenusaf, mewn amryw fanau, yn enwedig y rhai tlottaf o honynt, fel y dychrynai y cyfoethogion er pwrcasu eu gwaredigaeth ar draul eu cydwybodau a'u meddiannau, trwy weled eu triniaethau hwy.

Yn nheyrnasiad Severus, dywedir, y dyoddefodd Perpetua a Felicitas, a'u cymdeithion, ferthyrdod yn Carthage, yn y modd mwyaf tawel, amyneddgar, a gorfoleddus, er maint y creulonderau a ddangosid tu ag attynt. Mae eu hanes yn dra neillduol, ac a adroddir yn fanwl gan Fleury; ac o herwydd y gwasanaetha efe i roddi i'r darllenydd gynllun o'r modd y byddai dynion, yn eu hagwedd fwystfilaidd, yn trin y Cristionogion diniweid y dyddiau hyny, adroddir rhanau o hono yn yr hyn a ganlyn. Y ddwy foneddiges uchod, a thri chyfaill iddynt, enwau pa rai oedd Saturnus, Secundus, a Rovocatus, oeddynt ar gael eu derbyn i mewn i'r eglwys oedd yn Carthage, trwy fedydd, pan dechreuodd yr erledigaeth yno. Perpetua oedd wraig weddw, o gylch dwy flwydd ar hugain oed, mam i unig ferch fechan, o deulu urddasol, wedi ei dwyn i fynu yn well na'r cyffredin, mewn dysg a moesau da; a chanddi ddau frawd a rhieni yn fyw, ac oll, oddi eithr ei thad, yn proffesu Cristionogaeth. Ei thad, pan ddeallodd ei bod ar fedr cymmeryd i fynu grefydd Crist—yr hyn a'i dygai yn agored i ddyoddef merthyrdod, yn wyneb y fath amser—a ddaeth atti, ac a erfyniodd arni, yn y modd taeraf, gyda dagrau a phob rhesymau, i beidio, fel y bu lawen ganddi am ei ymadawiad. Ac yn yr adeg honno, hi a'i chyfeillion a dderbyniwyd yn aelodau i'r eglwys, trwy fedydd. Yn mhen ychydig o ddyddiau wedi hyn, daliwyd hwy, ac a'u rhoddwyd mewn carchar tywyll a chyfyng, yr hyn a ofidiodd feddwl Perpetua yn lled fawr, o blegid afiachusrwydd y lle gan ormod gwres, o herwydd y nifer mawr oedd ynddo, yn nghyd â thrahausder y gwarcheidwaid, a'r gofal mawr oedd arni dros iechyd ei phlentyn sugno. Eithr dau o ddiaconiaid yr eglwys, a elwid Tertius a Pomponius, oeddynt yn gwasanaethu i'w hangenrheidiau yn barhaus hyd y gallent, pa rai a gawsant, trwy dalu swm o arian, eu symmud i well ystafell yn y carchar, yr hon oedd yn fwy iachus, lle gwelwyd Perpetua yn rhoi sugn i'r plentyn bychan gyda'r sirioldeb a'r hyfrydwch mwyaf, yr hon oedd o'r blaen ar dranc, o ddiffyg amgeledd. Yma y cyssurai ei mam a'i brodyr, ac a'u hannogai i fod yn ffyddlon; a chyfarwyddai hwynt pa fodd yr oeddynt i ymddwyn tu ag at ei merch fechan, yr hon a gyflwynai i'w gofal i'w dwyn i fynu, ar ol ei hymadawiad. Tystiodd ei bod hi yn llawn mor ddedwydd yno, â phe buasai o fewn i'r neuadd oreu yn y byd.

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 241.

Yn mhen ychydig amser, gwybuant y dygid hwy yn fuan i'w profi ger bron y llywydd. Yna ei thad a lanwyd â thristwch a gofid dwys; aeth atti, ac a'i cymhellodd, trwy bob rhesymau ac agweddau, i dynnu yn ol, a chymmeryd trugaredd arno ef yn ei benwyni, er peidio ei yrru i'w fedd mewn tristwch; ac am iddi ystyried am ei mam oedranus, a'i dau frawd, a'i hunig blentyn, pa rai nid oedd modd iddynt fyw, os dyoddefai hi ferthyrdod. Gwedi iddo fel hyn ddangos tu ag atti y serchiadau mwyaf, gan fwrw ei hun wrth ei thraed mewn wylofain mawr, yr hyn a effeithiodd i raddau ar deimladau Perpetua, blinodd lawer arni wrth weled mai efe oedd yr unig un o'i pherthynasau nad oedd yn ystyried ei sefyllfa a'i dyoddefiadau yn anrhydedd iddynt. Ond yn wyneb yr holl erfyniadau a'r teimladau cynhyrfiol hyn, hi a ddychwelodd iddo yr attebiad synwyrlawn a chynnwysfawr yma:—"Nid wyf fi," ebe hi, "yn eiddo fy hun, ond eiddo Duw, i wneuthur â mi fel yr ewyllysio."

Dranoeth, pan oedd hi a'i chyfeillion yn ciniawa, cawsant rybudd oll i ymddangos yn union o flaen y frawdle lle yr oedd lluaws aneirif wedi ymgynnull. Cyffesodd ei holl gyfeillion eu bod yn Gristionogion; ond cyn i Perpetua allu gwneuthur hyn, hi a attaliwyd gan ei thad, yr hwn a ddaeth ger bron, gan ddal i fynu ei phlentyn yn ei freichiau ger bron y llŷs a hithau, gan erfyn arni am gymmeryd tosturi arno. Hilarianus, goruchwyliwr y llŷs, a unodd gyda ei thad yn yr erfyniadau hyn, gan ei hannog i ystyried ei thad, ag oedd yn oedranus, a'i phlentyn ag oedd yn ei fabandod, am iddi achub ei hun trwy offrymu, er cael nawdd yr amherawdwr. Eithr ei hunig atteb oedd, mai Cristion oedd hi; am hyny nas gallasai wneuthur hyny. Gorchymynwyd i'w thad beidio; a phan y dangosodd anfoddlonrwydd i wneuthur hyny, un o swyddwyr y llŷs a'i tarawodd â gwialen; hithau a deimlodd hyny yn fawr, fel pe tarawsid hi ei hun. Ar eu cyfaddefiad oll eu bod yn Gristionogion, hwy a ddedfrydwyd i gael eu rhoddi i gynddaredd y bwystfilod gwylltion, ar ddydd pennodol, yn y chwareudy: a phan eu dychwelwyd yn ol i'r carchar i aros hyny, yr oeddynt yn gyflawn o lawenydd, ac yn annog eu gilydd i wroldeb ac amynedd: Perpetua a anfonodd am ei phlentyn i roddi bron iddo fel arferol, eithr naccawyd hyn iddi, yr hyn a'i gofidiodd yn fawr; ond yn fuan hi a ymwrolodd, a chafodd nerth i ymgynnal yn wyneb y siomedigaeth yn llawer gwell nag y gallesid disgwyl. Trwy eu hyn.ddiddanion duwiol, eu hagwedd siriol, a'u hymddygiadau sanctaidd yn gyffredin, Pudeus, ceidwad y carchar, a ennillwyd nid yn unig i fod yn dirion tu ag attynt, ond hefyd i chwilio i mewn i nattur eu crefydd; a'r canlyniad a fu, iddo roddi crêd i'r efengyl, ac ni lesteiriodd neb o'u cyfeillion i ddyfod i ymweled â hwy.

Yn yr amser hwnw, ymwelodd tad Perpetua â hi drachefn: arferodd bob ymdrechiadau i'w chymhell i dynnu yn ol, gan dynnu ei wallt a'i farf mewn eithaf ing a gofid yn ei hachos, ac ni adawodd ddim heb ei wneud, neu ei ddywedyd, a allasai feddwl a fuasai yn ysgogi ei gwroldeb. Addefai hi fod hyn yn fwy anhawdd iddi ei ddyoddef, nag wynebu y bwystfilod; etto ni wnaeth efe unrhyw effaith arni, ond cynhyrfu ei thosturi tu ag atto.

Yr oedd gan y carcharorion Cristionogaidd eraill lawer o brofedigaethau ac anhawsderau i fyned trwyddynt, yn enwedig Felicitas, yr hon a esgorodd ar ferch fechan dridiau cyn i'r amser yr oeddynt i ddyoddef yn y chwareudy ddyfod i ben. Yn y cyfyngder hwnw, ofnodd yn fawr y byddai iddi farw yn y ffordd honno heb gael dwyn ei thystiolaeth yn gyhoeddus dros ei Harglwydd, neu na byddai yn alluog i ddyfod gyda'i chyfeillion i selio ei chref-

ydd â marwolaeth ferthyrol, ond y byddai iddi farw ryw bryd arall gyda drwg-weithredwyr. Pan yn isel ei meddwl yn mhoenau esgor, gofynwyd iddi gan rai oedd o'i chylch yn y carchar, pan mor ddigalon yn y loesau hyny, pa fodd y goddefai gael ei rhwygo gan y bwystfilod gwylltion? Hithau a attebodd, gan ddywedyd, "Yn y wasgfa hon nid wyf yn dyoddef ond yr hyn sydd gyffredin, ac yn achos fy hun; eithr yn y llall, bydd i mi dderbyn cynnaliaeth anghyffredin oddi wrth yr hwn y byddaf yn dyoddef yn ei achos, ac yn ol y dydd y bydd fy nerth." Cymmerodd ei chwaer y plentyn i'w fagu, ac i ofalu am dano. Gwedi hyny ymddangosodd yn dra siriol a pharod yn ei meddwl i gyfarfod â'r amgylchiad. Secundus, un o'r cyfeillion, a fu farw yn y carchar; eithr 'chwanegwyd attynt un arall a elwid Saturnus, yr hwn a roddasai ei hun i fynu yn wirfoddol, wedi iddynt hwy gael eu dwyn i garchar.

Y mae yn deilwng o'n sylw, nad oedd cyfraith Severus yn effeithio cymmaint ar neb o'r Cristionogion, ag oedd ar y dychweledigion ieuaingc; canys gwaharddai hon, dan boen marwolaeth, i neb adael crefydd eu tadau; felly, yn ol hon, yr oedd y cyfryw ag a'i gadawsai, er cyn amser ei gwneuthuriad, debygid, yn rhyddion. Ond ystyrid yr arferiad o unrhyw foddion i ddychwelyd dynion at Gristionogaeth yn drosedd o honi; a lle byddai rhaglawiaid a swyddwyr gwladol yn llidiog, ac yn hoffi y gwaith o erlid a merthyru dynion, gosodent bawb, yn ddiwahaniaeth, a addefai Gristionogaeth, i farwolaeth; ac nid oedd gan y cyfryw un amddiffyniad ar y ddaear. Eithr lle byddai swyddwyr a rhaglawiaid y taleithiau yn gweini eu swyddau gyda mesur o ledneisrwydd, goddefid i'r cyfeillion ymweled â'r cyfryw a fyddai mewn carchar yn achos eu crefydd, a gweinyddu iddynt yr hyn a fynent, heb gael eu haflonyddu o blegid hyny.

Y dydd cyn i'r carcharorion Cristionogaidd yn Carthage gael eu dwyn i'r chwareudy, a'u rhoddi i'r bwystfilod, cynnaliasant gariad-wledd yn nghyntedd y carchardy, gydag amryw o'u cyfeillion, a ddaethai i ymweled â hwy; a daeth yno lawer eraill, o gywreinrwydd, i edrych arnynt. Dangosasant orfoledd mawr o'u bod yn cael eu cyfrif yn deilwng i ddwyn eu tystiolaeth yn y fath fodd dros eu Harglwydd bendigaid, ac o herwydd fod yr amser wedi nesu mor agos iddynt orphen eu gyrfa, a selio eu tystiolaeth â'u bywydau. Troisant eu sylw a'u hymddiddanion yn gwbl at yr hyn a berthynai i'r amgylchiad pwysig, nes y tarawyd yr edrychwyr â syndod; ac amryw o honynt a ddychwelwyd. Dranoeth oedd dydd yr arddangosiad, pan y dygwyd hwy allan o'r carchardy, i'w dwyn i'r chwareudy, yr hwn oedd yn llawn o edrychwyr; a hwy a ymddangosasant yno gydag wyneb siriol, yn llawn o orfoledd sanctaidd. Perpetua, yn ei hagwedd hardd, a'i hymddygiadau boneddigaidd, a gynhyrfai y teimladau mwyaf parchus tu ag atti, yn yr holl edrychwyr. Pan yn mhorth y chwareudy, mynid gwisgo y meibion â gwisgoedd offeiriaid Saturn, a'r merched â gwisgoedd gweinidogesau Ceres. Eithr yn erbyn y fath anghyfiawnder, gwrthsafodd y dedfrydediglon, gan ddywedyd, pa fodd y gallesid peri iddynt hwy gymmeryd y fath bethau yn groes i'w hewyllys, pan y dyoddefent farwolaeth o herwydd peidio ei wneuthur yn ewyllysgar. O ganlyniad peidiwyd a'u gwisgo felly, gan adael iddynt ymddangos yn eu gwisgoedd eu hunain.

Pan yn cael eu dwyn i'r chwareudy, Perpetua a ganai emynau o fawl i Dduw, a'i chyfeillion a annogent yr edrychwyr, mewn modd dwysaidd, i ffoi rhag y digofaint oedd ar ddyfod. Gwedi iddynt ddyfod o fewn golwg

y prif-swyddwr, dywedasant wrtho, "Yr wyt ti yn ein barnu ni heddyw, ond Duw a'th farna dithau ryw ddydd." Am hyn cynhyrfodd llid y bobl gymmaint yn eu herbyn, fel y mynasant fflangellu y meibion yn y fan; ond hwy a lawenychasant yn fawr, o blegid eu bod trwy hyny yn cael cyfranogi, mewn rhan, o'r un dyoddefiadau â'u Harglwydd. Gwedi gollwng y bwystfilod arnynt, Saturnus, yn flaenaf, yn ol ei ddeisyfiad blaenorol, a ddrylliwyd yn ddiattreg, trwy i amryw o honynt ruthro arno ar unwaith. Rovocatus a laddwyd gan lewpart ac arth yn nghyd. Saturnus a roddwyd i arthes ar y cyntaf, yr hon a rwygodd y swyddog a safai gerllaw, fel y bu farw yn mhen ychydig ddyddiau; eithr efe a lusgwyd ganddi o amgylch heb gael ond ychydig niwaid. Rhoddwyd ef i arth drachefn, yr hwn a ommeddodd godi o'i ffau i gyffwrdd âg ef. Gwedi hyn efe a daflwyd, cyn diwedd yr arddangosiad, yn ffordd llewpart, yr hwn a'i drylliodd nes oedd y gwaed yn ffrydio allan; ar hyn gwawdiodd yr edrychwyr ef, gan ddywedyd, *ei fod wedi cael ei fedyddio mewn gwaed:* ond ni lwyr ddifeddiannwyd ef o'i fywyd.* Yn y cyfryw agwedd, annerchai yr edrychwyr, gan annog cyfeillion Crist i fod yn ddianwadal yn ei achos, yn enwedig ceidwad y carchar, yr hwn oedd y pryd hwnw yn ddysgybl dirgelaidd; a thynodd ei fodrwy oddiar ei fys, ac wedi ei throchi yn ei glwyfau, efe a'i rhoddes iddo i'w chadw. Gwisgwyd Perpetua a Felicitas ar y cyntaf â math o rwyd, ar eu cyrph noethion, i'w taflu i fuwch wyllt; eithr yr olygfa oedd yn ormod i deimladau ffyrniccaf yr edrychwyr i'w oddef; am hyny hwy a orchuddiwyd â rhyw hugan hirllaes. Y creadur gorwylltiog a'u corniodd, ac a'u taflodd i'r ddaear yn archolledig; wedi iddynt gael gronyn o seibiant, Perpetua a welwyd yn cymhenu ei gwisg, er ceisio ei dwyn i guddio ei noethni; wrth edrych ar ei chyfeilles Felicitas, mewn llawer gwaeth agwedd na'i hun, hi a drôdd atti, ac a'i cynnorthwyodd. Gwedi iddynt allu sefyll ar eu traed gerllaw porth y chwareudy, Perpetua a alwodd am ei brawd i ddyfod yno, yr hwn a annogodd hi yn y modd mwyaf difrifol i barhau i lynu wrth yr Arglwydd o lwyrfryd calon, ac na lwfrhai efe o herwydd ei dyoddefiadau hi, gan ddangos mor gyssurus yr oedd ar ei meddwl, ac y byddai y frwydr olaf yn union drosodd. Pan oeddynt fel hyn yn glwyfedig, gorchymynwyd eu dwyn i'r dienyddle cyffredin i'w rhoddi i farwolaeth trwy'r cleddyf, gwaeddodd yr edrychwyr am iddynt gael eu dwyn i ryw le arall, ag oedd yn fwy cyfleus iddynt hwy gael eu gweled. Hwy a godasant i fynu o honynt eu hunain, ac a gerddasant i'r lle hwnw. Gwedi eu dyfod i'r lle, rhoddasant y naill i'r llall yr arwydd diweddaf o'u cariad, trwy gusanu eu gilydd, ac a ymostyngasant yn dawel i'r ddyrnod farwol. Wrth gerdded tua'r lle, cynhaliai Saturnus Perpetua, ac efe a osodwyd i farwolaeth gyntaf, pan yr oedd hi yn cyfarwyddo milwr ieuangc digalon i iawn gyflawni ei swydd.

Yn debyg i hyn y bu ar tua deuddeg o'r saint yn Scilita, dinas yn nhalaeth Carthage; megys y bu ar lawer eraill, tua'r un amser, yn amryw fanau o'r amherodraeth, am agos i naw mlynedd o deyrnasiad Severus, yr hon a orphenodd yn y flwyddyn 211 o'r cyfrifiad cyffredin;† a theyrnasodd Caracala a Geta ei feibion yn ei le. Yr oedd y ddau hyn yn wahanol iawn eu tymherau. Y blaenaf oedd un o'r dynion gwylltaf a'r mwyaf afradus o blant Adda; a'r ail oedd yn hollol i'r gwrthwyneb: ac yr oeddynt er y dechreuad yn dra èiddigeddus o'u gilydd, ac yn genfigenllyd a llidiog y naill tu ag at y

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 248. † Milner's Church Hist. vol. i. p. 328.

llall. Cynnyddodd hyn yn fawr wedi eu dyfod yn gyd-feddianwyr o'r orsedd, nes, yn fuan ar ol hyny, y rhuthrodd Caracala a'i hûr-lofruddion ar Geta, ac a'i lladdasant, yn mreichiau eu mam, yr hon a ymdrechai i achub ei fywyd. Bu hyn yn ddechreuad tywalltiad gwaed yn gyffredin trwy y deyrnas. Canys ni arbedodd Caracala neb o gyfeillion, gwasanaethwyr, masnachwyr, a'r cyfryw a fyddai, mewn unrhyw fodd, a wnelent â'i frawd, neu a ddangosent y mesur lleiaf o alar ar ei ol, fel y bernir i fwy nag ugain mil o ddynion, o bob oed, rhyw, a sefyllfa, gael eu gosod i farwolaeth dan y ffug-esgus o fod yn gyfeillion i Geta.

Gormes, llofruddiaethau, a drygioni Tiberius, Nero, a Domitian, a ymddangosant ond bychan, wrth eu cymharu â'r eiddo Caracala. Eu holl ddrygau hwy yn benaf a gyfyngid o fewn i'r ddinas a'r pentrefydd, lle yr arosent fynychaf, a chyflawnent eu difrod ar y marchogion a'u seneddwyr. Ond Caracala ydoedd elyn cyffredin i holl ddynolryw. Gadawodd y brif ddinas dan deimladau arteithiol cydwybod euog, o'r fath ag na fedrai trafferthion, pleserau bywyd, a chyfeillion, na dim, mo'u dileu, yn mhen o ddeutu blwyddyn wedi llofruddio ei frawd, ac ni ddychwelodd yno mwy.

Y rhan arall o'i fywyd a dreuliodd efe mewn gwahanol daleithiau o'r amherodraeth, yn mha leoedd y gorfyddai ar ei lŷs a'i seneddwyr ei ddilyn, a gweini iddo. Ac yn mha dalaeth bynag y byddai, teimlid ei drais, ei ormes-lywodraeth, a'i greulonderau diderfyn. Yn amser heddwch, ac yn nghanol llonyddwch, ar y ffug-esgus lleiaf, gorchymynai i osod trigolion dinasoedd cyfain yn gelaneddau meirwon: megys y gwnaeth yn Alexandria yn yr Aipht, lle y bu y fath alanasdra, nes oedd ffrydiau gwaed dynion yn troi lliw afon Nilus. Yr oedd efe fel pe buasai teimladau annedwydd ei feddwl yn ei yrru i'r fath ffyrnigrwydd, fel nad oedd ganddo ddifyrwch mewn dim ond yn nh ywallt gwaed ei gydgreaduriaid.

Ymdrechai trwy bob moddion i ymgadw yn serchiadau y fyddin: am bawb eraill o'i ddeiliaid, nid oedd yn eu hystyried o fawr bwys. Goddefai i'r milwyr ormesu ar ddynion, a'u hyspeilio o'u meddiannau; ac arferai wasgu ac anrheithio ei ddeliaid, trwy eu trethu a'u dirwyo, er cael arian i dalu cyflogau ei filwyr, pa rai a fawr ychwanegwyd ganddo, nes oedd efe a hwythau yn ddychryn i'r holl amherodraeth. Priodolir dinystr yr amherodraeth i hyn; canys po fwyaf cyfoethog, gloddestgar, ac anymddibynol y deuai y fyddin, mwyaf anghymmwys ydoedd i wasanaeth, yn mhob ystyr, a mwyaf meistrolgar a gormesol ydoedd i'r wladwriaeth.* Ond terfynodd ei ormes-lywodraeth a'i fywyd, trwy fradwriaeth un o'i brif swyddwyr, a elwid Macrinus, yr hwn a osododd Martial, canwriad o'r fyddin amddiffynol i berson yr amherawdwr, i'w ladd ef, yr hyn a wnaeth, fel y gorchymynasid, gan ei drywanu â'i gleddyf, pan yn cyd-deithio.

Yr Arglwydd sydd ryfedd yn ei holl ffyrdd, ac anolrheiniadwy yn ei holl weithredoedd. Caracala, yr hwn oedd drwy ei fywyd oll yn waradwydd i ddynoliaeth, a'i deyrnasiad yn gyhuddiad yn erbyn amynedd y Rhufeiniaid, etto am y chwe mlynedd a dau fis y bu efe yn teyrnasu, parodd yr Arglwydd i'r Cristionogion nid yn unig gael llonyddwch, ond hefyd nodded ac amddiffyn trwyddo; canys ni oddefai i neb eu drygu na'u herlid yn anghyfiawn.

Macrinus, yr hwn oedd â chanddo law neillduol yn marwolaeth Caracala, a gyhoeddwyd yn amherawdwr, yn mhen tridiau wedi hyny, a'i fab Deadu-

* Gibbon's Decline and Fall, &c. vol. i. c. 6. a Goldsmith's Hist. of Rome, p. 477.

menus yn gyd-amherawdwr âg ef. Eithr ni bu eu teyrnasiad ond byr, dim yn ychwaneg nag un blwyddyn a dau fis; a hwy a fuant feirw trwy gleddyf eu deiliaid eu hunain; a theyrnasodd Heliogabalus yn eu lle.

Eang amherodraeth y Rhufeiniaid oedd wedi myned erbyn hyn, o ran ei llywodraeth, yn hollol filwraidd. Y neb a fynai y fyddin a osodid i fynu; a'r neb a fynent a dynid i lawr. Heliogabalus oedd offeiriad i dduw yr haul, yn Emessa, o fewn Syria, yn llangc, ddim ond pedair blwydd ar ddeg oed, pan ei dewiswyd gan y milwyr, a hyny o herwydd harddwch ei wisgoedd a thebygolrwydd ei gorpholaeth i Caracala, i fod yn amherawdwr. Ymddygodd yn union fel y gallesid disgwyl i un mor ieuangc a dibrofiad âg oedd efe, yn cael ei ddyrchafu o sefyllfa mor isel, i wisgo y fath awdurdod annherfynol ag a berthynai i amherawdwyr, a'i amgylchynu gan y fath luaws o wenieithwyr. Efe oedd y cyntaf o'r dwyreinwyr a fu yn eistedd ar orsedd yr amherodraeth hon. Y tywysog ieuangc a arweiniwyd yn hollol gan wenieithwyr ei lŷs; ac yntau yn deimladwy y gallai gael yr hyn oll a foddlonai ei ei nwydau llygredig, ni feddyliodd am ddim a berthynau i'r deyrnas, ond yn unig a borthai ei chwantau. Haneswyr a ddarluniant ei holl ymddygiadau fel cadwyn unbleth o'r gweithrediadau gwaelaf a mwyaf ynfyd a gwarthus, o neb a fu o'i flaen ef. Ni bu iddo lai na chwe gwraig, y rhai oll a ysgarwyd ganddo o fewn pedair blynedd. Ymwisgai a gosodai ei hun allan fel merch: mynodd ei briodi ddwywaith â meibion! unwaith â'i gaethwas ei hun, i'r hwn y goddefai i'w guro, er dangos y modd y dylai gwragedd ymostwng i'w gwyr. Mynai i'w neuadd gael ei llenwi o'r menywod gwaethaf eu cymmeriad, â pha rai yr ymgymmysgai, oll yn noethion. Yn chwanegol at yr ynfydrwydd hwn, arferai y creulonderau mwyaf, ac afradlonrwydd i'r eithaf, fel y treuliai yn gyffredin ar ei swpper tua mil o bunnau o'n harian ni, ac weithiau tua chant a hanner o filoedd. Mynai gael ei ffyrdd o dan ei draed weithiau wedi eu gorchuddio â llwch aur ac arian.

Hawdd y gallesid goddef yr ymddygiadau plentynaidd hyn, a myrdd o'u cyffelyb; eithr efe a chwanegodd ysgelerder, trwy ddifyru ei hun i lofruddio miloedd o'i ddeiliaid, amryw o ba rai a broffesai efe eu bod yn gyfeillion iddo. Gorchymynai i wyryfon harddaf y deyrnas gael eu dwyn wrth yr ugeiniau i'w haberthu i dduw yr haul, i ba un y priodolai efe ei holl ddyrchafiad a'i lwyddiant; ac arferai wrth edrych ar goluddion y trueiniaid, gymmeryd arno ddarogan pethau i ddyfod. Blinodd y milwyr yn mhen amser ar ei ymddygiadau ffol a chreulawn, fel y lladdasant ef; a pharasant i'w gorph noeth gael ei lusgo trwy heolydd y ddinas gyda'r dirmyg mwyaf, a'i daflu i Tiber, â phwysi wrtho, rhag i neb ei gael a'i gladdu.*

Felly gorphenodd un o'r dynion gwaelaf a gwaethaf ei fywyd yn y ddeunawfed flwyddyn o'i oedran, wedi teyrnasu yn warthus am bedair blynedd; ac Alexander ei gefnder a ddaeth i'r orsedd amherodrol ar ei ol. Fel y mwynhäai Heliogabalus ei bleserau yn fwy, efe a ddyrchafodd Alexander yn ei fywyd i fod yn ail yn y llywodraeth, ac a'i henwodd yn Cæsar. Wedi ei farwolaeth, dewiswyd ef i'r llywodraeth yn hollol ddiwrthwynebiad gan y senedd a'r fyddin, pan nad oedd ond 17 oed. Cynnygwyd iddo enwau o barch ac anrhydedd ar ei ddyrchafiad i'r orsedd, fel yr arferent wneud; eithr efe yn wylaidd a'u gwrthododd, gan ddywedyd fod y fath enwau yn unig yn anrhydedd pan eu rhoir i rinweddau haeddiannol, ac nid i ddynion o ran eu sefyllfa-

* Goldsmith's Hist. of Rome, p. 481.

oedd. Ymddangosai hyn ynddo fel gwawrddydd bore-gwaith hyfryd; a dedwydd yw gallu dywedyd na siomwyd neb ynddo: canys ychydig, os neb, o dywysogion Rhufain a ddengys hanesyddiaeth, o ran eu bywydau, yn rhagorach yn teilyngu parch a chymmeradwyaeth eu deiliaid, na'r tywysog ieuangc hwn. Efe a chwanegodd at gyfiawnder manylaidd ei weinidogaeth, y dyngarwch hawddgaraf. Yr oedd yn caru daioni a lleshad ei ddeiliaid gymmaint, fel y ceryddai eu halogrwydd a'u drygioni gyda llymdoster. Y cyfryw oedd ei dalentau, ehangder ei ddeall, cyfanrwydd ei wybodaeth gyffredinol yn mhob celfyddydau defnyddiol, ei athrylithrwydd, a threiddgarwch a dwysder ei farn, er yn fachgen, fel y cyfrifid ef gan bawb a'i hadwaenai yn henafgwr.

Ei ofal blaenaf oedd diwygio y llŷs, y cynghor, a'r senedd. I'r dybenion hyny dewisodd yr hyglod Ulpian, y cyfreithiwr, a Sabinus, y seneddwr rhagorol yr hwn a elwid Cato ei oes, yn brif weinidogion ei lywodraeth. Gwrandawai ac ymostyngai i gynghorion a chyfarwyddiadau Mammea ei fam, yr hon oedd wraig dra rhinweddol, a helaeth ei thalentau, a ddefnyddiodd ei holl alluoedd, yn gystal er ennill serchiadau y deiliaid tu ag at ei mab, ag i weinyddiad cyfiawn gael ei wneud o gyfreithiau yr amherodraeth. Teilyngdod oedd unig drwydded diogelwch a dyrchafiad yn y teyrnasiad hwn. Gwrthwynebai yr amherawdwr, gyda digasedd, i swyddau a sefyllfaoedd gael eu gwerthu am arian. Arferai ddweud yn gyffredin, y byddai i'r hwn a brynai swydd, fod yn werthwr cyfiawnder. "Ni allaf oddef," meddai ef, "weled masnachwyr mewn awdurdod; o blegid os goddefaf fi hwy yn gyntaf i fod yn brynwyr, pa fodd y gallaf feio arnynt wedi hyny am fod yn werthwyr, neu eu cospi am dderbyn gwobrau?

Cymmaint oedd ei gariad a'i hoffder at rinweddau, fel pan y clywai am un o'i ddeiliaid wedi gwneuthur gweithred ddaionus a theilwng, cofrestrai hi yn ei ddydd-lyfr, ac a osodai ei hun ar lawr ar gyfer hyny, yn ddyledwr i'r hwn a'i gwnaethai. A phan y byddai y cyfryw, gan wylder, yn hwyrfrydig i ddyfod atto i ymofyn unrhyw gymmwynas, arferai ofyn iddo, paham yr oedd mor ol-llaw yn dod i geisio ganddo ei uniawnder? a phaham yr oedd yn ei adael ef i aros cyhyd yn ei ddyled? Yr oedd fel Titus gynt yn anfoddlon fod un diwrnod yn myned heibio heb iddo wneud daioni i ryw rai o'i ddeiliaid.

Er fod Alexander yn un o'r tywysogion â'r cymmeriad goreu iddo a adwaenir ar wyneb hanesyddiaeth hynafiaethol, etto, y mae yn eglur nad oedd y cyfreithiau cospol a wnaed yn erbyn y Cristionogion gan ei flaenoriaid wedi eu dileu; o herwydd hyny, dyoddefodd rhai o honynt yn ei deyrnasiad ef. Bernir i hyn gael ei ddwyn yn mlaen yn benaf trwy gynhyrfiad Ulpian, ei brif gyfreithiwr, yr hwn, er ei enwogrwydd yn y swydd honno, oedd yn elyn creulawn i'r Cristionogion. Ond dangosodd yr amherawdwr a'i fam lawer o hynawsedd a chariieiddwch tu ag attynt, mewn amryw ystyriaeth, ar wahanol amgylchiadau. Pan, ar un amser, y dygwyddodd fod amrafael rhwng rhai o honynt â gwestwyr, am ddarn o dir a arddelwai y Cristionogion eu hawl iddo, fel lle i addoli, a'r bwydiedyddion hwythau a'i harddelwent fel gwestle—dygwyd y peth i'w benderfynu ger bron yr amherawdwr, yr hwn a roddes ei farn o du y Cristionogion, gan ddweud, "fod yn well i Dduw gael ei addoli yno mewn rhyw ddull, na bod y lle yn cael ei roddi i loddest a meddwdod." Dyma yr amser cyntaf y gwelwyd gweinidogion yr efangyl yn cael dyfodfa heddychol i lŷs Rhufain.*

* Gibbon's Decline and Fall, &c. vol. i. p. 331.

Pan oedd efe a'i fam yn dychwelyd trwy Antiochia, tu a'r flwyddyn 229, deisyfodd hi gael gweled yr hyglod dduwinydd Origen o Alexandria; gyrodd am dano atti, er cael helaethach gwybodaeth, a'i dysgu yn fanylach yn egwyddorion Cristionogaeth. Gwedi ymddiddan âg ef dros amser, danfonodd ef yn ei ol yn anrhydeddus o dan olygiad gwarcheidwaid, rhag cael o hono niwaid ar ei daith.

Arferai yr amherawdwr gadw, yn mhlith eraill, lun Crist ac Abraham yn barchus yn ei ystafelloedd; am yr ystyriai efe y personau hyny yn rhinweddol, wedi mawr leshau dynolryw. A byddai yn arferol o adrodd y geiriau hyn yn feunyddiol, sef, "Gwnewch i eraill fel yr ewyllysiech i eraill wneuthur i chwithau," fel un o'r pethau rhagorol a ddysgodd, meddai, gan y Cristionogion; a cherfiai hwynt ar furiau ei balas.* Nid yw yn debyg iddo ef na'i fam broffesu y grefydd Gristionogol yn hollol hyd ddydd eu marwolaeth, yr hyn a gymmerodd le yn y flwyddyn 235, trwy fradwriaeth Maximinus, un o'u pen-swyddwyr milwraidd, yr hwn a ddaeth i'r orsedd ar ei ol ef. Cyflawnodd yr adyn hwn ei fwriad gwaedlyd arnynt pan oedd yr amherawdwr yn ei ryfelgyrch yn erbyn treiswyr yr amherodraeth, yn yr Almaen.†

Mae marwolaeth Alexander yn brawf fod llygredigaeth y Rhufeiniaid wedi mwyhau gymmaint y pryd hwnw, fel nad oedd uchder sefyllfa, dewrder a medrusrwydd milwraidd—llwyddiant mewn rhyfeloedd, a goruchafiaeth ar elynion—doethineb a chyfiawnder mewn gweinyddiad llywodraeth gartrefol, na hynawsedd a dyngarwch dynol—yn un diogelwch bywyd, na moddion i ddiangc rhag y llofruddiad ffieiddiaf yn eu plith. Yr ydym yn gweled fod amgylchiadau yr eglwysi o fewn holl amherodraeth Rhufain, er marwolaeth Severus hyd farwolaeth Alexander, yspaid o bum mlynedd ar hugain, yn lled dawel a dirwystr, ac yn llwyddiannus yn gyffredin. Ond yn nheyrnasiad Maximinus, cyfnewidia yr olygfa yn fawr. Yr oedd cymmeriad yr amherawdwr hwn yn hollol i'r gwrthwyneb i eiddo ei ragflaenor.

Maximinus yn ei ddydd, oedd yn un o'r dynion hynottaf a ddarllenir am dano mewn hanesyddiaeth. Mab oedd efe i fugail tlawd yn anialwch Thrace. Yn nechreuad ei fywyd, dilynai yntau y sefyllfa isel honno; yn mha le dangosai ei rymusder a'i wrolder trwy wrthsefyll heidiau o yspeilwyr a flinai y parthau hyny o'r wlad. Yn fuan llanwodd uchel-gais ei feddwl; gadawodd y sefyllfa honno, ac ymunodd â byddin y Rhufeiniaid, yn mha un yr hynododd ei hun, o ran ei rymusder corphorol, a'i fedrusrwydd a'i ddewrder milwraidd. Y dyn cawraidd hwn oedd lawn wyth troedfedd a hanner o uchder; a'i gorph oll yn gyfattebol, mewn maintioli yn gysson; yn berson hardd a chyfan. Breichledau ei wraig a wasanaethent iddo yn fodrwyau am ei fysedd; ac o'r fath nerth, fel y llusgai gerbyd yn rhwydd, a fyddai yn rhy bwysig i ddau ŷch i'w syflyd. Tarawai ddant march allan o'i ben â chil ei ddwrn, a thòrai glun march pan y mynai âg ergyd ei droed. Yn barhaus bwyttâi ddeugain pwys o gig y dydd; ac yfai chwe galwyn o win, heb yr ymddangosiad lleiaf ei fod yn ormodedd iddo. Ac yr oedd o ran ei feddwl yn llawn mor nerthol â'i gorph. Nid oedd y peryglon a'r enbydrwydd gwaethaf, na'r gorchestion mwyaf y gelwid ef iddynt, yn ei lwfrhau. Pan yn farbariad anfoesgar, newydd ddyfod o wlad fynyddig ei enedigaeth, dygwyd ef i sylw gan Severus yr amherawdwr. Nid oedd y

* Goldsmith's Hist. of Rome, p. 457. † Gibbon's Decline and Fall, &c. vol. i. p. 102.

pryd hwnw neb saith o wyr cryfion yn y fyddin a fedrai, gydà'u gilydd, ymaflyd ac ergydio âg ef. Rhedai a theithiai yn gyflymach na march yr amherawdwr; a daliai i'r daith yn hwy nag ef, nes ei flino allan.

Severus a ddechreuodd ei dderchafu; a chodwyd ef yn uwch o'r naill sefyllfa i'r llall, nes ei godi i'r sefyllfa uchaf yn y fyddin. Yn mhob sefyllfa ymddygai yn fedrus, yn ffyddlon, ac yn ddewr, nes ynnill sylw pawb, a pharch ei uchafion. Alexander, yn nechreuad ei deyrnasiad, a'i dyrchafodd yn faes-lywydd i'w fyddinoedd, ac a'i hanfonodd yn erbyn yr Almaeniaid, a ymgodent ac a dorent ar draws yr amherodraeth yn y parthau nesaf attynt. Yn y sefyllfa hon, rhoddodd foddlonrwydd mawr, ar y dechreu, i'r amherawdwr a'r senedd; canys llywyddai y byddinoedd yn weddus ac yn fanwl, a chyda rhwyddineb a thiriondeb y llywodraethai yr holl wyr oedd dano; ac nid oedd neb mor llwyddiannus yn ei ymgyrchiadau rhyfelgar, fel y daeth i gael ei ystyried yn fuan gan ei gydswyddwyr, a'r milwyr yn gyffredin, y milwr gwrolaf, y medrusaf, y prydferthaf, y mwyaf rhinweddol, a'r goreu yn yr holl amherodraeth. Hyn a fu yn achlysur iddo edrych tua'r orsedd, a'i gynhyrfu i ddefnyddio ei ddyrchafiad a'i gymmeradwyaeth gyda'r milwyr yn foddion i'w chyrhaedd, trwy osod ei feistr, ei gymmwynaswr, ei fam, a'i gyfeillion i farwolaeth yn y modd mwyaf bradychus.

Gwedi i Maximinus gael ei wisgo â'r fantell borphoraidd, diosgodd ymaith yn fuan bob ymddangosiad rhinweddol; ac ymddygodd megys y gormeswr mwyaf creulawn, hyd yn nod tu ag at y rhai hyny a fuant yn foddion i'w godi i'r orsedd.* Medd Gibbon, creulondeb y gormeswyr Caligula, Nero, Commodus, a Caracala, a darddai o'u hanwybodaeth plentynaidd, eu hafradlonrwydd, eu dygiad i fynu yn y fantell las-goch, er eu dechreuad, a'u llygriad trwy falchder y goron amherodrol, a gloddest Rhufain, yn nghyd â gweniaith bradol eu seneddwyr; eithr creulondeb Maximinus a darddai o le gwahanol, sef ofn cael ei ddirmygu. Er mai ar ymlyniad y milwyr wrtho yn unig yr ymddibynai, pa rai a'i carent yn fawr, am y rhinweddau oedd ynddo yn debyg i'r eiddynt eu hunain, etto, yr oedd yn ymwybodol o'i ddechreuad gwael a barbaraidd, ei ymddangosiad anwaraidd, a'i hollol amddifadrwydd o wybodaeth o bob celfyddydau a sefydliadau a berthynai i fywyd moesgar, yr hyn a barai iddo ymddangos yn ngolwg pawb o gymmeriad hollol wrthwynebol i eiddo Alexander ei annedwydd ragflaenor. I'r dyben o geisio cuddio gwaelder ei ddechreuad, penderfynodd osod pawb i farwolaeth a wyddai am hyny. Nid arbedai wreng na bonedd, gwael na gwych, cyfeillion na gelynion; canys gwybodaeth o'i waelder blaenorol a ystyrid yn fai o'r fath a haeddai farwolaeth. I'r ynfydrwydd a'r gwallgofrwydd anghymharol hwn, aberthodd fywydau miloedd lawer o'i ddeiliaid; yn eu plith yr oedd llawer o'i gyfeillion a'i brif gymmwynaswyr, a fu yn foddion i'w ddyrchafu.†

Teimlodd y Cristionogion hefyd bwys ei ormes a'i greulondeb yn fawr, er mai byr oedd yr amser y bu yn teyrnasu. Cynhyrfwyd ef i'w herlid hwy yn ddiarbed, yn enwedig gweinidogion y Gair, gan y gwyddai am eu pleidgarwch i, a'u cyfeillgarwch âg, Alexander ei ragflaenor. Rhifedi y rhai a osodwyd i farwolaeth yn achos eu crefydd, ac a ddeolwyd o'u gwlad, sydd yn rhy anhawdd eu sicrhau yn bresennol; eithr y mae yn amlwg eu

* Goldsmith's Hist. of Rome, pp. 487, 488.

† Gibbon's Decline and Fall, &c. vol. i. p. 104.

bod yn lluosog, a bod yr erledigaeth wedi cyrhaedd Cappadocia, Pontus, ac Asia, yn nghyd âg Alexandria yn yr Aipht; canys yr ydym yn cael orfod o Origen ffoi oddi yno tu ag Athen, er ymguddio rhag y dryccin. Hwn a elwir y chwechfed erledigaeth.

Ysgrifenodd Origen ferthyrdraith yn rhoddi hanes am ddyoddefiadau amryw o'r saint yn yr amseroedd hyny, ac a'i cyflwynodd i'w gyfeillion Ambrose a Protertius, gweinidogion yr eglwys oedd yn Cæsarea, pa rai oedd yn gyd-gyfranogion o ddyoddefiadau yr eglwysi yn gyffredin yn y dalaeth.* Eithr y llyfr hwn sydd wedi ei golli, fel llawer o lyfrau buddiol eraill, a roddasent lawer o oleuni ar grefydd yn yr amseroedd hyny, oddi eithr ychydig ddarnau o hono, a goffeir gan awduron diweddarach.

Gwedi i Maximinus deyrnasu am agos i bedair blynedd, a dwyn yn mlaen ei ormes i'r fath raddau, hyd nad oedd dim i'w glywed ond dolefau o bob cwrr i'r eang amherodraeth, yn galw am ddial arno, fel gelyn cyffredin dynolryw, cododd amryw daleithiau, yn enwedig yn Affrica, a'r senedd yn Rhufain, mewn gwrthryfel i'w erbyn, fel y gwnaed yr holl amherodraeth yn un olygfa waedlyd trwy ryfel cartrefol. Gan gymmaint ei lywodraeth a'i effeithiad ar y milwyr, parhaodd pethau fel hyn dros amser. Weithiau ymddangosai efe a'i bleidwyr yn llwyddiannus, bryd arall ei wrthwynebwyr. O'r diwedd rhoddwyd ef a'i fab i farwolaeth, gan wyr o'u byddin eu hunain, pan yn gwarchod ar Aquileia, dinas yn yr Ital. Fel hyn y terfynwyd bywyd y dyn hynod hwn, yn y bummed flwyddyn a thriugain o'i oedran, a chwedi ei drais-feddianniad o'r orsedd am bedair blynedd. Ei farwolaeth a waredodd y byd oddi wrth yr iau fwyaf haiarnaidd, a'r eglwysi oddi wrth erledigaeth un o'r dynion gwaethaf a chreulonaf a fu er dechreuad amser.

Dewiswyd gan daleithiau Affrica, a llawer o'r milwyr, foneddwr or enw Gordian, i fod yn amherawdwr, yr hyn a gadarnhawyd gan y senedd; ond efe a fu farw trwy hunan-laddiad, wedi iddo golli ei fab yn ei ryfel yn erbyn gwyr Maximinus.† Y seneddwyr drachefn a ddewisasant Pupienus a Balbinus yn gyd-amherawdwyr; ond ni buant fawr o amser yn eu swydd: canys y milwyr maerol a'u rhoddasant hwy i farwolaeth yn eu palas, yn y modd mwyaf gwarthus, ac a ddewisasant Gordian, ŵyr i'r un uchod, yn eu lle hwynt.

Gwelwn yma mor ansefydlog, ydyw pob mawredd perthynol i'r byd hwn, dim llai na chwech o dywysogion coronog yn amherodraeth Rhufain, a dorwyd ymaith trwy'r cleddyf, mewn ychydig fisoedd. Llangc un-ar-bymtheg oed oedd Gordian pan ddechreuodd efe deyrnasu, a chwe blynedd y teyrnasodd efe. Yr oedd dechreuad ei deyrnasiad yn heddychol a llwyddiannus; a phan yr aeth i ryfel yn erbyn y Gothiaid, y rhai a orchuddient ranau helaeth o'i amherodraeth, a'r Persiaid, y rhai o'r ochr arall a ymwthient yn mlaen dros Syria, mor bell âg Antiochia, efe a lwyddodd i'w gorchfygu a'u hymlid yn eu hol. Eithr wedi marw Misitheus, ei athraw a'i brif swyddog, i gynghorion a doethineb pa un y priodolir ei lwyddiant, newidiodd pethau er gwaeth. Dewisodd un Philip, brodor o Arabia, yn gyd-flaenor a llywydd âg ef ei hun yn y fyddin a'r amherodraeth, yr hwn a gododd i'w erbyn, ac a orchymynodd ei osod i farwolaeth, ac a drais-feddiannodd yr orsedd yn hollol.‡ Er ei fod ef o genedl estronol, o ddech-

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 257. † Gibbon's Decline and Fall, vol. i. p. 110.
‡ Goldsmith's Hist. of Rome, p. 495.

reuad gwael, mab i gadben ar haid o yspeilwyr lladronaidd yn Arabia, a chwedi dyfod i'r orsedd trwy lofruddiaeth, etto efe a gydnabyddwyd yn amherawdwr gan y milwyr a'r seneddwyr yn fuan.

Yr oedd Philip tua thriugain oed pan ddechreuodd deyrnasu, a thua phum mlynedd y teyrnasodd efe. Dyrchafodd ei fab, yr hwn nid oedd ond llangc chwe mlwydd oed, i fod yn Cæsar.* Dywedir amryw bethau am dano, sef ddarfod iddo ef a'i fab gofleidio y grefydd Gristionogol, ac iddo gael ei fedyddio, medd rhai, gan Ffabianus, gweinidog yr eglwys yn Rhufain; eraill a ddywedant mai gan Babilas, gweinidog yr eglwys yn Antiochia. Eithr yr hyn sydd fwyaf tebyg i wirionedd yw, na fedyddiwyd ef gan un o honynt, ac na ddarfu iddo ef erioed broffesu Cristionogaeth; ond yr oedd yn dra phleidgar iddi; a dangosai gyfeillgarwch mawr i weinidogion yr efengyl, mwy felly na neb a fu o'i flaen ef yn teyrnasu yn Rhufain.†

Gwedi i Marinus, rhaglaw Philip, godi gwrthryfel yn ei erbyn, a pheri cyhoeddi ei hun yn amherawdwr, er iddo fethu sefydlu ei hun, gosodwyd ef yn fuan i farwolaeth. Decius, dyn o gyfrwysdra anarferol a anfonwyd yn rhaglaw, i lonyddu y fyddin ag oedd wedi ymderfysgu yn y cythrwfl diweddar. Hwn, pan welodd fod y fyddin yn barod i roddi yr amherodraeth iddo, a dderbyniodd eu cynnygiad, er ymddangos o hono yn anfoddlon; ond dywedodd y derbyniai hi hyd oni chai gyfleusdra i'w rhoddi i'w hiawn feddiannydd. Gwedi i Philip glywed hyn, efe a ymdrechodd gasglu ei arfogion yn nghyd, a dwyn yr hyn a fedrai o honynt i'r maes yn ei erbyn: ond wedi i'r byddinoedd gyfarfod yn agos i Verona, Philip a laddwyd, trwy hollti ei ben gan un o'i filwyr ei hun. Felly derbyniodd ei gyfiawn daledigaeth am y llofruddiaeth a'r trais-feddiant y bu yn euog o honynt, a theyrnasodd Decius yn ei le, trwy gydsyniad cyffredinol. Gyda theyrnasiad pa un, cymmerodd cyfnewidiad mawr le yn amgylchiadau yr eglwysi trwy yr holl amherodraeth.

Er marwolaeth Severus, hyd ddyfodiad Decius i'r orsedd, yn y flwyddyn 249, yr oedd agos i ddeugain mlynedd; yn mha amser mwynhaodd yr eglwysi lonyddwch a llwyddiant, a chawsant ddyrchafiad mawr, oddi eithr yr ychydig dymhestl yn nheyrnasiad Maximinus. Amryw o'u gweinidogion a ddeuent i'r llŷs, nid i ymostwng i ryw gaethwas neu ordderchwraig a fyddai yno, er crefu ei nawdd, eithr ymddangosent yn nghyfeillach rhai o'r amherawdwyr a'u penaethiaid, yn eu cyflawn gymmeriad, fel gweinidogion yr efengyl; a chai dirgeledigaethau eu gweinidogaeth, yr hon a lywodraethai f.ddyliau y werin, ddyfal ystyriaeth yr amherawdwyr.‡ Ond, er galar, rhaid dywedyd i hyn effeithio yn y modd gwaethaf ar y Cristionogion, er mawr adfeiliad ac afiwyddiant i wir grefydd yn gyffredinol, megys y sylwir fel yr eir yn mlaen.

* Gibbon's Decline and Fall, &c. vol i. p. 115.

† Milner's Church Hist. vol. i. pp. 349, 350. a Gibbon's Decline and Fall, &c. vol. i. p. 331. ‡ Ibid.

PENNOD XIV.

Lle y traethir am Erledigaeth yr Eglwys yn nheyrnasiad Decius—a'i Helyntoedd yn amser Galus, Valerian, Galienus, Claudius, Aurelian, Tacitus, Probus, a Caius a'i feibion, amherawdwyr Rhufain—yn nghyd â'r Gwrthwynebiad a wnaed gan Porphyry, yr Iuddewon, ac eraill, yn erbyn Cristionogaeth, yn y Canrif hwn.

CYFRIFIR Decius yn dywysog call, nerthol, a bywiog iawn; yn un a arferodd bob egni, am y ddwy flynedd a hanner y bu yn teyrnasu, er codi a chynnal i fynu yr amherodraeth Rufeinig, yr hon oedd y pryd hwnw ar fyned yn ddrylliau trwy ymraniadau, ac yn min suddo i lawr i ddinystr gan ei llwythau ei hun, a'r amrywiol ymosodiadau a wnaed arni gan ei gelynion o'i hamgylch. Eithr bu yn euog o ddwyn yr erledigaeth greulonaf a helaethaf ei therfynau yn mhlith y Cristionogion, o neb a fu o'i flaen; fel y gellir dywedyd yn hawdd, nad oedd yr erledigaethau oll a fu o'r blaen ond bychain, i'w cymharu â hon, o ran rhifedi y dyoddefwyr, mawredd eu dyoddefiadau. gerwineb a manylrwydd yr ymofyniad am danynt, a'r effeithiau a'i canlynodd. Y mae yn anhawdd gwybod pa beth a allasai gynhyrfu yr amherawdwr i osod i fynu y fath gyfreithiau creulawn, a dwyn yn mlaen y fath erledigaeth waedlyd yn erbyn ei ddeiliaid diniweid. O blegid y mae yn rhaid ei bod yn amlwg i bob dyn o synwyr cyffredin, a ystyrio ychydig ar bethau, fod hyny ynddo ei hun nid yn unig yn eithaf anghyfiawnder, ond hefyd yn annoethineb o'r mwyaf. Canys cyduna hanesion yr amseroedd hyny i ddangos fod pleidwyr Cristionogaeth y pryd hwnw yn gwneuthur i fynu rif lluosog iawn o drigolion yr amherodraeth: ac ystyried y fath enbydrwydd yr oedd hi ynddo, trwy yr ymosodiadau oedd arni gan ei gelynion o amgylch, yr oedd yn rhaid fod gwneuthur cyfreithiau, i alltudio serchiadau cynnifer o'r deiliaid oddi wrth yr orsedd, ac i beri y fath derfysg, lladdiadau, a thrallodau cartrefol, yn wanychdod i'r llywodraeth, ac yn annoethineb o'r mwyaf yn y llywydd.* Ond cymmaint oedd ei sêl dros adferiad Rhufain yn mhob peth i'w hen drefn, a'i fryd ar enwogi ei hun, trwy attal llwyddiant Cristionogaeth, ag oedd, i'w dyb ef, yn newydd-beth, a dwyn y grefydd Baganaidd yn ol i'w gwychder blaenorol, nes oedd yn hollol ddall i'w wir leshad ei hun a'r deyrnas.

Yn y cyfreithiau a osododd ef allan yn erbyn y Cristionogion, yr oedd yn gorchymyn i raglawiaid y taleithiau, a swyddwyr y dinasoedd a'r gwledydd, chwilio ac ymofyn am bawb a broffesai Gristionogaeth, a'u cymhell i wadu eu crefydd, ac aberthu i eilunod. I'r dybenion hyny, yr oeddynt i arfer pob moddion i'w denu; ac os na lwyddent yn hyn, yr oeddynt i osod arnynt bob

* Goldsmith's Hist. of Rome, p. 497.

dyoddefiadau a allent ddyfeisio, ac i ddefnyddio pob offerynau poenydiol a allent gael, i'w dychrynu i hyny; ac os parhau yn sefydlog a wnaent, yr oeddynt i'w rhoddi i'r angau mwyaf gwarthus yn ddiarbed, a hyny dan boen marwolaeth eu hunain, os esgeulusent wneud yr hyn a orchymynasid. Pan unwaith yr agorwyd fel hyn byrth uffern, ac y gollyngwyd yn rhyddion bob dyhirod, i fod yn gyhuddwyr ac yn ddienyddwyr, heidiodd allan luaws o annhrugarogion yn llawn llid a chreulondeb, mewn llawn awydd am feddiannau y saint, yn wobr am eu gwaith. Ymosodasant yn fuan ar yr eglwysi diamddiffyn, a gorlifasant wyneb y ddaear â gwaed y rhai diniweid.

Ca y byr goffâd canlynol, allan o hanes a ysgrifenodd Dr. Chandler am yr erledigaeth yr amser hwn, wasanaethu yn lle un manylach, i ddangos y driniaeth galed a fu ar ganlynwyr Iesu Grist. "Arferid," medd ef, "y creulondeb a'r ffyrnigrwydd mwyaf barbaraidd, anghymharol, ac annherfynol, yn ddiwahaniaeth tu ag at bawb na chablai enw Iesu Grist, na offrymai, ac na arogldarthai i'r duwiau amherodrol. Yr oeddynt yn cael eu fflangellu yn noethion ac yn gyhoeddus—eu llusgo gerfydd eu sodlau, a'u gosod yn rhwym wrth olwynion cerbydau trwy heolydd y dinasoedd—eu dirdynu, nes dadgymhalu pob asgwrn yn eu cyrph—curo eu dannedd allan o'u penau—torri ymaith eu traed, eu dwylaw, eu trwynau, a'u clustiau—gyrru arfau miniog a blaenllym dan eu hewinedd—tywallt plwm toddedig ar hyd eu cyrph noethion—tynu ymaith eu llygaid, a thorri ymaith eu haelodau—eu dedfrydu i'r mŵn-gloddiau i weithio, wedi anafu eu cyrph—eu malu rhwng meini—eu pwnio i farwolaeth â cherrig—eu llosgi yn fyw—eu taflu bendramwnwgl o ben adeiladau uchel—torri eu penau—eu mygu mewn odynau calch—brathu trwy eu cyrph bigau heiyrn—eu dinystrio trwy newyn, syched, ac oerfel—eu taflu i fwystfilod gwylltion—eu rhostio ar radellau haiarn, a thân araf—eu taflu yn dyrfaoedd i'w boddi yn y môr—eu croeshoelio—eu crafu â chregin llymion i farwolaeth—eu hollti, trwy eu cylymu wrth ganghenau cryfion o goed wedi eu plygu yn nghyd, a gadael iddynt ymuniawni ar unwaith, nes byddai y cylymedig yn ddarnau!! Mewn gair, yr oeddynt yn cael eu distrywio yn mhob dull a modd, a fedrai y llid a'r cyfrwysdra mwyaf dieflig ei ddyfeisio."*

Rhifedi y rhai fuant feirw trwy y naill ffordd a'r llall, yn y gwahanol daleithiau, sydd yn fwy nag y gellir ei roddi. Hwn a elwir y seithfed erledigaeth. Llawer iawn o weinidogion a fuant feirw trwy driniaeth galed mewn carcharau; yn mhlith eraill, enwir Alexander, gweinidog parchus yn yr eglwys oedd yn Jerusalem, yr hwn a fu farw yn ngharchar Cæsarea; a Babiles, gweinidog yr eglwys oedd yn Antiochia, yn yr un modd. Ffabian, gweinidog yr eglwys oedd yn Rhufain a ferthyrwyd; a llawer eraill a ddeolwyd i anialwch pellenig i ddihoeni; a gyrwyd eraill yn anafus i'r mŵn-gloddiau i weithio, &c.† Y gwaethaf o'r cyfan oedd yr effeithiau annymunol a wnaeth y dyoddefiadau hirfaith a ddyfeisiwyd i osod ar y Cristionogion yn yr ystorm ysgeler hon, trwy beri i luaws mawr o honynt dynnu yn ol, a gwadu eu Harglwydd, gan aberthu a llosgi arogldarth ar allorau yr eilunod, yn hytrach na sefyll yn wrol yn wyneb y dyoddefiadau, er amddiffyniad o'u crefydd. Haerir gan lawer fod y dull hwn o boenydio y dyoddefwyr yn fwy ofnadwy, ysgeler, a hirfaith, nag a arferwyd o'r blaen mewn un dymhestl erledigaethus, fel ag yr oeddyd yn gweithio allan eu hamynedd a'u gwr-

* Introduct. to Limborch's Hist. of the Inquisition, vol. ii. sect. i. † P. Symson's Church Hist. p. 35.

oldeb, trwy hir barhau eu dyoddefiadau. Nid oes amheuaeth yn nghylch mawredd y dyoddefiadau, a chyfrwysdra yr erlidwyr i geisio digaloni y Cristionogion; ond meddylir hefyd nad oedd yr eglwysi mor barod, na'r rhai a broffesent Gristionogaeth yr oes honno mor sylweddol a geirwiraidd yn eu crefydd, ac mor gadarn a sefydlog yn y ffydd, âg ydoedd proffeswyr yr oesoedd blaenorol, fel y gwnawn sylwi etto.

Y lluaws mawr a ddigalonasant ac a syrthiasant ymaith, mewn ystyr, yn wyneb yr erledigaeth, a barasant lawer o flinder yn yr eglwysi mewn canlyniad, ac a achosasant ddadl frwd a dyrus rhyngddynt. Canys y rhai a aberthasant ar allorau yr eilunod am dro, er diangc rhag y dyoddefiadau, a ymegniasant i gael dyfod yn ol i'r eglwysi, ac i gymundeb y saint, heb ymostwng i'r ddysgyblaeth lem a osodid i fynu yn yr eglwysi, a sefyll yn mhlith yr edifeiriolion. Eraill, yn wyneb y dymhestl ddirfawr hon, a brynasant er arian gan yr offeiriaid Paganaidd a'r swyddwyr gwladol ysgrifffraint, yr hon a ystyrid yn eu rhyddhau oddi wrth ddyoddef, pa ffordd o ddyfod yn rhydd a gyfrifid gan amryw yn dra gwael ac anghyfreithlon; a gwrthwynebwyd derbyniad y naill a'r llall i gymundeb yr eglwysi gan lawer, a derbyniwyd hwy gan eraill. Oddi wrth y pethau hyn cododd yr ymarferiad o alw amrai Gristionogion ar wahanol enwau; megys *Sacrificati*, ar y rhai a aberthent; *Thurificati*, ar y rhai a losgent arogldarth; a *Libelatici*, ar y rhai a brynent eu rhyddhad ac a ddygent ysgrif-hysbysiaeth o hyny. Pan na adferid y rhai hyn yn ol i gymundeb yr eglwysi, heb yr ymostyngiad mwyaf, ac aros am amser maith yn sefyllfa y rhai edifeiriol, hwy a gymmerasant ffordd arall i geisio hyny. Aent at y merthyron a'r cyffeswyr, ar eu hawr ddiweddaf, i gael eu maddeuant a'u cymmod hwy, a llythyr at yr eglwysi o gymmeradwyaeth iddynt, a deisyfiad arnynt eu hadferyd. Llawer iawn a'u derbyniasant yn ebrwydd ar y fath dystiolaeth, a meddylient y buasai yn anmharch o'r mwyaf ar y merthyron i beidio gwneuthur felly. Eithr Cyprian, yr hwn oedd y pryd hwnw yn weinidog yr eglwys oedd yn Carthage, yn Affrica, yr hwn oedd ddyn enwog, o ysbryd cyhoeddus, ac o ddysg a dawn anghyffredin, a wrthwynebai yr arferiad yn egniol, fel un anmhriodol ac annheilwng o'r efengyl. Hyn a ddygodd iddo wrthwynebiad, a dadl awchlym yn ei erbyn, trwy ysgrifau merthyron, cyffeswyr, a llawer o henuriaid, ac eglwysi, yn nghyd â'r lluaws gwrthgiliedig. Ond er amled y gwrthwynebwyr, daeth yr hybarch esgob trwyddi yn fuddugoliaethus.*

Gwedi i Decius deyrnasu o ddeutu dwy flynedd a chwe mis, pan mewn rhyfel â'r Gothiaid, yn Thrace, lladdwyd ei fab gan saeth ei elyn; wrth weled hyn, a bod y frwydr yn troi yn ei erbyn, digalonodd, ac ni allai feddwl am fyw yn hwy. Gwedi gyrru ei farch i siglen oedd gerllaw y lle, hwy a soddasant eill dau ynddi, fel na chafwyd ei gorph byth, er chwilio am dano.†

Galus, un o'r prif swyddwyr milwraidd, yr hwn y dywedir iddo fradychu Decius a'i fyddin y dydd o'r blaen, a gyhoeddwyd yn amherawdwr yn ei le ef. Efe oedd y cyntaf a brynodd er arian lonyddwch i'r amherodraeth gan y Gothiaid; a dychwelodd i'r brif ddinas i fwynhau ei bleserau mewn pob gloddest, segurdod, a diofalwch, am achosion y deyrnas. Yn fuan tòrodd y Gothiaid eu cyttundeb, pa rai eilchwyl, yn nghyd â lluaws o

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. pp. 251, 252. † Goldsmith's Hist. of Rome, p. 497.

genhedloedd barbaraidd eraill a orchuddiasant ranau breision dwyreiniol yr amherodraeth. Y Persiaid a'r Scythiaid hwythau a feddiannasant Mesopotamia, a threiddiasant trwy Syria. Dilynwyd y rhyfeloedd hyn â haint, ac â phlâ trwm iawn, mewn gwahanol barthau o'r amherodraeth.

Golygid y pethau hyn yn wahanol iawn gan y naill a'r llall. Y Paganiaid a'r offeiriaid a ddywedent mai o achos eu hynawsedd a'u goddefgarwch i'r Cristionogion yr oedd y pethau hyn, ac a gymmerent achlysur i'w herlid yn fwy cynddeiriog. Eraill a'u priodolent i loddest, diofalwch, afradlonrwydd, ac annoethineb yr amherawdwr a'i ben-swyddwyr. Eraill, a'r cywiraf, tebygol, a ddywedent mai o achos eu creulondeb yn cynnal a dwyn yn mlaen erledigaeth barhaus yn erbyn y Cristionogion yr oedd y pläau hyn ar y deyrnas.

Gwedi iddo deyrnasu mewn gwaelder mawr, ac er sarhad i'r amherodraeth, a dirfawr wasgfeuon i'r Cristionogion, am o ddeutu dwy flynedd, Æmilianus, ei ben-cadben, wedi ynnill brwydr ar y Gothiaid, a chwennychodd osod ei hun i fynu yn amherawdwr yn ei le ef. Galus, wedi clywed hyn, a ddeffrôdd o'i gyfeddach a'i bleserau, ac a ymbarottôdd i'w wrthwynebu. Cyfarfu y byddinoedd â'u gilydd yn Mæsia, a bu brwydr waedlyd rhyngddynt; eithr Galus a'i fab a laddwyd, ac Æmilianus a ennillodd y frwydr. Gwedi hyn, meddyliodd gael ei gyhoeddi yn amherawdwr yn ddirwystr; ond yn fuan gwelodd ei hun wedi ei siomi yn druenus. Y seneddwyr a wrthodasant gydnabod cyfreithlondeb ei hawl; a'r byddinoedd, a orphwysent yn agos i'r Alps, a ddewisasant un Valerian, eu llywydd, i lenwi yr orsedd. Ac i'r dyben i ragflaenu rhyfel cartrefol yn mhellach, yn yr achos hwn, milwyr Æmilianus a'i rhoddasant ef i farwolaeth, er mwyn heddwch y deyrnas.

Pan y cydnabyddwyd Valerian yn gyffredin yn amherawdwr, yn y flwyddyn 254, efe a ymroddodd yn egniol i geisio adgyweirio yr amherodraeth adfeiliedig, er ei fod ef y pryd hwnw yn ddeg a thriugain oed. Ond nid oedd un adgyweiriad effeithiol braidd yn ddichonadwy.* Dros ychydig flynyddau cyntaf ei deyrnasiad, dangosodd ledneisrwydd tu ag at y Cristionogion, a mwynhaodd yr eglwysi ychydig dawelwch; ond newidiodd yr olygfa a'r teimladau yn fuan, a mawr oedd y cyfnewidiad a gymmerodd le, mewn ychydig amser. Y Cristionogion oeddynt mewn parch yn cael ymddangos fel cyfeillion yr amherawdwr yn ei wyddfod, yn ei lŷs, ac yn ei balas, a gawsant ar unwaith eu troi ymaith, a'u gwneuthur yn ddarostyngedig i'r dyoddefiadau mwyaf chwerw. Priodolir hyn i amryw bethau gan haneswyr; eithr yr hyn sydd fwyaf tebyg i wir ydyw, iddo gymmeryd lle trwy offerynoliaeth Macrianus, pen-swyddog yr amherawdwr, yr hwn oedd yn hynod o wresog dros y grefydd Baganaidd; ac felly yn ofidus bob amser wrth lwyddiant Cristionogaeth, a chanddo gryn lywodraeth ar ei feistr yn mhob peth, a lwyddodd gydag ef yn y flwyddyn 257, i wneuthur cyfraith i attal llwyddiant Cristionogaeth: ac yn y flwyddyn nesaf, gwnaed cyfraith ag oedd yn dedfrydu pawb i angau, a dyoddefiadau gwaeth nag angau, na ddychwelai yn ol at y grefydd Baganaidd. Yn mhlith yr amryw a ddyoddefasant yn mhob parth, bron, o'r amherodraeth y pryd hwnw, enwir Cyprian, gweinidog hyglod yr eglwys yn Carthage, yr hwn a osodwyd i farwolaeth trwy ddibeniad. Gosodwyd tri o esgobion Rhufain i farwolaeth yn

* Goldsmith's Hist. of Rome, p. 499.

olynol yn yr amser hwnw, sef Lucius, Stephanus, a Sextus; a hefyd un Laurentius, diacon o'r eglwys honno. Efe oedd y diacon hwnw a gyfrifai dlodion yr eglwysi yn mhlith ei drysorau penaf; canys dyna y pryd y gellir dywedyd fod yr eglwysi yn gyfoethog, pan yn llawn o weithredoedd da a haelioni tu ag at y cyfryw. Dyoddefodd ferthyrdod yn amyneddgar, siriol, a llawen, er mor boenus ydoedd, o ran y dull ei gweinyddid, trwy gael ei rostio wrth dân araf, ar alch haiarn!

Gwedi i Valerian wneuthur mawr ddifrod yn yr eglwysi, efe, yn y seithfed flwyddyn o'i deyrnasiad, a gymmerwyd yn garcharor gan Sapor brenin Persia, yr hwn a'i gwnaeth yn esgynfa i fyned ar ei farch, oddi ar ei gefn, wedi y plygai i lawr. Gwedi hyny tynodd ei lygaid, a gorchymynodd ei flingo yn fyw; a'i groen a lanwyd â gwellt, ac a gadwyd fel prawf o fuddugoliaeth yn un o brif demlau Persia, am oesoedd dyfodol. Fel hyn y gorphenodd ei yrfa, ac y gorphenwyd yr wythfed erledigaeth.*

Galienus ei fab, yr hwn a wnaethid yn gyd-feddiannydd yr orsedd âg ef ei hun ar y cyntaf, a deyrnasodd yn unigol am wyth mlynedd ar ei ol ef. Yn yspaid yr amser hwn yr oedd amgylchiadau yr eglwysi yn llawer gwell, ac ychydig o flinderau trwy erledigaeth a gawsant. Dychwelodd y gweinidogion a alltudiwyd, ac eraill a enciliasent yn wyneb yr erledigaeth flaenorol, yn eu hol i'r eglwysi. Yr oedd yr amseroedd hyn yn amseroedd enbyd iawn trwy yr holl amherodraeth. Nid llai na deg ar hugain o ymgeiswyr oedd am yr orsedd, trwy y naill barth a'r llall, wedi ymgodi mewn gwrthryfel, nes oedd y gwledydd yn un olygfa o ryfel cartrefol o gwr bwy-gilydd, heblaw yr ymosodiadau oedd arnynt gan elynion o amgylch. Hefyd ymwelwyd â hwy â newyn, ac amryw heintiau blinion, yn yr amser hwn, trwy ba rai yr ysgubwyd miloedd lawer o drigolion y gwledydd perthynol i'r amherodraeth i'r byd tragywyddol. Alexandria yn yr Aipht a ddiboblwyd gymmaint, trwy y pethau hyny, fel yr oedd Dionysius, gweinidog yr eglwys oedd yno, yn dywedyd, ar ol ei ddychweliad o'i alltudiaeth, nad oedd yn y ddinas y pryd hwnw gynnifer o wyr, gwragedd, a phlant, ag oedd ynddi pan yr ymadawsai â hi o hen bobl benllwydion.

Ymddygiadau y Cristionogion, yn wyneb yr amgylchiadau blinion hyn, a fu yn ganmoladwy iawn, yn gymmaint felly a'u bod yn rhagori ar eiddo y Paganiaid, tu ag at eu gilydd, nes sylwi o bawb arnynt; a gwnaethant yr effeithiau mwyaf dymunol ar lawer o'u gwrthwynebwyr. Y Paganiaid oeddynt yn gadael eu cyfeillion a'u perthynasau yn ddiymgeledd, pan yn eu gwaelder, yn ngafael yr haint a'r newyn, gan ffoi ymaith yn llwfr a digalon; tra y tueddid ac y nerthid y Cristionogion hwythau i aros, nid yn unig gydâ'u cyfeillion, ond hefyd gydag estroniaid, i'w hamgeleddu a'u cyssuro yn wyneb eu cyfyng amgylchiadau.†

Gwedi marwolaeth Galienus, daeth Claudius yr ail i'r orsedd, yr hwn oedd yn dywysog nerthol ac enwog, ac a wnaeth lawer o orchest-waith fel rhyfelwr a llywodraethwr am y ddwy flynedd y bu yn teyrnasu, pryd y bu farw, o angau naturiol, er galar a mawr golled i'r holl amherodraeth. Ymddygodd efe yn hynaws tu ag at y Cristionogion.

Ar ei ol ef daeth y goron amherodrol i feddiant Aurelian, yr hwn am y pum mlynedd cyntaf o'i deyrnasiad, a ymddygodd yn yr un modd tu ag at

* Symson's Church Hist. p. 39. a Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 253. a Gibbon's Decline and Fall of the Roman Empire, vol. i. p. 162. † Symson's Church Hist. p. 40.

yr eglwysi, fel na bu dim erledigaeth. Eithr yn y bummed flwyddyn o'i deyrnasiad, gwnaeth Aurelian gyfreithiaf llymdost a chreulawn iawn yn erbyn y Cristionogion, fel pe buasai rhyw ruthr ofnadwy yn barod i ddisgyn arnynt; ond cyn i'r deddfau hyn wneuthur nemawr o effaith, yr amherawdwr ei hun a osodwyd i farwolaeth gan ei filwyr. Gelwir hwn y nawfed erledigaeth, er nad yw rhifedi y rhai a ddyoddefasant ferthyrdod yn achos crefydd y pryd hwnw ond ychydig.

Yn y flwyddyn 275, daeth un Tacitus i'r orsedd; a chwe mis y teyrnasodd efe.

Gwedi hyn rhoddwyd yr amherodraeth yn llaw un Probus, yr hwn oedd dywysog helaeth ei gymhwysderau, a ffyddlon yn ei weinidogaeth; eithr nid oedd dim yn tyccio i achub yr amherodraeth rhag suddo a chwalu yn ddarnau, gan gymmaint ei hymraniadau tufewnol, a'r ymosodiadau oddi allan gan y barbariaid o'i hamgylch; ac nid oedd rheoleidd-dra na dewrder y Rhufeiniaid yn awr y peth ydoedd yn yr oesoedd blaenorol.* Chwe blynedd a phedwar mis y teyrnasodd efe, a gosodwyd ef i farwolaeth trwy fradwriaeth ei fyddin, er mawr golled i'r amherodraeth; canys trwy ei ddoethineb a'i ymdrechiadau milwraidd, bu yn foddion i gadw Rhufain rhag hollol ddinystr dros ychydig amser yn hwy. Yr oedd yr eglwysi trwy holl derfynau yr amherodraeth yn rhydd oddi wrth erledigaeth, ac mewn amgylchiadau tawel, ac, mewn ystyr, yn llwyddiannus, yn hyd amser ei lywodraethiad ef.

Gwedi ei farwolaeth ef, daeth un Carus i'r goron amherodrol, yr hwn a gododd ei ddau fab i fod yn gyd-feddiannwyr yr orsedd âg ef ei hun; eithr ni theyrnasasant yn hwy na dwy flynedd eill tri. Efe a fu farw trwy darawiad mellten, pan newydd ennill buddugoliaeth hynod ar y Persiaid; a'i ddau fab a laddwyd, yn fradychus, yn fuan ar ol hyny; a Dioclesian a deyrnasodd yn eu lle hwynt.

Dioclesian oedd o ddechreuad gwael ac isel, fel y rhan fwyaf o'r amherawdwyr diweddaf a fu yn gorseddu yn Rhufain, gwedi codi i fynu yn unig trwy ei rinweddau milwraidd i fod yn un o brif faes-lywyddion y byddinoedd, pan y dewiswyd ef i'r orsedd. Gwedi ei wisgo â'r fantell borphoraidd, ni siomodd ddisgwyliadau ei ddeiliaid; eithr dangosodd yn nechreuad ei deyrnasiad lawer o fedrusrwydd a gwroldeb, a dilynodd mesur helaeth o lwyddiant ei ymdrechiadau. Dechreuodd deyrnasu yn y flwyddyn 284, pan yn ddeugain mlwydd oed. Gwelodd yn fuan achosion yr amherodraeth yn rhy bwysig iddo ef ei hun i'w dwyn yn mlaen, a dewisiodd un Maximianus i fod yn hollol gyd-feddiannydd âg ef o'r orsedd. Dewisasant drachefn Constantius a Galerius i fod yn ddau Cæsar, sef yn rhai a ystyrid yn ychydig islaw iddynt hwy, ond nesaf attynt yn yr amherodraeth. Ni bu erioed amser mwy rhyfelgar, na mwy o ymosodiadau dinystriol ar amherodraeth Rhufain, na'r pryd hwnw: ond yr amherawdwyr, gyda'u Cæsariaid, a aethant yn mlaen yn unol, a thra llwyddiannus dros amser. Ni chodasant erledigaeth yn erbyn y Cristionogion hyd y bedwaredd flwyddyn ar bymtheg o deyrnasiad Dioclesian, sef dechreu y flwyddyn 302. Yr oedd yr eglwysi yn awr wedi mwynhau mwy na deugain mlynedd o heddwch, oddi eithr ychydig ymosodiad a fu arnynt yn amser Aurelian, sef o'r flwyddyn 259, pan y cymmerwyd Valerian yn garcharor gan y Persiaid, hyd ddechreuad y degfed erledigaeth yn yr amser uchod gan Dioclesian; ond

* Goldsmith's Hist. of Rome, p. 507.

gan fod hyn gwedi ein dwyn i ddechreuad y pedwerydd canrif, fe'i gadewir yn bresennol.*

Pan oedd yr eglwysi fel hyn yn griddfan dan bwys cyfreithiau creulawn, ac yn dyoddef llymder cleddyf y llywodraethwyr annhrugarog, yn yr amrywiol erledigaethau poethlyd, yr oeddynt ar yr un pryd yn gorfod wynebu rhyfel arall, llawn mor erwin, er o nattur foesol, sef yr ymosodiad a wnaid ar eu hegwyddorion a'u cymmeriad gan y philosophyddion Platonaidd. Llawer o honynt yn y canrif hwn a ymosodasant ar y Cristionogion yn holl rym eu rhesymau, eu dysgeidiaeth, a'u hathrylithrwydd, gan arllwys eu holl hyawdledd araethyddol yn eu herbyn mewn ysgrifau hirfaith; a chan arfer pob diwydrwydd ac ystrangciau ystrywgar, hwy a gyhoeddasant yr oll a allent er niweidio eu cymmeriad, a dilewyrchu eu hegwyddorion. Y gwrthwynebwyr hyn oeddynt yn llawer gwaeth na'r Paganiaid cyffredin, yn gymmaint a'u bod yn llawer cyfrwysach, yn eu gwaith yn ymhòni eu bod yn cymmeryd i mewn holl egwyddorion dechreuol Cristionogaeth i'w cyfundraith hwy, a'r broffes a wnaent o'u rhydd-ymofyniad am y gwirionedd, yr hyn a barai iddynt gael derbyniad rhwydd a llwyddiannus gan y werin: ac, fel Ammonius, sylfaenydd, fel y bernir, y cyfundraith, haerent nad oedd Cristionogaeth ond yr un peth yn y gwaelod â Phaganiaeth; ac ymdrechent i'w cymmodi â'u gilydd, tebygoli y naill i'r llall, a gwneuthur o honynt ryw gyduniad. Yr hwn a flaenorai yn eu plith yn y canrif hwn oedd Porphyry, Syriad, neu, fel y dywed rhai, Tyriad, o genedl. Efe a ysgrifenodd yn helaeth a chyfrwys-gall yn erbyn Cristionogaeth; ond ei ysgrifau, gan mwyaf, a ddistrywiwyd wedi hyny trwy gyfraith amherodrol yn amser Cystenyn Fawr.

Nid amheuir nad oedd Porphyry yn myned yn mhellach i ochr Paganiaeth, neu, yn hytrach, i ochr hollol annuwiaeth, nag Ammonius; etto proffesai gyfeillgarwch mawr tu ag atto; ac nid gwaeth ganddo pa dir a gymmerai, os medrai gyrhaedd ei amcan, sef gwrthwynebu Cristionogaeth, a thaflu anfri arni. Wrth yr hyn sydd ar gael o'i ysgrifau, ymddengys ei fod yn ysgrifenydd dysgedig, medrus, ac athrylithgar. Ond y trueni oedd, ei fod wedi treulio ei ddoniau, ei nerth, a'i amser ar destun mor wael. Ac hawdd yw gweled ei fod wrth ysgrifenu y pryd hwnw, wedi ymollwng yn gwbl dan lywodraeth ysbryd coelgrefyddol, a bywiog weledigaethau dychymygol, yn fwy na than lywodraeth ysbryd barn a gwir reswm. Trwy hyn, yr oedd efe yn wrthwynebwr llawer mwy gwenwynig, na chadarn ac arswydus, i'r Cristionogion. Gan mor eglur yr oedd prophwydoliaethau Daniel, yn y cyflawniad o honynt, yn gysson â hanesyddiaeth, ac mor amlwg y dadguddiai hyny ddwyfoldeb yr ysgrythyr, a rhagoroldeb Cristionogaeth, ni fedrai wrthwynebu y dystiolaeth hon, ond trwy haeru nad prophwydoliaethau wedi eu hysgrifenu yn amser Daniel oeddynt, eithr hanesion a ysgrifenwyd gan ryw un mewn amser llawer diweddarach. Treuliodd lawer iawn o'i amser i ymdrechu profi fod y rhai hyn wedi eu hysgrifenu gan ryw bersonau wedi dyddiau Antiochus Epiphanus. Canys, yn ol ei farn ef, dywedent mor eglur am ddygwyddiadau ac amgylchiadau pethau hyd yr amser hwnw, fel nad oedd modd i'w gwrthsefyll, heb allu gwrthbrofi eu dyddiad, yr hyn oedd ormod iddo ef i'w wneuthur er boddlonrwydd i un dyn rhesymol.

* Goldsmith's Hist. of Rome, p. 511.

Llawer iawn oedd y twyll-ymresymiad, yr ystrangciau drwg, yr enllib, a'r cableddau a arferodd y blaid hon, er ceisio cymmylu Cristionogaeth, ac iselhau cymmeriad y Cristionogion. Ond ni effeithiodd dim yn waeth ar y byd, na'u gwaith yn gosod allan hanesion am fucheddau a gwyrthiau enwogion y cynoesoedd—llawer o ba rai nid oeddynt ond tybiol—mewn modd cymharol â bywyd a gwyrthiau yr Arglwydd Iesu. Gyda golwg ar hyn, ysgrifenasant hanes Archytas o Tarentum, a Pythagoras, ac Apolonius Tyaneus, a llawer eraill na buont erioed, ond yn eu dychymmyg hwy. Gosodent hwy allan mewn modd tra chwyddedig, yn ymddysgleirio yn sancteiddrwydd eu bywydau, a mawredd eu gwyrthiau, fel cydymgeiswyr â'r Iachawdwr bendigedig, os nid yn llawer rhagorach, yn ol eu darluniad dawnus hwy o bethau; pan nad oedd y cyfan, mewn gwirionedd, ond ffugchwedlau twyllodrus am haid o ddyhirwyr cyfrwysgall. Ond y cyfryw yw dynolryw yn mhob oes, fel nad oes braidd un math o olygiadau yn rhy wael a gwrthun, nac ysgrifau, er pa mor amddifad bynag y byddont o reswm a chyssondeb â hwy eu hunain, i gael lluaws o ryw rai i'w derbyn a'u mynwesu: er y dichon i rai feddwl y dyddiau hyn, na bunsai ffug-chwedlau am hen ddoethion tybiol, a'r gwael gymhariaeth a ffurfiwyd rhyngddynt hwy a'n Harglwydd Iesu gan yr ysgrifenwyr cyfrwysgall yma, yn cael ond ychydig effaith ar ddynion y pryd hwnw. Eithr rhaid i ni gofio pa cyn lleied o foddion a chyfleusderau oedd ganddynt yr amser hwnw, i chwilio i mewn i bethau, a'u barnu, mewn cymhariaeth i'r hyn sydd genym ni yn bresennol. Hefyd, onid ydym yn gweled ysgrifau tebyg i'r rhai hyn, llawn mor waeled, yn cael derbyniad rhwydd a helaeth yn ein plith ni y dyddiau yma, er maint ein cyfleusderau a'n huchel-dybiaeth am ein gwybodaeth.*

Trwy dwyll-resymau a chwedlau yr hudolwyr hyn, darfu i lawer o'r Cristionogion adael y ffydd yn hollol, a dychwelyd yn ol at Baganiaeth. Eraill, trwy eu credu nad oedd ond ychydig, neu ddim, gwahaniaeth rhwng Cristionogaeth, yn ei hegwyddorion dechreuol, a Phaganiaeth, yn ei phurdeb cyntefig, a benderfynasant aros yn dawel yn eu crefydd a'u hymarferiadau cynhenid; yn enwedig pan nad oedd hyny yn eu gwneuthur yn agored i unrhyw berygl ac anfantais, gyda golwg ar y bywyd hwn, fel ag y gwnai proffesu y grefydd Gristionogol. Y pethau hyn a effeithiodd ar eraill i'w dwyn i ffurfio rhyw fath o gyfundraith cymmysglyd o Baganiaeth a Christionogaeth, fel rhai yn ceisio dangos rhyw fath o barch a derbyniad i rai pethau yn y naill a'r llall. Yn mhlith yr olaf yr oedd yr amherawdwr Alexander, yr hwn a osodasai i fynu lun Crist, Abraham, Orpheus, ac Apolonius, yn ei addoldy brenhinol, ac a roddai iddynt fath o barch ac addoliad cydraddol. Yr Iuddewon hwythau, er eu bod wedi eu hiselhau a'u darostwng gymmaint, fel nad oeddynt yn alluog i wneuthur drygau trwy godi erledigaeth, nac mewn cymmaint o barch gyda llywyddion y gwledydd ag y gallent effeithio i beri iddynt fod yn erlidwyr pan y mynent, fel cynt, etto, nid oeddynt un mymryn yn llai eu llid a'u cenfigen. Dangosir hyn yn amlwg yn ysgrifau Tertulian, Cyprian, a Serapion, y rhai a ysgrifenasant yn eu herbyn y canrif hwn. A phan y byddai yr eglwysi mewn erledigaeth, byddent hwythau mewn parch a galwedigaeth gan yr erlidwyr, a hyny o herwydd eu hymdrech diorphwys, eu ffyddlondeb, eu cyfrwysdra a'u creulondeb, yn dwyn yn mlaen erledigaeth a dyoddefiadau y Cristionogion.†

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 257. † Ibid 258.

PENNOD XV.

Lle traethir am fawr Ddirywiad yr Eglwysi—am amlhad Swyddogion Eglwysig—yr Ymdrechiadau a'r llwyddiant a fu ar hyny i ddwyn Deddf o Unffurfiad yn yr Eglwysi—Egwyddorion a llwyddiant yr Eclecticiaid—a llwyddiant Cristionogaeth mewn amryw wledydd, yn y Canrif hwn.

PAN yr edrychom ar agwedd yr eglwys, y ffurf a'r drefn lywyddol ynddi, am y canrif hwn, yr ydym yn eu gweled yn wahanol i'r hyn oeddynt o'r blaen, ac yn wahanol iawn yn y naill amser a'r llall, yn yr un canrif. Newidiwyd trefniadau a golygiadau ar bethau yn fuan trwy yr holl eglwysi yn gyffredinol. Yn nechreuad y canrif hwn, gwelir llywodraeth yr eglwys yn gymmysgfa, mewn rhan, yn ol ei hegwyddorion a'i threfn gynhenid, yn anymddibynol; ac mewn rhan yn henaduriaethol. Y drefn hon oedd yn dyfod i mewn yn gyflym dan nawdd a thrwy ymdrechiadau llwyddiannus y cymmanfaoedd. Canys y mae mor oleu â'r haul, mai pan y dechreuodd y rhai hyn, tua chanol yr ail ganrif, y dechreuodd agwedd a threfn yr eglwysi gael eu newid: ac mor bell ag y cynnyddodd y cymmanfaoedd hyn yn eu heffeithiol awdurdod i'r graddau hyny, y collodd y bobl eu rhyddid, a'r eglwysi eu hanymddibyniaeth. Nid oeddynt wedi eu sefydlu yn eu grym a'u hawdurdod hyd tua haner y trydydd canrif; felly yr oedd rhyw fesur o lewyrchiad o'r hen drefn gyntefig yn parhau i'w ganfod, hyd tua'r pryd hwnw. Ond wedi hyny, nis gallwn weled y wreichionen leiaf o hono, yn yr hyn a elwir yn eglwys gyffredinol. Cyduna haneswyr yn gyffredin i ddweud fod yr eglwysi y pryd hwn yn ymadael yn gyflym â'u hagwedd ddechreuol, etto mewn modd annirnadwy, fel yr oedd pob llygriad yn dyfod i mewn, a'u trefn a'u sefydliad cyntefig yn cilio yn barhaus; a hwythau yn ymlithro mewn dirywiad, at unbenaeth eglwysig.

Yn amser Cyprian, yr hwn oedd yn byw tua chanol y canrif, pa un oedd yn un prif offeryn i sefydlu y drefn newydd yn yr eglwysi, nid oedd gan y bobl braidd ddim i'w wneuthur mewn gweinyddiad llywodraeth, a threfniadau eglwysig; eithr dygid y cyfan yn mlaen yn ol ewyllys ac awdurdod eu hesgobion a'u blaenoriaid, yn eu cymmanfaoedd. Ond nid hir y parhaodd pethau fel hyn; canys cyn diwedd y canrif hwn, gwelir y drefn drachefn yn newid o fod yn henaduriaethol i fod yn daleithiol, ac yn batriarchol. Er nad oedd yr enwau archesgob, neu esgob taleithiol, a phatriarch, yn cael eu harferyd y pryd hwnw—ac y mae yn anhawdd gwybod, i sicrwydd, pa bryd y dechreuwyd arfer yr enwau—etto y mae yn eglur fod un esgob neu ragor mewn talaeth, yn cael ei wisgo â mwy o uchafiaeth ac awdurdod na'i frodyr gweinidogaethol yn gyffredin, cyn diwedd y trydydd canrif; a bod esgobion Rhufain, Antiochia, Alexandria, a Jerusalem, hwythau, yn

cael eu hystyried uwchlaw y rhai hyn, a chanddynt ryw flaenoriaeth ar eu holl frodyr; ac arddelwent iddynt yr hawl o lywodraethu a threfnu achosion yr holl eglwysi yn y gwledydd lle y preswylient. Yn nechreuad y canrif nesaf, gwelir yr eglwys yn wladwriaethol, hyny yw, fod yr amherawdwyr gwladol yn ei blaenori, ei threfnu, ac yn gweini ei llywodraeth yn ol ei ewyllys ei hun, trwy gyfreithiau amherodrol.

Fel hyn yn raddol y cymmerodd cyfnewidiadau mawr ac arswydus le yn yr eglwys, o'i threfn gyntefig osodedig gan Grist a'i apostolion, hyd ei threfn Babaidd, dan lywodraeth esgob Rhufain, fel y sylwir etto. Yn gysson â graddau y newidiadau hyn yn llywodraeth yr eglwysi, daeth i mewn iddynt ddirywiad mewn athrawiaeth, dysgyblaeth, ac ymarferiadau crefyddol. Er cynnyddu o'u haelodau mewn rhifedi, mewn defodau chwyddedig, mewn harddwychedd ymddangosiadau allanol, ac mewn amldra ac amrywiaeth swyddwyr—etto, collent yn fawr mewn bywyd crefyddol. Daeth y dirywiad graddol annirnadwy hwn yn mlaen o dan yr ymddangosiad golygus hwnw, o newid pethau er gwell, i sefydlu undeb a chyd-weithrediad rhwng yr holl eglwysi. Ond i'r gwrthwyneb y bu, deuodd yn wreiddyn i'r ymraniad, y rhwygiad, y traws-lywodraeth, y gormes, a'r ysgelerder a fu yn yr eglwys a elwir yn Gristionogol, o'r dechreuad hyd yn bresennol.

Dywed Mosheim wrth ysgrifenu am yr amseroedd hyn,—"Gyda'r cyfnewidiadau hyn, daeth i mewn olygfa arall ar holl agwedd yr eglwys Gristionogol: canys yr esgobion yn dra chyffredin a lanwyd â meddyliau uchelgais; ymgeisiasant am gyrhaedd mwy o allu ac awdurdod nag a fwynhaent; a thrwy hyny, nid yn unig treisiasant hawl a rhyddid y bobl, ond hefyd gwasgasant a chyfyngasant ar ryddid a breintiau yr henuriaid." Llawer a ddywed awduron y canrif hwn am y gwahaniaeth rhwng swydd esgob a henuriad yn yr eglwys, yr hyn ni chrybwyllasid am dano yn y ddau ganrif o'r blaen, ond yn ysgrifau Ignatius a Pius yn unig. "Yr esgobion," medd yr un awdwr, "fel y gallent guddio eu hymddygiad traws-feddiannol â lliw o gyfiawnder a rheswm, a ddechreuasant gyhoeddi rhyw athrawiaethau newyddion yn nghylch nattur eglwys, a sancteiddrwydd a mawredd y swydd esgobaethol, pa rai oeddynt mor dywyll a dyrus, fel yn ddiau nad oeddynt yn eu deall hwy eu hunain, pa faint llai y rhai a wrandawai arnynt! Yr oedd Cyprian yn un o'r prif offerynau i ddwyn y cyfnewidiadau hyn yn mlaen yn yr eglwys, ac i lwyr symmud y llywodraeth o feddiant y cynnulleidfaoedd i ddwylaw eu blaenoriaid: canys dadleuai dros hawl ac awdurdod yr esgobion, a'u huchafiaeth ar yr henuriaid yn fwy grymus, selog, a thaer, na neb a fu o'i flaen ef; er y byddai weithiau, yn wyneb yr amseroedd blinion ac erlidigaethus, yn methu cynnal ei amcan, a dwyn ei drefn yn mlaen gyda chyssondeb a diysgogrwydd; ond gorfyddai o angenrheidrwydd, i roddi amryw bethau i fynu i benderfyniad y bobl. Ei ymddygiadau, a'i ysgrifau yn yr ystyr yma, a fu o gryn niweid i eglwysi y saint mewn dyddiau dyfodol."*

"Y cyfnewidiad hwn yn y llywodraeth eglwysig, a ddilynwyd yn fuan â lluaws mawr o ganlyniadau niweidiol iawn i wir Gristionogaeth, yn ei phrydferthwch dysglaer, ac er mawr ddianrhydedd i gymmeriad ac awdurdod y rhai hyny yr ymddiriedwyd iddynt weinyddiad pethau eglwysig. Er, yn ddiau, fod rhai yn parhau i osod allan, i amlygrwydd, ger gwydd y byd,

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. pp. 265, 266.

wir gymmeriad a rhinweddau y Cristionogion cyntefig, etto yr oedd llawer a alwent eu hunain yn fugeiliaid yr eglwysi, wedi suddo i bob math o lygredigaeth; yn ymroddi i bob gloddest, trythyllwch; yn ymchwyddo mewn balchder, gwag-ogoniant, ac uchel-drem; yn cael eu llenwi âg ysbryd amrysongar ac ymraniadol; gan ymdroi mewn pob oferedd ag a ddygai ddirmyg anhaeddiannol ar y grefydd sanctaidd, o ba un yr oeddynt hwy yn broffeswyr ac yn weinidogion annheilwng." Dyma y tystiolaethau a adroddir gan yr ysgrifenwyr mwyaf credadwy, am yr oes honno, a hyny gyda gofid dwys; ac ni oddef y gwirionedd i ni daflu gorchudd drostynt, yr hyn a fawr chwennychem ei wneuthur, er cuddio ffieidd-dra dynion yn y fath swydd a sefyllfa gyssegredig.

"Byddai yr esgobion mewn amryw fanau yn ymhòni i ymddangosiad ac awdurdod tywysogaidd, yn enwedig y rhai hyny ag yr oedd ganddynt rifedi mawr o eglwysi wedi eu huno dan eu gofal, ac a flaenorent mewn cynnulleidfaoedd cyfoethog. Mewn cyssylltiad â'u swyddau efengylaidd, ymwisgent â phob arwyddion ac ymddangosiad arglwyddi a brenhinoedd. Eisteddent mewn pob mawrhydi dynol ar orseddfeydd; yn cael eu hamgylchynu gan luaws o weinidogion; wedi eu dyrchafu uwchlaw neb o'u cyfeillion, a'u cyd-ddilynwyr i'r addfwyn a'r gostyngedig Iachawdwr. Ymddilladadent mewn gwisgoedd tywysogaidd, cyn wyched, nes dallu llygaid yr edrychwyr, a llenwi eu meddyliau â rhyw barch cnawdol iddynt; ac nid ystyrid hwy mwy yn weinidogion i athrawiaethu, er dysgu y rhai bychain, ond yn arglwyddi i'w llywodraethu. Yr henuriaid hwythau, yn ol enghraifft lygredig yr esgobion, a ymroddent i drythyllwch a bywyd gloddestgar, yn ymgeisio am fawredd bydol, gan esgeuluso y praidd a'r weinidogaeth a ymddiriedwyd i'w gofal. A'r diaconiaid, wrth weled y rhai hyn yn gadael eu swyddau a'u sefyllfaoedd, gan fyned ar ol helynt y byd hwn, a ymddyrchafasant yn eofn i feddiant o'u swydd a'u breintiau. Fel hyn yr aeth llygredigaeth trwy bob gradd a sefyllfa o ddynion yn yr eglwysi yn fuan."* Teilynga ein sylw difrifolaf, mai dyma gymmeriad y dynion, o dan olygiad pa rai y newidiwyd trefn a gweinyddiad llywodraeth yr eglwysi Cristionogol y dyddiau gynt.

Oddi wrth yr hyn a ddywedwyd, gellir, tebygol, weled dechreuad yr holl îs-swyddwyr a glywir fod yn yr eglwysi tua'r dyddiau ag sydd o dan ein sylw. Pan oedd gwir a phriodol swyddwyr trefnedig yr eglwysi wedi ymddyrchafu uwchlaw eu swydd a'u gwaith, nes eu hesgeulusent, yna yr oedd yn rhaid cael dyfeisio rhyw rai eraill i'w gyflawni, yn enwedig y rhanau hyny a dybir yn iselaf o hono. Canys yn ddiau ni buasai raid wrth, ac ni chlywsid son yn yr eglwysi am yr enwau a'r swyddau anysgrythyrol o îs-ddiaconiaid llithiau, ceidwaid y drysau, *(ostiarii,)* darllenwyr, bwrwyr allan ysbrydion aflan, *(exorcistai,)* îs-weinidogion, *(copiatæ,)* mwy nag arch-ddiaconiaid ac arch-esgobion, &c., pe buasai blaenoriaid yr eglwysi yn ddiwyd a gwresog i ddwyn yn mlaen dduwioldeb a gwirionedd yn mhlith eu cynnulleidfaoedd, trwy eu llafur a'u hymddygiadau.

Fel hyn y daeth yn mlaen yr holl ddirywiad mawr yn yr eglwys Gristionogol, trwy fod y naill oes yn ychwanegu rhyw beth at y llall, a phob un yn meddwl ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw, ac yn harddu yr eglwys, fel y dywedent. Gellir ystyried y cyfnewidiad a gymmerodd le yn sefyllfa

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 267.

gweinidogion a blaenoriaid yr eglwysi, trwy eu gosodiad i ymddibynu ar y cymmanfaoedd, a chwedi hyny ar y llywodraeth wladol, yn lle ar eu cynnulleidfaoedd, yw un o'r prif ffynnonau o ba rai y tarddodd yr holl lygredigaeth yr achwynir o'i herwydd. Yn y canrif sydd dan ein sylw y dygwyd y cyfnewidiad hwn yn hollol oddi amgylch: canys yn y canrifoedd o'r blaen, gwelsom, fel y sylwyd, fod yr eglwysi yn anymddibynol, eu gweinidogion a'u blaenoriaidd yn gwbl ymddibynol arnynt hwy am eu dewisiad, eu hawl i weinyddu iddynt, eu cynnaliaeth, &c. Cyn diwedd y canrif hwn, gwelir yr eglwysi gwedi eu newid a'u dwyn yn hollol ymddibynol ar eu blaenoriaid, am eu llywodraeth, eu trefn, eu defodau, a'u hymarferiadau crefyddol.* Meddiannwyd y blaenoriaid hyn yn gyffredin â'r fath ysbryd ag oedd gymmwys i bob peth, ond i waith y weinidogaeth efengylaidd; a gwnaethant yr oll a fedrent i fawrhau a sicrhau eu hunain mewn dyrchafiad a pharch bydol.

Ni ellir edrych heb y tristwch mwyaf ar yr effeithiau galarus a olrheinir yn hawdd i'r newidiad uchod, pa un a achosodd holl annhrefn yr eglwysi Cristionogol, fel y tystia Cyprian ei hun am sefyllfa pethau yn amser erledigaeth Decius. "Rhaid i mi gydnabod ac addef," medd ef, "fod yr holl ofidiau blinion a'r ysgelerderau dirfawr ag sydd agos a'n hollol ddifa, ac yn parhau i'n difa bob dydd, wedi dyfod arnom o herwydd ein gwaeddfawr bechodau. Ni chadwasom ffyrdd yr Arglwydd ein Duw, ac ni ddaliasom ar ei orchymynion nefol, pa rai a fwriadwyd er ein harwain i iachawdwriaeth. Cyflawnodd Iesu Grist ein Harglwydd ewyllys ei Dad; eithr dirmygasom ni ewyllys Crist. Ein prif lafur a'n hymdrechiadau sydd i geisio aur, arian, a meddiannau, gan ddilyn ein balchder, heb amser genym i ddim, ond i ymddyrchafu y naill yn erbyn y llall, yn llawn amrysonau, a chwedi esgeuluso symledd y ffydd yn hollol. Ymwrthodasom â'r byd yn unig mewn geiriau, ond nid mewn gweithredoedd. Myfyrio yr ydym, ac ymdrechu bob un i ryngu ei fodd ei hun, ac anfoddhau pawb eraill."† Mewn lle arall, dywed yr un awdwr gyda golwg ar y gweinidogion,—"eu bod yn esgeuluso eu heglwysi, a phobl eu gofal, ac yn ymgrwydro ar hyd y gwledydd, i geisio parch, elw, a chyfoeth y byd hwn."‡ Y mae yr olygfa hon ar agwedd crefydd, yn wahanol iawn i'r hyn oedd yn niwedd y canrif o'r blaen, fel y mae rhai wedi ammau cywirdeb tystiolaeth yr ysgrifenydd; eithr Eusebius, yr hwn oedd yn byw mewn llai na hanner can mlynedd ar ol Cyprian, ac a ysgrifenodd hanes yr eglwys, sydd yn cefnogi ac yn sicrhau ei dystiolaeth ef. "Trwy hirfaith a gormodedd rhyddid," medd ef, "cynnyddasant mewn esgeulusdod o bob dyledswydd, a segurdod, a llanwyd hwy â chenfigen, gan athrodi eu gilydd, a dwyn yn mlaen ryfel gwladol a chartrefol, esgobion yn erbyn esgobion; a'r bobl a ymranasant yn wahanol bleidiau. Pob rhagrith a thwyll a gynnyddodd yn eu plith i'r graddau uchaf. Yr oeddynt mor annheimladwy o bethau, fel nad oedd neb o honynt yn meddwl am gyffroi y dwyfol lid; ond fel annuwiaid, yn tybied fod y byd wedi cael ei adael yn amddifad o ofal a llywodraeth y Goruchaf; ac a aethant yn mlaen gan ychwanegu y naill bechod at y llall. Yr esgobion eu hunain a daflasant ymaith bob gofal am grefydd, y rhai oeddynt yn llawn cenfigen, amrysonau, casineb, bygythiadau, a rhyfel y naill yn erbyn y

* "Yr eglwys," medd Cyprian, "sydd i'w chael ar yr esgobion, gan ba rai y llywodraethir hi, ac y cyflawnir pob gweithred eglwysig." Epist. 27. p. 62.

† Cyprian's Works, Epist. 11. ‡ Cyprian's De Lapis s. 4. p. 278.

llall; yn llawn uchel-frydedd, hunan-gais, a gormes; ac a ddefnyddient eu holl dalentau i ddwyn y pethau hyn yn mlaen." Hyn oedd agwedd a sefyllfa alarus crefydd yn yr eglwysi, fel y dywed Eusebius, yn bur gywir, pan ddarfu i'r Arglwydd eu ceryddu yn gyntaf trwy weinidogaeth erledigaethus Decius. Ond wedi ymgaledu o honynt, a dyfod yn anfuddugoliaethol yn eu drygioni, gadawodd i'r erledigaethau creulonaf syrthio arnynt yn amser Dioclesian, pa rai a barhaodd yn hwy ac yn fwy ysgeler na'r un o'r blaen.*

Dechreuodd esgobion Rhufain arddelwi iddynt eu hunain uchafiaeth swydd ac awdurdod ar eu brodyr, a blaenoriaeth ar yr eglwysi, yn y canrif hwn, a chydnabyddid hwy gan amrai, trwy roddi iddynt yr hawl o alw cymmanfaoedd, a blaenori ynddynt; a chyfeirid attynt mewn pethau dyrus. Eithr gwrthwynebwyd hwy yn egniol iawn gan Cyprian, ac eraill, gan ddadleu yn wresog dros gydraddoldeb esgobion, mewn swydd ac awdurdod. Oddi ar yr egwyddor hon, gwrthsafasant eu cynnygiadau gyda dirmyg, ac ni ymostyngent i'w gosodiadau, ond mor bell ag y gwelent hwy yn unol â'r gwirionedd, gan ddilyn eu golygiadau eu hunain†—yr hyn a ddengys nad oeddynt yn credu yn anffaeledigrwydd eglwys nac esgob Rhufain y pryd hwnw. Epistolau Cyprian at Stephan, esgob yr eglwys oedd yn Rhufain, yn y ddadl frwd a fu rhyngddynt o barth i dderbyniad dynion i'r eglwys, a fedyddiasid gan y rhai a farnent yn hereticiaid, sydd yn brawf eglur o hyn. Stephan oedd dros dderbyniad y cyfryw, ond gwrthwynebai Cyprian hyny, heb iddynt gael eu bedyddio drachefn. O blegid hyn, esgob Rhufain, yn dechreu meddwl yn fawr am ei awdurdod, a fygythiodd ddiarddel esgob Carthage, a'i gyfeillion, o gymmundeb yr eglwys. Yn wyneb hyn, dywed Cyprian wrth derfynu y gymmanfa fawr a gynnaliwyd yn Carthage, gyda golwg ar y ddadl hon, pan yr oedd efe yn blaenori,—"Y mae yn gweddu i bob un o honom yn awr ddywedyd ei farn yn nghylch y peth hwn, heb farnu un dyn, neu ddeol neb allan o'n cymundeb, a feddylio yn wahanol; canys ni ddylai neb o honom wneuthur ei hun yn esgob ar esgobion eraill, neu trwy ofn gormesol, osod gorfod ar ei gydswyddwyr i ufuddhau yn rheidiol."‡

I'r un perwyl, ac ar yr un achos, Ffirmilian, esgob yr eglwys yn Cæsarea, yn Cappadocia, a ysgrifenodd fel hyn:—"Mae gan bob talaeth, bron," medd ef, "eu gwahanol ddefodau, yn ol eu hamrywiol enwau a'u lleoedd; ond nid oes neb erioed o herwydd hyny wedi ei fwrw ymaith o undeb a heddwch yr eglwys gyffredinol: eithr pob eglwys yn hyn sydd yn dilyn ei gwahanol ffyrdd, heb fod un amser yn torri undeb a heddwch yn yr eglwys gyffredinol, pa un yn awr y mae Stephan yn beiddio ei wneuthur, gan gynnyg torri yr heddwch a'r undeb ag oedd yr esgobion cyntefig yn ei gynnal yn wastadol mewn cariad ac anrhydedd.‡" Oddi wrth y tystiolaethau hyn, a llawer eraill, a allesid eu henwi, y mae yn eglur fod yn yr eglwysi, er y dechreuad, wahanol ddefodau crefyddol yn cael eu harfer, mewn amrywiol foddau, yn ol doethineb yr ymarferwyr;—ac nad oedd, hyd ganol y trydydd canrif, un deddf o unffurfiad wedi cael ei gwneuthur i, neu ei gosod ar, yr eglwysi, mewn unrhyw dalaeth; ond bod pob eglwys a'i gweinidog yn cael eu gadael at eu cyflawn ryddid i wneuthur fel y barnont gymmwysaf, yn wyneb rheswm ac ysgrythyr. Etto, nid oedd hyn yn attal nac yn torri

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 261.
† Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 264. ‡ Con. Carthag. apud Cyprian, p. 443.
‡ Apud. Cyprian Epist. 75. s. 5. p. 237.

undeb, heddwch, a chymundeb yr eglwysi â'u gilydd, mewn ffydd, cariad, a chydweithrediad. Ond o tua hanner y canrif hwn allan, nid dyma fel y gwelir pethau; eithr gwelwn fod deddfau a chanonau yn cael eu gwneuthur a'u gosod i fynu mewn modd caeth, i rwymo yr eglwysi i unffurfiad, yn y dalaeth hon a'r dalaeth arall, ac ymdrechiad mawr i osod cyfreithiau er rhwymo yr holl fyd crediniol i unffurfiad cyffredin.

Dyma ddygodd i mewn, ac a fu yn ddechreuad yr holl ymraniadau, yr amrysonau, y cynhenau, y llidiau, y casineb, a'r ymladdau yr achwynir arnynt rhwng y gweinidogion â'u gilydd, a rhwng y naill eglwys a'r llall. Canys lle bynag y byddo anffurfiad, y mae yn rhaid fod yno ben; a phwy a fyddai yn ben, oedd yr ymgais a'r ymderfysgu trwy yr holl fyd, y dyddiau hyny.

Yn nyddiau yr apostolion a sefydliad Cristionogaeth, planwyd yr eglwysi, gan mwyaf, yn y dinasoedd a'r prif drefydd, trwy y gwledydd; yn mhen amser wedi hyn, planwyd hwy yn y gwledydd a'r pentrefydd yn gyffredin. Trwy i'r eglwysi hyn yn y gwledydd gael eu casglu a'u sefydlu trwy lafur ac ymdrechiadau y gweinidogion a'r eglwysi yn y dinasoedd, yr oeddynt, mewn ystyr, yn ymddibynol arnynt ar y cyntaf. Pan y sefydlid gweinidogion yn y rhai hyn, yr oeddynt yn aml yn digwydd bod yn llai eu dysg, eu dawn, eu gwybodaeth, a'u cyfoeth, na'r rhai ag oedd mewn dinasoedd; a thrwy hyn deuwyd i edrych arnynt islaw iddynt mewn awdurdod, yn enwedig yn y cymmanfaoedd; ac mewn amser daethant yn ymddibynol arnynt, a than eu llywodraeth; a'r hwn a fyddai yn y ddinas a ystyrid yn benaf yn y dalaeth. Dyma ddechreuad esgobion taleithiol. Yn y canrif hwn, rhoddwyd llawer o esgobion y dinasoedd a'r trefydd dan lywodraeth a gofal un esgob, fel y dywedwyd yn barod. I hwn y perthynai trefnu cymmanfaoedd, a phennodi yr amser i'w cadw, a blaenori ynddynt; a thrwyddo ef y byddai cymmundeb yn cael ei gynnal rhwng eglwysi y naill a'r llall. Enwid hwn yn foreu yn archesgob. Barnwyd nad oedd hyn yn ddigon i gadw unffurfiad, ac i osod gweithrediadau eu cymmanfaoedd mewn grym, cyn diwedd y canrif hwn. Nodwyd esgobion Rhufain, Antiochia, Alexandria, a Jerusalem, i fod yn olygwyr cyffredinol dros yr eglwys yn nhair rhan y byd, pa rai, mewn amser dyfodol, a enwid yn Batriarchiaid. Dyma'r modd y newidiwyd yr agwedd syml oedd ar yr eglwysi yn ol trefniad yr apostolion, i ddull ac agwedd rhwysgfawr unbenaeth Rhufain.

Yr oedd priodas yn ganiattaol, ac a ystyrid yn weddus yn mhawb, yn mhob sefyllfa, dros y canrif hwn; eithr i wyr eglwysig barhau yn weddw, a ystyrid yn hunan-ymwadiad mawr, ac yn beth rhinweddol, sanctaidd, ac anrhydeddus. Canys barnent fod y rhai a briodent yn fwy agored i gael eu meddiannu gan yr ysbrydion drwg, na'r rhai na byddent felly; a thybient ei bod yn beth o bwys neillduol i'r eglwys gael rhai i weini iddynt mewn pethau sanctaidd, na byddai yn agored i hyn, mewn corph nac enaid. Gan hyny deisyfid ar y rhai a feddylient am y swydd gyssegredig, i ymwadu a'r hyfrydwch o undeb priodasol. Amryw a broffesent eu bod yn y gwaith sanctaidd yn nhaleithiau Affrica, a benderfynasant yn y canrif hwn, i foddhau yr eglwysi yn hyn; etto gofalent i wneuthur hyny yn y fath fodd ag i beidio gosod hollol drais ar eu tueddiadau eu hunain. I'r dybenion hyny, ffurfiasant ymgyssylltiad â boneddigesau y gwledydd hyny, a fyddai wedi addunedu i barhaus weddwdod a diweirdeb. Y llëygwyr hunan-ymwadol hyn a gymmerent, bob un, un o'r saint prydweddol hyn i gyfranu o'u gor-

phwysfa, a hyny dan yr adduned ddifrifolaf na chymmerai dim le yn groes i ddiweirdeb a rhinwedd. Y gordderchwragedd hyn a elwid *Mulierus sub introductæ*, yn ol yr iaith Ladinaidd. Yr arferiad anweddaidd yma a ddarfu yn mhen amser ddeffroi holl ymdrechiadau y rhai duwiolaf yn mhlith y gweinidogion, i'w gwrthsefyll; ond er eu sêl a'u ffyddlondeb yn ceisio ei ddileu, buant yn hir cyn llwyddo yn eu gorchwyl canmoladwy.*

Nid oedd o fewn i'r canrif yma nemawr o wyr enwog iawn mewn dysgeidiaeth gyffredinol, yn mhlith unrhyw blaid o ddynion; a chan gymmaint y rhyfeloedd cartrefol, nid oedd amser, archwaeth, nac ymegniad i feithrin y cyfryw beth, oddi eithr yn mhlith y philosophyddion, yn ol cyfundraith y Platoniaid newyddion. Pleidwyr y rhai a elwid Eclecticiaid, oeddynt yn hynod o ymdrechgar a llwyddiannus i daenu eu hegwyddorion trwy yr holl fyd adnabyddus y pryd hwnw. Holl ddysgeidiaeth gyntefig y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, yr hon a fawrheid gynt, a orchuddiwyd ac a fachludodd yn awr yn wyneb llewyrchiad dysglaer y wybodaeth a arddelwid fod yn drosglwyddedig trwy y cyfundraith newydd hwn. Y blaid hon a sefydlwyd gyntaf yn Alexandria, yn yr Aipht, gan Ammonius, fel y dywedwyd; eithr trwy ymdrechiadau diflin un Plotinus, y ffyddlonaf o'i ddysgyblion ef, ymdaenasant i Persia, a'r gwledydd o amgylch, ac oddi yno hyd Rhufain. Yr oedd Plotinus yn ddyn mawr ei gyrhaeddiadau, helaeth ei wybodaeth, cyfrwys ei ymarferiadau, bywiog ei athrylithdra, a chymhwys iawn i wynebu ar, a threiddio trwy, y pethau mwyaf dyrus a gyfarfyddai. Yn ei holl deithiau trwy y gwledydd, agorai athrofäau cyhoeddus, ac ymdyrrai yr ieuengctid, o bob gradd a sefyllfa, i dderbyn ei addysgiadau. Ysgrifenodd ei egwyddorion mewn llyfrau, pa rai sydd i'w cael hyd heddyw. Un arall o'r un blaid, o'r enw Plutarch, a ddygodd y cyfundraith i gymmeradwyaeth yn nhir Groeg, ac a'i gosododd allan gyda llwyddiant yn mhrif athrofa Athen. Fel hyn daeth y ddysgeidiaeth newydd hon i fod yn brif gyfundraith philosophyddaidd y byd dysgedig yn fuan, ac a barhaodd felly am gannoedd o flynyddau. Y blaid hon a broffesai ei bod wedi cael ei sylfaenu ar yr egwyddorion mwyaf rhydd; a bod y gwirionedd i'w gael a'i gasglu o blith pob cyfundraith yn y byd, fel ei gilydd; felly nid oedd lle i ddisgwyl eu bod yn unffurfiol o ran eu golygiadau a'u hymarferiadau yn mhob peth, ac yn mhob gwlad. Rhai o honynt a aent i eithafoedd; ac fel mai y ffordd sicraf i fyned i ammau a gwadu pob peth, ydyw, meddwl a derbyn pob peth yn ddiwahaniaeth fel gwirionedd; felly meddylir fod rhai o'r blaid hon, megys Porphyry, ac eraill, wedi myned i'r tir hwn. Eithr ymgadwent yn gyffredin at eu prif egwyddorion; megys bodoliaeth un Duw Goruchaf, ffynnon pob peth—tragywyddoldeb y bydyssawd—ymddibyniad pob defnyddiau ar y Bôd Goruchaf—nattur anfarwol yr enaid—lluaws o ïs-dduwiau—a'r modd i egluro pob cyfundraith grefyddol mewn cyssondeb â'u gilydd.

Daeth y ddysgeidiaeth hon yn natturiol i barch mawr gyda'r Cristionogion yn gyffredin tua'r amser hwn, ac edrychid arni agos yn hanfodol i'r weinidogaeth efengylaidd. Priodolir llwyddiant a buddugoliaeth dysgeidiaeth, i raddau mawr, yn yr eglwysi Cristionogol, i ymdrechiadau Origen, yr hwn oedd yn ddysgybl i Ammonius, ac yn bleidiwr gwresog i amryw o'i olygiadau; fel y daeth enw ac enwogrwydd Origen i sylw a chymmeradwyaeth

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 269.

cyhoeddus trwy yr eglwysi yn yr oes honno. Felly codwyd i fynu egwyddorion yr Eclecticiaid, a daethant i gyflym rediad trwy yr holl fyd Cristionogol.* Gwnaid hwy yn brif egwyddorion dysg philosophyddaidd yn yr holl athrofäau poblogaidd adnabyddus trwy yr holl fyd. Daeth amryw o ddysgyblion Plotinus i broffesu Cristionogaeth tua'r amser hwn, ar yr ammod y byddai iddynt gael cynnal a chadw yr hyn oeddynt yn farnu yn deilwng ac yn enwog yn naliadau ac ymarferiadau sylfaenydd eu cyfundraith. Achosodd y pethau hyn i ddwyn i mewn lawer iawn o lygredigaeth i blith yr eglwysi Cristionogol, a dirywiad cyffredin mewn gwir grefydd.†

Er hyn oll, er mawr syndod, llwyddodd y grefydd Gristionogol yn fawr o ran helaethrwydd ei therfynau, a rhifedi ei phleidwyr, yn y canrif hwn. Dychwelwyd llwyth lluosog o'r Arabiaid crwydraidd, trwy weinidogaeth Origen, yr hwn a wahoddwyd attynt gan eu tywysog, er eu dysgu yn y pethau a berthynent i Iesu Grist. Y Gothiaid a breswylient Thrace, pa rai oeddynt yn byw wrth ormesu, yspeilio, a lladd eu cyd-greaduriaid, a ddygwyd i dderbyn yr efengyl, ac i ymostwng iddi trwy lafur rhyw athrawon o Asia. Dywedir i amryw eglwysi gael eu sefydlu yn Gaul, yn mhlith pa rai enwir Paris, Tours, ac Arles, trwy ymdrechiadau Dionysius, Gatian, Trophymus, Paul, Saturnius, Martial, &c. y rhai a ddaethent yno, tebygol, fel ffoäduriaid yn amser yr erledigaeth yn nheyrnasiad Decius. Hefyd dywedir i'r efengyl gael ei phregethu a'i derbyn, ac i eglwysi gael eu plànu, yn amryw barthau o'r Almaen, tua'r un amser. Yr offerynau a enwir a fu yn foddion i hyn, oeddynt Eucharius, Valerius, Metemus, a Clemens. Nid oes genym fawr neu ddim i'w ddywedyd am gymmeriad y gwyr hyn, neu eu llwyddiant neillduol, mwy na bod eu henwau yn barchus yn y gwledydd yma, fel eu prif gymmwynaswyr. Dywed haneswyr yr Albaniaid mai yn y canrif hwn hefyd y llewyrchodd gwawr efengyl gyntaf ar eu hynafiaid hwy, yr ochr draw i afon Tweed.‡

Y mae yn amlwg fod mwy o ddiwydrwydd wedi ei arferyd y pryd hwnw er cyfieithu yr ysgrythyrau i wahanol ieithoedd y gwledydd, a'u taenu trwy yr holl eglwysi, nag a fuasai o'r blaen er y dechreuad, fel y gwnawn sylwi etto.

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 260. † Ibid, vol. i. p. 262.
‡ Ibid, vol. i. p. 247.

PENNOD XVI.

Lle y traethir Hanes Tertulian — Clemens o Alexandria — Origen — Cyprian — Hippolytus, a Methodius — Julius Affricanus — Gregory o Neo-Cæsarea — a Dionysius — a'u Gwaith.

CRYBWYLLASOM yn nechreuad y canrif hwn am Irenæus a Tertulian, dau awdwr a ellir yn briodol eu hystyried yn perthynu i'r hyn a gynnwysir yn y bennod hon. Mewn perthynas i'r diweddaf, fel awdwr, y mae y dysgedigion yn amrywio yn eu golygiadau. Bernir gan y rhan amlaf o ysgrifenwyr, fod Tertulian yn ddyn o alluoedd mawrion, yn ysgolhaig o ddyfnddysg, yn ysgrifenydd hyawdl o ran iaith, ac mai efe oedd y cyntaf a ysgrifenodd yn yr iaith Ladinaidd ar bethau Cristionogaidd. Ond am ei olygiadau yn gyffredin, y maent yn aneglur a dyryslyd; ei ymresymiadau ydynt wanaidd; testunau ei ysgrifau yn aml ydynt ddibwys; a'i dymherau anfoddog oeddynt lawn o sarrugrwydd a llymder i eithafoedd; ac yn y cyfan efe a duedda yn fawr i fywyd meudwyaidd. "Oni buasai fod ei waith," medd Mr. Milner, "yn rhoddi mesur o oleuni ar Gristionogaeth yn y parthau hyny, yn ei ddyddiau ef, ni buasai ei hanes yn teilyngu i unrhyw sylw neillduol gael ei wneud o hono: canys ni welais braidd erioed un casgliad o draethodau mor helaeth oll, a broffesid eu bod wedi eu hysgrifenu ar destunau crefyddol, yn cynnwys cyn lleied o wir addysg, â'i holl waith ef."* Gwedi iddo fod dros amser yn ddilynwr ac yn bleidiwr gwresog i'r Montaniaid, efe a ymadawodd â hwy, ac a fu yn sylfaenydd i blaid neillduol, a barhaodd yn wahanol i eraill hyd ddyddiau Augustine, dan yr enw Tertuliaid. Yr oedd efe yn ddyn cryf mewn meddwl a chorph, a meddylir iddo fyw hyd hen ddyddiau, a marw o angau natturiol; eithr nid oes genym hanes pa bryd y cymmerodd hyny le.

CLEMENS o Alexandria oedd ddysgybl i'r hyglod Pantænus, prif athraw, am amser, i'r ysgol egwyddorol yn Alexandria, dinas enwog yn yr Aipht, yn aros rhwng Môr y Canoldir a braich o afon Nile, digon agos i bob un i gael porthladd o bob tu iddi; ac felly yn gyfleus i fasnach o bob parth o'r byd. Adeiladwyd hi gan Alexander Fawr, enw pa un a goffâi er cynnal coffadwriaeth am ei fuddugoliaethau mawrion. Cynnyddodd yn fuan mewn helaethrwydd a phob mawredd, nes y daeth i gael ei hystyried yn ddinas nesaf yn y byd i Rufain; eithr sydd yn awr yn lled wael yn meddiant y Tyrciaid, ac a elwir ganddynt yn Scanderia. Nid yw gwbl sicr gan bwy, na pha bryd, y pregethwyd yr efengyl, ac y sefydlwyd yr eglwys gyntaf yn Alexandria; eithr bernir fod hyny wedi cymmeryd lle er dyddiau yr apostolion; a dywed amryw mai yr efengylwr Marc oedd y cyntaf a fu yno yn llafurio yn y gorchwyl hwnw. Yr oedd yno athrofa,

* Milner's Church Hist. vol. i. p. 301.

fel y dywedwyd yn barod, er yn foreu iawn, i ddysgu gwyr ieuainge o'r grefydd Gristionogol, yn egwyddorion dysgeidiaeth yn gyffredinol. Ond nid yw yn amlwg pwy oedd sylfaenydd hon, na phwy oedd ei hathrawon cyntaf, hyd amser Pantænus, yr hwn a lewyrchodd cyn diwedd yr ail ganrif. Dywedir, wedi iddo gael ei anfon gan Demetrius, gweinidog yr eglwys oedd yn Alexandria, i barthau pell o'r India, er egwyddori yr Indiaid yn mhethau Cristionogaeth, iddo ddychwelyd, a bod yn brif athraw i'r athrofa hyd ddydd ei farwolaeth. Dyma yr amser y dywedir i Pantænus gael yn Ethiopia afael yn yr efengyl yn ol Mathew, wedi ei hysgrifenu yn Hebraeg, yn ei law-ysgrifen ei hun. Wedi iddo ef ddyfod yn flaenor ar yr athrofa yn Alexandria, helaethwyd hi, a daeth yn fwy cyhoedd nag o'r blaen. Efe oedd y cyntaf a broffesodd, medd haneswyr, yn mhlith Cristionogion, egwyddorion yr Eclecticiaid, ac a ystyriodd y Bibl, gan mwyaf oll, yn ymadrodd ffiguraidd, i'w eglurhau yn ol egwyddorion philosophyddaidd.

Clemens oedd un o'i brif ddysgyblion ef, ac a'i dilynodd yn ngolygiaeth yr athrofa.* Y mae i'w alaru yn fawr fod dim a wnelai dynion o dalentau, dysg, doniau, a sefyllfa Clemens, Origen, &c. âg egwyddorion o'r fath; yn enwedig iddynt fod mor annedwydd â dysgu y gwyr ieuainge yn y cyfryw, a'u cymmysgu â phethau Cristionogaeth, ac ymdrechu eglurhau yr efengyl wrth y cyfryw ddysgeidiaeth. Ymddengys hoffder Clemens yn fawr dros yr hen athronwyr gynt, a'u dysgeidiaeth, pan y dywedodd—"Nid wyf yn cofleidio yr anianddysg hon neu arall, yn gyfan, nid yr un Stoicaidd na'r un Blatonaidd, na'r un Epicuriaidd, na'r un hefyd a ddysgwyd gan Aristotle, eithr yr hyn oll sydd ynddynt yn addas ac yn uniawn, er dysgu cyfiawnder a gwybodaeth ddwyfol a chrefyddol—detholiad o honynt hwy a ystyriaf yn philosophyddiaeth." Nid amheuir yn y mesur lleiaf gan neb a ystyriasant ei hanes, am helaethrwydd ei ddoniau, ei ddysgeidiaeth, ac astudrwydd ei fywyd; eithr ei olygiadiau ar athrawiaethau yr efengyl oeddynt yn hynod o gymmysglyd, yn aml yn anghysson â'r gair ac â'u gilydd. Er, dichon, y gwelir prif athrawiaethau yr efengyl yn ei ysgrifau, etto y maent wedi eu cydblethu gymmaint â'i syniadau philosophyddaidd, a'i ddull ffiguraidd o'u heglurhau, fel y mae yn anhawdd deall beth yw ei farn ar ganghenau mwyaf pwysig y grefydd Gristionogol. Gellir meddwl ei fod ef, fel yr oedd y rhan fwyaf o awduron yr oes honno, yn ddiffygiol yn ei olygiadau ar lygredigaeth gwreiddiol y nattur ddynol, ac yn sicr am lywodraeth foesol Duw, a threfn ei ras yn achub pechaduriaid. Ei reolau moesol oeddynt yn erwin i eithafoedd, yn arwain yn mhell i fywyd coelgrefyddol a meudwyaidd. Nid oedd ar un amser yn ddigofus wrth neb, ac ni effeithiai dim i'w gyffroi, gan ei fod, medd ef, yn caru Duw yn wastadol. Cymmaint oedd ei awydd am gynnydd deallol a gwybodaeth, fel yr edrychai ar yr amser oedd yn angenrheidiol i gymmeryd lluniaeth ac ymgeledd corphorol, yn golledig; a byddai yn barhaus mewn gweddiau meddyliadol. Yr oedd yn ddyn hynod o ostyngedig, hynaws, ac amyneddgar; etto mor anmhlygedig yn ei ffordd, fel na chyfnewidiai y poen na'r pleser mwyaf mo hono. Yr oedd yn ddyn o gymmeriad mawr gan ei gydoeswyr yn gyffredin, fel y tystia Alexander, esgob Jerusalem, pan unwaith ar ei daith yn y wlad honno, yr hwn a'i geilw yn henuriad gwynfydedig; ac a ddywed yn ei lythyr at yr eglwys oedd yn Antiochia, ei fod wedi bod o fawr fendith i

* Milner's Church Hist. vol. i. p. 312, and Jer. Collier's Hist. Dict.

gadarnhau ei eglwys ef a'i chwanegu. Ei ysgrifau a elwir *Stomata*, ydynt wedi eu trosglwyddo i lawr trwy yr oesoedd hyd attom ni. Er mor ddyrus oedd ei olygiadau ar yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb, ac er i'w ymddygiadau a'i ddull allegol o eglurhau yr ysgrythyrau fod o fawr niweid i achos Crist, etto, yn llygad cariad, nid oes ond ychydig le i ammau ei onestrwydd a'i dduwioldeb fel Cristion. Yn mha le, ac yn mha ddull, y bu farw, nid yw yn adnabyddus yn bresennol.*

Y nesaf ag sydd yn dyfod dan ein sylw o enwogion yr eglwys, ydyw ORIGEN, yr hwn y dywed Dr. Priestley am dano ei fod mor hynod am ei dduwioldeb, ei athrylithdra, ei ymgais am wybodaeth, a'i allu i'w chyrhaedd, fel y gellir ei ystyried ef yn anrhydedd i Gristionogaeth, ac i'r nattur ddynol yn gyffredin. Meddwl ysgrifenu y cwbl am y dyn hynod hwn, a fyddai meddwl ysgrifennu cyfrolau cyfain. Ganed ef yn y flwyddyn 185, yn Alexandria, o rieni Cristionogaidd; ond ni wyddys beth oedd eu sefyllfa gyda golwg ar bethau y bywyd hwn; eithr ymddengys fod ei dad yn ysgolhaig lled dda, yn enwog mewn duwioldeb, ac mewn sefyllfa a chymmeriad anrhydeddus yn yr eglwys. Dyoddefodd Leonidas, sef ei dad, ferthyrdod yn y flwyddyn 202, pan nad oedd Origen ond dwy-ar-bymtheg oed. Yn ei fabandod addysgwyd Origen yn egwyddorion ieithoedd a Christionogaeth gan ei dad; ac yn nyddiau ei ieuengctid, anfonwyd ef i ddysgu duwinyddiaeth, dan ofal Clemens; ac i'w addysgu mewn philosophyddiaeth dan ofal Ammonius, a elwir Saccas, am iddo fod yn werthwr ŷd, pa rai a gyfrifir yn flaenoriaid i'r blaid Eclecticiaidd. Yr oeddynt hefyd yn cael eu hystyried yr ysgolheigion penaf yn yr oes honno, ac yn y parthau hyny. Rhoddodd Origen brawf yn fuan o'i alluoedd anghymharol i dreiddio i bob canghen o ddysgeidiaeth, er mawr foddlonrwydd i'w athrawon ac i'w dad. Ond ni foddlonai ei dad gymmaint i'w ddull y pryd hwnw o eglurhau yr ysgrythyrau. Canys yr athrawon Cristionogaidd a blaenoriaid yr eglwysi oeddynt wedi bod hyd hyny yn ddynion syml, heb fod yn helaeth mewn un ganghen o wybodaeth natturiol; yn arfer eglurhauyr ysgrythyrau yn symlaidd, yn eglur, ac yn eu hystyr llythyrenol. Eithr yn awr yr oedd Origen a'i athrawon yn dechreu chwilio am ryw ystyr cudd i bob adnod, ac yn ceisio cael allan ystyr hwnw yn ngoleu philosophyddiaeth, neu ddysgeidiaeth yr hen athronwyr Paganaidd. Achosodd hyny i Leonidas ac eraill ofni, ac nid heb achos, rhag i wirioneddau crefydd ac athrawiaethau symledd yr efengyl gael eu dwyn i anialwch philosophyddiaeth, nes colli golwg ar eu gogoniant. O herwydd hyny, attaliai Leonidas ei fab yn aml yn ei ofyniadau dyrus, gwylltiog, ac afradus iddo, ar amryw ranau o air Duw; a mawr fu ei golled ar ol y fath dad â hwn mor foreu. Bywiogrwydd a gweithgarwch ei feddwl, mawredd ei enaid, a gwroldeb ei ysbryd, a ymddysgleiriasant yn fwy; a chynnyddodd ei awydd i dreiddio yn mlaen yn barhaus i ryw olygiadau dirgelaidd ac allegol ar yr ysgrythyrau. Pan oedd ei dad yn cael ei arwain allan i ddyoddef yn achos ei grefydd, mynai yntau ddyoddef merthyrdod ar yr un pryd, trwy roddi ei hun yn ffordd yr ymofynwyr; ond attaliwyd ef gan ei fam, trwy lawer o drafferth. Anfonodd atto lythyr hynod pan yn y carchar, yn mha un yr annogai ef i fod yn wrol, yn amyneddgar, ac yn gyssurus, gan wybod mai yn achos Iesu Grist yr oedd yn dyoddef.

Pan oedd gweddw ei dad â saith o blant amddifaid, o ba rai efe oedd yr

* Milner's Church Hist. vol. i. p. 319. and General Biographical Dict.

hynaf, wedi eu gadael mewn tlodi mawr, trwy i'r erlidwyr creulawn ddirwyo eu heiddo oll, ymdrechodd i'w cynnal yn gyssurus, trwy ymroddi i gadw ysgol lythyregol *(grammar school)* yn y ddinas. A phendefiges rinweddol, a hoffai fod yn nodded i ddynion o ddysg a doniau, a'i cymmerodd i'w theulu, ac a fu yn gymhorth nid bychan iddo ef a'i deulu yn eu hamgylchiadau cyfyng. Yr oedd yn y teulu ddyn hefyd o ddaliadau Gnostiaidd; a chymmaint oedd ei ddiysgogrwydd yn ei dybiaeth o'r niweid a wnai cyfeillach y cyfryw iddo, fel na ymunai âg ef er dim mewn gweddi yn y teulu.

Pan nad oedd ond deunaw mlwydd oed, dewiswyd ef yn athraw i'r athrofa, oedd yn perthynu i'r eglwys yn Alexandria — yn mha sefyllfa y buasai Clemens — ac yn holiedydd i'r rhai a egwyddorid, er cael derbyniad i'r eglwys. Ei gynnildeb yn ei fywioliaeth, ei lafur diflin, nos a dydd, yn y gwaith, a'i ymroddiad i lenwi ei swydd gydag anrhydedd, a'i gwnaeth yn enwog yn fuan, fel y tyrrodd y bobl atto o bob parth i dderbyn ei addysg. Rhoddodd heibio ei sefyllfa gyntaf, gan werthu ei holl lyfrau ar ddysgeidiaeth naturiol, ac a gwbl ymroddodd i ddysgeidiaeth grefyddol ac ysgrythyrol. Llawer o'i ddysgyblion, yn feibion ac yn ferched, a ddyoddefasant ferthyrdod. Cymmaint oedd ei serch attynt, a'i awydd i wneuthur daioni iddynt, fel yr ymwelai â hwynt pan yn y carchar; ac âi gyda hwynt i'r dienyddle, fel mai braidd y dihangodd efe rai gweithiau rhag cael ei osod i farwolaeth ei hun.

Un ferch fonheddig brydweddol iawn, ac o dduwioldeb mawr, a gwroldeb ffydd yn Nghrist, o'r enw Potaminæna, a ddywedir iddi ddyoddef yr arteithiau mwyaf ysgeler a fedrai ei gelynion weithredu arni, er ceisio ei dwyn i wadu ei chrefydd. Pan nad allent lwyddo, dygwyd hi a'i mam, Marcela, i'w llosgi yn y tân. Gwedi eu dwyn i'r dienyddle, arllwyswyd crochanaid o býg poeth ar gorph noeth Potaminæna! Hyn oll a ddyoddefodd gyda'r tawelwch a'r diysgogrwydd mwyaf. Dywedir i Basilides, y milwr, yr hwn oedd yn edrych ar gyflawniad y weithred, wrth weled ei hamynedd, a chlywed ei geiriau grasusol, yn y cyfryw amgylchiad, gael ei argyhoeddi, a dyfod i broffesu Cristionogaeth, a marw yn ferthyr drosti, yn mhen ychydig o ddyddiau ar ol hyny. Y mae amryw chwedlau yn cael eu hadrodd am yr amgylchiad hwn, ag sydd wedi peri i lawer ammau gwirionedd yr hanes; sef i Potaminæna ddyfod at y milwr yn mhen dyddiau gwedi ei llosgiad, yr hyn sydd annhebyg o fod yn wir. Ond dichon fod ymddangosiad y foneddiges, a'i geiriau wrth ddyoddef, wedi gwneuthur y fath argraff ar ei feddwl, fel y gallasai dybio ei fod yn ei gweled yn mhen diwrnodau wedi hyny.

Cymmaint oedd golwg Origen ar ei ddiweirdeb, os nid oedd yn myned i ysbryd hunan-gyfiawnder, fel, rhag i neb ddrwg-feddwl am dano, pan yn y gwaith o addysgu boneddigesau a merched o bob sefyllfa, y gwnaeth ei hun yn Eunuchiad, mewn ystyr lythyrenol, yn ol geiriau ein Harglwydd.* Bu edifar ganddo am hyn, pan ystyriodd y peth yn fwy difrifol.

Yn nghylch y flwyddyn 210, ymwelodd Origen â Rhufain, ac a ddychwelodd drachefn i Alexandria. Tua'r pryd hwn, dechreuodd ar y gwaith gorchestol a chanmoladwy o gasglu yn nghyd, a chymharu pob adysgrifiad o'r ysgrythyrau, mewn wyth rhestr, ar gyfer eu gilydd, pa un a alwodd efe *Octapla*. Yr oedd yn cynnwys yr un o Aquila, Symmachus, a'r deg a thriugain, ac un o eiddo Theodotion, a dau eraill yn yr iaith Roeg; ac yn y

* Mat. xix. 12.

ddwy gofrestr arall, yr oedd yr Hen Destament yn yr iaith Hebraeg, un mewn llythyrenau Groeg, a'r llall mewn llythyrenau Hebraeg. Ond wrth weled y draul, a'r llyfr yn chwyddo i gymmaint maintioli, efe a'i lleihaodd i chwech rhestr, gan adael yn ol ddau adysgrif Groeg, yr hwn a alwodd yn *Tetrapla*. Mawr golled a gafodd yr oesoedd hyn i'r gwaith yma fyned ar goll, gan nad oes i'w cael ond ychydig ddarnau o hono, a goffeir mewn awduron eraill.

Pan oedd Caracala yn anrheithio Alexandria, enciliodd Origen i Palestina, ac arosodd yno dros amser. Yn Cæsarea yr oedd mewn cymmeradwyaeth mawr gan yr eglwys a'r gweinidog, fel y rhoddasant ef i bregethu, er na ordeiniasid ef erioed i hyny; yr hyn a fu yn dramgwydd nid bychan i Demetrius, esgob yr eglwys yn Alexandria, ac a orchymynodd ei ddyfod adref. Gwedi ei ddyfod, dychwelodd at ei waith, fel arferol; ac anfonwyd ef i Arabia i addysgu rhyw dywysog a chwennychai gael addysg Cristionogol. Gwedi hyn, anfonir am dano i ddyfod i gyfarfod â Mammea, mam Alexander yr amherawdwr, i Antiochia, i'w haddysgu hi yn egwyddorion y grefydd Gristionogol. Y pryd hwn ordeiniwyd ef gan esgob Jerusalem, ac esgob Cæsarea, yn henuriad. Ffromodd Demetrius wrth hyny yn aruthr, ac a erlyniodd Origen âg achwyniadau yn nghymmanfa yr Aipht, nes ei esgymuno a'i ddiraddio o'i swydd, i'w tyb hwy, yn y flwyddyn 231. Bernir mai nid gwir ofal dros achos Iesu Grist, a iawn drefn eglwysig, oedd yr achos i Demetrius wneuthur hyn; ond am ei fod yn llawn cenfigen at Origen, o herwydd ei boblogrwydd cyffredinol yn mhob lle. Gwrthwynebwyd ef gan esgobion Asia, gan mwyaf, ac Achaia; amddiffynasant Origen, ac ymddygasant tu ag atto fel cyfaill; a derbyniwyd ef yn eu heglwysi. Fel hyn ymranodd y byd Cristionogol yn ddwy ran yn ei gylch ef; yr hyn a ddengys y felldith o sefydliad y cymmanfaoedd.

Gwedi hyn arosodd dros amser yn Cæsarea, mewn parch a chymmeradwyaeth neillduol; a lluoedd o bob parth a ddeuent i wrando arno, ac i gael eu dysgu ganddo; yn mhlith eraill, Gregory a Neo-Cæsarea, a'i frawd Athenodorus, a ddaethant yn ddysgyblion iddo. Yn fuan wedi hyn, bu farw Demetrius o Alexandria, a llanwyd ei le ef gan Heraclas, yr hwn oedd gyfaill mewn rhan i Origen; eithr ni symmudwyd ymaith yr effaith drwg a gymmerasai le trwy y cythrwfl blaenorol; ac ni ddaeth Origen yn gymmeradwy mwy yn eglwysi yr Aipht.

Tua'r amser hwn, llafuriodd Origen yn ddiwyd ddydd a nos i gael allan esboniad ar y Bibl; a mawr fu ei ffyddlondeb i daenu yr ysgrythyrau mewn amryw eglwysi a thaleithiau, ag oedd hyd y pryd hyny hebddynt. Galluogwyd ef i wneuthur hyn trwy haelionus gyfraniadau un Ambrosius, yr hwn oedd wr dysgedig a chyfoethog a ennillasai Origen, trwy ei resymau, o'i gyfeiliornad Valentiniaidd, i fod yn uniawn-gred. Ysgrifenodd ei draethawd rhagorol, yn nghylch yr amser hwn, yn erbyn Celsus, er amddiffyniad i'r grefydd Gristionogol. Athronwr Epicuriaidd oedd Celsus, a ysgrifenasai yn erbyn Cristionogaeth, yn y modd chwerwaf, gan geisio ei gwaradwyddo yn ysgeler, fel twyll. Y mae Origen yn ei hamddiffyn, oddi wrth gyflawniad y prophwydoliaethau yn Nghrist, y gwyrthiau, a'i heffeithiau sanctteiddiol ar bawb o'i deiliaid, yn dra meistrolaidd. Barna amryw mai dyma y darn goreu o'i waith, er iddo ysgrifenu cyfrolau mawrion, i rif aneirif.

Tra parhaodd erledigaeth Maximinus, enciliodd i Athen, yn mha le y bu yn ddefnyddiol iawn. Yn amser erledigaeth Decius, daliwyd ef, ac a'i

rhoddwyd mewn carchar caled, yn un o'r ystafelloedd dyfnaf, wedi ei lwytho â chadwyni haiarn, â'i draed mewn cyffion ar led yn y modd mwyaf poenus. Er ei fod yn awr tua thriugain oed, gorfu arno ddyoddef y driniaeth greulonaf; a bygythid ei roddi i farwolaeth: er hyny nid oedd y pethau hyn yn effeithio yn y mesur lleiaf arno, nac yn ei ysgogi oddi wrth y gwirionedd. Efe a fu byw am rai blynyddau wedi darfod yr erledigaeth hon, y rhai a dreuliodd i ysgrifenu llythyrau at y rhai oeddynt mewn gorthrymderau a gwasgfeuon, i'w cyssuro a'u hadeiladu, a phregethu yr efengyl, er dwyn yn mlaen yr achos goreu, ac a fu farw o angau naturiol, pan yn ddeg a thriugain oed yn Tyrus, yn y flwyddyn 254.

Arferai ddysgyblaeth lem iawn tu ag atto ei hun, gan ymgynnefino â noethni, oerfel, llafur, a thlodi. Ni wisgai am ei draed am flynyddau; ni yfai win na diod gadarn o un math; ni chymmerai ddau bâr o ddillad, gan gadw at y llythyren o'r hyn a ddywedodd Crist; ac ni dderbyniai roddion iddo ei hun, er eu cynnyg yn rhadlawn a charedig, ac er tramgwyddo rhai trwy beidio â gwneuthur felly. Cydnabyddid ef yn ei ddydd yn ymresymwr digymhar, fel ei gwelir yn cael ei alw ddwywaith i Arabia, i wrthsefyll rhyw gyfeiliornadau a ymgodai yno. Unwaith pan oedd yno, ennillodd Berylus, esgob Bostra, o'i gyfeiliorni yn nghylch person Crist, yr hwn a'i cydnabyddodd yn garedig tra parhaodd ei einioes.* Eithr fel y dywedodd un, pe buasai cywirdeb ei farn yn cydraddoli âg ehangder ei ddeall, mawredd ei athrylithrwydd, gwresogrwydd ei dduwiolder, ei lafur diflin, parhad ei amynedd, a helaethrwydd ei ddysgeidiaeth, a'i oruchel dalentau, buasai pob canmoliaeth yn syrthio yn mhell islaw i'w enwogrwydd.† Ei olygiadau Eclecticiaidd ar, a'i ddilyniad gormesol wrth Pythagoras yn ei farn, a anurddodd ei holl lafur yn y modd mwyaf annedwydd i'r byd, ac anghyssurus i'r eglwysi. Diau ei fod ef nid yn unig yn meddwl y deallai yr holl air yn allegol, ond yr oedd hefyd yn llawn o wag-ddychymygion am lawer o bethau pwysig eraill, er y cyhuddir ef gan ei wrth-bleidwyr o lawer o bethau nad oedd yn euog o honynt: canys ni fu i neb fwy o wrthwynebwyr, yn fyw ac yn farw, fel y gwelsom eisioes fod y byd Cristionogol wedi ymranu yn ei gylch, ac felly y parhaodd pethau wedi iddo farw. Yn mhen agos i dri chan mlynedd wedi ei farwolaeth, dedfrydwyd ef a'i waith i golledigaeth, mewn cymmanfa gyffredinol a gynnaliwyd yn Caer Cystenyn. Ei ysgrifeniadau oeddynt luosog iawn; canys dywedir iddo ysgrifenu pump-ar-hugain o gyfrolau mawrion ar efengyl Matthew yn unig; ond nid oes o honynt lawer wedi cyrhaedd i'r oes bresennol.

Cyprian oedd yn byw tua'r un amser âg Origen, ac yn esgob yn Carthage. Nid oes genym ond ychydig i'w ddywedyd am Cyprian cyn ei ddychweliad i'r ffydd Gristionogol. Ymddengys iddo gael ei eni o deulu cyfoethog ac urddasol yn Carthage, ag oedd yn Baganiaid. Dygwyd ef i fynu yn areithydd yn ei ddinas gynhenid; yn mha sefyllfa yr oedd yn hyawdl a thra llwyddiannus, fel yr oedd o gymmeriad a pharch mawr yn mhlith ei genedl. Cæcilius, un o henuriaid yr eglwys oedd yn Carthage, a fu yn offerynol i'w ddwyn i adnabod y gwirionedd, tua'r flwyddyn 246; mewn coffadwriaeth am ba un, cymmerodd ei enw ef at yr eiddo ei hun, fel ei galwyd o hyny allan yn Thascius Cæcilius Cyprian.

* Milner's Church Hist. vol. i. p. 348. Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 256.
† General Biographical Dict.

Ymddangosodd cyfnewidiad amlwg yn nhymmer, meddwl, agwedd, ysbryd, golygiadau, ac ymarweddiad Cyprian, mewn canlyniad i'w waith yn cofleidio Cristionogaeth. Gwerthodd ei etifeddiaeth a'i feddiannau, ac â'u gwerth diwallodd dlodion yr eglwys, yn mha rai yr ymhyfrydai yn fawr. Y cyfryw oedd ei ymddygiadau, ei ddoniau, a meddyliau y bobl am dano, fel y dewiswyd ef i swydd henaduriaethol yn fuan iawn wedi ei ddyfodiad yn aelod yn yr eglwys. Ei olygiadau oedd yn fwy syml, eglur, a chysson âg athrawiaethau yr efengyl, na'r eiddo neb o'i gydoeswyr, fel y gellir yn briodol ddywedyd ei fod y blaenaf o'r awduron Lladinaidd.

Eithr ysbryd yr amseroedd hyny oedd o'r fath, a'r cyfryw yw tuedd naturiol dynolryw yn mhob oes i feddwl fod crefydd yn gynnwysedig yn fwy mewn gweithredoedd hunan-ewyllys, nag mewn ymostyngiad cydwybodol i drefn ac awdurdod Duw yn ei air, felly Cyprian yntau oedd gymmaint dros hyn, fel y rhoddodd ymaith ei wraig, yr hon oedd ganddo o'r blaen, fel y dangosai fawredd ei ddiweirdeb, er nad oedd gweddwdod yn orchymynedig etto yn mhlith y gweinidogion, ond ystyrid hyny yn rhinwedd arbenig. Y mae tu hwnt i amheuaeth fod Cyprian wedi dwyn llawer o bethau yn mlaen i'r fath eithafoedd yn ei fywyd cyfrinachol, na ellir byth mo'i gyfiawnhau, heb fod yn goelgrefyddol i'r graddau mwyaf. Yn y flwyddyn 248, dewiswyd ef i'r swydd esgobaethol yn yr eglwys oedd yn Carthage—er fod hyn yn weithred anarferol, y dyddiau hyny, sef dewis un mor ieuangc âg ef, fel Cristion, i'r cyfryw swydd; ac er i Cyprian wrthsefyll hyn dros amser, etto y bobl a orfuant, a mynasant iddo gymmeryd y swydd. Gwedi hyn ymdrechodd i ddwyn yn mlaen ddiwygiad mewn amryw o bethau perthynol i ddysgyblaeth ac ymarferiadau yr eglwys, yr hon oedd wedi myned yn dra llygredig, mewn amryw ystyriaethau.

Mewn perthynas i'w ymddygiadau fel esgob, nid oes a ammau enwogrwydd ei ddoniau, ei dalentau, a'i hyawdledd, fel ymadroddwr; eithr ni bu neb o'i flaen yn meddu ar feddyliau mor fawreddog am ei swydd a'i sefyllfa. Ymhònai i ryw awdurdod, nid i weinyddu i'r eglwys yn Carthage yn unig, ond i lywodraethu hyd yn nod ar eglwysi a gweinidogion eraill yn Affrica, a'r gwledydd cymmydogaethol, fel y tystia ei ysgrifau.* Amcanai yn barhaus i osod allan yn ei holl weinidogaeth, ei fod ef yn ganlyniedydd uniongyrchol i'r apostolion yn ei swydd. Ni bu neb o'i flaen ef yn fwy ymdrechgar i geisio gwneuthur gwahaniaeth rhwng swyddi esgobion a henuriaid, ac i osod y gweinidogion a'r bobl yn fwy ar wahân oddi wrth eu gilydd, trwy osod un allan fel yn annhraethol fwy sanctaidd na'r llall, a dyrchafu y cymmanfaoedd i anrhydedd ac awdurdod, a thrwy hyny lleihau y bobl yn eu breintiau, eu hawl, a'u rhyddid, mewn pethau eglwysig. Fel y byddai mwy o rym ac awdurdod yn ei drefniadau a'i osodiadau newyddion, a chael gan y bobl eu derbyn yn rhwyddach, efe a ddywedai ei fod wedi derbyn dadguddiad gweledigaethol oddi wrth yr Arglwydd am y cyfryw beth, fel y gwelir yn ei lythyr at Cæcilius, yn mha un y gorchymyna iddynt gym-

* Yr ymarddelwai i awdurdod dros eglwysi ac esgobion dyeithrol, sydd amlwg, wrth ei ymddygiad tu ag at Therapius, esgob dinas bellenig yn Affrica, yr hwn a gerydda efe yn llym am dderbyn henuriad o'r enw Victor i gymundeb eglwysig, yn gynt na'r amser y mynai efe iddo wneuthur. Felly hefyd Victor, esgob Furnis, a Martialus, a Basilides, y rhai oeddynt yn yr Hispaen, a orchymyn efe i'w cadw o'u swyddau dros eu holl fywyd am eu trosedd. Cyp. Epist. 59. p. 164—195. Translated by an Impartial Hand, part i. p. 151.

mysgu dwfr â'r gwin yn y swpper sanctaidd, am fod hyn wedi ei ddadguddio iddo o'r nef.*

Yn y flwyddyn 249, dechreuodd yr erledigaeth dan lywyddiaeth Decius: yn mhen ychydig wedi hyny, y bobl yn Caracle yn Carthage a fynent yn mhob modd gael Cyprian, blaenor y Cristionogion yno, i'w daflu i'r bwystfilod. Ar hyn efe a enciliodd allan o'r ddinas i ryw le cuddiedig, er ymguddio; yr hyn a roddodd fawr dramgwydd i'w gyfeillion, a sarhad ar ei gymmeriad ei hun, fel un llwfr digalon, ac a ddygodd warth ar grefydd yn ngolwg llawer. Eithr efe a esgusododd ei hun trwy ddywedyd iddo gael dadguddiad o'r nef mai hyny oedd ewyllys ei Arglwydd. Gwedi i'r dymhestl fyned drosodd, tua diwedd y flwyddyn 251, neu ddechreu yr un ganlynol, dychwelodd Cyprian yn ol i Carthage, ac at ei orchwyliaeth. Tra y bu yn ei enciliad ysgrifenodd luaws mawr o lythyrau, rhai at bersonau unigol, eraill at yr eglwys, neu weinidogion, ac eglwysi cymmydogaethol, er adgyweirio yr hyn oedd yn annhrefnus, a'u hannog i fod yn ddyoddefgar yn eu cystuddiau, &c.

Gwedi ei ddyfod yn ol, bu mewn dadleuaeth frwd â rhai o'i eglwys ei hun, ac âg eglwysi eraill, yn nghylch pa fodd ŷr oeddid i ymddwyn tu ag at y rhai hyny a ymollyngent yn wyneb erledigaeth, ac a arogldarthent i ryw eilunod, yn lle cymmeryd eu poeni a'u gosod i farwolaeth yn achos eu crefydd. Cyprian, fel y sylwyd yn barod, oedd yn erbyn derbyniad y cyfryw yn ol i'r eglwysi, heb iddynt fyned trwy y drefn farweiddiedig edifeiriol, ag oedd ganddynt hwy y pryd hwnw o adferyd i gymundeb yr eglwysi—llawer oedd yn ei erbyn ef. Dadl arall, lawer mwy brwd, a fu rhyngddo âg amryw, sef pa un a oeddid i ystyried y rhai a fedyddiwyd gan y cyfryw a dybient yn hereticiaid, yn wir fedydd, ai peidio: dywedai Cyprian nad oedd; gan hyny ni dderbyniai efe neb a fedyddid ganddynt i'w eglwys, ac ni foddlonai i neb arall ei wneud, heb eu hail-fedyddio. Gwrthwynebwyd ef yn fawr yn hyn gan Stephen, esgob Rhufain.

Cynnaliwyd amryw gymmanfaoedd yn Affrica yn nghylch y pethau hyn, yn mha rai yr oedd Cyprian yn blaenori ac yn llywodraethu; ac ynddynt gwnaed cyfreithiau, rheolau, a gosodiadau, gan ddedfrydu y rhai ni chydwelent â hwy; trwy ba bethau gwnaed rhwygiadau mawrion yn yr eglwysi.* Eithr yn y flwyddyn 257, pan oedd Valerian yn amherawdwr Rhufain, yr hwn a drôld yn erlidiwr creulawn, Cyprian a wysiwyd ger bron Aspasius y rhaglaw, yn Carthage, i'w ystafell, yr hwn a ddywedodd iddo am y gyfraith oedd efe newydd dderbyn oddi wrth yr amherawdwr, yn gorchymyn i bawb ddychwelyd yn ol at grefydd eu tadau, er addoli y duwiau; pan y dywedodd Cyprian yn eofn, na allai efe wneuthur felly, am mai Cristion oedd, ac esgob wedi ymroddi yn gwbl i wasanaeth UN bywiol a gwir Dduw, at ba un y cyflwynai ei weddiau nos a dydd dros yr amherawdwŷr, ei gyfreithlawn benaethiaid. Cyhoeddodd y rhaglaw ddedryd o alltudiaeth yn erbyn Cyprian, yr hon a gyflawnwyd trwy ei ddeol i Cumbis, tref fordwyol yn nhalaeth Leugitania, o ddeutu deugain milltir o Carthage.

Gwedi dyfod, yn mhen agos i un blwyddyn, rhaglaw arall i'r dalaeth, galwyd Cyprian yn ol o'i alltudiaeth; er na ddaeth i Carthage, preswyliodd

* Cesglir cofrestr o weledigaethau a dadguddiedigaethau Cyprian gan Dodwell; a meddylia y gwr dysgedig fod pwy bynag na chred ei wag-ddychymmygion yn annuwiaid. Gwel General Biographical Dictionary.

† Enquiry by an Impartial Hand, part i. p. 152.

am ychydig amser yn ei erddi ei hun, ag oedd ganddo yn agos i'r ddinas. Eithr yn fuan derbyniodd Galerius Maximinus archiad amherodrol i roddi y gweinidogion Cristionogol i gyd i farwolaeth, os nad ymostyngent i'r gyfraith o addoli y duwiau. Gwybu esgob Carthage y byddai efe yn un o'r rhai blaenaf a wnaid yn aberth i'r gyfraith lemdost hon; a gwendid ei nattur a'i tueddodd unwaith eilwaith i ymguddio: eithr yn fuan efe a adymwrolodd, gan sefyll yn ddiysgog yn ei le, ac ymagweddu yn gysson â'r hyn oedd ei gymmeriad yn ofyn, gan ddisgwyl yn amyneddgar am gennadau angau i'w gyrchu. Dau swyddog a archwyd i'r gorchwyl o ymofyn am dano, pa rai, wedi ei gael, a'i dygasant mewn cerbyd i lŷs y rhaglaw, yr hwn ni allai weini ei swydd y dydd hwnw; a Cyprian a lettywyd yn anrhydeddus yn nhŷ un o'r swyddogion a'i daliasai ef, yn mha le ymwelodd lluaws mawr o'i gyfeillion âg ef.

Tranoeth, wedi i'r rhaglaw agor ei lŷs, dygwyd Cyprian ger ei fron, yr hwn a ofynodd iddo ei enw, ac ai efe oedd yr hwn a flaenorai ar y gymdeithas gyssegr-ladradaidd ag oedd yn Carthage; efe a gyffesodd, ac ni wadodd. Annogai y rhaglaw ef i addoli y duwiau, gan ddywedyd mai hyny oedd ewyllys yr amherawdwyr—am iddo ef ail-ystyried y peth; ac a osododd o'i flaen y canlyniad o'i anufudd-dod. Eithr meddwl yr hyglod athraw oedd yn ddiysgog, a'i atteb oedd barod a phenderfynol, gan ddywedyd, "Nis gwnaf; cyflawnwch chwi eich bwriad gyda brys." Yna y rhaglaw, wedi ymddiddan ychydig â'i gynghorwyr, a gyhoeddodd y ddedryd ganlynol:—"Ein hewyllys a'n penderfyniad yw, Fod Thascius Cyprian, gelyn duwiau Rhufain, prif flaenor y gymdeithas euog pa un a hudwyd ganddo i wrthryfel annuwiol yn erbyn cyfreithiau unionaf y sancteiddiaf Valerianus a Galienus yr amherawdwyr, i gael ei osod i farwolaeth yn ddiattreg trwy ddibeniad." Attebodd Cyprian hyn yn ostyngedig, gan ddywedyd, Molianner yr Arglwydd.

Arweiniwyd ef yn ddioed o'r llŷs i'r dienyddle o'r tu allan i'r ddinas, lle y tyrrodd miloedd o edrychwyr, yn mhlith pa rai yr oedd cannoedd o Gristionogion, y rhai, er eu bod yn adnabyddas, ni chynnygwyd iddynt unrhyw sarhad, ac ni roddwyd iddynt un rhwystr. Diosgodd ymaith ei wisg uchaf, a rhoddodd ei hun napcyn dros ei lygaid; rhwymwyd ei ddwylaw gan henuriad a diacon o'r eglwys; a gorchymynodd dalu i'r dienyddwr bum *denarii* ar hugain o aur: yna tòrwyd ymaith ei ben ar un ergyd â'r cleddyf. Taenwyd llieiniau ar hyd y llawr gan ei gyfeillion, er derbyn ei waed. Er i'w gorph gael ei osod yn gyhoeddus y dydd hwnw, etto claddwyd ef yn barchus y noson honno gan ei gyfeillion, mewn claddfa berthynol i'r Cristionogion. Felly bu farw yr hybarch Cyprian mewn tawelwch a chyflawn ddiysgogrwydd a gwroldeb meddwl, wedi bod tua deuddeg mlynedd yn aelod eglwysig, am ddeg o ba rai bu yn blaenori yn yr eglwys luosog oedd yn Carthage.*

Ei ysgrifau ydynt amryw epistolau ar wahanol destunau wedi eu hysgrifenu mewn iaith hyawdl; ond y mae ynddynt ormod o flodau araethyddol. Cyfieithwyd hwy i'r iaith Saesonaeg er's amryw flynyddau gan Dr. Marshal. Dyrchefir ef a'i waith yn fawr gan y cyfryw ag sydd dros unbenaeth llywodraeth a rhwysgfawredd ymddangosiadol mewn pethau eglwysig, ac yn ddiau nid heb achos; canys ni bu neb o'i flaen, nac ar ei ol, gymmaint dros y

* General Biographical Dict. a Gibbon's Decline and Fall of the Roman Empire, vol. i. p. 394. Milner's Church Hist. vol. i. p. 483—485.

pethau hyny, ag oedd efe. Ymarddelwai ei hun fel union ganlyniedydd i'r apostolion mewn swydd a hawl, er gosod cyfreithiau a threfniadau i'r eglwysi, mewn cydsyniad â'i gydswyddwyr, yn mhlith pa rai ystyriai ei hun yn flaenor; ac, fel y derbynid hyn yn gyffredin, dywedai ei fod wedi cael dadguddiedigaethau a gweledigaethau oddi wrth yr Arglwydd, i'w ddysgu yn y pethau hyny.*

Ni buasai hanes ei fywyd yn deilwng o'n sylw gymmaint, oni buasai y newidiad a gymmerodd le yn egwyddorion a ffurf yr eglwysi tu ag amser ei weinidogaeth ef, a'r defnydd a wneir o hono ef a'i ysgrifau, fel profiedydd o iawn drefn a ffurf lywodraethol eglwysi Crist. Ond dylai pob darllenydd ystyriol edrych ar y mawr wahaniaeth oedd rhwng trefniad egwyddorion gweinyddiadol y llywodraeth, ac ymarferiadau yr eglwysi, fel y darlunia Cyprian hwynt, a'r darluniad o honynt a rydd Luc a Paul yn eu hysgrifau, ac ysgrifenwyr yr oes nesaf attynt. Yn amser yr apostolion, yr oedd yr eglwysi yn gynnulleidfaoedd, a phob un â'i llywodraeth ynddi ei hun, heb fod yn gyfrifol i neb ar y ddaear am ei gweithrediadau eglwysig—pob gweinidog, neu esgob a henuriad, yn gydradd yn eu swyddi a'u gorchwylion eglwysig, heb fod yn gyfrifol i neb arall, nac yn attaliadwy gan neb i gyflawni eu gweinidogaeth—pob un yn mhlith ei bobl ei hun, os ei dewisid—a phob aelod i gael ei farnu yn ol rheolau a chyfreithiau yr ysgrythyrau yn unig. Ond yn amser Cyprian, nid oedd yr eglwysi yn gynnulleidfaoedd unigol, eithr yn un corph, â'u llywodraeth yn cael ei thrin a'i threfnu gan eu hesgobion yn eu cynnadleddau, i ba rai yr oeddynt hwy yn gyfrifol; gweinidogion yn ddyrchafedig uwchlaw eu gilydd mewn gradd a swydd, a than awdurdod, ac yn gyfrifol y naill i'r llall, fel yr oedd amryw o honynt, dan awdurdod Cyprian, yr hwn a ystyrid yn ben iddynt, trwy holl daleithiau Affrica; yn cael eu hattal a'u cau allan o'u heglwysi am yr hyn a dybiai efe oedd yn drosedd ynddynt; cyfreithiau newyddion yn cael eu gwneuthur trwy osodiad cymmanfaoedd; y bobl a fernid yn wyneb y rhai hyn, ac a ddeolid o'r eglwysi o herwydd eu troseddau. Yn ddiau y mae y gwahaniaeth gymmaint, fel mae yn anhawdd i un dyn ystyriol braidd feddwl mai sefydliadau i'r un dybenion oeddynt; er y cyfeirir ni yn aml at drefn yr eglwysi yn amser Cyprian, am brofiedydd i ddangos cywirdeb, neu anghywirdeb ein trefn eglwysig: ond y mae yn rhaid i ni ofyn caniattad i fyned yn mhellach yn ol am hyny.

Enwir hefyd yn mhlith yr enwogion a fu yn awduron defnyddiol yn y canrif hwn, *Hippolytus* a *Methodius*, a ddywedir eu bod yn ddynion mawr mewn rhinweddau, dysgeidiaeth, a doniau, ac iddynt farw yn ferthyron; eithr y mae eu hanes mor gymmysglyd, a chwedi ei orchuddio â chymmaint o dywyllwch, fel y mae yn anhawdd dywedyd dim am danynt hwy na'u gwaith, gydag un mesur o sicrwydd.†

JULIUS AFFRICANUS oedd enedigol o Palestina, yr hwn oedd wr hynod o ddysgedig, ac yn ysgrifenydd rhagorol; ond nid oes ond ychydig neu ddim o'i waith wedi dyfod yn ddilwgr hyd attom ni.‡

GREGORY o Neo-Cæsarea oedd un o ddysgyblion penaf Origen, yr hwn, o herwydd y gwyrthiau a feddylia rhai iddo gyflawni, a elwir *Thaumaturgus*, h. y. gwneuthurwr rhyfeddodau. Ond sail ansicr iawn sydd i gredu am y

* See his Epistle 69 to Papian, who accuses him of arrogance, and not without cause. Milner's Church Hist. vol. i. p. 471.

† Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. cent. 3. part 2, chap. 2.

cyfryw wyrthiau, ac nid yw y llwyddiant a briodolir i'w weinidogaeth, o herwydd hyny, yn werth i'w goffâu mewn hanes eglwysig. Canys ymddengys yn eglur fod ei lwyddiant wedi bod lawer mwy i iselhau Cristionogaeth yn ei holl egwyddorion a'i hymarferiadau, i gyssondeb âg archwaeth y Paganiaid, nag i godi i fynu eu cymmeriad hwy i gyd-ffurfiad â hi yn ei phurdeb. Felly, ei ymdrechiadau oedd fwy i Baganeiddio Cristionogaeth, nag i efengyleiddio y Paganiaid.*

Dionysius, canlyniedydd Heracles yn eglwys Alexandria, oedd, mor bell ag y gellir gwybod yn bresennol, yn wr hynaws, yn Gristion gostyngedig, syml, a duwiol; yn ddiwinydd iachus, cymhedrol yn ei olygiadau; ac yn weinidog doeth, pwyllog, a ffyddlon. Ganed ef o deulu Paganaidd, a dygwyd ef i fynu yn ol y drefn honno, yn mhob dysgeidiaeth berthynol i ddynion enweg a chyfoethog, yn yr oes honno. Er yn ieuangc, dangosai, fel rhydd-ymofynydd, awydd mawr am y gwirionedd, yr hwn er chwilio yn fanwl am dano yn holl ddysgeidiaeth y Paganiaid, nis gallai ef gael, i foddlonrwydd iddo ei hun: yn mhen amser, efe a drodd i'w geisio yn yr ysgrythyrau sanctaidd, ac a ddaeth o hyd iddo. Bu dros amser yn ddysgybl i Origen; eithr ni ymollyngodd efe i olygiadau ac egwyddorion dychymmygol yr athronwr hwnw. Dewiswyd ef yn henuriad i'r eglwys oedd yn Alexandria yn y flwyddyn 232, ac yn esgob iddi yn y flwyddyn 247.

Yn amser erledigaeth Decius, daliwyd ef; a phan yr oedd y milwyr yn ei ddwyn ymaith yn Taposius, tref gerllaw yno, hwy a ofnasant, wrth glywed sŵn traed pobl lawer yn dyfod ar eu hol, ac a ffoisant ymaith, gan adael yr esgob yn unig, i fyned y ffordd y mynai; fel hyny gwaredwyd ef rhag cael dim sarhad y pryd hwnw. Eithr ni ddaeth efe trwyddi cyn gystled yn y flwyddyn 257, yn amser erledigaeth Valerianus, pryd y daliwyd, ac yr alltudiwyd ef, pan mewn clefyd trwm, i Cephrus, lle tra anial yn Lybia, yn mha un y bu am dair blynedd.† Gwedi hyny dychwelodd, a bu yn llafurus iawn am saith mlynedd gyda'i eglwys drachefn. Ymdrechai gymmedroli rhwng Cyprian a Stephan, esgob yr eglwys yn Rhufain, yn eu hamrafael o berthynas i ail-fedyddio y rhai a fedyddiwyd gan y rhai a elwid yn hereticiaid; a gwrthwynebai Novatian a'i bleidwyr gyda llawer o hynawsedd. Eithr gwrthsafai Sabelius a'i bleidwyr yn eu golygiadau cyfeiliornus am athrawiaeth y Drindod, a Paul o Samosata yn ei olygiadau anghywir ar berson Crist, yn fwy egniol a brwdfrydig. Ei ysgrifau, meddylir, oeddynt luosog iawn; eithr nid oes dim o honynt wedi dyfod hyd attom ni, ond ambell ddarn yn ngwaith Eusebius, ac awduron eraill. Bu efe farw o angau naturiol yn y flwyddyn 267.‡

* Sabine Hist. of the Christ. Church, p. 107.

† Yr oedd gyda Dionysius lawer o gyfeillion yn alltudiedig yn Cephrus, a daeth eraill yno attynt yn wirfoddol, fel yr oedd yno gymdeithas grefyddol o'r hyfrydaf; a llwyddodd yr Arglwydd hwy i wneud lles i'r trigolion Paganaidd. Eithr Satan a ymgenfigenodd wrthynt; a daeth llu o filwyr i'w symmud yn mhellach, a'u gwasgaru hwynt ar hyd y diffaethwch. Amryw a fuant feirw, eraill a laddwyd â'r cleddyf yn y modd creulonaf.—*Milner.*

‡ General Biopraphical Dict.

PENNOD XVII.

Lle y traethir am y Dull o eglurhau yr Ysgrythyrau, ac o bregethu yn y Canrif hwn—a chodiad i fynu y blaid o Gyfrinolwyr—am y Lleoedd yr addolid ynddynt—am yr Ordinhadau a weinyddid, yn enwedig yr Ordinhad o Fedydd, a'r amrywiol Ddefodau a ddechreuasant gymmeryd lle pan yn bedyddio—am y Dull y byddent yn cyflawni eu Haddoliad Crefyddol cyhoeddus—am weinyddiad Swpper yr Arglwydd—am Amser addoliad cyhoeddus, a Dechreuad y Gwyliau ychwanegiadol—am y Ddysgyblaeth a arferid yn yr eglwysi cyntefig—ac am Neillduad Swyddwyr ynddynt.

GWEDI newid trefn gyfansoddiadol a llywodraethol yr eglwysi, a'u dwyn i fod o dan unbeniaid taleithiol, pa rai a ymhònent eu bod yn sefyll yn swydd a sefyllfa yr apostolion, nid oedd ond peth naturiol i ddisgwyl iddynt drefnu trefniadau, a gosod gosodiadau, defodau, ac ymarferiadau newyddion—yr hyn, gwelir, a gymmerodd le yn dra helaeth yn y trydydd canrif, fel ag y newidiodd agwedd ymarferol yr eglwysi yn fuan, ac y daethant yn dra gwahanol i'r hyn oeddynt o'r blaen. Yr athrawiaeth am bersonau y Drindod—am berson yr Arglwydd Iesu Grist—am ei ymddangosiad yn y cnawd—am ffordd a threfn bywyd i bechaduriaid trwyddo—am waith yr Ysbryd Glan ar eneidiau y rhai a gedwir i fywyd tragywyddol, &c.—ydoedd, o ran eu cynnwysiad, yn dra thebyg yn y canrif hwn i'r hyn a broffesai yr eglwysi eu bod yn credu am danynt yn y canrifoedd o'r blaen. Eithr y dull o'u heglurhau a newidiodd yn fawr, yn enwedig gan y rhai hyny a gymmeradwyasant ac a weithredasant yn ol egwyddorion a dysgeidiaeth Origen a'i gyfeillion.

Oddi wrth y rhai hyn, a'r grediniaeth am ystyr ddirgelaidd a chyfrinachol yr holl ysgrythyrau, yn mha rai y dylai dynion lafurio, yn lle ymfoddloni ar eu hystyr lythyrenol mewn un lle, y cododd i fynu blaid o ddynion a broffesent eu bod yn meddiannu mwy o oleuni tumewnol ac ysbrydol na'r cyffredin, y rhai a ymroddent i fywyd deallol yn unig. Gelwir y rhai hyn, *Cyfrinolwyr (Mystics).* Cynnyddasant yn fuan mor fawr, fel yr oedd yn anhawdd cael neb yn mhen ychydig amser a edrychai ar ystyr lythyrenol y gair o bwys yn y byd, ac a gynnygai ei eglurhau wrth reol llythyreg, na phriodol ystyr unrhyw le, na gwir reswm; ond haerent fod Duw, er yn dywedyd un peth, yn meddwl peth arall. Oddi wrth y rhai hyn y deilliodd yr holl fynachod a'r meudwyaid, a lanwasant y byd wedi hyny, fel y ceir sylwi etto. Rheolau eu moesoldeb oeddynt yn dra diffygiol, wedi eu ffurfio nid wrth faen-prawf eglur yr ysgrythyrau, na'r ymarferiad o honynt, yn cael ei annog a'i gymhell gan egwyddorion efengylaidd; eithr rhedent i eithafoedd coel-grefydd, gweithredodd hunan-ewyllys, a chanonau eu cym-

manfaoedd; ac annogid eu hymarferiad, trwy addewid o ryw fywyd deallol y dyrchefid hwy iddo, a thrwy ymddygiadau y merthyron.

Dechreuodd dull newydd o drin dadleuaeth grefyddol, a gwrthsefyll gwrthwynebwyr a chyfeiliornwyr. Ni arferent mwy ond anfynych i osod allan y gwirionedd mewn modd syml, ac i eglurhau yr ysgrythyrau yn eu hystyr priodol ac eglur, fel yr arferai y Cristionogion cyntefig; eithr arferent rym araethyddol, a thwyll-ymresymiadau. Ymgeisient am fuddugoliaeth, a dystewi eu gwrthwynebwyr, yn fwy nag am gael gafael ar y gwirionedd, a chael gwir eglurhad ar yr hyn a fyddai mewn llaw. Yr Eclecticiaid a ddywedent, mai diniwaid oedd pob twyll ac anwir a ddefnyddid i amddiffyn y gwirionedd, yr hyn a wasanaethai, ac a ddefnyddient yn rhy gyffredin, yn eu hymresymiadau. Peth arall a ddaeth mewn bri mawr y dyddiau hyny, oedd, dwyn yn mlaen ysgrifau neu ddywediadau rhyw enwogion ag oedd wedi marw; yn enwedig os byddai hyny wedi cymmeryd lle trwy ferthyrdod. Y dull annheg hwn o ymresymu, trwy geisio taflu eu gwrthwynebwyr i lawr, a'u dystewi trwy chwedlau a ffug-ddywediadau, a fu yn achos o osod ffug-enwau wrth lawer o lyfrau, a phriodoli ysgrifau i ddynion na buont erioed yn awdwyr o honynt, a hyny er mwyn gosod gwerth ar, a chymmeradwyaeth i, y cyfryw.*

Fel y mae dynolryw yn gyffredin yn barottach i gymmeryd eu llywodraethu gan awdurdod, na chan wir reswm, ac i benderfynu eu golygiadau yn ol dywediadau dynion marwol, nag wrth reolau anfethedig gair Duw; felly y dadleuwyr y cyfeiriwn attynt, a dybient na allent wasanaethu y gwirionedd yn well, na thrwy osod enwau dynion enwog, ac awduron o gymmeriad, ag oedd wedi meirw, wrth eu hysgrifau hwy, er gwrthsefyll eu gwrthwynebwyr. I'r dybenion hyn, priodolir llawer o ysgrifau yn yr oes honno i'r apostolion, i Clemens o Romanus, Dionysius, ac ereill, na buont hwy erioed yn awdwyr iddynt; etto yr oeddynt yn cael eu cymmeryd felly gan lawer y pryd hwnw. Ond y mae rhaid addef nad oedd ganddynt hwy yn yr oes honno, y cyfleusdra na'r moddion sydd genym ni yn awr, i feirniadu ar y pethau hyny.†

Bernir nad oedd adeiliadau neillduol wedi eu gwneuthur gan y Cristionogion i addoli ynddynt yn y dechreuad, eithr addolent lle y gallent, hyd tua dechreuad y canrif hwn. Ond gwedi amser Severus, y mae yn amlwg eu bod yn adeiladu tai mawrion a theg, i addoli ynddynt, a hyny yn lled gyffredinol trwy yr holl amherodraeth; a chaent ganiattad i brynu tir hyd yn nod yn Rhufain, at wasanaeth crefyddol.‡ Yn fuan dechreuasant brydferthu eu lleoedd o addoliad âg arwydd-luniau eu henwogion. Diau mai er harddwch yr arferwyd hyn ar y cyntaf, fel y gwelir hwy mewn amryw dai yn bresennol; ond nid hir y buont heb gael eu defnyddio i wasanaeth arall, fel y gwelir etto.§ Cyflawnent eu gwasanaeth crefyddol, yn y canrif hwn, mewn rhai pethau, yn lled debyg i'r modd y darluniasom hwy yn y canrif o'r blaen; eithr yn cynnyddu yn fawr gyda golwg ar y defodau a gyflawnent wrth wneuthur hyny.

Yn yr amser hwn dechreuodd newidiad yn y dull o bregethu gymmeryd lle. Y Cristionogion cyntefig oeddynt yn traddodi areithiau byrion, syml, a gwresog, heb ddim arddderchawgrwydd dynol: ac ni chymmerent unrhyw

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 283. † Ibid. cent. 3. part 2. chap. 3.
‡ Gibbon's Decline and Fall of the Roman Empire, vol. i. p. 320.
§ Mosheim's Eccl. Hist. cent. 3. part 2. chap. 3.

destun neillduol, eithr byddent yn gysson â'r holl ysgrythyr, a hyny yn aml mewn ffordd o holiad ac atteb. Ond y pryd hwn, ag sydd dan ein sylw, dechreuasant drin pethau mwy dirgelaidd yn eu pregethau, pa rai a hwyhausant yn fawr; a thraddodid hwy mwy yn ol egwyddorion philosophyddiaeth, a rheolau araethyddol. Origen oedd y cyntaf a arferodd gymmeryd testun neillduol o'r gair i bregethu oddi wrtho, ac i ymdrechu egluro rhanau o'r gair yn ei bregethau.

Tua'r amser sydd dan ein sylw, cymmerodd amryw ddefodau newyddion le mewn perthynas i weinyddiad yr ordinhad o fedydd; i'r dyben o wneuthur hyn yn amlwg, ni a sylwn ar yr hyn a berthynai i'r ordinhad er y dechreuad, cyn sylwi ar y newydd-bethau a chwanegwyd at y gweinyddiad dechreuol o honi. Arferid bob amser i'w gweinyddu trwy gymhwyso dwfr at y bedyddiedig, naill ai trwy drochiad, neu daenelliad; fel y dengys Arglwydd King yn eglur allan o waith Barnabas, Justin Ferthyr, Tertulian, a Cyprian, sef, fod y naill ffordd yn cael ei hystyried mor rheolaidd â'r llall.* Gweinyddent yr ordinhad bob amser yn enw y Drindod, fel y cyfarwydda ein Harglwydd ni; a gweinyddent hi ar rieni a phlant, fel yr arferid ei wneuthur er dechreuad Cristionogaeth. Fel yr arferid ei wneuthur, meddaf, er y dechreuad: y mae hanesion yn rhoddi amlygiad mor eglur o hyn, âg ydynt am unrhyw ymarferiad crefyddol arall. Mewn perthynas i bob ymarferiad, y mae yn gweddu i ni ystyried leied sydd genym o ysgrifau ysgrifenwyr yr oes gyntaf ar ol yr apostolion; felly nid oes i ni ddisgwyl llawer wedi ei ddywedyd ar yr ymarferiad hwn, mwy na rhyw un arall. Hefyd nid oedd neb yn yr oes honno yn gwrthddywedyd bedydd babanod, fel yn yr oesoedd dilynol; canys arferai yr Iuddewon, y Cenhedloedd, a'r Cyfeiliornwyr oddi wrth Gristionogaeth, oll, ystyried y plant mewn hawl o'r un breintiau â'r rhieni; a byddai gan bawb o honynt ryw ddefod, trwy ba un yr arwyddid hyny, yn gyffredin, yn mhob lle: felly nid oedd neb y pryd hwnw yn dadleu yn erbyn hyn; ac o ganlyniad, nid yw ryfedd fod cyn lleied yn cael ei ddywedyd yn ei chylch. Fel y gweler hyn yn fwy eglur, sylwir ar y tystiolaethau a ganlyn:—

Irenæus, yr hwn oedd yn byw yn yr oes gyntaf ar ol rhai o'r apostolion, a ddywed,—"Daeth Iesu Grist i'r byd i achub pob personau—pawb, meddaf, ag sydd yn cael eu hadeni, neu eu hadgenhedlu trwyddo ef, hyny yw, yn ei awdurdod ef, i Dduw; sef babanod, rhai bychain, plant, a hen bobl." Mae yn eglur wrth y gair adeni, neu adgenhedlu, y meddylia yr awdwr, bedydd: ac nid efe yn unig a'i deallai yn yr ystyr yma, yn y cyfnod dan sylw; eithr felly yr oeddid yn cymmeryd y gair yn gyffredinol, fel y dengys haneswyr cyfrifol.† Justin Ferthyr a ddywedai, tua'r flwyddyn 150, yr adwaenai efe lawer ag oedd yn byw yn ei amser ef, y rhai oeddynt yn driugain, a deg a thriugain oed, ag oedd wedi eu dysgyblu, neu eu *proselytio* i Grist er yn fabanod. Y mae efe yn hyn yn gosod bedydd allan yn yr un geiriau â'r ysgrythyr yn Mathew, yn gywir; ac nid oes neb a feddwl am broselytio babanod i Grist, ond trwy eu bedyddio.‡ Origen a ddywed, "fod plant yn cael eu bedyddio er maddeuant pechodau, i dynnu ymaith eu budreddi naturiol, a'u beiau cyfrifol, pa rai sydd yn wreiddiol ynddynt."§ Yn ei eglurhad ar Mat. xviii. 10., dywed pwy y mae efe

* Enquiry, part 2. p. 73. † Bingham's Origen's Eccl. Hist. b. xi. c. 4. s. 5, 6.
‡ Dr. Williams on Baptism, vol. 2. p. 205. § In Lucam Hom. 14.

yn olygu wrth blant, pan y gofyna, "Pa bryd y mae yr angylion yn dyfod yn noddwyr y rhai bychain hyn, pa un ai pan y genir hwy, ai ynte pan y bedyddir hwy?"

Gallesid chwanegu tystiolaethau personol o'r fath hyn o eiddo henafgwyr; ond sylwir ar benderfyniad cymmanfa a gynnaliwyd yn Carthage, yn y flwyddyn 254, lle yr oedd chwech a thriugain o esgobion yn bresennol, pan y rhoddodd un Ffidius y gofyniad hwn ger eu bron, sef, Pa un a ydoedd yn beth gweddus i fedyddio plant cyn pen wyth niwrnod wedi eu geni, neu ynte y dylid eu gadael hyd yr wythfed dydd, yn ol arferiad yr Iuddewon o enwaedu? Tebygid fod Ffidius dros eu gadawiad: ond penderfyniad y gymmanfa oedd i'r gwrthwyneb. Sylwer mai nid y gofyniad oedd, pa un a oedd babanod i'w bedyddio neu beidio—canys yr oedd hyny yn arferiad diymwad yn barhaus—ond pa amser yr oedd yn fwyaf gweddus i wneuthur hyny.

Fel y gweler meddyliau y gymmanfa honno ar y pwngc, coffeir y darnau canlynol o'u penderfyniad:—"Mewn perthynas i achos y babanod," meddant, "y rhai a ddywedasoch eich bod yn meddwl na ddylent gael eu bedyddio ar yr ail neu y trydydd dydd wedi eu geni, ond eu gadael, yn ol deddf yr enwaediad, hyd yn mhen yr wythfed dydd. Ymddengys y peth i ni oll, yn ein cynghorfa bresennol, yn gwbl wahanol i chwi; ac nid oes neb o honom yn gallu amddiffyn eich golygiad ar y peth hwn; eithr bernir genym oll, nad yw trugaredd a gras Duw i'w naccau i unrhyw ddyn: o blegid dywedodd ein Harglwydd yn yr efengyl, na ddaeth Mab y dyn i ddistrywio eneidiau dynion, ond i'w cadw; gan hyny, hyd a allom, nid oes un enaid i'w adael i golli; canys pa beth a ddichon fod yn ddiffygiol yn yr hwn a luniwyd gan ddwylaw Duw yn y groth." Yna, dros eu golygiad ar y peth, ymresyment oddi wrth berffeithrwydd gwaith Duw ar fabanod newydd eu geni, eu cydraddoldeb mewn nattur, fel creaduriaid Duw, a gwrthddrychau ei ofal; a bod darpariadau gras a thrugaredd y nefoedd mor gymmwys i fabanod newydd eu geni, ag ydynt iddynt yn mhen amser wedi hyny. Attebant wrthddadl, ag oedd Ffidius, wedi ei gwneuthur yn erbyn hyny, oddi wrth fod babanod yn cael eu hystyried yn rhy aflan i'w cusanu o dan wyth niwrnod oed—fel yr oedd, tebygol, yn arferiad wrth fedyddio y pryd hwnw—trwy ddywedyd na ddylai hyn fod yn un rhwystr iddynt i'w wneuthur; canys fel y mae yn ysgrifenedig, Pur yn ddiau yw pob peth i'r rhai pur. Ymdrechent ddangos fod y ddeddf honno ag oedd yn gwahardd enwaedu babanod hyd yr wythfed dydd, wedi cael ei ddiddymu trwy adgyfodiad Crist o'r bedd, ar y dydd cyntaf o'r wythnos. "Gan hyny," meddant, "ein barn yw, na ddylai neb gael ei gadw allan oddi wrth ras Duw trwy y gyfraith honno, ac na ddylai enwaediad naturiol attal enwaediad yr ysbryd rhag cymmeryd lle; ond y dylai pob un, mor fuan ag y gellir, fod yn gyfranog o ras Crist; ac ni ddylem edrych ar neb yn rhy aflan; fel y dywed Pedr yn llyfr yr Actau, fod yr Arglwydd wedi peri iddo na alwai efe un dyn yn aflan neu yn gyffredin."*

Yr oedd y Cristionogion yn y canrifoedd cyntaf, yn edrych ar adgenhedlu, neu adeni, a bedydd, yr un peth, a chymmerent fod y geiriau yn gyfystyr, fel y tystia yr haneswyr mwyaf cyfrifol; ac felly golygent fod bedydd yn hollol hanfodol i iachawdwriaeth; yn gymmaint felly, fel y meddylient nad

* Cyprian, Epist. 59.

oedd yn ddichonadwy i neb fod yn gadwedig hebddo. Meddylir fod y dyb hon wedi tarddu oddi ar eu golygiadau am yr hyn a ddywedodd ein Harglwydd wrth Nicodemus.* Gwelir yn amlwg yn eu holl ysgrifau, eu bod yn golygu fod babanod yn ddeiliaid gras Duw, ac yn cael eu cymhwyso i fyned i'r nefoedd; o ganlyniad, y mae yn rhaid eu bod yn eu golygu yn gymmwys i'w bedyddio. Justin Ferthyr a ddywed nad oedd neb yn ei amser ef i gyfranogi o swpper yr Arglwydd, neu i fwytta o'r bwyd Scrafenaidd, fel y geilw efe ef, ond a fyddai yn fedyddiedig.† Cyprian a ddywed fod babanod yn ei ddyddiau ef, yn gyfranog o'r swpper sanctaidd; a rhydd hanes hirfaith am ryw blentyn ag oedd yn sugno bronau ei fam, mor anynad, na chymmerai mo'r elfenau sanctaidd, fel y gorfu ar y diacon agor ei enau, a'u dodi i mewn er ei waethaf.‡ Yr hyn a ddengys fod plant bychain yn cael eu bedyddio y pryd hwnw yn ddiau.

Golygai y Cristionogion y dyddiau hyny, fod cymmaint cyssylltiad rhwng bedydd a maddeuant pechodau—a chan nad oedd bedydd i'w weinyddu ond unwaith, yn ol eu barn hwy—fel yr oeddynt wedi meddwl nad oedd modd i olchi ymaith bechodau a gyflawnid wedi eu bedyddio; gan hyny dechreuodd rhai gynghori i oedi bedydd hyd awr eu marwolaeth, pan y meddylient y byddent allan o gyrhaedd profedigaeth i bechu. Oddi ar y dyb hon, yr ydym yn gweled fod llawer, megys Cystenyn Fawr, &c., wedi aros heb eu bedyddio hyd eu hawr ddiweddaf, er eu bod yn arddelwi eu hunain yn Gristionogion mewn rhyw fodd yn flaenorol.

Y cyntaf a ddywed haneswyr a lettyodd y farn hon oedd Tertulian, tua dechreu y trydydd canrif. Er mwyn i'r darllenydd weled, rhoir i lawr yma ei eiriau ei hun ar y pwngc mewn llaw. "Pob dyn," medd ef, "yn ol ei sefyllfa, ei dueddiad, a'i oedran, yn enwedig babanod, buddiol yw iddynt oedi eu bedyddio: canys paham y rhoddir eu mechnïon mewn perygl? o herwydd dichon iddynt fethu cyflawni eu haddewidion drostynt mewn canlyniad, trwy farwolaeth, neu dwyll, neu trwy weithrediadau grymus eu tueddiadau llygredig."§ O blegid yr un rheswm, cynghora wyr ieuaingc, a gwyryfon, yn nghyd â gweddwon, i beidio er dim â bod yn fedyddiedig, nes y priodent, neu yr ymsefydlent mewn cyflwr o weddwdod, rhag iddynt syrthio i brofedigaeth a phechu wedi hyny.

Oddi wrth y dywediad uchod, gwelir y pethau canlynol: sef, Fod yr arferiad o fedyddio babanod yn gyffredinol cyn diwedd yr ail ganrif; canys yr oedd Tertulian yn byw yn mhell cyn hyny—nad oedd neb o flaen Tertulian wedi ammau y priodoldeb o hyny, amgen ni buasai un grym yn ei ymresymiad, pe na buasai bedyddio plant yn arferiad cyffredin, o fewn gwybodaeth pawb cyn y pryd hwnw. A phe na buasai bedyddio plant wedi bod yn arferiad cyffredinol yn yr eglwysi er dechreuad Cristionogaeth, diau y gwnaethai goffàu a defnyddio fel rheswm cryf dros ei farn; canys nid oedd neb yn fwy dros flaen-ysgrifau ac arferiadau cyffredin nag efe.‖ Hefyd sonia y gwr hwn am fechnïon yn sefyll dros fabanod wrth eu bedyddio; ond nid yw wedi dywedyd gair pwy oedd y mechnïon hyn, pa un ai rhieni neu ddyeithriaid. Nid oes air o sôn mewn un ysgrif o flaen yr eiddo ef, am ddim o'r cyffelyb beth. Er fod Justin wedi crybwyll am bob peth perthynol i addoliad Duw, a gwelyddiad ei ordinhadau y dyddiau hyny, yn dra man-

* Bingham's Origen's Eccl. Hist. s. 8.
† Apology ii, p. 97.
‡ De Lapis, s. 20. p. 284.
§ Lord King's Enquiry, part ii. p. 67.
‖ Mosheim's Eccl. Hist. cent. iii, part 2. c. 3.

ylaidd, etto nid ydyw wedi rhoddi yr awgrym lleiaf am fechnïon; "yr hyn," medd Arglwydd King, "sydd yn rhoddi lle i dybied yn lled sicr, nad oeddynt mewn arferiad cyn amser Tertulian.* Ac nid oes air o sôn wedi hyny am ddyeithriaid yn cael eu galw yn fechnïon dros fabanod, hyd amser Awstyn, tua'r flwyddyn 490, yr hwn a rydd yr hanes canlynol am y cyfryw arferiad y pryd hwnw:—"Llawer sydd," medd ef, "yn cael eu cynnyg i'w bedyddio, nid gan eu rhieni; megys plant y caeth-weision gan eu meistriaid, &c. A phan y bo marw rhieni, bydd eu plant yn cael eu dwyn i'w bedyddio gan ryw rai yn meddu ar deimladau tosturiol tu ag attynt. Bryd arall, y plant hyny a adewir yn greulawn gan eu rhieni, mewn rhyw leoedd, i'r neb a fynno eu cael, a gymmerir i fynu weithiau trwy ddygwyddiad gan y gwyryfon sanctaidd, y rhai nid oes ganddynt blant eu hunain, ac nad ynt yn meddwl cael neb, ac a ddygir ganddynt i'w bedyddio—dros y cyfryw caniatteir mechnïon.† Oddi wrth hyn, sylwa Dr. Wall, "ei bod yn amlwg mai arferiad cyffredin oedd fod rhieni i atteb dros eu plant wrth eu bedyddio; ond nad oedd hyny mor angenrheidiol, fel nad ellid gweini bedydd hebddynt."‡

Dygwyd i mewn ddefod arall i'r eglwysi tua'r amser dan sylw, yr hon a fuasai yn rhy wael genym i sôn am dani, oni buasai ei chyssylltiad âg arferion eraill, a nodir rhagllaw, sef eu gwaith yn cymmeryd arnynt fwrw allan gythreuliaid o'r bedyddiedig cyn ei fedyddio, trwy arddodiad dwylaw y gweinyddwr arno, a'i waith yn anadlu yn ei wyneb. Y blaenaf a glywir yn dywedyd am hyn yn ei ysgrifau oedd Clemens o Alexandria: ac yn y flwyddyn 258, gwelwn y peth wedi ei benderfynu trwy gymmanfa a gynnaliwyd yn Carthage; sef, nad oedd i neb gael ei fedyddio, hyd nes y bwrid y diafol allan, o hono yn gyntaf. Cresens, esgob Creta, a ddywed, "mai ei farn ef oedd, na ddylai neb o'r hereticiaid na'r cyfeiliornwyr gael eu derbyn i'r eglwys gyffredinol, heb yn gyntaf fwrw allan y cythreuliaid o honynt, a'u bedyddio."§

Tarddodd y ddefod hon, yn nghyd â llawer o'i chyffelyb, oddi ar y gaudybiaeth a feddiannodd yr esgobion y dyddiau gynt, sef eu bod yn ddilynwyr i'r apostolion mewn swydd ac awdurdod; ac fel yr oedd yr apostolion yn bwrw allan gythreuliaid, meddyliasant y dylasent hwythau wneuthur yr un peth, ac awdurdodi rhai ereill i wneuthur hyny. Felly sefydlwyd swyddwyr yn yr eglwys i wneuthur y pethau hyn, tua diwedd yr ail ganrif. Yr ysgrythyr a ddyfynent i bleidio eu hymddygiadau, oedd Marc xvi. 17, 18. Oddi wrth yr ymarferiad hyn hefyd y tarddodd y gyffes honno o ymwrthod â diafol, a wna rhai mewn amser hen a diweddar, pan eu bedyddier, yn unig gyda y gwahaniaeth hwn, sef eu bod yn gwneuthur hyny gynt yn eu henwau eu hunain, pan y bedyddid rhai mewn oed, ond yn bresennol trwy fechnïon. Gwedi eu bedyddio â dwfr, yn enw y Drindod, arferid eu henneinio â'r hyn a elwid yn olew sanctaidd; a rhoddid yr Ysbryd Glan i'r bedyddiedig trwy weddi ac arddodiad dwylaw y gweinyddwr, yr hyn a elwid yn gadarnhad *(confirmation)*.

Nid yw yn eglur pa bryd y dechreuodd yr arferiadau hyn; nid oes air o sôn am danynt yn gynnarach nag ysgrifau Tertulian; ond o hyny yn mlaen, crybwyllir am danynt gan bawb a ysgrifenasant. Justin Ferthyr, pan y rhydd gofrestriad manwl o ymarferiadau crefyddol yr eglwysi yn ei ddyddiau

* Enquiry, part ii. p. 68. † Epistle ad Boniface. ‡ Hist. of Infant Baptism, vol. i. p. 196.
§ Apud Cyprian, p. 445.

ef, a ddywed fod y bedyddiedig yn cael ei ddwyn yn ddioed ar ol ei fedyddio, i gymundeb yr eglwysi, heb ddefod na dim arall yn cael ei gyflawni arno.* Eithr Tertulian a ddywed, yn mhen hanner can mlynedd ar ei ol ef, — "Mor fuan âg y'n bedyddir, yr ydym yn cael ein henneinio â'r ennaint sanctaidd, yr hwn nid yw ond arwydd allanol a naturiol, eithr o ddefnydd ysbrydol. Y cnawd a enneinir fel y byddo yr enaid yn gyssegredig i Dduw." Yr oedd yr enneiniad hwn yn cael ei wneuthur trwy arwydd y groes ar dalcen yr enneiniedig. "Y cnawd a nodir," medd ef, "fel yr amddiffyner yr enaid."† Cyprian a ddywed, — "Yr hwn a fedyddir, yn ddiau, a ddylai, o angenrheidrwydd, gael ei enneinio; fel, wedi derbyn yr enneiniad, y byddo yn gyflwynedig i Dduw, ac y caffo ynddo ei hunan ras Crist." Hefyd, gyda golwg ar y modd yr oeddynt yn enneinio, efe a ddywed, mewn cyfeiriad at Uzzias, a ryfygodd gymmeryd arno waith yr offeiriadaeth, "i Dduw ei daro ef â gwahanglwyf yn ei dalcen, fel arwydd o'i anfoddlonrwydd tu ag atto; felly yn awr, y mae efe am i ni nodi y rhai sydd gymmeradwy, ac wrth ei fodd, yn eu talcenau â'r olew sanctaidd."‡ A chyda golwg ar hyn, efe a annoga drigolion Thebais, i gymmeryd attynt holl arfogaeth Duw, a bod yn wrol yn eu milwriaeth, fel rhai oedd wedi eu nodi yn eu talcenau:§

Cristionogion y dyddiau hyny, yn *dalcenau arwyddiedig*.‖
er yr ydym yn clywed gyntaf, yn ysgrifau yr henafgwyr,
pan newydd eu bedyddio, âg arwydd y groes; a diau mai
ı y dechreuodd yr arferiad; canys y mae yn sicr ei bod yn
. yr arferiad o ymhòniad i fwrw allan gythreuliaid — fel
a ei bod yn cael ei gwneuthur er *amddiffyniad i'r enaid;*
rhag iddynt, yn ol eu tybiaeth hwy, gael eu hadfeddiannu
'n. O blegid yr ydym yn gweled yn fuan ar ol hyn, os
eu bod yn croesi eu hunain yn aml, fel y mae llawer hyd
swyn, er eu cadw rhag rhyw ddrygau oddi wrth ddiafol;
d sicrach nad yr un dechreuad sydd i'r naill groesi a'r
defod o'u harwyddo trwy yr olew sanctaidd, yr oedd y
mmeryd lle, neu, yr hyn a elwir yn ein dyddiau ni, yn
pan y tybient eu bod yn rhoddi yr Ysbryd Glan i'r bedydd-
eddi ac arddodiad dwylaw yr esgob, neu yr henuriad; canys
y ddefod gan y naill fel y llall y pryd hwnw. "Y cnawd,"
lian, "a enneinir fel y cyssegrir yr enaid i Dduw; a'r cnawd
iodir fel y byddo yr enaid yn amddiffynedig; hefyd y cnawd a
gan y dwylaw, fel y byddo yr enaid yn oleuedig gan yr Ysbryd
"Pan," medd ef, "y darfyddir enneinio, yn y fan gosodir dwy-
aynt, gydag attolygiad a deisyfiad am yr Ysbryd Glan iddynt, mewn
di."** Yn mhellach, dywed yr un awdwr, — "Nid ydym yn derbyn
Ysbryd Glan trwy fedydd; eithr ein glanhad trwy hyny, gan yr angel"
— yn cyfeirio, meddylir, at yr angel ar lyn Bethesda — "yna y'n parottoir i dderbyn yr Ysbryd Glan. Pan ein glanheir felly, y mae yr Ysbryd yn disgyn arnom yn y modd mwyaf ewyllysgar, yn yr arddodiad dwylaw a gweddi, a thrwyddo ef, goleuir yr enaid."††

Cyprian, wedi cymharu bywyd naturiol a bywyd ysbrydol â'u gilydd, a dangos, yn ol ei farn ef, y modd y mae dyn yn dyfod yn gyfranog o'r

* Apology ii, p. 97. † De Baptism, pp. 599, 600. ‡ Epist. 56, 70. § De Lapis, s. 1. p. 277.
‖ De Resurrec. Carnis, p. 31. ¶ De Baptism, pp. 599, 600.
** Ibid. †† Ibid.

naill a'r llall, a ddywed,—"Fel y gwnaeth Duw barottoi dyn i dderbyn bywyd naturiol, trwy ffurfio iddo gorph, ac anadlu yn ei ffroenau anadl bywyd, gan ei wneuthur yn ddeiliad cymmwys, cyn rhoddi bod i'r enaid ynddo; felly yn yr ail greadigaeth y mae efe yn parottoi y dyn yn flaenorol i roddi iddo yr Ysbryd, gan ei wneuthur yn deml gymmwys i'r Ysbryd Glan. Y ffordd yn awr y mae dyn yn cael ei barottoi yw, trwy fedydd ac enneiniad sanctaidd—y moddion trwy ba rai y purir ac y glanheir ef oddi wrth ei bechodau, ac ei cymhwysir i dderbyn yr Ysbryd Glan, heb yr hwn, er glanhau, yr ydym yn golygu y dyn fel y corph heb yr enaid. A'r modd y mae Ysbryd Duw yn cael ei dywallt iddo, yr hwn fel enaid byw a ysgoga ac a gyfarwydda y corph darfodedig iddo, ydyw trwy arddodiad dwylaw a gweddi. Bedydd yn unig nid all lanhau ymaith bechod, a sanctteiddio dyn, oddi eithr iddo dderbyn yr Ysbryd Glan."*

Yn y flwyddyn 258, daeth y ddefod o roddi yr Ysbryd Glan i'r bedyddiedig trwy arddodiad dwylaw, yn benderfyniad cymmanfa a gynnaliwyd yn Carthage, yr hyn oedd yn rhoddi bywyd i bob defodau. "Yr Ysbryd," meddent, "nid allai weithio heb y dwfr; a'r dwfr ni attebai y dyben heb yr Ysbryd; am hyny, dylid fod yn ddeiliaid o'r ddwy ordinhad."† "Mor fuan," medd Tertulian, "ag y deuwn o'r bedyddfa, yr ydym yn cael ein henneinio; ac yna ein cadarnhau."‡ Y lle yn benaf o'r ysgrythyr a goffaent, fel sail i'r ymarferiad, oedd yr wythfed o'r Actau, sef gwaith Pedr ac Ioan yn myned i waered i Samaria, ac yn cyfranu yr Ysbryd Glan yn ei ddoniau gwyrthiol i'r Samariaid.

Y mae yn lled amlwg nad oedd y defodau hyn, a llawer eraill—megys nad oedd y bedyddiedig i fyned i un ymolchfa, nac i fwytta ond mêl a llaeth, am ryw gymmaint o amser wedi ei fedyddio, &c.—wedi cymmeryd lle, hyd tua diwedd yr ail ganrif; ac ni ddaethant i ymarferiad cyffredin, hyd tua hanner y trydydd canrif, pan y gwnaed hwy yn ordinhad gymmanfaol. Y mae Tertulian yn dywedyd am ymarferiadau o'r fath hyn oll fel y canlyn:—"Nid oes genym unrhyw gyfraith ysgrythyrol yn eu cylch; canys Traddodiad yw eu hawdwr, a Defod yn unig yw eu cadarnhawr."§ Am ba arferiadau efe a ddywed gyda mesur o lymdra, er ei fod ef ei hun yn eu harfer. "Defodau," medd ef, a "darddant fynychaf oddi wrth anwybodaeth a gwiriondeb; a thrwy olynol ymarferiad o honynt, maent yn aml yn dyfod i'w defnyddio i wrthsefyll y gwirionedd. Ond gwirionedd yw ein Harglwydd Iesu, ac nid defod; gan hyny, os yw Crist o flaen pob peth, a'r un bob amser, y gwirionedd sydd flaenaf a hynaf. Nid newydd-beth a wrthbrofa hereticiaid, ond gwirionedd. Beth bynag sydd yn groes i'r gwirionedd, sydd gyfeiliornad, er ei fod yn hen ddefod."‖

Ymddengys fod llawer o'r defodau ag oedd yn yr eglwysi, wedi eu cymmeryd oddi wrth arferiadau Paganaidd, o blith pa rai yr oedd aelodau yr eglwysi newydd ddyfod. Gyda golwg ar hyn, yr un awdwr a ddywed,—"Y maent yn wagedd, yn gwbl haeddiannol o'u dedfrydu i anghof; o herwydd nid ydynt wedi eu gorchymyn na'u hawdurdodi, gan ein Harglwydd na'r apostolion; gan hyny nid ydynt yn grefyddol, ond ofergoelion, yn cael eu cymmell arnom mewn modd coegaidd a chywrain, nid yn rhesymol; ac y maent i ymgadw rhagddynt; canys llawer o honynt ydynt Baganaidd."¶

* Spirit. Sanctum, s. 7. p. 230. † Apud Cyp. p. 444. ‡ De Bap. p. 599.
§ Idem de Cor. Milit. p. 337—341. ‖ De Virgin Valand. p. 385.
¶ De Orat. pp. 659, 660.

Gallesid chwanegu ar y pethau hyn; ond gobeithir fod y sylwadau hynafiaethol yma yn ddigon i ddangos o ba le y mae tarddiad amryw o'r defodau a arferir yn ein plith ni yn awr. Yr oeddynt yn barchus o'r dydd cyntaf o'r wythnos, ac yr oedd yn neillduedig i waith Duw; a gelwid ef ganddynt yn ddydd sanctaidd, a dydd yr Arglwydd; ac nid un amser yn ddydd Sabbath, er mwyn gwahaniaethu oddi wrth yr Iuddewon. "Y dydd hwn, medd Dionysius, "yw dydd yr Arglwydd; am hyny bydded i ni ei gadw yn sanctaidd."* Clemens o Alexandria a ddywed,—"Pob gwir Gristion sydd, yn ol gorchymyn yr efengyl, yn cadw dydd yr Arglwydd, trwy fwrw ymaith bob meddyliau drwg, a meithrin rhai da, fel y gogonedder adgyfodiad yr Arglwydd Iesu ar y dydd hwnw."† Origen, wedi iddo grybwyll am amryw bethau na ddylid wneuthur, a ddywed,—"Yn enwedig ar ddydd yr Arglwydd; canys hwn sydd goffadwriaethol am ei ddyoddefiadau a'i adgyfodiad Ef; nid a gedwir unwaith bob blwyddyn, ond unwaith bob saith niwrnod."‡ Ar y dydd hwn ymgyfarfyddent i addoli ddwy neu dair gwaith, fel y byddai cyfleusdra, yn wyneb yr amseroedd blinion yn mha rai yr oeddynt yn byw. Y peth cyntaf a wnaid yn eu cyfarfodydd oedd, darllen rhyw ran o air Duw: yr oedd ganddynt swyddwr wedi ei neillduo i hyn yma. Gwedi hyn canent Salm, neu emyn; yna traddodent bregeth, yr hon, am y canrifoedd cyntaf, a fyddai yn rhyw fath o araeth ar y rhan honno o'r Gair a ddarllenasid; ac ar ol hyny gweddient.

Nid oedd ganddynt neb offer canu o un math yn y byd yn eu haddoliad y pryd hwnw; mewn amser diweddarach na'r canrif sydd dan sylw y dygwyd y cyfryw i wasanaeth Duw. Clemens o Alexandria, yn ei waith yn eglurhau y 150 Salm, a ddywed fel hyn:—"Yr ydym yn cael ein gorchymyn gan Dduw i'w foliannu â'r nabl, hyny yw, â'r tafod; canys y tafod yw nabl yr Arglwydd: ei foliannu â'r delyn a'r organ, wrth ba rai y deallir y genau: a'i foliannu â'r symbalau uchel-sain, pa rai ydynt y gwefusau, pan mae y tafod yn taraw wrthynt."§ A byddai canu yn beth cyffredin trwy yr holl gynnulleidfa.‖ Pan y gweddient, arferent droi eu hwynebau tua'r dwyrain. Nid yw yn adnabyddus pa bryd y dechreuodd yr arferiad hwn yn mhlith y Cristionogion; ond Tertulian a ddyry yr hanes am dano gyntaf, gan ddywedyd,—"Yr ydym yn arfer gweddio â'n hwynebau tua'r dwyrain."¶ Mae yn amlwg fod yr arferiad wedi ei achosi yn benaf, neu o leiaf ei gefnogi, trwy y modd y deallent Zech. vi. 12.—"Wele y gwr â'i enw BLAGURYN;" ond meddent hwy, "y gwr â'i enw y *Dwyrain:*" a chan fod Crist yn cael ei alw yn Ddwyrain, yn ol eu cyfieithiad hwy o'r geiriau, meddylient ei bod yn gweddu iddynt hwythau droi eu hwynebau tua'r parth hwnw, er dwyn Crist yn fwy i'w meddwl. Y cyntaf yn ei ysgrifau a grybwylla am y cyficithiad uchod o'r geiriau, ydoedd Justin Ferthyr; ond ni ddywed efe ddim am droi wynebau tua'r parth hwnw, pan yn gweddio, er ei fod yn trin gweddi yn ei gwahanol ranau.**

Arferiad Paganaidd oedd troi wyneb tua'r dwyrain; am y byddai y Paganiaid—ac ydynt etto yn mhob gwlad, bron, lle mae eilunaddoliaeth—yn addoli yr haul; ac ar ei godiad yn y dwyrain, annerchant ef gyda difrifoldeb. Y peth mwyaf tebyg i wirionedd yw, i'r Cristionogion gymmeryd yr arferiad yma, fel miloedd o ddefodau eraill, o blith y Paganiaid; a dwyn

* Euseb. lib. 4. chap. 23. p. 128. † Strom. lib. 7. p. 535. ‡ In Isaiam. Hom. 5.
§ Pædag. lib. 2. chap. 4. p. 121. ‖ Lord King's Enquiry, part. 2. p. 9.
¶ Apol. c. 16. p. 683. ** Lord King's Enquiry, p. 22.

cyfieithiad Justin Ferthyr o'r geiriau uchod i gefnogi yr ymarferiad. Adeiladent eu lleoedd addoliad yn forau yn gyfleus i hyny. Gwedi hyny rhoddodd eglwys Rhufain allor yr offeren, llun Crist, Mair, &c., yn y rhan ddwyreiniol o'u lleoedd addoliad, fel y byddent o flaen eu hwyneb pan yn gweddio—a'r cwbl o ddechreuad Paganaidd. Gwedi i'r gynnulleidfa droi eu hwyneb tua'r parth hwnw, codent eu golygon tua'r nef, ac estynent eu dwylaw tu ag yno; ac, weithiau, mewn rhai lleoedd, dodent eu dwylaw yn groes i'w gilydd, i arwyddo croes Crist.* Y gweinidog, yr hwn a elwid ganddynt yn esgob, neu yr hwn a awdurdodai efe, a fyddai yn blaenori, fel genau cyhoeddus, yn y gorchwyl hwn; a diammau ei fod yn cyflawni y rhan hon, fel pob rhan arall o'r gwaith, yn ei ddillad cyffredin, gan nad oedd newid dillad yn bod gan y gweinidogion y dyddiau hyny. Ymddengys, wrth ddarllen Tertulian, fod rhai, nid yn gwisgo unrhyw wisg newydd, ond yn bwrw heibio eu gwisg uchaf, yr hon a wisgent yn gyffredin; o herwydd paham cerydda efe hwynt, gan ddywedyd fod yr arferiad yn goelgrefyddol, coegaidd, a Phaganaidd.†

Mae yn ddigon eglur hefyd nad oedd gan y gweinidogion hyn unrhyw ffurf ysgrifenedig, na threfn osodedig o weddiau; ond arferent ar rai amserau, yn ol eu dewisiad eu hunain, weddi yr Arglwydd. Nid yn unig y mae yr holl ysgrifau a ysgrifenwyd yn y tri chanrif cyntaf o Gristionogaeth yn hollol ddystaw am un ffurf ysgrifenedig, na threfn osodedig, ond arwyddant yn eglur nad oedd un o'r fath mewn bod y dyddiau hyny. Pan y mae Origen yn sylwi ar wahanol ranau gweddi, dywed "fod pob un i fendithio Duw yn ol ei allu."‡ Yr un geiriau a arferai Justin Ferthyr am weddiau y gweinidogion yn ei ddyddiau ef. A phan y mae Origen yn eglurhau y chwechfed bennod o Mathew, efe a ddywed,—"Dylem fod yn ochelgar iawn yn ein gweddiau, rhag bod yn debyg i'r Cenhedloedd mewn gwag ailadroddiadau; a bod yn wyliadwrus arnom ein hunain, ac ar ein geiriau, wrth weddio, rhag i ni feddwl na dywedyd dim a fyddo yn wael, yn feius, yn annheilwng, yn siaradgar, ac a fyddo yn ein dyeithro oddi wrth y purdeb sydd yn Nuw."§ Pe buasai ganddynt ffurf ysgrifenedig, ni buasai angen iddynt fod yn wyliadwrus ar eu geiriau, am y buasai y rhai hyny ar lawr o'u blaen.

Tertulian, wedi sylwi yn fanwl ar gyflawnder, cymmwysder, a harddwch gweddi yr Arglwydd, yr hon a eilw efe yn weddi gyffreithlon, yn weddi gyffredin, ac yn rheol i'n gweddiau, a ddywed,—"Mae yn perthyn i bawb wahanol amgylchiadau, a sefyllfaoedd neillduol; y mae i ni le—gyda yr hyn a gynnwysir yn ngweddi yr Arglwydd—i anfon i fynu erfyniadau dygwyddadol, a rhyddid i offrymu i fynu ein deisyfiadau oll, a fyddo yn gysson â'r gorchymyn dwyfol."‖ Cyprian a ddywed am weddi yr Arglwydd, "mai cyfraith neu reol gweddiau ydoedd; gan hyny (medd ef) gweddio mewn rhyw fodd nad yw honno yn cyfarwyddo, sydd yn arwyddo anwybodaeth ac annuwioldeb."¶ A phan yn ysgrifenu ei lythyrau at wahanol eglwysi neu bersonau, y mae yn dywedyd, pan wedi clywed rhyw beth annymunol am danynt yn ddiweddar, ei fod ef a'i gynnulleidfa yn coffau am danynt yn eu gweddiau cyhoeddus. Bryd arall, pan y clywai am ryw beth dymunol a ddygwyddasai i rai o'i gyfeillion, dywedai ei fod ef a'i eglwys wedi rhoi diolch drostynt;**

* Origen's de Oratione, s. 20. p. 145.
† Ibid, p. 659.
‡ Ibid, s. 2. p. 134.
§ Ibid, s. 10. p. 63.
‖ Ibid, pp. 659, 660.
¶ De Unis Eccl. s. 11. p. 299.
** Cyprian's Epist. 58. s. 2. p. 163.

—yr hyn a ddengys nad oedd ganddo un *ffurf sefydledig* o weddiau, amgen ni buasent yn eu newid at bob achos fel hyn.

Y mae genym ar lawr lawer o weddiau cyhoeddus Clemens o Alexandria ac Origen, pa rai nid oes air o sôn ynddynt am, na chyfeiriad at, unrhyw ffurf ysgrifenedig.* Tertulian a ddywed eu bod hwy yn gweddio allan o'u calon, heb un rhybuddiwr.‡ Annichodadwy oedd iddynt fod yn darllen unrhyw ysgrifen pan yn gweddio, os oedd Origen yn dywedyd y gwir am eu dull yn y cyflawniad hwnw, trwy fod eu llygaid yn nghau. "Gan gau llygaid ein corph," medd ef, "ac agoryd llygaid ein meddyliau, a dyrchafu ein hwynebau tua'r nefoedd."§ Pan orphenent eu gweddi, dywedai yr holl bobl AMEN; ac ni arferai neb ddywedyd dim, ar un amser arall, pan y byddai eu gweinidogion yn gweddio.

Gwedi y weddi, ar ol y bregeth, gweinyddent yr ordinhad o Swpper yr Arglwydd. Nis gallwn weled fod nemawr o wahaniaeth rhwng eu dull yn cyflawni yr ymarferiad hwn, a'r hyn ydoedd yn y canrifoedd o'r blaen; a chan fod llai o ddefodau wedi ymlithro i mewn yn y cyflawniad hwn, braidd, nag i un rhan o waith yr Arglwydd, bydd i ni ei adael yn fuan. Yr oedd yr ordinhad yn cael ei gweini yn y ddwy elfen, sef bara a gwin i bawb a fyddai yn fedyddiedig, ac na fyddai dan ddysgyblaeth eglwysig. "Nid yw yn gweddu i bawb," medd Origen, "fwytta o'r bara hwn, nac yfed o'r cwppan hwn, ond y ffyddloniaid, ag sydd yn fedyddiedig, ac a dderbyniasant ranau crediniol ac ymarferol Cristionogaeth."§ Gweinyddid yr ordinhad unwaith bob dydd yr Arglwydd, ac yn amlach mewn rhai manau. Gwelwn fod Cyprian yn gweini yr ordinhad forau a hwyr, bob dydd yr Arglwydd. "Fel y darfu i'n Harglwydd." medd ef, "weini y *sacrament* yn yr hwyr, i ddangos hwyrhad a diwedd y byd; felly yr ydym ninnau yn ei wneuthur hefyd y bore, i arwyddo adgyfodiad ein Harglwydd oddi wrth y meirw."‖ Byddai yr elfenau yn cael eu cyssegru trwy weddi, gan yr esgob, a thorrai ef y bara; yna cymmerai y diaconiaid hwy, ac a'u dygent i'r cymunwyr. Felly yr oedd pethau yn bod yn amser Irenæus, Cyprian,¶ &c. Yna ymadawent, wedi gwneuthur casgl i'r tlodion, a chanu emyn weithiau, medd Tertulian, bryd arall wedi gweddio yn unig.**

Fel yr oedd anwybodaeth ac awydd y Cristionogion y pryd hwnw wedi eu bradychu i lawer o ddyryswch am amryw bethau, felly yr oedd yn nghylch yr ordinhad hon, pan ei rhoddent i fabanod ar fronau eu mamau, fel y dywedasom yn barod. Nid oeddynt yn sicr yn deall y gwahaniaeth rhwng dyben yr ordinhad o fedydd, âg eiddo swpper yr Arglwydd. Er yn ddiau nad oedd ymhoniad Cyprian o'i ddadguddiad, sef y dylasai dwfr gael ei gymmysgu â'r gwin yn yr ordinhad o swpper yr Arglwydd, fel y sylwyd yn barod, er ond peth bychan yn y dechreuad. Etto gwelir ef mewn canlyniad yn destun cymmanfaoedd, a chwedi arwain yn mlaen i lwyr ddeoliad y cwppan oddi wrth bobl yn gyffredin, yn mhlith llawer a enwent eu hunain yn Gristionogion.

Gwyliau ac ymprydiau oeddynt yn mawr amlhau yn yr eglwysi yn y canrif hwn. Byddent yn arferol, er yn forau, o ystyried dydd Mercher, a dydd Gwener—am mai ar hwn y bu farw ein Harglwydd—rywbeth yn fwy cyssegredig na'r lleill; ar ba ddyddiau yr arferent gynnal ymprydiau

* Lord King's Enquiry, part 2. p. 28. † Apology, chap. 30, p. 793. ‡ De Orat. s. 9. p. 62, 63.
§ Tom. 28, p. 345. ‖ Epist. 63. s. 12, p. 177. ¶ § Lord King's Enquiry, part 2. p. 112.
** Apology, chap. 39. p. 7.

yn fynych. Byddai yr esgobion, fel y dywed Tertulian, yn pennodi amserau ymprydiau i'r eglwysi, fel y byddai yr amgylchiadau yn eu meddyliau yn gofyn.* Byddai eu hymostyngiad yn fawr, a'u defodau yn erwin iawn tu ag attynt eu hunain, ar rai o'r ymprydiau hyn; sef trwy ymgadw oddi wrth fwydydd a diodydd, ac ymdreiglo mewn llwch a lludw, rhai am ddiwrnod, eraill am ddau, neu ddeugain o oriau.† Cadwent wyliau blynyddol, mewn coffadwriaeth am y merthyron a ddyoddefasant. Tertulian a ddywed,—"Ar ddydd coffadwriaeth y merthyron, yr ydym yn moliannu yr Arglwydd am ei ddaioni attynt."‡ Cyprian hefyd a ddywed—"Amser dyoddefiadau y merthyron a gedwir genym yn goffadwriaeth blynyddol am danynt."§ A phan yn ei ddeoliad, efe a enfyn at yr eglwys am gymmeryd gofal am y dydd a'r amser y dyoddefai neb ferthyrdod, fel y neilldüid amser er coffadwriaeth am danynt hwy, yn mhlith y merthyron eraill.‖ Eglwys Smyrna a gadwai wyl flynyddol mewn coffadwriaeth am ferthyrdod Polycarpus. Ac, hyd y bai ynddynt, cadwent yr wyl hon ar feddau y merthyron.¶

Heblaw y rhai hyn, yr oeddynt hefyd yn cadw gwyl y Nadolig, y Pasg, y Pentecost, a gwyl Ystwyl. Y ddwy flaenaf, ni allent wybod pa bryd yr oeddynt; felly, o ganlyniad, ni wyddent, gydag un sicrwydd pa bryd yr oedd y lleill. Am y Pasg, gwelwn fod yr holl eglwysi Cristionogol yn barod i ymranu, cyn diwedd yr ail ganrif, yn nghylch yr amser; ac felly y parhaodd, tan ei sefydlwyd gan yr amherawdwr, trwy awdurdod, yn y pedwerydd canrif. Ac am wyl y Nadolig, dywed Clemens o Alexandria, nad oedd llai na phedwar golygiad yn ei oes ef ar yr amser y ganed ein Iachawdwr, a pha bryd y dylid cadw yr wyl.** Yr hyn sydd yn rhoddi llawn foddlonrwydd i ni, na chedwid y gwyliau hyn er dyddiau yr apostolion—amgen buasid yn ddiau yn gwybod eu hamser, mor forau â hyny—ac nad oedd yr Arglwydd yn meddwl am i neb i'w cadw mewn amser dyfodol.

Yr oedd ceryddon dysgyblaethol yr eglwysi y dyddiau hyny wedi myned yn llym ac yn dra gerwin, yn enwedig yn erbyn hereticiaid, fel eu gelwid, a rhwygwyr yr eglwysi, a'r rhai a lwfrhaent yn wyneb erledigaethau, heb allu dal i fynu i ddyoddef merthyrdod. Gwedi dwyn y cyhuddedig ger bron yr eglwys a'r esgob, byddai rhyddid iddo i wneuthur ei amddiffyniad; a phenderfynid ei achos yn ol y rhif lluosocaf; ac os caid ef yn euog, bwrid ef allan o'r eglwys, yn amddifad o'i holl freintiau: ac, mewn rhyw amgylchiadau, nid oedd rhyddid i neb o'r eglwys ddal cymdeithas â'r cyfryw mwy. Felly y dywed Origen, sef "fod y cyhuddedig i sefyll ger bron yr holl eglwys."†† Pan oedd Cyprian, yn ei alltudiaeth, yn ddeoledig oddi wrth ei eglwys, efe a ysgrifena at ei gyfeillion mewn perthynas i Ffelicissimus, yr hwn a gyfeiliornasai, "y deuai efe attynt ar fyrder, pan y byddai i achos y gwr hwnw gael ei derfynu, yn ol eu barn hwy a'r cynghor cyffredin."‡‡ Mewn perthynas i ddau neu dri eraill o aelodau ei eglwys, ag oedd wedi cam-ymddwyn, efe a ddywed, "y dylasai eu hachos gael ei brofi ger bron yr holl bobl"§§—sef holl aelodau yr eglwys, yr hyn yn ddiau a feddylia wrth yr *holl bobl*, yma, fel mewn llawer o fanau eraill yn ei ysgrifau. Hefyd, yn yr un amser erledigaethus, pan yn ei ddeoliad, y mae yn dywedyd yn ei lythyr at yr eglwys; "pan y rhyngai bodd i'r Arglwydd adferyd

* De Jejun, c. 13. † Lord King's Enquiry, part. 2. pp. 135, 136. ‡ De Coron. Milit, p. 330.
§ Epist. 34. p. 80. ‖ Epist. 37. pp. 87, 88. ¶ Euseb. lib. 4. chap. 15. p. 135.
** Strom, lib. 1. p. 249. †† Vol. 1. p. 335. ‡‡ Epist. 40. s. 1. p. 94. §§ Ibid. 28. s. 2. p. 64.

heddwch i'r eglwys, a'i ddwyn yntau yn ol o'i alltudiaeth, y byddai i ryw beth eglwysig," at ba un y cyfeiria efe, "gael ei ddwyn ger bron, ei chwilio yn ngwydd yr eglwys, a'i farnu yn ol ei golygiad cyffredin."* A phan oedd rhyw rai o'r eglwys a lwfrhasent yn wyneb yr erledigaeth a'r arogldarthu i'r eilunod, drwy ollyngdod y merthyron, wedi eu derbyn i gymundeb yr eglwys gan rai o'i henuriaid, heb ddwyn y peth dan ei sylw, efe a ddywed, "pan yr adferid ef iddynt, y caent sefyll a dadleu eu hachos ger bron yr henuriaid a'r holl bobl."†

Oddi wrth y tystiolaethau hyn, a llawer eraill a allesid eu chwanegu, gwelwn yn eglur, er maint y cyfnewidiad a gymmerasai le yn nhrefn a llywodraeth yr eglwysi, nad oedd y bobl wedi cwbl golli eu braint, eu rhyddid, a'u hawdurdod mewn pethau eglwysig, hyd yn nod mor bell âg amser Cyprian; ond wedi hyny, nid oes y cysgod lleiaf o'r pethau hyn i'w weled ynddynt. Hefyd, gwelir yma, nad oedd y bobl hwythau i ymdrin â, a phenderfynu, eu hachosion eglwysig, heb fod eu hesgob gyda hwy; yr hyn yn ddiau a esyd allan y drefn apostolaidd yn yr eglwysi. Megys y dywedodd un am Cyprian, er cymmaint oedd efe dros lywodraeth unbenaeth eglwysig, etto mai y cyfryw oedd cyfyngder yr amseroedd, o herwydd yr erledigaethau, fel nad allai ddwyn yn mlaen ei amcanion; heb ymostwng i'w bobl ar rai amserau. Gwedi profi y cyhuddedigion yn euog gan bleidlais y bobl, fel y dywed Cyprian,‡ y maent yn cael eu halltudio, medd Tertulian, allan o'r gynnulleidfa, gweddiau, y gymdeithas, a'r holl fasnach sanctaidd, gan henuriaid profedig a flaenorant yn yr eglwysi, y rhai a ddaethant i'r anrhydedd hwn nid trwy wobrau, ond trwy deilyngdod.§ Pan y bwrient yr esgymunedig allan o bob braint yn yr eglwys, edrychent ar y cyfryw, pan o dan yr esgymundod, fel y mwyaf anghymmwys o un cymdeithas Gristionogol, na naturiol, bron; fel y dywed Irenæus am yr hereticiaid esgymunedig, y dylem, yn ol gorchymyn Paul, eu gochelyd; ac fel y dywed Ioan, am beidio dywedyd Duw yn rhwydd wrth y cyfryw; canys trwy hyny, dywedai y byddem gyfranogion o weithredoedd drwg.‖

Y mae i ni sylwi fod dau fath o ddysgyblaeth yn yr eglwysi, meddylir, o'r dechreuad; pa drefn a gymmerasent oddi wrth arferiad yr Iuddewon yn eu synagogau. Y ddysgyblaeth leiaf nid oedd ond deoliad y troseddwr o ryw ranau o freintiau eglwysig, a thros amser terfynedig; os caid edifeirwch yn yr amser hwn, yna cymmerai adferiad le. Y ddysgyblaeth fwyaf a hollol ddifeddiannai y troseddwr o bob hawl a braint eglwysig; ac âi mor bell â'r ymddygiad uchod tu ag at y cyfryw yn fynych yn y trydydd canrif. Nid yw yn amlwg pa rai oeddynt y beiau a achosai y fath wahaniaeth yn eu dysgyblaeth; ond gellid meddwl fod hyny yn ymddibynu llawer ar amgylchiadau a thymherau y dysgyblwyr. Ond mewn perthynas i dderbyniad yn ol, i freintiau eglwysig, y rhai a fyddai adferedig, byddai yr yr oruchwyliaeth yn llem ac yn erwin, a'r porth yn gyfyng, i'r rhai a fyddai dan y ddysgyblaeth fwyaf. Gorfyddai arnynt aros am ryw gymmaint o amser mewn agwedd dristaidd, o'r tu allan i borth y lle addoliad; ac wedi cael boddlonrwydd ynddynt yno, adferid hwy i blith y rhai edifeiriol. Yn y sefyllfa hon, caent aros am ddwy flynedd; rhai dair, eraill bump, a rhai ddeg, cyn eu hadferid i lawn fwynhad o'u holl freintiau eglwysig. Gorphenai llawer eu

* Epist. 12. s. 1. p. 37. † Ibid. 10. s. 4. p. 30. ‡ Ibid. 40. s. 1. p. 92.
§ Apol. cap. 39. p. 799. ‖ Lib. 1. cap. 13. p. 63.

hoes cyn eu hadferu; ac o herwydd yr argraff oedd ar feddyliau y bobl yu gyffredin am sancteiddrwydd ac anffaeledigrwydd yr eglwysi, dygent en penyd yn y lle a nodwyd am yr holl amser hwnw, yn amyneddgar a gostyngedig. Rhydd Tertulian ddarluniad o'u hagwedd yn y sefyllfa honno, pan yn dwyn eu penyd, yn y geiriau byn:—"Yn gorwedd mewn sachliain a lludw, a chanddynt gorph budr ac enaid pruddaidd; trwy ympryd, gweddi, wylofain, a dagrau; gan ocheneidio a griddfanu ddydd a nos; yn bwrw eu hunain i lawr ger bron yr henuriaid, ac yn ymostwng o flaen y ffyddloniaid, yn erfyn ac yn deisyfu eu gweddiau a'u maddeuant."* Gwelir y cyffelyb ddarluniad yn cael ei roddi mewn llythyr oddi wrth henuriaid eglwys Rhufain at Cyprian.† Gwedi hyny, pan y byddent i'w hadferu i gyflawn fwynhad o'u breintiau eglwysig, gorfyddai arnynt roddi manwl, dwys, a chyhoeddus gyffesiad o'u holl ddirfawr bechodau, ger bron yr eglwys oll; ac os derbynid eu cyffes, yna dygid hwy i feddiant o'u breintiau, fel aelodau eglwysig, trwy arddodiad dwylaw yr esgob a'r henuriaid, yr hyn a elwid yn rhyddhad.

Yr oedd yn ddadl, fel y sylwyd yn barod, tua'r amser hwn, pa un a oedd gwrthgilwyr, a lwfrhäai yn wyneb erledigaeth, i'w derbyn yn ol heb eu bedyddio; ac a dderbynid y rhai a fedyddiasid gan y rhai a farnent hwy yn hereticiaid, i gymundeb â'r eglwysi, heb eu bedyddio drachefn. Eithr nid yw yn amlwg fod y pethau hyn wedi eu terfynu yn y canrif hwn. Cyprian a ddywed—"Bydded i'r gwrthgilwyr ddwyn eu penyd dros yspaid o amser, yn ol trefn ddysgyblaethol yr eglwys; dygant eu cyfaddefiadau, ac adferer hwy i'w hawl ac i gymundeb yr eglwys, trwy arddodiad dwylaw yr esgob a'r henuriaid."‡ A phan ddygwyd rhyw rai yn ol i'r eglwys heb fod yn ol y drefn hon, y mae yn dywedyd nad oedd eu haelodiaeth yn gyfreithlon.§

Pan ydym fel hyn wedi sylwi a chwilio yn lled fanylaidd i drefn eglwysig ac ymarferiadau crefyddol, am y canrif hwn, gobeithir na flinir amynedd y darllenydd: canys diau fod cael allan y gwirionedd pa fodd yr oedd pethau yn bod yn yr amser hyn, o bwys annrhaethol mewn hanesyddsaeth eglwysig; ac y bydd hyn yn ein galluogi i hebgor ail-ymofyn am y pethau drachefn. Y mae yn ddigon eglur mai nid ar un dydd y daeth yr eglwys i'r drefn honno, y sefyllfa a'r ymarferiadau hyny a elwir yn *Babaidd*, ond o radd i radd. Nid oes a ddichon fod yn fwy amlwg wrth yr hanesion a fu dan ein sylw, am y canrif hwn, na bod y dyn pechod, sef mab y golledigaeth, yn dechreu dadguddio ei hun yn eglur yn y cyfnewidiadau a gymmerent le yn yr eglwysi, a'r defodau a ddygid i ymarferiad ynddynt. Etto yr ydym yn gweled fod yr athrawiaeth apostolaidd, trefn eglwysig, ac ymariadau y Cristionogion cyntefig, heb gael eu llwyr ddileu o'r eglwysi, er cymmaint y cyfnewidiadau. Er ymdrechiadau yr esgobion i ddyrchafu eu hunain uwchlaw eu cydswyddwyr, a elwir henuriaid, etto nid oeddynt wedi llwyddo i allu i sefydlu hyn yn yr amser sydd o dan ein sylw. Canys y mae yn ddigon amlwg eu bod yn cael eu hystyried yn un mewn swydd, trefn, ac urddiad, hyd wedi hanner y canrif hwn. Irenæus a Clemens o Alexandria, yn eu hysgrifau, pan yn son am swyddogion yr eglwysi, y rhai a alwent mewn un llinell yn henuriaid, a alwent mewn llinell arall yn esgobion yr eglwysi. Yr oedd hefyd pob gorchwylion a

* De Pœniten. p. 381. † Apud Cyp. Epist. 31. s. 7. p. 71. ‡ Epist. 10. s. 2. p. 30.
§ Ibid. 12. s. 1. p. 37.

berthynai i'r eglwysi yn cael eu cyflawni gan y naill fel y llall y pryd hwnw.

Fermilion, esgob yr eglwys oedd yn Cæsarea yn Cappadocia, a ddywed, yn y flwyddyn 250—"Pob gallu a gras sydd wedi ei ddodi yn yr eglwys lle byddo henafgwyr," neu henuriaid, fel yr eglurir mewn lle arall "yn blaenori; pa rai sydd ganddynt awdurdod i fedyddio, cadarnhau, ac ordeinio rhai ereill yn yr eglwysi.* Yr ydym yn gweled yma fod yr henuriaid yn gwneud y cwbl ag oedd i'w wneud yn yr eglwysi, yn ol barn Fermilion.

Pan oedd Cyprian yn ei alltudiaeth, efe a anfonodd at henuriaid yr eglwys oedd yn Carthage, gan eu hannog i gyflawni ei weinidogaeth ef a hwythau mewn ffyddlondeb, gan hyderu y gwnaent; oblegid ei fod wedi cael prawf mor fynych o'u dduwioldeb.† A geilw ef, henuriad yr eglwys honno, ei gydswyddwr.‡ Tua yr amser hwn, danfonodd henuriaid yr eglwys oedd yn Rhufain at henuriaid yr eglwys oedd yn Carthage, i'w hannog i gyflawni holl waith y weinidogaeth mewn diwydrwydd a ffyddlondeb, fel rhai ag oedd i roddi cyfrif i'r Arglwydd am eu goruchwyliaeth, gan eu cyfeirio at Ezec. xxxiv. 3, 4.

Gallwn weled oddi wrth y tystiolaethau hyn, nad oedd un gwahaniaeth gradd a swydd yn cael ei ystyried y pryd hwnw yn yr eglwysi rhwng esgobion a henuriaid; ond y gwahaniaeth oedd mewn cymmeradwyaeth, galwad, a blaenoriaeth un ar y llall yn yr eglwys lle y gweinyddent. Eithr nid felly y gwelwn mewn canlyniad i hyn; ond edrychir arnynt fel gwahanol swyddau, a chanddynt wahanol orchwylion i'w cyflawni. Sylwir ar hyn yn ol llaw. Nid oedd yr eglwysi wedi colli eu braint a'u hawl o ddewis eu swyddwyr eu hunain, hyd amser Cyprian; canys efe a ddywed "mai gan y bobl yn benaf yr oedd yr hawl o ddewis esgobion teilwng, a gwrthod y rhai annheilwng."§ Gwelir hefyd mai un o'r moddion penaf i yspeilio yr eglwysi o'u rhyddid, dwyn i mewn newidiad yn eu trefn, a gosod i fynu ddefodau mewn ymarferiad a bywyd oedd, y cymmanfaoedd a sefydlwyd tua hanner y canrif o'r blaen; er y dadlau eu hamddiffynwyr, mai cynnal undeb a heddwch, a gwneuthur daioni oedd, y dyben mewn golwg, yn eu sefydliad. Beth bynag oedd yn amcanedig, y ffaethau sydd amlwg, sef mai dinystriol i undeb a heddwch yr eglwysi a fuont, a mawr ddrygau a wnaethant i'r byd, a dianrhydedd i Gristionogaeth. Nid yn unig yr oeddynt yn anysgrythyrol yn eu sefydliad, ond hefyd yn anghydrywiol yn eu nattur âg eiddo y Gristionogaeth gyntefig; o ganlyniad, nid allent fod yn foddion cymmwys i gynnal yr undeb a'r heddwch, ag oedd wedi ei sylfaenu yn unig ar wir grefydd, a dygiad yn mlaen egwyddorion efengylaidd. Canys beth a ddichon fod yn fwy anghysson â gwir grefydd, ac felly i wir undeb a heddwch, na bod awdurdod dynol yn ymgodi i gyfryngu rhwng creadur a'i Greawdwr, yn gwneuthur cyfreithiau ac yn gosod gosodiadau i rwymo dynion mewn pethau crefyddol, lle mae Duw wedi eu gadael yn rhyddion?

Nid yw rhinweddau ysbrydol a Christionogol i'w meithrin na'u cynnal trwy awdurdod, ond trwy ddysgeidiaeth, a oleuo y deall, ac a sancteiddio y galon. Fel y dywedodd Tertulian,—"Nid crefydd yw gosod gorfodiaeth ar neb i fod yn grefyddol; eithr dylai hyn fod o ewyllysgarwch, ac nid ei

* Lord King's Enquiry, part. 1. pp. 64, 65. † Epist. 5. s. 1. p. 15. ‡ Ibid, 28. s. 2. p. 64.
§ Ibid, 68. s. 4. p. 201.

dderbyn yn dreisiedig."* A pha beth a ddichon fod yn yr awdurdod a ymhonai y cymmanfaoedd hyn, o wneuthur cyfreithiau, trefnu gosodiadau, a rhwymo cydwybodau dynion i'r hyn y mae Duw wedi eu gadael i'w rhyddid, i oleuo am Dduw, a sancteiddio y galon tu ag atto? Onid oeddynt yn gosod eu hunain yn lle Duw, ac yn arddelwi eu bod yn ddoethach nag ef? yn medru trefnu mesurau tu ag at ddwyn yn mlaen ei achos, yn ol eu tyb hwy, na threfnodd efe. Felly, os amcan sefydliad y cymmanfaoedd a'u hamddiffynwyr, yw undeb a heddwch crefyddol, mae yn rhaid eu bod y moddion mwyaf gwrthwynebol i hyny o bob moddion: canys milwriant yn erbyn gwir grefydd, yr hyn yw unig sail undeb a heddwch Cristionogaidd. Cymmanfaoedd taleithiol a gynnalid yn dra aml yn y canrif hwn, mor fynych mewn rhai taleithiau âg unwaith bob blwyddyn, os nid yn fynychach; ond ni bu un gyffredinol hyd y pedwerydd canrif. Yr oedd amryw o'r taleithiol mor lluosog, â bod ynddynt drichant o esgobion, heblaw henuriaid a chennadau eraill;† yr hyn a ddengys nad allai fod eu hesgobaethau yn ëang y dyddiau hyny.

* Ad Scapulam, p. 447. † Sympson's Church Hist. p. 483.

PENNOD XVIII.

Lle y gwneir Sylwadau ar wahanol Olygiadau yr oes honno am Athrawiaeth y Drindod—codiad i fynu y Manichæaid, a'u Credöau—y Neotiaid a'r Sabeliaid—y Paulicaniaid—a'r Novatianiaid, y rhai a elwid yn Buritaniaid gyntaf.

Yn mhob oes o'r byd, y mae dynolryw yn llawer mwy tueddol i geisio ymruthro i wybod yr hyn nid yw yn ddadguddiedig, nag i ymostwng i, a defnyddio, yr hyn sydd wedi ei eglurhau iddynt gan yr Arglwydd. Felly yr oeddynt yn mhlaniad Cristionogaeth; llawer a ymddyrysent wrth ymgeisio gwybod a dirnad pa fodd yr oedd tri pherson yn y Duwdod, ac etto ond un Duw; a pha fodd yr oedd dwy nattur yn mherson y Cyfryngwr, etto ond un person; yr hyn nid yw wedi ei ddadguddio, ac nis dadguddir i ddynion tra ar y ddaear. Y mae yn deilwng o'n sylw, fod gwahaniaeth mawr a hanfodol rhwng fod unrhyw beth, a pha fodd y mae yn bod. Dichon fod gan un brawf digonol ac eglur o fodoliaeth unrhyw wrthddrych, pan nad oes ganddo un gwybodaeth am ddull ei fodoliaeth, na moddion i gyrhaedd hyny; a dichon y peth blaenaf fod o bwys, ac yn berthynasol i ni, pan nad yw y llall o un pwys, nac yn dwyn perthynas â ni, ond i foddloni ein cywreinrwydd, yr hyn nis gwna Duw byth.

Mae athrawiaeth y Drindod mewn undod, mor eglur yn y dadguddiad dwyfol, o ran ei bodoliaeth, ag y gall plentyn ei chanfod a'i dirnad, yr hon yw sail yr holl gyfundraith Cristionogaiddd; ond pa fodd y mae hyny yn bod, nid amlygwyd i ni, ac nid oes eisiau i ni ei wybod, er ymarfer yn grefyddol â phob dyledswydd Gristionogol. Felly am y ddwy nattur yn mherson y Cyfryngwr, y mae yn ddigon eglur eu bod, ond pa fodd, nid yw yn ddadguddiedig; ac felly nid all fod yn wrthddrych gwybodaeth a chrêd. Yr un modd, gyda golwg ar beth sydd yn llawer nês attom. Yr ydym yn sicr fod dyn yn cael ei wneuthur i fynu o dair rhan, sef corph, enaid, ac ysbryd; ond pa fodd y mae y tair hyn yn gwneuthur i fynu un person, nid yw yn adnabyddus, nac yn ddadguddiedig; ac y mae yn llawn mor annirnadwy, ag ydyw y modd y mae y ddwy nattur yn Nghrist yn gwneutbur i fynu un person, neu dri pherson yn y Duwdod yn gwneuthur i fynu un Duw.

Meddylir mai diffyg sylwi yn fanylaidd ar y gwahaniaeth hwn a fu yn un o'r prif achosion o'r holl ddadleuaeth yn nghylch y pethau yma, yn y canrifoedd cyntaf o oes Cristionogaeth, ac a achosodd yr holl heresiau a'r ymraniadau a fu yn yr eglwys. Gofynid yn aml y pryd hwnw, megys y gwneir etto, Pa fodd y mae un yn dri pherson, a thri pherson yn un Duw? a pha fodd y gwna dwy nattur i fynu un Emmanuel? Elai rhai i geisio eglurhau *pa fodd*, trwy chwilio i drysorfäau eu holl ddychymygion, ac yn ol egwydd-

orion yr hen philosophyddion gynt, ac ymarferiadau Paganaidd: ni feddent un dadguddiad arall am hyny. Felly yr oeddynt mewn dyryswch anorphen: yn lle sefyll ar dir gwirionedd a ffaethau eglur a phrofedig, fod y pethau mewn *bod*, ond nad oedd neb wedi dadguddio i ni *pa fodd*. Nid rhaid i neb gywilyddio i addef ei anwybodaeth am yr hyn nid yw wedi ei ddadguddio; a gogoniant y grefydd Gristionogol, yw ei bod yn cynnwys ynddi yr hyn nid yw yn ddadguddiedig nac yn ddirnadwy i ni, yn ein sefyllfa farwol, tra yn y byd hwn. Ni welwyd neb, mewn amser hen na diweddar, a elai i geisio eglurhau y *pa fodd* hyn, gyda golwg ar bersonau y Drindod, nad arweiniai lawer gydag ef i'r dyryswch, ac a yrrai eraill i'r ochr gyferbyniol; a thrwy hyny a barai i ymraniadau gymmeryd lle, yn mhob oes, wrth geisio olrhain yr hyn oedd yn anolrheiniadwy.

Yn y trydydd canrif hwn, ymddangosodd yr holl bleidiau Gnostiaidd, ag oeddynt yn yr un o'r blaen, dan eu gwahanol enwau, mewn rhwysgfawredd a llwyddiant neillduol, tua'i ddechreuad. Gwrthsafwyd hwy yn egniol, nid yn unig gan y Cristionogion uniawn-gred, eithr hefyd gan Plotinus, yr hwn oedd ddysgawdwr hyawdl, llwyddiannus, ac aml ei ganlynwyr, yn mhlith yr Eclecticiaid, o herwydd fod eu golygiadau am Dduw, am greadigaeth y byd, &c. yn groes i farn Plato. Trwy unol ymdrechiadau y Cristionogion a'r Eclecticiaid o dan lywyddiaeth Plotinus, rhoddasant attalfa ar lwyddiant Gnostiaeth i raddau mawr; a diammau eu bod yn foddion i leihau parch, awdurdod, a derbyniad pleidwyr y cyfundraith coegaidd hwnw, a'u gosod allan yn eithaf dirmygus yn ngolwg pawb dynion gwybodus. Pan oedd llewyrch y rhai hyn yn cyflym fachludo, cododd i fynu blaid arall yn ddisymmwth, a gwnaeth hirfaith a mawr dwrf yn y byd, a mwy o niwaid i'r eglwys na neb o'i blaen; gelwid hi yn MANICHÆAID. Derbyniodd ei henw oddi wrth un Manes, yr hwn, meddylir, oedd ei sylfaenydd.

Manes oedd enedigol o Persia; efe a ddygwyd i fynu yn mhlith y Magiaid, sef plaid o ddoethion tra chyfrifol am eu dysg a'u gwybodaeth yn y wlad honno; ac yr oedd yn un o honynt cyn iddo ddyfod i broffesu Cristionogaeth. Gwedi ei ddysgu yn holl ddysgeidiaeth Persia, a'r gwledydd cymmydogaethol, efe a ymroddodd i gyrhaedd gwybodaeth mewn seryddiaeth, philosophyddiaeth, physygwriaeth, lliwyddiaeth, &c. Yr oedd yn ddyn yn meddu ar feddwl ac athrylithrwydd bywiog ac addurniadol iawn; etto ei allu dychymmygol oedd yn ormodedd, yn anghymhedrol, ac yn aflywodraethus, o'r fath na wyddai am un terfyn, fel yr ymddangosai yn fynych ei fod yn nesu at anmhwylledd ac ynfydrwydd. Anturiodd i wneuthur cynnygiad i osod allan i'r byd gymmysgedd o egwyddorion Cristionogaeth ac athrawiaeth y Magiaid yn un cyfundraith. Fel y byddai i'r cymmysgedd hwn gael derbyniad rhwyddach, efe a osododd allan fod Iesu Grist wedi gadael trefn iachawdwriaeth heb ei chyflawn egluro, ac mai efe oedd y Dyddanydd addawedig, i dywys dysgyblion Crist i bob gwirionedd. Hyawdledd, ymddangosiad gweddaidd, a diniweidrwydd a symledd bywyd, ac addewidion teg y ffug ysbrydolwr hwn, a ddenodd lawer; a daeth ei ganlynwyr yn fuan i fod yn lluosog iawn.* Rhoddwyd ef i farwolaeth, meddant, trwy gael ei flingo yn fyw gan Varnes, brenin Persia, am broffesu o hono i iachau ei fab, a methu; eithr nid yw yn hysbys pa bryd y bu hyny.

Priodolai yn ei gyfundraith yr un enwau, gweithredoedd, swyddau, a

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 295.

sefyllfa i Grist, ag oedd y Persiaid yn eu rhoddi i'w duw Mithias, yn eu cyfundraith crefyddol hwythau. Gellir edrych ar yr egwyddorion canlynol fel y rhai y sylfaenodd efe ei gyfundraeth arnynt: sef, Fod dwy egwyddor fawr er y dechreuad, oddi wrth ba rai y dylifai pob peth; a bod un o'r rhai hyn yn berffaith bur, yn gyfansoddedig o'r defnyddiau teneuaf, yr hon a elwid Goleuni; a'r llall yn llygredig a holloll ddrwg, yn gyfansoddedig o'r defnyddiau mwyaf garw, yr hon a elwid Tywyllwch. Pob un o'r egwyddorion hyn oeddynt dan ryw fodau gweinyddiadol, ag oeddynt er tragywyddoldeb. Y goleuni dan lywyddiaeth Bôd ag oedd ynddo ei hun yn berffaith dda a dedwydd, ac yn llawn haelfrydedd, yn ewyllysio dedwyddwch i bawb eraill, yr hwn a elwid Duw. Y tywyllwch dan lywyddiaeth bôd hollol ddrwg, a maleisus i'r graddau mwyaf, yr hwn a elwid *Hyle*, neu *Demon*. Yma darlunia ryw ymladdfa a fuasai rhwng y ddwy egwyddor hyn, tebygid, cyn bod amser; pryd y cymmerwyd rhyw ronynau o'r goleuni yn gaeth gan y tywyllwch, o ba rai y gwnaed enaid dynol; a'r rhai hefyd a roddasant fodoliaeth i ryw luoedd aneirif o greaduriaid, ag oedd yn ol eu nattur eu hunain, ac a ddosparthwyd i'w gwahanol drigleoedd. Fod gan ddyn ddau enaid, un yn gnawdol a daearol, a'r llall yn ysbrydol a rhesymol; a bod yr enaid cnawdol a'r corph wedi eu creu gan y tywyllwch, allan o'r defnyddiau garwaf, a'r enaid ysbrydol wedi ei greu o ranau o'r goleuni. I Dduw greu y byd gweledig allan o'r defnyddiau mwyaf garw a llygredig, yn breswylfa amserol i ddynion; fel y byddai yn mhen ychydig i'r eneidiau ysbrydol, oedd ranau goleuni pur, a waredid allan o'r cyrph, wedi cael o'r elfenau bywiol hyn eu puro allan o'r pentwr, y defnyddiau gwael â pha rai yr ymgymmysgasent. Fod Duw wedi anfon amryw gennadau at yr enaid, yn ei sefyllfa farwol, i'w alw a'i annog i ymddiosg ac ymryddhau oddi wrth y cnawd a'r defnyddiau llygredig gan ba rai yr oedd yn gaeth; ond gan nad oedd dim yn atteb y dyben, iddo yn y diwedd anfon ei Grist at y gorchwyl, i'r hwn y rhoddasai efe hanfodiad, yn nghyd â'r Ysbryd Glan o'i hanfod ei hun, i'r perwyl hwnw.

Crist oedd yn berson o'r mwyaf gogoneddus, yn llawn doethineb a haelfrydedd, yr hwn a elwid gan y Persiaid, i'w farn ef, yn Mithias, ag oedd â'i breswylfa yn yr haul. Ymddangosodd hwn mewn amser yn ein byd ni, mewn cnawd ymddangosiadol, er gwaredu yr eneidiau oedd o'r gronynau bywiol o oleuni, ag oedd yn gaeth gan y defnyddiau gwrthunaf. Eithr cynhyrfwyd yr luddewon gan dywysog y tywyllwch, yr hwn oedd eu brenin hwynt, i'w roddi i'r farwolaeth fwyaf poenus a gwaradwyddus a fedrent ddyfeisio; ond y cwbl yn ymddangosiadol. Gwedi i Grist gwblhau ei orchwylion amcanedig, dychwelodd i'w orsedd yn yr haul, lle y mae yn barhaus. Dewisodd, anfonodd, ac awdurdododd ei ddeuddeg apostol i daenu ei achos a sefydlu ei deyrnas yn y byd; a rhoddodd iddynt addewid o'r Dyddanydd, yr hwn oedd Manes o Persia.*

Yr eneidiau hyny a gredent i Iesu Grist, a ymostyngent i'w orchymynion, fel eu heglurheid gan y Dyddanydd, ac a ymwrthodent â thywysog y tywyllwch, duw yr luddewon, a burid yn raddol, wedi myned o honynt trwy ddwfr a thân, mewn dwy sefyllfa arall; y gyntaf yn y lleuad, a'r llall yn yr haul: yna dygid hwy i drigfanau pur y goleuni dysglaer, pan y byddai y cyrph wedi dychwelyd i'w pentwr dechreuol. Canys dirmygai y Manichæaid y dybiaeth am adgyfodiad y meirw; er eglured oedd yr athrawiaeth

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i, p. 297.

hon yn y gair, etto hwy a edrychent arni yn ffolineb—yr hyn a ddengys pa mor wael yr oeddynt hwy yn meddwl am yr ysgrythyrau. Ond yr eneidiau na dderbynient ei gynnygiadau graslawn, ac nad ymostyngent i'r drefn lanhaol, a gaent eu trosglwyddo i ryw anifeiliaid, i'w darostwng, ac i aros yno am ryw hir amser prawf drachefn; a'r rhai gwrthunaf, na wellheid trwy hyny, a symmudid i ryw le arall, lle y poenid hwy mewn gwahanol ffyrdd gan ryw fodau awyrol. Gwedi hyny, byddai i dân dorri allan o eigion y byd hwn, i'w llosgi yn ulw; pan y tröid tywysog a holl alluoedd y tywyllwch i'w trigfanau dechreuol, yno i'w poeni mewn trueni a gwaëau am byth; lle y rhoddid amddiffynfa anorchfygol arnynt, rhag eu dyfod allan, i wneuthur rhyfel mwy yn nhrigfanau goleuni.

Ni edrychent ar yr Hen Destament fel wedi dyfod oddi wrth Dduw, ond oddi wrth dywysog y tywyllwch, sef duw yr Iuddewon; am hyny yn wrthodedig ganddynt hwy: ac ni edrychent ar ddim o'r Testament Newydd o werth, ond cymmaint a dybient hwy oedd yn wasanaethgar i'w cyfundraith eu hunain. Ni fwyttaent gig anifeiliaid, yn ol athrawiaeth Pythagoras.

Y rheolau bywyd a roddodd efe i'w ganlynwyr nid oeddynt mor llymdost a gerwin â'r rhai a roddai amryw o'r pleidiau eraill i'w dysgyblion, er yr annogai efe hwynt i farweiddio y corph, ei iselhau a'i ddinystrio, trwy ymgadw oddi wrth lawer o gyssuron bywyd, a gwneuthur amryw weithredoedd marweiddiedig. Rhanai ei ddysgyblion i ddau ddosparth, y rhai a enwai y rhai perffaith, a'r rhai anmherffaith a gweiniaid. I'r rhai blaenaf, rhoddai reolau mwy llym a manwl, a gorchwylion mwy nefolaidd; tra y caniattäai i'r lleill fwy o faldodaeth cnawdol.

Yn nhrefniad ei gynnulleidfaoedd, gosodai un blaenor i fynu i gynnrychioli Iesu Grist; deuddeg o lywodraethwyr, yn cynnrychioli y deuddeg apostol; a deg a thriugain o esgobion, yn gosod allan ddeg dysgybl a thriugain ein Harglwydd. Byddai yno hefyd henuriaid a diaconiaid; y rhai hyn oll a ddewisid bob amser o blith y 'rhai perffaith.' Eu gwasanaeth crefyddol oedd syml; dechreuent ef trwy weddi, a darllen rhan o'r ysgrythyrau, neu yr efengyl a gyfansoddasai Manes; yna traddodid pregeth; ac arferai yr holl gynnulleidfa fod yn bresennol. Byddai yr ordinhad o fedydd trwy ddwfr, a Swpper yr Arglwydd trwy ymgyfranogi o'r ddwy elfen, yn cael eu harferyd ganddynt. Cadwent ddydd yr Arglwydd yn fwy fel dydd gwledd na dim arall; ac felly gwyliau y Pasg a'r Pentecost.

Gadawodd Manes amryw ysgrifau ar ei ol; rhai o'r cyfryw a broffesai ei fod wedi eu derbyn yn uniongyrchol oddi wrth Dduw, i'w defnyddio yn eu haddoliadau, yn lle y rhanau hyny o'r Testament Newydd, a ddywedai efe eu bod wedi eu llygru gan ddynion drwg.

Y pethau hyn, meddir, oeddynt y prif bethau egwyddorol yn nghyfundraith Manes. A phrin y gellir ystyried y philosophydd ffuantus hwn yn mhlith y twyllwyr a enwent eu hunain yn Gristionogion; eithr aeth yn mhellach bron nag y gellir ystyried ei gyfundraith yn un crefyddol, amgen rhyw gymmysgfa o wag ddychymmygion philosophyddol. Amryw egwyddorion o'r eiddo, a ymgeisiai eu huno â rhai o athrawiaethau yr efengyl, oeddynt wedi eu proffesu, flynyddau cyn ei fod ef, gan Plutarch a Pythagoras. Parhaodd yr enwad hwn i gael ei bleidio gan rai hyd y pymthegfed canrif; ac o herwydd y bydd gorfod arnom i gyfeirio atto yn ol hyn yn aml, y buom mor fanylaidd yn ei gylch yn bresennol.*

* Buck's Dict.

Adnewyddwyd y daliadau a'r cyfeiliornadau yn nghylch personau y Drindod, dan wahanol enwau, yn y canrif hwn. NEOTUS o Smyrna, a SABELIUS, henuriad o'r eglwys oedd yn Pentapolis, o fewn talaeth Cyrene, yn Affrica, a osodent allan mai un person oedd yn y Duwdod, ac nad yw y geiriau Tad, Mab, ac Ysbryd Glan, ond gwahanol enwau ar yr un hwnw. Neotus a ddywedai fod y person hwnw wedi cwbl ymuno â'r dyn Crist yn y groth, ei eni, a marw gydag ef. Yr oedd Sabelius yn gwahaniaethu oddi wrtho yn hyn; canys dywedai efe mai nid y person a ymunasai â'r dyn Crist, ond mai rhyw effeithiad neu rinwedd ddwyfol oddi wrth Dduw. Mynai Sabelius mai y cyffelyb rinwedd neu effeithiad deilliedig oddi wrth y person a olygai yn Dduw, oedd yr Ysbryd Glan hefyd. Mae y golygiadau hyn wedi parhau yn y byd hyd heddyw; ond nid yw yn amlwg i'w pleidwyr ar un amser ffurfio a sefydlu eu hunain yn gymdeithas wahanedig oddi wrth eraill.*

PAULICANIAID ydoedd blaid gyfeiliornus arall, yr hon nid oedd yn ei golygiadau yn mhell oddi wrth y rhai blaenorol. Sylfaenydd hon, yn y canrif yma—canys yr oedd rhai o'r blaen yn lled agos i'r un farn—oedd Paul o Samosata, esgob yr eglwys oedd yn Antiochia. Ymddengys ei fod yn ddyn balch a thrahaus, dros bob terfynau; ddim yn mhell o fod yn amddifad, gellir barnu, o synwyrau cyffredin, yn gystal â duwioldeb. Dywedir iddo gynnyddu mewn cyfoeth a mawredd bydol, nes oedd yn debyccach i dywysog nag i weinidog yr efengyl; a'i fod yn llawn mor helaeth â hyny mewn traws-lywodraeth, gormes, a gwag-ogoniant, fel yr attaliai neb rhai i ganu mawl i Dduw yn ei gynnulleidfa ef; a rhoddai ferched i ganu i'w foliant ei hun yr emynau a gyfansoddasai efe at hyny. Etto, meddai ar ddigon o gyfrwysdra i guddio ei egwyddorion am hir amser: ond wedi cael allan ei fod o'r egwyddorion ag ydoedd, bwriwyd ef allan o'r eglwys, trwy awdurdod cymmanfaol yn y flwyddyn 269.†

Gwedi hyn gosododd ei hun yn flaenor ar blaid wahanol; a gwnaeth gynnwrf mawr a drygau lawer yn yr eglwysi. Cymmaint oedd ei gyndynrwydd wedi ei fwrw allan o'r eglwys drwy awdurdod, fel na roddai i fynu ei swydd na'r lle addoliad, nes y caid awdurdod gan Aurelian yr amherawdwr i'w fwrw ymaith. Y cyhuddiadau a osodid i'w erbyn, heblaw ei fuchedd gyffredin, oedd, Ei fod yn proffesu nad oedd y Mab a'r Ysbryd Glan yn bersonau yn y Duwdod, ond rhinweddau, fel y mae bywyd a rheswm, neu ddoethineb, mewn dyn. Nad oedd Iesu Grist yn hanfodi cyn ei ymddwyn yn y groth; iddo gael ei genhedlu a'i eni fel dynion yn gyffredin: ac, ryw amser wedi hyn, i ddoethineb, neu reswm, oddi wrth Dduw ddisgyn arno, trwy ba un y galluogwyd ef i wneuthur gwyrthiau, a dysgu y bobloedd.

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i, p. 305.

† Paul a amddifadwyd o'i swydd, ac a esgymunwyd o gymundeb yr eglwys, gan gymmanfa o agos i bedwar ugain o esgobion, a ddaethai yn nghyd i Antiochia, yn y ddeuddegfed flwyddyn o deyrnasiad Galienus; a thrwy yr un awdurdod, heb ddewisiad y bobl, rhoddasant ei esgobaeth i Domnus—yr hyn a ddengys pa mor llwyr yr oedd y bobl wedi colli eu breintiau a'u hawdurdod eglwysig, a pha mor fawr yr oedd yr awdurdod a ymarddelwai y cymmanfaoedd wedi cynnyddu. Y weithred gymmanfaol hon a fu yn foddion i derfysgu yr eglwys yn Antiochia yn fawr, ac i amlhau a chryfhau plaid Paul, yr hwn a ommeddodd ufuddhau i benderfyniad y gymmanfa. Cefnogwyd ef, fel y cadwodd feddiant o feddiannau yr eglwys am bedair blynedd, trwy y wraig wrol, alluog, a nodedig honno, Zenobia, brenhines Palmyra, yn Syria; yr hon unwaith a fu agos i enuill holl amherodraeth y dwyrain i'w llaw ei hun. Eithr hi a orchfygwyd gan Aurelianus; yr hwn hefyd a drôdd rym ei awdurdod yn erbyn Paul, gan ei fwrw allan o'i holl feddiant eglwysig, trwy gyffröad esgobion yr Ital, pa rai a wnaethent achwyniad wrth yr amherawdwr yn ei erbyn ef. Heb sylwi dim ar gymmeriad Paul, onid oes yma ryw angbyssondeb a gwaeledd mawr yn y Cristionogion, yn eu gwaith yn ymgais â'r llywodraeth wladol, yr hon oedd Baganaidd, ac yn eu herlid yn feunyddiol, er sefydlu eu hachosion crefyddol?—*Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol.* 1, *p.* 333.

Mai ar gyfrif yr undeb rhwng doethineb a pherson Crist, a'r gweithredoedd a wnaethai efe trwy hyny, y gellid ei alw ef yn Dduw, er mewn ystyr anmhriodol, fel gwobr am ei waith.

Edrychir ar Paul fel sylfaenydd y blaid honno ag sydd yn myned dan yr enw Sosiniaid yn bresennol. Er mwyn cyssondeb, ni wnai fedyddio yn enw y Drindod: gan hyny, bedyddiwyd drachefn y rhai a fedyddiasai efe.* Nid rhaid i ni ddywedyd fod Sabelius a Paul yn cael eu hystyried yn gyfeiliornus, yn eu golygiadau am athrawiaeth y Drindod, a pherson yr Iachawdwr, gan yr holl eglwysi a ystyrid yn uniawn-gred. Y rhai a'u gwrthsafasant yn fwyaf cyhoeddus oeddynt Dionysius o Alexandria, a Fermilion o Cæsarea, yn Cappadocia. Nid yr un rhai oedd y Paulicaniaid hyn, a'r Paulicaniaid y cawn hanes am danynt tua'r chwechfed canrif.

Heblaw y gwahanol bleidiau a'r daliadau hyn, a godasant, cawn fod gwahanol enwadau eraill, pa rai nad oedd ond ychydig o wahaniaeth rhyngddynt a'r rhai a enwyd; ond sydd wedi myned i dir anghof er ys amryw o flynyddau; am hyny ni bydd i ni eu coffau. Eithr cymmerodd ymraniad le yn eglwys Rhufain, yr hwn o ran ei gyssylltiadau a'i barhad, sy'n deilwng o'n sylw. Buasai yn ddymunol pe byddai genym foddion i gyrhaedd gwybodaeth helaethach a chywirach am y blaid hon nag sydd i'w gael; ond nid oes modd i allu gwybod fawr am y pleidiau ymranedig oddi wrth yr eglwys, ond trwy gyfrwng eu gwrthwynebwyr, pa rai nid oedd yn hoffus ganddynt wneuthur cyfiawnder â daliadau na chymmeriad y rhai nad oedd o'r un golygiadau â hwy eu hunain.

Yr ymraniad sydd dan ein sylw a ddechreuwyd gan un NOVATIAN, henuriad yr eglwys oedd yn Rhufain yr amser yr oedd Ffabianus yn esgob yno. Dywedir ei fod yn ddyn anghyffredin o ddysgedig, treiddgar yn ei feddyliau a'i ddoniau; ac o ran ei fywyd yn hynod o ddichlynaidd, os nid yn arfer llymder a gerwindeb tu ag atto ei hun i eithafoedd, yr hyn oedd wendid cyffredinol dynion da y pryd hwnw. Nid yw yn gwbl hysbys i ni pa fodd y dechreuodd yr ymraniad hwn. Y mae yn sicr nad oedd Novatian yn hollol ymfoddloni i drefn pethau yn yr eglwys, a'r modd y dygid yn mlaen ddysgyblaeth yn amser Ffabianus, ac ar ol ei farwolaeth. Pan y dewiswyd Cornelius i'w le, fel yn ganlyniedydd iddo, gwrthsafodd Novatian hyny yn gyhoeddus. Y mae yn bur debyg fod pob un o'r ddau wr uchod, er eu bod yn ddynion lled dda, yn llafurio mwy am boblogrwydd nac am adeiladu yr eglwys yn sylweddol, trwy fanyldra athrawiaeth a dysgyblaeth; ac yn hoffi gweled amldra a lluosogrwydd eu canlynwyr, a hardd-deg ymddangosiadau allanol eu cynnulleidfa, yn fwy na gweled cyssondeb a symlder duwiol yn mywydau aelodau yr eglwys; yr hyn a barai dramgwydd parhaus i'r dichlyn Novatian, yn enwedig wrth weled y lluoedd a heidiai i mewn i'r eglwys pan oedd pethau yn dawel, ond yn wyneb erledigaeth yn cilio ymaith, ac yn gwadu eu crefydd; ond wedi yr elai y dymhestl drosodd drachefn, yn dychwelyd yn ol i'r eglwys. Derbynid y cyfryw, yn marn Novatian a'i bleidwyr, yn rhy rwydd gan y gweinidogion i'r gynnulleidfa, ac i gymundeb y saint.† Ni osodid dim yn ei erbyn ef, o ran cywirdeb ei olygiadau ac ysgrythyroldeb ei weinidogaeth, ond o blegid ei fod yn ymderfysgu ac yn aflonyddu yn nghylch hyn yma.

Gwedi neillduo Cornelius i fod yn esgob yn yr eglwys oedd yn Rhufain,

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. pp. 306, 307. † Ibid, vol. i. pp. 308, 309.

trwy gynghor a chydweithrediad Cyprian, esgob Carthage, pa rai, mewn llawn rhwysgfawredd, yn eu meddyliau uchel am eu hawdurdod esgobaethol, ac yn mhoethder eu teimladau, a alwasant gymmanfa yn Rhufain, yn mha un y dedfrydwyd ac yr esgymunwyd Novatian a'i gyfeillion allan o gymundeb yr eglwysi yn y flwyddyn 251. Nid oes amheuaeth nad oedd efe yn rhy lym ei olygiadau mewn perthynas i adferiad y rhai hyny a ymollyngent i arogldarthu ar allorau yr eilunod, yn wyneb erledigaeth; ac mae yn debyg ei fod ef yn golygu, fel Tertulian, fod bedydd yn hanfodol i symmud ymaith bechod, ac nad oedd modd i'w faddeu ond trwy fedydd, yn enwedig y fath bechod â gwrthgiliad. Felly, o ganlyniad, barnodd na ddylasent gael eu derbyn i'r eglwys, heb i'r ddefod hon gael ei chyflawni drachefn. Newidiodd ei feddwl, neu daeth i'w eglurhau yn well, gan ddywedyd nad oedd efe yn ammau am eu cyflwr tragywyddol, ond iddynt edifarhau; ond dadleuai nad oedd gan yr eglwys ar y ddaear awdurdod i faddeu iddynt a'u rhyddhau. Adeiladai lawer o'i farn ar y geiriau hyny yn Heb. vi. 4, 5, 6. Novatius, henuriad o eglwys Carthage, oedd brif gynnorthwywr iddo ef yn yr amgylchiad yma, yr hwn oedd yn hollol wahanol iddo yn ei olygiadau mewn perthynas i adferiad y rhai gwrthgiliedig; etto yr oeddynt yn cynnorthwyo eu gilydd yn eu hymadawiad â'r eglwys yn gyffredinol, ac yn sefydliad eu gwahanol gymdeithasau, yn ol eu hegwyddorion eu hunain.

Gwedi bwrw Novatian allan o eglwys Rhufain, efe a ffurfiodd eglwys wahanol iddi hi yno, ar ba un y neillduwyd ef yn fugail: ac yn fuan yr ydym yn clywed fod eglwysi o'r fath wedi eu sefydlu yn ngwahanol barthau yr amherodraeth. Adnabyddid hwy yn mhen amser wrth yr enw *Cathariaid* neu *Puritaniaid*, yr hyn a arwydda purdeb. Buont yn flodeuog iawn am oddeutu dau can mlynedd; ond wedi hyny, trwy gael eu herlid gan eu gwrthwynebwyr, gorfu arnynt encilio i ddirgel fanau, ac addoli Duw mewn lleoedd cuddiedig. Eithr meddylir eu bod i'w cael ac yn hawdd i'w holrhain mewn olyniad, o dan wahanol enwau, *hyd amser y diwygiad.**

Cawn osod i lawr dystiolaeth un, yr hwn ni ellir meddwl ei fod yn bleidgar i Novatian, am yr ymraniad hwn. Gwedi iddo sylwi ar gymmeriad personol blaenoriaid yr ymneillduad, efe a sylwa ar y camgyhuddiadau a osodid yn eu herbyn hwy a'u canlynwyr, gan eu gwrthwynebwyr. "Dywedasant," medd ef, "mai y gwrthbabydd cyntaf oedd Novatian, pan, mewn gwirionedd, nad oedd un pabydd mewn bod y pryd hwnw, yn ol yr ystyr a roddir i'r gair yn ein plith ni yn bresennol. Galwant ef hefyd yn flaen-awdwr i'r heresi Buritanaidd; ac etto mae yn eglur iddynt fod Tertulian wedi ymadael â'r eglwys er's agos i hanner can mlynedd o flaen Novatian, o achos yr un pethau; ac i Privatus, yr hwn oedd yn henafgwr anrhydeddus yn Rhufain tua'r un amser, wedi iddo wrthdystio yn erbyn y cyfnewidiadau ag oedd yn cymmeryd lle yn yr eglwysi, ond yn gwbl ddiles, ffurfio cymdeithasau ymneillduedig.† Cyhuddant Novatian o fod yn awdwr i aneirif gymdeithasau Puritanaidd, trwy yr holl amherodraeth; ac etto ni allant ddywedyd iddo wneuthur hyn trwy un moddion, ond fel yr oedd ei siampl a'i weinidogaeth bur yn effeithio. Y gwirionedd yw, fod gormes yr esgobion wedi myned

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 314.

† Privatus oedd esgob Lumless yn Affrica, yr hwn, o herwydd ei wrthsafiad i ddull yr amseroedd a gormes Cyprian, a esgymunwyd o'i eglwys gan gymmanfa. Gwedi hyny aeth i Rufain, ac a sefydloedd gynnulleidfa ymneillduedig.—*Collier's Dict.*

yn annyoddefol, a'r bobl yn mhob lle yn cael yr un achos i gwyno, ac yn griddfan am waredigaeth: a pban y safodd un i fynu dros rinwedd a rhyddid, cofleidiwyd yr adeg ddymunol; y bobl a welsant briodoldeb y feddyginiaeth, ac a ddefnyddiasant y cyffelyb yn mhob lle er eu gwaredigaeth. Beïir Novatian o herwydd llymdra a gerwindeb y ddysgyblaeth a arferai; pan nad oedd hi, mewn gwirionedd, yn cynnwys dim ond attaliadau; y ddysgyblaeth gyntefig yn hollol, a gweithrediad o hyny, a wnai bob attaliadau gwladol yn gwbl afreidiol. Dywedai rhai mai dysgyblaeth farbaraidd oedd bwrw allan o'r eglwys am syrthiad i eilunaddoliaeth, neu ryw bechod arall, heb ail-dderbyniad i gymundeb Cristionogaidd. Eraill, y pryd hwnw, wrth weled y drygau o ddysgyblaeth rydd, a drefnasant fod i'r gwrthgilwyr barhau yn sefyllfa y rhai edifeiriol, a dwyn eu penyd am bum, deg, neu bymtheg mlynedd, ond Novatian a ddywedai wrthynt—'Gallwch gael eich derbyn i'n plith yn ddiattreg trwy fedydd, neu trwy ail-fedydd, os bedyddiwyd chwi gan ryw un o'r eglwys gyffredinol o'r blaen; eithr os syrthiwch drachefn i eilunaddoliaeth, yr ydym yn rhwym o'ch bwrw ymaith drachefn; ac ni allwn, ar un cyfrif, eich ail-dderbyn. Na atto Duw i ni eich niweidio yn eich cymmeriad, eich cyfoeth, eich personau; na'ch barnu yn eich achos, fel y mae yn sefyll rhyngoch chwi a Duw; na chwaith eich sefyllfa dragywyddol; a gwirionedd eich edifeirwch: canys beth sydd a wnelom ni â'r pethau hyn? Ond ni allwn eich ail-dderbyn i gymundeb yr eglwys heb i ni dynnu ymaith yr attaliad amddiffynol diweddaf sydd genym er cynnal i fynu y burdeb frawdoliaeth grefyddol.' Pa un a oedd y dull hwn o ymresymu, a arferai Novatian, yn gywir ai peidio; tebygir fod ganddo hawl ar ein hynawsedd a'n tiriondeb, wrth ystyried yr ymddengys ei fod yn dra chydwybodol yn yr hyn oedd yn wneud, ac mai purdeb yr eglwysi oedd mewn golwg ganddo. Dylem hefyd ymgadw rhag bod mor wael â chymmeryd ein dychrynu wrth yr hyn a ddywed Cyprian am dano, pan y geilw efe ef yn fab diafol, gelyn trugaredd, yn athraw balchder, &c.*"

"Gosodir hefyd," medd un arall, "yn fai yn erbyn Novatian, ei fod ef, a rhai o'i ganlynwyr, yn gwadu cyfreithlondeb ail-briodas." Os oeddynt, yr oedd hyn yn fai gwyriadol yn eu barn, fel yr oedd yn eiddo Tertulian, a llawer o enwogion yr oes honno. Beïir arno hefyd am fod ei ganlynwyr yn cymmeryd yr enw *Cathari* arnynt eu hunain. Mae yn wirionedd mai hwy a ddygodd yr enw hwn gyntaf; ond y mae yn eglur mai eu gwrthwynebwyr a'i rhoddes ef arnynt gydag amcan i'w gwawdio. A beïir hwy yn fawr am na thalent barch dyladwy i'r merthyron, ac na chaniattaent fod dim rhinwedd yn eu gweddillion, yr hyn a ddengys ar unwaith eu synwyroldeb.†" Un arall a ddywed—"Y mae yn gyfiawn i gyhoeddi barn ddiarddeliadol yn erbyn Novatian a Novatius, a'u gosod allan fel *hereticiaid*, nid cymmaint am eu bod yn attal cymundeb eglwysig i wrthgilwyr—*canys yr oedd llawer yn yr eglwys gyffredinol yn rhedeg yn mhell y ffordd honno*—ond am eu bod yn gwadu hawl yr eglwysi, *trwy eu hesgobion*, i faddeu pechodau."‡

Nid oes un amheuaeth nad yw yr ymraniad uchod, fel pob ymraniad o'r fath, yn cael ei gamddarlunio, a'i bleidwyr yn cael eu camgyhuddo. O'r ochr arall, ni ellir ammau nad oedd llawer o annhrefn a chamgymmeriadau yn

* Robinson's Eccl. Researches, p. 127. † Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 216.
‡ Buck's Dict.

yr ymranwyr y pryd hwnw, fel y mae wedi bod mewn llawer yn y cyfryw sefyllfa wedi hyny.

Haneswyr eglwysig, gan mwyaf oll, a godant waedd uchel yn erbyn yr ymraniad a'r rhwygiad a wnaed y pryd hwnw yn undeb yr eglwys, a hyny yn unig yn nghylch dysgyblaeth. Ond ni ddylem fod yn rhy gyflym i gan-lyn y swn, ac i uno â hwy yn y gwynfan; eithr i'r gwrthwyneb. Fe allai y gwelwn wrth ystyried yn fanylach fod achos cyfiawn i ammau ai nid oedd y fath ymraniad yn yr eglwys y pryd hwnw, a llawer gwaith wedi hyny, yn llawer mwy o fendith i ddynolryw, ac o ganlyniadau dedwyddach, na phe ni buasai y cyfryw yn cymmeryd lle. Canys wrth ystyried fod y llywodraeth eglwysig yn gor-dyfu yn nwylaw yr esgobion, a than effeithiad y cymman-faoedd i'r ormes waethaf y pryd hwnw, onid oedd tuedd mawr yn y cyfryw ymraniad i wrthsefyll ac i attal cyflym rediad y fath ddrygau, ac i roddi noddfa i weiniaid i ddiangc allan o afael y fath ormes anoddefol? Pa mor ddychrynllyd ac arswydol a fyddai y gallu a'r awdurdod a roddai undeb cyffredinol fel hyn, yn nwylaw dynion llygredig a marwol, pe na byddai toriadau ac ymraniadau yn bod? Onid yw y cyfryw ymraniadau yn cyn-nal ac yn meithrin ysbryd rhyddid i chwilio am y gwirionedd, ac nid i gym-meryd pethau yn ganiattaol ar farn y cyffredin—yn enwedig yn dangos rhyddid dyn i farnu drosto ei hun yn ei achosion crefyddol? A diammau genym fod gwreichion o'r rhyddid hwn wedi cael eu cynnal yn y byd, trwy y Novatiaid a'u holynwyr, o'r pryd hwnw hyd heddyw, fel y cawn sylwi etto. Nid ellir ammau hefyd na bu llawer o weinidogion enwog a duwiol, a fu yn mhlith y Novatiaid, yn gynhyrfiad i lawer o weinidogion yr eglwys a ystyrir yn un gyffredinol, nes eu llenwi âg eiddigedd i wneuthur mwy o ddaioni nas gwnaethent, oni buasai hyny.

Ond fod teuluoedd yn ymranu, a chyfeillion yn ymrwygo, yn wyneb y fath amgylchiadau, nes peri anghariad ac amryson, sydd yn ddiau yn achos o alar. Eithr dylem ystyried, nad yw y pethau hyn yn hanfodol i ymran-iad, ond i'n teimladau ni; tarddant yn hollol oddi wrth ysbryd penboethni annyoddefol mewn dynion, na chymmerant yn garedig gan, ac na oddefant mewn amynedd i, neb eraill farnu na gweithredu yn groes iddynt hwy eu hunain. Ond dywedyd fod ymraniadau yn achos o waradwydd i Gristion-ogaeth, sydd wir; eithr y mae cyn wired â hyny fod gormes-lywodraeth eglwysig, yn nwylaw blaenoriaid gwladol ac eglwysig, wedi bod filoedd o weithiau yn fwy achos o waradwydd.

Yr unig ysgrifau o eiddo Novatian, sydd i'w cael yn bresennol, yw ei lyfr ar athrawiaeth y Drindod, a'i lyfr ar fwydydd yr Iuddewon, pa rai, dywedir, sydd wedi eu hysgrifenu yn dda, ac heb fod mewn un ystyr yn waith gwael a dirmygus. Dyoddefodd Novatian farwolaeth trwy ferthyrdod tu a'r un amser â Cyprian.*

* Gen. Biographical Dict.

DIWEDD HANES CANRIF III.

PENNOD XIX.

CANRIF IV.

Hanes am deyrnasiad Dioclesian a Maximianus—y Cyfnewidiad mawr a gymmerodd le yn eu teyrnasiad, a'u gwaith yn rhoddi i fynu yr amherodraeth—eu gwaith yn dwyn yn mlaen yr Erledigaeth fwyaf a fu er y dechreuad yn erbyn Cristionogaeth—Galerius y Cæsar yn dyfod i'r orsedd, ei ymddygiad erledigaethus, a'i farwolaeth druenus—am Constantius y Cæsar yn dyfod i'r orsedd, a'i ymddygiad tirion tu ag at y Cristionogion—am ei farwolaeth, a dyfodiad Cystenyn Fawr atto i Gaerefrog—dyfodiad Cystenyn i'r amherodraeth ar ol ei dad, a'i fuddugoliaeth ar Maxentius gerllaw Rhufain.

Yn nechreuad y canrif hwn, llywodraethid amherodraeth Rhufain gan bedwar o amherawdwyr dewisedig. Dau, sef Dioclesian a Maximinianus, a ystyrid yn mlaenaf yn y llywodraeth, ac a enwid yn Augustiaid; a'r ddau eraill, sef, Constantius a Galerius Maximianus, a edrychid arnynt yn rhyw beth islaw i'r lleill, ac a enwid yn Cæsariaid. Amgylchiadau y deyrnas oedd hynod o flin; llawer o drawsfeddiannwyr a godent eu bannerau mewn gwahanol barthau o'r amherodraeth. Yn Gaul ac Affrica, yr oedd y bobloedd a'r byddinoedd wedi cyd-ymderfysgu, a chwedi meddiannu y trysorfäau cyffredin, a dinystrio y rhai oedd yn aros yn ffyddlon i'r llywodraeth. Achileus, maeslywydd y byddinoedd yn yr Aipht, oedd wedi cyhoeddi ei hun yn amherawdwr; a Carausius yn Mhrydain oedd wedi gwneuthur yr un modd, yn erbyn pa un danfonwyd Constantius, â byddin luosog, wedi ei wneuthur yn Cæsar, a rhoddwyd merch Maximianus iddo yn wraig.* Hwn, wedi ei ddyfod, a gweled fod y traws-feddiannydd wedi cyfnerthu ei hun mor gadarn, ac mor boblogaidd yn ngolwg y trigolion, a orfu ei adael i dawel feddiannu ei orsedd am saith mlynedd, hyd oni laddwyd ef yn fradychus gan Alectus, ei gydymaith a'i gyfaill proffesedig. Heblaw hyn, ymosodid yn barhaus ar yr amherodraeth gan luoedd dirif o'r Scythiaid, y Gothiaid, y Samartiaid, yr Alaniaid, y Carsiiaid, a'r Quandiaid, a ddeuent yn heidiau i lawr o'r parthau gogleddol am ei thraws, gan ladd ac yspeilio yn ddiarbed ffordd y cerddent; pa rai oeddynt yn hollol anorchfygol, o herwydd eu hystyfnigrwydd anwareiddiedig, a'u tymherau creulonaidd, yn gystal â'r lleoedd annhreiddiol o ba rai y deillent. Pan yr ymosodid arnynt gan y byddinoedd trefnus, encilient yn ol yn llwythog o bob yspail gwerthfawr, i'w mynyddoedd amddiffynol, lle byddai noethlymder eu bröydd anial, ac oerder yr hin, yr hon oedd annyoddefol i bawb ond hwy eu hunain, yn amddiffynfa anoresgynol iddynt. Gwedi yr ymlidid hwy yno, ni ymlonyddent yn hwy na byddai y byddinoedd ymlidiedig yn troi eu cefnau, yna byddent fel bwystfilod gwylltion, wedi llyfu eu clwyfau, yn barod i ddyfod allan yn lluoedd

* Goldsmith's Hist. of Rome, p. 511.

aneirif i ymweled drachefn â breision fröydd yr amherodraeth; felly nid oedd pob brwydr a gollasant ond yn eu hadnerthu.

Y Persiaid hwythau, o dan lywyddiaeth eu brenin Narseus, a gyhoeddasant ryfel yn erbyn y Rhufeiniaid tua'r pryd hwnw, yr hwn a ddygwyd yn mlaen am hir amser, ac yn eithaf gwaedlyd o du y Rhufeiniaid, dan lywyddiaeth Galerius—a gyfenwid, meddant, Armentarius, am ei fod yn fab i fugail gwartheg, o Dacia, ond yn awr wedi ei godi i fod yn Cæsar, ac yn briod â merch Dioclesian—ac a derfynwyd mewn cyflawn fuddugoliaeth ar y Persiaid.* Gallesid meddwl wrth y pethau, hyn fod ganddynt ddigon o waith tywallt gwaed, heb fyned i lofruddio eu deiliaid ffyddlonaf, fel y gwnaethant. Dioclesian, o herwydd ei henaint, fel dyn, ac fel amherawdwr, a ystyrid ganddynt yn mlaenaf yn mhob gorchwyl o bwys, fel na wnaid dim gan y lleill heb ei gyngor ef. Yr oedd yn ddyn o ddechreuad isel, a chwedi ei godi i fynu yn hollol trwy ei deilyngdod milwraidd; ac am hir amser nid oedd ei ymddygiadau fel amherawdwr i'w beio, canys ei ddeiliaid, yn y cyffredin, a fwynhaent lonyddwch a llwyddiant dan ei weinidogaeth. Er ei fod yn ddyn anmhlygedig iawn am yr hyn a gymmerai yn ei feddwl, ac yn gwbl ymroddedig i ddefodau coelgrefyddol yr oesoedd, ac i wasanaeth amryw dduwiau, etto, gellir meddwl nad oedd efe yn hoffi dinystrio a thywallt gwaed ei ddeiliaid ag oedd o wahanol farn grefyddol iddo, o ran ei hun, am hir amser; canys, am bedair blynedd ar bymtheg o'i deyrnasiad, yr oedd sefyllfa'r Cristionogion yn ddymunol iawn, o ran dim a wnaed tu ag attynt gan y llywodraeth. Amryw o honynt a ddyrchefid i wasanaethu mewn amryw sefyllfaoedd yn y fyddin, yn y llys amherodrol, yn nghylch personau yr amherawdwyr, yn nhrysorfäau y deyrnas, yn llywyddiaeth y dinasoedd a'r taleithiau; yn farnwyr, ac yn brif swyddogion mewn sefyllfaoedd o barch ac ymddiried, yn ol eu teilyngdod, yn ddiwahaniaeth i eraill. Yr amherodres Prisca, a'i merch Valeria, oeddynt, meddylir, yn rhyw fath o Gristionogesau, o leiaf yr oeddynt yn arfer gwrando yr efengyl, a hyny yn wybodus i'r amherawdwr.

Mawr a helaeth ydoedd llwyddiant y Cristionogion, mewn rhifedi a phoblogrwydd, tua'r amser sydd dan sylw, fel yr oedd, yn mhob dinas trwy ehang amherodraeth, yr hen adeiladau yn myned yn rhy fychain i gynnwys y cynnulleidfaoedd a ymdyrrai i wrando: o herwydd hyny, tai mawrion, harddwych, a drudfawr a adeiladwyd i addoli Duw, gan y ffyddloniaid, braidd, yn mhob lle.† Eu gweinidogion a berchid yn fawr, nid yn unig gan y bobl gyffredin, ond gan lywyddion y taleithiau, a phrif swyddogion y deyrnas.‡ Hoff fuasai genym allu dywedyd, ar dystiolaeth gywir, eu bod yn cynnyddu mewn crefydd yn eu heneidiau, ac mewn gwir rinweddau moesol; ond yn hollol i'r gwrthwyneb yr oeddynt yn bod. Un peth a ddygai fawr sylw y cyffredin, y dyddiau hyny, ar Gristionogaeth, ac a luosogai ei phroselytiaid rhagor i Baganiaeth, oedd, yr hyawdledd a'r grymmusder ymadroddol a gynnwysai areithiau cyhoeddus ei gweinidogion, yr hyn nid oedd yr offeiriaid Paganaidd wedi gwneuthur un arferiad o hono, mewn un modd hyd yma; tra yr oedd areithio, neu bregethu, yn nhai addoliad y Cristionogion, mewn fath berffeithrwydd hyawdledd, ac â'r fath ymadroddion ffrydiol, fel y gallesid meddwl fod dawn araethyddol y llysoedd, y

* Goldsmith's Hist. of Rome.

† Gibbon's Decline and Fall of the Roman Empire, vol. i. p. 334. ‡ Ibid. vol. i. p. 335.

dadleudai, a'r chwareudai, wedi ei drosglwyddo yno. Eithr grymus a duwiol effeithiau crefydd oeddynt wedi eu colli, i raddau mawr, o'r eglwysi. Fel y dywed un, "Yr oedd crefydd, o ran ei phurdeb a'i grymus lywodraeth, yn dadfeilio yn gyflym, er y canrif o'r blaen: ei chyssylltiad â philosophyddiaeth, oedd un o'r achosion penaf o hyny. Yn bresennol, cwblhawyd ei llygredigaeth, trwy hir lwyddiant a thawelwch, a helaeth fwyniant o anrhydedd dynol, a chyfoeth bydol."*

Egwyddorion cyntefig yr eglwysi a newidiwyd, eu llywodraeth a symmudwyd ymaith i ddwylaw y rhai ni pherthynai iddynt, ac na ofalai am danynt; eu dysgyblaeth a laeswyd yn fawr; eu hesgobion oeddynt yn llawn ymgais am dderchafiad, ac ymgyrhaeddent at yr ormes greulonaf; a'r bobl hwythau yn llawn terfysg a gwrthryfel, yn eu gwrthsefyll; fel, gan faint eu cyfyngder a'u gorthrymder, nad oedd heddwch na thawelwch o fewn i nemawr o'u cynnulleidfaoedd. Twyll, cenfigen, llid, uchel-gais am fawredd dynol, a chybydd-dra, oedd yn gorseddu ar yr holl eglwysi—arwyddion sicr o fod barn wrth y drws. Yr henuriaid oeddynt yn llawn ymgais am le a sefyllfa yr esgobion, yr hyn oedd bob dydd yn dyfod yn wrthddrych mwy temtiedig iddynt, ac a'u disodlent hyd y gallent. A'r esgobion hwythau nid ymrysonent â'u pobl yn unig, eithr â'u gilydd; dyrchafiad a mawredd eglwysig a ymddangosai yn brif wrthddrych eu cais; a phwy a fyddai yn benaeth, oedd yr ymofyniad a'r ymdrech blaenaf trwy bob talaeth; fel yr oedd eu holl ymddygiadau yn dangos yn eglur eu bod yn amcanu sefydlu llywodraeth ddynol, trwy rym, yn yr holl eglwysi. Y ffydd fywiol, a'r tymherau cariadlawn, sanctaidd, ac efengylaidd, ag oedd yn eu gwahaniaethu mor eglur oddi wrth y byd, yn y dyddiau gynt, nid oedd mwyach i'w gweled yn neb o'u hymarweddiad, ond mewn testunau dadleuaeth rhyngddynt â'u gilydd yn unig.

Dyma oedd sefyllfa pethau yn yr eglwysi pan ddechreuodd erledigaeth Dioclesian gael ei dwyn yn mlaen, yn ol y darluniad a rydd Eusebius o bethau, yr hwn oedd yn llygad-dyst o hyny, yn mha un ni allasai fod unrhyw gymhelliad i fod yn rhagfarnllyd yn erbyn y Cristionogion; canys yr oedd yn y weinidogaeth ei hun, ac uwchlaw pymtheg mlwydd ar hugain oed pan ddechreuodd yr erledigaeth.† "Llaw ddwysaidd Duw, mewn barn gyfiawn," medd ef, "a ddechreuodd ddyfod arnom yn dyner iawn, bob yn ychydig ac yn ychydig, fel y mae ei ymweliadau yn arferol o fod; felly yr oedd yr erledigaeth a godwyd yn ein herbyn, yr hon a gymmerodd le yn eu dechreuad ar rai o'r Cristionogion oedd yn y fyddin. Eithr yr oeddem ni yn hollol ddideimlad yn wyneb dangosiad ei law, ni chymmerasom yn y mesur lleiaf rybudd, ac ni ddangosasom y tueddiad lleiaf i ddychwelyd at Dduw; ond aethom yn mlaen i dyrru pechod ar bechod, gan dybied, fel yr Epicuriaid diofal, nad oedd Duw yn sylwi arnom, nac i ymweled â ni am ein pechodau. Ein bugeiliaid ffugiol oeddynt, gan mwyaf oll, wedi rhoddi heibio reolau duwioldeb; ac ymarferent yn eu plith eu hunain â'r hyn oll a ddygai amrysonau, ymraniadau, a rhyfeloedd."‡

Y mawr a'r hir lwyddiant ymddangosiadol a fu ar Gristionogaeth, a gyffrôdd Baganiaeth yn erchyll, nes dwyn pleidwyr yr amryw dduwiau i benderfyniad o wneuthur un ymegniad gorchestol yn rhagor, er attal rhediad

* Milner's Church Hist. vol. i, p. 530. † Milner's Church Hist. vol. i. p. 531.
‡ Eusebius's Eccl. Hist. lib. 8, cap. 1.

llwyddiannus eu gwrth-grefydd, ag oedd yn cyflym ddwyn y poblogrwydd. Hwy a gynhyrfwyd i'r teimlad bywioccaf, wrth weled fod y blaid oedd newydd ddechreu, a braidd wedi dyfod allan o anweledigrwydd, yn ymhoni i'r hawl o gyhoeddi eu defodau hwy a'u crefydd yn wagedd, yr hon yr oedd hir arferiad, a'u dysgeidiaeth, wedi eu dwyn i'w pharchu fel y peth sanctteiddiaf, a'u dedfrydu hwythau fel ffolion, a'u hynafiaid i drueni tragywyddol. A oedd modd i'w goddef a bod yn ddistaw? Nac oedd. Yr oedd yn rhaid ymysgwyd ac ymgyfodi o'r syrthni a'r difatterwch gyda pha rai yr arferent fod yn ngafael â'u defodau crefyddol, ac uno eu holl luoedd. Y galluoedd gwyrthiol a ymhonai yr eglwys ei bod yn feddiannol arnynt, a'u bywioccaodd, ac a'u llanwodd â dychryn, fel y parasant iddynt arfer pob ymdrech i gydymgystadlu â hwynt. Canys yn yr ymdrechiad hwn, ymfyddinodd ac amddiffynodd pob ochr ei hunan, hyd y gallai, o'r tu cefn i alluoedd gwyrthiol.

Er gwneuthur i fynu y cestyll hyn, i ymddangos mor gadarn ag y gellid, ni bu un o'r ddwy blaid yn ol o wneuthur yr oll a allai, er ymddangos yn rhyfeddol ac yn uwch-naturiol, trwy swynyddiaeth, dewiniaeth, ffug-hudoliaeth, a phob twyll, a'u gosod yn erbyn eu gilydd.* Pan welodd pleidwyr Paganiaeth nad oeddynt yn llwyddo ac yn ennill y dydd trwy y pethau hyn, hwy a ymwnaethant â'r hen beiriant, a wnaethai ddifrod ar y maes lawer gwaith cyn hyny. Hwy a ymroddasant yn ddiflin i ddwyn yr amherawdwr i godi erledigaeth; ac yn hyn llwyddasant, wedi hir erfyn.

Dywedir fod Dioclesian, rywbryd tua'r flwyddyn gyntaf o'r canrif hwn, yn ceisio dewinio dewiniaeth, er cael gwybodaeth am rywbeth gan un o'i *oraclau*; a phan na allai gael yr hyn a ddymunai, efe a feddyliodd mai un o'i weision, ag oedd bresennol, yr hwn oedd Gristion, ac a groesai ei hun âg arwydd y groes, oedd yn ei rwystro. Yna gorchymynodd i bob un yn ei deulu ef, ac yn y fyddin, arogldarthu i ddiwiau yr amherodraeth, yn ddiattreg, tan y boen o golli ei le, a dyoddef ei anfoddlonrwydd, os ni wnai: llawer a wnaethant, eraill a drowyd allan o'i wasanaeth. Yn y cyfamser, pan, ar un diwrnod, yr oedd gwledd eilunaddolgar yn cael ei chynnal, un Marcelus, canwriad o'r fyddin, a daflodd ymaith ei wisg, ei gleddyf, a'i arwyddion milwraidd, gan ddywedyd yn uchel, na ufuddhäai efe i neb ond Iesu Grist, y Brenin tragywyddol; nad ymladdai efe byth mwyach dan fanerau duwiau o goed a meini; a'i fod yn ymadael yn hollol â gwasanaeth ei arglwyddi eilunaddolgar; gan yr achosai hyny iddo fyned i eilunaddoliad. Pan allodd y milwyr ddyfod attynt eu hunain gan synedigaeth, hwy a'i daliasant ef, ac a'i dygasant ger bron y swyddogion, yn Tingi, yn Mauritania, lle yr oedd y fyddin honno yn gorphwys y pryd hwnw. Profwyd ef yn euog o ymddeol o'i swydd, ar ei gyffes ei hun, a dedfrydwyd ef i farwolaeth trwy ddibendod. Dyn ieuangc arall a ommeddodd weini yn y fyddin, oddi ar yr un egwyddorion, tua'r un amser.

Dyma'r modd y dechreuodd yr erledigaeth. Ond nid ydoedd yn gyhoedd nac yn gyffredinol etto; a phrin yr ystyrid hyn yn erledigaeth o achos crefydd. Eithr y cyffelyb bethau a fu yn foddion i chwerwi ysbrydoedd yr amherawdwyr, pa rai a annogid yn barhaus i erlid, gan elynion Cristionogaeth.†

* Gibbon's History of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. i. pp. 335, 336.

† Ibid. p. 337.

Dioclesian hyd yn hyn, oddi ar ryw olygiadau gwladol, oedd dros ryddid—Constantinus yn enwedig oedd felly, o wir ddyngarwch, a chariad at ddaioni—a gwnaeth a allai i'w gynnal. Eithr eu cymdeithion a'u cyd-amherawdwyr oeddynt yn llawn llid a thymherau anghymmodlawn tu ag at grefydd ac enw Cristionogaeth. Pan fethodd yr offeiriaid Paganaidd lwyddo gyda Dioclesian, i gael ganddo roddi allan gyfraith erledigaethus, ymegniasant gyda Galerius, un o'r Cæsariaid—yr hwn oedd yn briod â merch yr amherawdwr, yn hollol anwybodus agos o bob peth, ond trin y cleddyf; llawn o'r tymherau mwyaf ffyrnigwyllt a chreulawn—y pryd hwn, newydd gael buddugoliaeth ar y Persiaid. Offeryn cymmwysach nis gallasent gael, er cyflawni eu hamcanion.*

Gwedi i hwn gael ei gynhyrfu gan resymau twyllodrus a gweniaith ddichellgar yr offeiriaid Paganaidd, ac annogaethau cryfion oddi wrth ei fam ofergoelus, a'i dymherau adgas ei hun, efe a aeth ac a erfyniodd yn fynych ac yn daer ar Dioclesian am gael rhoddi cyfraith yn erbyn y Cristionogion; ac, yn y diwedd, efe a lwyddodd. Ymddengys fod yr amherawdwr yn arfer myned i aros dros ryw gymmaint o amser, ar rai prydiau, i Nicomedia, prif ddinas Bithynia—y lle o ba un y danfonodd Pliny ei lythyr rhagorol at Trajan gynt. Yr oedd hon yn ddinas fawr, hardd, ac aml iawn ei thrigolion. Cymherir hi weithiau i Rufain, Antiochia, ac Alexandria yn yr Aipht. Eithr yr hyn a'i henwogodd fwyaf oedd, fod ynddi lawer o Gristionogion er dyddiau yr apostolion.† Pan yr oedd Dioclesian yn aros yno, yn ngauaf 302 o'r cyfrifiad cyffredin, daeth Galerius ei fab-yn-nghyfraith i ymweled âg ef, pryd y llwyddodd i gael allan gyfraith, trwy awdurdod amherodrol, i dynnu i lawr holl addoldai y Cristionogion; i losgi eu holl lyfrau; i'w hamddifadu o bob swydd a sefyllfa o ymddiried dan y llywodraeth; a'u holl eiddo eglwysig i fod yn attafaeliedig; a gorchymynid iddynt addoli y duwiau a gydnabyddid gan y llywodraeth Rufeinaidd.‡ Cymmaint oedd y twyll a'r hocced a arferid, i gael y gyfraith hon, a'i chyffelyb, allan, fel yr haerid fod rhyw leisiau ac arwyddion yn cael eu gwneuthur yn nhemlau yr eilunod; pa rai a ddywedid eu bod yn amlygiad o ewyllys y duwiau; yn dangos eu hanfoddlonrwydd yn erbyn goddefiad o'u rhyddid i'r Cristionogion, ac yn annog rhoddiad y cyfreithiau yn eu herbyn mewn grym; amgen y disgynai eu dig ar yr amherodraeth.

Tranoeth, ar doriad y dydd, wedi i'r gyfraith uchod gael ei gwneuthur, swyddog y ddinas, yn nghyd â swyddogion perthynol i'r fyddin, ag oedd yn y ddinas, a aethant i'r addoldy hardd a phrydferth a berthynai i'r Cristionogion, a adeilasid mewn lle cyfleus, a mwyaf poblogaidd yn y ddinas. Gwedi iddynt dorri y drysau, a myned i mewn, hwy a'i chwiliasant drwodd, gan ddisgwyl cael yno ryw drysor gwerthfawr: eithr ni allent gael dim, ond y goreu o bob trysor ar y ddaear, sef cyfrolau o'r ysgrythyrau sanctaidd, pa rai a ddygasant allan ac a losgasant yn y tân. Canlynwyd hwy gan lu o weinidogion Dioclesian, y gwarchawdlu, a'r câd-gloddwyr, a ddaethent i'r lle, yn eu trefn filwraidd, yn nghyd â phob arfau dinystriol perthynol iddynt. Tynasant i lawr a chwalasant yr adeilad harddwych, fel nad oedd cyn pen ychydig oriau yn aros o hono garreg ar garreg.§

Cyhoeddwyd y gyfraith dranoeth, gosodwyd hi i fynu yn y lleoedd mwyaf

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 315. † Milner's Church Hist. vol. i. pp. 306, 307.
‡ Pedr i. 1. § Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 275.

cyhoeddus yn y ddinas, ac anfonwyd hi i'r conglau pellaf o'r amherodraeth. Yn mhob lle, pa rai y llawenydd mwyaf i elynion Cristionogaeth, a'r dychryn a'r gofid dwysaf iddynt hwythau. Pan osodwyd y gyfraith hon i fynu mewn lle cyhoeddus yn Nicomedia, rhyw Gristion, o deimladau brwdfrydig yn ei herbyn, a'i tynodd i lawr ac a'i darniodd yn ngwydd y lluaws, gan gyhoeddi y barnedigaethau trymaf yn erbyn ei gwneuthurwyr, a osodasent i fynu y fath lywodraeth ormesol. Hwn, er ei fod yn wr o urddas a galwad uchel yn y ddinas, a dderbyniodd, yn wobr am ei lafur, farwolaeth, trwy gael ei rostio yn fyw wrth dân! a thrwy hyn, yr anrhydedd o fod yn ferthyr cyntaf dan y gyfraith honno.* Llawer a feiant ar ymddygiad y boneddwr hwn; eraill a'i canmolant yn fawr, am ei sêl a'i wroldeb. Anhawdd yw gwybod pa rai sydd yn yr iawn; eithr y mae yn eglur i hyny gael yr effaith waethaf ar feddyliau Dioclesian: canys yr oedd efe hyd yn hyn yn hollol groes i dywallt gwaed, a gosod neb i farwolaeth yn achos eu crefydd.

Yn y cyfamser, dygwyddodd i dân ddwywaith yn ol eu gilydd gymmeryd lle yn y palas, yn ystafell-wely yr amherawdwr, fel mai braidd y dihangodd efe rhag colli ei fywyd. Er ei achub bob tro rhag gwneuthur nemawr niwaid, etto creodd hyn lawer o dybiau yn nghylch yr achos o hono: canys ei fod wedi cymmeryd lle ddwywaith yn yr un man, ac yn yr un modd, a ddangosai yn bur amlwg mai nid trwy ddamwain na diofalwch y daethai; ac nid yw y gwir achos o hono yn well na thybiaethol hyd heddyw. Rhai a ddywedant mai barn o'r nef ydoedd; eraill a ddywedant mai y Cristionogion a'i gwnaeth, er ceisio dwyn ymaith fywydau y ddau dywysog; ac eraill a haerant—ac efallai mai hwy yw y nesaf i'r gwir—mai Galerius ei hun a'i rhoddasai, er gosod y bai ar y Cristionogion; a thrwy hyny, cynhyrfu llid yr amherawdwr yn eu herbyn. Mewn canlyniad, llanwyd y carcharau o'r dynion mwyaf cyfrifol yn Nicomedia; a defnyddiwyd yr arteithglwyd yn ei gweithrediadau creulonaf, er cael ganddynt gyfaddef; a rhoddwyd llawer i farwolaeth: ond ni buwyd mymryn nês i gael allan pwy a wnaethai y weithred.

Tua'r un amser, dygwyddodd i ryw derfysg gyfodi yn Armenia; a dywedid ei ddechreu gan y Cristionogion. Trwy y naill beth a'r llall, llanwyd meddyliau yr amherawdwr âg ofn brawychus, rhag i'r Cristionogion gymmeryd ymaith ei fywyd; a thên o elyniaeth a ennynodd yn ei fynwes, fel y gwnaethwyd y cyfreithiau mwyaf llymdost yn eu herbyn. Yr ail a ddaeth allan oedd, fod esgobion, henuriaid, ac athrawon cyhoeddus Cristionogaeth oll, i gael eu dal a'u rhoddi yn ngharchar, trwy yr holl amherodraeth; gan feddwl, yn ddiau, os gallent ddistewi y blaenoriaid, y byddai yn hawddach wedi hyny i wasgaru a dileu y cynnulleidfaoedd.

Yn ddisymwth wedi hyn, daeth y drydedd gyfraith allan, yr hon a orchymynai i holl swyddogion y dinasoedd arfer pob math o demtiadau, poenydiau, trwy'r moddion a'r arfau mwyaf angheuol, er dwyn y caethion hyn i addoli'r delwau, ac i ymostwng i'r grefydd sefydledig trwy gyfraith y wlad; ac os gommeddent, eu bod i'w gosod i farwolaeth yn y modd mwyaf poenus er rhybudd i eraill. Yn y flwyddyn 304, cyhoeddwyd y bedwaredd ddeddf, yr hon a gynnwysai orchymyn i holl swyddogion a blaenoriaid y taleithiau a'r dinasoedd, beri i bawb yn ddiwahaniaeth arogldarthu i'r eilun-

* Gibbon's Decline and Fall, &c. vol. i. p. 338.

od, ac ymostwng i'r defodau; ac os na wnaent, awdurdodid hwy i weini y cospedigaethau trymaf, ac i'w lladd trwy yr ymarferiadau creulonaf: ac nid oedd i neb, dan boen marwolaeth, eu cuddio a'u celu.

Mewn canlyniad i'r cyfreithiau creulawn hyn, lluaws mawr o'r dynion goreu a gaid ar y ddaear y pryd hwnw, a ddyoddefasant y triniaethau garwaf, trwy y moddion chwerwaf a allai holl ddyfais, dichellion, a medrusrwydd y dynion mwyaf uffernol eu chwilio allan. Llawer iawn a osodwyd i farwolaeth yn y dull a'r modd ag y mae gweddeidd-dra yn galw arnom i dewi; eraill a alltudiwyd, gan orfod teithio yn galed a blinderus i anialwch pell a diffaith, yno i ddihoeni hyd eu trangcedigaeth. Pan y danfonid eraill, a fagwyd yn dyner, ac a fuont byw yn foethus, wedi torri eu cnawd, a thynu ymaith rai o'u haelodau, i weithiau mwyn, i weithio yn galed, mewn caethiwed, anmharch, a thlodi mawr, heb arbed un rhywiogaeth, swydd, na sefyllfa.

Yr oedd yr erledigaeth hon yn gyffredinol trwy yr holl amherodraeth, oddi eithr yn llywodraeth uniawn yr hynaws a'r dyngarol Constantius. Yr oedd y cyfreithiau llymdost a chreulawn hyn, yn hollol foddhaol gan Maximianus, cyd-Augustiad â Dioclesian; a rhoddodd iddynt y derbyniad siriolaf, a'r gweinyddiad manylaf, trwy yr holl daleithiau dwyreiniol, pa rai oeddynt fwyaf uniongyrchol o dan ei lywodraeth ef. Bernir fod tua dwy fil ar bymtheg yn marw trwy ferthyrdod bob mis, tra parhaodd yr erledigaeth hon; dim llai na chant a haner o filoedd a fuant feirw yn yr Aipht, heblaw tua saith gan mil, a fuant feirw yn eu teithiau blinion wrth gael eu hanfon yn ddidrugaredd trwy anialwch i'w halltudiaeth, ac yn y gweithfeydd o dan lywodraeth eu harglwyddi creulawn.*

Yn fuan wedi gosod y cyfreithiau gwaedlyd hyn mewn ymarferiad, er syndod i'r byd, rhoddodd Dioclesian ei swydd fel amherawdwr i fynu, a'i goron amherodrol i lawr, a'i deyrnwialen lywodraethol heibio; a chanlynwyd ef yn hyny gan Maximianus. Amrywiol y tybiau sydd am yr achos o hyny; meddylia rhai mai o herwydd y braw a'r dychryn oedd ar eu meddyliau, gan euogrwydd, y gwnaethant; eraill a farnant mai o herwydd gweled y gorchwyl ag oeddynt wedi ymwystlo iddo, sef dileu enw Cristionogaeth o'r byd, yn rhy galed, a barodd iddynt ei wneuthur; canys yr oedd y gorchwyl a ymwystlasant iddo lawer uwchlaw eu gallu. Gan hyny—fel pe buasent yn syrthio i eithaf digalondid a llwfrdra, wrth weled eu hamcan mileinig yn troi yn gwbl siomedig, a chan fod y Cristionogion yn dyfod yn lluosocach, po amlaf y torid hwy i lawr—rhoddasant ymaith eu swydd a'u hurddas. Eithr bernir gan eraill mai un o ystrangciau ystrywgar Galerius oedd, i'w dwyn hwy i roddi heibio yr amherodraeth. Hwn, wedi iddo eu dwyn yn eithaf anmhoblogaidd gan ran fawr o'u deiliaid, a'u bygythiodd, oni wnaent roddi i fynu y llywodraeth iddo ef mewn rhan—canys gwyddai am afiechyd Constantinus, yn y gorllewin, ac nad tebyg y byddai byw yn hir—y gwnai godi gwrthryfel yn eu herbyn. Eithr y mae yn rhaid i ni ganfod llaw yr Arglwydd yn goruwch-lywodraethu y pethau hyn, er dwyn gwaredigaeth i'w bobl. Gwedi i Dioclesian roddi i fynu yr amherodraeth, efe a aeth, ac a drigodd yn ei ddinas enedigol, yn y modd mwyaf anghyoedd. Pan annogid ef gan rai i ail gymmeryd y llywodraeth yn ei law, efe a'u

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 277. Buck's Dict.

† Eu bod gwedi bwriadu dileu enw Cristionogaeth o'r byd, sydd eglur wrth argraff ag sydd wedi ei chael yn ddiweddar ar gof-golofn yn yr Hispaen, yn cynnwys y geiriau hyn:—"I Dioclesian, &c. a ddileant enw Cristionogaeth."—*Milner*.

hattebai, gan ddywedyd, pe gwybuasent hwy pa mor ddedwydd yr oedd efe yn byw yn awr, mewn cymhariaeth i'r hyn oedd wedi bod, y buasent yn ei debygoli yn lle ei aflonyddu.

Gwedi treulio tua saith mlynedd yn y lle hwn, yn y flwyddyn 312, bu farw trwy gael ei wenwyno, neu o gynddaredd, nid yw haneswyr yn gallu rhoddi hanes pa un, gyda sicrwydd. Eithr Maximianus a ymdrechodd i ail-feddiannu yr orsedd; ac o herwydd hyny, gorfu arno ffoi i Gaul, a chwedi codi terfysg yno, bu farw, trwy orchymyn Constantius, ei fab-yn-nghyfraith, o'r angeu a ddewisasai efe ei hun, a dywedir mai ymgrogi oedd hyny. Nid oedd yn awr ond Galerius a Constantius am yr holl amherodraeth, a rhanasant hi rhyngddynt, fel yr oedd pob un yn brif lywydd yn ei barth ei hun, heb fod unrhyw fesur o undeb rhyngddynt. Yr oedd Iliricum, Pannonia, Thrace, Macedonia, a holl ynysoedd Groeg ac Asia Leiaf, yn nghyd â'r Aipht, Syria, a gwlad Palestina, yn y rhan ddwyreiniol, yn perthyn i Galerius. A Sicily, yr Ital, a'r rhan fwyaf o Affrica, adnabyddus y pryd hwnw, Hispaen, Gaul, Prydain, a'r Almaen, a berthynai i'r rhan orllewinol, ag oedd o dan lywodraeth fwynaidd Constantius. Yr oedd efe yn dywysog gwrol, etto gostyngedig a boneddigaidd; yn dra gwybodus a chymhedrol yn mhob peth perthynol iddo ei hun, a'r llywodraeth; doeth yn ei gynghorion, a grymus yn y gweinyddiad o honynt. Pan y gwaradwyddwyd ef gan genhadau Dioclesian, o herwydd ei dlodi, a gwagder ei drysorfäau, efe a arwyddodd i'w bobl, fod arno eisiau swm mawr o arian mewn ychydig o oriau, hwythau, cyn pen yr amser, a ddygasant iddo fwy na digon, nes y llanwyd yr edrychwyr â syndod. Yna dywedodd wrth y cenhadau,—"Gwelwch mai cariad ei bobl yw trysor penaf tywysog." Yr oedd bob amser yn gyfaill mawr i'r Cristionogion, er nad oedd ei hun yn proffesu; ond hwy oedd prif weinidogion ei lŷs, ac a lanwai y swyddau a'r sefyllfaoedd mwyaf pwysig ac anrhydeddus yn ei deyrnas; a diau nad oedd efe yn credu, nac yn addoli lluosogrwydd duwiau. Er mwyn adnabod egwyddorion ei weinidogion, efe a roddes archiad trwy ei lŷs, am i bawb arogldarthu ar allorau yr eilunod, neu ymadael â'i wasanaeth ef; llawer ag oedd yn caru eu bywioliaeth naturiol, a boddloni y tywysog, yn ol eu tyb hwy, a ymostyngasant i eilunaddoliaeth. Eraill ag oedd well gan ddynt bobpeth na halogi eu cydwybodau, a benderfynasant i ymadael â'u lleoedd; eithr efe a drôdd ymaith y rhai a wrthgiliasant, a chymmerodd y lleill yn ol, ac a'u dyrchafodd i'r sefyllfa uchaf yn ei deyrnas, gan ddywedyd, mai yr hwn a fyddai yn anffyddlon i'w Dduw, a fyddai yn sicr o fod yn anffyddlon i'w dywysog hefyd.*

Tra yr oedd efe yn sefyllfa Cæsar, yr oedd yn anhawdd iddo wrthsefyll y dymhestl erledigaethus yn hollol; ond nid yw eglur i neb golli eu bywydau yn y taleithiau oedd o dan ei olygiaeth ef y pryd hwnw. Eithr gwedi ei ddyrchafu yn Augustus, yr oedd llawn ryddid crefyddol trwy ei holl amherodraeth. Galerius yntau, o'r ochr arall, yn llawn cenfigen, llid, a chreulondeb, a roddodd fywyd ac egni i'r erledigaeth yn fwy nag o'r blaen. Yn groes i ddymuniad Dioclesian, ni ddewisodd Cystenyn mab Constantius a Maxentius mab Maximianus, i fod yn Cæsariaid, ond dewisodd Severus, a Daza mab ei chwaer, yr hwn a enwodd efe yn Maximianus, y rhai oedd fwyaf tebyg i'w dymherau ei hun, yn eu lle hwynt. Nid oes amgyffred-

* Goldsmith's Hist. of Rome, pp. 513, 514.

iadau a ddirnad, na geiriau a gynnwys, na dawn a all adrodd, y moddion a'r dull y dyoddefodd, na mawredd dyoddefiadau, y Cristionogion, mewn canlyniad i hyny. Libanius, yr hwn oedd Bagan, yn ei araeth ar farwolaeth Julian, a ddywed, gyda golwg ar y Cristionogion, "eu bod yn mawr ofni, ac yn disgwyl, y buasai i'w llygaid gael eu tynu allan, eu penau gael eu torri ymaith, ac, afonydd o'u gwaed ffrydio yn rhedegog gan luaws y lladdedigion." "Yr oeddynt mewn arswyd parhaus," medd ef, "rhag y buasai i'w llywydd newydd ddyfeisio dull a moddion newyddion, mewn cymhariaeth i ba rai y buasai drylliad eu haelodau, eu rhwygo â'r cleddyfau, eu llosgi gan dân, eu boddi mewn dwfr, a'u claddu yn fyw, yn ymddangos ond pethau ysgafn; canys y pethau hyn oll a arferodd yr amherawdwyr blaenorol i'w poeni," gan gyfeirio yn ddiau at yr erledigaeth sydd o dan ein sylw.*"

Olrheinir y dyoddefiadau, a'r modd y bu lluaws aneirif feirw y dyddiau hyny yn achos crefydd, gan Lectantius ac Eusebius, mewn modd tra manylaidd, pa rai oedd yn llygad-dystion o amryw o honynt. Mewn un ddinas yn Phrygia, yr oedd y trigolion gan mwyaf oll, yn swyddogion a phobl, yn Gristionogion, fel nad oedd neb o fewn iddi hi ei hun a gymmerai arno gospi eraill; eithr gyrwyd yno luoedd, pa rai wedi iddynt ei hamgylchynu, a ddywedasant wrth y trigolion fod yn rhaid iddynt addoli eilunod, neu gymmeryd eu llosgi oll. Pan y gommeddasant ymostwng, hwy a gauasant byrth y ddinas, ac a'i taniasant, fel na ddihangodd un o honynt, ond buant feirw oll yn yr oddaith fflamllyd, gan orfoleddu yn yr Arglwydd. Adauctus, gwr urddasol o Rufain, ag oedd wedi bod yn cynnal un o'r swyddau mwyaf pwysig o dan y llywodraeth, a goronwyd â merthyrdod. Yn Arabia rhoddwyd llawer i farwolaeth trwy eu hysgythru â bwyill: yn Cappadocia, torwyd gliniau llawer, a'u gadael felly i drengu: yn Mesopotamia, arferent eu crogi gerfydd eu traed, uwchben tân myglyd, nes trengent: mewn manau eraill, arferent eu crogi gerfydd un droed wrth goedydd, a'u gadael yno yn noethlymyn, wedi eu hiro drosodd â mêl, er dwyn gwybed i'w hysu nes y byddent feirw yn y modd hwnw: yn Alexandria, tynwyd cannoedd yn ddarnau â geflau ac â bachau heiyrn: ac yn Antiochia, llawer a losgwyd â thân araf, ac eraill a wlyb-losgwyd, trwy roddi ar eu cnawd noeth blwm a phŷg toddedig, nes eu gorchuddio!

Dygwyd dros gant o Thebais i Cæsarea o flaen Fermilion y barnwr, pa un a'u dedfrydodd oll i golli un llygad, ac un droed, a'u gyru yn mhell i weithio felly yn y mwn-gloddiau; ac yn Gaza gwnaed yr un modd â lluaws mawr. Torent ymaith dafodau llawer, a bwrid hwy i'r bwystfilod gwylltion, nes oedd y rhai hyn braidd yn digoni arnynt. Pedr, un o brif weision yr amherawdwr, yr hwn, unwaith, a fflangellwyd nes oedd ei esgyrn yn y golwg; a phan nad arogldarthai ar allorau yr eilunod, rhwbiwyd ei glwyfau drosodd â gwinegr ac â halen, ac yna llosgwyd ef i farwolaeth wrth dân araf. Nid oedd ond megis dim mewn rhai manau, i weled cant yn cael eu llofruddio mewn un dydd, a hyny yn y modd mwyaf poenus; ac anmherchid eu cyrph yn y modd gwaethaf, wedi iddynt feirw. Rhoddid cyflawn ryddidi'r dyhirod gwaethaf i dreisio y gwyryfon diwair, boneddigaidd, a duwiol, a rhoddid gwobrau iddynt am eu gwaith. Ymddengys mai dau beth yn unig oedd fel ammod o arbediad, sef iddynt gyffesu a rhoddi i fynu eu llyfrau sanctaidd i'w gelynion, ac arogldarthu ar allorau yr eilunod; os na wnaid y pethau hyn, nid oedd dim a'u harbedai os caid gafael ynddynt.

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 6.

Ffelix o Teburia, pan ofynwyd iddo am roddi i fynu yr ysgrythyrau, a ddywedodd, na wnai; gofynasant, pa ham? dywedodd yntau, am mai gair Duw wedi ei roddi iddo ef ydoedd. Yna gorchymynwyd torri ymaith ei ben. Yn Abitina, yn Affrica, rhoddwyd tua hanner cant i farwolaeth gyda'u gilydd, am eu bod yn darllen y gair, ac na roddent mo hono i fynu.*

Mae'n debyg na ddichon y darllenydd lai na rhyfeddu wrth fod cynnifer yn dyoddef y pryd hwn, a'r modd y dyoddefasant, wrth ystyried yr hyn a ddywedwyd am ddadfeiliad crefydd yn nechreuad y canrif hwn. Ni ellir yn ddiau briodoli hyn i ddim, ond i effeithiau sancteiddiol yr Ysbryd Glan, ag oedd yn gydfynedol â'r ymweliadau hyn; er chwerwed oeddynt i nattur, etto yr oeddynt yn fuddiol i adfywio crefydd, ac i ail-ennyn dawn Duw yn eneidiau ei bobl. Hefyd ni ellir meddwl fod marwolaeth ferthyrol bob amser yn brawf diffuant o wirionedd crefydd y dyoddefydd, yn enwedig mewn amser o'r fath hyny, pan yr oedd y fath luoedd yn dyoddef bob dydd —anwybodaeth mor fawr yn meddiannu y cyffredinolrwydd—ac ysbryd coelgrefyddol yn rhedeg mor uchel; ond diau fod erledigaeth bob amser yn dangos diffyg gwir grefydd a phenboethder crefyddol, yn nghyd â gelyniaeth yn erbyn y gwirionedd yn yr erlidwyr. Ni ellir ammau nad oedd dyoddefiadau y Cristionogion wedi eu gyrru i'r fath wylltineb anghymhedrol, nes oeddynt yn ymddwyn yn annoeth iawn, trwy ddistrywio eu hunain, wrth daflu eu hunain i lawr o ben adeiladau uchel, yn lle i'w herlidwyr creulawn gael gafael ynddynt; eraill yn boddi eu hunain yn yr afonydd a'r moroedd; pan yr ymdyrrai eraill yn lluoedd at y barnwyr i roddi eu hunain i fynu, a'u hannog i'w gosod i farwolaeth; ac yr ymruthrai eraill i ddinystrio temlau ac allorau yr eilunaddolwyr, er eu cynhyrfu i'w hanrhydeddu â marwolaeth ferthyrol; eraill, yn mhoethder eu sêl, a ymddygent yn sarrugaidd tu ag at y barnwyr, gan eu ceryddu yn llym am eu hymddygiadau creulawn; megys y gwnaeth Appian, llangc tua deunaw oed, yn Cæsarea, geryddu Urbanus, yr hwn oedd yn un o'r barnwyr gwaethaf; am hyny, fel y gallesid disgwyl, triniwyd y gwr ieuangc, yn y modd mwyaf ciaidd a fedrai dyfais uffernol ei wneuthur. Gwnaeth Ædesius ei frawd yr un modd â Hierocles y barnwr, yn Alexandria, wrth ei weled yn annog dyhirod drygionus i anmharchu y gwyryfon sanctaidd.†

Yn y flwyddyn 306, clafychodd Constantius, yn Nghaerefrog, yn mha le yr oedd ei lŷs amherodrol; ac wrth ystyried fod amser ei ymddattodiad yn agoshau, efe a anfonodd at Galerius am anfon Cystenyn, ag oedd gydag ef y pryd hwnw, fel gwystl, atto i Gaerefrog, ar frys, eithr yr amherawdwr cyfrwysgall nis gwnai, ac ni hysbysai i'r tywysog ieuangc yr amgylchiad yr oedd ei dad ynddo. Eithr Duw, yr hwn sydd ddoeth yn ei gyngor, ac yn alluog o nerth, a ddiddymodd ei amcanion drygionus, trwy ddwyn gwybodaeth i Cystenyn am ei dad, a'i sefyllfa beryglus ei hun yn llŷs Galerius. Hwn yn union a wnaeth am Frydain, ac fel na lwyddid yn eu hymlidiad ar ei ol, efe a laddodd y ceffylau rhedeg, ar ei holl daith, fel yr elai yn mlaen. Cyrhaeddodd Gaerefrog ychydig amser cyn marwolaeth ei dad, yr hwn, yn llawen iawn ganddo ei weled, a'i cyhoeddodd ef yn ddioed yn ganlyniedydd iddo yn yr amherodraeth; ac a roddodd iddo amryw gynghorion pwysig yn nghylch gweinyddiad y llywodraeth, a bernir iddo, â'i anadl ddiweddaf, gyflwyno achos y Cristionogion i'w hynawsedd. Gwedi ei drangcedigaeth,

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 6—20. † Ibid, vol. ii. p. 21.

cyhoeddwyd Cystenyn yn amherawdwr, gan y fyddin a'r llŷs, ac anfonwyd hysbysrwydd o hyny i Galerius, yr hwn a dderbyniodd y newydd yn anfoddog iawn, a braidd, gan gymmaint ei anwydau drwg a'i siomedigaeth, yr ymattaliodd rhag lladd y cenhadon a hysbysodd hyn iddo. Eithr gyda mawr anfoddlonrwydd, cydnabyddodd ef yn amherawdwr, ac a anfonodd iddo y fantell borphoraidd, fel arwydd o hyny.

Yn y cyfamser cyhoeddwyd Maxentius yn amherawdwr yn Rhufain, a rhanau o Affrica, yr hwn, fel y tybid, oedd fab i Maximianus, cydfeddiannydd yr orsedd â Dioclesian. Y Cæsar Severus a ddanfonwyd â byddin luosog i'w wrthwynebu a'i ddarostwng, yr hwn wedi arwain y fyddin yn agos i faes y frwydr, a gafodd y siomedigaeth o weled y milwyr oll yn gwrthod rhyfela yn erbyn Maxentius, yr hyn a barodd iddo ollwng ei waed ei hun i farwolaeth. Galerius wedi hyn a bennododd Licinius yn Cæsar yn ei le ef.

Yn y flwyddyn 311, clafychodd Galerius o'r clefyd mwyaf blin, a dyeithrol, yr hwn nid oedd iddo orphwysdra ddydd na nos, gan fawredd y poen oedd yn ei amysgaroedd—a deuai rhyw bryfed anarferol allan o hono—ac yr oedd uwchlaw pob moddion meddygol i allu ei attal, neu ei leihau. Yn ei glefyd hefyd, teimlodd y poen mwyaf yn ei feddwl oddi wrth ddirfawr euogrwydd cydwybod, a siomedigaeth, am na allodd gyrhaedd ei amcan yn nilead Cristionogaeth o'r byd. Yn ei gystudd poenus a hirfaith, fe ddysgodd yn argyhoeddiadol, er mawr siomedigaeth i'w feddwl uchel-gais, nad oedd yr ormes-lywodraeth gadarnaf, a'r ymegniadau mwyaf ffyrnigaidd, er ei dwyn yn mlaen, am agos i naw mlynedd yn yr erledigaeth greulonaf, yn alluog i ddiwreiddio cenedl o bobl, nac i orchfygu eu golygiadau crefyddol.

Yn chwennych dadwneud yr holl ddrygau a wnaethai, efe a gyhoeddodd, ychydig cyn ei drangcedigaeth, gyfreithiau o blaid y Cristionogion, yn ei enw ei hun, Cystenyn, a Licinius; yn mha rai y caniattäai i'r rhai a alltudiwyd ddyfod yn eu hol, ac i'r Cristionogion yn gyffredin fwynhau eu breintiau, ac adeiladu eu haddoldai. Mewn canlyniad, dychwelodd llawer i'w gwlad, a fuasent yn ddeoledig am amryw flynyddau; eraill a adeilasant leoedd i addoli yn y gweithfëydd, y naill fan a'r llall. Yn un o'i ddeddfau, y mae Galerius yn anfon at y barnwyr a'r llywodraethwyr, am i'r Cristionogion weddio ar y Duwdod a addolent, am ei iechyd, ei ddiogelwch, a'i lwyddiant ef a'i deyrnas. Yn fuan wedi hyn, bu farw yn y modd truenusaf; rhanau o'i gorph yn pydru oddi wrtho; a'r arogl yn annyoddefol i neb aros yn yr un annedd âg ef. Fel hyn, dengys yr Arglwydd y medr efe ddarostwng y rhai a rodiant mewn balchder, a dwyn ei elynion creulonaf i gyfrif, ac i gyfaddef uniondeb ei farnau yn y byd hwn.

Maximianus, ag oedd yn Cæsar yn y dwyrain, a chwennychai osod ei hun yn Augustus, ar ol marwolaeth Galerius; eithr lluddiwyd ef gan Licinius, yr hwn a enwodd yr amherawdwr ymadawedig oedd i lenwi y sefyllfa honno ar ei ol ef. Yr oedd Maximianus yn hollol o'r un tymherau a thueddiadau erledigaethus â Galerius. Er iddo am agos i chwe mis ar ol cyhoeddiad y cyfreithiau pleidiol i Gristionogion gan yr amherawdwr trangcedig, ymddwyn yn lled weddaidd, etto yn fuan efe a chwiliodd allan esgus i adnewyddu yr erledigaethau mwyaf gerwin. Dygwyd hi yn mlaen yn awr gyda mwy o ddichellion drwg, ystrangciau, a chreulonderau, nag o'r blaen. Y pryd hwn cyflogwyd dyhiriaid i daenu pob math o chwedlau celwyddog, a chaniadau gweigion, am y Cristionogion, er eu gwaradwyddo, pan eu gwa-

herddid hwy i wneuthur un amddiffyniad. Dangosodd fwy o sêl dros y grefydd Baganaidd na neb, bron, a fu o'i flaen; trwy harddu temlau yr eilunod â'r pethau mwyaf drudfawr, a gosod eu hoffeiriaid mewn bri mawr a threfn newydd, nid annhebyg i'r drefn a osodasai y Cristionogion yn mhlith eu gweinidogion.

Ymddengys fod Satan—fel pe buasai yn gwybod nad oedd iddo ond byr amser i deyrnasu yn y dull hwnw—fel yn penderfynu arllwys ei holl lid ar y Cristionogion ar unwaith, gyda'r ymdrechiadau mwyaf egniol, trwy yr holl daleithiau dwyreiniol. Ysgrifenwyr o bob math a annogid trwy wobrau gwerthfawr, i gyhoeddi yn eu hysgrifau bob twyll-resymau a chwedlau celwyddog yn erbyn Cristionogaeth; a thaenwyd y rhai hyn ar led trwy y gwledydd, trwy orchymyn yr amherawdwr, a than ei nodded. Er mwyn dangos undeb yr amherawdwr â'r bobl, ac mai nid arno ef yr oedd y bai fod cymmaint o waed yn cael ei dywallt, a chynnifer o ddynion yn cael eu hanafu, anfonid cennadon trwy y taleithiau, i ffurfio erfyniadau at yr orsedd am lwyr ddilead Cristionogaeth o'r byd, wedi eu harwyddo gan y trigolion. Derbynid yr erfyniadau hyn gyda gorfoledd; ac anfonid adysgrifau o honynt trwy yr holl daleithiau eraill, gydag ysgrif yn dangos mai ewyllys yr amherawdwr a'i ffyddlon ddeiliaid oedd, cael o Gristionogaeth ei dileu, ac i bob coffadwriaeth am dani ddarfod ar y ddaear. Y deddfau a wnaed yn erbyn y Cristionogion i'w dedfrydu i bob math o boenau, a argraffwyd ar ddalenau o brês; a rhoddwyd hwy i fynu yn y lleoedd mwyaf cyhoeddus yn mhob pentref, tref, a dinas, yn y rhan ddwyreiniol o'r amherodraeth.

Pan oedd crefydd fel hyn, trwy bob ymdrechion, yn dra isel—y Cristionogion yn y man mwyaf digalon ag y buont erioed, a'r cwmmwl tywyllaf yn eu gorchuddio, a'u gelynion yn gorfoleddu eu bod yn agos cyrhaedd eu hamcan, dechreuodd y wawr dorri arnynt. Pan oedd yr holl amherodraeth yn ddrylliau rhaniadol, a newyn, heintiau, a phläau dinystriol yn cynniwair trwyddi, yn enwedig y rhanau dwyreiniol o honi, nes yr oedd ei thrigolion yn anamlhau yn ddirfawr, torodd rhyfel allan rhwng Maximianus a Licinius, am yr amherodraeth, fel y cafodd ddigon o waith i'w wneuthur yn lle erlid. Gwedi penderfynu i'r ddadl gael ei therfynu trwy frwydr bennodol, dygwyd yn nghyd y byddinoedd; ac addunedodd Maximianus adduned i Jupiter, os rhoddai efe iddo fuddugoliaeth y pryd hwnw, y difrodai efe bob Cristion ag oedd yn ei amherodraeth. Collodd y frwydr; ac yn ei gynddaredd o herwydd hyny, efe a ruthrodd ar offeiriaid ei dduwiau, ac a'u gosododd i farwolaeth. Yn ddisymmwth newidiodd ei feddwl, a chyhoeddodd archiadau o blaid y Cristionogion, yn gyflawn fel y gwnaethai Galerius, gan ddymuno eu nawdd. Ond ni lwyddodd; y gelyn adgas a fu farw mewn ychydig ddyddiau yn y modd mwyaf poenus, o ran ei gorph a'i feddwl. Yr oedd y fath ennynfa yn ei gnawd, fel yr oedd yn cwympo oddi wrtho yn ddarnau; ei lygaid a gwympasant allan o'u lle eu hunain; a gwaeddai allan mewn modd tra dychrynllyd,—*Nid myfi! nid myfi! ond eraill a'i gwnaeth.* Felly, gan gyfaddef ei ddrygioni ac uniondeb y farn oedd arno, efe a drengodd.

Yn y cyfamser yr oedd Cystenyn yn dyfod â byddin luosog o Gaul a Brydain yn erbyn Maxentius, yr hwn oedd yn awr wedi meddiannu gorsedd Rhufain, a rhanau o Affrica dan ei lywodraeth. Yr oedd Maxentius yn ddyn hynod o ddrwg; eithr ni chlywn am neb braidd a rodded i farwolaeth yn achos eu crefydd yn ei lywodraeth ef tra y bu yn teyrnasu. Gwedi am-

ryw frwydrau ar ei daith, cyfarfu y byddinoedd â'u gilydd yn agos i Rufain, lle y bu brwydr ysgeler rhyngddynt, y rhai oeddynt dros gan mil o bob ochr; bu y fuddugoliaeth yn amhëus dros dro, eithr dangoswyd yn amlwg cyn y diwedd ei bod o du Cystenyn: ac ar waith y gorchfygedig yn ffoi, syrthiodd i afon Tiber, ac a foddodd. Dywedir gan rai mai taflu ei hun a wnaeth yno. Yn ei hynt filwraidd hon, dywedir i Cystenyn weled arwydd y groes yn yr awyr, a'r geiriau 'YN YR HON GORCHFYGA' yn argraffedig arni. Sylwir ar hyn etto.

Yn awr yr oedd yr holl amherodraeth wedi dyfod i feddiant dau o'r holl rai a fu yn y llywodraeth ychydig flynyddau cyn hyny, ac i gyd wedi myned ymaith trwy ddiwedd truenus. Yn y flwyddyn 313, yn fuan ar ol y frwydr a ennillodd Cystenyn ar Maxentius, cyfarfu y ddau amherawdwr buddugol â'u gilydd yn Milan, ac a gyhoeddasant gyflawn ryddid crefyddol i bob enwad trwy yr holl amherodraeth. Felly terfynodd y ddegfed erledigaeth, a'r ddiweddaf oddi wrth yr amherodraeth Baganaidd. Nid oedd Cystenyn hyd yn hyn wedi amlygu o ba grefydd yr oedd, eithr rhoid digon o amlygiadau ei fod yn dra phleidiol i'r Cristionogion; canys hwy oedd fwyaf yn ei fyddin; ac yn bresennol chwennychid eu nawdd gan bob un o'r ddau.

Dyma dro hynod ar Gristionogaeth! ychydig ddyddiau yn ol, y diystyraf o bob peth; ïe, yr hon yr amcenid ei dileu o'r byd mewn un dydd, yn cael ei dyrchafu i'r orsedd! Hyn, meddylir, sydd mewn golwg yn Dad. vi., wrth agoriad y chwechfed sêl; a thybiwn mai amgylchiadau amherodraeth Rhufain yn ei pherthynas â Christionogaeth, am y dau can mlynedd diweddaf, a olygir yn agoriad y chwe sêl gyntaf yn y bennod uchod. Nid yw ryfedd fod y fath amgylchiad yn cael ei osod allan yn y fath ymadroddion bywiog yn ngair Duw; nid yn unig o herwydd y cyfnewidiad a gymmerodd le, a bod cynnifer o amherawdwr wedi marw yn y modd y buont, ond hefyd yr effaith a wnai yr amgylchiad ar gannoedd o uchel-swyddwyr yr amherodraeth; llawer o honynt mewn cynddaredd, gan rym euogrwydd eu cydwybodau, a daflasant eu hunain i afonydd, a thros greigiau, ac a laddasant eu huuain yn mhob modd; fel na bu ond ychydig o'r rhai hyny a fu yn brif offerynau gan Dioclesian, Galerius, a Maximianus, i gyflawni eu hamcanion gwaedlyd, byw nemawr o amser ar eu hol hwy, ac ni buont feirw fel dynion eraill.

O'r deg erledigaeth hyn a fu ar yr eglwysi, nid oes hanes ond am y diweddaf wedi cyrhaedd Prydain. Eithr yn hon, tua'i dechreuad, pan oedd Herculius Maximianus yn llywydd ar yr ynys, y mae genym hanes am amryw a ddyoddefasant yma; llawer o addoldai a dynwyd i lawr, a llosgwyd amryw o lyfrau sanctaidd ein hynafiaid. Yn mhlith eraill a osodwyd i farwolaeth, enwir y duwiol Alban, yr hwn a ddychwelwyd trwy weinidogaeth Amphibolis, ac a roddodd ei hun i ddwylaw y lleiddiaid yn ei le y pryd hwnw; eithr wedi hyny dyoddefodd ferthyrdod ei hun; hefyd Aaron, a Julius o Gaerlleon, yn nghyd âg Angulius o Gaerludd, a syrthiasant yn y galanasdra.*

* Hanes Crefydd yn Nghymru, gan y Parch. D. Peter, tudal. 87, 88.

PENNOD XX.

Lle y traethir am Egwyddorion yr amryw Gyfreithiau a wnaed gan Cystenyn a Licinius, yr amherawdwyr, dros gyfluwn ryddid crefyddol—Cyflwr dedwydd a Llwyddiant y Wladwriaeth a'r Eglwysi, tra y gweinyddid y rhai hyn—Toriad rhyfel allan rhwng Cystenyn a Licinius—y brwydrau a fu rhyngddynt, a buddugoliaeth Cystenyn—y Newidiad a wnaeth efe yn nhrefn yr Eglwysi—Dygiad i mewn Ddeddfau caethion, a'r calyniadau annedwydd o hyny—Darluniad o Gymmeriad Cystenyn.

Gwedi i'r ddau amherawdwr hyn gael goruchafiaeth ar eu holl elynion, aethant yn mlaen dros amser yn dawel ac yn llwyddiannus; a diau mai mawr oedd llwyddiant crefydd mewn lluosogrwydd proffeswyr yn mhob parth. Dychwelwyd yn ol y rhai oll a alltudiasid gan y tywysogion blaenorol, ag oedd yn fyw. Y rhan fwyaf o honynt oedd mewn edrychiad gwael; yn anafus, wedi torri un o'u traed, a thynnu ymaith un o'u llygaid; eraill wedi torri eu tafodau ymaith; ac eraill yn dwyn creithiau pa le eu llosgwyd, neu y rhwygwyd ymaith ranau o'u cnawd, yn dystiolaeth barhaus yn erbyn y cigyddion erchyll a'u hanafuasent. Addoldai helaeth a hardd a ail-adeiladwyd i wasananaeth y gwir a'r bywiol Dduw, trwy bob parth o'r amherodraeth; gweinidogion Cristionogaeth a berchid, a chrefydd mewn ymddangosiad a flodeuai; ac yr oedd tawelwch mawr yn mhob talaeth.

Cyfarfu y ddau amherawdwr â'u gilydd yn Mediolanum, a gwnaethant yr erthygl ganlynol—a chan mai efe ydyw y cyntaf a wyddom ni a ysgrifenwyd ar ryddid crefyddol, ni phetrusir i'w osod i lawr yma:—"Gwedi i ni bwyso y peth ynom ein hunain, na ddylai rhyddid a thrwydded crefyddol neb gael ei attal, ond fod cyflawn ryddid o hyn allan i gael ei adael i bob dyn i weithredu yn hyn yma yn ol ei feddwl a'i ewyllys ei hun, yr ydym ni, gan hyny, yn rhoddi gorchymyn, fod i bob un gyfaddasu ei bethau crefyddol yn ol fel y byddo yn gweled yn oreu, a bod y Cristionogion i gael cadw a chynnal eu ffydd a'u barnau crefyddol yn ddiwaharddiad. Ond o blegid fod llawer o amrywiol farnau wedi tarddu, ac amrywiol olygiadau yn cynnyddu, yn nghylch y caniattad a roddwyd genym, yn flaenorol, meddyliasom mai gwell i ni oedd ychwanegu, a gwneuthur yn eglur y pethau hyny, a allasai mewn amser dyfodol, gael eu hattal, neu eu caniattau. Pan, gan hyny, wedi i ni, Cystenyn Augustus, a Licinius Augustus, allu dyfod trwy lwyddiant arbenigol i Mediolanum, ac eistedd yno mewn cynghor, yn nghylch y pethau hyny a wasanaethant er hwylusu a lleshau y wladwriaeth—pa rai a feddyliem a fyddent yn fuddiol i bob dyn, ie, o flaen pob peth—penderfynasom gadarnhau y pethau hyny a gynnwysant wir barchedigaeth, ac addoliad y gwir Dduw; hyny ydyw, yr ydym yn rhoddi i'r Cristion-

ogion gyflawn ryddid i ddewis a chanlyn y grefydd a feddyliont hwy sydd oreu, a bod i'r un gwirionedd a rhad nefol, a dderbynir yn mhob lle, gael ei dderbyn a'i gofleidio gan ein holl ddeiliaid. Trefnir genym, gan hyny, yn ol ein hyfrydwch presennol, ar yr hysbysiad cywiraf, a'n barn ddiysgogaf, na byddo i neb gael ymddwyn tu ag atto mor galed â'i attal i ddewis a chanlyn y grefydd Gristionogol, yn ddiwarafun, eithr fod i bob un gael ei ryddid i ymarfer â'r grefydd honno a farno efe gymmwysaf iddo ei hun, fel trwy hyny y cyflawno Duw ei radlawn ddaioni, a'i ofal arferol tu ag attom ni. I'r dyben i chwi wybod ein hewyllys am hyn yma, meddyliasom ei bod yn angenrheidiol i ysgrifenu hyn attoch, fel trwy hyny y byddai i bob gwahanol olygiad, a cham-farn, a achlysurwyd trwy y cyhoeddiad blaenorol o blaid y Cristionogion, pa rai a ymddengys i ni yn annoeth, ac yn hollol groes i'n hynawsedd, gael eu symmud ymaith, a chael eu hollol ddileu. Yr ydym trwy hyn yn dangos ein bod yn awr, yn y modd rhadlonaf a diysgogaf, yn ewyllysio ac yn gorchymyn, ar fod i bob dyn trwy ein amherodraeth fwynhau ei gyflawn ryddid i ymarfer â'r grefydd Gristionogol, a bod iddo hefyd gael hyny yn ddirwystr a llonydd. Meddyliasom ei bod yn gweddu i ni hysbysu y pethau hyn i chwi, yn y modd egluraf ag a allem, sef ein bod wedi rhoddi i'r Cristionogion gyflawn ryddid i ymarfer a dwyn yn mlaen eu holl achosion crefyddol yn mhob lle, yn ddirwystr. A chan fod y rhyddid hwn wedi ei ganiattau iddynt yn hollol ac yn gyflawn, i ymarfer â'u cyflawniadau crefyddol, yn ol eu tueddiadau eu hunain, yr ydym yn meddwl y gwneir yn eglur fod hyny yn gynnorthwyol i gadarnhau heddwch gwladwriaethol, a llwyddiant y deyrnas; felly trefnir genym fod i bob un gael caniattad a rhyddid i ddewis ac ymarfer â'r grefydd a chwennycho ei hun. Y pethau hyn a wnaed genym, gyda'r dyben na byddo i un osod gorfodaeth ar ei ddeiliad i fod o un grefydd mwy na'r llall; a darbodir genym dros y Cristionogion, yn mhlith pethau eraill, ar fod iddynt gael adfeddiannu y lleoedd hyny ag y buont yn ymgyfarfod, ac yn cynal eu gwasanaeth crefyddol ynddynt yn flaenorol; ac os oes neb wedi prynu y rhai hyny genym ni, neu ryw rai eraill, y maent i'w rhoddi yn eu hol, yn ddioed, i'r Cristionogion, heb na gwerth na gwobr. Os darfu i ni roddi y cyfryw leoedd i rywrai, a bod y rhai hyny yn gofyn rhyw gydnabyddiaeth, er eu gollwng yn rhydd, bydded i'r Cristionogion fyned at flaenor y dalaeth honno; canys efe sydd i fod yn farnwr yn y pethau hyn, a gwnaed ef ei ollwng yn rhydd, trwy ein hynawsedd ni. Hyn oll a ewyllysir ac a orchymynir genym i chwi, sef fod iddynt gael eu rhoddi yn ol yn rhad, a chyda diwydrwydd, a bod i gymdeithasau y Cristionogion i'w mwynhau oll, yn ddioed. Fel y deall y Cristionogion fod iddynt yn perthynu leoedd neillduol, nad yw felly i un person unigol, ond i'w cynnulleidfaoedd, yr ydym hefyd yn trefnu fod i'r rhai hyn gael eu hadferu i bob cymdeithas a chynnulleidfa yn ddioed, yn ol ein trefniad presennol. Darbodir genym yn y trefniad hwn, os darfu i neb dderbyn neu roddi tâl am danynt, eu bod i adymchwelyd y cyfryw dai, a thiroedd, a meddiannau yn eu hol. Na fydded i neb ein drwgdybio, hwy a fyddant yn sicr o gael eu cadw yn ddigolled genym. Yn y pethau hyn oll, eich rhan chwi yw arfer eich diwydrwydd o du y Cristionogion, fel y cyflawner y pethau hyn oll a orchymynasom gyda brys, a thrwy ein hynawsedd hefyd, fel y byddo i heddwch a daioni cyffredin gael eu cynnal a'u sicrhau i ni. Canys dilys yw mai trwy y moddion hyn y bydd i ni fwynhau ewyllys da a boddlonrwydd Duw yn wastadol. I'r dynen i

wneuthur yn hysbys y sefydliad hwn i bawb y perthyn iddynt, mae yn ofynol gwneuthur adysgrifau o hono, i'w hanfon i bob lle, a'u gosod i fynu yn y lleoedd mwyaf cyhoeddus, fel y darlleno pawb hwy, ac y gwybydder eu cynnwysiad gan ein deiliaid."*

Gwelir yma mai gofal blaenaf Cystenyn oedd, estyn a diogelu cyflawn ryddid i'r Cristionogion yn y cyhoeddiad uchod. Yn y gyfraith ddoeth, addas, a rhyfeddol hon, gwelwn nad oedd i'w ddeiliaid amherodrol gael eu drygu na'u haflonyddu yn y mesur lleiaf, pa beth bynag a fyddai eu crefydd; pa un bynag ai Paganiaid ai Cristionogion, nid oedd yn gwneuthur un gwahaniaeth; ond cai pob un ddewis ei grefydd, heb fod dan un anfantais o herwydd hyny. Nid oedd un trais na gorfod yn cael ei wneuthur ar gydwybod neb. Estynid diogelwch yn ddiwahaniaeth i bob un o ddeiliaid y llywodraeth amherodrol, heb un golwg ar broffes grefyddol y naill mwy na'r llall; ac ystyrid crefydd yn beth personol rhwng pob un a'i Greawdwr, heb allu gan y llywodraeth wladol ar hyny.

Y mae yr ysgrif uchod yn ddiamheuol yn cydnabod hawl a rhyddid dynolryw i farnu a dewis yn eu pethau crefyddol, heb fod yn gyfrifol i neb ar y ddaear am hyny; ac yn hyn, nid all lai na bod yn gynllun addas i frenhinoedd, amherawdwyr, a phawb ag sydd a wnelont â llywodraethu eraill, mewn amser diweddarol. Os ydoedd yr hawl a'r rhyddid a gydnabyddir uchod yn sylfaenedig ar gyfiawnder, ac yn ol rheol uniondeb, y mae yn canlyn yn anwadadwy fod yr oll a wnaed ac a wneir yn groes i hyny, pa un bynag ai gan Cystenyn, neu ryw rai eraill, yn drosedd eglur a chyhoeddus yn erbyn cyfiawnder. Yr oedd yn perthyn mewn modd uniongyrchol i Cystenyn, o fewn terfynau ei lywodraeth, i sicrhau cyflawn ryddid crefyddol i holl ddeiliaid ei amherodraeth, a rhoddi diogelwch i bersonau a meddiannau pob un o honynt, yn yr ymarferiad o'u pethau crefyddol—yn mhellach nid allai fyned, na neb arall yn ei sefyllfa ef, heb bechu yn erbyn Arglwydd cydwybod. Nid oedd efe etto, pan wnaeth y gyfraith uchod, wedi dysgu cyfyngu rhyddid, na threisio cydwybodau ei ddeiliaid; eithr gadewid hwy, fel y dylai pawb gael eu gadael, mewn meddiant cyflawn o'u rhyddid—eu braint natturiol.

Tra parhaodd Cystenyn a'i gyd-amherawdwr i lywodraethu yn ol yr egwyddorion crybwylledig, gellir barnu, yr *oedd y gosteg yn y nef*, sef yr eglwys, *megys dros hanner awr*,† y dywedir am dano yn llyfr y Dadguddiad, pryd yr oedd heddwch trwy yr holl amherodraeth. Ymddangosai Cystenyn fod arno ofal mawr am gynnal yr heddwch a'r tangnefedd yma yn mhlith ei holl ddeiliaid, dros amser, yn enwedig yn mysg y Cristionogion, pa rai a ddangosent lawer o wrth-weithrediad pan mewn meddiant cyflawn o bob rhyddid, fel y gwelir yn y llythyrau canlynol:—"Y rhai hyny a gyfeiliornant allan o'r iawn ffordd," medd ef, "ac a fwynhant freintiau heddwch a llonyddwch yn mhlith a chyda'r ffyddloniaid, a hyderwn y bydd adferiad y Cristionogion i'w breintiau, i fod yn foddion i'w hennill i uniawn ffordd y gwirioned. Eithr na fydded i neb dynion ofidio a drygu eu gilydd mewn dim; gwnaed pob un yr hyn a feddylio oreu: canys yn ddiau dylai y rhai sydd wir ddoethion fod yn hollol sicr yn eu meddyliau, er ymroddi yn gwbl i fywyd duwiol. A'r cyfryw rai ag a ysgogwyd o ran eu meddyliau gan Ysbryd Duw, a ddylent fod â'u holl hyfrydwch mewn darllen, er gwybod ei

* Brook's Hist. of Religious Liberty, vol. i. p. 22. † Dad. viii. 1.

ewyllys sanctaidd Ef. Hefyd, os yw eraill yn ymwrthod â, ac yn myned yn wirfoddol allan o, yr iawn ffordd, trwy ymlynu yn wirfoddol wrth synagogau ac athrawiaethau cyfeiliornus, nid oes ond eu gadael i wneud hyny, er eu perygl. Eithr am danom ni ein hunain, y mae genym y tŷ teilyngaf, sef cynnulleidfa gwirionedd y Duw byw, pa un a roddodd efe i ni o haelfrydedd ei nattur ddaionus; a hyn a ddymunem iddynt hwy oll, sef dyfod o honynt i gydgyfrannogi â ni, a theimlo yr un hyfrydwch meddwl. I ti, O Arglwydd galluoccaf, yr ydym yn diolch na buasai holl ddynolryw wedi eu distrywio, a bod dy drugareddau a'th hynawsedd yn ddadguddiedig i ni, trwy dy amryw ffyrdd a'th roddion haelionus cyfranedig i ni, ac hefyd yn nysgyblaeth gyhoeddedig dy air sanctaidd, i'r cyfryw sydd o nefol fryd, ac yn ymroddi i gyrhaeddyd gwir rinwedd. Eithr y cyfryw ag nad oes ganddynt ond ychydig barch na sylw o'r pethau hyn, na fydded iddynt feio eraill; o blegid y feddyginiaeth honno trwy ba un y mwynheir gwir iechyd, a gynnygir yn daer ac yn eglur i bob dyn. Gan hyny na fydded i neb gynnyg gwrthbrofi yr hyn y mae profiad yn dangos i eglurdeb sydd ddaionus. Na fydded i neb niweidio a drygu eu gilydd mewn dim, yn enwedig yn yr hyn y mae efe yn dybied sydd dda. Os trwy yr hyn a brofodd efe, ac a wyr sydd yn ei le, y meddylia efe y dichon iddo leshau ei gymmydog, gwnaed hyny; ac os metha gyrhaedd ei amcan, boed iddo ei adael hyd amser arall: *canys un peth yw fod dyn yn cofleidio crefydd yn ewyllysgar, a pheth arall ydyw ei fod yn cael ei yrru yn dreisiedig atti.*"

Mewn llythyr arall efe a ddywed,—"Ni a amddiffynwn yr eglwys a gwir grefydd; ac ni a ddymunem weled pawb yn dyfod yn gyfranog o'r un rhagorol freintiau, gan roddi derbyniad calonog a gwirfoddol i'r cynnygiadau cyffredinol o undeb a heddwch. Na fydded i un dyn, trwy yr hyn a farna efe gyda sicrwydd sydd uniawn a da, roddi tramgwydd i arall; ond yn hytrach bydded i'r hwn sydd ganddo wybodaeth a deall da ymdrechu addysgu ei gymmydog, a'i ddychwelyd trwy hyn: eithr os ni lwydda, gadawed ef yn llonydd: *canys y mae llawer o wahaniaeth rhwng fod dyn yn derbyn crefydd yn wirfoddol ac ewyllysgar, a bod gorfodaeth yn cael ei osod arno trwy ofn a chospedigaethau.*"*

Llawer o'r cyffelyb ymadroddion a allesid goffau allan o ysgrifau yr amherawdwr, ag a fyddai yn ddangosiad eglur o gywirdeb ei ddeall, ac uniondeb ei farn y pryd hwnw, yn nghylch hawl gyfiawn ei ddeiliaid i farnu drostynt eu hunain, mewn perthynas i'w hachosion ysbrydol, a dymunoldeb undeb a heddwch; ac mai yr unig foddion i ddwyn hyny yn mlaen mewn pethau crefyddol, ac amddiffyn yr eglwys a gwir grefydd, oedd, trwy ddysgu y bobloedd, ac nid trwy rym ac awdurdodau dynol, i osod gorfodaeth ar ddynion. Dedwydd a fuasai iddo ef ac i'r byd, a llwyddiant a harddwch a fuasai i'r eglwys, pe buasai efe, a phob swyddwr gwladol, yn aros ac yn gweithredu yn ol yr egwyddorion uchod.

Nid yw yn amlwg pa bryd y dechreuodd Cystenyn feddwl yn ddifrifol am Gristionogaeth, canys yr ydym yn cymmeryd yn ganiattaol ei fod wedi gwneuthur hyny, i raddau, ryw amser; o blegid ni allwn gredu yr awduron hyny a ddywedant mai twyll a hocced oedd ei holl ymddangosiad crefyddol, ac mai amcanu dwyn yn mlaen ei ddybenion gwladwriaethol oedd ei holl sêl grefyddol. Ni allwn gredu chwaith y rhai a ddywedant ei fod ef yn sant heb ei

* Brook's Hist. of Religious Liberty, vol. i. p. 35.

fath, fel y sylwn etto yn yr hanes canlynol. Priodola rhai ei ddychweliad i'r hyn a ddywed ei dad wrtho, am Dduw y Cristionogion, ar ei wely angeu; eraill a ddywedant, mai pan yr oedd efe yn arwain ei fyddin i gyfarfod â Maxentius, y dechreuodd ystyried yn sobr am bethau tragywyddol. Mae yn ddiau ei fod ef er yn ieuangc, yn meddu rhyw ogwyddiad at Gristionogaeth; a'i fod yn amhëus am briodoldeb yr amryw dduwiau Paganaidd; ac iddo fod yn edrychwr ar y ffiaidd a'r annynol gigydd-dra a'r galanasdra a wnai yr amherawdwyr Paganaidd ar y Cristionogion; ac iddo weled effeithiau dymunol ymddygiadau ei dad ar y wladwriaeth, mewn rhagoriaeth i'r lleill; a bod hyny wedi gwneuthur rhyw argraffiadau dwys ar ei feddyliau. Ni ellir ammau chwaith na bu y cyfyngder yr oedd ei feddwl ynddo, wrth wynebu Maxentius, yn foddion i ddeffroi ei ystyriaethau yn fwy difrifol am Dduw; canys yr oedd hyn yn egwyddor yn nghrêd yr holl Baganiaid, sef fod llywyddiaeth a llwyddiant y rhyfeloedd o dan olygiad a llywodraeth rhyw rai o'r duwiau anweledig: a phan oedd Cystenyn yn gweled ffolineb y duwiau Paganaidd, nid oedd yn annaturiol iddo ymofyn am Dduw y Cristionogion, yr hwn y dywedasai ei dad wrtho am dano, er ei amddiffyn yn nydd y frwydr.

Gwedi y fuddugoliaeth, daeth i gynnal cymdeithas â gweinidogion, ac i ymofyn yn ddyfalach am addysgiadau Cristionogol, ac i ddechreu sylwi ac ystyried yn ddifrifol am grefydd. Ond er iddo gynnyddu yn fawr yn ei sêl dros ryw bethau perthynol i deyrnas Dduw, a gwneuthur ei hun yn flaenor ac yn ben i'r eglwys, fel y dywedai yn fynych; ac er iddo wneuthur gweinidogion Cristionogol yn brif gyfeillion iddo, a bod yn blaenorí yn eu cymmanfaoedd, a gwneuthur o hono reolau a chyfreithiau, wrth ba rai y dylid, yn ol ei farn ef, ddwyn yn mlaen grefydd yn y byd, etto ni ellir edrych arno ef lawer gwell, dros ei oes, na Christion o fewn ychydig; canys nid ymostyngodd efe i'r ordinhad o fedydd, hyd o fewn ychydig ddyddiau i'w farwolaeth, pan ei bedyddied ef gan Eusebius o Nicomedia: ond y mae yn rhaid i ni wneuthur pob goddefiad, wrth ystyried yr amseroedd yr oedd efe yn byw ynddynt.

Mewn perthynas i'r arwydd a ddywed Eusebius, hanesydd ei fywyd, iddo weled yn yr awyr, ar lun croes, pan yn arwain ei fyddin tua Rhufain i gyfarfod ei wrthwynebwr Maxentius, y mae llawer o farnau, ac amheuaeth am y gwirionedd o honi. Dywed rhai mai mewn gweledigaeth nos y gwelodd efe hi; Eusebius a ddywed mai ganol dydd, a'i bod yn weledig i'r holl fyddin; a Milner a ddywed iddo ei gweled hi drachefn yr un modd, yn ei gwsg y noson honno. Ond eraill a amheuant yn hollol hanfodiad y cyfryw arwydd—eithr nid wyf yn gwybod paham y rhaid i neb fod mewn perygl o wadu geirwiredd y grefydd Gristionogol, wrth wadu hanfodiad yr arwydd hon, fel llawer o ffug-bethau ereill, a adroddir, hyd yn nod gan Eusebius, fel wedi cymmeryd lle yr oes honno, megys yr awgryma yr hanesydd efengylaidd Mr. Milner*—gwyddom nad yw y gwr da yn meddwl fod geirwiredd Cristionogaeth yn ymddibynu ar ryw ffug-arwyddion felly. Nid yw Eusebius ei hun yn adrodd am hon, fel pe buasai yn credu ei hanfodiad yn hollol, amgen paham yr oedd yn gosod y gwirionedd o honi i orphwys ar dystiolaeth Cystenyn yn unigol, a hithau wedi cael ei rhoddi, fel y dywedir, yn ngwydd miloedd lawer? a phaham yr oedd yn rhaid i'r amherawdwr

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 44.

fyned i'w lŵ yn ei chylch, pan yn ddiau yr oedd lluaws yn fyw o'r fyddin y pryd hwnw a'i gwelsai, os bu i'w gweled; onid oedd yma le i feddwl fod y peth yn amhëus? Yr oedd Cristionogion yr oes honno wedi myned yn hynod o goel-grefyddol, gyda golwg ar groesau, fel y mae llawer hyd heddyw. Yr oedd gosod i fynu y fath arwydd ar lumanau byddinol yr amherawdwr, yn un o'r moddion mwyaf tebyg i'w cefnogi a'u gwroli i ryfela yn ddewrach yn erbyn eu gelynion, pan yr oeddynt gan mwyaf yn Gristionogion, a'u gwrthwynebwyr yn Baganiaid; ac fel y gwnaid hyny yn fwy effeithiol, rhoddwyd allan eu bod wedi gweled arwydd o'r nef dros yr ymarferiad.*

Gwedi i Cystenyn a Licinius fod am rai blynyddau yn cyd-feddiannu yr orsedd, mewn heddwch, tawelwch, a chyd-weithrediad, dechreuodd yr olaf drachefn ar yr hen arfer o erlid y Cristionogion, trwy eu difreinio, eu bwrw ymaith o'u sefyllfaoedd, a gosod rhai o honynt i farwolaeth. Prisca, gwraig Dioclesian, a Valeria, ei merch, oedd fyw hyd ei amser ef; ac er iddynt hwy, i foddloni Dioclesian, wadu eu crefydd, trwy aberthu ar allor yr eilun, etto ni allasent fyw fel y Paganiaid; o herwydd hyny dyoddefasant oddi wrth yr amherawdwyr dilynol lawer iawn, ac o'r diwedd rhoddwyd hwy i farwolaeth trwy orchymyn Licinius. Trwyddo ef yr oedd Satan fel pe buasai unwaith yn rhagor am wneuthur ymegniad i godi i fynu ei deyrnas ddadfeiliedig ar ei hen egwyddorion drylliog Paganaidd. Cynhyrfodd hyn ryfel blin a gwaedlyd drachefn rhyngddo ef â Cystenyn. Yn y flwyddyn 325, dechreuodd hwn dorri allan yn y modd mwyaf erchyll o bob ochr.

Lucius oedd wedi ymgyssegru yn hollol i wasanaeth y duwiau; a defnyddiodd bob math o arferiadau Paganaidd a swyngyfaredd, yn nechreuad y rhyfel, gan feddwl rhoddi y pwngc o wirionedd yr efengyl i'w brofi trwy fin y cleddyf: ac yn yr ystyriaeth o hyn, casglodd fyddin luosog iawn, a'r rhai hyny oll yn Baganiaid. Gwedi eu cynhyrfu i'r graddau mwyaf gwaedwyllt, a'r gwroldeb mwyaf ffyrnigaidd, trwy yr addewidion sicraf, yn ol eu tyb hwy, y byddai i'w hachos gael ei osod unwaith yn rhagor yn ben ar y byd, ac y caent hwythau feddu holl gyfoeth y Cristionogion, os ennillent. Cystenyn yntau, o'r ochr arall, nid oedd yn mhell o fod o'r un golygiadau ar bethau, a wnaeth bob darpariadau trwy gasglu byddin, a'r rhai hyny oll yn Gristionogion mewn enw, wedi eu dwyn i'r teimladau mwyaf tanbaid, dan yr ystyriaeth o fod eu rhyddid, eu breintiau, a gwirionedd eu crefydd, yn ol eu tyb hwy, yn ymddibynu ar ennilliad y frwydr. Cyfarfu y byddinoedd—y brwydrau a fu yn boeth—y fuddugoliaeth yn amhëus am hir amser; ond o'r diwedd ennillwyd y dydd gan Cystenyn, a gorfu ar Licinius erfyn am ei fywyd.

Yn fuan wedi hyn bu brwydr arall rhyngddynt, pan y cymmerwyd Licinius yn garcharor yn Nicomedia, ac y gwasgarwyd ei holl fyddin. Ar ei addewid o ymostwng i fyw yn llonydd, mewn bywyd anghyoedd, ac ufuddhau fel deiliad, arbedwyd ei fywyd; eithr yn fuan efe a dorrodd ei addewid; ar hyn efe a roddwyd i farwolaeth, yn nghyd â Martina ei brif swyddog milwraidd, yr hwn oedd efe wedi ei wneuthur yn Cæsar. Erbyn hyn yr oedd yr holl amherodraeth yn meddiant Cystenyn Fawr, heb fod neb trwy y byd yn gyd-ymgeisydd âg ef am y llywodraeth yn yr holl ehang amherodraeth. Cymmerodd hyn le tua'r flwyddyn 325 o'r cyfrif cyffredin, ac yn

* Mosheim, vol. i. p. 324. a Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 382.

mhen dwy flynedd ar bymtheg ar hugain wedi ei rhaniad rhwng Dioclesian a Maximianus.*

Gwedi hyn ymroddodd Cystenyn i'r gwaith o adeiladu CAER-CYSTENYN, fel prif ddinas amherodrol, mewn coffadwriaeth am dano ei hun. Adeiladwyd hi ar gyfyngfor *Bosphorus*, ag sydd rhwng Môr y Canoldir a'r Môr Euxine, mewn gwlad dda odiaeth, lle yr oedd yr awyr yn hynod iachus, a'r lle mwyaf cyfleus at fasnach yn y byd, ac ar y terfyn rhwng Asia ac Europe: gelwid y ddinas oedd yno o'r blaen, Byzantium. Er gwneuthur y ddinas newydd hon yn enwog ac yn hardd, ni arbedwyd un traul, na dim cywreinrwydd celfyddydau a ellid eu cael yn yr oes honno; ac yspeiliwyd holl ddinasoedd yr amherodraeth o'u haddurniadau, er anrhydeddu hon, fel nad oedd dim yn eisiau, medd un, er ei gwneuthur yn ddinas fawr, ond callineb a rhinweddau gwladwyr cyntefig yr amherodraeth Rufeinaidd. Poblogwyd hi yn fuan gan ddynion o bob gradd a chenedl, allan o bob rhan o'r amherodraeth. Symmudodd Cystenyn ei lŷs a'i senedd amherodrol yno o Rufain, yn mhen o ddeutu dwy flynedd wedi ei hadeiladu.† Ymddengys y symmudiad hwn ar y cyntaf, yn un hollol wladol, ac fel pe bai yn ddygwyddiadol; ond a'i ystyried yn ngoleu prophwydoliaethol y gair, y mae o'r pwys mwyaf mewn hanesyddiaeth eglwysig, ac yn gyflawniad a gymmerodd le yn uniongyrchol o dan sylw rhagluniaeth ddiwyrni y nefoedd, er dygiad i ben un o ragddywediadau yr ysgrythyrau sanctaidd. "Y mae dirgelwch yr anwiredd," medd Paul, "yn gweithio eisioes; yn unig yr hwn sydd yr awrhon yn attal, a ettyl nes ei dynnu ymaith." Yr hyn a attaliai ddadguddiad y *dyn pechod*, yn nyddiau yr apostol, ac a attaliodd am hir amser wedi hyny, oedd, fod arosiad gorseddfaingc yr amherodraeth Baganaidd yn Rhufain, lle yr oedd y wraig a wisgid mewn ysgarlad i sylfaenu ei hamherodraeth. Ond yn awr, trwy fod yr orsedd amherodrol wedi ei symmud i Gaer-Cystenyn, gwnaed y ffordd yn rhydd i fab y golledigaeth gael ei ddadguddio yn mawredd ei nerth, yn y lle y rhagddywedwyd y cymmerai hyny le.

Nid yn unig gwnaeth Cystenyn y fath gyfnewidiadau hynod, yn y llywodraeth wladol, a symmudiad ei lŷs, ag oedd yn hwylusu gosodiad i fynu y gallu Pabaidd yn ei gyflawn lywodraeth, ond hefyd yn y newidiad a effeithiodd yn nhrefn a chyfansoddiad dysgyblaethol ac ymarferol yr eglwysi. Gwelsom ef, yn ei ddyfodiad cyntaf i'r amherodraeth, yn rhoddi allan gyhoeddiad o gyflawn ryddid, ac amddiffyniad i'w holl ddeiliaid, yn yr ymarferiad o'r grefydd a farnent hwy yn oreu iddynt, a'i fod yn golygu ei bod yn beth hollol anghysson â gwir grefydd, osod trais neu orfodiaeth ar feddyliau neb o honynt i fod o'r naill grefydd mwy na'r llall. Eithr wedi ei ddyfod yn gyflawn ac yn unigol feddiannydd yr orsedd, newidiodd ei lais a'i ymarferiadau yn hollol; *ymarddelwai ei fod i ofalu am yr holl eglwys*, a bod yr oll a berthynai i Gristionogaeth fod o dan ei olygiaeth a'i drefniad ef. Credwyd ac ymddiriedwyd iddo am y pethau hyn, gan y gweinidogion ag oedd yno y pryd hwnw; ac ymddygasant tu ag atto fel y cyfryw, trwy ymostwng i'w gyfreithiau eglwysig, a chyrchu atto am farn mewn pob achos o ddadl, nid am ei fod ef yn gallach na neb arall, ond o herwydd ei fod yn alluoccach. Fel y dangosai ei ofal a'i lywyddiaeth dros yr eglwys, efe a anfonodd allan gyhoeddiad annogaethol i bawb o'i ddeiliaid i dderbyn yr efengyl,

* Gibbon's Decline and Fall, vol. i. p. 263. † Ibid, vol. i. p. 263.

yn mha un y dangosai ei ofal diffuant dros y grefydd Gristionogol, a'i fod yn gwbl argyhoeddedig o waelder ac ynfydrwydd Paganiaeth.

Ped arosasai yr amherawdwr ar hyn yma, buasai ei egwyddorion rhyddid yn dysgleirio, ei gymmeriad yn ddigwmmwl, a'i enw yn perarogli, yn gymmwys i'w efelychu gan genhedlaethau mewn oesoedd dyfodol. Ond och! nid felly y bu. Pwy na alarai gan wir dristwch, wrth weled haulwen rhyddid crefyddol yn machludo dan gwmmwl, heb godi mwy mewn tair rhan o bedair o'n byd, am agos i un cant ar bymtheg o flynyddau! a'r Nefoedd yn unig a wyr pa bryd, a thrwy ba dymhestl ddychrynllyd, y gwasgerir y cymmylau, fel ag y byddo iddo belydru yn ei lewyrchiadau priodol ar y gwledydd.

Nid oes un peth yn fwy eglur mewn hanesyddiaeth, na darfod i Cystenyn gymmeryd holl lywodraeth yr eglwys i'w law, a gwneuthur cyfreithiau o unffurfiad, a gosod gorfodaeth ar ei holl ddeiliaid i fod o'r un grefydd â'r hon yr oedd efe ei hun yn gymmeradwyo, trwy orchymynion a chospedigaethau amherodrol. Gwnaethwyd y rhai hyn ar y cyntaf yn erbyn eilunaddolwyr, yn ol pa rai yr oedd eu haddoliad yn cael ei ddiddymu, eu hallorau eu dinystrio, eu delwau eu bwrw ymaith, eu temlau eu tynu i lawr, eu haberthau eu gwarafun iddynt, a'u meddiannau cyffredin eu cyssegru at wasanaeth yr Eglwys Gyffredinol *(Catholic Church.)*

Trwy wneuthuriad y cyfreithiau hyn, daeth y grefydd Gristionogol, yn grefydd o sefydliad gwladol, a'r eglwys i fod yn drefniad amherodrol, ymddibynol ar orsedd Rhufain, am ei hymddiffyniad, ei rheolau, ei hymarferiadau, a'i swyddogion; a phob ymadawiad oddi wrth y trefniad hwn i gael ei ystyried yn heresi, ac yn agored i gospedigaeth y gyfraith. Yma yr ydym yn gweled yr eglwys Gristionogol, os gellir ei galw felly, yn ei phedwaredd drefn a'i ffurf lywodraethol, er dyddiau yr apostolion, fel y sylwasom yn barod; sef yn gyntaf yn ei hanymddibyniaeth dechreuol; yn ail, yn henaduriaethol; yn drydydd, yn batriarchol; ac yn bedwerydd, yn wladwriaethol.

Ni amheuir gan neb ag sydd yn gwybod hanesyddiaeth eglwysig perthynol i'r amseroedd hyny, nad oedd llygredigaethau lawer mewn athrawiaeth, dysgyblaeth, ymarferiadau, a phob gosodiadau crefyddol, trwy eu bod wedi cludo defodau o blith Paganiaid ac Iuddewon i'r eglwysi, cyn dyfodiad Cystenyn; eithr nid oedd y pethau hyn mor gyffredinol, na'u heffeithiau mor dreiddgar a grymus i'w teimlo. Ond wedi cael deddf amherodrol i'w cefnogi, rhoddwyd bywyd, egni, a grym effeithiol, a lledaniad cyffredinol iddynt.

Gan ein bod yn dra sicr mai yr amherawdwr hwn a wnaeth gyfreithiau o unffurfiad gyntaf yn yr eglwys Gristionogol, y rhai a fuant yn achlysur o'r fath newidiad yn nghyfansoddiad yr eglwys, sef ei dwyn i fod yn un wladwriaethol, &c., a'r rhai a roddasant fodoliaeth gweledig i'r gallu Pabaidd gyntaf, er y pryd hwnw, yn llaw yr amherawdwr, ni phettrusir i roddi darnau o honynt ger bron y darllenydd. Nid ar unwaith yr ennynodd sêl yr amherawdwr gymmaint dros ei grefydd, ac y cynhyrfwyd ei ymdrechiadau dros unffurfiad eglwysig, ac y darfu i'w ormes-lywodraeth tu ag at eraill o wahanol farn iddo gael ei hamlygu; canys, am ryw gymmaint o amser, arferai ystyried y rhai a ymneillduent oddi wrth yr eglwys amherodrol, yn ynfydion, yn cael eu hudo gan ddichellion Satanaidd, ac edrychai arnynt yn fwy gwrthddrychau tosturi na chosp; "o herwydd," meddai, "y mae gofidio

drostynt yn dangos hynawsedd; eithr cospi dynion gorphwyllog a ddangosai ffolineb o'r mwyaf.

Pe arosassai yma, gwych a fuasai i'r eglwys a'r byd; eithr tua'r flwyddyn 330 o'r cyfrifiad cyffredin, a'r chwechfed ar hugain o'i deyrnasiad, gwnaeth y cyfreithiau canlynol, y rhai a anfonodd at ei raglawiaid i'w gosod mewn gweithrediad trwy amrywiol daleithiau yr amherodraeth:—

"Yr ydym ni yn trefnu ac yn gorchymyn, trwy y gyfraith hon, na byddo i neb o honoch, o hyn allan, feiddio cydgyfarfod, er eich perygl, mewn un lle, neu grefydd-dy anghyfreithlon, *(conventicle)* i ddybenion crefyddol, mewn modd dirgelaidd na chyhoeddus, yn amgen nag y mae yn sefydledig yn yr Eglwys Gyffredinol *(Catholic Church)*. O herwydd paham, gorchymynir genym, ar fod i bob lle yr arferid cynnal y cyfryw gynnulliadau ynddo, gael ei ddinystrio yn ddioed. A phwy bynag sydd yn gofalu am grefydd iachusol a gwirioneddol, yr ydym yn deisyf ac yn gorchymyn iddynt ddychwelyd i'r eglwys gyffredinol, ac ymgyfranogi o'i sancteiddrwydd hi. O blegid y mae yn gweddu i'r sefyllfa anrhydeddus a llwyddiannus y dyrchafwyd ni iddi gan ragluniaeth y nefoedd, i ni, ag sydd yn mwynhau rhagorfreintiau gwybodaeth a gobaith, ddychwelyd oddi wrth bob twyll a chyfeiliornadau, i'r iawn ffordd—o ddallineb i oleuni—o anwybodaeth i wybodaeth o'r gwirionedd—ac o farwolaeth i iachawdwriaeth. Fel y byddo ein rhaglawiaeth yn fwy effeithiol i ddwyn pawb oddi wrth bob ffordd gyfeiliornus, yr ydym yn gosod ac yn trefnu, trwy y gorchymyn hwn, ar fod i bob lle ag y mae addoliad crefyddol ynddo, *yn amgen i'r modd y mae yn yr eglwys gyffredinol*, gael ei ddistrywio yn ddiattreg, a bod i holl demlau yr hereticiaid gael eu tynnu i lawr yn ddiwrthwynebiad, a'u holl feddiannau cyffredin i'w hattafaelu a'u cyssegru at wasanaeth yr eglwys gyffredin. Yr ydym yn trefnu ac yn gorchymyn, na byddo, o'r dydd hwn allan, i neb o'r cyfryw gyfarfodydd, neu gynnulleidfaoedd anghyfreithlon, gael eu cynnal yn dddirgel nac yn gyhoeddus, yn unlle, o fewn taleithiau yr amherodraeth."*

Wrth gymharu y gyfraith hon â'r un flaenorol a wnaethai Cystenyn, yn nechreuad ei deyrnasiad, rhaid i ni ddywedyd—pa beth yw dyn! a pha fodd y tywyllodd yr aur! ac y newidiodd yr aur da! canys yma y gwelir ef, nid fel yn y dechreuad yn cyhoeddi cyflawn ryddid i'w holl ddeiliaid, ac amddiffyniad iddynt yn yr ymarferiad o'r grefydd a farnent yn addasaf, eithr mewn iaith chwyddedig yn bygwth y cospedigaethau trymaf ar bwy bynag a droseddo ei orchymynion, trwy ymneillduo oddi wrth ei sefydliad; megys y gwelwn yn yr hyn a ddywedodd yn fuan ar ol gwneuthuriad y gyfraith uchod. "Paham," meddai, gyda golwg ar y rhai a ymneillduent oddi wrth ei eglwys gyfansoddedig ef, "y bydd i ni gyd-ddwyn â'ch annuwioldeb chwi mwyach? Onid ydym wedi amlygu trwy ein gorchymyn, nad oes i neb o honoch gyfarfod â'ch gilydd yn y cyfryw leoedd, i ymarfer â'ch pethau crefyddol—nid ydych mwyach i feddiannu y lleoedd hyny yr arferech ymgyfarfod ynddynt.†"

Cyn y bydd i ni sylwi ar y ffeithiau yn mha rai y gwelir y cyfreithiau hyn mewn gweithrediad, sylwn ar eu tueddiad naturiol, a'r gormes a'r traws-lywodraeth a gynnwysant. Y mae yn eglur wrth y rhai hyn, fod Cystenyn, yn ei benboethni anoddefol, wedi gwneuthur ei hun yn ddinystriwr ac yn yspeiliwr meddiannau cyffredin ei ddeiliaid, os nid wedi myned

* Eusebius Constan. b. i. c. 38. † Ibid, b. x. ch. 5, 6.

mor bell â bod yn euog o gyssegr-ladrad, er y cymmeradwyir ef yn fawr yn hyn gan lawer, gan ddywedyd mai cymmeryd a wnaeth o eiddo yr Aiphtiaid i gyfoethogi Israel. Diau ei fod ef, yn ei waith yn rhoddi attaliadau ar un blaid grefyddol trwy ei gyfreithiau amherodrol, ac yn dyrchafu un arall trwy yr unrhyw awdurdod, yn ymosod yn erbyn gorsedd Crist, yn yspeilio ei ddeiliaid o'u breintiau a'u rhyddid cynhenid, yn dadymchwelyd yr eglwys o'i threfn a'i chyfansoddiad cyntefig, a'r symledd a berthynai iddi, yn y dadguddiad a roddir o honi yn yr efengyl, ac yn cenhedlu yn mhlith ei haelodau yr hyn a achosai yn anocheladwy falchder, cenfigen, amrysonau, ymraniadautu a phob rhyw nwydau drwg.

Analluadwy yw olrhain y canlyniadau annymunol a ddilynodd gyssylltiad Cristionogaeth â'r llywodraeth wladol, a gwneuthuriad y cyfreithiau uchod, yn mhob lle, ac yn mhob oes, yn mhlith y cynnulleidfaoedd Cristionogol. Heidiodd lluaws aneirif o ddynion cnawdol a llygredig i mewn i'r eglwysi, pa rai nid oeddynt yn y mesur lleiaf yn meddu ar gydwybodolrwydd tu ag at Dduw, nac yn argyhoeddedig o bechod a ffieidd-dra eilunaddoliaeth, nac yn meddwl gadael eu hymarferiadau blaenorol, nac yn meddu ar un teimlad na syniad cywir am bethau crefyddol; ond eu hunig ymdrech oedd boddhau yr amherawdwr, er cael eu dyrchafu ganddo i sefyllfa o barch ac elw yn y wladwriaeth a'r eglwys. Miloedd lawer o'r rhai hyn, ag oeddynt Gristionogion mewn enw, eithr yn hollol Baganiaid mewn egwyddorion ac ymarferiadau, a ddyrchafwyd i'r swyddau uchaf yn yr eglwysi. Canys trwy y cyfreithiau uchod, a'u cyffelyb, â chyssylltiad y llywodraeth wladol a'r un eglwysig â'u gilydd, dan unbenaeth amherawdwr Rhufain, daeth yr eglwys yn ymddibynol ar yr orsedd amherodrol am ei hamddiffyniad, ei threfniad, ei hathrawiaeth, ei dysgyblaeth, a'i gweinidogion; o blegid nid oedd neb yn swyddogion ond yn ol rheolau yr amherawdwr, a thrwy ei gymmeradwyaeth. Dyrchafwyd ei gweinidogion i'r sefyllfa uchaf yn y wladwriaeth; helaethwyd amryw o'r esgobaethau, ac anrhegwyd hwy âg amryw roddion gwerthfawr, fel y daethant yn wrthddrychau o ymorchestiad ac amryson i'r dynion mwyaf llygredig eu meddyliau, am eu meddiannu.* Treuliai amryw o'r gweinidogion eu hamser mwyach, nid i bregethu yr efengyl, ond yn llŷs yr amherawdwr, ac wrth ei fwrdd, yn ymgyfranogi o'i arlwyadau. Dywedodd un o honynt unwaith, pan wrth ei fwrdd, mewn gwledd amherodrol, na wyddai efe am un lle oedd yn debyg i hwnw ond y nefoedd! Fel hyn daethant i fod yn fwy ymddibynol ar yr amherawdwr nag ar eu cynnulleidfaoedd; a thrwy ei weniaith ef iddynt, efe a ddyrchafwyd ac a ddiogelwyd ar ei orsedd; felly trwy eu gweniaith hwythau iddo yntau, hwy a ddyrchafwyd ganddo i'r parch a'r cyfoeth mwyaf.

Ond cyn yr elom yn mhellach, y mae yn gweddu i ni arafu, a gofyn, Pwy a roddodd i Cystenyn y fath awdurdod, i newid trefn ac ymarferiadau yr eglwys? pa bryd, a chan bwy, y gwisgwyd ef â'r awdurdod lywodraethol hon yn eglwys Iesu Grist? Os rhoddodd Duw iddo y cyfryw awdurdod, rhaid fod rhyw brawf o hyny. A ydyw yr awdurdod o sefydlu crefydd i'w holl ddeiliaid, a'u cospi am anghydffurfio â'r sefydliad hwnw, yn perthynu i bob tywysog ac amherawdwr gwladol? ai ynte i ryw un mewn rhyw amgylchiad y mae? Y gofyniadau hyn ydynt o annhraethol bwys i bob dyn,

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 284—287.

yn enwedig i bob gwrthdystiwr; canys os oedd yr awdurdod hon wedi ei rhoddi gan Dduw i Cystenyn, ac felly yn perthyn yn gyfreithlon iddo, yr oedd pob anghydffurfiad â hi yn wrthryfel ac yn bechod; ond os nad oedd wedi ei rhoddi iddo gan Dduw, yr oedd Cystenyn, a phawb a'i hefelychant yn hyn, yn deyrnfradwyr yn erbyn Crist, yn ormeswyr, ac yn yspeilwyr dynion o'r fraint fwyaf a berthyn iddynt, a thrwy hyn yr ymddyrchafant yn uniawn i'r orsedd a berthyn i Dduw yn unig. Os oedd yr awdurdod hon yn gyfreithlon yn meddiant Cystenyn, paham nad oedd yr un mor gyfreithlon yn meddiant Justinian neu Phocas, yn y chwechfed neu'r seithfed canrif? Ac os cyfreithlon yn meddiant Justinian,* y mae yn ddiamheuol fod gan hwnw hawl gyfiawn i'w throsglwyddo i esgob Rhufain, yr hwn a wisgwyd gyntaf â'r awdurdod Babaidd. Nid yw Pabyddiaeth ddim yn amgen na'r gallu a'r awdurdod a ddechreuwyd ei arddelwi, a weinyddwyd gan Cystenyn (a phob un sy'n ei efelychu) a drosglwyddwyd gan Justinian i esgob Rhufain, ac a ddygwyd yn mlaen gan Babau Rhufain hyd heddyw; canys nid ydym i ddeall wrth Babyddiaeth yr hyn a berthyn i un dyn, neu radd o ddynion, mewn unrhyw le neu sefyllfa, *eithr ymarddelwad i awdurdod o osod a sefydlu crefydd i eraill—gwneuthur cyfreithiau i lywodraethu cydwybodau dynion, a'u rhwymo i gydffurfio â'r sefydliad hwn—yn nghyd â gweinyddiad cospedigaeth am anghydffurfiad â'r cyfryw.* Hyn sydd Babyddiaeth yn ei rym, yn anffaeledigrwydd mewn ymhoniad, ac yn erledigaeth yn ei egwyddorion, pa un bynag ai Cystenyn, neu ryw dywysog arall, neu esgob, neu rifedi o ddynion eraill, a fyddo yn ymwisgo yn hyn. Os caniattawn fod yr awdurdod hon yn gyfreithlon yn perthyn i Cystenyn, neu i unrhyw dywysog gwladol arall, y mae yn rhaid i ni yn ddiau ganiattau ei bod yn gyfreithlon yn perthyn i esgobion Rhufain o hyny hyd heddyw; yna y mae ein hymadlawiad â'r llywodraeth honno, yn wrthryfelgarwch, ac yn bechod yn erbyn y nefoedd. Ond os oedd yr awdurdod o sefydlu crefydd i'w ddeiliaid, a gofyn cydffurfiad â'r sefydliad hwn oddi wrthynt oll, a chospi dynion am anghydffurfio âg ef, yn perthyn i Cystenyn, am fod ganddo ddigon o allu fel amherawdwr i osod gorfodaeth ar bawb o'i ddeiliaid i gymmeryd i fynu ei grefydd ef, y mae yn rhaid ynte fod gan bawb yn y sefyllfa honno, yr un awdurdod ag oedd ganddo yntau; o blegid yn ol yr ymresymiad yma, y mae y rhai sy'n gydradd mewn llywodraeth wladol, yn gydradd mewn llywodraeth eglwysig hefyd. Felly ynte, yn ol hyn yma, yr oedd gwaith Galerius a Dioclesian, rhag-flaenoriaid Cystenyn, yn defnyddio eu hawdurdod i orchymyn i bawb ag oedd wedi ymadael â Phaganiaeth, a myned yn Gristionogion, i droi oddi wrth Gristionogaeth, a dyfod yn Baganiaid drachefn, o dan boen marwolaeth, os naccäent, yr un mor gyfreithlon â gwaith Cystenyn yn gorchymyn yr hyn a wnaeth yntau; o blegid mewn awdurdod fel llywodraethwyr gwladol, yr oeddynt yn gydradd. Os oedd Cystenyn yn gwneuthur yn ei le, pan ymarddelwai hawl i drefnu crefydd i'w ddeiliaid, a llywodraethu yr eglwys, ni allasent hwythau fod yn gwneuthur allan o le, pan yn ymarddelwi i'r un awdurdod.

Ni ettyb un dyben i ddywedyd eu bod hwy yn Baganiaid, a Chystenyn yn proffesu Cristionogaeth; canys ni wna hyn un mymryn o wahaniaeth

* Bernir genym mai Justinian, amherawdwr Rhufain, yn y flwyddyn 533, a roddodd esgobaeth gyffredinol i Ioan II. esgob, ac nid Phocas i Boniface, fel y bernir gan lawer; fel y sylwir etto.

rhwng eu hawdurdod hwy. Nid oedd fod Cystenyn yn Gristion yn helaethu dim ar ei lywodraeth ysbrydol, nac yn ehangu dim ar ei awdurdod ar grefydd; pa faint llai y dichon hyn roddi hawl iddo ef, na neb arall, i ddiddymu y drefn apostolaidd, a gosod un o'i eiddo ei hun i fynu yn ei lle! Pe gofynid, Pa beth a gyfansodda y gwahaniaeth rhwng tywysog Paganaidd a thywysog Cristionogaidd? Dim yn ddiau, ond fod un yn fedyddiedig, ac yn proffesu ymostyngiad i reolau yr efengyl. Ond a ddichon yr ordinhad hon, ar y broffes hyny, roddi mewn un modd, y mesur lleiaf o lywodraeth ysbrydol i'r cyfryw fyddo yn ymddarostwng iddynt? onid i'r gwrthwyneb yn hollol? Y mae y cyfryw gyfnewidiad yn arwyddo ufuddod, a chwbl ymostyngiad yn y cyfryw dywysog i gyfreithiau Crist a'i eglwys, i ba un y mae efe yn ewyllysgar yn ymroddi, ac nid awdurdod i arglwyddiaethu a gwneuthur cyfreithiau. O ganlyniad, ni ddichion hyn ei wneuthur ef yn fwy na bod yn aelod eglwysig, ac nid yn llywodraethwr ar eglwys Dduw. Dywedyd fod gan Cystenyn, neu ryw dywysog arall, hawl a meddiant o awdurdodau i drefnu trefniadau yr eglwys, ac i lywodraethu cydwybodau ei ddeiliaid, a gosod gorfodaeth arnynt i fod o'r grefydd hon neu arall, ydyw dywedyd fod erlid dynion o herwydd eu crefydd mor gyfreithlon â pheidio eu herlid. Trwy hyn yr ydys yn amddiffyn, pa un bynag ai cael eu herlid, eu distrywio, a'u haflonyddu, y byddai y Cristionogion, neu ynte eu gadael i weini eu dysgyblaeth, a chyflawni eu haddoliad eu hunain yn llonydd a dirwystr, ei fod yr un mewn uniondeb. Canys os ar awdurdod y tywysogion yr ymddibyna cyfreithlondeb crefydd y deiliaid, yna ewyllys a phleser eu llywodraethwyr yw rheol eu crefydd: felly, o ganlyniad, y mae y naill drefn o grefydda yn llawn mor gyfreithlon â'r llall; o blegid y mae y naill fel y llall yn ol ewyllys a phleser y tywysogion.

Diammau fod erledigaeth y Cristionogion yn amser yr amherawdwyr Paganaidd, yn llawn mor gyfreithlon ag oedd erlid unrhyw enwad o Gristionogion neu Baganiaid, yn amser Cystenyn; canys gosodai pob un o'r amherawdwyr eu hewyllysiau a'u pleser eu hunain i fynu fel rheol crefydd, a defnyddient eu hawdurdod amherodrol dros gydwybodau a barnau crefyddol eu deiliaid.

Os oes gan lywodraethwyr gwladol hawl i sefydlu crefydd i'w deiliaid, i rag-nodi pa beth sydd iddynt i gredu, pa ymarferiadau sydd i'w hymarfer yn eu crefyddol wasanaeth, a pha ddull y maent i addoli eu CREAWDWR, gofynir, I ba derfynau y maent i fyned? pa mor eang y mae eu rhaglawiaeth yn cyrhaedd? a pha mor helaeth y mae yr awdurdod hon wedi cael ei hymddiried iddynt? Os ewyllys penaeth gwladol yw rheol crefydd y deiliaid, a'i awdurdod ef yw eu rhwymyn a'u grym i ymarferiadau crefyddol, pwy a allasai feio ar Constantius pan drefnodd efe Ariaeth i fod yn grefydd i'r holl amherodraeth, a chospi dynion am neillduo oddi wrthi? neu Julian wedi hyny, pan osododd efe Baganiaeth drachefn i fynu i fod yn grefydd i'w ddeiliaid oll? neu Babau Rhufain, pan y trefnasant ugeiniau lawer o ddefodau gwael, i fod yn ymarferiadau eglwysaidd? canys ni ddarfu iddynt hwy oll ond defnyddio yr un awdurdod ag a ddywedir fod yn gyfreithlon gan Cystenyn a Theodosius, yn nghyd â llawer o dywysogion mewn oesoedd diweddarach; ac os cyfreithlon mewn rhai, paham nad yn y cwbl?

Gwelwn i ba fath ganlyniadau dychrynllyd ac afresymol y mae pleidwyr deddf buddioldeb, megys rheol crefydd, a phob sefydliad gwladol o honi,

yn rhwym o fyned, yn anocheladwy, er amddiffyn eu cyfundraith. Y mae pleidwyr pob sefydliad gwladol yn rhwym o gyfiawnhau eglwys Rhufain, yn ei holl sothach a'i chyfreithiau caeth, a gosod pob ymadawiad oddi wrthi, ac anghydffurfiad â'i chyfreithiau, yn wrthryfel ac yn bechod. Y maent yn rhwym anocheladwy i gyfreithloni pob erledigaeth a fu erioed oddi wrth unrhyw lywodraeth wladol ar grefydd, a gosod dyoddefwyr yn achos crefydd allan yn ddynion gwael, ynfyd, a gwrthryfelgar. A chyfreithlonant, yn ol eu hymresymiad hwy, y gwaelaf, yr afresymolaf, a'r mwyaf anysgrythyrol, o'r arferiadau a drefnir gan lywodraethwyr gwladol—a'r cyfryw i'w harfer, yn ol y dybiaeth hon fel pe buasent yn orchymynedig, gan Grist a'i apostolion!

Dangoswyd yn barod, tu hwnt i bob dadl, mai cynnulleidfaoedd anymddibynol oedd y drefn eglwysig a osododd yr apostolion i fynu, yr hon a barhaodd am lawer o flynyddau wedi hyny. Gofynir yn bresennol, Pa un ai y drefn honno, ai y drefn newydd a ddygwyd i mewn gan Cystenyn, ydyw y debyccaf i foddloni Duw, a'r addasaf, fel cynllun eglwysig i ni i'w harfer y dyddiau presennol? Os y drefn eglwysig a osodwyd i fynu gan yr apostolion ydyw rheol prawf, a'r cynllun cymhwysaf o eglwys, dymunir gofyn yn sobr i bob pleidiwr i, ac ymarferwr â'r drefn eglwysig o sefydliad gwladol, Pwy ydyw yr anghydffurfwyr? a phwy yn briodol a ellir alw yn *Sismaticiaid?* pa un ai y rhai sy'n byw yn ol egwyddorion yr eglwysi a sefydlwyd gan yr apostolion, ai y rhai sy'n byw yn ol egwyddorion yr eglwysi a sefydlwyd gan awdurdodau gwladol? Nid oes a ddichon fod yn eglurach, na'u bod yn hanfodol wahanol oddi wrth eu gilydd; canys pan y dygodd Cystenyn y drefn newydd honno i ymarferiad, gwnaeth agwedd newydd, hollol gyferbyniol i'r un ag oedd o'r blaen ar Gristionogaeth yn gyffredin. Nid yr ysgrythyrau mwyach oedd y rheolau wrth ba rai yr oeddynt i weithredu yn eu pethau eglwysig, ond canonau a gadarnheid gan yr amherawdwr—nid dwyfoldeb gwirioneddau dadguddiedig oedd mwyach yn rhwymo i ufudd-dod, ond awdurdod gorsedd Rhufain—ac nid gwrthddrychau ysbrydol oedd yr annogaethau a'r cymhelliadau mwyach mewn Cristionogaeth, eithr parch ac elw bydol, a dyrchafiad i uwch swyddau a sefyllfaoedd, a boddhad yr amherawdwr.

Gwedi i Cystenyn ddwyn yr eglwys yn ymddibynol arno ei hun, a'i gwneuthur yn greadur gwasanaethgar i'r llywodraeth wladol, efe a waddolodd amryw eglwysi yn helaeth, ac a ddangosodd ei haelioni yn fawr yn ei gyfraniadau o barch ac elw i'w gweinidogion, gan wneuthur amryw o bonynt yn llawer tebyccach i dywysogion y byd hwn nag i weinidogion Crist. Awdurdododd hwy i eistedd fel barnwyr, ac nid gweinidogion i wasanaethu trwy addysgu pobl eu gofal, ond i lywodraethu ar gydwybodau a ffydd rhai ereill, gan eu cadarnhau yn eu hysbryd bydol, balchaidd, cybyddlyd, traws-lywodraethol, a chenfigenllyd, yr hyn sydd yn mhob oes wedi bod yn ddinystriol i burdeb, heddwch, gwir ddedwyddyd, a llwyddiant teyrnas Iesu Grist.

Mor annhebyg oedd agwedd y gweinidogion, ac eraill a broffesent Gristionogaeth y dyddiau hyny, i'r ysbryd syml, hunan-ymwadol, a gostyngedig a ofyn yr efengyl, ac a ddadguddia fod yn feddiannol gan y Cristionogion cyntefig, pan yr oeddynt hwy yn ymroddi i uchel-gais, pleser, a chyfoeth y byd hwn, nes oedd y Paganiaid a'r annuwiaid yn sylwi ar eu hanghyssondeb, ac yn ymdramgwyddo wrtho! Ymdrechasant i ddwyn y drefn

newydd o eglwys i debygolrwydd a chyd-darawiad â'r drefn wladol, hyd ag y gallent, o hyny allan.

Yr amherawdwr a ymarddelwai i'r sefyllfa o fod yn benaeth yr esgobion; iddo ef y perthynai y gwaith o alw cymmanfaoedd, a blaenori ynddynt, i benderfynu achosion ffydd a dysgyblaeth eglwysig ei holl ddeiliaid. Yr esgobion cyffredin yn atteb i lywyddion dinasoedd—y patriarchiaid a ystyrid yn atteb i raglawiaid y taleithiau—yr archesgobion a edrychid arnynt fel perigloriaid yr amherawdwr; pob un o honynt yn llywodraethu rhyw dalaeth amherodrol. Mewn canlyniad i hyn yr ydym yn clywed am gadair a llŷs esgobaethol, ac am eglwysi cadeiriol, yr hyn oedd yn hollol ddyeithr i'r Cristionogion cyntefig; a gwnaethwyd i'r llysoedd hyn ganoniaid, prebendariaid, a dadleuwyr, fel y byddent cyn debycced ag oedd le i'r llysoedd amherodrol. Braidd y gellir meddwl am ddim yn anhebyccach i'w gilydd, na'r cyfansoddiad eglwysig o drefniad yr apostolion, a'r hwn a gyfansoddwyd gan Cystenyn, ond yn unig fod yr enw eglwys yn cael ei gymmwyso at y naill a'r llall.* "Na fydded i neb gymmysgu na thebygoli," medd Mosheim, "yr esgobion ag oedd yn oes auraidd yr eglwys, i'r rhai a ddarllenir am danynt yn yr oesoedd dyfodol. Er eu bod yn cael eu harwydd-nodi wrth yr un enw, etto y maent yn hollol wahanol mewn amryw ystyr. Yr esgobion yn y canrif cyntaf a'r ail o Gristionogaeth, nid oeddynt ond gweinidogion ag oedd yn gofalu—pob un am gynnulleidfa a allasai gael ei chynnwys mewn tŷ cyffredin. Yn y cynnulleidfaoedd hyn, gweinyddent, nid mewn modd tra-arglwyddiaethol ac awdurdodol, eithr mewn sêl a diwydrwydd, fel gweision ffyddlon. Felly hefyd y mae yr un gwahaniaeth hanfodol rhwng yr eglwysi cyntefig, o ran eu cyfansoddiad, i'r hyn y daethant i fod mewn amser dyfodol."† Mae yn wir ddigon y dywedai Cystenyn yn fynych, fod gofal yr holl eglwys wedi ei roddi iddo ef, a'i fod ef yn llywydd ac yn dad iddi; a'r gweinidogion ag oedd wedi eu dwyn i fod yn ymddibynol arno, a'i credent ac a'i cydnabyddent ef felly. Ond y mae yn aros heb ei atteb hyd heddyw, gan bwy, pa bryd, a thrwy ba weithred y rhoddwyd y gofal a'r awdurdod yma iddo ef, na neb o'i olynwyr? Haneswyr a phleidwyr y dybiaeth o fod llywodraethwyr gwladol, neu neb dynion mewn unrhyw sefyllfa yn meddu ar yr awdurdod hon yn eglwys Dduw, a ddylent yn ddiau ddwyn i'r amlwg yr ysgrif-fraint a fyddai yn brawf o'r trosglwyddiad hwn iddynt; ac hyd oni ddygont honno, bydded i ni ymachub rhag cael ein harwain trwy eu hamryfusedd a'u haeriadau disail i'r gwaethaf o gaethiwed.

Ni amheuir na bu Cystenyn yn offerynol i waredu yr eglwysi o grafangau y ddraig, a'u rhyddhau oddi wrth erledigaethau creulon yr amherawdwyr Paganaidd; ond y mae cyn sicred â hyny, iddo ddwyn yr eglwys i gaethiwed llawn mor beryglus, a gosod ynddi seiliau, a chasglu iddi ddefnyddiau erledigaethau, cyn boethed â neb rhai a ddyoddefasant oddi wrth yr amherawdwyr Paganaidd. Dygodd yr eglwys i'r fath amgylchiadau a chaethiwed, fel nad yw wedi dyfod yn rhydd hyd heddyw mewn tair rhan o'r ddaear; ac yn hyn efe a roddes gynllun, fel yr efelychir ef gan dywysogion y byd hwn, gan mwyaf, yn eu trawsfeddiant; a pho fwyaf crefyddol yr ymddangosant, mwyaf i gyd y tybiant yr hawl sydd ganddynt i lywodraethu

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. pp. 286—289. † Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 166.

yr eglwysi, a'u cadw mewn caethiwed. Yn newidiad trefn yr eglwys, yr hyn a effeithiodd efe, yr agorodd y dyfr-ddorau, fel y gorlifodd i mewn i'r eglwys bob defodau gwael a chnawdol, yn ol ewyllys tywysogion y ddaear; ac, yn y cyssylltiad a wnaeth rhyngddi a'r llywodraeth, gosododd hi yn anniwygiedig, heb ddinystrio y cyfansoddiad gwladol. Gwirionedd yw, fod yn yr eglwys, oedd y pryd hwnw wedi cael ei gwneud i fynu o'r fath ddefnyddiau gwael, gynnifer o ymarferiadau Paganaidd ac Iuddewaidd, mor wahanol yn eu nattur i'r hyn a drefnodd Crist, fel na safent heb gael cyfraith amherodrol i'w cynnal a'u hamddiffyn. Etto, trwy gymmhlethiad y rhai hyn â chyfreithiau ac achosion y wladwriaeth, y mae yn rhy anhawdd i ddiwygio y naill heb beryglu dinystr y llall; fel ag y mae dynion o gydwybod, wrth sefyll dros eu braint naturiol o farnu drostynt eu hunain mewn pethau crefyddol, ac ymdrechu symmud ymaith o'r eglwys yr hyn sydd yn aflewyrchu Cristionogaeth, yn gwneuthur eu hunain yn ngolwg eraill yn wrthwynebwyr i'r llywodraeth wladol.

Gweddai i ni sylwi ar gymmeriad crefyddol y personau a fu yn foddion i ddwyn y cyfnewidiad hwn oddi amgylch yn yr eglwys, er cael boddlonrwydd nad oedd y cyfryw newidiad yn tarddu o Dduw. Yr hanesydd Mr. Milner, yr hwn ni ellir meddwl ei fod yn y mesur lleiaf yn rhagfarnol yn erbyn y drefn hon, a ddywed,—"Ni allwn weled yn Cystenyn, nac yn yr esgobion ag oedd yn gyfeillion penaf iddo, nac yn ymddangosiad yr eglwys y dyddiau hyny, fawr o ysbryd gwir dduwiolder. Coeg-ymddangosiad chwyddedig, cynnyddfawr goelgrefydd, ffurfiau allanol o dduwioldeb, hollol ddiystyr, llawer o rith, ond ychydig o sylwedd, crefydd, oedd i'w weled yn mhob lle. Crefydd mewn ymddangosiad yn flodeuog, y mynachod a'r mynachdai yn mawr amlhau; ond ffydd, cariad, a nefol fryd, oedd yn mawr leihau. Etto gobeithir fod mwy o hyny yn mhlith dynion isel-radd a Christionogion anghyoedd, nag oedd yn y llysoedd, ac yn mhlith dynion a gyfrifir yn enwog. Yr athrawiaeth o ysbrydol a gwir ddychweliad at Dduw, ydoedd braidd wedi myned yn llwyr golledig; a'r athrawiaeth o gyfiawnhad pechadur trwy wir ffydd, ac ymarferiad o Grist croeshoeliedig, i esmwythau cydwybodau euog, oedd yn anhawdd i'w gweled na'u clywed yn eu plith y dyddiau hyny: eithr lluaws aneirif o ddefodau cnawdol oedd wedi cymmeryd eu lle, y rhai ni wnant ddynion yn saint mewn calon na bywyd. Yn ofer (medd ef) yr edrychir am wir grefydd, doethineb, ac uniondeb, mewn neb o ymddygiadau na llywodraeth eglwysig Cystenyn, na neb o'i deulu. Cystenyn, fel yr heneiddiodd, a gynnyddodd mewn trahausder, ac ymddygiadau beius a gorthrymus tu ag at ei deulu, ac yn ei lywodraeth tu ag at ei ddeiliaid, a chan fod yn fwy awyddus at ddefodau a choeg-ymddangosiadau crefyddol, yn nghyd â phob gwychder allanol."*

Ni ellir disgwyl fod y newidiad a ddygwyd i'r eglwys o dan lywyddiaeth, a thrwy effeithiad, y fath ddynion, o nattur sancteiddiol; etto pleidwyr y drefn o eglwys yn ol cyfansoddiad y llywodraeth wladol, y rhai a haerant fod gan flaenoriaid gwladol neu eglwysig hawl i newid ffurf yr eglwys, yn ol eu hewyllys, ydynt yn dilyn eu hesiampl. Mewn canlyniad i'r cyfnewidiad hwn yn yr eglwys, coel-grefydd a agorodd ei thrysorau, a dygodd allan ei ffug-bethau, yn lle pur a syml bethau yr efengyl; ac ysbryd o ymnewydd-deb a ymwylltiodd trwy yr holl amherodraeth, er cyrchu yr hyn

* Milner's Church Hist. vol. ii. pp. 47, 49, 66, 107.

a brydferthai addoliad Duw mewn harddwch allanol, yn rhagor i addoliad y Paganiaid. Ac mewn canlyniad i'r deddfau o unffurfiad a wnaeth Cystenyn, daeth, yn lle undeb, rwygiadau, yn llawer mwy lluosog, pwysig, a dychrynllyd. Megys y dywedodd Jortyn am hyn,—"Pan unwaith yr unwyd crefydd â'r llywodraeth wladol, ac y dygwyd hi i ymddibynu arni, a rhoddi cyfreithiau y wladwriaeth i warchod undeb yr eglwys, cynnyddodd dadleuon yn fwy poethlyd a niweidiol, ac ychwanegodd ymraniadau yn fwy nag erioed o'r blaen. Nid yw yn ddichonadwy, (medd ef) i un doethineb na gallu dynol, ac nid yw yn perthyn i neb geisio, ie, yn hytrach nid yw bosibl i ddim, na neb, attal hanfodiad gwahanol farnau yn mhlith dynion; gan fod hyny, yn anocheladwy, yn canlyn anmherffeithrwydd y nattur ddynol, a'u rhyddid naturiol." A'r hyn a ddywed Dr. Campbell ar hyn yma sydd deilwng o'n sylw, "Dynolryw," medd ef, "sydd wedi bod am hir amser yn cael allan—a rhy brin y maent etto wedi ei weled yn ddigon eglur—fod gwir grefydd yn blanhigyn llawer rhy dyner i'w faethu, a'i wneud yn dyfadwy, trwy offerynau geirwon awdurdodau bydol, a gosodiadau dynol. Boed i gyfreithiau y wladwriaeth attal drygioni a phob anghyfiawnder, ag sydd ddinystriol i heddwch a iawn drefn cymdeithas, rhwng dynion a'u gilydd—dyma eu priodol gylch. Ond na fydded iddynt ymhyraeth dim â chrefydd, trwy osod gorfodaeth a dir-wasgiad ar neb yn yr ymarferiad a'r cyflawniad o'u dyledswyddau crefydol. Y rhai hyn, oni byddant yn rhydd ac ewyllysgar aberthau, nid ydynt ddim, ie, y maent yn llawer gwaeth na dim. Trwy y fath gyssylltiad annaturiol rhwng crefydd a llywodraeth wladol, a chynnorthwy cam-farnol, rhagrith a choel-grefydd a ddichon gael eu dwyn yn mlaen yn ychwanegol; ond gwir dduwioldeb sydd yn methu ac yn dyoddef o herwydd hyny."*

* Campbell's Lect. on Eccl. Hist. vol. i. p. 73.

PENNOD XXI.

Lle y traethir am godiad i fynu y Donatiaid—Dechreuad Ariaeth—ei dygiad yn mlaen—casgliad a phenderfyniad Cymmanfa Nicea—alltudiaeth Arius a'i gyfeillion, a'u dychweliad yn ol—yr awdurdod a ymarddelwai Cystenyn Fawr dros yr Eglwys, a'i gyfryngoliaeth ar ran y Cristionogion, gyda Sapor brenin Persia—a'r modd y daeth un Esgob i gael llawer o Eglwysi dan ei ofal—yn nghyd â'r modd y daeth Henuriad i fod yn perthyn i bob plwyf, a llawer o Henuriaid ág un Esgob yn ben iddynt—Marwolaeth Cystenyn.

PAN oedd yr eglwys fel hyn wedi ei gwaredu oddi wrth ormes a chreulondeb y Paganiaid, yr oedd ynddi ei hun derfysgiadau ac ymraniadau tra chythryblus, fel y cafodd yr amherawdwr lawn cyfle i ddangos ei dalentau—yr awdurdod a ymhonai, a'i ddoethineb yn y gorchwyl a gymmerai arno, fel pen yr eglwys. Addefai, wedi hyn, iddo gael mwy o waith i'w wneud, a llawer trymach gorchwyl i fyned trwyddo, wrth orchfygu barnau ac ystyfnigrwydd dynion, a dwyn deddf unffurfiad crefyddol i gyflawn weithrediad yn mhlith ei ddeiliaid, nag a gafodd i ennill yr amherodraeth, mewn ystyr natturiol, o law Maxentius a'i wrthwynebwyr cedyrn. Ac achos da paham; o blegid ei fod yn ymwneud â'r hyn ni pherthynai iddo, a'r hyn oedd gymmaint allan o'i gyrhaedd â llywodraethu un o blanedau y nefoedd: a phob ymhyraeth a wnai efe â'r cyfryw achosion, nid oedd ond gwaethygu y clwyf, a chwanegu y rhwygiadau, fel y dangosir yn y pethau canlynol.

Yn amser erledigaeth Dioclesian a Galerius, gwnai yr erlidwyr bob ymdrechiad a manwl-chwiliad i gael gafael yn llyfrau y Cristionogion, er eu dwyn ymaith i'w llosgi. Ymddiriedai y Cristionogion y cyfryw lyfrau yn nghadwraeth eu blaenoriaid, gydag archiad difrifol na roddid hwy i fynu er dim: eithr eu ceidwaid a'u rhoddent i fynu yn aml, er mwyn diangc rhag y poenau mwyaf arteithiol, ïe, a rhag marwolaeth, trwy law yr ymofynwyr annhrugarog. Ystyrid hyn yn bechod mawr gan yr eglwysi yn gyffredinol; a bu yn achos o ddadleuaeth frwd yn eu plith mewn amser dyfodol; a galwyd y rhai a roddasent i fynu y llyfrau sanctaidd, yn fradychwyr, ac edrychid arnynt gyda chryn ddirmyg.

Tua'r flwyddyn 311, bu farw Mensurius, esgob Carthage; a dewiswyd, gan y rhan fwyaf o bobl a henuriaid yr eglwys, un Cæcilianus i lenwi ei le. Yn amser neillduad esgob Carthage, arferai gweinidogion Numidia fod yn bresennol; eithr yn neillduad Cæcilianus, darfu i ryw nifer o esgobion Affrica ymgyfarfod i'w neillduo i'w swydd; tra nad oedd neb o'u brodyr o Numidia yn wyddfodol, nac yn gwybod am hyny; yr hyn a roddodd iddynt dramgwydd nid bychan. Rhoddid hefyd yn erbyn uniawnder ei neillduad, fod rhai o'r cyfryw ag oedd â llaw yn y gorchwyl, yn enwedig Ffelix o Ap-

tungus, a flaenorai ar yr achos, yn fradychwr; ac o herwydd hyny, mai annichonadwy, i'w tyb hwy, oedd iddo gyfranu yr Ysbryd Glan i'r neillduedig. Ymgynnullodd tua deg-a-thriugain o esgobion Numidia i Carthage, i chwilio i mewn i'r achos, pan yr ymddygodd Cæcilianus tu ag attynt gyda llawer o ddiystyrwch. Eithr hwy a gefnogwyd yn eu tramgwydd a'u hymofyniad gan Botrius a Celesius, dau o henuriaid eglwys Carthage, a Lucila, gwraig hynod o gyfoethog ag oedd yno, yr hon oedd yn dra anfoddlon i'r dewisiad. Yn y diwedd, penderfynasant nad oedd ei ddewisiad na'i neillduad yn safadwy; diswyddasant ef, a neillduasant un Majorinus yn ei le, yn weinidog i'r eglwys, ac yn archesgob i'r dalaeth. Ond llawer o'r eglwys yn Carthage a ymlynasant wrth Cæcilianus. Fel hyn gwnaed rhwyg nid yn unig yn yr eglwys oedd yn Carthage, ond hefyd trwy yr holl eglwysi yn nhaleithiau Affrica; canys pleidiai llawer o bobl ac esgobion y naill a'r llall yn mhob lle. Ymgynnullai dwy eglwys wahanol wedi hyn yn Carthage, un dan ofal Cæcilianus, a'r llall dan ofal Majorinus.*

Yr olaf a fu farw yn lled fuan wedi ei neillduad, a daeth i'w le ef Donatus o Casæ Nigræ, un o flaenoriaid y blaid wrthwynebol i Cæcilianus; ac o herwydd ei ragoroldeb yn yr ymdrech hwn, gelwid yr holl blaid yn ol ei enw yn Ddonatiaid.†

Dyma ddechreuad y blaid enwog a lluosog honno a adwaenir wrth yr enw hwnw yn holl barthau Affrica, lle yr oedd Cristionogaeth, ac a barhaodd am dri chan mlynedd, tra y bu Cristionogaeth mewn unrhyw fodd yn y gwledydd hyny. Triniwyd yr achos hwn bum gwaith o fewn tair blynedd olynol, trwy orchymyn Cystenyn, er eu huno drachefn â'r eglwys a ystyrid yn gyffredinol. Dygwyd y ddadleuaeth ger bron dwy gymmanfa a gynnullwyd i'r dybenion hyny, un yn Arles, a'r llall yn Rhufain; a dywedir fod yr amherawdwr ei hun yn blaenori yn y flaenaf; ac, wedi hyny, anfonwyd Melchiades, esgob Rhufain, a thri o esgobion o Gaul, er chwilio i mewn i'r achos. Gwedi hyn rhoddodd yr amherawdwr yr achos i law Ælian, ei raglaw, a'i swyddwyr, i'w ystyried a'i ddwyn i benderfyniad heddychol: ac yn y diwedd efe a gymmerodd yr achos i'w law ei hun, a rhoddodd i'r pleidiau ymwrandawiad yn Milan. Yr oedd y penderfyniad bob tro yn erbyn y Donatiaid, ac o blaid uniondeb dewisiad a neillduad Cæcilianus: eithr nid oedd dim yn tyccio i ddwyn heddwch oddi amgylch, trwy uno y Donatiaid â'r hon a elwid yn eglwys gyffredinol.

Ymddengys hefyd iddynt gymmeryd achos newydd, yr hwn oedd yn gyfreithlonach sylfaen o'u hymneillduad oddi wrth yr eglwys gyffredinol nag oedd ganddynt yn y dechreuad,—sef, cyflym ymlithriad yr eglwys i bob dirywiad, yn ei chyssylltiad â'r llywodraeth wladol. Canys yn fuan wedi hyn cawn hwynt yn dywedyd—yn wyneb pob cynnygiadau a wnaid iddynt oddi wrth y llywodraeth i ymuno—"Pa beth sydd a wnelo yr amherawdwr â'r eglwys na'i hachosion?" Bryd arall dywedent—"Pa beth sydd a wnelo Cristionogion â brenhinoedd y byd hwn? ac a wnelo esgobion â llysoedd brenhinoedd ac achosion gwladwriaethol?"—pa rai ydynt ddywediadau synwyrlawn ac ardderchog, yn cynnwys y fath egwyddorion enwog, âg y buasai y byd a'r eglwysi yn llawer dedwyddach, ped eu hystyriasid ac y gweithredasid oddi arnynt er y dechreuad hyd yr awr hon.

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 403.

† Bernir gan rai haneswyr mai nid yr un person oedd Donatus o Casæ Nigræ, â Donatus Fawr o Carthage; yr hwn, meddylir, sydd gamsyniad; canys y maent yr un mewn tebygolrwydd ac amseriad.

Gwedi i Cystenyn fethu llwyddo i'w heddychu a'u huno â'r eglwys gyffredinol, trôdd yn elyn creulawn iddynt, gan alltudio amryw o'u hesgobion i Iliricum, ac amryw leoedd anial eraill; a bu yn achos o farwolaeth llawer o honynt. Eithr ymddengys i'r blaid hon barhau yn dra lluosog, er y cyfan, yn Affrica, am hir amser—tu allan i ba wlad nid yw yn amlwg iddynt wneuthur unrhyw ymegniad—canys yn y flwyddyn 411, cynnaliwyd cymmanfa nodedig, rhwng eu hesgobion hwy a rhai yr eglwys gyffredinol, yn Carthage, pan yr oedd yn bresennol o'r blaid hon 279, ac ond yn unig 286 o'r eglwys a ystyrid yn uniawn-gred wedi dyfod yn nghyd.* Ymddengys yr ystyrid hwy yn iachus yn holl byngciau y ffydd, oddi eithr eu hanghydffurfiad â'r eglwys gyffredinol, aelodau o ba un ni dderbynient i'w cymundeb heb eu hail-fedyddio; ond nid oeddynt mor llymdost yn eu dysgyblaeth yn mhob peth â'r Novatiaid. Hefyd, y mae yn amlwg fod llawer o ddynion da, o ddysg a doniau anghyffredin, yn eu mysg, o bryd i'w gilydd.

Er fod gwahanol olygiadau wedi bod yn y byd, bron er dechreuad Cristionogaeth, mewn perthynas i berson yr Arglwydd Iesu, etto nid effeithient ond ychydig, neu ddim, ar egwyddorion a heddwch yr eglwys a elwid yn gyffredinol, ac ni chaent un derbyniad ynddi. Eithr yr oedd eu golygiadau yn lled ysgrythyrol am wir a phriodol Dduwdod y bendigaid Gyfryngwr, yn gystal â'i wir a'i briodol ddyndod, hyd godiad i fynu ARIUS. Yr oedd Arius, o ran agwedd personol, yn brydferth; yn ddyn parchus; ac, o ran ei foesau, yn ennillgar; o ymddygiadau sobr a difrifol; yn mawr dueddu i ymddangosiad monachaidd, yr hyn a gyfrifid yn rhinwedd annhraethol y dyddiau hyny. Hefyd yr oedd yn ddyn cryf ei ddeall, ac yn meddu ar ddysg helaeth; yn un ffraeth a medrus mewn rhesymau, ac yn llawn cyfrwysdra. Mewn gair, yr oedd wedi ei gymhwyso gan nattur er cyflawni unrhyw orchwyl y tueddid ei feddyliau atto, gyda chryn raddau o enwogrwydd. Eithr yr oedd bob amser yn ddyn anesmwyth ac aflonydd yn yr eglwys.

Miletus, esgob yr eglwys yn Lycapolis, yn ngwlad yr Aipht, a ddiswyddwyd tua'r flwyddyn 306, gan Pedr, esgob esgobaeth Alexandria, yr hon a ystyrid y pryd hwnw yn un daleithiol, i ofalu dros rai eraill a berthynai i'r dalaeth. Ni wyddys yn sicr paham y diswyddwyd ef; dywed rhai iddo fod yn euog o arogldarthu ar allor yr eilunod, er achub ei fywyd, yn amser erledigaeth; eraill a ddywedant mai o blegid arfer gormod llymdoster tu ag at y gwrthgiliedig. Beth bynag am hyn, trowyd ef ymaith o'i eglwys, trwy awdurdod yr esgob taleithiol. Ond Miletus nid ymostyngodd i farn a dedryd ei arglwydd taleithiol, eithr a arosodd yn mhlith ei bobl, ac a osododd i fynu gynnulleidfa wahanol, ac ymarddelwodd yr hawl o drefnu achos ei gynnulleidfa, a neillduo ei swyddogion, yn anymddibynol ar Alexandria, yr hyn ni chaniatteid i neb eglwysi yn ngwlad yr Aipht y pryd hwnw. Yr ymraniad hwn a ymdaenodd yn lled helaeth yn y gwledydd hyny, a phleidiwyd ef gan amryw.† Arius, yn nechreuad hwn, oedd yn ddiacon yn eglwys Alexandria; eithr efe a ymadawodd ac a ymunodd â chymundeb Miletus, a phleidiodd ei achos yn wresog dros amser. Eithr yn amser Achilas, canlyniedydd Pedr yn Alexandria, derbyniwyd ef yn ol drachefn i gymundeb yr eglwys, a neillduwyd ef i'r swydd barchus o henuriad ynddi, a daeth i gymmeradwyaeth mawr gyda'r esgob.‡

* Jones's Hist. of the Christian Church, vol. i. pp. 389, 390.

† Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 384.

‡ Milner's Church Hist. vol. ii. p. 54.

Gwedi marwolaeth Achilas, llanwyd ei swydd gan un Alexander, yr hwn, ymddengys, oedd dra hoffus yn ei areithiau o osod allan ffrwyth ei feddyliau yn nghylch dull bodoliaeth yr undeb yn y Drindod, a thragywyddol genhedliad yr ail Berson. Arius, wrth ei glywed, a feddyliodd, os oedd y cenhedliad hwn yn Nuw yn hanfodol berthynol i berson y Mab, yna, o angenrheidrwydd, fod y Tad o flaen y Mab, a'r Mab yn îs na'r Tad; ac y rhaid fod rhyw yspaid o amser, mewn amgyffrediad, neu yn sylweddol, pryd nad oedd y Mab. Os cadarnheid y cyntaf, yr oedd yr ail yn canlyn yn natturiol, yn anocheladwy, yn ol ei farn ef. Nid gwiw, yn ei olwg ef, oedd dallu cyngor â geiriau heb wybodaeth, i geisio profi cydraddoldeb, cydfodoldeb, a chyd-dragywyddoldeb y Tad a'r Mab, tra y proffesent eu crêd fod tragywyddol genhedliad yn hanfodol i berson y Cyfryngwr.

Gwelir yma y perygl o fod dynion yn ymhyraeth â'r hyn ni fyddont yn ei ddeall, trwy osod i lawr osodiadau anneallus, a ddygai y fath ganlyniadau â'r rhai uchod, mewn modd cyhoeddus, yn ngwydd dynion meddylgar a chraffus fel Arius, a llawer sydd yn y byd etto. Pe buasai Alexander, a llawer heblaw efe, yn ymfoddloni ar dystiolaeth syml ac amlwg y gair am drefn y Drindod, yr hyn sydd uwchlaw deall dynol—yn lle ymwylltio ar faesydd dychymmyg, i chwilio allan ddull undeb y Duwdod, a phentyrru ymadroddion diles ac anysgrythyrol, pa rai, yn lle rhoddi goleuni ar y peth, oeddynt yn ei dywyllu—buasai mwy o undeb a heddwch yn yr eglwys hyd heddyw. Pe buasai Arius yntau yn gwadu y gosodiad ar unwaith, drwy ddywedyd nad oedd tragywyddol genhedliad yn hanfodol, nac yn berthynol, i berson yr Arglwydd Iesu, ond mai yn ei drefniad a'i osodiad fel swyddwr yr ydoedd, ac fel Cyfryngwr, ac mai nid fel person y cenhedlwyd ef, buasai ganddo well ac addasach sylfaen i'w gyfundraith. Ond och! nid gwiw siarad heddyw! caniaittaodd y gosodiad, amddiffynodd y canlyniadau hyd eithaf ei allu. Gwadodd ddwyfoldeb person yr Arglwydd Iesu Grist, ein Ceidwad. Haerodd nad oedd yn gyd-sylwedd, ac o gyd-dragywyddoldeb, â'r Tad; ond bod o ryw yspaid pan nad oedd efe mewn bod; ac nad oedd efe mewn perffaith gydraddoldeb â'r Tad, mewn pob mawredd dwyfol; ond mai rhyw un uwchlaw y creadur ardderchoccaf oedd, eithr islaw y Duwdod; ond fod yr enw Duw yn cael ei briodoli iddo, er mewn ystyr yn anmhriodol—mai trwyddo ef, fel offeryn, yr oedd Duw wedi gwneuthur pob peth, ac mai corph yn unig oedd gydag ef o'r nattur ddynol; eithr yn lle enaid, yr oedd y sylwedd hwnw a genhedlwyd o'r Tad, a elwid y Gair, yn bodoli.*

Dyma rai o brif egwyddorion Arius, a dechreuad y blaid honno a ddwg ei enw yn y byd hyd heddyw; yr hon yn ddiau a fu y blaid lucsoccaf yn y byd unwaith. Bu yn fflangell erwin i'r rhai uniawn-gred, ac yn dra gwaedlyd a dinystriol i ddynolryw. Nid wyf yn dywedyd hyn am fod yn nghyfundraith Ariaeth ryw beth yn fwy gwaedlyd a llofruddiog na rhyw gyfundraith crefyddol arall, ond o blegid iddi gael ei mynwesu gan y Gothiaid a'r Vandaliaid, y rhai oeddynt wrth natturiaeth felly, ac nad oedd ynddi hithau ddim i'w gwareiddio.

Dros amser, ymddygodd Alexander yn dyner ac yn esmwyth tu ag at Arius, gan ymdrechu ei argyhoeddi a'i ennill yn ol i'r uniawn ffydd, eithr yn ofer: canys cynnyddodd ei bleidwyr yn mhell ac agos; a thaenwyd y

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 55.

golygiadau cyfeiliornus yn gyflym trwy wahanol daleithiau. Gwedi hyn galwodd Alexander un neu ddau cynghorfa yn Alexandria, i drin yr achos; yn mha le y dedfrydwyd yr athrawiaeth fel yn un gyfeiliornus, ac y diswyddwyd ac y deolwyd Arius, yn nghyd â naw o'i gyfeillion, o'r eglwys. Creodd hyn drachefn gynnwrf a therfysg nid bychan, bron, trwy bob talaeth o'r dwyrein-fyd; ac efe a enciliodd wedi hyn tua gwlad Palestina. Oddi yno ysgrifenodd amryw o lythyrau at ei gyfeillion yn y naill fan a'r llall; yn mha rai yr achwyna o herwydd y camwedd a wnaethai Alexander a'i gyfeillion âg ef; ac ymdrecha amddiffyn ei olygiadau.* Yn ei lythyr at Eusebius o Nicomedia—yr hwn oedd ddyn mawr, eithr nid yn un o'r rhai goreu, ac yn meddu ar awdurdod helaeth yn yr eglwys—efe a gydnebydd Eusebius o Cæsarea, yr enwog hanesydd eglwysig gynt, Theodosius, Paulinus, Athanasius,† Gregory, ac Ætius, pa rai oeddynt oll yn esgobion mewn gwahanol fanau, yn bleidwyr i'w olygiadau, ac yn gyfeillion mynwesol iddo.‡

Pan ddaeth yr ymraniad i wybyddiaeth yr amherawdwr, efe a ymostyngodd i gyfryngoli rhwng y pleidiau, trwy geisio eu heddychu a'u tawelu, gan ysgrifenu llythyrau at bob un o'r ddau, ag oedd yn mlaenaf yn y ddadl, a'u hanfon attynt trwy law un Hosius, esgob Corduba, yr hwn oedd wr duwiol a doeth, ac a ymdrechodd ei orau i gyrhaeddydd yr un amcan â'r amherawdwr. Yn ei lythyrau, ymdrechai Cystenyn ddangos iddynt fod y ddadl yn hollol ddiachos ar y cyntaf, wedi tarddu oddi ar eu hanwyliadwriaeth hwy eill dau ar eu geiriau, a'u gwaith yn rhoddi y ffrwyn yn ormodol i gywreinrwydd eu deall, i gesio amgyffred yr hyn oedd yn anamgyffredadwy, er eu cyffroi i ddrwg ddadlau. Cynghorodd hwy i ymostwng y naill i'r llall, ac i adael eu hamryson, trwy ddangos yn ddifrifol iddynt pa mor anfuddiol oedd eu dadl i bawb, a chymmaint o niwaid yr oedd yn sicr o wneuthur i lawer. Er mor gyfaddas a rhesymol oedd cynghorion y tywysog, a chymmaint oedd o le i obeithio y buasai efe yn llwyddo i'w cymmodi, ac i ddwyn tawelwch i'r eglwysi, etto gwelwn nad felly y bu. Eu sêl bleidiol oedd erbyn hyn wedi rhedeg mor uchel, ac ystyfnigrwydd y naill a'r llall, fe allai, wedi myned yn ormodol i adael y pwngc yn llonydd, nac i fod yn ddistaw yn ei gylch, fel yr oedd y rhwyg yn myned yn fwy-fwy, a chwedi myned mor gyhoeddus, a bod y Paganiaid ar eu chwareu-leoedd yn dynwared y Cristionogion, ac yn eu gwatwor o'i herwydd. Pan welodd yr amherawdwr nad oedd dim a wnai efe yn bersonol yn tyccio, penderfynodd i alw cymmanfa gyffredinol o holl weinidogion yr eglwysi, trwy y byd, i Nicea, yn Bithynia, yn y flwyddyn 325, i ystyried y pethau hyn, ac amryw bethau eraill, perthynol i athrawiaeth a dysgyblaeth yr eglwysi. Yn ol gorchymyn yr amherawdwr, cyfarfu yn nghyd yn Nicea 318 o esgobion, o wahanol barthau y byd, ac yn nghylch yr un nifer o henuriaid a gwahanol swyddogion a chenhadau eraill oddi wrth yr eglwysi, fel yr oedd yno, i sicrwydd, o chwe i saith cant i gyd; ond bernir gan eraill fod yno lawer ychwaneg. Dygwyd hwy oll yno, a chynnaliwyd hwy tra buont yn y lle, ar draul yr amherawdwr, yr hwn oedd wedi ymroddi i fod yn llywydd i'r gymmanfa yn bersonol. Dyma y tro cyntaf y gwelwyd,

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 414.

† Nid yr un oedd hwn âg Athanasius o Alexandria, prif wrthwynebydd Arius.

‡ Milner's Church Hist. vol. ii. p. 57.

tyngasant i gyd oddi eithr dau, heblaw Arius. Yn uniawn wedi hyn, alltudiwyd Arius a'i ddau gyfaill, trwy awdurdod yr amherawdwr, i ryw oror bellenig yn Iliricum; ei ddysgyblion a nodwyd gan y gyfraith â gwaradwydd, fel y dynion gwaethaf, dan yr enw Porphyriaid,* ei ysgrifau a ddedfrydwyd i'w llosgi oll; a phwy bynag a gadwai un o honynt yn eu tai, eu bod, trwy hyny, yn eu gwneud eu hunain yn agored i ddyoddef marwolaeth.

Esgob Rhufain oedd y pryd hwnw yn llettya y fath feddyliau am ei uchafiaeth a'i bendod ar y byd Cristionogol, fel na ddeuai i un gymmanfa ag y gwyddai y byddai yr amherawdwr ynddi, rhag ofn na byddai iddo, o herwydd hyny, gael y flaenoriaeth yno; felly ni ddaeth efe i'r hon a gynnaliwyd yn Nicea. Eithr cyn gynted ag yr arwyddwyd y gyffes a'r rheolau yn Nicea, danfonodd yr amherawdwr hwy i Sylvester, esgob Rhufain, yr hwn yn y degfed cynghor ar hugain a gynnaliwyd yn Rhufain, lle yr oedd dau cant a thriugain a phymtheg o esgobion yn bresennol, a'u cadarnhaodd yn y geiriau canlynol:—"Cadarnheir genym â'n geneuau, yr hyn a drefnwyd yn Nicea, dinas yn Bithynia, gan dri chant a deunaw o esgobion sanctaidd, er daioni i'r eglwys apostolaidd a chyffredinol, yr hon yw mam y ffyddloniaid. Yr ydym yn cyhoeddi pawb yn *anathema* a feiddio ddywedyd yn erbyn, na gwrthwynebu, y cynghor mawr a sanctaidd cynnulliedig yn Nicea, ger bron y tywysog duwiolaf a pharchediccaf, yr amherawdwr Cystenyn." Yna yr holl esgobion a attebasant,—"A hyn oll yr ydym ni yn cydsynio."†

Ond ni attebodd y mesurau hyn, yn y gradd lleiaf, y dyben bwriadol; canys y terfysg a gynnyddodd, a'r amryson a ychwanegodd, ac Ariaeth a lwyddodd yn fwy nag erioed o'r blaen. Y Novatiaid a ystyrid yn iachus o ran eu golygiadau crefyddol, yn enwedig am athrawiaeth y Drindod, yr hon oedd prif destun cymmanfa Nicea. Gan hyny, Cystenyn a wahoddodd Ascesius, un o'u hesgobion, yno, yr hwn a gyd-eisteddai gyda'r esgobion eraill. Gofynwyd iddo gan yr amherawdwr, a oedd efe yn cydweled â'r pethau a sefydlwyd yno, dywedodd yntau ei fod, am nad oedd efe yn gallu gweled fod yno ddim, ond yr hyn oedd er dyddiau yr apostolion. Dywedodd Cystenyn wrtho,—"Paham yr ydych chwi yn ymadael â'r eglwys gyffredinol?" I hyn yr attebodd yntau,—"Am eu bod yn golygu nad oedd gan yr eglwys hawl i faddeu i wrthgilwyr." "Wel, tyred Ascesius," ebe yr amherawdwr, "cymmer dy ysgol, a dos i fynu i'r nef dy hunan." Terfynodd y gymmanfa y pummed dydd ar hugain o Awst, yn y flwyddyn 325. Gwedi hyn danfonodd yr amherawdwr yr esgobion, a'r cenhadau a ymostyngasant iddo, adref yn anrhydeddus, a chwedi eu hanrhegu â rhoddion

* Y Porphyriaid oeddynt ganlynwyr Porphyry, philosophydd Platonaidd, yr hwn yn y trydydd canrif a ysgrifenodd yn haerllug yn erbyn Cristionogaeth, ac a ddangosodd ei fod yn elyn o'r creulonaf i'r Cristionogion. Y llythyr a ysgrifenodd yr amherawdwr at holl esgobion yr eglwysi, a phobl ei amheredraeth, ar yr achos hwn, sydd fel y canlyn:—"Gan fod Arius wedi ymdebygoli cymmaint i ddynion drwg ac annuwiol, cyfiawnder ydyw iddo ef fod o dan yr un gwarth â hwythau. Porphyry, yr hwn oedd elyn duwioldeb, am iddo ysgrifenu llyfrau drygionus yn erbyn Cristionogaeth, a dderbyniodd addaliad dyledus, fel y mae mewn amser dyfodol ei enw yn warthus ac yn gorwedd dan lwyth o waradwyddiadau, trwy i'w waith gael ei losgi yn y tân; felly ein hewyllys yw, bod i'r Ariaid gael eu galw yn Borphyriaid, fel ag y byddo iddynt hwy, a ganlynasant yr un mesurau, gael eu hadnabod wrth yr un enw. Yn mhellach, ein hewyllys yw, os ceir unrhyw lyfr a wnaed gan Arius, mewn un lle, fod iddo gael ei daflu yn y tân i'w lwyr losgi, dyna ein gorchymyn, fel na byddo nid yn unig i'w athrawiaeth gyfeiliornus gael ei dyfetha, ond fod i bob cofia am dani ddarfod o'r byd. Gorchymynir hefyd genym, os bydd i neb o hyn allan gadw a chuddio un o'i lyfrau ef yn eu tai, heb ddwyn y cyfryw i'w losgi yn y tân, fod iddo ef, neu hwy, gael eu cospi â marwolaeth yn ddiarbed, a hyny cyn gynted ag y delir unrhyw berson neu bersonau yn euog o'r bai uchod."—*Jones's Hist. of the Christ. Church, vol.* i. *p.* 301.

† Ibid, p. 299.

gwerthfawr. A rhoddodd iddynt gynghorion dwys ac addas, i fod yn wyliadwrus, er dim, i gynnal undeb a heddwch yn eu plith eu hunain; ac os byddai i'r naill o honynt ragori ar y llall, am iddynt ochelyd bod yn genfigenllyd wrth eu gilydd—am iddynt fod yn ofalus rhag balchder a gormes tu ag at eu his-radd, ond bod iddynt eu cynnal a chyd-ymdeimlo â hwy yn wyneb eu gwendid;—yr hyn a ddengys yn eglur ei fod yn deall eu tueddiadau a'u hagwedd, a'r modd yr oedd y rhan fwyaf o lawer o honynt yn cael eu drwg-effeithio gan falchder, gormes, cenfigen, a chasineb tuag at eu gilydd.*

Yr oedd amryw o'r esgobion ag oedd yn y gymmanfa hon, yn anafus; rhai yn fyr o lygad, eraill o law, eraill o droed, neu drwyn; pan y dygai eraill nodau a chreithiau, mewn gwahanol ranau o'u cyrph, pa rai a wnaed arnynt trwy orchymyn Maximianus, a'r amherawdwyr creulawn blaenorol. Yn fuan ar ol y gymmanfa yn Nicea, sefydlodd yr amherawdwr, fod yr hyn a berthynai i lywodraeth yr eglwysi, ac achosion amhëus, i'w trin yn gyntaf ger bron yr esgob; ac os na therfynid hwy yno, eu bod i'w dwyn i gymmanfa, yr hon yr oedd efe, dros yr amser presennol, i'w chasglu ac i flaenori ynddi yn bersonol, neu trwy ddirprwywyr. A'r penderfyniad a wnaid yn un o'r llysoedd hyn, oedd i sefyll yn derfynol; a'r swyddogion gwladol oeddynt yn rhwym o'u cefnogi, ac i weinyddu cospedigaeth ar y beius.

Gwelir yn awr y frawdoliaeth esgobaethol wedi ei dyrchafu, a'i gwisgo â'r grym, y mawredd, a'r awdurdod dynol uchaf ar y ddaear, a holl anymddibyniaeth, rhyddid, ac awdurdod yr eglwysi cyntefig, wedi eu cwbl ddileu. Ymdrechodd yr esgobion o hyn allan i ymdebygoli yn eu llysoedd, yn eu dull o ddwyn pethau yn mlaen, i'r modd yr arferent wneuthur yn y llysoedd gwladol. Trefnasant fod ynddynt ganghellyddion, dirprwywyr, dadleuwyr, cyfreithwyr, rhingyllwyr, cofiaduron, &c. &c. pa swyddau ni chlybuwyd am danynt o'r blaen yn yr eglwysi.†

Gwedi alltudio Arius ac amryw o'i gyfeillion i wahanol barthau pellenig yr amherodraeth, a'i lwytho ef a'i ganlynwyr yn mhob lle â gwaradwyddiadau a drwg-enwau, a hyny yn ol archiad yr amherawdwr, a llawer o honynt i gael eu cospi yn galed; er hyny llwyddodd Ariaeth yn fawr, hyd yn nod yn nheulu Cystenyn. Constantia ei chwaer oedd yn wresog iawn dros y golygiadau hyny, yr hon a gadwai weinidog o'r gred honno yn gapelwr iddi; ac wrth farw, hi a'i gorchymynodd ef i ofal a sylw yr amherawdwr. Hwn, yn fuan wedi hyn, a ennillodd y fath wrandawiad gydag ef, fel ag y bu iddo lwyr argyhoeddi yr amherawdwr o anghyfiawnder y ddedryd oedd yn erbyn Arius a'i gyfeillion; a thrwy ei orchymyn dychwelwyd hwy yn ol o'u halltudiaeth, ac adferwyd hwy i gymmundeb yr eglwys, ac i barch a chymmeradwyaeth, a hyny cyn y flwyddyn 330.‡

Yn lled fuan ar ol cymmanfa Nicea, bu farw Alexander, patriarch Alexandria, yr hwn a ddymunodd cyn ei ymadawiad, ar fod i Athanasius y diacon, gael ei swydd a'i sefyllfa ar ei ol ef, er nad oedd ond ieuangc iawn. Tua'r amser hwnw dyrchafodd Cystenyn Gaer-Cystenyn i fod yn ddinas amherodrol a phatriarchol, i fwynhau yr un breintiau eglwysig â Rhufain, Alexandria, ac Antiochia. Gwedi dychwelyd o Arius, a chael derbyniad croesawgar

* Jones's Hist. of the Christ. Church, 300. † Dr. Campbell on Eccl. Hist. vol. i. p. 61.
‡ Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 418.

gan yr amherawdwr a'r cyffredinolrwydd o ddynion—canys meddyliai y bobl ei fod wedi dyoddef ar gam—gorchymynodd yr amherawdwr iddo gael ei dderbyn i gymmundeb, i'w swydd, a'i sefyllfa yn eglwys Alexandria; eithr Athanasius a'i gwrthsafodd ef yn y modd mwyaf diysgog. Cynhyrfodd hyn yr Ariaid i'r llid a'r casineb mwyaf tu ag atto; ac anhawdd yw dywedyd y castiau, y twyll, a'r ymdrechiadau a arferasant tu ag at iselhau ei gymmeriad gyda'r amherawdwr. Llwyddasant i gael ei achos ef i holiad yn Tyre, yn y flwyddyn 335, mewn cymmanfa, yn mha un y dedfrydwyd ef i alltudiaeth i dir Gaul, yr hyn a gadarnhaodd yr amherawdwr yn y modd anghyfiawnaf, ac ni ellir credu na wyddai efe mai o genfigen yn unig yr oeddynt yn gwneuthur hyn iddo. Diau nad yw holl ymddygiadau Athanasius yn amddiffynadwy, na'i ddull yn trin yr athrawiaeth ag oedd dan sylw yn ganmoladwy, eithr yr ydym yn rhwym o edrych ar ymddygiadau dichellgar ac erledigaethus yr Ariaid, a mawr anwadalwch Cystenyn, gyda'r ffieidd-dra mwyaf.* Er i Athanasius gael ei symmud oddi ar y ffordd, etto yr eglwys yn Alexandria, o ran ei gwrthwynebiad i Arius, oedd yn ansymmudadwy; gwrthodasant ei dderbyn ef i'w cymmundeb, nac i'w swydd yn eu plith, mewn un wedd, er iddynt, trwy hyny, groesi gorchymyn yr amherawdwr, a'i fawr anfoddloni.

Galwodd Cystenyn am Arius wedi hyn i ddyfod atto i Gaer-Cystenyn, a gorchymynodd i Alexander, ag oedd yn esgob yno y pryd hwnw, ei dderbyn. Alexander oedd ddyn gwanaidd, ni fedrai wrthsefyll gorchymyn yr amherawdwr, yn ol esiampl Athanasius a'r Alexandriaid; eithr dywedir ei fod yn gweddio yn barhaus am i'r Arglwydd ei waredu ef rhag y brofedigaeth, a'i fod yn hyderus y gwnai yr Arglwydd hyny ryw fodd. Ar y dydd pennodol, pan oedd Arius a lluaws o'i gyfeillion yn myned yn orfoleddus gyda rhwysgfawredd anghyffredin trwy heolydd Caer-Cystenyn, tua'r prif le addoliad yn y ddinas, i'w dderbyn yn gyhoeddus i gymmundeb yr eglwys, yn ddisymmwth daliodd poen afael yn ei amysgaroedd, ac efe a ymneillduodd i wasanaethu nattur, yn y fan; a dywedir i'w holl amysgaroedd redeg allan o'i gorph: felly bu farw Arius, yr hwn a fawr aflonyddodd y byd Cristionogol. Priodolir ei farwolaeth i farnedigaeth y nef gan rai, eithr gan eraill i wenwyn a ddywedir ei roddi iddo; ond meddylir fod achos ei farwolaeth yn anhysbys, ac yr erys y cwmmwl ar hyny hyd ddydd brawd, pan yr amlygir pob peth cuddiedig. Llwyddodd Ariaeth yn fawr wedi ei ymadawiad ef, a daeth yr Ariaid i fod yn ormesol iawn wedi hyn i'r Niceaid; canys felly y gelwid y rhai hyny a ymlynent wrth y gyffes a gymmeradwywyd yn Nicea.†

Nid yn unig dangosai Cystenyn ei ofal a'i amddiffyn i'r Cristionogion yn ei amherodraeth ëang ei hun, eithr efe a anfonodd lythyrau at Sapor brenin Persia, yr hwn a'u herlidiai hwy yn greulawn iawn yn ei deyrnas y pryd hwnw. Persia sydd deyrnas ëang iawn o'r tu dehau-ddwyrain i Assyria a Babilon, ei henw cyntefig oedd Elam. Nid yw yr hyn sydd yn dwyn yr enw yn awr, ond rhan o'r amherodraeth fawr a sylfaenwyd gynt gan Cyrus, yr hon a fu yn llywodraethu y rhan fwyaf o'r byd am o ddeutu

* Cymmaint oedd goruchafiaeth a llwyddiant yr Ariaid, fel yr ennillasant yr amherawdwr i alltudio Asclepius o Gaza. Eutropius o Adrianople, a'r hen batriarch Eustathius o Antiochia, a llawer eraill, heb un rheswm, ond eu bod yn wresog dros gyffes Nicea. Eustathius a fu farw yn ei alltudiaeth yn Philippi, a rhoddwyd ei esgobaeth ef i un o'r Ariaid.—*Milner's Church Hist. vol.* ii. *p.* 71—74.

† Milner's Church Hist. vol. ii. p. 77.

dau cant ac ugain mlynedd. Crefydd gynhenid y Persiaid oedd yn cael ei dwyn yn mlaen yn hollol yn ol barn a dysgeidiaeth y Magiaid, yn mhlith pa rai y tybient hwy fod holl drysorau gwybodaeth a doethineb crefyddol yn unig yn guddiedig. Ymarddelwai y rhai hyn eu bod wedi derbyn eu dysgeidiaeth grefyddol oddi wrth Abraham, tad y ffyddloniaid, i ba un y proffesent fod ganddynt barch mawr. Ar y cyntaf nid oedd ganddynt na delwau na themlau, nac allorau, ond credent fod un Duw; ac addolent y cyrph nefol, yn neillduol yr haul, a'r elfenau, yn enwedig yr elfen dân, yr hwn a gedwid yn nghynneu yn wastadol ganddynt yn eu lleoedd cyssegredig, pa rai a dybient fod yn ei gynnrychioli. Hwynt-hwy, o bawb o'r cenhedloedd Paganaidd, yn ddwyreiniol ac yn ddeheuol, oeddynt yn ddiau y lleiaf eu heilunaddoliaeth, a'r tebyccaf o bawb yn eu hegwyddorion a'u hymdrferiadau crefyddol, i'r Iuddewon. Y modd y daethant i fod felly, a briodolir i un Zoroaster, yr hwn a fu yn ddiwygiwr enwog yn eu mysg, ac yn sylfaenydd i'r blaid Fagiaidd. Y mae haneswyr yn amrywio yn eu golygiadau am amser bodoliad y diwygiwr hwn; rhai a farnant ei fod yn foreu iawn, tua'r flwyddyn 2900 o oes y byd; eraill a ddywedant mai tuag amser Cyrus yr oedd efe yn byw. Eithr Dr. Prideaux, i gyssoni y ddau olygiad uchod, a ddengys yn bur amlwg fod dau o'r enw, un er y cynfyd, a'r llall mewn amser diweddarach; a bod yr olaf wedi cymmeryd enw y cyntaf, ac adfywio ei egwyddorion; a thrwy hyny wneuthur llawer o ddiwygiad yn mhlith y Persiaid. Dywedir am y diweddaf, os nad oedd yn Iuddew ei hun, ei fod wedi bod yn gwasanaethu Daniel y prophwyd, yr hwn oedd mewn parch a chymmeradwyaeth mawr yn llŷs Persia, a'i fod yn gydnabyddus âg Ezeciel, ac âg ysgrythyrau yr Hen Destament. Proffesent eu crêd mewn un Duw Goruchaf, a bod y byd hwn dan lywodraeth dau o fodau eraill, un yn berffaith dda, a arwyddid gan y goleuni, a'r llall yn hollol ddrwg, a arwyddid gan y tywyllwch, ac y byddai holl ddynolryw yn dragywyddol druenus neu ddedwydd dan lywodraeth, a'u hymlyniad wrth, y naill a'r llall o'r îs-fodau hyn. Nid oeddynt yn hollol gydunol pa un ai creuedig neu digreuedig ydoedd yr îs-lywyddion hyn, eithr yn benderfynol yn eu golygiadau fod dynolryw yn wobrwyol neu yn dragywyddol gospadwy mewn byd arall, yn ol eu perthynas â'r rhai hyn. Gorphwysai holl ddirgelwch eu dysgeidiaeth grefyddol yn hollol gyda'r un genedl honno o'r dechreuad, a elwir y Magiaid; a meddiannai y rhai hyn gyflawn lywodraeth agos ar eu holl achosion gwladol a chrefyddol—yn debyg i fel yr oedd y Derwyddon gynt yn llywyddu y Brutaniaid. Nid yw yn eglur pa lwyddiant a gafodd Cristionogaeth yn eu mysg, eithr y mae yn amlwg fod yr efengyl wedi ei phregethu yno er amser yr apostolion, ac mai nid llawer a fu o erlid ar y Cristionogion hyd ddyfodiad Sapor i'r orsedd, tua'r ddeunawfed flwyddyn o'i deyrnasiad.†

Dywedir i'r erledigaeth hon gael ei dechreu trwy i'r Magiaid a'r Iuddewon ddwyn y brenin i gredu fod y Cristionogion yn bleidiol i'r Rhufeiniaid, a'u bod yn fradychus i achos y deyrnas. Pa mor bell y darfu i gyfryngdod Cystenyn lwyddo i'w hattal, sydd anhysbys; ond y mae yn amlwg fod y Cristionogion yno yn dyoddef yn erwin wedi ei farwolaeth ef, sef, hyd y flwyddyn 370, a bod crefydd yn ddadfeiliedig iawn yn y deyrnas honno,

* Rollin's Ancient Hist. vol. ii. p. 135. a Prid. Cennect. vol. i.

hyd oni lwyr ddilëwyd hi gan gyfeiliornadau Mahometanaidd, gan ba rai y gorchuddir y wlad annedwydd honno hyd heddyw.*

Y mae yn galw am ystyriaeth pob darllenydd meddylgar, i sylwi pa fodd y daeth un esgob i gael amryw o eglwysi neu gynnulleidfaoedd dan ei olygiaeth, a'r modd y daeth yr henuriaid i gael pob un ei eglwys neu ei blwyf dan ei ofal, yn nghyd â'r modd y daeth amryw o henuriaid i gydnabod un esgob yn ben iddynt: canys y mae yn eglur i bob hanesydd, ac wrth yr hyn a goffawyd yn barod, nad oedd pethau yn bod felly er y dechreuad. Pan blànwyd yr eglwysi Cristionogol gyntaf gan yr apostolion, yn y gwahanol wledydd, cymmerodd hyny le yn benaf yn y dinasoedd a'r prif leoedd, pan yr oedd etto y pentrefydd a'r gwledydd eang rhwng y dinasoedd hyn heb eu meddiannu. Yr apostolion, y mae lle i feddwl, a sefydlasant amryw o henuriaid yn mhob un o'r eglwysi; a thybir fod amrywiol ganghenau y gwaith, yn nghyd â'i fawredd, yn galw am hyny. Heblaw hyn hefyd, yr oedd y gwledydd ëang o amgylch y dinasoedd, lle yr oedd yr eglwysi wedi eu sefydlu, yn faesydd ag oedd yn galw am eu gweinidogaeth. Tua diwedd yr ail ganrif, fel y dangoswyd, darfu i'r henuriaid hyn roddi y blaenoriaeth gweinidogaethol, ar ryw gyfrifon, i un o honynt eu hunain, heb un uwch gradd mewn urddiad y pryd hwnw; a daeth hwn i'w alw, trwy arferiad a chydsyniad y cyffredin, yn esgob, yn fwy arferol na neb arall, o'r henuriaid. Yr henuriaid a arferent fyned allan i'r trefydd, y pentrefydd, a'r gwledydd o amgylch i'r dinasoedd, ar eu cylchoedd, i bregethu yr efengyl; a phan y llwyddid hwy i ddychwelyd eneidiau, byddai y dychweledigion yn ymuno â'r eglwys nesaf attynt, ac nid yn eglwys wahanol ar ei phen ei hun, ar yr hon egwyddor y gweithredai yr apostolion a'u cydoeswyr agos bob amser. Oddi eithr lle y byddai lluaws yn cael eu dwyn ar unwaith i gofleidio Cristionogaeth, ac mewn lleoedd pell oddi wrth unrhyw eglwys ag oedd wedi ei sefydlu yn barod, arferent ffurfio eglwys newydd, a'i gosod yn ei chyflawn drefn.

Y mae yn ddigon eglur yr arferai pob un o'r eglwysi sefydledig yn y dinasoedd, ymgyfarfod ar wahanol amgylchiadau, mewn gwahanol fanau, er dyddiau yr apostolion, etto yr oedd ganddynt ryw un man, lle yr ystyrient fod i'r holl eglwys gyfarfod â'u gilydd ynddo. Canys mewn amser erledigaeth, pan oedd eu rhif yn lled fawr a'r addoldai yn fychain ac anghyfleus, ac angenrheidrwydd am gyfarfod yn ddirgelaidd, rhag ofn yr erlidwyr, yn ol barn yr haneswyr mwyaf credadwy, arferai yr un eglwys gyfarfod er addoli Duw, a chael addysg grefyddol, mewn gwahanol leoedd, ar unrhyw amser, gyda un o'i henuriaid, neu ragor.† Nid oeddynt yn meddwl fod hyny yn dinystrio eu hundeb a'u perthynas eglwysig â'u gilydd, fel un eglwys, eithr cyfarfyddent â'u gilydd drachefn yn yr un lle, i ymarfer â'u pethau crefyddol, fel y byddai cyfleusdra. Y mae yn bur amlwg nad oedd ond un eglwys yn mhrif ddinasoedd y byd dros y tri chanrif cyntaf, megys Rhufain, Alexandria, Antiochia, &c., er fod aelodau y rhai hyn yn dra lluosog, rai gweithiau, a rhai o honynt yn dyfod hefyd o ffordd bell iawn. Eithr cymmaint oedd eu golwg ar undeb, a'r arswyd a fyddai arnynt rhag dim a fyddai yn debyg i achosi ymraniad rhwng y rhai hyny a ddechreuasent mewn undeb eglwysig, fel os methai rhan o'r eglwys gyfarfod â'i gilydd

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 341.
† Dr. Owen's Enquiry, pp. 360, 361, a Dr. Campbell's Lect. on Eccl. Hist. vol. i. p. 254.

wrth fwrdd cymundeb, arferai yr esgob dorri y bara a chyfranu yr elfenau, mewn un lle, a'u hanfon hwynt felly gyda'r diacon a'r henuriad i'r rhai a fyddent yn absennol, fel na byddai gan yr eglwys ond un allor ac un bara. Er fod yn yr eglwysi luaws o henuriaid, ac er fod y rhai hyn yn arfer cynnal moddion crefyddol gyda rhannu o'r eglwys, mewn gwahanol fanau, etto er mwyn cynnal undeb, nid oedd un o honynt yn perthyn i un o'r lleoedd hyny yn fwy na'i gilydd; eithr gweinyddent y lleoedd hyn ar gylch; ac ni fynent er dim ymadael â'r dybiaeth mai un esgob, un bara, ac un bwrdd, oedd i bob eglwys, a phawb i fod yn nglŷn â honno.* Diau y dichon fod modd i fyned dros y terfyn, i eithafoedd anmhriodol, o'r ochr honno; ac nid yw yn annhebyg iddynt hwy gael eu llywodraethu y pryd hwnw gan egwyddorion, a'u cymhell gan resymau, annheilwng o Gristionogaeth, i gynnal y fath undeb, a bod eu hymddygiadau wedi bod yn ddinystriol iawn i drefn efengylaidd yr eglwys trwy hyny. Y mae hefyd yn berygl i fyned i eithafoedd o'r ochr arall, sef trwy fod cynnulleidfaoedd yn ymranu i gyn lleied rhif, nes byddont yn hollol wanychu eu hunain, yn methu atteb dybenion eglwysig, ac felly yn ddinystriol iddynt eu hunain.

Er cymmaint y llwyddiant a fu ar weinidogaeth yr apostolion, a'r chwanegiad beunyddiol a fu ar yr eglwysi dros y tri chanrif cyntaf, etto nid oedd rhifedi y Cristionogion, o herwydd y difrod parhaus a wneid arnynt trwy erledigaethau, ddim i'w gymharu âg eiddo yr Iuddewon a'r Cenhedloedd nad oeddynt felly, trwy y taleithiau cyffredin. Gwedi cael caniattad, adeiladent eu haddoldai yn y dinasoedd poblog, yn hynod helaeth, a rhai o honynt yn wych iawn; canys yr oeddynt o'r farn yn gyffredin nad oedd ond un eglwys i fod yn mhob dinas, a honno i ymgynnull yn yr un lle; ac ni feddylient am ymwahanu yn gynnulleidfaoedd ymneillduedig. Yn y trydydd canrif, dechreuodd yr eglwys yn Alexandria adeiladu lleoedd addoliad yn y maesdrefi o amgylch y ddinas, yn mha rai yr ymgyfarfyddai rhanau o'r eglwys; ond nid ystyrient hwy yn eglwysi gwahanol, eithr yn fath o gapeli anwes *(Chapels of Ease;)* a'r arferiad a ymdaenodd oddi yma yn lled fuan trwy eglwysi eraill. Eithr dros amser wedi hyny, nid oedd neb henuriaid yn perthynu i un o'r rhai hyn, ond gwasanaethid hwy gan y sawl a anfonid yno gan yr esgob a'r eglwys.† Ond yn raddol deuwyd i neillduo henuriaid yn mhob un o'r lleoedd hyny, a daeth yr hwn a ystyrid yn esgob i fod yn arolygwr drostynt oll. Trwy hyn daeth efe, yn lle bod yn fugail i un gynnulleidfa, yn ol y cyfansoddiad dechreuol, i fod yn olygwr dros weinidogion, neu henuriaid eraill. Daeth y lleoedd hyny yr oedd addoliad ynddynt yn y dinasoedd, ar ba rai yr ymddibynai y lleill, i gael eu galw yn eglwysi cadeiriol, am mai yma yr oedd llŷs a gorsedd yr esgob, yn nghyd â maingc yr henaduriaid; a'r hyn oedd o dan ofal pob un o'r henuriaid, a elwid yn blwyfau, a'r holl blwyfau yn eu cyssylltiad â'u gilydd, yn esgobaeth, neu weithiau yn eglwys. Gan fod amryw o'r henuriaid yn byw yn mhell oddi wrth yr eglwys gadeiriol, yn mha le y gweinyddai yr esgob, ac y trinid cyfreithiau a dysgyblaeth, rhaid oedd cael henaduriaeth yn yr eglwys gadeiriol. I'r dyben hwn, rhaid oedd trefnu rhyw rif o henaduriaid i'r eglwys gadeiriol, i fod yno, gerllaw i'r esgob, pa rai a enwid yn *ganonau*, neu *ganonwyr*, ac yn eu swydd gyssegredig a ystyrid yn *senedd eglwysig*.

Fel hyn, o radd i radd, daeth hollol newidiad i drefn pethau, ac yn eg-

* Dr. Campbell's Lect. on Eccl. Hist. p. 258. † Ibid, 259.

wyddorion yr eglwysi a'u dysgyblaeth. Yr oedd y newidiad hwn wedi dechreu tua chanol y trydydd canrif, eithr ni chwblhawyd ef nes y gwnaeth Cystenyn yr eglwys Gristionogol yn un amherodrol. Dywed Burns, yn ei gasgliad o gyfreithiau eglwysig—yr hwn sydd awdwr, mae yn debyg, nad amheüir—fel hyn:—"Nid oedd y gofalon eglwysig yn cael eu rhanu yn wahanol blwyfau, fel y maent yn bresennol yn Lloegr, ar y dechreuad; eithr yr oedd yr esgobion a'r henuriaid gyda'u gilydd, yn gyffredin; ac yn flaenorol i luosogiad y Cristionogion i rifedi mawr, yr esgobion a anfonent allan rai o'r henuriaid i bregethu yr efengyl, ar eu cylchoedd, fel y byddai anghenrhaid. Ond wedi dyfod yr amherodraeth yn Gristionogaidd, ac i'r bobl yn gyffredin ddyfod felly, gwelsant yr anghyfleusdra o ymdeithio fel hyn o fan i fan, o herwydd y mynych a'r parhaus ddyledswyddau oedd i'w cyflawni; ac hefyd fel y gwyddai y bobl at bwy yr oeddynt i fyned er ymofyn am gyfarwyddiadau a chymhorth crefyddol, gwelwyd yr angenrheidrwydd o osod rhanau terfynedig i'r gofalon plwyfol—a hyny a wnaid gyntaf yn Lloegr, gan yr esgobion a fu yma yn dychwelyd y Saxoniaid."* Gwedi i'r cyfnewidiadau hyn gymmeryd lle, ni welir mwyach esgob i un eglwys, i un plwyf, i un allor, i un bwrdd cymundeb, ac i un bedydd-fan—pa enwau oeddynt yn golygu yr un peth yn ysgrifau yr hynafiaid, yn flaenorol i'r amser dan ein sylw, ac wrth y rhai y golygid gofal yr esgobion—eithr o hyn allan, gwelwn fod talaeth dan olygiaeth pob un o honynt, a lluaws o henuriaid dan ei awdurdod, ac mewn hollol ymddibyniad arno yn gweinyddu eu swyddi. Tra-dyrchafwyd yr esgobion, trwy y drefn hon, mewn awdurdod, a helaethwyd eu cyfoeth, ond lleihawyd eu gwaith a'u gwasanaeth; canys nid oeddynt yn weinidogion i unrhyw gynnulleidfa, nac i ymboeni yn y gair a'r athrawiaeth mwy, nac i ofalu am yr holl braidd, ond yn benaf i arolygu dros, a llywodraethu yr henuriaid.† Trwy gyfreithiau cymmanfaol, wedi eu cadarnhau gan yr awdurdod amherodrol, dinystriwyd y drefn henaduriaethol o ddysgyblaeth eglwysig, fel mai braidd yr oedd ei lliw i'w gweled cyn hanner y pedwerydd canrif; eithr am drefn anymddibynol yr eglwysi cyntefig, yr ydoedd wedi ei hollol ddileu, gan fod y llywodraeth yn gwbl wedi ei rhoddi i law yr esgob, a nifer o'i gyfeillion, a elwid yn senedd eglwysig, i'w gweinyddu.

Pan oedd yr holl amherodraeth wedi dyfod i ymgyfenwi yn Gristionogaidd, a chwanegu yr eglwysi, trwy orchymyn yr amherawdwr, a dyfod o ddynion yn aelodau eglwysig trwy enedigaeth natturiol—ac nid fel cynt, yn dyfod felly trwy argyhoeddiad a genedigaeth oddi uchod—daeth angenrheidrwydd i helaethu y tai addoliad, yn y dinasoedd, y trefydd, a'r gwledydd o amgylch, ac i chwanegu llawer iawn at eu rhifedi. O herwydd y mawr angenrheidrwydd am y cyfryw leoedd, pan oedd pob lle addoliad arall wedi ei gau, trwy orchymyn yr amherawdwr, ar nad oedd yn perthynu i'r eglwys gyffredinol, daeth amryw foneddwyr i adeiladu lleoedd addoliad; ac, wedi dosparthu y wlad yn blwyfau, yr oedd y cyfryw le yn mherchenogaeth yr adeiladydd, i'w roi i'r neb a fynai i weini ynddo. Oddi wrth hyn yma, y deuodd fod gan wyr lleyg dadogaeth *(lay patronage)* ag sydd mewn rhai eglwysi hyd heddyw. Etto yr oedd y rhai hyn oll ag oedd o'r iawn grêd, yn cael eu dwyn i berthynas â'r eglwys gyffredinol, trwy

* Y mae yn dra sicr, mai yn debyg i'r modd ag yr oedd yn Lloegr yr oedd pethau yn bod trwy y gwledydd yn gyffredin, er y dichon fod cyfnewidiad mewn rhai gwledydd yn gynt nag yn Lloegr.

† Dr. Campbell's Lect. on Eccl. Hist. vol. i. p. 262—264.

fod yr henuriaid gweinidogaethol yn cael eu rhoddi ynddynt o dan olygiaeth yr esgob nesaf attynt. Fel y sicrheid ymddibyniaeth yr henuriaid gweinidogaethol yn fwy ar yr esgobion, ac o dan eu hawdurdod, gwnaed cyfraith eglwysig, pa un a gadarnhawyd gan y llywodraeth wladol, mai hwy yn unig oedd i ordeinio i swyddau eglwysig, a chadarnhau eraill *(confirming,)* ac mai gyda hwy yn bersonol, neu yn gymmanfaol, y gorphwysai y llywodraeth eglwysig. Trwy y drefn newydd hon, gosodwyd yr esgobion a'r bobl ar wahân, trwy godi y blaenaf gymmaint uwchlaw yr olaf, a'u gosod mewn sefyllfa, fel nad oedd a wnelent hwy â'r bobl!

Gwedi i'r esgobaethau gael eu rhanu yn blwyfau, yn ol ewyllys y llywodraeth wladol, a gosod tua hanner cant neu ragor o honynt fel yn ymddibynol ar un eglwys gadeiriol, nid oedd modd fod dim a wnelai y bobl, yn gynnulliedig nac yn gynnrychioledig, âg achosion eglwysig. Yr unig ymddangosiad a welir dros ychydig yn yr eglwys o'i threfn gyntefig, wedi ei gwneuthur yn un amherodrol, oedd, ymgynnulliad lluaws o bobl afreolaidd yn nghyd pan y byddid yn dewis esgob. Ond yr ymgynnulliad hwn oedd yn hollol annhebyg i un a fyddai i ddybenion eglwysig, trwy fod y werinos yn dyfod yn nghyd yn llawn terfysg a thwrw; a thywallt gwaed yn fynych a fyddai y canlyniad; nes y gwelodd y llywodraeth y gweddeidd-dra o roddi terfyn i arferiad ag oedd o ganlyniadau mor niweidiol i heddwch y wladwriaeth. Y pryd hwn, nid oedd pethau fel yr oeddynt yn amser yr apostolion a'u holynwyr nesaf, pan yr oedd pob cynnulleidfa yn dewis ei swyddogion ynddi a chanddi ei hun yn unig. Eithr yn awr, pan yr ymgasglai lluaws o wahanol barthau y dalaeth, neu yr esgobaeth, i ddewis un, fel y dywedent, i lenwi y gadair esgobaethol, nid oedd cymmwysder yn y weinidogaeth yn cael ond ychydig le yn eu hystyriaeth; ac nid yr addasaf, eithr y cyfoethoccaf, y mwyaf ei awdurdod, a'r gwychaf ei enwau ymddangosiadol, a gai y pleidleisiau amlaf. O herwydd paham, gwelodd yr awdurdodau goruchel yn addas i drosglwyddo y dewisiad i feddiant y llywydd gwladol a'r senedd eglwysig, pa rai a dybient eu bod yn cynnrychioli y bobl.

Er esmwythau gofal yr esgobion—y rhai oeddynt yn awr yn ymgodi yn debyccach, mewn ymddangosiad, i arglwyddi nag i weinidogion, llawer o ba rai oeddynt yn amlach yn y llŷs nag yn eu hesgobaethau—trefnwyd *deoniaid*, neu arch-henuriaid, i ofalu am ddeg plwyf a'u henuriaid, ac i flaenori yn nghynghorfa yr henuriaid, yn absennoldeb yr esgob.* Er mwyn cynnal i fynu ymddangosiad mawreddog yr esgobion dinasyddol, dilewyd yr esgobaethau bychain ag oedd yn y wlad a'r trefydd o amgylch; a thrwy gyfraith eglwysig, chwanegwyd hwy at yr esgobaethau dinasyddol nesaf attynt. Gwnaeth hyn beth terfysg dros ychydig amser, trwy fod y bobl yn anfoddlon i roddi i fynu eu breintiau; eithr y cyfryw oedd gallu y sefydliadau eglwysig, pan yr oedd braich y llywodraeth wladol yn eu cefnogi, fel y rhoddwyd ef i lawr yn fuan.†

Gwedi hyn gwnaed rhaniad arall ar yr esgobaethau, trwy eu gwneuthur yn arch-ddïaconiaethau. Y swydd arch-ddïacon a sefydlwyd yn yr eglwys tua chanol y trydydd canrif; nid ystyrid ef y pryd hwnw ond y blaenaf o'r diaconiaid, ac nid oedd ond un o honynt yn mhob esgobaeth, a hwnw a fyddai yn brif weinidog i'r esgob mewn achosion tymhorol. Ond

* Dr. Campbell's Eccl. Hist. p. 265—272. † Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 350.

wedi helaethu yr esgobaethau, eu rhanu yn ddeoniaethau, a'u dosparthu yn blwyfau, dewisid yr arch-ddiaconiaid o blith yr henuriaid; a golygid fod ganddynt hwy lywodraeth yn debyg i'r un esgobaethol, ar y rhanau a berthynai iddynt o'r esgobaeth, yr hon a elwid yn arch-ddiaconiaeth. Yr oedd amryw o arch-ddiaconiaid yn mhob esgobaeth, yn ol fel y byddai ei helaethrwydd; ac er yr ystyrid eu llywodraeth hwy yn gyfartal i eiddo yr esgob, yn eu dosparth eu hunain, etto nid oeddynt i ordeinio neb i swyddau eraill, na chadarnhau—hyn a berthynai i'r esgob yn unig, ac ystyrid ef yn arolygwr arnynt oll.*

Yr ydym yn awr wedi olrhain y newidiadau a fu yn nhrefn yr eglwys—codiad i fynu y cyssegr-lywodraeth, *(hierarchy,)* a'r rhaniadau a berthyn iddo, sef yn blwyfau, dëoniaethau, arch-diaconiaethau, esgobaethau, arch-esgobaethau, a phatriarchau—y lle y gorphwysai gweinyddiad eu llywodraeth—ac ymarddelwad Cystenyn Fawr a'i olynwyr i fod yn ben cyffredinol i'r sefydliad hwn; er y dywedai Cystenyn yn fynych, mai achosion allanol yr eglwys oedd gwrthddrychau ei ofal ef, a'i fod yn gadael ei hachosion tumewnol, a'r hyn oedd wir grefyddol, i ofal yr esgobion. Ond pwy a fedrai dynnu y llinell? nid efe, ni a wyddom, na neb o'i olynwyr. Canys gwelir hwynt yn arddelwi iddynt eu hunain yr hawl o alw cymmanfaoedd, a blaenori ynddynt, ac o farnu beth oedd wir athrawiaeth, a pha beth nad oedd felly, yn nghyd â gosod rheolau dysgyblaethol yn yr eglwys, a gosodiad ei phrif swyddogion; felly y mae yn anhawdd gwybod pa beth yr oeddynt yn adael i'r esgobion. Nid oedd yr adeiladau a godwyd i addoli, cyn gwneuthur Cristionogaeth yn grefydd amherodrol, ond anaml a gwael yn gyffredin; eithr wedi hyny, lluosogwyd hwy yn fawr yn y wlad a'r trefydd, a hyny, i raddau, ar draul meddiannau enwadau eraill y cymmerwyd oddi arnynt, i'r perwyl hwn, trwy orchymyn yr amherawdwr. Adeiladwyd rhai o honynt, yn enwedig yr eglwysi cadeiriol, yn helaeth, o'r defnyddiau mwyaf drudfawr, ac mewn gwychder a harddwch anghydmarol—yn ol cynllun teml Solomon gynt. Elen, mam Cystenyn—yr hon a dybir gan rai ei bod yn Gymraes, eithr sydd rhy amhëus i'w benderfynu—oedd yn hynod ei sêl dros, a'i haelioni i, yr adeiladau hyn, ac am ddyrchafu Cristionogaeth mewn ymddangosiad allanol a rhwysgfawredd dynol, gan eu hanrhegu â llawer o roddion gwerthfawr.† Dywedir iddi adeiladu lle addoliad hardd iawn yn y lle y ganed Crist yn Methlehem, un arall ar y lle y claddwyd ef yn agos i Jerusalem, ac un arall ar Fynydd yr Olewydd, y lle oddi ar ba un yr esgynodd ein Harglwydd. Nid oedd neb o swyddogion yr eglwys Gristionogol yn cael eu cynnaliaeth trwy unrhyw drethiad na degwm hyd yn hyn, eithr trwy rydd-roddion ac anrhegion yr amherawdwr, ac eraill, o bob graddau, a ewyllysiai roddi at eu cynhaliaeth hwy, a phob achosion crefyddol—megys yr oedd o'r dechreuad.

Ond nesaodd yr amser i'r amherawdwr Cystenyn roddi i fynu ei oruchwyliaeth a'i gyfrif, wedi iddo deyrnasu am dair blynedd ar ddeg ar hugain, a bod yn brif offeryn i wneuthur newidiadau mawrion yn nhrefn y llywodraeth wladol a'r un eglwysig, ac i sefydlu gosodiad—sef cyssylltiad o'r wladwriaeth wladol a'r un eglwysig—ag sydd yn parhau hyd heddyw, er difeddiannu yr eglwysi o'u breintiau, a dwyn ymaith eu rhyddid crefyddol. Y gallu amherodrol hwn a ddechreuodd ynddo ef, ac a sefydlwyd ganddo,

* Dr. Campbell's Lect. on Eccl. Hist. vol. i. p. 273. † Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 394.

ydyw y bwystfil a welodd Ioan yn codi o'r môr; a'r hwn a welodd efe wedi hyny o liw ysgarlad, ar ba un y marchogai gwraig butteinig.* Gwedi i Cystenyn glafychu, efe a symmudodd yn agos i Nicomedia. Ychydig o ddyddiau cyn ei farwolaeth, rhoddodd heibio ei goron, ei wisgoedd, a'i addurniadau amherodrol, ac a ymostyngodd i fod yn ddysgybl edifeiriol i Grist, medd ef, a bedyddiwyd ef gan Eusebius o Nicomedia. Bu farw ar y 22ain o Fai, yn y flwyddyn 337, wedi iddo gyrhaeddyd triugain a phedair mlwydd o oedran. Rhanwyd ei amherodraeth, yn ol ei ewyllys, rhwng ei dri mab, sef Cystenyn II. Constantius, a Constans.

* Dat. xiii. 1. a xvii. 3.

PENNOD XXII.

Lle dangosir y Dygwyddiadau a gymmerasant le yn Nheyrnasiad Tri Mab Cystenyn Fawr—y Terfysgiadau a fu yn yr Eglwysi, a'r iselder y dygwyd Crefydd iddo yn amser Teyrnasiad Constantius—yr Achosion o hyny—Dyfodiad Julian y Gwrthgiliwr i'r orsedd—ei Gymmeriad, a'i ymddygiad tu ag at Baganiaeth, Iuddewaeth, a Christionogaeth—ei Farwolaeth.

GWEDI marwolaeth Cystenyn, a rhaniad yr amherodraeth rhwng ei dri mab, yr hyn a gadarnhawyd gan senedd Rhufain, daeth Cystenyn yr *Ail* i feddiant o Gaul, yr Hispaen a Phrydain; Constans a feddiannodd Iliricum, yr Ital, ac Affrica; ac i Constantius rhoddwyd Syria, Asia Leiaf, a'r Aipht. Yr oedd i'r amherawdwr ymadawedig ddau frawd yn fyw y pryd hwnw, ac iddynt amryw o feibion; ac i rai o'r rhai hyn y rhoddodd efe daleithiau yn yr amherodraeth yn etifeddiaeth, megys Thrace, Macedonia, Achaia, Pontus, a Cappadocia. Eithr o genfigen attynt, ac awydd am eu hetifeddiaethau, neu rhag eu hofn, rhoddwyd hwy oll i farwolaeth trwy orchymyn meibion Cystenyn, oddi eithr Galus a Julian, meibion Julius Constantius, y rhai a ddiangasant rhag y difrod; yr olaf a ddaeth, wedi hyn, i feddiant o'r orsedd amherodrol. Priodolir y meithred ysgeler hon i dri mab Cystenyn gan rai awduron; eithr y peth mwyaf tebyg i wirionedd yw, mai Constantius oedd â'r llaw fwyaf yn y cyflawniad o honi; canys efe a feddiannodd eu hetifeddiaethau. Ymddengys yn eglur fod meibion Cystenyn wedi ymgyfranogi yn helaeth o holl wendidau a drwg-nwydau eu tad, ond yn hollol amddifad o neb o'i rinweddau—y ffaeth blaenorol oedd yn siampl amlwg o hyny.

Nid hir y parhaodd pethau i fyned yn mlaen yn llwyddiannus a thawel yn y tair-rhaniad o'r amherodraeth rhwng y tri brawd; canys yn y flwyddyn 340, gwnaeth Cystenyn ryfel yn erbyn ei frawd Constans er ei fwrw ymaith o'i etifeddiaeth; ac yn yr ymgyrch hwn efe a laddwyd; a daeth yr holl daleithiau gorllewinol i feddiant Constans; yr hwn wedi hyn a'u meddiannodd hyd y flwyddyn 350, pan y collodd ei fywyd a'i feddiant trwy fradwriaeth Magnentius, un o'i ben-cadpeniaid, yr hwn yn fuan wedi hyn a ad-dalwyd yn gyfiawn, pan mewn brwydr â Constantius, yr hwn a ddeuai i ddial gwaed ei frawd; wrth weled ei fod yn colli y dydd, efe a osododd ddwylaw llofruddiog arno ei hun.* Fel hyn daeth yr holl amherodraeth drachefn dan unbenaeth, i feddiant Constantius yn y flwyddyn 353, yr hwn a'i meddiannodd hyd y flwyddyn 362, pan y bu farw yn Mopsu-crene, ar derfyn Cilicia, ar ei hynt filwraidd yn erbyn Julian ei gefnder, ag oedd yn

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 328.

awr yn dyfod i ddial gwaed, ei garenydd a lofruddiwyd trwy ei orchymyn ef. Yr oedd efe, fel ei dad, wedi oedi bod yn fedyddiedig, er ei holl ymdriniaeth â phethau crefyddol, hyd o fewn i ychydig ddyddiau i'w farwolaeth, pan y cyflawnwyd hyny arno gan Euzoius, esgob o ddaliadau Ariaidd, yn Antiochia.*

Yr oedd sefyllfa y llywodraeth wladol wedi dyfod y pryd hwn yn druenus a dychrynllyd iawn; ei hollol ddinystr oedd eglur ac anocheladwy, ac yn prysuro yn gyflym: ei chyfansoddiad oedd wedi dyfod fel corph llawn o aml afiechyd marwol, fel yr oedd yr hyn a fyddai yn feddyginiaeth i'r naill glefyd, yn rym a chynnydd i'r llall; felly yr oedd hithau yn ei sefyllfa ddadfeiliol, wedi myned fel nad allai y medrusrwydd mwyaf ragflaenu ei chwilfriwiad; nid galluadwy i'r gwroldeb a'r galluoedd cryfaf ei gadw draw, ond dros ychydig. Pa faint mwy analluadwy oedd hyny i'r tywysogion gwanaidd a ddaethant i'r orsedd ar ol Cystenyn, pa rai a ymyrent â chredöau ac ymarferiadau crefyddol eu deiliaid, y rhai na wyddent ddim am danynt, a'r rhai ni allent, ac ni pherthynai iddynt, wneuthur dim â hwy—yn lle cadw terfynau eu hamherodraeth, a'i diogelu rhag yr ymosodiadau parhaus a wnaid arni. Symmudwyd yr orsedd, y llŷs, a'r gadair amherodrol, i derfynau Asia; yr hyn a wasanaethodd yn fawr i wanychu y tywysogion a'r penaethiaid yn eu hymlyniad, trwy iddynt ymgyfranogi yn fuan o ymarferiadau y llywyddion dwyreiniol, pa rai a hoffent loddesta a chael eu parchu a'u haddoli megys duwiau gan eu deiliaid, yn llawer mwy na gwneuthur unrhyw orchestwaith drostynt.† Suddasant mewn mwyseidd-dra; ymroddasant i bleserau cartrefol; ac ymddyeithrasant oddi wrth eu deiliaid a'u milwyr; yr hyn a'u hanaddasodd yn gwbl i wneuthur nemawr o rymusder er amddiffyniad i'r amherodraeth ddrylliog; a'u hymyraeth hwy âg achosion crefyddol eu deiliaid, a achosodd ymraniadau diorphen yn eu plith, a dinystr hollol i'r llywodraeth.

Y Gothiaid a'r Vandaliaid ffyrnig hwythau a heidient yn dorfëydd aneirif i waered o'r gogledd, o wlad y rhew a'r eira oesol, am draws gwledydd breision yr Ital. Nid hawdd eu gyrru yn ol, wedi cael prawf o awyr dymherus, a meddiant o winllanoedd, olew-lanoedd, pêr-lanoedd, a gweirgloddiau gwastad glanau yr afon Rhine, i'w hanialwch cyssefin eu hunain. Yn erbyn y fath elynion diriaid, ac i wrthsefyll y fath ruthriadau dychrynllyd, nid oedd braidd wroldeb digonol, na galluoedd a fedrai sicrhau llwyddiant; canys pan eu gorchfygid, nid oedd yn alluadwy i wneuthur dim ond cymmeryd ymaith fywydau rhifedi o honynt, ag oedd yn ddigartref, yn ddiolud, yn ddienw, yn ddianrhydedd, ac yn ddiyspail; rhif eu lladdedigion a wnaid i fynu yn fuan, i ddau cymmaint, gan y cyfryw ag a fyddent yn llawn mor ysgeler. Constantius, er iddo deyrnasu ddeunaw mlynedd ar hugain, oedd yn ddyn ofnus, gwanaidd, a thra aflwyddiannus, yn cael ei lywodraethu gan ei wragedd a'i eunuchiaid; ïe, yr oedd yn un hollol anghymmwys i ddal i fynu yr amherodraeth ogwyddol, oedd ar drangc. Julian, a elwir Julian y Gwrthgiliwr, am iddo droi yn bleidiwr i Baganiaeth, a ddaeth yn olynwr iddo i'r orsedd, yr hwn oedd yn llawer amgenach dyn a thywysog nag efe. Gorchfygodd y Barbariaid mewn amryw frwydrau, ac a'u hymlidiodd allan o ddeg a deugain o drefydd a feddiennid ganddynt, mewn sefydliad newydd yn agos i'r afon Rhine. Eithr ni theyrnasodd efe uwch dwy flynedd, pan y bu farw yn ei ryfel â'r Persiaid.‡

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 100. † Goldsmith's Hist. of Rome, p. 522.
‡ Goldsmith's Hist. of Rome, p. 523. a Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 330.

Yr oedd tri mab Cystenyn yn dangos mawr sêl dros ryw fath o Gristionogaeth, fel crefydd ag oedd yn sefydledig gan gyfreithiau yr amherodraeth; eithr y mae yn eglur mai nid cymmaint oeddynt drosti o blegid ei dwyfolder a'i hysgrythyroldeb. Dangosasant lawer o ymdrechiadau i dynnu i lawr eilunaddoliaeth; ond och! y moddion a'r mesurau a arferasant, oeddynt y cyfryw ag nas awdurdododd yr Arglwydd erioed neb dynion i'w defnyddio, ag nas addawodd erioed i'w harddel a'u bendithio. Meddyliasant hwy am helaethu teyrnas Iesu Grist, a dymchwelyd y gwrthwynebiadau oedd iddi trwy gyfreithiau gwladol a chleddyf y llywodraeth—yr un modd ag y mae tywysogion y byd hwn yn helaethu eu hamherodraethau—yr hyn a fu yn gwbl ddinystriol i lwyddiant gwir grefydd.

Constantius, ei amherodres, a'i lŷs oll, oeddynt Ariaid o'r penboethaf. O'r ochr arall, Constans a'i gyfeillion oeddynt oll o farn y Niceaid, yn meddwl mai y grêd honno a ddylasai gael ei sefydlu a'i helaethu trwy y byd. Felly daeth yr holl amherodraeth i fod yn ddwy blaid grefyddol o enw Cristionogaeth. Alaethus yw yr olygfa! trwm yw meddwl! galarus yw gorfod adrodd! a gofidus yw darllen am un o fil o'r amrafaelion, yr ymraniadau, y difrod, y cigydd-dra, a'r galanastra a wnaeth y naill o'r llall! —yr holl drais, yr anghyfiawnder cyhoeddus, a'r castiau bradychus a thwyllodrus a arferasant y naill tu ag at y llall! a'r rhyfel cyhoeddus a ddygasant yn mlaen! fel pe bai gwirionedd eu credöau i gael ei brofi trwy fin y cleddyf! Awdurdod yn erbyn awdurdod, cymmanfa yn erbyn cymmanfa, rheolau yn erbyn rheolau, erthyglau yn erbyn erthyglau, trefniadau yn erbyn trefniadau, a gosodiadau yn erbyn gosodiadau, fel yr oedd y dryswch a'r terfysg mwyaf wedi cael eu taflu trwy yr holl fyd Cristionogol! Tra bu Constans byw, yr oedd y Niceaid yn cael nodded dan gysgod ei lywodraeth ef, rhag trais, gormes, a gweithrediadau llidiog, erledigaethus, a chreulawn Constantius a'i gynghor Ariaidd. Eithr wedi ei farwolaeth ef, daeth y Niceaid i gael y gwaethaf, trwy bob moddion a fedrai eu gwrthwynebwyr ystrywgar ddyfeisio, er eu poeni, fel y llofruddiwyd miloedd, ac yr alltudiwyd cannoedd; pan y darfu i eraill, rhag y cospedigaethau, ac eraill o chwant i'r gwobrwyau a addewid i'r rhai a'u pleidiai, wadu cyffes Nicea, a chofleidio eiddo Arius. Yn mhlith eraill a wnaethant hyn, yr oedd Liberius, patriarch Rhufain, wedi bod ddwy flynedd mewn alltudiaeth; a Hosius o Corduba, yn yr Hispaen, pan uwch can mlwydd oed, wedi byw a chael ei anafu yn amser Maximianus, a chwedi bod yn blaenori mewn llawer cymmanfa i gondemnio Ariaeth, ac yn bresennol mewn alltudiaeth yn Sirmium—efe a arwyddodd gyffes yr Ariaid er mwyn cael ei ryddhad.*

Dichon ei fod yn beth lled anhawdd cael allan y gwirionedd yn mha ochr y gorphwysai y bai fwyaf yn yr holl derfysg a'r trallod hyny. Pe gellid meddwl fod hanner yr achwyniadau a'r cwynion a wneir gan y Niceaid yn erbyn yr Ariaid yn wirionedd, rhaid fyddai i ni edrych arnynt fel y dynion mwyaf ysgeler a fu yn y byd erioed, wedi medru cyflawni y gweithredoedd ffieiddiaf, agos, a fuasai yn ddichonadwy i neb creaduriaid rhesymol wneud—gwaeth na phe buasai yr ysbrydion uffernol eu hunain yn eu gweithredu! Arferai y Paganiaid, y rhai oeddynt yn byw yn yr amser erledigaethus gynt, ddywedyd yn bresennol, fod yr Ariaid wedi cymmeryd eu

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 91

swydd a'u gwaith hwy yn hollol. Nid yw yn beth annhebyg chwaith, pe buasai ysgrif yr Ariaid ar gael, na buasai ganddynt hwythau achwyniadau trymion, a chyhuddiadau lawer yn erbyn y Niceaid, o herwydd eu hymddygiadau ffiaidd tu ag attynt hwy, ac ar seiliau yr un mor gyfiawn. Dyledus yw dywedyd hyn am y Niceaid, sef mai hwy a ddechreuasant y tân, trwy gymhell yr amherawdwr Cystenyn i gospi y rhai a gyfrifent yn hereticiaid âg alltudiaeth ac â marwolaeth. Yn nghanol eu dyoddefiadau, ymgyssurent wrth feddwl y deuai yr amser y byddai i lywydd amherodrol fod o'u tu hwythau, fel y caent trwy hyny y cyfleusdra o dalu'r pwyth i'r Ariaid; canys yr oedd pob ochr wedi meddwl mai trwy rym, awdurdod, a chosp edigaethau y llywodraeth wladol, yr oedd yr unig ffordd i ddarostwng y llall.*

Gosodwyd tua deg-ar-hugain o esgobion uniawn-gred i farwolaeth yn yr Aipht a Lybia—a miloedd lawer o bersonau anghyoedd, mewn amryw fanau—yn yr ymgyrch gwallgofus a chreulawn hwn o eiddo yr Ariaid. Alltudiodd Constantius tua phedwar-ar-ddeg o esgobion, o'r prif drefydd a'r lleoedd mwyaf cyhoeddus yn ei amherodraeth, ac a roddodd eu hesgobaethau i'r Ariaid, yn ol ei ddewisiad a'i awdurdod ei hun a'i gyfeillion. Gwrthsafai y bobl eu sefydliad mor egniol, fel y gorfyddai arnynt gael eu gosod yn y gadair esgobaethol, fel y dywedent, trwy rym gwyr ac arfau. Ar yr amgylchiadau hyn, byddai tywallt gwaed, a llawer o bob ochr a leddid; megys y gwelir yn Nghaer-Cystenyn, Antiochia, Alexandria; ac ychydig o'r alltudion hyn a ddychwelasant byth yn eu hol, ond buant feirw yn eu halltudiaeth. Lluaws mawr a osodwyd i farwolaeth yn Alexandria; eraill a gurwyd yn gyhoeddus â gwiail. Amryw o forwynion ieuaingc glandeg a driniwyd yn y modd garwaf, gwedi bygwth eu taflu i dân a gynneuasid i'w llosgi; anafwyd hwy yn eu hwynebau mor erchyll, fel yr oedd eu cyfeillion yn methu eu hadwaen—am na newidient eu crêd, a bod mewn cymundeb âg un Gregory, yr hwn a anfonwyd yno gan yr amherawdwr, yn lle Athanasius, yr hwn a ddiswyddasid ac a alltudiasid ganddo.†

Yr Ariaid a newidiasant eu cyffes mor aml, nes y meddylir eu bod yn y diwedd wedi dwyn y ddadl i beth mor lleied ei gylch â hyn,—sef, dywedai y Niceiaid am Grist, ei fod o ran nattur *yr un, a chydsylwedd, d'r Tad;* yr Ariaid hwythau a ddywedent, mai *tebyg sylwedd oedd efe i'r Tad.* ATHANASIUS oedd prif amddiffynwr y blaid Niceaidd, yr hwn oedd yn eu cyfrif hwy fel genau Duw, ac yn ngolwg y blaid arall fel y gwaethaf a'r ffieiddiaf o bawb; a dyoddefodd y triniaethau mwyaf garw oddi wrthynt. Gwedi i'r amherawdwr a'i gyfeillion ddiswyddo ac alltudio Athanasius, lawer gwaith, a chynnal amryw o gymmanfaoedd i gadarnhau hyny, ac anfon llythyrau trwy yr holl eglwysi i'w gwahardd hwy i roddi iddo un derbyniad; pan oedd y lleill, o'r ochr arall, ar berygl eu bywydau, yn cynnal cymmanfaoedd i'w gyfiawnhau a'i gymmeradwyo. Collasant eu golwg agos o bob ochr ar y ddadl wreiddiol; a chymmeradwyaeth neu anghymmeradwyaeth Athanasius oedd y prawf wrth ba un yr oedd Ariaeth neu Niceaeth i'w hadnabod.

Gwahanol iawn yw meddyliau dynion hyd heddyw, am Athanasius, i ba un y priodolir, er nid yn gywir, y credo sydd yn dwyn ei enw yn ngwasanaeth Eglwys Waddoledig y deyrnas hon, yr hwn a wnaed yn hynod o bobl-

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 304. † Sympson's Hist. of the Christ. Church, p. 58.

ogaidd trwy ddadl Ariaeth, ag oedd ar droed y dyddiau hyny. Pell ydym o feddwl ei fod ef, fel y dywed rhai am dano, yn un o'r llusernau dysgleiriaf a fu yn yr eglwys er dyddiau yr apostolion, na'i fod yn dwyn prawfiadau eglur o wir dduwioldeb. Y rhinweddau mwyaf amlwg ynddo, i'r rhai yr ymddengys hyny yn rhinwedd, oedd ei sêl yn erbyn yr Ariaid, a'i ymdrechiadau dros fywyd monachaidd. I'r rhai ni chredent fod dyoddef erledigaeth dros unrhyw farn grefyddol yn brawf diffuant o wir grefydd neb, ond bod ysbryd erledigaethus yn brawf amlwg nad yw yr erlidwyr mewn agwedd y dylent fod, felly nid yw dyoddefiadau Athanasius i'r rhai hyny yn brawf yn y byd o'i dduwioldeb, amgen byddai rhaid iddynt gredu fod yr holl Ariaid, a'r gwaethaf o gyfeiliornwyr, yn dduwiol; canys y mae yn ddiogel iddynt orfod dyoddef llawer oddi wrth Athanasius a'i gyfeillion. Ond y mae yn ddiau ei fod ef yn ddyn o ysbryd uchel, yn ymgeisydd mawr am oruchafiaeth ac arglwyddiaeth yn yr eglwys, ac yn ddyn o dymher dra erledigaethus. O blegid mewn llythyr at Epictetus, esgob Corinth, efe, gan gyfeirio at ryw bleidiau a farnai yn gyfeiliornus, a ddywed—"Mae yn rhyfedd genyf fod eich duwioldeb yn gadael i chwi oddef y rhai hyn, ac na byddai i chwi yn ddioed roddi attalfa ar y cyfeiliornwyr yma, trwy gynnyg iddynt y wir ffydd; ac os na argyhoeddir hwy, a'u dwyn i'w derbyn, fod iddynt gael eu cyhoeddi yn hereticiaid: canys nid gweddus yw dyoddef y cyfryw beth, i'w ddywedyd na'u glywed yn mhlith y Cristionogion." Mewn ysgrif arall, efe a ddywed am y cyfryw ag oeddynt yn groes i'w farn ef, "y dylent fod yn wrthddrychau o gasineb cyffredinol, o herwydd eu bod yn gwrthwynebu y gwirionedd, ac yn cyssuro eu hunain y byddai i'r amherawdwr yn fuan gael ei oleuo a'i ddwyn i roddi attalfa arnynt, ac na byddai iddynt gael hir fywyd."* Efe a annogai, mewn lle arall, y rhai yr ysgrifenai attynt, i lynu yn ddiysgog wrth gyffes y Tadau sanctaidd, ac i wrthod yr oll ar nad oedd yn gynnwysedig yn hon, ac i beidio gwrando ar neb a ddysgai ddim yn amgen. Ac yn ei araeth gyntaf yn erbyn yr Ariaid, efe a ddywed mewn geiriau eglur—"Nad oedd amlygiad o farn, trwy eiriau yr ysgrythyr, yn un prawf o fod dyn yn uniawn-gred; canys (meddai ef) gwnaeth y diafol ddefnydd o eiriau ysgrythyrol i guddio ei fwriadau drygionus yn erbyn ein Hiachawdwr; ac nad oedd hereticiaid i'w derbyn, er arfer o honynt yr un geiriau â'r rhai oedd uniawn-gred eu hunain."†

Yr ysgrythyrau nid oeddynt mwyach yn sefyll fel unig brawf rheol ffydd ac ymarferiadau y Cristionogion. Yr hyn oedd uniawn, a'r hyn nid oedd, a benderfynid o hyn allan wrth ddywediadau y rhai a elwid y Tadau. Gosodid credöau cymmanfaol i fynu yn lle gair Duw, a meddylid fod crefydd i'w helaethu, nid trwy foddion apostolaidd, o gymhelliadau ac annogaethau efengylaidd, yn ysbryd addfwyn a gostyngedig y bendigaid Iesu, ond trwy ddeddfau a threfniadau amherodrol; ac nid oedd gwrthwynebwyr i'w gwrthsefyll a'u hargyhoeddi trwy arfau symledd, rheswm, ac ysgrythyr, eithr trwy eu herlid a'u distrywio. Nid rhyfedd gweled o hyn allan, fod y ffydd gyhoeddus, fel y gelwid hi, yn ansafadwy, yn troi yn uniawn yn ol fel y llwyddai unrhyw blaid i gael awdurdod a grym y llywodraeth amherodrol o'u tu; ac nad oes fawr o ddim i'w gael yn hanes yr eglwys gyffredinol, ond trais a chreulondeb dynion ag oedd wedi hollol gamsynied, ac ymadael â, symledd egwyddorion a dyben eglwys Dduw; pa rai a ddygid yn gaeth

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 305. † Ibid, p. 306.

gan eu nwydau, o gybydd-dod ac uchelgais, ac a ddygid ymaith bellach bellach oddi wrth ysbryd yr efengyl, gan eu golygiadau am harddwychder a dyrchafiad tymhorol, a helaethrwydd o ardrethiad a chyfoeth amserol.

Aros i draethu yn fanylaidd am yr holl gymmysgedd gwaradwyddus, a'r driniaeth warthus, a fu yn y cymmanfaoedd gan y naill a'r llall, a'r enllib angherddol a daflent ar eu gilydd, yn nghyd â'r gwrth-gyhuddiadau a wnai y naill blaid a flaenorai yn erbyn y llall, a fyddai yn hollol ddifudd i'r darllenydd, ac yn ogymmaint anhyfrydwch i'r ysgrifenydd, ac yn beth annichonadwy. Y mae yn wirionedd, fod gweinidogion yr eglwys y pryd hwnw, wedi dyfod yn brif derfysgwyr yr amherodraeth; ac yr oedd balchder yr esgobion, a llidiawgrwydd y bobl, wedi cynnyddu gymmaint o bob ochr, fel nad oedd dewisiad nac adferiad unrhyw esgob yn cymmeryd lle, yn y dinasoedd mwyaf, heb fod yno greulondeb a llofruddiaeth yn cael eu dwyn yn mlaen. Athanasius a alltudiwyd lawer gwaith o esgobaeth Alexandria, ac a adferwyd drachefn, trwy dywalltiad llawer o waed bob tro. Pa beth a ellir ddywedyd am Gristionogaeth un a weithredai yn y modd hwnw, neu a gydunai â phethau o'r fath hyny? Diau pe llywodraethasid Athanasius gan ysbryd addfwyn a heddychol yr efengyl, enciliasai yn hollol oddi wrth y fath olygfeydd gwaradwyddus i Gristionogaeth; dewisasai fod gyda'r ychydig a fuasent o'r un farn âg ef ei hun, pe buasent ond y gwaelaf, mewn ystafell fechan, mewn rhyw le, yn hytrach na chael yr elw, y parch, a'r anrhydedd oedd i'w gael o fod yn archesgob Alexandria, trwy y fath foddion gwarthus. A phan y cymharir ei ymddygiad ef âg eiddo ein Harglwydd (Ioan vi. 15.), mawr yr annhebygolrwydd a welir rhyngddynt.*

Gellir yn hawdd briodoli yr holl derfysgoedd gwaradwyddus hyn i dri pheth; sef, yn 1. I anffurfiad yr eglwysi, a gosodiad eu llywodraeth mewn lle na osodwyd ef gan Iesu Grist a'i apostolion. Canys pe buasent hwy yn gynnulleidfaoedd anymddibynol, heb fod gan un gallu nac awdurdod dynol, oddi allan iddynt eu hunain, ddim i wneud â hwynt, ni buasai yn ddichonadwy byth fod y fath derfysg mewn bodoliaeth. Yn 2. I dderchafiad yr esgobion i'r fath fawredd ac anrhydedd dynol, a helaethrwydd o gyfoeth, ac elw bydol, deilliedig iddynt oddi wrth eu hesgobaethau, fel yr oedd eu sefyllfaoedd yn wrthddrychau i ddynion o'r tueddiadau mwyaf bydol a llygredig, i ymgais am danynt. Diammau hefyd fod ymdrechiadau yr esgobion yn llawer mwy am ennill a chadw y cyfryw sefyllfaoedd, nag oeddynt am ddwyn yn mlaen wir grefydd yn ei symledd, ei phurdeb, a'i hefengyleiddrwydd, yn mysg dynolryw y dyddiau sydd dan ein sylw. Yn 3. I fod crefydd wedi ei chyssylltu â llywodraeth wladol, a bod y llywydd gwladol, yn ei awdurdod a'i lywodraeth, yn pleidio y naill blaid yn fwy na'r llall, ac yn cymmeryd arno i sefydlu credöau ac ymarferiadau crefyddol ei ddeiliaid. Y pethau hyn, mewn cyssylltiad â llygredigaeth dynolryw, oeddynt ddigonol i ddwyn yr eglwys i'r holl drueni a adroddir, a Christionogaeth i'r gwarth a amlygir ei bod ynddo, ac i beri fod Cristionogion mewn enw yr hyn y darlunir hwy gan haneswyr yr oes honno. Eusebius a ddywed,—"Cyn gynted ag y gwaredwyd hwy o law eu gelynion Paganaidd, meddiannwyd hwy â'r fath lid, casineb, a chwerwder anghymmodlawn, fel y syrthiasant ar eu gilydd gyda chymmaint ffyrnigrwydd ag yr ymddygid tu ag attynt yn

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 307.

flaenorol gan eu gwrthwynebwyr cyffredin." Hyn a barodd i Julian ddywedyd, ei fod ef wedi gweled, trwy hir brofiad, nad oedd bwystfilod y goedwig yn greulonach wrth eu gilydd, na'r rhai hyny a enwent eu hunain yn Gristionogion.

Dyma y sefyllfa wael a thruenus yr oedd crefydd wedi cael ei dwyn iddi, o ran ei hymddangosiad, yn amser Constantius, mewn ychydig flynyddau yn ol newidiad trefn yr eglwys, a'i gwneuthuriad yn un amherodrol: etto y mae lle i obeithio fod crefydd yn ei phurdeb, a llawer o dduwiolion yn ei meddu mewn cylchoedd anghyoedd, a sefyllfaoedd isel, pa rai nad oedd haneswyr yn eu canfod. Eithr, yn ddiau, wrth ddarllen Socrates, a'r haneswyr cyffredin am yr amseroedd hyny, nid oes braidd ddim i'w gael ynddynt ond hanesion eu cymmanfaoedd cymmysglyd, a'u gwahanol a gwrthwynebol gredöau—yr esgobion yn eu balchder yn cymmeryd arnynt ddiswyddo a dedfrydu eu gwrthwynebwyr i golledigaeth, tua pha un yr oeddynt yn myned eu hunain gyda brys—a'r bobl hwythau yn ymranu yn bleidiau, gan ganlyn eu gwahanol flaenoriaid, yn ymdrechu am fuddugoliaeth ar eu gilydd, hyd yn nod at dywallt gwaed, ac hyd farwolaeth; a hyny yn nghylch geiriau nad oedd neb o honynt eu hunain yn deall eu hystyr. "Yr eglwys fel hyn," medd Socrates, "a ddrylliwyd yn ddarnau, a hyny o achos *Athanasius*, a'r gair *cydsylweddiad!*"*

Ammianus Marcelinus, hanesydd credadwy ag oedd yn byw yr amser hwnw, a chwedi bod yn gwasanaethu yn myddin yr amherawdwr, a ddywed—"Y grefydd Gristionogol, yr hon sydd ynddi ei hun yn eglur a syml, a wnaethant hwy (sef Constantius, a'r esgobion a wasanaethent yn ei lŷs,) yn gymmysgedd o goelgrefydd wallgofus. Yn lle ymdrechu trwy bwys ei awdurdod (medd ef) i ddyhuddo y tân, a chymmodi y gwahanol bleidiau, meithrinodd Constantius y ddadleuaeth eiriol, ac a ychwanegodd yr ymraniadau, i ba rai yr oedd ei fawr gywreinrwydd yn ei gynhyrfu. Y prif-ffyrdd a orchuddid gan esgobion yn carlamu o'r naill barth i'r llall o'i amherodraeth, i gynnal cymmanfaoedd, yn ol ei orchymyn. Fel hyn tra yn ymboeni yn yr hyn a alwent yn gynghorfäau, i ddwyn pawb yn un blaid neillduol, bu agos iddynt ddinystrio y sefydliad o redegwyr cyffredin, gan eu gyriad cyflym yn eu teithiau a'u had-deithiau parhaus."†

Yr hyn a ddywed Gregory Nazianzenus, sydd sèn lem, eithr yn wirionedd, am y cymmanfaoedd a gynnelid y dyddiau hyny:—"Os rhaid i mi ddywedyd y gwir, fy mhenderfyniad yw ymddeol yn hollol o bob cymmanfa a gynnelir gan yr esgobion; o blegid nid wyf yn gweled un o honynt yn atteb unrhyw ddyben daionus, namyn yr hyn sydd hollol niweidiol: canys eu serch at fawredd, eu chwant i arglwyddiaeth ormesol, a'u tueddiad i amrafaelio, sydd fwy nag y gellir ei osod allan mewn geiriau."

Tua diwedd teyrnasiad Constantius, bu daeargryn mawr trwy wahanol barthau o'r amherodraeth, yn enwedig Syria, fel y drylliwyd amryw ddinasoedd, ac y lladdwyd llawer o'u trigolion. Pob un o'r pleidiau ymraniadol a ymdrechasant wneuthur y defnydd goreu o'u hochr eu hunain o'r amgylchiad galarus. Y Niceaid a ddywedent mai barnau Duw oedd hyny ar y ddaear a'i thrigolion, o herwydd y traha a'r triniaethau celyd oeddynt yn gorfod eu dyoddef oddi wrth yr Ariaid. Yr Ariaid hwythau a haerent mai o blegid lledneisrwydd gormodol yr amherawdwr a'r llywodraeth tu ag at

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 308. † Marcelinus, l. 221. ch. 16.

Athanasius a'r Niceaid, oedd yr achos fod Duw yn ymweled â'r ddaear trwy y goruchwyliaethau barnol hyny. Yr amherawdwr ofergoelus, yn rhy barod i'w credu, a awchlymodd ei ymddygiadau, fel y penderfynodd i osod y ddeddf o unffurfiad yn fwy yn ei grym, ac i wneuthur pawb yn Ariaid trwy fin ei gleddyf. Galwodd gymmanfa yn Milan, yn yr Ital—yn mhlith lluoedd eraill ag oedd wedi eu galw—yn mha un yr oedd dros dri chant o esgobion yn bresennol, a'r amherawdwr ei hun yn blaenori. Gwedi hir ddadleu yn nghylch y geiriau *un-sylwedd* a *thebyg-sylwedd*, a diswyddiad Athanasius, yr amherawdwr a ddynoethodd ei gleddyf, ac a ddywedodd am iddynt oll gyduno â barn yr Ariaid, ac arwyddo eu credo, amgen y gosodid pwy bynag nad ufuddhäai i farwolaeth yn y fan. Eithr gan fod y Niceaid yn lluosoccach ac yn gadarnach yn y gorllewin nag oeddynt yn y dwyrain, felly amryw ag oeddynt bresennol a wrthodasant wneuthur hyny, er peryglu eu bywydau wrth beidio—yr hyn a ddengys beth yw dynion mewn gwahanol amgylchiadau. Pan oedd y rhai hyn yn amser Cystenyn yn meddwl ac yn dywedyd y dylasai pawb yn ddiymwad ufuddhau i'r llywodraeth wladol yn ei chais crefyddol, yn awr cyhoeddant athrawiaeth amgen, a hyny ar draul eu rhyddid. Er na chyflawnodd yr amherawdwr ei fygythiad yn y cyflawniad tu ag attynt, etto efe a alltudiodd amryw o honynt i leoedd pellenig; a llawer a fuant feirw cyn eu dychweliad. Eraill a ffrewyllwyd â gwiail, a rwymwyd â gefynau, ac a ddodwyd mewn carcharau, nes achosi eu marwolaeth.*

Tua'r flwyddyn 360, yr oedd yn ei fryd gael cymmanfa gyffredin o gennadau o'r holl fyd Cristionogol, i ymgyfarfod yn Nicomedia. Ond barnwyd y lle yn rhy beryglus, o herwydd y daeargryn oedd yno tua'r amser hwnw; gan hyny rhanwyd y gymmanfa: cynnaliwyd rhan o honi yn Seleucia, yn Syria; a'r rhan arall yn Ariminum, yn yr Ital, yn mha le yr ymgasglodd dros dri chant a hanner o esgobion y gorllewin. Yr oedd y rhai hyn, yn fwyaf cyffredin, hyd yma, yn fawr eu sêl dros gredo Nicea; ac er cymmaint oedd yr Ariaid yn nyddu ar eu credo hwy, er eu hennill, ni lwyddent. Anfonodd y Niceaid ddeg o'u brodyr at yr amherawdwr, i ddymuno arno beidio dwyn i mewn athrawiaethau newyddion i'r eglwys, ond gadael i bob peth aros fel yr oedd er amser ei dad, a rhoddi cennad iddynt hwythau ddychwelyd adref at eu hamrywiol eglwysi. Yr amherawdwr, wedi cadw y cennadau am hir amser cyn cael dyfodfa i'w ŵydd, yn deall nad oedd pethau yn myned yn mlaen yn Ariminum fel yr ewyllysiai, a benderfynodd eu mynnu oll i arwyddo cyffes ffydd yr Ariaid, a wnaethid ychydig yn ol yn Sirmium, neu eu hanfon i alltudiaeth. I'r dyben hwn, ymdrechodd ddangos i'r cennadau, nad oedd nemawr o wahaniaeth rhyngddynt—fod y gair Sylwedd yn dywyll i'r rhan fwyaf, a chwedi ei arfer heb ei ystyried gan y tadau—ac mai y wir athrawiaeth oedd, fod y Mab yn debyg i'r Tad. Efe a'u hynnillodd i gydsynio âg ef, ac a'u hanfonodd yn ol at eu brodyr; pan yr oedd efe wedi gorchymyn i swyddog yn Ariminum, na ollyngai neb o'r esgobion i ymadael â'r dref heb arwyddo eu cydsyniad â'r gyffes Ariaidd. Gwedi i aelodau y gymmanfa ddeall nad oedd iddynt ymadael heb broffesu eu cydsyniad â meddyliau yr amherawdwr, a bod llawer o'u brodyr yn cael eu carcharu yn y naill le a'r llall, hwy a ofnasant yn ddirfawr; a chwedi bod yno weithian saith mis, hwy a gydsyniasant â'r gyffes a roddodd yr Ariaid ger eu bron, ac a ddychwelasant at eu hamrywiol eglwysi.

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 91.

Mewn canlyniad i hyn, yr Ariaid, trwy ddichellion a thraws-arglwyddiaeth yr amherawdwr, yn nghyd â gwendid esgobion y gorllewin, a gawsant ryw fath o fuddugoliaeth dros amser. Eithr ni pharhaodd eu gorfoledd yn hir; canys Constantius a alwyd i dŷ ei hir gartref, a Julian ei gefnder a ddaeth i'r orsedd yn ei le ef. A chyhoeddodd esgobion y gorllewin, mewn amryw gymmanfaoedd wedi hyn, eu hymlyniad wrth y ffurf o athrawiaeth a gyttunwyd arni yn nghymmanfa Nicea. Cynnygwyd gan yr amherawdwr ddwyn traul yr holl esgobion i fyned i Ariminum, yno, ac i ddyfod oddi yno; eithr gwrthodasant, oddi eithr tri o rai tlodion o Gymru, ag oedd yno. Gwedi hyn ymledanodd Ariaeth yn fawr, hyd yn nod yn yr ynys hon, yn mhlith ein hynafiaid; a pharhaodd yma dros amryw flynyddau, er trallod nid bychan i'r Cristionogion uniawn-gred.

JULIAN, yr hwn a gyhoeddwyd yn amherawdwr ar ol Constantius, oedd dywysog hardd o ran ei berson, heb fod yn ddiffygiol mewn neb talentau natturiol. Ymddiriedwyd ei ddysgeidiaeth yn ei febyd, a gofal ei ddygiad i fynu, i Eusebius o Nicomedia, yr hwn oedd berthynas iddo o ochr ei fam. Er cymmeryd cryn drafferth i'w egwyddori yn more ei oes, yn athrawiaethau Cristionogaeth, fel eu dysgid y pryd hwnw, etto yr oedd yn ei feddwl yn ogwyddiedig yn barhaus at y grefydd Baganaidd, yr hyn, yn gyfrwys, a ddirgelodd efe, hyd oni chymmerodd awenau y llywodraeth i'w ddwylaw ei hun; eithr wedi hyny, ni bu neb erioed yn fwy selog drosti.

Pan yr ystyriom yr ymraniadau oedd yn mhlith y Cristionogion, a'r modd yr ymddygent tu ag at eu gilydd, a'r llofruddiaethau a arferodd ei flaenoriaid, pa rai a broffesent Gristionogrwydd, tu ag at ei berthynasau, yn nghyd â'r iselderau ag oedd crefydd wedi cael ei dwyn iddynt, mewn ymddangosiad, o ran ei hegwyddorion a'i hymarferiadau, nid oes genym le braidd i ryfeddu i ddyn o dymherau Julian—yr hwn ni chymmerai, mwy na llawer etto, y drafferth o chwilio crefydd yn ei hegwyddorion ei hun—gymmeryd tramgwydd. Yr oedd efe, fel llawer, yn wyneb yr anfanteision hyn, yn wrthddrych teilwng o dosturi, ond nid yn y mesur lleiaf i'w esgusodi. Efe, medd Mr. Gibbon, a addysgwyd yn Asia Leiaf, yn mha le yr oedd enllib a dadleuaeth yr Ariaid yn eu poethder mwyaf.

Yr ymdrech diriaid ag oedd yn barhaus rhwng holl esgobion y dwyrain am oruchafiaeth, a'r cyfnewidiadau a wnaent yn feunyddiol yn eu credöau, yn nghyd â'r dybenion halogedig oedd yn llywodraethu eu meddyliau, a amlygai nad oeddynt yn deall nac yn credu y grefydd yr ymrysonent mor ffyrnig yn ei chylch. Gwnaeth y pethau hyn effaith annirnadwy ar feddwl y tywysog ieuangc, er cynnyddu ei ragfarn yn erbyn Cristionogaeth, a'i dueddgarwch i Baganiaeth, yr hon nid oedd y pryd hwnw mewn cyfleusdra i ddangos ei gerwindeb. Pan unwaith y dangosodd ei dueddiad dros Baganiaeth, yr oedd llawenydd a gorfoledd nid bychan yn mysg holl bleidwyr yr eilunod; wrth weled ei ogwyddiad a'i benderfyniad tywysogaidd, llanwyd hwy â gobaith yr agorid eu temlau, yr adgyweirid eu hallorau, ac yr adferid eu haberthau a'u haddoliadau.

Gwnaeth yr amlygiad hwn yn Julian greu teimladau tra gwahanol yn ei holl ddeiliaid, yn fuan wedi iddo wisgo y goron. Y Paganiaid a edrychent yn mlaen gyda hyfrydwch a sirioldeb, gan ddisgwyl yr amser y cynneuid etto dân erledigaeth, ac y perid i'r fflam dorri allan er dial ar wrthwynebwyr

* Dr. Cave's Lives, vol. ii. sect. 9. a Hanes Crefydd yn Ngymru, gan y Parch. D. Peter, p. 105.

eu duwiau; pryd yr oedd y Cristionogion hwythau wedi eu llenwi â syndod, wrth edrych ar syrthiad eu tywysog, ac mewn poen a braw nid gymmaint oddi wrth yr hyn a ddyoddefent, ond oddi wrth yr hyn a ofnent. Eithr gobaith y blaenaf a siomwyd, ac ofnau y diweddaf a symmudwyd ymaith, trwy gallineb ymddygiadau Julian, yr hwn, yn ei deyrnasiad byr, a ymddengys ei fod yn wrthwynebol i ddwyn yn mlaen erledigaeth gospedigaethol tu ag at neb o'i ddeiliaid, ac yn ymdrechgar i sefydlu heddwch a thangnefedd yn eu plith. Beth bynag a allasai fod yr amcan a'i cymhellodd, y mae yn eglur iddo yn fuan gyhoeddi, a sefydlu trwy gyfraith, gyflawn ryddid cydwybod i bawb o'i ddeiliaid i addoli yr hyn a fynent, ac yn y modd a ddewisent, yn ddiwarafun, trwy ei holl amherodraeth; ac ni alwyd y gyfraith hon yn ol tra parhaodd ei deyrnasiad ef.*

Wedi gweled o hono ysbryd gormesol, anoddefol, ac erledigaethus esgobion yr eglwys gyffredinol, yn amser ei flaenoriaid, nid rhyfedd iddo eu hamddifadu o allu ac awdurdod i ddrygu neb o'u cyd-ddeiliaid, tra parhaodd efe i deyrnasu. Caniattaodd i'r Paganiaid agor eu temlau yn mhob lle, a gwaredodd hwynt oddi wrth y cyfreithiau gormesol a'r gosodiadau trawsarglwyddiaethol a osodasid arnynt gan Cystenyn a'i feibion. Galwyd yr holl weinidogion a alltudiasai Constantius yn eu hol; a chynnifer ag oedd yn fyw a ddychwelasant ac a adfeddiannasant eu hamrywiol eglwysi.

Julian a hoffai yn fawr watwor a goganu y Cristionogion; a chan ei fod er yn blentyn yn adnabyddus o'u hymraniadau a'u dadleuon, efe a alwai yn fynych am nifer o flaenoriaid y gwahanol bleidiau i'w lŷs, fel y cai yr hyfrydwch o'u gweled yn dwyn yn mlaen eu dadleuon haerllug yn erbyn eu gilydd. Gwedi eu gyrrai benben â'u gilydd, pan wedi myned i ddadwrdd brwd, a'r ymgyrch yn boeth, efe a waeddai allan—"*Clywch fi, ynfydion!* y Ffrangciaid a'r Almaeniaid Barbaraidd a'm clywent"—gan arwyddo ei fod yn eu hystyried hwy yn elynion llawer mwy cyndyn ac anghymmodlawn i'w gilydd na neb o'r rhai hyny. Gwelodd yn fuan nad oedd ei rym araethyddol, nac unrhyw foddion a arferai, yn ddigonol i'w dwyn i fyw mewn undeb, heddwch, a chyd-weithrediad, ac nad oedd iddo fawr i'w ofni nac i obeithio am dano o'r ochr honno.

Nid oes braidd un dyn ag y mae haneswyr mor wahanol eu barnau am dano â'r dyn hwn: gosodir ef allan gan y rhai hyny a farnant y dylai crefydd gael ei sefydlu trwy gyfreithiau dynol, ac y dylai rhyw un blaid grefyddol gael ei dyrchafu i flaenori a gormesu ar eraill, fel y gwaethaf o ddynion; pan y mae eraill yn ei foli fel un o'r dynion mwyaf rhinweddol. Eithr ymddengys ei fod yr hynottaf o bawb o amherawdwyr Rhufain, am ei lafur a'i ymdrech diflin dros Baganiaeth ac Iuddewaeth, ac am ei ddull goganllyd yn trin ei wrthwynebwyr. Fod ei lafur a'i ymdrech diflin, tu hwnt i neb a fu o'i flaen, dros y grefydd Baganaidd, sydd eglur. Nid hwy nag y daeth efe i'r orsedd, y bu heb wisgo y swydd o archoffeiriad penaf y grefydd honno, ac y deuodd yn gwbl gyflwynedig ac ymroddedig i'r gwasanaeth hwnw. Cyssegrodd adeilad yn ymyl ei balas i'r haul, ei dduw neillduol; ei erddi a lanwyd â delwau ac eilunod, yn nghyd âg allorau; a phob ystafell yn ei balas a ymddangosai fel rhyw deml harddwych. Trwy ei ddirfawr sêl a'i ddiwydrwydd yn ei gyflawniadau coelgrefyddol, amcanai

* Gibbon's Decline and Fall, &c. vol. iv. ch. 23.

ddeffroi ei is-swyddwyr a'r bobl i fwy awyddfryd ac ymdrech dros y duwiau. Yn nghanol lluaws a gyfrifid yn sanctaidd—eithr y rhai mwyaf halogedig, o offeiriaid a gweinidogion, o bob graddau, a dawns-forwynion, y rhai a ymgyflwynasent i wasanaeth y temlau—yr oedd yn perthyn i'r amherawdwr, wrth ei swydd, ddwyn y coed, chwythu y tân, trin y gyllell, lladd yr aberth, a rhoddi ei ddwylaw gwaedlyd i mewn yn amysgaroedd yr anifail trangcedig, i dynnu allan ei afu a'i galon, a darllen, gyda chwbl fedrusrwydd dewin, yr arwyddion dychymmygol am bethau oedd i ddyfod.

Gwedi eu calonogi fel hyn trwy siampl eu llywydd, a chael eu hannog gan ei haelioni, y dinasoedd, y trefydd, a'r teuluoedd yn fuan a ddechreuasant mewn adymarferiad o'u hen ddefodau esgeulusedig. "Pob rhan o'r byd," medd un o'u hysgrifenwyr, gyda gorfoledd, "a ddangosodd fuddugoliaeth eu crefydd—hyfrydol oedd golygiad eu hallorau fflamllyd, eu haberthau gwaedlyd, a mwg eu harogldarthiad, a'r rhestri difrifol o offeiriaid a phrophwydi, heb beryglon nac ofnau. Sain gweddiau a chaniadau oedd i'w clywed o benau y mynyddoedd uchaf; a'r un ŷch a roddai aberth boddhaol i'r duwiau, ag a wnai swpper cyssurus a llawen i'r addolwyr." Dr. Lardner a ddywed—cywirdeb golygiadau yr hwn ar hanesion hynafiaethol, nid amheuir ond anaml—fod Julian yn ddyn a lywodraethid gan ysgafnder meddwl yn gyffredinol; yn siaradwr mawr; yn hoff iawn o goelgrefydd a chlodforedd, yn fwy na chrefydd syml mewn un dull; yn gymmaint ei dueddiad i aberthau, fel ag y buasai yr holl deirw yn debyg o gael eu dystrywio pe dychwelasai yn ol yn fuddugoliaethus o'i hynt filwraidd yn erbyn y Persiaid. Y fath oedd amlder ei aberthau, fel yr oedd ei filwyr yn fynych yn cael eu taflu i'r annhrefn mwyaf, trwy fwytta ac yfed i ormodedd ar yr achlysuron hyny. Derbyniai yr haul bob bore yn ei godiad, trwy waed; a thrwy waed y dilynai ef yn ei ostyngiad bob hwyr. Trwy ei aml wasanaeth crefyddol, meddyliai wneuthur y duwiau yn gynghreirwyr iddo yn ei ryfel. Addolai Mercury, Ceres, Mars, Caliope, Apolo, a Jupiter. Libanius a achwyna yn dost yn erbyn y duwiau, am ei adael, gan ddywedyd—"Pa un o honynt sydd i'w feio? nid un, ond oll: canys nid esgeulusai efe un o'r duwiau na'r duwiesau. Ai hyn yw yr ad-daliad (medd ef) a roddant hwy iddo am yr holl aberthau, yr holl addunedau, yr holl arogldarthiadau, a'r holl waed a offrymai iddynt trwy y dyddiau a'r nosweithiau?" "Pa le bynag y byddai teml," medd yr un awdwr, "pa un bynag ai ar fynydd, ai ar ben y clogwyn uchaf, nid oedd un lle rhy arw na rhy anhawdd i ddyfod atto, nas rhedai efe yno, fel pe buasai y ffordd yn esmwyth ac yn hyfryd."

Er fod Julian yn ei ffordd yn gwbl gyflwynedig i'r duwiau a'u gwasanaeth, etto dangosai anfoddlonrwydd tu ag attynt pan ei siomid ganddynt, fel y Paganiaid eraill. Pan yn ei ryfel â'r Persiaid, wedi cael mesur o lwyddiant, ac yn disgwyl rhagor, efe a ddarparodd aberth drudfawr i Mars; ond gan fod yr arwyddion yn wrthwynebol, efe a ddigiodd, ac a alwodd ar Jupiter i fod yn dyst, nad aberthai un aberth byth mwyach i Mars. Y gwallgofrwydd coelgrefyddol hyn, a ymddengys i ni yn ddiffyg ysbryd barn; y diffyg hwn a ddangosodd mewn llawer ffordd, ar amryw amgylchiadau, ac mewn llawer gweithred, heb fod yn gwbl anmhriodol i urddasrwydd yr amherawdwr.* Diwygio y grefydd Baganaidd oedd un o'r pethau yr ym-

* Lardner's Testimonies, vol. iv. p. 25.

geisiai fwyaf attynt. I'r dyben hwnw, rhoddodd gyfundraith o reolau moesau manwl a llym i'r offeiriaid ac eraill, yn nghylch eu hymddygiadau personol ac addoliad yr eilunod, a ddysgasai efe yn ddiau yn nyddiau ei ieuengctyd yn mhlith y Cristionogion. Gorchymynai, gyda y dwysder mwyaf, i'w swyddogion gwladol ac eglwysig, attal drygioni ac annog pawb i fod yn drugarogion ac yn haelionus tu ag at eu gilydd, ac i fod yn fanwl yn eu defodau crefyddol, gan fod eu hunain yn siampl i'r bobl. "Yr offeiriaid," medd ef, "a ddylent fod yn eu bywyd yn esamplau o'r athrawiaeth y maent yn ddysgu i eraill; a'r rhai drwg ac annuwiol a ddylent gael eu bwrw allan o'u swyddau." Yn mhellach, efe a ddengys y dylai y rhai hyny a gymmerant arnynt swyddau sanctaidd, ymgadw oddi wrth bob chwarëyddiaethau, dawnsiau, a chymmanfaoedd llygredig; ac mai dynion duwiol a rhinweddol a ddylent gael eu gosod yn ngweinidogaeth y duwiau, yn mhob dinas, heb un golwg at eu sefyllfaoedd, ac amgylchiadau eu bywyd. Eu duwiol ddygiad i fynu eu teuluoedd, eu tosturi tu ag at eraill, a'u haelioni tu ag at y cyfryw a fyddo mewn angen, a ddylai fod eu cymmeradwyaeth penaf." Yn ddiau, dylai lleferydd Julian y Pagan, yn hyn yma, fod yn argyhoeddiad dwys ac yn gywilydd i lawer a broffesant Gristionogaeth y dyddiau hyn. "Y Galileaid annuwiol"—yr enw gwawdus a arferai efe alw ar y Cristionogion—"trwy eu haelioni tu ag at eu gilydd, a gadarnhausant eu plaid; eithr y grefydd Baganaidd sydd wedi dyoddef o herwydd diffyg o'r pethau hyny." Y tân hwn a ddygodd y Gwrthgiliwr oddi ar allor y Cristionogion; a thrwy ei fawr gyfrwysdra, ymdrechodd ei ennyn ar allor Paganiaeth.*

Yr amgylchiad arall y cyfeiriwyd atto, ag oedd yn hynod yn Julian, oedd, ei ymdrechiadau i adferu Iuddewaeth, a chodi i fynu y deml fel cynt yn Jerusalem. Y mae yn anhawdd gwybod, i sicrwydd, pa beth a allasai fod yn ngolwg yr amherawdwr wrth amcanu gwneuthur hyn; eithr y mae yn ddigon amlwg nad oedd ganddo un gronyn mwy o barch i Moses a'r prophwydi, nag oedd ganddo i Grist a'i apostolion. Tebygol iddo dybied yn ei feddwl gwag ac uchel-geisiol, y buasai adferu y deml ac addoliad yr Iuddewon i'w gogoniant cyntefig, yn anrhydedd annhraethol iddo. Gwyddai fod y Cristionogion yn golygu yn ddilys, fod y cysgodau, a'r oruchwyliaeth Foesenaidd, i gael eu symmud ymaith ar ymddangosiad yr Arglwydd Iesu yn y cnawd, a gorpheniad gwaith ein hiachawdwriaeth, a bod hyny yn brawf anwrthwynebol o ddwyfoldeb y grefydd Gristionogol. Ond meddyliodd pe gallasai adeiladu y deml, ac adferu yr Iuddewon i'w sefyllfa a'u breintiau gynt, y buasai yn gallu troi hyn yn rheswm yn erbyn ffydd yn y prophwydoliaethau a gwirionedd y dadguddiad Cristionogol. Gan hyny, rhoddodd orchymyn allan o law i'w swyddog Alypius ddechreu ar y gwaith gorchestol o adeiladu teml harddwych ar fynydd Moriah yn ddioed; gan obeithio, pan y dychwelai o'i ryfel â'r Persiaid, y cai dalu ei addunedau i'r Hollalluog yn Jerusalem.

Cyhoeddodd alwad ysgrifenedig tra annogaethol i'r holl Iuddewon, o bob lle, i ddychwelyd i wlad Canaan, ac i Jerusalem; yn mha un dywedai ei fod yn tosturio wrth eu hanffawd, yn euogfarnu eu gormeswyr, yn canmawl eu diysgogrwydd, ac yn cyhoeddi ei hun yn amddiffynwr iddynt. Yr Iuddewon, wrth alwad eu gwaredwr grymus, a ddechreuasant eu teithiau, gan hwylio

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 125.

o bob parth tua Jerusalem. Yn yr adeg gymmodlawn hon, medd Mr. Gibbon, y dynion a anghofiasant eu cybydd-dod, a'r merched dynerwch natturiol eu rhywiogaeth; palau a phiccasau o arian a ddarparwyd trwy ffolineb y cyfoethogion, a'r ysgarthion a symmudid ymaith mewn mantelli o sidan ac ysgarlad. Pob côd arian oedd yn agored mewn cyfraniadau, a phob llaw a arddelwai hawl i fod yn y llafur sançteiddiolaf, yn eu golwg hwy, fel ag yr oedd archiad yr amherawdwr yn cael ei gyflawni yn frwdfrydig gan yr holl bobl.*

Ond yr holl ymdrech, y gallu, a'r awdurdod goruchel trwy ba un y cefnogid hyny, a fu yn eithaf aflwyddiannus y tro hwnw. Y mae dynion yn wahanol yn eu barn am yr achos o'r aflwyddiant hwn. Rhai a'i priodolant yn hollol i farwolaeth Julian, yr hyn a gymmerodd le yn fuan ar ol hyny, a chwbl wrth-dueddiad ei olynwr i'r cyfryw orchwyl. Eithr Ammianus Marcelinus, yr hwn oedd yn byw y pryd hwnw, ac a ysgrifenodd ei hanes cyn pen ugain mlynedd wedi hyny, a ddywed fel hyn:—"Tra yr oedd Alypius, llywydd y dalaeth, yn ei gynnyrthwyo yn nygiad y gwaith yn mlaen gydag egni a diwydrwydd anarferol, peleni echrydus a fflamiau angerddol o dân, a dorent allan yn agos i'r sylfaenau; a thrwy fynych adruthriadau o'r fath, gwnaed y lle yn anghyrchadwy, o amser i amser, i'r gweithwyr deifiedig a llosgedig. Yr elfen fuddugoliaethus a barhaodd yn y modd hwn am amser, yn wrthnysig a therfynol, i'w gyrru yn mhell oddi wrth eu gwaith, fel y gorfu arnynt yn hollol adael eu gorchwylion." Y dystiolaeth ddiymwad hon, fel y mae Gibbon yn ei rwydd addef, a gefnogir gan Ambrose, esgob Milan, mewn llythyr at Theodosius yr amherawdwr; gan Chrysostom, yr hwn oedd y pryd hwnw yn esgob Antiochia; a chan Gregory Nazianzenus, yr hwn a hysbysa am yr amgylchiad goruwch-naturiol, cyn diwedd y flwyddyn honno.†

Nid oedd neb yn fwy hoff o oganu ei wrthwynebwyr, yn enwedig y Cristionogion, na Julian. Nid arferai braidd un enw ar Grist ond Galilead, a'r cyffelyb; a Galileaid, mewn ffordd o wawd, a fynai alw ar ei ganlynwyr; yr hyn a adroddai yn y fath ddull cellweir-gnöawl, fel y rhoddai archoll dwys a chlwyf marwol pa bryd bynag y deuai hyn o'i enau Pan y deuai rhai o'r Cristionogion gorthrymedig atto â'u cwynion, efe a'u hattebai gan ddywedyd,—"Onid ydych chwi, y Galileaid, yn cael eich dysgu i ddyoddef yn dawel ac heb rwgnach?" Annogai eraill hefyd i wawdio a dirmygu Cristionogaeth a'i phleidwyr, trwy ysgrifau a dywediadau.‡ Er na ddileodd Julian y gyfraith rhyddid cydwybod, a roddasai i'w holl ddeiliaid yn nechreu ei deyrnasiad, etto y mae yn eglur iddo gwttogi llawer ar ryddid amryw o'r Cristionogion, gan eu gwaradwyddo yn eu henwau a'u cymmeriad, a'u hyspeilio yn eu breintiau a'u meddiannau, cyn diwedd ei deyrnasiad. Llawer o diroedd, meddiannau, a thai, o eiddo y Paganiaid, a roddasid gan ei flaenoriaid at achos Cristionogol, a orfuwyd eu rhoddi yn ol yn bresennol yn ddyblyg; a thrwy hyny tynwyd i lawr lawer o addoldai harddwych, a adeilasid gan y Cristionogion ar y tiroedd hyny. Y cyllid a roddasai ei flaenoriaid oddi wrth y deyrnas at gynnal gweinidogion Cristionogol, a gymmerwyd ymaith yn hollol, ac a roddwyd i gynnal gweinidogion yr eilunod: a difeddiannwyd y Cristionogion o'r fraint o addysgu eu gwyr ieuainge mewn dysgeidiaeth gyffredin.

* Gibbon's Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 38. † Ibid, p. 40. ‡ Universal Biog. Dict.

Y gormesiadau hyn, a'u cyffelyb, a roddent olwg dywyll iawn ar yr hyn a fuasai yn debyg o gymmeryd lle, pe buasai Julian byw ychydig yn hwy. Unwaith, pan yr oedd efe yn y deml yn aberthu i'w eilun, digwyddodd i Maris, esgob Calcedon, fyned heibio, yr hwn oedd henafgwr parchus a dysgedig; efe a'i triniodd yn galed, gan ei wawdio, fel dirmygwr y duwiau. Dannododd iddo ei fod yn ddall, ac er maint a soniai efe am ei Dduw Galileaidd, nad oedd yn alluog i roddi iddo ei olwg. Yr hen esgob a'i hattebodd, ei fod yn diolch i'w Dduw am gymmeryd ymaith ei olwg cyn iddo weled y fath wrthgiliwr ffiaidd ag oedd efe. Ar yr amgylchiad hwn, llywodraethodd ei hun, fel yr aeth ymaith heb wneuthur un sylw yn mhellach; ond nid felly yr oedd bob amser. Pan yn Antiochia, dau swyddog yn ei fyddin a achwynasant fod holl ffynnonau a dyfroedd y ddinas, a'r hyn oll oedd i'w fwytta yn y farchnadfa, wedi eu halogi trwy ei ddefodau Paganaidd a thaenelliad y dyfroedd puredigaeth arnynt er eu cyssegru i'r duwiau—mai hyny oedd ei ddull dichellgar yn mhob lle, er ennill dynion yn ddiarwybod iddynt i ymwneud â defodau Paganaidd. Galwodd am y swyddwyr a wnaethent yr achwyniad ger bron; hwythau pan ddaethant a gyfaddefasant iddynt wneud y cyfryw achwyniad, a thrwy eu bod yn Gristionogion, wedi dysgu edrych ar hyny yn ddrwg, nad allent lai na theimlo gofid wrth fod pob peth a fwyttaent ac a yfent wedi ei halogi gan ddefodau Paganaidd, ac mai hyn yn unig oedd yn ei lywodraeth yn eu hanfoddloni hwy. Efe a ddigiodd gymmaint wrthynt, fel y gorchymynodd eu gosod i farwolaeth trwy y poenau mwyaf, gan dystio mai nid yn achos eu crefydd yr oeddynt yn marw, ond o herwydd eu hanniddigrwydd tu ag at eu hamherawdwr. Llawer o'r cyfryw droion a welir yn ei hanes, trwy ba rai y canfyddir yn amlwg ei fod yn casâu y Cristionogion yn ddirfawr, ac iddo eu gwasgu i dlodi mawr yn gyffredin, trwy eu trethu yn drwm, er adeiladu temlau y Paganiaid, a'u bwrw allan o swyddau a sefyllfaoedd o elw ac ymddiried yn y wladwriaeth.

Gwedi teyrnasiad byr o ddeunaw mis, efe a fu farw mewn brwydr â'r Persiaid, ar lan yr afon Euphrates, trwy gael ei drywanu â saeth y gelyn. Dywedir gan rai awdwyr, iddo yn ei funudau diweddaf, pan y deallodd fod y clwyf yn farwol, gymmeryd llonaid ei law o'i waed, a'i daflu tua'r awyr, gan waeddi allan,—TI A'M GORCHFYGAIST, O GALILEAD! gan gyfeirio, medd rhai, at yr haul, yr hwn a addolid megys duw gan y Persiaid; eithr, medd ereill, at Iesu Grist yr hwn a arferai alw yn Galilead:* ond y mae Gibbon yn dangos yr hanes hwn fel peth hollol amhëus.

Yn y flwyddyn 362, bu farw Sior, yr hwn a osododd Constantius mewn traws-feddiant o swydd a sefyllfa Athanasius yn Alexandria. Ymddengys fod hwn yn ddyn drwg, a than lywodraeth y nwydau gwaelaf a berthyn i'r mwyaf llygredig o ddynolryw. Gwedi hir ddilyn ei falchder, ei drachwant, ei ormes, a'i loddest yn Alexandria, syrthiodd y werinos arno mewn modd terfysglyd, heb ei ddwyn i lŷs barn, a rhoddasant ef a dau o'i gymdeithion i farwolaeth yn y modd mwyaf didrugaredd. Er fod pleidwyr Athanasius wedi cael eu trin ganddo yn y modd creulonaf, a llawer o honynt wedi eu gosod ganddo i farwolaeth, am addoli Duw yn eu teuluoedd, &c. etto y mae yn deilwng i'w ddywedyd, nad oedd neb o honynt hwy â llaw yn ei farwolaeth; yr hyn, medd Gibbon, a ystyrir yn siampl ddysglaer o'u hamynedd efengylaidd.† Julian, wedi clywed am y terfysg a fu yn nghylch

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 149. † Gibbon's Decline and Fall, vol. ii. p. 75.

marwolaeth yr archesgob Ariaidd, yn Alexandria, a feia yn fawr arnynt am eu dull terfysglyd, ac a fygwth eu dwyn i gyfrif, fel rhai wedi troseddu yn erbyn deddfau nattur a chyfiawnder; eithr a addef fod ei brofedigaeth yn fawr, oddi wrth ymddygiadau gormesol a thraws-arglwyddiaethol Sior o Cappadocia, yr hwn a haeddai yn gyfiawn farw.*

* Y Sior hwn oedd ddyn o ddechreuad gwael, ac yn annysgedig, yn ngwlad Cappadocia; ond trwy ryw weithrediadau, daeth yn drysorydd i'r fyddin, ac yn fasnachydd drosti, pryd y casglodd lawer iawn o gyfoeth; eithr trwy gymmaint anonestrwydd, fel y gorfu arno ddiange o'r wlad rhag i'w fywyd gael ei gymmeryd ymaith trwy gyfraith. Gwedi iddo ffoi a dyfod i Alexandria, deuodd yn un o'r blaid a wrthwynebai Athanasius. Yn fuan wedi alltudio hwnw, dewiswyd ef yn esgob i'r Ariaid yno. Cymmaint oedd gwrthwynebiad plaid Athanasius i'w ddewisiad i'r gadair esgobaethol, fel nad oedd llai na dwy fil o wyr arfog yn ei osod arni, ac yn ei amddiffyn yno. Ei ymddygiadau oedd y rhai mwyaf balch, ariangar, treisiol, gormesol, &c. a fu erioed, pan oedd ynddi. Yn amser Julian gosodwyd ef i farwolaeth gan y bobl. Ond yr hyn sydd ryfedd — mewn amser wedi hyn, seintiwyd ef gan eglwys Rhufain. A hwn yw saint amddiffynol Ynys Prydain; ac y mae yma eglwys gysegredig iddo yn Swydd Ddinbych: a gelwir y Cyfyng-for rhyngom a'r Iwerddon yn Gyfyng-for St. Sior.— *Christian Instructor for July*, 1831.

PEN. XXIII.

Lle traethir am gymmeriad Jovian ac agwedd Crefydd yn ei deyrnasiad ef—Dyfodiad Valentinian a'i frawd Valens i'r orsedd—y modd y darfu iddynt weini eu llywodraeth—yr Erledigaeth a fu ar y Niceaid yn nheyrnasiad Valens—Dyfodiad Gratian a Valentinian yr Ail i'r orsedd—y modd y dygwyd yn mlaen orchwylion yr Eglwys Gristionogol dan eu teyrnasiad—yr ymdrech gorchestol a fu rhwng Justina yr amherodres, ac Ambrose archesgob Milan—Codiad Theodosius i'r orsedd—ei gymmeriad, fel dyn, mewn gwahanol sefyllfaoedd—ei gymmeriad fel amherawdwr—a'i gymmeriad yn yr oruchwyliaeth a ymarddelwai fod ganddo tu ag at yr Eglwys—y Cyfreithiau caethion a wnaeth dros Unffurfiad—ei Farwolaeth.

JULIAN a fu farw ar lan yr afon Tigris, yn mhell o dir ei wlad, pan wedi arwain ei fyddin i amgylchiadau tra annedwydd a lled anobeithiol. Canys er iddo ennill rhai brwydrau, etto yr oedd y gelynion yn lluosog, heb adael y maes, na chwedi eu gorchfygu, a hwythau y pryd hwnw yn nghanol eu gwlad, ac mewn mesur mawr o brinder cynnaliaeth. Gwedi marwolaeth yr amherawdwr, yr hwn ar yr amgylchiad a ddewisodd gael ei esgusodi rhag enwi ei ganlyniedydd, y fyddin, i'r hon er ys dyddiau, yn ol arferiad, y perthynai yr hawl o bennodi yr amherawdwr newydd, a gynnygasant y goron i un Salust, yr hwn a'i gwrthododd, gan ddywedyd ei fod wedi gwanychu cymmaint, fel nad oedd yn alluog i'w chynnal. Ar ol hyn rhodd wyd hi i Jovian, mab i iarll Varonian, yr hwn a ystyrid yn foneddwr rhinweddol a pharchus, ac yn Rhufeiniad.

Jovian a gyhoeddwyd yn amherawdwr gan y fyddin yn y flwyddyn 363, neu ddechreu 364, pan yn nghylch 33 mlwydd oed, pryd yr oedd amgylchiadau yr holl amherodraeth yn dra anghyssurus a pheryglus; ac ychydig ddyddiau yn hwy na saith mis y parhaodd ei deyrnasiad ef. Yr oedd efe yn ddyn o gorpholaeth mwy na chyffredin, wedi cael ei ddwyn i fynu yn egwyddorion y grefydd Gristionogol, a chwedi parhau yn ei broffes yn dra sefydlog, fel y dywedir iddo yn amser Julian, foddloni gadael ei swydd a'i sefyllfa anrhydeddus ac ennillfawr, yn hytrach na'i gwadu.* Am ei rinweddau moesol, a'i ymarferiadau Cristionogol, y mae ei hanes yn dra chymmysglyd; ac nid oes ond ychydig i'w ddywedyd am ei rinweddau amherodrol a milwraidd; canys ni chafodd fawr o le i'w hamlygu, ond yn unig yn arweiniad y fyddin yn ol o lan yr afon Tigris i Antiochia, yr hyn oedd fwy na phymtheg cant o filltiroedd. Anmhriodol ac anmherthynasol i'r hyn sydd genym mewn llaw, fyddai adrodd am y modd yr achubodd efe ei hun a'r fyddin o law Sapor brenin Persia, trwy wneuthur âg ef gyttundeb heddwch gwarthus i'r Rhufeiniaid; er, hwyrach, mai un cwbl angenrheidiol

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 155.

ydoedd, ac ystyried yr amgylchiadau yr oeddynt ynddynt, yn nghyd â'r difrod a wnaed ar y milwyr mewn gwahanol ddull a modd, cyn iddynt allu cyrhaedd eu gwlad eu hunain.* Preswylwyr y taleithiau a'r dinasoedd hyn a berthynent i amherodraeth Rhufain, ag oedd efe yn bresennol yn gorfod eu rhoddi i fynu i'r Persiaid am ei ryddhad, a ddeisyfiasant trwy hyawdledd, dagrau, a thaerineb o'r mwyaf, gael ond rhyddid i amddiffyn eu hunain, yn hytrach na'u rhoddi i law y barbariaid; canys y cyfryw oedd y Persiaid y pryd hwnw: ond ni lwyddasant, o blegid yr oedd y tywysog yn ddiysgog i gyflawni ei lŵ i Sapor, yr hyn a ystyrir ynddo yn rhinwedd gan ddynion da, eithr i'r gwrthwyneb gan eraill.

Pan y gwybuwyd am farwolaeth Julian, a phwy oedd yr hwn oedd i feddiannu yr orsedd ar ei ol ef, yr oedd teimladau gwahanol iawn yn treiddio trwy fynwesau holl ddeiliaid yr amherodraeth ëang. Gwelodd y Paganiaid a'r Iuddewon fod eu meddiant a'u gobaith hwy wedi syrthio ar unwaith. Y Cristionogion hwythau a adfywiasant ac a ymsiriolasant, gan fod drws o ymwared a gobaith o fwynhad wedi ymagor iddynt: canys rhoddodd Jovian arwyddion buan ei fod yn bwriadu pleidio a sefydlu Cristionogaeth trwy holl derfynau ei amherodraeth. Cyn dyfodiad gweddill y fyddin i Antiochia, cwhwfanwyd llummanau âg arwyddion y groes arnynt, trwy holl gyrrau y fyddin, fel ag yr oedd yn amser Cystenyn, pa rai oedd wedi eu rhoddi o'r neilldu yn amser Julian; derbyniwyd hyn fel amlygiad o ffydd yr amherawdwr ieuangc. Mor fuan ag yr esgynodd i'r orsedd, rhoddodd gyhoeddiad allan mewn ysgrif, ac a'i hanfonodd trwy yr holl daleithiau, yn mha un y cydnabyddai ddwyfoldeb Cristionogaeth yn unig, ac yr amlygai mai ei ewyllys a'i fwriad ydoedd iddi gael ei sefydlu trwy gyfreithiau yn holl derfynau ei deyrnas. Dadwnaeth holl gyfreithiau ei ragflaenor o blaid Paganiaeth ac Iuddewaeth; ac adferodd a chwanegodd y cyllid brenhinol a roddid i'r Cristionogion, gan gyfaddef y buasai yn gwneuthur rhagor pe goddefasai amgylchiadau y deyrnas y pryd hyny: etto ni wyddai neb i ba grêd, nac i ba gymmanfa y perthynai. Y Cristionogion o'wahanol bleidiau a wyddent trwy brofiad o ba gymmaint pwys oedd yr argraffiadau blaenaf a ellid wneud ar feddyliau y milwr annysgedig; gan hyny eu blaenoriaid a frysiasant yn heidiau tua'r llŷs amherodrol. Y prif-ffyrdd a lenwid gan esgobion a chennadau y Niceaid, yr Ariaid, a'r hanner-Ariaid, ag oedd y pryd hwnw wedi dechreu, a'r Eumoniaid. Y rhai hyn a ddeuent o bob cwrr, gan ymdrechu yn egniol i flaenori eu gilydd yn mhen yr yrfa. Holl ystafelloedd y palas a ddadseiniai gan eu dadwrdd; a chlustiau y tywysog a gymmerid i fynu yn hollol gan eu hymadroddion; ac nid annhebyg oedd nas llenwid ef â synedigaeth wrth glywed y fath amrywiaeth ymresymiadau naturiaethol yn cael eu traddodi, a'r fath achwyniadau personol yn cael eu dwyn gan y naill yn erbyn y llall. Eithr efe, mewn modd pwyllog a doeth, a'u hannogodd hwy i undeb a heddwch, ac a'u hanfonodd ymaith, gan ddywedyd y penderfynid eu dadleuon trwy farn cymmanfa gyffredin. Dehonglwyd hyn ar y cyntaf fel arwydd o ddiffyg sêl yn y tywysog; eithr yn fuan efe a roddodd arwyddion eglur o'i bleidgarwch i'r Niceaid, trwy ei lythyr caredig at Athanasius—eithr un â gormodedd o eiriau chwyddedig ynddo—er ei adferu i'w swydd a'i sefyllfa yn Alexandria; a chafodd annogaeth i ddyfod i ymweled â'r amherawdwr yn Antiochia.

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 78.

Athanasius, wedi clywed am farwolaeth Julian, a ymddangosodd o'i sefyllfa ddeoledig, yn mha un yr ymguddiai, ac a dderbyniwyd yn llawen gan y blaid Niceaidd, yr hon oedd wedi ei gorthrymu yn dost gan yr Ariaid, yn Alexandria, a'r cylchoedd hyny: eithr efe a wrthwynebwyd gan yr Ariaid, hyd eithaf eu gallu; pa rai a anfonasant gennadau gydag un Lucius, yr hwn y chwennychent iddo gael yr esgobaeth; a dadleuasant ei achos yn hyawdl ger bron yr amherawdwr, gan ymdrechu duo cymmeriad Athanasius, ond yn hollol aflwyddiannus.* Canys dychwelodd yr hen archesgob yn ol o Antiochia, gwedi derbyn arwyddion sicr o heddwch a phleidgarwch yr amherawdwr, gan brophwydo hir a llwyddiannus deyrnasiad i'w gymmwynaswr; a meddiannodd ei esgobaeth a'r llywodraeth eglwysig yn Alexandria, a thrwy holl wlad yr Aipht, am ddeng mlynedd yn ychwaneg.

Ymddygiadau Jovian, er na fu byw ond ychydig, a roddodd ergyd marwol ar unwaith i lwyddiant Paganiaeth, trwy holl derfynau amherodraeth Rhufain. "A Christionogaeth," medd Mr. Gibbon, "a ennillodd fuddugoliaeth rwydd, esmwyth, a pharhaus ar Baganiaeth. Canys mor fuan ag y cymmerwyd ymaith wênau ac amddiffyn y llywodraeth amherodrol oddi wrth addoliad y duwiau, ni pherthynai i'r cyfundraith ddim ag oedd yn annogaethol mwyach, er ei ddyrchafu trwy gyfreithiau Julian; gadawyd ef yn bresennol i suddo i lawr mewn llwch, yn anadferadwy." Mewn llawer o ddinasoedd, y temlau a esgeuluswyd; eraill a gauwyd i fynu; a llawer o naturiaethwyr a eilliasant eu barfau, ac a newidiasant eu gwisgoedd, trwy ba rai yr arwyddent eu perthynas â'r grefydd Baganaidd, fel arwydd o'u hollol ymwrthodiad â hi. Y Cristionogion hwythau a lawenychasant unwaith yn rhagor, am fod ar eu llaw i faddau neu gospi eu gwrthwynebwyr am y sarhad a wnaed arnynt yn y teyrnasiad blaenorol. Jovian yn y cyfamser a yrodd allan gyhoeddiad rhadlawn, yn mha un y dangosai yn eglur, er y cospai bawb defodau cyssegr-ladrad dewinyddol, etto y gallai ei holl ddeiliaid, gyda rhyddid a diogelwch, ymarfer â pha ddefodau crefyddol bynag a ddewisent, ac yn y modd y mynent. "Yr wyf," medd efe, "yn dymuno gweled terfyn ar bob amryson, ac yn caru y rhai hyny yn unig ag sydd yn caru heddwch, ac yn ymdrechu i'w ddwyn yn mlaen;" gan dystiolaethu na flinai efe neb yn achos eu crefydd, ac na wnai un sylw o'u credöau; ond mai yr unig rai a feddiannai ei ewyllys da, oedd y cyfryw a ymdrechent gadw undeb a heddwch yn yr eglwys.

Y senedd yn Nghaer-Cystenyn a anfonasant i'w gyfarfod un Themistius, areithydd hyawdl, yr hwn oedd Bagan, i gyflwyno eu hymostyngiad a'u hufudd-dod iddo, fel eu hamerawdwr. Yr araeth a wnaeth ar yr achlysur, sydd i'w chael, a theilynga ein sylw o herwydd yr olwg a rydd ar grefydd yn yr eglwys a elwir yn gyffredinol y dyddiau hyny, ac am mai efe ydyw y Pagan cyntaf a glywir fod yn dadleu dros ryddid cydwybod.† "Pob crefydd," medd ef, "a ddiraddiwyd, ar eu cylch, trwy y cyfnewidiadau a gymmerasant le yn ddiweddar, pan yn y llwyddiant ymddangosiadol yr ymdyrai lluaws o broselytiaid diwerth attynt, y rhai a ymroddent yn hollol i fod yn bleidiol i ochr y llywodraeth a'r fantell ysgarlad, gan fyned yn rhwydd, heb reswm na chywilydd, o'r eglwysi i'r temlau, ac oddi wrth allorau Jupiter i fwrdd cyssegredig y Cristionogion."‡

* Milner's Church Hist. vol ii. p. 165. † Ibid, 161.

‡ Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, vol. ii. p. 85.

Gwedi i Jovian aros am ychydig amser yn Antiochia—yr hyn nid oedd ond prin digon, fel y bernid, i ddiflino ei hun a'i gyfeillion wedi y fath daith drafferthus—cychwynodd tua Chaer-Cystenyn, ei brif-ddinas, yn nghyd â gweddill y fyddin. Nid yw yr achos o'r ymadawiad brysiog hwn yn hollol adnabyddus; eithr y mae yn eglur fod yr Antiochiaid, o herwydd rhyw bethau, yn ei fawr ddirmygu, trwy eu chwedlau cyfrwys, a'u gogan-eiriau, fel y sòrodd efe wrthynt yn fawr. Pan yr oedd ar ei daith tua'i brif-ddinas, mewn tref fechan o'r enw Danastana, yr hon nid oedd yn neppell o Nicea, efe a fu farw yn ei wely yn ddisymmwth, heb neb yn gwybod pa fodd, nac o ba achos. Eithr bernir yn gyffredin i'w farwolaeth gael ei achosi trwy fwytta y prydnawn o'r blaen ormodedd o fwyd y barcud, o'r hwn yr oedd yn hynod o hoff, a thrwy yfed gormod o win.

Fel hyn terfynodd Jovian ei fèr yrfa amherodrol; ac wrth ystyried amgylchiadau yr amherodraeth y pryd hwnw, yn nghyd â'r heddwch gwarthus oedd wedi ei wneuthur â'r Persiaid, yr hyn oedd yn mhell o roddi boddlonrwydd cyffredinol i'r Rhufeiniaid, nid ymddengys ei fod o deimladau na galluoedd i gynnal y llywodraeth lawer yn hwy pe buasai byw. Er yn ddiau, mewn cyfiawnder, nid oedd efe i'w gwbl feio am y weithred honno; canys yr oedd uchel-gais a byrbwylldra ei ragflaenor yn eu harwain i'r lleoedd pellenig hyny, a dinystriol sefyllfa yr holl fyddin yn y cyfryw amgylchiadau, yn ei osod dan yr angenrheidrwydd o wneud yr hyn nis mynnai, er ymachub a dyfod oddi yno. Gwedi ei farwolaeth, bu yr orsedd am ddeg diwrnod heb neb yn ei meddiannu, pan yr oedd prif swyddogion y taleithiau a llywyddion y fyddin yn eistedd mewn cynghorfa barhaus er cynnal trefn lywyddol yn y wladwriaeth yn Nicea, yn Bithynia, yn mha le y cynhelid y llŷs y pryd hwnw.* Cynnygwyd y goron amherodrol drachefn i Salust gan yr holl lŷs; trwy hyn rhoddwyd iddo y cyfleusdra o'i gwrthod yr ail waith, a hyny o herwydd yr un rheswm ag a roddasai o'r blaen: a phan y dadleuwyd dros deilyngdod ei fab i'w chael, o herwydd rhinweddau y tad, efe a wrthsafodd y cynnygiad, o herwydd ei ieuengctyd—lle gwelir fod hwn yn ddyn lled anghyffredin, yn caru lleshad yr amherodraeth, a llwyddiant y Rhufeiniaid, yn fwy na'i dderchafiad ei hun a'i deulu. Gwedi i amryw ymgeiswyr gynnyg eu hunain, am nad oedd iddynt dderbyniad cyffredinol, ni wnaed dewisiad o neb o honynt; eithr wedi iddynt enwi Valentinian, arwyddwyd derbyniad cyffredinol iddo gan yr holl fyddin a'r wladwriaeth.

Valentinian oedd fab i iarll Gratian, genedigol o Cabales, yn Pannonia, yr hwn a gododd o sefyllfa isel, trwy ei fedrusrwydd, ei nerth, a'i rinweddau milwraidd, i fod yn flaenor ar y byddinoedd a berthynent i Affrica, Gaul, a Phrydain. Hyn a fu yn gyfleusdra i'w fab yn forau i roddi amlygiad helaeth o'i dalentau, ac yn ddechreuad i'w ddyrchafiad. Yr oedd Valentinian, o ran ei berson, yn dal, yn hardd, a mawreddog, fel yr oedd yn ei bresennoldeb yr hyn a ddygai lawer o arwyddion callineb a gwroldeb, yn effeithio yn mynwes ei gyfeillion barch mawr iddo, ac i'w elynion ddychryn; yr oedd hefyd o gyfansoddiad nattur yn iachus, yn fywiog, a chadarn. Yn amser Julian, efe a anfoddlonodd yr amherawdwr, o herwydd dirmygu o hono y grefydd a'r ymarferiadau Paganaidd; ac, o blegid hyny, alltudiwyd ef dros dymhor; eithr, wedi hyny, adferwyd ef, a dyrchafwyd ef yn ei swydd a'i sefyllfa. Yn y rhyfel yn erbyn y Persiaid, yr oedd efe yn

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 87.

uchel mewn ymddiried ac yn ngolwg yr amherawdwr; ac anrhydeddwyd ef gan Jovian wedi hyny. Pan newydd gyrhaedd Ancyræ, gyda'r fyddin, daeth cennadwr atto, mewn modd annisgwyliadwy, oddi wrth y senedd a ymgynghorai yn Nicea, yn galw arno i gymmeryd y goron amherodrol, ac i hollol weinyddu y llywodraeth Rufeinaidd, yn y drydedd flwyddyn a deugain o'i oedran. Efe, yn gwybod nad gwaeth pwy a ddewisai senedd na swyddwyr, oni chadarnheid hyny gan y milwyr, ar ddydd pennodol, o'r orsedd a godasid iddo yn nghanol y gwersyll, a areithiodd wrth yr olaf, nes y darfu iddynt oll, fel âg un llais, ei ddewis; pryd yr anrhydeddasant ef â'r arwyddion priodol i'r amgylchiad; a dygasant ef i mewn i'r palas amherodrol yn Nicea.

Yn mhen y degfed diwrnod ar hugain o'i deyrnasiad, dewisodd yntau ei frawd Valens yn gyd-amherawdwr âg ef; y diweddaf, yn benaf, a ystyrid yn amherawdwr y dwyrain, a'r llall yn amherawdwr y gorllewin. Ni allasai fod neb dau mwy annhebyg i'w gilydd, o ran eu tueddiadau a'u golygiadau, na hwy, yn teyrnasu ar yr un amherodraeth. Valens oedd tu ag un ar bymtheg ar hugain oed, pan ddaeth yn gyd-feddiannydd y goron â'i frawd. Yr oedd yn ddyn gwanaidd, ofnus, ac anwybodus, heb ymarfer âg un gorchwyliaeth wladol na milwraidd; heb fod yn meddu ar rinwedd o un rhyw, oddi eithr ei barch a'i ufudd-dod i'w frawd, yr hyn oedd yn dra chyffredin tra bu byw; ac yn Ariad erledigaethus i'r eithaf. Eithr Valentinian oedd ddyn grymus, synwyrlawn, a gwrol dros ben; a da fuasai pe gallasem ddywedyd ychwaneg am ei rinweddau moesol, trwy ei ddangos heb lychwino ei fantell ysgarlad â gwaed, er boddhau ei nwydau. Byrbwylldra a chreulondeb a ymddangosent fel ei brif wendidau, yn enwedig wedi ei ddyfodiad i'r orsedd. Fel y dywed Mr. Gibbon, "Gwedi ei ddyfod yn arglwydd y byd, yn anffodus, efe a anghofiodd mai lle nad oedd gwrthwynebiad i'w wneud, nid oedd lle i wroldeb gael ei amlygu; ac yn lle ymgynghori â gwir reswm a mawrfrydigrwydd, efe a roddodd ormod o ffordd i'w dueddiadau ffyrnigaidd a'i deimladau cyffrous, er mawr warth iddo ei hun, a dinystr gwrthddrychau diymddiffyn ei anfoddlonrwydd. Yn ei lywodraeth deuluaidd ac amherodrol, bai ysgafn, neu hyd yn nod dychymmygol, megys gair byrbwyll difwriad, esgeulusdod, anewyllysgar oediad, a geryddid yn fynych trwy ddedryd o farwolaeth union-gyrchol. Yr ymadroddion a ddylifai bron yn wastadol dros wefusau amherawdwr y gorllewin oeddynt,—"Tòrwch ymaith ei ben—llosgwch ef yn fyw—curer ef â ffonnodiau hyd ei farw!" a'i gyfeillion nesaf atto a ddeallasant nad gwiw ymresymu âg ef, nac oedi cyflawni ei orchymynion creulawn, rhag eu cael eu hunain yn euog, ac yn ngafael y gosp am anufudd-dod. Trwy hir ymarfer â'r dull anwaraidd hwn o weini ei gyfreithiau, caledwyd teimladau Valentinian yn erbyn pob argyhoeddiad a phob gweithred o dosturi, a'i nwydau poethion a drwg a ymsefydlasant mewn ymarferiad o greulondeb. Eithr pan na chynhyrfid Valens gan ofnau, na Valentinian gan gynddaredd, y gormeswyr a adfeddiannent deimladau, o leiaf ymddygiadau, tad tu ag at eu deiliaid.*

Y pethau hyn a ysgrifenwyd er rhybudd i ni rhag meithrin nwydau poethion a theimladau dialgar tu ag at neb, yn ein mynwesau. Er nad oedd un o honynt yn ddyn dysgedig, etto annogasant eill dau ddysgeidiaeth yn

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 95.

fawr, trwy holl derfynau eu hamherodraeth. Trefnasant drefniadau er hwylusu dysgeidiaeth ieuengctyd o bob gradd a sefyllfa, yn mhob dinas; a sefydlasant amryw athrofäau, yn enwedig yn Rhufain a Chaer-Cystenyn.

Yr oedd Valentinian yn proffesu yn ol credo Nicea, ond yn caniattau cyflawn ryddid i bawb i ffurfio eu crêd eu hunain; ac yn hollol wrthwynebol, fel Jovian, i erlid neb yn achos eu crefydd: eithr nid felly yr oedd Valens. Yn fuan ar ol eu dyfodiad i'r orsedd, galwasant gymmanfa yn Ilyricum; yn mha un penderfynwyd fod y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân, yn *gyd-sylwedd:* arwyddwyd hyny gan y ddau amherawdwr, a gorchymynasant ar i'r athrawiaeth hon fod yn yr holl eglwysi, er eu bod ar y pryd hwnw yn cyhoeddi rhyddid cydwybod i bawb, hyd yn nod i Baganiaid.

Yn y flwyddyn 375, dywedir farw o Valentinian mewn llewyg, wedi ei achosi gan ei dymherau poethion a chynddeiriog; a daeth y rhan honno o'r amherodraeth a berthynai iddo ef, i feddiant ei ddau fab, Gratian, yr hynaf, yr hwn oedd bedair-ar-bymtheg oed; a Valentinian yr Ail, yr hwn oedd fab i Justina, ond pedair blwydd oed, pan ddechreuodd deyrnasu; a Valens eu hewythr a ystyrid yn arolygwr drostynt;* yr hwn nid amlygodd ei hun yn gymmaint gelyn i'r Niceaid tra bu ei frawd byw, ag y gwnaeth wedi hyny. Eithr fel yr oedd efe yn ddyn gwanaidd, hollol anwybodus o ddadleuaeth grefyddol yr oes, efe a lywodraethid ac a arweinid yn gwbl gan un Eudoxus, esgob yn Nghaer-Cystenyn, yr hwn oedd ddyn o'r tymherau mwyaf erledigaethus. Ennynwyd y tân i ddechreu, rhaid addef, o du y Niceaid, pan wedi cael cynnal cymmanfa i sefydlu pa beth oeth y byd i'w gredu a'i ymarfer, yn Lampsacus. Gwedi bod yno am ddau fis, penderfynasant mai y wir athrawiaeth oedd, fod y *Mab o'r un hanfod â'r Tad,* a diswyddasant a deolasant yr Ariaid o'r eglwysi; hyn a fu yn gynhyrfiol i holl lid a chynddaredd Valens a'r Ariaid dorri allan fel ffrwd lifeiriol, ac yn ddechreuad i erledigaeth yn erbyn y Niceaid.

Yn fuan wedi hyn, cynnullodd Valens yntau gymmanfa o esgobion Ariaidd; yn mha un y sefydlwyd ar gyffes yn ol y drefn honno, a wnaed dan olygiad Eudoxus; a gorchymynodd yr amherawdwr i holl weinidogion y Niceaid, yn enwedig y rhai a fu yn cynnal y gymmanfa yn Lampsacus, i'w derbyn, ac arwyddo eu bod yn credu mai hon oedd y wir athrawiaeth, neu gael eu halltudio, ac i'w hesgobaethau gael eu rhoddi i'w gwrthwynebwyr; a chyflawnwyd hyn yn fanylaidd tu ag at bob un nad ymostyngodd i'w orchymyn. Cynnyddodd fwy-fwy mewn creulondeb tu ag attynt, gan fflangellu amryw yn gyhoeddus, a'u gosod yn wawd trwy waradwyddiadau, a charcharu nid ychydig, a'u dirwyo hyd eithaf eu gwerth. Eithr y weithred ffieiddiaf a'r mwyaf bradychus a chreulawn a welir mewn unrhyw hanesyddiaeth, oedd yr hon a gyflawnwyd ar bedwar ugain o weinidogion, pa rai, dan rith o gael eu hanfon i alltudiaeth, a orchymynodd efe i gael eu llosgi, trwy osod y llong a'u dygent ar dân ar y cefnfor. Y gwyr hyn a ymddangosas-

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 125.

Yn yr ail flwyddyn o deyrnasiad Valentinian a Valens, ar yr unfed-ar-bugain o Orphenaf, bu daeargryn mawr trwy y rhan fwyaf o amherodraeth Rhufain. Gwnaeth y fath effaith ysgwydol ar y moroedd, nes yr ymagorasant mewn amryw leoedd mor fawr, fel yr oedd eu gwaelodion i'w canfod, y rhai na buont yn amlwg er y dechreuad o'r blaen. Pysg mawrion a bychain a adewid ar dir sych, a llongau mawrion oeddynt yn disgyn ar sychdir yn nghanol y dyfnder mawr. Yn fuan dychwelodd y dyfroedd mawrion yn eu hol, gyda'r fath nerthoedd, nes y gorchuddiasant diroedd, trefydd, a dinas, oedd lawer, ac y trosglwyddasant longau filldiroedd i dir, a'u gosod ar benau tai, gan ysgubo y trigolion filoedd ymaith gyda'r gorlifiad. Trigolion Alexandria a gadwent ŵyl flyneddol am hir amser-er coffadwriaeth am banner can mil o'u cyd-drigolion a foddwyd yn y diluw hwnw.—*Gibbon.*

ant yn ostyngedig ger bron yr amherawdwr yn Nicomedia, gydag erfyniad dwys dros rai o'u brodyr alltudiedig; eithr efe, yn lle gwrando eu cwyn, a chaniattau eu cais gostyngedig, a ddangosodd fod yn rhaid iddynt hwy arwyddo eu cydsyniad â chyffes ffydd yr Ariaid, neu fyned i alltudiaeth yn ddiattreg. Dewisasant yr olaf, a ymfoddlonasant i fod yn ddeoledig, yn hytrach na chlwyfo eu cydwybodau. Pan yr oeddynt yn cael eu hanfon ymaith, rhoddwyd gorchymyn i feistr y llong, am iddo ef a'i wyr ymadael â hi ar y môr, allan o olwg un tir, a'i rhoddi ar dân; hyn a wnaeth: eithr awel gref o wynt a chwythodd y llong, pan yn golofn losgedig, i oror Bithynia, lle y terfynasant eu heinioes oll, naill ai trwy y fflamiau angerddol, neu trwy suddo yn y dyfnfor.*

Nid oedd trwy y rhan fwyaf o'i amherodraeth ond y terfysg a'r creulonderau mwyaf yn cael eu harfer, mewn yspeilio, alltudio, a llofruddio; y difrod mwyaf yn cael ei wneuthur yn mhob modd ar y Niceaid, neu Homoorusiniaid, fel eu gelwir yn aml mewn hanesyddiaeth, yn enwedig yn y dwyrain. Athanasius unwaith yn rhagor a orfu ffoi o Alexandria, ac ymguddio. Pump o weithiau bu gorfod arno adael ei esgobaeth, naill ai trwy alltudiaeth, neu yn ffoadur rhag llid a chynddaredd ei wrthwynebwyr. Eithr cymmaint oedd meddwl pobl Alexandria am dano, ac mor fawr oedd ei lywodraeth arnynt hwy, a thrwy wlad yr Aipht, fel yr ofnodd Valens rhag iddynt godi mewn gwrthryfel i'w erbyn, o blaid eu harchesgob; o herwydd hyny galwodd ef yn ol, ac addawodd ei adael ef yn llonydd. Yn fuan wedi hyn, bu farw yr hen batriarch hyglod, yn Alexandria, wedi dal yr esgobaeth honno am chwe blynedd a deugain, er na bu ond ychydig o'r rhai hyn yn mhlith ei bobl, yn y flwyddyn 371, medd rhai, eithr medd eraill yn 373, o'r cyfrifiad cyffredin.†

Athanasius sydd wedi bod yn wrthddrych y cariad mwyaf, a'r casineb chwerwaf; ar yr hwn y mae athrylithdra wedi arllwys ei thrysorau, a hyawdledd wedi ymddysgleirio, er ei ddyrchafu neu ei iselhau, er ei amddiffyn neu ei ddedfrydu. Gan hyny, anhawdd yw gwneuthur olrheiniad tra chywir o'i gymmeriad. Treuliodd ei holl oes mewn rhyfel brwd; gwrthwynebodd yr Ariaid yn egniol iawn. Mae yn ddiau ei fod yn ddyn o gynneddfau cryfion a thalentau bywiog; yn ddadleuwr diysgog dros un o brif athrawiaethau yr efengyl; ac yn un ag oedd yn meddu ar dduwioldeb, ni amheuir yn fynych. Eithr yr hyn oedd amhëus iawn yn ei gymmeriad, ydoedd agwedd ei ysbryd, a'r dull yr ymdriniai efe ac eraill âg athrawiaeth y Drindod, fel yn debyg o fod yn foddion i leihau y ddadl, a rhoddi golygiadau cywir ar y pwngc, neu yn hytrach yn ei chynnyddu, ac yn taflu y peth i fwy o dywyllwch, ac yn arwain meddyliau dynion yn fwy ar gyfeiliorn oddi wrth y gwirionedd. Tra yr oedd Athanasius yn egniol yn treulio ei holl fywyd yn cesio gwrthwynebu un cyfeiliornad a ymosodai ar eglwys Dduw, yr oedd yr un mor ymdrechgar yn codi i fynu ac yn dwyn yn mlaen un arall yn yr eglwys, a fu yn dra dinystriol i wir grefydd, ac i syml ac iawn drefn eglwys Crist. Canys, yn ddiammau, ni bu yn yr eglwys neb erioed yn fwy nag ef dros bendefigol ac unbenol lywodraeth eglwysig a thraarglwyddiaethol awdurdod esgobaethol, yn nghyd â mawr-wychder bydol a bywyd monachaidd yn yr eglwysi; yr hyn a welir yn amlwg ydoedd gwreiddiau, ymgeledd, ac amddiffyn cyfeiliornadau a dirywiadau yr oesau.

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 171. † Dr. Cave's Hist. of the Life of Athanasius, p. 190.

Er fod pris mawr wedi ei osod ar ei ben ef, sef swm mawr o arian os dygid ef i'r amherawdwr, yn fyw neu yn farw, a hyny gan deyrn a lywodraethai y rhan fwyaf o'r byd—etto diogel oedd archesgob Alexandria am chwe' blynedd yn yr anialwch, yn mhlith ei gyfeillion monachaidd. Safodd ger bron chwe amherawdwr, pedwar o ba rai ffuant yn erlidwyr iddo. Yr ysgrifau a adawodd ar ei ol ydynt luosog a helaeth; eithr Milner a ddywed, na welodd efe ynddynt braidd ddim ag oedd o bwys, ond yr hyn a berthynai i ddadleuaeth yr Ariaid.* Amheuir gan lawer o ddynion doeth a dysgedig mai efe ydoedd awdwr y credo sydd yn dwyn ei enw yn ngwasanaeth Eglwys Waddoledig y deyrnas hon, ond dywedant mai peth ffugiol yw, a wnaed gan Vigilius, esgob Thapsus, yn mhen agos i gant a hanner o flynyddau wedi ei farwolaeth ef.†

Pan oedd yn ymyl marw, gofynwyd ganddo enwi ei ganlyniedydd; hyny a wnaeth, trwy enwi un Pedr, henafgwr parchedig yn yr eglwys, ar ba un y cyttunasant oll. Eithr yr amherawdwr, fel blaenor yr eglwys gyffredinol y pryd hwnw, a arddelwai yr hawl o bennodi y neb a fynnai efe i lenwi yr esgobaethau a ewyllysiai. Rhoddodd honno i Lucius, yr hwn a chwennychai ei chael yn amser Jovian, yr hwn a roddwyd yn y gadair esgobaethol trwy rym y cleddyf; a lladdfa fawr a ganlynodd ar bleidwyr Pedr, a'i gwrthwynebai, ac alltudiwyd amryw o honynt. Un Magnus, Pagan o ran ei grefydd, oedd un o'r offerynau penaf i ddwyn yn mlaen yr erledigaeth hon yn erbyn yr Athanasiaid, yn Alexandria. Dywedai wrthynt, gydag eithaf diystyrwch,—"Cyttunwch â barn yr Ariaid, chwi drueiniaid gwael. Canys os gwir eich crefydd, fe faddeu eich Duw i chwi am gydffurfio âg arall yn wyneb angenrheidrwydd." Lle y gwelir mor debyg ydyw egwyddorion dynion anianol i'w gilydd, yn mhob gwlad ac yn mhob oes. Y maent wedi meddwl, fel y Pagan hwn, mai peth dibwys gyda'r Arglwydd ydyw o ba grefydd y byddo dynion; os ydyw y naill yn wir, nad ydyw y llall yn mhell o fod felly; a bod dyoddefiadau, neu ryw anfanteision presennol, yn ein hesgusodi am newid ein crefydd, neu fyw yn ddigrefydd; a bod y dybiaeth o faddeuant gyda Duw, yn annogaeth i ni wneuthur yr hyn sydd groes i gydwybod dda.

Cyrhaeddodd yr erledigaeth hon y Novatiaid, y rhai oeddynt wedi ymneillduo oddi wrth yr eglwys a elwir yn gyffredinol, ond yr un yn eu golygiadau am athrawiaeth y Drindod â'r Niceaid, etto wedi byw yn llonydd, heb gymmeryd un rhan neillduol yn yr amryson brwd ag oedd rhwng gwahanol bleidiau, y pryd hwnw. Ond Valens ni adawai iddynt gael llonydd yn hwy, eithr alltudiodd amryw o honynt, gan gymmeryd meddiant o'u lleoedd addoliad. Angelus, un o'u hesgobion, ag oedd yn Nghaer-Cystenyn, oedd ddyn hynod o ddoeth, dysgedig, a duwiol, ac yn byw uwchlaw cael ei effeithio gan bethau y byd hwn, yn fwy felly na'r cyffredin, a alltudiodd; a distrywiodd y lle yr addolai ynddo, ac ymdrechodd wasgaru ei gynnulleidfa. Eithr trwy un Marcion, henuriad o'r eglwys, yr hwn oedd wr tra dysgedig, ac yn athraw i ferched yr amherawdwr, efe a ryddhawyd o'i alltudiaeth, ac a adferwyd i'w swydd a'i sefyllfa yn lled fuan; a thrwy gyfryngoliaeth pa un lleihawyd yr erledigaeth yn erbyn y Novatiaid yn gyffredin.

Y cyfryw yw yr effaith hudoliaethol sydd yn gydfynedol â mawredd bydol ac ardderchawgrwydd dynol ar feddyliau dynolion, yn rhy gyffredin, fel nad

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 173. † Universal Biog. Dict. a Milner's Church Hist. p. 546.

oedd yn beth i'w ryfeddu fod dynion o uchel fryd yn chwennych esgobaeth Rhufain, gyda'r fath lewder, y dyddiau boreuol hyny. Yn ol y drefn yr arferent olygu yr esgobaethau yn sefyll, yr oedd Rhufain yn cael ei hystyried yn mhlith y radd flaenaf; a pherthynai i'r esgob hwnw amryw bethau rhagor i'w frodyr. Mawredd a gwychder yr eglwys dros ba un y golygai; prydferthwch y tŷ lle yr ymgyfarfyddent; cyfoethogrwydd ac amldra y meddiannau a'r cyllid a dderbyniai; lluosogrwydd ac amrywiaeth y swyddogion a ystyrid fod dano; y parch a dderbyniai oddi wrth y bobl y gweinyddai iddynt; a'r dull drudfawr ac ardderchog yr oedd efe yn bywioliaethu, oedd dra hynod.

Ammianus Marcelinus, hanesydd Rhufeinig, ag oedd yn byw tua'r amser sydd o dan ein sylw, a gyfeiria at hyn pan y dywed,—"Nid oes achos rhyfeddu fod dynion o feddwl uchel-gais am fawredd bydol yn ymdrechu mor wresog a llafurus i gyrhaedd y sefyllfa anrhydeddus (sef esgobaeth Rhufain); canys pan y mae yr ymgeisydd llwyddiannus unwaith yn gallu ei chyrhaedd, yna cyfoeth i ddigonedd a ddaw iddo, trwy roddion y mamau sanctaidd—modd i ymddangos o amgylch mewn rhwysgfawredd ac ardderchawgrwydd, fel y byddai yn wrthddrych syndod, o herwydd gwerthfawrogrwydd ei gerbydau, &c.; a byddai ei wleddoedd, a thraul ei fyrddau, yn llawer mwy drudfawr nag eiddo brenhinoedd." Hyn a barodd i Prætextatus y rhaglaw, yr hwn oedd Bagan, waeddi allan,—"Rhoddwch i mi esgobaeth Rhufain, ac mi a fyddaf yn Gristion hefyd!"

Er eglurhau y dywediad uchod, adroddwn amgylchiad tra galarus a ddygwyddodd sydd dan sylw. Yn y flwyddyn 366, bu farw Liberius, esgob Rhufain. Mewn canlyniad, wrth ddewis un i lanw ei le, ymranodd y ddinas yn ddwy ran; un rhan a ddewisodd Damasus i'r sefyllfa honno; a'r llall a ddewisodd Ursicinus, diacon o'r eglwys, i'r gadair esgobaethol. Llwyddodd plaid Damasus i'w gael ef yn ordeiniedig yn gyntaf; o herwydd hyny Ursicinus a ddigiodd yn fawr, am ddewis Damasus o'i flaen ef. Gosododd yntau i fynu drosto ei hun, gyda'i blaid, mewn lle gwahanol, ac a ffynnodd i gael ei ordeinio gan ryw esgobion dyeithr o'r wlad. Hyn a barodd derfysg ac amryson nid bychan rhyngddynt—y bobl yn methu gwybod pa un o honynt oeddynt i gydnabod yn esgob iddynt. Yn y diwedd daethant â'r peth i'w benderfynu trwy fin y cleddyf; a llawer iawn o'r ddau tu a laddwyd. Dim llai na chant a dau ar bymtheg ar hugain o gyrph meirw a ddygwyd allan o un tŷ addoliad, gan rai a syrthiasant yn aberthau i'w nwydau llygredig. Y peth sydd ry ysgeler i'w adrodd; ond y mae yn ddigonol i argyhoeddi pob dyn rhesymol, mai oferedd ydyw edrych am wir grefydd a theyrnas yr addfwyn Oen yn mhlith y rhai a hoffent gyfenwi eu hunain yn eglwys gyffredinol. Terfynwyd yr amryson trwy i Ursicinus gael ei alltudio; ac adferwyd heddwch a llonyddwch i'r ddinas trwy ddoethineb Prætextatus y rhaglaw.*

Gwedi teyrnasu o Valens am bedair blynedd ar ddeg, efe a fu farw mewn brwydr, wrth ymladd â'r Gothiaid, yn y flwyddyn 378; a chanlynwyd ef yn y llywodraeth amherodrol gan Gratian, mab i Valentinian. Yr oedd hwn yn dra gwresog dros grefydd Nicea; o herwydd hyny cymmerodd cyfnewidiad mawr le yn fuan dros wyneb yr holl fyd crefyddol. Y rhai a alltudiasai Valens a ddychwelwyd oll; ac eraill a ddiswyddasid ac a fwriesid allan

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, vol. ii. p. 102. a Milner's Church Hist. vol. ii. p. 182.

o'u hesgobaethau, a adferwyd; a bwriwyd ymaith yr Ariaid, na newidient eu credo—canys dywedir i'r amherawdwr ieuangc anfon ei gadpen Sapores i'w gyrru allan fel bwystfilod gwylltion, o'r holl eglwysi, y rhai a roddwyd i'r Niceaid.

Yn fuan wedi hyn, Gratian a gymmerodd Theodosius, yr hwn a elwir Theodosius Fawr, atto yn gyd-feddiannydd o'r orsedd, a rhanodd yr amherodraeth. Enw Theodosius sydd dra hysbys mewn hanesyddiaeth, ac yn anwyl gan bawb o'r eglwys a elwir yn gyffredinol, ag sydd yn caru gweled crefydd yn cael ei sefydlu a'i dwyn yn mlaen trwy osodiadau amherodrol. Rhanwyd yr amherodraeth y pryd hwn yn dair rhan. Y taleithiau dwyreiniol a roddwyd i Theodosius; yr Ital, a rhanau o Affrica a roddwyd i Valentinian yr Ail, mab Valentinian y Cyntaf, o Justina, ei ail wraig, yr hwn nid oedd y pryd hwnw ond maban; a Phrydain, Gaul, a'r Hispaen oedd dan lywyddiaeth Gratian.

Yr oedd Gratian ar y cyntaf yn arwyddo ei fod yn dywysog gobeithiol, yn meddu ar alluoedd cryfion; eithr yn fuan dangosodd ei hun yn hynod wanaidd; ymroddai i bleserau yn y llŷs, ac i bob rhyw helwriaeth a difyrwch, yn fwy nag i feithrin rhinweddau tywysogaidd, a gweinyddiad o iawn drefn yn mhlith ei ddeiliaid. Parhaodd yn dra selog dros grefydd, fel yr oedd mewn arferiad y pryd hwnw, yn enwedig yn ei ymlyniad wrth Ambrose, esgob Milan, yn mha ddinas yr oedd llŷs brenhinol yr Ital y pryd hwnw yn cael ei gynnal. Pan yr oedd Gratian wedi achosi oerder mawr yn serchiadau ei ddeiliaid yn gyffredin, yn enwedig eiddo y milwyr, cododd un Maximus i fynu yn Mhrydain yn wrthwynebwr iddo, gan chwennychu trais-feddiannu ei orsedd. Er darostwng hwn, casglodd ei holl fyddinoedd yn nghyd yn Gaul, ac a ddechreuodd deithio tua Phrydain: ond, er ei fawr siomedigaeth, y milwyr, gan mwyaf, a'i gadawsant; a throisant o du ei wrthwynebwr, ac a ymfyddinasant dan ei lummanau. Yntau, gyda bwriad i gyrhaedd llŷs ei frawd ieuangaf yn Milan, a ffôdd tu ag yno gydag ychydig o'i gyfeillion; ond lladdwyd ef ar y ffordd, trwy frâd, gan Andragathius, cadfridog y marchawglu perthynol i Maximus. Felly syrthiodd Gratian, cyn bod yn bump-ar-hugain oed, gan adael ei wrthwynebwr mewn meddiant tawel o'r holl lywodraeth a berthynai iddo ef.*

Tua'r amser hwn, cododd i fynu blaid grefyddol a elwir PRISCILIAID, yn yr Hispaen, a pharthau deheuol Ffraingc, pa rai a ddywedir eu bod wedi cofleidio egwyddorion cyfeiliornus iawn; eithr ni ellir dywedyd yn gywir pa beth oeddynt; canys y mae eu hanes wedi ei drosglwyddo i ni yn gwbl trwy eu caseion. Gwedi i Maximus ddyfod i Ffraingc yn ol marwolaeth Gratian, bu i rai o esgobion y wlad honno wneuthur achwyniad yn erbyn y blaid newydd hon; a dygwyd Priscilian eu blaenor, ac eraill, ger bron ei frawdle, yn Treves, i ba le y daethai yn fuddugoliaethus; ac efe, yn nghyd â phedwar o'i gyfeillion, a ddedfrydwyd i ddyoddef marwolaeth, ac eraill a alltudiwyd.

Mae yn deilwng o sylw mai dyma yr amser cyntaf y cospwyd hereticiaid â marwolaeth, yn achos eu crefydd, wedi eu dedfrydu i hyny gan yr hyn a elwir yn eglwys gyffredinol.† Eithr y mae hyn i'w ddywedyd er canmoliaeth i Martin, esgob Treves, yn Ffraingc, Ambrose o Milan, ac ychydig eraill, iddynt dystiolaethu yn erbyn y weithred, fel un gwbl anefengylaidd. Eithr anhawdd gwybod pa fodd yr oedd hyny yn bod, os gwirionedd yw yr

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 168. † Ibid, p. 178

hyn a ddywed yr hanesydd Milner, sef ei bod yn efengylaidd, cyfiawn, a gweddus, i sefydlu crefydd, neu unrhyw ffurf, trwy gyfreithiau gwladol; a bod Theodosius wedi gwneuthur yn iawn trwy osod deddfau o unffurfiad i fynu trwy yr holl lywodraeth Rufeinaidd.* Os oedd ymddygiad Theodosius yn beth yn ei le, fel yr haerir, nis gwyddom pa fodd y dichon y llall fod lawer allan o'i le, pan yn cospi yr hereticiaid â marwolaeth. Canys os oedd gwneuthur y peiriant erledigaethus—i'r hyn yr ymfoddlonai Martin, a thros ba un yr oedd Ambrose â'i holl galon, a'r hyn a fawr gymmeradwyir gan Milner, yn ei hanes eglwysig—yn beth daionus, pa fodd y dichon ei weithrediad naturiol yn nghospedigaeth dynion, am ymraniadau crefyddol, fod yn beth drwg?

Meddylir nad ymresymiad cymmwys yw dywedyd mai rhyw gosp llai na marwolaeth a ddylai llywodraethwyr gwladol ac eglwysig weini am anufuddhau i'w trefniadau crefyddol; oblegid os oes ganddynt hawl yn wyneb yr efengyl a gweddeidd-dra pethau, i drefnu ffurf grefyddol i'w deiliaid, a chospi i ryw radd am anufuddhau i hyny, rhaid yn ddiau fod ganddynt hawl i gospi hyd oni symmudir ymaith y bai, neu ynte symmud ymaith y troseddwr rhag drygu eraill. Y mae yn beth i'w fawr synnu fod dyn mor efengylaidd â Mr. Milner, mewn rhai pethau, mor anghysson âg ef ei hun, a'i fod yn pleidio y fath gyfundraith gormesol ag yw sefydliad gwladol o unrhyw ffurf grefyddol, a gosodiad i fynu ddeddfau unffurfiad, yr hyn sydd wedi bod mor ddinystriol i fywyd gwir grefydd, ac yn greulondeb o'r mwyaf tu ag at y goreu o ddynion yn mhob oes.

Ni foddlonai Maximus ar feddiant o ëang daleithiau y diweddar Gratian, eithr chwennychodd gael yr hyn oedd yn eiddo Valentinian hefyd; a daeth yn fuddugoliaethus i'r Ital, ac mor bell â Milan, fel y gorfu ar Valentinian ffoi, yn nghyd â'i fam a'i holl deulu, i'r dwyrain, dan gysgod Theodosius. Gwedi iddynt fel hyn adael holl daleithiau gorllewinol yr amherodraeth yn meddiant tawel y traws-feddiannydd, yr hwn, fel y dywedai, a ddaethai iddynt heb golli gwaed neb ond Gratian, hwy a ddaethant i Thessalonica, yn mha le y cyfarfu Theodosius, â'r rhan fwyaf o'i lŷs, â hwynt.

Dewiswyd Ambrose yn esgob ar yr eglwys oedd yn Milan, tua'r flwyddyn 374, yn ganlyniedydd i Auxentius, yr hwn oedd o ddaliadau Ariaidd. Ganwyd Ambrose o rieni urddasol; ei dad oedd wedi bod am ryw gymmaint o amser yn rhaglaw dros yr amherawdwr yn Ffraingc: eithr wedi ei farw, dychwelodd ei fam a'i thri phlentyn i Rufain; ac efe oedd yr ieuangaf o'r tri. Dygwyd ef i fynu mewn pob dysgeidiaeth a allasai ei fam roddi iddo, i raddau helaeth. Yr oedd yn ddyn o dalentau mawrion, a hyawdledd ymadrodd, ac yn meddu ar foesgarwch anghyffredin. Sylwyd arno yn fuan gan y llywodraeth, fel y dyrchafwyd ef o'r naill beth a'r llall, ac y daeth yn llywydd ar dalaeth Liguria, prif ddinas pa un oedd Milan, yn yr hon y cynnelid y llŷs amherodrol y pryd hwnw. Gwedi aros yno am o ddeutu pum mlynedd, yn y sefyllfa honno, a chael gair da gan y cyffredin, bu farw Auxentius yr esgob; a phan yr oeddynt yn dewis un i'w swydd, bu amrafael a therfysg, trwy fod y bobl yn methu cydweled pwy i ddewis yn olynydd iddo. Pan oedd Ambrose, fel swyddog gwladol, yn myned unwaith i'r gynnulleidfa i ostegu y cynnwrf, wrth glywed hyawdledd a doethineb ei ymadroddion, y bobl a waeddasant allan, *mai Ambrose a fyddai eu hes-*

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 125.

gob hwy — y byddai rhaid iddynt gael Ambrose. Efe dros amser a ymesgusododd rhag cymmeryd y swydd arno, am na feddyliasai erioed am dani, ac nad ymbarottoisai ddim ar gyfer ei chyflawni. Eithr y bobl trwy erfyniadau taerion a orfuant, a chaed hefyd gymmeradwyaeth a chymhelliadau Valentinian yr amherawdwr i hyny: canys chwennychai yn fawr fod dyn boneddigaidd a chyflawn o ddoniau naturiol a chyrhaeddedig, yn y sefyllfa honno, yn y lle hwnw, am mai yno y cynnaliai efe ei lysoedd.

Yn y dewisiad hwn, gwelir i ba raddau o iselder yr oedd archwaeth grefyddol yr eglwysi wedi myned. Pa beth bynag oedd talentau, doniau, ac uniondeb Ambrose, y mae yn ddiau fod eu hymddygiad hwy yn fyrbwyll ac yn annoeth, a dywedyd y goreu am danynt, yn eu gwaith yn dewis un i'r swydd esgobaethol na phroffesai Gristionogaeth; ac nid rhyfedd fod ei synwyr ef yn ei ddysgu i ymogelyd ar y cyntaf rhag cymmeryd y swydd arno. Eithr wedi ei ennill i'w chymmeryd, trwy gymhelliadau taer y bobl a'r amherawdwr, efe a fedyddiwyd; ac ymroddodd yn hollol i'r gwaith, gan ymddiosg oddi wrth ei swyddau gwladol a'i ofalon bydol. Gwerthodd y rhan fwyaf o'i feddiannau, ac a'u rhoddodd at achosion eglwysig, i'r tlodion, ac at achosion daionus eraill. Digwyddodd iddo fod o farn y Niceaid; ac, mewn mawr sêl dros y gyffes honno, efe a wrthwynebodd yr Ariaid yn egniol. Ni pherthyna i ni farnu egwyddorion calon neb o'n cyd-greaduriaid, nac am onestrwydd eu dybenion; ac nid galluadwy hyny, yn enwedig ei wneuthur â'r cyfryw ag sydd wedi myned er's cymmaint o amser âg Ambrose. Ac yr ydym yn gweled y goreu o ddynion, ag oedd yn byw y pryd hwnw — yn neillduol y rhai hyny a gynnalient swyddau sanctaidd, yn agos i'r llysoedd amherodrol — wedi bod yn euog o wneuthur a gosod i fynu lawer o bethau a fuant yn achos o iselhad i wir grefydd, ac yn attaliad i lwyddiant purdeb a symledd duwiol yn yr eglwysi. Hyn hefyd a fu Ambrose yn euog o hono, trwy ei fawr sêl dros rwysgfawredd ymddangosiadol, sef ei ymarddelwad i awdurdod apostolaidd yn yr eglwys, ei gefnogiad i ddeddfau o unffurfiad, a gosodiad i fynu ei grêd a'i ffurf grefyddol mewn gorfodiaeth ar eraill, a'i fawr awydd dros ddefodau anysgrythyrol a gweddwdod y gweinidogion, fel y gwelwn etto yn ei hanes.*

Pan yr oedd efe yn ei ddysgleirdeb mwyaf, yr oedd Justina yn teyrnasu, i'r hon y perthynai dygiad i fynu a magwraeth y tywysog ieuangc, yr hwn oedd etifedd y goron. Yr oedd hi dros grêd yr Ariaid, pa rai oedd wedi cael eu bwrw allan bron i gyd o'r eglwysi y pryd hwnw. Yr amherodres a anfonodd ddeisyfiad cymhedrol, a lled resymol, at yr archesgob, am iddo ganiattau iddi un lle addoliad yn Milan, fel y gallai hi a'i theulu addoli, gydag esgob o'r un golygiad â hi ei hun. Eithr Ambrose a'i hattebodd, gan ddywedyd, y dichon y palasau fod yn perthyn i Cæsar, ond mai tai i Dduw oedd yr eglwysi, ac mai efe oedd unig weinidog Duw o fewn terfynau ei esgobaeth, fel cyfreithlon ganlyniedydd yr apostolion. Penderfynodd i wrthod ei chais, er y gorfyddai iddo farw yn yr ymdrech, fel y tystiai yn fynych; gan ystyried yn ddiau fod ei olygiadau a'i ymarferiadau crefyddol yn anfethedig, â pha rai y dylai yr amherodres, a phawb eraill yn ei esgobaeth, gyd-ymagweddu. Cymmerodd Justina hyn yn hynod angharedig, gan ystyried fod ganddi hi a'r amherawdwr ieuangc ryddid i farnu drostynt eu hunain, a hawl i addoli yn y man yr ewyllysient, a hyny o fewn i'w hamher-

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 193.

odraeth eu hunain. Edrychodd ar ymddygiadau Ambrose yn drahausder o'r mwyaf, ac yn wrthryfel, a brysiodd i weithredu yn ol ei hawdurdod, yn enw ei mab. Dygwyd yr archesgob ger bron y llŷs, gyda bwriad i'w alltudio; ond y bobl a ymdyrrasant o amgylch i'r palas, ac a fygythiasant roddi tân ynddo ef a'r ddinas, os cynnygid gwneuthur iddo ef ddim niwaid. Felly gorfu arnynt ei ollwng ymaith, gan ddeisyf arno i ostegu cynnwrf y bobl.

Gwedi hyn, pan yr oedd un o'r gwyliau yn nesau, yr amherodres, yn penderfynu mynu cyflwyno ei haddoliad ar yr amser hwnw yn un o'r eglwysi yn y ddinas, gyda'i hesgob, a'i weinidogion, pa rai yr oedd hi wedi eu dwyn yno, i'r perwyl hwnw, a anfonodd i gymmeryd meddiant o'r eglwys a elwid Basilica, ac a orchymynodd i'w pharottoi mewn modd harddwych, erbyn y deuai hi, y tywysog ieuangc, a'r teulu amherodrol yno. Y werin a ymosodasant yn lluoedd er gwrthwynebu hyn, yn nghyd â'r archesgob, fel y gorfu ar y cynghor anfon byddin o wyr arfog i warchod, rhag iddynt wneud y lle yn ddrylliau; a chan na allent ymddiried hyn i Rufeinwyr, danfonwyd byddin o'r Gothiaid, pa rai a esgymunodd Ambrose o herwydd eu hymddygiadau yn hyn. Y bobl yn y cyfamser a ddaliasant rai o weinidogion yr Ariaid ar yr heol, ac a syrthiasant arnynt, fel y cawsent eu llofruddio, hwyrach, oni buasai ddyfod o Ambrose i'w hachub. Y weithred hon a ddangosodd ynddo fesur o ddyngarwch, ac y medrai efe roddi pobl Milan yn dân ac yn fflam pryd y mynai, yn erbyn yr amherodres, trwy ei areithiau hyawdl; yn mha rai y dangosai ei bod hi yn debyg i Efa, gwraig Job, Jezebel, Herodias, &c.; a bod ei gwaith yn ceisio lle addoliad i'r Ariaid, yn weithred llawn mor erledigaethus a chreulawn âg un a ddyoddefodd neb o'r Cristionogion oddi wrth y Paganiaid—nad allai fod un gweithred yn fwy rhinweddol, ac yn fwy wrth fodd Duw, na'i gwrthwynebu.

Cynnyddodd y terfysg yn fawr; llawer o'r dinasyddion a ddirwywyd, a garcharwyd, ac a ymlidiwyd o'r ddinas; a rhoddwyd dedryd o alltudiaeth yn erbyn Ambrose; eithr efe a'i gwrthwynebodd, gan anufuddhau i orchymyn y senedd a'r amherodres, nes oedd Milan, a'r holl Ital, yn barod i dorri allan mewn rhyfel cartrefol, er tywallt gwaed heb fesur. Wrth weled y canlyniad oedd yn debyg o gymmeryd lle yn fuan, rhai o gynghorwyr Justina a'i cynghorodd i adael pethau yn llonydd y pryd hwnw, hyd oni chai well cyfleusdra i ddial. Felly darfu i'r archesgob gael llwyr fuddugoliaeth y pryd hwnw; ond edrychai yr amherodres a'r tywysog ieuangc ar ei ymddygiad yn drosedd annilëadwy.*

Dywedir i Ambrose gael allan trwy weledigaeth nos, pa le yr oedd cyrph Gevasius a Protasius, dau ferthyr a fuasent feirw er's mwy na thri chant o flynyddau. Gwedi cloddio a dyfod o hyd iddynt, yr oeddynt yn gyflawnder o waed, â'r hwn, meddir, y gwnaeth lawer o wyrthiau; ac adeiladwyd ar y fan le addoliad. Gwnaeth y ffug-wyrthiau hyn, a'u cyffelyb, effaith annhraethol er profi fod ei athrawiaeth yn wir, a'i ymddygiadau yn uniawn: ac yn fwy na'r cwbl, cefnogid ef yn ei ymdrech trwy gynghorion ac annogaethau dirgelaidd Theodosius. Ei sêl a'i ymdrech a ganmolir gan lawer; eithr barned y darllenydd drosto ei hun, a ellir cyfiawnhau ei ymddygiadau ar unrhyw egwyddorion: ond, pa faint llai y gellir ei gyfiawnhau ar yr egwyddor o fod gan flaenoriaid y gwledydd hawl i sefydlu a ffurfio crefydd

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. pp. 182, 183.

Ond Och! pa mor anwadal yw pob dyrchafiad bydol! mor ddisymmwth y darfu ei lonyddwch! Abrogates, gwr o Ffraingc, yr hwn oedd wedi bod yn un o brif swyddogion milwraidd Gratian, ac a wasanaethodd Theodosius wedi hyny, a gododd i'w erbyn. Y cyfryw ydyw effaith gweniaith a thwyll dynolryw, fel y llwyddodd Abrogates i lygru ac ennill pob un a wasanaethai yn nghylch person yr amherawdwr ieuangc ac yn ei lŷs, i'w frâd. Fel hyn, yn ddiarwybod iddo, syrthiodd i ddwylaw ei elynion, yn eithaf annymunol, dan eu hawdurdod, ac yn ymddibynol ar eu hewyllys hwy am ei orsedd, ei feddiannau, a'i einioes; yn llawer tebyccach i gaethddyn yn ei lŷs ei hun—yr hwn oedd efe yn awr wedi sefydlu, yn anffodus ddigon, yn Vienne, yn Gaul—nag i amherawdwr ar ei orsedd, heb nerth na medrusrwydd i ymwared oddi yno. Anfonodd hyshysrwydd am ei sefyllfa annedwydd i Theodosius yn y dwyrain, a deisyfodd ei gymmorth; eithr y cymmorth hwn oedd yn mhell, a'r gobaith o'i fwynhau yn dra amhëus. Pob diwrnod a ddygai iddo ryw brofedigaeth newydd, ac a ddangosai iddo enbydrwydd ei sefyllfa, ac yntau heb allu na chymmorth i wrthsefyll.

Pan yn y cyflwr hwn, esgynodd Valentinian i'r orsedd, a gorchymynodd i Abrogates ddyfod ger bron, yr hwn a ddaeth, gyda mesur o barch ymddangosiadol; gwedi hyny rhoddodd yr amherawdwr bapuryn yn ei law, yn mha un yr hysbysai iddo ei fod wedi ei amddifadu o bob swydd a gwasanaeth yn ei lywodraeth ef. Eithr y gwron dewr, gyda'r olwg fwyaf diystyrllyd, a ddywedodd,—"Nid yw fy awdurdod i yn ymdibynu ar ŵg na gwên brenhinoedd," gan dafiu y papuryn i lawr wrth draed yr amherawdwr yn y modd mwyaf dirmygus. Y tywysog a lidiodd ac a ymwylltiodd, hyd agos i derfynau cynddeiriogrwydd, yn y fan; a braidd yr attaliwyd ef trwy orthrech rhag trywanu ei gleddyf ynddo ei hun neu ei wrthwynebwr, cyn myned o'r lle hwnw. Ond erbyn boreu dranoeth, caed ef wedi trengu yn ei ystafell, heb neb yn gwybod pa fodd, i sicrwydd, pa un ai trwy osod dwylaw gwaedlyd arno ei hun, fel y mynnai Abrogates, ai bod llaw gan yr olaf yn y weithred, fel y tybir. Dygwyd ei gorph ef i Milan i'w gladdu; a gwnaeth Ambrose araeth hirfaith ar ei gladdedigaeth, yn mha un, er boddloni ei berthynasau, y cyfrifodd ef yn mhlith y saint, er na ddarfu iddo tra yn y byd yma gymmaint âg ymostwng mewn modd allanol i osodiad sanctaidd yr efengyl. Ond, i ryw ddybenion, ni chymmerodd Abrogates y goron iddo ei hun; eithr rhoddodd hi i un Eugenius, yr hwn oedd gyfaill nodedig iddo, ag a godasai efe i fynu o sefyllfa isel, i fod yn brif weinidog iddo, a'r hwn oedd, trwy ei ddoethineb a'i hyawdledd, wedi ennill meddyliau y bobl yn fawr am dano.

Pan anfonwyd i fynegi i Theodosius am farwolaeth Valentinian, a bod yr orsedd wedi ei chymmeryd gan Eugenius, pryd y deisyfid ei gymmeradwyaeth yntau o hono, nid galluadwy dirnad ei deimladau ef a'i deulu, wrth feddwl fod holl ffrwyth ei lafur a'i fuddugoliaeth ddiweddar wedi ei golli mor fuan. Cyhoeddi rhyfel adnewyddol yn erbyn hen filwr dewr, ag oedd wedi arwain y byddinoedd cyn fynyched o'r maes yn fuddugoliaethus, a ofynai yr ystyriaethau dwysaf; am hyny anfonodd ymaith y cennadau y pryd hwnw gydag atteb anmhenderfynol.*

Yma ystyriwn gymmeriad Theodosius, fel dyn, yn ei berthynas â'i deulu ac â'i gyfeillion—fel amherawdwr—ac yn ei berthynas â'r eglwys, yr hon

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 194.

yr ymarddelwai efe fod ei gofal wedi ei ymddiried iddo. Wrth naturiaeth, yr oedd efe yn ddyn a garai loddest, esmwythder, a llonyddwch; ond pan ei cyffroid ac ei cynhyrfid gan unrhyw beth, byddai ei dymherau yn danllyd ac yn llidiog iawn, yr hyn a'i harweiniodd yn aml i ddywedyd a gwneuthur yr hyn oedd dra anghysson â'i ymddygiadau cyffredin. Hoffai rinweddau teuluaidd, ac ymarferai â hwynt yn dra manylaidd—pa rai nid ydynt ond anfynych yn arosol yn mhalasau brenhinoedd. Llywodraethid Theodosius gan ddiweirdeb a chymmedroldeb yn y cylch hwn, a medrai fwynhau pleserau cartrefol heb fyned dros derfynau gweddeidd-dra. Cyssylltodd y cymmeriad o uchel-amherawdwr, mwyneidd-dra a ffyddlondeb priod, a charueiddwch tadol tu ag at ei blant, yn yr un person. Ymddygai yn ostyngedig, yn dirion, ac yn haelionus tu ag at bawb o'i deulu a'i berthynasau; ac arferai ddoethineb mawr yn newisiad ei gyfeillion mynwesol. Carueiddwch a symledd a ymddysgleirient yn ei holl ymddygiadau personol, fel yr oedd siriol-deb yn ymwasgaru oddi wrth ei bresennoldeb yn mhob cyfeillach y byddai ynddi.

Ei gymmeriad fel amherawdwr, a amlygir yn y gorchestion a wnaeth yn y brwydrau a ennillodd ar y gwrthryfelwyr yn yr amherodraeth, a'r gelynion a'i hamgylchynai, fel y bu yn attalfa am ychydig rhag i'r Barbariaid ei dinystrio; a'r cyfreithiau doeth a chyfiawn a weinyddodd, sydd wedi achosi iddo barch oddi wrth gyfeillion a gelynion.* Ei fawredd yn yr ystyr yma a gydnabyddir gan ei ddeiliaid a chan estroniaid: eithr o herwydd ei dymherau gwaedwyllt, llychwinodd ei lywodraeth â brychau nas dileïr. Yn mhlith pethau eraill, ei ymddygiad tu ag at y Thessaloniaid sydd brawf o hyn. Yr oedd dinasyddion Thessalonica wedi ei ddigio, trwy ladd, mewn terfysg, Botherie, ei ben-swyddog yno; fel y rhoddodd, mewn modd byrbwyll, yr holl ddinas i fynu i weinidogaeth y milwyr,—hyny yw, fod iddynt ladd a allent, yn ddiwahaniaeth, o drigolion y ddinas, am ryw gymmaint o amser. Ei ymddygiad oedd yn fwy beïus o yn gymmaint ag iddo gael ei rybuddio rhag gwneuthur felly gan Ambrose ac eraill, a'i fod ei hun newydd fod yn aros yn Thessalonica, a chwedi cael pob caredigrwydd ganddynt. Eithr ni chymmerai nwydau llidiog Theodosius eu hattal. Trwy annogaeth ei weinidog Ruffinus, rhoes orchymyn i'w rhoddi oll i fin y cleddyf, heb wneuthur un gwahaniaeth rhwng yr euog a'r dieuog!

Gwedi i'r pen-cadpen milwraidd dderbyn y cyfryw orchymyn, â chanddo fyddin o farbariaid creulawn yn y ddinas, rhoddodd orchymyn allan, yn enw yr amherawdwr, i'r dinasyddion ymgasglu i gemmaes y chwareudy, i edrych ar ryw chware hynod a ddygid yn mlaen yno y dydd hwnw. Hwythau, yn ddifeddwl, a ymgasglasant nes llenwi y lle. Yna rhoddwyd gorchymyn i'r milwyr barbaraidd gyflawni eu gwaith llofruddiog, heb arbed neb o un rhyw, sefyllfa nac oedran, dyeithriaid na threfedigion, euogion na dieuogion, fel y syrthiodd saith mil, yn ol y cyfrif lleiaf, eithr llawer mwy yn ol cyfrif eraill, mewn tair awr o amser! Yr oedd yr amherawdwr yn Milan pan gyflawnwyd y weithred ysgeler hon. Pan gyrhaeddodd y newydd am y galanasdra glustiau Ambrose, efe a enciliodd dros amser o'r ddinas, er rhoi ffordd i'w deimladau gofidus, allan o bresennoldeb yr amherawdwr. Gwedi hyny, anfonodd lythyr at Theodosius, er dangos ysgelerder a drygioni y weithred, nad oedd modd i'w dileu ond trwy ddwys edifeirwch, a dygiad ei benyd yn

* Gibbon's Decline and Fall, vol. ii. p. 186.

ol trefn yr eglwys; ac er cefnogi ei ymresymiad, dygai i'w bleidio weledigaeth a dderbyniasai o'r nef, sef nad allai gymmaint â gweini yr ordinhad o swpper yr Arglwydd hyd yn nod yn mhresennoldeb yr amherawdwr, hyd oni chymmerai hyny le.*

Am o ddeutu wyth mis, safodd yr amherawdwr allan o bob lle o addoliad; ac ymddangosai dros yr amser hwnw yn lled edifeiriol a galarus; yna danfonodd gyda'i ben-swyddog Ruffinus at Ambrose, ei fwriad o ddyfod ar ddydd pennodol i ymddangos yn gyhoeddus yn nhŷ yr Arglwydd. Eithr yr archesgob a ommeddodd iddo ganiattâd: etto efe a benderfynodd i wneuthur prawf; a phan yn y porth yn myned i mewn, gwrthsafwyd ef gan Ambrose, gan ddywedydyd wrtho, "fod yn rhaid i bechodau mor ysgeler gael eu dileu trwy edifeirwch a phenyd cyhoeddus." Er esgusodi ei hun, dadleuai Theodosius bechodau y brenin Dafydd. Attebwyd ef gan yr archesgob, "gan ei fod wedi ymdebygoli i Dafydd yn ei bechod, y dylasai ymdebygoli iddo yn ei edifeirwch a'i alar." Gwedi hyn dywedwyd wrtho gan Ambrose, gyda llawer o awdurdod, fod yn rhaid iddo ef ymostwng am ddeg diwrnod ar hugain, sef trwy roddi heibio ei wisg amherodrol, a phob gweinyddiad cyhoeddus o'i swydd, am hyny o amser; a gwneuthur cyffesiad cyhoeddus o'i feiau, ger bron y gynnulleidfa, cyn y gallai gael ei dderbyn i gymundeb yr eglwys. Hyn a wnaeth, gan orwedd ar y ddaear ac ymdreiglo yn y llwch o flaen yr archesgob, ac ymwisgo mewn sachliain dros yr amser; ac yn y terfyniad, gwnaeth gyffes gyhoeddus o'i feiau ger bron y gynnulleidfa. Yna derbyniwyd ef i gymundeb yr eglwys, trwy gyhoeddiad maddeuant iddo gan yr archesgob.

Ni pherthyna i ni wybod dirgelion dynion, na barnu egwyddorion ein cydgreaduriaid; ac ni ddylem ochelyd cyfiawnhau na dedfrydu neb yn rhy fyrbwyll. Ond diau ei bod yn amlwg i'r amherawdwr wneuthur ymostyngiad mawr; eithr pa mor bell yr oedd yr holl hunan-ewyllys crefyddol hyn yn gysson à nattur edifeirwch efengylaidd, a pha duedd oedd ynddo i ogoneddu Duw a lleshau dynolryw, trwy eu goleuo am nattur gwir grefydd, a symledd pur eglwys Crist, sydd amhëus genym. Nid oes le i ammeu na bu ymostyngiad Theodosius yn ddyrchafiad mawr i awdurdod Ambrose, fel archesgob, ac yn fawrhad i'r swydd esgobaethol, yr hon oedd y pryd hwnw wedi myned yn llawer tebyccach i deyrn-lywodraeth ddwyreiniol, nag i oruchwyliaeth sanctaidd efengyl y bendigedig Iesu. Trwy hyn cymmwysodd yr amherawdwr ei hun yn offeryn cyfaddas o hyny allan, i fod wrth ewyllys yr esgobion, i wneuthur yr hyn a fynent âg ef.

Yn yr eglwys oedd yn Antiochia, yr oedd ymraniad mawr tua'r amser hwn —tair plaid grefyddol yn erbyn eu gilydd; dwy o honynt a ymarddelwent fod yn uniawn-gred; etto, o herwydd rhyw bethau, ni ymunent â'u gilydd; a phlaid luosog o Ariaid oedd yno. Pan wnaed cyfraith o unffurfiad, yr oedd yn rhaid i hon bleidio un o honynt, gan fwrw y lleill o'r neilldu, a'u gosod yn agored i ddirwy, &c. Gwnaeth hyn yr effeithiau gwaethaf ar luaws mawr o drigolion Antiochia, fel y cynhyrfwyd hwy, trwy hyny, yn nghyd â gosodiad ardrethol a godwyd oddi ar yr amherodraeth tua'r ddegfed flwyddyn o deyrnasiad Theodosius, i ddwyn yn mlaen ei ryfeloedd, i godi terfysg cyffredin yn y ddinas. Torodd eu dialedd allan yn erbyn arwydd-luniau yr amherawdwr, ei dad, ei wraig Fercila, a'i ddau fab,

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, vol. ii. p. 85.

Arcadius a Honorius, pa rai a daflasant i lawr oddi ar eu bonsangau, nes eu dryllio, a llusgasant eu darnau trwy yr heolydd gyda'r anmharch mwyaf. Edrychwyd ar hyn yn anghariad, yn ddiystyrwch, ac yn wrthryfel yn erbyn ei fawrhydi amherodrol. Gan hyny, gosododd yr amherawdwr drigolion Antiochia oll o dan ddedryd marwolaeth; eu meddiannau i gael eu hysglyfaethu gan y milwyr, eu dinas i gael ei dinystrio a'i difreinio, a'i braint ddinasol i gael ei throsglwyddo i Laodicea. Eithr yr oedd cymmaint o amser wedi ei adael rhwng gosodiad y ddedryd a'r gweinyddiad o honi, a gwnaed y dinasyddion yn hysbys o'u hamgylchiadau, fel y darfu iddynt ddwys ystyried eu sefyllfa, ac anfon Fflavian eu hesgob, a Hilarius, seneddwr hyawdl, i erfyn drostynt, ac i ddwyn eu hymostyngiad i'r amherawdwr. Ond gan fod dros wyth can milldir rhwng Antiochia a Chaer-Cystenyn, yn mha le yr oedd Theodosius y pryd hwnw, buant amser hirfaith cyn gallu dyfod yn ol, fel y daeth amser yr oediad i ben cyn eu dyfodiad. Amgylchynwyd y ddinas â milwyr Helebicus y pen-cadpen, a Cæsarius, llywydd y swyddau, i ba rai yr ymddiriedwyd gweinyddiad y ddedryd. Cyhoeddwyd ewyllys yr amherawdwr gyda golwg ar y ddinas a'i thrigolion; a dechreuasant ar eu trychineb. Llanwyd y dinasyddion â braw ac â synedigaeth. Eu teimladau oeddynt dra chymmysglyd; weithiau llewyrchai mesur o obaith trwy eu mynwesau tywyll, y llwyddai eu cennadau anfonedig i gael iddynt ryddhad; ond buan yr ymlidid hyny ymaith gan chwedlau trallodedig, nes eu llanw â rhyw ddisgwyliad ofnadwy am gyflawniad o'r farnedigaeth. Attaliwyd pob gorchwylion yn y ddinas; y gweithfeydd a'r masnachau a beidiasant yn hollol; y masnachdai a gauwyd i fynu; pob lluniaeth a chynnaliaeth bywyd yn prinhau; dynion yn ymderfysgu; y farn wedi eistedd; tai mawrion a theg yn cael eu dryllio; y carcharau yn cael eu llenwi; dynion ag oedd mewn llawnder yn cael eu dwyn i'r llymder mwyaf; a phob chwedl yn chwanegu eu harswyd a'u dychryn yn feunyddiol. Fel hyn y bu ar y ddinas am ddyddiau lawer, medd Chrysostom—yn debyg iawn i'r modd y bydd ar lawer yn nydd brawd, pan yr ymddangoso y Barnwr yn niwedd amser. Ond y cennadau a ddychwelasant wedi llwyddo er attal y farn honno i ddisgyn ar yr Antiochiaid, ac a ddygasant iddynt lawn ryddhad oddi wrth yr amherawdwr; a bu llawenydd mawr yn y ddinas. Eithr dengys hyn i ni y fath dymherau llidiog a lywodraethai feddwl Theodosius yn wyneb rhyw gyffröad.*

Etto, er cael ei weled yn fwy cyflawn, y mae i ni i'w ystyried yn ei ymddygiad yn y cyflawniad o'r gofal a ymhonai ei ymddiried iddo dros yr eglwys gyffredinol. Yn mhen ychydig amser wedi ei ddyfodiad i'r orsedd, dangosodd ei sêl dros gyffes Nicea, yr hwn a fernid y pryd hwnw yn uniawn-gred. Y mae hyn i'w ddywedyd am dano yn fwy nag un o'i flaenoriaid a fu yn eistedd ar orsedd Rhufain: yr oedd efe yn un bedyddiedig, yr hyn ni bu neb o'i flaen, a wisgai y goron honno. Pan wedi bod yn ddeiliad o'r ordinhad hon yn Thessalonica, trwy law Achalius, esgob uniawn-gred oedd yn y ddinas honno, dyma y cyhoeddiad cyntaf a wnaeth:—"Ein hewyllys yw, ar fod i'r holl genedloedd a'r llywodraeth, trwy ein hynawsedd a'n cymmedroldeb, lynu yn ddiysgog wrth y grefydd a draddodwyd gan St. Pedr i'r Rhufeiniaid, yr hon a gedwir yn ddilwgr trwy draddodiad, ac a broffesir yn bresennol gan y tad Damasus o Rufain, a chan Pedr, esgob Alexandria, gŵr o sancteiddrwydd apostolaidd. Yn ol dysgyblaeth yr apos-

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 188.

tolion, ac athrawiaeth yr efengylwyr, bydded i ni gredu yn Nuwdod y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan, mewn cydradd fawredd, a Drindod ddwyfol. Awdurdodir genym fod i ddilynwyr yr athrawiaeth hon gymmeryd arnynt yn unig yr enw *Cristionogion cyffredinol;* ac yr ydym yn barnu fod pawb eraill yn ddynion gwallgof, pa rai a nodir genym dan yr enw gwarthus o *Hereticiaid;* a chyhoeddir genym nad yw ein cynnulliadau mwy i ymwisgo mewn un ystyr â'r arwydd-nod hwnw o'r enw eglwys. Heblaw eu bod hwy i ddisgwyl barnedigaeth dwyfol gyfiawnder, nid oes iddynt edrych oddi wrth ein hawdurdod ni, ond gweinyddiad o'r cospedigaethau hyny tu ag attynt a weinyddir genym, yn ol cyfarwyddiadau doethineb nefol."*

Yr oedd yr amherawdwr wedi clywed fod yn Nghaer-Cystenyn ymraniadau crefyddol, a bod Demophilus yr esgob, yr hwn yn benaf a lywodraethai bob achosion eglwysig yn y ddinas honno, yn Ariad; a bod yr eglwys honno er ys mwy na deugain mlynedd yn cael ei llywodraethu gan yr Ariaid. Efe a anfonodd lythyr, yn un, o ran sylwedd, a'r cyhoeddiad uchod, at Demophilus, yn mha un y dangosai mai ei ewyllys oedd, na byddai ond un eglwys o fewn ei amherodraeth ef; ac mai yr eglwys ag oedd yn un mewn egwyddorion ac ymarferiadau â Damasus, esgob Rhufain, a Pedr, esgob Alexandria, oedd yr un gyffredinol honno; ac y gelwid pwy bynag a fyddai yn wrthgred i hyny, yn hereticiaid, y rhai a ystyrid yn ddirmygus ac yn agored i gospedigaeth y gyfraith. Cyn gynted ag y daeth i Gaer-Cystenyn, danfonodd am Demophilus, yr esgob Ariaidd, atto; gofynodd iddo, yn awdurdodol, pa un a wnai efe arwyddo ei gydsyniad â chyffes Nicea, ai nis gwnai? gan chwanegu, os na wnai efe a'i gyfeillion hyny, y troid hwy allan o'r eglwysi oll, yn mhob lle; a chadwodd ei air yn hyn; canys trowyd pawb yn Nghaer-Cystenyn allan, na chydffurfiai, a deolwyd hwy o'r ddinas.†

Er cadarnhau ei hun yn fwy yn erbyn yr Ariaid, galwodd yn nghyd gymmanfa o weinidogion Niceaidd i Gaer-Cystenyn, yn y flwyddyn 383. Hon a ystyrir yr *ail gymmanfa gyffredinol.* I hon ymgynnullodd dros gant a hanner o esgobion uniawn-gred, fel eu gelwid;‡ ac un ar bymtheg ar hugain o *Facedoniaid,* canlynwyr un Macedonius, esgob a fu yn Nghaer-Cystenyn, yn nechreu y canrif, pa rai a wadent yr Ysbryd Glan; eithr ni arosodd y rhai hyn yno ond ychydig. Trefnwyd yn y gymmanfa hon, fod y gyffes a sefydlwyd arni yn Nicea, yn rheol ac yn brawf o'r wir athrawiaeth oedd iddynt gredu; a bod yn ofynol i bob heresiaeth gael ei ddedfrydu, a hereticiaid i'w cospi, yn ol y gyfraith.§

Dyma yr amser y sefydlwyd yr enw a'r swydd batriarchol i esgob Rhufain, Caer-Cystenyn, Alexandria, Antiochia, a Jerusalem, trwy weithred gymmanfaol; er eu bod hwy weithiau wedi cael yr enw yn flaenorol; ac yn fuan ar ol hyn, dyrchafwyd un Caer-Cystenyn o flaen pob un arall, oddi eithr eiddo Rhufain. Er mwyn gwneuthur trefn lywyddol yr eglwys yn fwy tebyg i lywodraeth amherodraethol Rhufain, trefnwyd y pryd hwn Exarchiaid, yn cyfatteb i swydd o'r enw hwnw oedd yn y llywodraeth wladol; pa rai a lywodraethent ar ryw nifer fechan o daleithiau. Golygid swyddau

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 170.

† Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 334.

‡ Tri chant a hanner, medd Milner, yn ei Hanes Eglwysig, (Hist. of the Christ. Church, vol. ii. p. 196.)

§ Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 335.

llywyddol yr eglwys gyffredinol, yn sefyll fel hyn y pryd hwnw:—Yr amherawdwr yn flaenaf yn y llywodraeth; y patriarchiaid yn nesaf, â'u golygiaeth dros yr holl fyd Cristionogol; gwedi hyn, exarchiaid; esgob taleithiol, yr hwn oedd â'i ofal dros un dalaeth yn unig; archesgob, yr hwn a olygid fod dros ryw ran o dalaeth; ac esgob, yr hwn a dybid fod yn golygu dros rif llai o eglwysi, ac a ofalai am ddwyn yn mlaen ryw rif o amrywiaethau swyddogion oedd islaw iddo ef.*

Yn fuan wedi penderfyniadau y gymmanfa uchod, rhoddodd yr amherawdwr allan y cyfreithiau canlynol: Y gyntaf a waharddai i'r hereticiaid gynnal un math o gyfarfodydd crefyddol. Yr ail a waharddai iddynt gyfarfod â'u gilydd mewn un modd, nac ar unrhyw amser, nos na dydd, dirgel na chyhoedd, nac mewn unrhyw le, yn y dinasoedd na'r pentrefydd, nac ar y maesydd, dan y boen o gael eu halltudio. A chan y golygai fod nerth a llwyddiant pob cymdeithas yn ymddibynu i raddau mawr ar fod swyddogion addas ynddi, felly meddyliodd am attal llwyddiant yr hereticiaid, trwy eu rhwystro i ddewis swyddogion yn eu plith, gan osod dirwy o ddeg punt o aur—yr hyn oedd fwy na phedwar cant o bunnau o'n harian ni—ar y neb a ordeiniai, ac ar y neb a ordeinid i unrhyw swydd yn yr hyn a elwid ganddynt yn eglwys; ac ystyrid eu gwaith yn cymmeryd yr enw, yn hollol groes i'r gyfraith.

Yn yspaid pymtheg mlynedd, gwnaeth yr amherawdwr o leiaf bymtheg o gyfreithiau llymdost, er dwyn yn mlaen a chadarnhau unffurfiad crefyddol, gan wahardd pob ymraniad yn mhlith ei ddeiliaid, a chospi y rhai a gredent ac a ymarferent â phethau eglwysaidd yn wahanol i'r eiddo ef a'i gyfeillion. Yn y rhai hyn, gosodai y gwrthgredwyr allan fel y rhai mwyaf drygionus a gwaradwyddus, annheilwng o un ymddiried; eu meddiannau oedd i'w hattafaelu, hwythau i'w diswyddo a'u difreinio o bob braint, fel dinasyddion a gwladwyr; a gosodid hwy allan fel nod o warth a dirmyg i'w cyd-greaduriaid; a llawer o honynt a alltudiwyd o'u gwlad:† er, digon gwir, o herwydd y carai yr amherawdwr loddest ei lŷs, a phleserau, ac esmwythder cartrefol gymmaint, mai yn anfynych yr hoffai y drafferth o roddi y cyfreithiau hyn mewn gweithrediad, pe cawsai lonydd gan ei gyfeillion Niceaidd. Neu, gellir gobeithio, fel y dywed yr haneswyr Sozomen a Socrates, fod yr amherawdwr, trwy y cyfreithiau hyn, yn bwriadu dychrynu ei ddeiliaid i'r un grêd âg ef ei hun, yn fwy nag oedd yn amcanu dinystrio y gwrthgredwyr. Ond beth bynag am hyny, y mae yn hawdd gweled ei fod ef trwyddynt wedi rhoddi lle a chyfleusdra i eraill ddwyn yn mlaen erledigaeth, ac i ddinystrio eu cydgreaduriaid, o ran eu meddiannau, eu cymmeriad, a'u bywydau, fel y gwelwyd yn Maximus; ac achosi mwy o ymraniadau yn mhlith ei ddeiliaid nag erioed. Byddai gan esgobion y Niceaid law a ffordd neillduol i'w osod ef ei hun ar waith i weinyddu y cyfreithiau pan yr ewyllysient. Unwaith, pan oedd yr amherawdwr newydd ddyrchafu ei fab hynaf i'r anrhydedd o Augustiad, a'i osod i eistedd ar orsedd harddwych gydag ef ei hun, ac yn yr agwedd honno yn derbyn ymostyngiad ac annerch-

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 349.

† Meddyliai yr amherawdwr uniawn-gred, fod pob un na ddeuai i fynu i'w grêd a'i ymarferiadau crefyddol ef, yn heretic; a bod yr hereticiaid oll yn wrthryfelwyr hollol yn erbyn y galluoedd uchaf yn y nef ac ar y ddaear; a bod gan y galluoedd hyn hawl i weini eu priodol farnau cospedigaethol yn erbyn yr euogion hyn, er distrywio eu cyrph a'u henekidiau.—*Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire*, vol. ii. pp. 176, 177.

iadau caredigol oddi wrth eu deiliaid, Amphilochus, esgob o Iconium, a ddaeth ac a wnaeth ei ymostyngiad i Theodosius, mewn llawn cydnabyddiaeth o'i fawredd a'i awdurdod; eithr annerchodd ei fab fel plentyn gwrengaidd. Ennynodd hyn ddig yr amherawdwr, fel y gorchymynodd i'r gwarcheidwaid ei droi allan dros y drws. Yna yr hen esgob cyfrwysgall a gyrhaeddodd ei amcan, ac a waeddodd allan,—"Fel hyn, O amherawdwr, y gwna Brenin y nefoedd i'r dynion annuwiol hyny ag sydd yn gommedd rhoddi yr un anrhydedd i'w Fab ag iddo ef, yr hwn sydd wir Dduw gogyfuwch âg ef ei hun, ac â'r rhai a'u goddefant i wneuthur felly." Deallodd Theodosius y wers bwysig a amcenid iddo, trwy y dull chwareyddol hwn; derbyniodd yr addysg, parchodd y chwareuwr cyfrwys; a rhoddodd y cyfreithiau llymdost yn fwy mewn gweithrediad yn erbyn yr hereticiaid.*

Gwedi bwrw Demophilus allan o archesgobaeth Caer-Cystenyn, rhoddwyd ei le a'i swydd i Gregory Nazianzenus o Cappadocia, yr hwn oedd yn esgob er ys amser ar blaid o Niceaid ymneillduedig yn y ddinas. Gregory yn ddiau oedd un o'r dynion goreu ag oedd yn byw yn yr oes honno, a'r mwyaf ei ddoniau gweinidogaethol; ac yr oedd wedi bod yn ymdrechgar a llwyddiannus i wneuthur daioni yn Nghaer-Cystenyn, cyn ei symmud i'r gadair archesgobaethol. Ond yn fuan wedi ei ddyrchafiad, daeth i fod yn wrthddrych cenfigen a chasineb i ryw blaid o esgobion terfysglyd yn y dwyrain, pa rai a amheuent gyfreithlondeb ei alwad a'i ordeiniad. Gwedi iddynt godi holl Syria a'r Aipht yn ei erbyn, efe, yn lle eu gwrthsefyll, a gynnygodd roi ei swydd a'i sefyllfa i fynu i'r gymmanfa a'r amherawdwr, pa rai a'u derbyniasant yn rhwyddach nag y meddyliodd. Dychwelodd Gregory wedi hyn i'w wlad ei hun; a threuliodd y gweddill o'i fywyd yn lled anghyoedd, mewn duwiol ymarferiadau dirgelaidd, pan wedi ei ddysgu yn fwy i hyny, dichon, wrth yr hyn a brofodd o waeledd, anghymwysder, ac anwadalwch pob parch a dyrchafiad dynol. Ei archesgobaeth a roddwyd i seneddwr anrhydeddus o'r enw Nectarius; yr hwn, er gwychder ei dymherau a phrydferthwch ei agwedd, a orfu aros ychydig cyn ei osod yn y gadair esgobaethol, i'w dderbyn yn aelod eglwysig trwy weinyddiad yr ordinhad o fedydd dwfr. Pwy na alarai wrth weled y fath lygredigaeth yn yr hyn a elwid yn eglwys i Grist? a phwy a fedrai ganmol duwioldeb a doethineb Theodosius, ond yr hanesydd Milner, pan trwy ei gyfreithiau yr oedd wedi gwastattu cymmaint rhwng yr eglwys â'r byd, a'u huno â'u gilydd fel y gallai seneddwr Paganaidd ddyfod oddi wrth allor Jupiter, i ddal y swydd uchaf yn yr eglwys, mewn ychydig oriau?†

Nid yn unig gwnaeth Theodosius i'r Ariaid, a'r pleidiau crefyddol eraill a elwid yn hereticiaid, deimlo pwys ei awdurdod er llethiad, ond hefyd y Paganiaid. Y cyfundraith Paganaidd, fel yr arferid ef yn mhlith y Rhufeiniaid, a ymarddelwai i hynafiaeth a phoblogrwydd mawr trwy yr holl daleithiau perthynol i'r llywodraeth; a'i lwyr ddiwreiddiad o ran ei ddull ymarferol sydd un o'r amgylchiadau hynottaf mewn hanesyddiaeth, ac a deilynga ychydig o'n sylw. Ymddygiad arafaidd Cystenyn yn hyn yma, yn nghyd â chyflawn ryddid Valentinian i'r Paganiaid, oedd yn peri poen a llawer o anfoddlonrwydd i'r Cristionogion, yn enwedig yr esgobion, wrth weled arosiad eu gwrthwynebwyr; canys ni edrychent ar eu buddugoliaeth yn gyflawn nac yn sicr tra fyddent mewn bodoliaeth. Y llywodraeth ag

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 171. † Ibid, vol. ii. p. 176.

oedd gan yr esgobion, yn enwedig Ambrose, ar feddyliau Gratian a Theodosius ofergoelus, a ddefnyddiasant i dywallt i'w mynwesau egwyddorion a thymherau tra erledigaethus. Canys dadleuai Ambrose weithiau achos dyngarwch, a phryd arall dros erledigaeth gyda yr un rhwyddineb, effeithioldeb, a llwyddiant.

Yr oedd dwy o egwyddorion a ymddangosent yn olygus, a roddid i lawr fel pethau sefydlog mewn deddfoliaeth grefyddol; trwy gasgliadau oddi wrth ba rai, medrai yr esgobion, gyda deheudra, roddi eu proselytiaid amherodrol ar waith i osod cyfreithiau llymdost a dinystriol mewn grym yn erbyn rhan fawr o'u deiliaid, a lynent wrth ddefodau crefyddol eu hynafiaid: *Yn gyntaf*, Gosodid i lawr fod pob llywydd, i raddau, yn gyfrifol am, ac yn euog o, y drygau a wnaid yn ei lywodraeth, os esgeulusai eu gwahardd a'u hattal. *Yn ail*, Mai eilunaddoliaeth oedd y trosedd mwyaf yn erbyn Duw, a'r ymddygiad ffieiddiaf tu ag atto, a allasai dynion fod yn euog o hono. Er ennyn y fflam yn mynwesau y tywysogion, arweinid eu meddyliau i wyneb cyfreithiau Moses; a chymmwysid attynt yr holl siamplau o farnedigaethau a weinyddwyd, ac a gyhoeddir yn yr Hen Destament, yn erbyn eilunaddolwyr, gyda chryn ddeheudra, gan yr esgobion. Nid yw anghymmwysder ac anmhriodoldeb y cymmwysiad hwn yn atteb unrhyw ddyben, namyn dangos i ni anfedrusrwydd crefyddol y tywysogion hyny; eithr attebodd yr oll oedd amcanedig y pryd hwnw: ac areithiwyd yn hyawdl ac yn effeithiol, nad oedd modd i Israel feddiannu Canaan nes difrodi y Canaaneaid. Felly dangosid nad oedd modd i Gristionogaeth fod yn gyffredinol trwy y byd, nes y dileid addoliad y duwiau gweigion, pa rai, mewn gwirionedd, nid oeddynt well na bod yn ddieflig.

Yr amherawdwr Theodosius a gynhyrfwyd, mewn sêl ac egni bywiog, dros anrhydedd y nefoedd a'i ddedwyddwch ei hun, fel y gosododd allan gyfreithiau er llwyr ddinystrio Paganiaeth trwy holl derfynau ei amherodraeth. Mewn canlyniad i'r rhai hyn, y temlau a ddymchwelwyd; yr aberthau a ddilewyd; yr allorau a dynwyd i lawr; eu tânau sanctaidd a ddiffoddwyd; a'u cynnulleidfaoedd a wasgarwyd, trwy yr holl amherodraeth Rufeinaidd, yn mhen o ddeutu triugain mlynedd wedi dechreuad ei chwymp gan Cystenyn.

Theodosius ar y cyntaf oedd dra chymhedrol yn ei ymddygiadau dinystriol tu ag at Baganiaeth; eithr tua diwedd ei amser, cynnyddodd i fwy gerwindeb.* Rhoddodd allan gyhoeddiad tua'r flwyddyn 390, yn mha un y dywedai ei feddwl yn eglur, ond nid dim yn fygythiol: "Ein hewyllys a'n hyfrydwch penaf yw, na byddo i neb o'n deiliaid gynnyg addoli unrhyw eilun, mewn dinas, tref, nac unrhyw le arall, pa un bynag fyddont ai penswyddwyr ai dinasyddion cyffredin, pa beth bynag a ddichon eu hamgylchiadau fod, nid oes iddynt aberthu unrhyw greadur diniwaid." Gwedi hyn, cawn ei fod yn gwneuthur aberthu i unrhyw eilun, a dewino dewiniaeth trwy ryw arwyddion yn ngholuddion yr anifail aberthiadol, yn brif drosedd yn erbyn y llywodraeth, yr hwn nid oedd modd i'w ddileu, ond trwy gymmeryd ymaith fywyd y troseddwr.† Gorchymynwyd i'r trefniadau offeiriadol gael eu dileu, pa rai a hanfodent er dyddiau Numa, yr hwn oedd frenin ar Rufain yn nesaf ar ol Romulus, yn mhen deugain mlynedd wedi

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 200.

† Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. pp. 335, 336.

sylfaenu y ddinas yr hon a fu yn arglwyddes y byd. Archwyd i'r temlau gael eu cau yn mhob man; cymmerwyd meddiant o'u dodrefn gwerthfawr; a threfnwyd fod i'r cyllid a'r tiriogaeth a berthynai iddynt gael eu defnyddio ut wasanaeth y fyddin, y wladwriaeth, a'r eglwys Gristionogol.

Y cyfryw oedd y llymder gyda pha un y dygai yr amherawdwr yn mlaen ei wrthwynebiad i'r arferiadau Paganaidd, fel y gosodwyd y ddirwy o bum punt ar hugain o aur—sef dros fil o bunnau o'n harian ni—ar y neb a ddelid mewn unrhyw ymarferiad eilunaddolgar mewn unrhyw le; ac os byddai yn ei dý ei hun, hwnw a gymmerid ymaith hefyd. Dirwy nid llai a osodid hefyd ar y neb a gelai ar y rhai y gwyddent eu bod yn dwyn yn mlaen y cyfryw ymarferiadau, neu ar neb swyddogion a esgeulusai gyflawni y cyfreithiau cospol hyn tu ag at yr hwn a'u troseddai. Ymdrechodd Libanius, areithydd hyawdl, a Symmachus, seneddwr galluog a chyfoethog, yr hwn oedd bendefig hynafiaethol, wrthsefyll gosodiad y cyfryw gyfreithiau; eithr i ddim dyben, er maint hyawdledd eu hareithiau gwresog a chyffrous. Canys eu holl resymau ffugiol a ddymchwelwyd, trwy ddeheudra a diysgogrwydd y gwrthwynebiad parhaus a wnai archesgob Milan iddynt, fel na wnaeth eu hareithiau un effaith attaliol ar feddyliau yr amherawdwr. Symmachus, wedi ei hollol fethiad dros y dduwies *Victor* a'r cyfundraith Paganaidd, a fu alltudiedig, ac a dreuliodd weddill ei ddyddiau mewn modd anghyoedd; pryd, pan na fedrai lwyddo i gynnal i fynu ei gyfansoddiad hoff, yr wylai yn hidl wrth edrych ar ei ddinystriad; ac anrhydeddai angladd y trefniad a dderbyniasai nawdd yr oesoedd, â'i ddagrau.*

Dygwyddodd ei bod yn fanteisiol er attal terfysgiadau a llawer o dywallt gwaed, yn wyneb y fath gyfnewidiad, fod y grefydd Baganaidd heb ond ychydig neu ddim ynddi a greai egni a sêl yn ei phleidwyr drosti; eithr gan mwyaf yr oeddynt yn dra phlygadwy, yn enwedig i'r ochr y byddai eu helw, eu parch, a'u dyrchafiad yn gogwyddo. Ac amryw o'u dysgawdwyr, megys Libanius, ac eraill, a ddysgent iddynt, y dylasai crefydd y deiliaid roddi ei ffordd i grefydd y llywyddion, a hwythau ymostwng i fod o'r un grefydd â'r amherawdwr. Cristionogaeth y pryd hwnw oedd wedi ei hiselhau a'i chyfnewid i'r fath raddau, fel nad oedd ond ychydig o wahaniaeth rhyngddi â Phaganiaeth, oddi eithr mewn enw; a'r unig ammod ar ba un y gellid mwynhau y swyddau a'r sefyllfaoedd uchaf yn yr eglwys, oedd gwneuthur proffes o gyffes Nicea, pa un a ddeallid yr hyn oedd ynddi ai peidio, nid oedd un gwahaniaeth.

Y canlyniadau o hyn yma sydd eglur i bawb. Pan gyhoeddwyd y cyfreithiau hyn trwy y gwahanol daleithiau, annogwyd cydymffurfiad â hwy, trwy siampl yr amherawdwr galluog; a dangoswyd ei fawr foddlonrwydd i hyny, trwy addewidion o barch, elw, a dyrchafiad. Gan hyny, lluoedd o bob sefyllfa a ymdyrasant at y grefydd Gristionogol, yn mhob talaeth o'r amherodraeth. Dyrchafwyd llawer o honynt yn ddiattreg i'r sefyllfaoedd uchaf yn yr hyn a elwid yn eglwys, pan nad oeddynt wedi deall beth oedd egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw; ac nid oeddynt yn chwennych eu gwybod. Fel hyn, collodd yr eglwys yn ddau ddyblyg, mewn symledd a phurdeb duwiol, yr hyn a ennillodd mewn rhifedi, trwy gyfreithiau Theodosius. Er dangos lliw o gyfiawnder yn ei weithrediadau, efe a aeth unwaith i'r senedd-dy, pan oedd yno gyflawn eisteddfod, ac a ofynodd iddynt,

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 203.

pa un ai Jupiter ai Crist oedd i fod yn Dduw y Rhufeiniaid? Y nifer mwyaf o'r seneddwyr, fel y gallesid disgwyl, wrth ystyried yr hyn oedd yr amherawdwr, yr hwn oedd bresennol, a bod Symmachus newydd golli ei foddlonrwydd a'i swydd o herwydd ei bleidgarwch i Baganiaeth, a roddasant eu pleidlais o du Crist. Y blaid leiaf a orfu ymostwng i'r lleill, neu golli eu lleoedd; a'r byd oedd i blygu i fod yn Gristionogion trwy awdurdod y cyfreithiau a wnaid ganddynt hwy.

Dyma'r moddion trwy ba rai yr helaethwyd Cristionogaeth, o'r fath ag oedd y pryd hwnw; pa mor annhebyg oeddynt i'r hyn a arferid gan ein Harglwydd a'i apostolion, a adewir i farn pob darllenydd ystyriol.* Bernir nad oedd rhifedi y rhai a broffesent Gristionogaeth, mewn un ystyr, yn fwy nag un i bob pump o drigolion holl amherodraeth Rhufain, pan y gwnaed y deddfau yma o unffurfiad; ac nad oedd mwy nag un i bob wyth, os oedd cymmaint, yn proffesu eu crêd yn ol cyffes Nicea, pan y gosododd Theodosius orfodiaeth ar bawb o'i ddeiliaid i fod o'r gyffes honno.

Ymddiriedwyd gweinyddiad y cyfreithiau hyn o unffurfiad, trwy yr holl ddwyrain, i'r rhaglaw llysol Cynegius; a chwedi hyny, yn y gorllewin, i Jovius a Gaudentius, y rhai oeddynt swyddwyr ffyddlon a selog. Y Paganiaid, er cau y temlau yn mhob lle, oeddynt yn byw mewn rhyw ddirgel obaith y deuai rhyw ail Julian drachefn i'w hagor, ac i dalu'r pwyth i'w gwrthwynebwyr; a'r Cristionogion hwythau oeddynt mewn gormod o eiddigedd tanllyd i'w gadael i sefyll, nac i un aelod o'u coelgrefydd gael aros heb ei ddinystrio; hwy a ymarfogasant er tynnu i lawr y temlau a distrywio yr eilunod, trwy yr holl daleithiau. Martin, esgob Tours yn Gaul, a gododd i fynu ei lumman gyssegredig; a dilynwyd ef gan heidiau o fonachod; a dinystriasant bob eilun a allasant ddyfod o hyd iddo; chwilfriwiasant bob teml; yr allorau a dynasant i lawr; a thorasant ymaith bob llwyn sancteiddiedig a arferai y Paganiaid, trwy ei holl esgobaeth. Marcelus, esgob Apamea, yn Syria, a gwhwfanodd ei faner esgobaethol, ac a gymmerodd y maes ei hun yn erbyn galluoedd y tywyllwch; a byddin luosog o filwyr a chleddyfwyr a'i canlynai; a hwy a aethant allan i ddinystrio yr eilunod a'r temlau oll, ag oedd yn ei esgobaeth. Gwrthsafwyd ei lwyddiant am hir amser gan gadernid teml Jupiter, yr hon a adeilasid ar bymtheg o golofnau o bob tu iddi, yn un troedfedd ar bymtheg o amgylchiad bob un, pa rai a wnaed â'r fath feini mawrion, a'u cyssylltiadau wedi eu sicrhau yn y fath fodd, fel na fenai yr arfau llymaf a mwyaf nerthol arnynt er eu dinystrio. Gorfu arnynt ei disodli, trwy durio y graig oedd dan ei sylfaeni, cyn gallu ei dymchwelyd. Pan yr oedd Marcelus yn dwyn yn mlaen ei waith trwy drefydd a phentrefydd ei esgobaeth, gwrthwynebid ef a'i fyddin yn aml gan bleidwyr yr eilunod, fel y bu amryw frwydrau gwaedlyd rhyngddynt; eithr ni allai efe nac ymladd na ffoi, er maint ei sêl, o herwydd ei fod yn gloff; ond safai o'r neilldu tra parai y brwydrau. Ar un amgylchiad, gwybu y gwrthwynebwyr am ei sefyllfa, yna hwy a'i chwiliasant allan; a rhyw ddyhirod a syrthiasant arno, ac a'i rhoddasant i farwolaeth, a'r rhai oedd gydag ef. Gosodir ei sêl a'i ymdrech allan fel pethau canmoladwy iawn gan rai haneswyr; cyfrifant ei farwolaeth yn ferthyrol; a chofrestrant ef yn mhlith y saint.*

Y pryd hwn, meddiannid cadair batriarchol Alexandria gan un Theophilus,

* Gibbon's Decline and Fall, vol. ii. p. 205. † Ibid, vol. ii. 205.

yr hwn nid oedd mewn un ystyr yn ddyn o nodweddiad cymmeradwy; eithr ymddygai yn hynod o selog dros ddinystriad temlau yr eilunod, trwy holl wlad yr Aipht, nes y cynhyrfwyd y wlad i ryfel cartrefol, pryd y lladdwyd amryw o'r Cristionogion yn yr ymdrech. Y gwrthryfelwyr, yn benaf, oeddynt bleidwyr Serapis, eilun-dduw tra hynod oedd yn Alexandria, pa rai oeddynt wedi penderfynu, trwy annogaeth un Olympius, athronwr, i aberthu eu bywydau er amddiffyniad i'w duwiau. Wedi iddynt amgâu eu hunain yn nheml eu duw, yr hon oedd fawr a chadarn, fel amddiffynfa filwraidd, hwy a wnaethant ddifrod ar eu gwrthwynebwyr dros amser; eithr trwy ddoethineb swyddogion y ddinas, ennillwyd y castell. Ond yr oeddid yn dywedyd, a hyny a gredid gan lawer, os cyffyrddai neb â'r duw Serapis i'w niweidio, y peidiai yr afon Nilus orlifo dros y wlad i'w gwrteithio, yr ymwahanai y byd oddi wrth ei gilydd, ac yr ymollyngai y nefoedd, nes oeddynt am amser yn methu cael neb a gymmerai arno y gorchwyl o'i ddarnio. Eithr rhyw filwr mwy hyf na'r cyffredin, a gododd ei fwyall ac a darawodd y ddelw ar ei phen, nes syrthio o un o'i gruddiau i'r ddaear. Er braw a dychryn i'r edrychwyr, wele haid anferth o lygod mawrion yn dyfod allan o'i bol; ac ni bu un canlyniad mwy niweidiol. Wedi ei dryllio, dygwyd ei darnau trwy yr heolydd yn destun gwawd ar demlau a chwalwyd i'r llawr; ac wrth weled na chymmerodd dim o'r hyn a ddywedwyd le, llawer a roddasant dderbyniad mwy calonog i Gristionogaeth, yn y ddinas a'r wlad oddi amgylch.*

Y terfysgiadau hyn yn Syria a'r Aipht a ostegwyd yn fuan trwy enw ac awdurdod yr amherawdwr, ag oedd yn bleidgar i ddinystriad y temlau; a chydymffurfiasant â'r grefydd yr hon nid oeddynt yn ei deall, nac yn credu i'w dwyfolder. Eithr trwy gymhelliadau naturiol, perthynol i'r bywyd hwn, hwy a roddasant eu cydsyniad; a phan y byddent yn cydymffurfio yn allanol â'r Cristionogion yn eu gwasanaeth crefyddol, boddhaent eu cydwybodau trwy annerch duwiau yr hynafiaid yn ddirgelaidd yn eu mynwesau. Wrth weled fod y Cristionogion yn tynnu i lawr demlau yr eilunod trwy yr holl amherodraeth Rufeinaidd, tybiodd y Cristionogion yn Persia y gallent hwythau wneuthur yr un peth; a thrwy hyn achlysurasant erledigaeth erwin yn erbyn eu hunain, trwy y wlad honno.

Wrth ystyried dewrder a chyfrwysder milwraidd Arbogastes, ac amlder pleidwyr a chadernid gosodiad i fynu Eugenius, traws-feddiannydd gorsedd y gorllewin, Theodosius a fu gryn amser cyn penderfynu cyhoeddi rhyfel yn ei erbyn. Eithr ei wraig a fyddai yn feunyddiol yn ei gynhyrfu i hyny, trwy ei herfyniadau taerion, er dial gwaed ei hannedwydd frawd. Ond yr amherawdwr, cyn yr anturiai i'r hynt filwraidd hon, a fawr ewyllysiai gael gwybod ewyllys y nefoedd am ei lwyddiant. Pan nad oedd un *oracl* yn Delphi a Dodona, na dewin wedi ei adael yn y wlad, nac anifail aberthiadol, i wybod beth oedd i'w wneud trwy yr arwyddion a fyddai yn ei goluddion, yr oedd sefyllfa Theodosius wedi myned yn debyg i eiddo Saul, brenin Israel gynt. Yn yr amgylchiad, gwybu am feudwy ymneillduedig oddi wrth ddynion, ag oedd yn byw yn mhell i fynu ar yr afon Nilus, yn nhalaeth bellenig Thebais, yn agos i ddinas Lycopolis, o'r enw Ioan, yr hwn oedd yn rhagfynegi i'r bobl y pethau oedd i ddyfod iddynt. Yr oedd yn byw mewn cell, a wnaethai iddo ei hun, mewn ogof, ar ben mynydd, heb

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 206.

weled wyneb un merch, na phrofi un tammaid o fwyd wedi bod ar dân, na than un driniaeth unrhyw gelfyddyd ddynol dros yr amser hwnw. Pum diwrnod o bob wythnos y byddai mewn gweddiau yn barhaus, heb ei fod i'w weled gan neb, ond ar ddydd Sadwrn a dydd Sul, pryd yr agorai ffenestr fechan yn ei gell, trwy ba un y rhoddai attebion i'r ymofynwyr lluosog a ddeuent yno o bob parth o'r byd Cristionogol. Yr amherawdwr, er y cannoedd milltiroedd o ffordd oedd i fyned, a anfonodd un o'i brif eunuchiaid i ymweled â'r cennad hwn o ladmerydd, er gwybod ei lwyddiant. Hwn, wedi ei ddyfod i'r lle, a neshaodd gyda gwylder a gostyngeiddrwydd mawr at ffenestr y meudwy, ac a ddywedodd wrtho fod yr amherawdwr mawr wedi ei anfon i gael gwybod am ganlyniad y rhyfel ag oedd mewn bwriad. Yn fuan attebwyd ef gan y sanctaidd Ioan, fod y fuddugoliaeth yn sicr iddo, ond mai wedi brwydr galed iawn y cai hi.* Rhoddodd hyn egni adnewyddol yn yr amherawdwr; casglodd ei holl luoedd yn nghyd, a chyflogodd yr Arabiaid a'r Gothiaid i'w fyddin. Trwy hyn addysgwyd Alaric, tywysog y Gothiaid, i ryfela yn drefnus gan Theodosius—yr hon addysg wedi hyny a ddefnyddiodd efe i ddinystrio amherodraeth Rhufain.

Cychwynodd yr amherawdwr a'i fyddinoedd lluosog tu ag Europe. Gwedi hir filwriaeth a theithio, ymgyfarfuant â'u gwrthwynebwyr, yn agos i fynyddoedd yr Alps, ar derfynau yr Ital, lle bu brwydr boeth anarferol rhyngddynt. Collodd Theodosius y dydd, fel y gorfu arno ef a'i wyr gilio yn ol; ac ymledaniad esgyll y tywyllwch drosto ef a'i fyddin a fu yr unig amddiffynfa iddynt rhag llwyr ddinystr. Treuliodd y noson honno mewn synfeddyliau a phrudd-der mawr, ac ni chaid ganddo archwaethu dim cynnaliaeth: a phan wawriodd y bore, ni wnaeth ond dangos iddo ei ddirfawr berygl; canys ei elynion oeddynt wedi amgâu o'i gylch, yn mlaen ac yn ol, ac ar bob llaw. Pan oedd Theodosius yn nyfnder y cyfyngdra hwn, heb un cyssur gweledig iddo, ond a ddeilliai oddi wrth ei ysbryd mawreddog, fel gwron a ddibrisiai bob peth a berthynai i'r bywyd hwn, gwawr-ymwared a gododd ar ei amgylchiadau dyrus. Blaenoriaid rhai o'r byddinoedd gwrthwynebol a anfonasant atto eu parodrwydd i adael eu harglwyddi, ac i ymuno â'i fyddinoedd ef, er hyn a hyn o wobr. Derbyniodd y cynnygiad yn rhwydd, caniattaodd iddynt y gwobr gofynol. Trwy hyn ei fyddin a adfywiasant, ac a ddychwelasant drachefn i wynebu eu gelynion yn egniol. Yn mhoethder y frwydr, daeth awel gref, a thymhestl ddirfawr, o'r fath ag sydd yn aml yn agos i'r mynyddoedd hyny, a chwythodd yn wynebau gelynion yr amherawdwr, nes eu diffrwytho, fel na fedrent ddal eu cleddyfau yn eu llaw; a chododd y fath gawod o lwch, nes eu cwbl ddallu am amser; ond ni wnaeth unrhyw niwaid i fyddin yr amherawdwr, am ei bod o'u cefnau hwynt. Defnyddiodd Theodosius yr amgylchiad er hollol ddinystr i'w wrthwynebwyr, a chafodd gyflawn fuddugoliaeth arnynt y dydd hwnw. Eugenius a ddaliwyd ac a ddygwyd ger bron yr amherawdwr, pryd y torwyd ymaith ei ben ef. Abrogates a ffôdd; a chwedi ymgrwydro am ddyddiau lawer, yn anobeithiol, ar hyd y mynyddoedd, rhoddodd ddyben ar ei einioes, trwy ei gleddyf ei hun. Felly daeth yr holl amherodraeth drachefn i feddiant Theodosius.†

Eithr yn mhen ychydig amser wedi hyny, efe a glafychodd, ac a fu farw yn Milan, yn y driugeinfed flwyddyn o'i oedran, a'r unfed ar bym-

* Gibbon's Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 195.

† Ibid, vol. ii. p. 197.

theg o'i deyrnasiad; a chafodd ei amherodraeth ei rhannu rhwng ei ddau fab.*

Arcadius yn y dwyrain, a Honorius yn y gorllewin, a ddechreuasant deyrnasu yn y flwyddyn 395 o'r cyfrifiad cyffredin. Eithr gan fod y rhan fwyaf o deyrnasiad y rhai hyn yn perthyn i'r canrif nesaf, gadewir hwy hyd yr amser hwnw.

* Gibbon's Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 197.

PENNOD XXIV.

Lle y traethir am ymledaniad Cristionogaeth yn y Canrif hwn—mawr ddirywiad gwir Grefydd—y parch a'r coffadwriaeth a wnaed o'r Merthyron, a'r defnydd a wnaid o'u gweddillion—Codiad i fynu y Trefniad Mynachaidd—ymraniad y Mynachod yn wahanol enwau—eu Llwyddiant—yr Egwyddorion dinystriol i bob rhinwedd a gofleidid gan yr Eglwys Gatholic—Llwyddiant yr Ymneilldwyr Donatiaidd, Novatiaidd, ac Ariaidd—yn nghyd â'r ymraniad yn nghylch gwaith Origen.

CWYMP Paganiaeth trwy holl derfynau ëang amherodraeth Rhufain, yr hwn a ddechreuodd gymmeryd lle yn nheyrnasiad Cystenyn, ac a gwblhawyd yn nyddiau Theodosius, hwyrach, ydyw un o'r chwyldroadau mwyaf rhyfedd a mawr a gymmerodd le, mewn un amser, yn holl oesau y byd. Yr awduron Paganaidd eu hunain a'i darluniant fel un o'r pethau mwyaf rhyfedd ac ofnadwy, yn gorchuddio y ddaear â thywyllwch dudew, ac yn dychwelyd y byd i lywodraeth y gymmysgfa, y gwagder, a'r fagddu ddechreuol. Eithr gyda mwy o addurniant a mawredd, ac oddi ar well egwyddorion, a llawer uwch dyben, yr amlygir ef gan yr ysgrifenydd dwyfol yn ei brophwydoliaeth, yn llyfr y Dadguddiad, â pha un y dylai pob darllenydd fod yn adnabyddus.*

Y mae yn eglur oddi wrth yr hyn a ddywedwyd yn barod, ddarfod i Gristionogaeth, mewn enw o leiaf, helaethu llawer ar ei therfynau, trwy holl ranau amherodraeth Rhufain, ac i'w phroffeswyr amlhau yn fawr o fewn i'r canrif hwn. Ond am yr hyn a gymmerodd le o'r tu allan i'r amherodraeth hon, y mae ein hysbysiadau yn brin ac yn aneglur iawn. Etto, y mae yn ddios i amryw lwythau a chenhedloedd ei derbyn mewn ardaloedd pellenig, tua'r amser hwn. Bernir fod yn y canrif hwn lwyddiant mawr ar weinidogaeth un Moses Fynach, yn mhlith llwythau lluosog o'r Saraceniaid, hiliogaeth yr hen Ismael gynt, ag oedd y pryd hwnw yn ddeiliaid i'r frenhines Mævia; yr hon y rhaid ei bod yn frenhiniaeth ëang, gadarn, ac enwog; canys cynnaliodd ryfel am hir amser âg amherodraeth Rhufain. Amryw o'r Gothiaid barbaraidd hefyd, y rhai a hir flinasent yr amherodraeth Rufeinaidd, trwy eu cynniweirfëydd rhyfelgar o'r naill gwrr i'r llall iddi, ag a breswylient Thracia, Mæsia, a Dacia, yn awr, trwy ryw foddion, a ennillwyd i dderbyn y grefydd Gristionogol. Ulphilas, brodor o'u plith hwy eu hunain, yr hwn a elwir yn apostol y Gothiaid, a ddysgodd iddynt y llythyrenau, a'r defnydd o honynt, gan eu dwyn i ddarllain; ac a gyfieithodd ranau o'r ysgrythyrau i'w hiaith hwynt. Ysgrif o'i gyfieithad o'r pedair efengyl sydd

* Dad. vi. 12—17, a xii. 7—9.

i'w chael hyd heddyw, fel cof-golofn o'r hen ialth Teutonaeg.* Eithr hyn a fu anffodus; derbyniasant Gristionogaeth o'r fath ag oedd ar egwyddorion Ariaeth, yr hyn a'u hachlysurodd i fod yn fflangell flin i'r Cristionogion, a elwid yn uniawn-gred, wedi hyn, fel y ceir sylwi etto.

Yn Iberia, yr hon a elwir yn bresennol Georgia, dywedir i lawer iawn o'r trigolion gael eu dychwelyd trwy ymdrechiad gwraig, a gymmerasid ganddynt yn gaethes rhyfel, fel y darfu iddynt yrru am ddysgawdwr o Gaer-Cystenyn i'w haddysgu yn mhellach. Yn mhlith llwyth o Ethiopiaid a elwid Axumitæaid, dywedir fod llafur un Ffurmentius yn llwyddiannus i'w dychwelyd yn y canrif hwn.†

Ond, er mawr alar, yr ydym yn gweled yn amlwg fod yr hyn a elwid yn eglwys gyffredinol, wedi mawr ddirywio, nid yn unig yn egwyddorion, trefn, a gweinyddiad ei llywodraeth, eithr hefyd mewn athrawiaethau ac ymarferiadau. Nid oes y cysgod lleiaf o'r drefn gyntefig, y llywodraeth, na'r cyfansoddiad apostolaidd i'w weled yn yr hyn a elwid yn eglwys, y dyddiau yr ydym yn ysgrifenu am danynt. Y bobl oeddynt wedi eu hollol amddifadu o bob braint o fod ganddynt ddim a wnelent â gorchwylion llywodraeth yr eglwysi. A'r esgobion, fel na byddai ganddynt neb i wrthdystio yn erhyn eu hymddygiadau, ac attal eu huchel-gais, a gymmerasant holl lywodraeth yr eglwysi yn eu llaw; eu meddiannau a'u cyllid a ddygwyd, trwy eu hawdurdod, i'w defnyddio i lenwi eu codau eu hunain, neu eu cyfranu yn ol eu hewyllys: difeddiannasant yn raddol yr henuriaid hefyd o'u hawl a'u hawdurdod, i wneuthur dim â llywodraeth yr eglwys.

Fel hyn, gwelwn fod trefniad a gorchwylion llywyddol yr eglwysi wedi eu cymmeryd ymaith o honynt hwy, ac o law eu henuriaid, gan yr esgobion a'r amherawdwr, a'r swyddwyr trefniedig gan yr olaf. Esgobion Rhufain, y naill ar ol y llall, trwy eu cyfrwysdra eu hunain, annoethineb yr amherawdwr, a byrbwylldra sêl anghymmedrol rhai o'r esgobion drostynt, oeddynt yn ymgyrhaedd yn dra chyflym tua phen uchaf pinacl eu hawdurdod a'u traws-lywodraeth eglwysig. Canys mewn cymmanfa daleithiol a gynnaliwyd yn Sardis, tua'r flwyddyn 351, gwelir Julius, esgob Rhufain, yn cael ei gydnabod gan amryw esgobion ag oedd yno, yn farnydd cymmwys yn nghylch achos Ariaeth, ag oedd y pryd hwnw mewn dadl; ond nid oedd hyn yn cael ei sefydlu gan un gymmanfa gyffredinol, na chan yr amherawdwr, gyda'r hwn yn benaf yr arosai llywodraeth yr eglwys. Ac er cymmaint oedd rhwysgfawredd ymddangosiadol esgobion Rhufain, eu huchelgais, a'u hymhoniad i awdurdod, ac er mor barod oedd amryw o'r esgobion i roi iddynt ymostyngiad, etto y mae yn eglur na chydnabyddid eu bod yn meddu y pryd hwn ar un awdurdod o'r tu allan i'w taleithiau eu hunain, yn rhagor nag a berthynai i esgobion Antiochia, Alexandria, &c.

Yr awdurdod a ymarddelwai yr esgobion, a wasanaethodd i ddwyn i mewn i'r eglwys, a elwid yn gyffredinol, rai o'r cyfeiliornadau mwyaf dinystriol yn y canrif hwn. Yn lle athrawiaeth bur a syml yr efengyl, a'r dadguddiad ysgrythyrol o Iesu Grist, fel unig a digonol Iachawdwr, ac o'r Ysbryd Glan, fel unig sancteiddydd ei bobl, gwelwn fod rhinweddau y saint meirwon, ac effaith sancteiddiol gweddillion eu cyrph, yn cael eu gosod i fynu, a hyny trwy awdurdod y prif esgobion, a nawdd eu cymmanfaoedd. Dechreuasant ddangos parch anarferol i goffadwriaeth y merthyron, mor foreu âg amser

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 260. † Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 337.

erledigaeth Decius; neillduasant ddyddiau gwyl, a sefydlasant wleddoedd blynyddol, er gosod allan eu henwogrwydd. Gregory Nissen, brawd Basil, ag oedd yn byw yn y pedwerydd canrif, a ddywed am Gregory Neo-Cæsarea, iddo sefydlu yn mhlith yr holl bobl, yn ychwanegiadol at eu crefyddolder tuag at Dduw, ddyddiau gwyl, er ymgynnull at eu gilydd, i gadw coffadwriaeth am y rhai a ymdrechasant dros y ffydd, sef y merthyron. Y Paganiaid oeddynt yn arferol o gynnal eu gwleddoedd blynyddol er coffadwriaeth a mawl i'w duwiau a'u gwroniaid hwy; ac yr oedd yn anhawdd ganddynt i ymadael â'r rhai hyny. Gregory, o ganlyniad, er hwylusu eu dychweliad at y grefydd Gristionogol, o'r fath ag oedd, yn ei dyb ef, a sefydlodd wleddoedd blynyddol er coffadwriaeth i'r saint a'r merthyron, i ddifyru ei ddychymmygion, fel y dywed yr un awdwr am dano. "Pan welodd," medd ef, "y modd yr oedd y lluaws gwirioniaid a'r anwybodus yn glynu o ran eu meddyliau wrth yr arwyddion gweledig, a phleserau corphorol, a'u haddoliad eilunaidd, efe, fel y gallai eu diwygio, yn y prif bethau ag oedd yn eu gwag-addoliad, a throi eu golwg at y Duw byw, a ganiattaodd iddynt gael dyddiau er coffadwriaeth am y merthyron, yn mha rai y gallent wneuthur yn llawen, ac ymdoddi mewn digrifwch." Dyma'r modd y dechreuodd gwyliau Mabsant, a gynnelir hyd heddyw mewn rhai manau. Cyprian, yn nghylch yr un amser, a ddywed wrth ei bobl, am iddynt fod yn sicr o gadw coffadwriaeth manwl o amserau merthyrdod pawb o'r merthyron, fel y ceid eu gosod allan yn flynyddol trwy arogldarthiadau ac aberthau.*

Yn amser erledigaeth Dioclesian a'i gymdeithion, dechreuasant yr arferiad o ymgynnull i addoli yn yr ogofëydd a'r mynwentau, lle y cleddid y merthyron, a gweddio ar eu beddau. Gwelir hyn yn cael ei nodi a sylwi arno, fel rhyw ddarn mawr o grefydd, mewn cymmanfa a gynnaliwyd yn Eliberis, yn yr Hispaen, yn y flwyddyn 305; ac un arall a gynnaliwyd yn Laodicea yn Phrygia, yn y flwyddyn 314. Yn y ddiweddaf, sefydlwyd y canonau canlynol, gyda golwg ar hyn: "Y rhai sydd o'r wir eglwys, ni chaniatteir iddynt (meddant) fyned i feddrod yr hereticiaid, er mwyn gweddio a chael iechyd; eithr os hwy a ânt, y maent i'w hesgymuno. Gwir Gristionogion ni ddylent adael merthyron Iesu Grist, a myned at ferthyron twyllodrus, sef yr hereticiaid; canys y mae y rhai hyn yn ddyeithriaid i Dduw: gan hyny, bydded y rhai a elont yno, yn anathema." Yn y flwyddyn 324, cynnaliwyd cymmanfa yn Paphlagonia, yn mha un y sefydlwyd yr erthygl ganlynol:—"Os bydd i un dyn fod yn rhy falch, a ffieiddio cynnulleidfa y merthyron, a'r gwasanaeth a gyflawnir yno, neu mewn lle arall, er coffadwriaeth o'r merthyron, bydded ef yn anathema." Bernir mai colli lleoedd eu haddoliad yn amser yr erledigaethau uchod, a'u gyrrodd hwy ar y cyntaf i'r mynwentau, ac at feddau y merthyron, i gyflawni eu gwasanaeth crefyddol. Eithr wedi i'r rhai hyn fyned heibio, ac i heddwch gael ei adferu i'r eglwysi, parhausant i fyned yno. Pan adeiladasant leoedd addoliad drachefn, adeiladasant hwy ar, neu yn ymyl, beddau rhai o'r merthyron—dyma ddechreuad mynwentau wrth leoedd addoliad. Ac o herwydd y sancteiddrwydd a dybient fod yn y lleoedd hyn, o blegid y meirw a gleddid yno, daeth y claddfëydd i fod yn lleoedd addoliad, a lleoedd addoliad i fod yn gladdfëydd y meirw.†

Cyn diwedd y pedwerydd canrif, arferent oleuo lampau, neu ganhwyllau

* Sir Isaac Newton on the Prophecies, p. 205. † Ibid, p. 208.

cŵyr mawrion, ar hyd y dydd, i'w merthyron, fel y gwnai y Paganiaid i'w heilunod; a thaenellent addolwyr y merthyron â dwfr cyssegredig, fel yr arferai y cenhedloedd eilunaddolgar wneud i'r rhai a addolent eu gau-dduwiau*

Oddi wrth eu bod ar y cyntaf, fel hyn, wedi myned i addoli i, neu ar, feddau y merthyron, y deilliodd yr arferiad o drosglwyddo rhanau, neu ryw weddillion, o gyrph yr hen ferthyron i bob lle addoliad newydd hyd y gallent gael gafael arnynt; a ffurfiwyd miloedd o rai tybiaethol i hyn yma, i ba rai y priodolwyd rhinwedd wyrthiol i feddyginiaethu cyrph ac eneidiau. Dygodd Constantinus ryw bethau a alwai efe yn gyrph Andrew yr Apostol, a Luc a Timotheus yr efengylwyr, o ryw le yn Asia, gyda mawr-rwysg, i le addoliad newydd a adeiladasai efe yn Caer-Cystenyn.† Yr Aiphtiaid, yn mhlith pa rai y meddylir y dechreuedd yr arfer o briodoli rhinwedd wyrthiol i gyrph y saint, a gadwent y cyrph am hir amser yn eu tai; ac yno dywedent fod eu heneidiau yn dyfod attynt, ac yn amlygu iddynt lawer o bethau; a thrwy eu perthynas â'r eneidiau ymadawedig hyn, daethant i feddwl a chyhoeddi fod llawer o rinwedd iachusol yn mhob dernyn o'r cyrph. Ymddengys fod y Cristionogion yn y canrif hwn, yn hollol o'r un golygiadau am eu merthyron, ag oedd y Paganiaid am eu gwroniaid hwythau. Dyma y grisiau trwy ba rai y daethant i'w haddoli. Dechreuasant yn gyntaf, fel y dywedwyd, gynnal gwleddoedd blynyddol er coffa am danynt. Gwedi hyny, priodolasant iddynt allu i wneuthur iddynt lawer o ddaioni, neu ddrygioni, a chyflawni llawer o weithredoedd nerthol. Ac o herwydd y golygent fod perthynas rhwng eu heneidiau â phob rhan o'u cyrph, a bod ganddynt ofal mawr am danynt, daethant i gyrchu rhyw weddillion o'u cyrph, o bell ac agos, er sicrhau eu boddlonrwydd, a derbyn eu bendithion; a phan nad allent eu cael, dychymmygasant eu llun, a chodassant eu harwyddion. Hawdd a fuasai dangos mai fel hyn y dechreuwyd dyrchafu Jupiter, Mars, Venus, Juno, &c.; ac mai yr un oedd golygiadau y cenhedloedd am y rhai hyn, ar y cyntaf â'r eiddo y Cristionogion am eu merthyron.

Hyn a barodd i Julian ddywedyd wrth y Cristionogion yn ei ddyddiau ef, Pa ham na ddilynasech chwi drefn a gorchymyn yr Hebreaid, pa rai nad addolent ond un Duw; eithr chwi a addolwch lawer, ac nid un dyn, ond llawer o ddynion gwael ac annedwydd a addolir genych, a choed y groes, llun pa un a wnewch ar eich talcenau, ac o flaen eich tai. Eunapius, ysgrifenydd Paganaidd arall, ag oedd yn byw tua'r amser hwn, a achwyna yn erwin ar y Cristionogion, am eu bod wedi gosod eu merthyron yn lle hen dduwiau anrhydeddus yr Aipht. Nid oedd un o'r rhai a gyfrifid yn enwog, ac a gymmerent arnynt flaenori yn yr eglwys a enwid yn gyffredinol yn y canrif hwn, nad oedd yn euog o fod yn bleidiol i godi i fynu y gwyrthiau ffugiol, a haerent fod yn cael eu gwneuthur trwy weddillion cyrph y merthyron, trwy ba arferiad y gosodwyd i fynu eu haddoliad. A mawr oedd y gweledigaethau a'r breuddwydion a ddywedent eu bod yn gael, er gwybod pa le y gorweddai yr hen saint a'r merthyron er ys cannoedd o flynyddau. Megys y gwelir Hilary o Poictiers, yn ei areithiau yn erbyn Constantinus; ac fel y gwelsom yn barod am Ambrose yn nghylch Gervasius a Proctasius, yn Milan; Gregory Nazianzenus, yn ei araeth yn erbyn Julian; a chwedi hyny Chrysostom yn ei homiliau, ar yr hwn a elwid Saint Babilas.

* Sir Isaac Newton on the Prophecies, p. 207. † Ibid, p. 208.

Yn amser Julian, darfu i'r Paganiaid yn Phœnicia ddinystrio yr hyn a alwent yn fedd Ioan Fedyddiwr, a chynnyg llosgi ei esgyrn; eithr hwy a aethant ac a ddygasant beth o honynt ymaith trwy drais, ac a'u hanfonasant yn y modd mwyaf diogel i Athanasius yn Alexandria, pa un a'u cuddiodd yn ngwydd ychydig o'i gyfeillion yn nghanol mur ei addoldy, gan ddywedyd, er ei bod y pryd hwnw yn amser rhy beryglus i'w harfer, *y deuai amser ag y byddent yn ddefnyddiol i'r eglwys.**

Yn yr Aipht, meddylir, y dechreuodd masnach gweddillion y saint gael ei dwyn yn mlaen; ac Alexandria, yn benaf, ac Antiochia yn Syria, a ddilynasant ei siampl yn gyflym. Hon a ddanfonodd allan weddillion y deugain merthyr y crybwyllir am danynt gan amryw o haneswyr, pa rai a anfonwyd agos trwy bob eglwys, yn mhob gwlad. Yr oedd y rhai hyn gwedi eu danfon cyn y flwyddyn 373; canys yn y flwyddyn honno y bu farw Athanasius, yr hwn a ysgrifenodd ysgrif o blaid y gweddillion hyn, er gosod allan eu rhinweddau—yr hon ysgrif oedd ar gael yn ddiweddar, yn llyfrgell Ascanius yn yr Ital. Masnach y gweddillion a ddaeth yn fuan yn fwy gwerthfawr na'r aur pur, ac ni chyd-brysient â hwy y meini a'r perlau mwyaf drudfawr; a chlydent hwynt o gwr bwy gilydd i'r byd. Y prif offerynau i ddwyn yn mlaen y fasnach hon, oedd y mynachod, yn mhob gwlad; ac Antony, yr hwn a gyfrifir yn dad iddynt, ac a ganmolir yn fawr gan Athanasius, wrth ysgrifenu hanes ei fywyd, oedd un o'r rhai penaf yn y gorchwyl. Ei hanesydd a ddywed mai ei eiriau diweddaf wrth ei gyfeillion oedd—"Bydded i chwi ofalu am lynu wrth Grist yn mlaenaf, a chwedi hyny wrth ei saint, sef y merthyron, fel, pan y byddoch marw, y derbyniont chwi i'w tragywyddol bebyll, a'ch cydnabod fel eu cyfeillion. Am y pethau hyn meddyliwch, a deallwch hwynt yn drwyadl; ac os oes genych ddim parch i mi, cofiwch am danaf fel eich tad." Gwnaeth yr araeth hon, a'i chyffelyb, yr effaith mwyaf cynhyrfiol ar ei ganlynwyr lluosog, fel y dygasant yn mlaen goffadwriaeth y merthyron gyda'r dyfalwch a'r diwydrwydd mwyaf.

Y pethau nesaf a welir yn y dirywiad hwn oedd, eu gwaith yn rhoddi parch ac addoliad i'r merthyron, fel cyfryngwyr, gan gyfeirio eu gweddiau attynt. Nid o hyfrydwch yr ydym yn adrodd y pethau hyn; eithr cywirdeb ac eglurdeb hanesyddiaeth sydd yn ein rhwymo i wneuthur felly. Yr oedd Athanasius yn euog o fod yn ei farn felly er yn dra boreu; canys yn ei lythyr at Marcelinus, yn amser Cystenyn Fawr, efe a ddywed, na ddylai y salmau a'r caniadau duwiol gael eu newid yn y mesur lleiaf o'r modd yr oeddynt wedi eu cyfansoddi gan eu hysgrifenwyr cyntefig; "fel," medd ef, "y gallo y dynion sanctaidd hyny a'u cyfansoddasant gyntaf wybod mai eu geiriau hwy ydynt, ac y gweddiont gyda ni; neu, fel y byddo i'r Ysbryd Glan, yr hwn a lefarodd yn y dynion sanctaidd hyny, wrth weled y geiriau â pha rai y cynnysgaethodd efe hwynt, uno gyda hwy i'n cynnorthwyo ni."† Basilius o Cappadocia, yr hwn a wnaed yn esgob yn y flwydddyn 369, ac a fu farw yn y flwyddyn 378, yn ei araeth ar Mamas Ferthyr, a ddywed,—"Meddylied pob un o honoch am y merthyr, yn enwedig cynnifer o honoch ag a gynnorthwywyd ganddo ef yn eich gweddiau; a chynnifer o honoch ag a'i hannerchodd ef yn eich erfyniadau, ac y cawsoch ef yn bresennol yn eich cynnorthwyo yn eich gorchwylion; a chynnifer ag a ddychwelwyd ganddo

* Sir Isaac Newton on the Prophecies, p. 2011. † Ibid, p. 117.

ef o'u crwydriadau; a chynnifer ag a adferodd efe i'w hiechyd; a chynnifer o honoch ag yr adferwyd eu plant o farwolaeth i fywyd trwyddo ef; a chynnifer o honoch ag yr estynwyd eu heinioes ganddo ef." Mewn *homili* arall, efe a weddia, "ar fod i Dduw gynnal ei eglwys, yr hon oedd fel hyn wedi ei hamgylchynu a'i diogelu gan y cestyll mawrion o ferthyron." Yn ei araeth ar y deugain merthyr o Antiochia, wedi iddo eu golygu fel amddiffynfëydd o'r cadarnaf i'r eglwysi yn mhob lle, efe a ddywed wrth ei wrandawyr,—"Yr ydych wedi mynych ymdrechu, yr ydych wedi mynych lafurio i gael un i weddio drosoch, dyma i chwi ddeugain, sydd yn lleisio yn un mewn gweddiau drosoch. Yr hwn sydd gystuddiol, ffoed at y rhai hyn," &c. Yna terfyna, gan ddywedyd, "O chwi geidwaid cyffredinol dynolryw, cyfeillion gorau ein gofal, ein hesgobion, rhaglawiaid, a chyfnerthwyr ein gweddiau, a'n cennadau galluog gyda Duw."*

Gregory Nazianzenus a eilw y merthyron yn gyfryngolwyr, er cyrhaedd dyrchafiad. Yn ei araeth ar farwolaeth Athanasius, efe a'i hannerch, gan ddywedyd,—"Gwna di edrych i lawr arnom ni yn gymmodlawn, a llywodraetha y bobl hyn fel addolwyr perffaith y Drindod berffaith, yn mha un y mae y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan, yn cael eu golygu a'u haddoli. Os bydd heddwch, cynnal fi, a phortha fy mhraidd gyda mi; os bydd rhyfel, cymmer fi adref attat ti, a gosod fi yn dy ymyl, a chyda y rhai hyny sydd debyg i ti, er maint fy neisyfiad."† Gregory Nissen, yn ei araeth ar ol marwolaeth un Ephraem, a eilw arno fel hyn:—"O Ephraem! cynnorthwya yn awr wrth yr allor ddwyfol, ac abertha drosom i Dywysog y bywyd a'r Drindod sancteiddiaf, gyda'r angylion: cofia am danom oll, gan ddwyn i ni faddeuant o'n pechodau, fel y gallom fwynhau dedwyddwch teyrnas nefoedd." Yn ei araeth arall ar un Theodosius Ferthyr, a ysgrifenwyd yn y flwyddyn 381, priodola bob peth i'r merthyr a briodolir i Dduw, ac a ofyn ganddo yr oll a ofynir gan Dduw; a deisyfa ar fod i weddiau y merthyron gyda'r apostolion gael eu derbyn fel iawn dros bechodau yr eglwysi. Yr un awdwr, mewn cymmanfa yn Nghaer-Cystenyn, pan yn traddodi pregeth angladd i Miletus o Antiochia, ger bron lluaws o esgobion, a ddywed, gyda golwg ar Miletus,—"Y priodfab nid yw wedi ei gymmeryd ymaith, ond y mae yn aros yn ein canol, er nas gwelwn ef; y mae yn offeiriad yn y lle mwyaf mewnol, wyneb yn wyneb, yn eiriol ger bron Duw drosom ni, a thros bechodau y bobl." Nid rhyw flodau araethyddol oedd y pethau hyn yn Gregory, eithr ei farn syml ar y pethau oeddynt; a'i fod wedi gosod allan ei farn felly ger bron cymmanfa, gellir casglu mai dyna oedd golwg yr eglwysi a'r esgobion yn gyffredin yn y parthau hyny,—sef, fod y saint yn y nefoedd yn cyflwyno eu gweddiau drostynt hwy.‡

Gallesid ychwanegu llawer o waith mynachod ac esgobion yn yr Aipht, Cappadocia, Phœnicia, Syria, ac hefyd yn ynysoedd Groeg ac Europe. Theodosius yr amherawdwr, cyn iddo fyned allan i ryfel yn erbyn Eugenius, a elai allan gyda'r bobl i weddio, ac a welwyd yn gorwedd ar y ddaear mewn gwisg o rawn, o flaen gweddillion ac arwyddion merthyron ac apostolion, yn deisyf am gymmorth trwy eu heiriolaeth hwy; fel y dywed Chrysostom, "fod yr hwn a wisgai ei goron yn syrthio o flaen, ac yn cyflwyno ei weddiau at, wneuthurwr pebyll a physgodwyr Môr Galilea, fel ei amddiffynwyr." Chrysostom, mewn lle arall, a ddywed am y merthyron,—"Bydded,

* Sir Isaac Newton on the Prophecies, p. 119. † Ibid, p. 220. ‡ Ibid, p. 224.

gan hyny, i ni, gyda brydaniaeth, syrthio i lawr ger bron eu gweddillion, a chofleidio eirch y merthyron; o blegid y mae yn eirch y merthyron fawr rinwedd, megys ag y mae yn eu hesgyrn ddirfawr allu. Gan hyny ymarferer â hwy, nid yn unig ar ddydd gwyl, ond hefyd bob dydd, er ymbil a thaer ddeisyf arnynt i fod yn amddiffynwyr i ni; o herwydd nid yn unig perthynai iddynt ddirfawr allu ac effeithioldeb tra yr oeddynt byw, ond mwy o lawer y perthyn iddynt yn awr wedi eu meirw."*

Gorlifodd y cyfeiliornad dinystriol hwn dros holl wledydd Europe yn fuan; mor gyflymed ag y deuai monachod a monachdai mewn unrhyw wlad, yno byddai yntau, fel y gwelwn yn Milan, yr Ital, a Tours yn Ffraingc, cyn diwedd y canrif hwn; fel yr oedd trefn yr eglwysi, y gwasanaeth a gyflawnid ynddynt, a chrefydd yn gyffredinol, yn ymddangos yn hollol wahanol i'r hyn oeddynt yn y canrif cyntaf a'r ail. Beth pe buasai i rai o'r hen ferthyron gynt, megys Clemens, Justyn, Polycarpus, &c. gael adgyfodi yn ddisymmwth i gynnorthwyo yn y cyflawniad o'r gwasanaeth a alwent yn grefyddol, ar un o'u gwyliau, ni buasent, meddylir, yn medru gwybod fod yr hyn a gyflawnid y pryd hwnw yn perthyn dim i'r hyn a fuont hwy gydag ef yn y dyddiau gynt. Oni buasai iddynt edrych gyda syndod a ffieidd-dra ar yr olygfa lygredig ag oedd yn awr i'w chanfod wedi ymlusgo i mewn i gynnulleidfaoedd y Cristionogion, yn lle y gwasanaeth pur, syml, ac ysbrydol a gyflawnid yno yn y dyddiau cyntefig? Y pryd hwn, mor fuan ag yr agorid drws yr addoldai, wele, y dyfodwyr i mewn a gyfarfyddent â cholofnau mŵg yr arogldarthiad, a llenwid eu ffroenau âg arogliad y pêr-lysiau a fyddai o fewn; ac wrth edrych yn mlaen, canfyddent y lampau a'r canhwyllau cŵyr, yn rhoddi eu llewyrchiad coegaidd a dianghenrhaid, etto crefyddol, yn marn yr addolwyr, ganol dydd goleu. Yr oedd yn awr allorau wedi eu codi, yn aml ar y maesydd, ar feddau y saint, ac yn mhob lle addoliad—yr hyn ni wyddai y Cristionogion yn yr oesoedd cyntaf ddim am dano. Ac ar y gwyliau hyn, byddai lluaws aneirif o bobl cyssefin, a dyeithriaid a ddeuai yno, ar y nos-wyliau, ar eu pererindod, yn syrthio i lawr ar eu hwynebau o amgylch yr allorau hyn, yn hollol feddwon gan benboethder crefyddol, a chan felus-win, i ormodedd, yn fynych. Yno y cyfeirient eu gweddiau yn y modd taeraf, pob un yn ei iaith ei hun, at dwrr o esgyrn, neu ludw, neu ddafnau o waed rhyw un a ddywedent mai sant oedd, a orchuddid yn daclus gan lèn o liain, neu sidan drudfawr; a chyn yr ymadawent, argraffent eu cusanau sanctaidd ar furiau, neu ar lawr y lle cyssegredig. Teithient ar bererindodau hirfaith; tyrent i feddau y saint; ac i'r dyben o wneuthur rhai o honynt yn enwog, a'u codi i gymmeradwyaeth y cyffredin, fel amddiffynwyr lleoedd addoliad, hwy a haerent eu bod wedi derbyn iachâd o amryw glefydau trwyddynt; ac adferiad o lygaid, traed, neu ryw aelodau eraill, trwy eu heffeithioldeb. Yna crogent ar barwydydd y lle addoliad hwnw y byddai y cyfryw sant yn amddiffynydd iddo, arwydd-luniau o hono, a'r gwyrthiau a wnaeth, yn y modd gogoneddusaf; yr hyn a ddaeth yn fuan yn wrthddrych parch a chydnabyddiaeth crefyddol y cyfryw a ymgynnullent i'r lle. Fel hyn y gwelir hi, er fod y Cristionogion, fel y dangoswyd yn barod, wedi tynu i lawr demlau yr eilunod, a chael buddugoliaeth ar y Paganiaid: etto, trwy y pethau hyn, darfu i Baganiaeth gael cyflawn oruchafiaeth ar Gristionogaeth, a'i hymlid allan yn hollol o'r

* Sir Isaac Newton on the Prophecies, p. 229.

eglwys a elwid yn gyffredinol. Yr un esgobion hyny, a arferasant y diwydrwydd mwyaf i dynu i lawr Baganiaeth, mewn un dull, a fu yn brif offeryn i'w godi i fynu mewn dull arall, gydag ychydig wahaniaeth, mewn lle arall.*

Yn y canrif hwn, heidiodd y mynachod yn aml iawn, ac a hiliasant, ac a ymledasant dros wyneb yr holl amherodraeth Rufeinaidd, yn y dwyrain a'r gorllewin. Fel y mae y coedydd mwyaf, weithiau, yn codi oddi wrth yr hadau lleiaf, felly tarddodd y llygredigaethau mawrion yn yr eglwys oddi wrth achosion bychain, a ellir eu hystyried yn dra diniwaid yn y dechreuad. Llawer o'r Cristionogion, yn wyneb yr erledigaethau llymion a ddyoddefasant oddi wrth yr erlidwyr Paganaidd, er mwyn tawelwch a mwynhad o'u breintiau a'u rhyddid crefyddol, a ffoisant i leoedd anial, ac a ymneillduasant i gilfachau pellenig o'r wlad, rhag eu gorthrymwyr. Yr oedd hyn yn ymddygiad rhesymol, nad ellir beio arno; ond ei resymoldeb oedd yn unig tra y parai yr achos o hono. Eithr wedi i'r erledigaeth fyned heibio, arosodd llawer o'r rhai hyn yn y lleoedd anial yma heb ddychwelyd; ond nid oedd hyny yn codi oddi ar unrhyw adduned neillduol, nac oddi ar unrhyw drefniad yn eu plith, mwy nag iddo ddygwydd oddi ar ymarferiad ag oedd yn peri hoffder o lonyddwch yn y cyfryw sefyllfa. Lluaws gwedi hyn, mewn amser dyfodol, a roddasant eu hunain i fyw yn y sefyllfaoedd hyn, yn y modd mwyaf difrifol, trwy addunedau o ddirwest, tlodi, gweddwdod, a morwyndod, ac i barhau yn y rhinweddau tybiol hyn, hyd ddiwedd eu hoes. Ar y cyntaf, byddent yn y sefyllfa ddeoledig hon, yn wyr a gwragedd, yn feibion ac yn ferched, gyda'u gilydd, yn ddiwahaniaeth, fel y cydunent; ac yr oeddynt bob amser yn dilyn rhyw alwedigaeth, er ennill eu bywioliaeth; a phroffesent fod yn haelionus tu ag at eraill a fyddai mewn eisiau.†

Eithr yn nechreu y canrif hwn, dechreuodd un Antony eu sefydlu hwy mewn trefn, gan osod i fynu reolau a gosodiadau marweiddiedig, perthynol i'r sefyllfa fonachaidd. Yr Antony hwn oedd enedigol o'r Aipht, yr hon sydd agos wedi bod yn ffynnonell i bob sefydliad coel-grefyddol. Pan yn ieuangc, efe a âi, ac a drigai yn mysg y beddau, ac yn adfail hen gastellau, gan adael ei feddiannau a'i berthynasau. Yn nghylch yr amser y daeth Athanasius i fod yn archesgob Alexandria, ymneillduodd Antony daith tridiau i'r anialwch o du y dwyrain i'r afon Nilus. Gwedi iddo gael lle digon pellenig, a chyfleus am gysgod a dwfr, efe a osododd i lawr yno ei babell. Y fath ymddangosiad hunan-ymwadol, nid yn unig o feddiannau, ond hefyd o holl ofalon a chyssuron y bywyd hwn, sydd â chymmaint o ddysgleirdeb iddo, fel y mae yn dallu meddyliau gweiniaid, ac yn effeithiol er dwyn ymdebygolrwydd. Efelychwyd Antony gan luaws aneirif a ymostyngasant i'w addysgiadau, ac a gymmerasant i fynu ei siamplau, fel, pan yr oedd yn marw, yn gant a phump oed, yr oedd ei hiliogaeth fonachaidd, agos trwy bob gwlad, yn aml anghyffredin. Yr heidiau eppiliol hyn, a gynnyddasant gyda chyflymdra anarferol, trwy holl wlad yr Aipht, fel y meddiannwyd creigiau Thebais yn fuan ganddynt, a thywod Lybia a orchuddiasant, ac a amgylchynasant ddinasoedd yr afon Nilus; fel y gellir gweled hyd heddyw, fwy na hanner cant o adfail monachdai yn y wlad honno o du y dehau i Alexandria, a adeiladwyd gan ddysgyblion Antony.‡

* Gibbon's Hist of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 216.

† Jones's Hist, of the Christ. Church, vol. i. p. 344. ‡ Ibid, p. 347.

Yr un sêl a ennynwyd mewn eraill, trwy y gwahanol wledydd. Gwr ieuangc o Syria, o'r enw Hilarion, a ymsefydlodd ar draeth tywodlyd, digon erchyll, yn agos i'r môr, o fewn saith milldir i Gaza. Oddi yno ymledasant trwy wlad Palestina. Dygwyd yr arferiad goel-grefyddol i'r gorllewin gan Athanasius, yr hwn oedd yn bleidiol iawn i hyny; a dechreuwyd hi yn yr Ital. Eithr Martyn, yr hwn oedd wedi bod yn filwr, ond yn esgob y pryd hwnw yn Tours, yn Ffraingc, a wnaeth y cynnydd mwyaf yn hyny. Gwedi iddo adeiladu monachdy helaeth iawn yn ei esgobaeth, llwyddodd mor fawr, fel yr oedd mwy na dwy fil o'r frawdoliaeth sanctaidd yn ei gladdedigaeth; lluaws o'r rhai hyn oedd blant i foneddigion: eithr cymmaint oedd eu sêl dros y drefn goel-grefyddol hon, fel yr ymostyngasant i'r ddysgyblaeth fwyaf gerwin, ac i dlodi a phrinder mawr mewn bwydydd a dillad. Ni ellir, mewn gair, gyffelybu helaethiad a llwyddiant y cyfundraith monachaidd, i ddim yn well nag i'r hyn oedd Cristionogaeth ei hun wedi bod er ei dechreuad. Athrawiaeth y Platoniaid diweddar, ag oedd wedi cael ei chofleidio agos trwy yr holl eglwysi, fel y sylwyd yn barod, a phleidgarwch yr holl esgobion a gyfrifid yn enwog yn yr oes honno, i fywyd monachaidd, a fu yn fawr er hwylusu ei gynnydd trwy y gwledydd.*

Ni chyfyngwyd y bywyd hwn i'r rhyw wrrywaidd yn unig, eithr lluaws mawr o ferched hefyd a ymroddasant i gyflwr morwynig, a sefyllfa alltudiedig oddi wrth y byd, ac i fywyd crefyddol a myfyriol. Llawer o wyryfdai a adeiladwyd yn y naill le a'r llall, fel y cyfeirir attynt mewn amryw gymmanfaoedd yn flaenorol i'r flwyddyn 397. Eithr mewn cynghorfa a gynnaliwyd yn Carthage, yn y flwyddyn honno, yr ym yn gweled fod y merched, pan yn blant, i gael eu sefydlu mewn gwyryfdai, a bod pob un o'r tai hyn o dan olygiaeth esgob yr esgobaeth y perthynent iddi, a phob un o'u blaenoriaid oedd i'w gosod yn eu swyddau trwy ei gymmeradwyaeth; a bod gweddwon, a merched o chwe mlwydd oed, i'w derbyn i'r tai hyn, wedi un blwyddyn o brawf o honynt. Gwedi y derbynid hwy yn aelodau yn y cyfryw dai, yr oeddynt i gael eu cau i fynu yn hollol oddi wrth bob cymdeithas â neb oddi allan; ac ni oddefid i neb fyned i mewn attynt, na dyfod i'r un lle o addoliad â hwy, ond y gweinidog a weinyddai iddynt mewn pethau sanctaidd, yr hwn y byddai rhaid iddo roddi prawf eglur o'i ddiweirdeb cyn y cai y fath fraint. Nid oedd yn oddefol iddynt fod yn berchen dim cyfoeth yn bersonol, priodol iddynt eu hunain, ond fod pob peth yn eu plith yn gyffredin. Eu dillad oll oeddynt i fod yr un modd, o ddefnyddiau gwlan, yn wynion eu lliw, heb un addurn na phleth yn perthyn iddynt; a gwisg eu penau oedd o'r un defnyddiau, ac oll o'r un maintioli mewn uchder. Y ddysgyblaeth oedd yn erwin, os troseddent y rheolau; ceryddid hwy trwy ddeoliad o freintiau y tŷ dros amser; ac os na lwyddid i adferu ufudd-dod trwy hyny, arferid fflangellau.†

Y deolion annedwydd hyn, ag oedd yn alltudiedig oddi wrth fywyd cymdeithasol â dynolryw, oeddynt, gan dywyllwch coel-grefyddol, wedi cwbl gredu fod i bwy bynag a ddeuai i mewn trwy byrth y monachdai, yn sicr o fod ar y llwybr cul, yn teithio i fynu trwy y drain a'r dyryswch i wynfyd tragywyddol; am hyny, dyoddefent y triniaethau calettaf yn foddlawn. Llenwid y monachod â sêl, diwydrwydd, ac ymdrechiadau anarferol, i chwanegu eu trefniad, a lluosogi eu cymdeithion, fel yr amgylchynent dir

* Jones's Hist. of the Christ. Church, p. 347. † Henry's Eccl. Hist. tom. xii.

a môr, er dwyn yn mlaen eu hachos. Ymlusgent i mewn i dai y boneddigion mwyaf, ac ennillent broselytiaid, trwy eu cyfrwysdra gwenieithus a'u hymddangosiad golygus, o blith y dynion cyfoethoccaf, pa rai a gyfoethogasant ac a anrhydeddasant y trefniad monachaidd yn fawr.*

Y monachod oeddynt ymranedig i wahanol drefniadau, adnabyddus o dan wahanol enwau; megys Cœnobiaid, Eremitiaid, Anachortiaid, a Sarabaitiaid. Y rhai blaenaf oeddynt yn byw yn deuluoedd mawrion, gyda'u gilydd, dan lywyddiaeth un penaeth, yr hwn a elwid ABAD, yr hyn a arwydda Tad, yn iaith yr Aiphtiaid.† Y Cœnobitiaid a ystyrid y trefniad mwyaf gweddus o honynt, o blith pa rai y cymmerent y rhan fwyaf o'r esgobion a lywodraethent yr eglwysi am y pedwerydd a'r pummed canrif, er nad oeddynt heb lawer iawn o benboethder coel-grefyddol a llygredigaethau yn eu plith, fel y ceir sylwi etto. Yr Eremitiaid a drigent ar wahân, yn yr anialwch, mewn ogofëydd, tyllau creigiau, a bythod, i'w cadw yn unig rhag y tymhestloedd a'r bwystfilod gwylltion, yn ddeoledig oddi wrth eu gilydd, ac oddi wrth bawb eraill o ddynolryw. Yr Anachortiaid a dreulient eu bywydau yn y dull gwaelaf, mwyaf poenus, a marweiddiedig, gan fyw mewn anialwch pellenig, ac o'r mwyaf diffaith, heb un annedd na bwthyn i'w cuddio; arosent mewn coedwigoedd a chenbrenau; ac, yn fwyaf cyffredin, yn noethion, yn ngwres yr haul, ac yn wyneb oerder yr hin; yn ymborthi ar ffrwythau coed, a llysiau y maesydd, yn debyg i fwystfilod. Y Sarabaitiaid hefyd oeddynt yn heidiau crwydredig o'r naill wlad i'r llall, yn ddynion llawn o ymddygiadau twyllodrus a lladronaidd. Hwynt-hwy yn benaf a ddygent yn mlaen y fasnach o weddillion y saint a'r merthyron; ac anhawdd yw dywedyd gyda gweddeidd-dra, a difudd ydyw adrodd, yr holl gastiau drwg a hudol a arferasant er twyllo y byd yn hyn yma. Pan yr oedd amser dyoddef a merthyrdod wedi myned heibio ar aelodau yr hon a elwid yn eglwys gyffredinol, fel nad oedd cyfle mwy trwy yr hyn a ddyoddefent oddi wrth eraill, i ddangos eu gwroldeb a'u diysgogrwydd, yna hwy a drefnasant iddynt eu hunain ferthyrdod ewyllysgar: canys llawer o'r monachod anmhwyllog hyn a osodasant eu hunain dan yr un poenydiau a dyoddefiadau ag a ddyfeisiasai ac a arferai y Paganiaid gynt tu ag at y Cristionogion.

Gregory Nazianzenus, yn un o'i ysgrifau, a ddywed, er moledd i'r bywyd monachaidd,—"Mae rhai o honynt yn llwytho eu hunain â chadwyni haiarn trymion, er mwyn gwanhau a thynnu i lawr eu cyrph; a chauant eu hunain i fynu mewn celloedd culion; ac ni ymddangosant i neb; pa rai a fyddant ugain diwrnod ac ugain nos heb brofi tammaid o fwyd, gan gyrhaedd yn aml hyd hanner yr amser yr ymprydiodd ein Harglwydd. Eraill, heb siarad gair, na moliannu Duw â'u geneuau, ond mewn meddyliau yn unig, a ymgadwant yn hollol fud; ac eraill a dreuliant flynyddau lawer mewn eglwysi, â'u dwylaw i fynu yn sythion, yn groes i'w gilydd, heb gysgu amrentyn, nes byddant yn gwbl megys delwau byw." A chaniattau fod yn ddichonadwy i'r pethau hyn fod, ni allwn lai na synnu pa mor gyfeiliornus yr oedd dynion wedi myned am y gwirionedd, ac mor ŵyredig oedd eu barn am Dduw a'i gyfiawnder, pan y meddylient ei fod yn ymhyfrydu yn y fath weithredoedd â'r rhai hyn.‡ Pa mor wael yr oedd yn

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 420.

† Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 380. ‡ Ibid, p. 381.

rhaid iddynt feddwl am y Creawdwr anfeidrol ddoeth, yn ei waith yn rhoddi i'w greaduriaid ddwylaw i'w cadw yn y sefyllfa honno yn hollol ddifudd iddynt hwy eu hunain, ac eraill! rhoddodd Efe iddynt allu ymddiddanol, ond nid i fod yn ddiddefnydd, eithr i drosglwyddo gwybodaeth i eraill.

Y pethau hyn, a'r cyffelyb, ynddynt, oedd yn wrthddrychau canmoliaeth mawr gan Gregory, ac amryw o'r dynion a gyfrifid enwoccaf yn yr oes honno, pa rai y bernir yn drosedd anfaddeuol i ammau eu doniau a'u rhinweddau. Eithr gyda llawer mwy o resymoldeb y dywed Dr. Johnson,—"Myned i fynachlog rhag ofn anfoesoldeb, sydd yr un peth â thorri ymaith ddwylaw rhag ofn lladratta." Dyoddef yn amyneddgar a gwrol dros y gwirionedd, pan ein gelwir i hyny, ar lwybr ein dyledswydd, sydd rinweddol a gŵraidd; ond myned trwy boenydiau a dyoddefiadau hunan-weinyddiadol y meudwyaid truenus hyn, nid oedd brawf o ddim, ond ynfydrwydd a gwallgofrwydd y dyoddefwyr. Canys y cyfryw ymddygiadau oeddynt yn ddios yn tueddu yn fawr i arwain i gam-olwg ar briodoliaethau Duw, ac i waradwyddo ei holl drefn rasol, gan ei osod allan yn fwy fel gwrthddrych dychryn na chariad, ac fel gormeswr creulawn yn fwy na Thad y bydyssawd. Ac nid oes le i ammau na bu y drefn fonachaidd, o'i dechrau i'w diwedd, yn un o'r ffynnonau mwyaf gwenwynig, o ba le y ffrydiodd allan y dyfroedd mwyaf dinystriol a fu erioed yn y byd i iechyd a harddwch gwir Gristionogaeth.*

Dywedwyd yn barod, fod y Cristionogion wedi dechreu meddwl, er y canrif o'r blaen, *fod dywedyd celwydd, os byddai i hyny helaethu yr eglwys ac achos y gwirionedd, fel y meddylient hwy, yn beth rhinweddol.* Cynnyddodd y farn honno yn gyffredinol yn yr eglwys yn y canrif hwn, ac effeithiodd yn dra dinystriol ar ei holl ymddygiadau crefyddol, fel y llanwyd hi â phob castiau twyllodrus ac â ffug-wyrthiau, yr hyn a eilw yr apostol yn guddiedig bethau cywilydd, i'r dyben i geisio dwyn yn mlaen ei llwyddiant. Nid yn unig yr oedd yr arferiad ffiaidd hon yn oddefol, eithr amddiffynid hi hyd yn nod gan lawer o'r dynion mwyaf enwog yn yr oes honno, fel un wasanaethgar ac angenrheidiol er llwyddiant i'r achos crefyddol a bleidient. Buasai yn ddywenydd o'r mwyaf genym, pe gallasem ryddhau dynion o'r fath ddoniau helaeth ag oedd Ambrose, Basil, Hilary, Augustine, Gregory, a Jerome—dynion pa rai a safant mor uchel yn nghymmeradwyaeth llawer—oddi wrth y cyhuddiad hwn; eithr eu geiriau a'u gweithredoedd a dystiant yn rhy eglur yn eu herbyn; a geirwiredd hanesyddiaeth a'n rhwyma i'w gadael dan yr achwyniad.†

Cyfeiliornad arall, dinystriol iawn i grefydd, a gododd i fynu yn yr eglwys, a gymmeradwywyd ganddi, ac a sefydlwyd yn mhlith ei chanonau, oedd, *fod i'r hwn a ymlynai yn yr hyn a dybient fod yn gyfeiliornad, wedi ei rhybuddid o'i herwydd, gael ei gospi gan y llywydd gwladol, yn ol cyfreithiau dynol, mewn poenydiau corphorol.* Sefydlwyd yr erthygl niweidiol hon yn yr ail gymmanfa gyffredinol a gynnaliwyd yn Caer-Cystenyn. Nid rhaid i ni sylwi yma ar ei chanlyniadau niweidiol; canys tystia hanesyddiaeth, fel yr elom yn mlaen, am anghyssondeb y gyfraith hon â nattur ac â dyben y weinidogaeth efengylaidd, yn nghyd â'r effeithiau annymunol a fu, yn mhob oes, yn gyssylltiedig â'r gweinyddiad o honi. Trwyddi hi y dygwyd yn mlaen yr erledigaethau yn yr eglwys a elwid yn

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. ii. p. 351. † Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 382.

gyffredinol, gan wrthdystio yn erbyn ei llygredigaeth mewn athrawiaeth ac ymarferiadau eglwysig. Ni bu pleidwyr yr enwad hwn un amser yn lluosog, eithr parhausant i fod ar wahân, ac i ddwyn enw ei sylfaenydd hyd ddiwedd y canrif nesaf o leiaf.

Tua'r un amser, cododd i fynu un arall, o'r enw Ærius, henuriad o eglwys Sabastia, yn Pontus, yr hwn a fu yn sylfaenydd i blaid luosog o Gristionogion, a feddylient ac a weithredent yn wahanol i'r eglwys gyffredinol. Lledanodd yr enwad hwn yn fuan trwy Armenia, Pontus, Cappadocia, &c. Epiphanus, esgob o Cyprus—i'r hwn yr ydym yn ddyledwyr am hanes yr ymneillduwr boreuol hwn—nid yw yn rhoddi i'w erbyn ddim o ran yr athrawiaeth ysgrythyrol, namyn y pedwar peth canlynol, yn nghylch y drefn eglwysig, yr hyn a gyfrifir yn gyfeiliornus yn Ærius a'i ganlynwyr. Yn 1. Barnai Ærius mai yr un peth oedd esgobion a henuriaid—nad gwahanol swyddwyr oeddynt, yn ol awdurdod a threfn Duw yn y Testament Newydd, eithr eu bod yn un yn hollol mewn swydd, gwaith, ac awdurdod yn yr eglwysi. Yn 2. Ei fod yn beth pechadurus i offrymu ein gweddiau at Dduw dros, nac at, ddynion meirw, yr hyn oedd mewn arferiad y dyddiau hyny. Yn 3. Nad oes genym un awdurdod o air Duw dros gadw y Pasc, fel gwyl grefyddol, dan y Testament Newydd. Ac, yn 4. Nad oedd ymprydiau i'w cadw ar ryw amser blynyddol, megys y Grawys cyn y Pasc, &c. Dyma y prif bethau a roddir yn ei erbyn ef, fel cyfeiliornwr. Ei ysgrifau mewn amddiffyniad i'w olygiadau, a gawsant dderbyniad rhwydd a helaeth mewn amryw wledydd. "Canys gwyddom yn sicr," medd Dr. Mosheim, "eu bod, yn ddiamheuol, yn dra chroesawgar gan lawer o Gristionogion, y rhai yr oedd yn analluadwy iddynt ymgynnal yn hwy dan lywodraeth ormesol, ac ymddygiadau uchelgais a hunanol esgobion yr eglwys gatholic."

Sylwadau yr hanesydd clodwiw uchod, a chyfieithydd medrus ei hanesyddiaeth, sydd mor hynod ac annisgwyliadwy genym, fel nad allwn fyned heibio iddynt yn ddisylw. Yr hanesydd dysgedig a goffawyd yn barod, a ddywed ei bod yn ymddangos yn eglur, mai amcan Ærius oedd, adferu Cristionogaeth i'w symledd cyntefig; a chwanega fod hyn yn wrthddrych *canmoladwy* ac *enwog iawn*, a'i ystyried ef ynddo ei hun; ond fod yr egwyddorion o ba rai y deillia, a'r moddion trwy ba rai y gweithredir, *yn rhy gyffredin, mewn llawer ystyr*, yn haeddu eu beio yn fawr—a *dichon* ei bod felly yn achos y diwygiwr yma. Eglurhad Dr. Maclaine, ei gyfieithydd dysgedig, ar y sylwad uchod, sydd yn myned yn mhellach ac yn fwy hynod. "Dymuniad," medd ef, "i adennill addoliad crefyddol i'r symledd mwyaf ag y byddo yn ddichonadwy, pa mor rheidiol a rhesymol bynag yr ymddengys, a gymmedrolir yn fawr i bob un a sylwa yn ddifrifol am funud ar lygredigaeth a gwendid y nattur ddynol yn ei sefyllfa bresennol. Nid oes gan ddynolryw feddyliau digon dyrchafedig, i gael eu heffeithio gan y ffurfiau a'r trefniadau addoliad hyny, na byddo ynddynt ddim yn darawiadol i'r synwyrau allanol. Yr anhawsdra a orphwys i sefydlu yn benderfyniadol hyd ba le y mae yn ddoeth i fyned, er cyfaddasu ymarferiadau crefyddol at wendidau dynolion. Yr hyn y dylem amcanu atto ydyw, gosod terfyn priodol yn mha un y dangosir gofal digonol am deimladau ac amgyffrediadau dynolryw, ac etto heb droseddu yn erbyn iawn reswm, neu ddilewyrchu gwir grefydd o ran ei phurdeb." Yna â yr awdwr dysgedig yn mlaen, i ddangos fod eglwys Rhufain wedi troseddu yn yr ochr ddiweddaf, yn ei farn ef.

Oddi wrth y pethau hyn, gwel y darllenydd mai yn mha ddull bynag yr ymdrecha cyfeillion y gwirionedd attal gorlifiad llygredigaeth, ac i adferu ymarferiadau Cristionogol i'w symledd cyntefig, y bydd y cynnygiad yn sicr o gael ei feio a'i ddedfrydu gan yr haneswyr hyglod uchod. Yn ei hanesyddiaeth, ni ddyrchefir un peth yn fynychach gan Mosheim, na symledd yr addoliad efengylaidd ag oedd mewn ymarferiad gan y Cristionogion yn oes yr apostolion: ac yn y tudalenau hyn, ymdrecha daflu allan ddrwg-dybiaeth yn erbyn y diwygiwr hwn, heb un prawf; a beia ar ei ymdrechiadau i adferu Cristionogaeth oddi tan y llwyth llygredig a daflesid arni, trwy ynfydrwydd, balchder calon, a drygioni dynion. Heb fyned i sylwi dim ar anghyssondeb yr awdwr yn hyn yma, gellir gofyn,—Pa fodd yr oedd hyn yn gysson âg onestrwydd Mosheim, sef gosod allan fod amcan Ærius yn *ganmoladwy* ac *enwog*, pan yr arweiniai efe feddwl y darllenydd i ddrwg-dybio ei fod yn gweithredu dan lywodraeth yr egwyddorion gwaethaf, a thrwy y moddion mwyaf niweidiol, heb gymmaint a chynnyg profi un o honynt, mwy na dywedyd, *hwyrach mai felly yr oedd?* Onid oes genym le i ammau ffyddlondeb a chywirdeb proffes yr hanesydd, o'i ymlyniad wrth ffurf addoliad syml yr efengyl, pan y mae yn ceisio chwilio allan feiau yn y diwygiwr hwn, er iselhau ei gymmeriad? A allesid ddim yn rhesymol ddisgwyl oddi wrth gyfaill, mewn gorchwyl mor ganmoladwy, er gweled gronyn o annoethineb mewn ymarferiad o foddion, yn wyneb y fath wrthwynebiad, lai nag iddo daflu mantell cariad drosto, yn lle arwain ei ddarllenwyr i'r fath ddrwg-dybiaeth? Onid oedd hyn yn anghysson iawn â deddf cariad, yr hon ni feddwl ddrwg, ond a obeithia mewn pob dim? Ac os oedd hanesydd fel Mosheim, a broffesai bethau gwell na llawer, yn ymddwyn fel hyn tu ag at un a ymdrechai ddwyn i mewn ddiwygiad, pa beth yn llai a ddisgwylir oddi wrth elynion i bob diwygiad, nag iddynt osod Ærius, ac eraill a lafurient yn yr un gorchwyl, yn mhlith hereticiaid, yn wrthodedigion, yn derfysgwyr byd, ac yn rhwygwyr eglwysi, megys y gwneir yn fynych â'r goreu o ddynion.*

Eithr ei gyfieithydd medrus a gymmer y peth i fynu mewn dull arall; ac, yn ol ei egwyddorion ef, yr ydym i ystyried fod yr addoliad syml a sefydlwyd yn yr eglwysi gan yr apostolion, yn anghyfaddas i ofynion y nattur ddynol:† canys y mae yn eglur i bawb, fod cyfansoddiad a ffurfiad yr eglwysi cyntefig, yn hynod syml. Ond gwelir yma un am ddangos i ni, nid yn unig ei bod yn gyfreithlon, eithr yn angenrheidiol, i newid y drefn syml honno, a chyfaddasu ein cyflawniadau a'n hymarferiadau crefyddol at wendid a llygredigaeth dynolryw. Syned y nefoedd, i glywed y gwrthdystiwr yn dywedyd y cyfryw beth! Onid yw hyn, ar unwaith, yn dwyn cyhuddiad dwys yn erbyn sefydlwyr y drefn apostolaidd, ac addoliad efengylaidd, fel rhai na wyddent am amgylchiadau dynolryw, neu na fedrent ddarparu ar eu cyfer? Pwy sydd i benderfynu yn bresennol pa mor bell yr ydym i fyned âg addoliad Duw, mewn cyfaddasrwydd i lygredigaeth a gwendid dynolryw, a pha mor bell yr ydym i beidio? Ac oni wnai hyn addoliad Duw yn wahanol iawn, mewn gwahanol fanau, ac yn gyfnewidiol yn mhob lle yn barhaus? canys yr hyn a fyddai yn gyfaddas mewn gwlad, neu i rai personau, neu mewn un oes, a fyddai anghyfaddas i eraill, mewn oes arall. A phwy yn ol yr egwyddorion hyn, gydag un lliw o uniondeb,

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. i. p. 387. † Ibid, p. 388.

a ddichon felo ar eglwys Rhufain am y cymmysgedd a'r sothach dynol a gyflawnir ganddi yn ei haddoliad? O blegid os nad oes un rheol ddwyfol i lywodraethu addoliad crefyddol, ond ei fod wedi ei adael i ddychymmygion dynion i'w ddwyn yn mlaen yn ol y cyfaddasrwydd a welir ynddynt, mewn cyfattebolrwydd i dueddiadau dynolryw, pwy a ddichon feio arni am drefnu fel y mae yn barnu er lles hwn a'r llall?*

Meddylir fod Dr. Maclaine, a Chilingworth, yn eu golygiadau yn groes i'w gilydd am hyn. "O'm rhan fy hun," medd Chilingworth, "wedi hir a diduedd ymchwiliad am ffordd gwir ddedwyddwch, yr wyf yn rhyddystio, nad wyf yn gallu gweled cymmaint â lle i roddi fy nhroed i lawr mewn un man safadwy, ond ar yr ysgrythyrau yn unig. Gwelaf yn eglur, â'm llygaid fy hun, fod pabau yn erbyn pabau; y tadau yn erbyn eu gilydd, ac yn erbyn eu hunain yn aml; a chymmanfaoedd yn erbyn eu gilydd; ac eglwysi un oes yn erbyn eglwysi oes arall. Llawer a ddywedwyd dros fod eglurhad traddodiadol ac ymarferiadol o'r ysgrythyrau i'w gael; er chwilio yn fanwl, ni welais i mo hono erioed. Ni ellir dangos fod un traddodiad ond yr ysgrythyrau yn ddeilliedig o'r wir ffynnon; eithr am bob un arall, gellir profi yr oes y codasant ynddi, ar ol amser Crist a'i apostolion; neu ddangos yr oes pryd nad oeddynt. Nid oes, mewn gair, y mesur lleiaf o sicrwydd mewn un peth, amgen yr ysgrythyrau yn unig, lle y geill enaid adeiladu ei hyder. Y rhai hyn yn unig y mae genyf reswm dros eu credu; a'r rhai hyn a broffesaf. Yn ol y rhai hyn y byddaf byw; a thros y rhai hyn y byddaf marw, os bydd rhaid; nid yn unig yn ewyllysgar, ond yn llawen; er y byddai yn ddrwg genyf i neb Cristionogion gymmeryd fy mywyd oddi arnaf."†

Dedwydd yw y Cristionogion didwyll hyny, a ymofynant am wneud ewyllys eu Harglwydd, yr hwn ydyw unig ac eglur reol eu dyledswydd, er na chefnogir hi, fel y mae yn fwyaf anffodus, gan nac eglwys gyffredinol na diwygiedig ond anfynych,—yr hon ydyw, *Nad ým i gymmeradwyo dim yn addoliad Duw, ond a fyddo wedi ei orchymyn, neu ei eglurhau, mewn siamplau amlwg yn y Testament Newydd.* Dyma yr egwyddor, mae yn eglur, yr oedd Ærius yn broffesu, ac yn gweithredu arni, er gwrthsefyll cenllif coelgrefyddol yr amseroedd; o herwydd pa ham, teilynga ei enw goffadwriaeth dragywyddol—hon ydyw yr unig egwyddor a amlyga ynom wir barch i ddoethineb ac awdurdod Duw yn sefydliad ei addoliad—hon oedd egwyddor pob gwir ddiwygiad a gwrthsafiad i draddodiadau dynol yn mhob oes—a hon ydyw yr egwyddor a ddiogela yn mhobl Dduw wir ofal am ordinhadau ei deyrnas hyd ddiwedd yr oesoedd.‡

Amryw eraill yn y canrif hwn, a ddechreuasant ddwyn eu tystiolaeth yn erbyn llygredigaeth yr eglwysi, gormes yr esgobion, a moesau drwg y rhai a broffesent Gristionogaeth. Monach o'r Ital, o'r enw Jovian, a unodd gydag Aurelius, ac Ephesus, y Lucifferiaid, yn Rhufain; a Gregory o Elvira yn yr Hispaen, yn y gorchwyl canmoladwy hwn. Nid yw yn amlwg pa mor bell y llwyddasant er dwyn yn mlaen ddiwygiad yn yr ardaloedd hyny; eithr hyn sydd eglur, iddynt fod yn foddion i ddwyn arnynt gasineb ac erledigaeth oddi wrth yr eglwys a elwid yn gyffredinol. Canys Jerome y monach a ruthrodd ar Jovian yn chwerw iawn; a phan nad allai ei saethau

* Jones's Hist. of Christ. Church. vol. i. p. 341. † Des Maizeaux's Life of Chillingworth, p. 198.
‡ Jones's Hist. of Christ. Church, vol. i. p. 343.

ymresymiadol lwyddo i'w wanhau a'i ostegu, dygwyd y llywodraeth wladol, yn ei grym, i weithredu yn ei erbyn ef a'i ganlynwyr, fel hereticiaid. Ysgrifau Origen a barasant gynnwrf mawr ac ymraniad y pryd hwn yn yr eglwys. Yr Ariaid a ymarddelwasant ei fod ef o'r un farn â hwy am yr hyn oedd ganddynt mewn dadl. Eithr y monachod, yn y cyffredin, oeddynt yn meddu ar barch mawr i ysgrifau Origen, a llawn cymmaint gwrthwynebiad i'r Ariaid; a chan na fynent er dim fod gwaith eu hawdwr parchus yn cael ei halogi i amddiffyn y fath achos, hwy a ysgrifenasant er amddiffyniad iddo, ac er gwrthsefyll y cyhuddiad. Cododd hyn Theophilus archesgob Alexandria, yr hwn oedd yn llawn o drahausder, yn erbyn y monachod ac ysgrifau Origen, fel y dedfrydodd efe hwy i ddinystr. Pan na wnai y monachod ufuddhau i'w gyhoeddiadau a'i orchymynion, trwy roddi llyfrau Origen i fynu, efe a lidiodd wrth y rhai oedd yn Nitra, ac a anfonodd lu o wyr arfog i'w gwasgaru oddi ar fynydd Nitra. Hwythau, wedi ffoi oddi yno, a deithiasant trwy y gwledydd, ac a ddaethant i Gaer-Cystenyn, i osod eu hachos ger bron yr amherawdwr: y canlyniad o hyny a welir yn y canrif nesaf.

PENNOD XXV.

Lle y traethir am godiad i fynu Ddysgeidiaeth yn mhlith y Cristionogion—am yr Awduron a fu yn yr Eglwys yn y Canrif hwn; megys Eusebius o Cæsarea; Eusebius o Nicomedia; Athanasius o Alexandria; Ambrose o Milan; Basil o Cæsarea; Gregory o Nissen; Gregory o Nazianzen; Epiphanus o Salamis; Ephraim y Syriad; Hilary o Poictiers—Byr-olygiad ar rai eraill a ystyrir yn Gyfeilliornwyr.

GWEDI i'r fath gyfnewidiad gymmeryd lle yn egwyddorion a threfn yr eglwys, a olrheiniwyd genym yn barod yn y tudalenau blaenorol, pan y ffurfiwyd hi mor debyg ag y gallesid i'r ffurf a'r llywodraeth wladol yn mhlith y Rhufeiniaid; a phan y cyd-blethwyd ei hachosion hi âg eiddo y llywodraeth amherodrol; ac y gosodwyd ei gweinidogion i ymddibynu ar lywyddion yr amherodraeth am eu swyddau, eu sefyllfaoedd, a'u cynnaliaeth, yr hyn nid oedd o'r blaen—nid oedd yn beth annisgwyliadwy, mewn canlyniad, i'r rhai a enwid yn weinidogion yr efengyl, ymhyraeth â chymmeriad gwahanol i'r hyn oedd y cyfryw ag oeddynt yn y sefyllfa honno yn ei wneuthur y canrifoedd blaenorol. Gwedi dilëu Paganiaeth, mewn enw, a bwrw allan y rhai a broffesent hyny o bob swydd a sefyllfa o barch, elw, ac ymddiried; ac wedi tynnu i lawr y temlau, ac attal gwasanaeth crefyddol, yn ol y drefn gyntefig, yn mhlith yr enwad hwnw, trwy holl amherodraeth Rhufain, nid oedd mwyach yn eu plith hwy un annogaeth i ddysgeidiaeth, na doniau na chyfleusdra i'w dangos. Eithr fel yr oedd y Cristionogion wedi eu dwyn i lenwi llysoedd yr amherawdwyr, a'u gwneuthur yn brifswyddwyr a chyfeillion iddynt, a chael eu gwisgo â holl swyddau a sefyllfaoedd y Paganiaid gynt, teimlasant yr angenrheidrwydd am ddysgeidiaeth ddynol; ac yr oedd iddynt bob annogaeth a chyfleusdra i hyny; fel y gellir dywedyd i holl ffrydiau dysgeidiaeth a doniau naturiol, ag oedd yn y byd y pryd hwnw, ddylifo i'r eglwys Gristionogol. Felly, o ganlyniad, nid yw yn beth i'w ryfeddu ein bod yn clywed fod dynion mawr yn yr ystyrlaethau hyn, yn yr eglwys yn y canrif hwn, a'r rhai canlynol. Eithr o ran eu duwioldeb, eu symledd, a chywirdeb eu golygiadau, a'u sêl dros burdeb efengylaidd, rhaid dywedyd eu bod yn llawer islaw i'r rhai oeddynt yn blaenori yn yr eglwys Gristionogol, yn y canrifoedd blaenorol.

Yn mhlith y rhai blaenaf, nid o ran amser yn unig, y gosodir EUSEBIUS, Pamphilus, esgob Cæsarea, yn Calestina, yr hwn a lewyrchodd yn nechreuad y canrif hwn. Ganwyd ef mewn rhyw le yn y wlad honno, tua'r flwyddyn 267; ond nid oes sicrwydd yn mha le yr oedd ei rieni, na phwy oeddynt. Yr oedd yn ddyn hynaws; yn Gristion gostyngedig; yn weinidog ffyddlon, doeth, a dysgedig; ac yn ysgrifenydd mwyaf yr oes honno. Daeth i adnabyddiaeth yn foreu iawn o Cystenyn Fawr, os nad efe, fel y

bernir gan amryw, a fu yn athraw i'r tywysog yn ei ieuengctyd; efe a fu yn gyfaill mawr iddo dros ei fywyd; ac ysgrifenodd hanes bywyd yr amherawdwr mewn pedwar o lyfrau mawrion. Efe oedd y cyntaf, wedi dyddiau Luc, a ysgrifenodd hanes yr eglwys Gristionogol. Ei hanes am y tri chanrif cyntaf, a gynnwysir mewn deg o lyfrau; ac ysgrifenwyd ganddo amseryddiaeth, o ddechreuad y byd; yn nghyd âg aneirif bethau heblaw hyny. Bernir ei fod ef yn tueddu yn ddilys yn ei olygiadau at farn yr Ariaid, er nad oedd yn dwyn ei olygiadau i'r un pellafoedd âg eraill, am yr hyn y dadleuent yn ei gylch. Pan yn nghymmanfa Nicea, wedi annerch yr amherawdwr âg araeth hirfaith, a chael y fraint o eistedd ar ei ddeheulaw, efe a arwyddodd ei gydsyniad â'r gyffes a osodwyd ger bron, ond nid heb ddangos gwrthwynebiad i anysgrythyroldeb y gair *yr un sglweddiad â'r Tad* a gymmwysid at Iesu Grist yn y gyffes honno. Yr oedd efe yn nghymmanfa Antiochia, yn y flwyddyn 330, pan dedfrydwyd Eustathius i ddeoliad, yr hwn oedd hynafgwr duwiol a da, gwedi gwasanaethu y swydd esgobaethol yn y ddinas honno am hir amser, gyda pharch a chymmeradwyaeth mawr. Felly, efe a alltudiwyd mewn canlyniad i hyn, i ran o dalaeth Thracia, lle y bu hyd ddydd ei farwolaeth; a hyny o herwydd cenfigen, twyll, a brâd yr Ariaid yn unig. Hefyd yr oedd Eusebius yn bresennol yn nghymmanfa Tyre, yn y flwyddyn 335; yn mha un dygodd yr Ariaid ddedryd o ddiswyddiad ac alltudiaeth yn erbyn Athanasius, gyda llaw uchel. Dyma yr amser y darfu i Potamon, esgob Heraclea, gyhuddo Eusebius, yr hwn a flaenorai yn y gymmanfa, o'i fod wedi dyfod allan o'r carchar yn amser Dioclesian, trwy arogldarthu i'r eilunod. Ni ellir cyfiawnhau ymddygiadau Eusebius mewn un modd, pan yn cyd-weithredu gyda'r Ariaid, tu ag at ei frodyr, fel y gwnaeth, pan yr oeddynt yn ddiau yn ddiniwaid oddi wrth yr hyn y cyhuddid hwy o'i blegid. Eithr y mae hyn i'w ddywedyd o'i blaid, na ddarfu iddo gymmeryd meddiant o esgobaeth Eustathius, er iddo gael ei gymmell yn daer i hyny gan yr amherawdwr. Y mae rhanau o'i waith wedi eu cyfieithu, a'u hargraffu yn yr iaith Saesoneg, yn enwedig ei hanes eglwysig, a wnaed felly amryw o weithiau; eithr y cyfieithad a'r argraffiad goreu, yw yr un a wnaed yn Nghaergrawnt yn y flwyddyn 1720, gan un Mr. William Reading, gyda sylwadau Henry Valesius ar waith Eusebius. Bu farw, yn ol barn Dupin, yn y flwyddyn 338; eithr yn ol barn Valesius, yn y flwyddyn 340, pan yn nghylch tair ar ddeg a thriugain oed.*

EUSEBIUS o Nicomedia oedd yn gydoeswr â'r blaenaf, ac yn gyfaill mawr iddo. Yr oedd efe yn ddyn o ddoniau anghyffredin; yn brif noddwr i Ariaeth, er iddo yn rhagrithiol arwyddo i'r gwrthwyneb yn Nicea; yn un ag oedd yn llawn o feddyliau mawreddog ac uchel-gais, yn treulio llawer o'i amser, gellir meddwl, yn llysoedd yr amherawdwr; ac efe oedd yr hwn a weinyddodd yr ordinhad o fedydd ar Cystenyn, ac a'i derbyniodd yn aelod o'r eglwys Gristionogol yn amser ei drangcedigaeth, gerllaw Nicomedia. Gwedi i Paul, esgob dewisedig gan yr eglwys yn Caer-Cystenyn, gael ei alltudio, trwy gynllwynion yr Ariaid, ac awdurdod ormesol yr amherawdwr Constantinus, o herwydd ei ymlyniad diffuant wrth gyffes Nicea, rhoddwyd ei swydd a'i sefyllfa ef i Eusebius o Nicomedia, yn mha le y bu farw, yn y flwyddyn 342.

* Collier's Dict. and General Biographical Dict.

Yr ydym wedi dywedyd am ATHANASIUS yn yr hanes blaenorol, fel nad rhaid dywedyd llawer yn rhagor, er i'r darllenydd gael golwg ar brif linellau ei fywyd a'i gymmeriad. Dechreuodd eistedd yn y gadair batriarchol yn Alexandria, pan ond wyth ar hugain oed, tua'r flwyddyn 326, yn mhen ychydig fisoedd wedi terfynu y gymmanfa yn Nicea, yn mha un yr hynododd efe ei hun mewn gwrthwynebiad i'r Ariaid, ac fel amddiffynwr i'r Trindodiaid. Daliodd berthynas â'r sefyllfa honno am chwe blynedd a deugain; pan y bu wyth o amherawdwyr yn llywodraethu ar orsedd Rhufain; pedwar o ba rai a'i halltudiasant ef; ac un o honynt a roddodd bris ar ei ben, trwy gyhoeddi trwy yr holl amherodraeth, y cai y neb a'i dygai atto ef yn fyw neu yn farw, wobr mawr am ei lafur: etto, dirgelwyd a chadwyd ef yn fyw y pryd hwnw, fel y bu farw yn dawel yn y meddiant o'i esgobaeth, tua'r flwyddyn 372, yn y 74 flwyddyn o'i oedran.

Nid oes neb a ammau ei fod ef yn ddyn mawr, o gynneddfau cryfion, yn meddu ar wroldeb a diysgogrwydd meddwl, a sêl wresog dros ei olygiadau ar athrawiaeth y Drindod. Credir yn ddios, ei fod ef wedi ei godi gan Rag-luniaeth y nefoedd, yn offeryn defnyddiol i wrthsefyll cyfeiliornadau dinystriol yr Ariaid, a orlifent y pryd hwnw trwy yr eglwysi—er, dichon, na ellir cyfiawnhau yr holl fesurau a arferai efe i hyny. Gan mor fawr ei olygiadau ar fywyd monachaidd, a'i awydd am gael i fynu grefydd yr oes, nid oes yn ei ysgrifau ond ychydig neu ddim ag sydd yn adeiladaeth, oddi eithr yr hyn a ysgrifenodd yn nghylch y ddadl am athrawiaeth y Drindod. Er na bu neb erioed yn fwy ei feddwl am fawredigrwydd cyssegr-lywodraeth, yn ol sefydliad gwladol ac awdurdod esgobaethol, nag Athanasius, etto gobeithir iddo ddysgu gostyngeiddrwydd a hunan-ymwadiad trwy y pethau a ddyoddefodd. Pan yn ffoadur, yn tramwyo unwaith trwy Antiochia, pryd yr oedd pob lle addoliad yn y ddinas, ag oedd yn gyfreithlon yn ol cyfraith y tir, yn meddiant yr Ariaid, yr oedd yno gynnulleidfa o Drindodiaid ymneillduedig, yn cael ei goddef i ymgyfarfod, er addoli, mewn rhyw le anghyfreithlon, gyda'i hesgob, yr hwn a elwid Fflavian, gyda pha un ymunodd yr archesgob, yn lle yr eglwys gadeiriol. Dengys hyn sêl Athanasius, yn gystal â'i ostyngeiddrwydd, a'i fod yn credu nad oedd bendithion y nefoedd wedi eu cyfyngu o fewn muriau unrhyw addoldy. Yn mhlith yr ymneillduwyr hyn y dechreuwyd arfer y fawl-wers honno, a adroddir yn aml yn ngwasanaeth eglwys waddoledig y deyrnas hon, hyd heddyw,—sef, *Gogoniant i'r Tad, i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glan.** Yn ol pwyso golygiadau dysgedigion o bob ochr i'r ddadl, pa un ai Athanasius ydyw awdwr y credo sydd yn dwyn ei enw yn ngwasanaeth eglwys waddoledig y wlad hon, ai nid ê, yr ym yn rhwym o roddi ein barn o du y naccaol—fod hwn wedi ei ysgrifenu gan ryw un llawer diweddarach nag ef, a gosod ei enw ef wrtho, fel y gwnaed â llawer o bethau eraill heblaw hwn, yn yr oes honno.†

AMBROSE a anwyd yn Arles, yn Gaul, o rieni anrhydeddus, mewn sefyllfa uchel yn y wladwriaeth, tua'r flwyddyn 340. Dewiswyd ef i fod yn esgob yn Milan yn niwedd y flwyddyn 374, neu ddechreu y flwyddyn 375, pan na wnaethai efe etto broffes gyhoeddus o Gristionogaeth. Gwedi cymmeryd y swydd arno, ni bu neb yn fwy ffyddlon, diwyd, a gwresog, i ddwyn yn mlaen achos Cristionogaeth, yn ol y golygiadau ag oedd ganddo ef ar

* Milner's Hist. of the Christ. Church, vol. ii. p. 88. † General Biographical Dict.

bethau, nag Ambrose.* Yr oedd yn ddyn o ddoniau uwchlaw neb, bron, yn ei oes; yn areithydd hyawdl a thra melus, fel yr arferid dywedyd fod y gwenyn wedi nythu yn ei enau; yn ymresymwr synwyrlawn, ac yn ysgrifenydd athrylithgar a medrus. Yr oedd yn ddyn hardd a boneddigaidd ei ymddygiadau; yn wrol o ran ei ysbryd; ac yn ysgolhaig rhagorol, gyda golwg ar bethau yn gyffredin: eithr ei olygiadau oeddynt dra chymmysglyd ar athrawiaethau yr efengyl ac ymarferiadau Cristionogol. Dygai fawr sêl dros gyffes Nicea ac athrawiaeth y Drindod. Eithr arweinid ef yn mhell oddi wrth symlrwydd y gwirionedd, gyda golwg ar rinweddau y cyflwr o weddwdod a'r sefyllfa feudwyaidd; a rhoddai goel mawr i weledigaethau a ffug-wyrthiau. Nid hawdd oedd gweled neb â meddwl mwy mawreddog nag ef am awdurdod y swydd esgobaethol, ac unbenaeth llywodraeth eglwysig; fel y mae yn ddiau fod ei holl ymddygiad tu ag at Theodosius, yn un o'r grisiau penaf tu ag at osodiad i fynu unbenaeth eglwys Rhufain. Y gwrthwynebiad a'r blinderau a gyfarfu efe â hwynt yn ei weinidogaeth, a adroddwyd, ryw ychydig o honynt, yn yr hanes blaenorol, fel na cheir ychwanegu. Terfynodd ei yrfa yn Milan, yn y flwyddyn 397, wedi bod o ddeutu dwy flynedd ar hugain yn yr archesgobaeth honno. Ei ysgrifau ydynt amryw; y penaf o honynt, ag sydd ar gael, ydyw ei waith ar ddyledswyddau gweinidogion.†

Basil, yr hwn a elwir Basil Fawr, oedd o Cæsarea, yn Cappadocia, wedi hanu o deulu crefyddol; a rhai o'i hynafiaid a ddyoddefasent lawer yn achos Cristionogaeth yn amser Dioclesian. Ganed ef tua'r flwyddyn 328. Dygwyd ef i fynu yn mhob dysgeidiaeth a allesid gael iddo yn nhŷ ei dad, a gwlad ei enedigaeth; ac, yn ol arfer yr oes honno, anfonwyd ef i Athen, yn y flwyddyn 344. Dyma lle y cyfarfu â Gregory o Nazianzen, pryd y ffurfiwyd y fath undeb a chyfeillach difeth rhyngddynt, ag a barhaodd hyd eu bedd. Yma hefyd y cyfarfuasant â Julian, yr hwn wedi hyny a fynai er dim i Basil ddyfod atto i'w lŷs, wedi ei fyned yn amherawdwr. Gwedi ymadael âg Athen, daeth Basil i Gaer-Cystenyn; lle y bu am ryw gymmaint o amser yn ddysgybl i'r hyglod Libanius, fel nad oedd efe yn ol mewn dim dysgeidiaeth naturiol a allasai yr oes honno roi iddo. Eithr y cyfryw oedd ysbryd yr amseroedd, a'i archwaeth ddeoledig yntau, fel yr ymneilluodd i fynyddoedd Pontus, oddi wrth gymdeithas dynion, er arwain bywyd monachaidd. Llawer a ganlynasant ei siampl, gan adael eu gwlad, eu teuluoedd, a'u perthynasau, a difuddio eu hunain, er myned i'r anialwch ac i'r mynyddoedd i dreulio eu hoes yn y modd afresymolaf. Ymroddodd ef y pryd hwnw i osod i lawr reolau, er dwyn y sefydliad monachaidd i well trefn. Dyma y defnydd mwyaf a wnaeth o'i holl ddysgeidiaeth, fel y gellir ei ystyried ef fel sylfaenydd yr urddiad hwnw a elwir St. Basil—yr hwn unwaith oedd yn enwog trwy yr holl ddwyrain; a sonir am dano yn aml mewn hanesyddiaeth.

Basil yn ddiau oedd un o'r dynion mwyaf yn ei oes, o ran dysgeidiaeth, doniau, a gwybodaeth; ac, fel areithydd, nid oedd neb uwchlaw iddo; nid oedd ychwaith le i ammau ei dduwioldeb. Eithr y cyfryw oedd archwaeth yr amseroedd hyny, ac effaith ddinystriol yr athrawiaeth Eclecticiaidd—i'r hon, yn yr ystyr fanylaf, yr ymroddai efe, ac eraill—fel y daethant i feddwl mai rhinwedd oedd treulio eu hoes yn eu celloedd, yn y modd mwyaf difudd idd-

* Milner's Hist. of the Christ. Church, vol. ii. p. 187. † General Biographical Dict.

ynt eu hunain, ac i bawb eraill hefyd. Eu golygiadau oeddynt mor gyfeiliornus am athrawiaeth yr efengyl a bywyd Cristionogol, fel y meddylient nad oedd y fath beth â byw bywyd duwiol mewn cymdeithas â dynion, a thrin masnachau y bywyd hwn. O herwydd y camgymmeriad hyn, gwelwn fod Basil yn bleidiwr gwresog i fywyd meudwyaidd, ac â'i holl egni yn codi monachdai, ac yn helaethu y grêd fonachaidd. Yr oedd efe hefyd yn gefnogwr mawr i'r fasnach wael a thwyllodrus o effeithioli rhinweddau gweddillion y saint, a chyfryngoliaeth ysbrydoedd y rhai ymadawedig, yn nghyd â'r holl luaws ymarferiadau coel-grefyddol a ymdaenent dros y byd y dyddiau hyny.

Yn y flwyddyn 370, dewiswyd ef i esgobaeth Cæsarea, mewn canlyniad i Eusebius. Gwedi iddo ei chymmeryd, efe a ymroddodd i ddiwygio rhai pethau ag oedd yn fawr allan o le. Eithr fel yr oedd yn fwyaf anffodus, yr oedd y diwygiadau y pryd hwn yn cael eu dwyn yn mlaen yn fwy yn ol rheolau caethion y monachdai, nag eiddo hyfrydlawn yr efengyl; a dangosent fwy o hunan-ewyllys ac ysbryd hunan-gyfiawnder, nag o symledd gwir grefydd. Bu farw yn y flwyddyn 379, wedi bod yn y swydd esgobaethol am o ddeutu wyth mlynedd. Yn ei eiriau diweddaf, gorchymynodd yn dawel ei enaid i ddwylaw ei Greawdwr, gan ddywedyd,—"I'th ddwylaw di y gorchymynaf fy ysbryd." Yr oedd Basil yn amddiffynydd gwresog a diysgog i athrawiaeth y Drindod, yn ol cyffes Nicea; ac o herwydd hyny, dyoddefodd lawer o flinder oddi wrth Valens yr amherawdwr. Gadawodd amryw ysgrifau ar ei ol, pa rai sydd yn llawn hyawdledd, athrylithrwydd, a dwyfoldeb: eithr o herwydd ei gymmysgedd coel-grefyddol, a'r golygiadau hunan-gyfiawn a rêd trwyddynt, nid oes ynddynt ond ychydig adeiladaeth i enaid profiadol.*

Gregory o Nissen oedd frawd naturiol i Basil, ac yn dra thebyg iddo yn mhob peth, yn enwedig yn yr egwyddorion a'r archwaeth a lywodraethai ei feddwl; etto, nid ymroddodd i fywyd monachaidd fel ei frawd; eithr priododd, a bu byw gyda theulu. Er hyn, gwelir coel-grefydd yr oes yn ymddangos, yn dra eglur, ac mewn modd neillduol, yn y bregeth a draddododd ar farwolaeth Miletus, yn nghymmanfa Caer-Cystenyn, yn y flwyddyn 381. Neillduwyd ef i fod yn esgob yn Nissen, yn Cappadocia, yn y flwyddyn 369. Alltudiwyd ef gan Valens o herwydd ei ymlyniad wrth gyffes Nicea: yn yr ail flwyddyn, ac yn mhen o ddeutu saith mlynedd wedi hyny, adferwyd ef gan yr un amherawdwr. Yn y flwyddyn 396, bu farw yn Nissen. Gadawodd amryw ysgrifau ar ei ol, pa rai sydd oll o'r un argraff â'r eiddo Basil.†

Gregory o Nazianzen, cyfaill Basil, oedd fab i esgob o'r un enw, ac o'r un lle, yr hwn a fu byw yno nes oedd dros gant oed, ac a fu farw yn y flwyddyn 372. Gregory yr ieuangaf, wedi dychwelyd o Gaer-Cystenyn, fel y dywedwyd yn barod, a dreuliodd weddill ei ddyddiau yn ngwlad ei enedigaeth, mewn modd anghyoedd; a bu farw yn y flwyddyn 389. Yr oedd efe yn wr tra dysgedig, yn areithydd bywiog, ac yn brydydd gwych. Edrychid arno yn ei ddydd yn dduwinydd rhagorol: ond, er ei fod yn well na llawer, ei waith a ddengys mai cymmysglyd a choel-grefyddol iawn oedd ei olygiadau ar brif athrawiaethau yr efengyl, fel y gellir barnu fod ei glod uwchlaw ei deilyngdod.‡

Epiphanus o Salamis, prif ddinas Cyprus, a aned yn y flwyddyn 332,

* Collier's Dict. † Ibid. ‡ General Biog. Dict.

mewn pentref yn ngwlad Palestina, a elwir Besanancan; eithr nid yw yn adnabyddus o ba genedl yr hanodd; ond y mae yn eglur ei fod wedi cael ei ddwyn i fynu yn holl ddysgeidiaeth yr Aipht. Yr oedd hefyd yn lled fedrus yn yr Hebraeg, y Syriaeg, y Groeg, a'r Lladin: ac ymddengys ei fod, am ryw gymmaint o amser, dan olygiaeth Hilarion, dechreuydd y drefn fonachaidd yn ngwlad Palestina; a'i fod ef ei hun, yn sylfaenydd monachdy yn y wlad honno. Gwedi hyn dewiswyd ef yn esgob yn Salamis, lle y treuliodd y rhan fwyaf o weddill ei fywyd; a daeth i barch a chymmeradwyaeth mawr, trwy ei fywyd marweiddiedig, ei haelioni, a'i ysgrifau lluosog.* Yr oedd yn wrthwynebwr mawr i waith Origen; ac achlysurodd gynnwrf a therfysg lawer trwy hyny. Bernir mai efe a roddodd Theophilus o Alexandria ar waith i erlid y monachod yn yr Aipht, am eu hymlyniad wrth y dysgawdwr uchod; a chynnaliodd ddadl frwd, mewn tymherau lled annymunol â Ioan, esgob Jerusalem, ac â Chrysostom yn nghylch yr un peth. Ymddengys ei fod yn ddyn o alluoedd cryfion, ond o dymherau poethion a byrbwyll, a thra gormesol a chwyddedig; yn un ag oedd yn proffesu llawer iawn o anffaeledigrwydd, yn yr hyn oll a wnai. Ysgrifenodd yn erbyn yr holl gyfeiliornadau a dybid eu bod yn mhlith y Cristionogion; ac nid oes amheuaeth na osododd lawer allan yn gyfeiliornwyr, ag oedd yn fwy uniawn-gred, yn wyneb clorian y cyssegr, nag efe ei hun. Ni chyfrifir fod yn ei ysgrifau gywirdeb golygiadau, na harddwch ymadroddion, na gwychder cyssylltiadau, na grym ymresymiadau, er y cynnwysant lafur mawr mewn darllen, ac arwyddion o ddyfnder dysgeidiaeth. Gwrthwynebai yn egniol yr arferiad lygredig honno o godi lluniau dynion mewn lleoedd addoliad, pa un a ddechreuai yn lled gyffredin y dyddiau hyny — yr hyn a ddengys un o'i brif rinweddau, yn gystal â llygredigaeth yr eglwysi. Unwaith, pan oedd Chrysostom ac yntau wedi colli ysbryd yr efengyl, yn y ddadl yn nghylch gwaith Origen, efe a ddywedodd i'w wrthwynebydd, y meddyliai na byddai iddo farw yn ei esgobaeth; dywedodd y llall, y meddyliai yntau na chai efe allu i fyned adref yn fyw: felly y bu i'r ddau; canys Epiphanus a foddodd ar y môr wrth fyned adref o Antiochia, yn y flwyddyn 403; ac yn mhen amser wedi hyny, bu farw Chrysostom mewn alltudiaeth. Adroddir am ddau ddyn unwaith a benderfynasent dwyllo esgob Salamis; un o honynt a ffugiodd ei fod wedi marw, pan yr aeth y llall at Epiphanius i ymofyn am gymmorth i'w gladdu; ond erbyn i'r twyllwr ddychwelyd, yr oedd ei gyfaill gwedi marw, nid yn ffugiol, eithr yn sylweddol! Gochelwn gellwair â phethau o bwys; canys ni watworir Duw.†

EPHRAIM y Syriad a aned yn Nisibis, yn Mesopotamia, yn nheyrnasiad Cystenyn Fawr. Yr oedd er ei ieuengctid yn un o dymmer a thuedd llawn meddylgarwch; ac ymroddodd yn foreu i fywyd monachaidd; a meithrinodd y teimladau hyn i'r eithafoedd mwyaf dros ei holl fywyd. Dywedir ei fod ef yn ddyn mwy duwiol, manwl, a haelfrydig yn ei fywyd, na'r cyffredin. Ei ysgrifau ydynt luosog, ac yn fuddiol o ran eu cynnwysiad; a llithrigrwydd a hyawdledd ei ymadroddion, yn nghyd â medrusrwydd ei osodiadau ynddynt, oedd ddigyffelyb, yn yr oes honno. Trwy lawer o gymhelliad, llwyddwyd gydag ef i adael yr anialwch a'i fywyd meudwyaidd, a chymmeryd y swydd diacon yn yr eglwys oedd yn Edessa: ond, pan

* Milners's Church Hist. vol. ii. p. 272. † General Biographical Dict.

cynnygid ei ddyrchafu yn uwch, fel y dywedid, sef, i'r swydd esgobaethol. efe a gymmerai arno ynfydu, ac a ymguddiai rhagddynt. Bernir ei fod yn uniawn-gred. Yr oedd yn amddiffynwr gwresog o athrawiaeth y Drindod; ac ysgrifenodd lawer er gwrthwynebu y rhai a'i gwadent. Trueni mawr oedd fod y fath grynodeb o dalentau gwerthfawr mewn un, heb fedrusrwydd ynddo i'w defnyddio yn fwy er lleshad cymdeithas a dynolryw yn gyffredin. Ac nid heb ofid y gellir edrych ar ysbryd coel-grefyddol yr oes wedi llychwino ac annefnyddioli cymmaint ar lafur ac ymdrechiadau dynion o'r fath enwogrwydd, a pheri i haul eu bywyd fachludo dan y fath gwmmwl tywyll. Bu Ephraim farw yn y flwyddyn 378, yn mysg lluaws o fonachod, pa rai a fynent weddio drosto.

Hilary, esgob Poictiers, yn Ffraingc, a aned o rieni Paganaidd; a dygwyd ef i fynu yn y grefydd honno, hyd nes oedd mewn cryn oedran. Ymddengys ei fod yn hanu o deulu cyfoethog ac urddasol. Ennillwyd ef i gofleidio Cristionogaeth, yn benaf, trwy ddarllen yr ysgrythyrau; ac wedi iddo ei phroffesu, neillduwyd ef yn mhen ychydig amser i'r swydd esgobaethol yn y lle uchod, yn y flwyddyn 355. Enwogodd ei hun yn fuan wedi hyn, trwy ei lafur a'i ymdrechiadau dros y blaid Niceaidd, yn erbyn yr Ariaid, pa rai a lwyddasant gyda Constantius yr amherawdwr i'w alltudio ef i Phrygia. Yn ei sefyllfa ddeoledig hon, efe a ymroddodd i ysgrifenu ar y pyngciau ag oedd mewn dadl, ac a anfonodd allan ei feddyliau mewn deuddeg o lyfrau mawrion, ac a ystyrir hyd heddyw, gan y rhai uniawn-gred, yn waith rhagorol o dda. Ymddengys ei fod yn ddyn dysgedig iawn; yn dduweinydd deallus; yn meddu golygiadau mwy syml ar athrawiaethau yr efengyl, na chyffredinolrwydd yr oes honno; yn ysgrifenydd medrus, ac yn ymresymwr cadarn. Gwedi bod yn ei alltudiaeth am o ddeutu pedair blynedd, dychwelodd adref, tua'r flwyddyn 359; a threuliodd ei fywyd i wrthsefyll Ariaeth, yn y modd mwyaf gwresog, egniol, a llafurus, trwy deithiau o'r naill wlad i'r llall i gymmanfaoedd, a phregethu, a chynnal dadleuaeth gyhoeddus mewn amryw fanau â phleidwyr y drefn honno.* Nid yn unig ymddengys ei fod yn rhagori ar lawer mewn dysg a doniau, ond hefyd mewn gwir rinweddau moesol. Etto, nid oedd heb gael ei ddwyn ymaith yn mhell gan gyfeiliornadau yr oes, trwy roddi crèd i weledigaethau a dadguddiedigaethau ffugiol, a'i waith yn pleidio defodau hunan-ewyllys mewn crefydd. Gorphenodd ei yrfa mewn oedran teg, yn y flwyddyn 368.†

Jerome y monach, a Chrysostom, yn nghyd âg Augustine, a ddechreuasant lewyrchu yn y canrif hwn: eithr gan mai yn y canrif nesaf y gorphenasant eu gyrfaoedd, gadewir eu hanes hyd y pryd hwnw.

Amryw o'r pleidiau cyfeiliornus a ymddangosasent yn y canrifoedd o'r blaen, a gollasant eu llewyrch yn hwn trwy godiad i fynu Ariaeth; neu o leiaf nid oes gymmaint o sôn am danynt, gan faint y twrf yn nghylch hwnw. Buasai y Niceaid yn sicr o deimlo llawer mwy o effaith dinystriol Ariaeth, oni buasai i'w pleidwyr fethu cydweled â'u gilydd, ac iddynt ymranu yn wahanol bleidiau, ac ymosod yn erbyn eu gilydd, gyda llawn cymmaint llymdra âg oeddynt yn erbyn y Niceaid. Enwir y pleidiau hyn yn Ariaid, yn hanner Ariaid, Eunomianiaid, Eusebianiaid, ac Ætianiaid, &c. Nid oedd y gwahaniaeth rhwng y pleidiau uchod ond ychydig; etto yr oedd un gair

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 285. † General Biographical Dict.

yn yr oes ddadleugar honno, yn ddigon i roddi gwlad mewn terfysg, ac i beri ymraniadau diderfyn. Mewn dadleuaeth mor frwd, cyn helaethed ei therfynau, a thros amser mor faith, yr hon y tybiai pawb o'r Cristionogion trwy y byd, fod ganddynt hwy ryw beth i'w wneud â hi, nid oedd yn beth annisgwyliadwy fod hyn yn achlysur i lawer o wahanol olygiadau godi, yn y naill ochr a'r llall, yn enwedig pan yr ystyriom gymmaint o law sydd gan dymherau dynion mewn gorchwylion o'r fath.

Rhai, megys yr Apolinariaid, &c., a fu yn blaid lled luosog y dyddiau hyny, er ymgadw rhag na byddai dim yn debyg i Ariaeth yn eu crêd, a ymwylltiasant i wadu gwir a phriodol ddyndod yr Arglwydd Iesu. Eraill, megys Marcelus o Ancyra, yn Galatia, a Photius o Sirmium, a yrwyd, yn ngwres y ddadleuaeth, i wadu priodol bersonoliaeth y Mab a'r Ysbryd Glan; a chredent mai rhyw ddylanwadau neu belydr tragywyddol oddi wrth y Duwdod oeddynt. Yr un honno o'r rhai hyn, a ymunasai â dynoliaeth y Cyfryngwr, a enwent y Gair, ac o herwydd yr undeb oedd rhwng hon â'r ddynoliaeth, gelwid ef yn Fab Duw, a'i unig-anedig, &c. Gwedi hyn cododd i fynu Macedonius o Gaer-Cystenyn, yr hwn a wadai ddwyfol a phriodol bersonoliaeth yr Ysbryd Glan, gan haeru mai rhyw effeithiad bywiol a chyffredinol, anwahanedig oddi wrth y Tad a'r Mab, oedd yr hyn y priodolid yr enw iddo yn yr ysgrythyrau. Fel hyn y tarddodd amryw olygiadau dyeithrol a thra dinystriol i wir Gristionogaeth, ac y bu iddynt lawer o bleidwyr doniol. Ond gan eu bod wedi myned i dir anghof er ys amaryw flynyddau, ni bydd i ni helaethu arnynt yn mhellach.*

* Mosheim's Ecclesiastical Hist. vol. i. p. 421—432

DIWEDD HANES CANRIF IV.

PENNOD XXVI.

CANRIF V.

Lle y traethir am y Dygwyddiadau a gymmerasant le yn nheyrnasiad Arcadius a Honorius, dau fab Theodosius—Codiad i fynu y Gothiaid, yr Huniaid, a'r Vandaliaid, a'r Difrod a wnaethant—Anrheithiad Rhufain gan y Gothiaid a'r Vandaliaid—Caethder y Cyfreithiau amherodrol, ac Ysbryd erledigaethus yr Amherawdwyr yn erbyn pawb na chydwelent â hwy mewn pethau crefyddol.

Yn nechreuad y Canrif hwn, yr oedd amherodraeth Rhufain yn rhanedig rhwng dau fab Theodosius; a'r rhaniad hwn a fu o'r fath, fel nas unwyd hi mwyach dan unbenaeth. Arcadius, y mab hynaf, a eisteddai ar orsedd Caer-Cystenyn, o ba le yr estynai ei deyrnwialen lywodraethol dros Thrace, Asia Leiaf, Syria, yr Aipht, ac ynysoedd Groeg. Dechreuodd deyrnasu, pan nad oedd ond deunaw mlwydd oed. Honorius, y mab ieuangaf, a gymmerodd arno lywodraeth yr Ital, Affrica, Gaul, yr Hispaen, a Phrydain, pan nad oedd ond un mlwydd ar ddeg oed; ac Ilyricum oedd yn rhanedig rhyngddynt. Dyma y rhaniad a elwir o hyn allan mewn hanesyddiaeth, yn amherodraeth orllewinol, a dwyreiniol; a'r eglwys, yn ei pherthynas â'r dosraniad hwn, a fydd yn rhaid i ni ei galw yn eglwys orllewinol, ac yn eglwys ddwyreiniol.

Y ddau dywysog ieuangc a esgynasant i'w gorseddfëydd, yn ol ewyllys eu tad, yn y modd rhwyddaf, yn ddiattreg ar ol ei farwolaeth, yn y flwyddyn 95 o'r cyfrifiad cyffredin. A'r fath oedd yr argraff o rinweddau Theodosius ar feddyliau y deiliaid yn gyffredin, fel nid yn unig y rhoddasant y derbyniad mwyaf parod, a'r ymostyngiad mwyaf ewyllysgar i'w feibion, ond hefyd parhausant, yn wyneb eu holl ymddygiadau, fel, o herwydd hyny, nad allodd eu bywyd ofer a diffrwyth ddilëu eu parch a'u hufudd-dod iddynt. Dygwyd y tywysogion ieuaingc i fynu o'u mabandod yn hollol yn y fantell ysgarlad, yn anwybodus o'r celfyddydau mwyaf cyffredin, a mwyaf perthynasol i'w swydd a'u sefyllfa, ac yn ddiymarferiad o ddyoddef un caledi, na gwneuthur un gorchestwaith; fel yr ymddengys yn eglur, na bu amherawdwyr o'u gwaelach, eu gwanach, na'u anghymhwysach, yn eistedd ar unrhyw orseddfaingc erioed. Ni fernir eu bod hwy eu hunain, o ran eu tymherau, mor greulawn, gormesol, a drygionus, â llawer a fuant yn eistedd ar orsedd Rhufain; eithr y fath oedd eu gwendid a'u diofalwch am wir achosion y llywodraeth, a'u tymherau coelgrefyddol, fel yr oeddynt yn offerynau cymmwys yn llaw eu prif swyddogion, ag oedd yn ddynion mwyaf gormesol, traws-lywodraethol, a bradychus, er gwneuthur y difrod mwyaf ar ddynion a meddiannau, ac er dwyn y dinystr cyflymaf ar yr amherodraeth.

Y prif swyddogion hyn—dan awdurdod pa rai yr oedd y tywysogion gwanaidd yn hollol—oeddynt y dyhirod diffeithiaf a fu erioed, heb ddim ganddynt mewn golwg ond eu parch, eu helw, a'u hawdurdod eu hunain; ac, ar draul diffygolrwydd yr amherawdwyr gwirion, a heddwch y wladwriaeth, hwy a ddyrchafasant eu hunain, trwy bob mesurau. Yr oeddynt mewn eithaf gelyniaeth tu ag at eu gilydd; ac, i'r dyben o weini dial y naill ar y llall, terfysgent y taleithiau, ennillent bleidiau, a llogent ddyeithriaid i ddyfod yn heidiau am draws yr amherodraeth, o gwr i'w gilydd; yr hyn a fu iddi yn ddinystr buan. Y blaenaf yn hyn oedd Ruffinus, yn llŷs Arcadius; yr hwn a godwyd i fynu o ddechreuad gwael a thlawd gan Theodosius, i fod yn un o'i brif swyddwyr; yn meddiant pa un y gadawodd efe ofal a dygiad i fynu y tywysog ieuangc, ac achosion y llywodraeth, tra byddai dan ei oedran. Stilicho, y pen-swyddwr yn llŷs Honorius, oedd yn hollol mewn cymmaint awdurdod yn y gorllewin, ag oedd y llall yn y dwyrain; ac er ei fod yn un o'r rhyfelwyr enwoccaf yn ei oes, etto ei uchel gais, ei hunan-leshad, a'i dwyll, oedd gymmaint, fel y cadwai y wlad mewn terfysg a rhyfel parhaus, er chwanegu ei awdurdod a'i gyfoeth ei hun.

Pan ystyrir fod y canrif hwn yn dwyn i'n golwg boblogiad newydd, agos ar wyneb yr holl ddaear, yn enwedig ar y chwareufwrdd cyhoeddus o honi—sefydliad newydd o deyrnasoedd—trefn newydd o lywodraethau, a graddau newydd o lywodraethwyr—a bod y chwyldröad hwn a gymmerodd le, wedi bod yn destun prophwydoliaeth i Ioan, yn llyfr y Dadguddiad, (pen. viii. 7—12.) meddyliem na fernir yn anfuddiol, ac na anfoddlona ein darllenwyr am roddi crynhoad byr o hanes am sefyllfa wladol y rhanau mwyaf cyhoeddus o'r ddaear, am y canrif hwn.

Mor fuan ag y bu farw Theodosius, rhuthrodd minteioedd mawrion o'r Gothiaid barbaraidd i waered dros yr afon fawr Danube, gan gludo eu mèni pedair-troellog ar hyd wyneb yr iâ; ac ymledasant dros yr holl amherodraeth, o'r dwyrain hyd y gorllewin, heb allu na ffyddlondeb gan y Rhufeiniaid i'w gwrthsefyll mwyach. Canys pan fu farw Theodosius, ymddangosai fel pe buasai holl athrylithrwydd, egni, gwroldeb a rhinweddau y Rhufeiniaid yn marw ar yr un waith: ac efe oedd y tywysog diweddaf yn eu plith a ymddangosodd yn bersonol gyda'i fyddin ar y maes yn nydd y frwydr. Y cenhedloedd hyny, yn benaf, a ddinystrasant amherodraeth Rhufain, a elwir y Gothiaid, y Vandaliaid, yr Huniaid, yn nghyd âg amryw enwau a briodolid i lwythau o honynt, a breswylient ar y cyntaf y gwledydd hyny o amgylch y Llychlyn, *(Baltic Sea,)* ac oddi yno i'r dwyrain i wlad y Rhws, Scythia, a Siberia, gwledydd ag oeddynt yn dra anadnabyddus y pryd hwnw. Ymddengys nad oeddynt erioed wedi arfer trin y ddaear, ond byw yn fugeiliaid crwydraidd ar laeth a chig y praidd, heb un triniaeth arno.

Darlunir y Gothiaid mewn hanesyddiaeth, yn Gothiaid Gorllewinol *(Westro Goths)*, yn Gothiaid Deheuol *(Ostro Goths)*, ac yn Gothiaid Deheuol *(Visi Goths)*, a hyny gyda golwg ar sefyllfa y wlad lle y preswylient gyntaf. Yr oedd amryw lwythau lluosog o'r rhai hyn wedi bod yn flinder ac yn ddinystriol i'r amherodraeth, mewn rhan, fel y sylwyd yn barod, er amser Decius, a chwedi gosod Valens yr amherawdwr i farwolaeth mewn brwydr. Eithr darostyngwyd rhai o honynt dan deyrnged; eraill a ymlidiwyd yn ol tua'u gwlad, gan Theodosius: ac Alaric eu blaenor a gymmerwyd; a dyrchafwyd ef yn myddin yr amherawdwr—amgylchiad pa un a roddodd iddo gyfleusdra i ddysgu holl drefn filwraidd y Rhufeiniaid. Cafodd yn awr brawf o frasder y taleithiau, a rhagoriaeth y

gwledydd ar eiddo ei genedl ei hun. Daeth hefyd yn adnabyddus o wendid yr amherodraeth; yr hyn a'i cynhyrfiodd i achub y cyfle cyntaf i dorri yr iau, a chwhwfanu lluman gwrthryfel yn erbyn y Rhufeiniaid.

'Cyn gynted ag y dyrchafodd Alaric ei faner rhyddid, wele! tyrfaoedd o'i genedl, o bob parth o'r gwledydd a breswylient, a unasant âg ef, gan benderfynu byw neu farw mewn ymlyniad wrtho. Gwedi treiddio trwy Thracia a Dacia, a'u gosod yn anrhaith, efe a ddaeth i Macedonia, Thessalonica, a thir Groeg; tra yr oedd Arcadius yn llawn dychryn, yn llechu o fewn muriau Caer-Cystenyn; a swyddwyr bradus yr olaf yn goddef gan y gelyn oresgyn y naill wlad ar ol y llall, yn ddirwystr. "Maesydd toreithiog Phocis a Bœotia," medd Gibbon, "a orchuddiwyd yn fuan gan ddiluw o'r barbariaid hyn. Rhoddent y gwyr ieuaingc, ag oedd yn alluog i ddwyn arfau rhyfel, oll i farwolaeth; y llangcesau hardd-deg a yrent ymaith yn yrfëydd o'u blaen, gyda'r anifeiliaid, ac yspail fawr o'r pentrefydd llosgedig. Corinth, Argos, a Sparta, a ymostyngasant yn ddiwrthwynebiad; a'r trigolion dedwyddaf oeddynt y rhai a symmudwyd trwy farwolaeth, rhag gweled dirfawr iselder a chaethiwed eu teuluoedd, a choelcerth eu dinasoedd." * Y fath oedd y difrod a gyflawnwyd gan y barbariaid yn eu rhyfelgyrch hwn, fel yr ymddangosai yr holl wlad—er o'r blaen fel gardd yr Arglwydd—yn awr yn ddiffeithwch anrheithiedig, effeithiau pa un ni ddilewyd am flynyddau lawer, a chyn helaethed oedd ei derfynau, fel y cyrhaeddodd holl wlad y Groegiaid.

Er cymmaint oedd medrusrwydd rhyfelgar Alaric a'i filwyr barbaraidd, nid oes amheuaeth gan haneswyr nad oedd llwyddiant y rhyfelgyrch hwn i'w briodoli gymmaint i fradwriaeth Ruffinus, a'i gydswyddwyr, a amgylchynent berson yr amherawdwr, ag ydoedd i'w dewrder hwythau.

Y Groegiaid, pan yn y sefyllfa druenus hon, heb gymmorth oddi wrth eu harfau, eu duwiau, na'u hamerawdwr, a droisant eu hwynebau tua'r gorllewin, i lŷs Honorius, at Stilicho, y cadfilwr galluog oedd yno, am ymwared. Stilicho a frysiodd, ac a hwyliodd allan lynges fawr, â byddin gref, tua thir Groeg; a chwedi dyfod o hyd i'w gelynion, bu amryw frwydrau gwaedlyd iawn rhwng y byddinoedd, dan dywysiad y ddau faes-lywydd, nad oeddynt annheilwng o'u gilydd. Eithr dyfal-barhad a medrusrwydd y Rhufeiniaid, o'r diwedd, a orfuodd; a'r lleill a enciliasant o'r maes. Ond Alaric, trwy ddiofalwch Stilicho, a ddihangodd yn iach, a lluaws mawr o'i fyddin, yn nghyd âg yspail lawer, i Ilyricum, a pharthau eraill. Yr anrhaith filwraidd hon, a fu yn foddion i lwyr ddileu eilunaddoliaeth Paganaidd, ag oedd mewn amryw fanau yn nhir Groeg hyd yn hyn; eithr nid oes sôn am dano mwyach.†

Er syndod i'r byd, wele Alaric yn cael ei gyhoeddi yn llŷs Arcadius, yn Caer-Cystenyn, yn benaeth cyffredinol ar holl Ilyricum, ac yn frenin y Gothiaid Deheuol, yn fuan ar ol ei ddychweliad o dir Groeg! fel pe buasid yn ei wobrwyo am y difrod a wnaethai ar fywydau a meddiannau deiliaid yr amherodraeth. Eithr ni ddychwelodd Stilicho a'i fyddin o'r gorllewin, nes diwallu llid y bobloedd, trwy osod Ruffinus i farwolaeth â'i gleddyf, yn ymyl Caer-Cystenyn. Alaric, o herwydd y gwrthwynebiad a ddangoswyd iddo gan Stilicho, a lwyr-ymroddodd yn erbyn amherodraeth y gorllewin, gan benderfynu mynnu bedd, neu deyrnas yr Ital.

* Gibbon's Hist of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 233. † Ibid, p. 236.

Gwedi casglu byddin lawer lluosoccach na'r un blaen, efe a groesodd fynyddoedd yr Alps; a thramwyodd trwy amryw o barthau breision yr Ital, gan eu hanrheithio, a gosod eu dinasoedd harddwych yn danllwyth, nes llanw yr holl wledydd â dychryn. Cymmaint oedd diffyg ysbryd milwraidd yn y Rhufeiniaid y pryd hwnw, fel na fedrai Stilicho godi byddin yn eu plith, er gwrthsefyll yr ymosodiad, heb logi dyeithriaid, pa rai nid yn unig a ddyhysbyddasant yr amherodraeth o'i chyfoeth, ond a welsant ei noethni a'i gwendid; hefyd dysgasant ei threfn filwraidd; gan fod heddyw yn gynghreirwyr iddi, ond y foru yn wrthwynebwyr. Gwedi i faes-lywydd y Rhufeiniaid allu casglu byddin o Rufeinwyr, Alaniaid, &c., cyfarfuasant â'r barbariaid yn agos i Polentia, lle y bu brwydr ffyrnig a gwaedlyd iawn o bob ochr; eithr y Rhufeiniaid a ynnillasant y maes.* Er hyny, brenin y Gothiaid a'i filwyr dewrion, oeddynt mor bell o gael eu darostwng a'u digaloni, fel y penderfynasant wneuthur ymosodiad ar Rufain, y brif-ddinas, yn ddiattreg. Teimlai Stilicho gymmaint o'i wendid i'w wrthsefyll mewn ail frwydr, fel y prynodd ei ymadawiad o'r Ital am bedair mil o bunnau o aur, i'w talu yn flynyddol gan lywodraeth Rhufain i frenin y Gothiaid.† Diffyg o gyflawni yr ammod hon, a fu yn esgus i Alaric ymweled â Rhufain amryw weithiau wedi hyny, fel y sylwir etto.

Pan yn yr Ital y pryd hwn, mwynhaodd y pleser o weled Honorius ddigalon yn ffoi o'i flaen o fan i fan, gan dybio nad oedd un lle yn yr Ital yn addas i'w ddiogelu ond RAVENNA; yr hon sydd gerllaw y Môr Adriatic, yn lle hynod o ddiogel gan naturiaeth, gan yr amgylchynir hi â chorsydd mawrion, fel mai annichonadwy i un byddin ddynesu atti; yr oedd hefyd wedi ei phrydferthu a'i hamddiffyn trwy gelfyddydau er amser Augustus. Mewn canlyniad i ffoedigaeth Honorius yno, daeth y lle hwn o bwys mawr mewn hanesyddiaeth; am y bu o hyny hyd tua hanner yr wythfed canrif yn brif-ddinas yr Ital, ac yn lle y cynnelid ynddo y llysoedd perthynol i'r rhan honno o'r byd.‡

Y fath yw dyfnder y cyfrwysdra a orwedd yn aml yn mynwes pennaethiaid a llywyddion gwledydd! Pan yr oedd Alaric yn dychwelyd o'r Ital gyda gweddill ei fyddin, bwriadai ymosod ar Gaul, a'r gwledydd tu yma i fynyddoedd yr Alps, er ennill iddo ei hun drigfa yn eu bröydd breision; ac amcanai Stilicho yntau ei ddyfetha ef a'i fyddin, ar eu gwaith yn croesi y mynyddoedd. Eithr cyngor Duw a saif, yn ol yr hwn yr oedd yn rhaid i Alaric fod yn fflangell drymach i Rufain drachefn. Ar waith y Gothiaid yn croesi y mynyddoedd, mewn lle cyfyng, gan feddwl ymosod ar ddinas Verona, cyfarfuant â byddinoedd yr amherawdwr, er eu gwrthsefyll; a bu brwydr galed rhyngddynt. Gorchfygwyd y Gothiaid, â lladdfa fawr; ac oni buasai cyflymdra march Alaric, cawsai ei ddal a'i gymmeryd yn garcharor, neu ei osod i farwolaeth yn yr ymladdfa. Hyn a'i hanghymhwysodd dros dro i wneuthur dim yn effeithiol yn erbyn yr amherodraeth. Derbyniwyd ef drachefn i fod yn un o gynghreirwyr byddin yr amherawdwr, trwy gyfryngoliaeth Stilicho.§

Yn y cyfamser, cododd i fynu wrthwynebwr arall, o'r enw Rodgaisus, yr hwn a flaenorai ryw luoedd aneirif, dim llai, meddir, na dau can mil, o Furgundiaid, Sueviaid, Vandaliaid, &c., cenhedlaethau na wybuwyd nemawr am danynt o'r blaen, a breswylient yr eithafoedd mwyaf gogleddol o'r

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. i. p. 241. † Ibid, p. 244. ‡ Ibid, p. 244.
§ Ibid, p. 242.

Almaen.* Y rhai hyn a ruthrasant ar draws yr holl Ital, hyd yn ymyl Rhufain ei hun, gan anrheithio ac yspeilio y cyfan, er dychryn y gwledydd, heb nerth i'w gwrthsefyll. Y rhai hyn oeddynt y pryd hwnw yn hollol farbaraidd, ac yn baganaidd, yn aberthu eu carcharorion rhyfel, agos oll, ar eu hallorau, i'w duwiau; a'u hymddangosiad oedd y mwyaf ffyrnig ac anwar o'r holl genhedloedd. Gwedi i Stilicho allu casglu ei fyddinoedd, a llogi cynghreirwyr estronol i'w gwrthsefyll, ymgyfarfuant yn agos i Fflorence, prif-ddinas Tuscany, lle bu un o'r ymladdfeydd mwyaf ysgeler rhyngddynt. Collodd Rodgaisus, blaenor yr Almaeniaid, ei fywyd, ac agos i hanner ei fyddin, yr hon oedd uwch can mil o wyr. Y gweddill a ddychwelasant ac a enciliasant i Gaul, lle y gwladychasant—pa rai, wedi hyny, a fu y prif offerynau i ddymchwelyd amherodraeth Rhufain.

Enw Stilicho erbyn hyn oedd yn uchel iawn, a'i glod trwy yr holl wledydd, fel rhyfelwr, gwaredwr ei genedl, a buddugoliaethwr ar eu gelynion, mewn amryw frwydrau anarferol. Ond, mor fyr ac ansicr yw pob mwyniant a dyrchafiad dynol! Cyn bod y mawl a'r gorfoledd am y buddugolieathau hyn wedi darfod, cododd Cenfigen ac Enllib eu penau—sylfaenwyd cyhuddiadau trymion yn erbyn Stilicho, a'i gwymp a neshaodd. Cododd plaid wrthwynebol iddo yn y llŷs, a flaenorid gan un Olympius, dyn cyfrwysgall, a feddiannai glust yr amherawdwr. Sylfaenwyd cyhuddiad yn erbyn Stilicho, ei fod mewn cynghrair âg Alaric, ac iddo ei dalu am ei gymmorth, yr hwn oedd brif elyn yr amherodraeth—ei fod wedi llogi cynnifer o ddyeithriaid i'r fyddin, a'i fod trwy hyny yn bwriadu codi ei fab ei hun i'r orsedd.

Gwedi llanw meddyliau yr amherawdwr â syniadau drwg am ei benswyddog, a'i fwrw ymaith o'i gymmeradwyaeth, ei ofnau a barasant iddo ei roddi i fynu i'w nwydau, a'i ddedfrydu i ddinystr. Hwythau, yn ddiaros, a anfonasant un Heraclian i gymmeryd ymaith ei ben, fel bradwr y deyrnas. Yntau pan wybu, a roddodd ei hun i fynu yn ddiwrthwynebiad, er y gallasai yn hawdd wrthsefyll. Felly syrthiodd trwy gleddyf ei wlad ei hun, un o'r dynion mwyaf ac enwoccaf a fu yn y byd, fel rhyfelwr. Ni ellir ammau nad oedd yn euog o lawer o anaddasrwydd, yn ei ymgyssylltiad â gelynion yr amherodraeth; ond nid hyny oedd yr achos cynhyrfiol i'w gyhuddwyr godi yn ei erbyn. Pan y cwympodd ef, syrthiodd y diweddaf o faes-lywyddion Rhufain, ag a deilynga yr enw. Gwedi ei farwolaeth, ymroddasant i erlid ei gyfeillion annedwydd; a chymmerwyd ymaith eu bywydau; yr hyn a fu yn achlysur o ymraniad yn y fyddin, ac yn achos i fwy na deng mil ar hugain o honi encilio at Alaric, yr hwn oedd erbyn hyn ar ei wyliadwriaeth, a chwedi codi i fynu ei luman amddiffynol a dialeddol; ac ni allasai, pe buasai ei hun yn llŷs Honorius, drefnu neb mesurau gwell iddo ei hun, nag a wnaethant hwy, trwy gymmeryd ymaith fywyd Stilicho, ac erlid ei gyfeillion.

Gwedi casglu byddin luosog iawn, ymosododd yr ail waith ar yr Ital, gan hwylio ei gamrau yn uniongyrchol tua Rhufain. Yn mhen ychydig o amser, wedi goresgyn llawer o ddinasoedd eraill yn ddiwrthwynebiad, ymddangosodd gyda'i fyddin luosog o flaen Rhufain, arglwyddes y byd. Er chwe chant a phedair ar bymtheg o flynyddoedd, nid ymddangosasai un gelyn mewn arfau ger bron ei phyrth; ac o herwydd ei sancteiddrwydd,

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. i. p. 246.

ei mawredd, a'i henwogrwydd, yr oedd yn gred dybiol gan ei thrigolion nad anturiai neb byth i'w goresgyn. Yn ol mesuriad manylaidd Ammonius, yr oedd amgylchiad muriau y ddinas yn atteb i ddwy filltir ar hugain o gylch, yn gedyrn ac yn uchel iawn. Yr adeiladau tumewnol oeddynt y rhai prydferthaf yn y byd, a'r rhai mwyaf mewn uchder a chadernid, fel y cawn fod cyfreithiau wedi eu rhoddi yn amser Augustus a Nero, nad oedd tai anneddol y ddinas i fod yn uwch na deg troedfedd a thriugain uwchlaw y ddaear. Y tai trigiannol gan ddynion ynddi a gyfrifid yn agos i chwe mil a deugain a phedwar cant, yn cynnwys, o leiaf, ddeuddeg can mil o drigolion yn breswyliedig ynddi.

Pan y gwnaeth Alaric ei ymddangosiad gyntaf o flaen y ddinas, y teimlad blaenaf a lanwodd y dinasyddion a'r seneddwyr ucheldrem, oedd syndod a dirmyg o'r mwyaf fod y fath farbariaid wedi bod mor rhyfygus â dyfod felly o flaen eu dinas; eithr eu hysbryd balchaidd a ddarostyngwyd yn fuan. Alaric a osododd y gwarchae yn y modd mwyaf medrus a chyfyng, gan drefnu ei fyddin o amgylch ogylch i'r ddinas. Gosododd wyliadwriaeth gadarn ar bob un o'i deuddeg porth, ac ar yr afon Tiber, fel na byddai i'r dinasyddion allu dal un cymdeithas â neb oddi allan, na dim cynhaliaeth gael ei ddwyn iddynt o un lle oddi allan. Y rhai hyny a arferent fyw mewn llawnder a gormodedd, a ddygwyd ar fyrder i weled pa cyn lleied a allai gynnal nattur. Yr aur, yr arian, a'r perlau gwerthfawroccaf, a roddid ymaith, yn rhwydd, i brynu ychydig luniaeth digon garw, yr hwn, rai wythnosau o'r blaen, a edrychid arno gyda dirmyg mawr. Yr ymborth mwyaf ffiaidd i reswm a theimlad, ac afiachus i'r corph, a geisid gydag egni mawr, ac a draflyngcid, yn y modd mwyaf awchus, gan y tyrfaoedd newynllyd. Dywedir fod yno lawer yn byw ar gnawd eu cyd-ddynion, a leddid ganddynt yn ddirgel i'r dybenion hyny! a mamau tyner-galon a fwyttaent blant eu mynwesau!! Llawer o filoedd o'r Rhufeiniaid a fuant feirw yn eu tai ac yn yr heolydd, heb le i'w claddu; canys yr oedd yr holl gladdfeydd o'r tu allan i'r ddinas yn meddiant y gelynion; a dryg-sawr y cyrph meirw hyn, a barodd heintiau a chlefydau marwol yn y ddinas. Addewid am gymmorth o Ravenna, a barodd i Pompeianus, prif swyddog y ddinas a'r senedd, sefyll allan, heb gynnyg ammodau ac ymostyngiad i'r barbariaid; eithr nid oedd un ymwared na chymmorth yn ymddangos.

O'r diwedd, gorfu ar y Rhufeiniaid, er eu balchder a'u huchder, ymostwng i geisio gwaredigaeth trwy ledneisrwydd a hynawsedd brenin y Gothiaid. Gwedi i'r senedd ddewis dau henafgwr pendefigaidd, a'u hanfon allan—un o honynt oedd dra adnabyddus â'r tywysog yn flaenorol—a chael o honynt ddyfodfa i'w wyddfod, llefarasant gyda mawredigrwydd gormodol, ac ystyried yn mha sefyllfa yr oeddynt. Dywedent fod y Rhufeiniaid yn penderfynu amddiffyn eu mawredd, pa un bynag ai mewn heddwch ai mewn rhyfel; ac os na roddai Alaric iddynt ollyngdod ar ammodau anrhydeddus ac esmwyth, ei bod yn bryd iddo seinio ei udgorn, i roddi brwydr i fyddin aneirif a ddygent i ryfel, ac yn gynhyrfiol gan gyfyngdra. "Po mwyaf trwchus y byddo y gwair, hawddaf i gyd yw ei dorri," oedd atteb cynnwysfawr y barbariad. A dilynodd ei gymhariaeth arw â chwerthiniad gwawdlyd, wrth glywed bygythiad am frwydr, oddi wrth ddynion a ddinystrasent eu hunain trwy lythineb a meddwdod, cyn dyfod arnynt y newyn hwn. Eithr ymostyngodd i roddi iddynt ammodau cylafareddol; a'r pridwerth ar ba un yr addawodd ymadael â muriau y ddinas oedd, fod

i'r HOLL aur, yr HOLL arian—pa un bynag ai eiddo y cyffredin, ai eiddo personau a fyddent—yn nghyd â'r HOLL bethau gwerthfawr ag oedd symmudol yn y ddinas—yn nghyd â'r HOLL gaethion ag oedd yno, a allent brofi eu deilliad a'u henw oddi wrth y barbariaid, i gael eu rhoddi iddo ef. "Os hyn yw eich gofyniad," ebe y cenhadau, "pa beth a adewch i ni?" Y buddugoliaethwr balch a attebodd, "*Dim*, ond eich bywydau." Gyda hyn hwy a ddychwelasant i'r ddinas, mewn dychryn mawr. Eithr edrychiad garw, ac ymddygiad ffyrnig, a gofyniad uchel Alaric, a larieiddiodd yn ddisymmwth, fel y boddlonodd i godi y gwarchae am bum mil o bwysau o aur; deng mil ar hugain o bwysau o arian; pedair mil o wisgoedd sidan; tair mil o ddarnau o frethyn meindeg ysgarlad, a thair mil o bwysau o bypur. Ond o herwydd y rhyfeloedd, a'r newyn y pryd hwnw, y cyfryw oedd trysorfëydd Rhufain, fel y cawsant anhawsdra i dalu hyny. Gwedi gallu atteb gofyniad Alaric wangcus, allan o guddfëydd y cybyddion, a gweddillion yr eiddo cyssegredig a berthynai i demlau y Paganiaid, hwy a'i hanfonasant ymaith; ac adferwyd y ddinas i'w heddwch a'i llawnder blaenorol, i raddau.

Cyn i Alaric symmud ei wyr arfog oddi wrth furiau Rhufain, efe a gyttunodd â'r senedd, am yr arian dyledus iddo, yn flynyddol—yr hyn ni oddefai balchder y Rhufeiniaid ei alw yn deyrnged, ond arian cymmorth i gynghreiriaid—y gwnai dderbyn ŷd ganddynt yn eu lle. Eithr y Rhufeiniaid a wnaent bob esgus a thwyll er ymryddhau oddi wrth y cyfryw ammod, fel y dygodd hyny frenin y Gothiaid yn y flwyddyn ganlynol, sef, y flwyddyn 409, i ail-ymweled â'u dinas, er eu ceryddu am y fath dorriad ammod. Yn lle ymosod ar y ddinas yn union-gyrchol y pryd hwn, efe a gymmerodd feddiant o'r lle hynod ac aruthrol hwnw a elwir OSTIA, yr hwn oedd yn ymyl porthladd yr afon Tiber. Hwn oedd un o'r prif leoedd a ddangosai fawredd ac enwogrwydd y Rhufeiniaid, yn ei adeiliad; yn mha un yr oedd ystordai annhraethol eu maint, er cadw llawnder o bob trysorau gwerthfawr, ŷd, a phob peth at gynnaliaeth y wladwriaeth a'r fyddin a ddeuai o Affrica, a manau eraill, ag oedd yn fordwyol, i Rufain. Dechreuwyd adeiladu y lle cadarn hwn gan Julius Cæsar; a gorphenwyd ef gan Claudius. Cynnyddodd yr adeiladau o amgylch i'r fangre, o bryd i'w gilydd, nes oedd gymmaint â dinas lled fawr, y pryd y meddiannwyd ef gan Alaric. Mor fuan ag y meddiannodd ef y lle hwn, efe a anfonodd rybudd i'r senedd i ymostwng yn ddioed, amgen y rhoddai efe y lle hwnw ar dân. Gan faint ymddibyniad Rhufain, am ei chynhaliaeth oll, ar y lle hwnw, fel trwy ei golli y buasai newyn yn anocheladwy yn goresgyn yr holl ddinas, y dinasyddion a ddychrynasant yn aruthrol. Felly, trwy ddadwrdd y bobl, ac ofn y newyn, y senedd a ymostyngasant yn rhwydd i wrando ar, a chaniattau cais, y barbariad, a rhoddi amherawdwr arall ar yr orsedd yn lle Honorius. Ac, mewn cydsyniad â'r buddugoliaethwr Gothaidd, hwy a ddewisasant Attalus, un o lywyddion y ddinas, i'r sefyllfa honno.

Yn fuan wedi hyn, gwelodd Alaric nad oedd gan Attalus allu i lywodraethu, na thymmer i ufuddhau; o herwydd hyny diosgodd ef o'i goron amherodrol a'i wisgoedd ysgarlad, pan ger llaw i borth Ravenna, gan feddwl ei anfon yn wystl heddwch i Honorius. Eithr Attalus a erfyniodd gael bod yn y sefyllfa wasaidd a gwael o fod yn ddilyniedydd i fyddin y Gothiaid, yn hytrach na myned i'r ddinas.

Pan oedd heddwch ar gael ei wneuthur rhwng brenin y Gothiaid a'r amherawdwr Honorius, gwnaeth swyddogion yr amherawdwr ruthr allan o'r ddinas, ar fyddin y Gothiaid, yn ddisymmwth, ac a ddinystriasant amryw; ac wedi hyny hwy a ffoisant i'r ddinas. Gwnaeth hyn drachefn beri i Alaric benderfynu gwneud i Rufain ddwyn euogrwydd Ravenna, gan ddwyn ei holl fyddin o flaen y ddinas y drydedd waith. Y Rhufeiniaid a ymbarottoisant i'w dderbyn gan ddiogelu eu hunain hyd y gallent, trwy gadarnhau eu pyrth, trefnu eu gwyliadwriaethau, a chyfleu pob lluniaeth a fedrent yn eu dinas. Eithr nid oes un cadernid yn effeithiol, lle na byddo undeb. Yr oedd gan Alaric gyfeillion erbyn hyn o fewn i'r muriau, pa rai a agorasant borth Salarian ganol nos, a lluoedd o'i fyddin a ruthrasant i mewn; a'r dinasyddion a ddeffrowyd gan sain udgorn y Gothiaid yn nghanol y ddinas. Dedfrydwyd hi a'i holl gyfoeth i fod yn yspail, gan roddi llawn ryddid i'r milwyr i gymmeryd yr oll a allent, ac a ewyllysient, o drysorau y ddinas, am chwe diwrnod, gyda yr attaliadau, nad oedd iddynt gymmeryd ymaith fywyd neb, na wrthwynebai iddynt, na chyffwrdd â meddiannau eglwysi y Cristionogion. Llawer o'r Gothiaid ag oedd wedi proffesu Cristionogaeth, yn ol egwyddorion Ariaeth, a ddangosasant gymmedroldeb; ac nid oeddynt yn hollol amddifad o ofn digio yr Arglwydd yn wyneb yr amgylchiad. Eithr y miloedd lawer o'r Huniaid a'r barbariaid eraill ag oedd yn y fyddin, oeddynt yn hollol anwaraidd; a phwy a ddichon ddychymygu y fath fraw, y fath derfysg, a'r fath olygfa ag oedd yn rhaid fod, i weled dinas mor boblog, mor fawr, ac mor enwog, wedi syrthio mewn un awr i ddwylaw y fath elynion! Fel y dywed un, yr oedd pob braint enedigol ac urddas wedi eu dileu ar unwaith. Mewn un awr, wele, pob graddau ac enwau wedi eu gwneuthur yn gydwastad â phawb! yn ymgymmysgedig, yn ymdyrru hyd a allent i ryw le i geisio diogelu eu heinioes! Y caethwas a'r boneddwr yn hollol yn yr un amgylchiad, yn ddiwahaniaeth, yn mhob lle, yn llawn o ofn marwolaeth, oddi eithr fod yr hwn oedd ganddo leiaf i golli yr esmwythaf ei feddwl i gyfarfod âg angau. Pob annedd trwy y ddinas fawr, oedd oll yn un olygfa o drueni, ac yr un mor gyflawn o ofid, trallod, a therfysg.

Yn y flwyddyn 410, yn mhen un cant ar ddeg a thriugain a thair blynedd wedi sylfaenu Rhufain, y ddinas amherodrol, yr hon a ddarostyngasai y rhan fwyaf o'r byd, ac a wareiddiasai y rhan fwyaf o ddynolryw, a roddwyd i fynu yn hollol i anwydau y Gothiaid a'r Scythiaid barbaraidd; pan yr yspeiliasant hi o'i haur, ei harian, a'i pherlau drudfawr; a phan y diosgwyd ei phalasau teg o'u haddurniadau prydferth, eu dodrefn gwerthfawr, eu byrddau ochrawg, eu dysglau pwysig, a'u gwisgoedd harddwych o sidan symmudliw a phorphoraidd, pa rai a lwythwyd ar fèni pedair-troellog mawrion, i'w dwyn ymaith i ganlyn byddin y Gothiaid. Gwnaed y lladdfeydd echryslonaf ar filoedd lawer o'r Rhufeiniaid, a wrthwynebent ymgais y milwyr, fel y llanwyd heolydd y ddinas â chyrph y meirwon. Boneddigesau a llangcesau diwair a roddwyd i fynu i anwydau y milwyr anwaraidd; y rhai a allent a enciliasant o'r ddinas am eu heinioes; a llawer o adeiladau mawrion a theg a losgwyd â thân!

Gwedi i Alaric a'i fyddin fuddugoliaethus adael Rhufain, hwy a aethant, gan orchfygu yr hyn oll a'u gwrthsafai, tua pharthau deheuol yr Ital; ac efe a breswyliodd am y rhan fwyaf o'i amser yn nhalaeth hyfrydlawn Campania, yn agos i'r ddinas enwog Capua, gan feddwl croesi i ennill Sicily. Ond cyn iddo allu rhoddi ei fwriadau mewn gweithrediad i fuddugoliaethu,

na goresgyn neb yn ychwanegol, ymwelwyd âg ef gan angau, yr hwn a roddodd derfyn ar ei holl amcanion, yn mhen agos i bedair blynedd wedi yspeilio Rhufain. Claddwyd ef yn nyfrle afon Buesentius, yr hon a drowyd o'i lle, trwy lafur mawr, tra gosodid ei gorph yn nyfnder daear; gwedi hyny hi a ddychwelwyd i'w lle. Fel yr oedd yr arferiad y pryd hwn gan amryw o genhedlaethau, rhoddwyd trysorau lawer gyda'i gorph yn y bedd; am hyny ei fedd a ddirgelwyd, trwy osod pawb i farwolaeth a fu â llaw yn ei gladdedigaeth, fel na ŵyr neb yn mha le y gorphwys, hyd y dydd hwn.

Yn ol ei farwolaeth, dewiswyd Adolphus ei frawd-yn-nghyfraith i fod yn flaenor ar y fyddin. Yr oedd hwn yn ddyn llarieiddiach ei dymherau, i raddau, na'i ragflaenor; ac yn fwy am wareiddio ei genedl trwy drefn a chyfreithiau addas, nag am orchfygu ac anrheithio gwledydd eraill trwy y cleddyf. Gwnaeth heddwch â'r amherawdwr Rhufeinaidd, fel, mewn canlyniad, y gwasanaethodd y Gothiaid yr amherodraeth am hir amser. Danfonwyd hwy, gyda byddin luosog a thrysorau lawer, o'r Ital i'r rhanau mwyaf deheuol o Gaul, ar derfynau yr Hispaen, i oresgyn gwrthryfel ag oedd wedi ymgodi yn y parthau hyny; a gwladychasant yno wedi hir a mawr derfysg a rhyfel; Toulouse oedd eu prif ddinas. Dyma ddechreuad teyrnas y Gothiaid Deheuol *(Visi Goths)* yn yr Hispaen, neu y ćwrr o honi a elwid Aquitain, wedi hyn yn deyrnas gadarn.*

Meddylir mai anrhaith Alaric a'i fyddin oedd cynnwysiad udganiad yr udgorn cyntaf yn llyfr y Dadguddiad. Gwedi ymadawiad y Gothiaid o'r Ital, adferwyd y parthau hyny i'w llawnder a'u llwyddiant, a heddwch cyffredinol; a dychwelodd y ffoaduriaid a'r enciliedig i'w gwlad wrth y miloedd. Eithr yr oedd taleithiau eraill o'r amherodraeth yn llawn terfysg, rhyfel, ac ymladdau, ac amryw o honynt yn dechreu arddelwi eu hanymddibyniaeth ar Rufain, ac yn gosod i fynu drostynt eu hunain. Megys ein hynafiaid yn Mhrydain, a'r Armoricaniaid yn Gaul, yr hyn a ganiattaodd ac a gadarnhaodd Honorius, amherawdwr y gorllewin, iddynt, am na allai mwy eu cadw mewn ufudd-dod, trwy adael ei fyddinoedd yn eu plith, o herwydd fod iddo achos am danynt yn nês i'w gartref.† Eithr pan y gorthrymid y rhai hyn gan eu cymmydogion, ac o blegid yr ymrysoniadau diderfyn yn eu plith eu hunain, hwy a annogent y lluoedd mwyaf rhyfelgar i'w cynnorthwyo, pa rai a fu yn y pen draw yn holloll ddinystriol i'r naill a'r llaill, fel y ceir achos i sylwi etto yn aml.

Yn nghanol yr holl derfysgiadau a'r rhyfeloedd blinion hyn, pan yr oedd yr holl amherodraeth yn yr ymdrechfa olaf, yn barod i roddi i fynu yr anadl, gyda'r ochenaid ddiweddaf, Honorius oedd yn dawel o fewn muriau Ravenna, mewn pob llawnder, gloddest, a difyrwch. Nid yn hawdd y ceir neb heb ryw rinwedd ynddo; felly yntau, er ei amddifadrwydd o ddaioni, ceir iddo roddi attalfa hollol ar y weithred ysgeler a barbaraidd honno, ag oedd yn mhlith y Rhufeiniaid, sef rhoddi dynion, yn eu chwareyddiaethau, i ymladd â chleddyfau, nes lladd eu gilydd, er difyrwch i'r edrychwyr ynfyd.‡ Yr oedd efe yn erlidiwr creulawn i bawb a ymarferai â chrefydd,

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. 2, pp. 301, 353.

† Ibid, p. 302.

‡ Yr oedd cyfraith wedi ei gwneuthur yn erbyn hyny er amser Cystenyn; eithr nid oedd ei gweinyddiad er hollol attaliad i'r arferiad adgas ac annynol, wedi cymmeryd lle, hyd deyrnasiad Honorius. Hyn a brawf fod gwir ddyngarwch yn hanfodol i Gristionogaeth, ac yn gydfynedol â'i llwyddiant.—*Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol.* ii. *p.* 243.

yn groes i'r modd yr oedd efe a'i lŷs llygredig yn gweled y dylent wneuthur, megys y sylwir fel yr elom yn mlaen.*

Er yr ymosodiad oedd ar yr amherodraeth gan luoedd dyeithrol, a'r terfysgiadau tumewnol gan draws-feddiannwyr—dim llai na saith o'r olaf a fu yn hyd pum mlynedd, pa rai a ddarostyngwyd oll trwy luoedd yr hwn nid oedd alluog ei hunan i weithredu fel llywodraethwr—efe a deyrnasodd naw mlynedd ar hugain. Gwedi ei farwolaeth, esgynodd ei nai, mab chwaer iddo o'r enw Placida, i'r orsedd, yr hwn a elwid VALENTINIAN III. Efe oedd y diweddaf o hiliogaeth Theodosius Fawr, a eisteddodd ar yr orsedd orllewinol, yn amherodraeth Rhufain. Yr oedd hwn yn hollol amddifad o rinweddau ei daid. Dechreuodd deyrnasu pan yn chwe mlwydd oed—eithr y llywodraeth a ddygid yn mlaen, yn ei enw ef, dros hir amser gan ei fam, yr hon a welodd lawer o wahanol dywydd, etto a feddiannai ysbryd gwrol a thywysogaidd iawn—ac efe a deyrnasodd ddeng mlynedd ar hugain. Gosodwyd ef i farwolaeth trwy gleddyf ei filwyr ei hun, o herwydd iddo, yn y modd mwyaf ysgeler ac annoeth, drywanu Ætius, ei brif swyddog a'i was ffyddlonaf, â'r cleddyf—yr unig waith y dywedir iddo dynnu ei gleddyf yn ei fywyd.† Meddiannwyd yr orsedd orllewinol am ugain mlynedd wedi hyn—hyd oni chwbl ddilewyd y rhan honno o'r amherodraeth, yn amser Augustus, y diweddaf o'r amherawdwyr—gan naw amherawdwr, pa rai, o herwydd byrdra yr amser y teyrnasasant, a'u gwaelder yn y gorchwyl, nid yw eu henwau yn deilwng o'u cofrestru.

Yr Huniaid oeddynt genedl luosog iawn, a rhyfelgar er y cyn-oesoedd, a wladychent ar y cyntaf ar derfynau mwyaf gogleddol Europe. Cyn dechreu yr oes Gristionogol, buant yn fflangell drom a dinystriol i'r Chiniaid. Eithr tua chan mlynedd cyn dyfodiad Crist yn y cnawd, hwy a orchfygwyd ac a ddarostyngwyd gan amherawdwr Chiniaidd, fel y buwyd agos i ddileu eu coffadwriaeth oddi ar y ddaear. Llwythau o honynt a enciliasant y pryd hwnw i Dacia, a thua glanâu yr afon Danube; a daeth rhai o honynt mor bell â Panonia. Hiliasant ac ymgryfhasant; a dechreuasant hynodi eu hunain yn eu rhyfel-gyrchoedd, er difrodi eu cymmydogion, tua'r ail a'r trydydd canrif. Yn y canrif hwn, yn amser teyrnasiad Theodosius, yr ail amherawdwr dwyreiniol, yr hwn a eisteddai ar orsedd Caer-Cystenyn, unasant o dan lywodraeth un Attila, yr hwn a hanai o un o'u prif deuluoedd, fel eu brenin.‡ Arweiniai hwn ryw luoedd aneirif o honynt i'r maes, fel y dywedir fod eu saethau yn tywyllu yr awyr, gan eu hamlder; ac yr oeddynt mor

* Er mwyn i'r darllenydd weled pa fath ysbryd erledigaethus a lywodraethai ddynion y pryd hwnw, a'r mawr niwaid o sêl bleidiol, rhoddir i lawr yma dalfyriad byr o'r cyfreithiau a roddwyd allan gan Honorius.

Mewn attebiad i ofyniad o eiddo Aurelian, rhaglaw Affrica, enfyn Honorius yr un ganlynol:—

"Arcadius a Honorius, yr amherawdwyr, at Aurelian, rhaglaw Affrica.

"Cofrestrir yn mysg hereticiaid, y rhai a geir yn gŵyro oddi wrth farn neu fuchedd y grefydd gatholig; a dylent blygu dan geryddon gosodedig y deddfau cospol: felly gall eich profiad wybod fod Euresius yn hereticiaidd.

"Dyddiwyd Medi 3, 395."

"Honorius a Theodosius II. yr amherawdwyr, at Heraclianus, rhaglaw Affrica.

"Gwybydded pawb a ddirgel ymlusgant, yn groes i'r sanctaidd gyfraith, i ryw gyssegr neilldduedig, i gyflawni eu defodau hereticiaidd a choel-grefyddol, y cospir hwy âg alltudiaeth ac âg angau, os rhaglaw yr anturiant gyfarfod felly, yn ol rhyfyg eu drygioni meilldigedig.

"Dyddiwyd Medi 8, 410."

"Honorius a Theodosius II. yr amherawdwyr, at Heraclianus, rhaglaw Affrica.

"Gwybydded pawb a ddirgel ymlusgant, yn groes i'r wir sanctaidd gyfraith, at ddefodau eu heresiau coel-grefyddol, y cospir hwy âg alltudiaeth ac âg angau, os rhaglaw y rhyfygant gyfarfod yn gyhoeddus, i arfer y fath ddrwg, rhag i wylder gwir dduwiol, trwy bla o'r fath, gael ei lygru.

"Dyddiwyd Medi 8, 415.

† Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 412—414. ‡ Ibid, p. 344.

hoff o feirch, fel y cynnwysai eu byddin yn aml fwy na dau can mil o wyr meirch.* Ar eu meirch y cysgent, y bwyttaent eu bwyd, y cyhoeddent ryfel, ac yr ammodent heddwch.

Attila a arweiniodd ei fyddin fuddugoliaethus trwy Persia, Media, Cappadocia, hyd yr India; a dychwelodd yn erbyn Thracia, Macedonia, a Groeg, a pharthau eraill o'r amherodraeth ddwyreiniol; gan osod y gwledydd yn ddifrod, a'u gwneuthur yn anialwch, trwy ladd, llosgi, ac yspeilio yr hyn a ddeuent o hyd iddo. Byddai efe a'i luoedd ar eu meirch cyflym yn dyfod ar warthaf eu gelynion, cyn y meddylient eu bod yn agos; a tharawent y gwledydd â'r fath ddychryn, fel nad oedd braidd neb a safai o'u blaen. Yn y diwedd, gorfu ar Theodosius brynu yr heddwch mwyaf cywilyddus gan y barbariad, trwy ymostwng i'w ammodau, a thalu iddo swm mawr o arian yn flynyddol. Gwanhaodd a darostyngodd Attila yr amherodraeth ddwyreiniol, gan ei gwaghau o ddynion a meddiannau; a gosododd hi dan deyrnged—er na fynai llŷs Caer-Cystenyn addef hyn; eithr galwent yr arian a delid iddo yn wobr cynghreiriol, yn hytrach na theyrnged. Eithr brenin yr Huniaid oedd fel arall, yn edrych ar Theodosius ei hun ddim yn amgenach na'i gaethwas, o fewn ei balas amherodrol yn Caer-Cystenyn.

Attila, wedi derbyn rhyw sarhad oddi wrth amherawdwr y gorllewin, a wynebodd tua Gaul, gyda saith can mil o wyr yn dwyn arfau, gan osod yr holl ddinasoedd yn anrhaith o'i flaen. Ætius oedd wedi ei ddyrchafu i'r anrhydedd mwyaf, fel y dyledogwr penaf, yn brif weinidog yn llŷs Valentinian, ac yn faes-lywydd holl fyddinoedd yr amherodraeth, y pryd hwnw. Efe a wnaeth bob egni a fedrai i'w wrthsefyll, gan gasglu yn nghyd holl luoedd yr amherodraeth, ac uno âg ef gynghreirwyr, trwy resymau a gwobrwyau. Y Gothiaid deheuol oeddynt y pryd hwnw wedi ymsefydlu yn deyrnas gadarn yn y rhanau deheuol o Gaul, dan lywodraeth Theodoric, mab i Alaric gynt, yr hwn a ystyrid yn dywysog hynod o rinweddol a nerthol. Hwn oedd yr amser hwnw mewn rhyfel â'r Vandaliaid; ac o herwydd iddynt hwy uno gyda'r Huniaid, bu yn lled hawdd i Ætius gael y Gothiaid o'i blaid, pa rai a fu yn brif nerth i'w fyddin, i wynebu y fath elyn ofnadwy. Cyfarfu y byddinoedd â'u gilydd yn maesydd gwastad Chalons, o fewn gwlad Champagne, yn Gaul—cyfarfod na bu ei echryslonach er dechreuad amser, fel y dywedir fod yr holl wyr a allai ddwyn arfau, o afon Volga hyd fôr mawr y Werydd, wedi dyfod yn nghyd ar y maes gwaedlyd. Cymmerodd y frwydr le, a dygwyd hi yn mlaen yn y modd mwyaf ysgeler ag y medrai cynddaredd dynion a medrusrwydd rhyfelgar ei wneud. Gyda golwg ar yr hyn oedd yn cymmeryd lle, dywedai y bobl fod yn mryd y brenhinoedd i ddifa holl ddynion y byd mewn un awr! Parhaodd y frwydr trwy y dydd; eithr Attila a orchfygwyd, er na wyddys o ba du y bu'r dinystr mwyaf.

Gwedi i'r Gothiaid, dan dywysiad Theodoric, wneuthur grymusder mawr, efe a laddwyd, er galar i'w ddeiliaid, yn nydd y frwydr. Y rhai mwyaf cymhedrol a farnant i gant a hanner o filoedd, o leiaf, syrthio, y dydd hwnw, trwy y cleddyf, yn feirwon ar y maes! eraill a ddywedant i fwy na thri chan mil o'r rhyw ddynol gael eu difrodi yn y frwydr honno!! Eithr ni chollodd Attila ei anrhydedd, fel milwr, na'i wroldeb, na'i awydd rhyfelgar ac ysglyfaethus, trwy yr ymladdfa honno. Canys efe a enciliodd yn ol ar yr Ital, mewn eithaf ffyrnigrwydd, ac a osododd yr holl ddinasoedd hardd-

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 340.

wych, a'r gwledydd breision, o fynyddoedd yr Apennines hyd fynyddoedd yr Alps, yn ddiffeithwch. Aquileia, yr hon oedd un o'r dinasoedd enwoccaf, mwyaf ei chyfoeth, lluosoccaf ei phobl, a chadarnaf ei muriau yn Europe, a osodwyd ganddo yn gydwastad â'r llawr, fel na wyddai yr oesoedd dilynol yn mha le y safui. Hefyd, Altrum, Concordia, a Padua, y rhai oeddynt ddinasoedd poblog, a ddymchwelwyd ganddo yn dyrrau lludwog ac yn feini annhrefnus. Verenza, Verona, a Bergamo, ni ddiangasant nemawr gwell: a Milan a Pavia a lwyr anrheithiwyd ac a yspeiliwyd ganddo. Bygythiodd, a neshaodd at Rufain ei hun; eithr cennadwyr oddi wrth yr amherawdwr a'i hattaliasant ef, trwy addaw iddo unrhyw ammodau a fynnai am sefyll draw ac ymadael â'r Ital. Y cynghreirwyr gydag Ætius a'i gwrthsafasant yn Gaul, ni ddeuent i rŷfel yn ei erbyn yn yr Ital; ac nid oedd yr hyn a allai Ætius godi o'r Rhufeiniaid hunan-ddinystriol ddim tu ag at allu ei wrthsefyll, er holl egni y maes-lywydd. Ond nid anhawdd oedd ei ddarbwyllo i beidio â Rhufain; canys dywedid iddo na bu Alaric byth yn llwyddiannus, na byw yn hir, wedi iddo anrheithio y ddinas honno. Fel hyn, gwelir fod tymmer goel-grefyddol yn wasanaethgar i Rufain y pryd hwnw, beth bynag a wnaeth iddi ar amseroedd eraill. Pan yn ymadael â'r Ital y tro hwn, dywedai, oni roddent hwy y dywysoges Honoria iddo yn wraig, yn ddiau y dychwelai yn fuan, ac na adawai i un o honynt anadlu, na dinas o'r eiddynt ar ei sylfaenau. Honoria oedd yn chwaer i Valentian, yr amherawdwr, yr hon oedd wedi ymbriodi yn ddirprwyol âg Attila; eithr ystyriai llŷs Ravenna hyny yn ormod dianrhydedd iddynt, sef rhoddi un o'u tywysogesau yn wraig i'r fath farbariad â hwnw—hyn a fu yn esgus o'r holl dywallt gwaed yma.

Ni chydsyniodd y llŷs â'i archiad; ac Attila ni allodd gyflawni ei air; canys yn ddisymmwth gorfu arno sefyll o flaen ei Farnwr, mewn byd arall. Pan wedi bod yn cynnal gwledd priodas a gymmerasai le rhyngddo ef âg un arall—canys yr oedd iddo amryw o wragedd—gyda llawer o rwysgfawredd, yn ol eu trefn farbaraidd hwy, y noson honno, yn ei wely, gafaelodd angau ynddo, trwy i un o'i lestri gwaed rwygo, fel y trengodd cyn y bore. Gwedi ei farwolaeth, cododd anghydfod rhwng llywyddion y fyddin, a'i feibion, yn nghylch y flaenoriaeth, fel yr ymranasant ac yr ymroddasant i ddinystrio eu gilydd. Yn wyneb hyn, llawer o honynt a enciliasant yn ol i'w hen wlad, Dacia, os nid yn mhellach; eraill a arosasant yn y rhanau hyny a elwir yn bresennol Hungary. Dyma ddechreu y deyrnas sydd yn dwyn yr enw hwn yn awr, er yr amheuir ai oddi wrthynt hwy y derbyniodd y lle yr enw. Meddylir mai dyma gynnwysiad y farn a arwyddir trwy udganiad yr ail udgorn yn llyfr y Dadguddiad. *Gelwir Attila yn ffiangell Duw, ac yn ddychryn dynion.**

Y Vandaliaid oeddynt genedl greulawn, anwaraidd, a rhyfelgar, deilliedig ar y cyntaf o'r un gwledydd â'r Gothiaid, os nad oeddynt, fel y barna rhai, yr un â hwy yn y dechreuad. Gwedi ymgrwydro am draws taleithiau yr amherodraeth dros ryw gymmaint o amser, hwy a sefydlasant yn yr Hispaen. Weithiau hwy a fyddent o du y Rhufeiniaid, bryd arall yn eu herbyn. Gorchfygasant y Sueviaid a breswylient y wlad honno; ac ennillasasant drigle yr Alaniaid, y rhai oeddynt genedl grwydraidd luosog yn y parthau hyny, ac a unasant â hwy. Ar ddeisyfiad Boniface, un o raglaw-

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. i. p. 368—378.

iaid Rhufain, ag oedd yn Affrica, yr hwn a dramgwyddasai wrth Ætius, prif weinidog llŷs Valentinian, y Vandaliaid a'u cynghreirwyr a aethant dros gyfyngfor Gibralter i Affrica, dan dywysiad Genseric eu blaenor. Nid oeddynt y pryd hwnw dros bedwar ugain mil o wyr yn dwyn arfau. Meddiannasant Mauritiana tua'r flwyddyn 427.

Y parthau hyny o Affrica lle bu Carthage gynt, rhan o ba un sydd yn awr yn meddiant Algiers, oedd yn un o'r gwledydd mwyaf poblogaidd cyn dyfodiad y Vandaliaid yno: cynnwysai saith cant o esgobaethau poblogaidd—amlach rhifedi nag oedd yn yr Ital, Gaul, a'r Hispaen. Eithr trwy eu hysgelerder hwy, a'u hirfaith ryfel â'r Rhufeiniaid, ac wedi hyny â'r Mooriaid, trigolion cyntefig y gwledydd, diboblogwyd hwy gymmaint, fel yr oedd yn beth nesaf i wyrthiol i weled dyn byw ynddynt, medd un Procopius! Y parthau hyny o Affrica o Tangier hyd Tripoli, oeddynt y lleoedd mwyaf toreithiog am ŷd bara, ag oedd yn adnabyddus trwy y byd y dyddiau dan sylw, fel eu gelwid yn drysordai Rhufain. Ond pan eu meddiannwyd gan y llwythau barbaraidd hyn, nad arferasent erioed drin y ddaear, ond byw trwy rym y cleddyf, newidiasant eu gwedd hawddgar, fel y daeth gwledydd ffrwythlon i fod yn anialwch diffaith, er mawr golled i lawer o drigolion y ddaear. Ystyriai Genseric y rhai hyny a ymostyngent yn ewyllysgar i'w awdurdod, yn wrthddrychau teilwng o'i nawdd; eithr pwy bynag a'i gwrthwynebai, a aberthid i'w gleddyf yn ddiarbed: a pha ddinas bynag a ymagorai i'w dderbyn yn rhwydd, a arbedid; ond yr hon a'i gwrthsafai, fel y collid gwaed neb o'r Vandaliaid wrth ei hennill, dedfrydid y cyfryw i lwyr ddinystr.

Ysbryd erlidus yr eglwys a elwid yn gyffredinol, a'r cyfreithiau caethion a wnaeth Honorius, fel ei noddwr, a'r modd creulawn yr erlidiau y Donatiaid, a phawb a ymadawai â'i grêd ef, oedd yr hyn a hwylusodd lawer ar fuddugoliaeth Genseric yn Affrica: canys yr oedd llawer o ymneillduwyr yn y gwledydd yma y pryd hwnw. Yn y flwyddyn 410, Honorius a orchymynodd ar i holl esgobion y Donatiaid ymgasglu yn nghyd yn Carthage, mewn cynnadledd, er heddychu a gwneuthur undeb rhyngddynt hwy a'r eglwys gyffredinol. Ond erbyn eu dyfod yno, tua thri chant o honynt, a llawer o weinidogion eraill, yn hollol ddifeddwl o neb drygau, cawsai swyddogion y ddinas orchymyn i'w gosod oll mewn dalfa, onid arwyddent eu cydsyniad hollol â chredoau yr eglwys gyffredinol. Mewn canlyniad, ugeiniau lawer o'r rhai hyn a alltudiwyd i bellder o dir eu gwlad, gan orfod dyoddef pob triniaeth galed, fel caeth-weision; eraill a gydsyniasant, mewn enw ac ymddangosiad, ond a gasasant y llywodraeth a'r eglwys, ag oedd yn ymarddelwi y fath hawl, ac yn cyflawni y fath weithredoedd, yn fwy nag erioed: pan yr ymegniodd eraill i ddiangc ac ymguddio; eithr dilynwyd hwy â'r cyfreithiau, gan gynnyg swm mawr o arian am ddadguddio yn mha le y byddent. Eu cynnulleidfaoedd lluosog, mewn dinasoedd a gwledydd, a wasgarwyd; amddifedid hwy o bob breintiau gwladol a chrefyddol, os parhaent i gyfarfod mewn unrhyw le yn ymneillduedig; a dirwyid y sawl bynag a gaid wedi ymgynnull, yn amgen i'r dull trefniedig i addoli yn ol y gyfraith wladol, o ddeg hyd gant o bwysau o arian: ac os troseddent amryw weithiau, yr oeddynt i'w dwyn ger bron y swyddogion, i dderbyn y ddedryd a farnai y llŷs amherodrol yn addas, er darostwng eu cyndynrwydd. Trwy y mesurau gerwin a chreulawn hyn, pa rai, er galar y dywedwn, a dderbyniasant gymmeradwyaeth Awstin, gyrwyd llawer o'r Donatiaid i wallgof-

rwydd, fel y codasant arfau dinystriol yn erbyn eu herlidwyr—felly, y gwledydd oeddynt yn un golygfa o ryfel cartrefol pan ddaeth Genseric yno.* Hwn, y pryd yma, oedd yn Ariad; a'i fyddin, gan mwyaf, oeddynt yn Ariaid. Er nad oedd efe o'r un grêd â'r Donatiaid, etto cyhoeddodd ei hun yn waredwr ac yn noddwr iddynt; o ganlyniad, ymdyrasant o dan ei lumanau; a buant yn wasanaethgar iddo ef i gael ei amcan, ac yntau a fu dda wrthynt hwythau—mor bell â rhoddi iddynt ddihangfa rhag fflangel Honorius.

Y fath oedd gwendid llywodraeth Valentinian, fel y dygid holl achosion y wladwriaeth yn mlaen yn gwbl dan olygiaeth Placidia ei fam, yr hon ni feddai gallineb na medrusrwydd priodol i lenwi ei sefyllfa, gydag un anrhydedd, ond fel y cyfarwyddid hi gan Ætius a Boniface, ei dau brif swyddog—pa rai oeddynt y diweddaf o'r swyddwyr Rhufeinaidd a ymddengys fod ynddynt ddim, mewn llŷs nac mewn byddin, yn teilyngu yr enw. Tra yr oeddynt hwy eill dau mewn undeb a chydweithrediad â'u gilydd, cynnalient yr amherodraeth ŵyredig rhag syrthio yn ddarnau. Ond eu cenfigen, eu hamryson, a'u gwrthwynebiad i'w gilydd, a fu yn foddion i'w dwyn i ddinystr buan. Ætius gyfrwysgall, er dinystrio ei gyd-swyddog, a lwyddodd i ddwyn Placidia i gredu fod Boniface, rhaglaw Affrica, yn chwennych gosod y goron ar ei ben ei hun, ac yn darparu at hyny; pan ar yr un pryd y dygodd efe Boniface i wrthsefyll Placidia, ac anufuddhau iddi, gan ei ddwyn i gredu ei bod hi yn bwriadu dwyn ymaith ei ben. Hyn a'i gyrodd ef i geisio nodded y Vandaliaid, gan eu gwahodd drosodd i Affrica, yr hyn, mewn ystyr helaeth, a fu yn ddinystr i'r holl amherodraeth. Etto buan y gwelodd Boniface ei gamsyniad, gan iddo gael ei adferu i heddwch Placidia; ac er gwneud pob ymdrech mewn trefn i gael gwared o'i gyfeillion annymunol, y Vandaliad sàrug nid ymadawai, er gwerth nac er gwobr; a'r gwrthwynebiad a wnaed iddo mewn rhyfel gan Boniface, ni wnaeth ond ei yrru i gyrhaedd ei fuddugoliaethau yn gyflymach: canys gwelodd yn fuan yr angenrheidrwydd o orchfygu holl Affrica iddo ei hun, neu oddef cael ei ymlid ymaith gan luoedd Rhufeinaidd.

Yn y flwyddyn 431, gwarchaeodd ar Hippo, y ddinas lle yr oedd yr hyglod Awstin, yr hwn a fu farw ychydig o fisoedd cyn i Genseric ei chymmeryd a'i gosod yn ddifrod. Gwedi hyn, yn y flwyddyn 439, ennillodd Carthage: a'r holl wledydd a'r dinasoedd a berthynent i'r Rhufeiniaid a syrthiasant i'w law; a gosododd bawb a allai ddyfod o hyd iddynt i fin y cleddyf. Anhawdd yw cael geiriau i osod allan yr anrhaith a wnaed ar feddiannau a bywydau dynion, o bob gradd a sefyllfa, trwy yr holl wledydd hyn, y rhai oeddynt cyn amled, a chyn lluosocced eu trigolion. Ystyrid y parthau yma y gorau a berthynai i'r amherodraeth. Gwedi adnewyddu a dyrchafu Carthage dan lywodraeth y Rhufeiniaid, edrychid arni fel un o'r dinasoedd penaf—nesaf at Rufain ei hun. Eithr trwy y rhyfel-gyrch hwn, hwy a ddarostyngwyd i'r iselder mwyaf: llawer a fagesid yn dywysogaidd, yn gorfod ffoi ar hyd y gwledydd, i gardotta eu bara; pan yr oedd rhai yn cael eu gwerthu i genedl estronol yn gaeth-weision; a thra y gorfyddai eraill ymostwng i lywodraeth erwin a gormesol y creulawn Genseric. Ymddengys mai efe oedd y mwyaf amddifad o bob rhinwedd o neb o ddinystrwyr yr amherodraeth, eithr y llawnaf o gyfrwysdra dichell-ddrwg,

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. 2, p. 334.

ystrangciau twyllodrus, creulondeb, a balchder. Esgynodd i'r orsedd trwy osod holl deulu Goderic, ei frawd a'i ragflaenor, i farwolaeth, yn nghyd â llawer eraill, ag oedd yn adnabyddus o'i ddechreuad basdarddaidd. Tra dychrynllyd a fu ei deyrnasiad i'r holl amherodraeth.

Yn y flwyddyn 455, rhoddwyd Valentinian i farwolaeth gan un Maximus, yr hwn a ddaeth i'r llywodraeth ar ei ol. Er mwyn sicrhau yr orsedd, fel y tybiai, efe a wnaeth i Euxodia, gweddw yr amherawdwr trangcedig, ei briodi ef, a rhoddi ei merch i'w fab. Ond, er hyny, Euxodia oedd yn llawn o deimladau dialgar tu ag at y llofrudd a thraws-feddiannydd y goron; ac edrychai i bob lle am ryw un i weini dial arno. Nid oedd gwiw iddi wynebu i'r dwyrain am gymmorth; canys ei thad a'i modryb oeddynt wedi gorfod gadael gorsedd Caer-Cystenyn, trwy farwolaeth, a'i mam oedd ddeoledig tua Chaersalem. Yn wyneb yr amgylchiadau, gan hyny, hi a edrychodd tua Charthage; a gosododd ei chwyn yn gyfrinachol o flaen Genseric. Efe yn llawen a dderbyniodd y cynnyg, gan y gosodai hyny liw o gyfiawnder ar ei ymosodiad yn erbyn Rhufain. Brysiodd, a dygodd allan o borthladd Carthage y fath lynges, ag oedd ddigonol, fel gynt, i ysgubo holl fôr y Canoldir; a hwyliodd drosodd tua'r Ital. Yn fuan wedi angori yn mhorthladd Ostia, tiriodd ei fyddin o dri chan mil o wyr, rhwng Vandaliaid a Mooriaid; ac, ychydig wedi hyn, ymddangosasant o flaen Rhufain.

Erbyn hyn yr oedd Euxodia yn dechreu gweled ei chamsyniad. Maximus a osodwyd i farwolaeth, yn y modd mwyaf anmharchus, gan ei ddeiliaid ei hun. Y mae Maximus yn un prawf o lawer, o'r anghymmwysder fod dynion yn ymwthio i sefyllfa nad yw yn gweddu iddynt. Yr oedd efe yn ddinasydd o'r enwoccaf a'r dedwyddaf, ac yn llenwi ei le fel prif gynghorydd a rhaglaw yn y wladwriaeth; eithr y dydd y gwisgodd efe y goron, oedd dydd diweddaf ei hawddfyd a'i ddefnyddioldeb. Syrthiodd yn union i waelder; a chyfarfu â'r angau mwyaf gwarthus o fewn tri mis wedi ei goroniad, a thaflwyd ei gorph i'r afon Tiber.

Gwedi i Genseric ymddangos o flaen y ddinas, heb lywydd ynddi y pryd hwnw, â'i lu arfog, er ei syndod, ni anfonwyd allan fyddin arfog i'w wrthsefyll: eithr Leo, y tad sanctaidd, a llu o offeiriaid, a ddaethant allan i'w gyfarfod, yn eu gwisgoedd offeiriadol, er ceisio dofi ei gynddaredd trwy ffraethder a hyawdledd eu hareithiau. Ond y pethau hyn nid effeithient nemawr ar ysbryd llewaidd y barbariad buddugoliaethus, a'r lluaws Mooriaid a'i dilynent, pa rai erbyn hyn a gynhyrfid i ymddial, wrth gofio y driniaeth greulawn a dderbyniasai eu hynafiaid hwy yn Carthage, oddi wrth y Rhufeiniaid, pan y gorchfygwyd hi gan Scipio. Er i Genseric wneuthur rhyw fath o addewidion, sef na byddai i neb bywydau gael eu colli, na meddiannau eu hysglyfaethu, os na wrthwynebid ef; ac na ddinystrid adeiladau yn y ddinas; etto ni phrisiai efe, un amser, ond ychydig am y cyfryw, yn rhagor nag y byddai yn gyfleus iddo ei hun i'w cadw. Rhoddwyd y ddinas i fynu yn hollol i nwydau trachwantus a thueddiadau llygredig y milwyr am bedwar diwrnod a phedair nos ar ddeg. Yn yspaid y blynyddau a aethent heibio er pan yr ymwelasai Alaric a'i luoedd dinystriol â Rhufain, yr oedd y ddinas wedi mawr adnewyddu, mewn cyfoeth a phob llawnder—gan mai hi oedd yr unig un, agos, a ddiangasai yn yr Ital rhag y difrod a wnaethai yr Huniaid trwy yr holl wlad; pryd y ffôdd llawer o drigolion y rhai hyny iddi, gan drosglwyddo yr hyn a allent o'u cyfoeth yno i'w ddiogelu. Gwedi myned o'r llu mawr a barbaraidd hwn i mewn i'r ddinas, pwy a all draethu nac amgyffred yr olygfa a ganlynodd! Nid oedd bywydau na meddiannau

gwreng na bonedd yn ddiogel, nac annedd i'w cadw rhag y gelyn. Y cyfoeth oll, cyssegredig a phersonol, yn gystal ag eiddo y cyffredin, a ysglyfaethid yn ddiarbed. Y rhywiogaeth brydweddol, yn ddiwahaniaeth, a ddarostyngent i'w nwydau anianol a llygredig.

Er fod y Rhufeiniaid mewn prinder mawr am aur ac arian, i ddwyn yn mlaen eu rhyfeloedd, etto nid oeddynt wedi cyffwrdd â'r hyn a alwent yn eiddo cyssegredig. Y lleoedd addoliad oeddynt wedi eu hanrhydeddu â llawer o roddion amherodrol, mewn llestri aur, arian, ac addurniadau gwerthfawr: ac er fod eilun-addoliaeth wedi ei wahardd trwy gyfraith, etto yr oedd llawer o'r delwau aur a'r dodrefn gwerthfawr yn y temlau, wedi eu cadw yn ddiogel hyd yn hyn. Hefyd yr oedd dodrefn gwerthfawr teml Caersalem, y rhai a ddygwyd oddi yno gan Titus, wedi eu rhoddi a'u cadw yn ddiogel yn nheml heddwch Rhufain, hyd ddyfodiad Genseric yno. Yma yr oedd y canwyllbren aur, y bwrdd, a'r holl lestri gwerthfawr perthynol i'r gwasanaeth Iuddewig. Yr oedd rhai o honynt, hwyrach, er amser Moses a Solomon; canys dychwelwyd y rhan fwyaf o'r rhai a aethent i Babilon yn eu hol. Eithr cymmerwyd y cyfan ymaith gan y Vandaliaid i Carthage; ac yno y buant hyd oni ennillwyd y lle gan Belisarius, yr hwn a'u dygodd i Gaer-Cystenyn—ac oddi yno dygwyd hwy i Gaersalem drachefn. Yr holl aur, yr arian, y meini gwerthfawr, y perlau drudfawr, a'r dodrefn harddwych, ac hyd yn nod y prês a allai gael gafael ynddo, a ddygodd efe ymaith. Gorfu ar Euxodia roddi i fynu i'w ffug-waredwr ei modrwyau a'i thlysau personol; a chymmerwyd hi a'i dwy ferch, yn mhlith y rhifedi aneirif o gaethion, a ddygwyd ymaith gan y buddugoliaethwr, i Affrica. A chymmerodd yr holl longau a feddai y Rhufeiniaid yn mhorthladd Tiber, i drosglwyddo ymaith yr anrhaith a'r caethion rhyfel. Gan amlder y caethion lleihawyd y pris, fel nad oedd braidd ddim i'w gael am danynt trwy holl farchnad-leoedd Affrica.*

Pwy a ddichon draethu na dirnad y difrod, y dinystr, y traba, a'r pruddder y mae rhyfeloedd yn ddwyn! Wele yma deuluoedd, o'r bwthyn gwrengaidd hyd balas y brenin, yn cael eu cymmeryd yn gaethion; ïe, y rhai a fagwyd yn unol a chynnes gyda eu gilydd, yn cael eu hysgaru! Y wraig anwyl yn cael ei chymmeryd ymaith o fynwes ei phriod serchog! a'r plant y rhai a feithrinwyd yn dyner, a gymmerid ymaith o freichiau eu rhieni cariadlawn, yn rhaniad yr yspail, er eu gwerthu a'u gyrru ar wahân i bellder daear! Deogratias, esgob Carthage, a wnaeth yr hyn a allai, hyd eithaf ei feddiannau, a meddiannau yr eglwys, er prynu rhyddid nifer mawr o honynt, a'u hamgeleddu; eithr o herwydd gormes parhaus y Vandaliaid yn Affrica, nid oedd ei allu ond ychydig, mewn cymhariaeth.

Gwedi hyn, Genseric a dramwyodd y moroedd yn fuddugoliaethus, gan anrheithio Pampina, Sicily, &c., fel yr oedd ei enw yn ddychryn i breswylwyr glanau y môr, o gyrau pellaf yr amherodraeth ddwyreiniol, hyd derfynau eithaf yr un orllewinol. Er ei wrthsefyll gan Majorian, yr hwn a deyrnasai ar yr amherodraeth orllewinol, gyda llu mawr a llynges gref, etto gorchfygodd hwy, fel y dinystriodd mewn un dydd, trwy nerth a thrwy dwyll, ddarpariaeth llawer o flynyddau. Leo, amherawdwr Caer-Cystenyn, a aeth i draul o fwy na phum miliwn o bunnau o'n harian ni, er parottoi llynges o un cant ar ddeg a thair ar ddeg o longau rhyfel, a byddin gyfat-

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 383—396.

tebol, er ei orchfygu, pa rai a anfonodd tua Charthage, dan dywysiad Basilicus. Hwn a'u dygodd i angori mewn rhan o Affrica, nid yn neppell o Carthage, gan feddwl tirio ei fyddin yno: eithr trwy gyfrwysdra Genseric, rhoddwyd hwy oll ar dân, a braidd y dihangodd ychydig yn ngweddill o honynt yn ol i Gaer-Cystenyn, i adrodd pa fodd y bu arnynt.*

Genseric a fu byw hyd hen ddyddiau; a chwedi ei farwolaeth, Heneric ei fab a deyrnasodd yn ei le, yr hwn oedd yn llawn mor greulawn ag y bu yntau erioed. Yr oeddynt eill dau yn proffesu Ariaeth; ond y gelynion mwyaf erledigaethus a gwaedlyd a fu yn y byd erioed i'r Cristionogion uniawn-gred oeddynt.

Yn nheyrnasiad Justinian, amherawdwr Caer-Cystenyn, yn y chwechfed canrif, llwyr orchfygwyd y Vandaliaid, a dilewyd eu henw bron oddi ar y ddaear, fel y ceir etto achos i sylwi.

Ystyrir yn gyffredin mai y Vandaliaid, yn nghyd â'u blaenoriaid gwaedlyd, oedd cynnwysiad y farn a arwyddocceir trwy udganiad y trydydd udgorn yn llyfr y Dadguddiad.

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 403.

PENNOD XXVII.

Lle y traethir am fawr Ddirywiad a Gwanychiad Amherodraeth y Dwyrain yn nheyrnasiad Arcadius, Theodosius yr ail, Marcian, Leo, a Zeno—Hollol Ddiléad Amherodraeth y Gorllewin gan Odoacer, brenin yr Heruliaid—Ennilliad yr Ital gan Theodoric, brenin y Gothiaid, a'i Sefydliad yno—Amgylchiadau rhanedig ac isel yr Eglwys yn y dwyrain a'r gorllewin—Ymraniad Amherodraeth y Gorllewin, a Chodiad i fynu amryw Deyrnasoedd ar ei hadfail—yr Achosion o'i hymddattodiad.

Dywedwyd yn barod mai Arcadius oedd yn teyrnasu ar y rhan ddwyreiniol o'r amherodraeth yn nechreuad y canrif hwn. Nid oedd efe fymryn callach, gwrolach, na chymmwysach ei ymddygiadau tywysogaidd na'i frawd Honorius, ac ni bu ei lywodraeth yn fwy llwyddiannus. Ei eunuchiaid ysglyfaethgar, a'i brif weinidogion hunan-geisiol, a gymmerasant fantais ar ei wendid, i weithredu pob trais, gormes, ac anghyfiawnder yn ei deyrnas, a dybient a fyddai er eu dyrchafiad hwy, mewn cyfoeth ac anrhydedd, ar draul rhinwedd a dedwyddwch y deiliaid. Gwedi symmud ymaith Ruffinus uchel-geisiol a bradychus, Eutropius yr eunuchiad, yr hwn oedd o ddechreuad gwael, a godwyd i fynu i lenwi ei le, ac a ddilynodd ei gerddediad yn gwbl yn ei holl ffyrdd drygionus. Dyrchafiad y cyfryw, yn fynych, yw yr annedwydd ganlyniad o fod tywysogion yn methu deall y gwahaniaeth rhwng gwir rinwedd yn eu gweinidogion, a'u hymddangosiad gwenieithgar. Nid yn unig yr oedd yn beth annyoddefol i'r Rhufeiniaid weled eunuchiad, a werthasid lawer gwaith o'r naill berchenog i'r llall yn gaethwas, wedi ei ddyrchafu i'r swydd a'r sefyllfa uchaf yn yr amherodraeth, fel y llywodraethai yr amherawdwr a holl achosion y llywodraeth, ond hefyd ei drais a gormes ei weinidogaeth oedd yn anhyddwyn. Er dangos mawredd ei ddrygioni, a gwendid y tywysog a gymmerai ei lywodraethu gan y fath swyddwr, sylwir ar yr hyn a ddywed Claudian, prydydd ac hanesydd ag oedd yn byw tua'r amser hwnw. "Nid oedd," medd ef, "holl fawredd a gallu yr eunuchiad ond gwasanaethu a chynhyrfu ei chwantau cybyddlyd ei hunan yn unig. Yr un llaw ag oedd ganddo yn ei sefyllfa wasaidd, yn cyflawni lluaws o fan ladradau, trwy dorri cloion cistiau ei arglwyddi, oedd yn awr yn crafangu am drysor yr holl fyd—llôg-fasnachwr yr amherodraeth, a brisiai ac a ranai daleithiau Rhufain, o fynydd Hæmus hyd afon Tigris. Gwnai un, ar draul ei wlatty, yn brif raglaw ar holl Asia; yr ail, ar draul tlysau ei wraig, yn feddiannol ar holl Syria; a'r trydydd, er ei fawr alar, ar draul tiriogaeth ei hynafiaid, mewn meddiant o lywodraeth Bithynia. Cadwai Eutropius yn ei rag-ystafell dafien, ar ba un yr oedd wedi llunio yn hardd, bris bob talaeth yn yr amherodraeth. Fel

hyn y chwennychai yr eunuchiad hwn ddileu ei warth ei hun, trwy waradwyddo pob un arall; ac, fel yr oedd wedi ei werthu ei hun, y dymunai werthu holl ddynion y byd, yr un modd. I'r fath waelder â hyn yr oedd enwogrwydd, gwrolder, a buddugoliaethau y Rhufeiniaid wedi cael eu dwyn."* Yr oedd nid yn unig feddianuau dynion yn cael eu rhoddi yn gyffredinol er boddhau trachwant yr eunuchiad llygredig hwn, ond hefyd bywydau y dynion mwyaf gwasanaethgar a boneddigaidd, ag oedd yn meddu ar ysbryd cyhoeddus i wrthsefyll y fath lygredigaeth, a aberthid i'w dueddiadau. Eithr cymmaint oedd ei awdurdod a'i lywodraeth ar yr amherawdwr, ac mor wresog yr amddiffynid ef, trwy hyawdledd Chrysostom, yr hwn a ddygasai efe i archesgobaeth Caer-Cystenyn, fel na ellid ei ddwyn dros hir amser i un math o brawf am ei weithredoedd. Pan unwaith yr oedd wedi cael ei ddedfrydu i golli ei fywyd, efe a ffodd at yr allor, yr hyn a ystyrid yn fath o amddiffyniad rhag colli bywyd, y pryd hwnw; esgynodd Chrysostom yr archesgob i'r gadair ymadrodd, a gwnaeth araeth hyawdl; yntau a ymddangosai yn y fath agwedd edifeiriol, dan yr allor, fel y rhoddwyd i'r yspeiliwr a'r llofrudd lawn faddeuant gan yr amherawdwr.

Gwedi i Arcadius deyrnasu—os yw y gair yn addas i'w arfer, gyda golwg arno ef—yn y modd gwaelaf, yn gwbl er gwasanaethgarwch i'w swyddogion uchel-geisiol, ac er boddhau ei wraig uchel-dremiog, am dair blynedd ar ddeg a thri mis, ac ychydig ddyddiau, efe a fu farw yn ei balas ei hun, yn Caer-Cystenyn. Y mae anhawsdra mawr, medd Gibbon, i allu rhoddi hanes cywir o Arcadius, o ran ei gymmeriad, er ei fod yn byw mewn oes, yr hon oedd yn gyflawn o ddefnyddiau hanesiol; canys ni welir gymmaint âg un weithred a ellir ei hystyried yn briodol yn eiddo iddo ei hunan.† Yr oedd iddo ddwy ferch, ac un mab, yr hwn a ddaeth i'r orsedd ar ei ol, dan yr enw Theodosius yr ail. Saith mlwydd oed oedd efe pan ddechreuodd deyrnasu; a dywedir gan amryw, i'w dad, yn ei ewyllys ddiweddaf, roddi yr amherodraeth, a gofal dygiad i fynu ei fab i'r orsedd, i law Jezdegerd, brenin Persia; yr hwn, er fod y Persiaid yn fynych mewn rhyfel â'r Rhufeiniaid, etto a gyflawnodd ei ymddiriediad gyda ffyddlondeb mawr; ond amheuir hyn yn gwbl gan eraill.

Yr oedd Theodosius yn hollol o'r un teimladau llwfr, diofal, a segurllyd â'i dad; yn treulio ei amser i ddifyru ei hun, gyda yr hyn oedd yn anmhriodol i'w swydd a'i sefyllfa. Ni amheuir gan neb haneswyr, nad oedd yn dra chrefyddol, os nid i'r eithafoedd pellaf o goel-grefyddoldeb. Helwriaeth oedd yr unig ymarferiad a'i dygai o'r tu allan i furiau ei balas. Treuliai lawer mwy o'i amser i gyfansoddi a chyfieithu rhyw lyfrau a dybiai fod yn fuddiol—yn mha orchwyl yr amcanai ddangos ei ragoroldeb—ac i wrando dadleuon a therfynu amrafaelion eglwysig rhwng esgobion ei lŷs, nag a wnai i ymdrin âg achosion yr amherodraeth, ag oedd ar syrthio yn chwilfriw. Canys dywedir iddo arwyddo llawer o ysgrifau perthynol i'r llywodraeth, heb erioed eu hedrych na chlywed eu darllen; ond gwnai bob peth er boddhau ei brif-swyddogion; a gwnaent hwythau eu gorau i'w gadw yn esmwyth ac yn anwybodus o amgylchiadau ei deyrnas. Yr oedd ganddo y llyfrgell fwyaf a llawnaf o lyfrau o un ag oedd yn y byd, y pryd hwnw—cymmaint, meddir, â'r un a feddiennid gan Ptolemais Philadelphus o'r Aipht gynt. Ymddengys ei fod yn un a gwbl ymroddai i

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 307. † Ibid, vol. ii. p. 321.

addoli y saint yn fyw ac yn farw. Llywodraethid yr amherawdwr a'r amherodraeth yn benaf gan Pulcheria, ei chwaer, yr hon a feddiannai fwy o ysbryd Theodosius Fawr, na neb o'r teulu yn y dwyrain na'r gorllewin.

Heblaw y gwanychiad a'r trallodau a fu ar yr amherodraeth yn ei deyrnasiad ef, trwy gynniweiriad yr Huniaid, a gelynion dyeithrol eraill, bu terfysg mawr trwy amryson a fu rhwng ei wraig, Eudocia, a'i chwaer Pulcheria. Pob un o'r rhywiogaeth brydweddol hyn a chwennychai esgyn i'r orsedd, a chael y llywodraeth, nes terfysgu yr holl lŷs, a dwyn rhyfel cartrefol yn mlaen, fel y collodd amryw eu bywydau; ond terfynodd trwy gyfryngoliaeth yr amherawdwr mewn buddugoliaeth o du merch Arcadius. Eudocia oedd ferch i Leontius, athronwr o Athen, a briodwyd ar y cyntaf â'r amherawdwr, trwy offerynoliaeth ei chwaer. Pan y daeth gyntaf i'r llŷs, yr oedd yn baganes o ran ei chrefydd; eithr yr oedd yn ferch o athrylithrwydd mawr, yn dwyn yr enw Athen-wraig: ond pan ddaeth i broffesu Cristionogaeth, newidiwyd ei henw.* Gwedi dyfod i broffesu Cristionogaeth, ennynodd ei sêl drosti, fel y defnyddiodd ei thalentau i gyfansoddi amryw o lyfrau, pa rai a fawrheid yn anarferol yn yr oes goel-grefyddol honno, ac nid ydynt yn hollol annheilwng o ganmoliaeth beirniaid yr oesoedd diweddarach, yn enwedig ei gwaith yn arall-eirio amryw o lyfrau yr Hen Destament mewn modd prydyddol. Dyma yr amherodres gyntaf a glywir fod yn awdures, wedi ysgrifenu ar bethau Biblaidd. Eithr ei thaith bererindodol, yn ol rhyw adduned a wnaethai, a ddengys fod ei meddwl yn llawn o rodres, rhwysgfawredd, a choeg-ymddangosiadau, anghysson iawn â gwir Gristionogaeth. Codwyd iddi orsedd o aur wedi ei haddurno â pherlau drudfawr, yn Antiochia, oddi ar ba un yr areithiodd yn hyawdl wrth y senedd. Yno, ac yn ei holl dramwyaeth trwy wlad Palestina, cyfranodd ei rhoddion wrth y miloedd, gan afradloni eiddo y deyrnas pryd nad oedd gan neb nemawr i'w hebgor. Dychwelodd adref mewn llawn boddlonrwydd meddwl, gan ddwyn gyda hi gadwynau Pedr, breichledau Stephan, a darlun o Fair y Forwyn, wedi ei wneuthur, meddid, gan Luc yr efengylwr. Gwedi ei dyfod i Gaer-Cystenyn, methodd hi a'i chwaer-yn-nghyfraith gael digon o le, a'r amrafael a soniwyd am dano, a dorrodd allan rhyngddynt. Rhoddwyd amryw o gyfeillion yr amherodres i farwolaeth; drwg-dybiaethau a lettywyd, celwyddau a ffurfiwyd, a gwaradwyddiadau a lwythwyd, dichon, yn ddiachos arni hi a'i chyfeillion. Gwnaeth hithau a allai er ad-dalu iddynt, fel y cymmerwyd ymaith fywydau llawer, trwy ffug-farnau a bradwriaethau, nes agos llenwi yr amherodraeth â therfysg.

Erfyniodd Eudocia am ganiattad i fyned tua Chaersalem drachefn, oddi ar ffordd Pulcheria, ag oedd erbyn hyn wedi cael y trechaf, trwy i Theodosius ei phleidio, yn erbyn ei wraig ei hun. Gwedi ei myned, diraddiwyd a difreintiwyd hi o bob peth a berthynai iddi fel amherodres; a threuliodd merch Leontius weddill ei bywyd gyda'r monachod a'r morwynion sanctaidd, yn ngwlad Palestina. Ar ol cael o honi fynych brofiad o gyflym gyfnewidiadau y byd hwn, bu farw Eudocia yn y seithfed flwyddyn a thriugain o'i hoedran, yn Nghaersalem, gan dystio ar ei hawr ddiweddaf, ei chwbl ddiniweidrwydd a'i dieuogrwydd oddi wrth yr anair a ymdrechwyd ei daflu arni.†

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. pp. 324, 325.

† Ibid, vol. ii. p. 326.

Gwedi teyrnasu mewn gwaelder mawr, heb fod lawer gwell na chaethwas i Attila, am bedair blynedd a deugain, bu farw Theodosius yn y ddegfed flwyddyn a deugain o'i oedran, trwy syrthio oddi ar ei farch, mewn helwriaeth. Efe a fu yn fwy llwyddiannus yn ei ryfel yn erbyn y Persiaid, nag yn erbyn y barbariaid a ymgrwydrent am draws ei amherodraeth; eithr bu ymddygiadau tirion a haelfrydig Acacius, esgob Amida, yn fwy effeithiol er gorchfygu brenin Persia, na holl arfau rhyfel y Rhufeiniaid. Pan yr oedd saith mil o'r Persiaid wedi eu cymmeryd yn gaethion rhyfel, Acacius, gyda gwroldeb meddwl, nad oedd yn gyffredin y dyddiau hyny, a werthodd y llestri aur a berthynai i'r eglwys, gan ddywedyd nad oedd ar y Duw yr hwn nid oedd yn bwytta nac yn yfed eu heisiau; a defnyddiodd eu gwerth i ryddhau y caethion, ac i'w hamgeleddu. Gwedi hyny anfonodd hwy i'w gwlad, gan eu gorchymyn i ddywedyd i'w harglwydd, mai y fath oedd effeithiau y grefydd a erlidiai efe. Mewn canlyniad i hyn, cydunwyd ar, a chadarnhawyd, ammodau heddwch, rhwng y ddwy deyrnas, am gan mlynedd, a chyflawnwyd hwy yn lled fanwl am bedwar ugain mlynedd, rhwng canlyniedyddion Cystenyn ac Artaxerxes.*

Gwedi marwolaeth Theodosius, disgynodd y llywodraeth yn gwbl ar Pulcheria, yr hon yn fuan a ddewiswyd i wisgo y goron, gan nad oedd un mab gan yr amherawdwr trangcedig. Y weithred gyntaf o uniawnder cyhoeddus a wnaeth hi, wedi esgyn i'r orsedd, oedd, gosod Chrysophius, eunuchiad drygionus, ag oedd yn brif swyddog yn llŷs ei brawd, i farwolaeth; yr hwn, trwy ei lywodraeth ar Theodosius, oedd wedi ei arwain i wneuthur llawer o bethau anghysson iawn â'i gymmeriad fel dyn, fel cristion, ac fel amherawdwr; a thrwy ei drais a'i ysglyfaethdra, wedi casglu iddo ei hun gyfoeth annherfynol, er mawr ddinystr i'r deyrnas. Dyma yr amser cyntaf y gwelwyd merch yn teyrnasu ar y Rhufeiniaid. Eithr er mwyn symmud ymaith anfoddlonrwydd y bobl, a gostegu eu cynnwrf yn erbyn hyny, Pulcheria a roddodd ei llaw mewn priodas i Marcian, seneddwr anrhydeddus, o gylch triugain oed; a gwisgwyd ef yr hwn a enwid yn wr iddi, â'r fantell ysgarlad. Yr oedd efe yn ddyn yn meddu ar lawer iawn o rinweddau tywysogaidd, yn caru heddwch, ac yn ymdrechgar am adferiad yr amherodraeth ddirywiedig, ac yn selog iawn dros unffurfiad crefyddol. Dechreuodd deyrnasu yn y flwyddyn 450. Casglodd y bedwaredd gymmanfa gyffredinol yn Chalcedon, dinas ar gyfer Caer-Cystenyn, yr ochr arall i'r Môr Du, yn y flwyddyn 451, lle yr oedd chwe chant a deg ar hugain o esgobion. Cadarnhawyd Cyffes Nicea yn hon, yn y modd mwyaf penderfynol; gwnawd cyfreithiau caethion i lywodraethu yr eglwysi; sefydlwyd fod Rhufain yn esgobaeth flaenaf, a Chaer-Cystenyn yn nesaf atti.† Haerir gan esgobion Rhufain, yr ystyrid hwy yn y gymmanfa hon yn ben ar yr holl esgobion eraill, fel y sylwir etto. Dyma yr amser hefyd y cyhuddwyd ac y dedfrydwyd Dioscorus, esgob o Alexandria, ac Eutyches, o herwydd eu barn gyfeiliornus.‡ Yr oedd Marcian a'r amherodres yn barhaus yn y gymmanfa, i roddi grym, trwy awdurdod, i'r hyn oll a wnaid yno.

Yn y flwyddyn 457, bu farw Marcian, a daeth Leo, o Thracia, yr hwn oedd yn swyddog milwraidd yn y fyddin, ac yn brif oruchwyliwr yn nheulu Aspar, a'r hwn oedd hefyd yn faes-lywydd ar holl fyddinoedd y dwyrain, i'r

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 327.

† Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 77. ‡ Ibid, vol. ii. p. 79.

orsedd yn ei le, trwy ddewisiad y milwyr a'r senedd.* Efe oedd yr amherawdwr cyntaf a goronwyd gan yr archesgob, yr hwn, trwy gyflawniad o'r ddefod hon, a fynnai i bawb gredu fod y nefoedd hefyd yn ei ddewis. Ymarddelwai amherawdwr y dwyrain yr hawl o roddi gorsedd y gorllewin i'r neb a ewyllysiai. Leo, yn awr, pan yr oedd teulu Theodosius wedi darfod, a ymegniodd i roddi y goron i Anthemius, mab Marcian, ei ragflaenor. Eithr yr oedd yr amser wedi myned yn rhy bell; a phwy bynag a gynnygai ei gwisgo hi, byddai yn angau sicr iddo yn fuan. Treuliodd Leo y rhan fwyaf o'i amser, ei wyr, a meddiannau ei deyrnas, yn anfoniad allan ei lynges arfogol yn erbyn y Vandaliaid, eithr yn aflwyddiannus: a thynodd gwmmwl tywyll ar ei deyrnasiad yn ei waith yn gosod Aspar a'i holl deulu i farwolaeth. Heblaw fod Aspar yn brif ac unig offeryn i godi Leo i'r orsedd, yr oedd efe a'i deulu, trwy eu hir a'u mawr wasanaeth i'r wladwriaeth, wedi teilyngu parch a chariad pob gwladgarwr; a phan nad oedd ond drwg-dybiaeth yn achosi eu hangau, rhaid fod gosodiad i farwolaeth y cyfryw yn eithaf annoeth, heblaw y mawr bechadurusrwydd o hyny.

Yr oedd Leo yn hynod o wresog dros benderfyniadau cymmanfa Chalcedon ac unffurfiad crefyddol, ac yn dra gerwin yn erbyn y neb a anturiai i feddwl ac ymarfer mewn pethau eglwysig yn wahanol iddo ef a gwyr ei lŷs.† Gwedi iddo deyrnasu tua dwy flynedd ar bymtheg, efe a fu farw; a gadawodd ei amherodraeth i'w nai, fab ei chwaer, yr hwn oedd blentyn ieuangc, o'r enw Zeno. Eithr ni bu efe byw flwyddyn; ac nid yw Zeno ei dad, yr hwn a esgynodd i'r orsedd ar ei ol ef, ddim heb gael ei ddrwg-dybio o achosi ei farwolaeth.

Zeno yr hynaf oedd ddyn hynod o ddrygionus, yn mhob ystyriaeth; a bu ei ddyfodiad i'r orsedd yn achos o derfysg a llawer o dywallt gwaed, trwy yr holl amherodraeth. Canys Verina, gwraig Leo, a'i brawd Basilius, yr hwn a wnaethai ei hun yn anenwog yn ei ryfelgyrch yn erbyn y Vandaliaid yn Affrica yn y teyrnasiad o'r blaen, a godasant wrthryfel yn erbyn Zeno. Yntau a enciliodd ymaith am agos i ddwy flynedd. Eithr trwy gynghrair y Gothiaid dwyreiniol, a artrefent dan lywodraeth Vlamer yn Dacia a Mœsia, â rhyw wrthryfelwyr eraill yn yr amherodraeth, Zeno a alwyd yn ol, a Basilius a'i holl deulu a roddwyd i farwolaeth, a Verina a ffôdd tua'r Aipht a Syria, pa wledydd oeddynt etto yn glynu wrth ei hachos. Gwnaeth y Gothiaid eu hunain yn enwog y pryd hwn yn myddin yr amherawdwr, trwy ba rai y darostyngodd efe ei holl elynion, ac y dygwyd achos Verina i'r dim yn y dwyrain: o herwydd paham y mabwysiadodd Zeno, Theodoric, tywysog ieuangc o'u plith, yn fab iddo ei hun, yr hwn oedd yn wystl yn y llŷs, ac a'i dyrchafodd i'r anrhydedd mwyaf a'r swyddau uwchaf, yn y wlad a'r fyddin, pa un y bydd mawr sôn am dano wedi hyn.

Yr oedd Zeno o ran ei farn grefyddol—os meddai farn am unrhyw drefn grefyddol—yn Eutychiad; plaid grefyddol ag oedd newydd godi i fynu, a olygai nad oedd y ddwy nattur yn mherson y Cyfryngwr ar wahân, eithr wedi dyfod yn un trwy yr undeb oedd yn ei berson. Trwy hyn, yr oedd yn wrthwynebwr mawr i bleidwyr cymmanfa Chalcedon, yn mha un y dedfrydwyd blaenoriaid y blaid honno; ac, mewn canlyniad, anfonwyd amryw i alltudiaeth, trwy orchymyn Marcian. Er dangos ei sêl yn eu herbyn, ac er dwyn unffurfiad crefyddol, yr hyn oedd un o brif eilunod llywodraethwyr

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 400. † Ibid, p. 403.

Rhufain yn yr oes honno, efe a ffurfiodd weithred a alwai HENOTICON, yr hon a gynnwysai brif byngciau ffydd, a rheolau ymarferiadol crefydd, pa un a gymmeradwyid ganddo ef a'i lywodraeth. Cynnygwyd hon i bawb o'i ddeiliaid, i arwyddo eu cydsyniad â hi, a'u hymostyngiad iddi: eithr er eu cymhell i wneuthur hyny, taerent y cynnwysai olygiadau y tair cymmanfa gyffredinol gyntaf a gynnaliwyd* ar holl byngciau crefydd, ond yn unig ei bod yn eu gosod allan mewn geiriau mwy eglur.† Ond pan ddeallwyd eu bod yn erbyn penderfyniadau y bedwaredd gymmanfa a gynnaliwyd yn Chalcedon, drwg-dybiwyd amcan ei chyfansoddwyr; a daeth eu twyll i'r goleu, sef, eu bod yn bwriadu eu dwyn i arwyddo cyffes Eutychiaidd, yn ddiarwybod iddynt. Gwrthodwyd y weithred gan amryw; yr hyn a'u gwnaeth yn agored i golli eu swyddau a'u sefyllfaoedd, ac i ddyoddef erledigaeth.

Gwedi i Zeno deyrnasu tua dwy flynedd ar bymtheg, gorphenodd ei yrfa warthus trwy gael ei gladdu yn fyw, pan mewn llewyg gan gynddaredd, trwy orchymyn Ariadne ei wraig. Cymmerodd hyn le tua'r flwyddyn 491. Yn fuan wedi hyny, rhoddodd Ariadne ei llaw mewn priodas i un Anastasius, henafgwr ag oedd yn un o brif weinidogion y llŷs, yr hwn a ganlynodd Zeno yn y llywodraeth; a theyrnasoedd saith mlynedd ar hugain.‡

Er i'r rhan ddwyreiniol sefyll fel hyn, yn ei dull egwan, am y canrif hwn, a'r un canlynol, heb fyned yn ddrylliau, etto y rhan orllewinol o amherodraeth fawr y Rhufeiniaid a aeth yn ddarnau; a meddianwyd y taleithiau oll gan estroniaid, o fewn i'r canrif hwn. Gan fod yr ymraniad yma a fu ar yr amherodraeth orllewinol, wedi bod, meddylir, yn destun prophwydoliaethau, mewn amryw fanau o'r ysgrythyr; a chan fod gwybodaeth o hono yn hanfodol er iawn ddeall hanesyddiaeth eglwysig, o hyny hyd heddyw, cynnygir rhai sylwadau byrion ac eglur arno, gan ddechreu yn yr Ital. Hon oedd y wlad fwyaf poblogaidd yn y byd, am oesau. Yma yr oedd y brif-ddinas fawr a arglwyddiaethai ar yr holl ddaear, yn amser yr amherawdwr Adrian. Rhanwyd y wlad hon i ddwy dalaeth ar bymtheg. Gwedi ei hanrheithio gan y Gothiaid, yr Huniaid, a'r Vandaliaid, fel y dywedwyd, daliai ei llywodraeth yn barhaus, trwy ei senedd a'i chynghorfa Rufeinig; a'r hwn a fyddai yn amherawdwr, a ystyrid yn ben iddi, heb un llywodraeth yn cael ei gosod o'i mewn. Eithr yn y flwyddyn 476, Odoacer, yr hwn a hanai o lwyth o farbariaid crwydrol a rhyfelgar, a elwid Scyrri, a gasglodd fyddin luosog o'i genedl ei hun, o'r Heruliaid, a'r Turcilingiaid, &c., ac a ddaeth ar y Rhufeiniaid, ac a'u gorchfygodd. Llywodraethid yr Ital y pryd hwn gan Orestes, fel pen-swyddog, yn enw ei fab, ag oedd newydd ei wneuthur yn amherawdwr, yr hwn a elwid Romulus Augustus, ond a enwid mewn ffordd o wawd, er dangos ei waelder, Augustulus—hwn oedd y diweddaf a alwyd yn amherawdwr yr Ital. Gwedi i Odoacer orchfygu Orestes, a'i frawd Paul, a'u lluoedd, efe a gymmerodd Augustulus yn garcharor, ac a wnaeth iddo roddi i fynu ei hawl i'r goron; dileodd y swydd amherodrol, gan ei hystyried yn afreidiol; ac a'i hanfonodd ef a'i deulu i gastell gerllaw Naples, gan roddi iddo swm o arian yn flynyddol at ei gynnaliaeth. Gwnaed Odoacer yn frenin yr Ital; ond ni chymmerai efe wisgoedd nac addurniadau brenhinol, rhag ofn rhoddi tramgwydd i'w gymmydogion, yn enwedig i Zeno, yr amherawdwr dwyreiniol, yr hwn yn barhaus a arddelwai hawl i

* Y gyntaf a gynnaliwyd yn Nicea, yn y flwyddyn 325; yr ail yn Caer-Cystenyn, 381; a'r drydedd yn Ephesus, 431.

† Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 284. ‡ Ibid, vol. iii. p. 3.

lywodraethu y gorllewin—a hyny, er mwyn heddwch, ni wadai brenin yr Ital, er nad oedd gorseddwr Caer-Cystenyn ddim gwell o'r enw.

Odoacer ydoedd farbariad hollol anwaraidd, heb ddim braidd i guddio ei noethni, ond crwyn yr anifeiliaid a laddai, heb ond ychydig driniaeth arnynt, pan ddaeth gyntaf i'r Ital; ond yn fuan dysgodd wareidd-dra a moesgarwch i raddau cryn helaeth; ac nid oedd yn ddyeithr i egwyddorion llywodraeth a chelfyddydau—yr hyn a ddengys fawredd a grym ei alluoedd naturiol, yn enwedig pan yr ystyrir ei fod ef, fel y barbariaid yn gyffredin, yn rhagfarnllyd yn erbyn dysgeidiaeth trwy lyfrau. Proffesai efe, a'i ganlynwyr, gan mwyaf, eu bod yn Grisitionogion, yn ol y farn Ariaidd; eithr trwy ba offerynau y daethant felly, sydd hollol anhysbys; ond caniattaent ryddid crefyddol i bawb. Yn mhen saith mlynedd wedi ei ddyfodiad i'r orsedd, adferodd i'r Rhufeiniaid eu breintiau gwladol—i gael eu senedd a'u cynghorfa fel o'r blaen; a llwyddai yn erbyn ei elynion ar bob llaw.

Eithr byr ac ansicr yw pob llwyddiant dynol.* Theodoric, mab Vlamer, brenin y Gothiaid Dwyreiniol *(Ostro Goths)*—yr hwn oedd o deulu Anali, y penaf yn mhlith y llwythau, a ddygwyd i fynu yn llŷs Caer-Cystenyn, ac a ddewiswyd yn frenin i'w genedl ei hun y pryd hwnw yn lle ei dad—wrth ystyried sefyllfa grwydrol, wael, a thlawd ei genedl, yn ngwledydd oerion Dacia a Mœsia, a chwennychai ei symmud i well trigfëydd. Y Gothiaid oeddynt ddynion ysgeler, a chwedi eu dysgu i ryfela yn drefnus gan y Rhufeiniaid; canys y llywodraeth a'u defnyddient weithiau i ryfela yn erbyn eu gilydd, pan y byddai llwythau o honynt yn codi mewn gwrthryfel yn erbyn yr amherodraeth; bryd arall defnyddient hwy yn eu gwasanaeth yn erbyn eu gelynion o amgylch; a lluoedd o'r rhai hyn oeddynt yn myddin Attali y Vandaliad. Theodoric, gan ei fod yn gyfaill i Zeno, yr hwn oedd yn ddyledwr yn benaf i'r Gothiaid am ei orsedd, yn Caer-Cystenyn, a ofynodd iddo am gennad i fyned i'r Ital; ac, os gallai orchfygu Odoacer, ag oedd wedi traws-feddiannu y llywodraeth, a'i fwrw ymaith, meddiannu y wlad, a chyfleu ei genedl yno, addawodd ei gydnabod ef yn amherawdwr. Zeno, yn dda ganddo y newydd, a ganiattaodd yn rhwydd; canys dechreuai ofni Theodoric, o herwydd ei boblogrwydd, a'r terfysgiadau a wnai y Gothiaid trwy yr holl amherodraeth. Dyrchafodd Theodoric ei luman; ymdyrodd yr holl Gothiaid atto, o bob man trwy yr amherodraeth, yn wyr ac yn wragedd, yn hen ac yn ieuaingc, yn dlawd ac yn gyfoethog, yn llu mawr iawn, ac a gychwynasant tua'r Ital.† Odoacer yntau a gasglodd ei fyddinoedd, ac a logodd ei gynghreirwyr, er eu gwrthsefyll yn egniol. Yr Ital drachefn a liwiwyd gan waed dynion. Gwedi amryw frwydrau celyd, Odoacer a orchfygwyd, yn y flwyddyn 490; ac efe a ffôdd i Ravenna, lle y y gwarchaewyd arno am ddwy flynedd gan Theodoric. Eithr yn y flwyddyn 493, cydunodd y ddau dywysog ar ammodau heddwch; a gwnaethwyd cynghrair rhyngddynt, yn ol pa un yr oeddynt eill dau i gyd-deyrnasu yn yr Ital. Gwedi hyn agorwyd pyrth y ddinas, a Theodoric a ddaeth i mewn yn heddychol. Ond yn mhen ychydig ddyddiau, Odoacer a roddwyd i farwolaeth, mewn gwledd a gynnelid yn nghyd gan y ddau dywysog, trwy frâd, gan rai ag oeddynt yn bresennol, eithr bernir nad heb archiad Theodoric. Fel hyn y terfynodd llywodraethiad yr Heruliaid a'r Scyrriaid yn yr Ital, yn

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 412 † Ibid, vol. iii. p. 6.

mhen pedair blynedd ar ddeg wedi ei dechreuad; a dechreuodd teyrnasiad y Gothiaid deheuol yno. Hon, bernir, yw un o'r teyrnasoedd a arwyddir trwy fysedd traed y ddelw a welodd Nebuchodonosor, ac un o'r deg corn a welodd Daniel ar ben y pedwerydd bwystfil mawr ac ofnadwy.*

Gwedi i Theodoric ynnill yr holl Ital bron iddo ei hun, efe a ymroddodd yn egniol i'w sicrhau mewn heddwch a llonyddwch, trwy wneuthur cynghrair â'r holl deyrnasoedd o'i amgylch, a dewis iddo ei hun yn swyddogion y doethaf a'r ffyddlonaf o'i ddeiliaid, er gosod i fynu lywodraeth ddaionus, a gweinyddiad cyfiawn o honi. Yr oedd efe ei hun, o ran ei farn grefyddol, yn Ariad; etto y cyfryw oedd ei gallineb, fel y caniattai gyflawn ryddid crefyddol i bawb trwy ei deyrnas. Arferai ddywedyd nad oedd yn ewyllysio i neb newid ei farn er ei fwyn ef: a dywedir i un o'i swyddogion golli ei ben, unwaith, am droi i fod yn Ariad, er mwyn ei foddhau ef, fel y tybiai. "*Canys,*" meddai, "*os nad yw efe yn ffyddlon i'w Dduw, pa fodd y gallaf ddisgwyl y bydd efe yn ffyddlon i mi, yr hwn nid wyf ond dyn cydradd ag efe i hun.*" Fel hyn y dygodd Theodoric ei lywodraeth yn mlaen, am hir amser, mewn modd tra llwyddiannus, heb fod yn annheilwng o'i swydd, ei sefyllfa, nac o'i gofrestru yn mhlith y rhai blaenaf o frenhinoedd y ddaear. Eithr blynyddau diweddaf ei deyrnasiad a fawr dywyllasant y rhai cyntaf. Tua'r flwyddyn 426, gorchymynodd roddi Boethius a Symmachus, dau o'i brif swyddogion, i farwolaeth, pa rai a ystyrid y pryd hwnw y ddau mwyaf dysgedig, doeth, a helaethaf yn mhob rhinwedd, ag oedd o fewn i'r Ital, a hyny heb un achos, ond drwg-dybiaeth ddisail a lettyasai yn ei fynwes ei hun yn eu cylch. Nid hir y bu efe byw wedi hyny; canys, pan yn ciniawa un diwrnod, rhoddwyd pen math o bysgodyn ar ddysgl ger ei fron, yr hwn a'i dychrynodd gymmaint, nes aeth i'w wely yn glaf, ac y bu farw yn fuan—meddyliodd mai Symmachus oedd, yn dyfod i'w ddinystrio ef am ei ymddygiadau tu ag atto.†

Sylwasom o'r blaen ar waith y Vandaliaid yn gosod i fynu eu hamherodraeth yn Affrica, mewn rhan eang o amherodraeth Rhufain gynt. Gosodwyd hon i fynu yn amser teyrnasiad Valentinian y trydydd, dan dywysiad Genseric eu brenin. Gan hyny bernir fod hon yn un o'r llywodraethau i ba rai yr oedd amherodraeth Rhufain i ymranu yn y dyddiau diweddaf, a arwyddocceir trwy y bysedd a'r cyrn a welir yn llyfr Daniel.‡

Sylwasom hefyd ar ddechreuad teyrnas Hungary, yn y rhan eang a berthynai i amherodraeth Rhufain, a elwid gynt Pannonia, trigolion cynhenid pa un oeddynt Geltiaid. Eithr llwythau o'r Huniaid a gyflewyd yno yn nechreuad y pummed canrif: ac wedi eu rhyfel-gyrchoedd, a marwolaeth Attila eu brenin, hwy a ymsefydlasant eu hunain yno yn deyrnas anymddibynol. Er hyny, bernir mai oddi wrth ryw lwyth a ddaeth yno yn ddiweddarach o Scythia, a elwid Hongres, y derbyniodd y wlad ei henw Hungary, pa rai, wrth sylwi yn fanylaidd, a welir nad oeddynt ond rhai o'r un genedl â'r rhai ag oeddynt yno yn barod. Meddylir fod hon yn gwneuthur i fynu

* Dan. ii. 47., a vii. 24. Haerir gan rai, gan ddywedyd na pharhaodd llywodraeth yr Heruliaid na'r Gothiaid yn yr Ital, hyd godiad Anghrist. Eithr meddyliwn, er iddynt hwy golli eu tiriogaeth a'u llywodraeth, i gryn raddau, i'r awdurdod llywyddol, a adferasant hwy i senedd Rhufain, barhau yn ddiattal ac anymddibynol, trwy bob cyfnewidiadau, dan yr enw dueiaeth Rhufain, hyd oni roddwyd hi gan Charles Fawr i'r Tad Sanctaidd o Rufain, yn yr wythfed canrif.

† Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. iii. pp. 1, 20.

‡ Y mae amryw o wyr dysgedig na fynant gredu fod hon hefyd yn cael ei harwyddo trwy un o'r bysedd na'r cyrn, o blegid ei therfyniad buan, ac am nad oedd hi o fewn terfynau Europe, lle y tybiant fod yn rhaid cael rhaniadau amherodraeth Rhufain. Gwel Syr Isaac Newton, Esgob Newton, Mede, a Brightman, ar y Prophwydoliaethau, yn nghylch y ddadl hon.

un o'r brenhiniaethau hyny i ba rai yr ymranodd y rhan orllewinol o amherodraeth Rhufain, a arwyddir trwy y bysedd a'r cyrn ar ben y bwystil yn llyfr Daniel.

Yr Almaeniaid yn yr Almaen *(Germany)* a sefydlasant eu hunain yn deyrnas anymddibynol, tua'r canrif hwn. Yr oedd yr Almaen yn llawer helaethach ei therfynau, tebygol, yn y dyddiau gynt, nag yw yn bresennol; neu, yr oedd llawer o wledydd na pherthyna i'r amherodraeth a ddwg yr enw yn awr, yn cael eu galw wrth yr enw cyffredin Germany, megys Denmark, Norway, Ffinland, Sweden, Livonia, russia, a Poland; ac o'r tu arall, yr hyn a elwir yn awr Belgium a Holand.* Yr oedd yn y gwledydd hyn amryw goedwigoedd mawrion, yn enwedig yr hon a adwaenir dan yr enw Gelli, sef *Hercynia*, yr hon oedd fwy na thaith triugain niwrnod; yn mha rai y preswyliai gwahanol lwythau tra lluosog, etto, mae pob lle i feddwl, o'r un genedl wreiddiol. Yr oeddynt yn meddu ar ddeadellau mawrion o anifeiliaid; yn byw wrth helwriaeth, yspeilio eu gilydd, ac eraill hefyd; ac yn bobl rhyfelgar iawn. Weithiau gwnaent ryfel â'u gilydd; bryd arall byddent mewn cynghrair, ac ymruthrent mewn modd nerthol a ffyrnig ar deyrnasoedd eraill. Gwnaethant amryw ymosodiadau ar ranau o'r amherodraeth Rufeinaidd, er yn foreu iawn; ac ymddengys eu bod yn flinder gwastadol iddi: canys deuent allan yn lluoedd aneirif, a gwnaent ymgyrch rhyfelgar ar Gaul, yr Hispaen, a'r Ital, a pharthau eraill o'r amherodraeth, gan yspeilio ac anrheithio. Gwedi hyny ymgilient yn ol i'w coedwigoedd a'u mynyddoedd anolrheiniadwy. Yn nheyrnasiad Caracala, ymunodd lluoedd o honynt â'u gilydd mewn ymosodiad yn erbyn milwyr yr amherodraeth; ac oddi wrth amrywiaeth eu hymddangosiad, mewn un llu, galwyd hwy yn Almaeniaid—*All men*, neu oddi wrth eu hymddangosiad nerthol a gwrol fel rhyfelwyr.

Er cael y gwaethaf lawer gwaith gan fyddinoedd trefnus y Rhufeiniaid, etto meddylir na chawsant eu darostwng a'u gosod dan deyrnged hyd amser Probus yr amherawdwr; ac, i rai o honynt ymostwng un amser, sydd amhëus. Egwyddorion rhyddid, ymgrwydriad, anwarieidd-dra, ac yspeilio, a lywodraethai eu meddyliau gymmaint y pryd hwnw, fel mai nid am hir yr ymostyngent ac y byddent dan ymrwymiad i neb. Gwedi i lawer o honynt ymgrwydro i amryw wledydd eraill, ac ymsefydlu, ar syrthiad amherodraeth Rhufain, yn llywodraeth anymddibynol, fel y sylwir etto, arosodd amryw yn eu gwlad gyssefin, dan yr enw Germany, neu gwlad gwr o ryfel, ac ymsefydlasant yno Gwedi eu myned trwy lawer o gyfnewidiadau, weithiau yn unol, bryd arall yn rhanedig, hwy a ddaethant ryw beth yn debyg i'r hyn ydynt yn bresennol, yn y nawfed canrif, dan lywyddiaeth Conrad. Eu hiaith oedd y Teutonaeg, yr hon a lefarid dros y rhan fwyaf o barthau Europe, er mewn gwahanol sain a modd gan yr amrywiol lwythau. Yr oeddynt yn hollol farbaraidd o ran eu hymarferiadau; yn hoffi preswylio mewn pebyll, neu fythod symmudadwy; a llawer o honynt oeddynt baganiaid hyd y pummed canrif.†

Bernir yn gyffredin fod y llywodraeth hon yn ei gosodiad i fynu, yn un o fysedd y ddelw, ac yn un o'r cyrn ar ben y bwystfil a welodd Daniel. Gaul a feddiennid ar y cyntaf, mae yn debygol, gan lwythau o'r un genedl â'r rhai a breswylient yr Almaen, er ei bod yn eglur fod ar ei rhanau mor-

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, vol. i. p. 128. † Ibid, p. 155. a Collier's Dict.

dwyol lawer o sefydliadau Groegaidd, er yn foreu iawn. Yr oedd hon wedi ei darostwng gan, a'i chyssylltu âg, amherodraeth Rhufain, er amser Julius Cæsar, o leiaf. Yn y pummed canrif, yr oedd y wlad yn rhanedig rhwng y Rhufeiniaid, neu y Gauliaid gwreiddiol, a'r Burgundiaid a ddaethent yno o'r Almaen, pan y cawsant fraint a meddiant yn y rhanau deheuol o honi, gan yr amherawdwr Jovius, fel gwobr am eu gwasanaeth iddo yn ei ryfeloedd â'r Gothiaid. Yn y canrif dan sylw y derbyniodd yr enw Ffraingc, oddi wrth ei meddiannwyr newyddion a ddaethant i'w llywodraethu. Llawer o ddadl sydd yn bod o ba le y deilliodd yr enw *Ffranc*, ac o ba le y daeth y Ffranciaid gyntaf; eithr yn bresennol bernir yn gyffredin mai oddi wrth lwythau cynghreiriol o'r Almaeniaid, a breswylient ranau o'r Almaen, a elwir yn awr Westphalia, y daethant, pa rai a enwid ar y cyntaf Chauci, Cherusci, a Catti. Gwedi i'r rhai hyn wneuthur cynghrair â'u gilydd, tua'r flwyddyn 250 o'r cyfrifiad cyffredin, i amddiffyn rhyddid hwy yn erbyn pob ymegniad i'w dwyn i ufudd-dod i neb galluoedd eraill, a alwasant eu hunain yn Ffranciaid, yr hyn a arwydda, yn eu hiaith hwy, *pobl ryddion*.*

Yr oeddynt yn bobl hynod o farbaraidd a rhyfelgar, fel eu brodyr yn gyffredin; yn hoffi ymgrwydro, gan ddirmygu trefydd, dinasoedd, a phob preswylfa arosol, fel pethau hollol afreidiol yn eu golwg hwy. Am lawer o oesau, yn eu crwydriadau, hwy a ruthrent ar y dinasoedd, gan eu hanrheithio, eu hyspeilio, a'u gosod hwy a'r gwledydd lle yr elent yn ddifrod. Gan eu bod yn ddynion nerthol, ac yn filwyr dewr a glew, llogid hwy yn aml gan eraill i ryfela, weithiau gan yr amherodraeth, er gwrthsefyll ei gelynion, bryd arall gan ei gwrthwynebwyr. Yr oedd llawer o honynt yn myddin yr Huniaid ar faesydd Chalon. Nid yw yn eglur a breswyliai rhai o honynt hwy ryw amser y rhan honno o'r Almaen a elwir Ffranconia, ai peidio; eithr y mae yn ddigon amlwg y preswyliai amryw o honynt Batavia, sef y gwledydd a elwir yn bresennol Belgium a Holand. Oddi yno croesodd Clovis, gyda'i ychydig Ffranciaid, yr afon Rhine, yn y flwyddyn 486, i ddechreu sefydlu ei deyrnas yn Gaul. Clovis ydoedd fab i Childeric, ŵyr i Merovinus, o lwyth Salian, yr hwn a ystyrid yn un o'r rhai penaf yn eu plith. Gelwir yr hil frenhinol hon mewn hanesyddiaeth, yn Merovingiaid. Daeth efe i feddiant o lywodraeth ei dad, pan nad oedd ond pumtheg mlwydd oed; ac yn ei bedwaredd ar bymtheg, dechreuodd ar ei fuddugoliaethau yn Gaul; ac, mewn deng mlynedd ar hugain, sefydlodd yno deyrnas, yn helaethach ei therfynau nag yw yn bresennol; a newidiwyd enw y wlad gan ei galw yn Ffraingc.

Yr ymosodiad milwraidd cyntaf a wnaeth, oedd ar Siagrius, yr hwn a osodasai i fynu draws-lywodraeth yn y wlad honno, ac a'i gorchfygodd ef mewn brwydr yn agos i Soissons, er nad oedd gydag ef uwch pum mil o wyr dan ei lywodraeth, heb nac aur, nac arian, nac arfau, na thrysorau gwerthfawr yn ei gelloedd. Yr oedd y pryd hwn yn hollol farbaraidd o ran moesau, ac yn baganaidd o ran ei grefydd; eithr ymbriododd yn fuan wedi hyn â Clotilda, merch Chilperia brenin y Burgundiaid, yr hwn a roddasid i farwolaeth gan Gundebald ei frawd, ac a deyrnasai yn ei le ef. Yr oedd hi yn gristionoges, wedi ei dwyn i fynu yn ol egwyddorion yr Ariaid; canys felly yr oedd y Burgundiaid oll. Eithr trwy ryw foddion,

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. i. p. 153.

hi, cyn ei phriodi â Clovis, a'u gadawsai hwy, ac a ymunodd â'r eglwys gyffredinol, fel yr oedd goreu modd i'r rhai uniawn-gred.

Arferai Clotilda bob moddion i geisio ennill ei gwr i wrando ar athrawon Cristionogaidd, eithr yn gwbl ofer dros hir amser. Yr oedd efe yn ddyn hynod gyfrwys-gall, yn filwr dewr, ac o dymherau balchaidd a chreulawn. Yn yr unfed flwyddyn ar ddeg o'i deyrnasiad yn Ffraingc, pan mewn rhyfel â rhai o'r Almaeniaid, y rhai a feddiannent ryw ranau o Gaul, bu agos iddo golli y dydd a'i fywyd. Gwnaeth adduned y pryd hwnw, os byddai iddo gael goruchafiaeth ar ei elynion, y proffesai y grefydd Gristionogol; a galwodd, yn nydd y frwydr, mewn gweddi, ar Dduw y Cristionogion. Ennillodd fuddugoliaeth lawn ar ei wrthwynebwyr, a meddiannodd eu gwlad; ac mewn canlyniad, efe a gyflawnodd ei adduned, gan ymroddi i addysgiadau crefyddol; a chymmerodd ei fedyddio gyda llawer o rwysgfawredd gan Remigius, esgob Rheims, a thros dair mil o'i wyr ar yr un pryd. Ac yn fuan, y rhan fwyaf o'r Ffranciaid a wnaethant yr un modd. Yr oedd yn gred gyffredinol y dyddiau hyny, fod amldra y brwydrau a ennillid, yn brawf o wirionedd a dwyfoldeb crefydd yr ennillwyr. Nid oes un amheuaeth nad oedd hyn yn effeithio yn fawr ar feddwl Clovis, a llawer o'r tywysogion a gofleidiasant Gristionogaeth, i beri iddynt wneuthur felly; o blegid fod arfau milwraidd y Rhufeiniaid wedi llwyddo yn fawr pan broffesent y grefydd hono. Fel yr oedd y gwledydd hyny yn llawn o ffug-wyrthiau, i ba rai y credid gan lawer, a'r rhai a effeithient ar y werin goel-grefyddol; felly, dywedir am lawer o bethau rhyfedd a gymmerasent le ar ddydd ei fedyddiad; eithr y maent oll yn gwbl anghredadwy genym; am hyny ni ddywedir mwy yn eu cylch. Mewn canlyniad i'w ymostyngiad i wneud proffes o'r grefydd Gristionogol, mawrheid ef yn neillduol gan yr eglwys gyffredinol a'i hesgobion, gan ei alw yn fab cyntafanedig yr eglwys, a'i *Fawrhydi mwyaf Cristionoguidd.*

Hwylusodd y cyfnewidiad hwn yn Clovis lawer yn ddiau ar ei rhyfeloedd buddugoliaethus. Y Gauliaid gwreiddiol oeddynt bronti gyd yn Gristionogion selog dros gyffes Nicea, ond etto wedi blino ar lywodraeth y Rhufeiniaid; ac yr oedd y Burgundiaid a'r Gothiaid yn Ariaid; o ganlyniad yr holl Gauliaid a heidiasant, yn y modd mwyaf ewyllysgar, dan luman eu brenin gwronaidd a sanctaiddiaf; a'r cadeiriau ymadrodd a lanwyd â'i glodydd. Galarus yw meddwl, ac anhawdd yw adrodd, y fath frad, y fath dwyll, a'r fath lofruddiaethau a gyflawnwyd, er mwyn boddloni ei uchelgais, a helaethu terfynau ei amherodraeth, a hyny dan liw o grefydd a sêl dros uniawn-gred. Gwedi hir ryfel, ac aml frwydrau rhyngddo â Gundebald, brenin y Burgundiaid, ewythr ei wraig, pryd y dangoswyd eithaf dewrder a dichellion rhyfelgar o'r naill ochr fel y llall, ond a orchfygwyd ganddo yn y diwedd. Gosodwyd Sigismond, mab Gundebald, a'i wraig, a'i ddau blentyn, i farwolaeth, gan feibion Clovis, trwy eu claddu yn fyw yn agos i Orleans. Y Burgundiaid a ddarostyngwyd trwy ei arfau buddugoliaethus, ac a osodwyd dan deyrnged i frenin Ffraingc—ond ni ddifeddiannwyd hwy o'u tywysogion, eu llywodraeth, a'u cyfreithiau eu hunain—dan yr enw Duciaeth Burgundy, hyd heddyw.†

Y Gothiaid deheuol oeddynt etto mewn rhan fawr o'r wlad, yn frenhiniaeth nerthol, ac aml iawn ei deiliaid, dan lywodraeth Alaric eu brenin; pa rai

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 451.

oeddynt, o ran eu crefydd, yn Ariaid. Clovis a'i deulu a ystyrient hyn yn rheswm digonol i gyhoeddi rhyfel yn eu herbyn, ac i gymmeryd ymaith eu teyrnas. Mewn un o'i areithiau yn Paris, ger bron ei dywysogion a'i ben-cadbeniaid, efe a ddywed,—"Y mae yn fy mawr ofidio i weled y rhanau goreu o'r wlad yn barhaus yn meddiant yr Ariaid. Gadewch i ni, gan hyny, yn enw ein Duw, gyhoeddi rhyfel yn erbyn yr hereticiaid hyn; a thrwy ei gymhorth, eu gorchfygu, fel y meddianom ac y rhanom daleithiau toreithiog Gaul." Clotilda hithau a'i hannogai yn barhaus i'r rhyfel hwn, gan ddangos pa mor rhinweddol, er cymmodi y Duwdod, a fyddai iddo sefydlu yn y wlad honno, sefydliad crefyddol i'w weision, ac i'r wir eglwys. Llanwyd yr holl esgobion â sêl, fel yr annogent y bobl i gymmeryd arfau yn unfryd, a chydag ymegniad, i'r rhyfel sanctaidd hwn, fel y tybient. Y milwyr hwythau a gynhyrfwyd i'r fath raddau o sêl, nes y penderfynasant farw, neu orchfygu; ac addunedasant adduned, nad eillient eu barfau nes gorchfygu, neu farw yn yr ymdrech. Dywedir llawer am y gwyrthiau a wnaed ar y ddaear, a'r arwyddion rhyfedd a welwyd yn y nefoedd, o flaen cwymp y Gothiaid Ariaidd druain, a buddugoliaeth y Ffranciaid; eithr y mae yn rhy oleu yn bresennol i adroddiad o'r fath gastiau drygionus gael ei gredu. Ond y gwirionedd yw, gorchfygwyd y Gothiaid, ac Alaric eu brenin a laddwyd gan Clovis ei hun yn bersonol, ger llaw Poictiers; a'i ddeiliaid a ddifawyd gan y cleddyf wrth y miloedd; a'r gweddill a ymlidiwyd dros fynyddau y Pyrenees i'r Hispaen. Eu gwlad, a'u dinasoedd mawrion a theg, a feddiannwyd, ac a ranwyd rhwng y llofruddion, a chwanegwyd Aquitain at Ffraingc.*

Gwedi teyrnasu ddeng mlynedd, yn y chwechfed a deugain o'i oedran, ac yn y flwyddyn 511 o'r cyfrifiad cyffredin, bu farw Clovis; a gadawodd ei deyrnas fawr ac ëang rhwng ei bedwar mab. A gadael o'r neilldu ei grefydd, y mae yn rhaid i ni ei ystyried ef yn un o'r dynion mwyaf, fel rhyfelwr, yn ei oes, os nad mewn unrhyw oes; wrth ystyried cyn lleied oedd yn y dechreu; amlder y brwydrau a ennillodd; enwogrwydd y gelynion a orchfygodd; helaethrwydd y deyrnas a sefydlodd; a'i fod yntau wedi gadael ei orchwyl pan yn nghanol ei ddyddiau.

Teyrnas Ffraingc oedd yn llawer helaethach y pryd hwn nag yw yn bresennol; canys yna perthynai iddi amryw daleithiau eang yn yr Almaen, a thiriogaethau yn yr Ital, ac yn Belgium a'r Is-Almaen. Eithr ei waith yn ei rhanu rhwng ei feibion a fu yn agos bod yn hollol ddinystr iddi; gan i'r mesur hwn achlysuro amrysonau gofidus rhyngddynt, a llofruddiaethau arswydus arnynt hwy a'u hiliogaeth. Pan oedd Clovis, unwaith, yn gwrando pregeth ar ddyoddefiadau Crist, a draddodid gan esgob Rheims, efe a waeddodd allan,—"O na buaswn i a'm Ffranciaid yno! ni chawsai neb o'r Iuddewon gyffwrdd âg ef, a dialasem ar y neb a wnaethai." Ystyrir y llywodraeth hon etto yn un o fysedd y ddelw, ac yn un o'r deg corn a welwyd ar ben y bwystfil, ag sydd i'w gweled yn llyfr Daniel.

Teyrnas y Burgundiaid a gyfrifir yn un arall o honynt. Y Burgundiaid oeddynt yn llwyth aml, a wladychent o'r naill du i'r afon Elbe, yn y gwleddydd a elwid Lusace a Thuringia; yn deillio oddi wrth y Vandaliaid ar y cyntaf, ac yn preswylio mewn pebyll. Mae yn debyg mai oddi wrth eu gwaith yn cyssylltu eu pebyll â'u gilydd, fel un gynnulleidfa, yr hyn a elwid

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 6—8.

ganddynt hwy yn *Burgi*, y cawsant eu galw yn Burgundiaid. Tua hanner y pedwerydd canrif y gwybuwyd am danynt gyntaf; ac yn amser Honorius yr amherawdwr, daethant yn fwy adnabyddus, fel pobl ryfelgar; ac ymsefydlasant yn y gwledydd hyny a elwir yn awr yn Switzerland. Yn amser Valentinian yr amherawdwr, llogwyd o honynt bedwar ugain mil o wyr yn dwyn arfau, i ryfel, gyda byddin yr amherodraeth, yn erbyn yr Almaeniaid. Gwedi hyny cawsant diriogaeth yn Gaul, fel gwobr am y gwasanaeth hwn, o dan lywyddiaeth Gandisele; croesasant y Rhine, ac a ymsefydlasant yn deyrnas anymddibynol yn y wlad lle y maent yn awr, ac sy'n dwyn eu henw hyd yn bresennol, er fod eu llywodraeth rai gweithiau yn llawer helaethach. Meddylir iddynt dderbyn y grefydd Gristionogol, yn ol golygiadau yr Ariaid, tua'r flwyddyn 430; ond nid yw yn adnabyddus pa fodd, na phwy a fu yn offerynau i'w dwyn i hyny. Cydnabyddwyd eu hanymddibyniaeth gan yr amherodraeth, a derbyniwyd hwy fel cynghreirwyr, tua'r flwyddyn 450; ac yr oeddynt yn myddin Ætius, yn erbyn Attila, yn mrwydr Chalons, yn mha le y lladdwyd Gundicaire, eu brenin; a theyrnasodd Gunderic ei fab yn ei le. Hwn ydoedd tad Gundebald, yr hwn a laddodd ei ddau frawd, ac a deyrnasodd yn eu lle hwynt, hyd oni ddialwyd arno gan Clovis brenin y Ffrancod.*

Gothiaid yr Hispaen ydoedd un arall o'r galluoedd hyny i ba rai y rhanwyd amherodraeth Rhufain, a arwyddir trwy y deg bys traed y ddelw, a'r deg corn a welodd Daniel yn codi ar ben y bwystfil. Yr Hispaen sydd yn un o deyrnasoedd brasaf, cyfoethoccaf, hyfrydaf, a helaethaf Europe. Galwyd hi gynt *Hesberia*, neu *Iberia*, oddi wrth afon Iberius, sydd yn rhedeg trwy ran o'r wlad. Ei phreswylwyr cyssefin oeddynt lwythau o Geltiaid; gwedi hyny meddianwyd hi gan heidiau o'r Phœniciaid; ac ar ol hyny y bu o dan lywodraeth y Carthageniaid. Meddianwyd hi gan, ac unwyd hi â, Rhufain, gannoedd o flynyddau cyn yr oes Gristionogaidd, a llywodraethid hi trwy raglawiaeth oddi yno; a bu yn dalaeth o'r amherodraeth honno hyd ddechreuad y pummed canrif, pan ddarfu i'r Sueviaid, y Vandaliaid, y Silingiaid, a'r Gothiaid, ymruthro arni, a'i rhanu yn eu plith eu hunain.† Gwedi hir ryfel rhyngddynt â'u gilydd, y Gothiaid a lwyr orchfygasant y lleill, mewn rhan, o dan lywyddiaeth eu doeth a'u dewr ryfelwr Walia, ac eraill, mewn amser dyfodol, nes eu hymlid ymaith yn hollol, a meddiannu y wlad. Bu yn eu meddiant am hir amser, fel y teyrnasodd yma un tywysog ar ddeg ar hugain o honynt, yn lled ddigynnwrf, hyd oni ddaeth y Mooriaid arnynt, a'u gorchfygu, fel y ceir sylwi etto.

Pregethwyd yr efengyl yno yn foreu iawn, fel yr oedd yno eglwysi wedi eu plannu, a merthyron wedi dyoddef dros y gwirionedd, mor foreu âg amser Nero; eithr nid oes hysbysrwydd pwy a'i dygodd hi yno gyntaf. Gwedi i'r barbariaid hyn feddiannu y wlad honno, pa rai oeddynt gan mwyaf yn baganiaid, a'r lleill yn Ariaid, yn enwedig y Gothiaid, y rhai oeddynt yn Ariaid mwyaf poethlyd, gwnaed yr holl wladwriaeth yn un olygfa o anrhaith a thywallt gwaed, fel y mae yn arswydus meddwl, y nifer o bob oedran, o bob sefyllfa o ddynion, a laddwyd yno. Pa greulonderau ni effeithia sêl benboeth, o dan lywyddiaeth ffyrnigrwydd barbaraidd a thywyllwch paganaidd! Y brenin Leovigild a osododd ei fab ei hun i farwolaeth, a'r fren-

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 451, a Collier's Dict.
† Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. i. pp. 12, 96.

hines, ei merch-yn-nghyfraith, o herwydd eu sêl dros athrawiaeth y Drindod, yn ol credo Nicea! Eithr yn y flwyddyn 586, cymmerodd peth le er gwell yno, pan ddarfu i Ricardus newid ei farn, a derbyn cyffes Nicea: dilynwyd ef gan ei ddeiliaid, fel y daeth mwy o dawelwch yno mewn canlyniad.*

Tua'r un amser, yn Mhrydain, gwlad ein genedigaeth, gosododd y Saxoniaid i fynu lywodraeth newydd ac anymddibynol. Y Saxoniaid oeddynt ar y cyntaf yn llwythau barbaraidd, fel y bernir, a ddeilliasant o'r lle a elwir yn bresennol Jutland, ac o lanau Môr Llychlyn. Gwedi iddynt fod am amser yn ymgrwydro yn lluoedd byddinol a buddugoliaethus dros y rhan fwyaf o'r Almaen, yn enwedig y rhanau agos i'r môr o honi, nid oes anmheuaeth na ddarfu i lawer o lwythau crwydraidd eraill ymuno â hwynt: canys fel yr oedd yr holl wledydd gogleddol y pryd hwnw yn fân lwythau anymddibynol, a phan y tyfai unrhyw lwyth i fynu yn fuddugoliaethus, ymunai yn aml amryw eraill âg ef, a chymmerent ei enw arnynt, yn lle ffoi ymaith.

Pan yr oedd y Rhufeiniaid wedi cymmeryd ymaith eu byddinoedd amddiffynol o Brydain, y wlad a adawyd yn noeth ac yn agored i'w gelynion, y Scotiaid a'r Pictiaid, i ddyfod o'r gogledd am ei thraws, a'i gosod yn ddifrod. Er nabu neb pobl yn enwoccach mewn hunan-amddiffyniad, yn fwy eiddigeddus dros eu rhyddid, ac yn ddewrach fel milwyr ar y maes, yn ol eu manteision, na'n hynafiaid ni unwaith, etto, gwedi mwy na thri chan mlynedd o sefyllfa wasaidd ac ymddibynol ar y Rhufeiniaid, am nawdd ac anmddiffyniad, yr oeddynt wedi dirywio oddi wrth bob teimlad dewr ac egniol, a medrusrwydd milwraidd, a chwedi suddo i feddalwch a segurdod, yn anghymmwys i ddiogelu eu hunain yn ngwyneb y rhuthr lleiaf. Hefyd, yr oedd diffyg undeb a chyd-weithrediad yn eu plith wedi eu hanurddo, a'u gwneuthur yn agored i gael eu dinystrio bob amser. Yn y sefyllfa hon, pan yr oedd eu gelynion yn ymosod arnynt o fynyddoedd y gogledd, danfonasant lawer gwaith at eu hen arglwyddi, dros y môr, i ddyfod drosodd i'w cymhorth, fel pe buasai gwell byw a marw mewn cyflwr gwasaidd, nag ymegnio i gyrhaedd a chadw eu rhyddid; ond nid oedd yno un cymhorth i'w gael mwyach; canys bygythid gosod yn ddifrod eu prif ddinas hwy eu hunain, y pryd hwnw, gan Attila, blaenor yr Huniaid. Mewn un o'r llythyrau a anfonwyd gan ein hynafiaid at Ætius, blaenor y gâd Rufeinaidd, yr hwn a elwir *griddfanau y Brutaniaid*, hwy a ddywedant, "Nid ŷm yn gallu gwybod i ba le i ffoi; y barbariaid a'n gyrant i'r môr, a'r môr a'n gyr yn ol at y barbariaid drachefn; nid oes wedi ei adael i ni ond dewis un o ddau beth, naill ai trengu trwy gleddyf y barbariaid, neu ynte gael ein llyngcu i fynu gan donnau geirwon y môr." Gwedi i bob gobaith o ymwared ddarfod o Rufain, Vortigern ddrygionus, brenin Prydain, a anfonodd am gymhorth at y Saxoniaid, ag oedd yn rhwysgfawr y pryd hwnw trwy yr Almaen, pa rai a dderbyniasant y cynnyg ŷn rhwydd, ac a ddaethant drosodd tua'r flwyddyn 450. Gwedi iddynt ddyfod a thirio yn ynys *Thanet*, yn ebrwydd wynebasant ar y gelynion ag oedd yn anrheithio'r wlad; gorchfygasant ac ymlidiasant hwy yn eu hol gyda lladdfa fawr. Ond wrth weled mor odiaeth dda oedd y wlad yn mhob ystyr, a chymmaint oedd gwendid ei thrigolion, nid oeddynt yn barod i'w gadael, eithr gafaelasant

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. pp. 298, 440.

ynddi, ac anfonasant am chwaneg o'u cyd-genedl i ddyfod attynt, yr hyn a wnaethant yn fuan; canys yr oeddynt yn berchen llongau lawer, o'r fath ag oeddynt; a chwedi ymarfer â morwriaeth, trwy fod llawer o honynt yn byw wrth fôr-herwriaeth, gan wibio ar hyd lanau y moroedd, i yspeilio pawb a allent. Dwy long ar bymtheg, gyda phum mil o wyr yn chwaneg, a ddaethant drosodd i Ynys Brydain, i fwynhau yr yspail; a rhoddasant wybodaeth yn fuan i'n hynafiaid, eu bod, gyda bod yn waredwyr, yn penderfynu bod yn orchfygwyr arnynt. Mae pawb ag sy'n arfer darllen Cymraeg, yn gwybod am y difrod, y traha, y creulondeb, a'r llofruddiaethau a ddyoddefodd ein tadau oddiwrth y Saxoniaid, hyd nes darfu iddynt eu halltudio o'u gwlad, a gosod i fynu eu llywodraeth eu hunain dros yr holl ynys, fel nad yw raid i ni ychwanegu ar hyn yma.*

Y Saxoniaid oeddynt, fel y llwythau eraill a breswylient ogledd yr Almaen, yn ddynion nerthol, chwyrn, dewr, ac eofn, gwedi ymarfer â rhyfel oll, er yn blant, a chwedi eu hanner-moeseiddio pan y daethant drosodd i Frydain, eithr yn gwbl baganaidd o ran eu crefydd. Diau fod y deyrnas hon, yn ei gosodiad i fynu y pryd hwn, yn un o'r rhai a arwyddir trwy fysedd y ddelw, a'r cyrn a welodd Daniel ar ben y pedwerydd bwystfil.†

Ni ddarfu i'r amherodraeth ddwyreiniol roddi i fynu ei hawl a'i meddiant yn hollol yn yr Ital un amser, ac adwaenir ei llywodraeth yno, wedi i'r amherodraeth orllewinol gael ei chwalu, a'i rhanu yn wahanol deyrnasoedd, wrth yr enw *llywodraeth y Groegiaid*, a gynnelid o dan lywyddiaeth swyddog o'r enw ENARCHIAD, yr hwn a gynnaliai ei lŷs yn RAVENNA, i ba un y perthynai llawer o diriogaethau yn yr Ital a'i hamgylchoedd. Hon hefyd a ystyrir yn gyffredin yn un o'r llywodraethau i ba rai yr ymranodd amherodraeth y gorllewin, pa un a arwyddocceir yn mhrophwydoliaethau Daniel. A'r ddegfed teyrnas o'r rhai yr ymranodd yr amherodraeth iddynt, a arwyddocceir trwy fysedd y ddelw a chyrn y bwystfil, ydyw llywodraeth y *Lombardiaid*, yr hon a osodwyd i fynu yn yr Ital yn y canrif nesaf. Eithr gellir eu hystyried hwy hyd o fewn y pummed canrif, yn llwyth anymddibynol, yn preswylio mewn rhan o Pannonia a Noricum, o fewn i amherodraeth Rhufain—rhan o'r wlad a elwir yn bresennol Austria. Eu henw gwreiddiol oedd *Langobariaid*, yr hyn a arwydda naill ai eu bod yn gwisgo eu barfau yn hwy na'r cyffredin, neu eu bod yn dwyn gyda hwy waywffyn anferth o hŷd. Yr oeddynt yn adnabyddus yn amser Trajan a Chystenyn Fawr, fel y rhai mwyaf ysgeler o'r holl farbariaid, yn gymmaint, fel y dywedwyd am danynt fod ganddynt benau gwaed-gwn, yn bywioliaethu ar waed eu caethion rhyfel. Preswylient y pryd hwnw yr ochr mwyaf gogleddol i'r wlad a elwir yn awr yr Almaen. Ond pan ymgododd y dymhestl fawr, nes cynhyrfu y cenhedloedd terfysglyd, a'u dwyn yn heidiau diddiwedd o'r gogledd am draws yr amherodraeth, yn nechreu y pummed canrif hwythau, i gael rhan o'r yspail, a ddaethant mor bell â'r gwledydd a enwyd yn barod, ac a wladychasant yno dros amser. Ymddangosiad anwaraidd a ffyrnigaidd y Lombardiaid, yn nghyd â mawredd eu llu, eu nertholrwydd, a'u medrusrwydd i ryfel, a ddygodd sylw Justinian, amherawdwr Caer-Cystenyn, arnynt, fel y llogodd efe hwynt i ryfela yn erbyn y Gepidæ, llwyth lluosog a nerthol arall o farbraiaid, o'r un wlad, y rhai y pryd hwnw a wasgent ar

* Y Parch. D. Peters—Hanes Crefydd yn Nghymru, am y canrif hwn.

† Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. pp. 471, 475.

derfynau yr amherodraeth ddwyreiniol, yn agos i'r afon Danube. Gwedi iddynt orchfygu a hollol ddinystrio y llwyth hwnw, hwy a aethant drosodd o dan dywysiad Albion eu dewraidd frenin. Y Gothiaid, ag oeddynt yn y meddiant o'r wlad fras honno er ys mwy na chan mlynedd y pryd hwnw, oeddynt, trwy effaith ei bröydd breision, wedi meddalhau, a thrwy eu glythineb a'u meddwdod wedi gwanychu, fel na chodasant arf, braidd, yn erbyn Albion a'i lu mawr iawn, ond a ffoisant o'i flaen ef o gongl i'w gilydd i'r wlad. A'r Lombardiaid a osodasant i fynu deyrnas yn y rhanau eang o'r wlad ag sydd yn dwyn eu henw hyd heddyw. Eu prif ddinas oedd Pavia. Nid oes sicrwydd pa bryd y darfu iddynt fynwesu y grefydd Gristionogol.†

Yn yr olrheiniad a wnaethom o ymraniad yr amherodraeth orllewinol, dilynasom Sir Isaac Newton, Esgob Newton, a Mr. Mede, gan mwyaf; ac yn y cymhwysiad o'r amgylchiadau hyn at yr hyn a arwyddocceir wrth fysedd y ddelw a welodd Nebuchodonosor, a'r deg corn a welodd Daniel ar ben y pedwerydd bwystfil.*

Tebygid ei bod yn amlwg, ac felly yn ol barn llawer o awdwyr sydd â'u clod yn uchel yn yr eglwys, mai y terfysgiadau blinion yr amser a fu o dan ein sylw, a chodiad i fynu y teyrnasoedd hyn ar sail amherodraeth ddrylliedig Rhufain, yw yr hyn a arwyddocceir trwy udganiad y pedwar udgorn cyntaf y dywedir am danynt yn yr wythfed bennod o lyfr y Dadguddiad.

Gwedi i ni fel hyn arwain meddwl y darllenydd dros yr olygfa erchyll hon, a gymmerodd le ar y ddaear, ac wrth daflu ein golwg yn ol, onid oes achos mawr i alaru wrth feddwl gymmaint yw y llygredigaeth a'r trueui sydd wedi dyfod i'r byd, pan wnaed y fath ddifrod ar fywydau dynion, a phan yr aberthwyd cynnifer i uchel-gais, uchel-drem, a bydolrwydd, ac i deimladau ffyrnigaidd a chreulawn tywysogion y ddaear? Ac yn y fath ddiliw o ddrygau a thrueni, onid oes achos i ryfeddu fod neb dynion yn fyw ar y ddaear, nac un gradd o rinweddau a gwir grefydd yn aros heb eu hollol orchuddio ganddo? Diau fod parhau y pethau hyn yn tarddu o ryw le yn wahanol i ddim a berthynai i ddynolryw. Fel y dywed un hanesydd, gyda golwg ar yr amser hwnw,—"Europe," medd ef, "a barhawyd i'w hanrheithio gan genhedloedd barbaraidd a ddeuent o bell, nes dyhysbyddu y gwledydd hyny o drigolion, a anfonent allan eu myrddiynau â chleddyf y lladdfa i flino a dystrywio dynion!" Yn rhan o Affrica a'i hamgylchoedd, dywedir, gyda sicrwydd, i Huneric, mab Geneseric, brenin y Vandaliaid, yn y naw mlynedd y bu yn teyrnasu, achosi marwolaeth mwy na phedwar can mil o ddynion. "Pe byddai," medd Dr. Robertson, "i ddyn gael ei alw i nodi allan, yn ngwyneb hanesyddiaeth y byd, pa bryd y bu dynolryw yn yr amgylchiadau mwyaf trallodedig a thruenus ar y ddaear, diau y cyfeiriai yn ddibetrusder at yr yspaid hyny o amser a ymlithrodd o'r pryd y bu farw Theodosius, yn y flwyddyn 395, hyd y flwyddyn 571, pan y cyflawn osododd y Lombardiaid i fynu eu teyrnas yn yr

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. pp. 107, 221.

† Y gwyr dysgedig hyny na fynant i lywodraeth y Vandaliaid yn Affrica, fod yn un o'r teyrnasoedd a arwyddocceir trwy y deg bys a'r deg corn, yn llyfr Daniel, ac yn ymlith y deg brenin a ddywedir yn llyfr y Dadguddiad, eu bod yn rhoddi eu nerth a'u hawdurdod i'r bwystfil, a wnant i fynu y diffyg o hon, trwy osod yn eu rhestriad, fe allai, gyda llawer o briododeb, y Sueviaid, yr Alaniaid, &c. pa rai a ddechreuasant eu llywodraeth yn Portugal tua'r amser hwn.

Ital.* Yr awduron hyny bedd yn gydoesol â'r amgylchiadau hyny, ac yn llygaid-dystion o'r anghyfanedd-dra, ydynt yn methu cael geiriau i osod allan pa mor ddychrynllyd oeddynt. *Fflangell Duw Hollalluog, a dinystriwr y cenhedloedd*, ydyw yr enw dychrynllyd trwy ba un y gosodir allan flaenor un o'r cenhedloedd barbaraidd hyn; a chymharir y dinystr a ddygasant ar y ddaear a'i thrigolion, i'r difrod a wnaed trwy ddaear-grynfäau—i oddaith trwy fflamiau tân—a diluw—y dystryw mwyaf erchyll a ddichon neb ei ddychymmygu."†

Ymddattodiad yr amherodraeth Rufeinig a briodolir i amryw achosion heblaw i'w maintioli anhywaith. Er ei bod yn cael ei gwylio gan dros chwe chan mil o wyr arfog, ar dir ac ar fôr—yr hyn nid oedd yn llawer, wrth ystyried ei ehangder—etto gellir edrych ar ei mawredd, mewn rhan, fel ei gwendid. Meddylir fod ei grym yn yr amser gorau a fu arni, yn ymddibynu mwy ar ei hundeb, ac ar addas weinyddiad o'i llywodraeth, nag ar amlder ei milwyr, a'u medrusrwydd yn trin arfau. Mawredigrwydd meddwl y Rhufeiniaid; eu cariad at eu gwlad a'u rhyddid; eu hawydd am uwchafiaeth; eu gwroldeb; eu dyfal-barhad mewn blinderau a chaledi; eu dirmyg o beryglon, hyd yn nod angau ei hun; eu parodrwydd i ufuddhau i'w blaenoriaid; ac, yn fwy na'r cyfan, anmhleidgarwch eu llywodraeth, er gweinyddu cyfiawnder; a'u dysgyblaeth filwraidd, oedd y gwir achosion o ymehangiad terfynau eu hamherodraeth, eu grym, eu hunbenaeth, a'u goruchafiaeth; a phan y collodd y rhai hyn, nid oedd i ddisgwyl ond ymddattodiad buan. Pob llywodraeth nad yw yn sylfaenedig ar yr egwyddorion hyny a feithrinir ac a gadarnheir trwy gynnydd goleuni a gwybodaeth, nid all fod o hir barhad. Gan hyny, pa un bynag ai mewn teulu, gwlad, neu eglwys, yr ymarddelwir i awdurdod, ac y gosodir i fynu lywodraeth, ag y bydd llewyrchiad goleuni a chynnydd gwybodaeth yn ddinystriol iddi, y mae yn rhaid ei bod o gyfansoddiad anmhriodol ac ar egwyddorion anaddas, ac yn cynnwys ynddi ei hun hadau hunan-ddinystriad.

Meddylir ei bod yn amlwg i'r amherodraeth Rufeinaidd, yn ei chyflym gynnydd, gymmeryd i mewn egwyddorion, a sefydlu ynddi ei hun ymarferiadau, ag a fu iddi yn achosion o hunan-ddinystriad. Y gwahaniaeth mawr a ddaeth i fod rhwng y senedd a'r bobl, a rhwng y dyledogwyr a'r cyffredinolwyr, heb fod un gallu i gyfryngoli rhyngddynt, a lanwodd y naill â chenfigen at y llall, ac â drwg-dybiaeth o'r mwyaf at eu gilydd. Y pennaethiaid ni lywodraethid mwy â chariad cyffredinol tu ag at eu gwlad, eu rhyddid, a'u breintiau, nac â meddwl dewr i fod gyda'u gwyr yn mhob tywydd, ond âg awydd i ymddangosiad arglwyddaidd, ac âg ymdrech i gyrhaedd y sefyllfa uchaf, fel y gwelir y naill yn ymgodi yn erbyn y llall er cyrhaedd eu hamcanion. Nid ystyrid rhinweddau mwyach ond yn anfynych yn drwydded i'r swyddau a'r sefyllfaoedd uchaf yn y deyrnas, eithr hunan-leshad, cyfoeth, ac enwau gweigion a lywodraethent holl achosion yr amherodraeth; a llawer o'r rhai rhinweddol a ddarostyngwyd i'r gwaseidd-dra mwyaf, gan ofn a drwg-dybiaeth. Y gwladgarwyr a ddiarfogwyd, o herwydd eu hofn gan draws-lywodraethwyr; a dyeithriaid a logwyd i fod yn warcheidwaid i'r wladwriaeth a'i breintiau, a hwy a lygrwyd gan y llŷs dirywiedig. Glythineb, meddwdod, afradlonrwydd, trachwantau, a phob anghyfiawnder, a arferwyd ac a feithrinwyd yn ddigywilydd gan bawb, o'r uchaf hyd y mwyaf

* History of Charles V. vol. i. sect. 1. † Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 370.

gwrengaidd—gan yr hwn a eisteddai ar yr orsedd, yn gystal â'r hwn oedd yn byw yn y bwthyn; o ganlyniad, pa fodd y gallesid disgwyl i'r fath deyrnas aros yn hir? Trwy godiad i fynu amryw drais-feddianwyr y goron, a bod pob un o honynt yn hyderu ar y milwyr am ei ddyrchafiad i'r orsedd a'i sefydliad arni, rhoddwyd yr olaf i ddeall mai ganddynt hwy yr oedd yr agoriad i'r wisgfa, i gael allan y fantell borphoraidd, ac y gallent ei gwerthu i'r neb a roddai fwyaf am dani. Daethant i gollwair â bywydau eu tywysogion, fel, er mwyn cael arian, y codent y naill i'r orsedd, ac y tynent y llall i lawr; ac, er cael ychwaneg, tynid hwnw i lawr drachefn, a chodid arall i fynu. Y naill amherawdwr a osodid i fynu yn erbyn y llall, fel y rhanwyd y byddinoedd, ac eu dygwyd i'r maes yn erbyn eu gilydd—megys y gwelsom yn barod—nes llenwi y gwledydd â rhyfel cartrefol. Anufudd-dod a lywodraethai yn yr holl fyddinoedd; a chollwyd dysgyblaeth yn hollol o blith y milwyr; a phwy bynag a geisiai ei adferu, ni wnai wrth hyny ond prysuro ei drangcedigaeth. Milwyr Rhufain nid oeddynt y dyddiau diweddaf yr hyn oeddynt gynt, sef yn rhydd-ewyllysgaryddion, a ymroddent er gwasanaethgarwch i'w gwlad, eithr yn ddynion dyeithr a gyflogid i'r gwasanaeth, heb ganddynt mewn golwg ond eu helw eu hunain, yr hwn nid oedd gwaeth ganddynt ei gael wrth ei dinystrio, mwy nag wrth ei diogelu.

Hefyd, gellir priodoli dinystr amherodraeth Rhufain i'r cyssylltiad a ffurfiwyd rhwng ei llywodraeth wladol a chrefydd, a'r deddfau caethion a wnaed gyda golwg ar hyny. Y mae y fath gyssylltiad yn naturiol yn sicr o fod yn ddinystriol i bob llywodraeth a wnelo hyny, mewn amryw foddau. Y lywodraeth a wnelo y fath gyssylltiad, y mae, yn y lle cyntaf, yn dinystrio crefydd ac egwyddorion sefydliadol eglwys Crist, yn ol trefn y Testament Newydd, gan ddifeddiannu y bobl o'u breintiau a'u rhyddid, a dyrchafu gweinidogion yr efengyl i sefyllfaoedd anmherthynasol iddynt. Gellir gofyn i holl bleidwyr y cyfryw gyssylltiad, pa bryd, ac yn mha wlad, y gwelwyd crefydd Crist yn llewyrchus ac yn llwyddiannus yn y cyfryw gyssylltiad? Y mae yn amlwg fod yr hyn sydd yn gwanychu bywyd crefydd, mewn unrhyw wlad, yn iselhau moesau y bobl, a thrwy hyny yn gwanychu y llywodraeth. Y mae y cyfryw gyssylltiad yn ddinystriol i bob llywodraeth, trwy ei fod yn dwyn y llywodraethwyr i dreulio eu hamser i ofalu am, ac i geisio trin, yr hyn ni pherthyna iddynt, a'r hyn nid yw yn ddichonadwy iddynt, mwy nag i lywodraethu yr haul yn ei godiad boreuol. Canys pa beth sydd a wnelo llywodraethwyr gwladol, a pha beth sydd a ddichon iddynt wneuthur yn eu llywodraeth, â'r modd y mae eu deiliaid i gyflwyno eu haddoliad i'w Creawdwr, a'r modd y mae eu Creawdwr i dderbyn eu haddoliad, mwy nag sydd a wnelont â chodiad yr haul yn y bore? A thrwy y cyssylltiad hwn y mae un ffurf grefyddol yn cael ei chymmeradwyo, a phleidwyr y ffurf honno a noddir yn benaf gan gyfreithiau y llywodraeth honno. Onid yw hyn yn ei nattur yn anghyfiawnder, sef fod unrhyw nifer o ddeiliaid yr un deyrnas yn cael eu codi i fynu ar draul meddiannau, cymmeriad, a pharch rhan arall o'r deiliaid, heb un achos, ond yn unig eu bod yn dywedyd eu bod o'r farn grefyddol hon neu arall? Pa beth a ddichon fod yn fwy yn ei nattur i alltudio y blaid honno a iselheir trwy y cyfryw gyssylltiad, o ran eu meddyliau, eu serchiadau, a'u hegni, oddi wrth orsedd eu hunionaf lywyddion, na hyn? a pha beth a ddichon fod yn fwy er gwanychu unrhyw deyrnas, nag alltudiaeth felly o luaws o'i deiliaid ffyddlonaf a mwyaf cydwybodol? Ni bu gorsedd erioed yn sicr tra yr amgylchynid hi

gan wenieithwyr, a garent eu lles, eu helw, a'u dyrchafiad eu hunain, yn gymmaint ag yr aberthent eu cydwybodau i'w cyrhaedd. Y mae hanes amherodraeth Rhufain, er dyddiau Cystenyn Fawr hyd ei llwyr ddymchweliad, yn brawf digonol a diamheuol o hyn.

Fel y mae gwir grefydd yn grymusu ac yn gwroli ei pherchennogion, ac yn eu gwneuthur yn gallach yn mhob gorchwyl, felly coel-grefydd a ffugsancteiddrwydd sydd yn hollol i'r gwrthwyneb, yn gwanhau ac yn llwfrhau dynion, ac yn eu gwneuthur yn fwy anghall yn mhob ystyr. Yn nymchweliad yr amherodraeth, gwelwyd hyn yn amlwg. Pan o dan effaith coel-grefydd, y dygasant yn mlaen eu dadleuaeth y pryd hwnw yn nghylch defodau, ymarferiadau, a dywediadau anysgrythyrol, nes cynhyrfu y byd, a llenwi y bobloedd â therfysg, o'r brenin ar ei orsedd hyd y gwaelaf yn y deyrnas, ymroddasant i lid, cenfigen, bradwriaeth, a rhyfel yn erbyn eu gilydd. Taleithiau cyfain a aberthid yn rhwydd i ddefod ddisail, os enwid hi yn grefyddol; a dinasoedd mawrion a roddid am ddarn o asgwrn gwywedig, neu ddernyn o bren pwdr, os meddylid ei fod yn perthyn i ryw un a enwid yn sant neu ferthyr. A thrwy effeithiad rhyw dymherau coel-grefyddol, tyrrai deiliaid yr amherodraeth wrth y miloedd i breswylio i'r anialwch, ac i aros yn y coedydd, mewn sefyllfa feudwyaidd a chyflwr deoledig, yn lle bod yn egniol yn amddiffyn eu gwlad, eu breintiau, a'u cenedl, yn erbyn y rhai a ymosodent arnynt. Hyn, a llawer o'r cyffelyb, oedd yr achos o ymddattodiad a dinystr yr amherodraeth Rufeinaidd—pan yr oedd yr ymosodwyr arni o gymmeriad hollol wahanol i'r eiddynt hwy y pryd hwnw.

Y barbariaid y rhai a heidiasent o wledydd y gogledd, oeddynt yn bobl nerthol o ran eu cyrph, o deimladau gwrol a dewr, o duedd rhyfelgar, ac yn hollol wahanol i'r hyn oedd y Rhufeiniaid wedi dyfod, trwy foethau, glythineb, meddwdod, ac ysbryd coel-grefyddol. Y llwythau gogleddol hyn a breswylient, yn eu dechreuad, y gwledydd anial, a'r mynyddau mawrion, a orchuddid yn gyffredin gan rew ac eira; ac yno wedi dyoddef pob caledi a phrinder, a chwedi arfer byw wrth eu bwäau a'u cleddyfau—i'r rhai hyn, ystyrient fod ganddynt gyflawn hawl, a chyflawn ryddid i'w defnyddio yn ddiattal, i ba le bynag yr elent. Yr oeddynt yn ddynion iachus, yn gwybod dim am effeithiau glythineb, meddwdod, gloddest, ac esmwythdra, er gwanhau na meddalhau eu cyrph na'u meddyliau. Symledd a gerwindeb a ymddangosent yn eu holl ymddygiadau; etto ffyddlondeb o'r mwyaf i'w gilydd, i'w hachos, ac i'w blaenoriaid, a weinyddent yn eu holl ymarferiadau. Canlynent eu blaenoriaid o gariad attynt, a rhydd-ddewisiad o honynt, ac nid o orfod gwasaidd. Y rhai mwyaf rhinweddol a osodent bob amser yn y swydd a'r sefyllfa honno. Er eu bod mewn ystyr yn farbariaid anwaraidd, etto, mewn llawer o rinweddau, tra-rhagorent ar y rhai hyny a orchfygasant. Geirwiredd, ffyddlondeb, ac elusengarwch, a ymddysgleirient yn eu plith; a bradwriaethau a thwyll dichellgar a fawr gasaent; ac nid oeddynt heb fod yn deimladwy o rinweddolrwydd diweirdeb yn y gwely priodasol. Dyma ranau o gymmeriad y bobloedd a ymgymmysgasant â'r Rhufeiniaid, ac a chwalasant eu hamherodraeth.*

* Dr. Russel's Hist. of Modern Europe, vol. i. pp. 4, 5.

PENNOD XXVIII.

Lle y traethir am Gymmeriad ac Ymarferiadau y Cenhedloedd hyny a ymsefydlasant yn Llywodraethau ar adfail yr Amherodraeth Orllewinol—mawr drallod a dyoddefiadau y rhai uniawn-gred, oddi wrth yr Ariaid, dan lywyddiaeth Genseric a Huneric yn Affrica—Erledigaeth ar y Cristionogion yn Persia—y Llwyddiant a fu ar Gristionogaeth yn y Canrif hwn, a'r modd yr ehangwyd terfynau yr Eglwys yn Arabia, yr Iwerddon, &c.

GWEDI i'r amherodraeth Rufeinaidd gael ei chwalu, ymddangosai llywodraethau, cyfreithiau, ac ieithoedd newyddion, yn nghyd â defodau, ymarferiadau, a gwisgiadau dyeithrol, a gelwid dynion a gwledydd ar enwau estronol, fel yr oedd cyfnewidiad hollol a chyffredinol ar wyneb holl Europia. Eithr galarus oedd i'r cyfnewidiad hwn gael ei ddwyn yn mlaen dan reolaeth dynion yn gwybod cyn lleied am nattur a phriodol egwyddorion ac iawn drefn pethau, y rhai ni addurnesid, ond i raddau tra bychain, â gwir foesgarwch a dysgeidiaeth. Llywodraeth a chyfreithiau y Rhufeiniaid yn ddiau oeddynt y gorau a'r doethaf yn eu cyfansoddiad, o neb gosodiadau dynol ag oedd yn y byd y pryd hwnw, er eu hanmherffeithrwydd; a diammau fod eu dysgeidiaeth, eu gwybodaeth, a'u celfyddydau yn llawer amgenach na dim a allasai fod yn mhlith y cenhedloedd anfoesgar, nac a fedrai y rhai a'u diystyrent ddwyn o amgylch am hir amser. Er nad oedd llawer o'r Gothiaid yn ngholl mewn talentau, medrusrwydd mewn rhai celfyddydau, a dysg, i raddau, etto y cyfryw oedd eu rhagfarn yn erbyn y Rhufeiniaid, eu haddurniant, a'u hymarferiadau, a'u hofn, rhag cael eu llygru gan ddim a berthynai iddynt, fel yr ymdrechent ddistrywio eu pethau rhagoraf, ac ymgadw rhagddynt, heb ystyried eu da na'u drwg, ond yn unig am eu bod yn perthyn i'r gorchfygedigion. Adeiladent eu bythod yn ymyl y palasau prydferthaf, a thynent i lawr yr adeiladau hardd-wychaf, a chladdent yn eu hadfail y gwaith teccaf o wneuthuriad cywreinrwydd dynol. Bwyttaent allan o lestri coed, pan y gwnaent i'w caeth-weision gael eu gwasanaethu mewn llestri o aur ac arian. Gwaharddent ddysgeidiaeth i'w plant, a gwybodaeth o'r celfyddydau: canys wrth weled ymddygiadau gwael a llwfr y Rhufeiniaid, barnent fod dysg yn gwanychu ac yn meddalhau y teimladau; ac na byddai i'r hwn a arferai grynu dan wialen yr ysgol-feistr, byth allu cyfarfod â chleddyf ei wrthwynebydd gyda llygad difraw. Oddi ar yr un egwyddor, gwrthodasant lyfrau cyfreithiau y Rhufeiniaid, am eu bod yn gwahardd, ac yn cadw oddi wrth ddynion, yr hawl o hunan-ddialiad ar eu gwrthwynebwyr; golygent eu bod trwy hyny yn amddifadu dyn o'i alluoedd gweithgar, a chynhyrfiad i bob egniad. Ni allent ddirnad pa fodd yr oedd yn ddichonadwy i ddyn a dderbyniai sarhad, ymfoddloni heb dywallt allan ei

lidiawgrwydd er ymddial ar ei wrthwynebydd am ei anghyfiawnder.* Oddi wrth hyn y deilliodd yr holl ymladdau bradwraidd, a'r rhyfel cymmydogaethol, a ddiboblogai Europe dros amryw oesau.†

Mewn CREFYDD yn unig y cydunodd y llwythau barbaraidd â thrigolion y gwledydd yn mha rai yr ymsefydlasant. Yn hyn y gorchfygwyr a orfu ymostwng i grefydd y gorchfygedig, yn mhob gwlad—yr hon, y pryd hwnw, er galar y dywedwn, oedd wedi ei dwyn i gryn debygolrwydd i gyfundraith y cenhedloedd paganaidd, â pha un yr oeddynt wedi hir ymarfer. Yn y gorllewin, yr oedd cydymffurfiad cyffredinol rhwng holl grefydd y gwledydd, nid mewn rhai defodau, ond hefyd yn egwyddorion a ffurfiad eu heglwysi, a chyfansoddiad eu crefydd ymarferol. Pa beth bynag a allasai fod o ymddangosiad gwahaniaethol rhwng y naill wlad a'r llall yn ngweinyddiad y llywodraeth, ac yn y cyflawniad o rai defodau yn yr eglwysi, yr oeddynt oll wedi eu dwyn yn gydunol i roddi y flaenoriaeth i eglwys Rhufain, a chwedi dyfod yn amddiffynol i'w hunbenaeth; a'i threfn grefyddol hi a gydnabyddid trwy'r gwledydd, er nad oedd hi etto wedi ei gosod yn ben trwy un weithred seneddol. Cydnabyddai y cenhedloedd barbaraidd yn fuan iawn ei hawdurdod a'i sancteiddrwydd, fel y dangoswyd am Alaric, pan, wedi ennill dinas Rhufain, y caniattaodd i'w fyddin yspeilio yr holl olud oedd ynddi, yn ddiarswyd, ond yr hyn oedd yn eiddo eglwysi St. Pedr a St. Paul, am ba rai gorchymynodd yn gaeth na chyffyrddid â dim oedd eiddynt; canys cyssegrfëydd dihalogedig oeddynt yn ei olwg. Yr un peth a arswydodd Attila a'i luoedd buddugoliaethus rhag myned yn erbyn dinas Rhufain.

Gyda golwg ar hyn yma, dywed Dr. Robertson yn y modd canlynol: "Mewn amser hygoelus a thywyll, yr oedd y gweinidogion crefyddol yn wrthddrychau o barchedigaeth coel-grefyddol. Y cenhedloedd barbaraidd, a orlifasent dros amherodraeth Rhufain, pan ddarfu iddynt gyntaf gofleidio y ffydd Gristionogol, a welsant fod y rhai a enwid yn weinidogion iddi yn meddu ar raddau mawr o allu ac awdurdod yn y gwledydd; hwythau, yn naturiol, a drosglwyddasant i'w haddysgwyr newyddion yr un parch ac awdurdod ag a roddent i offeiriaid y grefydd a ymadawsent oddi wrthi, pa rai oeddynt yn arglwyddi gwladol, yn gystal â gweinidogion crefyddol. Yr oeddynt yn meddwl fod yr un graddau o sancteiddrwydd yn berthynol i'w personau ag oedd i'r swyddau a weinyddent, fel yr ystyrient ei bod yn annuwiol iawn i'w darostwng hwy mewn dim, i lywodraeth llëygion. Yr offeiriaid (fel y gelwid gweinidogion yr efengyl y pryd hwnw) hwythau, ni buont annheimladwy o'r cyfleusdra hwn, a roddai gwendid ac anwybodaeth y bobl iddynt. Ymddyrchafasant, a sefydlasant lysoedd eglwysig, yn mhob gwlad, yn mha rai y byddai yr hyn a berthynai i'w personau, eu cymmeriad, eu swyddau, a'u meddiannau, yn cael eu profi. Dadleuasant yn egniol am gael eu hollol ryddhad oddi wrth awdurdod pob rhyw lywodraeth a barnwyr gwladol. A thrwy amrywiol esgusodion, a llawer o gyfrwysdra, hwy a roisant yr awdurdod i ryw gynnifer o bersonau; a helaethasant awdurdod y rhai hyn i gynnifer o achosion, fel yr oedd y rhan

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 371. Ymddengys oddi wrth hyn, mai y rhinwedd o faddeu oedd y fwyaf anadnabyddus, a pheliaf oll oddi wrth deimladau dyn yn ei gyflwr anwareiddiedig.

† Yr oedd hyn yn arferiad cyffredin yn mhlith ein hynafiaid, yn Mhrydain, yr hyn a achosodd lawer o ryfeloedd ac ymladdau yn eu mysg.

fwyaf o bob peth a berthynai iddynt, ag oedd yn wrthddadleuol, yn gofyn ymgyfreithio yn ei gylch, yn cael ei ddwyn i'w llysoedd ysbrydol."*

Pa bryd, a pha fodd, y daeth y Vandaliaid, yr Huniaid, a'r amrywiol lwythau Almaenaidd, a'r Gothiaid, i gofleidio Cristionogaeth, ac i dderbyn yr enw gyntaf, sydd anhysbys; eithr y mae yn amlwg eu bod, gan mwyaf oll, felly tu ag amser, neu yn fuan wedi, eu dyfodiad yn adnabyddus, trwy eu hymgyrchiadau am draws yr amherodraeth Rufeinaidd. Yr hyn a'u cynhyrfodd i wneuthur hyny, a'r amcanion oedd mewn golwg ganddynt wrth wneuthur felly, sydd yn gorwedd, fe allai, dan lawer o dywyllwch. Priodolir dychweliad llawer o honynt i amgylchiadau hollol ddamweiniol a dygwyddiadol, megys i freuddwydion ac arwyddion daroganol, i ffug-wyrthiau a gyflawnid yn aml yn y dyddiau hyny, gan Gristionogion byw a meirw. Fel yr oedd sôn am Dduw y Cristionogion wedi myned yn mhell ac yn agos, felly yr oedd amryw o'r cenhedloedd, yn eu cyfyngder, yn nydd eu brwydrau, yn gweddio, ac yn addunedu i'r Duw hwnw y byddai iddynt ei addoli ef, os gwaredid hwy, a chael o honynt fuddugoliaeth. Pan y deuai rhyw flaenor gwronaidd, i ymostwng i'r ffydd, trwy gymmeryd arno enw Cristion, dilynid ef gan ei ddeiliaid yn hyny, fel pe buasent yn myned gydag ef i faes y frwydr. A chwennychiad i gael goruchafiaeth, llywodraeth ar, a phreswylfa lonydd yn mhlith trigolion y gwledydd breision, i ba rai yr ymdreiglasant, a *broselytiodd* lawer o'r cenhedloedd barbaraidd hyn i gymmeryd arnynt yr enw o Gristionogaeth. Eithr, er y cwbl, dengys hyn fuddugoliaeth y grefydd Gristionogol ar Baganiaeth, yn llawn mor eglur âg y gwnaeth yn amser Cystenyn Fawr, yn enwedig wrth ystyried anwareiddddra y gwrthddrychau.† Ond yr hyn a fu yn fawr er annedwyddwch i'r byd, a diboblogiad i lawer o wledydd, oedd, i'r cenhedloedd barbaraidd hyn, gan mwyaf, gymmeryd i fynu Gristionogaeth yn ol egwyddorion yr Ariaid, a ffurfio eu crêd am Iesu Grist yn ol golygiadau y gyffes a sefydlwyd arni yn nghymmanfa Ariminum, yr hon oedd yn dra gwrthwynebol gan yr eglwys a elwid yn gyffredinol. Y gymmanfa hon a gynnaliwyd yn y ddinas uchod, o fewn yr Ital, yn y flwyddyn 360, lle yr oedd mwy na phedwar cant o esgobion wedi ymgyfarfod; trwy effeithiad bygythion Constantius, rhaglawiaid pa un oedd yno, sefydlodd y rhan fwyaf eu crêd y pryd hwnw, *nad oedd Crist ddim o'r un sylwedd, nac yn gydradd, â'r Tad, eithr mai cyffelyb iddo oedd.*

Addefir yn rhwydd fod golygiadau pob ochr, y dyddiau hyny, am grefydd, yn ei natur, ei llwyddiant, a'r modd yr oedd iddi hi gael ei dwyn yn mlaen, yn anghysson iawn âg egwyddorion syml a sanctaidd yr efengyl; canys meddyliai y Niceaid, yn gystal â'r Ariaid, fod crefydd yn gynnwysedig mewn rhyw ymddangosiad allanol, a bod ganddynt hawl i ddwyn hyny yn mlaen, a helaethu eu plaid, trwy awdurdod ddynol, a grym cleddyf y llywodraeth wladol, ac i gospi pawb nad ymostyngent i'w gosodiadau hwy. Cymmerodd y cenhedloedd barbaraidd grefydd i fynu ar yr egwyddorion melldithfawr hyn, ag oedd o'r blaen yn yr eglwys; ac oddi ar y rhai hyny y gweithredasant, fel y gwnaethant y difrod mwyaf ar ddynolryw, ac y dygasant sarhad o'r mwyaf ar enw Cristionogaeth. Ni allasai crefydd y cenhedloedd hyn fod, ar y goreu, ond un draddodiadol; canys yr oeddynt hwy yn an-

* Dr. Robinson's Hist. of Charles V. vol. i. sect. 1.

† Moshelm's Eccl. Hist. vol. ii. p. 6.

llythyrenog, gan mwyaf, yr hyn oedd yn eu hollol anghymhwyso i chwilio yr ysgrythyrau, drostynt eu hunain, pe buasai ganddynt gyfleusdra. Er, mae yn debyg, i Ulphilas, yr hwn a elwir yn apostol y Gothiaid, wneuthur y weithred ganmoladwy o roddi yr ysgrythyr yn yr iaith Teutonaidd, yr hon a feddylir oedd iaith wreiddiol y rhan fwyaf o'r cenhedloedd hyny, ag oedd yn lledanu dros y byd y pryd hwnw; etto, yr oedd yn anneallus i'r rhan fwyaf o honynt, ac yn anaml iawn yn eu meddiant. Ni allesid disgwyl fod eu gwybodaeth grefyddol ond ychydig; eithr llai na hyny, meddylir, oedd effeithiau sancteiddiol ac ysbrydol eu crefydd wedi ei wneud ar eu meddyliau, er eu dwyn i deimladau efengylaidd.* Yn wyneb yr hyn a amlygir ynddynt, mae lle i ofni, mai cymmaint a wyddent hwy am y grefydd a broffesent, oedd, ychydig o ffregawd o eiriau a ddynodai y gwahaniaeth rhyngddynt hwy a'r Niceaid; ac ni theimlent ychwaneg o effeithiau oddi wrthynt, nag a ennynai ynddynt ddigon o sêl i erlid a dinystrio pawb nad oedd o'r un golygiadau â hwy eu hunain. Meithrinwyd y sêl hon gan eu chwennychiad i gael meddiant o wledydd, dinasoedd, a meddiannau y Niceaid, a alltudient ac a ferthyrent yn achos eu crefydd; a chynhyrfid hwy yn feunyddiol i weithredu yn erledigaethau gan y Paganiaid, ag oedd etto yn aros yn lluosog ar hyd y gwledydd; pa rai a lawenychent yn fawr wrth weled dial yn dyfod ar yr eglwys a elwid yn gyffredinol, am ei hymddygiadau tu ag attynt hwy yn amser teyrnasiad yr amherawdwyr blaenorol. Y Niceaid hwythau a daflent danwydd yn barhaus ar y tân o sêl frwd oedd yn mynwesau yr Ariaid, trwy eu dadleuon gwastadol, a'u gwaith yn eu galw yn *hereticiaid*, yn rhai esgymunedig, &c. nes y cynneuasant ef yn danllwyth, a chwythu arno, nes ei fflamio yn erledigaeth o'r creulonaf a fu erioed.

Dywedir fod Genseric, brenin y Vandaliaid, unwaith yn proffesu cyffes y Niceaid; eithr pa bryd y newidiodd ei olygiadau, sydd anhysbys; ond y mae yn eglur ei fod, er yn foreu, o farn yr Ariaid, ac iddo weithredu yn erchyll dros yr egwyddorion hyny. Gwedi iddo orchfygu Affrica, llidiodd yn fawr wrth y trigolion, pa rai ni fedrent sefyll o'i flaen ar faes y gwaed, am eu bod mor hunanol a gwrthnysig, fel nad ymostyngent i'w ffydd, ac yr amheuent ei awdurdod i drefnu a gosod i fynu yr hyn a fynai yn eu cymmanfaoedd a'u heglwysi. Genseric, y gormeswr barbaraidd, oedd o deimladau mor ffyrnigaidd, fel yr oedd yn hollol amddifad o ofn a thosturi, a orchymynodd fwrw allan yr holl esgobion a'r gweinidogion o'u heglwysi, trwy yr holl wledydd oedd o dan ei lywodraeth ef, oni dderbynient gyffes ffydd yr Ariaid. Pawb a wrthsafai y gyfraith uchod, oedd yn gwneuthur eu hunain yn agored i gael eu cospi, yn y modd creulonaf, trwy gael eu bwrw allan o amddiffyn y gyfraith, a'u gwerthu yn gaeth-weision dros eu hoes. Llawer o weinidogion, a gwyr anrhydeddus, a ddygwyd i'r amgylchiadau cyfyngaf trwy hyn; rhai a arferai fyw mewn llawnder a llwyddiant, a orfyddai ymgrwydro ar hyd y maesydd, pan na oddefid i neb i'w cymmeryd i'w tai—yno yn trengu, mewn newyn, syched, a noethni.

Yn mhlith amrywiol eraill, enwir Valerian, yr hwn oedd esgob yn Abbenza, yn henafgwr parchus, uwchlaw pedwar ugain mlwydd oed, a fu farw ar y brif-ffordd, o newyn, pan na feiddiai neb roddi dim iddo i'w fwytta. Satur, prif oruchwyliwr yn nhŷ y tywysog ieuangc Huneric, a driniwyd yn y

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. ii. p. 432.

cyffelyb fodd; a miloedd lawer a ymlidiwyd i anialwch poethlyd Affrica, ac a drengasant yno. Eraill a ffoisant i wledydd estronol, ac a ddarostyngwyd i'r tlodi a'r diffygiadau mwyaf; pan lanwyd eu swyddau a'u sefyllfaoedd gan rai o'r dyhirod mwyaf anfedrus, ac y rhoddwyd eu meddiannau i'r Ariaid. Amryw o honynt a unasant mewn deisyfiad gostyngedig at eu brenin gerwinaidd, am gael aros yn llonydd yn eu gwlad, er gorfod gadael eu swyddau a'u sefyllfaoedd. Gwedi iddynt gael dyfodfa ger ei fron, efe a'u hattebodd yn erwin, gan ddywedyd, ei fod wedi penderfynu na chaent hwy, na neb o'u henwad na'u cenedl, aros yn y wlad; a braidd yr attaliwyd ef gan ei gyfeillion ei hun, rhag eu bwrw i'r môr yn ddiattreg. Y barbariad gormesol a lefarai yn llidiog a dychrynllyd; a'i holl ymddygiadau, hyd eithaf ei allu, oedd gysson â'i eiriau, fel y llychwinwyd ei holl deyrnasiad â gwaed y rhai diniwaid. Ond Huneric, ei fab, a ddaeth i'r flaenoriaeth ar ei ol, a aeth yn mhellach nag ef mewn pob drygioni a chreulondeb.*

Parhaodd teyrnasiad, neu yn hytrach, gellir dywedyd, gormesiad Genseric, yn Affrica, o'r flwyddyn 439 hyd y flwyddyn 477, pan y bu efe farw; a daeth Huneric ei fab i'r llywodraeth yn ei le. Ymddygodd hwn ar y cyntaf oddiar ryw egwyddorion, mewn graddau, o ledneisrwydd, yn groes i'w dymherau naturiol, tu ag at y Niceaid, fel y dychwelwyd y ffoaduriaid yn eu hol o wledydd eraill; ac agorasant leoedd addoliad, a sefydlasant iddynt eu hunain weinidogion, o leiaf fel ymneillduwyr, yn y deyrnas. Eugenius, yr hwn oedd ddyn rhinweddol, a sefydlwyd yn esgob i'r Niceaid, yn Carthage. Dechreuodd y Vandaliaid eu hunain adael lleoedd addoliad yr Ariaid, ac arferyd dyfod yn wrandawyr i'r Niceaid, yr hyn a roddodd dramgwydd nid bychan iddynt; a pharodd Huneric i wyliadwriaeth filwraidd gael ei gosod yn ymyl tai addoliad y Niceaid, i attal y Vandaliaid rhag myned yno; a thrinid yn dra chreulawn y rhai a wnai y cynnygiad, gan eu llusgo gerfydd gwallt eu penau ar hyd yr heolydd. Yn fuan ymddangosodd Huneric yn ffyrnigrwydd ei deimladau, ac yn nghyflawnder ei ddichellion, fel un gwedi ymroddi i dywallt gwaed plant dynion, gan ddwyn yn mlaen yr erledigaeth greulonaf yn erbyn y Niceaid. Lluaws mawr o'u hesgobion, eu henuriaid, a'u diaconiaid, yn nghyd â thua phedair mil o wyr a gwragedd, a feithrinasid mewn pob llawnder a llwyddiant, a anfonwyd ganddo yn mhell i'r diffeithwch. Gyrwyd hwy yno gan y Mooriaid annhrugarog, fel gyrfa o wartheg. Yn y nos gorphwysent, pe gorphwysfa a fuasai mewn lle cyfyng, wedi eu cau o amgylch, fel nad oedd ganddynt le i wasanaethu nattur, ond yn y lle y gorweddent ynddo; a thrwy y dyddiau, gorfyddai arnynt deithio mewn prinder mawr o bob angenrheidiau, o dan belydr dysgleiriol yr haul, trwy dywod poethion Affrica. Pan lesgaent gan eu mawr flinder, yn eu sefyllfa ddiymgeledd, gyrid hwy yn mlaen trwy frathu eu cnawd â phigau haiarn; ac os methent, llusgent hwy gyda'r fintai, gerfydd eu traed, neu eu breichiau, nes y trengent! Yr ychydig o honynt a gyrhaeddodd ben eu gyrfa, a wnaethwyd yn gaethweision gan y Mooriaid annynol. Adrodd yr holl driniaeth galed a ddyoddefodd y Trindodiaid oddi wrth yr Ariaid, y pryd hwn, sydd fwy nag a ellir; a'r hyn a ellir ei adrodd, yn ol tystiolaethau yr haneswyr mwyaf credadwy, sydd ddigon i beri i glustiau y darllenydd ferwino. Dinasyddion

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 433.

boneddigaidd, a gwragedd urddasol, yn nghyd â gwyryfon sanctaidd, a grogid i fynu yn yr awyr gerfydd eu canolau, wrth dynfa-bwysau, *(pullies)* wedi eu diosg yn noethion! Yn y sefyllfa honno, fflangellid hwy, a rhoddent heiyrn gwynias-boeth wrth y rhanau tyneraf o'u cyrph; torent ymaith eu haelodau, ac yno gadewid hwy yn nghrog nes y trengent!! Nid oedd prif swyddogion gwlad nac eglwys yn arbedol heb eu gosod i farwolaeth yn y dull hwn, neu'r cyffelyb, os gellid cael gafael ynddynt, a'u bod yn ddiysgog dros gyffes Nicea.

Arferai yr Ariaid y dull mwyaf annynol ac ynfyd o geisio helaethu eu hachos, a chwanegu eu plaid, sef trwy gasglu dynion at eu gilydd, a gosod rhai ar waith i ail fedyddio y Trindodiaid, er eu gwaethaf. Anfonodd Huneric orchymyn trwy holl derfynau ei deyrnas, am i esgobion y Niceaid ddyfod yn nghyd i Carthage, ar amser pennodol, i gynnal cynnadledd gyda yr Ariaid, er penderfynu eu dadleuon. Yn ol ei orchymyn, ar yr amser pennodol, cyfarfu yn y lle bedwar cant a phedwar a thriugain o esgobion y Trindodiaid, heblaw amryw o weinidogion eraill, a gwyr dysgedig. Cymmerodd hyn le yn y flwyddyn 483. Gwedi eu dyfod yno, er eu mawr siomedigaeth, nid oedd y cyfan ond twyll, i'w cael at eu gilydd, i'w dinystrio. Cirila, archesgob yr Ariaid, oedd wedi ei osod ar orsedd harddwych, yn llawer tebyccach i farnwr a fyddai yn myned i'w dedfrydu i farwolaeth, nag i gennadwr a fyddai am gynnadleddu heddwch. Gwedi bod yno ddyddiau lawer, a dyoddef enllib, gwaradwyddiadau, a llawer o derfysgiadau annymunol a gymmerodd le, rhoddwyd iddynt ddeall nad oeddynt i ymadael heb arwyddo eu hymostyngiad i drefn yr Ariaid, neu eu gosod oll mewn dalfa, heb un gynnadledd. Gyrwyd byddin o wyr meirch i'w plith, er eu terfysgu a'u dychrynu, pa rai a niweidiasant lawer o honynt.* Läetus, gwr dysgedig iawn, a gladdwyd yn fyw! Donatian, esgob parchus, a alltudiwyd, wedi iddo dderbyn cant a hanner o ffonnodiau; a gwnaethwyd y lleill oll yn deimladwy nad oeddynt i fyned adref at eu pobl, eu gwaith, eu cenedl, eu teuluoedd, a'u cyfeillion, hyd nes arwyddent eu cydsyniad â chyffes ffydd yr Ariaid. Wyth ar hugain a allodd ddiangc tua'u gwlad; pedwar ugain ac wyth a ymostyngasant, gan arwyddo eu cydsyniad â'r gyffes a gynnygwyd iddynt; chwech a deugain o honynt a anfonwyd i Corsica, i dorri coed at longau y brenin; a'r lleill a alltudiwyd i leoedd pellenig yn Affrica, i'w trin gyda gerwindeb a chreulondeb gan eu gelynion: dyma fu diwedd eu gwawd-gynnadledd ddisgwyliadwy. Danfonodd, amser arall, ddau cant a hanner o weinidogion i le afiachus a diymgeledd yn ynys Sardina, i ddihoeni am eu hoes. Trwy iddo ddifeddiannu y taleithiau ag oedd o dan ei lywodraeth ormesol o ei gweinidogion, nid oeddynt yn gallu cael digon o rif, o'r un rhyw fath o ddynion, a fedrai ar lyfr, o'r farn Ariaidd, i lenwi eu lleoedd; trwy hyny y bobl a adawyd i suddo i dywyllwch ac anwybodaeth hollol; ac os gwnaent gynyg ar gynnal moddion i adeiladu eu hunain yn y sefyllfa honno, byddent yn agored i gospedigaeth a chynddaredd eu gelynion.

Trigolion Tipasa, tref fechan yn ymyl y môr, yn Mauritiana, oeddynt yn hynod am eu sêl dros, a'u hymlyniad wrth, y wir athrawiaeth. Huneric a anfonodd iddynt weinidog Ariaidd, yn lle yr hwn a farnent hwy yn un uniawngred: ond y bobl a allai gael digon o longau, a adawsant eu trigfan, ac a

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 541.

hwyliasant drosodd i'r Hispaen, i chwilio am drigfan newydd; a'r gweddill nad allodd fyned ymaith, nid aent i wrando yr Ariaid, eithr ymgynnullent i addoli Duw ar ben eu hunain. Pan glybu Huneric hyny, efe a anfonodd yno swyddog milwraidd, o Carthage, yr hwn, wedi ei ddyfod, a'u casglodd hwy i'r llŷs cyhoeddus, ac a orchymynodd dorri ymaith un law i bob un o honynt, a'u tafodau. Eithr hyn oedd hynod, yr hyn a adroddir gan dystion anwadadwy, eu bod yn gallu llefaru yn eithaf eglur wedi eu difeddiannu o'u tafodau.*

Victor, esgob Veta, yr hwn oedd yn byw yr amser hwnw, a ysgrifenodd hanes yr erledigaeth hon, yn mhen dwy flynedd wedi hyny, a ddywed,—"Os oes neb yn ammau geirwiredd yr hanes hyn, bydded iddo fyned i Gaer-Cystenyn, yno, geill weled a chlywed Restitulus, y diacon, yr hwn oedd un o'r dyoddefwyr gogoneddus ag sy'n bresennol yn llŷs Zeno, yr hwn sydd wedi torri ymaith ei dafod, etto yn gallu llefaru."

Ænæus, Philosophydd o Gaza, gwr o gymmeriad geirwir, a ddywed, "Myfi a'u gwelais, ac a'u clywais fy hunan yn llefaru; a gwnaethum yr ymofyniad mwyaf manwl er cael gwybod pa fodd y gallent swnio geirian mor eglur, heb offeryn llefariad. Gwnaethum ddefnydd o'm llygaid i chwilio allan yr hyn a glywai fy nghlustiau. Agorais eu geneuau, a gwelais fod eu holl dafodau wedi cael eu tynnu ymaith o'r gwraidd, yr hyn a ddywedai y meddygon oedd yn farwolaeth sicr i'r neb y cyflawnid hyny arno." Justinian, yr amherawdwr, a ddywed iddo yntau weled rhai o honynt yn byw hyd ei amser ef; yn nghyd âg amryw eraill a allesid eu henwi, a ddug dystiolaeth o wirionedd yr hanes uchod; eithr meddylir fod yr hyn a adroddwyd yn ddigonol er boddloni pob darllenydd diduedd.†

Victorian, o Adræmetum, yr hwn oedd y pryd hwnw yn rhaglaw yn Carthage, ac oedd yn un o'r dynion cyfoethoccaf yn Affrica, gyda hwn, ymdrechodd Huneric, hyd eithaf ei allu, trwy bob moddion, i'w ennill ef i wadu ei grêd, ac i'w ddwyn drosodd at yr Ariaid; eithr, er y cwbl, bu yn aflwyddiannus yn hyny. Canys y gwron dewr a attebai gennadau y brenin, gan ddywedyd,—"Dywedwch wrth y brenin, pe na byddai um byd yn ol hwn, na wnawn y fath angharedigrwydd â'm Duw, sef ei wadu er mwyn ychydig elw a pharch y byd presennol, yr hwn sydd wedi rhoddi i mi y fraint o gredu ynddo." Teimladau ffyrnigaidd y barbariad gormesol ni fedrai oddef y fath dystiolaeth; am hyny rhoddwyd Victorian i'w boenydio hyd ei farwolaeth. Llawer a allesid enwi, a ddyoddefasant yr un modd; ac wrth wneuthur hyny, a ddygasant dystiolaeth i'r gwirionedd. Lle gwelir, er pa mor ddirywiedig oedd crefydd yn y byd y pryd hwnw, ac er fod llawer yn ddiau yn dyoddef i farwolaeth, o gasineb at y Vandaliaid, ac o dan lywodraeth golygiadau gwladwriaethol, etto, ni ellir ammau nad oedd yr Arglwydd wedi codi i fynu lawer o dystion ffyddlon dros y gwirionedd yn y dyddiau hyny. Poenai Huneric aelodau yr eglwys a elwid yn gyffredinol yn fawr, trwy ddannod iddynt nad oedd efe yn gwneuthur un gyfraith newydd, ond ysgrifio, a chymmwyso attynt hwy eu hunain yr hyn oeddynt wedi ei wneuthur trwy eu hamberawdwyr blaenorol, yn erbyn y rhai a ymneillduai oddi wrthynt. "A pha ham," meddai ef, "nad oes genyf finnau gymmaint o awdurdod yn fy nheyrnas, ag oedd ganddynt hwythau yn yr eiddynt?‡ Yn ddiau, os

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, vol. ii. p. 438.
† Milner's Church Hist. vol. ii. p. 549.
‡ Gwel y cyfreithiau hyn, tu dal. 373 o'r hanes hwn.

oeddynt hwy yn gwneuthur yn iawn trwy ormesu y rhai na chydymffurfient â'u credoau, nid oedd yntau yn mhell o fod felly.

Gwedi i Huneric fod yn offeryn i symmud i'r byd tragywyddol, trwy ei deyrnasiad creulawn am saith mlynedd a deg mis, fwy na phedwar can mil o drigolion y ddaear, efe a fu farw, yn y flwyddyn 486, yn y modd mwyaf traenus a dychrynllyd, o ran corph a meddwl. Ei gorph i gyd drosto oedd yn llawn pydredd, a rhyw fath o bryfed yn dyfod allan yn anattaliadwy o hono, a'i sawyr o'r fath fel na fedrai neb aros yn agos atto, pan yr oedd ei feddwl yn ngafael arteithiau cydwybod euog.* Teyrnasodd Gundamund ei nai am ddeng mlynedd ar ei ol ef, yr hwn, yn nechreu ei deyrnasiad, a larieiddiodd ychydig ar yr erledigaeth; a Thrasimund ei frawd a ddaeth i'r orsedd ar ei ol ef. Hwn oedd y tywysog mwyaf boneddigaidd a mawrfrydig o neb o frenhinoedd y Vandaliaid; eithr ei fawrfrydigrwydd a ddefnyddiodd efe yn hollol i orthrymu a drygu yr hyn a elwid yn eglwys gyffredidinol, trwy ei deyrnasiad, yr hon a barhaodd am ugain mlynedd. Ei gyfrwysdra oedd gymmaint, fel na ddygodd yn mlaen erledigaeth gyhoeddus yn eu herbyn, eithr trwy osod allan eu haelodau fel rhai annheilwng o ymddiried, eu gwasgu, eu gwaradwyddo, a'u hudo trwy addewidion a gwobrau i adael eu crefydd, a chymmeryd i fynu Ariaeth; ac yn y tymherau gelyniaethol hyn tu ag attynt, y gorphenodd ei yrfa. Canys gorchymynodd wrth farw, i Hilderic, ei ganlynwr, gan ei dynghedu, na roddai heddwch i'r Athanasiaid, fel eu galwai. Ond hwn a newidiodd ei farn, a dorodd ei lŵ yn fuan, ac a wnaeth heddwch â hwynt: eithr yr oedd efe yn dywysog mor wanaidd, fel y gorfu arno roddi y llywodraeth i fynu i un Gelimer, yr hwn oedd Ariad selog. Ond ni allodd efe wneuthur dim braidd; canys ei deyrnas a ddinystriwyd gan luoedd Justinian, amherawdwr y dwyrain.†

Yn yr amser hwn hefyd, yr eglwysi yn Ffraingc a'r Hispaen, oeddynt yn gorfod dyoddef erledigaeth boethlyd oddi wrth y Gothiaid, pa rai oeddynt Ariaid, dan lywodraeth Evaric, y pryd hwnw, yr hwn a deyrnasai yn Toulouse, ac a ddygai yn mlaen ryfel buddugoliaethus ac erledigaeth waedlyd yn yr holl wledydd o amgylch iddo. Hefyd, yn nechreu y canrif hwn, dyoddefai y Cristionogion erledigaeth flin yn nheyrnas Persia, pan y llywodraethid hi gan Isdegerdes a Vararenes eu brenhinoedd. Dechreuwyd hon trwy i Abdas esgob Susa dynnu i lawr Pyræum, teml gyssegredig i'r tân, yr hwn a addolai y Persiaid, fel eu duw; a dygwyd hi yn mlaen am hir amser trwy gynhyrfiad y Magiaid, a thrwy y dybiaeth o fod y Cristionogion yn bleidwyr i'r Rhufeiniaid, y rhai oeddynt mewn rhyfel â hwy y pryd hwnw. Canys bob amser y byddai rhyfel rhwng y ddwy deyrnas, cai y Cristionogion yn Persia deimlo dygasedd ac erledigaeth oddi wrth y llywodraeth, fel rhai a ddrwg-dybid o fod yn bleidiol i'r Rhufeiniaid. Eithr diffygolrwydd hanesyddiaeth o'r wlad honno, a'n gedy mewn anwybodaeth o'r niferi a fuant feirw, a'r modd garw a barbaraidd eu trinid. Terfynwyd yr erledigaeth tua'r flwyddyn 427, wedi iddo barhau am agos i ugain mlynedd.

Wrth edrych i mewn i hanesyddiaeth, ni welir un canrif er dechreu y byd wedi bod mor waedlyd, yn mha un y cymmerodd cyfnewidiadau mor fawr le mewn cyn lleied amser, ac erledigaethau mor greulawn a chyffredinol ar grefydd, â'r un sydd dan ein sylw: a chyrhaeddodd y pethau hyn, i raddau

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 532. † Gibbon's Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 434.

cryn ddwysaidd, ein hynafiaid ni yn yr ynys hon. Eithr y mae yn syndod i feddwl, ac yn ddywenydd genym i allu dywedyd, i Gristionogaeth, yn yr hyn oedd hi y pryd hwnw, lwyddo a helaethu ei therfynau yn fawr, yn nghanol yr holl derfysgoedd a'r ymladdau, yn y canrif sydd dan sylw. Er fod rhai gwyliau a gwleddoedd, ac ymdrechiadau cleddyfwyr, yn nghyd âg amryw ddefodau paganaidd, yn parhau yn mhrif ddinasoedd y gorllewin, er yr ymdrechiad a wnaed i'w dileu, etto yr oeddynt wedi eu rhoddi heibio yn y dwyrain, o fewn i amherodraeth Caer-Cystenyn, yn hollol. Gwnaed cyfreithiau llymion gan Theodosius yr ail yn eu herbyn, a bu yn llwyddiannus mor bell ag yr oedd yr ymarferiadau yn dwyn yr enw paganaidd: eithr galarus yw adrodd, fod yr un ymarferiadau, agos oll, wedi eu dwyn i fynu gan Gristionogion, dan enwau eraill.* Terfynau yr eglwys a helaethwyd yn y dwyrain, trwy ddychweliad y rhai a breswylient yn mynydd Libanus, a'i amgylchoedd. Y modd y dywedir iddynt gael eu dychwelyd oedd, trwy eu bod yn cael eu blino gan lewod, iddynt fyned, yn eu cyfyngder, at un Simeon Stylite, yr hwn y tybid ei fod fel genau Duw yn ei oes, ac ymofyn âg ef pa beth a wnaent, er cael gwared o honynt—iddo yntau eu cyfarwyddo, gan ddywedyd mai yr unig beth i'w wneuthur oedd, gadael defodau gweigion a choelgrefyddol eu tadau, a throi at yr Arglwydd, a chymmeryd i fynu y grefydd Gristionogol—iddynt hwythau wneuthur felly, a chael gwared o'u cymdeithion annymunol.† Dywedir hefyd gan haneswyr credadwy, i'r gwr hwn fod yn offerynol i ddychwelyd llwythau o'r Arabiaid i'r ffydd. Eithr am y gwyrthiau a adroddir gan lawer o haneswyr, a gymmerasant le ar yr amgylchiad, eu hanfodiad sydd fwy na bod yn beth amhëus. Llawer o'r Iuddewon a breswylient yn ynys Crete a ddychwelwyd. Gwedi eu siomi gan ryw Iuddew a osodai allan ei fod ef yn ail Foses, ac y gwaredai efe hwy trwy y môr ar dir sych, fel y gwnaethai Moses gynt, ac y dygai hwynt i wlad yr addewid, boddodd llawer o honynt wrth wneuthur y cynnygiad. Wrth weled hyn, y lleill a ymwrthodasant âg Iuddewaeth, ac a roddasant dderbyniad i'r grefydd Gristionogol.‡

Fel y dywedwyd yn barod ddarfod i'r rhan fwyaf o'r cenhedloedd a orchfygasant ac a feddiannasant yr holl amherodraeth orllewinol, gael eu dwyn i dderbyn Cristionogaeth, mewn rhyw fodd, o fewn i'r canrif hwn, Calestine, patriarch Rhufain, a anfonodd un Paladius i'r Iwerddon, yn gennadwr, i bregethu yr efengyl, yr hwn oedd y cyntaf a fu ar y fath neges yn y wlad hon. Ni bu ei lwyddiant yn gymmaint â'r disgwyliad. Eithr wedi marwolaeth Paladius, anfonodd yr un patriarch Sacathus, duwinydd o'r Alban, yno, yn y flwyddyn 432, yr hwn wedi hyny a enwir yn PATRICK, ac a elwir, mewn ffordd o barch, yn apostol yr Iwerddon, ac yn dad i'r eglwys Wyddelig, hyd heddyw. Dywedir iddo fod mor llwyddiannus yn ei weinidogaeth, âg iddo ddwyn llawer o drigolion y wlad i'r ffydd a dradd cdai efe iddynt, fel y sefydlodd archesgobaeth Armagh, yn y flwyddyn 472.§

Wrth yr hyn a ddywedwyd, yn nghyd âg amryw bethau eraill a allesid eu crybwyll, y mae yn dra eglur fod adfywiad, a'r hyn a ellir yn briodol ei alw yn ddiwygiad, ar grefydd wedi cymmeryd lle yn y canrif hwn. Canys yn flaenorol i'r dyddiau hyn, yr oedd crefydd wedi myned yn isel iawn; dynion a enwent eu hunain yn Gristionogion, wedi suddo mewn pob drygioni, a

* Sir Isaac Newton on the Prophecies of Daniel, p. 207.

† Mosheim's Eccl. Hst. vol. ii. p. 4. ‡ Ibid, vol. ii. p. 5. § Ibid, vol. ii. p. 9.

phob cymmysgedd o'r gweithredoedd mwyaf paganaidd; ac, ar yr un pryd, yn myned at fwrdd yr Arglwydd, er mwyn bod o dan enw o Gristionogion! Y cyfryw yw yr effaith ddinystriol i wir grefydd, ag sydd i ddisgwyl yn naturiol oddi wrth osod gorfodiaeth ar ddynion i fod yn grefyddol trwy gyfreithiau gwladol. Y fath beth galarus ydyw i ddynion ymadael oddi wrth drefn syml yr efengyl! Pan yr oedd rhwysgfawredd bydol a choelgrefydd yn cynnyddu yn feunyddiol yn yr eglwysi, mor ofnadwy y canlyniadau! nid oedd ond yn eu cadarnhau yn eu huanan-gyfiawnder a'u tueddiadau naturiol. A thrwy eu bywyd dyeithrol i ddylanwadau grasol, cynnyddasant yn y camddefnydd o'u breintiau crefyddol i raddau ysgeler mewn pob drygioni, a hyny yn enwedig trwy holl wledydd y gorllewin, nes iddynt gyffroi llid Duw i'w hysgubo ymaith ê'g ysgubell ei ddigofaint. Eithr y mae lle i obeithio i'r barn-edigaethau trymion ag oedd ar yr holl genhedloedd, effeithio yn sancteiddiol ar feddyliau rhai yn yr amser hwnw, i'w deffroi a'u puro, nes eu dwyn yn fwy bywiog gyda phethau ysbrydol a gwaith yr Arglwydd; a thrwy lafur y rhai hyn, dychwelwyd llawer o eneidiau a helaethwyd achos yr Arglwydd Iesu ar y ddaear. Etto gellir dywedyd am danynt, fel y dywedir yn yr ysgrythyr am Israel gynt, pan yr ymddangosai rhyw fesur o ddaioni yn eu mysg,—"Er hyny ni thynwyd ymaith yr uchelfeydd oedd yn gŵyn parhaus yn eu herbyn, ac yn wreiddyn achosol o wiwhad pob daioni yn eu plith." Felly, yn yr eglwysi Cristionogol, yr oedd yr uchelfeydd o annhrefn yn eu hegwyddorion a'u ffurfiad, fel yr oeddynt y pryd hwnw, o gyfansoddiad dynol, yn llawn o rwysgfawredd bydol, yn sicrhau llithriad o bob daioni, ac yn dinystrio pob diwygiad yn eu mysg.

Ond mewn perthynas i'r arwyddion nerthol a'r gwyrthiau rhyfedd a ddywedir fod yn cymmeryd lle yn y dyddiau hyny—heb ein drwg-dybio, gobeithir, o fod yn ammau, yn y mesur lleiaf, nad oedd yr Arglwydd, yn yr oes honno, fel mewn oesau eraill, yn gwneuthur pethau rhyfedd yn ei ragluniaeth er gwaredu ei bobl—dywedwn fod lle mawr i ammau geirwiredd y rhan fwyaf o'r pethau rhyfedd a adrodda rhai haneswyr am danynt; canys yr oedd anwiredd, twyll, a hocced wedi dyfod yn arferiadau cymmeradwyol yn yr oes honno; a'r bobloedd, yn eu hanwybodaeth a'u gwiriondeb, yn llawn awydd am ryw newydd-beth, yn hytrach nag am eiriau y gwirionedd; yr hyn a roddai gyfleusdra i dwyllwyr i ddwyn yn mlaen eu hamcanion ystrywgar. Nid yw resymol i ni gredu y gwnai yr Arglwydd weithredu arwyddion a rhyfeddodau i gadarnhau y fath ymddygiadau.

PENNOD XXIX.

Lle dangosir Sefyllfa Dysgeidiaeth am y Canrif hwn— Cymmeriad Ioan Chrysostom, arch-esgob Caer-Cystenyn—ei Helynt yno—ei Alltudiaeth—a'i Farwolaeth yn Comana—Cymmeriad Augustine cyn ei ddychweliad—ei Ddychweliad—ei waith yn cymmeryd i fynu waith y Weinidogaeth—ei Athrawiaeth a'i Fywyd—ei Ymdrech gyda Pelagius.—Cymmeriad Pelagius, a'i helynt—ei Athrawiaeth ef, yn nghyd â Hanner-Pelagiaeth—Marwolaeth Augustine—Cymmeriad Jerome y Monach—ei waith yn myned i breswylio i Palestina, ac yn dwyn yn mlaen yno fywyd Monachaidd—Cymmeriad amryw o wŷr dysgedig eraill a ymddangosasant yn y Canrif hwn—a Sefyllfa Crefydd yn Mhrydain.

Y MAE terfysgiadau gwladol, rhyfeloedd, ac ymladdau, bob amser yn ddinystriol i gynnydd gwybodaeth, a dygiad yn mlaen gelfyddydau hardd-dêg a dyngarol. Yn y canrif sydd o dan ein sylw, ni ellir disgwyl oddi wrth yr hyn a ddywedwyd yn barod, fod dysgeidiaeth a chelfyddydau mewn bri nac yn llwyddiannus, oddi eithr yr un sydd anmhrydferthaf i ddynolryw, sef, ymdriniaeth â'r cleddyf dinystriol. Er fod dynion diddysg yn aml yn cael eu derchafu i'r swyddau a'r sefyllfaoedd uchaf yn y gwledydd a'r eglwysi, etto, nid oedd awydd ac ymdrech i gyrhaedd dysgeidiaeth a gwybodaeth wedi darfod o blith dynolion, yn enwedig yn nechreuad y canrif hwn; eithr yr oedd athrofaau cyhoeddus wedi eu sefydlu yn mhrif ddinasoedd holl ranau y byd, ag oedd o dan lywodraeth y Rhufeiniaid, yn enwedig yn Ffraingc; ac athrawon o ddysg a doniau ëang a roddid i ofalu am danynt; a llawer o ddynion ieuaingc a ddygwyd i fynu yn mhob cangen o ddysgeidiaeth fuddiol, ar draul y cyffredin. Ond pan ddaeth gorlifiad o'r goresgynwyr barbaraidd dros y gwledydd, pa rai a edrychent ar y cyfryw bethau yn eithaf dirmygus, ac na chyfrifent yn rhinweddol a gwir ogoneddus i ddynolryw ond dewrder milwraidd, hwy a fuant yn ddinystriol ac yn attaliadwy i gynnydd gwybodaeth; fel yr oedd cyn diwedd y canrif hwn, ddysgeidiaeth a gwybodaeth gelfyddydol wedi eu hymlid, braidd, o bob lle cyhoeddus, i blith y monachod coel-grefyddol, i'w mangreoedd anghyoedd yn eu monachdai; yn mhlith pa rai yr oedd dysgeidiaeth wedi colli ei harddwch, ei rhyddid, a'r dysgleirdeb llewyrchiadol a feddiannai yn y dyddiau gynt, pan o dan lywodraeth rhydd-ymofynwyr am y gwirionedd. Eithr o dan ymdriniaeth y monachod, gorfyddai arni ymddangos yn ei gwisgoedd a'i defodau monachaidd, yn cael ei llyffetheirio gan eu rhagfarnau, a'i chyfyngu i ychydig reolau cyfrwysgall ac anfuddiol, a dueddai i orlwytho a dyrysu y meddwl, yn hytrach na diwygio a chadarnhau'r farn. Yn mhlith enghreifft-

iau llygredig yr oes, o dan lywodraeth archwaeth ddirywiedig y bobloedd, yn sŵn dychrynllyd y rhyfeloedd blinion, yn nghanol peryglon beunyddiol am eu heinioes, a difrod didosturi y cleddyf, cymmeradwyasant, yn lle celfyddydau defnyddiol a sylweddol, ryw ddrychiolaeth ddifywyd, a lledrith ysgeler o ddysgeidiaeth farbaraidd.

Egwyddorion y Platoniaid a fynwesid fwyaf gan ddysgedigion yn nechreuad yr oes hon; eithr cyn ei diwedd, trwy fod gwaith Origen yn dyfod yn fwy anmhoblogaidd ac anmharchus, yr hwn oedd yn Blatoniad gwresog, daeth llawer i adael yr egwyddorion hyny, ac i gofleidio rhai Aristotle, fel na ddrwg-dybid hwy o fod yn Origeniaid. Fel hyn daeth yr egwyddorion hyny yn fwy cyhoeddus, ac i gymmeradwyaeth, pa rai oedd yn hollol groes ac anghydrywiol â'r efengyl, a hyny gyda Christionogion, er yr hir ymdrech a wnaed yn eu herbyn; er, mae yn wir, fod egwyddorion Plato, mewn mwy o gymmeradwyaeth sefydlog, a hyny er ys oesau, yn athrofäau dysgeidiaeth, yn enwedig yn mhlith y Cristionogion mwyaf syml, nid yn unig o herwydd eu bod yn llai eu dyryswch a'u dichellion cyfrwysgall, ond am eu bod ar y cyfan yn fwy cysson â'r egwyddorion a ddysgir i ni yn y Dadguddiad Dwyfol. Cyfieithwyd llawer o waith Plato i'r iaith Ladinaidd, yn yr oes hon, yr hyn a'i dygodd i fwy o sylw, ac a'i cymhwysodd i fwy o ddefnydd, a helaethach ymarferiad.* Llawer o ddynion dysgedig a fu yn y byd yn yr amseroedd sydd dan ein sylw, na pherthynent yn uniongyrchol i'r weinidogaeth efengylaidd; gan hyny bydd raid i ni eu gadael, heb sôn am danynt, i sylwi ychydig ar y rhai hyny a ymddysgleiriasant fwyaf yn yr eglwys Gristionogol.

Ioan, yr hwn, o herwydd ei hyawdledd, a phereidd-dra ei lais, a elwid yn Chrysostom, yr hyn a arwydda genau auraidd, a anwyd yn nghylch y flwyddyn 354, yn Antiochia, o fewn Syria. Hanai efe o deulu cyfoethog a pharchus iawn yn y ddinas honno: wedi colli ei dad pan yn ieuangc, ni arbedodd ei fam un draul i roddi iddo bob dysgeidiaeth i'r graddau helaethaf ag oedd yn gyrhaeddadwy y dyddiau hyny; ac yr oedd ynddo dueddgarwch at Gristionogaeth er yn foreu. Dygwyd ef i fynu i'r llŷs, i fod yn areithydd yno, o dan ddysgeidiaeth yr hyglod Libanus; a'r cyfryw oedd meddyliau hwn am ei dalentau, fel pan y gofynwyd iddo unwaith, pwy a farnai efe oedd gymmwysaf i lenwi ei le ef fel athraw, yn ol y byddai farw, dywedodd mai Ioan, os na ddygai y Cristionogion ef oddi arnynt. Gwedi iddo fod dros amser yn dilyn ei swydd fel areithydd, ac yn methu cael boddlonrwydd i'w feddwl yn holl ddysgeidiaeth a gwybodaethau y Paganiaid, daeth i ymofyn am dano yn egwyddorion Cristionogaeth, ac a ymunodd â'r eglwys oedd yn Antiochia. Yn groes i ddymuniadau ei gyfeillion, efe a aeth, ac a dreuliodd chwe blynedd o amser yn mhlith y monachod yn y wlad honno, i ba rai yr oedd efe yn amddiffynydd gwresog dros ei oes. Fflavian, esgob Antiochia, a'i hordeiniodd ef yn henuriad yn ei eglwys, yn y flwyddyn 386; ac yr oedd efe yn hynod o barchus yn eu plith, yn y sefyllfa honno, ac yn boblogaidd iawn fel pregethwr. Eutropius ddrygionus, prif eunuchiad, a'r hwn oedd y pryd hwnw wedi esgyn i'r swydd uchaf yn llŷs Arcadius, amherawdwr y dwyrain, pan ar ei daith trwy Syria, a glywodd Chrysostom yn pregethu, ac a'i hoffodd yn ddirfawr. Gwedi marw Nectarius, arch-esgob Caer-Cystenyn,

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 19.

rhoddodd Eutropius ar yr amherawdwr am ei symmud ef o Antiochia i Gaer-Cystenyn, fel un cymmwys i lenwi y gadair archesgobaethol yno; yr hwn, trwy lawer o anhawsdra, a lwyddodd: ac ordeiniwyd Chrysostom i'r swydd archesgobaethol, yn Caer-Cystenyn, yn y flwyddyn 398, gan Theophilus o Alexandria, ac eraill ag oedd yn hollol anfoddlon i'r dewisiad, er eu bod yn gorfod ei wneud, yn ol gorchymyn yr amherawdwr.*

Chrysostom yn ddiau oedd un o'r dynion mwyaf ei dalentau, ei hyawdledd, a'i athrylithrwydd, ag oedd yn byw yn yr oes honno. Sêl a brydaniaeth ei deimladau, oedd, fe ddichon, yn myned i eithafoedd; a diysgogrwydd ac anmhlygedigrwydd ei feddwl, yn yr oll a gymmerai mewn llaw, oedd, fe allai, yn ormodol, ac a barasant iddo lawer o ofidiau. Trigolion Caer-Cystenyn a'i hardaloedd oeddynt yn hynod o lygredig y pryd hwnw; pawb, o'r rhai a eisteddent ar yr orsedd, hyd y rhai a breswylient yn y bwthod gwaelaf—y gwreng, yn gystal a'r bonedd, oeddynt wedi ymroddi i bob drygioni ac aflendid. A thrwy esgeulusdod Nectarius, ei ragflaenydd, nid oedd ymddygiadau y rhai hyny a gymmerai arnynt lenwi y swyddau cyssegredig un mymryn amgenach na'r gwaetbaf. Cysson a chywir olygiadau Chrysostom ar athrawiaethau syml yr efengyl, sydd amhëus iawn; eithr ei ymosodiad gwresog ac egniol yn erbyn drwg-arferiadau yr oes, yn ei weinidogaeth gyhoeddus, a'i ymddygiad personol, sydd yn ganmoladwy. Arferai y cynnildeb mwyaf yn ei fwrdd cyffredin, heb fod un amser yn cynnal gwleddoedd a dawnsiau cyhoeddus, yr hyn oedd yr arferiad yn rhy aml y pryd hwnw, fel y gwelir yn ei areithiau; ac a ddefnyddiai y meddiannau a achubai wrth beidio cynnal y fath bethau traulfawr, i weithredoedd o haelioni ac elusengarwch. Yn ei bregethau hyawdl, argyhoeddai a cheryddai ei wrandawyr yn llym, am eu bucheddau halogedig, heb arbed y rhai a wisgent y fantell borphoraidd, ac Eudoxia drythyllgar. Nid yn unig hyn, ond efe a ddefnyddiodd ei awdurdod i beri i'r rhai hyny a gymmerai arnynt fod yn weinidogion yr efengyl, fwrw ymaith y gwyryfon a arferent gymmeryd i'w tai i fod yn arglwyddesau iddynt, pan yr oeddynt yn ystyried eu hunain yn rhy sanctaidd i fyned i'r sefyllfa briodasol—yr hon arferiad oedd yn gyffredin iawn y dyddiau hyny, ac yn achos tramgwydd parhaus yn erbyn yr efengyl. Pan ar ei ymweliad trwy daleithiau Asia, efe a ddiswyddodd gymmaint a thri-ar-ddeg o esgobion, yn mharthau Lybia a Phrygia, am yr hyn a farnai efe oedd ynddynt yn anaddas i'w swydd; a thystia fod yr holl raddau esgobaethol wedi ymhalogi â ffieiddra Simonaidd, yn nghyd â llygredigaeth yr oes yn mhob lle. Geirwiredd y cyhuddiadau hyn ni ellir eu hammau, nac uniondeb egwyddorion ac onestrwydd amcanion Chrysostom yn ei ymddygiadau tu ag attynt; ond amhëuir ei ddoethineb a'i wyliadwriaeth ar ei deimladau a'i eiriau yn wyneb yr amgylchiadau.† Ei ddiffyg yn y pethau hyn a fu yn achlysur i'w wrthwynebwyr godi yn ei erbyn, yn foddion iddynt ddadwneud ei ymegniadau canmoladwy, ac yn sylfaen buddugoliaeth iddynt ar y diwygiwr hyawdl. Gellir priodoli ei gwymp i'r cyfundraith yn ol pa un y gweithredai, i'r awdurdod i ba un yr ymhonai, a'r moddion, yn nghyd â'r mesurau, pa rai a arferai er cwblhau ei amcanion, ac ar ba rai yr ymddibynai. Beth bynag fyddo athrylithrwydd, hyawdledd, dysg, ac onestrwydd amcanion dynion, pan y maent yn

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 316.
† General Biographical Dict.

myned yn mlaen yn ol trefniadau dynol ac awdurdodau gwladol, ac yn defnyddio arfau cnawdol, mewn ymddibyniad ar alluoedd dynion, i ddwyn yn mlaen deyrnas nad yw o'r byd hwn, nid oes lle i ddisgwyl llwyddiant. Gwedi i'w elynion ferwi mewn llid a malais tu ag atto, hwy a ffurfiasant blaid yn ei erbyn, i ba un y perthynai Eudoxia yr amherodres: a Theophilus, archesgob gorthrymus a balchaidd Alexandria, a'i blaenorai. Hwn a osodai allan yn barhaus, ffrwythau cribddail mewu cof-golofnau o fawr rodres, ac a arferodd bob diwydrwydd i ddwyn oddi amgylch ddinystr ei gyd-swyddog. Gwedi iddo gasglu yn nghyd nifer o esgobion o'r un teimladau âg ef ei hun, o'r Aipht, ac amryw barthau Asia, i le gerllaw Chalcedon, a elwir *Oak*, yr hwn a adeiladasid gan Ruffinus, cynnaliasant ffug-gymmanfa am bedwar diwrnod ar ddeg, lle y barnasant yr archesgob yn annheilwng o'i swydd, ac y dedfrydasant ef i alltudiaeth am ei anufudd-dod i ymddangos ger bron eu senedd. I'r dyben o awchlymu meddwl Arcadius yn erbyn Chrysostom, a'i gynhyrfu i gadarnhau eu gweithred, gosodasant allan fod y pregethwr hyawdl, yn ei bregethau, wedi enllibio yr amherodres, trwy ei galw yn Jezebel. Daliwyd yr archesgob, ac anfonwyd ef yn lled anmharchus, ac yn ddiymaros dros fôr Euxine, o ba le y galwyd ef yn ol yn anrhydeddus, yn mhen deuddydd. Canys y bobl a godasant yn unfryd, mewn gwrthryfel, ac a fygythiasant, o herwydd hyny, lwyr ddymchweliad Caer-Cystenyn. Dihangodd Theophilus am ei hoedl; eithr y lluaws monachod, ac eraill o'r Aipht, a ddaethent gydag ef i'r gorchwyl o weini ei genfigen a'i lid yn erbyn yr hyglod Chrysostom, a rhoddasant hwy i farwolaeth yn ddidosturi; ac nid oedd y palas amherodrol heb fod yn y perygl mwyaf o ddinystriad buan, yn nghyd â'i breswylwyr.

Yn y cyfamser, bu daeargryn mawr; ac, rhwng y naill beth a'r llall, dychrynodd Arcadius a'r amherodres yn fawr. Galwasant am i'r archesgob ddyfod yn ol yn fuan er tawelu y bobl. Gwedi ei ddyfod, ymroddodd i'w waith fel o'r blaen, heb wneuthur un cyfrif o'r ddedryd yn ei erbyn; ac angerdd ei ddig a ennynai yn fynych, fel y gollyngai allan ffrwd o ymadroddion hyawdl, yn anwyliadwrus, yn erbyn yr amherodres, gan ei galw yn Herodias, yr hon, dywedai, oedd yn dawnsio yn brydferth, am gael ymaith ben Ioan. Canys hi yn barhaus a'i poenydiai, gan geisio cael rhywbeth yn ei erbyn. I'r dyben hwn, gorchymynodd godi i fynu saf-ddelw iddi ei hun, yn ymyl y lle yr addolai yr archesgob, ar gyfer yr areithfa, lle yr arferai bregethu, at ba un yr ymdyrai llawer o bobl, yn lle gwrando ar eu bugail. Yr oedd yn dra theimladwy y gorfyddai arno yn fuan ymadael, ac wynebu caledfyd, yn achos ei weinidogaeth, fel y darfu iddo alw yn nyhyd ychydig o'i gyfeilllion, ac yr annerchoddd hwy yn y modd mwyaf gwresog, gan ddangos llawer o ysbryd gwrol. "Frodyr," ebe fe, "byddwch yn ddyfal mewn gweddi; ac fel yr ydych yn caru yr Arglwydd Iesu, na lwfrhewch, ac nac esgeuluswch eich gofal o'm plegid i a'm blinderau. Canys mi a wn y'm haberthir yn fuan, ac amser fy ymddattodiad a neshaodd. Gwelaf yn amlwg fod yn rhaid i mi fyned trwy lawer o galedi, a gwedi hyny, gadael y bywyd trafferthus hwn." Pan y sylwodd un ag oedd bresennol, pa beth a ddeuai o'r eglwysi? efe a'i hattaliodd, gan daro ei fys ar gledr ei law arall—yr hyn a arferai wneuthur pan yn ymddiddan yn bwysig am unrhyw beth—a dywedyd, "Frawd, digon, na ddywedwch ragor ar y pen hwn; canys ni ddechreuodd y wir athrawiaeth gyda

mi, ac ni bydd marw ychwaith gyda mi. Eithr, fel y dywedais, glynwch chwi yn eich eglwysi, a chyda'ch gwaith."*

Yn fuan cadarnhawyd y ddedryd gyntaf yn ei erbyn, mewn cynghor, gan nifer lluosog o esgobion y dwyrain, a gynnullwyd gan yr amherawdwr Arcadius, a thrwy gynhyrfiad Eudoxia; pryd y dygwyd lluoedd o filwyr i'r ddinas, er cadw y bobl mewn tawelwch, pa rai a aflonyddasant yr addoliad ar nos ŵyl y Pasc, pan oedd yr archesgob yn gweini yr ordinhad o fedydd ar amryw o ddychweledigion ieuaingc. Yn wyneb y pethau hyn, a rhag i waeth cythrwfl gymmeryd lle, gwelodd Chrysostom ei bod yn briodol iddo ef roddi ei hun i fynu ac ymostwng i'r awdurdod, a gadael y canlyniadau i law yr Arglwydd. Danfonasant ef yn ebrwydd i Caucasus, lle tra anial rhwng mynyddau Taurus yn Armenia—y fangre a bennodasid gan yr amherodres i fod yn breswylfa ei alltudiaeth. Ei ganlynwyr a erlidiwyd yn mhob lle, gan eu carcharu, eu hyspeilio o'u meddiannau, a'u gosod i farwolaeth. Rhoddwyd ei esgobaeth ef i Arsacius, brawd i Nectarius.

Yr oedd gwendid nattur Chrysostom yn fawr, fel y meddylid gan lawer y buasai farw cyn cyrhaedd pen ei daith; eithr nid felly y bu, ond cyrhaeddodd y lle mewn iechyd. Gwedi ei fyned yno ymdrechodd wneuthur ei hun yn ddefnyddiol, trwy anfon llythyrau at ei gyfeillion yn y naill fan a'r llall, i'w cyfarwyddo a'u calonogi yn ngwaith yr Arglwydd. Anfonodd hefyd gennadau i bregethu yr efengyl i'r Paganiaid barbaraidd, ag oedd ar bob llaw iddo; a phregethai yr efengyl ei hun yn Caucasus a'r gymmydogaeth.† Galluogwyd ef i wneuthur llawer o ddaioni fel hyn, yn y sefyllfa ddeoledig hon, trwy haelioni gwraig fonheddig gyfoethog o'r enw Olympias, a alltudiesid yn achos yr efengyl i Nicomedia, yr hon a gyfranai yn helaeth o'i meddiannau, er ei gyssuro ef ei hun yn ei gyflwr deoledig, ac fel y byddai iddo eu rhoddi i eraill hefyd. Y cyfryw oedd anymddibyniaeth ei feddwl, er fod ei gorph mewn caethiwed, fel yr oedd yn byw uwchlaw cael ei effeithio gan y sarhad a roddid iddo gan ei warcheidwaid ac eraill, y rhai a gamddefnyddient awdurdod Arcadius, trwy ddichellion Eudoxia; ac edrychai arnynt gyda'r diystyrwch mwyaf,—ie, fel y gellir dywedyd, am y tair blynedd y bu yn y sefyllfa alltudiol hon, a than y triniaethau geirwon hyn, iddo ymddysgleirio mwy, o ran rhinweddau ei feddwl, prydferthwch ei ymddygiadau, a harddwch ei gymmeriad, fel Cristion, na phan eisteddai yn y gadair archesgobaethol yn Nghaer-Cystenyn. Eithr ei elynion a ymgenfigenasant wrtho, ac a'i dilynasant â'u llidiawgrwydd i blith mynyddau Taurus: cawsant awdurdod gan yr amherawdwr i'w symmud i bellder anialwch Pityus; a'i warcheidwaid a fuant ffyddlon i roddi yr archiad mewn grym, er llesgedd yr archesgob. Ond cyn cyrhaedd pen y daith, efe a ryddhawyd allan o'u gafael gan angau, mewn lle a elwir Comana, o fewn Pontus, yn y flwyddyn 407, a'r bedwaredd ar ddeg ar hugain o'i oedran, wedi treulio o ddeutu naw o honynt yn y gadair archesgobaethol. Ychydig cyn ei farwolaeth, pan yn dyfod heibio i dŷ gweddi, a adeilesid gan Basilicus, merthyr, yn amser Dioclesian, dymunodd gael aros yno; eithr ei warcheidwaid ni oddefent hyny. Ond cyn eu myned yn neppell, efe a glafychodd mor drwm, trwy flinder y daith a'r driniaeth a oddefai, fel y gorfu arnynt droi yn ol i'r lle hwn; ac yma y trengodd, wedi ymgyfranogi yn

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 512. † Ibid, vol. ii. p. 320.

dawel o swpper yr Arglwydd, gyda'i gyfeillion, a chwedi cyflawni rhanau o'r gwaith yn bersonol.*

Gadawodd lawer o ysgrifau ar ei ol, pa rai sydd, gan mwyaf, mewn ffordd o homiliau, neu fyr-draethiadau ar ryw ranau o'r ysgrythyr, ac y maent yn barchus gan lawer. Er na ddilynai efe drefn gyfrinachol, megys y gwnai Origen ac eraill, wrth eglurhau yr ysgrythyrau, etto ei sêl dros fywyd monachaidd, ei barch i weddillion y merthyron, a'i olygiadau ar gyfryngoliaeth y saint meirwon, a ddengys yn ddigon eglur nad oedd ganddo olwg gywir ar athrawiaeth yr efengyl. Ei awydd am ddyrchafu ei archesgobaeth mewn rhwysg-fawredd bydol, a'i ymlyniad wrth awdurdod ddynol i drefnu achosion crefyddol, a fawr gymmylai ei gymmeriad fel Cristion syml. Parhaodd ei ganlynwyr yn blaid ymneillduedig, er maint yr erlediggaethau a ddyoddefasant, am o ddeutu deng mlynedd ar hugain.

Gwedi marwolaeth Arcadius, yn mhen ychydig fisoedd ar ol marwolaeth Chrysostom, teyrnasodd Theodosius yr ail yn ei le ef. Efe, yn y flwyddyn 438, a orchymynodd ddwyn gweddillion corph Chrysostom o Pontus i Gaer-Cystenyn, gyda rhwysg-fawredd anghyffredin. Pan oedd y gorymdeithiad trefnus yn nesu at y ddinas amherodrol, aeth yr amherawdwr allan ei hun i'w gyfarfod, ac a syrthiodd ar yr arch a gynnwysai lwch Chrysostom, gydag wylofain mawr, gan gyfaddef pechodau ei dad a'i fam tu ag atto. Fel hyn y seintiwyd yr archesgob gan yr oes honno, yr hwn a ddedfrydasid fel un esgymunedig gan yr oes o'r blaen. A therfynodd y blaid Ioaniaid, fel eu gelwid; canys dychwelasant yn ol i fynwes yr eglwys gyffredinol, mewn canlyniad i'r defodau rhagrithiol a chnawdol hyny.†

Yr oedd yr eglwys nid yn unig wedi ei dinystrio o ran ei threfn syml, trwy osodiadau dynol, a thrwy fod ei hymarferiadau efengylaidd wedi eu claddu yn y sorod dychymmygol a ymlusgasent i mewn iddi cyn y pummed canrif, eithr yr oedd athrawiaethau yr efengyl, a ymddysgleirient yn wyneb trefn achub pechaduriaid, wedi ei mawr gymmylu trwy wag philosophi a gododd ynddi. Eithr Duw, yr hwn sydd yn anfeidrol mewn daioni, a welodd yn dda i ddwyn yr athrawiaethau hyn i fwy o eglurdeb yn y canrif hwn, nag oeddynt wedi bod yn yr eglwys er dechreuad yr ail ganrif. Nid yn anfynych y mae yr Arglwydd, pan yn dwyn yn mlaen ryw orchwylion mawr er diwygiad ac adferiad i'w achos, yn dewis rhyw offerynau neillduol, ac yn eu cymhwyso, trwy ryw brofiadau hynod, i'r gorchwylion hyny. Felly yr oedd Efe yn adfywiad athrawiaethau gras, yn yr eglurdeb o honynt, y pryd hwnw—efe a gododd i fynu AUGUSTINE; hanes pa un a deilynga ein sylw, nid yn unig o blegid ei dalentau, bywiogrwydd ei athrylithdra, ehangder ei wybodaeth, a grymusder a threiddgarwch ei feddyliau, ond hefyd o herwydd y defnydd a wnaeth yr Arglwydd o hono, er dwyn athrawiaethau yr efengyl i fwy o ddysgleirdeb.

Ganwyd ef o rieni nad oeddynt gyfoethogion o bethau y byd, yn y flwyddyn 354, mewn lle a elwir Tagasti, yn Affrica. Enw ei dad oedd Patricius, ac enw ei fam oedd Morica. Ymlynodd ei dad wrth y grefydd Baganaidd hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le yn y flwyddyn 372, pan nad oedd efe ond lled ieuangc; eithr ei fam oedd Gristionoges, yn dwyn arwyddion mawr o dduwioldeb. Meddyliodd ei dad er yn forau i roi iddo yr hyn a allai o ddysgeidiaeth, gyda golwg ar iddo ennill ei fywioliaeth

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 320. † Ibid, p. 321.

trwy hyny. I'r cyfryw ddybenion, anfonodd ef pan yn ieuange i athrofa oedd yn Madaura, tref nid yn neppell oddi wrth y lle y preswyliai. Eithr y cyfryw oeddynt ei dueddiadau llygredig, fel na theimlai archwaeth priodol at ddysgeidiaeth, er cymmaint ei dalentau naturiol i hyny. Gan ymroddi i bob oferedd, ac er dilyn chwarëyddiaethau, efe a ddyfeisiai filoedd o esgusodion; a byddai yn rhydd i ddywedyd pob anwiredd er ymesgusodi rhag y wialen haeddedig. Danfonodd ei rieni ef, yn y bymthegfed flwyddyn o'i oedran, i Carthage, yn mha le y cai ychwaneg o fanteision gwybodaeth, ac y dysgai araethyddiaeth. Ymddengys iddo yn y lle hwn ymollwng yn fwy i afael ei aml lygredigaethau, gan eu dilyn yn fwy, yn groes i bob rhybuddion ac erfyniadau o eiddo ei fam dduwiol, er ei mawr alar.

Er y cyfan, pan gyrhaeddodd efe ei ugain mlwydd oed, yr oedd wedi cyrhaedd graddau helaeth o wybodaeth yn mhob canghen o ddysgeidiaeth ag oedd mewn ymarferiad y dyddiau hyny. Teimlai yn ei feddwl awydd mawr am ddedwyddwch, ac am adnabod y gwirionedd. Gydag amcan i gael hyny, dechreuodd chwilio yr ysgrythyrau: eithr yn fuan gwelodd fod yr hyn a gynnwysai y rhai yma, yn groes iawn i'r archwaeth a lywodraethai ei feddwl ef, fel eu rhoddodd yn hollol o'r neilldu. Er boddloni ei hun ac eraill, y pryd hwnw, dadleuai fod ynddynt anghyssondeb, a'r hyn oedd yn anmhriodol o fod yn ddadguddiad Duw, ac yn anweddus i ddynion i'w gredu, a bod yr iaith a arferid ynddynt yn wael a bongleraidd.* Ond y gwir achos o'u rhoddiad ymaith, fel yr addefa efe wedi hyny, oedd, anghyd-darawiad ei feddwl ef â sanctaiddrwydd, ysbrydolrwydd, a symledd y dadguddiad dwyfol, o herwydd ei falchder a'i gariad at bechod.†

Gwedi hyn efe a gofleidiodd grefydd y Manichæaid, ac a ddaeth yn amddiffynwr gwresog o'u daliadau. Yr oedd yn y cyfundraith hwn yr hyn a foddlonai archwaeth lygredig ei feddwl, am ei fod yn difeio pob drwg a wnai dynion, trwy roddi y bai i gyd ar ryw reddf dufewnol, ag oedd mewn dynion yn pechu, am yr hyn y meddylient nad oedd dyn yn gyfrifol. Dechreuodd osod ei hun i fynu fel athraw araethyddol, yn ei dref enedigol; ac yn fuan daeth i barch mawr, gan lwyddo yn ei waith. Dychwelodd yn ol i Carthage yn y flwyddyn 380, yn mha le y daeth i gymmeradwyaeth a derbyniad anghyffredin, fel dysgawdwr ac athraw araethyddiaeth. Yma cymmerodd ddynes i gydfyw âg ef, o'r hon y cafodd fab, yr hwn a alwodd efe yn Adeodatus, hyny yw, rhodd Duw. Ymddengys fod ei feddwl mewn cryn anesmwythder dros yr holl amser hwn. Yn methu cael ei foddloni am eirwiredd cyfundraith y Manichæaid, gan gymmaint yr ymddangosai ei wendid a'i anghyssondeb i'w feddwl treiddgar; ac o herwydd uchder ei feddwl a'i gariad at ei lygredigaethau, ni fynai er dim ymostwng i gyfarwyddiadau yr ysgrythyrau sanctaidd, er cael gwir ddedwyddwch.

Adrodda ei fod yn arfer gweddio weithiau y pryd hwnw am ras, ond yr ofnai yn ei galon ar yr un pryd rhag i Dduw roi iddo ras a'i hysgarai oddi wrth ei bleserau llygredig. Pan y llywodraethid ei feddwl bywiog â'r fath awydd am wir ddedwyddwch, ac anfoddlonrwydd i'r oll a feddai er gwneuthur i fynu y peth yr ymofynai am dano, nid oedd yn annisgwyliadwy iddo fod yn ddyn dadleugar. Ei fedrusrwydd ar y pen hwn hefyd, a feithrinodd i raddau mor helaeth, fel yr oedd ei wybodaeth, a chyfrwysdra ei wrthddadleuon, o'r fath ag a ddyrysai ei wrthwynebwyr, pa un bynag ai Manichæaid

* General Biographical Dictionary. † Milner's Church Hist. vol. ii. p. 336—346.

ai Cristionogion uniawn-gred a fyddent. Cyfaddefai, gyda galar, wedi hyny, iddo ennill miloedd o fuddugoliaethau dadleuol, er mawr golled iddo ei hun, trwy roi cadarnhad i'w olygiadau cyfeiliornus, a phorthiant i falchder ei galon. Dilynodd ei fam ef i Carthage; ac er nad oedd gwiw iddi ddywedyd dim braidd wrtho, etto parhäai mewn dagrau a gweddiau drosto nos a dydd. Byddai weithiau yn lled obeithiol y cai ei ddychwelyd, bryd arall yn fwy digalon; er hyny glynai yn ddidor wrth y gorchwyl. Annogai bawb i ymddiddan ac ymresymu âg ef, er ei argyhoeddi o'i gyfeiliornadau; ond nid yn aml y byddid nemawr gwell o wneuthur hyny. Unwaith, pan erfyniai hi ar ryw esgob i wneuthur hyn, dywedodd y gwr hwnw wrthi nad oedd gwiw ceisio ei argyhoeddi trwy ymddiddan âg ef; "canys," dywedai, "y mae eich mab yn rhy uchel-frydig yn bresennol, ac yn cael ei ddwyn ymaith gan ei dybiau dychymmygol a'i olygiadau hunanol, fel na wna ond cellwair â'r hyn oll a osodir o'i flaen—parhewch i weddio drosto." Eithr pan nad ymfoddlonai hi ar hyny, ac yr âi yn daerach am i'r athraw wneud prawf o hono, efe a ddywedodd wrthi, "Dos ymaith, wraig; canys nid oes modd i fab cymmaint o ddagrau fod yn golledig."* Calonogodd hyn ei fam yn fawr, er na chafodd yr hyn a geisiodd.

Gwedi i Augustine fod am ryw gymmaint o amser yn Carthage, efe a chwennychai gael maes arall, er dangos ei athrylith; a phenderfynodd fyned i Rufain. Rhag i neb o'i gyfeillion ei rwystro yn ei amcanion, efe a ymadawodd â Carthage, er hwylio tu ag yno, heb yn wybod i'w fam na neb o'i gymdeithion. Gwedi cyrhaedd Rhufain, efe a ymroddodd i'w waith, fel athraw araethyddiaeth, gyda chryn lwyddiant yn y ddinas honno. Yn mhen ychydig amser, Symmachus, rhaglaw y ddinas, a roddodd iddo y swydd a'r sefyllfa o brif athraw araethyddiaeth yn Milan. Symmudodd i'r ddinas honno yn y flwyddyn 383, pan yr ymwelodd â'r hybarch Ambrose, yr hwn a'i derbyniodd yn garedig. Wrth glywed am hyawdledd araethyddol yr archesgob, denwyd ef, o gywreinrwydd, i ddyfod yn wrandawr cyffredin iddo. Daeth ei fam ar ei ol dros y môr i Milan; a byddai yn barhaus, gyda theimladau dwys ac wylofain mawr, yn anfon ei hymbiliau at ei Duw, yn achos ei enaid. Eithr yr oedd efe yn barhaus yn myned yn mlaen, gan dwyllo a chael ei dwyllo, nes oedd yn ddeg-ar-hugain oed, etto yn llawn anesmwythder yn ei feddyliau.† Gwedi iddo, yn ei gywreinrwydd, ddechreu gwrando ar Ambrose, meddyliai ar y cyntaf nad allai ddywedyd dim wrtho a fyddai yn newydd iddo. Ond yr Arglwydd, yn ei anfeidrol drugaredd, a ddechreuodd agor ei galon, fel y daliai ar yr hyn a lefarid wrtho; a gwnai hyny fesur o argraffiadau ar ei gydwybod. Dechreuodd ddarllain y Testament Newydd gyda phleser, yn enwedig llythyrau Paul, y rhai o'r blaen a ymddangosent iddo yn wael, yn llawn anghyssondeb ac anmhriodoldeb; eithr yn awr yn llawn o ogoniant, yn cynnwys ynddynt ddyfnion bethau Duw, ac addas i bechaduriaid.

Daeth i lettya golygiadau gwahanol iawn am eglwys Dduw, a chymmeriad gwir Gristionogion, fel yr hoffai eu cyfeillach, nid i'w gwatwor, ac i gael ynddynt destunau i'w gwawdio, fel o'r blaen, ond i dderbyn oddi wrthynt addysg yn nghylch yr hyn a berthynai i'w gyflwr a sefyllfa ei enaid. Yn y cyflwr hwn, pan o dan ddwys deimlad o lygredigaeth ei nattur a halogrwydd

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 453.

† Y cyflwr gwaethaf a mwyaf anobeithiol y mae dynion ynddo yw, pan y maent yn foddlon yn eu drwg, yn dawel yn eu twyll, ac yn esmwyth arnynt yn wyneb yr athrawiaeth.

ei fywyd, yr oedd yn llawn gwrthddadleuon yn nghylch trefn hunan-ymwadol Duw i achub pechaduriaid, a ddadguddir yn yr efengyl, nes oedd ei enaid yn llawn terfysg, rhwng gweithrediadau ei gydwybod a'i nwydau llygredig. Trefnodd yr Arglwydd iddo lawer o ymgeledd a lleshad trwy ymddiddan â hen ddysgybl, o'r enw Simplician, ag oedd yn Milan, yr hwn a fuasai yn fendithiol i Ambrose ei hun lawer gwaith, mewn achosion cydwybod, trwy ei gynghorion a'i gyfarwyddiadau. Cynnyddodd ei anesmwythder yn fwy, nes dechreu effeithio ar ei nattur, a dwyn ymaith ei archwaeth oddi ar bob peth; er hyny ni fynai fyned at Iesu Grist, fel pechadur, ac ymostwng i drefn farweiddiol yr efengyl o fyw yn dduwiol.

Yr oedd iddo ddau gyfaill, a ddaethent gydag ef o Affrica, enw un oedd Alypius, yr hwn oedd gyfreithiwr, ac enw y llall oedd Nebridius, yr hwn oedd athraw mewn athrofa lythyregog yn y ddinas. Tebygid eu bod yn ymgyfranogi o'r un teimladau, i raddau helaeth, yn dilyn yr un llwybrau, ac yn cynnal i fynu gyfeillach, trwy gyfarfod yn fynych â'u gilydd. Pan ar un diwrnod yr ymddiddanai efe a'i gyfaill Alypius â'u gilydd yn nghylch eu truenusrwydd eu hunain, a bod eraill, ag oeddynt anllythyrenog ac anwybodus, mewn cymhariaeth iddynt hwy, yn myned i mewn i deyrnas nefoedd, a hwythau, er eu dysg a'u dawn, trwy eu hoediad a'u hanufuddodd, ar y ffordd i ddinystrio eu heneidiau. Effeithiodd hyn mor fawr arnynt, fel yr ymneillduasant i ryw ardd, i weddio, mewn wylofain a galar mawr o blegid eu pechadurusrwydd, eu hystyfnigrwydd i blygu i'r efengyl, a'u hoediad i gymmeryd yr Arglwydd i fod yn Dduw iddynt. Pan yn yr agwedd hon, meddyliodd Augustine ei fod yn clywed llais yn dywedyd wrtho, 'Cymmer y llyfr i fynu, a darllain.' Gwedi edrych, gwelodd epistol Paul at y Rhufeiniaid wedi syrthio o law ei gyfaill ar y llawr yn ei ymyl; a phan ei cymmerodd, wedi ei agoryd, y lle cyntaf y sefydlodd ei olwg arno, oedd y ddwy adnod olaf yn y drydedd bennod ar ddeg o'r epistol uchod. Pan eu darllenodd, hwy a effeithiasant ar ei feddwl yn hollol i ymroddi i'r Arglwydd, a dygasant iddo dawelwch mawr, mewn ymwisgiad o Grist Iesu yr Arglwydd: hefyd gwnaeth yr adnod gyntaf o'r bedwaredd bennod ar ddeg yr un effaith ar ei gyfaill Alypius.*

Nid oedd braidd un dyn yn byw mwy dan lywodraeth ei nwydau llygredig, na neb a ymroddai yn ychwaneg i bob pleserau cnawdol a digrifwch anianol, nag Augustine, yn flaenorol i'w argyhoeddiad; ond wedi hyny nid ŷm yn gweled neb yn fwy marweiddiedig i'r pethau hyn nag efe—yn mha le, meddyliwn, y gwelir nattur gwir edifeirwch ac argyhoeddiad i fywyd. Yn mhen ychydig amser wedi ei ddychweliad, penderfynodd i roddi i fynu ei swydd a'i sefyllfa fel athraw yn Milan, a chael derbyniad fel aelod yn yr eglwys Gristionogol yno. Derbyniwyd ef i'r eglwys gan Ambrose, trwy fedydd dwfr, yn nghyd â'i gyfaill Alypius, a'i fab Adeodatus, yr hwn oedd y pryd hwnw tua phymtheg mlwydd oed. Bu farw yr olaf yn fuan wedi hyn. Ymddengys ei fod yn ddyn ieuangc tra gobeithiol.

Meddyliodd Augustine a'i fam, ac ychydig o'u cyfeillion, ddychwelyd yn ol i Affrica; a chychwynasant eu taith tua'r flwyddyn 387. Ond wedi eu dyfod i lan y môr, yn Ostia, sef Porthladd Tiber, tra yn disgwyl am hwylusdod i fyned drosodd, clafychodd Morica, mam Augustine; a bu farw yn orfoleddus yn yr Arglwydd, yn y lle hwnw, yn yr unfed flwyddyn ar bym-

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 383.

theg a thriugain o'i hoedran. Ymddengys ei bod yn un a arweiniai fywyd hynod o dduwiol, yn llawn o rinweddau a doethineb, teilwng iawn o gael ei hefelychu gan wragedd etto yn gyffredin—yn enwedig yn ei thymherau aeddfwyn a gostyngedig: canys dywedir, er fod ei gwr yn un o anwydau gwylltion, tra gorphwyllog, etto, o herwydd ei hynawsedd a'i doethineb hi, na bu erioed un amrafael rhyngddynt; a'i mawr sêl a'i hymdrech diflin am droedigaeth ei mab, a ddyry wers enghreifftiol arall. Nid galluadwy i neb, a fu yn yr un profiad gorchestol dros iachawdwriaeth eu plant, ddywedyd y fath deimladau gorfoleddus a feddiannai enaid Morica, pan y gwelodd ei mab wedi ei ddwyn i adnabod yr Arglwydd, ac wedi ei adferu o'i gyfeiliorni i'r uniawn ffordd.

Gwedi dyfod Augustine i Affrica, efe a aeth ac a drigodd yn Tagasta, ei dref enedigol, ar ei etifeddiaeth ei hun, am o ddeutu tair blynedd, gan ymroddi i fyfyrdod a gweddi. Ar ol hyny, rhyw wr urddasol, yr hwn a ddeisyfai ei gymmorth ar ryw achos dadleuol, a'i dygodd i HIPPO, dinas agos i ddeugain milltir o Tagasta, lle yr oedd Valerius yn esgob, yr hwn, meddylir, oedd ddyn lled dda, eithr anghymmwys i'r gwaith yn y lle hwnw, o blegid ei anghynnefindra â'r iaith Ladinaidd. Nid amcanai Augustine breswylio yn y lle hwn pan aeth efe yno gyntaf; eithr y bobl a Valerius a fuant daer wrtho, ac a lwyddasant gydag ef i gymmeryd ei osod yn y swydd o henuriad yn yr eglwys, yn y flwyddyn 391. Pan yn cydsynio â'u cais, efe a dorodd allan i wylo. Rhai a briodolent hyn i'r siomedigaeth a gafodd o beidio cael myned yn esgob; eithr efe ei hun a ddywed mai o herwydd yr ystyriaeth o'i waeledd ei hun yn wyneb daioni a gofal Duw am dano. Gwedi cael prawf o'i gymmwysderau, ei ffyddlondeb, a'i ragoroldeb, am agos i bedair blynedd, neilduwyd ef yn gyd-esgob â Valerius, yr hyn oedd beth anghyffredin y dyddiau hyny. Parhaodd yn y sefyllfa honno, naill ai yn gydlafurwr â Valerius, neu wrtho ei hun wedi ei farwolaeth ef, am ddeugain mlynedd, sef hyd y flwyddyn 430, pan y bu farw, yn y ddegfed flwyddyn a thriugain o'i oedran.*

Ymddengys oddi wrth ysgrifau Augustine, ei fod yn ddyn â chanddo olwg ddwysaidd ar hollol lygredigaeth y nattur ddynol, ac annigonolrwydd dynion i effeithio dim yn eu hiachawdwriaeth eu hunain. Er oesau cyntaf Cristionogaeth, hyd amser Augustine, arosai y maen tramgwydd, ar ba un y gwyrasai llawer oddi ar ffordd y gwirionedd, heb ei symmud ymaith,—sef, Pa fodd yr oedd yn gysson â chymmeriad sanctaidd Duw, os efe a lywyddai y byd, fod drwg moesol neu bechod wedi dyfod i'r byd, ac yn aros ynddo? Er eglurhau hyn, a rhoi atteb i'r gofyniad uchod, efe a ddywed:—"Yr wyf yn dechreu deall yn bresennol fod pob creadur o waith dy law Di, (sef Duw,) yn ei nattur yn berffaith dda: felly y mae holl nattur, yr hon a elwir yn gyfiawn i dy foliannu am dy ryfedd ddaioni. Y drwg yr ymofynaf am dano, nid oes iddo un bodolaeth gosodedigol *(positive)*; pe bai iddo sylwedd felly, byddai yn dda: canys pob bôd gosodedigol, unigol yn gystal â chasgliadol, ydynt, ynddynt eu hunain, yn dda. Eithr drwg moesol, neu bechod, a ymddengys i ni fod yn gynnwysedig mewn anghyssondeb neu anghyd-darawiad un rhan â rhan arall o'r fodoliaeth. Barnu yr wyf (medd ef) fod dywedyd fod dwy egwyddor dragywyddol hunan-ymddibynol, er rhoddi cyfrif am darddiad a bodoliaeth

* General Biographical Dict.

pechod, yn ddywediad anghywir a disail. Drwg nid yw yn beth creadigol: ond os yr hyn sydd wir dda a ŵyra o'i le, ei sefyllfa, ei swydd, a'i drefn gyfiawn, yna, er ei fod oll yn dda mewn nattur, y bydd ddrwg, yr hyn nid yw ond naccad neu balldod o fod yn dda; ac yn ei ganlyniadau a ddwg drueni gosodedigol. Gofynais pa beth oedd camwedd; a chefais nad oedd iddo un sylwedd gosodedigol, ond gŵyrdröad yr ewyllys—yr hyn a'n tuedda oddi wrthyt ti, y Sylwedd Goruchaf, at yr hyn sydd îs a gwaelach na thydi—a thrwy hyny yn bwrw ymaith bob harddwch tumewnol, ac yn ymchwyddo mewn balchder allanol."* Meddyliwn nad oes modd i ddywedyd yn fwy cynnwysfawr, yn eglurach, ac yn fwy priodol na hyn.

Golygai, ac amddiffynai yn wresog, yn eglur, ac yn egniol iawn, fod gwaredigaeth dyn oddi wrth bechod, yn hollol o ras—nid o ras dirwasgiadol gan gyfiawnder, fel y dywedai Pelagius, yr hwn pe attaliai Duw oddi wrth ddyn neu ddynion, y byddai efe yn gwneuthur anghyfiawnder â hwy, yn ngweinyddiad ei lywodraeth; ac nid allai eu galw at eu dyledswydd fel creaduriaid cyfrifol, a'u dwyn i gyfrif am eu hanufudd-dod, fel deiliaid barn. Eithr yn ngweinyddiad ei ras effeithiol, ystyriai efe yr Arglwydd yn gwbl rydd a phenarglwyddiaethol. Dengys yn ei ysgrifau, y golygai fod gweinyddiad y gras hwn yn hollol yn ol arfaeth dragywyddol Duw. Yr arfaeth hon nid oedd a wnelai â phechod nac â cholledigaeth neb dynion. Mewn adfyfyrdod ar ddaioni Duw tu ag atto, efe a ddywed:—"Etto, myfi a bechais, O Arglwydd, yr hwn a arfaethaist bob peth, ond ein pechodau, pa rai nid oes iddynt arfaeth na threfniad."† Arferai bob amser gyssylltu neillduolrwydd a gweinidogaeth gras yn, ac ar, yr enaid, ac nid âg aberth Iesu Grist, a moddion iachawdwriaeth, pa rai a ystyriai yn ddigonol i bawb o holl ddynolryw. Er nad ymdriniai yn ei ysgrifau â phrynedigaeth, fel peth neillduol, etto y mae yn amlwg, medd hanesydd ei fywyd, y golygai fod gwahaniaeth rhwng prynedigaeth a'r iawn a roddodd Crist pan y bu farw ar y groes. Y peth diweddaf yn sylfaen ac yn achos, a'r llall yn adeilad ac yn effaith. Yr olaf yn dal perthynas yn fwyaf neillduol âg uniondeb llywodraeth Duw, a'r llall â gorchwyliaeth gras Duw tu ag at, ac mewn, dynion. Y ddiweddaf yn weithred unigol a chyffredinol yn ei hamcanion, a'r llall yn waith neillduol a wneir yn feunyddiol ar y rhai oll a gedwir i fywyd tragywyddol.‡ Mae yn fesur o alar i feddwl nad oedd yr awdwr enwog mor eglur yn ei olygiadau ar gyfiawnhad pechadur ger bron Duw, trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist; canys y mae ei ymadroddion yn arwain at ryw gymmysgedd o rinwedd ynom â'r eiddo Crist yn nefnydd ein cyfiawnhad.

Er fod y rhan fwyaf a ysgrifenodd Augustine yn tueddu at bethau dadleugar, etto ei ysgrifau ŷnt yn llawn o dueddiad ymarferol, yn arwain y darllenydd yn uniongyrchol i hunan-ymwadiad, gostyngeiddrwydd, a nefol fryd, &c. Nid yn unig dangosai y cyssondeb a'r cyssylltiad anwahanol oedd rhwng y rhinweddau hyn a'r athrawiaethau a gyhoeddai yn ei ysgrifau, ond dangosai hwy hefyd yn ei fywyd i helaethrwydd mawr iawn: canys nid oedd a lettyai feddyliau mwy gwael am dano ei hun, a chydwybod mwy tyner rhag tramgwyddo eraill, nag efe. Pan unwaith yr oedd Pelagius wedi ysgrifenu rhyw eiriau chwyddedig am ei gymmeriad, efe a'i hettyb fel y canlyn:—"Yr wyf yn ddiolchgar i chwi am eich llythyr caredig. Yr Arglwydd a roddo i chwi bob daioni, fel y byddoch dda, a byw byth

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 371. † Ibid, vol. ii. 326. ‡ Ibid, vol. ii. p. 506.

gyda'r Un tragywyddol. Er na allaf fi gael ynof fy hun y daioni y mae eich llythyr cyfeillgar yn ei fynegi, etto byddai yn angharedigrwydd o'r mwyaf ynof pe na byddwn ddiolchgar i chwi; pan ar yr un pryd yr wyf yn eich rhybuddio am weddio drosof, am gael o honof fy ngwneuthur yr hyn a dybiwch fy mod." Yr hyn oedd ei dymher tu ag at arall, hyd yn nod pan y byddai yn wrthwynebydd iddo, a welir yn eglur yn yr hyn a ddywed:—"Os yn mhoethder dadl y dygwydd i air caled ddyfod oddi wrtho, yr wyf yn ewyllysgar briodoli hyny i angenrheidrwydd, er mwyn cynnal barn, yn hytrach nag oddi ar un amcan er mwyn fy nhramgwyddo a'm dolurio i. Canys tra byddwyf yn anadnabyddus o egwyddorion pobl, y mae yn llawer gwell genyf i feddwl yn dda am danynt, nag i'w beio yn rhy fyrbwyll. Dichon ei fod trwy yr ymadroddion celyd, yn amcanu yn garedig i'm didwyllo i. Yn yr achos hwn, fy nyledswydd yw bod yn ddiolchgar iddo am ei ewyllys da, er nas gallaf, o angenrheidrwydd, gymmeradwyo ei ddywediad."*

Yr oedd ei dŷ yn agored; a llawer o gyfeillion a eisteddent o amgylch i'w fwrdd yn feunyddiol, i gyfranogi o'i haelioni. Annogai yn fawr gymdeithas fuddiol. Yr oedd wedi ei gerfio ar y bwrdd, yn yr ystafell yr ymgyfeillachent yn fwyaf cyffredin, eiriau, yn dangos y cai hwn a absenai ac a athrodai neb a fyddai absennol, ei fwrw allan oddi yno. Dywed hanesydd ei fywyd, ei fod ef yn bresennol pan oedd amryw esgobion ar giniaw yno, ar eu gwaith yn cymmeryd rhyddid gormodol ar gymmeriad rhyw un ag oedd absennol, iddo godi a dywedyd, fod yn rhaid i'r llinellau hyny gael eu dileu, neu iddynt hwy ymadael â'r ystafell yn ddioed.† Dywedir nad ysgrifenodd ar ddadl yn erbyn neb ag oedd yn fyw, heb ysgrifenu llythyr at y cyfryw i erfyn ei faddeuant, os oedd wedi dywedyd yn rhy lym ac yn rhy bersonol er niweidio ei deimladau.

Yn ei gyffes, cyfaddefa pa mor llygredig oedd golygiadau y Cristionogion y pryd hwnw ar fywyd sanctaidd, a pha mor fawr oedd eu hymdrech am esmwythau y llwybrau iddynt eu hunain, er mwynhau eu chwantau. Sylwasom o'r blaen fod rhai er amser Tertulian, yn barnu fod pechodau a gyflawnid wedi bedydd, yn anfaddeuol, gan eu bod yn golygu nad oedd un bedydd i'w ddileu; o ganlyniad, meddylient fod mwy o ryddid i bechu cyn eu bedyddio, am y symmudid ymaith eu holl bechodau pan y bedyddid hwy. Er mwyn cyrhaedd y rhyddid hwn, yr oedd llawer iawn yn oedi eu bedydd hyd awr eu marwolaeth, gan arfer yr iaith hon, medd Augustine, *Y mae efe etto heb ei fedyddio, am hyny gwnaed yr hyn a ewyllysio.* Er gwrthwynebu yr egwyddorion hyn, ymosododd ein hawdwr yn egniol yn eu herbyn, gan ddangos yn eglur y lleshad a'r daioni a ddeuai o fod yn gyflwynedig i'r Arglwydd, trwy fedydd, er yn foreu.‡ Mae yn eglur fod yr eglwys wedi colli ei symledd dechreuol yn ei threfn a'i hymarferiadau, yn mhell cyn amser Augustine; ac y mae yn alar gweled dyn o'i dalentau, ei dduwioldeb, a'i ddeall ef, wedi ymollwng cymmaint mewn amryw bethau, gyda'r ffrwd lifeiriol o lygredigaeth yn yr oes honno; canys buasai bron yn anghredadwy genym feddwl am ddyn o'i dreiddgarwch a'i gymmeriad ef, y buasai yn rhoddi crêd i'r ffug-wyrthiau a haerid fod yn cael eu cyflawni y dyddiau hyny, pe na ddywedasai hyny ei hun, trwy yr hyn a elwid yn weddillion o gyrph y merthyron. Yn y llyfr a ysgrifenodd, yr hwn a eilw efe yn Ddinas Duw, adrodda am o ddeutu deg a thriugain a fyn efe

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 407. † Ibid, vol. ii. p. 508. ‡ Ibid, vol. ii. p. 307.

i ni gredu iddynt gael cyflawni yn wirioneddol ac anwadadwy, mewn dwy flynedd, yn ei esgobaeth ef, heb law lluaws o rai tybiaethol. Tri o ba rai oedd adgyfodiad oddi wrth y meirw, a gymmerodd le trwy ryw ran, a dybid, meddant, o gorph Stephan y cyn-ferthyr. Dywedir i Lucian, henuriad o'r eglwys oedd yn Jerusalem, gael dadguddiad gweledigaethol pa le yr oedd y corph hwn yn gorwedd yn amser Theodosius yr ail; yn nghyd â chyrph Gamaliel, a'i fab Abihas, a Nicodemus, mewn maes ger llaw Caphagamala, yn ngwlad Judea. Gwedi eu cael, dygwyd gwéddillion corph Stephan gyda rhwysgfawredd anghyffredin i fynydd Sion; a gwnaed rhyw wyrthiau mawr a rhyfeddol trwy effeithioldeb y rhai hyn, yn mhob lle y dygwyd hwy iddo, trwy yr holl daleithiau lle yr oedd Cristionogaeth. Ond yr hyn a bair i ni synnu yw, y mynai gwr o enwogrwydd Augustine i bawb gredu fod y pethau hyn yn dystiolaethau o eirwiredd y grefydd Gristionogol!* Heblaw hyn, y mae yn ddiamheuol iddo ef gymmeradwyo, os nid cynhyrfu, Honorius i ddwyn yn mlaen y cyfreithiau anghyfiawnaf a chreulonaf yn erbyn y Donatiaid, ac anghydffurfwyr eraill â'r drefn a sefydlwyd trwy gyfreithiau y wladwriaeth o grefydda, fel y sylwasom yn barod.† Diau ei fod ef, fel yr oedd esgobion yr eglwys a elwid yn gyffredinol, gan mwyaf, yn rhy fynych wedi cael eu dallu gan yr awdurdod eglwysaidd, a'r rhwysgfawredd bydol, i ba un yr oeddynt wedi eu dyrchafu trwy effeithioldeb eu cymmanfaoedd, a chyssylltiad crefydd â'r llywodraeth wladol, nes yr arweiniwyd ef i'r cam-gymmeriadau hyn a'u cyffelyb. Ond y mae yn gweddu i ni glywed ei farn ef am bob traddodiadau dynol mewn crefydd, er pa mor anghysson oedd hyny â'i ymddygiadau. "Ni allaf," medd ef, "gymmeradwyo y lluaws ymarferiadau newyddion a ddygir i mewn i'r eglwys, agos, gyda'r un difrifoldeb ac ordinhadau yr efengyl, pa rai na feiddiaf eu beio yn rhy lym, rhag i mi dramgwyddo rhyw rai eraill; etto, mae yn fy mawr ofidio weled cynnifer o orchymynion iachusol yr ysgrythyrau yn cael eu rhoddi heibio mor ddiwerth, ac i edrych fel y mae ein crefydd wedi ei gorlenwi â gorchymynion dynion.

Yr holl ymarferiadau hyny nad ydynt orchymynedig yn yr ysgrythyrau, ond a drefnwyd gan y cymmanfaoedd, ac a gadarnhawyd trwy draddodiadau yr eglwys, y rhai nad ydynt yn dwyn gyda hwy un ymddangosiad rhesymol o angenrheidrwydd, yr wyf yn rhydd-ddywedyd am danynt oll, y dylent gael eu rhoddi heibio. A chaniattau nad ydynt yn waharddedig yn ngair Duw, nac yn groes i'r ffydd, etto y maent yn gorlwytho crefydd, ac yn ei gwneuthur yn ymarferiad gwasaidd, pa un y mae yr Arglwydd yn ei drugaredd wedi meddwl ei rhyddhau. Yn yr ystyr yma, y mae cyflwr yr Iuddewon yn llawer gwell na'r eiddom ni; canys nid ydynt hwy o dan rwymau i gyflawni dim, ond sydd o osodiad dwyfol, ac nid yr hyn a orchymynir gan ddynion. Beth bynag, er fod yr eglwys yn cael ei hamgylchynu âg ûs ac âg efrau fel hyn, ac yn gorfod eu goddef hwynt; etto, nid all ganiattau dim ag sydd anghysson â ffydd yr efengyl."‡

Heb fyned i sylwi dim ar y dywediadau hyn, gellir gofyn, Pa beth sydd i feddwl am ddyn o enwogrwydd Aagustine, pan y cydymffurfiai yn ei ymddygiadau â'r holl sothach anysgrythyrol ac â'r annhrefn ag oedd yn yr eglwys y dyddiau hyny, yn wyneb y dywediadau uchod? Y mae yn amlwg yn ymddygiadau Augustine, ei fod ef ac eraill, trwy effaith niweidiol parch

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 214. † Ibid, p. 334.
‡ Milner's Church Hist. vol. ii. p. 509.

a chyfoeth y byd hwn, wedi colli llawer o ysbryd yr hên ferthyron gynt, pa rai a ymwrthodent â'r cyfryw arferiadau a defodau, pan y gorchymynid hwy gan yr amherawdwyr Paganaidd, er colli eu bywydau yn yr ymdrech. Eithr efe yn bresennol a gydymffurfiai âg unrhyw ddefodau, heb un gwahaniaeth, ond yn unig eu bod yn cael eu gorchymyn gan amherawdwyr a enwent eu hunain yn Gristionogion, a bod ei elw a'i barch yn gyssylltiedig â'i gydymffurfiad. A dengys ymddygiadau Augustine y fath fagl arswydus i ddynion da, ac mor ddinystriol i grefydd, yw deddf cyfleusdra *(law of expediency)* yn eglwys Dduw; caniattau hon, ydyw, rhoddi i flaenoriaid gwlad ac eglwys yr hyn ni pherthyn iddynt, er mawr ddianrhydeddu Crist, fel pen yr eglwys, ac yn peri gwaseidd-dra mewn dynion ag sydd yn hollol anmhriodol iddynt fel deiliaid cyfrifoldeb, pob un drosto ei hun, i Dduw. Y pethau hyn a barodd i Augustine, a llawer heblaw efe, ofni dweud un gair i'w beio a'u ceryddu yn llym o'u herwydd, *rhag tramgwyddo eraill* am yr hyn oedd yn weled allan o le yn yr eglwys. Eithr mae yn ddiddadl fod yr Arglwydd wedi defnyddio Augustine fel offeryn i ddwyn athrawiaethau gras, fel y maent yn dwyn perthynas âg iachawdwriaeth dynion, i ddysgleirdeb gweinidogaethol y pryd hwnw, nad yw wedi diflanu yn hollol hyd heddyw yn yr eglwysi.

Yr oedd nid yn unig y mawr deimlad dwysaidd ag oedd efe wedi gael o druenusrwydd ei hun, a'r profiad helaeth a gafodd o ras Duw yn ei ddychweliad, yn foddion neillduol i'w ddwyn i ddeall y rhai hyn, ond hefyd y gwrthwynebiad a wnaed iddynt gan PELAGIUS, a fu yn wasanaethgar i hyn yma.* Gwr oedd Pelagius o ryw barth o Gymru, a'i enw Cymreig oedd Morgan. Dygwyd ef i fynu er yn ieuangc yn monachdy Bangor, swydd Gaernarfon, yn mha le yr arosodd am gryn amser, nes dyfod yn fonach yno. Yr oedd efe yn wr dysgedig iawn, yn meddu ar ddeall cryf, synwyr parod, a chyfrwysdra mawr, ac o ymddygiadau hynod o ddichlynaidd. Ymunodd âg un Celestius, yr hwn a elwir weithiau yn gyfaill, a phryd arall yn ddysgybl, iddo; a meddylir ei fod yn Wyddel o enedigaeth. Gwedi iddynt adael Prydain, aethant i Gaul, ac oddi yno i Rufain, lle y dechreuasant gyhoeddi eu daliadau, eithr yn lled anghyoedd; ond ymadawsant â'r ddinas honno yn y flwyddyn 410, pan y cymmerwyd hi gan y Gothiaid. Tramwyasant oddi yno i Sicily, ac oddi yno i Affrica, lle y darfu iddynt osod allan eu hegwyddorion gyda mwy o ryddid. Pelagius a ymadawodd oddi yno drachefn, gan fyned tua'r dwyrain. Eithr Celestius a arosodd yn Carthage, gan ddisgwyl cael ei ddewis a'i dderchafu i fod yn un o henuriaid yr eglwys oedd yno. Ond gwybuwyd am ei egwyddorion anefengylaidd, ac fe'i gwrthodwyd, fel y diflanodd ei obaith; a chwedi hyny yntau a ymadawodd, gan hwylio tua'r dwyrain. Yn eu holl deithiau, yn mhob lle yr oeddynt yn ymgyfeillachu â'r monachod, ac yn ymwisgo â'u gwisgiadau, ac yn cydymffurfio â'u defodau; a rhoddent foddlonrwydd mawr yn mhob lle, am eu dysg a'u gwybodaeth, nes yr ennillent barch cyffredinol.*

Yr egwyddorion neillduol a briodolir iddynt, ac a elwir yn Belagiaeth, ydynt — Fod Adda cyn pechu, yn ei nattur yn farwol, ac y buasai yn marw pe na phechasai — nad oedd y canlyniadau o gamwedd Adda, yn perthyn i

* Nis gwyddom paham y newidiwyd ei enw, os nad oddi ar yr un egwyddor ag y newidiwyd enw Saul gynt i Paul; a chyffelyb ystyriaeth a barodd i ni ei alw yn barhaus yn yr hanes canlynol yn ol ei enw diweddaf.

neb ond iddo ef yn bersonol—fod pob plentyn pan y genir ef i'r byd, yn yr un sefyllfa a chyflwr ag oedd Adda cyn pechu—fod y ddeddf yn ddigonol i addasu dynion i fyned i ddedwyddwch, a'i bod yn gorphwys ar yr un sail â'r efengyl yn hollol—nad yw adgyfodiad ein cyrph ddim yn ganlyniad rhinweddol o adgyfodiad Iesu Grist—fod gras Duw yn cael ei roddi yn ol teilyngdod y derbynydd—ac nad oes ar ddynion angenrheidrwydd am ras neillduol Duw, er cyflawni yr hyn sydd rinweddol a da, ond fod gwybodaeth o'u dyledswydd a'u hewyllys rydd yn ddigonol i hyny.*

Er lleied oedd teimladau Cristionogion yr oes honno dros athrawiaethau yr efengyl, etto, pan ddaethant i wybodaeth am y cymmysgedd uchod, hwy a derfysgasant yn fawr, a llawer a ymroddasant yn eu herbyn; a galarai llawer o herwydd fod y fath ddyn â Pelagius wedi gŵyro i'r fath gyfeiliornadau. Tra yr arosodd Celestius yn Carthage, dygwyd ei olygiadau i brawf mewn cymmanfa a gynnullwyd yno i'r dyben hwnw, yn mha un, er ei gyfrwysdra ymadroddol, y profwyd ef yn euog o gyhoeddi golygiadau cyfeiliornus. Arferai Pelagius lawer mwy o ddeheudra i guddio ei wir farn am bethau, na'i gyfaill, trwy arfer mwys-eiriau, a dywedyd mwy am *ras Duw*, yr hyn eiriau a arferai bron ar bob ymadroddiad, nes agos iddo ar y cyntaf dwyllo, hyd yn nod Augustine ei hun, trwy ei ddywediadau teg. Pan nad oedd, yn ol ei egwyddorion, fwy o le yn ei gyfundraith i ras Duw, na bod holl nattur wedi cael ei bodoliaeth a'i chynnaliaeth o'i ras, a'i fod wedi rhoi moddion gwybodaeth i ddynion, ac addaw gwobrwyo eu rhinweddau o'i ras. Ymresymai trwy godi gwrthddadleuon yn erbyn yr athrawiaeth a addefai yr eglwys yn gyffredin, yn wirioneddol, a hyny yn enw rhyw un arall; a dygai yn mlaen ofyniadau yn y fath ddull, fel y dyrysai ei wrthwynebydd; ac arferai ymwthio i gyfeillach boneddigesau, tu ag at ba rai y byddai ei ymddygiadau yn hynod o ennillgar. Mewn llythyrau at Paulinus, o Nola, a Demetrias, pendefiges a berthynai i un o'r teuluoedd mwyaf ardderchog a hynafiaethol yn Rhufain, a elwid Anicii, yr hon a enillwyd ganddo i'r weithred glodfawr, y dyddiau hyny, o weddwdod parhaus, y gwelwyd ei egwyddorion gyntaf. Tua'r flwyddyn 415, daeth ei egwyddorion yn eglurach, mewn llyfr o'i eiddo a wnaed yn gyhoeddus gan Tirnasius a Jacob, dau fonach a ddychwelwyd oddi wrth ei gyfeiliornad, trwy weinidogaeth Augustine. Eithr Pelagius, trwy ei gyfrwysdra, ac anwybodaeth esgobion y dwyrain, a ennillodd gyflawn fuddugoliaeth ar bedwar-ar-ddeg o esgobion, a ymgynnullasent i ystyried ei achos, yn Lyda, o fewn Palestina, pa rai a'i cyfiawnhausant, ac a gymmeradwyasant ei olygiadau. Ioan, yr hwn oedd y pryd hwnw yn esgob yn Caersalem, oedd yn hollol yr un âg ef yn ei farn, ac a fu yn amddiffynwr gwresog iddo. Mewn canlyniad i'r fuddugoliaeth hon, daeth Pelagius a'i gyfaill yn hyfach, ac yn fwy cyhoeddus; a neillduwyd Celestius i'r swydd o henuriad mewn rhyw eglwys yn y dwyrain.† Cynhyrfai pethau erbyn hyn yn dwrf mawr, trwy Affrica ac Europe, fel y dygwyd eu hachos ger bron mewn cymmanfa a gynnaliwyd yn Carthage, yn mha un yr oedd mwy na thriugain o esgobion yn bresennol; a dedfrydwyd eu golygiadau fel rhai cyfeiliornus, yn tueddu i fawr niwaid. Gwnaed yr un modd yn Nicomedia, a chan Augustine a'i gyfeillion; ac anfonwyd y penderfyniadau hyn i Rufain, er eu cadarnhau gan un Innocent, ag oedd yno yn esgob y pryd hwnw, yr hwn oedd wedi tyfu i fynu i awdurdod lled fawr

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 401—404. † Buck's Dict.

yn yr eglwysi y dyddiau hyny. Pelagius a Celestius hwythau a anfonasant eu hymddiffyniad i Rufain, yn nghyd â phenderfyniad cymmanfa Lyda, ac achwyniad o herwydd y camwedd yr oeddynt yn gael gan weinidogion Affrica, &c. yn yr achos hwn. Yn hyd yr amser y bu y ddadl hon, bu tri o esgobion yn Rhufain, Innocent, Zozimus, a Boniface, pa rai oeddynt oll yn hynod anwybodus o ddim a berthynai i'r ddadl, fel y rhoddent eu barn weithiau y naill ochr, a phryd arall y llall. Trwy hyn yr oedd Augustine a'i gyfeillion yn cael llawn cymmaint o waith i'w goleuo hwy am athrawiaethau gras, ag oeddynt yn gael i wrthsefyll Pelagiaeth. Eithr tua diwedd y flwyddyn 418, dygwyd allan ddedryd yn eu herbyn hwy a'u hathrawiaeth; a hwy a ddeolwyd o gymundeb yr eglwys gyffredinol, trwy weithred gymmanfaol, wedi ei chadarnhau gan esgob Rhufain a Honorius yr amherawdwr. Cododd i fynu y pryd hwnw amryw bleidwyr Pelagiaeth, yn enwedig gwr ieuangc o'r enw Julian, yr hwn, ymddengys, oedd yn llawn o hunanoldeb; ac ysgrifenodd amryw o lyfrau gyda llawer o benboethder a gerwindeb yn erbyn Augustine, gan gydmaru ei hun i Dafydd fychan yn dyfod allan yn erbyn y cawr Goliath. Eithr y cyfan a oruwchlywodraethwyd, er dwyn llawer o ddynion i chwilio yn fanylach i mewn i athrawiaethau yr efengyl, a thaenu ysgrifau Augustine yn fwy ar led, yn mhell ac yn agos, pa rai yn ddiau oedd yr amlygiad egluraf, a'r prawfiadau cadarnaf, a wnaed o honynt y dyddiau hyny.*

Dau beth a fu yn niweidiol iawn i grefydd yn yr ymdriniaeth â'r ddadl hon, y pryd hwnw; sef, *yn gyntaf*, eu gwaith yn cyrchu am frawd at esgobion Rhufain, yr hyn yn ddiammau a fu yn un o'r grisiau mwyaf i godi i fynu y gallu Pabaidd yn rhestriad olynol esgobion yr eglwys honno; ac, *yn ail*, gwaith Augustine a'i gyfeillion yn cynhyrfu y llywodraeth wladol yn erbyn Pelagius a'i gyfeillion, yr hyn oedd yn cyfiawnhau pob erledigaeth a fu erioed yn erbyn crefydd. Nid oes ar y gwirionedd eisiau y fath amddiffyniad; yr hyn oll a ofyn, er ei oruchafiaeth a'i lwyddiant, yw, adnabyddiaeth o hono, a doethineb i'w osod allan, yn nghyd â llawn ryddid i chwilio i mewn i'w amlygiadau. Modd bynag, enciliodd y ddau ddechreuydd a phrif amddiffynwyr Pelagiaeth, o'r maes; a bernir iddynt ddychwelyd yn fuan tua Phrydain; canys nid oes hanes am danynt yn y parthau hyny wedi y flwyddyn 420; a'u hegwyddorion a lethwyd yn nechreuad eu tarddiad allan. Arferai Augustine fel rheswm dros fod yr athrawiaeth o bechod gwreiddiol a llygriad babanod, yr hyn a gredai yr eglwys er y dechreuad, o herwydd ei bod yn bedyddio babanod yn mhob lle ag y byddai Cristionogaeth; yr hyn a addefai Pelagius fod yn cymmeryd lle; a theimlai bwys yr ymresymiad, fel y ceisiai ddangos eu bod yn cael eu bedyddio, er dangos, nid eu bod yn llygredig, ond fod arnynt eisiau cael eu gwneud yn debyg i Grist.

Ymddengys yn lled eglur oddi wrth hyn, fod bedyddio babanod yn arferiad gyffredinol yn yr eglwys, er dyddiau yr apostolion; onite yn ddiau buasai dynion o ddysg a threiddgarwch Pelagius a Celestius, a ymdeithiasent gymmaint trwy yr amrywiol wledydd, er gwybod beth oedd athrawiaeth ac ymarferiadau yr eglwysi, yn medru chwilio allan nad oedd hyny yn bod; pan y buasai dangos mai rhyw arferiad newydd ddechreu, neu brofi nad

* Milner's Church Hist. vol. ii. pp. 410—416.

oedd bedyddio babanod yn arferiad gyffredinol yn yr eglwys, yn gwasanaethu cymmaint ar yr achos a ewyllysient hwy ei amddiffyn.*

Pan oedd y cyffroad a achoswyd gan Belagiaeth ar ymlonyddu, cododd i fynu blaid arall, a ymdrechai ddangos rhyw lwybr canol rhwng golygiadau Augustine a Pelagius, yr hon a fu yn helaethach ei therfynau, ac yn fwy niweidiol a pharhaus na Phelagiaeth. Gelwid hon yn Hanner-Pelagiaeth. Ioan Cassian, monach o Scythia yn ei ddechreuad, eithr wedi hyny a ddaeth i fod yn weinidog i'r eglwys oedd yn Marseilles, o fewn Gaul, oedd yr hwn a ddechreuodd, neu o leiaf a adfywiodd y dybiaeth newydd hon. Yr egwyddorion neilduol a gyhoeddwyd yn sail i gyfundraith Cassian, oedd, "Nad oedd gweinyddiad gras Duw i'r naill ddyn mwy na'r llall, yn ol arfaeth dragywyddol Duw, a'i ben-arglwyddiaeth, eithr yn ol teilyngdod dyn; a bod yr Arglwydd yn unig yn ewyllysio cadwedigaeth pwy bynag a gydymffurfiai âg ammodau yr efengyl—fod Iesu Grist wedi marw dros bawb yn ddiwahaniaeth—fod gras a brynwyd, a pha un sydd yn angenrheidiol er ein hiachawdwriaeth, yn cael ei gynnyg i bob dyn yn ddiwahân—fod dynion yn gymhwys i wir ffydd a dymuniadau daionus, cyn byddo iddynt dderbyn gras y nefoedd—a bod dynion yn dyfod i'r byd yn meddu ar gyflawn ryddid, felly yn gymhwys i wrthwynebu neu i gydymffurfio â chynnygiadau grasol Duw iddynt."† Yr ymdrech gorchestol a fu yn y

* Gwedi ysgrifenu yr hyn a welir yn tudal. 227, yn nghylch tystiolaeth Origen ac eraill am Fedydd, dygwyddodd ddyfod i'm llaw y llyfr rhagorol hwnw o waith cyhoeddwr Geirlyfr Calmet, a elwir 'Ffeithiau a Thystiolaethau ar y Testun o Fedydd,' yr hwn a fawr ddymunwn i bob ymofynwr am y gwirionedd ei ddarllain. Coffeir gan yr awdwr uchod y dywediadau canlynol o eiddo Origen, o berthynas i fedydd babanod:—"O herwydd hyn hefyd," medd ef, "derbyniodd yr eglwys ORCHYMYN, NEU GYFARWYDDYD, TROSGLWYDDEDIG ODDI WRTH YR APOSTOLION, I FEDYDDIO HYD YN NOD BABANOD." Mewn lle arall, wrth ysgrifenu at gyfaill iddo, dywed Origen,—"Yn ol dywediad ein Harglwydd mewn perthynas i fabanod, (ac yr oeddych chwi yn FABAN pan eich bedyddiwyd,) 'y mae eu bangylion bob amser yn gweled wyneb fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.'" Sylwa yr awdwr ar y cyfleusderau a feddiannai Origen i wybod y gwir, ac i farnu yn uniawn yn nghylch hyn. Nid yn unig yr oedd yn un o'r dynion mwyaf dysgedig a helaethaf ei ddeall yn yr oesoedd hyny, ond yr oedd hefyd wedi teithio trwy Cappadocia, Arabia, Groeg, Rhufain, Syria, a Phalestina, i'r dyben o gael gwybod beth oedd athrawiaeth ac ymarferiadau yr eglwysi, yn enwedig y rhai hyny a blanasai yr apostolion eu hunain, yn mha rai yr oeddynt wedi ymddiried y pethau hyn i ddynion ffyddlon, er eu trosglwyddo i eraill, yn ol 2 Tim. ii. 2., a 2 Pedr i. 15. Yr oedd Origen yn byw yn nechreu y trydydd canrif, pryd y gwnaeth y teithiau hyn, tua chan mlynedd wedi marwolaeth rhai o'r apostolion, a'r dynion ffyddlon i ba rai yr ymddiriedasai yr apostolion eu hysgrifau, a pha rai a glywsant eiriau yr apostolion yn eglurhau eu hysgrifau, ac a welsant eu hymarferiadau. Heblaw hyn, ganed Origen yn Alexandria, prif-ddinas yr Aipht, yn y flwyddyn 185, lle y planesid eglwys, fel y bernir, gan yr efengylwr Marc. Leonidas, tad Origen, oedd aelod o'r eglwys hon; a bu farw yn ferthyr dros y grefydd Gristionogol: hefyd ei daid a'i hen-daid a broffesent Gristionogaeth yno. Wrth olygu nad oedd tad Origen ond pymtheg mlwydd ar hugain pan y ganed Origen, a rhoddi ond deugain mlynedd i'w daid, a'r un faint i'w hen-daid i fyw, disgynwn yn ol i'r dyddiau yr oedd rhai o'r apostolion yn byw ynddynt, ac yn agos i'r dyddiau yn mha rai y planodd Marc yr eglwys yn Alexandria; a rhaid eu bod yn gydoeswyr am hir amser â'r dynion ffyddlon yn yr eglwysi, i ba rai yr ymddiriedasai yr apostolion eu horaclau sanctaidd, er eu traddodi i eraill. A ellir meddwl yn sobr fod Origen, wedi ei ymofyniad manylaidd, yn wyneb y fath gyfleusdra i wybod y gwirionedd, wedi ei dwyllo, ac iddo gamddywedyd pan ddywedodd i'r eglwysi dderbyn gorchymyn gan yr apostolion i fedyddio hyd yn nod babanod? Neu a yw yn debygol ei fod yn anwybodus o'r hyn a gymmerasai le yn ei deulu, yn drosglwyddedig yno oddi wrth Marc yr efengylwr? Gellir dywedyd yr un peth am Irenæus, sef ei fod yntau mewn cyflawn gyfleusdra i wybod am olygiadau ac ymarferiadau yr apostolion yn bersonol am yr arferiad hon, yn gystal â rhai eraill Canys yr oedd efe yn ddysgybl i Polycarpus, a Polycarpus yn ddysgybl i Ioan yr apostol; felly, mewn ystyr grefyddol, nid oedd efe ond ŵyr i'r apostolion. Wrth ystyried y pethau hyn, a'r cyssondeb sydd rhwng hyn a'r hanes a roddir i ni yn y Testament Newydd, am wyth o deuluoedd a berthynent i'r eglwys Gristionogol—chwech o ba rai a ddywedir eu bod felly yn gyssegredig trwy fedydd—a dystawrwydd Pelagius, a sylwyd arno uchod, ymddengys i ni fod bedyddio babanod yn arferiad gyffredinol yn yr eglwys am y pedwar canrif cyntaf o'r oes Gristionogol, mor eglur ag y dichon ffeithiau hanesyddol ei gwneuthur.

Hefyd, chwanega yr awdwr amryw o arwyddion ac ysgrifau y mae wedi eu chwilio allan, ag a osodasid ar gerrig beddau, neu fedd-adeiliau, yn Rhufain, a gwledydd eraill, yn mha rai y planwyd Gristionogaeth gyntaf. Gosodwyd yr argraffiadau hyn i fynu er coffadwriaeth am blant *bedyddiedig* a fuant feirw o fewn i'r pedwar canrif cyntaf o'r oes Gristionogol, o flwydd hyd yn ddeng mlwydd oed.—*See Facts and Evidences on the Subject of Baptism, by the Editor of Calmet's Dictionary of the Holy Bible, in Six Letters to a Deacon.*

† Milner's Church Hist. vol, ii. p. 421.

dyddiau hyny rhwng pleidwyr yr egwyddorion hyn a'r rhai gwrthwynebol iddynt, oeddynt yr un, mewn ystyr, ag oedd wedi bod yn y dyddiau gynt, rhwng y deddfolion a Paul yr apostol, ac a fu wedi hyny rhwng eglwys Rhufain a'r diwygwyr, ac, mewn gair, yr un â'r hyn sydd rhwng deddfoldeb a gras, yn mhob lle ac yn mhob oes o'r byd.

Yr oedd yn amseroedd blin a thrallodedig iawn ar daleithiau Affrica y pryd hwnw, trwy fod Genseric a'i fyddinoedd buddugoliaethus yn tramwyo trwyddynt o gwrr i'w gilydd. Yn y flwyddyn 430, gosododd warchae ar Hippo; ac yn mhen tri mis o'r gwarchae, bu farw Augustine; ac yn mhen ychydig o fisoedd wedi hyny, ennillodd y ddinas, a rhoddodd hi yn ddifrod, trwy y cleddyf a'r fflamiau tân. Dygodd yr amseroedd blinion hyny lawer yn ddiau i sylwi mwy ar bethau crefyddol; a bu yr adfywiad a fu ar grefydd trwy bregethau ac ysgrifau Augustine a'i gyfeillion, yn llawer o gynnaliaeth a chyssur i'r Cristionogion, yn wyneb yr erledigaethau a ddyoddefasant, a'r creulonderau a amlygwyd tu ag attynt gan yr Ariaid, o dan dywysiad Genseric. Pan losgwyd Hippo, yn ol marwolaeth Augustine, achubwyd ei lyfrau rhag y difrodiad; a'i ysgrifau oeddynt ddau cant a deuddeg ar hugain o lyfrau, neu draethodau mawrion, ar wahanol byngciau crefyddol, heblaw ei esboniadau ar y Salmau a'r Efengylwyr. Ffurfiodd drefn, yn debyg i'r un fonachaidd, i ddwyn dynion ieuaingc i fynu mewn gwybodaeth, pa un a fu yn enwog wedi hyny yn mhlith pobl yr eglwys babaidd; ac y mae yn debyg ei bod yn parhau hyd heddyw yn eu plith, o dan yr enw *Trefn Augustine*. Ond yr hyn sydd i'w ryfeddu, yw, i'r un eglwys ag a seintiodd Augustine, esgymuno Calfin am bregethu yr un athrawiaethau.

Er yr ymddengys fod y drefn fonachaidd yn hollol groes i amcan ac ysbryd yr efengyl, etto meddylir fod mwy o ddynion enwog a da, ac o wir dduwioldeb, yn eu plith hwy, yn yr amser sydd o dan ein sylw, nag oedd yn mhlith neb arall. Nid y lleiaf yn yr ystyr yma, yn ngolwg llawer, oedd JEROME, yr hwn a elwir, er ei wahaniaethu oddi wrth eraill, Jerome y Monach. Ganed ef o rieni Cristionogaidd, oedd yn byw mewn tref fechan a elwid Stridon, yn Pannonia, ar derfyn Dalmatia, tua'r flwyddyn 331, yn amser teyrnasiad Cystenyn. Ei rieni oedd mewn sefyllfa lled anrhydeddus, yn berchen llawer o dda y byd hwn; ac ni arbedasant un traul i roddi i'w mab bob dysgeidiaeth gyrhaeddadwy y dyddiau hyny. Gwedi iddo fod dros amser yn dysgu yr egwyddorion yn ei wlad gyssefin, efe a anfonwyd, er mwyn cael manteision ychwanegol, i Rufain. Bu yn y ddinas honno am hir amser, o dan ofal yr athrawon goreu yn mhob cangen o ddysgeidiaeth, ac ymunodd â'r eglwys y pryd hwnw. Er mwyn helaethu ei wybodaeth, efe a dramwyodd trwy holl ddinasoedd mwyaf poblogaidd cyfandir Europe, gan ymweled â phob llyfr-gell, ac ymddiddan â'r dynion mwyaf dysgedig yn mhob lle. Yr oedd erbyn hyn yn teimlo ynddo ei hun duedd mawr i fywyd myfyrgar a deoledig, fel, wedi ei ddychweliad yn ol i Rufain, nad oedd yn gallu teimlo un cyssur i fyw yno, o herwydd anghyd-darawiad ei mawr dwrf a'i therfysg, â thueddiad ei feddwl; ac fel yr oedd bywyd monachaidd yn dechreu dyfod i fri lled fawr yn y dwyrain y pryd hwnw, efe a benderfynodd ymweled â'r gwledydd hyny. Gweoi tramwyo trwy Dalmatia, Thracia, Bithynia, ac Asia Leiaf, efe a ddaeth i Syria. Yn ei holl ymdaith efe a ymwelodd â'r prif ddinasoedd, yn enwedig â Chaersalem, yr hyn a ystyrid yn rhinwedd fawr y dyddiau hyny: ac yn mhob lle cynnaliai gyfeillach â dynion o ddysg ac enw. Eithr mewn anfyddlourwypd i

ddull y byd hwn, a threfn dynion yn dwyn yn mlaen eu hachosion, efe a ymneillduodd am bedair blynedd, i le deoledig yn Syria, i anialwch heb neb cymdeithion bron, ond gwylltfilod ac adar asgellog, gan ymroddi yn ddiflino i fyfyrdod, gweddiau, a gwyliadwriaethau parhaus, heb gysgu ond ychydig, a bwytta llai, na chaniattau iddo ei hun un difyrwch daearol. "Y cyfryw sefyllfa oedd yn llawer mwy cyd-darawiadol â thueddiad nattur Jerome," medd hanesydd ei fywyd, "na byw yn y dinasoedd gyda'r fath Gristionogion ag oedd ynddynt yn rhy gyffredin—dynion ag oedd yn hanner Cristionogion ac yn hanner Paganiaid, yn Gristionogion mewn dim ond enw yn unig." Anmharodd ei iechyd a gwanhaodd ei nattur yn fawr, yn y lle hwnw, fel y gorfu arno ei adael, a myned i Antiochia, yn mha le yr oedd y Cristionogion wedi ymranu yn dair plaid. Miletus, Paulinus, a Vitalis, oedd yn cyd-ymgeisio am fod yn esgob y ddinas; eithr Jerome, trwy gyfarwyddiadau Damasus, esgob Rhufain, a ymunodd â phlaid Paulinus. Yn y flwyddyn 378, ordeiniwyd ef gan Paulinus, yn henuriad yn ei eglwys yn Antiochia. Gwedi hyn efe a aeth i Gaer-Cystenyn, i ymweled â Gregory Nazianzen, i'r hwn y cydnabyddai ei hun dros ei holl fywyd yn ddyledwr, am lawer o hyfforddiadau dawnus a dderbyniodd ganddo, mewn perthynas i dduwinyddiaeth, a'r modd i ddeall yr ysgrythyrau.* Tua'r flwyddyn 382, efe a aeth i Rufain drachefn, lle y daeth ei enw yn fuan yn gyhoeddus, fel dysgawdwr duwinyddol a Christion defosiynol; a Damasus yr esgob a'i gwnaeth ef yn gofiadur iddo ei hun. Eithr ni ymddengys fod yn Jerome duedd i aros yn hir yn y cyfryw sefyllfa, ac ni fedrai efe o gydwybod feddwl am unrhyw dderchafiad uwch, fel y dywedir, yn yr eglwys, na bod yn henuriad; canys yr oedd yn amlwg iddo ef, nad oedd o'r dechreuad, o drefniad yr Arglwydd, ond dwy swydd, sef, henuriad a diacon, yn yr eglwys. Er eglurhau hyn, efe a ddywed:—"Henuriad ydoedd yr un swydd âg esgob. Bydded i'r esgobion ddeall, mai trwy arferiad yn unig y maent yn uwchradd i'r henuriaid, ac nid o drefniad yr Arglwydd: ac y mae yn eglur," eb efe, "mai yr un peth oedd henuriaid ac esgobion yn mhlith ein hynafiaid."† Gwedi marwolaeth Damasus, penderfynodd fyned drachefn i'r dwyrain, ac ymroddi i fywyd monachaidd; a llawer iawn o wyr a gwragedd, gwreng a bonedd, a aethant gydag ef y pryd hwnw o Rufain; yn mhlith pa rai yr oedd Paula, pendefiges o deulu anrhydeddus iawn, a mawr ei chyfoeth, a'i merch Eustochium, a Marcela. Gwedi eu dyfod i Syria, Jerome a dramwyodd i'r Aipht, a'r gwledydd hyny, i edrych helynt y monachdai, ac i weled eu trefn; pan y gofidiwyd ef yn fawr, trwy weled fod y monachod yn mhob lle, yn bleidwyr i athrawiaeth Origen, i'r hon yr oedd efe yn wrthwynebwr gwresog. Sefydlodd ef, a'r rhai a ddaeth gydag ef o'r Ital, yn Bethlehem, y lle y ganed ein Harglwydd; ac adeiladodd Paula yma bedwar monachdy, ac un yspytty, tri o honynt i ferched o dan ei gofal ei hun, tra y bu hi byw, a'r llall i'r meibion, o dan lywyddiaeth Jerome. Yma y treuliodd efe weddill ei ddyddiau, i olygu dros y monachdy ag oedd dan ei ofal, ac i wasanaethu mewn pethau crefyddol i'r holl sefydliad, ac ysgrifenu amryw lyfrau ar wahanol bethau, yn nghyd â chynnal cymdeithas â llawer o gyfeillion dysgedig yn mhell ac agos. Bu farw yn y flwyddyn 422, yn un-ar-ddeg a phedwar ugain mlwydd oed.

Mae dynion dysgedig yn amrywiol iawn yn eu golygiadau mewn perthynas

* Milner's Church Hist. vol. ii. pp. 511—514.
† Dr. Dwight's System of Theology, vol. v. p. 186.

i'w gymmeriad. Rhai a'i dyrchafant, fel na bu ei gyffelyb yn yr eglwys Gristionogol o ddyddiau yr apostolion hyd heddyw, mewn dysgeidiaeth, duwioldeb, ac fel duwinydd ac areithydd; pan y mae eraill yn wahanol iawn i hyn yn eu barn am dano. Mae yn ddiddadl ei fod yn ddyn dysgedig iawn, ac yn meddu ar wybobaeth helaeth bron am bob peth, yn enwedig fel hanesydd hynafiaethol; eithr nid oedd ganddo olygiadau cywir nac eglur ar athrawiaethau yr efengyl. Gellir priodoli hyn i'w dueddiad cryf i fywyd monachaidd, a'i olygiadau arallawg i'r eithafoedd pellaf ar bob rhan o'r gair, yr hyn oedd yn mawr gymmylu ei farn. Yr oedd yn wrthwynebwr gerwin i Pelagius, fel ag yr oedd i bawb ar na chydwelai âg ef; canys nid oedd ganddo y mesur lleiaf o lywodraeth ar ei dymherau, na mwyneidd-dra ysbryd i ymdrin âg unrhyw ddadleuaeth; ond ymruthrai ar ei wrthwynebwyr yn y modd garwaf, gan eu tafodi yn y dull gwaethaf, a hyny am bethau bychain a dibwys yn fynych, yr hyn a ystyrir ynddo yn fawr wendid. Ei ysgrifau ydynt lawer, ar amrywiol bethau, a chwedi eu diogelu hyd y dyddiau presennol.*

Ymddengys fod crefydd yn llawer mwy isel yn y dwyrain yn y canrif hwn, nag yn y gorllewin; etto yr ydym yn gweled fod yno ddynion o enwogrwydd fel ysgrifenwyr. Yn mhlith pa rai gellir enwi SOCRATES, SOZOMEN, a THEODORET, o Cyrus, o fewn Syria. Y rhai hyn a ysgrifenasant hanes yr eglwys, a gweithrediadau dynion da ac enwog, am ran o'r pedwerydd, a rhan o'r pummed canrif, o'r amser y terfynodd Eusebius, hyd derfyn eu bywyd. Eu hanesion a ystyrir yn lled anmhleidgar, yn gynnwysfawr, ac yn fuddiol i bob un a chwennycho wybod pa fodd y bu yn y dyddiau hyny. Buasent yn ddiau yn well, pe na buasai fod ysbryd yr amseroedd wedi llygru meddyliau yr awdwyr â chymmaint o duedd i fywyd monachaidd, yn enwedig y ddau ddiweddaf; dros ba drefniad dangosent lawer o wresogrwydd.†

Theodoret a anwyd yn Antiochia, yn y flwyddyn 386, ac a neillduwyd i'r swydd esgobaethol yn Cyrus, yn y flwyddyn 420, a bu yno hyd hen ddyddiau. Ymddengys ei fod yn ddyn heddychlawn a thangnefeddus iawn; o herwydd paham cyhuddwyd ef gan rai dadleuwyr penboeth o fod yn tueddu at Nestoriaeth, yr hyn oedd destun dadleuaeth yr oes honno. Er ei amddiffyniad, anfonodd annerchiad deisyfiadol iawn at Leo, patriarch Rhufain, am ei nodded. Fel hyn, yr oedd amrysonau yr esgobion â'u gilydd, yn mhob man, yn mawrhau, yn codi i fynu, ac yn cadarnhau awdurdod a gallu y patriarch hwnw, trwy fod y naill a'r llall yn anfon am ei amddiffyniad yn erbyn eu gilydd, nes ei ddwyn i'r hyn a elwir yn llywodraeth Babaidd. Yr oedd Theodoret yn weinidog llafurus, heb fod yn ymroddi i'r unrhyw rodres âg amryw yn ei amser: eithr ei olygiadau ar athrawiaethau yr efengyl a threfn eglwys Dduw, oeddynt dra chymmysglyd. Yn ol ei gyfaddefiad ei hun, yn ei annerchiad at Leo, cynnwysai ei esgobaeth WYTH CANT o blwyfau! Beth bynag a ellir ei feddwl am gymmeriad personol y cyfryw ddyn, ni ellir ond barnu yn gul am gywirdeb ei olygiadau gweinidogaethol, pan y meddyliai am olygu dros gynnifer o eneidiau, er atteb cydwybod i Dduw am ei weinidogaeth tu ag attynt. Pa mor annhebyg oedd esgobaeth hwn i ofal gweinidogaethol yr esgobion y buom

* General Biographical Dict. † Ibid.

yn rhoddi hanes am danynt, pan yr oedd Cristionogaeth yn ei phurdeb dechreuol, a'r eglwys yn ei threfn efengylaidd!*

CYRIL o Alexandria, ISIDORE o Pelsium, PALADIUS a THEODORE o Mopsuhestia, yn nghyd â llawer eraill a allesid eu henwi, a ymddysgleiriasant yn y dwyrain yn y canrif hwn. Yr oeddynt yn ddynion o ddysg mawr, ac o wybodaeth lled gyffredinol am bethau; ac y mae cryn le i obeithio am dduwioldeb llawer o honynt. Eithr o herwydd eu hegwyddorion monachaidd, eu hymarferiadau coelgrefyddol, eu lluaws defodau anysgrythyrol, eu hymlyniad wrth, a'u hymdrechiadau dros, awdurdodiad dynol yn llywodraethiad achosion eglwysig, achosent i'w golygiadau ar athrawiaethau yr efengyl ac ymarferiad syml eglwys Dduw, fod yn hynod ddyryslyd a chymmylog. Yn y gorllewin, effeithiodd y diwygiad a gymmerodd le trwy weinidogaeth Augustine yn fwy nag yn y dwyrain, fel y gwelwn fod mwy o ddynion da a syml, â golygiadau cywirach ar athrawiaethau yr efengyl, yn y parthau hyny nag yn y lleill, yn y canrif hwn a'r nesaf.

PAULINUS o Nola, o fewn Campagnia, oedd wr o deulu urddasol, ac yn berchen cyfoeth lawer; eithr efe, yn ol ysbryd yr amseroedd hyny, a roddodd y cwbl ymaith, gan ymroddi yn hollol i waith y weinidogaeth. Ganwyd ef yn Bordeaux, yn y pedwerydd canrif. Gwedi ei ddwyn i fynu yn mhob dysgeidiaeth a allasai yr oesoedd hyny roddi, efe a ymdeithiodd tryw amryw wledydd, gan ymweled â dynion o bob cenedl, gradd, a sefyllfa, er chwanegu ei wybodaeth. Dywedir ei ddewis ef, pan yn Rhufain, i'r swydd o uchel faer yn y ddinas honno. Neillduwyd ef i'r swydd henaduriaethol yn eglwys Barcelona, yn yr Hispaen, yn y flwyddyn 391. Nid yw yn amlwg pa bryd y daeth i esgobaeth Nola; ond y mae yn eglur ei fod yno pan oedd y Gothiaid yn eu rhyfel-gyrchoedd yn anrheithio y gwledydd hyny. Wrth ei fyfyrdodau a'i deimladau gyda golwg arno ei hun, pan ei dewiswyd i waith y weinidogaeth, ymddengys ei fod yn Gristion isel, gostyngedig, hunanymwadol, ac yn dra chydwybodol o'i waelder a'i annigonolrwydd ei hun. Cymmaint o hanes ag sydd genym am dano yn ei swydd, a'i dengys yn weinidog doeth a ffyddlon, o olygiadau efengylaidd ar yr ysgrythyrau, o deimladau hynaws a haelionus, ac o ysbryd heddychlawn. Yr oedd yn gyfaill mawr i Augustine, ac yn bleidgar i'w olygiadau. Bu farw yn Nola, yn y flwyddyn 431, yn y ddeunawfed flwyddyn a thriugain o'i oedran. Nid oes nemawr o'i ysgrifau ar gael, oddi eithr ychydig o'i lythyrau, a rhai darnau o waith prydyddol.

HILARY, esgob Arles, yn Ffraingc, oedd yn meddu ar gryn enwogrwydd, fel Cristion, dysgawdwr, gweinidog, ac ysgrifenydd. Mae yr hyn a ddywed ef ei hun, wrth ysgrifenu hanes bywyd ei ragflaenor, yn deilwng o'n sylw. "Y mae Duw," medd ef, "i'w ogoneddu yn ei holl saint; o blegid eu holl ragoriaethau a'u henwogrwydd, ydynt ddeilliedig o hono ef, ffynnon pob gras." PROSPER o Aquitain, a MARCIUS o Mercator, ydynt yn lled adnabyddus, trwy eu hysgrifau, fel dynion dysgedig, o olygiadau cysson ar athrawiaethau yr efengyl; yn Gristionogion syml, gostyngedig, a gwresog; ac yn ysgrifenwyr medrus, er nad oeddynt, tebygid, yn y weinidogaeth. OROSIUS, esgob Tarragon, yn yr Hispaen; MAXIMUS VINCENT, abad o Lerins; EUCHERIUS o Lyons; PEDR o Ravenna; HONO-

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 527.

RATUS o Marseiles; FFAUSTUS, Sais o enedigaeth,* a aethai yn fonach i Lerins, lle ei dewiswyd yn abad; a SIDONIUS o Lyons, oeddynt ddynion o ddysg mawr, talentau helaeth, a golygiadau lled gywir yn gyffredin ar y drefn ysgrythyrol o achub pechaduriaid. Y mae rhagluniaeth y nefoedd i'w gweled yn eglur yn nghodiad y rhai hyn, yn yr amseroedd enbyd ag oedd ar y gwledydd o herwydd y rhyfel oedd y dyddiau hyny, pan yr oedd amryw o honynt yn ddynion tra chyfoethog; a thrwy eu cyfoeth a'u haelioni, lleihawyd llawer ar ddyoddefiadau y saint gweiniaid.*

Yn y canrif hwn, Celestius, esgob Rhufain, yr hwn, meddylir, oedd iachus yn ffydd yr efengyl, a anfonodd Paladius, yr hwn, tybir, oedd fugail yr Albaniaid, i bregethu yr efengyl i'r Iwerddon. Trigolion lluosog y wlad yma oeddynt hyd yn hyn mewn dygn dywyllwch paganaidd, a chyflwr barbaraidd. Eithr efe a fu farw cyn gweled ffrwyth ei lafur. Gwedi hyny, anfonwyd un Syccathus, yr hwn oedd enedigol o'r Alban, yn agos i'r lle a elwir yn bresennol Dunbarton, ar yr un neges i'r Iwerddon; a newidiwyd ei enw gan ei alw yn PATRICK.† Efe a fuasai yn garcharor yn y wlad honno, fel y dysgodd ei hiaith, yr hyn a'i hwylusai yn fawr i'r gorchwyl. Nid yw yn amlwg pa bryd, na thrwy ba foddion, y daeth efe i adnabod y gwirionedd; ond Martin o Tours, yn Gaul, a'i hordeiniodd i fod yn weinidog, gyda golwg ar ei anfoniad i'r Iwerddon. Gwedi ei fyned yno, cyfarfu â llawer iawn o wrthwynebiad a digalondid, yn gymmaint felly fel ag y gwnaeth unwaith gefnu, gan fyned i Gaul, ac oddi yno i Rufain, mewn anobaith. Eithr trwy annogaethau Celestius, efe a ymwelodd ac a ailymwelodd â hwy drachefn, pryd y llwyddodd, i raddau helaeth, i ddychwelyd llawer o'r barbariaid Gwyddelig. Yn yr amser hwn, dechreuodd sefydlu archesgobaeth Armagh, ac amryw sefydliadau eraill, fel y gelwir ef hyd heddyw yn apostol yr Iwerddon.‡

EPIPHANUS, esgob Pavia, yn yr Ital, a ddywedir fod yn ddyn mawr iawn o ddysg a doniau; a llywodraethodd yr eglwys honno am ddeng mlynedd ar hugain, mewn amseroedd tra blinion, sef o'r flwyddyn 467 hyd 497, pan y bu farw yn y ddeunawfed flwyddyn a deugain o'i oedran. Nis gwyddom am neb ysgrifau a adawodd ar ei ol. Nid yw ei hanesydd yn dywedyd cymmaint am dano fel duwinydd; eithr fel cennadwr call a chyfrwys, dywed ei fod yn dwyn yn mlaen negeseuau er gwneuthur heddwch rhwng brenhinoedd a'u gilydd, ac yn rhyddhau caffaeliaid a gymmerid yn gaethion rhyfel gan y naill fuddugoliaethwr ar y llall: yn y pethau hyn safai ei gymmeriad yn uchel iawn. Pa mor bell y cydsafai y gorchwylion hyn â'i swydd fel esgob, yn ol trefn yr efengyl, a adewir i'r darllenydd farnu.§

Pleidwyr Pelagiaeth a wnaethant ymdrechiadau egniol i ledanu eu golygiadau yn Mhrydain yn y canrif hwn. Bernir gan amryw i Pelagius ei hun ddychwelyd yma, wedi i'w gymmeriad iselhau mewn gwledydd eraill, tua diwedd ei oes—yr hyn a wadir gan eraill. Modd bynag, y mae yn eglur fod ei egwyddorion wedi llwyddo yn helaeth yma, trwy ymdrechiadau un Agricola, yn benaf, mab, fel y tybir i esgob o Gaul, o'r enw Severinus. Yr

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 34—37.

† Haerir gan rai mai Cymro oedd Patrick; eithr yn ol y cbwiliad manylaf a allasom ei wneuthur, nid ym yn gweled unrhyw debygolrwydd o fod hyny yn wirionedd.

‡ Milner's Church History. vol. ii. p. 528. a Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 9

§ Milner's Church Hist. vol. ii. p. 553—555.

oedd dysgeidiaeth a gwybodaeth mewn duwinyddiaeth, fel mewn pob celfyddydau eraill, yn dra isel y pryd hwnw yn mhlith ein hynafiaid, trwy hir orthrymder y Rhufeiniaid, fel nad oedd yma ond ychydig o ddynion deallus. Y rhai oedd yn ngweinidogaeth y gair, a gymmerasid, gan mwyaf, o blith y derwyddon, pa rai a gymmysgasant lawer o'u hegwyddorion derwyddol â'r Gristionogaeth a bregethent i'r bobl; yr hyn a roddodd rwyddach derbyniad i Belagiaeth yn eu plith hwy, nag mewn llawer o leoedd eraill; ac nid oedd yma braidd neb a'u gwrthsafai. Ond mewn cynghorfa a gynnaliwyd yn Gaul, tua'r flwyddyn 430, deisyfwyd ar Germanus, yr hwn a elwir yn ol y Gymraeg, Garmon, esgob Auxene, a Lupus, esgob Troyes, i ddyfod drosodd i'r ynys yma, i wrthsefyll Pelagiaeth. Ymddengys fod y gwyr hyn yn ddynion gwybodus, yn ymadroddwyr hyawdl, yn dduwinyddion iachus, ac yn Gristionogion gwresog a syml, ac o ymarweddiad duwiol a sanctaidd. Garmon a ddygwyd i fynu yn ei ieuengctyd i'r llŷs fel dadleuwr; a bernir y medrai drin y filwriaeth; eithr y pryd hwnw wedi ymroddi yn hollol i'r weinidogaeth.*

Gwedi eu dyfod i Frydain, hwy a fuant yn llafurus a llwyddiannus mewn addysgu ac argyhoeddi ein cenedl o'u cyfeiliornad: ac yr oeddynt yn hynod o boblogaidd, fel y gorfyddai arnynt bregethu allan ar y prif-ffyrdd a'r caeau, gan nad oedd neb tai a gynnwysai y gwrandawyr. Penderfynodd blaenoriaid Pelagiaeth, gael cymmanfa yn Verulam, i ddadleu yn gyhoeddus â hwy am yr hyn oedd ddadleuol rhyngddynt, fel y cai y bobl yn gyffredinol gyfleusdra i farnu pwy oedd nesaf i'r gwirionedd. Ar yr amser priodol, cyfarfu y rhai a flaenorent yn mhlith y ddwy blaid, a lluaws mawr o bobl. Gwedi i bleidwyr Pelagiaeth ddywedyd eu golygiadau ar yr hyn oedd ganddynt er amddiffyniad o hyny, hyd eithaf eu gallu, yna Garmon a Lupus a safasant i fynu, a thywalltasant y fath ffrydiau llifeiriol o resymau cedyrn ac ysgrythyrol yn erbyn eu golygiadau, ac er eglurhad o'r gwirionedd, fel nad oedd gan eu gwrthwynebwyr ddim i'w atteb; a braidd yr attaliwyd y bobl rhag rhuthro arnynt. Pryd hyn yr oedd gelynion y Cymry yn dyfod yn dorfeydd o'r Alban am draws eu gwlad, a'u hamddiffyn oedd wedi ei gymmeryd ymaith, trwy fod byddinoedd y Rhufeiniaid wedi eu galw adref, fel yr oedd y trigolion yn ffoi at Garmon a Lupus o bob lle, am nodded. Pan, ar eu deisyfiad, y rhoddasant eu hunain i flaenori câd o'u dychweledigion ieuaingc, i ryfela yn erbyn eu gelynion, aethant i'w cyfarfod yn agos i'r Wyddgrug, swydd Callestr. Gwedi trefnu eu byddinoedd, a'u gosod mewn lle cyfleus a dirgelaidd, i ddisgwyl am ddyfodiad y gelynion, yr oeddent wedi eu dysgu i sefyll i fynu ar eu traed yn ddiarwybod, pan y deuent attynt, ac i floeddio—*Aleluia!* dair gwaith drosodd, nes dadseinio y nefoedd a'r ddaear. Trwy hyn dychrynasant eu gelynion yn y fath fodd, fel y taflasant eu harfau i lawr, ac y ffoisant ymaith am eu hoedl; a llawer o honynt a foddwyd yn yr afon gerllaw, yr hon a gynnygiasant ei chroesi.† Yn y modd hwn y buont yn offerynau, yn llaw rhagluniaeth, i roddi i'n hynafiaid fuddugoliaeth lawn ar eu gelynion; a gelwir y lle y cawsant yr oruchafiaeth, yn Faes Garmon, hyd heddyw.

Gwedi iddynt drefnu amryw bethau yn Nghymru, dychwelodd y

* Milner's Church Hist. vol. ii. p. 419.

† Dywed amryw mai Saeson a Phictiaid oedd y gelynion hyn; eithr nis gallwn weled fod y Saeson yn y wlad hon cyn y flwyddyn 448, pan eu gwahoddwyd yma: eithr yr oedd hyn yn y flwyddyn 435. Y mae yn debyccach mai yr Ysgotiaid a'r Pictiaid oeddynt.

cennadau yn eu hol dros y môr, at eu heglwysi, gyda diolchgarwch mawr am eu llwyddiant. Eithr yn fuan adfywiodd Pelagiaeth, a gwrthgiliodd y Cymry oddiwrth y drefn a osodasai Garmon yn eu plith; ac yr oeddynt mewn amgylchiad gwael iawn yn feunyddiol, o herwydd rhyfeloedd a therfysgiadau parhaus. Anfonasant am Garmon i ddyfod attynt drachefn, yr hwn, wrth glywed am y blinderau yr oeddynt ynddynt, a'r terfysgiadau oedd yn yr eglwysi, a gydsyniodd â'u deisyfiad. A phryd nad oedd yn gyfleus i Lupus ddyfod gydag ef, efe a gymmerodd Severus, esgob Triers, yn gydymaith. Daeth Illtyd Farchog a Chrallo, neiaint Garmon, ac amryw gyfeillion eraill, gyda hwynt yr ail waith i Frydain, tua'r flwyddyn 447. Eithr nid ŷm yn gallu gweled fod Garmon yn meddu ar yr un ysbryd y pryd hwn, ag a feddai y tro o'r blaen. Yn lle myned o amgylch, i ddysgu y bobl, i'w hargyhoeddi trwy resymau ac ysgrythyrau, ac i'w hadferyd trwy foddion moesol, efe a aeth at y llywodraethwyr gwladol i fynnu awdurdod i alltudio blaenoriaid y Pelagiaid o'r wlad, yn ol cyfreithiau Valentinian, y rhai oeddynt mewn grym y pryd hwnw yn erbyn hereticiaid. Fel hyn, trwy y weithred dra-arglwyddiaethol ac anefengylaidd hon, pa un a groesai bob egwyddor o uniawnder, a rhyddid dynion i farnu drostynt eu hunain, fel deiliaid cyfrifol i Dduw yn unig am eu crefydd, anfonwyd amryw o'r Pelagiaid o'u gwlad, yn achos eu crefydd; a rhoddwyd eu lleoedd i'r rhai uniawn-ffyddiog.

Gwnaeth Garmon lawer o gyfnewidiadau yn nhrefn yr eglwysi a'u hymarferiadau crefyddol yn Nghymru y pryd hwnw, gan eu dwyn mor gyd-ffurfiol ag y gallai, âg eglwys Rhufain; a sefydlodd ynddynt ffurf o weddiau cyffredin i'w darllen yn eu gwasanaeth crefyddol, pa arferiad oedd yn dechreu bod yn lled aml yn yr eglwysi y dyddiau hyny. Gosododd i fynu yn mhlith y Cymry amryw athrofâau, er dysgu dynion ieuaingc yn mhob dysgeidiaeth angenrheidiol; a rhoddodd rai o'r rhai hyn dan ofal y cyfeillion a ddaethent gydag ef o Ffraingc; a bu y sefydliadau hyn yn fawr fendith i'r Cymry mewn amser dyfodol.* Bernir i Garmon ddychwelyd i'r Cyfandir, ac iddo farw yn Ravenna, yn yr Ital; ond nid yw yn eglur pa amser, eithr meddylir ei fod cyn y flwyddyn 450.

Yn Affrica yr oedd amryw o ddynion enwog heblaw a enwyd yn barod, megys VICTOR, esgob Vita; yr hwn oedd yn llygad-dyst o'r galanasdra a'r difrod a wnaeth y Vandaliaid yn y wlad annedwydd honno, ac a ysgrifenodd hanes yr amgylchiadau galarus, mewn iaith rwydd, a chyda llawer o ddeheudra ac athrylithrwydd.† Tua'r un amser, yr oedd Vigilius o Thapsus yn byw, yr hwn a ysgrifenodd amryw o lyfrau; ac arferai eu tadogi ar eraill, trwy osod enwau dynion o enwogrwydd wrth ei waith ei hun—y fath arferiad wael oedd yn rhy gyffredin y dyddiau hyny. Efe, fel y bernir, a ysgrifenodd y Credo a briodolir i Athanasius, ag sydd yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, a berthyn i Eglwys Sefydledig y deyrnas hon.

Nid oedd eglwys Rhufain yn y canrif hwn, heb rai dynion o ddysg a thalentau helaeth, a chaent eu hystyried, o ran eu golygiadau, yn lled gywir am athrawiaethau yr efengyl. LEO, yr hwn a elwir Leo Fawr, oedd yn un o'r dynion mwyaf ei dalentau yn ei oes. CELESTIUS a GALASIUS oeddynt ddynion yn meddu ar raddau o rinweddau; eithr eu hymdrechiadau diorphwys yn yr oes hon i ddarostwng y byd crefyddol i'w hesgobaeth hwy, a aflewyrchai eu holl rinweddau, fel y gwneir sylwi etto.

* Parch. D. Peter—Hanes Crefydd yn Nghymru, p. 125.
† Milner's Church. Hist. vol. ii. pp. 541, 548.

PENNOD XXX.

Lle y traethir am Ymestyniad Esgobion Eglwys Rhufain i gyrhaedd uchafiaeth ac awdurdod ar eu brodyr a'r eglwysi, a'r moddion a arferasant i hyny — Lleihad gwybodaeth a phob rhinweddau eraill, yn nghyd â'r achos o' hyny — Cynnydd y Bywyd Monachaidd — Simeon Stylites, y prif Feudwy — Codiad i fynu wahanol Enwadau a Phleidiau newyddion, megys y Vigilantiaid, y Nestoriaid, a'r Eutychiaid — Gosodiad i fynu Gyffes Honoction gan Zeno — yn nghyd â'r Terfysg a fu yn yr eglwysi tua diwedd y Canrif hwn.

GOSODIAD i fynu a chadarnhad y GALLU LLYWYDDOL, yr hwn a ymarddelwai esgobion Rhufain hawl iddo, er llywodraethu ar holl eglwysi y byd Cristionogol, oedd un o'r cynhyrfiadau mwyaf ag oedd ar y ddaear y dyddiau dan sylw. Nid ar unwaith y gosodwyd i fynu y llywodraeth hon, ac nid ar yr un pryd y cydnabyddwyd uchafiaeth ac unbenaeth esgobion Rhufain, gan yr eglwysi yn mhob talaeth. Sylwasom yn barod fod y llywodraeth eglwysig wedi ei chymmeryd ymaith o'r eglwys — yn mha le yr oedd yn y dechreuad, o ddiwedd yr ail ganrif hyd hanner y trydydd — ac iddi gael ei gosod yn meddiant yr esgobion a ymgyfarfyddent yn y cymmanfaoedd; a chwedi hyny, tua dechreu y pedwerydd, ei bod yn meddiant y rhai a elwid yn Batriarchiaid; ac i Cystenyn Fawr, cyn diwedd ei deyrnasiad, ei chymmeryd yn hollol i'w law ei hun, fel amherawdwr.

Ni phetrusir i ddywedyd mai yn nghyssylltiad y llywodraeth eglwysig â'r un wladol, yn nheyrnasiad Cystenyn, y ganed y *dyn pechod* i'n byd ni, ac mai o dan ei olygiad a'i nawdd ef a'i ganlynwyr, y dygwyd ef i fynu, ac y maethwyd ef hyd nes oedd yn gymmwys i deyrnasu. Y llywodraeth gymmysglyd hon, a'r gwahanol ddulliau a fu, ac sydd, arni, ydynt brif gynnaliaeth ac amddiffyniad llywodraeth y dyn pechod. Y llywodraeth Rufeinaidd, dan yr enw Cristionogaidd, ydyw y bwystfil a welodd Ioan yn codi o'r môr;* a'r un ydyw â'r hwn yr eisteddai y wraig butteinig arno, wedi ei gwisgo mewn porphor ac ysgarlad.† Canys bwystfil, yn ol iaith yr ysgrythyr, ydyw creadur o amrywiaeth cynheddfau ac ymddangosiadau:‡ felly yr amherodraeth Rufeinaidd, dan enw Cristionogaeth, nid oedd unrhyw beth neillduol, ond amrywiaeth o wahanol bethau. Ar rai prydiau ymddangosai ynddi ryw bethau tebyg i Gristionogrwydd; eithr yn llawn o dymherau llewaidd, &c. Pan yn baganaidd, arwyddocceir hi trwy arwydd draig, yr hon sydd hollol unrhyw, ac yn greadur diamrywiaeth. Tra yr ymarddelwai canlynwyr Cystenyn hawl i'r llywodraeth eglwysig, dangosent

* Dad. xiii. 1. † Dad. xvii. 3. 4.
‡ Sir Isaac Newton's Dissertation on the Prophecies, p. 94.

ar yr un pryd lawer o barch i esgobion eglwys Rhufain, fel pe credent mai iddynt hwy y perthynai y GALLU LLYWYDDOL a gadwent hwy fel ymddiriedolwyr, yn eu meddiant, hyd oni ddeuent yn gymmwys i wisgo y goron ymgeisiadol. Mewn amser dyfodol, fel y ceir sylwi etto, pan anrhydeddodd amherawdwr Rhufain—y pryd hwnw yn Caer-Cystenyn—esgobion eglwys Rhufain a'r GALLU hwn, dyma yr amser, meddyliem, y daeth y dyn pechod i'w gyflawn oedran, y coronwyd ef, ac y meddiannodd ei deyrnas ormesol.

Yn y canrif dan sylw, ymhonai esgobion Rhufain, o unfryd, eu hawl i'r gallu a'r awdurdod yma, yn y modd mwyaf eofn: a chydnabyddid hwy yn eu harglwyddiaeth, i raddau helaeth, gan lawer o eglwysi; eithr nid yn gyffredinol cyn ei ddiwedd. Dywedwyd yn barod yn yr hanes blaenorol, fod mesur helaeth o flaenoriaeth yn cael ei ddangos gan yr eglwysi, ar amryw ystyriaethau, i esgobion eglwys Rhufain, ac i ddylifiad anarferol o gyfoeth a mawredd ddyfod i'w meddiant, er pan y cyssylltwyd crefydd â'r llywodraeth wladol. Uchafiaeth a gallu llywyddol dros bawb, oedd eu nôd hwythau, yn mhob dim a wnaent, ac yn mhob peth a feddiannent: fel y dywedodd un,—"Yr oedd pob peth yn uniawn, a phob peth yn wir, a dueddai i'w dyrchafu hwy, ac i'w dwyn i'r meddiant o'r GALLU hwn; a phob peth yn dwyll ac yn ddrwg, i'r graddau mwyaf, yn eu golwg hwy, a wrthwynebai hyny."*

Ni oddef cylch ein hysgrif i ni olrhain yn fanylaidd y grisiau trwy ba rai yr aeth esgobion Rhufain i fynu i lawn feddiant o'r gallu llywyddol hwn ar yr holl eglwysi, bron trwy yr holl fyd Cristionogol; a'r modd y dangosasant eu mawr gyfrwysdra i gyrhaedd eu hamcan. Eithr gellir sylwi, i'r holl derfysgiadau a fu cyn, ac yn y pummed canrif, yn y gwledydd a'r eglwysi, dueddu yn fawr er eu hwylusu i gyrhaedd yr hyn oedd amcanedig, a'u cadarnhau yn y meddiant o hono. Er pan y sefydlwyd Cristionogaeth yn grefydd amherodraeth Rhufain, teimlai pob tywysog, i raddau mawr, ei ymddibyniad ar y Cristionogion am ei fynediad i'r orsedd, a'i arosiad arni. A chan y perchid esgob Rhufain yn gyffredin trwy yr holl eglwysi, ystyriai pob tywysog ei fod o'r pwys mwyaf i gael ei wyneb ef a'i amddiffyniad: a llawer o dywysogion gweiniaid a choelgrefyddol, a fu yn gwisgo y goron amherodrol, ac yn ceisio dal i fynu y llywodraeth, yn y dyddiau diweddaf, pan oedd eu gorsedd yn crynu, a'u hamherodraeth yn barod i ymwahanu yn ddarnau oddi wrthynt, a roisent yr hyn a allent, i esgobion Rhufain, a bron yr oll a geisient, am eu cynnorthwy yn wyneb y fath amgylchiadau. Gyda golwg ar hyn, yr ydym yn cael cyhoeddiadau o eiddo Gratian, yn ei enw ei hun, a'i frawd Valentinian yr ail, a wnaed yn y flwyddyn 378, neu 379, yn mha rai y priodolir y flaenoriaeth a'r llywodraeth i esgobaeth Rhufain;† ac

* Dr. Campbell's Lect. on Church Hist. vol. ii. p. 80.

† Un o'r rhai hyn sydd fel y canlyn:—
"Ein hewyllys yw, am bwy bynag a ddichon gael ei gondemnio yn ol barn Damasus, (yr hwn oedd esgob Rhufain) yr hon a gyhoeddir mewn cyngor o bump neu saith o esgobion, neu ereill a fyddont yn gatholigiaid—i'r cyfryw, os cryf-ewyllysia wrthsefyll yr eglwys, gan gyndyn-wrthod ymostwng i'r farn offeiriadol, gael ei anfon, trwy awdurdod oddi wrth swyddogion anrhydeddus llysoedd Galia ac Itali, i'r llys esgobaethol; a dylai ddyfod dan achwyniad oddi wrth y rhaglawiaid a'r ficeriaid i ddinas Rhufain. Os mewn ardaloedd hysbell y tyr allan ysgelerder mewn neb, pob cŵyn o'i herwydd a ddygir i'w brofi gan brif-esgob y dalaeth honno: neu os y prif-esgob ei hun fydd, rhaid o angenrheidrwydd ei ddwyn i Rufain, neu at y rhai a benodir gan esgob Rhufain yn farnwyr, ac heb ddichell dadleuer y cam. Ac os tybir fod archesgob neu offeiriad yn euog o wyro barn trwy falais neu ffafr, gellir apelio at esgob Rhufain, neu at gyngor o bymtheg o esgobion cymmydogaethol, fel, wedi y prawf, y bydd yr hyn a wneir yn benderfynol."

un arall o eiddo Valentinian y trydydd, a Theodosius yr ail, a wnaed i'r un perwyl, yn y flwyddyn 445, er cadarnhau awdurdod esgobaethol Leo y cyntaf, dros holl eglwysi y gorllewin.*

Gwedi dryllio amherodraeth y gorllewin gan y galluoedd barbaraidd, fel y dywedwyd, a phan yr oeddynt yn sefydlu eu gwahanol deyrnasoedd ar ei hadfail, yr oeddynt oll bron yn gweled eu mantais o gael y Cristionogion o'u plaid; a deallent fod eu pleidgarwch hwy yn ymddibynu ar bleidgarwch esgobion Rhufain; am hyny ymgeisient â'u hwyneb uwchlaw neb eraill. Nid oes un llywodraeth heddyw yn Europe nad oedd gan Babau Rhufain law yn ei ffurfiad a'i sefydliad. Esgobion Rhufain oeddynt bob amser yn sicr o roddi eu pleidgarwch i'r ochr a dybient a fyddai gryfaf, a'r hon a fyddai barottaf a galluoccaf i roddi eu cynnorthwy iddynt hwy, er cyrhaedd y gwrthddrych amcanedig; fel y ceir gweled yn eu hymddygiadau tu ag at Pepin, a Charles ei fab, yn Ffraingc.

Yr holl derfysgiadau eglwysig a fuant yn wasanaethgar iawn hefyd er derchafu esgobaeth Rhufain i'r llywodraeth a'r awdurdod a amcanai gyrhaedd: canys pob plaid yn eu terfysg a gyfeirient eu hachwynion tua Rhufain; a chyda pharodrwydd mawr, pleidient yr ochr honno a dybient a fyddai fwyaf gwasanaethgar iddynt hwy. Yn mhlith llawer ag a allesid enwi, y mae ymddygiad Zosimus, esgob Rhufain, tu ag at Apicarius, henuriad o Sica yn Affrica, yn brawf o hyn, yr hwn a adferwyd ganddo yn groes i olygiadau holl esgobion y dalaeth yn mha le yr oedd efe — pa rai a'i hesgymmunasent am feiau gwarthus—heb gymmaint â rhoddi yr ymwrandawiad lleiaf i'w gyhuddwyr, yn unig am ei fod yn gwbl bleidgar i'w achos.† Yn aml byddai ganddynt law mewn peri amrysonau, ac yn eu dygiad yn mlaen, er mwyn gwanhau eu gwrthwynebwyr a chryfhau eu plaid eu hunain. Gwedi codiad i fynu esgobaeth Caer-Cystenyn, yr hon

* "Yr amherawdwyr Theodosius a Valentinian at yr anrhydeddus Ælius, &c.:—
"Sicr yw mai yr unig amddiffyn i ni a'r amherodraeth yw nawdd y Dwyfol Fawrhydi, ac er teilyngu hyny rhaid i'r ffydd Gristionogol a'r wir grefydd gael ei hamddiffyn genym. O herwydd hyny, darfu i awdurdod y sanctaidd gyngor eglwysig gadarnhau teilyngdod gorsedd apostolaidd Sant Pedr i'r daenoriaeth yn mhob urddas ac awdurdod gwladol ac esgobaethol; rhag i ryfyg anturio trefnu dim yn groes i awdurdodau yr orsedd honno, ac fel y diogelid heddwch trwy'r eglwysi trwy gydnabod un Penllywydd cyffredinol. Yn ol i hyn gael ei gadw hyd yma yn ddihalog, clywsom trwy achwyniad manwl y gwir barchedig Leo, y Pab, fod Hilarius, trwy ryfygus gyndynrwydd, wedi cynnyg dwyn i mewn bethau anghyfreithlawn, nes peri cynnwrf niweidiol trwy yr eglwysi tramor. Canys darfu i Hilarius, a elwir yn esgob Arelatum, heb ymgynghori â blaenor eglwys Rhufain, ymyryd yn hollol ryfygus ac anghyfreithlawn âg urddiad esgobion. Darfu iddo symmud rhai am anghymmwysder, a byrbwyll urddo ereill yn groes i fryd y dinasyddion. Ac am na dderbynid y cyfryw yn esmwyth gan y rhai gwrthwynebol, darfu iddo gasglu atto lu arfog, a chylchynu pyrth caerog, i'w gwarchae mewn dull rhyfelgar, a mynu eu sefydlu trwy ormes; ac yr oedd am ymhoni ei fod wedi dwyn tangnefedd i'r orsedd trwy ryfeloedd. Wedi caniattau fod y fath bethau yn groes i awdurdodau yr amherodraeth a'r orsedd apostolaidd, a'u gwrthod yn ol cydsyniad ac arch duwiolaf Bab y ddinas, rhoddwyd dedryd i'w erbyn am yr hyn a fyrbwyll sefydlasai. Yn wir yr oedd y ddedryd hon ar gael ei gosod mewn grym trwy holl Galia heb gydsyniad amherodrol;—canys beth sydd nad yw gyfreithlon i'r Pab ei wneuthur? Ond darfu i reswm y peth gynhyrfu ein cydsyniad ninau iddo. Ni oddefai dynagarwch na moesgarwch y prif-esgob, i Hilarius, na neb arall, gyhoedd sefydlu neb yn esgob trwy gymmysgu arfau â materion eglwysig, nac i droseddu gosodiadau penaeth yr eglwys Rufeinig. Canys trwy y fath ryfyg, gwanheir awdurdod, a chymmylir anrhydedd yr amherodraeth. Ac nid hyn yw yr unig ddrwg, er ei fod yn ddrwg mawr, sydd genym i'w symud; ond rhag i ysgafnder a therfysg fagu yn yr eglwys, ac i ddysgyblaeth grefyddol gael ei gwanhau, yr ydym yn gwahardd hyn trwy ddeddf dragywyddol. Ni oddefwn i ddim croes i hen arferiadau gael ei wneud gan esgobion Galia a'r taleithlau ereill, heb awdurdod oddi wrth anrhydeddus Bab y ddinas dragywyddol. Ond iddynt hwy oll, bydd beth bynag a sefydlodd, neu a sefydla ei awdurdod apostolaidd, i fod yn ddeddf; fel os bydd i unrhyw esgob esgeuluso dyfod i gyfrif yn ol ei arch ef, y gall rhaglaw y dalaeth honno ei anfon trwy orthrech, ac y cedwir yr hyn oll a sefydlir gan sanctaidd dadau yr eglwys Rufeinaidd. O herwydd pa ham boed i'th ardderchog awdurdod, a'th urddasol allu, trwy rym y ddeddf gyhoeddedig hon, beri cadw y gosodiadau pwysig hyn; a gofynir yn ddiloed ddirwyon trymion o aur oddi wrth bob swyddog a oddefo iddynt gael eu troseddu. Boed i'r Duwdod—O anwylaf Dad!—dy gynnal dros lawer blwyddyn.
"Dyddiwyd yn Rhufain, Mehefin 8, Oed Crist 445."

† Dr. Campbell's Lect. on Church Hist. vol. ii. p. 45.

oedd yn llawn mor uchelfrydig a hunan-geisiol âg un Rhufain, ac yn wrthymgeisydd iddi am fod yn benaeth i'r eglwysi, o herwydd fod y llŷs gwladol wedi ei symmud yno, ei holl ymdrechiadau a fawr leshaodd esgobaeth Rhufain yn ei hymgais. Canys esgobion Caer-Cystenyn a iselhasant Batriarchaeth Alexandria, Antiochia, &c., er dyrchafu eu hunain; yr hyn a'u mawr anfoddlonodd hwynt, ac a achosodd iddynt ymgynghreirio âg esgobaeth Rhufain, i ddarostwng un Caer-Cystenyn.

Fel hyn bu yn ymdrechfa orchestol am agos i dri chan mlynedd, cyn i'r GALLU a elwir yn Babaidd gael ei sefydlu yn eglwys Rhufain, pan y bu yr hyn a elwid yn grefydd yr aeddfwyn Iesu, yn wrthddrych ymgais egniol y nwydau mwyaf llygredig; ac aneirif y castiau drwg a arferasant er cyrhaedd eu hamcanion. Gellir barnu fod codiad i fynu gallu eglwysig yr esgobaeth Rufeinaidd, yn ymddibynu ar ddau beth, sef gweinyddiad y llywodraeth amherodrol, a chydweithrediad yr esgobion yn eu cymmanfaoedd: trwy undeb y ddau hyn yr oedd y dyn pechod i gael ei osod ar ei orsedd, a'i sicrhau yn ei arglwyddiaeth ormesol. Gwelsom y modd y gwnaeth y llywodraeth ei rhan, mewn gradd: yma dangosir y modd y cydweithredodd y cymmanfaoedd hwythau eu cyfran. Dangoswyd yn barod mai trwyddynt hwy y dechreuodd llygriad yr eglwys Gristionogol; ac mai hwynthwy yn benaf oedd grym a chynnaliaeth y dirywiad o'r dechreuad; a bod ymlithriad naturiol y llywodraeth eglwysig, trwyddynt hwy, i unbenaeth.

Tua'r flwyddyn 351, pan yr ymgynnullodd tua thri chant o esgobion mewn cymmanfa yn Sardica, o fewn Thracia, er gwrthwynebu athrawiaeth yr Ariaid, yn mha un y blaenorai Osius o Corduba, penderfynasant, o barch i Julius, esgob Rhufain, ac er cadarnhau eu plaid yn erbyn Ariaeth, ar fod i'r neb a dybient eu bod yn cael cam, gyrchu i Rufain am frawd, at yr esgob a fyddai yno, yr hwn oedd i derfynu eu hachos.* Mewn canlyniad, gwelwn luaws o'r rhai uniawn-gred yn cyrchu tu ag yno am nodded ac amddiffyniad i'w hachos, yn wyneb ymddygiadau creulawn yr Ariaid, hyd yn nod Athanasius ei hun. Er i benderfyniad y gymmanfa uchod gael ei wrthwynebu yn egniol gan esgobion y dwyrain, Affrica, a gwledydd eraill, dros hir amser, etto ni chollodd esgobion Rhufain eu gafael ar y fantais a roddodd hyn iddynt, na'u golwg ar y gwrthddrych a ymgeisient. Yn nheyrnasiad Gratian, gwelwn yr erthygl ganlynol yn cael sefydlu arni, mewn cymmanfa yn yr Ital, yn mha un y blaenorai Damasus, esgob Rhufain, ac yn cael ei chyflwyno i'r amherawdwr; mewn attebiad, gwnaeth yntau y cyhoeddiad blaenorol. "Y mae esgob Rhufain uwchlaw yr holl esgobion eraill, gyda golwg ar ragorfraint ei esgobaeth apostolaidd, eithr yn gydradd o ran ei weinidogaeth."†

Tua diwedd y pedwerydd canrif, gwelir yr un cyffelyb ordinhad yn cael ei gwneuthur mewn cymmanfa a gynnaliwyd yn ninas Aquileia, yn mha un y blaenorai Ambrose o Milan.‡ Oddi ar y cyhoeddiadau hyn, nid yw yn beth annisgwyliadwy fod esgobion Rhufain yn ymarddelwi i'r GALLU o lywodraethu yr eglwysi, gydag eofndra mor fawr, yn y pummed canrif, fel y gwelir eu bod. Etto, yr eglwysi ni chydnabyddent ef yn gyffredin, a'r amherawdwyr ni ollyngent eu gafael o hono yn gyflawn y pryd hwnw; er, yn yr ail ganrif, y gwelwn Victor, esgob Rhufain, y pryd hwnw yn ymhoni i'r awdurdod, yn ei fygythiad o esgymundod yn erbyn holl esgobion

* Dr. Campbell's Lect. on Church History, vol. i. p. 408. † Ibid, vol. ii. p. 86.
‡ Sir Isaac Newton's Dissert. on the Prophecies, p. 103.

y dwyrain, am na chydwelent âg ef a'i gyfeillion. Stephan, y cyntaf a fu yn esgobaethu yn Rhufain o'r enw, a gynnygodd wneuthur yr un peth â holl esgobion Affrica, yn y trydydd canrif, am na oeddynt yn cydfyned âg ef yn nghylch bedyddio hereticiaid.* Eithr eu hymarddelwad a wrthwynebwyd fel y peth anghyfiawnaf, gyda'r dirmyg mwyaf, yr amser hwnw. Ond nid felly y parhaodd pethau yn hir. Yn nechreuad y pummed canrif, y mae Innocent, ag oedd yn esgob Rhufain, yn dadlu ei hawl ef, a phawb a'i dilynai yn y sefyllfa honno, nid yn unig oddi ar gyboeddiadau amherawdwyr, a phenderfyniadau cymmanfaoedd, ond hefyd, ac yn benaf, oddi ar berthynas y GALLU llywyddol hwn â hwynt, fel canlyniedyddion Pedr, a'r hyn a ddywed ein Harglwydd yn Mat. xvi. 18., gyda mwy o lwyddiant. Efe oedd y cyntaf a ddechreuodd sylfaenu ei hawl i'r oruchel awdurdod ar hyn; ond mewn canlyniad, yr ŷm yn eu gweled olynol yn defnyddio hyn fel eu prif reswm a sylfaen, a'u hynod mor wasanaethgar y bu i'w hachos. Nid yn unig am ei fod yn gadarnach sylfaen i'w hadeilad o unbenaeth eglwysig, ond hefyd am y gwnai hyny iddo ymddangos yn llawer harddach a mwy cysson, fel un o osodiad dwyfol, ac yr ehangai eu gallu yn annherfynol; canys iddynt hwy y perthynai yr awdurdod uchaf ar y ddaear, yn ol eu heglurhad ar y geiriau.†

Cyn diwedd y canrif sydd o dan ein sylw, gwelir Galasius, esgob Rhufain,‡ mewn cymmanfa a flaenorai efe yn yr Ital, yn gwneuthur y penderfyniad canlynol—â pha un y cydunodd pawb ag oeddynt bresennol—"Mai nid ar unrhyw gymmanfa, nac ar un awdurdod ddynol, yr oedd *uchafiaeth* y sancteiddiaf eglwys gatholicaidd ac apostolaidd, ag oedd yn Rhufain, wedi ei sylfaenu; eithr ar yr hyn a ddywedodd ein Hiachawdwr yn yr efengyl—*Ti yw Pedr*, &c.: am hyny yr adeiladir yr eglwys arno ef, megys ar graig anysgogadwy. Eglwys Rhufain sydd heb arni na brycheuyn na chrychni, yn gyssegredig a dyrchafedig uwchlaw un eglwys arall, trwy bresennoldeb, yn gystal â marwolaeth, merthyrdod, a buddugoliaeth ogoneddus y ddau brif apostol, St. Pedr a St. Paul, pa rai a fuant feirw yn Rhufain, yn nheyrnasiad Nero, nid ar wahanol amser, fel y dywed yr hereticiaid, ond ar yr un pryd, yn yr un dydd. Ac mai yr eglwys hon ydyw y brif eglwys, wedi ei sefydlu gan yr apostol blaenaf; eglwys Alexandria yn ail, wedi ei sefydlu gan St. Marc, ei ddysgybl ef, ac yn ei enw; ac un Antiochia yn drydydd, o herwydd i St. Pedr fod yno cyn ei ddyfod i Rufain—ac yno y galwyd y ffyddloniaid yn Gristionogion gyntaf." Fel hyn y gwelir adeilad unbenaeth yr eglwysi yn cael ei ddwyn yn mlaen a'i sefydlu yn eglwys Rhufain. Symmudiad y llŷs gwladol a senedd llywyddol yr amherodraeth o Rufain, a wnaeth ffordd rydd iddo gael ei osod i fynu yno. Llei-

* Yn niwedd y pummed canrif, gwysiwyd Acasius, patriarch Caer-Cystenyn, i ymddangos ger bron llŷs esgobaethol Rhufain, er atteb am 'ei bleidgarwch i Eutychiaeth: a chan nad ymddangosodd, dedfrydwyd a diswyddwyd ef gan Ffelix yr ail, yr hwn a eisteddai y pryd hwnw yn y gadair Babaidd. Achosodd hyn anghydfod, amryson, a therfysg o'r mwyaf, am hir flynyddau, rhwng yr eglwys orllewinol a'r un ddwyreiniol. Er mai yr athrawiaeth oedd yr esgus a gymmerai esgobion Rhufain drosi eu hymdrech yn erbyn patriarch Caer-Cystenyn, a'u diswyddiad o Acasius, etto y mae yn eglur mai y gwir achos oedd, eu hanymostyngiad i lywodraeth esgobion Rhufain: canys nid oedd athrawiaeth, moesau, a rhinweddau, ond pethau, yn eu golwg hwy, llawer islaw cael i fynu a sicrhau eu hawdurdod eu hunain.—*Dr. Campbell's Lect. on Church Hist. vol.* i. *p.* 413.

† Dr. Campbell's Lect. on Church Hist. vol. ii. p. 90.

‡ Ymffrostia Mr. Milner mai y Galasius yma, yr hwn a eisteddai yn nghadair Babaidd Rhufain tua'r flwyddyn 495, oedd dechreuydd a ffurfiwr trefn bresennol y gwasanaeth cyffredin a arferir yn Eglwys Sefydledig y deyrnas hon—mai efe ydyw awdwr amryw o'r gweddiau arferedig ynddi, ac na wnaeth Gregory, yn mhen can mlynedd wedi hyn, ond casglu, trefnu, a chwanegu at yr hyn a ddechreuasai efe. *Milner's Church Hist. vol.* iii. *p.* 96.

had gwir grefydd trwy yr eglwysi yn gyffredinol, a mawr gynnydd coelgrefydd a defodau dynol, a gymhwysodd yr eglwysi i'w dderbyn, ac i roddi cred i'r fath haeriadau disail â'r rhai uchod, a llawer o ffug-wyrthiau trwy ba rai yr ymdrechwyd eu cadarnhau.

Cynnyddodd y GALLU PABAIDD yr ymwisgwyd âg ef gan esgobion Rhufain, yn benaf, yn mhlith eglwysi y gorllewin, yn y canrif hwn. Yn y taleithiau a wnaent i fynu y rhan orllewinol o'r amherodraeth, gwelir eu rhaglawiaid, neu eu cennadau, yn cael eu hawdurdodi i ymdrin âg achosion yr eglwysi ag oedd yn y gwledydd hyny, yn eu henw a'u hawdurdod hwy. Yn amser Damasus, esgob Rhufain, yr oedd Hemerius, esgob Tarraco, prif ddinas yr Hispaen, yn rhaglaw iddo ef, a'i ganlyniedydd Siricius, yn y wlad honno; ac y mae amryw o'u llythyrau ger ein bron, trwy ba rai yr awdurdodent ao y cyfarwyddent ef yn y cyflawniad o'i swydd drostynt. Yr oedd Victricius, esgob Rouen, yn Ffraingc, yn rhaglaw i Innocent, esgob Rhufain, yn y flwyddyn 404; ac yn y flwyddyn 417, yr oedd esgob Arles yn rhaglaw dros holl Galia, i Zosimus, esgob Rhufain, yr hwn a ordeiniodd nad oedd neb i ddwyn un achos ger ei fron ef, oddi eithr trwy ei raglawiaid, neu ar eu tystiolaeth trwy lythyrau. Ymddengys fod y naill esgob a fyddai yn bresennol ar ol y llall yn Arles, yn rhaglawiaid i'r esgobion oeddynt ganlyniedyddion i Zosimus, hyd yn mhell yn y chwechfed canrif.* Acholius,† Anysius, a Ruffus, esgobion olynol yn Thessalonica, oeddynt raglawiaid dros holl Ilyricum i esgobion Rhufain, o amser Damasus hyd amser Leo, a elwir y Mawr. Ymddengys wrth ysgrifau y rhai hyn, ag sydd ar gael, eu bod yn awdurdodi eu rhaglawiaid i drefnu a gweinyddu pob peth yn yr eglwysi, o fewn i'r eang daleithiau perthynol i Ilyricum, yn eu henw a'u hawdurdod hwy, ac nad oedd dim i gael ei wneud heb ei fod felly. Yn yr Ital, gwelir fod esgobion Milan, Aquileia, a Ravenna—pa rai am hir amser a ystyrid yn hollol gydradd âg esgobion Rhufain—yn y canrif hwn wedi ymostwng i gydnabod eu huchafiaeth hwynt; yn enwedig esgobaeth Milan, yr hon oedd Enarchiaeth, ag y perthynai iddi ei rhaglawiaeth, yn ol gosodiad Cystenyn, dros yr holl Ital, oddi eithr yr hyn a berthynai i Rufain: eithr oddi ar ryw egwyddorion, yn amser Ambrose, gostyngwyd hi i ufudd-dod i esgobaeth Rhufain, ac a barhaodd felly hyd y nawfed canrif, pan y darfu iddi am gryn amser dynu ymaith ei gwddf oddi tan iau ei harglwyddiaeth.‡

Mewn amryw o ysgrifau Leo, a elwir y Mawr, a gyhoeddodd, tua'r flwyddyn 455, gwelir gallu llywyddol a gormesol esgobion eglwys Rhufain dros eglwysi eraill yn cael ei arddelwi yn y modd egluraf, a chyda'r eofndra mwyaf.§ Y gallu neu y llywodraeth a amcanai esgobion Rhufain ei gyr-

* Sir Isaac Newton's Dissert. on the Prophecies, p. 91—112.

† Ymddengys mai Acholius oedd y rhaglaw cyntaf a sefydlwyd gan esgobion Rhufain. Yr achlysur o'i wneuthur oedd, fod Ilyricum yn perthyn i'r amherodraeth ddwyreiniol; ac, fel na chollai Damasus ei afael esgobaethol o honi, efe a drefnodd Acholius, esgob Thessalonica, yn rhaglaw iddo, i ofalu am dani, yn y flwyddyn 382: ac o herwydd gweled fod hyn yn atteb dyben da, er cadarnhau awdurdod esgobion Rhufain, daeth yr arferiad yn gyffredin mewn taleithiau eraill.—*Campbell's Lect. on Church History, vol.* ii. *p.* 121.

‡ Campbell's Lect. on Church Hist. vol. i. p. 407.

§ Llythyr oddi wrth Leo y cyntaf at ei ficer, neu ei raglaw, yn Ilyricum, sef esgob Thessalonica.

—— "Ond yn nghylch trefn yr esgobion, pan y mae gwahaniaeth yn ymgodi yn eu mysg, dylid trefnu, gyda'r gofal mwyaf, rhag i rai honni y cyfan iddynt eu hunain; a dylai y farn oreu gael ei mynwesu ganddynt y naill am y llall fel brodyr trwy y gwahanol daleithiau: er hyny dylai y rhai sefydledig yn y trefydd mwyaf gymmeryd y gofal dwysaf, fel trwyddynt hwy y gall achos yr holl eglwysi gael ei gyflwyno i orsedd Pedr. Am hyny ni ddylai yr hwn a wyr ei fod wedi ei osod goruwch ereill rwgnach i un gael ei osod arno yntau; ond dylai hefyd rwydd-dalu yr ufudd-dod y mae yn ofyn: a chan na fynai ddwyn baich gorthrwm ei hun, ni ddylai yntau orfeichio ereill."

Mewn llythyr gorchymynol arall o'i eiddo at Anastasius, ei raglaw, yn Thessalonica, dywedir,—

haedd y pryd hwnw, a'i sefydlu ynddynt hwy a'u holynwyr, oedd yn ddaublyg,—sef, *yn gyntaf*, un cyflawniadol a barnol; *yn ail*, un deddfwneuthurol. Trwy y blaenaf nid ymarddelwent i ddim ond bod yn ymddiriedolwyr, i edrych ar ol y cyfreithiau a sefydlid yn y cymmanfaoedd, am eu bod yn cael eu hiawn weinyddu yn yr eglwys, ac i farnu ymddygiadau dynion yn eu hwyneb. Ond nid hwy y buant yn cael hon, nag yr ymgeisiasant am y llall, sef bod yn ddeddf-wneuthurwyr. Ymarddelwasant yr hawl o wneuthur cyfreithiau a threfnu gosodiadau i'r holl eglwys, ac i farnu yr hyn nid oedd felly, heb na chymmanfa, na chyngor, nac ysgrythyr, gan haeru eu bod hwy uwchlaw i'r pethau hyn oll. Gwedi meddwl eu bod wedi cyrhaedd y *gallu* hwn, yr athrawiaeth a ddysgasant i'r byd oedd, nad oedd Pabau Rhufain yn ddarostyngedig i neb ar y ddaear, nac i un gyfraith, ond eu bod i wneuthur yn ol eu hewyllys eu hunain, heb fod yn gyfrifol i neb, a bod yn annichonadwy iddynt gamgymmeryd mewn dim a wnaent neu a ddywedent.*

Fel hyn y daeth yr annhrefn hwnw i'r eglwysi, ac y cynnyddodd—annhrefn, meddaf, o'r mwyaf ydyw, wrth ystyried y darluniad a roddir i ni yn yr ysgrythyrau o drefn eglwys Crist, a sefyllfa gweinidogion yr efengyl, ac os ydyw y drefn apostolaidd yn rheol ag y dylem ni ddwyn yn mlaen ein hachosion eglwysig wrthi. Er mor uchel y dyrchefir yr esgobion yn eu gallu a'u hawdurdod, nid ŷm yn gweled i'r esgobion Rhufeinaidd gyrhaedd y gallu neu yr awdurdod yma yn gyflawn, nac yn gyffredinol, mewn un ystyr, cyn diwedd y canrif sydd dan ein sylw yn bresennol.

Dysgeidiaeth, a phob rhinweddau moesol ac efengylaidd, oeddynt yn mawr leihau; a phob defodau gwaelion, ac ymarferiadau coelgrefyddol, yn mawr gynnyddu yr amseroedd hyn. Adrodd yr holl ddefodau dychymmygol, a'r chwanegiadau anysgrythyrol a wnaed at yr addoliad a briodolent i Dduw, yn mhob rhan o hono; a'r modd y cymmylwyd pob rheolau, moesau, ac ymarferiadau dadguddiedig yn yr ysgrythyrau, trwy wag-osodiadau a chanonau eu cymmanfaoedd, sydd fwy nag a ellir ei wneud mewn cyfrolau cyfain. Cyfreithiau hunan-ewyllys a osodid i fynu yn brawf-nodau o ymarferiadau crefyddol ac ymddygiadau rhinweddol yn mhob lle. Nid oedd braidd wedi ei adael, cyn diwedd y canrif hwn, yr arwyddion lleiaf o grefydd bur a syml y Testament Newydd, i'w gweled mewn ymarferiad; eithr lluaws o ryw gyflawniadau coegaidd ac afresymol, pa rai nid oeddynt dda i ddim, ond i lanw meddyliau y werinos anwybodus â syndod aruthrol wrth eu gweled. Y rhai hyny a gymmerent arnynt wasanaethu y cyssegr, a wisgasant ddillad drudfawr, o amryw liwiau, ac wedi eu haddurno â phob rhyw

"Ond i bob archesgob taleithiol, ymddiriedir awdurdod a hawl i urddo yn eu talaeth eu hunain: felly ein hewyllys yw, fod i'r cyfryw archesgobion gael eu hurddo genyt ti, ond nid heb arafwch a dwysystyriaeth."

Mewn un arall, o eiddo yr un Leo, at holl archesgobion Ilyricum, dywedir,—"Gan fod ein gofal ni yn estynedig dros yr holl eglwysi, gofynir hyn oddi wrthym gan yr Arglwydd, yr hwn a roddodd i'r gwir fendigedig apostol Pedr, fel gwobr am ei ffydd, y flaenoriaeth mewn urddas apostolaidd, gan ei osod ef i fod yn sylfaen ddiysgog yr holl eglwys gyffredinol." Gwelir hefyd fod parodrwydd nid ychydig yn yr esgobion yn y gorllewin, y pryd hwn, i ymostwng i'r ymarddelwad hwn o eiddo Leo.

Mewn annerchiad o eiddo esgobion taleath Arles at Leo, yn y flwyddyn 450, pan yr erfyn am iawnderau i'w harchesgob, dywedir,—"Trwy y bendigedig Pedr, tywysogion yr apostolion, y mae y wir sanctaidd eglwys Rufeinig yn meddu arglwyddiaeth ar holl eglwysi y byd."

Mewn llythyr arall oddi wrth dri o esgobion Galia at y Pab, dywedir,—"Gyda mawr annhraethadwy hyfrydwch, yr ydym ni, mewn modd tra neillduol, yn cydlawenhau â thi, am fod yr ysgrif honno o'th athrawiaeth yn cael y fath dderbyniad a chanmoliaeth drwy yr holl eglwysi, nes yw cydsyniad cyffredinol, bron, yn cyhoeddi mai yna y sefydlwyd y brif-gadair Apostolaidd, a bod oddi yna oraclau o ysbryd apostolaidd yn cael eu gwasgaru."—*Sir Isaac Newton's Dissertation on the Prophecies.*

* Campbell's Lect. on Church Hist. vol. ii. p. 96—136.

addurniadau, er mwyn llanw, meddent, yr edrychwyr à mwy o barch i'r nefoedd sanctaidd. Y lleoedd addoliad a adeiledid yn y modd ardderchoccaf, o'r defnyddiau mwyaf drudfawr, mewn amryw fanau, ac a brydferthid â'r cywreinwaith gorau a fedrai celfyddydwyr osod arnynt. Llwyddiant y Nestoriaid a gynhyrfodd yr eglwys a elwid yn gyffredinol, i wneuthur arwydd-lun o Mair y Forwyn, â'i baban Iesu yn ei breichiau, yn y modd prydferthaf, a'i osod i fynu yn eu lleoedd addoliad. Yr allorau ar ba rai y gosodid yr arwydd-lun hwn, a'r cistiau a gynnwysent weddillion y saint a'r merthyron, a wnaid o aur ac arian pur, mewn amryw fanau. Mewn amryw leoedd, gosodent ddynion, ar gylch, nos a dydd, i gyflawni rhyw fath o wasanaeth crefyddol, trwy weddiau, a chanu rhyw fath o emynau a gweddiau, fel pe buasai y Jehofah yn ymhyfrydu mewn rhyw ddadwrdd trystfawr o'r fath, neu yn cael ei foddhau gan ymddangosiadau gwenieithus dynolion.*

Dysgyblaeth eglwysig a newidiodd yn fawr yn mhob rhan, yn enwedig yn eu hymddygiadau tu ag at droseddwyr, yn y canrif hwn. Er y dechreuad, yr oedd yr hwn a droseddai i gael ei alw i gyfrif gan yr holl gynnulleidfa, a'i dderbyn i gymundeb eglwysig trwy wneuthur cyfaddefiad o'i bechod yn gyhoeddus ger gwydd yr holl bobl: eithr Leo, esgob Rhufain, a sefydlodd ar fod cyfaddefiad dirgelaidd wrth un neu ragor o swyddwyr eglwysig, a bennodid gan yr eglwys i'r perwyl hwnw, i atteb y dyben. Trwy hyn symmudwyd ymaith un o'r attaliadau mwyaf oddi ar ffordd llygredigaeth, a rhoddwyd drws mwy agored i'r hwn a garai ei bechod; a chwanegwyd at gyfoeth a pharch y trefniad cyssegredig nid ychydig. Priodolir y cynnydd anarferol hwn mewn coeg-ddefodau a rhwysgfawredd dynol, yn nghyd â dadfeiliad yr eglwysi, mewn bywyd crefyddol ac egwyddorion iachus, i lygredigaeth a thwyll y rhai a gymmerent arnynt fod yn flaenoriaid yn eu plith, i'r egwyddorion philosophaidd a drwg a gymmerasid i fynu i reoleiddio eu cred a'u hymarferiadau, ac i'r cyd-darawiad sydd rhwng hyn a thueddiad naturiol dynolryw i addoli trwy edrychiad ar bethau, yn fwy nag mewn iawn deimladau calon. Gellir hefyd weled yn amlwg, wrth yr hanes a olrheiniwyd, fod yr holl ddirywiad hwn, yn mhob cangen yn yr eglwysi, wedi ei ddwyn yn mlaen yn gydraddol hollol â'u hymadawiad hwy oddi wrth eu hanymddibyniaeth cyntefig, a gosodiad eu llywodraeth mewn unbenaeth yn eglwys Rhufain.

Yr oedd dysgeidiaeth yn lleihau yn fawr cyn diwedd y canrif hwn, fel y gwelir pan anfonodd Nestorius ei gyffes at Celestius, esgob Rhufain, yn y iaith Roeg, nad oedd efe, na neb o'r cannoedd offeiriaid ag oedd o'i amgylch, yn medru ei deall, ac nid oedd ganddo neb gerllaw iddo y gallai ymddiried y gorchwyl o'i chyfieithu iddo, heb ei danfon at un Cassian, gwr dysgedig oedd yn Marseiles, yn Gaul, i'w throi i'r iaith Ladinaidd.† Trwy hyn rhoddwyd i Cyril, gwrthwynebydd Nestorius, y fantais o gael clustymwrandawiad ei farnydd yn flaenaf, yr hyn oedd yn sicrhau iddo fuddugoliaeth, pa un bynag ai euog ai dieuog.

Bywyd monachaidd a fwyhaodd lawer mewn parch a chymmeradwyaeth, y monachod a amlhawyd, a'r monachdai a chwanegwyd trwy bob gwlad, yn yr amser hwn. Llawer o'r monachod a'r meudwyaid a aethant i'r fath eithafoedd o benboethder a gweithredoedd marweiddiedig, ag a ymddengys i

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 56.

† Dr. Campbell's Lect. on Eccl. Hist. vol. ii. p. 7.

ni yn bresennol yn eithaf afresymol a gwrthun, eithr y pryd hwnw yn ganmoladwy; a hwy a berchid o herwydd hyny i'r graddau mwyaf, gan bob math o ddynion. Ymwthient i gelloedd ac ogofeydd cyfyng mewn creigiau, ac i dyllau mewn coedydd, yn mha rai yr arosent mewn agweddau annaturiol o ran eu cyrff, gan ymprydio am ddyddiau lawer, fel y gwelir hyd heddyw eu harwyddion yn Thebais. Eraill a breswylient yr anialwch yn unigol, ac yn ddeoledig oddi wrth eu cyd-ddynion; pan yr ymroddai eraill i fyw yn mhlith eu his-ryw, gan ymborthi ar ffrwythau y maesydd, gyda'r deadellau. Rhai eraill a esgynent i ben y clogwyni uchaf, a chopäau y cregiau; ac yno arosent yn sythion, gan estyn allan eu dwylaw ar lun croes tua'r nefoedd, heb syflyd oddi yno, er gwasanaeth iddynt eu hunain, na neb arall, am hir amser.

Er siampl o'r gwallgofrwydd crefyddol hwn, coffeir SIMEON, a elwir STYLITES, yr hwn oedd enedigol o Syria. Gadawodd, pan yn dair-ar-ddeg oed, ei hyfryd-waith o fugeilio, ac a ymroddodd i fywyd gerwinaidd mewn monachdy. Gwedi hir lafurio dan effaith penboethder o'r mwyaf—fel, trwy lawer o weithredoedd marweiddiedig, y bu agos iddo fod yn hunanleiddiad amryw weithiau—o'r diwedd, penderfynodd i boenydio ei hun, trwy esgyn, ac aros ar ben pump o golofnau, a adeilesid ar ben mynydd, o ddeutu ugain milltir o Antiochia. Y colofnau hyn oeddynt wedi eu gosod ar gylch, y naill yn uwch na'r llall. Y cyntaf yn naw troedfedd; yr ail yn ddeunaw; y trydydd yn un ar ddeg ar hugain; y pedwarydd yn chwech a deugain; a'r pummed yn driugain o uchder; a dim mwy na thair troedfedd o led drosodd o ochr i ochr, ar y pen uchaf. Ni ddisgynai ar un amgylchiad oddi ar ei golofn, ond i esgyn o'r naill i'r llall: ar ben y ddiweddaf dywedir iddo aros am bymtheg mlynedd, heb ddyfod oddi arni unwaith, ar unrhyw achos. Trwy ymarferiad, safai y Syriad meudwyaidd yn ddiddychryn yn yr uchder hwn, nos a dydd, yn wyneb gwres haulwen haf, ac oerder hir-nos auaf, gan wneuthur yno ar ei gorph wahanol ystumiau! Weithiau yn uniawn-syth, safai am oriau, â'i ddwylaw yn estynedig tua'r nefoedd, ar lun croes: bryd arall ymgrymai â'i ben tu ag i lawr; ond ni oddefai ei le iddo orwedd; a byddai mewn ysgogiad parhaus, gan daraw ei dalcen wrth fawd ei droed. Un edrychwr arno, unwaith, a'i cyfrifodd ef yn gwneuthur hyn dros ddeuddeg cant o weithiau, heb attal! a blinodd y cyfrifydd gyfrif, cyn i'r ysgogydd roi heibio. Treuliai y bore mewn gweddiau a myfyrdodau, a'r prydnawn mewn areithio i'r tyrfaoedd a ddeuent yno i wrando arno. Cornwyd blin a ddaeth ar un o'i forddwydydd, fel y gorfu iddo fod am flynyddau â'i bwysau ar un droed; yr hyn a fyrhaodd ei einioes, er na leihaodd ei sêl, ac ni attaliodd fywyd nefolaidd y meudwy. Ond efe a drengodd ar ben ei golofn, wedi bod ar ben y naill a'r llall o honynt am ddeugain mlynedd ond tair! Ni chymmerai luniaeth ond ar y Sabbath yn unig; ac ni chai un merch ddyfod yn agos i'w wyddfod.

Y fath fywyd hunan-farweiddiol a hunan-ferthyrol, pe ei gweiniasid trwy orchymyn unrhyw lywodraethwr, golygid ef yn greulondeb o'r mwyaf. Eithr y cyfryw oedd ffolineb dynolion, fel yr edrychent ar ymddygiad y saint meudwyaidd hwn yn rhinwedd o'r mwyaf, er ei fod yn hunan-laddiad. Er y crea ei hanes dosturi yn mynwesau rhai, a dirmyg yn mwynwesau eraill, etto, o herwydd ei ymddygiadau gwallgofus hyn, perchid ef, a bron na addolid ef gan lawer, a hyny nid yn unig gan ryw werinos anwybodus, eithr gan wreng a bonedd, brenhinoedd a deiliaid. Tyrfaoedd a ymdeithient o Galia,

yr India, ac Affrica, i dalu ymweliad â cholofnau cyssegredig Simeon. Llwythau lluosog o'r Saraceniaid a ddadleuent anrhydeddusrwydd ei fendithion, trwy rym arfau. Brenhinoedd a brenhinesau Arabia, a'r Persiaid, a gydnabyddent rinweddau goruwch-naturiol y meudwy angylaidd, gyda diolchgarwch; ac ymgynghorai yr amherawdwr Theodosius yr ail âg ef yn mhob achosion pwysig perthynol i'r wladwriaeth a'r eglwys. Ei gelain druanaidd a ddygwyd o fynydd Telenissa, gyda rhwysgfawredd anarferol; pryd yr oedd yn gydfynedol â'r fintai yn ei angladd, patriarch Antiochia, prif faes-lywydd y dwyrain, chwech o esgobion, un iarll ar hugain, a chwe mil o filwyr, pan yr anrhydeddwyd Antiochia â'i weddillion gwael ef, fel un o'i haddurniadau mwyaf gogoneddus, a'i hamddiffyniadau anorchfygol. Fel hyn yr enwogodd y dyn truenus hwn ei enw, ac y parodd i'w goffadwriaeth fod hyd oesau a chenhedlaethau, trwy ei ynfydrwydd.*

Yn yr oes goelgrefyddol honno, yr oedd rhinweddau yr apostolion yn cael eu llwyr anghofio; a gogoniant Iesu Grist a hollol gymmylid gan ddysgleirdeb twyllodrus y meudwyaid hyn, a'u ffug-wyrthiau, nid yn unig yn ngolwg y werinos a ystyrid yn anwybodus, ond hefyd gan ddynion ag oedd yn llenwi y prif sefyllfaoedd mewn gwlad ac eglwys. Syrthiai i lawr y byd Cristionogol ger bron eu creirfäau; a'r gwyrthiau a briodolent i'w gweddillion oeddynt yn aruthrol yn eu heffeithiau, o ran eu rhifedi yn aneirif, ac o barhad llawer hwy na'u bywydau. Yr ymraniadau a gymmerasent le yn y canrifoedd o'r blaen, a barhausant gan mwyaf yn y canrif hwn; a rhai eraill a gymmerasant le, ac a fuant o ganlyniad pwysig. Er cymmaint a ddyoddefodd y Donatiaid oddi wrth gyfreithiau llymdost yr amherawdwyr creulawn, ac er cymmaint a fu ymdrechiadau gorchestol Augustine i'w dileu, ac er y difrod a wnaeth y rhyfeloedd blinion a achoswyd gan y Vandaliaid trwy holl Affrica, etto parhausant yn blaid luosog yn y wlad honno hyd ddiwedd y canrif sydd o dan ein sylw.

Yr eglwys a elwid yn gatholig, oedd wedi tyfu i fynu i'r fath ormes, fel y nodai bawb, yn mhob lle, na chyd-redai gyda hi i'r unrhyw ormod-rhysedd, ac na phleidiai ei choeg-ddefodau, yn hereticiaid; a medrai hwylio y llywodraeth wladol y pryd y mynai i weithredu yn y modd creulonaf tu ag at y cyfryw, gan eu haberthu i'w cynddaredd hwy, eu herlid i alltudiaeth ac angau, a llethu eu golygiadau. Teimlodd y Novatiaid a'r Ariaid ymneilldduedig yn y dwyrain, bwys eu dyrnod yn drwm iawn yn y canrif hwn; etto parhausant yn wahanol gynnulleidfaoedd, er gorfod o honynt fod yn lled ddirgelaidd mewn gwahanol fanau. Er y medrai yr eglwys gatholig, a'r llywodraeth wladol, trwy eu cyfreithiau gerwin a chreulawn, chwalu y cynnulleidfaoedd ymneilldduedig, a'u hattal i fod mor gyhoeddus, a dinystrio llawer o'u pleidwyr, ac felly eu gwanychu mewn ymddangosiad; etto, trwy hyny, cynnyddasant egwyddorion rhyddid ac uniawnderau yn mynwesau llawer. Codai rhagluniaeth rai i fynu i ddadleu dros yr egwyddorion hyn, mewn modd cyhoeddus, nes y tywynai ambell i lewyrchiad o oleuni haul rhyddid a dedwyddwch ar y bryniau, pan oedd gogoniant Cristionogaeth yn suddo i gaddug tywyll-nos, trwy offerynoliaeth pleidwyr yr ormes-lywodraeth.

Gwr enwog o Gaul o'r enw VIGILANTIUS, yr hwn oedd hynod o ran changder ei wybodaeth, yn fawr ei ddysg a'i ddoniau, yn wresog yn ei

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 49. Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 351.

grefydd, a hardd yn ei fywyd, gwedi teithio trwy amryw barthau o'r dwyrain, a ddaeth i'r Hispaen; ac yno neillduwyd ef i'r swydd o henuriad yn yr eglwys. Gwedi hyny cyhoeddodd amryw lyfrau, yn mha rai yr ymosodai yn erbyn y defodau coel-grefyddol, yr ymarferiadau gweigion, a'r ffug-wyrthiau a ymarddelwid eu bod yn cael eu cyflawni trwy weddillion y merthyron, a'r ormes a arferai yr eglwys gatholig, fel y pethau ffolaf a ffieiddiaf ger bron Duw, a mwyaf dinystriol i ddynion. Llawer o ddynion enwog, ac o sefyllfaoedd uchel yn y wladwriaeth a'r eglwys, a bleidiasant ei olygiadau, mewn amryw leoedd. Eithr Jerome y mònach a ymosododd arno yn ddidrugaredd, gan dduo ei gymmeriad a'i egwyddorion, a chodi croch-lefau yn ei erbyn yn mhlith y monachod a'r eglwys gatholig yn mhob lle; ac enw Vigilantius a roddwyd i lawr yn mhlith yr hereticiaid esgymunedig, lle y mae hyd heddyw, a'i bleidwyr a suddasant i dir anghof.*

Yn y canrif hwn, cododd i fynu blaid, ag sydd yn aros hyd heddyw, ac yn dra lluosog yn y dwyrain, a elwir NESTORIAID. Dechreuydd hon oedd NESTORIUS, patriarch Caer-Cystenyn, yr hwn a ddywedai, mewn cyferbyniad i'r APOLINARIAID,† fod yn Nghrist ddau berson cyflawn, ac nid dwy nattur; ac mewn cyferbyniad i'r eglwys gatholig, dywedai nad mam Duw oedd Mair, ond mai mam Crist oedd yn briodol ei galw. Henuriad cyfrifol yn Caer-Cystenyn, o'r enw Anastasius, a bleidiodd ei olygiadau yn wresog iawn, fel y taenwyd hwy yn fuan yn mhell ac agos, Nid hwy na hyny y buont heb gael eu gwrthsefyll gan luaws o'r monachod, a Cyril, patriarch o Alexandria, yn eu blaenori. Bernir mai nid o barch i'r gwirionedd, a thueddiad i wrthsefyll cyfeiliornad, a gymhellodd Cyril i wrthwynebu Nestorius gyda'r fath frwdfrydedd; eithr ei ysbryd cenfigenllyd, a'i duedd hunanol ef. Canys fel yr oedd esgobaeth Caer-Cystenyn yn ymdderchafu i'r flaenoriaeth uwchlaw Alexandria ac Antiochia, ni allai Cyril falchaidd ei oddef yn dawel; ond dangosai, ar bob cyfleusdra, ei anfoddlonrwydd, trwy wneuthur a fedrai o sarhad: a thrwy nwydau ymddial y ddau esgob hyn, gwnaed drygioni aneirif i'r eglwys. Yn y flwyddyn 430, gwnaeth pob un o'r ddau anfon eu cwynion i Rufain at Celestius, yr esgob; eithr Cyril a ennillodd y dydd, trwy gael ymwrandawiad, fel y dywedwyd yn barod. Gwedi hyn cynnullodd Cyril gymmanfa daleithiol, gyda'i gyfeillion, pan y cyhoeddodd ddeuddeg o *anathemäau* yn erbyn patriarch Caer-Cystenyn. Nid hir y bu Nestorius heb ad-dalu iddo trwy gynnull cynghor

* Ni all lai na bod yn radd o ddifyrwch i bob darllenydd wybod y modd yr ymgeisiai Jerome wrthbrofi rhesymau Vigilantius yn erbyn effeithiolded rhinwedd gweddillion y saint; gan hyny rhoddir yma ychydig o'i ddywediadau. Ond rhaid cofio mai nid trwy resymau yr oedd y monach yn meddwl ennill y fuddugoliaeth ar ei wrthwynebydd, eithr trwy ei ddifrio a'i ddrwg-liwio, a dwyn y llywodraeth wladol i weithredu yn ei erbyn: — "Os ydyw y parch a'r anrhydedd a roddir genym i weddillion y saint, yn gyssegr-ladrad ac yn annuwioldeb o'r fath ag y myn Vigilantius i ni gredu ei fod, yna, o ganlyniad, y mae yn rhaid fod ymddygiadau yr amherawdwr Constantius yn trosglwyddo gweddillion y sanctaidd apostol Andrew, a'r efengylwr Luc, a Timotheus, i Caer-Cystenyn, yn ddrygioni — ymddygiadau Augustus Arcadius, pan drosglwyddodd esgyrn y bendigedig Samuel y prophwyd o Judea, lle y gorweddasent am hir oesau, i Thrace, a raid fod yn gyssegr-ladrad o'r ffieiddiaf — ymddygiadau yr holl esgobion, pan yr ymostyngasant i ddwyn lludw y saint mewn cydau aidan a llestri aur, sydd raid fod, os gwir ei ddywediad ef, yn gyssegr-ladrad ac yn ffolineb o'r mwyaf — a rhaid fod ymddygiadau pobl yr eglwysi oll yn ddrwg, ac yn eithaf ynfyd, pan y derbyniant y gweddillion gyda'r un llawenydd â phe buasent yn gweled y saint neu y prophwydi eu hunain, ac yr ânt allan yn lluoedd i'w cyfarfod ffordd bell, ac y seinianteu mawl." Er dangos i Vigilantius mai nid pechod ac ynfydrwydd oedd y gwasanaeth hwn, fel y mynai efe, archa iddo fyned at rai o'r gweddillion, ac yna y teimiai eu rhinwedd, ac y bwrid allan yr ysbryd afian ag oedd yn llefaru ynddo! Digon am ymresymiad Jerome. Pa beth a ellir ddywedyd am yr oes a roddai gred i'r fath chwedlau?—*Jones's Hist. of the Christian Church, vol.* i. *p.* 357. a *Mosheim's Eccl. Hist. vol.* ii. *p.* 52.

† Apolinariaid oedd y cyfryw a haerent nad oedd gan Iesu Grist un enaid rhesymol, eithr mai ei Dduwdod oedd yr hyn a wasanaethai yn ei le.

yn ei dalaeth yntau, yn mha un, gyda'i gyfeillion, y cyhoeddodd yr un rhif o anathemäau yn erbyn patriarch Alexandria. Ysbrydoedd y ddau batriarch a dâniwyd gan y nwydau mwyaf llygredig, dan y ffug o sêl dros y gwirionedd, nes ennynasant fflam o amryson a therfysg trwy yr holl eglwysi, o begwn i'w gilydd.

Theodosius yr ail a gynnullodd gymmanfa ar yr achos yn Ephesus yn y flwyddyn 431, yr hon a elwir y drydedd gymmanfa gyffredinol, yn mha un y blaenorai Cyril—yr hyn oedd yn groes i bob trefn; canys efe oedd y prif gyhuddwr—a dygwyd yr achos yn mlaen cyn i Ioan, patriarch Antiochia, a llawer o esgobion, ddyfod yno. Gwrthdystiodd Nestorius yn erbyn yr ymddygiad; eithr i ddim dyben, ac ni oddefid iddo gael eglurhau ei olygiadau ei hun. Ond cyhoeddwyd y ddedryd fwyaf ofnadwy yn ei erbyn, fel yr heretic gwaethaf—Judas fradwr—a chablydd y Goruchaf; diswyddwyd ef, a difeddianwyd ef o'i esgobaeth, ac alltudiwyd ef i Patria, yn Arabia; a chwedi hyny i le anial yn yr Aipht, a elwid Ossasis, lle y gorphenodd ei yrfa tua'r flwyddyn 439. Eithr ni alltudiwyd ei olygiadau, ac ni buant feirw pan roddodd angau derfyn ar ei alltudiaeth ef; a'r amryson a achlysurwyd trwy yddygiadau y ddau batriarch, ni chladdwyd gyda hwy. Ioan, patriarch Antiochia, pa un ni arosai Cyril wrth ei ddyfodiad i Ephesus, gyda lluaws o esgobion y dwyrain, a wrthsafasant fesurau y gymmanfa; amddiffynasant olygiadau Nestorius, ac a ddedfrydasant Cyril i'r un dinystr.

Sylwer yma pa mor ddiffygiol yw pob trefniad dynol mewn crefydd, ac mor bell ydynt o fod yn atteb eu dybenion amcanedig. Y cymmanfaoedd, a'r swydd batriarchaidd, oeddynt sefydliadau dynol, wedi eu hamcanu i fod yn nawdd i undeb a heddwch yr eglwys: ond yma, yn gystal â phrydiau eraill, gwelir hwy wedi bod yn brif foddion rhwygiadau ac anghydfod yn yr holl eglwys. Bernir nad oedd y gwir achos o'r holl derfysg hwn ond mewn geiriau yn unig, ac nad mewn golygiadau perthynol i'r naill na'r llall; canys pan y dywedai Nestorius fod yn Nghrist *ddau berson*, ni olygai ddim yn amgen i'r lleill, pan y dywedent fod ynddo *ddwy nattur;* a phan y galwent Mair yn *fam Duw*, ni olygent fwy nag yntau, pan y dywedai ei bod yn *fam Crist*. Ond mae yn debyg mai yr hyn a barodd y gwrthwynebiad gyntaf yn Nestorius i'r drefn gyffredin o ymadroddi am y pethau hyn, oedd, ymlithriad parhaus yr eglwys gatholig i wadu enaid dynol yr Arglwydd Iesu, ac i roddi addoliad crefyddol i Mair, fel mam Duw, er na sefydlasid hyny yn gyffredinol y pryd hwnw.*

Llwyddodd athrawiaeth Nestorius gyda'r cyflymdra mwyaf trwy holl wledydd y dwyrain; a daeth enw a chymmeriad ei hysgogydd yn barchus yn mhob lle; pan oedd eiddo Cyril ei wrthwynebydd yn suddo mewn anfri. Y derbyniad a roddwyd iddi yn yr athrofa enwog ag oedd yn Edessa, prif ddinas Mesopotamia, a roddodd rwydd fynediad iddi yn y parthau hyny. Barsumas, gwr tra enwog yn yr athrofa uchod, a ddaeth yn amddiffynydd gwresog i olygiadau Nestorius; a chwedi ei droi allan oddi yno, efe a neillduwyd yn esgob yn Nisibis; lle y sefydlodd athrofa, er dwyn dynion ieuainge i fynu i'r weinidogaeth, o ba un daeth lluaws mawr o athrawon dysgedig a doniol yn mhlith y Nestoriaid. Dygodd Barsumas olygiadau Nestorius i drefn; ac ymdrechodd gyda'r fath egni a diwydrwydd drostynt, trwy Cal-

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 70

dea, Persia, Arabia, ac Assyria, hyd yn nod mor bell â'r India, fel y cyfrifir ef hyd heddyw yn enwog, ac yn dad crefyddol, gan lawer yn y taleithiau hyny. Parhaodd i lafurio er helaethu Cristionogaeth yn y gwledydd hyny, yn ol egwyddorion Nestoriaeth, o'r flwyddyn 435 hyd y flwyddyn 485, pryd y planodd eglwysi mewn amryw fanau lle nad oeddynt o'r blaen, er mawr helaethiad yn ddiau i deyrnas yr Emmanuel. Pherozes, brenin Persia, a drôdd allan o'r eglwysi, yn ei deyrnas, bawb a'r na chofleidient olygiadau Nestorius; ac a roddodd eu lleoedd i'r cyfryw a fyddai o'r gred honno. Sefydlwyd Seleucia, yr hon a elwir Mosul yn bresennol, yn brif archesgobaeth, esgob pa un a ystyrir yn batriarch i'r holl drefniad Nestoraidd trwy y dwyrain.* Y mae llawer o Gristionogion hyd heddyw yn Armenia, Persia, Assyria, &c., ag sydd oll o farn Nestoraidd; ac mewn ymddibyniad am eu trefn eglwysaidd ar batriarch Mosul.

Yn yr amser sydd dan sylw, gellir edrych ar yr holl eglwysi a broffesent Gristionogaeth, fel wedi ymranu yn dair rhan gyffredinol, ac sydd yn parhau hyd heddyw,—sef, eglwys y gorllewin, a ymddibynai ar batriarch Rhufain am ei threfniad; eglwys Groeg, a ymddibynai ar batriarch Caer-Cystenyn, yr hwn a ddechreuai ymddyrchafu y pryd hwnw; ac eglwys y Nestoriaid, a ymddibynai ar batriarch Seleucia. Cyffes y Nestoriaid, o ran yr hyn yr amrywient oddi wrth eraill, fel y gosodwyd hi allan yn amryw o'u cymmanfaoedd, yn ol golygiad Barsumas, sydd fel y canlyn:—"Fod yn ein Iachawdwr *ddau berson;* un yn ddwyfol—y Gair tragywyddol; a'r llall yn ddynol—y dyn Iesu; a bod y ddau hyn yn un mewn *golygiad (aspect).* Yr undeb hwn rhwng Mab Duw a Mab y dyn, a ffurfiwyd yn Nghrist pan ei cenhedlwyd yn nghroth y Forwyn, yr hwn nid yw byth i gael ei ddileu; ac nad yw efe yn undeb nattur, neu berson, ond yn unig undeb ewyllys a serchiadau; gan hyny, yn Grist i'w wahaniaethu oddi wrth Dduw, yr hwn a breswyliai ynddo, megys yn ei deml; a bod Mair, yn ol eu barn hwy, i'w galw yn fam Crist, ac nid yn fam Duw."†

Llawer yn y dyddiau hyny, gan ymwylltio yn eu tybiau, o eiddigedd i wrthwynebu y Nestoriaid, a chilio yn mhell oddi wrth eu golygiadau, a syrthiasant i eithafoedd, yr ochr arall, gan ddywedyd *fod y nattur ddynol wedi ei cholli yn hollol yn Nuwdod Crist.* Yn mhlith amryw eraill, enwir yr hyglod abad EUTYCHES, yr hwn a haerai nad oedd ond un nattur yn aros yn Nghrist, yr hwn a enwai efe *y Gair ymgnawdoledig.* Dechreuodd yr abad hwn flino yr eglwysi â ffrwyth ei ddychymmygion tua'r flwyddyn 448; ac mewn cymmanfa yn Nghaer-Cystenyn, dygwyd ef i gyfrif; yn mha un y blaenorai Fflavianus, patriarch y lle, ac yr annogwyd ef i adael heibio ei ddaliadau. Eithr efe nis gwnai; ond cyrchai am frawd at gymmanfa gyffredin. Yr amherawdwr Theodosius a alwodd un drachefn i Ephesus, yn y flwyddyn 449; yn mha un y blaenorai Dioscorus, canlyniedydd Cyril o Alexandria, yr hwn oedd yn hollol o'r un ysbryd balch, cenfigenllyd, a therfysglyd âg ef ei hun. Yr oedd efe yr un o ran ei farn âg Eutyches, neu, o leiaf, efe a gymmerodd yr ochr honno, am y byddai trwy hyn yn groes i batriach Caer-Cystenyn: a thrwy ei ormes a'i gyfrwysdra, dygodd farn y gymmanfa o'i du. Dedfrydwyd Fflavianus, am ei ymddygiad tu ag at Eutyches, yn Nghaer-Cystenyn, yn heretic; fflangellwyd ef gan Dioscorus a'i henuriaid, ac alltudiwyd ef i Epipas, lle y bu farw yn fuan.

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 73—110. † Ibid. p. 74.

Erbyn hyn yr oedd yr hyn a elwid yn eglwys, oll yn fflam o lidiawgrwydd, terfysg, trais, gormes, a rhyfel. Cyrchwyd am frawd at Leo y cyntaf, ag oedd y pryd hwnw yn batriarch Rhufain. Efe, trwy gydsyniad yr amherawdwr Marcian, a gynnullodd gymmanfa yn Chalcedon, yn y flwyddyn 451—yr hon a enwir y bedwaredd gymmanfa gyffredin—yn mha un y blaenorai yr amherawdwr ei hun, a lle yr oedd rhaglawiaid dros batriarch Rhufain. Yn ol cyfarwyddiadau Leo, collfarnwyd Eutychiaeth yn gyfeiliornad dinystriol; diswyddwyd Dioscorus waedlyd, ac alltudiwyd ef i Paphlagonia; a diddymwyd yr oll a wnaed yn Ephesus yn y flwyddyn 449.* Sefydlwyd yr erthygl cred ganlynol i fod trwy yr holl eglwysi,—sef, *Fod yn mherson Crist ddwy wahanol nattur, wedi eu huno yn un person, a hyny heb un newidiad, cymmysgedd, na therfysg.* Eithr y feddyginiaeth a ddarparodd y gymmanfa hon er iachau clwyfau, rhwymo doluriau, a gwneuthur i fynu rwygiadau yr eglwys, a fu yn waeth na'r archoll. Canys amrysonau terfysglyd, rhyfeloedd gwaedlyd, a chreulonderau barbaraidd, yn mhlith y rhai a enwid yn Gristionogion, trwy holl wledydd y dwyrain, a fu y canlyniad. Yn ol marwolaeth yr amherawdwr Marcian, y bobl a ruthrasant ar Proterius, yr hwn a roddwyd yn ganlyniedydd i Dioscorus yn nghadair esgobaethol Alexandria, ac a'i llofruddiasant ef a phawb o'i bleidwyr; a rhoddasant pi esgobaeth i un Timothy Ælurus, yr hwn oedd Eutychiad o farn. Am hir amser wedi hyn, bu y bobl yn dewis un o'r farn yma i'r esgobaeth hon, a'r amherawdwr yn dewis un o'r farn arall; a phob dewisiad a gymmerai le trwy dywallt gwaed, nid yn unig yno, ond yr oedd yr olygfa yn dra chyffelyb yn mhob lle trwy y dwyrain.

Er i Zeno yr amherawdwr wneuthur cyffes hynod a elwir HONOCTION, trwy gyfarwyddiadau Acarius, patriarch Caer-Cystenyn, yr hon a gydnabyddai egwyddorion cyffes Nicea, un Caer-Cystenyn, ac un Ephesus; ond ni chrybwyllai ddim am gymmanfa Chalcedon, rhag roddi tramgwydd i'w gwrthwynebwyr. Arwyddwyd hon gan lawer, megys Mongus, a Ffulo, patrieirch Alexandria ac Antiochia, pa rai oeddynt yn eu barn rywbeth yn debyg i hyn:—"Nad oedd yn Mab Duw ond un gwir a phriodol nattur, yr hon, er ei hundeb, oedd i'w hystyried yn ddaublyg, neu yn gymmysgedig." Enwid y rhai hyn yn Theopaschitiaid. Eithr yn wyneb y weithred hon, ymranodd y Cristionogion yn y dwyrain yn llawer gwaeth nag o'r blaen. Ffelix yr ail, patriarch Rhufain, gyda saith ar hugain o esgobion, ag oeddynt gyfeillion iddo, yn yr Ital, a'u gwrthwynebodd hwynt. Esgymunodd Acasius, patriarch Caer-Cystenyn, am, fel y dywedid, ei fod yn dirmygu cymmanfa Chalcedon, ac yn pleidio yr Eutychiaid, &c. Eithr y gwir achos oedd, ei waith yn ymddyrchafu mor uchel, a'i ymhoniad o fod yn esgob cyffredinol; o ganlyniad, yn gwrthwynebu esgobion Rhufain yn eu hymgais.

* Darlunir y gymmanfa uchod yn dra hynod gan haneswyr, bron yn anghredadwy, o ran ei hannhrefn bwystfilaidd. Gwedi cyflawnhau golygiadau Eutyches, a dedfrydu eiddo Fflavianus, patriarch Caer-Cystenyn, Dioscorus a gyhoeddodd:—"Bydded i'r rhai a ranant Crist, gael eu rhanu â'r cleddyf; nadder hwy yn ddarnau; a llosger hwy yn y tân"! Gwedi hyn, lluaws o'r pymtheg ar hugain a chant o esgobion oeddynt bresennol, a syrthiasant wrth draed patriarch Alexandria, i erfyn na wnai ddwyn yn mlaen ei ddedryd yn mhellach yn erbyn Fflavianus; eithr efe, yn y modd mwyaf sarug, a ddywedodd,—"Beth! ai meddwl gwrthsefyll yr ydych, a pheri ymraniad?—pa le mae y swyddogion?" Gyda hyn rhuthrodd i mewn i'r eglwys luaws mawr o fonachod, gweision y patriarch, a milwyr â chleddyfau, ffyn, a chadwynau: yna yr esgobion a ffoisant yn archolledig, ac a ymguddiasant; a Fflavianus a ddalfwyd, ac a rwymwyd â chadwyni. Dywedir fod Dioscorus yn ergydio ar ei frawd o Gaer-Cystenyn â'i draed a'i ddwylaw ei hun. Modd bynag, efe a fu farw cyn cyrhaedd lle ei alltudiaeth, o herwydd y clwyfau a dderbyniodd.—*Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol.* iii. *p.* 280. a *Mosheim's Eccl. Hist. vol.* ii. *p.* 76. Yn gyflawn y gelwir y gymmanfa hon yn fyddin o ysbeilwyr a llofruddion.

Y tefysgiadau a'r ymladdfeydd gwaedlyd* a ganlynodd hyn, sydd anolrheiniadwy; a gwnaed y rhwyg yn llawer mwy rhwng eglwys Groeg ac eglwys Rhufain—y flaenaf a bleidiai Acasius, a golygidaau yr Eutychiaid, &c. ac a wrthsafai ymgais yr olaf am fod yn benaeth, dros hir amser. Eithr eglwys Rhufain a orfuodd, ac a esgynodd i'r orsedd, trwy bleidgarwch yr amherawdwyr; ac enwau Acasius a Ffulo, sydd, ar ol eu holl ymdrech wedi eu dileu allan o'r cofrestriad sanctaidd, ac yn aros mewn gwarth, dan esgymundod, hyd heddyw.

Oddi wrth y pethau hyn gellir gweled yn amlwg, nad yw yr awdurdodau uchaf, y grym mwyaf, a'r credoau iachusaf, ddim, er cadw undeb a heddwch yn yr eglwys, na'i adferu, lle byddo ysbryd yr efengyl, gwir gariad, a bywyd crefyddol yn eisiau. Wele, yr oedd yma y pethau blaenaf, sef yr amherawdwr, y patriarchiaid, a chymmanfaoedd, yn defnyddio eu hawdurdod a'u grym, â chanddynt gredoau iachus; etto, wele yma y rhwygiadau mwyaf, a'r terfysgiadau blinaf a fu erioed yn mhlith dynion, mewn unrhyw sefyllfa. Gellir sylwi hefyd, nad oedd y moddion hyn, er yn gweithredu yn groes i'w hamcanion hwy, yn effeithio yn groes i'w nattur; canys nid yn unig yr oeddynt yn anysgrythyrol, ac o ganlyniad yn sicr o fod yn groes i ewyllys Duw, ond hefyd yn eu nattur yn ddinystriol i wir undeb a heddwch yn yr eglwysi. O blegid yr oeddynt yn taro yn union yn erbyn cariad a bywyd gwir grefydd; a pha beth bynag a filwria yn erbyn y pethau hyn, sydd raid fod yn milwrio yn erbyn gwir undeb a heddwch yr eglwysi. Pa beth ynte a allai fod yn fwy yn erbyn cariad a bywyd gwir grefydd, na bod y naill ddyn yn ymarddelwi i awdurdod ar y llall, a gosodiad o orfodiaeth a chyfyngiad rhyddid i bob dyn chwilio a barnu drosto ei hun, yr hyn yn ddiau a wnaed trwy sefydliad o awdurdod yr amherawdwyr, y patrieirch, a'r cymmanfaoedd, ar yr eglwysi?

* Dywedir i un Vitalian, yr hwn a osododd ei hun yn ben-rhyswr dros y ffydd gatholic, gasglu byddin o Huniaid a Bulgariaid, y rhai oeddynt gan mwyaf yn baganiaid barbaraidd, ac anrheithio Thracia, ac achosi marwolaeth mwy na phum mil a thriugain o ddynion yn y rhyfel crefyddol hwn! Gwarchaeodd ar Caer-Cystenyn, a rhoddodd y bobl yn erbyn yr amherawdwr Anastasius, nes peri iddo ddioeg ei addurniadau amherodrol, ac ymostwng ger bron y lluaws, o herwydd ei ymlyniad wrth yr Eutychiaid: ac ni thynwyd y gwarchae hyd oni orfu arno alw yn ol yr esgobion uniawn-gred a alltudiasid, er rhoddi boddlonrwydd i batriarch Rhufain, cadarnhau erthyglau cymmanfa Chalcedon, ac arwyddo ammodau heddwch ar seiliau uniawn-gred.—*Gibbon's History of the Decline and Fall, &c. vol.* iii. *p.* 256.

DIWEDD Y PUMMED CANRIF.

PENNOD XXXI.

CANRIF VI.

Lle y traethir am Amgylchiadau yr Eglwys yn nheyrnasiad Anastasius yr amherawdwr—Justin—Gosodiad Justinian ar yr orsedd—ei Gymmeriad fel amherawdwr—ei waith yn dwyn yn mlaen Ddeddf o Unffurfiad, er mawr ddinystr i'w deyrnas—a'i waith yn cyhoeddi rhyfel, ac yn ei ddwyn yn mlaen, yn erbyn y Vandaliaid yn Affrica, ac yn erbyn y Gothiaid yn yr Ital—ei Gasgliad o Gyfreithiau yr amherodraeth—y Gyfraith yn nghylch Awdurdod Llywyddol esgobion Rhufain—Codiad i fynu y 'Corn bychan,' a Sefydliad Pabyddiaeth.

Yn y canrif o'r blaen, sylwasom fod yr amherodraeth orllewinol wedi ei rhanu i wahanol deyrnasoedd, meddianwyr pa rai nid oeddynt etto wedi ymlonyddu yn hollol, na sefydlu eu terfynau, na chwbl ddarostwng y meddianwyr cyntefig. Amherodraeth y dwyrain hithau a arosai yn sigledig ac mewn gwendid mawr hyd yma. Yn nechrau y canrif hwn, gorsedd Caer-Cystenyn a feddiennid gan Anastasius, i'r hwn y rhoddasai Ariadne, gweddw Zeno, ei llaw mewn priodas, yr hwn oedd o farn yr Eutychiaid, neu, fel y gelwid hwy y pryd hwnw, y Monophysitiaid. Rhy anhawdd yw dywedyd pa beth oedd gwir dymher neb a lywodraethai yn y fath amser o derfysgiadau a phenboethdra crefyddol â hwn; eithr y mae yn amlwg fod llawer o dywallt gwaed a chreulonderau, yn achos crefydd, wedi bod yn ei amser ef. Y rhai a enwid yn uniawn-ffyddiog am berson Iesu Grist, ac o'r un golwg â chymmanfa Chalcedon, a fwriwyd allan o'u lleoedd yn Antiochia, Jerusalem, Alexandria, Caer-Cystenyn, &c., a'u lleoedd a roddwyd i esgobion y Monophysitiaid. Esgobaeth Antiochia a roddwyd i Severus, un a flaenorai yn y blaid honno; ac yn amser ei weinidogaeth, gosodwyd tri chant o fonachod i farwolaeth yn yr esgobaeth honno, am na chydffurfient â chrefydd y patriarch. Yn Nghaer-Cystenyn, cododd y bobl yn ei erbyn, gyda'r monachod; pryd y gwnaed y fath derfysg a llofruddiaeth yn y ddinas, fel y bu agos iddo golli ei fywyd: gorfu arno ffoi o'r tu allan i'r ddinas, ac ymguddio yno am rai dyddiau; eithr derbyniwyd ef yn ol, ar yr ammodau y gwnai ymostwng, ac y galwai yn ol yr esgobion alltudiedig.

Y pryd hwn, un Vitalian, Gothiad, a arweiniodd ei fyddin i anrheithio Thracia, ac i osod gwarchae ar Gaer-Cystenyn, fel y dywedwyd yn barod. Ymranodd y Monophysitiaid yn wahanol bleidiau y pryd hwn. Y prif enwau a arferir ar y rhan fwyaf o honynt gan haneswyr, oedd Acaphelaid, a Jacobiniaid, pa rai nid oedd rhyngddynt y gwahaniaeth lleiaf mewn golygiadau.* Yr oedd swniad un gair, neu un lythyren, yn wahanol,

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 145.

yn ddigon y pryd hwnw i roddi taleithiau cyfain yn fflam yn erbyn eu gilydd; pob ochr yn meddwl fod ganddi gyflawn hawl i osod y deddfau melldithfawr o unffurfiad mewn grym a gweithrediad yn erbyn y llall.

Anastasius a fu farw yn y flwyddyn 518, wedi teyrnasu saith mlynedd ar hugain; a meddianwyd yr orsedd gan JUSTIN y cyntaf. Hanai hwn o deulu gwael ac isel eu hamgylchiadau, yn preswylio ar fynyddau Dacia; ac ni feddai wybodaeth am ddim braidd, ond bugeilio defaid, hyd gryn oedran. Pan yn ei gyflawn nerth, efe, a dau eraill, a adawsant eu gwlad a'u galwedigaeth, ac a ddaethant i Gaer-Cystenyn, lle yr unasant â'r fyddin. Yr oedd y pryd hwn yn hollol farbaraidd o ran ei foesau a'i ymddygiadau, eithr yn dra nerthol o gorph; ac yr oedd o'r grefydd baganaidd. Yn nheyrnasiad yr Isauriaid, dangosodd ei ddewrder a'i ddeheudra milwraidd, a dyrchafwyd ef i fod yn un o brif swyddogion y fyddin; a phan bu farw Anastasius, trwy ei fawr gyfrwysdra, daeth i'r orsedd; a gwisgwyd ef â'r fantell borphoraidd.* Y milwyr a unasant yn rhwydd yn ei ddewisiad, o herwydd ei ddewrder a'i fedrusrwydd milwraidd; y gweinidogion uniawn-gred a wnaethant yr un modd, am ei fod y pryd hwnw yn wresog iawn dros benderfyniadau cymmanfa Chalcedon; a'r lluaws cyffredin a ymfoddlonasant i hyny, o blegid eu sêl bleidiol dros y rhai hyn. Er ei fod ef uwchlaw triugain mlwydd oed y pryd hwnw, ac yn ddyn anwybodus o bob peth bron, ond trin y cleddyf; megys yr oedd Theodoric, brenin yr Ital, yr hwn oedd lawer uwchlaw iddo ef mewn talentau a chymmwysderau tywysogaidd—ni all lai na bod yn beth hynod, fod y ddau benaeth fwyaf yn y byd, y pryd hwnw, yn teyrnasu ar yr un amser, yn yr oes yr oedd dysgeidiaeth yn lled uchel ei phen, ac ar y rhanau hyny o'r byd, lle yr oedd wedi bod yn dysgleirio yn ei phelydr mwyaf, na fedrent un gair ar lyfr, na'r egwyddorion cyntaf mewn dysgeidiaeth yn unrhyw iaith.

Teyrnasodd Justin am naw mlynedd; a diammau mai y cyfryw oedd ei gymmwysderau i lywodraethu, ag y cai y rhai a'i dewisasent achos bob dydd i edifarhau am eu dewisiad, pe gadawsid ef i gael ei ffordd ei hun. Eithr wedi sicrhau yr orsedd, trwy osod i farwolaeth amryw o'r rhai oeddynt yn groes iddo, efe a ddyrchafodd Justinian ei nai, yr hwn oedd wr ieuangc cyfrwys a llawn o uchel-gais, i fod yn brif swyddwr—a chyn ei farwolaeth, i fod yn gyd-amherawdwr âg ef—a Proclus yn brif drysorydd, yr hwn oedd yn wr call a dysgedig; fel, trwy weinidogaeth y rhai hyn, yr aeth pethau yn mlaen yn weddaidd trwy ei deyrnasiad. Yr oedd efe yn amddiffynwr gwresog i benderfyniadau Chalcedon; ac felly daeth dymchweliad yn y rhan fwyaf o brif eglwysi y dwyrain, gan i'r Monophysitiaid gael eu troi allan a'u gyrru i alltudiaeth, a'r rhai uniawn-ffyddiog eu hadferyd.† Yn ei ddyddiau ef bu daear-gryn mawr ac anarferol, yn gymmysgedig â fflamiau tân; pryd y syrthiodd amryw ddinasoedd, yn enwedig Antiochia, lle y lladdwyd amryw filoedd o ddynion yn ei chwymp.‡

Yn y flwyddyn 527, pan y bu farw Justin, daeth Justinian ei nai i lawn feddiant o'r orsedd, yn y bummed flwyddyn a deugain o'i oedran, ac a deyrnasodd ddeunaw mlynedd ar hugain a saith mis. Justinian oedd fugail defaid yn Dacia, ar ei ddechreuad: eithr efe a fabwysiadwyd gan ei ewythr, pan yn lled ieuangc; ac a ddygwyd i fynu wedi hyny mewn dysgeidiaeth ac ad-

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 22. † Ibid, p. 24.
‡ Sympson's Church Hist. p. 78.

nabyddiaeth o'r celfyddydau cyffredin yn Nghaer-Cystenyn. Nid oedd efe yn rhyfelwr, er na bu mwy o dywallt gwaed, hwyrach, dan deyrnasiad neb, er dechrau yr oesoedd, na'r eiddo ef: eithr efe ei hun a ymddysgleiriai yn benaf yn ei ymdriniaeth â phethau eglwysig—y chwarëyddiaethau—a'r senedd o fewn i'w lŷs.* Diau ei fod yn un o'r dynion mwyaf cymhedrol yn ei fwydydd, ei ddiodydd, a'i wisgoedd; a chan gymmaint y gerwindeb a arferai tu ag atto ei hun yn y pethau a enwyd, gogwyddai yn fawr yn ei ymddangosiad i fywyd monachaidd. Ei fywyd oedd dra dichlynaidd, ei ymprydiau yn fynych; ei lafur myfyrdodol yn fawr; ei wybodaeth yn holl ddadleuon yr oes yn helaeth; a'i awyddfryd i ddefodau yr amseroedd yn goelgrefyddol i'r eithaf. Ni hoffai un rhagenw yn fwy mewn cyssylltiad â'i enw, na *duwiol;* ac nid ymhyfrydai fwy mewn dim gwaith, na thrin gorchwylion yr eglwys. Yn y cyflawniad o'r pethau hyn, esgeulusai yr hyn yn briodol a berthynai i lywodraeth y deyrnas; o herwydd paham dirmygid ef gan ei wrthwynebwyr, gan ddywedyd,—"Pa beth sydd i ni i'w ofni oddi wrth y gormeawr penboeth ac ofergoelus? yr hwn a dreulia nosweithiau yn ddigwsg a diarfau o fewn i'w ddirgel-gelloedd, i ymddadleu â'i barchedigion yn eu barfau llwydion, pan y try drosodd ei gyfrolau mawrion ar bethau eglwysig." Ei farn grefyddol oedd yr hyn a elwid yn uniawn-gred; a dangosai gymmaint pleidgarwch dros yr hyn a alwai felly, fel y gwnaeth yr ymegniadau mwyaf i'w helaethu trwy ei holl amherodraeth; gan anrhydeddu y blaid honno yn mhob lle, trwy adeiladu addoldai iddynt, a'u harddwychu â phob rhyw ddodrefn gwerthfawr.†

Ped arosasai ar hyn, buasai ei gymmeriad yn enwog, a'i lywodraeth yn lân oddi wrth waed ei ddeiliaid; eithr nid felly y bu: efe a osododd i fynu ddeddf o unffurfiad, yn gysson â'i gred ei hun; a'i sêl grefyddol a'i llanwodd âg ymdrech i ddwyn hon yn mlaen, mewn cyflawn effeithioldeb, trwy dân a chleddyf, yn mhlith ei holl ddeiliaid. Ei deyrnasiad oll oedd yn un olygfa o erledigaeth mewn amrywiol ffyrdd; ac ymddengys ei fod yn myned yn mhellach yn hyn na neb o'i flaenoriaid gorthrymus, trwy gyfrwys drefniad ei gyfreithiau unffurfiol, a llymder eu gweinyddiad. Y Nestoriaid, y Monophysitiaid, yr Ariaid, yr Iuddewon, y Paganiaid, a'r Samariaid, a deimlasant bwys ei law yn drwm arnynt; ac, yn ol ei gred, nid oedd eu llofruddio wrth y miloedd yn fesur lleiaf o euogrwydd i'w lywodraeth. Ymddengys fod llawer o Baganiaid yn llechu mewn amryw fanau o'i amherodraeth, a bod rhai o honynt yn llenwi y sefyllfaoedd uchaf yn y llywodraeth hyd yn hyn: ond yn awr, i'r dyben o gael gafael ynddynt, er eu hargyhoeddi o'u cyfeiliornad, pennodwyd esgob yn swyddog Chwil-lys; yr hwn, gyda dyfalwch, a'u chwiliodd allan, yn y dinasoedd a'r llysoedd, ac yn mhlith y rhaglawiaid, yr ynadon, y ped-cadpeniaid, y cyfreithwyr, y meddygon, a'r dadleuwyr.‡ Gwedi eu cael yn euog o feithrin eu cyfeiliornadau, gosodwyd ger eu bron, yn y modd mwyaf terfynol, eu bod i ddewis anfoddlonrwydd Jupiter, neu Justinian; ac na chyd-ddygid mewn un modd yn mhellach â'u gwrthodiad o'r efengyl, dan yr esgus gwael o ddifatterwch ac anystyriaeth. Rhai, megys y penadur Photius, gan ddewis marw yn nghrefydd eu tadau,

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 24.

† Dywedir, pan orphenodd all-adeiladu St. Sophia yn Nghaer-Cystenyn mewn gwychder mawr, iddo waeddi allan,—"Myfi a aethum uwchlaw i ti, Solomon."

‡ Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, vol. iii. p. 287.

yn hytrach nag ymostwng i gyfreithiau caethion y gormeswr, a'drywanasant eu hunain â'u cleddyfau; pan ddarfu i eraill wrth y miloedd ymostwng, yn rhagrithiol, i'w ddefodau crefyddol. Y Samariaid, gan mwyaf, hyd yr amser hwnw, a lynent wrth grefydd eu hynafiaid, a gyflawnid ar fynydd Gerazzim. Justinian a anfonodd attynt, fod yn rhaid iddynt naill ai derbyn ei grefydd ef, neu ymbarottoi i dderbyn y ddyrnod a ganlynai y gwrthodiad. Cynhyrfodd hyn hwy i amddiffyn eu hunain a'u crefydd, trwy anturio i wrthryfel, dan dywysiad eu blaenoriaid. Codasant mewn arfau, a gwnaethant ddifrod nid ychydig. Ond lluoedd y dwyrain, trwy orchymyn yr amherawdwr, a orfuant; a lladdwyd dros ugain mil o'r Samariaid; a thua'r un rhifedi a werthwyd yn gaethweision; a'r gweddill a ymostyngasant yn ddiwrthwynebiad i ddefodau coelgrefyddol eu gorthrymwr. Bernir i dros gan mil gael eu lladd yn y rhyfelgyrch crefyddol hwn!* Hyn a fu yn llwyr ddilead i'r hen genedl gymmysg honno a ddygodd brenin Assyria i le y deg llwyth i Samaria. Tri mis o amser a roddwyd i bawb, trwy ei ëang daleithiau, i gydffurfio â'i gredo, neu y nodid hwy yn hereticiaid, ac y caent eu halltudio. Os goddefodd ei hynawsedd i rai aros, er eu perygl, yn hwy, hwy a ddifeddianwyd o amddiffyn ei lywodraeth haiarnaidd, ac o'u breintiau genedigol a chymdeithasol, fel dynion a Christionogion. Dangosai ei hun yn bleidiwr mawr i esgobion Rhufain, fel mai Credo Leo, yr hon a gadarnhawyd yn nghymmanfa Chalcedon, oedd ei gredo yntau; a bu yn foddion nid bychan i sefydlu y gallu Pabaidd yn eglwys Rhufain, fel y gwneir sylwi etto.

Un o'i brif orchwylion oedd, adennill gwledydd Affrica a'r Ital oddi ar y barbariaid a'u meddiannent. Gofidiai yr eglwys gatholig yn barhaus fod y gwledydd hyn yn meddiant yr Ariaid, a bod pob cynnygiad a wnaed i'w gwaredu wedi bod yn aneffeithiol hyd hyny. Eglwys Rhufain, yn enwedig, nid allai byth osod i fynu ei gallu a'i llywodraeth Babaidd, tra yr oedd ei hachosion eglwysig hi, a'r eglwysi o amgylch, yn llaw tywysogion, a'r tywysogion hyny yn Ariaid. Pan oedd Justinian a'i swyddwyr, gyda mesur o ddigalondid, yn myned i ryfel yn erbyn Affrica, o herwydd eu haflwyddiant blaenorol yn eu hymdrech â'r Vandaliaid, un o esgobion penboeth y llŷs a waeddodd allan, gan ddywedyd,—"Gwelais mewn gweledigaeth, mai ewyllys y Nefoedd ydyw i ti, O amherawdwr, gyflawni dy amcanion sanctaidd, er gwaredu yr eglwys Affricaidd o law y barbariaid Ariaidd. Arglwydd y lluoedd a ymdeithia o flaen dy lumman ac a wasgara dy elynion, pa rai ydynt elynion ei Fab." Yn ddibetrusder am fuddugoliaeth, penderfynasant ar unwaith i anfon allan eu lluoedd. Ymddiriedwyd llywyddiaeth yr holl fyddin i law Belisarius, yr hwn yn flaenorol, a ddangosasai ei ddewrder a'i ddoethineb milwraidd, yn ei ymdrechiadau buddugol yn erbyn y Persiaid.† Nid amheuir doethineb dewisiad Belisarius; canys diau ei fod yn un o'r maes-lywyddion gwrolaf, y goreu a'r enwoccaf a fu yn y gorchwylion hyny mewn unrhyw oes o'r byd. Eithr yn y diwedd, efe a syrthiodd i sarhad ac iselder mawr trwy nwydau llygredig ei arglwydd. Yr oedd amgylchiadau y Vandaliaid yn annogaethol i'r ymosodiad hwn, ac yn rhyw fath o esgus i Justinian i gymmeryd i fynu arfau yn eu herbyn. Canys Hilderic, uniawn etifedd y goron, yn ol ewyllys Huneric ei dad, o herwydd lledneisrwydd ei lywodraeth, a'i dueddgarwch at y Trindodiaid, oedd wedi ei fwrw o'r orsedd, a Gelimer wedi ei meddiannu, yr hwn oedd Ariad tra selog; o blegid hyn, yr oedd terfysg nid ychydig yn y

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 289. † Ibid, p. 85.

wladwriaeth. Gwedi gwneuthur pob darpariadau, hwyliodd y fyddin tu ag Affrica; ac yn mhen tri mis yn ol ei hymadawiad â Chaer-Cystenyn, yr oedd Carthage wedi ei hennill, a'r fyddin Vandalaidd yn ffoedig o flaen llummanau buddugol Belisarius. Yn mhen ychydig fisoedd wedi hyn, cymmerwyd Gelimer yn garcharor; a'r wlad ëang oedd wedi ei darostwng i raddau helaeth, heb gymmaint o dywallt gwad ag a allesid ddisgwyl.

Eithr tywysogion gweiniaid ydynt y mwyaf darostyngedig i genfigen ac ofnau, ac i gael eu heffeithio gan wag-chwedlau; felly Justinian, oblegid y pethau hyn, gan ddychymygu fod Belisarius yn rhoddi i fynu drosto ei hun, a'i galwodd adref o Affrica, cyn iddo allu gorphen sefydlu pethau mewn iawn drefn. Achosodd hyn ryfeloedd hirfaith yn y taleithiau ëang hyny, er mawr ddifrod i ddynion a meddiannau. Canys trwy lywyddiaeth orthrymus Justinian, y gwladwyr a ymgodasant drachefn; llygrasant filwyr yr amherawdwr, ac a unasant â'r Mooriaid, i geisio adfeddiannu eu rhyddid, eu breintiau, a'u crefydd; yr hwn a achosodd ryfel blin, a barhaodd am fwy nag ugain mlynedd. Er i lŷs Caer-Cystenyn allu cadw Carthage, ac ychydig o lan Môr y Canoldir, dan eu llywodraeth am o ddeutu can mlynedd, etto yr holl diriogaethau helaeth a berthynent unwaith i lywodraeth Rhufain, a syrthiasant ymaith, ac a suddasant i'r cyflwr mwyaf tywyll a barbaraidd. Procopius, hanesydd cyfrifol, yr hwn oedd yn myddin Belisaius, a ddywed am yr olwg hyfrydlon oedd ar Affrica pan yr aethant hwy yno gyntaf,—"Y wlad, y trefydd, a'r dinasoedd, oeddynt lawn o drigolion, a phob gweithfeydd defnyddiol. Y gweithwyr mewn hyfrydwch a gyflawnent eu gorchwylion; y masnachwyr oeddynt mewn diofalwch a sirioldeb yn dwyn yn mlaen eu hachosion; a'r amaethwyr hwythau oeddynt mewn llawenydd yn mwynhau gwobr eu hymdrechion." Eithr yn fuan yr olygfa a newidiodd, yr holl orchwylion a ddygid yn mlaen gyda y fath fywiogrwydd ac egniad canmoladwy, oeddynt cyn pen ugain mlynedd wedi eu hattal; a distawrwydd a marweidd-dra a orchuddiai yr holl fangreoedd. Buddugoliaethau a cholliadau Justinian, oeddynt yr un mor ddinystriol i ddynolryw, â'r cyfryw ag a fu yn Affrica, fel y gallesid teithio mewn ꝏwledydd ag oeddynt boblogaidd unwaith, ddyddiau lawer, wedi hyny, heb weled wyneb gelyn na chyfaill. Bernir gan haneswyr credadwy, i ddim llai na phum miliwn o ddynion, o bob gradd a sefyllfa, syrthio trwy'r cleddyf a llywodraeth greulawn Justinian yn Affrica yn unig.* Yn mhlith yr yspail fawr o aur ac arian a ddygodd Belisarius o Carthage—pa rai, gan mwyaf, oeddynt yr hyn a yspeiliasai y Vandaliaid o Rufain o'r blaen—yr oedd llestri teml Caersalem, pa rai, wedi eu dwyn i Gaer-Cystenyn, a symmudwyd yn fuan i eglwys a adeilasid ar fynydd Moriah, yn y ddinas sanctaidd. Yn fuan wedi dychweliad Belisarius o Affrica, meddyliwyd am oresgyn yr Ital, ac ymlid y Gothiaid oddi yno.†

Yr Ital yn gyffredin, a Rhufain yn neillduol, oedd wedi mawr adfywio, nes agos dychwelyd i'w dysgleirdeb hynafiaethol, dan weinyddiad llywodraeth ddoeth a daionus Theodoric, brenin y Gothiaid. Cymdeithasau masnachol oeddynt wedi eu hadferyd ar dir a môr, a chwedi eu helaethu i bob parth; a phyrth y dinasoedd ni cheuid na nos na dydd; fel y dywedir, mewn iaith ddiarhebol, i ddangos uniondeb a gonestrwydd trigolion yr Ital yr amser hyny, *pe gadawsai un godaid o aur ar wyneb y maes, y buasai yn*

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 73. † Ibid, p. 76.

ddiogel iddo! Er fod Theodoric yn ymlynu fel ei dygasid i fynu yn y grefydd Ariaidd, a thrigolion yr Ital, gan mwyaf, yn Niceaid; etto, ni ellir ei gyhuddo o fod wedi gwneuthur un anfantais i neb o honynt oblegid hyny, na gwneuthur un gwahaniaeth rhwng Ariaid ac eraill, yn ngweinyddiad ei lywodraeth. Gweinidogion a gyfrifid yn uniawn-gred, a gaent ddyfodiad rhwydd i'w wyddfod, ac i'w balas, a'u croesawi wrth ei fwrdd; amryw o honynt a ddefnyddiwyd ganddo mewn amryw o'i orchwylion; a byddent yn mhlith ei gynghorwyr; ac a anrhegwyd ganddo â llawer o anrhegion gwerthfawr. Rhai o'i deulu a'i berthynasau agosaf oeddynt yn Niceaid, ac yn ddinaccâd caent addoli yn y lle a fynent, a phryd y mynent; pan yr oedd Justinian a'i lŷs yn erlid pawb a'r nad oedd o'r un gred â hwy eu hunain. Daliai Theodoric, er hyny, y llywodraeth eglwysig yn ei law, yn gystal â'r un wladol, yn hollol yr un modd ag y gwnai yr amherawdwyr o'i flaen, fel na allai esgob Rhufain, na neb esgobion eraill yn yr Ital, weithredu mewn pethau eglwysig, ond fel y mynai efe, yn y pen pellaf. Dangosodd hyn yn eglur yn achos Symmachus a Laurence, pan oeddynt yn wrthymgeiswyr am y gadair esgobaethol yn Rhufain, a chwedi cael eu dewis eill dau gan wahanol bleidiau ar yr un pryd, fel yr oedd yno derfysg, ymraniad, ac ymladdau gwaedlyd ar yr achos. Theodoric a orchymynodd gasglu cymmanfa, i derfynu yr anghydfod; a phan nad allent ei wneuthur, dygwyd y peth ger bron y brenin, yr hwn a farnodd o du Symmachus. Gwedi hyny, pan y cyhuddwyd Symmachus o ryw bechod gwarthus gan ei frodyr, dygwyd yr achos o flaen Theodoric, pan ei rhyddhaodd, yn groes i farn ei gyhuddwyr. Rhoddodd Ioan esgob Rhufain yn y carchar am ryw amryfusedd, lle gorphenodd ei yrfa; ac un o'r pethau diweddaf a wnaeth, oedd, rhoddi esgobaeth Rhufain i un Silverius. Gwnaeth y senedd, o dan ei lywodraeth ef, yn ei ddyddiau diweddaf, gyfraith, er attal y dull cywilyddus o ddewis un i esgobaeth Rhufain trwy wobrau, fel yr arferid gwneud y pryd hwnw.* Dengys hyn, yn y modd amlyccaf, er maint ymgais esgobion Rhufain am uchafiaeth, nad oeddynt yn gallu ei gyrhaedd tra bu byw y tywysog Gothaidd. Eithr y golygiad hyfrydlawn ar deyrnasiad Theodoric, a newidiodd yn fawr, gan gael ei gorchuddio â'r cymmylau duaf cyn ei diwedd, trwy ei waith yn tywallt gwaed y ddau bendefig a'i ddau swyddwr diniweid, sef, Symmachus a Boethius.

Gwedi ei farwolaeth, yn y flwyddyn 526, rhoddwyd ei orsedd i Athalaric, ei ŵyr, yr hwn nid oedd ond deng mlwydd oed y pryd hwnw. Dygwyd y llywodraeth yn mlaen mewn modd doeth a llwyddiannus, dan raglawiaeth Amalasontha, merch Theodoric, a mam y tywysog ieuangc, hyd y flwyddyn 534, pan y bu farw gobaith y genedl, yr hwn oedd y diweddaf o linach Amali, pa deulu oedd wedi bod er ys hir amser, yn llywodraethu y Gothiaid. Gwedi hyn cymmerodd ymraniad le yn y llywodraeth, ar ddyfodiad Theodatus i'r orsedd, trwy iddo dywallt gwaed ei wraig ei hun, merch Theodoric, yr hyn a roddodd achlysur i Justinian gyhoeddi rhyfel yn erbyn y Gothiaid yn yr Ital. Belisarius a anfonwyd allan drachefn yn faes-lywydd ar y fyddin luosog a hwyliasai tuag yno. Efe, wedi dyfod a thirio yn Sicily, a aeth oddi yno i'r Ital; a chwedi cael amryw fuddugoliaethau, ac ennill Rhufain, efe a alwyd adref i Gaer-Cystenyn. Tymherau gweinion, ofnus, a chyfnewidiol Justinian, a fuant yn achos o hwyhau y rhyfel yn yr Ital am

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. pp. 7, 14.

lawer o flynyddau, er mawr ddifrod ar ddynion a meddiannau. Canys pan y byddai Belisarius ar ddarostwng y wlad, gelwid ef i Gaer-Cystenyn: hyn a wnaed dair gwaith, rhag iddo fyned yn rhy boblogaidd, a gosod i fynu drosto ei hun; yr hyn a roddai i'r Gothiaid gyfleusdra i adgyfnerthu.

Rhy anhawdd yw adrodd y trallodau y bu dynion ynddynt, a'r distryw a wnaed arnynt, trwy yr holl Ital, am yr ugain mlynedd y parhaodd y rhyfel hwn. Nid yn unig yr oedd y cleddyf yn difa yn ddiarbed, ond yr oedd newyn trwm, a'r heintiau mwyaf blinion, yn ei ganlyn hefyd. Ymladdodd y Gothiaid a'u cynghreirwyr gyda'r dewrder a'r ysgelerder mwyaf, dan dywysiad Theodatus, Vitiges, a Totila, a'u blaenorai olynol—y diweddaf, a ystyrir yn un o'r rhyfelwyr creulonaf. Rhufain a warchaewyd arni, a ennillwyd, ac a gollwyd bum gwaith, tra parhaodd y rhyfel hwn yn amser Justinian. Gwedi i Belisarius gael ei hollol symmud o'i swydd, fel blaenor y fyddin, cymmerodd Narses, un o eunuchiaid yr amherawdwr, y flaenoriaeth. Efe a ddygodd y rhyfel yn mlaen yn y modd mwyaf gwaedlyd, ac a lwyr orchfygodd y Gothiaid, trwy amryw frwydrau ysgeler; a sefydlodd lywodraeth Caer-Cystenyn yn Ravenna, dan yr enw Exarchiaeth. Nid hir wedi hyn y bu yr Ital heb fod yn olygfa tra erchyll drachefn, trwy gynniweiriad byddinoedd y Lombardiaid drwyddi, o ben bwy gilydd, a'i darostyngiad i'w llywodraeth, oddi eithr Ravenna, a'r tiriogaethau perthynol iddi. Fel hyn y terfynodd teyrnasiad y Gothiaid yn yr Ital, yn y flwyddyn 557, wedi parhau yno am o ddeutu deng mlynedd a thriugain.*

Peth arall o bwys mawr yn hanesyddiaeth yr eglwys, a wnaed gan Justinian, oedd casgliad a sefydliad o holl gyfreithiau yr amherodraeth, a berthynai i'r wladwriaeth a'r eglwys, mewn deg a deugain o lyfrau. Yr amser hirfaith ag y bu llywodraeth Rhufain yn bodoli, yr amrywiol ddulliau y gweinyddwyd ei llywodraeth, a'r amrywiol ddynion a fuant yn ei gweinyddu, oedd yn anocheladwy i'w chyfreithiau fod yn helaeth ac yn ddyrus iawn. I'r dyben o dalfyru, trefnu, a phuro y rhai hyn, trwy fwrw ymaith y rhai diles ag oedd allan o arferiad, a gosod i mewn y rhai hyny a farnai yr amherawdwr a'i gynghor yn gymmwys, efe a neilldudodd brif ysgrifenwyr a doethion ei amherodraeth, a golygwr priodol i edrych ar eu hol; pa rai a orphenasant eu gorchwyl yn y flwyddyn 533, wedi llafurio wrtho am dair blynedd. Y deg llyfr a deugain hyn a ddetholwyd allan o tua dwy fil o lyfrau, a gynnwysent hen gyfreithiau yr amherodraeth; a rhoddwyd ynddynt amryw ychwanegiadau o eiddo Justinian ei hun; a galwyd hwy yn llyfrau y gyfraith *(codes of law)*—yn gasgliad o'r gyfraith *(pandeacts)*—ac yn sefydliadau yr amherodraeth *(institutes of the empire)*. Gwedi derbyn cymmeradwyaeth ac arwydd yr amherawdwr a'i gynghor, ystyrid hwy yr unig gyfundraith o gyfreithiau deddfoliaeth yr amherodraeth, yn mhob peth gwladol ac eglwysig, a hwynthwy a ddysgid yn eu hathrofäau cyfreithiol, ac a arferid yn eu llysoedd barn.† Y llyfr cyntaf sydd yn gynnwysedig gan mwyaf, o'r hyn a berthynai i grefydd, yn mha le y gosodir i lawr y gyffes ffydd, yr hon nid yw yn annhebyg i'r un a sefydlwyd yn

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 83—100.

† Trwy y terfysgiadau a fu ar y ddaear, aeth y llyfrau hyn, gan mwyaf, ar goll, ac yn hollol anadnabyddus i ddynolryw, hyd agos i ddiwedd y deuddegfed canrif, pan y caed ysgrif cyflawn o honynt yn Amalphi, o fewn yr Ital; yr hyn a fu yn foddion i gynnyddu gwybodaeth, ac i osod cyflawnder yn mhlith llywodraethau Europe.—*Russel*.

nghymmanfa Nicea, a'r rhai cyffredinol canlynol i honno. Yn ol cyfreithiau y llyfr hwn, gosodir y flaenoriaeth i esgob Rhufain ar yr holl esgobion eraill, a chydnabyddir ei bendod ar yr holl eglwys Gristionogol, i olygu drosti, ac i benderfynu ei hamrafaelion. Yma y gosodir fod y canonau a'r trefniadau a wnaid yn y cymmanfaoedd a gesglid trwy awdurdod esgob Rhufain, yn rheolau i'r eglwys; a chydnabyddir cyfryngoliaeth Mair, a'r seintiau eraill, a gweddwdod yr offeiriaid, fel pethau sefydledig, yn nghyd âg amryw ddefodau eraill.

Wrth y pethau hyn, meddylir ein bod, yn nygiad yn mlaen yr hanesyddiaeth eglwysig, wedi dyfod i'r amgylchiad y gwelir y dyn pechod, mab y golledigaeth, yn cael ei osod ar yr orsedd yn eglwys Rhufain. Dangoswyd o'r blaen y modd yr oedd esgobion yr eglwys hon, â'u holl egni, yn ymgeisio am y flaenoriaeth, a'r modd yr arddelwent eu hawl i hyny, trwy awdurdod cymmanfaoedd, a geiriau ein Harglwydd Iesu, a'r addfedrwydd a effeithiasid yn yr eglwys i unbenaeth, yn nghyd â'r parodrwydd a ddangosai llawer o'r eglwysi i anrhydeddu esgobion Rhufain â'r swydd a'r sefyllfa hon. Etto, eglur yw, nad oedd modd iddynt allu cyrhaedd, na chael eu sefydlu ar, yr orsedd, tra daliai y llywodraethwyr gwladol afael yn y llywodraeth eglwysig; yr hyn a wnaed gan amherawdwyr Rhufain o amser Cystenyn hyd deyrnasiad Justinian. Er i Gratian wanaidd wneuthur yr erthygl a goffawyd yn barod i roddi y llywodraeth i esgobion Rhufain, yn ei enw ei hun a'i frawd, ag oedd yn blentyn rhwng pedair a phum mlwydd oed, meddylir nad oedd ganddo hawl i wneuthur hyny, hyd yn nod dros yr Ital; canys nid efe oedd amherawdwr priodol y rhan honno o'r wladwriaeth. Ac y mae yn eglur i Theodosius, a'i olynwyr, ddadwneud y cyfryw erthygl, yn eu holl ymddygiadau, a bod Theodoric, brenin y Gothiaid, yn arfer yr un awdurdod dros eglwys Rhufain, ïe, yn gymmaint â neb o'r amherawdwyr a fu o'i flaen ef; o ganlyniad, ni allai fod esgobion Rhufain mewn cyflawn feddiant tra yr oedd y pethau hyn felly.

Ond trwy weithrediadau Justinian, ar un llaw, symmudwyd y rhwystrau ymaith, trwy ddinystriad y Gothiaid; ac, ar y llaw arall, rhoddwyd esgobion Rhufain mewn llawn feddiant o'r gallu llywodraethol ar yr holl eglwys, trwy ei gyfreithiau, fel yn ddiau y gellir edrych ar BABYDDIAETH AR EI GORSEDD YN Y FLWYDDYN 533, ac esgobion Rhufain wedi eu cadarnhau yn yr awdurdod uwchaf ar y ddaear. Mewn llyfrau a elwir ffugdraethau *(novels)*, a gyhoeddwyd tua'r un amser â'r cyfreithiau uchod, gan Justinian, efe a ddywed,—"Trefnir genym, yn ol deddfau y cymmanfaoedd sanctaidd, i sancteiddiaf esgob Rhufain henaf (felly y gelwid hi yn aml, mewn cyferbyniad i Gaer-Cystenyn, yr hon a elwid yn Rhufain newydd), fod yn benaf ac yn mlaenaf o'r holl offeiriadaeth."* Mewn amryw o'i lythyrau, gwna Justinian annerch esgob Rhufain, gan ei alw, "*Ei Fawrhydi—Y Gwynfydedig—Pen yr Offeiriadaeth.*" A phan yn alltudio y Nestoriaid, dywed am esgob Rhufain, *y perthynai i'w sancteiddrwydd ofalu am yr oll a berthynai i'r eglwys, yn mhob lle:* ac mewn llythyr a anfonodd at esgob Caar-Cystenyn, efe a ddywed, *mai yn Rhufain yr oedd gorseddfa yr apostolion.*

Gellid meddwl ei bod yn bur amlwg oddi wrth y pethau hyn, mai dyma yr amser y gwisgwyd esgobion eglwys Rhufain â gallu llywyddol ar yr

* Brightman on the Prophecies, p. 433.

eglwys; yr hwn oedd o'r blaen, er yn dreisiedig, yn meddiant y llywodraeth wladol: eithr yn awr rhoddwyd saint y Goruchaf dan lywodraeth y 'corn bychan!' dechreuodd y ddau dyst amser eu prophwydoliaeth mewn sachlian, sef y ddau Destament pa rai a roddwyd i lefaru mewn darostyngiad i lywodraeth esgobion Rhufain a'u canonau, yr hyn sydd yn waelder a gwarth o'r mwyaf iddynt; a dechreuodd y 1260 o ddyddiau ei chaethiwed. Mewn canlyniad, yr ŷm yn gweled esgobion Rhufain yn arfer y gallu llywyddol hwn mewn llawn awdurdod, ac yn ddirwystr, oddi eithr a fu iddynt oddi wrth esgobion Caer-Cystenyn, fel y ceir sylwi etto.

Justinian a fu farw yn y flwyddyn 565, yn y bedwaredd flwyddyn a phedwar ugain o'i oedran. Bernir iddo ŵyro yn ei farn oddi wrth yr hyn a broffesai unwaith, cyn ei farwolaeth, a dyfod yn fwy pleidiol i'r Eutychiaid, i ba rai yr oedd Theodora yr amherodres yn barhaus yn bleidiol. Yn amser ei deyrnasiad, yr amherodraeth, er ei helaethu, oedd etto wedi mawr wanychu, trwy ymraniadau tumewnol, ac ymosodiadau arni oddi allan o bob tu; ac ar ol ei farwolaeth, mwynhaodd yr eglwys ronyn o lonyddwch.* Canlynwyd ef gan Justin yr ail, Tiberius, a Maurice, yn yr amherodraeth, am y canrif hwn. Ond gan na ddywedir dim yn neillduol am yr eglwys yn ei chyssylltiad â hwy, fe'u gadewir mewn dystawrwydd.

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 291.

PENNOD XXXII.

Lle y traethir am Helaethiad yr Eglwys Gristionogol yn y Canrif hwn, mewn gwahanol fanau—Planiad Cristionogaeth yn mhlith y Saeson yn Lloegr—Iselhad Dysgeidiaeth, Gwybodaeth, a phob rhinweddau eraill—Cynnydd Bywyd Monachaidd, a chodiad i fynu y Trefniad Benedictaidd—Llwyddiant yr athrawiaeth am Effeithioldeb Gweddillion y Saint, a'r modd y daeth lleoedd addoliad i gael eu galw ar eu henw—Awduron yr oes hon, yn enwedig hanes Gregory y Cyntaf, yn ei enedigaeth, ei fywyd, a'i fynediad i'r gadair Babaidd—ei Gymmeriad fel dechreuydd ac awdwr llawer o Ddefodau perthynol i'r Eglwys Babaidd, a'r un Sefydledig yn y deyrnas hon.

Yn wyneb iselder amgylchiadau gwir grefydd, a'r holl derfysgiadau oedd yn y byd, gwelwn fod Cristionogaeth wedi llwyddo yn y canrif hwn, mewn amryw wledydd yn, ac o'r tu allan i amherodraeth Caer-Cystenyn. Mewn amryw daleithiau ar lanau y Môr Coch, lle preswyliai yr Axumitiaid, neu yr Abyssiniaid, a'r Homeritiaid yn Arabia, cafodd y ffydd Gristionogol dderbyniad, yn y canrif hwn, neu yr un o'r blaen. Y Saraceniaid, dan lywodraeth eu brenin Almundai, a roddasant dderbyniad i Gristionogaeth, fel yr amlygid hi y dyddiau hyny. Trigolion glanau y Môr Du, a Môr Caspia, a ymostyngasant i'r ffydd tua'r flwyddyn 512; yn gystal â'r rhai a elwid Laziaid, Heruliaid, Alaniaid, a'r Abasgiaid; ac yn Gaul, yn y canrif hwn, gwnaeth amryw o'r Ffrangcod ddilyn siampl Clovis eu brenin, trwy wneuthur proffes o Gristionogaeth. Y Bohemiaid, a'r Thuringiniaid hefyd, yn yr Almaen, a ymadawsant â'u heilunod, ac a dderbyniasant y grefydd Gristionogol; a dywedir am un Columbas, monach o'r Iwerddon, iddo fod yn llwyddiannus i ddychwelyd amryw o'r Pictiaid, a llawer o'r Saxoniaid yn Lloegr, yn y canrif hwn.*

Y Saxoniaid, neu y Saeson, fel y gelwir hwy yn awr, a ddaethent i'r ynys yma er y canrif o'r blaen, fel y sylwyd, a ennillasant y rhan honno o'r ynys a elwir Lloegr, yn gyflawn; gan ymlid ein hynafiaid â min y cleddyf, i fynyddau gwylltion Walia, ac ochrau pellaf yr ynys, megys Cerniw a Cumberland. Gosodasant i fynu yn y tiriogaeth hwn saith teyrnas, dan lywodraeth saith brenin. Y Saeson oeddynt baganiaid o'r mwyaf anwaraidd y pryd hwnw; o herwydd paham dinystriasant y lleoedd addoliad a adeiladasai y Cymry yn Lloegr, pan yr oedd y wlad yn eu meddiant; ac nid yw yn annhebyg eu bod yn dilyn y fasnach annaturiol honno o werthu dynion, hyd yn nod eu plant eu hunain. Canys dywedir i Gregory, gweinidog eglwysig yn Rhufain, pan welodd blant hynod o brydferth yn y farchnad yno,

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. pp. 95, 96.

ofyn plant i bwy oeddynt; ac wedi cael hysbysrwydd mai plant y Saeson o Loegr oeddynt, iddo ddywedyd ei bod yn drueni fod plant mor angylaidd yn meddiant tywysog y fagddu. Meddyliodd am anfon cennadau drosodd i ddychwelyd y Saeson i'r ffydd, ac a osododd y peth ger bron Pelagius, yr hwn oedd Bab Rhufain y pryd hwnw, a chynnygodd ei hunan yn un i'r gorchwyl. Pelagius a gymmeradwyodd y gorchwyl pwysig; ond ni allai ganiattau i Gregory fyned i'r gwaith, ac ni wnai pobl Rhufain hyny chwaith. Yn fuan bu farw Pelagius, a Gregory a ddewiswyd i lenwi ei swydd a'i sefyllfa. Gwedi ei ddyrchafu i'r gadair Babaidd, yr oedd yn fawr ei fryd am ddychweliad y Saeson; ac i'r dyben o gyflawni ei fwriadau, a anfonodd Awstin Fonach, yr hwn a wnaeth efe yn abad, gyda deugain o fonachod eraill dan ei ofal, drosodd i'r gorchwyl. Hwy, wedi hwylio o Ffraingc, a diriasant yn ynys Thanet, wedi llawer o rwystrau a digalondid. Y lle hwn oedd y pryd hwnw o fewn tiriogaeth Ethelbert, brenin Caint. Gwyddai hwn ychydig am Gristionogaeth yn flaenorol i'w ddyfodiad: canys Bertha y frenhines oedd Gristionoges, o deulu Clovis, brenin Ffraingc, a chwaer i'r hwn oedd ar yr orsedd y pryd hwnw. Yr oedd hon yn dwyn cymmaint o sêl dros ei chrefydd, fel y gwnaeth yn ammod yn ei phriodas, fod iddi gael arfer ei chrefydd yn ddirwystr yn y wlad yma; a dygodd Lethard, ei hesgob, gyda hi drosodd o Ffraingc; ac arferai gyflawni addoliad Cristionogol mewn hen dŷ addoliad a adeilasai y Cymry yn Nghaergrawnt, prif-ddinas teyrnas Ethelbert.*

Gwedi i Awstin dirio yn Thanet, anfonodd at y brenin hysbysrwydd am eu dyfodiad, a'u dybenion o ddyfod. Parodd y brenin iddynt aros yno am rai dyddiau, a gorchymynodd roddi iddynt bob angenrheidiau; ac yn mhen ychydig o amser, rhoddodd iddynt dderbyniad i'w wyddfod, a gosteg i'w cennadwri. Yna traddododd Awstin gynnwysiad ei ffydd, a'r hyn oedd ganddo i ddysgu i Ethelbert a'i bobl; a'r brenin a'i hattebodd, gan ddywedyd, fod ei ddywediadau a'i addewidion yn ymddangos yn dra chyssurlawn; ond na phenderfynasai efe etto i'w cofleidio, ac nad oedd wedi cael amser i'w profi; o ganlyniad na allai gydsynio i roi ymaith yr egwyddorion a broffesai efe a'i hynafiaid er ys cymmaint o oesoedd. Ond gan eu bod hwy yn ddyeithriad, wedi dyfod yno o wlad bell, ar y neges o addysgu iddo ef a'i bobl y ddysgeidiaeth honno, fod iddynt groesaw i aros yno yn ddiofn, a gosod y pethau hyn ger bron ei ddeiliaid, yn ddiattal; ac y gwnai efe ddarparu am bob lluniaeth angenrheidiol iddynt. Mewn canlyniad, cawsant drigo mewn annedd ëang yn Dorobernium, y brif-ddinas, yr hon a elwir yn bresennol Caergrawnt. Yma y sefydlodd Awstin a'i gyfeillion gyntaf; ac arferent gyfarfod i addoli yn yr addoldŷ perthynol i'r frenhines, lle y pregethent i'r bobl a wrandawai arnynt.† Y brenin, a lluaws mawr o'i ddeiliaid, a roddasant gred i'r hyn a draddodid iddynt, ac a ymostyngasant i'r drefn grefyddol a ddadguddiwyd iddynt gan y monach a'i gyfeillion. Yn ol cyfarwyddiadau y Pab Gregory, Awstin a neillduwyd i'r swydd archesgobaethol gan esgobion Ffraingc—dyma ddechreuad archesgobaeth Caergrawnt. Llwyddodd y gwaith, fel yr ymdaenodd Cristionogaeth dros yr holl ynys drachefn, yn mhlith y Saeson, yn lled fuan.

Y mae yn hawdd i ni ddeall pa fath athrawiaeth oedd yr hyn a draddodai Awstin yn Lloegr, a pha fath ddysgyblaeth a weinyddai, wrth ystyried yr

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 97. † Milner's Church Hist. vol. iii. p. 80.

hyn a draddodid yn yr Ital, ac mewn lleoedd eraill, yn enwedig gan Gregory ei hun. Er fod cyfrwysdra Awstin gymmaint, fel na wnaeth un cynnygiad ar roddi trais a gorfodiaeth ar Ethelbert a'i bobl i ymostwng i'w grefydd—o herwydd achos da pa ham, oblegid ei fod yn analluog i wneuthur hyny—etto nid arbedodd, er ei ennill, mo'r lluaws ffug-chwedlau a'r ffug-wyrthiau a haerai eu bod yn cael eu cyflawni trwy weddillion y merthyron Cristionogol. Wrth ystyried ei ymddygiadau, mewn canlyniad i hyn, tu ag at y Cymry, hawdd gweled fod ynddo y tuedd cryfaf i osod gorfodiaeth o'r mwyaf ar bawb a allai, er eu darostwng i ffydd eglwys Rhufain, neu eu dinystrio trwy erledigaeth, os na wnaent; canys ymddygodd yn ormesol ac yn ddichellgar iawn tu ag at ein tadau. Hanesyddiaeth a ddengys hefyd, yn eglur, i Awstin adael ei ddychweledigion yn Lloegr, yn llawer nês yn ol na hanner bod yn efengylaidd; o blegid caniattaodd iddynt gadw eu holl ddefodau a'u gwyliau Paganaidd, ond yn unig rhoddi arnynt enw Cristionogaeth.*

Yr oedd athrawiaethau pur a syml yr efengyl, yn anhawdd i'w gweled na'u clywed mewn un gynnulleidfa, gan y lluaws defodau dychymmygol, y cyfeiliornadau dinystriol, a'r egwyddorion anefengylaidd, wrth ba rai yr ymgeisient eglurhau yr ysgrythyrau, oedd wedi ymdaenu dros bob lle. Haulwen dysgeidiaeth a brysurai i fachludo, trwy bob parth. Y cyfundraith crefyddol, a'r ddysgyblaeth eglwysig a osodid i fynu, nid oeddynt yn y mesur lleiaf yn fanteisiol i ddysgeidiaeth a gwybodaeth; ac, er na ddysgasid y pryd hwnw ddywedyd mai 'mamaeth duwioldeb oedd anwybodaeth,' etto y cyfryw oedd eu hegwyddorion, fel na oddefent i ddysgleirdeb y goleuni lewyrchu arnynt, gydag unrhyw gyssur i'w pleidwyr. Yr amseroedd terfysglyd, enbyd, a dychrynllyd, a fu ar yr holl wledydd, trwy gynniweiriad buddugoliaethus y barbariaid, a gosodiad i fynu eu llywodraethau, pa rai oedd yn elyniaethol a dinystriol i wybodaeth a dysgeidiaeth, a fu agos â dileu pob celfyddydau rhinweddol o'r byd. Ac er cymmaint oedd coelgrefydd y monachod a'r esgobion, ac er mor fawr eu hymraniadau a'u hamrysonau, diau mai yn eu plith hwy y llocheswyd ac y meithrinwyd yr ychydig ddysgeidiaeth ag oedd yn mhlith dynion yr amser hwnw.

Justinian yr amherawdwr, yr hwn oedd yn elyn dysgeidiaeth a gwybodaeth yn gyffredin, oddi ar ei gasineb a'i wrthwynebiad i athrawiaeth Origen, a philosophyddiaeth y Platoniaid, yr hon, meddyliai, oedd yn arwain i'r cyfryw athrawiaethau ag oedd yn wrthddrychau ei anfoddlonrwydd, a roddodd gyfraith allan i wahardd dysgu y cyfryw gyfundraith yn Athen. Athen oedd wedi bod yn brif eisteddle dysgeidiaeth er y cyn-oesau; a'r athrofa oedd yno y pryd hwnw oedd wedi bod yn brif-le dan lawer o athrawon enwog, lle y dysgid cyfundraith hen a newydd y Platoniaid, i'r perffeithrwydd mwyaf. Ond wedi i Justinian gasglu cymmanfa yn Nghaer-Cystenyn, gyda lluaws o'i esgobion, yn y flwyddyn 551, collfarnwyd yr hen anianydd dysgedig Origen, wedi gorphwys am agos i dri chan mlynedd yn mhriddellau y dyffryn, fel cyfeiliornwr ofnadwy, a'i athrawiaethau fel drwg o'r mwyaf. Mewn canlyniad, rhoddwyd attalfa ar yr athrofa uchod, i ddysgu y ddysgeidiaeth Blatonaidd i neb; a thrwy hyn daeth dysgedigion i anfri mawr, ac i gael eu herlid yn mhob man, fel yr enciliodd llawer o honynt i blith y Persiaid. Bu hyn yn ddinystriol iawn i ddysgeidiaeth yn gyffredin,

* Dr. Campbell's Lect. on Church Hist. vol. ii. p. 74.

yn enwedig i gyfundraith y Platoniaid, yr hon a fuasai am oesau mewn enwogrwydd mawr, ac yn brif ddysgeidiaeth trwy bob rhan o'r byd; eithr yn awr a soddodd i'r fath ddiystyrwch a diymarferiad, fel y bu agos iddi gael ei hanghofio yn llwyr; ac Aristotliaeth a ddaeth mewn cymmeradwyaeth yn ei lle.*

Nid oes amheuaeth na orfu ar y Cristionogion ddyoddef llawer, a marw, amryw o honynt, trwy ddwylaw eu cyd-greaduriaid. Ond meddyliwn fod eu dyoddefiadau yn benaf i'w hystyried yn wladwriaethol, neu yn tarddu oddi wrth eu hamrysonau â'u gilydd, ar yr hyn a berthynai iddynt eu hunain, yn hytrach nag yn briodol erledigaeth yn achos crefydd, o fewn i daleithiau amherodraeth Rhufain gynt. Darfu i'n hynafiaid, ag oedd yn Gristionogion mewn enw, ddyoddef llawer yn yr ynys hon oddi wrth y Saeson, a chael eu lladd ganddynt wrth y miloedd, yn y modd cieiddiaf; etto ni ystyrir hyn yn erledigaeth yn achos crefydd. Mewn amryw fanau, dyoddefai un blaid grefyddol a broffesai Gristionogaeth, greulondeb mawr oddi wrth blaid arall. Efallai na ellir yn briodol ystyried hyn yn erledigaeth, pan yr oedd y naill blaid mor barod â'r llall i weini cospedigaeth, pe gallasai; canys nid crefydd y naill mwy na'r llall, oedd yr achos, ond eu nwydau drwg, a diffyg o grefydd yn y naill ochr fel y llall.† Yn Persia, y brenin Chosroes a drôdd yn elyn creulawn yn erbyn Cristionogaeth, ac a gyhoeddodd, yn ei falchder a'i dymherau bwystfilaidd, y gwnai nid yn unig ryfela â'r Cristionogion, a Justinian, ond â'u Duw hwynt hefyd! Mewn canlyniad i'r bygythiad ynfyd hwn, efe a fwriodd allan ei lidiawgrwydd arnynt, am hir amser, er poeni a difrodi lluaws o honynt trwy farwolaeth. Eithr ei ryfel blin â'r Rhufeiniaid, a alwodd ei sylw, fel y cawsant radd o seibiant.

Lluosogodd y monachod, ac amlhaodd y monachdai trwy bob gwlad, yn yr amser sydd dan sylw. Yr oeddynt cyn lluosocced yn y dwyreinfyd, fel y gallesid codi byddinoedd o'r trefniad, heb braidd weled eu heisiau, gan eu hamled. Cynnyddasant mewn parch a chymmeradwyaeth yn ngolwg dynion yn gyffredin, fel y daeth bywyd monachaidd — sefydlu trefniad o fonachod — gosod i fynu grefydd-dy, a rheolau i fyw ynddo, i'w hystyried yn gyflawniadau tra chyfrifol a haeddiannol. Dywedir fod yn Nghymru grefydd-dai, yn cynnwys agos i fil o ddynion — un âg ynddo dros ddwy fil yn cyd-breswylio. Ond beth bynag am eu rhif, eglur yw fod pobl o bob graddau yn yr amser hwnw wedi eu meddiannau â'r fath benboethder afresymol, fel y gadawent yn lluoedd eu gofalon, eu preswylfëydd, eu cyfeillion, a phob dyledswydd gyhoeddus, yn groes i egwyddorion yr efengyl, pa rai a ddysgant ddynion i fod yn ddefnyddiol i'w gilydd, a sancteiddio cymdeithas, gan dynu i'r celloedd hyn, i fyw mewn llonyddwch a dystawrwydd dros eu bywydau. Yn y flwyddyn 528, dechreuwyd sefydliad newydd o fonachod, yr hwn a lwyddodd tu hwnt i ddim a fu o'i flaen. Sylfaenydd y trefniad hwn oedd un BENEDICT, o Nursia, gwr a gyfrifid yn hynod dduwiol. Tebygid yr edrychai ar y gwahanol enwadau monachaidd (canys dygai pob trefniad enw ei sylfaenydd; megys trefniad Martin, yn Gaul, a

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 56.

† Yn Arabia Ddedwydd, teyrnasai un o'r Iuddewon, o'r enw Dounouas, yr hwn a wnaeth ddifrod mawr ar y rhai a broffesent Gristionogaeth yn y gwledydd hyny, gan eu tafu, yn wyr a gwragedd, i byllau tanllyd. Ymosododd ar ddinas yn Arabia a elwid Negra; ac wedi i'r trigolion ymostwng a gwneuthur heddwch, efe a dorodd ei gyttundeb a'i lw: llosgodd y gweinidogion â thân; torodd ymaith yr henafgwyr; a gwerthodd y rhai ieuainge yn gaethweision.—*Milner's Church Hist. vol.* iii. *p.* 15.

elwid Martiniaid; a threfniad Awstin, yn Affrica, y rhai a elwid Awstiniaid, &c.) yn ddiffygiol mewn rheolau, ac yn ŵyredig mewn ymddygiadau. Er gwneuthur y diffygiadau hyn i fynu, efe a sefydlodd gyfundraith o reolau mwy pennodol i fyw wrthynt, pa rai yr oedd pob aelod, ar ei dderbyniad i'r gymdeithas, yn addunedu na byddai iddo byth geisio newid un o honynt. Yn ol y rheolau caethion hyn, yr oedd aelodau y gymdeithas i ddefnyddio eu hamser i weddio, darllain, a dysgu rhai ieuaingc, yn gystal â chyflawni amryw orchwylion crefyddol eraill. Ymddangosiad gweddus, a'r duwioldeb a ymarddelwai aelodau y gymdeithas hon eu bod yn feddu, ar eu dechreuad, a roddodd iddynt lwyddiant anghyffredin mewn rhif ac amlder cyfoeth: eithr suddasant yn fuan cyn ddyfned â neb mewn pob oferedd a drygioni.* Er na newidiasant y rheolau, etto medrasant gael allan ffordd i fyw yn anghysson â hwy, yn groes i amcan y sylfaenydd, ac i ochelyd y ceryddon cyhoeddedig ynddynt. Bernir mai o'r gymdeithas hon yr oedd Gregory, yr hwn a elwir Gregory Fawr, neu, o leiaf, yr oedd yn bleidiwr mawr iddynt; ac o'u plith yr oedd Awstin, a'r monachod a ddaethant gyntaf drosodd i addysgu pethau crefyddol i'r Saeson. Ni bu un trefniad crefyddol mor ffyddlon a diwyd i gynnal i fynu rwysgfawredd a gormes-lywodraeth eglwys Rhufain, â'r trefniad monachaidd hwn, er eu dechreuad.

Parch i, ac arferiad o, weddillion y saint a'r merthyron a gynnyddodd yn fawr, fel y chwalid ac y chwilid yr holl feddau adnabyddus trwy holl wlad Palestina ac Asia; a miloedd lawer o farwolion a seintiwyd, er mwyn cael eu hesgyrn, neu ddarnau o'u heirch, i'w trosglwyddo trwy y byd; a llawer mwy na bu erioed a ddychymmygwyd; fel mai rhy anhawdd adrodd y twyll a'r hocced a arferwyd gyda y rhai hyn, na mawredd y grediniaeth a roddwyd iddynt yn y byd. Gweledigaethau, breuddwydion, a gwyrthiau lawer a arferwyd, yn ol eu tyb hwy, er cael gwybodaeth yn mha le y gorweddai llwch yr hen brophwydi, megys eiddo Samuel, ac eraill, er ys cannoedd o flynyddau; ac iddynt y rhoddid adgyfodiad buan. Medrusrwydd i ffurfio saint, a hyawdledd i ysgrifenu hanes eu bywydau gyda ffraethder—cymmeryd taith bererindodol at eu beddau, a dwyn oddi yno hen gerpyn o'u dillad, neu ddarn o asgwrn pwdr, neu ddernyn o hen bren a ddywedid ei fod yn perthyn i arch un o honynt—neu godi addoldy neu fonachdy er coffadwriaeth am danynt, a ystyrid yn dra rhinweddol, ac yn sicr o fod yn orchwyl ennillfawr.

Y pethau hyn ydynt wedi gwneuthur hanesyddiaeth yn hynod ddyrys-lyd; canys nid yw llawer y dywedir am danynt eu bod yn seintiau clodfawr, gan rai haneswyr, ond rhai dychymmygol, a gwneuthuredig gan ddynion yn unig. Ein cenedl ni y Cymry ydynt mor agored i'r twyll hwn â neb: canys po leiaf fyddo o oleuni gwahanol ysgrifau hanesiol ar unrhyw wlad, mwyaf i gyd yw y perygl o gael ein camarwain gan yr hocced hwn. Nid oedd neb bron a anturiai i daith, neu at unrhyw orchwyl, a ystyrid fel â rhyw fesur o berygl yn perthyn iddo, neu i anneddu mewn tŷ newydd; neu, o leiaf, nid ystyrid un addoldy yn addas i fyned iddo, heb gael ei gyssegru, trwy osod yno ryw ddarn o rywbeth oddi wrth ryw un a gyfrifid yn sant ymadawedig. Pan y byddai tŷ addoliad wedi ei gyssegru, trwy i ryw ddarn o ryw beth a berthynai i ryw sant gael ei osod yno, gosodid y lle hwnw ar enw y cyfryw sant; ac edrychid ar hwnw fel angel anddiffynol i'r lle, yn ol fel yr oedd y

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 118—122.

gwahanol dduwiau yn amddiffynol i'r naill le a'r llall, yn ol cred y Paganiaid. Pob un a ddygai berthynas â'r lle, a fawr eiddigeddai am helaethu rhinweddau eu sant amddiffynol; canys atto ef y tyrrai y cleifion a'r anafus am iachad, a'r gwragedd beichiogion ar dymp esgor; a phawb a ewyllysient lwyddiant ar amgylchiadau neillduol, deuent am rwydd-deb, gyda rhoddion o aur, arian, a thiroedd, yn wobrau am y cymmwynasau a dderbynient.

Fel hyn, daeth nid yn unig trigolion y gwledydd at yr eglwysi a'r monachdai, ond hefyd cyfoeth y gwledydd, fel ffrwd lifeiriol, fel y dyhysbyddasant drysordai brenhinoedd ac amherawdwyr, ac yr yspeiliasant deyrnasoedd o'u meddiannau.

Gyda pharch dyladwy i'r awduron canmoladwy, dymunaf wahaniaethu oddi wrthynt, pan y dywedant fod y tŷ hwn neu arall yn dwyn enw rhyw un enwog gynt, ar gyfrif i hwnw fod yn y naill fan neu'r llall yn pregethu, neu yn dechreu yr eglwys yno, trwy y dygai yr addoldy ei enw. Canys nid felly yr oedd, ond anfynych iawn; eithr yn hytrach dygent ddarnau o ryw bethau a dybient eu bod yn perthyn i gyrph rhai o'r saint: ond hwyrach mai darnau o gyrph rhyw lofruddion a fyddent, i ba rai y cyflwynent y lleoedd, ac wrth enwau pa rai y galwent hwynt.* Ymddengys hyn oddi wrth yr ohebiaeth lythyrol a fu tua diwedd y canrif hwn rhwng amherodres Caer-Cystenyn, a Gregory y cyntaf, Pab Rhufain. Yr amherodres a chwennychai gael corph yr apostol Paul, ag oedd ganddynt, meddent, yn Rhufain, i eglwys newydd a adeilasai hi iddo yn Nghaer-Cystenyn; ac i'r perwyl hwn, anfonodd at y Pab am dano. Gregory, yn anfoddlon i ymadael â'r fath drysor, a'i hattebai, gan ddywedyd, ei bod yn gofyn ganddo yr hyn ni feiddiai efe ei roddi. "Cyrph yr apostolion Paul a Phedr," medd ef, "ydynt yn rhy ofnadwy, trwy y gwyrthiau dychrynllyd a weinyddir ganddynt, fel y mae yn berygl mawr i fyned yn rhy agos attynt hyd yn nod i weddio arnynt. Fy rhagflaenor, yn chwennych gwneuthur rhyw gyfnewidiad ar yr addurniadau arian sydd ar gorph St. Pedr, pan mor bell â phymtheg troedfedd oddi wrtho, a welodd weledigaeth ddychrynllyd, fel yr achosodd ei farwolaeth yn y fan. Yr oeddwn i fy hun yn ewyllysio gwneuthur rhyw gyfnewidiadau o amgylch i gorph St. Paul: wedi i ni ddechreu cloddio gerllaw i'w fedd, dygwyddodd i flaenor y gwaith gyffwrdd â rhyw esgyrn na pherthynent i'r beddrod sanctaidd, pan y gwelodd weledigaeth ofnadwy, fel y bu farw yn fuan. Yr un modd, rhyw weithwyr gyda rhai o'r monachod, wrth gloddio, heb wybod yn gywir yn mha le yr oedd bedd St. Laurence, yn ddamweiniol a'i hagorasant, pryd y gwelsant y corph, ond ni chyffyrddasant âg ef; a buant feirw oll yn mhen deng niwrnod. O ganlyniad, fy arglwyddes, y Rhufeiniaid nid ydynt, wrth roddi gweddillion y saint, yn cyffwrdd â'u cyrph, ond yn rhoddi llian mewn blwch gerllaw iddynt, ac yn mhen amser yn cymmeryd y blwch hwn ymaith, ac yn ei roddi mewn modd difrifol yn yr eglwys a gyflwynir i'r sant hwnw, oddi wrth ba un y cymmerasid y blwch. Y llieiniau hyn a gyfrifir mor rhinweddol, ac yn alluog i gyflawni yr un gwyrthiau, â chorph y sant, ped ei trosglwyddid yno yn wirioneddol. Yn amser Leo fy rhagflaenor, rhai o'r Groegiaid a amheuasant rinwedd y llieiniau hyn, pan y cymmerodd efe wellaif yn ei law, ac a'i torodd yn eu gwydd hwy, a dylifodd allan o hono waed y sant, yn ymyl corph pa un y rhoisid ef." Yna dywed wrth yr amherodres, y gwnai efe a allai i anfon iddi ychydig

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 213. a Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 323.

ronynau o'r gadwyn a fuasai am wddf a dwylaw St. Paul, er sancteiddio y lle; yr hyn a gaid yn hynod effeithiol lawer gwaith, pan y llwyddid i'w durlifo ymaith, yr hyn oeddynt yn aml wedi methu.*

Pan ddychwelwyd Recared, brenin y Gothiaid, yn yr Hispaen, oddi wrth y ffydd Ariaidd i'r un gatholig, efe a anfonodd i wneuthur ei ymostyngiad i Gregory ac eglwys Rhufain, gyda llawer o roddion gwerthfawr. Yr olaf yntau a anfonodd yn ol ychydig o'r hyn a alwai yn wallt pen Ioan Fedyddiwr, a darnau o'r croesbren ar ba un y dywedent i'n Harglwydd farw, yn nghyd âg agoriad a gynnwysai ychydig ronynau o'r haiarn a fu yn gwneuthur y gadwyn a osodwyd am wddf St. Pedr—er sancteiddo lleoedd addoliad a gyflwynid i'r cyfryw.† Mae hyn yn ddigon i roddi prawf diamheuol pa fodd y daeth cynnifer o leoedd addoliad trwy y gwledydd, neu amryw yn yr un wlad, i gael eu gosod ar enw unrhyw sant, a hwnw hwyrach ond un dychymmygol, neu wneuthuredig gan eglwys Rhufain. Dengys hyn hefyd y modd y dygid y fasnach dwyllodrus hon yn mlaen, gyda'r fath lwyddiant, yn y chwechfed canrif, dan nodded dynion o enwogrwydd Gregory.

Yr oedd hyn yn gwasanaethu yn hynod er helaethu parch ac amlder cyfoeth a mawredd y monachod a'r offeiriaid, y rhai oeddynt â'r llaw fwyaf yn y dirgeledigaethau hyn. Y bobl yn gyffredin a ddysgid gyda diwydrwydd i gredu fod maddeuant pechodau, eu llwyddiant yn mhob peth, a'u bywyd tragywyddol, yn ymddibynu ar weddiau y saint byw, ac eiriolaeth y rhai meirw, a'u haelioni hwythau at yr eglwysi a adeiladwyd er coffadwriaeth am danynt, ac a gyflwynwyd i'w gofal, i ba rai yr oeddynt yn amddiffynwyr. Fel hyn amlhaodd cyfoeth yr eglwysi a'r monachdai dros bob mesurau; a lluaws aneirif a aent i'r swydd offeiriadol, heb un eglwys, na gofal i edrych am dano; ond treulient eu bywydau mewn segurdod, gan ddilyn pob oferedd. Canys y mae yn eglur fod cymmeriad moesol y rhan fwyaf o'r offeiriaid wedi suddo yn dra dwfn mewn pob llygredigaeth a drygioni yn y canrif hwn; ac nid oedd yr esgobion yn wir ond ychydig amgenach.‡ Pan yr oedd anwybodaeth fel hyn yn cyflym orchuddio wyneb y ddaear, a'r fagddu yn toi y bobloedd; bywyd crefydd yn colli o blith dynion, a dynion dyeithr i wir grefydd yn myned i'r weinidogaeth; a'r eglwysi wedi suddo i ddifrawder, lluniasant ryw ffurf o wasanaeth crefyddol, ag oedd yn hollol ddyeithr i'r eglwysi cyntefig, trwy osod dynion i ddarllain gweddiau a wnaid gan eraill, a'u canu drosodd brydiau eraill. Nid yw yn amlwg pa bryd y dechreuodd yr arferiad yma; eithr y mae yn eglur mai wedi dechreu y pedwerydd canrif y cymmerodd le; ond nid yw yn beth tebygol iddo gymmeryd lle ar unwaith hyd yn nod yn yr eglwys gatholig: canys yn y canrif hwn ymdrecha Gregory ddwyn unffurfiad yn y gweddiau yn ngwasanaeth yr eglwysi yn Europe. Ac mor bell ag y cynnyddodd unbenaeth ac awdurdod eglwys Rhufain, y dygwyd unffurfiad yn ngwasanaeth yr eglwysi, a'r defodau perthynol iddynt.§

Ond er tywylled oedd awyrgylch yr eglwys yn yr oes honno, etto gwelir ambell i seren yn dysgleirio yma a thraw, er taflu ychydig o oleuni efengylaidd ar ein byd tywyll. Yn y dwyrain, enwir PROCOPIUS, o Gaza, fel dyn dysgedig, yn medru eglurhau yr ysgrythyrau yn well na'r cyffredin. MAX-

* Henry's Eccl. Hist. tom. viii. p. 91—93.
† Gibbon's History of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. iii. p. 441.
‡ Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 114. § Ibid, p. 125.

ENTIUS o Antiochia, oedd wr doeth a deallus. EULOGIUS o Alexandria a ysgrifenodd lawer yn lled dda yn erbyn y rhai a dybiai oedd yn cyfeiliorni oddi wrth yr iawn ffydd. EVAGRIUS a CYRILUS oeddynt yn meddu ar lawer o ddysgeidiaeth, ac a ysgrifenasant amryw bethau mewn ffordd o hanesyddiaeth am amgylchiadau y byd a'r eglwys. Yn y gorllewin, enwir FFULGENTIUS, esgob Ruspina, yn Affrica, yr hwn, gyda llawer o wresogrwydd ac egni, a amddiffynodd athrawiaethau gras, yn debyg fel y gwnaethai Augustine yn y canrif o'r blaen yn erbyn y Pelagiaid a'r hanner-Pelagiaid. Yr hyn ei beïr fwyaf am dano oedd, ei fod yn rhoi gormod o ffordd i'w nwydau poethion, nes ymruthro yn rhy erwin ar ei wrthwynebydd. EUSODIUS, esgob Pavia, oedd yn ddyn tra dysgedig, ac o dalentau helaeth fel ysgrifenydd; eithr yr oedd yn gwbl gyflwynedig i eglwys Rhufain, er ei dyrchafu a'i hamddiffyn yn ei hymarddelwad i allu llywyddol ar yr holl eglwysi; yn gymmaint felly, fel na phetrusai i alw esgob Rhufain, yn ei ysgrifau, *yn farnydd yn lle Duw! yn rhaglaw y Goruchaf!* ac nad oedd yn ddeiliad barn i un gorsedd ar y ddaear. BOETHIUS, yr hwn oedd yn llŷs Theodoric, oedd un o'r dynion mwyaf dysgedig yn ei oes. CASSIODORUS, ac ISIDORE esgob Sevile, a gyfrifir yn ddynion doeth, helaeth o ran dysgeidiaeth.* Llawer eraill hefyd a ellid eu henwi, fel dynion dysgedig a gwybodus. Eithr o ran cywirdeb golygiadau ar athrawiaethau yr efengyl, a medrusrwydd i eglurhau yr ysgrythyrau, yr oeddynt yn ddiffygiol iawn. Eu holl gyfundraith duwinyddol a ddengys fod eu meddyliau wedi eu dallu gan eu golygiadau dynol, a'r dybiaeth o fod a wnelai rhwysgfawredd ac awdurdod gwladwriaethol â chrefydd, yn nghyd â'u defodau coelgrefyddol, a'u cred yn nghyfryngoliaeth y saint meirwon, fel na fedrent ddirnad yr efengyl yn ei symledd a'i hysbrydolrwydd.

Yn mhlith y cyntaf a ysgrifenodd, ag y mae genym hanes am dano, o'r Cymry, yr oedd GILDAS, yr hwn oedd o ddysg lled helaeth. Yn y llyfr sydd yn dwyn ei enw, ymdrecha roddi hanes amgylchiadau y Cymry cyn dyfod yr efengyl yma, a chwedi hyny; ac a'u hargyhoedda yn llym am eu gwrthryfelgarwch yn erbyn yr Arglwydd, a llygredigaeth eu hoffeiriaid. Yn mha un y dengys hefyd uniondeb barn Duw yn y difrod a wnai y Saeson arnynt, o herwydd eu hymddygiadau beïus. Dywedir ei fod ef yn Armorica, sef Prydain Fechan yn Ffraingc, pan yr ysgrifenodd ei lyfr, wedi gorfod ffoi rhag y gormeswyr Saesonig, a feddiannai wlad ei enedigaeth.†

Ond y mwyaf yn yr oes honno oedd GREGORY, yr hwn a elwir Gregory Fawr. Gan fod cynnifer o wahanol farnau am y dyn hwn, a chan ei hystyrir gan rai yn un o'r dynion enwoccaf a mwyaf defnyddiol a fu erioed, a bod ei fywyd yn rhoddi i ni olwg ar amryw bethau perthynol i grefydd yn gyffredinol ac yn barhaus, ni phetrusir rhoddi ychydig o'i hanes ger bron y darllenydd. Ganed Gregory tua'r flwyddyn 544, yn Rhufain, o deulu dyledogaidd, a gyfrifid yn hynod rinweddol, yn gystal â chyfoethog. Yr oedd Gordian ei dad yn un o'r prif seneddwyr yn y ddinas; a Sylvia ei fam oedd yn glodfawr am ei rhinweddau yn mhob ystyriaeth.‡ Gwedi cael ei ddwyn i fynu yn mhob dysgeidiaeth ag oedd yn gyrhaeddadwy y pryd hwnw—ac ymddengys fod ganddo dalentau i dderbyn addysg uwchlaw y cyffredin—efe a dreuliodd ryw gymmaint o amser mewn monachdy a sef-

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 120—124. † Milner's Church Hist. vol. iii. p. 30.
‡ Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 227.

ydlasai efe ei hun yn Rhufain, dan lywyddiaeth yr abad Valentius. Gosododd i fynu chwech monachdy hefyd yn Sicily. Yn amser y Pab Pelagius, ymadawodd â'r monachdy, a neillduwyd ef i swydd diacon yn yr eglwys oedd yn Rhufain; ac efe a'i hanfonodd drosto yn gennadwr i lŷs Maurice yr amherawdwr, i Gaer-Cystenyn. Gwnaeth ei hun yn adnabyddus yno fel un o dalentau mawr, cymmwys i drin achosion gwladwriaethol, yn gystal â phethau eglwysig. Gwedi ei alw yn ol i Rufain, gwnaed ef yn gofiadur i Pelagius; a dewiswyd ef yn abad yn monachdy St. Andrew, yn Rhufain. Yn fuan bu farw Pelagius, ac efe a ddewiswyd, yn y flwyddyn 590, i lenwi y gadair esgobaethol. Gwnaeth amryw ymdrechiadau er ymesgusodi rhag cydffurfio â'u dewisiad o hono yn Bab. Hyn a ddengys ar unwaith ei fawr gyfrwysdra. Canys y gweithredoedd yr ymddangosai ynddynt hunan-ewyllys, oedd y rhai mwyaf cymmeradwy y dyddiau hyny; a'r ffordd sicraf i ddyrchafiad, oedd ymwisgo digon â rhith-gostyngeiddrwydd a hunan-ymwadiad.* Ei ymddygiadau blaenorol, a'r rhai canlynol, a ddengys i ni wir agwedd ei feddwl y pryd hwnw, yn well na dim a wnaeth ar yr amgylchiad o'i ddewisiad. Eithr am y gwyrthiau a haera rhai iddynt gymmeryd lle yr amser hwnw, nid ydynt ond chwedlau o'r mwyaf gwrachiaidd.

Pan esgynodd i'r llywodraeth, amgylchiadau yr Ital oll, a Rhufain, oeddynt yn hynod isel, trwy y rhyfeloedd blin a fuasai yno, am hir flynyddau. Parodd hyn i batriarch Caer-Cystenyn feddwl y gallasai ddifeddiannu ei frawd Rhufeinig o'r *feitr Babaidd.* Meddiannid esgobaeth Caer-Cystenyn yr amser hwn gan Ioan, yr hwn oedd ddyn o ddysg a doniau helaeth, ac o gyfrwysdra mawr, yn llawn o feddwl uchel ac ymddangosiad crefyddol hollol gymmwys i'r anturiaeth oedd ganddo mewn golwg. Eithr Gregory a ddefnyddiodd ei holl dalentau, ei ddysg, ei ddoniau, a'i gyfleusderau, ac a ddygodd ei athrylithdra i droi, gyda deheudra a chyfrwys-dra mawr, ar y pegwn o amddiffyniad i'w uchafiaeth ei hun, fel canlyniedydd Pedr, ac uchafiaeth llywodraeth eglwys Rhufain uwchlaw pawb eraill.† Mae ei gymmeriad yn dra anhawdd i'w olrhain; canys ymddengys ynddo lawer o gymmysgedd anghydunol, i'r eithafoedd pellaf; etto yn un ynddo i wasanaethu yr un dyben. Ymddangosai ynddo y gostyngeiddrwydd a'r hunan-ymwadiad mwyaf; ond gofalai eu bod yn y pethau hyny ag a fyddai yn sicr o fawrhad iddo gan ddynion o'u herwydd. Yr oedd yn dra haelionus yn ei gyfraniadau; ond ar yr un amser yn llawn trachwant a hunangais. Gwnaeth amryw gyfnewidiadau a chwanegiadau yn ngwasanaeth cyffredin yr eglwys gatholig. Efe ydyw awdwr yr offeren sydd yn yr eglwys Babaidd hyd heddyw, ac amryw o weddiau a ddywedir, neu a genir yn ei gwasanaeth, yn enwedig yr hyn a elwir *Litani*—yr hwn a arferir hefyd yn Eglwys Sefydledig y deyrnas hon, gydag ychydig newidiad; fel y gellir ei alw ef yn dad y Llyfr Gweddi Cyffredin, a lluaws o ddefodau eraill; a arferir yn eglwys Rhufain, a'r un a osodir i fynu trwy gyfraith wladol yn Mhrydain. Nid ŷm yn dywedyd iddo ef allu eu gosod i fynu yn eu cyflawn drefn y pryd hwnw, fel y maent yn bresennol, nac iddo allu dwyn unffurfiad cyffredinol trwy yr holl eglwysi, yn y pethau hyn; eithr efe a'u dechreuodd, a'i olynwyr a'u dygasant i'r drefn y maent yn bresennol. Gwnaeth lawer o'r gweddiau ag sydd yn y gwasanaeth cyffredin ar fesur cerdd, yr hyn a fawr hoffai; a phan oedd ar ei wely yn glaf, dygai feibionach i'w ystafell i'w canu iddo: a bu y gwely ar ba un y gorweddai, a'r ffrewyll

* Biographical Dict. † Milner's Church Hist. vol. ii. p. 112. ‡ Ibid, p. 139.

â pha un y fflangellai y cantorion, yn nghadw am gannoedd o flynyddau, gyda'r parch mwyaf, yn Rhufain. Efe oedd y cyntaf a osododd nodau peroriaeth i'w harwyddo wrth wyth llythyren flaenaf yr egwyddor. Ymddengys ei fod yn rhagfarnllyd, yn gul iawn ei feddyliau, ac yn erledigaethus yn erbyn pawb a wrthsafent ei drefniadau, fel y gwelir ei ymddygiadau tu ag at y Donatiaid. Ac efe oedd y cyntaf a chwiliodd allan athrawiaeth y Purdan i ddynion yn ol ymadael â'r byd hwn. Er na ddysgasid yr athrawiaeth am leshad anwybodaeth y pryd hwnw, etto yr oedd efe yn elyn mawr i ddysgeidiaeth a chynnydd gwybodaeth.* Canys dywedir iddo ddinystrio llawer o lyfr-gelloedd ag oedd yn Rhufain er hen amser, dan yr esgus eu bod yn cynnwys llyfrau Paganiaid; ac iddo ruthro yn ysgeler ar Didier, archesgob Venice, am ei fod yn gadael *un ysgrif* o lythyreg *(grammar)* yn ei esgobaeth.†

Cyfansoddodd amryw lyfrau, a gynnwysant rai pethau da: eithr ei lyfr a elwir Cyd-ymddiddanion a ddengys ar unwaith waelder ei archwaeth, a mawr ŵyriad ei egwyddorion a'i olygiadau. Y llyfr hwn a gynnwys y chwedlau mwyaf celwyddog am y saint gwirioneddol a ffugiol; wedi ei ysgrifenu mewn iaith drwstan; a'r cyfan i fawrygu cyfryngoliaeth y saint, a'r ffug-wyrthiau a briodolid i weddillion y meirw.‡ Ond nid yw hyn ond dangosiad bychan o'i dwyll a'i weniaith, at yr hyn a ymddengys yn ei ymddygiadau tu ag at Phocas, y teyrn-leiddiad a'r traws-feddiannydd hwnw a ddaeth i'r orsedd trwy dywallt gwaed Maurice, a naw o'i deulu, yn y modd mwyaf ciaidd a bradychus: ond ar hyn sylwir etto.

Eithr gorphenir hanes Gregory yn bresennol yn y darluniad a rydd Dr. Campbell o hono:—"Ymddengys Gregory i mi," medd ef, "yn ddyn o ddeall uwchlaw y cyffredin; eithr wedi ymwisgo ac amgau ei hun yn nghyfeiliornadau a rhagfarn yr amseroedd yr oedd yn byw ynddynt. Ei grefydd oedd wedi ei llychwino yn fawr gan goelgrefydd, a'i foesau gan deimladau monachaidd. Ei sêl nid oedd gywir yn ei nattur na'i dybenion. Yn yr ystyr gyntaf yr oedd yn llawer mwy dros ffurf allanol o grefydd, na thros fywyd crefyddol; yn ymegnio mwy dros enw na thros y sylwedd, ac yn anghyd-ddygol ac erledigaethus yn erbyn eraill. Ei sêl oedd yn gwbl yr un âg eiddo y Phariseaid, pa rai a amgylchynant y môr a'r tir i wneuthur un proselyt; ac wedi ei gwnelent, gwnaent ef yn fab uffern yn ddau mwy na hwy eu hunain. Nid amcanai gymmaint i droi dynion oddi wrth bechod at Dduw, ac oddi wrth ddrwg at rinwedd, ag y gwnai i'w dwyn trwy ryw foddion o fewn cylch yr eglwys, ac o dan arglwyddiaeth eu harglwyddi, a'u dwyn oddi wrth broffes o Baganiaeth, i broffes o Gristionogaeth. Yn brawf o hyn, y mae yr addysg a roddodd efe i Awstin, pan ddaeth i Frydain i ddychwelyd y Saeson, lle y cynghorai ef i beidio dileu eu hymarferiadau Paganaidd, ond eu troi i ddybenion Cristionogol; o blegid yr hwylusai hyny eu dychweliad, ac y cadwai hwynt rhag ymlithro yn ol i arferiadau eu hynafiaid. Hyn oedd yn gystal â dywedyd, ond iddynt gymmeryd arnynt yr enw o Gristionogion, a dyfod yn ddeiliaid i'r eglwys gatholig, mewn cydffurfiad allanol, nad gwaeth pa fath Gristionogion a fyddont yn y gwaelod, na pha faint o Baganiaid a fyddont mewn calon, egwyddorion, a bywyd."§ Daliodd ei esgobaeth am bedair blynedd ar ddeg, ac a fu farw yn y flwyddyn 604, wedi dyoddef o hono hir gystuddiau.

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 106, a note.
† Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 226.
‡ Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii, p. 125. § Dr. Campbell's Lect. on Church Hist. vol. ii. p. 73.

PENNOD XXXIII.

Lle traethir am fawr iselder Crefydd yn y Canrif hwn—Mawr ymdrech Gregory o Rufain, a Ioan o Gaer-Cystenyn, am Flaenoriaeth—Pleidgarwch Maurice yr amherawdwr i'r olaf, trwy yr hyn y tramgwyddwyd Gregory—ei Lythyr ar yr achos at yr amherawdwr—ei orfoledd pan y llofruddiwyd ef gan Phocas y traws-feddiannydd—y modd y llychwinodd hyn ei gymmeriad fel dyn, ac fel un a broffesai Gristionogaeth—Llwyddiant amryw o'r rhai a ddywedid eu bod yn gyfeiliornwyr, a'r achosion o hyny.

Yn yr adolygiad ar y Canrif hwn, ni welir ond ychydig o arwyddion gwir Gristionogaeth, nac o achos llawenhau wrth edrych ar amgylchiadau allanol ac ymarferol crefydd Iesu Grist yn mhlith dynion. Yn y gorllewin, unbenaeth balch ac anghristaidd yr eglwys sydd wedi ei osod i fynu yn Rhufain; ei sicrhau a helaethu terfynau ei lywodraeth oedd y prif gynhyrfiad cyffredinol trwy yr holl fyd. Defodau chwyddedig, llygredig, ac afresymol, a ddygid i ymarferiad: yr hyn a elwid yn eglwys gatholig, wedi dyfod yn ogof lladron; y wir eglwys oedd wedi dyfod yn ychydig o rifedi, yn wael ei hamgylchiadau allanol, yn anweledig yn ei rhinweddau, yn ffoedig i'r diffeithwch o ran ei sefyllfa, ac fel lletty mewn gardd cucumerau yn ei neillduolrwydd. Tair gwaith y rhanwyd Rhufain yn y canrif sydd dan sylw, yn nghylch pwy a fyddai yn eistedd yn y gadair Babaidd; a rhy anhawdd adrodd y modd yr aberthai pob ochr y gwirionedd, dynoliaeth, a phob onestrwydd er cyrhaedd eu hamcan; a mynych iawn y terfynai trwy dywallt gwaed.* Golygfa yr un mor echryslon a welwyd yn ymddygiadau Vigilius, yr hwn a gynllwynodd gyda llŷs Caer-Cystenyn i ddiswyddo Silverius, trwy roddi swmau o arian i Belisarius, a chael y gadair Babaidd iddo ei hun.† Hwn, wedi ennill y llywodraeth, a lwyddodd i alltudio y diswyddedig i ynys Palmaria; yno y cadwyd ac y newynwyd ef, nes y dihoenodd, yn y modd mwyaf truenus, i farwolaeth, heb un achos, ond yn unig ei fod yn ceisio ei uniawnderau, os gellir eu galw yn uniawnderau.

Yn y ddadl boethlyd a fu rhwng Gregory, a Ioan, yr hwn a gyfenwid yr ymprydiwr, nid oes y mesur lleiaf o grefydd yn ymddangos, ond arferiad o bob rhyw dwyll, castiau cyfrwys-gall, ac ysgelerder, o bob ochr. Er yr arferai Ioan lawer o ddirwest a gerwindeb tu ag at ei gorph, trwy ymwadu â bwydydd a diodydd angenrheidiol, ac â phob pleser naturiol, etto ymddengys fod ei feddwl yn dra chwyddedig gan falchder, hunanoldeb, a thraws-lywodraeth; ac nid oedd Gregory yntau un gronyn llai felly. Eithr dygwyddodd, yn ol yr hen ddiareb, *Y balchaf yw y gelyn mwyaf i*

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. iii. p. 124. † Milner's Church Hist. vol. iii. p. 25.

falchder mewn eraill. Bod yn esgob cyffredinol oedd yn amcanedig, a bod yn benaeth ar yr holl eglwysi a'r esgobion eraill, oedd mewn golwg gan y naill a'r llall. Ymddengys y tueddai yr amherawdwr Maurice yn wrthwynebol i ymarddelwad Ioan, a chwennychai ddarostwng gronyn ar, a dadwneud yr hyn a ganiattausai ei flaenoriaid i esgob Rhufain. Nid oedd hyn yn beth annaturiol iddo, er cadarnhau ei lŷs, a nerthu ei orsedd, a dyrchafu Caer-Cystenyn yn ddinas amherodrol. Cyffrôdd hyn holl athrylithdra Gregory, er amddiffyn braint St. Pedr; a dywedai yn aml *ei bod yn ddiddadl fod esgobaeth Caer-Cystenyn, a phob esgobaeth arall, yn ddeiliaid i Rufain, fel y tystiai,* meddai ef, *amherawdwyr ac esgobion yn wastadol.* Yn ei lythyrau at yr amherawdwr, a thrwy ei gennadau yn ei lŷs, ymdrechai i ddwyn yr amherawdwr i weled yr anghyfiawnder a'r afresymoldeb o fod neb yn cymmeryd arno yr enw o esgob cyffredinol—enw cableddus ac uffernol, fel ei galwai. Dywedai fod pob un a ymwisgai â hwn *yn rhagflaenor i anghrist, ac yn ganlyniedydd i Luciffer, yr hyn nad allai un byth gymmeryd arno, heb fod yn eithaf anghristaidd.*

Fel hyn y defnyddiai y cyfrwys-ddyn hwn ei synwyr, ei ddoniau, a'i hyawdledd, i ddifrio, ac i geisio gan eraill i beidio cymmeryd yr hyn a hoffai ef yn ei galon, a phryd yr oedd efe ei hun yn ymwisgo â'r awdurdod a'r llywodraeth yn hollol a berthynai i'r enw, hyd eithaf ei allu; a chyda golwg ar ddiogelu y cyfryw iddo ei hun a'i olynwyr, yr oedd ei holl ymdrech.* Un o'i lythyrau at yr amherawdwr a ddyry olwg nid yn unig ar y ddadl rhyngddo ef a phatriarch Caer-Cystenyn, ond hefyd ar grefydd yn gyffredinol yn y byd yr amser hwnw. Rhoddir darnau o hono ger bron y darllenydd:—

"Ein hanrhydeddusaf a'n duwiolaf arglwydd, pa un y rhyngodd bodd i'n Duw ei osod drosom, i'r hwn, yn mhlith amryw ofalon dwys a berthyn i'r amherodraeth, y perthyn, yn ol rheolau uniawn y sanctaidd air, diogelu heddwch a chariad yn mhlith gweinidogion yr eglwys: Yr wyf, yn y modd difrifolaf a duwiolaf, yn ystyried na ddichon i un dyn lywodraethu achosion tymhorol ei ddeiliaid yn iawn, heb ar yr un pryd lywodraethu eu hachosion crefyddol gyda gweddeidd-dra hefyd. Canys, ein grasusaf benaeth, pa allu neu nerth dynol a feiddiai fod mor anghrefyddol â chodi ei law yn erbyn eich mawredd Cristionogaidd, os bydd y gweinidogion oll yn un yn gweddio ar ein Hiachawdwr Iesu Grist drosoch, a'r iddo eich diogelu chwi, yr hwn a deilynga gymmaint oddi wrthym oll. Neu, pa genedl sydd mor farbaraidd â gweithredu yn greulawn yn erbyn y ffyddloniaid, oni bai fod ein bywydau ni, y rhai a elwir yn offeiriaid (ond heb fod felly mewn gwirionedd) wedi myned mor ddrygionus a llygredig. Yr ydym, trwy adael yr hyn yn briodol a berthyn i ni, yn ymyraeth â'r hyn yr ŷm yn hollol anghymmwys iddo, a thrwy hyny yn cynhyrfu y barbariaid i'n herbyn; a'n tramgwyddiadau sydd yn blaenllymu eu cleddyfau; a thrwy hyny gwanheir y wladwriaeth. Canys pa beth a ddywedwn drosom ein hunain, os yw y bobl, dros ba rai yr ydym ni, er yn annheilwng, yn olygwyr, yn cael eu gormesu, trwy ein lluosog gamweddau ni? ac os yw ein siamplau yn dinystrio yr hyn a geisiwn adeiladu trwy ein pregethau, a'n gweithredoedd yn rhoddi y celwydd, fel pe bai, i'n hathrawiaeth? Ein hesgyrn a dreulir trwy ein hymprydiau; ond ein meddyliau sydd yn ymchwyddo mewn balchder! Ein cyrph a orchuddir â gwisgoedd gwaelion; ond ein calon a ymddyrcha mewn hunan! Gorwedd yr

* Bishop Hurd, vol. ii. Sermon 7.

ydym mewn llwch a lludw; ond etto yn amcanu at bethau rhy uchel i ni! Yn ein hathrawiaeth y mae gostyngeiddrwydd; ond yn ein bywyd y mae balchder ac uchder ysbryd! Cuddio yr ydym ddannedd bleiddiaid, dan ymddangosiad defaid! Dyben y cyfan genym yw, gwneuthur ymddangosiad teg ger bron dynion; eithr Duw a ŵyr y gwirionedd! Chwi gan hyny, o ein amherawdwr duwiolaf, a fuoch, yn ol eich doethineb, am osod yr eglwys mewn undeb, fel y gallech yn gwbl ostegu pob terfysg a rhyfel, ac uno ein calonau mewn cariad â'u gilydd. Hyn yn wir a fawr ewyllysiaf finau; ac, o'm rhan fy hun, yr wyf gyda pharodrwydd yn rhoddi ufudd-dod i orchymynion eich uchelder.

"Modd bynag, y mae yn rhaid ystyried mai nid achos fy hun, ond achos Duw, wyf yn ddadleu; nid fy hunan, ond yr holl eglwys sydd wedi ei chythryblu: o blegid i reolau sanctaidd crefydd, a pharchus osodiadau cymmanfaoedd, a gorchymynion ein hunig Arglwydd Iesu Grist, yr anufuddheir, trwy ddyfais falchaidd a chwyddedig eiriau. Dymunir genym, yn y modd gostyngeiddiaf, a'r i'n goruchaf a'n duwiolaf benaeth rwygo y clwyf hwn yn agored i'r gwaelod, a rhwymo i fynu y blaid a effeithir, os dygwydd iddi roddi un gwrthwynebiad, â rheffynau ei awdurdod amherodrol. Trwy attaliad o'r cyfryw un, y wladwriaeth a esmwytheir arni; a thrwy dorri ymaith y fath dyfiant annaturiol, y llywodraeth a ehangir. Pob dyn a ddarllain yr efengyl, a ŵyr yn ddigon da, hyd yn nod wrth eiriau ein Harglwydd Iesu ei hun, fod gofal yr holl eglwys wedi ei roddi i St. Pedr, yr hwn apostol yw tywysog yr apostolion; canys wrtho ef y dywedodd ein Harglwydd,—'Pedr, a wyt ti yn fy ngharu i?—Portha fy nefaid—Satan a'ch ceisiodd chwi i'ch nithio fel gwenith—Eithr mi a weddiais drosot na ddiffygiai dy ffydd—A thithau pan y'th dröir, cadarnha dy frodyr—Ti yw Pedr; ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys; a phyrth uffern nis gorchfygant hi—A rhoddaf i ti agoriadau teyrnas nefoedd: a pha beth bynag a a rwymech ar y ddaear, a fydd rwymedig yn y nefoedd; a pha beth bynag a ryddhaech ar y ddaear, a fydd wedi ei ryddhau yn y nefoedd.' Yma gwelir fod gofal yr holl dalaeth eglwysig wedi ei roddi iddo ef: ac etto nid yw efe mewn un lle yn cael ei alw yn apostol cyffredinol, er fod y dyn sanctaidd hwn, Ioan, fy nghyd-weinidog, yn ymdrechu i gael ei alw yn esgob cyffredinol. Trwy hyn, cymhellir fi i waeddi,—O lygredigaeth yr amseroedd ac ymarferiadau dynion! Wele, y barbariaid ydynt wedi dyfod yn arglwyddi ar holl Europe. Dinasoedd a ddinystriwyd; cestyll amddiffynol a gurwyd i lawr; taleithiau cyfain a ddiboblogwyd; eilunaddolwyr a lywodraethant ar y Cristionogion, mewn cynddeiriogrwydd! Ac etto, gweinidogion, y rhai a ddylent alaru, trwy ymostwng i'r llawr, mewn sachlian a lludw, sydd yn chwennychu dyrchafiad gwageddus, ac ymogoneddu mewn enwau newyddion a llygredig! Fy arglwydd mwyaf crefyddol, ai dadleu yr wyf achos fy hun yn hyn? ai fy hun wyf yn amddiffyn, fel pe bai rhyw ddrwg wedi ei wneud i mi? ai ynte achos yr Hollalluog Dduw a'r eglwys gyffredin yw? Pwy ydyw yr hwn a feiddia gymmeryd arno yr enw newydd hwn, yn groes i'r gyfraith, yr efengyl, a'r canonau sanctaidd?

"Mi a fynwn gan Dduw, pe bai rhyw un yn cael ei alw yn ESGOB CYFFREDINOL, heb wneud trwy hyny anghyfiawnder âg eraill. Gwyddom oll fod lluaws o weinidogion nid yn unig yn hereticiaid, ond yn rhai a flaenorent yn benaf yn eu plith, yn Nghaer-Cystenyn. O athrofa hon daeth allan Nestoriaid, pa rai a dybiant ei bod yn annichonadwy i Dduw gael ei

wneuthur yn ddyn — yn credu fod ein Harglwydd Iesu Grist, yr unig Gyfryngwr rhwng Duw a dynion, yn ddau berson. Y maent wedi myned mor bell mewn anghrediniaeth â'r Iuddewon eu hunain. Oddi yno hefyd y daeth Macedonius, yr hwn a wadai fod yr Ysbryd Glan yr un sylwedd â'r Tad a'r Mab, ac felly yn Dduw. Os bydd, gan hyny, yn yr eglwys honno un a gymmer arno yr enw, trwy ba un y gwna ei hun yn ben ar bob dynion da, yr eglwys gatholig a syrthia; yr hyn na atto Duw byth i gymmeryd lle, — sef, y bydd o angenrheidrwydd iddi gael ei dymchwelyd, pan y byddo i'r hwn a elwir yn BEN CYFFREDINOL gwympo ymaith. Ond yn mhell o blith y Cristionogion y byddo yr enw cableddus hwn, trwy ba un y cymmerir ymaith bob anrhydedd oddi wrth weinidogion eraill, tra yr arddelwir hyn mewn modd ynfyd a balchaidd gan neb rhyw ddyn. Cynnygwyd ef i esgobion Rhufain, gan y gymmanfa barchedig a gynnaliwyd yn Chalcedon, er anrhydeddu St. Pedr, tywysog yr apostolion; ond ni ddarfu i neb o honynt hwy erioed ei gymmeryd, na chydsynio i'w ddefnyddio, rhag y byddai y rhoddiad o'r fraint hon i un, yn amddifadu eraill o'r anrhydedd dyledus iddynt. Paham y gwrthodem ni yr enw hwn pan ei cynnygwyd, tra y mae arall yn ei gymmeryd heb ei gynnyg gan neb iddo? Yr Ioan hwn a ddirmyga roddi parch i'r canonau sanctaidd, oni ufuddhâ i'ch duwiolaf arglwyddiaeth. Dylai gael ei geryddu; y mae yn gwneuthur niwaid a sarhad i'r sancteiddiaf eglwys gatholig; ei galon sydd yn chwyddo mewn balchder; a chwennych y mae i gael ei alw, er boddhau ei hun, wrth enwau o neillduolrwydd, trwy ba rai yr ymddyrcha uwchlaw yr amherawdwr! Gwaradwyddir ni oll trwy y pethau hyn. Bydded i awdwr y gwaradwydd hwn wellâu ei hun, yna peidia pob ymraniadau yn yr eglwys. Gwas ydwyf fi i bob offeiriad, mor bell âg y byddo yn byw yn gysson â'i gymmeriad ei hun; ond os bydd i neb godi i fynu ei wrŷch yn wrthwynebol i Dduw Hollalluog, ac i ganonau y tadau sanctaidd, dymunaf ar Dduw na bydd iddo allu byth ddwyn fy ngwddf i dan ei iau, hyd yn nod trwy ymdrech a grym arfau angheuol.

"Yr hyn a ddygwyddodd yn y ddinas hon, mewn canlyniad iddynt glywed am yr enw newydd hwn a hysbysais i Sabinianus y diacon, yr hwn yw fy ngoruchwyliwr. Bydded gan hyny i'm harglwydd graslonaf feddwl am danaf, yr hwn wyf ei ostyngeiddiaf was, pa un a ddarfu fy meithrin a'm cynnal yn fwy na neb arall, fel un a ddymuna roddi iddo yr ufudd-dod mwyaf parchus; etto yn ofni fy nghael yn esgeulus o'm dyledswydd yn ngwyneb dydd ofnadwy y farn gyffredinol. Bydded i'n duwiolaf benaeth, gan hyny, ganiattau i derfynu yr achos hwn, yn ol erfyniad y rhag-ddywededig Sabinianus, neu ynte beri i'r dyn a enwasom yn fynych beidio â'i ryfyg. Os ymostynga i'ch cyfiawn ddedryd, neu eich rhadlawn gyngor, rhoddwn ddiolch i'r Hollalluog Dduw, a gorfoleddwn yn heddwch yr eglwys trwy eich hynawsedd. Ond os gwrthyd, a pharhau yn amrysongar, ni a edrychwn yn wastad ar y dywediadau hyny yn wirionedd; — 'Y neb a ddyrchafo ei hun, a ostyngir; hefyd ysgrifenedig yw, — 'Balchder sydd yn dyfod o flaen dinystr, ac uchder ysbryd o flaen cwymp.'

"Mewn ufudd-dod i'm Harglwydd, mi a ysgrifenais at fy mrawd gweinidogaethol, yn y modd tirionaf a gostyngeiddiaf, gan ei annog i beidio ymgeisio am y fath wag-ogoniant. Os efe a ostwng ei glust i ymwrando arnaf, y mae iddo frawd yn gyflwynedig iddo mewn cariad; eithr os efe ni wrendy, a pharhau yn ei falchder, gwelaf yn eglur yr hyn a fydd iddo; efe

a wna yn elyn iddo yr Hwn a ysgrifenwyd am dano—'Duw sydd yn gwrthwynebu y beilchion, ond yn rhoddi gras i'r gostyngedig.'"*

Anhawdd yw dywedyd pa un ai tegwch ysgrifenydd, cenfigen offeiriadyn, neu gyfrwysdra rhagrithiwr, sydd i'w weled amlyccaf yn y llythyr celfyddgar uchod. Eithr ni lwyddodd yn ei amcan y pryd hwnw; canys Ioan a'i ganlyniedydd a barhausant yn eu hymarddelwad, heb fod ronyn helaethach eu llywodraeth, nac yn fwy yn eu hawdurdod;† a Maurice a gefnogodd eu cais, yr hyn a fawr ddigiodd Gregory. Yn fuan wedi hyn, danfonodd Cyriacus, canlyniedydd Ioan, gennadau atto, ar ryw achos neillduol; ond efe ni allai ymddwyn tu ag attynt fel arferol, o herwydd ymwisgo o'u harglwydd â'r enw *esgob cyffredinol* yn ei lythyrau. Ei achwyniad wrth yr amherawdwr am anfoneddigeiddrwydd patriarch Rhufain, a achosodd lythyr oddi wrth Maurice at Gregory, yn yr hwn y beia yn fawr arno am ei fod yn sylwi cymmaint ar y dull o enwi. I hyn yr ettyb yntau, gan ddangos nad oedd y dull newydd hwn o enwi yn swm neu nifer y llythyrenau a wnai hyny i fynu, ddim yn gymmaint â'r camwedd ag oedd trwy hyny; yr hwn oedd ddigonol i suddo a distrywio pob peth; "a dywedaf yn hyf," ebe fe, "fod i bwy bynag a gymmero, neu a chwennycho yr enw ESGOB CYFFREDINOL, yn meddiannu ar falchder a chymmeriad anghrist."

Eithr Phocas, canwriad o'r fyddin, a gododd i fynu yn erbyn Maurice; ac yn y modd creulonaf a osododd bump o'i feibion i farwolaeth ger bron ei lygaid. Efe, wrth weled y ddyrnod olaf i bob un o honynt, yr hyn a ddwys-deimlai yn ei galon, etto a ddywedai wrtho ei hun, *Cyfiawn wyt ti, O Arglwydd.* A gorphenwyd yr olygfa alaethus trwy osod yr amherawdwr ei hun i farwolaeth, trwy orchymyn Phocas. Eu cyrph a daflwyd i'r môr, a'u penau a osodwyd yn gyhoeddus ar furiau Caer-Cystenyn. Tua'r un amser, mab arall a attaliwyd ar ei daith tua Phersia, yn ymofyn am gymhorth yn erbyn y trais-feddiannydd, ac a osodwyd i farwolaeth yn Nicea. Yr amherodres Constantia, a'i thair merch ddiniwaid, a ffoisant i un o brif eglwysi y ddinas, fel yr oedd yr arferiad yn aml gynt, er diogelwch, am eu bywydau; a'r patriarch, yn ol ei addewid a'i lŵ, a'u hamddiffynodd; yr hyn a barodd i ddig Phocas ennyn yn ei erbyn; a bu yn achos iddo golli wyneb yr amherawdwr. Eithr Phocas oedd yn meddu nid yn unig ar greulondeb bwystfil, ond hefyd cyfrwysdra sarph, ni ddangosodd y pryd hwnw ei ddigter, trwy wrthwynebu y patriarch trwy rym arfau; eithr efe a gymmerodd y peth yn llariaidd yn nechreu ei drais-deyrnasiad, ac a ddygodd yn mlaen ei amcan trwy ddichell. Addawodd, trwy lwon, i'r amherodres, os deuai hi allan, y cai ganddo nodded, heddwch, a rhyddid. Ond nid hwy nag y bu y boneddigesau yn dyfod allan, ac o hyd i'w afael, y bu heb osod dwylaw arnynt—gosodwyd hwy oll i farwolaeth yn yr un lle ag y llofruddiwyd Maurice ychydig ddyddiau o'r blaen; a gwnaethwyd â phawb o'u cyfeillion a allwyd cael gafael ynddynt yr un modd.

Pa beth a allesid ddisgwyl, pan gyrhaeddodd y newydd am y galanasdra, y ffieidd-dra anghymharol, yr anudoniaeth, y teyrn-fradwriaeth, y teyrnlofruddiaeth, a'r trais-feddiant, ddinas Rhufain, a chlustiau yr hynaws a'r deiliad ufudd Gregory, fel y gelwai efe ei hun? Pa effeithiau a allesid feddwl a fuasai y fath newyddion yn eu gwneuthur ar un dyn, yn meddu ar y gradd lleiaf o ddyngarwch? Onid galar, a gofid distaw, os nid adgas-

† Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 112. * Epist. Greg. l. xi. Ep. 30.

rwydd cyhoeddus, a fuasai yn ddisgwyliadwy, oddi wrth bob dyn meddiannol ar y gradd lleiaf o ddynoliaeth, yn enwedig un a broffesai Gristionogaeth? Ond nid felly yr oedd gyda y mawr a'r dysgedig Gregory. Pan glywodd fod yr hwn a alwai ychydig o amser yn ol, *y duwiolaf arglwydd, a'r graslonaf benaeth, i'r hwn y proffesai yr ufudd-dod mwyaf parod*, wedi ei lofruddio gan Phocas, a bod y llofrudd gwaedlyd wedi meddiannu yr orsedd, efe a lenwir â gorfoledd, ac a ddyrchafa y traws-feddiannydd yn y fath fodd, fel y buasem yn rhwym o gredu, pe na buasai genym ond a ddywed efe am Phocas, mai angel y goleuni, ac nid dyn ydoedd! Er dangos ei orfoledd, a gogoneddusrwydd y weithred yn ei olwg ef, efe a ddywed yn nechreu y llythyr a ysgrifenodd ar yr achos, fel hyn:—"Gogoniant i Dduw yn y goruchafion, yr hwn sydd, yn ol ei air ysgrifenedig, yn newid yr amseroedd, ac yn symmud teyrnasoedd—a'r Goruchaf yn unig a deyrnasa yn mrenhiniaethau dynion, ac a'u dyry hwynt i'r neb a ewyllysio." Er cymhwyso y pethau hyn at yr amgylchiadau oedd mewn llaw, efe a ddywed,—"A mawredd eich dyrchafiad yr ydym yn cyduno yn ddiattreg, gan gael ein cadarnhau yn ein gorfoledd, wrth ystyried eich cydraddol foneddigeiddrwydd â duwioldeb, a'ch mawrhad amherodrol." Gwedi hyn y mae yn torri allan yn yr iaith fwyaf orfoleddus, gan ddywedyd:—"Bydded i'r Nefoedd orfoleddu, a'r ddaear lawenychu, o herwydd eich gweithredoedd gogoneddus; a bydded i'r holl bobloedd, yn mhob tywysogaeth, ag oedd hyd yn hyn mewn dirfawr adfyd, lawenychu. Bydded i yddfau eich gelynion gael eu darostwng danoch, a'u dwyn yn ufudd i'ch llywodraeth oruchaf; a chalonau eich ffyddlon ddeiliaid, pa rai sydd wedi bod yn hir mewn gwasgfa, gael eu sirioli trwy eich hynawsedd." Yna yr â yn mlaen gan goffau y prophwydoliaethau am Iesu Grist, yn ei waith yn dyfod i waredu ei eglwys, gan eu cymhwyso at y teyrn-lofrudd hwn.*

Gyda golwg ar yr amgylchiad hwn, dywed Mr. Gibbon:—"Fel deiliad, ac fel Cristion, dylasai Gregory ymdawelu yn y llywodraeth sefydledig; ond dyrchafu a llawenychu yn llwyddiant y fath lofrudd, gyda'r fath orfoleddus annerchiad, sydd wedi llychwino ymddygiad y sant â gwaradwydd annilëadwy. Dylasai canlyniedydd yr apostolion, yn ddiau, gyda gwroldeb, ddysgu y drwg o dywallt gwaed, a'r angenrheidrwydd am edifeirwch: yn lle hyny, y mae efe yn gorfoleddu yn ngwaredigaeth y bobl, a chwymp y gormeswr, ac yn llawenychu am fod rhagluniaeth y nefoedd wedi dwyn yr haelfrydig a'r duwiol Phocas i'r orsedd! ac yn gweddio a'r i'w ddwylaw gael eu cryfhau yn erbyn ei holl elynion; a chwedi hir a llwyddiannus deyrnasiad yma, gael o hono ei drosglwyddo i drigfanau y deyrnas dragywyddol!"† Gwedi hyn dywed yr un awdwr, iddo chwilio holl risiau y chwyldröad a ymddengys mor hyfryd i feddwl Gregory, o'i ddechreu i'w ddiwedd, yn y nefoedd ac ar y ddaear, ac nad ymddangosai fod Phocas, fel dyn, fel Cristion ac fel amherawdwr, un mymryn llai adgas wrth weini y llywodraeth a dreisiasai, nag oedd wrth ei chyrhaedd. Os oes gwirionedd yn y sylwadau hyn ar gymmeriad Phocas—yr hyn nid oes le i'w ammau—pa beth a ellir feddwl am Gregory pan yr ymostyngai i foli y fath anghenfil? "Diau," medd un, "nad oedd gwirionedd na chywirdeb yn cael dim lle yn nghyfundraith moesol y dyn hwn. Pagan, yn meddu ar y graddau lleiaf o uniondeb,

* Dr. Campbell's Lect. on Church Hist. vol. ii. p. 62.

† Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. chap. 46.

a fuasai yn attal cymdeithas a chymmundeb â'r fath anfad-ddyn à Phocas, dros amser; eithr hwn, er y proffesai ei fod yn esgob Cristionogol, yn groes i'r arferiad cyffredin, a lawenycha yn llwyddiant ei ddrygioni, a hyny cyn cael hysbysrwydd rheolaidd am ei wisgiad yn y wisg borphoraidd! Ei gamweddau a sancteiddia efe, trwy beri iddynt ymddysgleirio fel y rhinweddau mwyaf; a'r drwg-weithredwr ei hun a ddyrchefir, ac a elwir yn Ail Fessiah, yr hwn a ddaethai i'r byd er iachawdwriaeth a diddanwch i Israel!!" *

Eithr ni bu Gregory byw i fwynhau ffrwyth ei lafur gorchestol, sef sicrhau yr orsedd Babaidd yn Rhufain, i'r hwn orchwyl yr aberthodd efe ei holl fywyd; ond ei ganlyniedydd a'i mwynhaodd.† Canys Phocas, o herwydd y tramgwydd a gymmerasai tu ag at batriarch Caer-Cystenyn, am ei ledneisrwydd tu ag at Constantia yr amherodres, yn ei chyfyngder, a dorodd ymaith bob ymarddelwad i ESGOBAETH GYFFREDINOL oddi wrth esgobion Caer-Cystenyn, gan ei sicrhau yn hollol yn meddiant esgobion Rhufain, yn y flwyddyn 606.

Fel hyn terfynodd y ddadl frwd a fu rhwng Caer-Cystenyn a Rhufain dros hir flynyddau am fod yn ben—ïe, oedd yn yr eglwys er amser Diotrephes, i ba un yr aberthwyd miloedd o fywydau dynion. Oddi wrth hanes Gregory wenieithgar ar yr amgylchiad, gwelir y fath wahanol ffyrdd sydd gan ddynion i ddwyn yn mlaen eu hamcanion, a chuddio eu twyll, a'r undeb a ddichon fod rhwng gwahanol orchwylion dynion er cyrhaedd yr un amcan. Hefyd gwelwn pa mor bell y dichon un ymragrithio mewn ymddangosiadau crefyddol, er cyrhaedd ei amcanion bydol, cnawdol, a hunanol. Yn mhellach, gwelir gymmaint yr aberthodd y Pabydd hwn ar ei gydwybod, y gwirionedd, gonestrwydd cyffredin, a dyngarwch, er mwyn boddhau ei chwantau, a sicrhau gorsedd balchder. Dysgwn beidio ymwneud gormod â'r dyn yr hwn sydd â'i anadl yn ei ffroenau.

Tra yr oedd yr athrawiaeth o uchafiaeth, a phwy a fyddai yn benaeth, yn cynhyrfu yr eglwys yn fawr, yr oedd cyfeiliornadau eraill ag oedd yn peri dirfawr derfysg yn mawr gynnyddu. Yr oedd athrawiaeth Pelagius yn y gorllewin wedi colli ei llewyrch, i gryn raddau, trwy godiad i fynu hanner-Pelagiaeth, yr hon a ddechreuasid yn y canrif o'r blaen, gan y monach Cassian, ac a ddygwyd yn mlaen gyda mawr lwyddiant gan ei ganlynwyr trwy y canrif hwn. Cynnwysai hon holl brif egwyddorion Pelagiaeth; eithr wedi ei gwisgo â mwy o ymddangosiad efengylaidd: gan hyny yr oedd yn fwy derbyniol, ac yn myned rhagddi yn rhwyddach. Nid oedd yr egwyddorion hyn yn dyfod gymmaint o dan sylw y deddfau eglwysig, na'u pleidwyr yn fynych dan sylw dedfrydol y cyfreithiau gwladol. Canys nid oeddynt ond yn anfynych yn eu hamddiffyn yn

* Dr. Campbell's Lect. on Church Hist. vol. ii. p. 71.

† Nid allem lai na synnu i glywed y fath hanesydd â Milner yn dywedyd am ymddygiadau Gregory tu ag at amgylchiad Maurice a Phocas, sef nad oedd efe yn gweled ynddo ddim yn anghysson â gwir dduwioldeb a gwladgarwch, amgen llawer o'i ofal arferol dros ddaioni yr eglwys a'r wladwriaeth. Gellw ef hefyd yn aml yn un ag oedd yn enwog mewn gras. Y mae yn rhaid fod y rheol wrth ba un y barna yr hanesydd gywirdeb crefydd, yn wahanol yn ddiau i'r hyn a ddadguddir yn yr ysgrythyrau. Gymmaint y gwna pleidgarwch ddallu meddyliau y gorau o ddynion yn wyneb y ffeithiau eglurafl Nid yw yr hyn a ddywed o barth i Gregory ddim mwy i'w ryfeddu, na'r hyn a ddywed am Cystenyn, Theodosius, a'r amherawdwyr uniawngred, fel eu gelwir, a fu ar orsedd Rhufain, sef na roisant gorfodiaeth ar neb o'u deiliaid i fod o'r un grefydd â hwy eu hunain, pan y rhaid ei fod wedi gweled y cyfreithiau a wnaethant i'r perwyl hwnw, a darllain hanes dyoddefiadau y rhai a amrywient oddi wrthynt hwy yn eu barn a'u hymarferiadau crefyddol.—Gwel ei Hanes Eglwysig, cyf. iii. tudal. 74, 88.

gyhoeddus, nac yn sefydlu eu hunain yn gymdeithasau gwahanol; eithr cyd-ymagweddant â threfniadau a gosodiadau yr amseroedd, yn eu hymarferiadau eglwysig. Gellid meddwl fod Ariaeth yn sefyll yn uchel, yn sefydlog, ac yn llwyddiannus yn nechreu y canrif hwn. Canys proffesid hi trwy holl Affrica, lle y gwyddid dim am Gristionogaeth; gan y Gothiaid yn yr Ital a'r Hispaen; a chan y Burgundiaid a'r Sueviaid yn Lusitania: a llawer o esgobion yn y dwyrain oeddynt o'r farn honno. Eithr cyn diwedd y canrif, daeth dymchweliad neillduol i'r farn hon, nid yn unig trwy arfau milwraidd Justinian yn Affrica a'r Ital, yn nifrodiad y Vandaliaid a'r Gothiaid—yr hyn a wanychodd achos yr Ariaid yn fawr yn y gwledydd hyny—ond hefyd trwy i Sigismund brenin y Burgundiaid, Theodomir brenin y Sueviaid, a Recardes brenin y Gothiaid yn yr Hispaen, a'u deiliaid, gan mwyaf, fwrw ymaith Ariaeth, a gwneuthur ymostyngiad i'r ffydd gatholig. Pa un a oedd y cyfnewidiadau hyn yn tarddu oddi ar iawn egwyddorion, yn cael eu heffeithio gan annogaethau priodol gair Duw a gŵir reswm, ai ynte oddi ar ofn dynol, a gobaith o ryw fwynhad dynol oddi wrth eglwys Rhufain, sydd yn rhy anhawdd i'w benderfynu yn bresennol. Ond hyn sydd eglur, sef i Ariaeth, yn ol yr holl ymdrech am hirfaith flynyddau, ddadfeilio, mewn canlyniad i hyn, yn fwy-fwy bob dydd; ac na ddysgleiriodd gymmaint mewn parch a derbyniad cyffredin gan ddynion mwyach.

Tua diwedd y canrif hwn, yr oedd crefydd yn y dwyrain yn dra isel, trwy fod ymraniadau a therfysgiadau yn amlhau yn feunyddiol. Er y gosodid canonau cymmanfaoedd a deddfau unffurf gwladol o amgylch dynion, er eu rhwymo â'u gilydd, etto yr oeddynt yn mhell o atteb un dyben: yn gymmaint felly, fel yr ychwanegent y terfysg yn barhaus. Casglodd Justinian gymmanfa yn Caer-Cystenyn yn y flwyddyn 553, yr hon a ystyrir y bummed gymmanfa gyffredinol; yn mha un y collfarnwyd nid yn unig ddaliadau Origen, fel y dywedwyd yn barod, ond hefyd Nestoriaeth a Monophysitiaeth; a thrwy hyny achoswyd terfysg mawr yn yr holl eglwysi. Yr oedd dau beth yn perthyn i'r cymmanfaoedd hyn, yn eu hymyraeth â barnau dynion, a allai fod yn ŵyrog, er gwneuthur terfysg: sef, *yn gyntaf*, rhoddi bywyd, egni, ac ymledaniad i'w barnau gŵyredig; canys yn sicr byddai yno ryw rai a'u hamddiffynai. *Yn ail*, cynhyrfu y llywodraeth wladol, a'i dwyn i'w cospi fel cyfeiliornwyr; yr hyn a fawr aflonyddodd y byd a'r eglwys, ac a fu yn brif gynnaliaeth i gyfeiliornadau; canys rhoddai iddynt ymddangosiad o fod yn rhinweddol. Amcenid yn nghymmanfa Caer-Cystenyn, i wrthwneud penderfyniadau cymmanfa Chalcedon, a gynnaliwyd yn y flwyddyn 454; trwy chwilio allan ryw bethau yn gyfeiliornus yn ysgrifau Theodorus o Mopsuhestia, Theodoritus o Cyrus, ac Ibas o Edessa, gwaith pa rai a gyfrifid yn enwog a chymmeradwy, eithr a ddedfrydwyd yn awr, fel yn bleidgar i Nestoriaeth. Mewn hanesyddiaeth, gwaith y rhai hyn a elwir y *Tair Pennod*, a goffeir yn aml; a'r ymhyraeth â hwy yn y canrif hwn, a achosodd derfysg na ellir dywedyd pa gymmaint. Er i'r Monophysitiaid gael eu collfarnu trwy y cyfreithiau gwladol ac eglwysig, etto yr oeddynt yn dra lluosog agos yn mhob lle yn y dwyrain, ac yn cael eu llochesu gan yr amherodres Theodora, gwraig Justinian, tra fu byw, yr hon oedd yn ddynes lygredig iawn ei bywyd. Eithr o herwydd eu hymraniadau yn eu plith eu hunain, hwy a ddyfethwyd, fel nad ŷm yn clywed nemawr o sôn am danynt yn y canrifoedd nesaf.

Adrodd yr holl bleidiau i ba rai yr oedd yr eglwys yn y dwyrain wedi

ymranu cyn diwedd y canrif hwn, fyddai orchwyl anorphen. Canys nid oedd fawr o ddim i'w glywed o fwthyn y cardottyn hyd balas y brenin, trwy yr holl ddwyrain, ond gofyniadau diadeiladol yn nghylch—*Pa un ai dwy nattur ai dau berson oedd yn Nghrist?—pa un a oedd corph Crist yn ddarostyngedig i lygredigaeth, ai nid oedd?—a oedd un o'r Drindod wedi dyoddef ar bren y groes, ai nid oedd?** Dyma y tanwydd a ddefnyddid gan ddynion anianol i ennyn y tân yn fflamiau angherddol, nes ysu harddwch, heddwch, a defnyddioldeb yr eglwysi. Llwyddodd y Nestoriaid i raddau helaeth yn ngwledydd y dwyrain, tu allan i derfynau amherodraeth Caer-Cystenyn, er iddynt ddyoddef rai gweithiau lawer oddi wrth y Persiaid; ac y mae yn amlwg nad oeddynt wedi myned mor bell mewn defodau coel-grefyddol â'r eglwys gatholig.

Terfynwn hanes y canrif hwn trwy alw sylw ein darllenwyr at yr angenrheidrwydd o air Duw, ei werth anghydmarol, a'r annhraethol bwys o lynu wrtho yn unig fel rheol ein cred a'n hymarferiadau yn mhob dim. Wrth edrych yn ol am y chwe chan mlynedd hyn a fu dan ein sylw, yr ydym yn gweled dyfais y gorau o ddynion, a'r cymmanfaoedd mwyaf dewisol, yn nghyd â'r gosodiadau mwyaf awdurdodol, nid yn unig yn methu lleshau yr eglwys, ond yn ei mawr ddrygu; yn gymmaint felly â'i bod yn ddigonol i roddi llawn foddlonrwydd i bob dyn ystyriol, mai nid y moddion a drefnodd Duw i adeiladu ei bobl, a'u harwain trwy y dyrus anial, oeddynt. Pan welwn yr eglwysi, yn y gorllewin a'r dwyrain, yn ymgrwydro ac yn ymwylltio yn yr anialwch, gan ymguro wrth eu gilydd a dinystrio y naill y llall, fel bleiddiaid yr hwyr, rhaid i ni gofio fod y cwbl wedi ei achosi trwy esgeuluso gair Duw, a dilyn trefniadau a chredöau dynion, a gosodiadau cymmanfaol a gwladol. A chyn y gallom byth weled gwir lwyddiant ar grefydd, ac y caffo yr eglwysi fwynhau heddwch a gwir gyssur, rhaid ein hadferu oddi wrth y pethau hyn, a'n dwyn yn ol at yr unig faen-prawf, sef yr ysgrythyrau sanctaidd:—*y rhai da, gwnawn ddal arnynt, megys ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll.*

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii, p. 141—150.

DIWEDD Y CHWECHED CANRIF.

PENNOD XXXIV.

CANRIF VII.

Lle y dangosir Cymmeriad Phocas—Heraclius, a'i deulu, a fu yn amherawdwyr—Codiad i fynu y blaid grefyddol a elwir Monotheletiaid—Helaethiad Cristionogaeth, trwy weinidogaeth y Nestoriaid, yn y Dwyrain, ac yn y Gorllewin, yn enwedig yn yr Ynys hon, trwy weinidogaeth Awstin—Canlyniad annedwydd y Cymmanfaoedd a gynnaliwyd rhwng y Saeson a'r Cymry—Dirywiad mawr yr Eglwysi mewn Athrawiaeth, a'u Cynnydd mewn Coelgrefydd ac Eilunaddoliaeth.

SYLWYD yn niwedd yr hanes am y canrif o'r blaen, ar y diwedd galarus a ddaeth i'r amherawdwr Maurice, a'i deulu, yr hwn a deyrnasai ar orsedd Caer-Cystenyn yn nechreu y canrif. Ymddengys ei fod yn ddyn lled rinweddol, yn hanu o hen deulu Rhufeinaidd, a gyfrifid yn gyfoethogion a pharchus er ys oesau. Eithr fel yr oedd y llywodraeth wedi myned yn un hollol filwraidd, fel mai pwy bynag a foddhâi y meiwyr, hwnw a ddyrchefid. A'r trysorfëydd, yn amser Maurice, oeddynt wedi myned yn rhy wag, er atteb i'w ddisgwyliad; etto efe ni chaniattâi iddynt yspeilio, ac nis boddlonai hwynt trwy addewidion; o ganlyniad anfoddlonasant wrtho, a thrwy hudoliaeth Phocas, syrthiasant arno, a rhoddasant ef i farwolaeth.* Phocas, yr hwn a ddaeth i'r orsedd ar ei ol ef, oedd ddyn bychan ac afluniaidd o gorpholaeth, gwael a dirmygus ei bresennoldeb, bwystfilaidd a chreulawn ei deimladau, anfad a ffiaidd ei feddyliau, a'r adgasaf a diffeithaf ei ymddygiadau, o neb a fu yn eistedd ar orsedd Rhufain er ei sefydliad. Yr oedd yn amddifad o bob dysgeidiaeth lythyrenog, yn anwybodus o gyfreithiau ac egwyddorion llywodraeth, ac o bob celfyddydau, hyd yn nod ymdriniaeth âg arfau rhyfel. Ond ymroddai i'r graddau mwyaf o anghymmedroldeb, mewn bwydydd, diodydd, a phob pleserau aniänol. Nid ymgeisiai am gynnal i fynu gymmeriad tywysogaidd. Rhoddodd heibio bob gweithrediadau milwraidd. A'i lywodraeth a fawr ofidiodd Europe, trwy yr heddwch gwarthus a wnaeth â holl Asia, yr hwn wedi hyny a achosodd ryfel difrodol. Gwedi teyrnasu yn wael am o ddeutu wyth mlynedd, derbyniodd ei ad-daliad, yn y modd cyfiawnaf, trwy gael ei osod i farwolaeth gan Heraclius, yn y flwyddyn 610, trwy ddibendod; ac yn ganlynol, taflwyd ei gelain i'r tân i'w losgi: a theyrnasodd Heraclius yn ei le.†

Yn y cyfamser, y Persiaid oeddynt yn gwneuthur difrod o'r mwyaf trwy holl amherodraeth y dwyrain; a daethant hyd at furiau Caer-Cystenyn, dan lywyddiaeth eu brenin Chosroes. Heraclius, gan gymmaint y cyfyngder, oedd yn barod i dderbyn heddwch oddi wrth y Persiaid ar yr ammodau

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 218. † Ibid, vol. iii. p. 245—247.

mwyaf gwarthus, a ffoi o Gaer-Cystenyn i Carthage, gan adael i ddwylaw y gelyn ei brif-ddinas. Eithr yn yr helynt bresennol meddiannai y patriarch fwy o wroldeb meddwl na'r amherawdwr; canys dygodd ef i eglwys St. Sophia, lle ei tynghedodd yn enw Duw, na adawai ei bobl i ddwylaw y barbariaid, ond y byddai iddo gymmeryd arfau a rhyfela drostynt. Ar hyn ymwrolodd Heraclius; casglodd fyddin, ac aeth allan i ryfel yn erbyn ei elynion ar bob llaw. Hyn a fu yn foddion y waith hon i achub yr amherodraeth rhag hollol ddinystriad. Canys, yn groes i bob tebygolrwydd a disgwyliad, llwyddodd arfau Heraclius i ddarostwng y Persiaid; a dygodd yn mlaen ei ryfel buddugoliaethus yn mhellach i'w gwlad nag a wnaethai neb o'r Rhufeiniaid o'r blaen; a chollodd Chosroes ei fywyd, yn y modd mwyaf annynol, trwy law ei fab ei hun.

Yn nheyrnasiad Heraclius, a thrwyddo ef yn benaf, dechreuodd y ddadl a fu yn achos o ymraniad rhwng y rhai a elwid yn Gristionogion, sef *pa un a oedd dau ewyllys yn aros ar wahan yn Nghrist, ai ynte a oedd y ddau yn un trwy undeb ei berson.** Gelwid y blaid a farnai nad oedd yn Nghrist, wedi undeb y ddwy nattur, ond un ewyllys, a'r effeithiad o hyny, yn Monotheletiaid, yr hon a fu yn lluosog iawn am hir amser, ac a wnaeth dwrf mawr yn y byd. Teyrnasodd Heraclius yn lled lwyddiannus yn nghylch un mlynedd ar hugain; adferodd heddwch i'r amherodraeth; a bu farw yn y flwyddyn 641, gan adael ei orsedd rhwng ei ddau fab, pa rai nid oeddynt ond ieuaingc y pryd hwnw. Gwedi ei farwolaeth, teyrnasodd, o'i linach, yn Nghaer-Cystenyn, Cystenyn y trydydd, Heracléonas, Constans yr ail, a Chystenyn y pedwerydd, yr hwn a elwir Pogonatus, pa rai oeddynt oll yn dywysogion tra anenwog, heb braidd ddim ond gwaelder, drygioni, a llofruddiaeth yn perthyn i'w llywodraeth, a'r deyrnas yn suddo yn gyflym i ddinystr. Tua'r amser hwn, dechreuodd amherodraeth y Saraceniaid godi i fynu, a chymmeryd ymaith daleithiau o'r hyn a berthynai i Gaer-Cystenyn yn feunyddiol.†

Ymhelaethodd Cristionogaeth yn fawr mewn amryw fanau yn y canrif hwn. Y Nestoriaid ag oeddynt yn byw yn Syria a Phersia, a daenasant yr efengyl trwy barthau pellaf yr India, ac eraill yn China. Dywedir fod cofgolofn i'w gweled yn yr unfed canrif ar bymtheg yn Sigan-pi, prif-ddinas Xenfi We, talaeth yn ngogledd China, yr hon a arwyddai ei bod wedi ei chodi yn y flwyddyn 781, â cherfiad arni yn dywedyd i'r efengyl gael ei phregethu yno yn y flwyddyn 636. Er yr amheuir bodoliaeth y golofn uchod gan rai dynion dysgedig, etto nid oes neb a ammau nad oedd amrai eglwysi Cristionogol wedi eu sefydlu yn y wlad yma y pryd hwnw, trwy offerynoliaeth y Nestoriaid, ac hefyd yn Tartary tua'r un amser.‡

Yn y gorllewin, helaethwyd Cristionogaeth mewn amrywiol fanau, yn enwedig yn mhlith y Saeson yn yr ynys hon. Ymddangosai y Saeson nid yn unig yn anwybodus o egwyddorion Cristionogaeth ar y cyntaf, ond hefyd yn elynion hollol iddi; a diammau na ddyoddefodd un cenedl oddi wrth neb dynion driniaethau mwy barbaraidd a chreulawn, na'r Cristionogion Brutanaidd oddi wrth draws-feddianwyr eu gwlad; er hwyrach y codai eu gerwindeb oddi ar y chwant i'w meddiannau, yn fwy na'u casineb at eu cref-

* Cyhoeddodd gyfraith yn y flwyddyn 630, trwy gynghrair rhai Eutychiaid, er ymdrechu uno yr eglwys gatholig, yn yr hon y dywed nad oedd yn Nghrist ond un ewyllys ac effeithiad.—*Mosheim's Eccl. Hist. vol.* ii. *p.* 190.

† Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 458. ‡ Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 152.

ydd. Gwedi i Awstin lwyddo gydag Ethelbert a'i ddeiliaid i gofleidio Cristionogaeth, fel y crybwyllwyd yn y canrif o'r blaen, meddylir i'r chwe brenhiniaeth arall, gan mwyaf, ei ganlyn ef cyn diwedd y canrif hwn. Edwin, brenin Northumberland, i'r hwn y perthynai y tiriogaeth helaethaf o'r saith brenhiniaeth Saesonig yn Lloegr, a'i dilynodd ef yn mlaenaf. Yntau hefyd ar y cyntaf a ddaethai i wybodaeth o'r grefydd Gristionogol trwy briodi Ethelburga, merch Ethelbert, yr hon oedd Gristionoges, ac a wnaethai ei rhyddid crefyddol yn ammod yn ei phriodas; a dygasai ei hesgob Cristionogaidd, o'r enw Paulianus, i lŷs ei phriod. Yn fuan ennillwyd y brenin a'i brif weinidog i ymostwng i'r ffydd; a'r deiliaid yn ddiattreg a'u canlynasant. Un o'r moddion penaf er agor drws i Gristionogaeth i lysoedd tywysogion Lloegr y pryd hwnw, oedd undeb priodasol; a merched a fu yn brif offerynau i ddwyn y brenhinoedd hyn i ufudd-dod i'r ffydd gatholig.

Nid digon gan Awstin a'r Saeson dychweledig oedd meddiannu gwlad yr hen Frutaniaid, ond rhaid hefyd oedd eu dwyn i fynwes yr eglwys gatholig, ac i unffurfiad mewn athrawiaeth a dysgyblaeth eglwysig, a'r hyn a osodid i fynu gan y cennadau o Rufain yn mhlith y Saeson. I'r dybenion hyny cynnaliwyd cyfarfod gan Awstin a blaenoriaid y Cymry, ar gyffiniau swydd Gaerwrangon, mewn maes, dan dderwen, yr hon a elwid wedi hyny yn dderwen Awstin. Gwedi iddo trwy bob rhesymau geisio dwyn ein hynafiaid i gydnabod uchafiaeth eglwys Rhufain mewn awdurdod a phendod, a chofleidio eu defodau hwy, ni lwyddwyd yn y cyntaf. Casglwyd ail gyfarfod, i ba un y daeth llawer o esgobion a blaenoriaid y Cymry; yn mha un y blaenorai Awstin, mewn rhwysgfawredd, wedi ymwisgo yn ei fantell archesgobol, o liw porphoraidd, a dderbyniasai yn ddiweddar o Rufain. Gwedi hir ddadleu rhyngddynt, dywedir i Awstin roddi i fynu i esgobion Cymru bob peth a gesient, ond iddynt gadw y pasc ar yr un amser â hwy, a gweini yr ordinhad o fedydd yn yr un dull â hwy, trwy arwyddo y bedyddiedig â llun y groes, ei wisgo â dillad gwynion, yn nghyd âg amryw ddefodau eraill a arferid y pryd hwnw yn sanctaidd eglwys apostolaidd Rhufain, ac uno gyda hwy i gyhoeddi yr efengyl i'r Saeson. Ymddengys fod mawr wahaniaeth rhwng crefydd yn Rhufain yr amser hwn, â'r hyn oedd pryd yr anfonedd Eleutherius gennadau o'r blaen oddi yno i'r ynys hon, tua diwedd yr ail ganrif, i bregethu yr efengyl, ac i sefydlu eglwysi yn mysg y Cymry. Canys gellid meddwl yn ddiau i'n hynafiaid ymgadw yn lled agos i'r un drefn ag a dderbyniasent y pryd hwnw; ac y mae yn bur eglur na ddysgasent yr amser hwnw am uchafiaeth eglwys Rhufain, am groesau, nac unrhyw ddefodau dynol wrth fedyddio, na deddfau o unffurfiad yn nghylch gwyliau.* Pan y ceisiodd Awstin gan ein hynafiaid i ymostwng i'r rhai hyn, hwy a wrthodasant yn unfryd, ac a dystiasant na chymmerent hwy ef ychwaith yn archesgob arnynt. Yna Awstin wrth glywed hyn a'u hattebodd, gan ddywedyd,—"Os nad ydych chwi yn foddlon byw mewn undeb a heddwch â'ch brodyr, yr ydych yn sicr o gael rhyfel â'ch gelynion; a chan na unwch â ni i bregethu ffordd y bywyd i'r Saeson, chwi a gewch ddyoddef cosp marwolaeth trwy eu dwylaw hwynt." Hawdd y gallasai y Cymry ddeall wrth dymherau annymunol Awstin pan yn ymadael â'r gymmanfa hon, ei fod yn

* Parhaodd y Cymry fel yr oeddynt o'r dechreuad i weini yr ordinhad o fedydd ar blant a dynion mewn oed, trwy dywallt dwfr arnynt, heb eu croesi âg arwydd y groes—heb roddi llaeth a mêl iddynt—heb roddi halen yn eu geneuau pan yn eu bedyddio, na'u henneinio âg olew, na'u gwisgo mewn gwisgoedd gwynion, nac ymostwng i'r awdurdod a ymarddelwai eglwys Rhufain, na chydffurfio â hi mewn llawer o ddefodau, am tua chant a hanner o flynyddau wedi hyn.

bwriadu, gan nad ymostyngent i awdurdod y Pab, ymddial arnynt hyd eithaf ei allu.

Yn fuan wedi hyn ymosododd brenin Northumberland, gyda byddin luosog iawn, ar y parthau mwyaf gogleddol o Gymru, gan wneuthur difrod, trwy gynhyrfiad Awstin Fonach. Brochwel mab Cyngen ab Cadell, tywysog Powys, yr hwn a lywodraethid yn fwy gan deimladau coelgrefyddol yr oes, na chan ysbryd gwrol a milwraidd, pan yn deimladwy o'i analluogrwydd i sefyll brwydr â'i elynion, a gasglodd luoedd o'r monachod, yr offeiriaid, &c. i gyd-weddio. Safasant yn anarfog o flaen y fyddin arfog, yn agos i Fangor Iscoed, yn swydd Callestr, gan dybied yn ddiau na ddygwyddai iddynt ddim niwaid. Eithr lluoedd y Saeson a ruthrasant arnynt, ac a wnaethant laddfa fawr, fel na ddihangodd, o filoedd lawer, ond o gylch deg-a-deugain, gyda Brochwel.* Anhawdd yw adrodd y galanasdra a gymmerodd le yn y naill fan a'r llall, mewn canlyniad, rhwng y ddwy blaid; eithr yn y diwedd y Cymry a gafodd y gwaethaf.

Cymmaint oedd sêl yr eglwys Babaidd dros unffurfiad yn ei holl ddefodau llygredig, fel y gwelwn i gymmanfa gael ei chynnal gan esgobion y Saeson cyn diwedd y canrif hwn, er trefnu mesurau drachefn i ddwyn y Cymry i unffurfiad; ac ymddiriedwyd y gwaith i abad o'r enw Aldelin. Efe a ysgrifenodd lythyr hirfaith at Geruntus, tywysog Cerniw, yr hwn a fernid fod ganddo lawer o awdurdod ar yr esgobion Cymreig, fel y gallai, os oedd modd, ennill hwnw, a thrwy hyny effeithio ar eraill. Yn ei lythyr beia ar esgobion Cymru am eu hanghydffurfiad â'r ffydd gatholig, yn eilliad eu penau,† a lluaws o bethau gwaelion eraill; ond etto, i'w dyb ef, yn bethau cymmaint eu pwys, fel y dywedai fod yr anghydffurfiad hwn ynddynt yn sicr o gau yr anghydffurfwyr allan o bob braint eglwysig ar y ddaear, ac o deyrnas nefoedd yn y byd arall; felly yn galw am fod ganddynt yr edifeirwch mwyaf o blegid hyny. Coffeir y pethau hyn er dangos y fath athrawiaeth wag a difudd a osodid i fynu yn yr eglwysi y dyddiau dan sylw. Ond er gorfod dyoddef y driniaeth arwaf, a chael o filoedd eu gosod i farwolaeth, ac er cyfrwysdra ymresymiadau yr abad yn ei ysgrif wag, anysgrythyrol, a direswm, ni lwyddodd i ddwyn eglwysi y Cymry i gydffurfiad â'r eglwys Babaidd yn hollol, hyd y nawfed canrif.

Amryw fonachod o'r Iwerddon, yr Alban, a Lloegr, a aethant drosodd i'r Cyfandir, ac a daenasant Gristionogaeth yn mhlith y Bataviaid, Belgiaid, a llwythau o'r Almaeniaid, yn y canrif hwn. Yn mhlith eraill, enwir yr hyglod Wilibrord, yr hwn a hanai o'r Saeson. Efe, gydag un-ar-ddeg o'i gyfeillion monachaidd, a aethant i Friesland a rhanau o Denmark; pa rai, wedi dyoddef llawer o flinderau ac erledigaethau, a fuant yn foddion i osod i fynu eglwysi Cristionogol yn y gwledydd hyny. A Wilibrord a urddwyd yn archesgob yn Utrecht, o fewn Batavia, lle y gorphenodd ei ddyddiau mewn oedran teg.

* Bernir fod yn monachdy Bangor y pryd hwn tu ag un cant ar hugain o fonachod, pa rai a fuant feirw bron i gyd trwy y galanasdra hwn. Y rhai pleidgar i eglwys Rhufain ydynt yn fawr am e-gusodi Awstin oddi wrth fod ganddo un llaw yn y rhyfel hwn, gan geisio haeru ei fod wedi marw cyn hyny. Eithr haneswyr credadwy a ddangosant ei fod yn fyw y pryd hwnw; a rhai a ânt mor bell â dywedyd ei fod gyda'r fyddin Saesonig, yn ei hannog i gyflawni ei gorchwyl gyda ffyddlondeb; ac mai yn y flwyddyn 611, yn mhen saith mlynedd wedi yr ymladdfa hon y bu farw.

† Y Pabyddion a arferent eillio eu gwallt ar lun coron ar eu coryn, yr hon a alwent yn goron St. Pedr; eithr yr hen Gymry a eillient eu gwallt yn lled lwyr. Y gwahaniaeth hwn, a'r cyffelyb, oedd yn ddigon, yn eu barn hwy, i gau allan o Baradwys! Dyma y fath athrawiaethau, gan mwyaf, oedd yn cael eu cyboeddi gan gennadau eglwys Rhufain yn mhlith y Saeson ac eraill.

Y mae yn rhaid i ni edrych ar lwyddiant y cennadau hyn fel yn dra annhebyg i eiddo yr apostolion gynt. Y rhai yma oeddynt, yn mhob lle, yn gyffredin, yn ymdrechu yn flaenaf am ennill clustiau y tywysogion, a hyny nid trwy ddangos iddynt syml wirioneddau yr efengyl, ond trwy osod ger eu bron lawer o ffug-wyrthiau, a chofrestriad o saint ag oeddynt yn noddwyr ac yn amddiffynwyr iddynt, yn fyw ac yn feirw, a goruchel awdurdod eglwys Rhufain i gau ac agor pyrth dedwyddwch yn ol ei hewyllys, yn erbyn ei gwrthodwyr ac o flaen ei phleidwyr. Mor fuan ag yr ennillent y tywysogion, dysgent hwy i osod allan gyfreithiau o'u gorseddfeydd i ddychwelyd eu holl ddeiliaid, neu fod dyoddef cospedigaeth am beidio credu yr un modd â'u llywydd, ac am anghydffurfio âg ef yn eu hymarferiadau crefyddol. Dyma y moddion trwy ba rai y dygwyd y Saeson, a'r rhan fwyaf o drigolion Europe, i gofleidio crefydd; a thrwy hyn y bu gan yr eglwys Babaidd law fawr yn sefydliad pob llywodraeth wladol a threfn grefyddol yn y parthau hyn o'r byd; a'r llywodraethau gwladol oeddynt yn unol yn ei gosodiad ar ei gorsedd, gan gydnabod ei huchafiaeth, yr hon a gyfrifid yn ben ar yr eglwys.*

Llawer o'r monachod a ymddygasant yn dreisiol a gormesol iawn yn eu gwaith yn gosod i fynu eu crefydd mewn amryw wledydd, gan ddangos yn amlwg mai nid lleshau eneidiau y bobl oedd mewn golwg, ond chwanegu eu cyfoeth eu hunain, a gosod i fynu drais-lywodraeth ar eu proselytiaid ac ar y gwledydd yn mha rai y llwyddent, dan fantell o grefydd. Yr Iuddewon oeddynt yn dra lluosog trwy bob gwlad y pryd hwnw, fel y maent yn bresennol: eithr nid oedd ond ychydig o honynt yn cael eu dwyn i dderbyn Cristionogaeth, oddi ar argyhoeddiad o'i gwirionedd. Meddylir fod diryw-iad cyffredin y Cristionogion, a'u hymddangosiad eilunaddolgar, yn gymmaint tramgwydd iddynt, fel na allent feddwl am gydffurfio â hwy. Yr oeddynt yn gorfod dyoddef llawer oddi wrth y tywysogion Cristionogaidd yn y naill fan a'r llall. Heraclius, amherawdwr y dwyrain, a orchymynodd, trwy gynhyrfiad yr athrawon Cristionogol, ddwyn lluoedd o honynt i'r addoldai, a'u bedyddio trwy drais. Yr ymddygiadau ffiaidd, adgas, ac annynol hyn a arferwyd tu ag at lawer yn yr Hispaen a Gaul, yn mha leoedd y dyoddefodd llawer o honynt y triniaethau gwaethaf am anghydffurfio. Y cyfryw oedd echryslonrwydd yr ymddygiadau hyn tu ag attynt, fel yr oedd Pabau Rhufain eu hunain yn ei ffieiddio ac yn ei warafun.†

Yr oedd dysgeidiaeth yn y canrif hwn, yn ei gwahanol ganghenau, wedi dyfod yn dra isel ei sefyllfa, fel nad galluadwy dirnad pa mor helaeth y llywodraethai tywyllwch ac anwybodaeth ar bob graddau o ddynion. Yr ychydig belydr o oleuni oedd etto yn aros heb fachludo, a arosai o fewn y monachlogau, yn mhlith y monachod, a hyny yn benaf yn y gorllewin. Er gwneuthur cyfreithiau nad oedd neb i fod yn abadau, i lywyddu mewn monachdai, nac i'w dewis i swyddau sanctaidd yn yr eglwys, ond dynion o ddysg, etto y mae yn amlwg yr esgeulusid y rhai hyn yn gyffredin: canys yn mhlith y rhai a-broffesent eu bod yn awduron, nid ymddengys fod neb yn feddiannol ond ar ychydig o ddysg a doniau, nac ychwaith yn meddu ar olygiadau cywir ar neb pethau perthynol i grefydd, oddi gerth rhyw gymmysgedd tywyll ac annhrefnus.‡ Theodore o Tarsus, monach Groegaidd, yr hwn a godwyd i archesgobaeth Caergrawnt, yn yr ynys hon,

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. pp. 155, 206. † Ibid, vol. ii. p. 156. ‡ Ibid, vol. ii. p. 156.

tua'r flwyddyn 668, oedd gyda y blaenaf a ymddysgleiriodd yn y canrif hwn. Efe a ymdrechodd, yn ol ei olygiadau ef ar grefydd, i ddwyn diwygiad mewn amryw bethau. Cyhoeddodd lyfr, yn cynnwys deddfau penydiol ag oedd mewn arferiad yn yr eglwysi yn mhlith y Groegiaid y dyddiau gynt, y rhai oeddynt hollol anadnabyddus o'r blaen i'r Lladinwyr, ac yn ddiymarferiad yn yr eglwys yn gyffredin y pryd hwnw. Gwedi eu cyhoeddi, gwnaethant gryn gynnwrf dros amser; a daethant i gymmeradwyaeth gan lawer.* Ond ar y cyfan, nid oedd yr esgobion a fedrai gyfansoddi iddynt eu hunain ryw fath ar araeth neu bregeth, i'w thraddodi i'r bobl ond anaml iawn; eithr fel na roddent heibio yn hollol y gwaith o bregethu, hwy a arferent gymmeryd darnau allan o waith Augustine a Gregory, i'w darllain yn ddiflas i'r gwrandawyr, y rhai a elwid yn *Homiliau.* Tua'r amser hwn dechreuodd yr arferiad o ddarllain pregethau, yn gystal â darllain gweddiau mewn addoliad cyhoeddus, y rhai a darddasant oddi wrth yr un achosion. Yr hyn oedd fwyaf cyfrifol mewn awduron yn yr amser hwn oedd, bod yn fedrus yn eu ffug-hanesion am eu saint dychymmygol, ac mewn chwilio allan ddigon o goeg-chwedlau, a medrusrwydd i osod y rhai hyn allan yn eu hysgrifau gyda hyawdledd fel gwirionedd. Ysgrifenwyr yr oes hon a dreulient eu hamser a'u doniau i ddwyn hyn oddi amgylch, yn lle meithrin dim a fyddai yn wir fuddiol i'r oes honno, na'r oesau dyfodol. Y rhai a lanwent y sefyllfaoedd uchaf yn yr eglwys oeddynt yn anwybodus o'r egwyddorion blaenaf mewn dysgeidiaeth; a chymmaint oedd yr arferiad, fel nad ystyrient yn un anmharch iddynt fod felly: eithr addefent hyny yn y modd mwyaf cyhoeddus, fel y ceir hwy yn aml mewn cymmanfaoedd yn dywedyd,—*Yr wyf fi, esgob y lle hyn a'r lle, yn arwyddo hyn trwy hwn a hwn, am na fedraf ysgrifenu fy hun.* Arferent bryd arall ddywedyd fel hyn:—*Ni allai esgob y lle hyn a'r lle ysgrifenu ei enw; gan hyny yr wyf fi, yr hwn a enwir isod, yn arwyddo y weithred hon drosto.*†

Yn chwanegol at yr hyn a welsom eisioes o'r athrawiaeth a gyhoeddid y dyddiau hyny yn yr eglwys gatholig, sylwir yma ar yr hyn a gyhoeddai St. Eloi, esgob Noyon, yr hwn a ystyrid yn un o'r dynion mwyaf yn yr oes honno, o ran ei ddeall a'i dduwioldeb. Yn mhlith amryw rinweddau a briodolir iddo gan hanesydd ei fywyd, dywedir i'r Arglwydd roddi iddo ddawn i chwilio allan yn mha le y gorweddai saint a merthyron, luaws, trwy arogliad, pa rai a orweddent yn guddiedig oddi wrth bawb eraill er oesau lawer! Gwedi iddo ef gael allan yn mha le yr oeddynt, rhoddid iddynt adgyfodiad buan; a haerir i'w gweddillion fod yn fendithiol i lawer, yr hyn sydd ry wrthun i'w gredu. Eithr dir yw, mai trwy y fath dwyll â hwn y dyrchafwyd ei glod ef, y sicrhawyd awdurdod gwyr llên, ac y chwanegwyd cyfoeth yr eglwys gatholig. Darluniad Eloi o Gristion-sydd hynod, ac yn brawf eglur o'r fath olygiadau ag oedd ganddynt ar nattur crefydd y pryd hwnw. "Cristion da," medd ef, "yw yr hwn sydd yn dyfod i'r eglwys yn fynych, ac yn dwyn ei offrwm a'i roddi ar allor Duw—nas rhyfyga i archwaethu o gynnyrch ei faesydd, nac o ffrwyth ei lafur mewn dim, heb ddwyn yn gyntaf o hono offrwm i'r Arglwydd—a ymgeidw mewn diweirdeb perffaith, hyd yn nod oddi wrth ei wraig ei hun, am ddyddiau lawer, cyn dyfod y gwyliau cyssegredig, fel y gallo y pryd hwnw nesâu at allor Duw

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 182.

† Jones's History of the Christian Church, vol. i. p. 417.

yn ddihalog, gyda chydwybod ddiofal—ac a fedr adrodd y credo a gweddi yr Arglwydd." Drachefn efe a ddywed,—"Gwaredwch eich eneidiau oddi wrth y gospedigaeth haeddiannol i chwi am eich pechodau, tra y mae genych y moddion. Offrymwch eich degymau a'ch rhoddion i'r eglwys. Goleuwch y canwyllau yn ol eich gallu yn y lleoedd cyssegredig. Deuwch yn fynych i'r eglwys, a gweddiwch gyda phob gostyngeiddrwydd ar y saint am eu nawdd a'u hamddiffyn. Os gwnewch y pethau hyn, yna gellwch sefyll o flaen y Barnwr yn nydd mawr ac ofnadwy y farn, a dywedyd yn hyderus, Dyro, Arglwydd; canys nyni a roddasom i ti."* Cymmaint â hyn am athrawiaeth yr hwn a gyfrifir yn un o oleuadau mwyaf yr oes sydd dan ein sylw, a hyny nid yn unig yn nghyfrif ei gydoeswyr, eithr hefyd a ddyrchefir yn uchel gan yr hanesydd Milner; o herwydd ei sêl, ei dduwioldeb, a'i lwyddiant gweinidogaethol.† Ond yr hyn oedd ynddo yn rhinwedd ag a'i mawr gymmeradwyai yn ei olwg ef, yn ddiau, oedd, ei wresogrwydd dros drefniad eglwysig o sefydliad gwladol ac awdurdod esgobaethol. Eithr ni welir yn narluniad Eloi o Gristion da, air o sôn am gariad at Dduw—ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist, hunan-ymgyflwyniad iddo, ymostyngiad i'w ewyllys, nac ufudd-dod i'w gyfreithiau—na chariad nac haelioni tu ag at ein cydgreaduriaid: ond efe a esyd grefydd yn hollol mewn dyfod yn fynych i'r eglwys—dwyn offrymau i'r allor—goleuo canwyllau yn y lleoedd sanctaidd—gweddio ar y saint, a'r cyffelyb wag ac ofer ymarferiadau.

Y defodau a elwid yn grefyddol, oeddynt wedi chwanegu i rifedi aneirif, a chwedi suddo i waelder a gwarth na oddef gwylder mo'u hadrodd. Nid oedd rif ar eu gwyliau, y rhai a sefydlasant mewn coffadwriaeth am bren y groes, am esgyrn y meirw, am weithrediadau eu saint, a'r hyn a ddygwyddodd iddynt. Lluaws o'r rhai hyn a gedwid gyda rhwysgfawredd anarferol, trwy yr ymarferiadau mwyaf llygredig, er boddhau y Paganiaid dychweledig, yn wyneb y golled a gawsent yn nileëad eu gwyliau paganaidd trwy ddyfodiad Cristionogaeth. Y rhai a enwid yn Gristionogion nid yn unig a efelychasant y cenhedloedd mwyaf llygredig yn eu hymarferiadau ynfyd a ffiaidd ar yr uchel wyliau hyn, eithr a aethant felly yn llawer pellach na hwynt-hwy. Er siampl o hyn, coffeir eu dull, mewn llawer o eglwysi yn Ffraingc, yn cadw gwyl yr asyn, er coffadwriaeth am ffoëdigaeth Mair Forwyn i'r Aipht; ar ba un y gwisgent ferch mewn dillad wedi eu harddu â phob lliwiau, â phlentyn bychan yn ei breichiau; a gosodid hwy ar gefn asyn wedi ei brydferthu â phob rhyw addurniadau ymddangosiadol. Arweinid yr asyn gyda gorymdaith trefnus, mewn rhwysgfawredd, i'r eglwys ac at yr allor. Yno cyflawnent yr hyn a alwent yn wasanaeth crefyddol, trwy ddarllain yr uchel offeren, pryd yr oedd yr asyn wedi ei ddysgu i benlinio mewn lle cyfleus wrth yr allor. Gwedi hyn canent emyn o fawl iddi; yr hyn oedd nid yn unig yn wageddus a phlentynaidd, ond hefyd yn llygredig ac yn annuwiol. Wrth derfynu, yn lle darllain y gollyngdod cyffredin, yr offeiriaid a ruent dair gwaith fel asyn; a'r bobl oll a'u hattebent dair gwaith yn yr un modd!‡ "Pob peth ag oedd yn sanctaidd mewn crefydd," medd Voltaire, pan yn dywedyd am yr amseroedd hyn, "oedd wedi ei aflewyrchu gan yr ymarferiadau mwyaf cywilyddus ac ynfyd, trwy holl wledydd y gorllewin. Yn y rhan amlaf o'r eglwysi yr oedd gwyl yr ynfydion a'r asynod wedi ei sefydlu.

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 177.

† Milner's Church Hist. vol. iii. p. 116.

‡ Robertson's Hist. of Charles V. vol. i.

Ar ddyddiau arbenigol yr wyl hon, arferent wneuthur rhyw un o'r ynfydion mwyaf i ymddangos fel esgob; ac arweinient asyn i mewn i'w heglwysi, wedi ei wisgo â mynygl-dorch aur, a chappan pedwar-ochrog ar ei ben. Yna byddent mewn cynghanedd yn dawnsio ac yn gwledda ar yr allor. Gloddesta, a phob aflendid a choeg-chwarëyddiaethau, oedd yr holl ymarferiadau a gyflawnid ar y gwyliau hyn. Parhaodd yr ymarferiadau llygredig hyn mewn amryw esgobaethau am fwy na saith cant o flynyddau. Pe gwnaem ond sylwi ar y pethau hyn yn unig, gallem feddwl ein bod yn darllain hanes am yr Hottentotiaid a'r Negröaid; canys dir yw nad oedd eu hymddygiadau nemawr gwell na'r eiddynt hwy."*

Y pethau hyn a ddangosant wir a phriodol agwedd crefydd y dyddiau hyny yn yr hyn a elwir yn eglwys gatholig, fel nad rhaid adrodd am yr holl goeg-addurniadau â pha rai yr ymgeisient brydferthu eu lleoedd addoliad, a'r gwisgoedd yn y rhai y gwasanaethent, fel yr oeddynt yn llawer tebyccach i chwareuwyr nag i weinidogion Crist yn dwyn yn mlaen addoliad Duw. Teilynga hyn sylw pob darllenydd,—sef, fod hanesyddiaeth yn eglur ddangos, pan y mae ysbryd a bywyd gwir grefydd yn colli o'r eglwysi, fod dynion yn mhob oes yn gosod mwy o bwys ar addurniadau eu lleoedd addoliad, a gwisgoedd eu gweinidogion; a'u bod yn cynnyddu mewn gwychder a defodau allanol, pan yn ymddyeithrio oddi wrth syniadau cywir a theimladau duwiol. Yr oedd yn dybiaethol, yn mhlith y cenhedloedd, yn gystal â'r Iuddewon, (o ba le y daeth hyn y mae yn amhëus) fod noddfa i droseddwyr i gael yn wyneb cosp haeddiannol, trwy ffoi i le addoliad, fel y sylwasom yn barod; ac amryw a wnaethant hyny yn fynych yn mhlith Cristionogion. Ond nid oedd un gyfraith eglwysig na gwladol am hyny, hyd y canrif hwn; eithr yn unig y dybiaeth o sancteiddrwydd lle, ac arferiad gwlad, a roddasai ddiogelwch i lawer yno yn flaenorol. Eithr y pryd hwn gosodwyd cyfraith i amddiffyn bywyd y sawl a ddihangent iddynt, pa ddrwg bynag y byddent euog o hono. Agorodd hyn ddrws ëang i bob llygredigaeth, amlhaodd ddyhirod diffaith, a dirymodd awdurdod swyddwyr gwladol, gan fwyhau parch ac awdurdod swyddogion yr eglwys, dan nodded pa rai yr oedd y gwaethaf o ddynion yn cael byw yn ddiogel.†

Addoliad arwydd-luniau a gynnyddodd yn fawr, a chyda'r cyflymdra mwyaf, yn yr hyn a elwid yn eglwys gatholig, yn y canrif hwn. Meddylir fod yr eglwysi er yn forau, yn y pedwerydd canrif, mewn rhai manau, yn arfer lliwio arwydd-luniau ar furiau eu haddoldai, a gosod i fynu ynddynt ddelwau; etto nid oedd dim a allai fod yn mhellach oddi wrth eu meddyliau y pryd hwnw na rhoddi iddynt un math o addoliad. Eithr i'r graddau y cynnyddodd dirywiad oddi wrth fywyd a syniadau gwir grefydd yn mhlith dynion, y mwyhaodd anwybodaeth a thywyllwch yr amseroedd, y chwanegodd gormes a thrais-lywodraeth yr eglwys gatholig, ac yr amlhaodd defodau coel-grefyddol; ac yn eu plith hwy daeth yn lladradaidd ac yn gyflym eilunaddoliaeth i'r holl eglwysi, nes eu llenwi âg eilunod ac â delwau. Gwedi i Helena dybied iddi gael gafael ar y groes, ar yr hon y bu ein Harglwydd farw ar fryn Golgotha, dechreuwyd ei pharchu fel peth cyssegredig, gan briodoli iddi lawer o wyrthiau a rhinweddau iachusol, yn gystal ag y gwnaent i weddillion y saint a'r merthyron. Ond pan nad allent gael y groes hon, na darnau o honi, na neb rhanau o weddillion y

* General History, vol. i. chap. 35. † Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 185.

merthyron i bob lle yr ymofynent am danynt, daethant i ddychymmygu y gwnaethai arwydd-luniau o honynt atteb yr un dybenion, er y golygent fod y rhinwedd yn aros yn barhaus, nid yn yr arwyddion, ond yn y personau a'r pethau a arwyddent. Etto meddyliasant mai y ffordd orau a sicraf iddynt gael lleshad oddi wrth y pethau hyn oedd, rhoddi parch mawr i'w harwyddion. Mewn canlyniad, y mae yn anhawdd dywedyd, ac y mae yn anfuddiol ymdrechu adrodd, y modd yr ymwylltiodd y llywyddion a'r cerfwyr i faesydd dychymmygion, i chwilio allan arwydd-luniau i osod allan Mair mam yr Iesu—y gwahanol saint a'r merthyron—ïe, a'r Duwdod ei hun, yn ei nattur, ei briodoliaethau, a'i berthynasau—a phob gwahanol fodau, trwy bob lliwiau a cherfiadau harddwych. Trwy hyn ymlithrodd yr eglwysi, yn y canrif dan sylw, a'r un canlynol, i'r fath anwybodaeth ac ysbryd coelgrefyddol, fel y daeth y bobl yn gyffredin i aros ac ymfoddloni yn yr arwyddluniau gweledig a'r delwau dychymmygol hyn, ac i anghofio yr hyn a arwyddent. Adferwyd yn y modd hwn yn yr hyn a elwid yn eglwys Gristionogol holl ddefodau ac arferiadau y Paganiaid gynt, trwy blygu gliniau o flaen delwau, a thalu iddynt addunedau mewn mawl a gweddiau, goleuo canwyllau iddynt, a gwneuthur arogldarthiadau. Er symmud ymaith bob amheuaeth a phetrusder o feddyliau y bobl gyffredin yn nghylch cyfreithlondeb yr ymarferiadau hyn, yr athrawon a'r monachod oeddynt yn ymarddelwi i weledigaethau a ffug-wyrthiau er eu cadarnhau am eu dwyfol osodiad; a gwnaethwyd i lawer o'r delwau i ffug-symmud, ymddiddan, cerdded, a gwaedu; a chan y perthynai y pethau hyn iddynt, nid oedd le i ammau eu dwyfoldeb, a'u bod yn briodol wrthddrychau addoliad.*

Ond gan y perthyna hyn yn fwy neillduol i ganrif arall, pan y gwelir ef yn ei nerth, fe'i gadewir hyd yn hyny, ac eir i sylwi ar godiad i fynu y llywodraeth FAHOMETANAIDD, yr hon a ddygodd un o'r cyfnewidiadau mwyaf mawr a rhyfedd yn amgylchiadau y byd a'r eglwys.

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 352

PENNOD XXXV.

Lle y traethir am Enedigaeth Mahomed—ei Deulu—ei ddygiad i fynu—Dechreuad ei Weinidogaeth—ei Gymmeriad—Llwyddiant ei weinidogoeth—ei Goran—Newidiad ei Oruchwyliaeth, a'i Gyfrifiad newydd o amser—ei waith yn gosod i fynu ei Lywodraeth—ei Ryfeloedd, a'i Lwyddiant ynddynt—Dechreuad ei Ryfeloedd yn erbyn Syria, ac amherodraeth Rhufain gynt—ei Farwolaeth—Ymraniad ei ganlynwyr ar ol ei farwolaeth—Llwyddiant amherodraeth y Saraceniaid hyd ddiwedd y Canrif hwn, yn nghyd ĉ'r Achosion o'u llwyddiant.

GANED MAHOMED yn y flwyddyn 569, neu 570, yn Mecca, dinas o fewn Arabia Ddedwydd, yr hon sydd wlad ëang rhwng y Môr Coch a Llyngclyn Persia. Arabia a boblogid, gan mwyaf, fel y tebygid, y pryd hwnw, gan deulu Ismael, a elwid Saraceniaid, pa rai oeddynt yn byw yn wahanol lwythau, fel yr oeddynt er y dechreuad, yn ol y brophwydoliaeth am danynt er y cynfyd;* weithiau mewn rhyfel â'u gilydd, a phryd arall mewn heddwch ac undeb, yn rhyfela yn erbyn eu cymmydogion.† Ni buasent erioed cyn hyn dan unffurfiad llywodraeth wladol, llai o lawer mewn un ffurf o lywodraeth grefyddol. Er y meddent rai defodau cyffredinol yn eu plith, etto yr oedd Sabæaeth, Magiaeth, Iuddewaeth, a Christionogaeth yn cael eu proffesu gan wahanol lwythau a breswylient y wlad honno. Bernir fod teulu Mahomed yn Sabæaid, sef addolwyr gwahanol eilunod, a arwyddid trwy wahanol ddelwau. Hanai efe o lwyth Koreish, ac o deulu Hashem, yr enwoccaf yn mhlith yr Arabiaid—tywysogion Mecca, ac amddiffynwyr etifeddiaethol i gyfreithiau eu sefydliadau crefyddol. Enw ei daid oedd Abdol Motaleb, mab Hashem, tywysog Mecca; i'r hwn yr oedd chwe merch, a thri-ar-ddeg o feibion grymus; a bu efe byw nes oedd yn gant a deg mlwydd oedd. Enwogodd ei hun yn fawr yn mysg ei lwyth trwy waredu eu dinas trwy ei haelioni a'i ddewrder milwraidd. Yn yr ystyr flaenaf, achubodd hwy trwy ddwyn ymborth iddynt yn wyneb prinder a newyn; yn yr ail, dygodd iddynt waredigaeth rhag ymosodiad aruthrol yr Abyssiniaid arnynt, pa rai a broffesent ryw fath o Gristionogaeth, ac a annogid i ddinystrio Mecca am fod ei thrigolion yn eilun-addolwyr; eithr amddiffynwyd y lle yn wrol ac yn effeithiol, trwy ddewrder Abdol Motaleb. Pan yn ammodi heddwch, ei archiad blaenaf oedd, a'r i Abrahah, blaenor

* Gen. xvi. 7—12. a xvii. 20.

† Nid oes un cenedl ar y ddaear, yn wyneb pob cyfnewidiadau a fu arni, wedi cadw ei defodau a'i harferion hyd heddyw, fel hon, beb gael ei hollol ddarostwng, na'i dwyn dan deyrnged gan y Caldeaid, y Persiaid, y Mediaid, y Groegiaid, na'r Rhufeiniaid, er ymdrechu gwneud hyny.—*Bishop Newton's Exposition of the Prophecies.*

byddin yr Abyssiniaid adferu iddo ei wartheg, a gymmerasent hwy ymaith. "Paham y gorchymynwch eich gwartheg yn mlaenaf, ac nid arbediad teml eich duwiau," ebe Abrahah, "yr hon wyf yn fygwth ei dinystrio." "O herwydd," ebe y tywysog gwrolaidd, "fod y gwartheg yn eiddo fy hun, a bod y *Cäaba*, neu y deml, yn eiddo y duwiau, pa rai sydd ddigonol i ofalu am yr eiddynt eu hunain rhag dinystriad a chyssegr-ladrad.

Abdalah, tad Mahomed, oedd fab hyfrydwch ei dad, yn harddwch ei genedl, ac yn ddymuniant ei wlad. Efe a ymbriododd âg Amina, yr hon oedd ferch o deulu urddasol y Taharitiaid; ond buant feirw eill dau pan yn ieuaingc iawn, gan adael eu hunig blentyn, Mahomed, yn faban amddifad; ac yn fuan bu farw ei daid. Gan fod iddo ewythrod, y rhai oeddynt gadarn ac enwog yn mhlith y llwythau, nid oedd yn rhaniad yr etifeddiaeth ond pump o gamelod, ac un gaethes o Ethiopia, yn dygwydd i ran Mahomed ieuangc. Eithr dygwyd ef i fynu dan ofal Aba Taleb, y galluoccaf a'r enwoccaf o'i ewythrod. Yn y bummed flwyddyn ar hugain o'i oedran, efe a aeth i wasanaeth pendefiges gyfoethog ac enwog yn Mecca, o'r enw Cadijah, yr hon a wobrwyodd ei ffyddlondeb â'i llaw mewn undeb priodasol. Trwy hyn, yn nghyd â'r rhodd ardderchog a gwerthfawr yr anrhegodd ei ewythr ef â hi ar ddydd ei briodas, dyrchafwyd Mahomed i gyfoeth, mawredd, ac enwogrwydd yn mhlith ei deulu, yn gyfattebol i'w ddechreuad urddasol; ac ystyrid mab Abdalah y blaenaf yn ei lwyth. A'r bendefiges foneddigaidd yr hon a fu yn ddechreu i'w godiad, a ymhyfrydai yn ei rinweddau teuluaidd a pherthynasol, hyd y ddeugeinfed flwyddyn o'i oedran, pan ddechreuodd osod ei hun allan fel PROPHWYD, ac y cyhoeddodd ei GORAN.

Darlunia cymdeithion Mahomed ef fel yn feddiannol ar harddwch anghyffredin yn ei berson—rhodd na ddiystyrir gan neb, ond y sawl sydd heb ei meddu. Cyn y llefarai, meddiannai yr areithydd holl serchiadau ei wrandawyr o'i du, pa rai a fawrygent ei bresennoldeb, awdurdod ei osgedd fawreddog, ei lygaid treiddgar, ei wênau serchus, a'i farf lefn, fel yr argraffai ei wyneb-pryd y teimladau gorau ar bob calon a edrychai; a'i ysgogiadau hoffus a roddai rym i'r oll a ddywedai. Yn swyddau cymdeithasol ei fywyd cydffurfiai yn fanwl â defodau moesol a pharchus ei wlad. Cydnabyddai y cyfoethog a'r anrhydeddus yn barchus, ac addurnai â'i ymostyngiad caredigol y gwaelaf a'r tlottaf o ddinasyddion Mecca. Ei gof oedd gynnwysfawr a daliadol; ei synwyr oedd barod, grymus, rhwydd, a chymdeithasol; ei amgyffredion oeddynt oruchel; a'i farn yn gyflym, golau, a phenderfynol. Yn gyssylltiedig â'r holl gyfleusderau ardderchog hyn, barbariad annysgedig oedd Mahomed, neu o leiaf yn meddu ond ar ychydig wybodaeth;† yr hyn a'i cadwodd yn nyddiau ei ieuengctid o fewn terfynau nattur yn unig, rhag ffurfio ei feddyliau oddiar olygiadau ar wroniaid a dewrion y cyn-oesoedd, yr hyn a roddir i ni trwy ddysglaer-ddrychau dysgeidiaeth. Eithr yr oedd yn agored iddo gyfrol fawr nattur, ac ymddygiadau ac ysgogiadau ei gydoeswyr, er ffurfio ei feddyliau a chynnyddu ei weithrediadau.

Pan tua thair blwydd ar ddeg oed, tramwyai gyda minteioedd ei ewythr i Syria, mewn achos masnachol. Gwedi gorphen eu marchnad yn Bostia, Damascus, a lleoedd eraill, dychwelodd yn ol i'w wlad ac at ei alwedigaeth.

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 405—442.

† Er dangos y rhaid fod y Coran o Dduw, haerir yn aml fod ei awdwr yn ddiddysg; eithr eraill a haerant mai annichonadwy bod un o'i sefyllfa ef yn fasnachwr heb wybod rhyw gymmaint ar lyfr ac egwyddorion rhifyddiaeth o leiaf.—*Gwel y Ddadl yn Gibbon's Decline and Fall, &c. vol.* iii. *p.* 407.

Yr oedd er yn ieuangc o duedd fyfyrgar ac o ogwyddiadau crefyddol; a phob blwyddyn, er yn more ei einioes, enciliai oddi wrth ei berthynasau, ei wraig, a'i gymdeithion, yn mis Ramadan, i Ogof Hera, yr hon sydd dair milltir o Mecca; yn mha le y llanwyd ef â phenboethder, ac â'r dybiaeth o fod ysbryd yn ymgynghori âg ef. Yn mhen amser, yn y lle hwn y ffurfiodd ac y meithrinodd y cyfundraith hwnw o grefydd a elwir ISLAM, neu Fahometaniaeth, yr hon a gynnwysir yn y CORAN; egwyddorion sylfaenol pa un yw,—NAD OES OND UN DUW, AC MAI MAHOMED OEDD EI BROPHWYD—pa rai a gynnwysant wirionedd tragywyddol, a thwyll angenrheidiol er atteb ei ddybenion. Y cyfryw ydyw egwyddorion dechreuol Mahometaniaeth, eglurhad a helaethiad ar ba rai, yn nghyd âg amryw reolau perthynol iddynt, a gynnwysa y llyfr a elwir y Coran. Mae llawer o ddadl wedi bod yn mhlith dysgedigion, pa un a ellir ystyried Mahomed yn briodol a hollol dwyllwr bwriadol, ai ynte a oedd yn meddwl fod gwirionedd yn y gweledigaethau a ymarddelwai iddynt, a'r dadguddiedigaethau a gyhoeddai. Y farn flaen am dano sydd fwyaf cyffredin.

Prophwyd Mecca a hollol ymwrthodai â phob delwau ac arwydd-luniau, ac â'r dyb o fod dynion yn wrthddrychau addoliad, yn gystal â'r sêr a'r planedau, ar yr egwyddor resymol hon,—sef, fod pob peth a godai i fynu, i fachludo—fod i'r hyn yr oedd iddo ddechreuad, wrth nattur, ddiwedd—fod i'r hyn oll a aned, farwolaeth—a bod i'r hyn oll sydd lygredig, ddadfeiliad a darfodedigaeth. Yn ol yr hanes a rydd ei ganlynwyr am ei ddywediad yn nghylch ei Goran, dywedai ei fod yn anghrëadigol a thragywyddol, o ran ei gynnwysiad, wedi hanfodi yn hanfod y Duwdod, a chwedi ei ysgrifenu â phin o oleuni ar daflen tragywyddol arfaeth. Y gyfrol sanctaidd hon, yn ol eu barn hwy, a ddygwyd i lawr mewn gorchudd o sidan, wedi ei haddurno â gemau, gan yr angel Gabriel, i'r nefoedd isaf; ac a eglurwyd ganddo bob yn bennod ac adnod i brophwyd Arabia, o radd i radd, yn y naill amser a'r llall, am yspaid tair blynedd ar hugain. Priodola canlynwyr Mahomed i Awdwr nattur, fodoliaeth tragywyddol ac anfeidrol, heb un ffurf na lle neillduol; heb ddeilliad na thebygolrwydd iddo; yn bresennol yn mhob man i'n meddyliau; yn hanfodi ynddo ac o hono ei hun, o angenrheidrwydd; ac yn gwbl ymddibynol arno ei hun am berffeithderau nattur a moesoldeb. Yr athrawiaeth o arfaeth dragywyddol, ac etholedigaeth bersonol a neillduol, a briodolir ganddynt i Dduw, yn ddios: ond y maent mewn dyryswch ac ymdrech i geisio cymmodi yr hyn sydd anhawsdra cyffredin,—sef dyfodiad pechod i'r byd, yn wyneb llywodraeth alluog ac anfeidrol dda; a pha fodd i gyssoni rhyddid dyn a'i gyfrifoldeb, â rhagddarbodaeth Duw o bob peth. Y gwirioneddau hyn, meddant, a gyhoeddwyd gan brophwyd Mecca am Dduw, ac a gredir iddynt gan ei ganlynwyr hyd heddyw.

Dywedir i gynnwysiad y Coran gael ei ysgrifenu ar y cyntaf yn wahanol ranau, ar ddail y balmwydden, âg esgyrn ysgwyddau defaid; ac i'r prophwyd ymddiried ei ofal i un o'i wragedd, tra bu efe byw: ac yn mhen dwy flynedd wedi ei farwolaeth, casglwyd, ysgrifenwyd, a chyhoeddwyd hwy gan Abubeker ei ganlyniedydd, mewn un gyfrol. Ymddengys yr ymddibynai Mahomed lawer am lwyddiant ei gennadwri, ar ardderchogrwydd a rhagoriaeth ei Goran: canys ymffrostiai yn fynych nad oedd un llyfr yn debyg iddo o ran eglurdeb ei ddadguddiad, purdeb a symledd ei iaith, ac uchelder ei ymadroddion; ac nad oedd Duw wedi rhoddi, nac yn bwriadu rhoddi ei

gyffelyb i ddynolryw. Bernir yn gyffredin iddo dderbyn cynnorthwy oddi wrth rai o'r Iuddewon, a chan rai o'r Cristionogion, o wahanol enwau, yn enwedig oddi wrth un Sergius, a fu un waith yn proffesu Cristionogaeth yn mhlith y Nestoriaid, i wneuthur ei gyfundraith a ffurfio ei lyfr. Y mae yn eglur, o leiaf, fod y Coran yn fath o gasgliad cymmysgedig o Baganiaeth, Iuddewaeth, Cristionogaeth, ac o wahanol gredöau a thraddodiadau crefyddol ag oedd mewn bôd yn mhlith dynolryw y pryd hwnw, wedi eu gosod a'u cyfaddasu er dwyn dynion o wahanol bleidiau a breswylient Arabia, i uno dan lummanau y gau-brophwyd. Yr annhraethol dywyllwch a'r anwybodaeth ag oedd yn toi wyneb y ddaear, yn enwedig y rhanau dwyreiniol o honi, yn nghyd â'r mawr derfysgiadau a'r rhwygiadau crefyddol ag oedd yn hanfodi, a fu yn fanteisiol iawn iddo i ddwyn yn mlaen ei amcanion, ac i sefydlu cymmeradwyaeth ei Goran; yr hwn a gynnwysai y fath ffolineb, gwaelder, ac afresymoldeb, fel y gallesid meddwl na chawsai, mewn oesau eraill, pan y llewyrchai gwybodaeth a dysgeidiaeth, y derbyniad lleiaf.* Gellir ystyried y Coran yn ddwy ran, sef yr hyn yr oeddynt yn gredu, a'r hyn yr oeddynt i ymarfer fel dyledswyddau crefyddol. Traethîr ynddo yn helaeth am yr hyn yr oedd canlynwyr Mahomed i gredu am Dduw, yn ei nattur a'i briodoliaethau—am ei angylion da a drwg—am ei brophwydi—ac am adgyfodiad y meirw—y farn ddiweddaf—a sefyllfa dragywyddol dynion yn ol hyny. Y golygiadau a roddir am Dduw a'i briodoliaethau yn y Coran, sydd yn lled eglur, cywir, a chysson; a phroffesai Mahomed mai amcan ei gennadiaeth oedd, eglurhau iawn gymmeriad y gwir Dduw, a sefydlu ei addoliad yn mhlith dynion, yr hyn a fawr gamddeallid ac a gamddarlunid gan bawb o'r gwahanol bleidiau crefyddol ag oedd y pryd hwnw.

Olrhain ei holl ddychymmygion am bersonau yr angylion, eu preswylfa, a'u gweinidogaeth, sydd fwy nag a ellir ei wneud yn gymmwys yn y llyfr hwn; ond boddlonir y darllenwyr â'r hysbysiaeth ei fod yn dangos yn eglur ei grediniaeth o'u bodoliaeth a'u sancteiddrwydd difrycheulyd.† Golygai nad oedd ond un ffurf o wir grefydd yn bod, a bod mesur o oleuni ar yr un drefn honno, o radd i radd, wedi ei roddi yn mhob oes, er dyddiau Adda, i bedair mil ar hugain a chant o etholedigion,‡ pa rai a wahaniaetha yn ol graddau eu gras a'u rhinweddau. Tri chant ar ddeg o apostolion a anfonwyd, yn ol ei farn ef, i'r byd, a chanddynt gennadwri neillduol at ddynolryw, i'w hargyhoeddi a'u dychwelyd oddi wrth eu heilun-addoliaeth a'u llygredigaeth; can cyfrol a phedair o lyfrau a roddwyd gan yr Ysbryd Glân o oes i oes i'r dybenion hyn; a chwech deddfroddwr o ddysgleirdeb rhagorol, a anfonwyd i'r byd olynol i wneuthur chwech o ddadguddiedigaethau neillduol, a gosod i fynu wahanol ymarferiadau crefyddol: etto oll yn un grefydd sefydlog. Cydnabyddir yn y Coran, Adda, Noah, Abraham, Moses, Crist, a Mahomed, yn eu lle a'u swydd, y naill yn uch-radd i'r llall, a phob un yn brophwyd ac yn ddeddfroddwr; a phwy bynag na chredai hyn am danynt oll, a ystyrid yn mhlith yr anwiriaid. Y Mussulmaniaid a ddysgir gan eu blaenor i gydnabod Awdwr Cristionogaeth yn un a deilyngai barch mawr, etto yn îs-radd i Mahomed ei hun; o blegid mai efe oedd y

* Milner's Church Hist. vol. iii. p. 135. † Buck's Dict.

‡ Bernir y dylasai y geiriau hyn fod yn bedair mil a deugain a chant, gan fod yn eglur fod yma gyfeiriad at Dad. xiv. 1.: canys defnyddiai y prophwyd hwn gymmaint o'r ysgrythyrau ag a fyddai yn gyfleus iddo, yn ei gyfundraith, megys y gwnai eraill.

prophwyd a'r deddfroddwr penaf, a'r diweddaf a anfonai Duw i ddynion ar y ddaear. "Crist Iesu, Mab Mair, yn wir," medd ef, "ydoedd apostol Duw, a'i air, yr hwn a hysbysodd efe i Mair; a'r ysbryd rhagorol a ddeilliai oddi wrtho ef, ydoedd yn un anrhydeddus yn y byd hwn, a'r un a ddaw—ac efe a nesâ yn agos iawn i wyddfod y Duw byw." Er hyny, dywedai nad oedd efe ond dyn marwol yn unig, ac yn nydd y farn y byddai ei eiriau yn aros yn dystiolaeth i gollfarnu yr Iuddewon am ei wrthod, fel prophwyd, a'r Cristionogion am eu bod yn ei barchu fel Mab Duw. "Ei elynion" medd ef, "yn eu llid a ymroddasant yn ei erbyn, gwaradwyddasant ei enw da, ac ymroddasant yn erbyn ei fywyd; eithr ni buant yn euog ond mewn bwriad yn unig: canys rhith, neu ryw un euog arall, a roddwyd i farwolaeth ar y groes yn ei le; a'r sant a drosglwyddwyd allan o'u gafael i'r seithfed nefoedd." Dros chwe chan mlynedd, yr efengyl oedd ffordd y gwirionedd ac iachawdwriaeth; eithr y Cristionogion oeddynt wedi mawr lygru cyfreithiau Crist eu blaenor, a chwedi ymlithro oddi wrth ei siamplau, a'u hanghofio; o herwydd paham yr anfonwyd Mahomed i'r byd, i argyhoeddi yr eglwys, yn gystal â'r synagog, o'u dirywiad a'u gwaith yn halogi eu cyfreithiau gwreiddiol. "Moses a Christ," medd ef, "a lawenychent yn fawr yn y sicrwydd am y prophwyd dyfodol, anrhydeddusach na hwynthwy eu hunain, a'r addewid am y Diddanydd, yr hon a arwyddwyd yn enw, ac a gyflawnwyd yn mherson Mahomed, y mwyaf a'r diweddaf o apostolion y Goruchaf."

Cydnabyddir gan Mahomed, yn ei Goran, adgyfodiad y meirw, y farn ddiweddaf, a sefyllfa ddedwydd neu annedwydd dynion mewn byd arall, fel pethau sicr o gymmeryd lle. Eithr ei olygiadau yn nghylch y cai pawb eu profi wrth eu hegwyddorion cred, y cai pawb a fyddent o'r un gred âg ef eu profi wedi hyny o ran eu hymddygiadau, ac y cai pawb eraill eu taflu ymaith yn hollol fel anwiriaid, pan byddai ei ganlynwyr ef yn croesi yr eigion diwaelod ar bont gul—yr âi pawb a fyddent yn ffyddlon ddilynwyr iddo ef drosodd i'r gwynfyd, ac y syrthiai y neb a fyddai anffyddlon ac anghywir i lawr—y purdan yn mha un yr arosai pawb a fyddai anffyddlon yn eu hymddygiadau, am o naw cant hyd yn saith mil o flynyddau, i'w puro—a'r nefoedd lawn o bleserau cnawdol a addawa efe iddynt i'w mwynhau—yn nghyd â'r saith dosparth o boenau yn uffern, sydd ddychymmygol i'r graddau mwyaf. Gosodai allan yr achubid pawb a gofleidient ei gredo ef, rywbryd, pa mor ddrwg bynag y byddai eu hymddygiadau, trwy rinwedd eu ffydd, a'i eiriolaeth ef drostynt; ond i'r anghredinwyr nid oedd obaith. Cymmaint am y ffydd a ddadguddir yn y Coran; eithr yr ymarferiadau crefyddol a ofynir ynddo, ydynt gweddiau, amryw olchiadau, ymprydiau, elusenau, pererindodau i Mecca, ac enwaediad. Dywedir ynddo fod gweddi yn dwyn dyn hanner y ffordd i Baradwys, ympryd yn ei ddwyn hyd y porth, ac elusenau, &c. yn rhoddi iddo fynediad i mewn. Perthyn i'r Mussulmaniaid, yn ol gosodiad y Coran, wyth neu naw gradd o swyddogion, gan ba rai y gweinyddir eu holl achosion crefyddol a gwladol.

Y mae y cyfundraith a ddadguddir yn y Coran, y cymmwysaf a ellir meddwl am dano er dal gafael ar nwydau dynolryw, trwy y cyhoedda ryfel yn erbyn pawb na chred iddo, ac na dderbyn ei grefydd. Efe a feithrina ei bleidwyr mewn pob meddyliau uchelgais, a chariad at yspeilio—yr hyn oedd yn dra naturiol i'r Arabiaid; ac addawa iddynt bob dedwyddwch anianol, pa un bynag a wnelont ai byw yma gyda'r achos, ai ynte marw

drosto. Rhenir y Coran yn wahanol lyfrau, a dosrenir ef i bennodau ac adnodau. Arwyddir amryw o'r pennodau trwy ryw lythyren neillduol o'r egwyddor, yr hon, meddir, sydd yn cynnwys dirgeledigaethau nad yw yn adnabyddus ond i ychydig nifer. Yn mhen dau can mlynedd wedi marwolaeth Mahomed, casglwyd allan o dri chan mil o gyfreithiau a gosodiadau a dybid eu bod yn deilliaw oddi wrtho ef, yn draddodiadol, ac yn anysgrifenedig, saith mil, tri chant, a phymtheg a thriugain o rai sicr a chywir, meddir, gan Al Boehere, pa rai a elwir SONNA, y rhai a ehangwyd at y Coran gwreiddiol. Ystyrir y Coran yn llyfr mor sanctaidd gan y Mahometaniaid, fel nad ydynt i gyffwrdd âg ef, heb ymolchi; ac nid yw neb arall i gyffwrdd âg ef mewn un wedd, dan berygl eu bywyd, os gwybyddir. Y mae amryw o adysgrifau o hono a broffesir eu gwneud o'r un gwreiddiol, ond nid yn hollol yr un geiriau; a'r esponiadau arno ydynt aneirif yn eu plith hwy. Y maent yn fanwl iawn yn eu cyflawniadau crefyddol. Gweddiant bum gwaith neu chwech bob dydd, yn enwedig ar ddydd Gwener, yr hwn oedd ddydd genedigaeth Mahomed, a dydd gorphwysfa ei ganlynwyr; ar ba amser yr ymgynnullant yn gyhoeddus i'w temlau, pa rai ydynt adeiladau heirdd, ond heb arwydd-luniau ynddynt.

Y prawf cyntaf a wnaeth Mahomed o lwyddiant ei gyfundraith, oedd gyda ei deulu ei hun, trwy ymresymu yn ddirgelaidd â hwy yn nghylch y dadguddiedigaethau a gawsai, er eu hamlygu i'r byd. Gwelodd yn mhlith ei ddychweledigion blaenaf, ei wraig, a chefnder iddo, o'r enw Warakah Ebu Nawfal, yr hwn a fuasai yn proffesu Cristionogaeth, ac oedd ddyn o feddiannau, ac o fesur helaeth o ddysgeidiaeth, fel y medrai ysgrifenu yr iaith Hebraeg yn rhwydd; a Teid Ebu Haretha, ei gaethwas, i'r hwn y rhoddodd efe ei ryddid — yr hyn a ddaeth i fod yn gyfraith yn mhlith y Mahometaniaid, sef fod y caethweision a dderbyniai eu crefydd, i gael mwynhau eu rhyddid; Ali, mab Abu Taleb, yr hwn nid oedd y pryd hwnw ond ieuangc iawn, eithr a ddaeth wedi hyn yn dra enwog yn mhlith y Mahometaniaid; Abu Beker, yr hwn oedd dywysog yn mhlith y Koresiaid; ac amryw eraill, oeddynt enwog yn y teulu hwnw. Y rhai hyn oeddynt flaenffrwyth ei lafur am y tair blynedd cyntaf o'i weinidogaeth. Gwedi hyn meddyliodd ymdrin â'i olygiadau yn fwy cyhoeddus, gan alw ei geraint a'i gyfeillion yn nghyd i wledd a wnaethai iddynt, yn mha un yr areithiodd wrthynt yn y modd canlynol: — "Gyfeillion, nid wyf yn gwybod am un dyn, trwy holl Arabia, a diau nad oes, a ddichon gynnyg y fath rôdd werthfawr, a thrysor mor wynfydedig, i'w gyfeillion, ag a gynnygaf fi i chwi heddyw, — sef, pob gwir ddedwyddwch yn y byd hwn, a'r un sydd i ddyfod. Y Duw Hollalluog a'm gorchymynodd i'ch galw chwi atto ei hun, ac i'w wasanaeth. Pwy o honoch a gyfyd ac a'm cynnorthwya yn y gorchwyl hwn, ac a ddaw yn frawd ac yn rhaglaw i mi yn yr ymdrech?" Ar hyn tewi a wnaethant oll, a synnu, gan edrych y naill ar y llall dros amser. Gwedi hyn, Ali, yr hwn nid oedd ond llangc pedair-ar-ddeg oed, a gododd i fynu, ac a ddywedodd, — "Oh brophwyd y Goruchaf, myfi ydyw yr un a ettyb dy holl ddymuniad;" a chyhoeddodd y bygythion mwyaf ofnadwy yn erbyn pawb a'i gwrthwynebai. Derbyniodd prophwyd Mecca y cynnyg gyda serchogrwydd mawr, ac a archodd i bawb oedd yn bresennol edrych arno a'i dderbyn fel ei gennadwr ef. Ar hyn dechreuodd y presennolion wawdio Abu Taleb, gan ddywedyd y byddai raid iddo ef fod o hyny allan yn ddysgybl i'w fab.

Dyma ddechreuad gweinidogaeth gyhoeddus Mahomed, a'r amlygiad

cyntaf o'i gennadiaeth; cymmerodd hyn le tua'r flwyddyn 612 o'r cyfrifiad cyffredin. Annogodd Abu Taleb ei nai yn y modd difrifolaf i roddi ymaith ei ddychymmygion, ac i ymattal oddi wrth y cynnygiad o ddwyn yn mlaen y fath orchwyl, a ymddangosai iddo ef o ran ei lwyddiant yn anobeithiol. Eithr y dewr ffug-weledydd a attebodd ei hyfforddwr hynafaidd, gan ddywedyd,—"Arbedwch eich gwrth-ddangosiad; canys pe gosodid yr haul ar un llaw i'm rhwystro, a'r lleuad ar y llall, etto ni'm digalonid, ac ni newidid fy meddwl, er fy attal i fyned yn mlaen â'r gwaith a ddechreuais." Pan welodd Abu Taleb, tywysog Mecca, wroldeb a phenderfyniad diysgog ei nai, efe a roddodd heibio ymresymu yn mhellach yn ei erbyn; ond rhoddodd addewid o'i amddiffyniad a'i nodded i'w berson yn wyneb pob ymosodiad a wnaid arno gan ei wrthwynebwyr. Yna yntau a ymroddodd i'r gwaith o bregethu ei egwyddogion yn gyhoeddus, ac ymresymai drostynt yn ddirgel a chyhoedd, yn enwedig ar y gwyliau, pan ddeuai lluaws yn nghyd o'r dinasoedd amgylchol i Mecca, ar eu pererindod i'r Cäaba oedd yno, i dalu eu haddoliad i'r duwiau: ond nid oedd efe etto wedi dechreu lledanu ei egwyddorion trwy rym arfau. Dangoswyd gwrthwynebiad mawr iddo yn Mecca, mewn rhan o herwydd eu sêl dros yr amryw dduwiau; eithr yn benaf o achos cenfigen canghenau eraill o'r llwyth a breswyliai yno yn erbyn dyrchafiad teulu Hasem; am hyny codasant erledigaeth boethlyd yn ei erbyn ef a'i ganlynwyr. Er amddiffyniad Abu Taleb, yr oedd eu bywydau mewn cymmaint perygl, trwy aros yno, fel y ffôdd llawer o honynt i Ethiopia, lle eu derbyniwyd yn garedig gan Nagasha, brenin y wlad honno. Y ffoaduriaid cyntaf a gyrhaeddasant Ethiopia, yn y bummed flwyddyn o'i gennadiaeth ef, nid oeddynt nemawr o rifedi; ond yn y seithfed flwyddyn, chwanegasant i bedwar ugain a thri o wyr, a deunaw o wragedd, a llawer o blant.

Dygwyddodd i'r erledigaeth hon fod er mawr ledaniad i egwyddorion Mahomed; canys dywedir i'r encilwyr hyn broselytio brenin Ethiopia, a llawer o'i ddeiliaid, i fynwesu eu crefydd, ac mai hwy oedd y dychweledigion cyntaf a wnaed tu allan i Mecca, at y grefydd Fahometanaidd. Yr erlidwyr a erfyniasant yn y modd taeraf ar Nagasha, i roddi i fynu y ffoedigion, fel y gallent ddial arnynt; eithr efe nis gwnai er dim. Yn y chwechfed flwyddyn o'i weinidogaeth, cafodd Mahomed y pleser o weled Hamza, un o'i ewythrod, yr hwn oedd wr galluog a cyfrifol yn Mecca, yn mhlith ei ddychweledigion; ac Omar Ebu Al Hattab, yr hwn oedd wr mawr iawn yn mhlith y llwyth, ac a fuasai yn wrthwynebwr creulawn iddo, a ymostyngodd i'w ffydd, ac a ymunodd â'i lumman. Cynnyddodd hyn elyniaeth y blaid wrthwynebol yn fawr, a chynhyrfodd eu cenfigen yn erbyn yr Hasemiaid i gynddeiriogrwydd, ac ymranodd y ddinas yn ddwy blaid hollol groes i'w gilydd. Y gwrthwynebwyr a roddasant i fynu Abu Sophian, penaeth teulu Ommeyah, yn flaenor arnynt, yr hwn oedd yn bleidiwr gwresog i'r dybiaeth o amryw-dduwiau, ac yn eiddigeddus iawn yn erbyn dyrchafiad teulu Hasem, â pha un yr ymunodd lluaws mawr; eithr teulu Abdol Motaleb a lynasant oll wrth Abu Taleb, fel eu blaenor; ond un brawd o'r enw Abdal Uzza a aeth drosodd at y gwrthwynebwyr.

Yn y seithfed flwyddyn o weinidogaeth prophwyd Mecca, gwnaeth y gwrthwynebwyr gynghrair yn erbyn teulu Hasem, gan ymrwymo mewn ysgrif, a'i gosod i gadw yn eu Cäaba, nad oeddynt i ddal un cymdeithas fasnachol na phriodasol â hwynt, hyd oni roddent Mahomed i fynu iddynt, neu ei osod i farwolaeth; eithr ni wrandawai Abu Taleb arnynt, ond am-

ddiffynodd ei nai, yn ol ei addewid, hyd eithaf ei allu. Yn mhen tair blynedd wedi gwneuthur y weithred uchod, a'r ddegfed o weinidogaeth Mahomed, dywedodd wrth Abu Taleb, fod yr Arglwydd wedi dangos ei anfoddlonrwydd tu ag at y cynghrair drwg oedd yn eu herbyn, trwy anfon pryf i fwytta yr ysgrif oll oedd yn nhŷ eu duwiau, oddi eithr y gair *Duw* yn unig oedd wedi ei adael o honi. Abu Taleb a aeth yn y fàn at y blaid wrthwynebol, ac a amlygodd hyn iddynt, ac a ddywedodd os oedd hyn yn anwiredd y rhoddai efe ei nai i fynu i'w hewyllys; ond os oedd yn wir, y dylasent hwy gredu iddo, a pheidio â'u llid tu ag attynt hwy o'i herwydd, a dinystrio y cynghrair a wnaethant yn erbyn yr Hasemiaid. A hyn y cyttunasant. Gwedi edrych y peth, a'i gael fel y dywedwyd, llawer a gredasant i Mahomed, a diddymwyd y cynghrair; eithr ni pheidiodd yr erledigaeth. Yn y flwyddyn honno bu farw Abu Taleb, yn wr oedranus, dros bedwar ugain mlwydd oed, heb fawr o arwyddion ei fod wedi credu athrawiaeth Mahomed, ond iddo fod mewn canlyniad i'w addewid yn noddwr cadarn iddo; ac yn mhen ychydig o fisoedd wedi hyn, symmudwyd Cadijah gwraig Mahomed ymaith trwy farwolaeth. Gelwir y flwyddyn hon *blwyddyn y galar* gan y Mahometaniaid hyd heddyw. Mewn canlyniad i farwolaeth y personau hyn, ymgryfhaodd yr erledigaeth yn erbyn y ffug-brophwyd a'i athrawiaeth yn fawr yn Mecca; a llawer o'r rhai a ymddangosent yn gyfeillion iddo o'r blaen, a droisant yn elynion, fel y bu agos i'w achos gael ei lethu y pryd hwn yn ei fabandod. Gorfu arno ef ei hun ffoi y pryd hwn i Tayef, dinas arall o fewn triugain milltir i Mecca, heb neb o'i gyfeillion gydag ef, ond Zeid ei was. Gwedi dyfod yno dechreuodd gyhoeddi ei egwyddorion, a cheisio ennill dau dywysog o lwyth Thakif a breswylient yno — eithr ni roddasant iddo dderbyniad caredigol. Er hyn arosodd yno fis wedi hyny: y bobl a godasant yn unfryd yn eu herbyn, ac a'u dygasant hyd fur y ddinas, ac a'u hanfonasant ymaith; a hwy a ddychwelasant i Mecca.

Er ei bod yn amser tywyll iawn y pryd hwn ar achos Mahomed, nid oedd efe yn digaloni, nac yn rhoddi heibio y gwaith o gyhoeddi ei egwyddorion, ac ymresymu â'r bobloedd; ac amddiffynid ef gan Al Motaam Ebu Adi, gwr tywysogaidd yn y ddinas. Yn mhlith eraill o'i ddisgyblion a broselytiodd y pryd hwnw, yr oedd chwech o Iuddewon a breswylient yn Yathreb, yr hon a elwir yn awr Medina, dinas o gylch deugain milltir o Mecca, pa rai a ddaethent yno ar un o'r gwyliau; a chwedi iddynt ddychwelyd adref, cyhoeddasant eu crefydd newydd i'w cyd-ddinasyddion, ac a'u hannogasant i'w derbyn.

Yn y ddeuddegfed flwyddyn o'i weinidogaeth, dywedai Mahomed iddo gael gweledigaeth ryfedd, trwy gael ei gymmeryd o Mecca i Jerusalem, ar gefn rhyw fath o anifail a alwai efe yn *Borak*, gyda ei gydymaith Gabriel; ac oddi yno iddo esgyn i'r seithfed nefoedd, a chael ond yn unig mynediad o fewn i'r llen undeb, o fewn dau ergyd bwa i'r orsedd, pan y teimlodd oerder anarferol yn treiddio trwy ei nattur; yna y cyffyrddodd yr Hollalluog â'i ysgwydd, ac yr ymddiddanodd âg ef am lawer o bethau. Dychwelodd wedi hyny yn ol i Jerusalem, ac oddi yno i Mecca, yn yr un noswaith, ar gefn ei *Borak*. Fel hyn cwblhaodd daith llawer mil o flynyddau mewn rhan fechan o noswaith. Er cymmaint tywyllwch yr oes, bu agos i'r cyhoeddiad o'i weledigaeth effeithio yn ddrwg ar lawer o'i ganlynwyr, hyd oni ddarfu i Abubeker sicrhau iddynt ei bod yn wir, gan fod Mahomed wedi ei ddywedyd; a dangosodd fod hyny yn beth dichonadwy, trwy yr hyn oedd wedi

cymmeryd lle gydag eraill. Y cyfryw weledigaethau a ddygai diwygiwr Arabia yn mlaen yn lle gwyrthiau, i brofi dwyfoldeb ei gennadwri, pa rai a alwai ei gyfeillion a'i elynion arno yn barhaus i'w gweithredu, megys y gwnai y prophwydi gynt. Nid oedd efe etto wedi cymmeryd arfau angheuol yn lle gwyrthiau, nac athrawiaethu i ledanu ei achos, nac wedi defnyddio min y cleddyf er helaethu ei egwyddorion, yr hyn a wnaeth efe yn fuan wedi hyn. Yn y flwyddyn hon, yr hon a elwir gan y Mahometaniaid yn *flwyddyn gymmeradwy*, daeth deuddeg o wyr o Medina i Mecca, deg o ba rai oeddynt Iuddewon o lwyth Khazraj, a'r ddau arall o deulu yr Aws, y rhai a ystyrid yn enwog yn y ddinas, ac a gymmerasant lŵ o ufudd-dod i Mahomed, ac o ffyddlondeb iddo ef a'i athrawiaeth, ar fynydd ychydig i'r gogledd o'r ddinas, yr hwn a elwir Al Akaba. Yma gellir edrych ar ddechreuad amherodraeth fawr y Saraceniaid. Cynnwysiad y llŵ hwn oedd, fod iddynt gredu athrawiaeth y Coran, ymgadw oddi wrth y pechodau a waherddid ynddo, ac ymroddi i gyflawni y dyledswyddau a orchymynir, yn enwedig bod yn ufudd i'w prophwyd. Gwedi hyn dychwelasant yn ol i Medina; ac efe a anfonodd gyda hwy un o'i ddysgawdwyr i'w dysgu yn mhellach yn ei athrawiaeth, a'i chyhoeddi i eraill. Enw y cennadwr oedd Masab Ebu Omair; yr hwn pan ddaeth, a fu yn ddiwyd a ffyddlon; ac yn fuan gwelodd lwyddiant mawr ar ei weinidogaeth, fel nad oedd deulu, o flaenor y ddinas hyd y gwaelaf o fewn Medina, heb dderbyn Mahometaniaeth. Osed Ebu Hodeira, llywydd y ddinas, a Säad Ebu Moadh, tywysog llwyth yr Aws, oedd yn mhlith y dysgyblion.

Yn y flwyddyn ganlynol, sef y drydedd ar ddeg o weinidogaeth Mahomed, Masab a ddychwelodd i Mecca gyda thri ar ddeg a thri ugain o ddychweledigion o Medina, a dwy wraig, yn nghyd â llawer eraill ag oedd heb gwbl ymostwng i'r ffydd. Gwedi eu dyfod, hwy a anfonasant at Mahomed hysbysrwydd am eu dyfodiad, a'u bod yn barod i'w gynnorthwyo yn yr oll a geisiai, hyd eithaf eu gallu, pa gymmorth yr oedd yn sefyll mewn mawr angen o hono y pryd hwnw; canys ei elynion oeddynt wedi ymgryfhau, ac yn penderfynu ei ddyfetha. Cyfarfuant âg ef liw nos, ar fynydd Al Akaba, gydag Al Abbas, ei ewythr, yr hwn a wnaeth araeth ragorol ar y ffyddlondeb a ddylai fod rhyngddynt a'u gilydd—os oedd Mahomed yn ymddiried ei hun iddynt, y dylasent ei gymmeryd a'i amddiffyn fel un o honynt hwy eu hunain. Yna gofynasant iddo, a wnai efe aros gyda hwy yn wyneb pob caledi, a'u hamddiffyn hyd eithaf ei allu. I hyn y tyngodd. Gofynasant iddo beth a gaent hwy os collent eu bywydau yn yr ymdrech o blaid ei achos. Yntau gan atteb a ddywedodd, mai Paradwys yn ddiau. Yna hwy a ymwystlasant eu hunain bob un iddo trwy lŵ, ac addunedasant i fod yn ffyddlon iddo hyd angau. Y pryd hwn dewisodd iddo ddeuddeg o honynt, i fod yn ddeuddeg apostol, fel y byddent mewn awdurdod yn eu plith, yn debyg i'r eiddo Iesu Grist; ac anfonodd hwynt adref, gan addaw dyfod yno ei hun yn fuan. Gwelodd ei wrthwynebwyr yn Mecca eu mawr berygl o'r cynghrair hwn, a'r canlyniadau niweidiol a fyddai yn debyg o gymmeryd lle, trwy ei fynediad i Medina. Er ceisio attal hyn, hwy a benderfynasant o unfryd i'w osod i farwolaeth, trwy fod i bob teulu yn eu plith gymmeryd i fynu y cleddyf, a'i drywanu oll ar unwaith ynddo, fel y byddai ei waed arnynt oll, ac na byddai teulu Hasem yn alluog i'w gwrthsefyll, na dial ei waed arnynt. Eu bradwriaeth a wybuwyd gan Mahomed, ac efe a ddihangodd allan o'i dŷ liw nos, pan wedi ei amgylchu gan luoedd o wylied-

yddion, gan osod Ali i orwedd ar ei wely wedi ymwisgo yn ei fantell. Y gwylwyr, wrth edrych trwy dwll, a dybient ei fod ganddynt yn ddiogel; ond erbyn y borau, ar lasiad y dydd, pan yn bwriadu rhoddi iddo yr ergyd marwol, nid oedd efe i'w gael, namyn ei wisg yn unig, er eu mawr siomedigaeth. Efe a ffoisai ar hyd y nos gydâg Abubeker a'i was i fynydd Thor, yr hwn sydd rai milltiroedd o du y dwyrain i Mecca, aethant i mewn i ogof, ac a ymguddiasant, pryd y gwnaed yr ymchwiliad mwyaf manwl am danynt trwy yr holl wlad o amgylch. Dywedir i'r ymofynwyr ddyfod hyd at y lle; ond wrth weled yno nythod dwy golomen, ac wyau ynddynt, a'r pryf-coppyn wedi gwau ei rwydwaith dros enau yr ogof, meddyliasant nad oedd yno neb; gwedi tramwyo nes yn hwyr, hwy a aethant ymaith heb fyned i mewn. Yn y sefyllfa beryglus hon, teimlai Abubeker radd o ddigalondid, ac a ddywedai wrth y prophwyd,—"Nid ydym ond dau yma i'w gwrthsefyll." Yntau a'i hattebodd, gan ddywedyd,—"O! na, na, yr ydym yn dri: wele, ein Duw sydd gyda ni, i'n diogelu rhag ein holl elynion." Pan y gorchuddiai llenni y tywyllwch y ddaear, mab a merch Abubeker a ddygai iddynt luniaeth yn feunyddiol. Yn mhen tridiau, ciliodd yr ymofynwyr yn siomedig oddi ar y maes, a'r ddau fföadur a ddaethant allan o'r ogof, ac a ffoisant ar eu camelod buan tua Medina, mewn ffordd ddyeithr, a'u gelynion yn eu herlyn. Y pryd hwn, buasai un saeth Arabaidd, trwy gyrhaedd amcan ei thafliad, yn newid hanesyddiaeth y byd, am yr amser dyfodol! Eithr nid felly y bu, gorphenodd ei daith yn ddiogel yn mhen un diwrnod ar bymtheg wedi ei fföedigaeth o Mecca. Gwedi ei ddyfod i'r lle a elwir Koba, o fewn dwy filltir i'r ddinas, daeth allan fwy na phum cant o'r dinasyddion i'w gyfarfod, ac a'i dygasant i mewn i'r ddinas gyda sain cân a moliant, yn marchogaeth ar asyn benyw, yn ol arferiad eu tywysogion; a phenwisg wedi ei lledu yn cael ei dwyn o'i flaen yn lle lluman. Ymgasglodd atto ei holl gyfeillion ffyddlon o bob parth, lle yr oeddynt wedi eu gyrru trwy yr erledigaethau diweddar.

Dechreuodd pethau ymddangos yn hollol wahanol o hyn allan, i'r hyn oeddynt o'r blaen. Ymwisgodd Mahomed yn gyflawn yn ei swyddau, er llywodraethu ac offeiriadu yn mhlith ei ganlynwyr. Ymgorpholasant yn wladwriaethol a chrefyddol mewn undeb a chyssylltiad, a sefydlasant gyfreithiau amddiffynol iddynt eu hunain, a rhai dialeddol i'w gwrthwynebwyr. Nid oedd ei achos mwyach i gael ei helaethu trwy bregethu ac ymresymu; ond trwy rym arfau a min y cleddyf. Ymarddelwai y ffug-brophwyd ei fod wedi derbyn dadguddiad newydd trwy yr angel Gabriel, o'r seithfed nef, i'w gyfarwyddo i dynnu i lawr y temlau, dryllio yr allorau, dinystrio yr eilunod yn mhob lle, trwy rym a gorthrech, a darostwng pawb i'r un ffydd o un gwir a bywiol Dduw, â Mahomed ei unig brophwyd. Dywedai o'r blaen, nad oedd gydag ef hawl i helaethu ei achos, ond trwy foddion moesol, annogaethau, a chymhelliadau ymresymiadol yn unig; ac annogai ei bobl i ddyoddef erledigaeth yn hytrach na drygu neb. Eithr o hyn allan newidiodd ei lais a'i ymddygiad yn hollol; ac fel y mae pob un o'r ddau yn y Coran, y mae ynddo hyn, gyda lluaws o anghyssonderau eraill. Yr oedd Mahomed nid yn unig yn cyfiawnhau ei ymddygiadau treisiadol, a golygiadau gwaedlyd ei gyfreithiau, trwy ddadguddiad newydd a dderbyniasai o'r nef, ond hefyd trwy ymddygiadau Moses, Josuah, Barnwyr Israel, Dafydd, &c. ei ragflaenoriaid; ac nid oedd heb gyfeirio at yr hyn a ddywedodd ein Harglwydd, sef ei fod wedi dyfod, nid i roddi heddwch ar y

ddaear, ond rhyfel, er cefnogi ei ymddygiadau. Arferai yr un rhesymau yn hyn dros ei ymddygiadau, ag a arferir gan bleidwyr Cystenyn Fawr, Theodosius, &c. pan ddefnyddiasant yr un moddion i helaethu Cristionogaeth.

Dyfodiad Mahomed i Medina y pryd hwnw, sydd gyfnodiad newydd yn nghyfrifiad amser ei weinidogaeth, yr hyn a elwir blwyddyn yr HEGIRA, yn arwyddo blwyddyn leuadol, a gedwir mewn ymarferiad hyd heddyw yn mhlith y Mahometaniaid. Gelwid pleidwyr Mahomed o hyny allan yn *Mussulmaniaid*, hyny a arwydda, yn ol eu iaith hwy, dynion uniawngred. Dyrchafai yr apostol lummanau gwynion o flaen pyrth Medina, pa rai a gwhwfanent yn yr awyr denau, er cymmell pawb i ddyfod yn ddeiliaid iddo; ac arwyddai yr erthyglau a gymmeradwyai trwy osod arnynt ei argraff, mewn cyflawn awdurdod brenhinol ac apostolaidd. Prynwyd darn o dir yn ymyl y ddinas, ar ba un yr adeiladwyd iddo balas brenhinol, a theml i addoli; o ba le y rhoddwyd allan gyfreithiau a gosodiadau er iawn drefniad ei sefydliad newydd. Yn fuan mwynhaodd y pleser o weled ei lŷs a'i berson yn cael eu hamgylchu gan bymtheg cant o wyr a ymwystlasent trwy lŵon i fyw neu farw mewn amddiffyniad o'r orsedd, a helaethiad ei achos. Ennynai y penboethder a'r teimladau mwyaf rhyfelgar yn yr Arabiaid; a hwy a gynnullent at ei lummanau o bob parth, trwy addewidion o yspail fawr o gyfoeth a phob trysorau gwerthfawr, yn nghyd âg helaeth fwynhad o bob pleserau gyda'r llangcesau llygaid-duon prydferthaf, a ynnillent trwy eu rhyfeloedd; a'r cyfan nid oedd ond arwydd a gwystl iddynt o'r hyn a fwynhaent yn y byd arall. Gosodid allan, yn ol athrawiaeth y Coran, mai cleddyf Mahomed oedd allwedd y nefoedd ac uffern—fod un dafn o waed a gollid yn achos Duw, a'r eiddo yntau, ac un noswaith a dreulid o dan arfau, yn fwy o deilyngdod na misoedd o ymprydiau a gweddiau—ac y byddai pwy bynag a gollai ei fywyd mewn brwydr o'i du, yn sicr o faddeuant o'i holl bechodau; ac yn nydd y farn, yr ymddangosai eu harchollion yn annhraethol brydferth, ac yr aroglent yn y modd pereiddiaf; a'r anafus a fyddai yn ol o'i aelodau, a brydferthid yno âg adenydd angylion a cherubiaid.

Ei athrawiaethau, ei drefniadau, a'i ymddygiadau yn mhlith ei bobl, oeddynt oll yn eu tueddu i'r undeb mwyaf mynwesol tu ag atto, y sêl a'r egni gwresoccaf drosto, a'r ufudd-dod parottaf iddo: canys yr oedd yn mhell o ymddangos mewn unrhyw rwysgfawredd, ond yn eu plith fel un o honynt hwy eu hunain; ac edrychent ar yr oll a ddywedai yn anffaeledig. Dechreuodd yn fuan ymosod ar finteioedd o farsiandawyr a deithient o Arabia i Syria, gerllaw i Medina. Yn mhlith eraill, bwriadodd ruthro gyda phum cant o'i wyr ar fintai gref o eiddo Abu Sophian, ei hen wrthwynebydd yn Mecca. Eithr ei fwriad a wybuwyd gan Abu Sophian, ac efe a gasglodd fyddin, o wyth cant o wyr traed, a chant o wyr meirch, mewn cyflawn arfogaeth, yn mhlith y Koreishiaid, i ddyfod allan i'w wrthsefyll ef. Cyfarfu y byddinoedd mewn dyffryn hyfryd, a elwir Beder. Mahomed, wrth weled y fath lu yn dyfod yn ei erbyn yn annisgwyliadwy, a safodd i fynu, ac a waeddodd allan,—"O Dduw! os bydd marw y rhai hyn (sef ei wyr ei hun) pwy a'th wasanaetha di mwyach ar y ddaear! Gwroldeb! gwroldeb! fy mhlant, (ebe fe) ymwasged eich rhestri, a gollyngwch eich saethau, a'r dydd yn ddiau sydd eiddom ni. Gyda hyn, efe ac Abubeker a esgynasant i fath o orsedd, ac yno gorchymynodd gyda llais uchel ar Gabriel i ddyfod i waered yn uniawn gyda thair mil o angylion nerthol i'w

cynnorthwyo. Cadwai ei olwg yn barhaus ar faes y frwydr: a phan welodd y Mussulmaniaid yn barod i laesu, efe a aeth ar ei farch, a chododd lonaid ei law o lwch y ddaear, ac a'i taflodd i'r awyr yn ngwydd y fyddin, a dyrchafodd ei lais megys taran, ac a ddywedodd,—"Gorchuddier eu hwynebau â chywilydd." Tarawyd ei elynion â'r fath fraw, fel y tybiasant eu bod yn gweled lluoedd o angylion yn dyfod i'w gwrthwynebu; a llanwyd ei gyfeillion â'r fath wroldeb, fel y rhuthrasant ar eu gwrthwynebwyr, ac a'u tarawsant â min y cleddyf, nes gorfu arnynt ffoi o'r maes ag oedd wedi ei orchuddio â lladdedigion; a chymmerwyd o honynt ugeiniau lawer yn garcharorion.

Dyma ddechreuad brwydrau buddugoliaethus Mahomed, yr hyn a gymmerodd le yn yr ail flwyddyn o'r Hegira. Trefnodd y pryd hwn a'r fod pummed ran o'r yspail rhyfel i fyned i drysorfa y llywodraeth, at achosion crefyddol a gwladol, yr hyn a gedwir yn ddeddf barhaus yn mhlith y Mussulmaniaid. Gwedi hyn, cadwai Mahomed fyddin yn wastadol yn ei wasanaeth, cyflog pa un a delid trwy gydroddion ei ganlynwyr, ac allan o'r bummed ran o'r yspail a ysglyfaethid yn eu rhyfeloedd. Dywedir iddo wneuthur tua saith ar hugain o ryfelgyrchoedd, ac iddo ymladd naw o frwydrau yn bersonol, gyda'i wyr, heblaw lluaws o ymgrwydriadau a wnaethai ei raglaw trwy Arabia, yn y deng mlynedd cyntaf o'i deyrnasiad. Er na ellir gwadu na bu iddo ef gael y gwaethaf mewn rhai o'r brwydrau hyn, etto, ar y cyfan, ryw fodd, trwy ei fawr gyfrwysdra, ei achos oedd yn cynnyddu ac yn myned yn gryfach gryfach yn flynyddol. Pum gwaith bod dydd, yn wastad, tröai ei wyneb tua Mecca, lle yr oedd y Cäaba, yr hwn a ystyrid y lle sancteiddiolaf gan holl eilunaddolwyr Arabia, i ba un y deuent o bob parth ar eu pererindod beunyddiol, a'r hon oedd ei ddinas enedigol, o ba un y gorfuasai arno ffoi yn nechreuad ei weinidogaeth.

Yn y chwechfed flwyddyn o'r Hegira, penderfynodd ymweled drachefn â'r ddinas, gyda phedwar cant ar ddeg o'i wyr, nid gyd ag amcan rhyfelgar, eithr mewn ffordd heddychlawn, meddai ef, gyda llwythu milod o offrymau. Pan o fewn ychydig i'r ddinas, ar ei thir cyssegredig, trigolion Mecca a anfonasant atto nad oedd iddo dderbyniad o fewn i'r ddinas, oddi eithr iddo allu ei hennill trwy orthrech. Ar hyn galwodd gynghor, gyda'i bobl, pa beth oedd i'w wneud ar yr amgylchiad. Penderfynasant oll yn unfryd i wneuthur ymosodiad uniongyrchol ar Mecca: ac, i'r dybenion hyny, adnewyddasant eu llŵ o ffyddlondeb i'w blaenor yn y lle hwnw. Pan yn myned i daraw y ddinas â min y cleddyf, trigolion Mecca a anfonasant atto gennadwri heddwch, trwy law Awa Ebn Masan, tywysog llwyth Thakif. Hwn, wedi ei ddyfod, a sefydlodd gynghrair am ddeng mlynedd â'r cadfridog apostolaidd; yn ol pa un yr oedd cyflawn ryddid crefyddol yn cael ei ganiattau, heb fod neb a ewyllysia gofleidio achos Mahomed, i ddyoddef un sarhad oddi wrth y Koreishiaid; canys felly y gelwid ei wrthwynebwyr.

Yn y seithfed flwyddyn o'r Hegira, anfonodd Mahomed gennadon at frenin Persia, gan ei annog i dderbyn ei grefydd, ac ymostwng i'r ffydd. Y gwyr a ddirmygwyd gan Khosru Parviz, ac a ddrylliodd ei lythyr. Y prophwyd, pan glywodd, a ddywedodd,—"Duw a dyr ymaith dy freniniaeth di." Anfonodd gennadon tua'r un amser hefyd at Heraclius, amherawdwr Caer-Cystenyn, yr hwn a'u derbyniodd yn garedig, fel y dywedir y rhoddasai dderbyniad i'r ffydd newydd, oni buasai fod arno ofn colli ei orsedd. Gwnaeth yr un modd tu ag at frenin Ethiopia, ac amryw o frenin-

oedd a thywysogion yn Arabia a'i hamgylchoedd. Rhai o honynt a'i derbyniasant yn garedig, ac a ddangosant barodrwydd i dderbyn ei gred, ac ymostwng i'w drefniadau. Yn erbyn y cyfryw a roddasent dderbyniad angharedig i'w gennadau, efe a gyhoeddodd y barnedigaethau trymaf, ac er cadarnhau ei ddwyfol awdurdod yn y cyhoeddiadau hyn, ymdrechai i'w gosod mewn grym tu ag attynt.

Yn yr wythfed flwyddyn o'r Hegira, chwanegwyd canlynwyr gwronaidd Mahomed gan Khaled Ebn Al Walid, ac Amric Ebn Al As, dau o drigolion Mecca, a enwogasant eu hunain wedi hyn fel blaenoriaid yn myddinoedd y Mussulmaniaid yn Syria, yr Aipht, a'r gwledydd cymmydogaethol. Y blaenaf, er dangos ei ragoroldeb yn y galanastra ysgeler a gyflawnwyd trwyddo, a enwyd gan Mahomed ei hun yn gleddyf Duw. Yn yr un flwyddyn darparodd Mahomed fyddin o ddeng mil o wyr yn dwyn arfau er ennill Mecca; canys y cynghrair a dorwyd yn mhen dwy flynedd, trwy i rai o bleidwyr y Koreishiaid wneuthur sarhad ar y Kozaahiaid, cyfeillion i'r Mussulmaniaid, a gosod rhai o honynt i farwolaeth. Hyn a roddodd achlysur i Mahomed benderfynu darostwng Mecca, er i Abu Sophian ei hun fyned i eiriol drostynt; ond ni chafodd efe un gwrandawiaid, ac nid oedd un ammod o arbediad i'r ddinas a gyfrifid yn sanctaidd, rhag cael ei gosod yn fflamau, a'i thrigolion i fin y cleddyf, ond eu hymostyngiad i ffydd a llywodraeth y Mussulmaniaid. Nid oedd gan Mecca allu i sefyll yn erbyn y fath lu, ac nid oedd iddi gyngrheirwyr y pryd hwn; canys arswyd Mahomed oedd wedi syrthio ar holl drigolion Arabia. Anfonwyd agoriadau y ddinas i'r apostol milwraidd trwy law Abu Sophian, yr hwn a achubodd ei fywyd ei hun trwy ymostwng i fod yn un o'i ddisgyblion. Ac er dangos hynawsedd y Mussulmaniaid, cyhoeddwyd maddeuant cyffredinol i drigolion y ddinas, ar yr ammod iddynt newid eu crefydd. Felly Mecca a feddianwyd heb nemawr o dywallt gwaed, oddi eithr ychydig o wrthgilwyr bradychus a roddwyd o dan farn colleddiad, megys aberthau i gyflawnder, er rhybudd i eraill; a Mahomed a ddyrchafwyd i'r orsedd yno fel tywysog a phrophwyd, yn mhen saith mlynedd wedi ei enciliad. Eithr y tri chant a thriugain eilunod oedd yn y Cäaba o fewn i'r ddinas, a roddwyd gyda dirmyg i gwbl ddinystr, a'r deml a lanhawyd, a addurnwyd, ac a gyssegrwyd yn dŷ i Dduw; a chyflawnodd yr apostol holl ddyledswyddau pererin yn bersonol yno; a gosododd yn y Coran gyfraith nad oes i un anghredwr osod ei droed yn dragywydd o fewn terfynau y ddinas sanctaidd. Cyfeiriai holl Arabia eu golwg tua Mecca, i edrych pa fodd y gwnaent hwy yn yr ymdrechfa a'r cyfnewidiad a gymmerai le; canys efe oedd y prif-le a berthynai i'r Sabæaid yn yr holl ororau hyny; a phan ymddarostyngodd trigolion y ddinas honno, y lleill a wnaethant yr un modd, oddi eithr trigolion Tayef, pa rai a benderfynasant i ymddiried yn nghadernid y tŵr a berthynai i'w dinas, i wneuthur ymegniad dros eu rhyddid, eu crefydd, a'u duwiau. Ond wedi brwydr galed, y Mussulmaniaid a ennillasant y dydd, a'r ddinas a syrthiodd i'w dwylaw, a'r eilunodd a ddinystriwyd yn hollol, megys y gwnaed i rai Mecca; a chrefydd y Coran a sefydlwyd nid yn unig yn Tayaf, ond yn yr holl dywysogaethau o amgylch.

Yn y nawfed a'r degfed flwyddyn o'r Hegira, dywedir i holl Arabia, o'r Môr Coch hyd lyngclyn Persia, ac oddi yno hyd derfynau Syria, ymostwng i ffydd y Mussulmaniaid, a bod tywysogion a brenhinoedd yn syrthio wrth orsedd Mahomed i wneuthur ufudd-dod iddo yn Medina, mewn amldra fel

ffigys aeddfed yn cwympo oddi ar ffigyswydden, pan ysgydwer hi gan wynt. Ymddygai Mahomed gyda mwy o ledneisrwydd tu ag at y Cristionogion yn gyffredin, na thu ag at y Paganiaid a'r Iuddewon, yn enwedig tu ag at y Nestoriaid, y rhai y rhoddai yn rhwydd ei nawdd amddiffynol i'w rhyddid masnachol a'u breintiau crefyddol, trwy dalu ychydig o deyrnged; eithr ei olynwyr a ddaethant i fod yn fwy gormesol tu ag at rai o honynt.* Meddyliodd unwaith yn ddiau i ddangos llawer o diriondeb tu ag at yr Iuddewon, a gwneuthur Jerusalem yn gyssegr sancteiddiolaf iddo; eithr eu gwrthwynebiad parhaus iddo, a'u bradwriaethau tu ag atto, a achosodd iddo fod â llaw drom arnynt, a chyfeirio ei olwg tua Mecca fel ei gyssegr, yr hwn sydd hyd heddyw yn brif-le pererindod y Mussulmaniaid. Gwedi i un o'i gennadau dderbyn sarhad oddi wrth rai o'r Groegiaid, efe a anfonodd allan dair mil o wyr yn erbyn gwlad Palestina er dial arnynt. Cyfarfuwyd â hwy gan ddeng mil o'r Groegiaid a'u cynghreirwyr; a bu brwydr waedlyd iawn rhyngddynt gerllaw tref Muta, yr hon oedd o fewn taith tridiau i Jerusalem, lle y collodd Mahomed dri o'i gyfeillion, a flaenorai ei fyddin, olynol; eithr Khaleb a ddaeth i'r flaenoriaeth, ac a ddechreuodd enwogi ei hun trwy ennill cyflawn fuddugoliaeth, a rhoddi y rhan fwyaf o'i wrthwynebwyr i farwolaeth trwy fin y cleddyf. Dyma ddechreuad buddugoliaethau y Mussulmaniaid ar ëang amherodraeth Rhufain, a gynnelid y pryd hwn yn Nghaer-Cystenyn.

Yn fuan wedi hyn, darparodd Mahomed ddeng mil o wyr meirch, ac ugain mil o wyr traed, gan gwbl feddwl darostwng Syria; eithr ei wyr a ddangosasant radd o anfoddlonrwydd i fyned i'r daith, ac a wnaethant amryw esgusodion dros beidio myned. Yn mhlith pethau eraill, dywedent fod y tymmor yn rhy boeth i groesi yr anialwch. Ond yr apostol milwraidd a'u hattebodd yn wgus, gan ddywedyd,—*Y mae uffern yn llawer poethach.* Gyda hyny, cwhwfanwyd y llummanau, a'r fyddin a gychwynodd, ac wynebasant eu taith beryglus. Eithr cyn myned yn neppell, cennad angau a ddaliodd eu blaenor.

Hyd y drydedd flwyddyn a thriugain o'i oedran, parhaodd nerth corphorol Mahomed yn gyfartal i'r holl ludded a berthynai i gyflawniad y swyddau a gymmerai arno yn mhlith ei ganlynwyr. Er colli ei iechyd i raddau er ys pedair blynedd, trwy gael ei wenwyno, fel y dywedai, gan Iuddewes, yn Chaibar, etto, ni bu ei glefyd diweddaf ond am bedwar diwrnod ar ddeg. Pan ddeallodd fod ei fywyd mewn perygl, galwodd ei gyfeillion yn nghyd, ac esgynodd i'w gadair ymadrodd, a dywedodd, os oedd efe wedi gwneuthur cam â neb o honynt mewn dim, am iddynt ddwyn yn mlaen eu cŵyn yn bresennol, fel yr ad-dalai i'r cyfryw, fel na byddai dim i'w osod yn ei erbyn ef yn y byd arall. Galwodd am ysgrifell, a gosododd i lawr ryw bethau mewn ffordd o gwblhad i'w lyfr dadguddiedig a elwir y Coran. Dywedir gan haneswyr iddo farw yn y ddegfed flwyddyn o'r Hegira, a'r 632 o'r cyfrifiad cyffredin. Yn mhlith ei gyfeillion lluosog, ac yn mynwes ei deulu, gyda llawer o fawredigrwydd apostolaidd a phenboethder gweledigaethol, hyd yn nod yn ei funudau diweddaf, darluniai y modd yr oedd yr angel

* Dywedir i Mahomed wneuthur math o weithred, yr hon a elwir Ewyllys, neu Destament, yn ol pa un y caniattâi i'r Nestoriaid eu cyflawn ryddid crefyddol, a'u breintiau naturiol a gwladol, yn ddiwarafun. Er yr ambeuir bodoliaeth neu wirionedd y cyfryw gan rai, etto y mae yn eglur fod y Mahometaniad yn credu hyn, a'i fod wedi ei roddi gan Mahomed, a'u bod hyd heddyw yn gweithredu tu ag at y Nestoriaid yn gysson âg ef, fel y mae yr olaf yn Persia yn mwynhau pob breintiau gwladol, ac yn llenwi y sefyllfaoedd uchaf yn y deyrnas yn ddiwahaniaeth â'r Mahometaniaid. Hefyd, mwynhâai y Monophysitiaid yn Syria a'r Aipht yr un cyffelyb freintiau a rhyddid; a mawrhëid amryw o'u hesgobion mewn modd tra neilduol gan y Mahometaniaid.—*Mosheim's Eccl. Hist. vol.* ii. *p.* 187.

Gabriel yn ymadael â'r ddaear am byth mwyach, mewn cyflawn obaith a hyder am nawdd a chymmeradwyaeth y Bôd Goruchaf.

Yr hyn a fu yn anffodus i'w achos, ac yn agos dwyn ei ddinystr oddi amgylch, oedd, ei esgeulusdod o enwi ei ganlyniedydd, neu yr hwn a ddeuai i'r llywodraeth ar ei ol ef: canys achosodd hyn ymraniad mawr yn mhlith ei ganlynwyr, a pharodd i alanastra mawr gael ei gyflawni o bob tu. Abubeker, yr hwn oedd un o'i gymdeithion hynaf, ac yn dad-yn-nghyfraith i Mahomed, a ymhonai i'r swydd; ac Ali ei nai, yr hwn oedd hefyd yn briod â'i ferch, ac yn rhaglaw cyhoeddedig iddo er yn forau, a ymarddelwai i'r sefyllfa. Priodolir esgeulusdod Mahomed yn hyn, i'r llywodraeth a feddiannai Ayesha, merch Abubeker, arno, yr hon oedd y fwyaf hoffus ganddo o'i holl wragedd, ar fynwes pa un y gorphwysai ei ben pan drengodd. Meddylir ei fod yn golygu Ali i fod yn ganlyniedydd iddo yn y llywodraeth; eithr cyfrwysdra y wraig hon oedd gymmaint, a'i phleidgarwch i'w thad mor fawr, fel yr attaliodd hi ef rhag ei enwi ei ganlyniedydd. Gwnaeth hyn ymraniad ag a bery hyd heddyw yn mhlith y Mussulmaniaid. Gelwir canlynwyr Abubeker yn *Sonnitiaid*, a chanlynwyr Ali yn *Sehiitiaid*. Cydnebydd y ddwyblaid y Coran fel rheol eu crêd a'u hymarferiad; ond y y blaenaf a chwanegant atto luaws o ddefodau traddodiadol a elwir Sonna, pa rai a wrthodir gan yr olaf. Yn mhlith canlynwyr Abubeker, rhestrir y Tyrciaid, y Tartariaid, yr Arabiaid, yr Affricaniaid, a llawer o'r Mahometaniaid Indiaidd; ac yn mhlith pleidwyr Ali, ystyrir y Persiaid, y Moguliaid, yn nghyd â llwythau o'r Indiaid.

Pan y bu farw Mahomed, annichonadwy gosod allan y braw, y siomedigaeth, yr aberth, a'r galarnadau oedd trwy holl Medina, yn enwedig yn mhlith ei deulu a'i gyfeillion; ni lewyrchai gwawr o unlle ar eu mynwesau pruddaidd, ond oddi wrth eu tybiaeth benboeth nad oedd modd iddo farw, eithr ei gymmeryd i fynu mewn gweledigaeth, ac y dychwelai yn fuan drachefn. "Pa fodd," meddent, "y dichon i'n eiriolwr, ein tyst, ein gwaredwr, a'n cyfryngwr gyda Duw, farw?" Omar, un o'i bennaethiaid, a ddynoethodd ei gleddyf cam gwegilog, ac a ddywedodd y torai ymaith ben pwy bynag a fyddai gymmaint anghredwr â dywedyd ei fod wedi marw. Eithr y terfysg a gymmedrolwyd trwy araeth Abubeker, yr hwn a ddywedodd,—"Onid i Dduw Mahomed yr ydym wedi credu, yr hwn a addolwn, ac nid i Mahomed, yr hwn nid oedd ond ei apostol? Y mae Duw Mahomed yn byw byth; eithr ei apostol oedd i farw, yn ol ei dystiolaeth ei hun, fel dynion eraill." Hyn a ostegodd y lluaws. Claddwyd ef yn yr un lle ag y bu farw, yn ei dŷ ei hun; a sancteiddiwyd Medina trwy fod yn gladdfa i brophwyd Arabia; a'r pererinion wrth fyned i Mecca, a dalant ymweliad â'i feddrod yn Medina hyd heddyw.

Meddiannai Mahomed gymmaint synwyr, fel y dirmygai dros ei holl fywyd bob mawredd a rhwysg brenhinol; ymostyngai apostol Arabia i'r swyddau iselaf yn ei deulu. Cynneuai y tân, ysgubai'r llawr, godrai y defaid, a chyweiriai â'i ddwylaw ei hun ei esgidiau a'i ddillad gwlanen. Dirmygai y dybiaeth o deilyngdod bywyd penydiol a meudwyaidd; etto yr oedd yn byw o ran bwydydd yn gymmesur, ac yn aml mewn dirwest, fel milwr. Er y gwleddai efe ei gyfeillion ar amserau gyda haelder o bob danteithion, yn ol arfer wladol yr Arabiaid, etto treuliai amryw wythnosau

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. iii. p. 163.

yn ei deulu heb dân ar ei aelwyd. Cymmerai fara haidd, llaeth a mêl, weithiau, i ddiwallu ei anghenion; eithr ffrwyth y balmwydden a dwfr oedd ei luniaeth mwyaf cyffredin. Cefnogai ei waharddiad o win a diod gadarn i neb o'i ganlynwyr, trwy ei siampl ei hun, yn fanylaidd. Peraroglau, a lluaws gwragedd, oedd y pleserau â pha rai y boddhâi efe ei hun yn benaf, ac y goddefai i'w ganlynwyr eu mwynhau. Nid llai na dwy-ar-bymtheg o wragedd a berchenogai efe ar unwaith; un-ar-ddeg o ba rai a feddiannent ystafelloedd oddi amgylch ei dŷ yn Medina; a'r rhai hyn oll, ond un, oeddynt rai gweddwon. Eithr lleihawyd rhifedi gwragedd y Mussulmaniaid yn gyffredin i bedair. Nid yw ysgariaeth yn ganiattaol; a chospid godineb, wedi ei profid gan bedwar tyst, â marwolaeth, yn ol rheolau y Coran. Nid ystyrir neb yn mhlith y Mussulmaniaid yn yr un sefyllfa â Mahomed; eithr y llywyddion a elwir yn *Caliph*, neu rhaglaw, hyd heddyw.

Gwedi marwolaeth Mahomed, llwyddodd y deyrnas a ddechreuasai efe, yn anarferol, o fewn i'r canrif hwn, dan lywyddiaeth Abubeker, Omar, Otham, ac Ali, pa rai oeddynt yn gydoeswyr iddo, ac yn ganlynwyr olynol iddo yn y llywodraeth. Helaethrwydd yr amherodraeth a osodasant i fynu mewn un oes, a gyrhaeddai dros Arabia, Persia, Syria, yr Aipht, Affrica, a'r Hispaen; anrheithiasant Rhufain, a gosodasant warchae am flynyddau lawer ar Caer-Cystenyn; eithr ni allasant gadw meddiant o'r lle blaenaf, na meddiannu y diweddaf. Y galanasdra a arferwyd, y brwydrau a ymladdwyd, y gwaed a gollwyd, y rhyfel a ddygwyd yn mlaen, nifer y bywydau a gymmerwyd ymaith, a'r difrod a wnaed ar bob math o feddiannau, am y can mlynedd hyn, yn sefydliad crefydd y Mussulmaniaid, a gosodiad i fynu y llywodraeth Saracenaidd dros yr holl wledydd uchod, sydd annhraethadwy. Eithr arfau yr Arabiaid a orfuant, a gorfu arnynt oll blygu i'w hawdurdod cyn diwedd y canrif sydd dan sylw. Meddylir mai hwy ydyw y locustiaid oedd yn dyfod allan o'r pydew heb waelod, y cyfeiria y brophwydoliaeth yn Dad. ix. 1—11. attynt.

Y llwyddiant digyffelyb a ddilynodd osodiad i fynu y grefydd newydd hon, nid yw gymmaint i'w ryfeddu pan ystyriom yn fanylaidd y modd dychrynllyd y dygai Mahomed hi yn mlaen trwy ei arfau dinystriol, a'r dull ysgeler yr ymladdai ei ddeiliaid drosto, yn gynhyrfedig i'r eithafoedd pellaf o frwdfrydedd trwy ei athrawiaeth, yn gosod uffern a'i holl boenau o'u hol, mwyniant o bob cyfoeth a llawnder o'u blaen, os ennillent; neu os syrthient yn y frwydr, yr oedd Paradwys â'i holl bleserau i'w derbyn. Yr oedd pob brwydr a ennillai yn cadarnhau meddyliau y bobl am ddwyfoldeb ei gennadiaeth: canys credai y byd y pryd hwnw fod llwyddiant mewn rhyfel yn brawf o wirionedd crefydd y rhyfelwyr, ac yn arwydd o bleidgarwch y Nefoedd iddynt. Cymhellodd hyn yn ddiau filoedd i blygu i'w awdurdod. Hefyd, yr oedd y grefydd a osodai i fynu yn hollol gydrywiol â chrêd ac â thueddiadau y byd llygredig: nid oedd ynddi ddim ag oedd yn marweiddio un pechod, nac yn gofyn hunan-ymwadiad mewn dim; ond cyflawn hunan-foddhad i bob dyn, mewn llawnder o bleserau cnawdol, yn y byd hwn a'r un sydd i ddyfod. Heblaw hyn, yr oedd y dirfawr dywyllwch a'r anwybodaeth a orchuddiai wyneb yr holl wledydd y pryd hwnw, yn mawr hwylusu llwyddiant y grefydd Fussulmanaidd, ac yn cymhwyso y trigolion i fod yn ysglyfaeth i gyfrwysdra a hyawdledd yr eofn anturwyr Arabaidd. Ni buasai tywyllwch anwybodaeth dynion erioed yn fwy nag yn yr amser hwnw. Canys ychydig oesau cyn hyny, yn nghodiad i fynu y wybodaeth

byw yn Mananalis, tref fechan yn agos i Samosata, ar derfynau Mesopotamia, yn y flwyddyn 660 o'r cyfrif cyffredin. Cystenyn a dderbyniodd y noson honno y rhodd werthfawr o Destament Newydd, yn ei iaith ei hun, gan yr ymdeithiwr dyeithrol hwnnw, yr hwn a gedwid yn yr oes foreuol honno gymmaint oddi wrth y bobl gyffredin, fel braidd y gwyddent ei fod mewn bodolaeth. Fel y dywed Peter Siculus, yr hanesydd, pan yr annogid neb i ddarllain yr ysgrythyrau y dyddiau hyny, y petrusder cyntaf a fyddai yn eu meddyliau oedd cyfreithlondeb yr ymarferiad, "canys", meddent, "nid yw gyfreithlawn i rai cyffredin fel nyni ddarllain yr ysgrifau sanctaidd hyn, ond i'r offeiriaid yn unig y perthyn hyny." Cymmaint, yn ddiau, oedd dygn anwybodaeth yr oes honno, fel nad oedd ond ychydig o'r bobl gyffredin yn medru darllain y Bibl nac un llyfr arall; a'r rhai a fedrai, a annogid i beidio a chyffwrdd â'r ysgrythyrau, gan eu ffug flaenoriaid eglwysig. Gwnaeth Cystenyn y defnydd goreu o'i Destament Newydd, trwy ei ddarllain, a gweddio am gyfarwyddiadau i'w ddeall; a'r oll o wybodaeth a gyrhaeddai efe, a drosglwyddai i'w gymmydogion. Trwy ddyfal ymarferiad â'r ysgrythyrau, efe a ffurfiodd gyfundraith o athrawiaethau Cristionogaidd, i'w feddwl ei hun, a threfn ac ymarferiadau eglwysaidd a gasglodd efe o'r ysgrythyrau, yn enwedig oddi wrth lythyrau Paul yr apostol at yr eglwysi. Yn hyn efe a chwiliodd i gredo gwreiddiol y Cristionogion cyntefig: "o herwydd hyn," medd Gibbon, "pa beth bynnag a fu ei lwyddiant, haeddai ganmoliaeth gan bob gwrthdystiwr, am ei rydd-ymofyniad."* Yn fuan casglodd gynnulleidfa, a ffurfiodd eglwys, yn ei olwg ef, yn ol egwyddorion yr ysgrythyr; yn mhlith pa rai daeth, mewn ychydig amser, amryw i feddu ar gymmwysderau gweinidogaethol. Anfonasant allan gennadau i gyhoeddi y gwirioneddau a gynnwysai y Testament Newydd, trwy Armenia, Cappadocia, Pontus, ac Asia Leiaf; ac yn mhob lle, eglwysi a sefydlwyd ar yr un egwyddorion. Canys y bobl oeddynt yn mhob man wedi blino ar, a bron eu llethu gan, y lluaws traddodiadau dynol a ddygasid i ymarferiadau crefyddol, a gorthrwm yr eglwys a elwir yn gyffredinol; a llaw yr Arglwydd yn ddiau oedd yn gweithio gyda hwynt. Nid oes amheuaeth hefyd nad oedd yr egwyddorion a bregethai y Novatiaid a'r Ariaid, yn y canrifoedd o'r blaen, yn aros yn y gwledydd hyny hyd y canrif hwn, fel tân dan ludw; a phan ddaeth y Paulicaniaid i gyhoeddi yr efengyl, a threfn eglwysig yn ol y Testament Newydd, nid yw i'w ryfeddu iddynt eu hail-ennyn yn fflamau eres, a hwylusu eu llwyddiant yn y parthau hyny. Er maint y gwaradwyddiadau a deflir, a'r drwgliwiau a ymdrechir roddi arnynt, trwy geisio dangos, er yn hollol ddisail, eu bod yr un â'r Manichæaid a'r Gnostiaid, y mae yn eglur oddi wrth eu hanes, eu bod yn ddynion syml, yn ymegnio i adferu y broffes Gristionogol i'w symledd dechreuol, a gosod i fynu eglwysi i Grist ar egwyddorion ysgrythyrol.

Ni allasai amlygiadau o'r fath egwyddorion, a chymmaint o lwyddiant ar y cyhoeddiad o honynt, lai na dwyn sylw y blaid a enwid yn gatholicaidd ar y cyhoeddwyr. Nodasant hwy yn fuan âg enwau goganllyd; a haerasant eu bod mewn cyssylltiad â'r Manichæaid, y Gnostiaid, &c. yr hyn a dybient oedd yn eu mawr waradwyddo—yn yr un cyffelyb fodd ag y gwneir yn mhob oes, yn rhy fynych, er dychrynu dynion, pan ddynoethir egwyddorion beiadwy, na fedrir mo'u hamddiffyn trwy resymau teg. Anhawdd yw gweled

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iv. chap. 41.

un amser wahanol bleidiau heb fod yn cyd-olygu ar rai pyngciau, a cheir rhai egwyddorion yn gyffredinol i'r naill a'r llall; ac ni ddichon hyn fod yn un dianrhydedd i neb o honynt. Eithr am y Paulicaniaid, hwy a wadent fod un perthynas rhyngddynt â'r Manichæaid, nac â'r Gnostiaid, na'u bod mewn cyssylltiad â'r rhai hyny mewn dim ag oedd yn briodol neillduedig iddynt fel enwadau crefyddol. Meddylir mai hwy a gymmerasant yr enw Paulicaniaid arnynt eu hunain, er coffadwriaeth am Paul, apostol mawr y Cenhedloedd. Galwent eu hathrawon, i gyd agos, yn ol enwau ysgrythyrol; megys y gelwid Cystenyn yn Sylvanus, ac eraill o'i gyd-lafurwyr yn Titus, Timotheus, &c. Yn mha le bynag y sefydlent eglwysi, rhoddent enwau ysgrythyrol ar eu cynnulleidfaoedd, yn benaf enwau yr eglwysi y cyfeiria Paul ei lythyrau attynt, yn ddiystyr o ba beth a fyddai enw y ddinas, y dref, neu y wlad lle byddai yr eglwysi. Cystenyn a breswyliai, y rhan fwyaf o'i amser diweddaf, yn agos i Colonia, yn Pontus; ac oddi yno ymdaenodd dysgleirdeb ei weinidogaeth dros Asia Leiaf, mor bell i'r gorllewin â'r Euphrates. "Athrawon y Paulicaniaid a adwaenid yn unig oddi wrth eu brodyr. nid trwy unrhyw rwysgfawredd, neu wisgiadau allanol a berthynai iddynt," medd Gibbon, "ond wrth helaethrwydd eu gwybodaeth o'r gwirionedd, eu sêl a'u diwydrwydd drosto, eu henwau ysgrythyrol, eu bucheddau sanctaidd, a'u cyd-frawdoliaeth â'u gilydd, heb un ymgais ynddynt am uchafiaeth nac awdurdod y naill ar y llall. Ni chwennychent esgyn i feddiannu y llywodraeth, yr anrhydedd, a'r cyfoeth a feddiannai yr esgobion catholicaidd, pe medrasent; canys cyhuddent y cyfryw o herwydd hyny o fod yn anghristaidd. Ni ewyllysient chwaith helaethu eu hachos trwy gyfreithiau ac awdurdodau dynol, o herwydd eu hymddibyniad gwastadol ar yr Ysbryd Glan, yn mha un yr ymgredent."

Yr amherawdwyr Groegaidd a ymgynhyrfasant wrth eu llwyddiant parhaus, fel y dechreuasant ddwyn peirianwaith erledigaeth, gyda'r gerwindeb mwyaf, i weithredu yn eu herbyn, fel y gallesid meddwl fod dyddiau Maximinus a Galerius yn ad-ddychwel ar ein byd drachefn, ond bod y gweithredwyr dan enw Cristionogion. Peter Siculus yr hanesydd, yr hwn oedd gatholiciad penboeth, a ddywed am yr amherawdwyr hyn fel y canlyn:—"Yn chwanegol at yr amrywiol weithredoedd daionus a wnaeth yr amherawdwyr duwiol ac uniawn-gred hyn, hwy a ddygasant allan gyfreithiau cospol, er gosod i farwolaeth y Montaniaid a'r Manichæaid (dyma yr enwau wrth ba rai y galwai efe y Paulicaniaid), pa rai a ymdaenent y pryd hwnw ar hyd wyneb y gwledydd; a chollfarnwyd eu llyfrau i'w llosgi; ac os dirgelai neb hwy yn eu tai, gyda bwriad i'w diogelu, yr oedd y cyfryw i'w gosod i farwolaeth, a'u meddiannau i'w hattafaelu." Anfonwyd swyddog gwladol, mewn cyflawn awdurdod, a chydag ef lu milwraidd, o lŷs Caer-Cystenyn i Colonia, i gymmeryd a dienyddio Sylvanus, blaenor y praidd, ac, hyd y gallai, i adferu y defaid yn ol i'w corlan gatholicaidd. Gwedi dyfod Simeon, (dyma'r enw wrth ba un y gelwid y swyddog,) a chymmeryd gafael yn yr hen ddiwygiwr, er dangos ei greulondeb catholicaidd, efe a orchymynodd i'r dysgyblion sefyll yn gylch o amgylch i'w hathraw, a rhuthro arno i'w labyddio â meini, fel iawn am eu heinioes eu hunain, ac arwydd o'u hedifeirwch. Eithr hwy a droisant ymaith gyda'r dirmyg mwyaf, a gadawsant i'r meini syrthio o'u dwylaw; ac, yn mhlith y lluaws, ni allodd gael ond un yn ddigon bradychus ac ysgeler i wneud y weithred greulawn ar eu tad ysbrydol. Y dyhiryn gwrthgiliedig a gyflawnodd y weithred, a ddyrchafwyd yn fawr

gan y Catholiciaid, gan ei alw yn Ddafydd wrolaidd, a deilyngai ganiadau ei genedl, am ddymchwelyd o hono gawr yr hereticiaid. Y gwrthgiliwr hwn, a elwir Justus, a labyddiodd, trwy gynnorthwy y meiwyr, dad y Paulicaniaid â meini, fel y bu farw yn y modd mwyaf tawel a siriol, gan gyflwyno ei hun i law ei Dduw, wedi llafurio yn ffyddlon a llwyddiannus yn mhlith ei bobl am saith mlynedd ar hugain.

Nid oes amheuaeth nad amlygodd y Justus fradychus hwn lawer yn chwaneg o'r athrawon duwiol hyn i'r lleiddiaid hyny, y rhai a ddyoddefasant yr un driniaeth â'r clodwiw Sylvanus. Canys wrth weled eu teimladau duwiol, ac effeithiau grymus gras Duw ar eu heneidiau, yn nghyd â'r llawenydd a a lanwai eu calonau wrth ddyoddef y fath driniaethau, daeth Simeon y swyddog ei hun yn hollol argyhoeddedig o ddwyfoldeb eu crefydd, fel y cofleidiodd y ffydd a amcanasai unwaith ei dinystrio. Gadawodd ei swydd a'i sefyllfa ennillfawr ac anrhydeddus dan y llywodraeth amherodrol, a daeth yn bregethwr gwresog o'r efengyl yn mhlith y Paulicaniaid, ac a seliodd ei dystiolaeth â'i waed. Dros yspaid cant a hanner o flynyddoedd wedi hyn, yr ým yn gweled y Cristionogion hyny yn ddarostyngedig, y rhan amlaf, i'r dyoddefiadau mwyaf a allasai yr erlidwyr creulonaf weinydddu tu ag attynt; yn wyneb pa rai yr ymgynnaliasant gyda llawer o wroldeb, addfwynder, ac amynedd Cristionogol; fel, yn ddiau, pe rhoddasid hanes ffyddlon a diduedd o bregethau, bywydau, dyoddefiadau, a merthyrdod yr ymneillduwyr hyn, y buasent yn deilwng o'u cofrestru yn mhlith Cristionogion y ddau ganrif blaenaf o'r oes Gristionogol. Er maint yr erledigaethau a fu arnynt yn yr amser dan sylw, cynnaliodd yr Arglwydd hwy dan yr holl derfysgiadau; a gwaed a lludw y saint oedd, y pryd hwnw, fel ar amseroedd eraill, yn hadau i'r eglwys.

Parhaodd eu cynnulleidfaoedd i fod yn lluosog hyd y nawfed canrif, ac mewn trefn eglwysig, mor bell ag y gallent fod, ac ystyried eu hamgylchiadau; a pherthynai iddynt athrawon dysglaer yn y weinidogaeth dros yr holl amser hwn. Yn mhlith eraill, enwir un Sergius, yr hwn a lafuriodd yn ngwaith y weinidogaeth yn eu plith am ddwy flynedd ar bymtheg ar hugain; duwioldeb a symledd Cristionogol pa un a gydnabyddir, gyda syndod, gan eu gelynion mwyaf. Yn mhlith y rhai mwyaf selog yn dwyn yn mlaen y gorchwyl creulawn o erledigaeth yn erbyn y Paulicaniaid, enwir Justinian yr ail, yr hwn a deyrnasai yn Caer-Cystenyn, yn nechreuad yr wythfed canrif. Efe a dybiodd y gallaf ar unwaith, trwy un fflam, eu dyfetha oll oddi ar y ddaear; eithr cyfarfu â mawr siomedigaeth yn hyny. Rhy anhawdd yw dywedyd y nifer a syrthiodd yn aberthau i angerdd ei gynddeiriogrwydd ef; canys dilys eu bod yn aml. Etto canmolir ef yn fawr o herwydd ei ymdrechiadau gan yr eglwys gatholig. Michael y cyntaf, a Leo y pummed, ni buant yn ol o ddangos eu rhagoriaeth yn eu sêl a'u hymdrechiadau i ddyfeisio ac arfer pob moddion a allent, i ddilëu y Paulicaniaid oddi ar y ddaear. Eithr rhoddir y flaenoriaeth yn hyn i Theodora yr amherodres, yr hon a ddyrchefir yn fawr am ei chreulondeb tu ag attynt, a'i ffyddlondeb i adferyd y delwau i'r eglwysi dwyreiniol. Gosodwyd chwil-lys i fynu ganddo yn nechreu y nawfed canrif, trwy holl Asia Leiaf, i chwilio allan y Paulicaniaid, yn mhob lle: a dilynwyd hwn gan luoedd milwraidd, pa rai oedd i'w dyfetha hwynt, heb arbed na rhyw nac oedran, o unrhyw sefyllfa; fel yr ymffrostiai y lleiddiaid, er boddhau eu harglwyddes, eu bod wedi gosod o honynt i farwolaeth, trwy y cleddyf, y crogbrenau, a'r fflamau tân, fwy na CHAN MIL mewn ychydig amser!

Cyhuddir y Paulicaniaid o amryw olygiadau cyfeiliornus: ond dylem gofio fod yr oll a ddywedir am danynt wrthym ni, yn adroddedig gan eu gelynion, a'r rhai a ystyrient eu rhinweddau mwyaf dysglaer yn feiau o'r duaf ynddynt, ac a gyfrifent ddywediadau anwireddus yn rhinweddol, pan y gwasanaethai hyny eu hachos eu hunain. Ni ddywedir mwy am danynt hwy fel cyfeiliornwyr, nag a ddywedwyd am yr Albigensiaid a'r Waldensiaid, pa rai yn ddiau a ddeilliasant oddi wrthynt yn yr unfed canrif ar ddeg, fel y gwneir sylwi etto. Ond y mae ein cyfleusdra ni yn well i wrthbrofi haeriadau gwrthwynebwyr yr Albigensiaid, nag eiddo y Paulicaniaid er amddiffyn eu hunain. Pan ddywedir eu bod yn gwadu rhwymau dynion i ymarfer â'r ordinhad o Swpper yr Arglwydd—nad oedd Mair yn briodol fam i Iesu Grist—ac nad oedd rhinwedd yn ei groes ef, nid oes i ni ddeall wrth yr haeriadau hyn a osodir yn eu herbyn, mwy na'u bod hwy heb ystyried y pethau yma, yn wrthddrych addoliad, megys y gwnai yr eglwys gyffredinol y dyddiau hyny. Haerir hefyd eu bod yn gosod allan nad oedd esgobion a henuriaid i lywodraethu yr eglwysi. Y mae yn ddiau, wrth yr hanes sydd genym am eu trefn eglwysig, mai eu golygiadau ar y pen hwn oedd, fod y llywodraeth eglwysig yn weinyddiadol yn mhob eglwys a'i gweinidog, ac nid yn llaw esgobion a henuriaid yn eu cymmanfaoedd, fel y mynai pleidwyr y drefn newydd yn eglwysi Crist iddi fod; yr hyn a ddengys gywirdeb eu barn, ac ysgrythyroldeb eu golygiadau, ar unwaith. Ond un o'r prif gyhuddiadau a roddir yn eu herbyn yw, eu bod yn gwadu dwyfoldeb ac awdurdod yr Hen Destament. Yr anair hwn etto sydd hawdd ei symmud, heb eu bod hwy yn euog o un bai. Yr eglwysi a sefydlir trwy gyfreithiau gwladol, a gynnelir yn eu trefniad a'u dysgyblaeth, ac a helaethir yn eu terfynau, trwy enedigaeth naturiol, a grym arfau angheuol, oeddynt, ac ydynt etto, yn ymdrechu profi uniondeb eu hymddygiadau o'r Hen Destament, a'r sefydliad Iuddewig, a gwaith Josuah, Dafydd, &c. yn dwyn yn mlaen grefydd o dan yr oruchwyliaeth honno. Ond gwadai y Paulicaniaid—fel y gwna pawb etto sydd â chanddynt barch i'r gwirionedd, ac iawn olwg ar deyrnas Crist, yr hon nid yw o'r byd hwn—nad oedd y cyfeiriad yn gywir, na'r gymhariaeth rhwng yr eglwys dan y ddwy oruchwyliaeth yn safadwy, ac nad ydym i fyned i'r Hen Destament i ymofyn cynllun o ffurf a threfn eglwys Dduw o dan y Testament Newydd.* Rhoddai hyn y fath dramgwydd i'w gwrthwynebwyr, fel y llwythent hwy â phob anair; a haerent eu bod yn gwadu dwyfoldeb ac awdurdod yr Hen Destament, ac yn hyny yn un â'r Gnostiaid, o herwydd na chymmerent yr oruchwyliaeth Iuddewig yn rheol yn ffurfiad eu heglwysi. Ond gadewn i'r darllenwyr farnu pa un ai hwy ai eu gwrthwynebwyr oedd nesaf i'r gwirionedd.†

Oddi wrth yr hanesion hyn, gallwn weled llwybrau hynod a dirgelaidd rhagluniaeth Duw, ac effeithiau grymus ei ras, yn peri fod y fath gyfnewidiadau a phethau mawrion yn cymmeryd lle oddi wrth achosion mor fychain, a ymddangosent i'n golwg ni fel yn ddamweiniol. Y diacon dyeithr, yn llettya yn nhŷ Cystenyn, yn rhoddi iddo un ysgrif o'r Testament Newydd—

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. pp. 422, 423.

† Cydnebydd Mr. Milner fod y Paulicaniaid yn y dwyrain, YN OLEUNI Y BYD, AC YN HALEN Y DDAEAR—iddynt fyw am hir amser er anrhydedd ac amlygiad o'r efengyl, yn ei sylwedd a'i symledd, trwy fuchedd, ffydd, gobaith, a chariad, yn cynnal gair y bywyd mewn amynedd mawr yn wyneb dyoddefiadau parhaus; gan edrych yn wastadol i fyd arall am eu gwobr, eu cyfoeth, a'u hanrhydedd: a diau, medd ef, na ddarfu iddynt gael eu siomi.—*Church Hist. vol.* iii. *p.* 230.

hyny yn peri, dan fendith y nefoedd, i oleuni a gwybodaeth o'r gwirionedd lewyrchu, ac i wir grefydd ddysgleirio, mewn rhan dywell o'r byd, pan yr oedd dynolryw yn gyffredin yn suddo yn gyflym i dywyllwch dudew, a llygredigaeth o'r mwyaf! Nid ydym i derfynu ein olrheiniad a'n syndod yma; canys y goleuni hwn a gododd yn y dwyrain, a gynnaliwyd, er yn lled aneglur, dros hir oesau, yn wyneb pob ymegniadau i'w gymmylu, trwy yr erledigaethau mwyaf dychrynllyd. Etto, mor bell y bu i hyn fod yn ol o gyrhaedd eu hamcan, fel na ddarfu iddo ond bod yn foddion i'w symmud o le i le, a pheri iddo ddysgleirio ac effeithio cymmaint yn y diwedd, nes dwyn o amgylch un o'r chwyldröadau mwyaf yn agwedd foesol rhan fawr o ddynion y byd,—sef y diwygiad a gymmerodd le yn yr unfed canrif ar bymtheg. Eglurir hyn yn mhellach fel yr elom yn mlaen. Dylai hyn ein dysgu i beidio diystyru dydd y pethau bychain, na digaloni a llwfrhau i lynu wrth egwyddorion y gwirionedd, er maint fyddo iselder achos ein Duw; ond disgwyl wrtho mewn amynedd, ac yn ngafael â'i waith, a'r moddion trefniedig ganddo: "O blegid ychydig bachigyn etto, a'r hwn sydd yn dyfod a ddaw, ac nid oeda."

Yn yr hon a elwir yn eglwys gyffredinol, yr oedd yr ymraniadau a'r terfysgiadau gwaethaf a'r mwyaf gwaedlyd a fu un amser, agos dros yr holl ganrif sydd dan sylw, yn nghylch—pa un a oedd dau ewyllys yn Nghrist, ai nid oedd? Gelwid y blaid a farnai nad oedd ynddo ond un ewyllys, neu yn hytrach nad oedd ynddo ond un gweithrediad neu effeithiad ewyllys, yn Monothelytiaid. Proffesai y rhai hyn, yn gysson â'r rhai uniawn-gred yn gyffredin, eu bod yn credu fod dwy nattur yn berffaith mewn undeb diwahan yn mherson y Cyfryngwr; ond barnent fod yr undeb o'r fath â bod gweithrediad yr ewyllys dynol yn cael ei lyngcu i fynu yn yr un dwyfol, fel yr oeddynt yn un, fel y mae ysgrifell ac ysgrifenydd i'w hystyried yn un yn yr effeithiad. Yr amherawdwr Heraclius oedd y blaenaf, fel y dywedwyd, a ddygodd y golygiad hwn o dan sylw, er mwyn uno y Nestoriaid, y Monophysitiaid, a'r eglwys gyffredinol â'u gilydd. Pleidiwyd ei olygiadau gan lawer o bob plaid, yn enwedig gan Cyrus, patriarch Alexandria, a Sergius, patriarch Caer-Cystenyn; cynnullwyd cymmanfaoedd; gwnaethwyd erthyglau yn ol yr egwyddorion hyn, a chyhoeddwyd esgymundod yn erbyn y neb na chredai, ac nad ymddygai yn gysson â'r rhai hyny. Eithr gwrthwynebwyd hwy gan Sophronius, monach o Palestina, yr hwn a godwyd yn yr amser hwn i batriarchaeth Caersalem, lle y cynnullodd gymmanfa o ychydig o'i gyfeillion, pryd y cyhoeddasant y golygiadau uchod yn gyfeiliornadau dinystriol, er y cofleidid hwy y pryd hwnw gan y patriarchiaid eraill oll, yn gystal â'r amherawdwr, a Honorius y Pab Rhufeinig hefyd. Heraclius yr amherawdwr, gyda Sergius, patriarch Caer-Cystenyn, a ddygasant allan weithred ddeddfol, yr hon a ddywedent a gynnwysai eglurhad ar yr holl gyffesau ffydd a wnaed yn y gwahanol gymmanfaoedd cyffredinol, yr hon a elwid Ecthesis, i ba un y gofynent ymostyngiad yr holl eglwys. Eithr erbyn hyn yr oedd Pab arall yn Rhufain, o'r enw Ioan y pedwerydd, yr hwn a wrthwynebodd y weithred â'i holl egni, yn nghyd â'i olynwyr; a thua'r un amser, esgynodd Constans i'r orsedd amherodrol, yr hwn oedd yn bleidiwr gwresog i'r golygiadau a gynnwysai y weithred. Gwnaeth hyn i orsedd Caer-Cystenyn, a gorsedd Babaidd Rhufain, fod yn hollol wrthwynebol i'w gilydd am hir flynyddau; a llawer o fywydau a aberthwyd i nwydau llygredig y rhai a'u meddiannai.

Yn y flwyddyn 648, dygwyd allan weithred arall trwy awdurdod Constans, yn gyflawn i'r un perwyl â'r llall, ac yn cynnwys yr un golygiadau, ond ei bod wedi ei gwisgo â mwy o fwys-eiriau, o'r enw TYPE, neu y Ffurf-lyfr. Canlynwyd hon â gorchymyn amherodrol, sef fod i bawb i'w chredu ac ymostwng iddi, neu gael eu cospi. Eithr Martin, yr hwn a eisteddai yn y gadair Babaidd yn Rhufain, yn y flwyddyn 649, a gynnullodd atto amryw o esgobion i'r ddinas honno, y rhai, yn y modd mwyaf balchaidd, gan ymarddelwi hawl i raglawiaeth Crist ar y ddaear, a ddedfrydasant yr *Ecthesis* a'r *Type*, fel rhai yn cynnwys y cyfeiliornadau mwyaf dinystriol; ac esgymunasant eu hawdwyr, a'u pleidwyr oll, sef y Monothelytiaid, gan eu traddodi, yn y modd difrifolaf, i ddiafol a'i angylion! Cynhyrfodd hyn Constans i'r ffyrnigrwydd cynddeirioccaf; ac anfonodd ei luoedd yn erbyn Martin, yr hwn ni ellid ei gymmeryd dros amser; eithr o'r diwedd a ddaliwyd, trwy frâd, gan Caliopas, Exarchiad o Ravenna, ac a anfonwyd yn rhwym i'r amherawdwr. Efe, wedi gorchymyn ei anafu, trwy dorri ymaith ei law, ei drwyn, a'i dafod, a thynnu ymaith ei lygaid, a'i halltudiodd i ynys Naxos, lle bu farw o'r driniaeth galed a ddyoddefasai. Maximus, monach dysgedig, yr hwn a flaenorai yn y gwrthryfel hwn, a alltudiwyd i Bizyca, gwedi dyoddef triniaethau creulawn, yn nghyd â llawer o'i gyfeillion; a lluaws o honynt a roddwyd i farwolaeth yn y naill ffordd a'r llall.* Y mae y dyoddefwyr hyn wedi eu seintio gan yr eglwys Babaidd; a chyfrifir hwy yn ferthyron teilwng dros y ffydd Gristionogol, gan lawer; eithr yn ol y chwiliad mwyaf manwl, y mae cywirdeb y fath haeriadau yn hollol amhëus genym, ac nis gallwn weled ynddynt ddim o ysbryd y Cristionogion cyntefig, a ddyoddefasant dros grefydd Crist. Pell iawn ydym o gyfiawnhau Constans a'i bleidwyr, ac nid ŷm yn gweled fawr mwy o wir grefydd yn y naill ochr na'r llall. Canys Martin a'i bleidwyr a ddangosant yn eglur eu bod yn gweithredu mwy oddi ar ystyriaeth o oruchel awdurdod gorsedd Rhufain, i lywodraethu a threfnu yr holl eglwys, a gwag-rwysgfawredd, nag oddi ar ysbryd gwir Gristionogaidd. Sêl ac ymdrech dros y pethau hyny sydd amlyccaf yn eu bywyd; ac y mae lle i feddwl mai drostynt hwy y dyoddefasant, ac y buant feirw, yn hytrach na thros y gwirioneedd, megys y mae yn yr Iesu.

Yn y flwyddyn 667, rhoddwyd Constans yr amherawdwr, er yn annheilwng iawn o'r enw a'r sefyllfa, i farwolaeth, yn Syracuse, prif-ddinas Sicily; a daeth Cystenyn Pogonatus ei fab i deyrnasu yn ei le, yr hwn oedd hollol groes iddo yn ei olygiadau crefyddol, er nad oedd fymryn gwell yn ei ymddygiadau.† Yn y flwyddyn 680, cynnullodd gymmanfa, yr hon a elwir y chwechfed gymmanfa gyffredinol, yn Caer-Cystenyn, lle yr ymgynnullodd lluaws mawr o esgobion, yn mha un y blaenorai yr amherawdwr ei hun, pryd y dedfrydwyd Monothelytiaeth i golledigaeth; a llawer o'i phleidwyr a erlidiwyd, ac a ddinystriwyd, mewn amryw ffyrdd; fel, o hyn allan, braidd na suddodd eu hachos i hollol anghof, oddi eithr ychydig o honynt a lynodd wrth un Ioan Marco, yr hwn a enciliasai i breswylio tua chonglau mynydd Libanus, lle yr adwaenir hwy dan yr enw Marconiaid.‡

Yr oedd y canrif hwn yn ffrwythlawn iawn mewn cymmanfaoedd, trwy holl Europe, yn mha rai y byddai brenhinoedd yn mhob gwlad yn eistedd

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. ii. p. 193. † Ibid. vol. iii. p. 314.
‡ Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 197.

fel blaenoriaid, gyda rhaglawiaid oddi wrth eglwys Rhufain. Gwnaed ynddynt ymdrechiadau gwastadol i chwanegu defodau ac ymarferiadau a elwid yn grefyddol, ac er dwyn unffurfiad mewn cyflawniadau; ac y mae y cyfreithiau eglwysig a elwir *canonau*, a wnaed y pryd hwn, yn aneirif.* Gwnaethwyd yn Toledo, yn yr Hispaen, mewn cymmanfa, tua phedwar ugain o'r cyfryw gyfreithiau; rhai o honynt oeddynt osodiadau na ellir beio arnynt, ynddynt eu hunain; eithr eraill oeddynt blentynaidd a disynwyr hollol, a'u hystyried yn y cyfan, yn eu perthynas â theyrnas Iesu Grist. Onid oeddynt yn eu gwneuthuriad yn diswyddo ac yn difeddiannu Crist yn hollol o'i frenhiniaeth, fel deddfwr ei eglwys?—yn rhoi ei air sanctaidd o'r neilldu, fel yn annigonol, ac yn dwyn crefydd yn ymddibynol ar ewyllys dynion, ac nid ar ewyllys Crist?—ac onid oeddynt, trwy hyn, yn dwyn crefydd i fod yn fasnach ddynol, ac yn drefniad cyfrwysgall, i atteb dybenlon llywodraeth wladol, yn hytrach na bod yn beth cyssegredig rhwng dynion a Duw, yn bersonol, fel eu Creawdwr, eu Llywydd, a'u Pryniawdwr? Diau mai trwy y cymmanfaoedd hyn y gwnaethwyd i fynu gorph y bwystfil Rhufeinaidd, ac y sefydlwyd ei lywodraeth. Pab o'r enw Vitalianus, a lywodraethai tua'r flwyddyn 670, a ddechreuodd ddwyn i mewn i ymarferiad yn y lleoedd addoliad, yn mhlith y Cristionogion, yr offeryn cerdd hwnw, a elwir ermyg, *(organ)* gyntaf erioed. Cynnyddodd Pabau Rhufain yn annhraethadwy yn eu golygiadau hunanol, eu rhwysgfawredd, a'u hymarddelwad i lywodraeth ar bob peth yn yr holl eglwys, yn y canrif hwn; fel y dywed Agatho y cyntaf, ag oedd yn y gadair Babaidd, yn y flwyddyn 680, *fod yn annichonadwy i gadair Rhufain gam-gymmeryd mewn dim—fod yn rhaid i bob enaid a gedwir i fywyd tragywyddol, gredu a derbyn holl draddodiadau a sefydliadau eglwys Rhufain—a bod pob un o'i gosodiadau a'i threfniadau hi, o'r un awdurdod â phe buasent wedi eu gosod gan Pedr ei hun.*†

Lleihaodd Ariaeth yn fawr, a chollodd ei hawdurdod, yn y canrif hwn, yn mhob lle, hyd yn nod yn yr Ital, yn mhlith y Lombardiaid, lle y parhaodd hwyaf mewn grym ac effeithioldeb.

* Sympson's Church Hist. p. 527. † Ibid. p. 324.

TERFYN Y SEITHFED CANRIF.

PENNOD XXXVII.

CANRIF VIII.

Lle y traethir am godiad i fynu Arwydd-luniau a Delwau yn yr Eglwysi — Dygiad yn mlaen Eilunaddoliaeth — y Gwrthsafiad a wnaed i eilunaddoliaeth yn y Dwyrain gan yr Amherawdwyr — y Rhyfeloedd a achlysurodd hyny — Gosodiad Pabau Rhufain mewn meddiant o dywysogaeth a llywodraeth ddaearol, trwy weinidogaeth Brenhinoedd Ffraingc — Gosodiad i fynu Pepin a Charlemagne, a'r hil Carlomanaidd, ar orsedd Ffraingc, trwy weinidogaeth Pabau Rhufain — Helaethrwydd y Tiriogaethau a roddwyd yn anrheg i St. Pedr — Codiad Charles Fawr i'r orsedd amherodrol, a Sefydliad ei amherodraeth — ei Goroniad — ei Gymmeriad fel amherawdwr — a'i Ymdrechiad dros yr Eglwys Babaidd — Agwedd yr Eglwys yn amser ei weinidogaeth — y Gweithredoedd ffugiol a wnaed er cyfiawnhau yr Eglwys Babaidd, yn yr ymarddelwad a wnai i'r tiriogaethau a feddiannai — yn nghyd âg Adolygiad o'r hanesion hyn.

TALEITHIAU helaeth a brasaf y dwyrain a gymmerwyd ymaith oddi wrth y rhan ddwyreiniol o amherodraeth ëang Rhufain gynt, yn nechreuad y canrif hwn, gan y Saraceniaid. Y Caliphiaid (yr enw wrth ba un yr adwaenir penaduriaid y Saraceniaid) a osodasent eu llŷs amherodrol i fynu yn Damascus, o fewn Syria, yr hon a fu eu prif-ddinas o'r flwyddyn 637 hyd y flwyddyn 766, pan yr adeiladodd y Caliph Almansor, Bagdad, ar yr afon Tigris, i fod yn ddinas amherodrol, ac y symmudodd y llŷs yno.* Trwy i amherodraeth Caer-Cystenyn gael ei chyfyngu fel hyn, gan mwyaf, i wleydd Groeg, a'r taleithiau o amgylch i hyny, gelwir hi o hyn allan yn amherodraeth Groeg gan y rhan fwyaf o haneswyr, a'r eglwys yn ei pherthynas â hi, yn eglwys Groeg. Meddiennid gorsedd Caer-Cystenyn y pryd hwn gan un o'r dyhirod gwaethaf a chreulonaf a fu yn y byd erioed, sef Justinian yr ail, yr hwn a ystyriai yr arteithglwyd, y cebystr, a'r fwyall, fel unig offerynau llywodraeth. Efe oedd y diweddaf o deulu Heraclius a fu yn teyrnasu; a chwedi ei farwolaeth, yn y flwyddyn 711, daeth un Philippicus i'r orsedd. Efe oedd y cyntaf a ddechreuodd wrthwynebu arwyddluniau mewn lleoedd addoliad. Eithr ni theyrnasodd efe ond dros ychydig iawn o amser, cyn cael o hono ei osod i farwolaeth gan drigolion Caer-Cystenyn, pan y gwisgasant un Artemius â'r goron amherodrol, dan yr enw Anastasius yr ail. Efe, wedi ei wrthwynebu gan un Theodosius y trydydd, a roddodd i fynu yr amherodraeth iddo, ac a gymmerodd swydd esgob; a Theodosius yn fuan a drosglwyddodd ei swydd i un Leo yr Isauriad, hanes pa un a'n dwg i olwg amgylchiadau tra phwysig perthynol i'r eglwysi: canys

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 515.

efe oedd y cyntaf a wnaeth ddeddf, gyda golwg ar yr eglwys a elwir yn Gristionogol, er dinystrio ei delwau, o herwydd paham y gelwir ef LEO ICONOCLASTIAD.*

Anhawdd yw dywedyd pa mor foreu y dechreuodd rhai yn mhlith y Cristionogion i arfer delwau ac arwydd-luniau mewn modd dirgel a chyhoeddus, er y teimlai yr eglwys gyntefig adgasrwydd mawr at y cyfryw bethau. Yn fuan wedi dyddiau Cystenyn Fawr, pan ddygwyd lluoedd o baganiaid i mewn i'r eglwys trwy ddeddfau gwladol, gwelwn mewn llythyr o eiddo Constantia yr amherodres, ddeisyfiad ar Eusebius o Pamphylia, i anfon iddi wir a phriodol ddelw Iesu Grist. Mewn attebiad, efe a ddenfyn atti anmhriodoldeb ac ynfydrwydd y cyfryw ddeisyfiad yn y geiriau canlynol:—"Pa ddelw o Grist a chwennychai eich mawrhydi amherodrol i mi ei ddanfon i chwi? ai delw o'i wir, ei anweledig, a'i anghyfnewidiol nattur, neu yr hon a gymmerodd efe er ein mwyn ni, pan yr ymddangosodd mewn agwedd gwas? Gyda golwg ar y blaenaf, meddyliaf nad rhaid i mi eich dysgu nad oes neb yn adnabod y Mab ond y Tad, a'r neb a ewyllysio efe ei ddadguddio. Ond tebygol yw eich bod yn gofyn am ddelw Crist pan yr ymddangosodd ar wedd ddynol, wedi ymwisgo â chorff yn gyffelyb i'r eiddom ni. Gadewch i mi hysbysu i'ch mawrhydi, fod y corph hwn yn bresennol wedi ymwisgo â chymmaint o ogoniant y Duwdod, fel y mae yr oll oedd farwol ynddo wedi ei lyngcu i fynu gan fywyd pur, ac anweledigrwydd."† Gwedi hyn, tu a'r flwyddyn 337, mewn cymmanfa yn Iliberis, yn yr Hispaen, gwelwn reolau yn cael eu sefydlu yn erbyn gosodiad i fynu arwydd-luniau; yr hyn a ddengys fod yr arferiad yn dechreu y pryd hwnw. Paulianus, esgob Nola, wrth weled tuedd ei wrandawyr i addoli lluniau, a orchymynodd, tua'r flwyddyn 431, i gerfio rhanau o'r ysgrythyrau ar furiau ei addoldy, yn lle unrhyw luniau, fel y gallai trwy hyny ddysgu y bobl mewn hanesion ysgrythyrol.

Dechreuodd yr arferiad yn gynnil, trwy i rai o'r gweinidogion oddef i'w pobl, yn eu teuluoedd, ac mewn lleoedd addoliad, godi arwydd-luniau o'r hyn oedd barchus ganddynt, i ddysgu yr anwybodus, i ennyn sêl y rhai claiar, ac i foddhau y dychweledigion ieuaingc oddi wrth baganiaeth, a symmud ymaith eu rhagfarn yn erbyn Cristionogaeth. Yn araf, yn annirnadwy, etto yn effeithiol ac yn anocheladwy, y cynnyddodd yr arferiad; ac yn fuan daeth y parch a'r anrhydedd a amcenid i'r hyn a arwyddid, yn drosglwyddedig i'r arwydd; fel y gellid gweled dynion, yn dra chrefyddol, yn ymgrymu o flaen llun y groes—Mair—a'r saint. Hefyd, daeth yr arferiad o blygu gliniau, goleuo canwyllau, ac arogldarthu i'r rhai hyn yn gyffredin yn yr eglwys gatholig, megys y gwnaid i bethau eraill yn mhlith y Paganiaid. Heblaw llawer o ffug-wyrthiau a gweledigaethau a ddygwyd yn mlaen dros yr ymarferiad, defnyddid anweledigrwydd amryw bethau a dybid eu bod yn wrthddrychau parch ac addoliad, yn rheswm dros yr arferiad. Dywedwyd yn barod y modd y dechreuodd addoliad i'r merthyron a'r saint ymadawedig gymmeryd lle, a'r parch a'r effeithioldeb a briodolid i'w gweddillion, yn y pedwerydd a'r pummed canrif, trwy yr holl eglwysi: eithr gan nad oedd corph Crist i'w gael, na darnau o hono, o herwydd ei fyned i'r nef; ac am na allent gael allan, er eu holl fedrusrwydd, yn mha le y

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. iii. p. 318.

† Jones's Hist. of the Christian Church, vol. i. p. 391.

gorweddâi corph Mair Forwyn, a lluaws o saint eraill a merthyron; gan hyny tybiasant y gwnaethai eu lluniau yn gerfiedig, neu yn wneuthuredig, mewn unrhyw fodd, atteb y dyben yn hollol, yn lle eu gweddillion, neu ryw ddarnau o'r hyn a berthynai iddynt. Ac er iddynt drosglwyddo llawer o goed lled-bwdr o Palestina i amryw wledydd, am bris uchel, dan yr enw coed y groes ar ba un y dyoddefodd ein Harglwydd, etto nid oeddynt yn ddigonol i'w taenu yn mhob lle; canys nid oedd na gwlad nac eglwys yn foddlon bod heb ryw beth o honi yn ei meddiant. Er gwneuthur i fynu y diffyg hwn, penderfynwyd ar fod i'w llun atteb yr un dybenion, â phe buasai yno ryw ddarnau o honi. Yr oedd delwau yn arferedig, ac addoliad wedi ei sefydlu iddynt yn lled gyffredin trwy yr eglwysi, yn enwedig yn y dwyrain, cyn diwedd y chwechfed canrif; meithrinwyd yr arferiad yn wresog, gan ddychymmygion poethlyd y Groegiaid a'r Asiäaid; y *Pantheon* a'r *Vatican* yn Rhufain a addurnwyd âg arwyddion y goelgrefydd newydd: ond yn mhlith y barbariaid cawsant y derbyniad oeraf. Arwydd-lun o Grist—y groes—a Mair Forwyn, oedd y rhai cyntaf, mae yn debyg, y rhoddwyd parch ac addoliad crefyddol iddynt.*

Pan oedd Gregory y cyntaf yn llywodraethu eglwys Rhufain, yn nechreuad y seithfed canrif, sylwodd Severus, esgob Marceiles, yn Ffraingc, fod ei gynnulleidfa yn addoli yr arwydd-luniau oedd ar furiau yr addoldy; o herwydd paham gorchymynodd i'w tynnu ymaith a'u dinystrio. Ar hyn cynhyrfodd amryw o'i bobl i ddigofaint, yn ei erbyn, fel y gadawsant gymundeb yr eglwys, ac yr anfonasant achwyniad yn erbyn Severus i lŷs esgob Rhufain. Mewn canlyniad i'r achwyniad, Gregory a enfyn atto y llythyr canlynol:—"Yr wyf wedi clywed eich bod, wrth weled eich pobl yn rhoi addoliad i'r arwydd-luniau yn eich addoldy, wedi gorchymyn eu tynnu i lawr a'u dinystrio. Canmolaf chwi am eich gofal a'ch sêl yn erbyn i'r bobl addoli dim a wneir â dwylaw dynion; eithr meddyliaf na ddylasech dynnu ymaith a dinystrio yr arwyddion hyny. Canys amcan y rhai hyn ydyw dwyn i gof a dysgu y bobl anwybodus, a'u dwyn i weled, trwyddynt, yr hyn ni welant ac ni ddeallant trwy ddarllain llyfrau, o herwydd byrdra eu dysgeidiaeth. Barnaf, fy mrawd, y dylasech chwilio allan lwybr arall, a bod o duedd i adael yr arwydd-luniau yn y man yr oeddynt, fel y gallasai y bobl anwybodus gael dysgeidiaeth, a dyfod i wybodaeth o hanesyddiaeth ysgrythyrol trwyddynt, ac ar yr un pryd eu hattal rhag eu haddoli."† Oddi wrth y pethau hyn, gwelir yn ddigon eglur fod arwydd-luniau, neu ddelwau, yn yr eglwysi yn gyffredin y pryd hwnw, a bod y rhai a dybid yn mlaenaf yn yr eglwys, yn cefnogi eu gosodiad i fynu, megys Gregory, er nad oedd yn caniattau rhoddi addoliad iddynt yn uniongyrchol. Ond nid oes nemawr o wahaniaeth rhwng golygiadau Gregory am yr arwydd-luniau hyn, âg eiddo y callaf yn mhlith y Paganiaid a'r Pabyddion hyd heddyw. Canys dywedant hwy nad yw yr arwydd ynddo ei hun yn wrthddrych addoliad, ond yr hyn a arwyddocceir trwyddo; ac yn eu gwaith yn ymostwng o flaen yr arwydd-lun, golygant eu bod trwy hyny yn rhoddi parch ac addoliad i'r hyn a arwyddir. Er fod Gregory am wahardd rhoddi addoliad i ddim a wneid â dwylaw dynion, etto mae yn ddilys y golyga fod y groes ar ba un y dyoddefodd Crist, Mair, Pedr, &c. pa rai a arwyddocceid

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 352.

† Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 391.

trwy yr arwydd-luniau hyn, yn teilyngu parch ac addoliad, a'i fod yn eu hystyried hwy fel yn cyfryngoli dros yr eglwys gyda Duw.*

Pleidgarwch Gregory a'i gyffelyb, a'u goddefiad i osod i fynu y delwau hyn mewn lleoedd addoliad, a fu o'r canlyniadau mwyaf dinystriol i wir grefydd, ac a ddygodd i mewn un o'r arferiadau a fu o'r dianrhydedd mwyaf i'r eglwys Gristionogol. Canys, mewn canlyniad, yr ydym yn gweled fod addoliad delwau yn cael ei weinyddu yn ddirgel, yn y modd mwyaf cyhoeddus a chyffredinol, yn yr eglwysi o hyny allan. Gwir a chyflawn gymmeriad Duw, fel gwrthddrych addoliad, a eglurir yn unig trwy efengyl ein Harglwydd Iesu Grist; ac mor bell âg y byddo dynion yn anwybodus o hon, a dyeithr i'r effeithiau daionus, pa rai yn unig a ddichon wasgaru y cymmylau, a symmud ymaith y tywyllni oddi ar feddyliau dynion, y maent yn naturiol yn ymlithro i goel-grefydd ac eilunaddoliaeth yn anocheladwy. Dyma fel yr oedd pethau yn yr amser sydd o dan sylw. Gair Duw oedd yn anaml iawn, a gwaherddid i neb, ond rhyw ychydig, i'w ddarllain, a'r ychydig hyny yn hollol ddiofal am ei wybod eu hunain, na'i ddysgu i neb eraill; o ganlyniad, nid yw yn beth i'w ryfeddu fod coel-grefydd, defodau dynol, ac eilunaddoliaeth yn gwneud y fath gyflym redfa er gorchuddio dynolryw. Er hwylusu llwyddiant y delwau hyn, yr oeddid, yn y seithfed canrif yn cyhoeddi allan fod llawer o honynt yn cael eu gwneuthur mewn modd gwyrthiol gan Dduw; a golygid fod y rhai hyn yn amddiffynyddion i dai, trefydd, a dinasoedd, fel pe buasai Crist neu Dduw ei hun ynddynt. Y geiriau canlynol a brawf hyn, y rhai ydynt gynnwysiad emyn a arferid ei chanu yn Nghaer-Cystenyn, tua'r amser uchod. "Pa fodd y dichon ein llygaid marwol syllu ar y ddelw hon, gogoniant ysbrydol pa un ni feiddia y llu nefol edrych arni! Efe yr hwn a drig yn y nef, a ymostyngodd i ymweled â ni y dydd hwn, trwy ei barchus ddelw; Efe yr hwn a eisteddodd ar y cerubiaid, a ymwelodd â ni heddyw yn yr arwydd-lun lluniedig gan y Tad, ac a weithiodd â'i law ddiwyrni, pa un a ffurfiodd efe mewn modd annhraethadwy o hardd, yr hon a sancteiddiwn trwy ei haddoli gyda pharch a chariad."†

Pan yr oedd eilunaddoliaeth fel hyn wedi ei dderchafu mor uchel yn yr eglwys gatholig, gwelodd yr Arglwydd yn dda i ddeffroi meddyliau rhai yn y dwyrain i'w wrthsefyll, yn yr wythfed canrif. Y Mahometaniaid oeddynt wrthwynebol iawn i bob math o eilunaddoliaeth; a phan ddaethant am draws y gwledydd yn lluoedd buddugoliaethus, gwaradwyddent y Cristionogion yn mhob lle o herwydd amlder eu heilunod; a thrwy fod y trigolion yn gweled nad oedd delw Crist, Mair, &c. yn achub neb o ddinasoedd yr Aipht, Syria, a Palestina, rhag syrthio i law y Saraceniaid anghrediniol, fel yr oeddid yn proffesu y gwnaent, hwy a ddechreuasant weled yr oferedd o honynt. Leo y trydydd, yr hwn a ddaeth i orsedd Caer-Cystenyn yn y flwyddyn 716; a Besor, Syriad o genedl, eithr y pryd hwnw yn llŷs Byzantium, a gyhoeddasant gyntaf ynfydrwydd a phechadurusrwydd y cyfryw arferiadau. Gwedi i'r amherawdwr ddechreu edrych i mewn i hyn, a

* Mae yn anhawdd meddwl am un peth yn fwy coelgrefyddol, gwag, a thwyllodrus, na'r pwys a rydd Gregory ar olew drewedig, a elwid yn olew cyssegredig, trwy ei fod wedi ei gymmeryd o'r lampau ag oedd yn llosgi yn barhaus yn meddau rhai o'r merthyron. Gyda'r fath ymffrost gorfoleddus y dywed yn ei lythyr at Theudelinda, brenhines Lombardy, fod yr olew hwn a anfonai efe iddi hi, o fedd St. Pedr, yn iachusol i gorph ac enaid!—*Mosheim's Eccl. Hist. vol.* ii. *p.* 125. *General Biographical Dict.*

† Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 354.

gwneud yn amlwg ei olygiadau am anmhriodoldeb y delwau, efe a gefnogwyd yn ei olygiadau gan Cystenyn, esgob Nacolia, yn Phrygia. Cynnulldd ei gynghorwyr a phobl Caer-Cystenyn yn nghyd; a chyda rhwyddineb a difrifoldeb, fel un a chwennychai achub ei bobl rhag y gwaethaf o arferion, a'u dwyn i adnabod y gwirionedd, rhoddodd ger eu bron dystiolaeth eglur a gwrol yn erbyn yr arferiadau gwaelion, a gwaharddiad, nad oedd un arwyddlun na delw i gael ei chodi i fynu mwyach, fel gwrthddrych o barch ac addoliad.

Nid oedd un gyfraith eglwysig nac amherodrol wedi ei gwneuthur hyd yn hyn dros godiad i fynu arwydd-luniau, ond traddodiad yn unig; ac yr oedd hanesyddiaeth hynafiaethol yn eu herbyn, a thystiolaeth eglur gair Duw yn eu dedfrydu, yr hyn a ddylasai fod yn llawer mwy ei bwys yn eu golwg na neb o'u cyfreithiau hwy na'u hynafiaid. Etto y cyfryw oedd dallineb y bobl, a'u hymlyniad wrth eu delwau, fel y codasant yn lluoedd yn erbyn Leo, ac ei gosodasant allan fel gormeswr, teyrn-fradwr, ac erlidiwr. Blaenorid y gwrthwynebwyr gan Germanus, archesgob Caer-Cystenyn, a Ioan Damascus, yr hwn a flaenorai yn mhlith y monachod. Y rhai hyn, mewn cymmaint sêl ac anwybodaeth, a ddadleuasant dros ddefnyddioldeb y delwau a'u heffeithioldeb, ac arferiad yr eglwys o honynt er y dechreuad; a chyhoeddasant eu penderfyniad diysgog i wrthwynebu yr amherawdwr. Germanus, fel y gwnai hyn yn fwy effeithiol, a anfonodd at Gregory yr ail, ag oedd y pryd hwnw yn ben eglwys Rhufain, am yr hyn oedd yn cymmeryd lle, yr hwn a bleidiodd y delwau, a'r arferiad o honynt, trwy yr un cyffelyb resymau â Germanus ei hun.

Ni a gawn ddau lythyr o eiddo Gregory at yr amherawdwr ar yr achlysur hwn, pa rai, er na chynnwysant hyawdledd, na chywreinrwydd ymresymeg, etto a roddant oleu eglur ar gymmeriad yr ysgrifenydd:—"Am ddeng mlynedd bur a dedwydd," medd ef wrth yr amherawdwr, "cawsom brofiad blynyddol a chyssurus o honoch, trwy eich llythyrau amherodrol, wedi eu harwyddo âg ingc porphoraidd, a'ch llaw eich hun yn sanctaidd wystl o'ch ymlyniad diffuant wrth uniawn gred eich tadau. Mor alarus y cyfnewidiad! mor echryslawn y gwaradwydd! Yr ydych yn ein cyhuddo ni y catholiciaid o eilunaddoliaeth; ond yr ydych trwy y cyhuddiad yn bradychu eich anwybodaeth a'ch annuwioldeb eich hun. I'r anwybodaeth hwn yr ydym yn rhwym o briodoli y dull anfedrus, a'r rhesymau trwsgl a welir yn eich ysgrifau; fel y mae yr egwyddorion blaenaf yn y llythyrau sanctaidd yn ddigonol i'ch gwrthbrofi. Pe byddai i chwi fyned i rai o'n hathrofäau llythyrenog, a dywedyd eich bod yn wrthwynebydd i'n dull o addoli, y plant bychain, syml a duwiol, sydd yno, a gynhyrfid yn y fan i daflu y llyfrau cyrn at eich pen yn ddiarbed." Gwedi yr annerchiad anweddaidd uchod, y Pabydd a â yn mlaen, gan ddangos i'r amherawdwr y mawr wahaniaeth oedd rhwng eilunaddoliad y Paganiaid gynt, a'r eiddo y rhai a alwent eu hunain yn Gristionogion. "Y blaenaf," medd ef, "oedd ddychymmygol, trwy eu bod yn ddarluniau o ryw ledrith, neu ysbrydion drwg, wedi cael eu ffurfio, pan na roddasai Duw un amlygiad o hono ei hun mewn unrhyw arwydd gweledig. Y diweddaf sydd wirioneddol, yn sylfaenedig ar ddarluniadau cywir o Grist—ei fam—a'r saint, pa rai a gymmeradwyasant ddiniweidrwydd a theilyngdod y cyfryw addoliad perthynasol, trwy luaws o wyrthiau." Rhaid yn ddiau ei fod ef yn ymddiried yn fawr i anwybodaeth Leo, pan yr anturiai i haeru fod delwau yn barhaus yn yr eglwys er y dechreuad, a'u bod yn bresennol yn chwe cymmanfa gyffredinol yr eglwys

gatholig. Leo anghall, annynol, ac euoccach o lawer na'r gwaethaf o'r hereticiaid, a gynghorir ganddo i fod yn llonydd, heddychlon, a distaw, ac i roddi ufudd-dod ymddibynol ar ffyddlondeb ei flaenoriaid ysbrydol ag oedd yn Rhufain a Chaer-Cystenyn. Dengys fod gallu y llywodraeth wladol yn unig i ymwneud â'r corph, ond fod gallu y llywodraeth eglwysig â chanddi a wnelai â chorph ac enaid —fod y blaenaf wedi ei hymddiried i farnwyr y ddaear, a'r llall yn llaw swyddwyr eglwysig; yn y cyflawniad o ba un, nid oedd mab i arbed ei dad—a bod gan ganlynwyr St. Pedr hawl i geryddu a chospi brenhinoedd y ddaear. "Rhuthrasoch arnom ni, rai diarfogion a noeth, O deyrn-ormeswr! gyda braich o gnawd—gyda llu ac arfau milwraidd. Gan hyny, (medd ef,) nid oes genym i'w wneuthur ond erfyn ar Grist, tywysog y lluoedd nefol, anfon attoch ysbryd aflan, er dinystr i'ch corph ac i iachawdwriaeth eich enaid. Cyhoeddasoch, gyda balchder calon, a llawer o ynfydrwydd, yr anfonech eich cennadau awdurdodol i Rufain i dorri i lawr a chwilfriwio delw St. Pedr; ac y dygech Gregory, fel ei ragflaenor Martin, i alltudiaeth, mewn cadwynau, at droed eich gorsedd amherodrol. Bydded wiw gan Dduw i mi droedio yr un llwybrau â Martin sanctaidd; ond boed i ddiwedd galarus y Cystenyn hwnw fod yn rhybudd i erlidwyr yr eglwys. Y teyrn-ormeswr hwnw, wedi ei esgymuno a'i ddedfrydu gan esgobion Sicily, a dorwyd ymaith yn nghanol ei ddrygioni, gan un o'i weision teuluaidd; eithr y Sant Martin sydd mewn coffadwriaeth barchus gan drigolian Scythia, yn mhlith pa rai y gorphenodd ei alltudiaeth a'i fywyd. Ond, am mai ein dyled ni yw byw er adeiladaeth i'r ffyddloniaid, nid ydym wedi ein darostwng i beryglu ein bywyd a'n diogelwch ar ganlyniadau unrhyw ymdrechfa neillduol. Mor annigonol âg ydych chwi i amddiffyn eich deiliaid Rhufeinaidd, ydyw rhanau mordwyol y ddinas bon; a thrwy hyny, fe allai, yn agored i chwi ein hanrheithio: ond dylech gofio y gallwn symmud bedair *stadia* ar hugain, (yr hyn, mae'n debyg, oedd yr un cymmaint o filltiroedd,) i amddiffynfa y Lombardiaid, ac yna——gellwch ymlid y gwynt. Oni wyddoch chwi mai y Pabau sanctaidd ydyw unig rwymyn undeb rhwng y dwyrain a'r gorllewin? Llygaid holl genhedloedd y ddaear a edrychant ar ein mawr ymostyngiad; ac y maent yn parchu yr apostol Pedr fel duw ar y ddaear—delw pa un a fygythiasoch chwi ei dinystrio! Gwybyddwch fod teyrnasoedd pellaf y gorllewin yn ymostwng i Grist a'i raglaw; ac yr ydym yn parottoi yr awrhon i ymweled âg un o'r penaduriaid galluoccaf yn y gwledydd, i weinyddu yr ordinhad o fedydd arno. Y barbariaid sydd yn ymostwng i iau yr efengyl, pan yr ydych chwi eich hun yn ynfydu heb wrandaw ar lais y Bugail. Y duwiolaf farbariaid hyn ydynt yn llawn eiddigedd dros ddial ar erlidwyr a breswyliant yn y dwyrain. Ymadewch â'ch anturiaeth chwidr ac anystyriol, ac edrychwch, arswydwch, ac edifarhewch am eich drygioni. Os parhau a wnewch yn eich cyndynrwydd, yr ydym yn ddiniwaid oddi wrth y gwaed a dywelltir yn yr ymdrech, bydded iddo syrthio arnoch chwi eich hunain."*

Cymmeriad Leo a osodir allan yn hollol yn y lliw gwaethaf gan haneswyr yr oes honno, nid yn unig am ei ymdrech yn erbyn y delwau, ond hefyd o herwydd ei fod yn wrthwynebol i holl fasnach gweddillion y merthyron a chyfryngoliaeth y saint, a'r defodau perthynol iddynt; yr hyn a ddengys ar unwaith ei fod yn un a feddiannai ar well golygiadau na'r cyffredin, er y

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. pp. 359, 360.

dichon nad oedd y moddion trwy ba rai y gwrthsafodd y pethau hyn i'w cyfiawnhau. Yn y flwyddyn 730, gwnaeth Leo ddeddf ag oedd yn gwahardd yr ymarferiad o arwydd-luniau, mewn un ystyr, fel gwrthddrychau addoliad, a'u gosodiad i fynu mewn lleoedd addoliad; ac ymdrechodd, er yn gwbl ofer, i ennill Germanus y patriarch i fod o'r un golwg, ac i gydweithredu âg ef; a chan nas gwnai, efe a'i bwriodd allan o'i swydd, ac a'i rhoddodd i un Anastasius, yr hwn oedd bleidiol i'r amherawdwr. Yn mhorth y palas amherodrol yn Nghaer-Cystenyn, yr oedd wedi ei osod i fynu lun ein Iachawdwr ar y groes. Yr amherawdwr wrth weled y ddelw hon yn cael ei defnyddio gan lawer er eilunaddoliaeth, a orchymynodd i swyddog fyned a'i chymmeryd ymaith. Pan oedd hwn yn cyflawni ei orchwyl, gorfu arno osod ysgol i fynu, a myned arni; a phan yr oedd yn ergydio y ddelw â'i fwyall, i'w thynnu i lawr, gwragedd gerllaw a erfyniasant arno beidio; ac o herwydd nas gwnai, hwy a dynasant ymaith yr ysgol, nes y syrthiodd, a rhoddasant ef i farwolaeth yn y fan. Symmudwyd ymaith y ddelw trwy drais a gorthrech, a llosgwyd hi yn y tân; a therfysg mawr a ganlynodd: bygythiwyd cymmeryd ymaith goron yr amherawdwr, a bywyd yr archesgob, am ei fod yn bleidiol iddo. Torodd y gwrthryfel allan gymmaint, fel y dewisasant amherawdwr arall: eithr Leo a ennillodd y dydd, ond nid heb golli bywydau lawer.

Ymdaenodd y newydd am yr amrafael yn fuan mor bell â Rhufain, lle ei derbyniwyd yn llawen; canys yr oedd eu sêl hwy yno wedi ennyn nid ychydig dros y delwau, a'u casineb tu ag at yr amherawdwr mor fawr, fel y taflasant i lawr ei arwydd-luniau ef, gyda'r sarhad mwyaf, trwy yr holl ddinas. Yr Ital oll oedd mewn terfysg erbyn hyn; a thrwy fod gan amherawdwr Caer-Cystenyn diriogaethau lawer yno, dan Exarchiaeth Ravenna, y Lombardiaid a welsant eu hadeg i gynnyg eu hysglyfaethu. Yr oedd yn mryd eraill i ddewis amherawdwr yn lle Leo y trydydd; a'r Pab a gefnogai y cynnygiad, trwy annog deiliaid gorsedd Caer-Cystenyn i beidio talu y deyrnged arferol, gan ddywedyd y medrai efe eu rhyddhau oddi wrth rwymau y llŵ a gymmerasent i'r amherawdwr. Eithr pan oedd yr Ital yn llawn terfysg yn ymbarottoi i ryfel yn erbyn yr amherawdwr, a'r Pab yn tânio mewn sêl dros y delwau mudion, nes gwneud o hono yr holl wlad fel crochan berwedig, mewn llawn egni i ddwyn yn mlaen wrthryfel, attaliwyd ei redfa annuwiol gan ddwylaw angau, a rhifwyd ef yn mhlith y marwolion. Er iddo fyw, yn ol barn yr haneswyr mwyaf credadwy, mewn pob rhodres, etto seintiwyd ef wedi ei farw gan ei frodyr!

Dilynwyd ef yn ei swydd a'i sefyllfa gan Gregory y trydydd, yr hwn oedd yn hollol o'r un ysbryd ac ymddygiadau â'i ragflaenor. Dechreuodd ei weinidogaeth yn y flwyddyn 731; ac yn fuan wedi ei ddyrchafiad, anfonodd y llythyr canlynol at yr amherawdwr; yr hwn yn ddiau a rydd olwg ar gymmeriad yr hwn a ymarddelwai i fod yn ben i'r eglwys:—"Y mae eich bod mor annysgedig ac anwybodus o bethau," medd ef, "yn gosod arnom rwymau i ysgrifenu attoch yn arw a sarugaidd, etto yn llawn synwyr a gwirionedd dwyfol. Yr ým yn eich tynghedu i adael heibio eich balchder, ac mewn gostyngeiddrwydd ein gwrando. Chwi a ddywedwch ein bod yn addoli coed, meini, muriau, &c. Nid felly, fy arglwydd: eithr yr arwyddion hyn ydynt i ddwyn i'n cof y personau a arwyddant, enwau pa rai a ddygant, ac i ddyrchafu ein meddyliau ymlusgiedig ni attynt. Nid edrychwn arnynt fel duwiau: ond os addoli o flaen

delw Crist y byddwn, dywedwn,—*Arglwydd, achub ni.* Os o flaen delw Mair ei fam yr addolwn, dywedwn,—*Gweddia drosom ar dy fab i'n gwared ni.* Ond os o flaen delw y merthyr y byddwn yn addoli, dywedwn wrtho,—*St. Stephan, gweddia drosom.* Gallem, fel rhai yn meddu ar allu St. Pedr, gyhoeddi melldith arnoch chwi: ond gan eich bod wedi cyhoeddi a dwyn melldith arnoch eich hunain, *bydded i honno lynu wrthych.* Ysgrifenasoch attom am gynnull cymmanfa gyffredin; eithr nid ŷm yn gweled fod achos am y cyfryw. Bydded i chwi beidio â'ch gwaith o erlid y delwau, a'r cyfan a fydd yn llonydd yn ebrwydd; ond gwybyddwch nad ydym yn ofni eich bygythion.*"

Ychydig a farnent fod yn y llythyr uchod ddim a dueddai i gymmodi yr amherawdwr, ac i iachau y clwyf. Er na ddadguddia ysgrif Gregory gymmaint uchel-drem, eofndra, a chabledd, yn gyflawn, ag a welir yn yr un rhywiogaeth Babyddol mewn amser dyfodol; etto hawdd yw gweled ei fod yn y drws nesaf, ac yn ymestyn yn egniol at berffeithrwydd yn hyny. Attaliodd Gregory un cynnadledd heddwch yn mhellach â'r amherawdwr, trwy iddo yn y flwyddyn 732, gasglu cynghorfa, o ddeg a phedwar ugain o esgobion pleidiol iddo, i Rufain; yn mha un yr esgymunodd bob un a ddywedai yn ddiystyrllyd am y delwau, neu a wnai sarhad iddynt, neu a symmudai ymaith un o'r arwydd-luniau o unrhyw le addoliad, trwy yr holl fyd Cristionogol—pa ddedryd yn ddiau a gynnwysai o fewn i'w chylch yr amherawdwr Leo y trydydd. Leo yntau a hwyliodd allan lynges fawr, yn dwyn byddin luosog, o Gaer-Cystenyn, tua'r Ital, er darostwng yr Italiaid, pa rai oeddynt erbyn hyn mewn llawn arfau yn ei erbyn, er dysgu pethau gwell i'r tad sanctaidd, gan fygwth rhoddi Rhufain yn ddifrod. Eithr, yn anffodus, goddiweddwyd y llynges gan dymhestl ddirfawr ar y Môr Adriatic; a chan rym y gwyntoedd, y llongau a wasgarwyd; llawer o honynt a ddrylliwyd; a dynion heb rifedi a suddasant i'r dyfnderau. Pan oedd glanau y Môr Adriatic yn orchuddiedig gan gyrph meirw, yr oedd yr Ital yn un golygfa o alanastra rhyfel yn achos y delwau—y dinasoedd yn llawn terfysg, a'r meusydd yn llawn brwydrau! Gerllaw Ravenna, ar lan yr afon Po, bu brwydrau aethus, nes lliwio ei dyfroedd cryfion gymmaint â gwaed dynol, fel yr attaliwyd y trigolion coelgrefyddol rhag bwytta ei physg am chwe blynedd; a miloedd lawer o farwolion a ysgubwyd ymaith gyda'i ffrydiau grymus: a sefydlwyd gwledd flynyddol er coffau am fuddugoliaeth y delwau.†

Paul Exarch Ravenna, a roddwyd i farwolaeth; Pedr, duc Rhufain, yr hwn oedd ddall, a roddwyd o'r neilldu; ac Exhileratus, duc Campania, a roddwyd i farwolaeth, a'i fab, am eu pleidgarwch i'r amherawdwr. Y rhan fwyaf o drigolion Tuscany a Campania, yn yr Ital, a unasant â'u gilydd, fel rhydd-wladwyr, gyda phobl Rhufain, ac a sefydlasant senedd yno, mewn hollol a chwbl awdurdod, mewn llywodraeth wladol. Er fod yn Rhufain senedd yn barhaus, mewn hawl i ddewis eu swyddogion eu hunain, etto gorfuasai arnynt gydnabod uchafiaeth ac awdurdod y Gothiaid, ac eiddo y Groegiaid wedi hyny; ond yn eu sefydliad newydd, nid ystyrient neb uwchlaw iddynt, ac nid oedd pendod y Pab yn cyrhaedd ond pethau eglwysig yn unig. Y Lombardiaid hwythau oeddynt agos wedi cymmeryd meddiant o Exarchiaeth Ravenna, a'r tiriogaethau helaeth a berthynent iddi. Yr holl

* Jones's Hist. of the Christian Church, vol. i. p. 397.

† Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 362.

Ital, yr hon sydd fil o filltiroedd o hyd, o fynyddoedd Mynnau *(Alps)* hyd derfynau Calabria, oedd yn min syrthio i feddiant dwy lywodraeth.

Gregory oedd yn gweithredu yn dra egniol yn yr holl derfysgiadau gwrthryfelgar hyn. Er hollol ymlid ymaith o'r Ital yr amherawdwr Groegaidd, a rhag ofn y Lombardiaid, ag oeddynt yn mawr gryfhau, ac yn gwasgu ar Rhufain, efe a anfonodd i Ffraingc am gymhorth Charles Martel, prif weinidog y lle hwnw, neu, fel ei gelwid, yn fwyaf cyffredin, Maer Palas Ffraingc, gan gynnyg iddo lywodraeth yr Ital am ei wasanaeth. Yr oedd Charles wedi enwogi ei hun yn fawr, trwy amryw fuddugoliaethau hynod a ennillasai yn ddiweddar ar y Saraceniaid, pa rai oeddynt wedi goresgyn a meddiannu yr Hispaen, ac a ymdaenent dros lawer o diriogaethau ëang Ffraingc, ac a wnaent ymosodiad gorchestol y pryd hwnw er ei chwbl ddarostwng. Eithr pan yr oeddynt yn y rhanau deheuol o'r wlad, yn wynebu ar ddyffrynoedd hyfryd Piedmont a Savoy, gerllaw dinas Tours, cyfarfu Charles â'u byddin luosog, lle bu brwydr waedlyd rhyngddynt, ac y dywedir i dri chant a phump a thriugain o filoedd o'r Saraceniaid syrthio mewn un dydd, dan forthwyl Charles! pryd y rhoddodd attalfa ar eu llwyddiant yn y parthau hyny. Pan ddaeth cennadau Gregory atto, derbyniodd hwy yn garedig; eithr o blegid terfysgiadau cartrefol, ni allai gydsynio â'i gais y pryd hwnw: am hyny dychwelasant yn eu hol gydag addewidion yn unig. Ond yn y flwyddyn 741, gwysiwyd yr amherawdwr, y Pab, a phrif swyddog Ffraingc, gan angau, i ymddangos ger bron Barnydd yr holl ddaear; a gorfu arnynt adael eu hamrysonau, eu dyfeisiau a'u gorchestion, i'w dwyn yn mlaen gan ryw rai eraill.

Leo yr amherawdwr* a adawodd fab, i wisgo y goron, dan yr enw Cystenyn y pummed; Gregory y trydydd a ddilynwyd yn ei swydd a'i sefyllfa gan Zacharia; a Charles Martel gan ei fab Pepin. Y mae hanesyddiaeth pob un o'r rhai hyn yn bwysig, fel y maent yn dwyn perthynas â'r eglwys, ac yn blethiedig â'i hanes. Ond fel y bo i'r darllenydd gael golwg ar ymdrech y delwau, yn nesaf i'w gilydd, sylwir ychydig ar hanes Cystenyn y pummed. Dechreuodd deyrnasu yn y flwyddyn 741, a pharhaodd ei deyrnasiad hyd y flwyddyn 775. Dygodd lawn cymmaint sêl yn erbyn y delwau â'i dad: ac o herwydd hyn, dangosai yr eglwys gatholig ddirfawr gasineb tu ag atto, gan ei alw yn Cystenyn Copronymus, yr hyn a arwyddai, meddent, ei halogiad o'i fedydd; a'i goffadwriaeth sydd hyd heddyw yn ffiaidd ganddynt Yn y flwyddyn 755, cynnullodd gymmanfa o dri chant a deunaw ar hugain o esgobion, yr hon a gynnaliwyd yn Nghaer-Cystenyn, a'r amherawdwr ei hun a flaenorai ynddi, pryd y dygwyd achos y delwau dan sylw. Gelwir hon y seithfed gymmanfa gyffredin gan y Groegiaid; eithr gwedir ei hawdurdod gan y Rhufeiniaid. Gwedi hir ddadlu yn nghylch priodoldeb yr arwydd-luniau, dros yr hyn y dadleuai y monachod yn wresog, penderfynwyd yn y diwedd, ar "Fod i bob arwydd-luniau a delwau, o ba ddefnydd bynag, ac o wneuthuriad unrhyw gelfyddydwyr, gael eu bwrw ymaith o'r eglwysi Cristionogol, fel peth ffiaidd a dyeithr." Chwanegasant, trwy gyhoeddi anathema ar bwy bynag a wnai unrhyw luniau neu ddelwau, er darluniad o Dduw—Crist—Mair Forwyn—a'r saint, yn wrthddrychau addoliad; pa arferiad a ddedfrydasant fel un ddrwg a chythreulig: ac esgymunasant bob esgob, monach, neu unrhyw bersonau eraill,

* Milner's Church Hist. vol. iii. p. 176.

a osodai i fynu un math o arwydd-luniau, yn ddirgel neu yn gyhoedd, trwy yr holl amherodraeth; ac a benderfynasant fod y cyfryw yn agored i gospedigaeth, yn ol ewyllys ac anfoddlonrwydd yr amherawdwr.

Paul y cyntaf oedd y pryd hwn yn eistedd yn y gadair Babaidd yn Rhufain, yr hwn a anfonodd ei raglawiaid i'r gymmanfa i rybuddio yr amherawdwr a'r esgobion i beidio ymhyraeth âg achos y delwau, ond eu hadferyd yn ddioed i'w lleoedd yn yr eglwysi, dan berygl o esgymundod. Ond ni wnaed un cyfrif o'i fygythion na'i ddywediadau gan y gymmanfa. Cynhyrfodd y pethau hyn y monachod i raddau anghyffredin, fel y gwnaethant bob ymgais i derfysgu y deyrnas, ac yspeilio Cystenyn o'i goron, fwy nag unwaith. O herwydd hyny nid oes le i ammau na ymddygodd yr amherawdwr yn erwin iawn tu ag at lawer o honynt; a gwnaeth gyfreithiau ag oedd yn cyfyngu llawer ar eu rhyddid.

Gwedi marwolaeth Cystenyn, Leo ei fab a deyrnasodd yn ei le, yr hwn oedd ddyn gwanaidd iawn o gorph ac enaid. Ymbriododd â merch o Athen, o'r enw Irene, yr hon yn ddiau oedd un o'r merched mwyaf trais-lywodraethol, a'r gwaethaf a fu yn y byd erioed: ac yr oedd yn dra gwresog dros osodiad i fynu, ac addoliad, y delwau. Leo, tra bu yn teyrnasu, oedd yr un modd â'i dad, ac â'i daid, yn wrthwynebydd i osodiad i fynu yr arwydd-luniau; a chospodd, fel yr oedd yn fwyaf anffodus, rai o'i brifswyddwyr yn dra chreulawn, o herwydd eu hymlyniad wrth addoliad y delwau. Eithr Irene a'i hudodd ef i roddi i fynu y deyrnas i'w llaw hi a'i mab Cystenyn, yr hwn nid oedd ond pum mlwydd oed. Yn fuan wedi hyn, Leo y pedwerydd a fu farw; ond nid heb dybiaeth gref i Irene roddi iddo y cwppan marwol.* Dygodd hi y llywodraeth yn mlaen gyda llaw uchel yn erbyn pawb a wrthsafent osodiad i fynu y delwau, yn mhob lle, trwy yr amherodraeth; gan ddiswyddo, alltudio, a gosod llawer o bleidwyr mesurau y llywodraethau blaenorol i farwolaeth. Gorchymynodd godi corph ei thad-yn-nghyfraith o'r bedd, a'i losgi, yn y modd mwyaf dirmygus, a thaflu ei ludw i'r môr.

Cynnullodd gymmanfa yn Nicea, o fewn Bithynia, yn y flwyddyn 788, lle yr ymgyfarfu tri chant a hanner o esgobion, o wahanol fanau, yn nghyd â rhaglawiaid, a llythyr oddi wrth Adrian, pen eglwys Rhufain, pa rai a dystient y chwedlau mwyaf twyllodrus am y gwyrthiau a gyflawnesid trwy y delwau, er dyddiau Cystenyn Fawr hyd yr amser hwnw. Llawer o'r esgobion a fuasent yn nghymmanfa Caer-Cystenyn yn y flwyddyn 755, oeddynt yno, ac a wnaethant eu hymostyngiad, gan gyfaddef eu pechodau, yn y modd mwyaf cyhoeddus, o herwydd gweithredu fel y gwnaethant y pryd hwnw; ac a dderbyniasant ollyngdod. Gallesid disgwyl rhyw bethau daionus oddi wrth ymgynnulliad y fath gynnulleidfa; ond penderfynasant yn unfryd, "Fod sanctaidd arwydd-lun y groes, i gael ei chyssegru, a'i rhoddi ar y muriau—ar y llestr cyssegredig—y gwisgoedd sanctaidd—y byrddau mewn tai cyffredin—ac ar y ffyrdd cyhoeddus. Yn enwedigol fod delwau ein Harglwydd Dduw—ein Hiachawdwr Iesu Grist—y fendigedig foneddiges Mair, mam ein Duw—yr holl barchus angylion—yn nghyd à'r saint oll, i gael eu codi yn mhob lle y byddai cyfleusdra. A bod i bwy bynag a ryfygai feddwl neu ddysgu dim yn amgenach; neu i dynnu a thaflu ymaith unrhyw lyfr wedi ei arwydd-liwio; neu arwydd-lun y groes, neu unrhyw

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 286.

ddelw neu arwydd-lun arall, neu unrhyw ddarn gwirioneddol o weddillion y merthyron, os byddai yn esgob, neu wr llên, gael ei ddiswyddo; neu os byddai yn fonach, neu wr lleyg, ei fod i gael ei esgymuno. Canys credir genym (meddent) fod y parch a'r addoliad a roddir i'r arwydd-luniau, yn drosglwyddiedig i'r gwrthddrychau a arwyddir trwyddynt, yn ol dywediad Basil Fawr." Gwedi hyn cyhoeddasant anathema ar bob un na dderbyniai y delwau hyn, neu a gymhwysai at y delwau sanctaidd yma yr hyn a ddywed yr ysgrythyrau am yr eilunod gynt, neu yr hwn a'u galwai yn eilunod, neu a eisteddai mewn cymundeb eglwysig yn wirfoddol gyda neb a'u gwrthodai ac a'u dirmygai; gan chwanegu, yn ol yr arferiad, cyhoeddi hir fywyd i Cystenyn yr amherawdwr, a'i fam Irene—damnedigaeth i'r hereticiaid oll —damnedigaeth i'r gymmanfa a'r cynghor a unasant yn erbyn yr anrhydeddus ddelwau—a'r i'r sanctaidd Drindod eu diswyddo a'u dinystrio. Nid hawdd credu yr aethai cynghorfa *Pandemonium*, neu brif-lŷs y diafliaid, lawer yn mhellach mewn annuwioldeb a chabledd, na'r hyn sydd uchod.*

Cymmaint oedd eu golygiadau ar addoliad y delwau, ac mor isel eu meddyliau am rinweddau moesol, fel y dywedir fod monach mewn dyryswch meddwl, o herwydd myned o hono mewn cynghrair âg ysbryd putteinig, ar yr ammod o ymgadw oddi wrth addoli y delwau ag oedd yn ei ystafell, neu odinebu. Gosododd ei achos ger bron un o'r tadau sanctaidd, yr hwn a'i hattebodd, gan ddywedyd,—"Yn hytrach nag i chwi esgeuluso addoliad i Grist a'i fam, trwy eu sanctaidd ddelwau hyn, byddai yn well dad-ddyrysu amheuon cydwybod—i chwi ymweled â phob putteindy, ac ymwneud â phob puttain yn y ddinas." Cadarnhaodd Irene a'i mab benderfyniadau y gymmanfa uchod, a rhoddodd hwynt mewn gweinyddiad, gyda manylrwydd a gerwindeb i'r eithaf. Ond yn fuan gwedi hyn, bu amryson rhyngddi hi a'i mab; ac Irene a ddiorseddwyd, a Chystenyn a deyrnasodd am rai blynyddau ei hunan. Hithau, wedi gwneuthur plaid yn yr amherodraeth, a wthiodd ei mab oddi ar yr orsedd, ac a orchymynodd dynnu ymaith ei lygaid, a'i fwrw i garchar, lle y dihoenodd mewn gwaelder mawr hyd ddiwedd ei oes; ac Irene a deyrnasodd am amryw flynyddau. Achos y delwau a ymgryfhaodd yn ddirfawr, yn mhlith yr hyn a elwid yn eglwys gatholig, trwy y dwyrain, a'r amherodraeth a suddodd i'r fath waelder, a chyfyngwyd ei therfynau gymmaint, fel nad oedd braidd ond cysgod o honi o hyny allan hyd ei llwyr ddileëad. Irene a ddiorseddwyd gan Nicephorus, ac a alltudiwyd i ynys Lesbos; a bu farw mewn eisiau o angenrheidiau nattur, yn brawf eglur o ansicrwydd mawredd a phob mwyniant bydol, ac yn sicrhad nad yw grym, gormes, a chreulondeb, yn alluog i ddiogelu unrhyw ddyrchafiad dynol. Pedwar neu bump o'r amherawdwyr a ganlynasant y rhai hyn ar orsedd Caer-Cystenyn, oeddynt wrthwynebol i'r arwydd-luniau; eithr eu creulondeb oedd mor fawr, a'u gwendid gymmaint, fel nas gwnaethant ddim ag oedd yn anrhydedd i'r achos a geisient ei amddiffyn. Ond Theodora yr amherodres, gweddw Theophilus, oedd mor llawn o sêl dros y grefydd gatholig, fel y dygodd yn mlaen erledigaeth greulawn yn erbyn pawb ymneillduwyr, a gwrthwynebwyr y delwau, ac y gwnaeth hollol ddinystr arnynt; a rhoddodd derfyn ar y ddadl yn y dwyrain.

Tra yr oedd y terfysgiadau hyn yn y dwyrain, y Pab yntau oedd yn

* Jones's Hist. of the Christian Church, vol. i. p. 402.

ymddyrchafu ac yn cadarnhau ei orsedd yn yr Ital. Dywedwyd yn barod i'r Lombardiaid ymegnio i ysglyfaethu Exarchiaeth Ravenna, a'i chwanegu at eu tiriogaeth hwy, dan esgus o sêl dros y delwau: eithr nid oedd hyn, yn y mesur lleiaf, yn boddloni y tadau sanctaidd, yn Rhufain; ac nid hir y buant heb gael allan lwybr i'w difeddiannu o honi. Daeth Pepin, yn lle ei dad, yn faer yn mhalas Childeric, brenin Ffraingc, ac felly yn brif weinidog y llywodraeth. Teulu Clovis oedd y pryd hwn wedi suddo i waelder mawr; a Childeric, yr hwn a deyrnasai yr amser hwnw, nid oedd dda i ddim bron, yn ddyn difeddwl a diwaith, ac ar Pepin yr ymddibynai gofal a diogelwch y deyrnas. Yn yr amgylchiad hwn, dechreuodd Pepin feddwl pa un a oedd yn gyfreithlon i'r Ffrangcod ddiorseddu y cyfryw dywysog nad oedd yn alluog i wneuthur dim yn y llywodraeth, a rhoddi yr hwn oeddynt yn ei garu ac a'u gwasanaethai ar yr orsedd yn ei le, ai peidio? Anfonwyd y gofyniad at y Pab Zacharia, i Rufain, i'w benderfynu. Efe, wrth weled ei adeg o gael, trwy hyn, amddiffynwr galluog, dan rwymau o fod yn bleidiol iddo, a roddodd ei farn y gallai rhydd-wladwyr Ffraingc, yn ddigon cyfreithlawn, ddewis y neb a fynent i'r orsedd; ac fel na phetrusent yn nghylch eu llŵ, dywedodd y medrai efe, fel rhaglaw Crist, eu rhyddhau oddi wrth rwymau hwnw i Childeric. Yr atteb oedd yn foddlonol iawn gan Pepin, ac nid yn mhell o fod felly gan y Ffrangcod yn gyffredin. Pen Childeric a eilliwyd, a thaflwyd ef i fonachdy, lle y cauwyd arno; a Pepin a ddyrchafwyd ar y darian, trwy ddewisiad y bobl a arferent yn flaenorol ufuddhau i'w gyfreithau, a rhyfela dan ei lummanau. Coronwyd ef dros y Pab Zacharia gan Boniface, archesgob Mentz, a blaenor holl eglwys yr Almaen a Belgium; yr hwn, ar ei ddechreuad, oedd Sais, o'r enw Winiffrid; ond o herwydd ei sêl yn *proselytio* yr Almaeniaid, a lluoedd o'r Ffrangcod, ac eraill, i'r ffydd gatholig, efe a ddyrchafwyd gan y Pab i'r sefyllfaoedd uchod, a newidiodd ei enw i Boniface.

Fel hyn trosglwyddwyd teyrnwialen Ffraingc, trwy awdurdod y Pab, o deulu a llinach y Merovingiaid, i eiddo y Carlovingiaid, gyda chyhoeddiad o anathema ganwaith ar y neb a gynnygai wneuthur y cyfryw beth drachefn, gan ei symmud o'r hil hwn, neu ddewis neb o deulu arall i fod yn frenin yn Ffraingc. Zacharia a deimlai anfoddlonrwydd mawr yn erbyn chwanegiad teyrnas y Lombardiaid; ac efe a aeth i geisio gan Luitbrand eu brenin, i roddi Exarchiaeth Ravenna a Phentapolis yn eu hol i'r Groegiaid; a phan nas gwnai, ymgynhenodd âg ef, ac a anfonodd yr achos at Pepin, gan ddeisyf arno ddyfod a chymmeryd y taleithiau hyny oddi arnynt, a'u rhoddi yn anrheg i St. Pedr.* Efe, wrth ystyried ei rwymedigaeth i'r tad sanctaidd am ei deyrnas ei hun, ni phetrusodd wneuthur ei archiad, gan hwylio ei fyddin luosog ac arfog tua'r Ital. Eithr cyn ei ddyfod, Zacharia a symmudwyd i fyd arall, a rhoddwyd ei swydd i Stephan yr ail, yr hwn oedd yn hollol o'r un golygiadau a meddwl uchelgais a threisiol; a chefnogodd ddeisyfiad ei ragflaenor am gymhorth brenin Ffraingc. Pepin, wedi ei ddyfod, yn y flwyddyn 754, a wnaeth i frenin y Lombardiaid addaw rhoddi i St. Pedr Exarchiaeth Ravenna a Phentapolis, a'r tiriogaethau perthynol iddynt; ac wedi hyny dychwelodd i'w wlad ei hun. Ond y Lombardiaid a anfoddlonasant, ac nid yn unig gomeddasant gyflawni eu haddewid, ond ymfyddinasant hefyd, ac a warchaëasant ar Rufain.

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 306.

Mewn canlyniad, Stephan, yn ei gyfyngdra, a ffugiodd y llythyr canlynol, yn enw St. Pedr, ac a'i hanfonodd gydag un yn ei enw ei hun at Pepin, i Ffraingc, yn mha un erfyniai arno ddyfod gyda brys i'w gwaredu. Y llythyr ffugiol sydd fel y canlyn:—"Pedr, a alwyd yn apostol gan Iesu Grist, mab y Duw byw, &c., yn ysgrifenu at yr ardderchoccaf dywysogion Pepin, Charles, a Carloman, ac at yr holl sanctaidd esgobion, yr abadau, yr offeiriaid, a'r monachod, ac hefyd at yr holl dduciaid, y iarlliaid, a phobl Ffraingc. Yn gymmaint ag mai trwof fi y mae y sanctaidd eglwys gatholicaidd, apostolaidd, a Rhufeinaidd, mam pob eglwys arall, wedi ei sefydlu ar y graig—fel y byddo i Stephan, sanctaidd esgob ein hanwyl eglwys Rufeinaidd—ac fel y byddo i allu a rhinwedd, deilliedig oddi wrth ein Harglwydd, waredu yr eglwys o ddwylaw ei herlidwyr, yr wyf fi, Pedr, yn eich tynghedu, yn eich rhybuddio, a'ch gorchymyn, i ddyfod i ymladd drosof; a bydd Mair hefyd yn rhwymedig i chwi, ac felly y bydd thronau ac awdurdodau y nef hefyd os deuwch. Ac yr ydym yn tystiolaethu i chwi, trwy y Drindod sanctaidd, a fy apostoliaeth innau, na fydd i chwi ran na chyfran yn y nefoedd, os na ddeuwch, a chymmeryd i fynu arfau, ac ymladd drosof."*

Dengys y llythyr uchod ddyfnder y tywyllwch yr oedd yr oes wedi suddo iddo, a mawredd twyll a hocced eglwys Rhufain. Er maint ei ynfydrwydd, attebodd y dyben amcanedig. Pepin a ddaeth drachefn, gyda'i luoedd, dros fynyddoedd Mynnau i'r Ital, ac a warchaëodd ar Pavia, prif-ddinas y Lombardiaid, a gorchfygwyd hwynt, fel y gorfu arnynt roddi i fynu anrheg Pedr; a danfonwyd agoriadau dinas Ravenna i Rufain, a hwy a gyflëwyd, gyda rhwysgfawredd anarferol, ar fedd Pedr. Cynnwysai yr anrheg hon fwy na deg-ar-hugain o ddinasoedd a threfydd mawrion; a'r tiriogaethau a berthynent iddynt, a safent rhwng y Môr Adriatic a mynyddau yr Apennines, ac o Ancona hyd Remini. Fel hyn trwy wrthryfelgarwch, ac ysglyfaethdra oddi ar y Lombardiaid a'r Groegiaid, daeth esgob Rhufain yn arglwydd Ravenna, yn benadur gwladol, ac i feddiant o diriogaethau ëang yn yr Ital. O'r flwyddyn 755, pan y cymmerodd hyn le, arferir gan y Pab ddwyn teyrnwialen yn ei law, ac ymwisgo â dwy agoriad; un yn perthyn i'r eglwys, a'r llall i'r wladwriaeth: dyma yr amser yr unwyd llywodraeth wladol ac offeiriadaeth sanctaidd yn yr un person. Ni arferai y Pabyddion mwyach ddyddio eu gweithredoedd yn ol rhifedi blynyddau teyrnasiad amherawdwyr y Groegiaid, fel arferol, eithr yn ol rhif blynyddau eu llywodraeth eu hunain. Gellir meddwl yn sicr mai Exarchiaeth Ravenna a Pentapolis oedd y cyntaf o'r tri chorn a dynwyd ymaith oddi ar ben y bwystfil, yn nghodiad i fynu y corn bychan a amlygir yn ngweledigaeth Daniel, pen. vii. adnodau 8, a 20.

Gwedi hyn dychwelodd Pepin i Ffraingc, a'r Pab Stephan a aeth ynσ hefyd, ac a ordeiniodd Pepin drachefn, mewn monachdy, yn St. Denys, ac a'i henneiniodd ef âg olew sanctaidd, fel yr oedd brenhinoedd Israel gynt yn cael eu hordeinio. Ymarddelwai Stephan yn ei orchwylion y pryd hwn, fod fel un a dderbyniasai gennadiaeth oddi wrth Dduw yn uniongyrchol i'r gwaith hwnw. Teilynga sylw y darllenydd, mai gan y Pabydd hwn, sef Stephan y trydydd, a'r trawsfeddiannydd Pepin, y dechreuwyd yr arferiad o enneinio y brenhinoedd wrth eu coroni, yn yr oes Gristionogaidd, yr hon

* Jones's Hist. of the Christ. Church, vol. i. p. 399.

arferiad Babaidd a gynnelir hyd heddyw wrth goroni brenhinoedd Europe. Fel hyn yr oedd y ddau ddyn uchel-geisiol hyn yn cynnorthwyo ac yn cefnogi eu gilydd mewn ysglyfaethdra ac anghyfiawnder. Drygioni Stephan a ymddengys yn dra echryslawn, pan ystyrir ei fod yn gwneuthur y cwbl o dan ymddangosiad o grefydd, ac ymarddelwad o ddwyfol awdurdod i'r oll a wnai. Pan yn annerch Pepin, dywedai,—"Chwi sydd wedi eich dewis gan Dduw er tragywyddoldeb: 'A'r hwn a etholodd efe a alwodd efe; a'r hwn a alwodd efe, hwnw hefyd a gyfiawnhaodd efe.'"*

Gwedi marwolaeth Pepin, pan yr oedd Charles ei fab, yr hwn a elwir Charlemagne, hyny yw Charles Fawr, yn teyrnasu yn Ffraingc, y Lombardiaid a godasant ac a ymosodasant ar diriogaethau y Pab, a chymmerasant ran o honynt. Adrian, yr hwn a eisteddai y pryd hwnnw yn y gadair Babaidd yn Rhufain, a anfonodd drachefn am gymhorth i Ffraingc. Yna Charles yn fuan a groesodd fynyddoedd Mynnau, gyda byddin luosog; a chwedi amryw frwydrau â'r Lombardiaid, a'u gorchfygodd, a Desiderius eu brenin a ddaliwyd, ac anfonwyd ef a'i deulu yn garcharorion i Lyons yn Ffraingc. Adferodd Charles diriogaethau St. Pedr yn ol i'r Pab, gyda rhannau helaeth o deyrnas y Lombardiaid, sef yr holl wlad rhwng Lucca a Parma, Corsica, duciaeth Spoleto, a duciaeth Benevento, ac a lwyr ddinystriodd deyrnas y Lombardiaid yn yr Ital, yn y flwyddyn 776, wedi parhau o honi am o ddeutu 204 o flynyddau.† Gwedi hyn daeth Charles i Rufain, lle ei derbyniwyd gyda rhwysgfawredd anghyffredin, a phob ymarferiadau coelgrefyddol. Pan yr oedd y buddugoliaethwr yn esgyn i fynu ar hyd grisiau y *Vatican*, sef Palas St Pedr, ymgrymai a chusanai y grisiau dan ei draed, fel trothwyau y sanctaidd apostolion. Anrhydeddwyd ef y pryd hwn, fel gwaredwr ac anrhegwr yr eglwys, â'r fraint o DDYLEDOGWR, *(patrician)* yn ninas Rhufain, yr hon oedd fraint nesaf i amherawdwr, ac fel arwydd o hyn, rhoddwyd iddo agoriadau bedd St. Pedr, a llumman y ddinas.

Gwnaeth Charles, yn ei deimladau brwdfrydig y pryd hwn yr hyn, tebygid, a chwennychai ei ddadwneud yn ei oriau mwy pwyllog, pan yr edrychodd gydag ofn, drwg-dybiaeth, a gradd o genfigen, ar y tad sanctaidd, yn ehangder ei feddiant a'i lywodraeth, fel y meddyliodd gwttogi arno. Achosodd hyn i ffug-weithred gael ei chyhoeddi gan un o wasanaethwyr ffyddlonaf yr eglwys, ac epistol oddi wrth Adrian y cyntaf at Charles, er ei annog i fod yn ffyddlon a chywir i'r eglwys sanctaidd a St. Pedr, ac ymdebygoli i Cystenyn Fawr. Y ffug-weithred a wnaed, fel y meddylir, gan un Isidore, a gynnwysai fod Cystenyn Fawr, pan y symmudodd efe y llŷs amherodrol o Rufain i Caer-Cystenyn, wedi rhoddi Rhufain, yr Ital, a holl daleithiau y gorllewin, i Sylvester, esgob Rhufain, yr hwn a'i hiachasai ef oddi wrth wahanglwyf, ac a'i glanhausai oddi wrth ei bechod wrth ei

* Milner's Church Hist. vol. iii. p. 179.

† Tra yr oedd byddinoedd Charles yn gwarchae ar Pavia, lle yr oedd Desiderius wedi ymddiogelu, efe a ymwelodd â Rhufain; a phan yr oedd yn nesâu at y ddinas, yr holl offeiriaid a'r cantorion a aethant allan i'w gyfarfod, gydag anthemau, gan ganu iddo a dywedyd,—"Bendigedig yw yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd." Yn fuan dychwelodd ac ennillodd y ddinas, a brenin y Lombardiaid a gymmerwyd yn garcharor; a Berta ei ferch, yr hon a fuasai yn briod â brawd Charles, eithr yn awr yn weddw, a'i dau blentyn, a gymmerwyd yn garcharorion rhyfel yn Verona; ac anfonwyd hwy oll yn garcharorion i Ffraingc. lle ni chlybuwyd oddi wrthynt byth mwyach: eithr mae lle i ofni iddynt gyfarfod â diwedd nad oedd yn anrhydedd i'r buddugoliaethwr.—*Dr. Russel's Hist. of Modern Europe, vol.* i. *p.* 28.

fedyddio.* Yr oedd y weithred wedi ei dyddio er amser Cystenyn, a'i harwyddo â'i law, a'r cyfan, ar ol dyddiau Sylvester, i gael ei roddi yn anrheg dragywyddol i'r sanctaidd apostol St. Pedr; o ganlyniad nid oedd y Groegiaid, y Gothiaid, a'r brenhinoedd eraill, ond treiswyr ac attalwyr cyfiawnder oddi wrth St. Pedr, pan yn cadw dim o'i diriogaeth oddi wrtho; ac nad oedd Pepin a Charles, yn eu gwaith yn rhoddi y taleithiau hyn i St. Pedr, yn gwneuthur ond cyfiawnder, a'u bod yn mhell yn ol etto yn ei ddyled o roddi iddo ei iawnderau. Adrian a annogai Charles yn fawr i gyflawni addewidion ac ewyllys sylfaenydd yr amherodraeth Gristionogol, tu ag at yr eglwys sanctaidd a'r apostol Pedr.† Er gwrthuni y ffug-weithred hon, ac eglured ei thwyll, etto ni amheuwyd ei geirwiredd hyd yn y ddeuddegfed canrif; a chan gymmaint tywyllwch yr oesau hyny, ni wnaed ef yn amlwg i'r byd, hyd yr unfed canrif ar bymtheg. Eithr attebodd y dyben amcanedig gyda Charles, trwy ei ddwyn i sefydlu rhan fawr o deyrnas y Lombardiaid yn llaw y Pab, fel anrheg i Pedr. Dyma yr ail gorn a ddiwreiddiwyd oddi ar ben y bwystfil yn nghodiad i fynu y corn bychan, yn ol gweledigaeth Daniel. Etto, nid oedd y brif-ddinas lle y gosodai y Pab ei orsedd, yn ei feddiant, nac yn briodol o dan ei awdurdod.

Gwedi marwolaeth Adrian, daeth Leo y trydydd i feddiant o gadair Babaidd Rhufain, yn y flwyddyn 795, er mawr siomedigaeth i nai Adrian, yr hwn oedd wedi ei ddyrchafu i'r sefyllfa nesaf atti, gan feddwl ei chael ar ol ymadawiad ei ewythr; yr hyn mewn amser a achosodd genfigen, gwrthryfel, a therfysg, fel y gwelir etto. Leo, wedi ei ddyrchafiad, a anfonodd hysbysrwydd o hyny i Charles, brenin Ffraingc a dyledogwr Rhufain, gydag anrheg o agoriad aur, oddi ar arch St. Pedr, a llumman y ddinas, wedi ei gweithio yn dra harddwych. Y flaenaf i arwyddo i'r brenin fod y Pab yn dal hyd yma ran o deyrnas y Lombardiaid mewn ufudd-dod iddo ef; a'r ail i arwyddo ei fod yn disgwyl arno i ddyfod i ddarostwng y senedd, a phobl Rhufain, yn nghyd â'r tiriogaethau ymddibynol arnynt, i ufudd-dod, a'u rhwymo trwy lŵ i ffyddlondeb iddo.

Yn y cyfamser, dygwyddodd amgylchiad yn Rhufain, a achlysurodd agweddiad newydd ar holl wledydd y gorllewin. Gwrthwynebwyr y Pab, mewn cydfrad a ymosodasant arno, a'i hanmharchasant ac a'i harchollasant, nes oedd ei glwyfau yn ymddangos yn farwol; a phriodolir estyniad ei ddyddiau, ac adferiad ei iechyd, i fawr wyrthiau. Gwedi hyn, dygasant yn ei erbyn gyhuddiadau trymion o gam-ymddygiadau ysgeler; taflasant ef i garchar; eithr efe a ffôdd oddi yno, ac a ymguddiodd dros amser yn y *Vatican;* a duc o Spoleto a'i gwaredodd allan o gyrhaedd ei erlidwyr, trwy ei ddwyn o dan ei nodded; ac oddi yno efe a aeth i Ffraingc at Charles, ei amddiffynwr, a gosododd ei gwyn ger ei fron yn erbyn ei achwynwyr. Yn ei absennoldeb, ei wrthwynebwyr a anrheithiasant ei feddiannau, ac a ddifrodasant lawer o bethau gwerthfawr a berthynai i'r eglwys; a gyrasant achwyniadau yn ei erbyn i lŷs Charlemagne. Eithr efe a amddiffynodd ei hun, ac a wnaeth yn amlwg i'r brenin, fod pobl Rhufain am fwrw ymaith y llywodraeth eglwysig, ac ymarddelwi eu rhyddid cyntefig; a'u bod trwy hyny yn dianrhydeddu yr orsedd apostolaidd, a threfniad St. Pedr. O ganlyniad, danfonwyd ef, cyn diwedd y flwyddyn, yn ei ol, gyda lluoedd milwr-

* Gibbon's Hist. of the Decline and Fall of the Roman Empire, vol. iii. p. 369.

† Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 238.

aidd i'w ddiogelu, a phendefigion Ffraingc yn osgorddion iddo. Gwedi eu dyfod i Rufain, holasant ei gyhuddwyr, ac a'u hanfonasant o dan warcheidwad i Ffraingc. Cymmerodd hyn le yn y flwyddyn 798; ac yn y flwyddyn ganlynol, daeth Charles ei hun i Rufain. Ar ddydd pennodol, cynnullwyd cynghor o esgobion Ffraingc, yr Ital, &c. a Charles a eisteddai yn eu plith, i ystyried achos Leo y Pab, ac i wrando, fel y meddylid, y cwynion oedd i'w erbyn. Ond, er mawr syndod, caed allan gan y senedd anrhydeddus, *fod yr hwn oedd yn farnydd ar bawb oll o Gristionogion, uwchlaw cael ei farnu gan neb ar y ddaear, ond ganddo ei hun.* Yna cymmerodd y Pab yr efengylau yn ei law, a chyboeddodd ei hun, yn ngwydd yr holl luaws, yn ddieuog oddi wrth yr holl achwynion a roddid yn ei erbyn; a'i dystiolaeth a dderbyniwyd yn lle gwirionedd.

Pan oedd Charles, ar ddydd Nadolig, yn y flwyddyn ddiweddaf o'r wythfed canrif, yn ei wisgoedd harddwych dyledogaidd yn eglwys St. Pedr, wedi gorphen y gwasanaeth crefyddol, y Pab, yn ngwydd yr holl luaws, a osododd ar ei ben y goron amherodrol; gyda hyn dadseiniwyd yr holl neuadd gan floedd y bobl, yn gwaeddi, "*Byw fyddo yr amherawdwr—hir oes a buddugoliaeth i'r duwiolaf Charles*, amherawdwr y Rhufeiniaid, yr hwn a goronwyd gan Dduw." Gwedi hyn enneiniwyd ef â'r olew cyssegredig; a gwnaeth y Pab iddo ymostyngiad ar ei liniau, fel yr arferid gwneuthur gynt i'r amherawdwyr paganaidd; a gweinyddwyd iddo y llŵ amherodrol,* yn yr hwn yr ymrwymai roi i'r eglwys gatholig ei breintiau; ac fel gwystl o hyny, efe a offrymodd roddion gwerthfawr, fel blaenffrwyth, y pryd hwnw, ar greirfa sanctaidd St. Pedr yr apostol. Dywedai Charles na wyddai efe ddim am hyn yn flaenorol i waith Leo yn ei goroni; eithr yr holl ddarpariadau a wnaethid o bob ochr, a ddangosent y peth yn hollol wahanol, ac a sicrhaent fod dealldwriaeth rhwng y Pab ac yntau am hyn cyn ei ddyfod i Rufain. Fel hyn trosglwyddwyd, trwy effeithioldeb y Pab, y goron amherodrol oddi ar ben amherawdwyr Caer-Cystenyn, i frenin Ffraingc, a Pepin ei fab a goronwyd yn frenin yr Ital; ac o hyny allan arferai Charles ymgyfenwi ei hun, "Y Graslonaf Charles Augustus, coronedig gan Dduw, Heddychol Fawredig Lywydd yr Amherodraeth Rufeinaidd;" ac fel y cyfryw gweddient drosto yn yr eglwysi; a rhoddent ei ddelw ar yr arian bathedig yn Rhufain.†

Tri chant o gyhuddwyr a gwrthwynebwyr y Pab a ddedfrydwyd i farwolaeth, trwy ddibendod, yn nghyd â thri o offeiriaid; eithr dedryd y gwyr llên a newidiwyd i alltudiaeth i Ffraingc, yn lle dibendod, trwy eiriolaeth y Pab. Ond cyflawnwyd y ddedryd ar y tri chan Rhufeinwyr yn maesydd y *Lateran*, yn ddiarbediad. Gwedi hyn rhoddodd Charles dduciaeth Rhufain, a'r oll a berthynai iddi, yn anrheg chwanegol i St. Pedr, i'w dal yn llaw y Pab, yn unig mewn cydnabyddiaeth o hono ef fel amherawdwr a'i amddiffynydd; a threuliodd y gauaf i drefnu cyfreithiau, ac i osod i fyny sefydliadau yn Rhufain a'r Ital; ac yn yr haf dychwelodd i Ffraingc, gan

* *Liw coroniad yr amherawdwr Charles Fawr.*—"Yn enw Crist, yr wyf fi Charles yr amherawdwr, yn addo ac yn ymrwymo, ger bron Duw, a'r bendigedig apostol Pedr, y byddaf yn noddwr ac yn amddiffynydd o sanctaidd eglwys Rhufain yn mhob defnyddioldeb: ac y bydd i mi trwy ddwyfol gymhorth, ei hattegu hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm gallu." Barned y darllenydd pa mor debyg ydyw holl lwon tywysogion Europe hyd heddyw i hwn, a pha gymmaint o Babyddiaeth sydd yn nghoroniad yr holl dywysogion a enwant eu hunain yn wrthdystwyr y dyddiau hyn.

† Sir Isaac Newton's Dissert. on the Prophecies, pp. 82, 83.

adael y ddinas, a'r pethau perthynol iddi, i'w llywodraethu gan y senedd, mewn ymostyngiad i'r Pab, ac iddo yntau fel amherawdwr. Yn fuan wedi ei ymadawiad, clywa yr amherawdwr nad oedd pobl Rhufain yn ufuddhau i'w gyfreithiau a'i osodiadau, eithr yn cyfyngu ar freintiau yr eglwys, a'r rhai a'i gwasanaethai; ar ba achos yr enfyn at Pepin ei fab, am iddo edrych ar fod pethau yn cael eu diwygio, a gofalu am fod yr eglwys yn mwynhau ei breintiau. Meddylir mai y llywodraeth hon, pa un a ddygid yn mlaen gan dduciaeth a senedd Rhufain, oedd y trydydd corn a dynwyd ymaith o flaen y corn bychan, ag oedd ar ben y bwystfil yn ngweledigaeth Daniel, ac nid y lleiaf o honynt.* Canys trwy ddarostyngiad hwn, y rhoddwyd meddiant iddo o'r brif-ddinas lle y gorseddai, ac y dyrchafwyd y Pab uwchlaw y senedd, pobl Rhufain, yr holl esgobion, a holl frenhinoedd y gorllewin, a phob rhyw lŷs barn ar y ddaear, ac y sicrhawyd ei orsedd ar yr amherodraeth fwyaf a chryfaf yn y byd y dyddiau hyny. Yn nhrosglwyddiad yr orsedd amherodrol, gwelir hefyd gyflawniad o brophwydoliaeth arall, yn ol pa un yr oedd y bwystfil, sef amherodraeth y gorllewin—yr hon oedd wedi derbyn briw marwol gan orlifiad y cenhedloedd barbaraidd, er's tri chan mlynedd a phedair ar hugain—yn cael ei iachâu o'r cyfryw, yn nghodiad i fynu amherodraeth Ffraingc, ar ba un yr eisteddai y wraig a wisgid mewn ysgarlad.†

Gwnaeth y Pab Leo, yn yr un amser, gerfiad cywraint a harddwych yn y palas a berthynai i'r eglwys gadeiriol, a elwir y *Lateran*, yn dangos y dyrchafiad hwn; trwy fod St. Pedr â thair agoriad yn ei arffedog, yn arwyddo ei etifeddiaeth driphlyg; a'r *palium*, sef y wisg a roddir i'r Pab pan y neillduir ef i'w swydd, yn ei law ddehau, yn estynedig i Leo; a llumman y ddinas yn ei law aswy, yn estynedig i Charles; ac ysgrifen islaw arwydd St. Pedr, yn mha un y cydnabyddai ac yr annerchai y Pab o flaen yr amherawdwr; ond deisyfai lwyddiant hwnw, i amddiffyn y sanctaidd eglwys, a darostwng ei holl elynion. Rhoddwyd y cerfiad uchod ar ddarnau o arian wedi hyny; ac y maent i'w cael yn mysg cywrein-bethau rhai hyd heddyw.‡ Mewn cyfeiriad at y tair anrheg hyn, y gwisga y Pab goron driphlyg ar ei ben; a thrwy y pethau hyn, daeth yr olwg ar y 'corn bychan' yn arwach nag eiddo neb o'i gyfeillion.

Tua'r amser hwn y dechreuodd yr arferiad o gusanau traed y Pab, gan bawb a nesâi atto; o leiaf, mae yn ddilys ei fod mewn arferiad cyn hanner y canrif nesaf. Dywedir mai Leo y trydydd, yr hwn oedd yn un o'r dynion mwyaf uchel-geisiol a feddiannodd y gadair Babaidd, ac oedd drefnydd llawer o ddefodau rhwysgfawr, oedd awdwr y drefn o gusanu y traed, gan ddywedyd i ryw wraig wrth gusanu ei law ei niweidio. Tua'r un pryd

* Gellid sylwi fod Mr. Milner, a rhai haneswyr eraill, yn cam-gymmeryd, pan y dywedant nad oedd Pabyddiaeth wedi codi ac ymsefydlu yn eglwys Rhufain yn yr wythfed canrif, os yw darluniad Daniel o bethau yn gywir, ac os yw esponwyr yn gyfiredin yn dywedyd y gwir, sef mai llywodraeth Babaidd sydd i ni ddeall wrth y 'corn bychan,' ac mai y tair llywodraeth hyn, sef Exarchiaeth Ravenna, brenhiniaeth y Lombardiaid, a duciaeth Rhufain, oedd y 'tri chorn a dynwyd ymaith o'i flaen.' Canys y mae yn eglur, yn ol Daniel, i'r corn bychan dyfu i fynu yn mysg y *deg corn* cyn tynu un o honynt ymaith; o ganlyniad, rhaid ei fod wedi bodoli a chodi, yn eglur, cyn y flwyddyn 755, pan y tynwyd ymaith y cyntaf o'i flaen ef. Eraill hefyd, meddylid, a gam-olygant, pan yn dywedyd fod Pabyddiaeth wedi codi, a chael ei sefydlu yn ei llywodraeth, yn flaenorol i ddechreuad y chwechfed canrif: canys y mae hyny yn gystal â haeru fod y corn bychan i'w weled ar ben y bwystfil cyn codiad y deg corn, neu ymraniad y llywodraeth orllewinol Rufeinaidd i ddeg brenhiniaeth; pan y dywed Daniel mai yn mysg y *deg corn* y gwelodd efe y corn bychan yn codi, yr hyn ni chymmerodd le hyd y pummed canrif, fel y dangoswyd yn barod.

† Dad. xiii. 3, 12. ‡ Sir Isaac Newton on the Prophecies, p. 87.

hefyd y dechreuodd y Pab seintio dynion meirw, a rhoddi gollyngod i'r neb a ewyllysiai o ddynion byw oddi wrth eu pechodau.

Gwedi marwolaeth Charles, tua'r flwyddyn 914, yn nyddiau ei fab LEWIS, yr hwn a elwir Lewis Lariaidd, ei ganlyniedydd, pobl Rhufain a godasant drachefn yn erbyn y Pab, gan ei anmharchu, ac anrheithio ei feddiannau: eithr yr amherawdwr a ddaeth arnynt, ac a'i hachubodd ef o'u llaw hwynt; a chadarnhaodd trwy lŵ i'r Pab Paschal anrhegion ei dad a'i daid i St. Pedr. Yn y weithred hon o eiddo Lewis, enwir yn mlaenaf dduciaeth Rhufain, yr hon a gyrhaeddai hyd ran o Tuscany a Champania, Exarchiaeth Ravenna a Phentapolis, yn nghyd â rhan o Tuscany, a'r tiriogaethau a gymmerasent oddi ar y Lombardiaid, y rhai a roddasid yn hollol i'r eglwys, heb fod dim a wnelai yr amherawdwr â llywodraeth y Pab ynddynt, onis gelwid ef ganddo i'w gynnorthwyo.* Nid oedd gan amherodraeth y Groegiaid un tiriogaeth na llywodraeth yn Europe, cyn diwedd yr wythfed canrif; canys meddiannai y Saraceniaid Sicily, a'r rhanau mwyaf deheuol o'r Ital, ar lanau y môr, ar gyfer tir Groeg a Sicily, y rhai a fuant wedi hyn yn fflangell drom i'r Ital a Rhufain, sef etifeddiaethau St. Pedr.

Fel yr ŷm wedi cyffwrdd amryw weithiau â chymmeriad Charles Fawr, yn nghyd âg adrodd amryw o'i weithredoedd ef a'i dad, yn dyrchafu Pabau Rhufain yn dywysogion gwladol, a rhoddi yn eu meddiant ëang diriogaeth St. Pedr; a chan fod cymmaint a wnelo efe â hanes yr eglwys, nid annisgwyliadwy, tebygid, gan y darllenydd a fyddai i ni ddywedyd rhywbeth yn chwaneg am ei gymmeriad. Yr oedd yn rhyfelwr dewr a llwyddiannus, yn ddiflin yn ei deithiau, a hynod o gyflym yn ei symmudiadau, fel, ar bob tymhorau, a thrwy bob hin, y deuai ar warthaf ei elynion yn annisgwyliadwy — fel, pan dybient ei fod mewn parthau pellenig, y deuai arnynt yn ddisymmwth. Meddiannodd o ddeutu dwy ran o dair o amherodraeth orllewinol y Rhufeiniaid gynt: eithr gellir barnu fod yr eiddo ef oll, yn gymmaint â'r cyfan o'r eiddynt hwy, trwy y buddugoliaethau a ennillasai ar y barbariaid o du y gogledd i'r Almaen, yr hyn oedd y tu allan i amherodraeth y Rhufeiniaid. Yn y gwledydd hyny y gwnaeth efe fwyaf o'i ryfelgyrchoedd, pa rai oeddynt dair ar ddeg ar hugain; fel y gellir dywedyd nad ymladdodd un frwydr yn ei holl ryfeloedd â byddin o elynion yn cyfatteb i'r eiddo mewn rhif, dysgyblaeth, ac arfau. Yr oedd amherodraeth Ffraingc, pan ei gadawodd, yn cyrhaedd, o ddwyrain i orllewin, o'r afon Ebro, yn yr Hispaen, hyd yr afon fawr Vistula, a thu a thir Groeg mor bell â Dalmatia; ac, o ddeheu i ogledd, o dduciaeth Beneventum, yn yr Ital, hyd yr afon Eyder, yn Denmark.†

Mewn perthynas i'w gymmeriad, nid oes nemawr i'w ddywedyd er ei ganmoliaeth, mwy nag eraill a roddent i fynu eu hamherodraethau trwy rym arfau, ac a ymdrinient dros eu hoes â'r cleddyf. Heblaw hyn, yr oedd ysbryd caethiwed a choel-grefydd Babaidd gymmaint yn yr oes honno, fel y llywodraethai feddyliau llywyddion, ac yr ymgymmysgai mor fawr â phob llywodraeth yn ei gosodiad i fynu yn Europe — a phery ynddynt hyd heddyw, ysywaeth, yn rhy gyffredin — fel eu hanghymhwysid yn fawr i lywodraethu dynion, fel deiliaid cyfrifoldeb mewn byd arall, ac a dueddai i'w dinystrio hwythau. Canys yn ganlynol i osodiad i fynu lywodraethau y pryd hwnw,

* Sir Isaac Newton on the Prophecies, p. 88.

† Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. pp. 375, 377.

a'r gweinyddiad o honynt, y daeth y brenhinoedd a feddiannent y brenhiniaethau a arwyddir trwy y deg corn—ac nid y lleiaf o honynt oedd yr un a odwyd i fynu gan Charles—i fod o'r un meddwl, gan roi eu nerth a'u hawdurdod i'r bwystfil. Ni ellir gweled yn sylfaenydd amherodraeth newydd y gorllewin ddim, fel dyn ac fel Cristion, a deilynga y canmoliaeth a roddir iddo gan rai haneswyr, fel y gorau a'r duwiolaf o ddynion. Meddylir mai cymmaint o grefydd yn unig a feddiannai âg a wasanaethai ei gyfleusdra ei hun, er ehangu terfynau ei amherodraeth, a sicrhau ei iau lywyddol dros y taleithiau yr estynai ei grafangau am danynt. Er na bu neb, hwyrach, yn fwy annysgedig nag ef, o ran yr hyn a elwir yn ddysgeidiaeth gelfyddydol, oddi eithr bod yn fedrus mewn ymdrin âg arfau rhyfel yn nechreu ei deyrnasiad; etto dilys yw iddo bleidio ac amgeleddu dysgeidiaeth yn fawr, trwy gynnull dynion dysgedig o bob gwlad, a'u cynnal yn ei lŷs, a sefydlu amryw athrofäau yn ei amherodraeth. A diau iddo wrthsefyll y rhai a eisteddent y pryd hwnw yn y gadair Babaidd yn Rhufain, mewn rhai o'u defodau, o ran yr eithafoedd yr âent iddynt, yn enwedig eu heilunaddoliaeth; yr hyn oedd ganmoladwy ynddo mor bell âg yr oedd yn myned. Eithr hawdd yw gweled fod ei wrthwynebiad i gyd-fyned â Phabyddion Rhufain, ac ail gymmanfa Nicea, yn ngosodiad i fynu eilunaddoliaeth, yn tarddu oddi ar bleidgarwch eglwysi Ffraingc, yr Almaen, a Lloegr i'w defodau a'u harferiadau eu hunain, ac i ysgrifau dynion dysgedig, megys Alcuin, ac eraill, pa rai ni suddasent etto cyn ddyfned i eilunaddoliaeth a llygredigaeth âg ail gymmanfa Nicea, a llŷs y Pab, yn hollol. Canys yr eglwysi yn gyffredin, o du y gorllewin i Rufain oeddynt o'r un golygiadau am yr arwydd-luniau â Gregory y cyntaf, ysgrifau pa un oedd yn lled aml yn eu mysg; ac o barch iddo ef, ni fynent er dim ymadael â'i olygiadau.

Eiddigeddai Charles yn fawr am efelychu Cystenyn Fawr yn ei lywodraeth yn mhob peth, a bod yn benaeth a llywydd i'r eglwys yn ei helaeth daleithiau ei hun; ond ni allai wneuthur hyn heb wahaniaethu a gwrthsefyll Pabyddion Rhufain i raddau.* Y mae ei ymddygiad yn y gymmanfa a gynnullodd ac a gynnaliodd yn Ffrankffort, yn y flwyddyn 794, yn dangos hyn; yn mha un yr eisteddai yn mlaenaf, a rhaglaw i'r Pab ar bob llaw iddo, a thri chant o esgobion ger bron yn disgwyl am ei nodiad. Agorodd y llŷs ei hun, a dygwyd achos dau esgob o'r Hispaen yn mlaen, pa rai a osodent allan nad oedd Crist yn Fab naturiol i'r Tad, ond trwy fabwysiad. Rhoddodd i lawr y gosodiad i brofi eu bod yn euog o gyfeiliornad, a'u bod i alw hwnw yn ol, neu gael eu hesgymuno. Penderfynodd y llŷs yn ol ei ewyllys. Gwedi hyny enfyn Charles lythyr, wedi ei eirio yn y modd hynottaf, at eglwysi yr Hispaen. "Chwi," medd ef, "a'm hannogasoch i farnu o honof fy hun; mi a wneuthum felly: mi a gynnorthwyais mewn cymmanfa o esgobion fel eu gwrandawydd a'u dyddiwr: chwiliasom a phenderfynasom, trwy ras Duw, pa beth sydd i'w gredu."† Ni arferodd Cystenyn Fawr, na neb o amherawdwyr y dwyrain, na Phabyddion Rhufain,

* Perthynai anghyssonderau lawer i Charles mewn amryw bethau. Gwrthsafai Babau Rhufain mewn rhai pethau; ond mewn pethau eraill yr oedd yn hollol ymgyflwynedig i'w defodau a'u trefniadau. Rhoddodd ddeddf o unffurfiad mewn gweinyddiad; ac eglwys Rhufain oedd y cynllun wrth ba un y mynai ffurfio dysgyblaeth a threfn addoliad trwy ei holl amherodraeth; lle yr oedd yr eilunaddoliaeth mwyaf, a'r llygredigaeth gwaethaf yn mhob rhan o'u gwasanaeth crefyddol. Dyoddefodd eglwysi Milan a Chorbetta lawer am eu hymlyniad wrth eu traddodiadau a'u defodau eglwysig eu hunain, yn lle ymostwng i drefniadau newyddion a ymdrechai yr amherawdwr osod i fynu yn yr eglwysi, mewn cydffyrfiad âg eglwys Rhufain. Pa fodd y cydsafai yr ymdrechiad hwn o'i eiddo, â'i waith yn wrthsefyll addoliad delwau, sydd aneglur i ni.—*Mosheim's Eccl. Hist. vol.* ii. *p.* 271.

† Dr. Russel's Hist. of Modern Europe, vol. i. p. 32.

er eu sêl dros eu duwinyddiaeth, iaith mwy llywodraethol a phenderfynol, gyda golwg arni. Goruwch-lywodraethwyd ei waith yn cynnull y gymmanfa hon â chyhoeddiad o lyfrau *Caroline* dan ei nawdd, ac yn ei enw, pa rai a ddedfrydent addoliad delwau fel ffieidd-dra, a phenderfyniad ail gymmanfa Nicea fel cyfeiliornad o'r mwyaf, i fod yn dystiolaeth rymus er attal gorlifiad eilunaddoliaeth dros eglwysi y gorllewin, am amryw flynyddau. Etto, ni thynwyd yr arwydd-luniau ymaith, ond caniattawyd iddynt aros; a phleidiwyd eu gosodiad i fynu yn ddirgel a chyhoeddus, er addysg, yn ol barn Gregory y cyntaf; yr hyn a fu yn fagl, ac, mewn amser, a arweiniodd i eilunaddoliaeth, gymmaint yn y gorllewin âg oeddynt yn y dwyrain.

Daeth Charles yn fwy ymgyflwynedig i wasanaeth Pabau Rhufain, fel y daeth i feddiannu llywodraeth helaethach yn yr Ital, a chael ei ddyrchafu i swyddau a sefyllfaoedd yn Rhufain; ac ni bu neb yn fwy defnyddiol iddynt nag ef, i godi a sicrhau eu traws-lywodraeth ar ddynion. Ymddengys hefyd iddo ymgyfranogi o'u hysbryd, ac y meddai fedrusrwydd a ffyddlondeb nid ychydig i ddwyn yn mlaen eu mesurau; a thrwy ddyfal arferiad, daeth yn wasanaethgar uwchlaw neb a fu o'i flaen, er dwyn ei ddeiliaid i ufudd-dod i'r gadair Babaidd. Yn ei bedair ymdaith i Rufain, cyd-ymgweddai yn gwbl â holl wagedd ac eilunaddoliaeth y llŷs hwnw, fel y dywedwyd yn barod am ei waith y tro cyntaf yn ymgrymu i ddelw St. Pedr, ac yn cusanu y grisiau a'r trothwy wrth fyned i'w balas. Fel hyn y cyflawnai yn Rhufain yr eilunaddoliaeth a wrthwynebai gyda'i ddeiliaid yn Ffraingc.

Y Saxoniaid, a breswylient ar y cyntaf lanau yr afonydd Weser ac Elbe, oeddynt y pryd hwnw wedi ymdaenu dros y rhan fwyaf o'r Almaen; ac yn wyneb gwanychiad teulu Clovis, a eisteddai ar orsedd Ffraingc, ymsefydlasant yn dywysogaethau bychain ar hyd y gwledydd hyny. Yr oeddynt, gan mwyaf, yn parhau yn y grefydd Baganaidd, ac weithiau yn bleidgar i'r Ffrangcod; bryd arall byddent yn eu hanrheithio yn resynol. Gwedi dyfod Charles i'r orsedd, penderfynodd eu darostwng a'u dwyn i newid eu crefydd, ac ymostwng i'r eglwys gatholig. Er dwyn yn mlaen ei amcanion, cynnaliodd hir ryfel, am dair blynedd ar ddeg ar hugain, â'r Saxoniaid; ac aml iawn, yn yspaid hyn o amser, y bu brwydrau gwaedlyd rhyngddo â'r dewrion hyn, a ymladdent yn y modd mwyaf gwrol a ffyrnig dros eu crefydd a'u rhyddid. Lluaws aneirif o honynt nid yn unig a roddwyd i farwolaeth yn mhoethder y rhyfeloedd, ond a lofruddiwyd trwy ei orchymyn, mewn gwaed oer, fel y dywedir, wedi iddynt fwrw eu harfau i lawr, am na roddent i fynu eu blaenor, a chymmeryd eu bedyddio i ffydd eu buddugoliaethwr. Canys ammodau eu hymostyngiad oedd lawn mor farbaraidd â'u hymddygiadau hwythau. Nid oedd iddynt ddewis ond naill ai y cleddyf, neu ymostyngiad i holl ddefodau ac ymarferiadau crefyddol eu gorchfygwr; yr hyn sydd ddigon i lenwi meddwl pob darllenydd â dychryn, ac â hollol gasineb at y fath ynfydrwydd a cham-ddefnydd o'r hyn a enwid yn grefydd Gristionogol.* Trwy rym ei gleddyf, efe a sefydlodd yn eu plith wyth o esgobaethau; drylliodd eu heilunod; ac a'u gosododd dan rwymau ufudd-dod i eglwys Rhufain, ac i roddi eu meddiannau yn helaeth at gynnaliaeth St. Pedr. Canys cymmaint oedd ei sêl y pryd hwnw, fel y rhoddodd ar bawb o'r taleithiau a orchfygodd, i dalu swm o arian yn flynyddol i Babau Rhufain, a elwid yn Geiniog St. Pedr, yr hon a barhaodd i gael ei chodi am oesau wedi hyny, os nid hyd heddyw, mewn rhai manau.†

* Jones's Hist. of the Christian Church, vol. i. p. 448.
† Sir Isaac Newton on the Prophecies, p. 86. Gibbon's Hist. of the Decline and Fall, &c. vol. iii. p. 377.

Efe oedd y cyntaf a osododd gyfraith yn rhwymo ei ddeiliaid i dalu degwm at gynnal achosion crefyddol dan yr oruchwyliaeth Gristionogol. Er fod yr eglwys wedi ei chyssylltu â'r llywodraeth wladol er amser Cystynenyn Fawr, etto, er dim a ellir weled yn wyneb hanesyddiaeth, nid oedd un gyfraith wedi ei gwneuthur hyd yn hyn, yn pennodi pa faint oedd neb i'w roddi at achosion eglwysig: ond cynnelid gweinidogion trwy gyd-roddion o arian, tiroedd, &c. ewyllyswyr da, o amherawdwyr hyd y tlottaf, fel yr oedd y drefn gyntefig yn nyddiau yr apostolion. Eithr Charles a dybiodd iddo glywed rhyw ysbryd yn llefain arno o'r awyr, ac yn dywedyd mai o herwydd esgeuluso hyn yr oedd prinder mawr ryw amser ar yr amherodraeth.* Yn fuan rhoddodd allan gyfraith, ar fod i'w holl ddeiliaid dalu degwm yn flynyddol o'r oll a feddent; etto, gellir sylwi ei fod y pryd hwn yn myned, nid i gynnal yr offeiriaid a'r esgobion yn unig, ond y tlodion, ac hefyd er adgyweirio lleoedd addoliad. Dilynwyd ef yn hyn yn fuan trwy yr holl wledydd lle yr oedd Cristionogaeth, yn enwedig mewn llywodraeth, fel y gwelwn fod y peth mewn canlyniad, ac nid cyn hyn, yn dyfod o dan sylw cymmanfaol, ac yn cael ei orchymyn trwy eu canonau eglwysig. Er

* Ymgeisir gan bleidwyr taliad degymau at achosion crefyddol, trwy orfodiaeth cyfreithiau gwladol, gael amddiffyniad o'r cyfryw arferiad, mewn rhanau o waith Chrysostom ac Augustine, yn nechreuad y pummed canrif. Ond y mae y cyfryw yn hollol ofer. Nid oes dim o'r fath beth yn ngwaith un o'r ddau archesgob amgen annogiad i'w darllenwyr i ddwyn "eu blaenffrwyth i Dduw;" o ba un y golygent fod y tlodion i gyfranogi er eu cynnaliaeth, yn gystal â gweinidogion yr eglwys. Yr unig beth a goffeir am hyn yn ngwaith Augustine, gan Veneman, hanesydd eglwysig manylaidd ac ymofyngar iawn, ag oedd yn dwyn dim tebygolrwydd i'r cyfryw ymarferiad, sydd fel y canlyn:—Mewn atteblad i wrthddadl a godai un Urbicus yn erbyn sylwadau Augustine, ar ddammeg y Pharisead a'r Publican, efe a ddywed,—"Dichon yr haera efe fod y rhai hyny a roddant *y degfed o'u ffrwythau i'r tlodion*, yn cael eu dedfrydu gyda'r Pharisead, o herwydd y cyhoedda efe hyn hefyd, a'i weithredoedd da; o ba rai byddai yn llawenydd genym weled mwy yn mhlith Cristionogion, ond nid ydym yn gallu gweled ond nifer fechan yn ei wneuthur." Yn y sylwad hwn, diau nad oes dim ond cyfeiriad at rydd ac ewyllysgar roddion haelionus yr eglwysi tu ag at eu tlodion, am ba bethau y sonia yr hen archesgob yn ami yn ei ysgrifau. Gellir fod yn dra sicr nad oedd yn ei waith ef ddim ag oedd yn cefnogi taliad degwm trwy orfodiaeth, amgen buasai y fath hanesydd ymofyngar â Veneman yn ei chwilio allan. Ond yn y flwyddyn 586, gwelir, mewn cynghor a gynnaliwyd yn Mascon, yn Ffrainge, fod degwm yn cael ei drefnu at achosion yr eglwys trwy y dalaeth y perthynai y cynghor hwn iddi. Dyma yr amser cyntaf y mae son am ddegwm yn yr hyn a elwir yn eglwys Gristionogol; ac nid oedd y pryd hwn ond trefniad mewn rhan fechan iawn o'r eglwys. Nid oedd ei godiad yn cael ei gefnogi gan un gyfraith wladol y pryd hwn, ond byddai yr offeiriaid yn annog y bobl i'w dalu, trwy ddangos iddynt, pan ddygwyddai maddod ddyfod ar y ffrwythau, ei fod o herwydd peidio arfer didwylldra yn rhoddiad eu degymau. . "Pe buasech," meddent "yn rhoddi eich degymau yn ddidwyll i'r tlodion, ni ddygwyddasai hyn; a buasai yn well arnoch yn y byd hwn, ac yn y byd a ddaw cawsech fywyd tragywyddol." Anfoddlonodd Charles Martel y gwyr eglwysig yn Ffrainge yn fawr, trwy gymmeryd y degwm hwn, ac eraill o feddiannau yr eglwys yn Ffrainge, at dalu i'r milwyr am amddiffyn eu gwlad yn wyneb rhuthr y Saraceniaid. Adferodd Pepin ei fab y meddiannau yn ol drachefn; etto nid oedd un gyfraith wladol er cefnogiad codiad y degwm, ond arferiad eglwysig yn unig, hyd yn nod o fewn Ffrainge, lle dechreuodd yr arferiad. Arferai yr offeiriaid ddysgyblu y bobl am naccau ei dalu yn y modd canlynol:—"A fu i ti," meddent, "un amser esgeuluso talu dy ddegwm i'r Arglwydd? Os buost yn euog o ddifeddiannu yr eglwys o'i hiawnderau trwy hyn, bydded i ti ei dalu ar ei bedwerydd, a dwyn dy benyd am ugain diwrnod, trwy fyw ar fara a dwfr yn unig." Eithr wedi dyfod Charles i'r orsedd, gwnaeth gyfraith dros fod degwm o holl ffrwyth y ddaear i gael ei dalu at achosion y tlodion a'r eglwys; ac arferai roddi y rhesymau uchod dros wneuthuriad y cyfryw gyfraith. Gwedi hyn cynnaliwyd cymmanfa yn Arles, ac arall yn Mentz, lle y trefnwyd "fod degwm i'w dalu gan bawb yn ddinaccad, ac yn fanylaidd, o holl ffrwyth y ddaear; ac nad oedd neb a ddihangai i'r eglwysi am noddfa, i'w gymmeryd oddi yno trwy drais, hydded ei ddrwg yr hyn a fyddai:—Fod y degwm i gael ei ddiogelu i feddiant yr hen eglwysi, ac nid i gael ei roddi at y rhai newyddion a adeiledid," Can. xxxviii. 39—41. Y mae yn amlwg mai yn Ffrainge y dechreuodd yr arferiad o godi degwm; ac oddi yno dygwyd hi i ddechreuad yn Lloegr, tua'r flwyddyn 786, pan y bu rhaglaw y Pab Adrian y cyntaf yn ceisio ei sefydlu yn yr ynys hon. Yn ol fel y dywed Burn, nid oedd degwm yn cael ei dalu yn Lloegr hyd yr wythfed canrif, pan y rhoddwyd ef "i'r offeiriaid trwy weithred drais-lywodraethol a thraws-feddiannol, gan ddau o'r brenhinoedd mwyaf Pabaidd a choel-grefyddol a fu erioed yn Lloegr. Ar un o'r amgylchiadau hyn, rhoddwyd ef fel iawn am lofruddiaeth a theyrn-fradwriaeth Offa, a elwir Offa Fawr; wedi gosod ei gyd-ymgeisydd Beonred i farwolaeth, ac esgyn i'r orsedd, a gosod gwedi hyny Ethelbert, brenin yr Angleaid dwyreiniol, i farwolaeth, a meddiannu ei deyrnas, a osododd yr ardreth ddegymol i dalu arno ei hun a'i holl ddeiliaid, i'r eglwys, fel iawn am ei aml ddrygioni." Gwedi hyny Ethelwolff, yn y flwyddyn 856, ar ol iddo, yn mawredd ei goel-grefydd, fyned ar bererindod i Rufain, a dychwelyd, a sefydlodd drefniad y degwm trwy eu cyfreithiau. Y degwm yn ddiau a ddygwyd mewn ymarferiad yn yr amser tywyllaf ar Gristionogaeth, ac sydd un o ffrwythau penaf coelgrefydd Babaidd, a osodwyd i fynu gyda golwg ar fod yn iawn dros bechodau.—*Lib. of Eccl. Knowledge, vol.* i. *p.* 257, a *Dr. Russel's Hist. of Modern Europe, vol.* i. *p.* 46. *Sympson's Hist. of the Christ. Church, p.* 562.

dangos ei sêl grefyddol yn fwy, efe a ddyrchafodd y gwyr eglwysig i lywodraeth wladol, ac i gyfran yn ngweinyediad llysoedd barn, fel swyddwyr a barnwyr; fel nad oedd gan ei fab yn yr oes nesaf, pan yr oeddynt yn ei ddifeddiannu ef o'i goron, ac yn ei ddiswyddo, neb ond ei dad i ddiolch iddo, yr hwn a roddasai iddynt y cyfryw awdurdod. Dywedir gan amryw, mai efe a ddygodd offer cerdd gyntaf i leoedd addoliad dan yr oruchwyliaeth Gristionogol. Ond amheuir hyn gan eraill. Eithr pa un ai efe ai arall a wnaeth hyn, y mae yn ddigon eglur nad arferid hwy yno am y tri chanrif cyntaf, nac yn fuan wedi hyny.

Heblaw y creulonderau a gofrestrir o eiddo Charles tu ag at y Saxoniaid, y mae ei ymddygiadau tu ag at y Huniaid, a'r cenhedloedd a breswylient lanau yr afon Danube—ei greulondeb tu ag at feibion Carloman ei frawd, a thywysogion Aquitain, pa rai a ddeillient o linach Clovis—yn nghyd â'i ymddygiad at Desidirius, brenin y Lombardiaid, a'i deulu, pa rai a alltudiesid i Ffraingc, nas clybuwyd sôn am danynt byth mwyach, yn dystiolaethau digonol i wrth-bwyso ei holl rinweddau ymddangosiadol yn erbyn ei feddianiad, i'r graddau lleiaf, ar deimladau gwir Gristionogaidd, ac yn llychwiniad tragywyddol ar ei orsedd. Nid oedd diweirdeb yn gwneuthur i fynu, yn y mesur lleiaf, ran o foesoldeb ei gymmeriad; canys fod iddo ar yr un pryd naw o wragedd, neu ordderch-wragedd, sydd eglur. Ond nid yw o un dyben enwi mwy o BECHODAU GOLYGUS Charles, fel y geilw un hanesydd hwynt, nag a fyddo yn rhoddi goleu i ni ar hanesyddiaeth eglwysig; yn gymmaint â bod ei ysbryd uchel-geisiol a gwaedlyd, yn nghyd â'i ymarferiadau halogedig, yn eglur ddangos ei fod yn hollol amddifad o egwyddorion gwir grefydd.* Gwedi iddo deyrnasu rai misoedd dros bum mlynedd a deugain yn frenin ar Ffraingc, ac ychydig fwy na thair blynedd ar ddeg fel amherawdwr y gorllewin, efe a fu farw yn Aix-la-chapele, yn y ddeuddegfed flwyddyn a thriugain o'i oedran; a dilynodd yr amherodraeth o hyd yn ei linach hyd yn y bedwaredd genhedlaeth.

Yn yr hanes a fu dan ein sylw yn y bennod hon, gwelir fod yr amryson a'r rhyfel yn nghylch y delwau wedi achlysuro y cyfnewidiadau canlynol, ag sydd wedi bod o gryn bwys yn y byd—sef, Mawr ddarostyngiad a gwanychdod amherodraeth y dwyrain—codiad i fynu amherodraeth y gorllewin, ac sydd yn parhau hyd heddyw yn yr Almaen—gosodiad i fynu y Pab o Rufain yn ei gyflawn awdurdod gwladwriaethol, a'i feddiant daearol—a hollol ymraniad eglwys Rhufain oddi wrth eglwys Groeg, fel na ddaethant mwy i undeb a chydweithrediad. Er i'r Pab o Rufain gael ei wneuthur yn ben cyffredinol i'r holl eglwys, trwy weithred amherodrol Justinian, o ddeutu y flwyddyn 534, etto nid oedd efe wedi derbyn un llywodraeth wladol, nac arglwyddiaeth ddynol, hyd oni roddwyd hi iddo gan Pepin, tua'r flwyddyn 755. Dengys y cyfan fawredd llygredigaeth y nattur ddynol, pan y bu gwrthwynebiad i eilun-addoliaeth, yr hyn a dueddai yn fawr i adferyd dynolion, a'u dwyn i weithredu yn rhesymol a rhinweddol, mewn cyssondeb â deddf ac efengyl, yn achlysur i'w suddo hwy yn ddyfnach i gaethiwed a thrueni. Beth bynag oedd egwyddorion a dybenion yr amherawdwyr dwyreiniol, y mae yn sicr fod yr ymdrechiad a wnaethant yn erbyn dygiad i mewn y delwau, yn ganmoladwy ynddynt; a diau y bydd eu methiant yn eu hymegniadau, a'u mawr iselhad a'u darostyngiad trwy hyny yn brawf bythol o ddirywiad dynolryw.

* Milner's Church Hist. vol. iii. p. 220.

PENNOD XXXVIII.

Lle y traethir am Athrawiaeth gyfeiliornus a niweidiol yr Eglwys Gatholig—ei Sél dros daeniad ei Hegwyddorion—Llafur Wilibrord a Boniface—Sefyllfa Crefydd yn Lloegr—Hanes Bede, a'i Gymmeriad—Alcuin, a Ioan Damascenus.

Er cymmaint oedd llwyddiant buddugoliaethus y Mahometaniaid, ac er mor fawr eu hymdrechiadau cynnyddol i attal llwyddiant yr efengyl, ac i rwystro i'w dysgleirdeb dywynu, yn mhob modd, ymhelaethodd Cristionogaeth ei therfynau yn fawr yn y canrif hwn, yn mhlith y bobl hyny a adwaenid gynt wrth yr enw Scythiaid, eithr yn awr Tartariaid, y rhai a breswylient yn nghonglau mynyddoedd Imaus, trwy lafur y Nestoriaid. Parhaodd Cristionogaeth, yn ol y trefniad hwnw, yn mhlith amryw genhedlaethau yn y parthau hyny am lawer o oesau, dan lawer o anfanteision, ac yn wyneb erledigaethau, y rhai a ddyoddefasant trwy greulondeb, trahausder, a gormes y Saraceniaid. Eithr yr olwg ar yr eglwys gatholicaidd yn y dwyrain, oedd yn wael a gresynus iawn, yn rhanedig ac amrafaelgar, fel pe buasai bywyd, heddwch, a phob egni i ddaioni, wedi ymadael. Os edrychwn tua'r gorllewin, gwelir fod eglwys Rhufain, yr hon a effeithiai yn benaf dros y parthau hyny, wedi cynnyddu mewn mawredd daearol, cyfoeth, ac awdurdod, fel yr ymddangosai agos mor gadarn âg un amherodraeth ar y ddaear y pryd hwnw, yn enwedig wrth ystyried pleidgarwch llywodraeth Ffraingc iddi; ac nid oedd yn ddiffygiol mewn sêl i helaethu ei therfynau. Megys yr ymddyrchafai penaeth eglwys Rhufain mewn llywodraeth, cyfoeth, a phob mawredd bydol, felly y codai gydag ef luoedd lawer yn ei osgordd i'r sefyllfaoedd anrhydeddusaf, a'r breintiau mwyaf a allai y byd hwn eu rhoddi. Yn y modd hwn, daeth y ffordd fwyaf uniongyrchol i bob mawredd dynol i fod trwy yr eglwys, a thrwy fod yn wresog drosti.

Tua'r amser hwn, dechreuodd y ddysgeidiaeth wrthun honno—etto, hynod o fanteisiol i'r offeiriaid—gael ei chyhoeddi a'i chredu yn lled gyffredin, er yn benaf yn y gorllewin,—sef, "Fod y gospedigaeth a berthyn i Farnydd yr holl ddaear, i weini ar ddrwg-weithredwyr yn y byd hwn a'r un sydd i ddyfod, i'w hattal a'i dileu trwy roddion haelionus dynion i Dduw, i'r saint, i'r eglwysi, a'r offeiriaid!" Anhawdd dirnad effeithiau niweidiol y ddysgeidiaeth hon er cynnyddu pob drygioni, yn enwedig yn mhlith y rhai a berchennogent lawer o bethau y bywyd hwn: yr annhrefn a'r yspail a a wnaed trwyddi hi ar feddiannau y gwledydd, a fawr chwanegodd gyfoeth, rhwysgfawredd, a choegni yr eglwysi a'r gwyr llên. Er i bethau tebyg i'r ddysgeidiaeth uchod gael eu gynnyg i'r byd trwy gyhoeddiadau blaenorol, etto nid oedd yr amseroedd yn ddigon tywyll, na'r bobloedd yn ddigon coelgrefyddol, hyd y canrif hwn, i roddi derbyniad i'r fath athrawiaeth yn gyff-

redin. Mewn canlyniad i hyn, yr ŷm yn gweled mawrion y ddaear, yn gyfoethogion ac yn dywysogion, yn rhoddi eu meddiannau yn helaeth, yn ddinasoedd cyfain, yn diriogaethau ëang, ac yn gestyll cedyrn, dros eu hanwiredd, pa rai a feddiannent trwy etifeddiaethau, neu trwy drais a gormes, i'r saint ymadawedig, a'u gweinidogion ag oedd ar y ddaear, ac at achosion yr eglwysi a'r monachdai, a gyflwynwyd i ofal y cyfryw rai, fel y caent hwy ryddid i foddhau eu nwydau llygredig yn y byd hwn, a diangc rhag cospedigaeth wedi marw.

Trwy y moddion twyllodrus hyn o wneuthur iawn am gamwedd, y dylifodd golud y gwledydd i feddiant yr eglwysi a'r monachdai, ac y daeth gwyr llên i feddiant ac awdurdod ar gyfoeth pobloedd, yn gystal ag ar eu cyrph â'u heneidiau; yr hyn sydd yn parhau dros holl wledydd Europe, i raddau helaeth hyd heddyw. Gelwir amryw o'r rhai hyn yn deyrn-roddion, neu dreftadaeth brenhinol, o ran eu bod yn deilliaw oddi wrth frenhinoedd a thywysogion: a hawdd y gallasai y rhai hyn eu rhoddi yn helaeth, pan nad oedd yr oll ond meddiant yspeiliedig a gymmerasent trwy drais a gormes oddi ar drigolion cynhenid Europe.* Yr ydym yn gweled canonau eglwysig a chyfreithiau gwladol yn cael eu gwneuthur gan dywysogion, i ddiogelu i'r eglwys y meddiant o'r cyfoeth a'r mawredd hyn; a mawr y canmolir y cyfryw gan amryw o haneswyr, fel arwydd o wir ddaioni a diwygiad yn yr eglwys; ond meddylir y barna pob dyn ystyriol mai hyn a fu ei dinystr.† Trwy y rhoddion hyn dyrchafwyd gwyr eglwysig, a llawer o'r abadau, i fod yn dduciaid, ardalwyr, marchogion, barnwyr, a llywyddion, i lywodraethu ac i roddi cyfreithiau i daleithiau y ddaear, gyda phob rhwysgfawredd, yn lle dilyn eu gorchwylion eglwysig; a thrwy hyn y galluogwyd amryw o honynt i gynnal byddinoedd ar eu traul eu hunain. Oddi wrth hyn y tarddodd y rhyfeloedd a welir mewn amseroedd dyfodol, rhwng tywysogion y gwledydd a blaenoriaid yr eglwysi yn Europe; pa rai a ymddyrchafasant i'r fath nerth a llywodraeth bydol, fel y gorfyddai ar yr amherawdwyr eu hunain ymostwng i erfyn eu heddwch, eu nawdd, a'u hamddiffyn.

Er mor uchel yr ymddyrchafodd yr eglwys Babaidd mewn mawredd, awdurdod, a chyfoeth, nid ŷm yn gweled fod ei sêl dros broselytio ac ehangu ei therfynau wedi lleihau yn y canrif hwn. I'r dybenion hyn, anfonai allan ei chennadau yn mhell ac yn agos, er taenu ei hegwyddorion yn mhlith y cenhedloedd. Modd bynag, gwelwn fod llawer o honynt yn llafurio gyda mesur helaeth o lwyddiant yn mhlith y cenhedlaethau o du y gogledd i'r Almaen, y rhai oeddynt hyd yn hyn yn baganiaid. Yn y gorchwyl hwn, gwelwn fod Wilibrord, yr hwn a hanai o deulu Saxonaidd yn Lloegr, gydag un ar ddeg o fonachod, wedi myned drosodd, yn y canrif o'r blaen, i Friesland, i lafurio yn mhlith llwythau o'r Saxoniaid a breswylient y wlad honno.‡ Ond wedi methu llwyddo yn y wlad honno, hwy a aethant i Cimbria, yr hon a elwir yn awr Denmark, lle y llwyddasant i ddychwelyd amryw i'r ffydd gatholig; a gwobrwyodd y Pab Wilibrord âg archesgobaeth Utrecht. Dilynwyd hwy gan amryw eraill o'r un egwyddorion o'r deyrnas hon; ond nid gan neb yn fwy felly na'r hyglod Winffrid, yr hwn a enwyd wedi hyny Boniface. Efe, wedi myned at Wilibrord i Cimbria, a ewyllysiai aros yno; eithr yn ol gorchymyn y Pab a thywysogion Ffraingc, gorfu arno symmud i blith gwyr

* Mosheim's Eccl. Hist. vol. iii. p 224. † Milner's Church Hist. vol. iii. p. 108.
‡ Mosheim's Eccl. Hist. vol. ii. p. 355.

Friesland i lafurio. Gwedi ei awdurdodi i'w walth gan benaeth eglwys Rhufain a'r tywysogion Carlomanaidd, efe a lwyddodd i ddarostwng nifer o honynt i'r ffydd. Sefydlwyd ef yn esgob gan y Pab Gregory yr ail, pryd y newidiodd ei enw yn Boniface, yn y flwyddyn 723. Gwedi hyn sylfaenodd esgobaethau Wurtzburg, Burabourg, Erffurt, ac Aichstadt, a monachdy Ffulda. Yn y flwyddyn 738, gwnaed ef yn archesgob gan y Pab Gregory y trydydd; ac yn y flwyddyn 746, dyrchafwyd ef gan y Pab Zacharia i archesgobaeth Mentz, ac yn arolygwr dros holl eglwysi yr Almaen a Belgium.* Eithr cyn diwedd ei oes, dychwelodd i Friesland, yn mha le y gosodwyd ef, a deg a deugain o offeiriaid, oedd yn ei osgordd, i farwolaeth gan y Saxoniaid barbaraidd; o herwydd y tybient, efallai nid heb achos, fod ganddo law fawr i osod tywysogion Ffraingc ar waith i'w dinystrio a'u gorthrymu hwy. Dywedir i Radbod, brenin Friesland, ddywedyd wrth y cennadau a ymyrent â'r gwaith o'i ddychwelyd ef a'i ddeiliaid, ei bod yn fwy dewisol ganddo fyned i uffern, os byddai rhaid iddo, i fwynhau cymdeithas ei hynafiaid diniweid, yn hytrach na myned i'r nefoedd, i gymdeithasu â'r heidiau Cristionogion yspeilgar a diegwyddor, a anfonwyd attynt hwy, er eu hyspeilio o'u rhyddid, eu breintiau, a'u difeddiannu o'u tiriogaethau, a'u hudo o'u cyfoeth. Ond ni allai y Saxoniaid gael eu dewisiad yn hyn;† eithr rhaid oedd eu gyru tua'r nefoedd, i'w tyb hwy, trwy fin cleddyf y Ffrangcod.

Yr eglwys Babaidd, a phleidwyr cyssegr-lywodraeth unbenol, a ddyrchafant Boniface fel un o'r dynion duwiolaf ac enwoccaf a fu erioed, gan ei alw yn apostol; a rhesir ef yn mhlith y saint; a'i farwolaeth a gyfrifir yn ferthyrdod dros Iesu Grist. Eithr cyn ein dwyn ymaith gan y cyfryw sain, gweddai i ni edrych ar ffeithiau yn eu cyssylltiadau, yna gwelir fod lle i ammau ei dduwioldeb, a'i gywirdeb yn nybenion ei weinidogaeth. Ond am ei sêl dros eglwys Rhufain, a'i holl ymgyflwyniad i helaethu terfynau ei hamherodraeth, a dyrchafu y Pabau sancteiddiaf, nid oes le i ammau; canys yn y pethau hyn, llafuriodd tu hwnt i neb a fu o'i flaen. Y mae dyn i'w adnabod yn gyffredin wrth y gymdeithas y perthyna iddi, yn gystal â'r gwaith a fyddo yn ei ddilyn. Pe rhoddid y ddau Gregory a Zacharia, pa rai a wasanaethai Boniface yn y modd ffyddlonaf, a'r gwaethaf o'r Paganiaid eilunaddolgar ar gyfer eu gilydd, byddai yn anhawdd i allu gwybod o ba du y byddai y rhagoriaeth; gyda'r eithriad o fod y blaenaf yn gyfrwysach i wneuthur drwg na'r olaf, a'u bod yn dwyn enwau gwahanol. Boniface oedd yr esgob cyntaf a dyngodd lŵ o ffyddlondeb i Bab Rhufain wrth gael ei gyssegru i'w esgobaeth, yr hyn mewn canlyniad a ddaeth yn arferiad i bob un i'w wneuthur pan yn cymmeryd meddiant o'i esgobaeth, yn nghymundeb yr eglwys honno. Efe, yn ol gorchymyn y Pab Zacharia, a goronodd y traws-feddiannydd Pepin yn frenin ar Ffraingc. Y gwnai dyn a feddiannai ar gydwybod dyner, fel Cristion, ac a fyddai yn arwain buchedd dduwiol, dan ddylanwadau ysbryd Duw, ymroddi i gydffurfio â gorchymynion, defodau, ac arferiadau y fath ddyhirod, y rhai oeddynt ei arglwyddi, a bod yn selog dros eu hachos, ac yn cael ei barchu a'i ddyrchafu ganddynt, sydd fwy nas gallwn gredu, er ei ddywedyd gan Milner. Ei lythyrau ŷnt lawn o ysbryd trahaus a balchaidd; ac yn ysgogiadau ei feddyliau, ym-

* Milner's Church Hist. vol. iii. pp. 194, 198.

† Dr. Russel's History of Modern Europe, vol. i. p. 30.

ddengys llawer o ddichell a chyfrwysdra—llawer mwy o sêl dros drefniadau chwyddedig yr eglwys gatholig, na thros symledd yr efengyl, ac achos Iesu Grist, yn nghyd âg iachawdwriaeth eneidiau.* Diau ei fod yn ddyn anwybodus o wir nattur a thymmer Cristionogaeth, yn ei symledd a'i bywyd, yr hyn sydd hanfodol i bob gwir gennadwr ei wybod. Ni ddywed ei bleidwyr unwaith iddo ennill y Paganiaid i'r ffydd, trwy gyfieithu un rhan o'r ysgrythyrau i'w hiaith, neu eu dysgu i ddarllain y gair mewn un iaith arall, na chymmeryd amser i'w hegwyddori yn egwyddorion Cristionogaeth; na,—nid dyma y moddion trwy ba rai y gwnai efe na'i gyfeillion broselytiaid o'r Paganiaid. Eithr ymarfogent yn awdurdod eglwys Rhufain, i gau ac agor y nefoedd, ac yn ngrym arfau tywysogion Carlomanaidd Ffraingc, a lluaws o ffug-wyrthiau, nes dychrynu y Paganiaid; a gosodent orfod arnynt i newid eu henwau, ac ymostwng i'r awdurdodau, heb fod un mymryn gwell yn eu calonau. Nid oes dim yn eglurach na mai hyn oedd gwir gymmeriad y dychweledigion yn yr oesoedd hyny; o blegid dangosir ef yn eglur yn eu hanwadalwch, a'r holl ddefodau Paganaidd a ymgynnalient ynddynt.

Dilynwyd Boniface gan luaws o fonachod allan o Loegr, yr Iwerddon, a Ffraingc, pa rai a fuant ffyddlon, i raddau, i ddwyn yn mlaen yr un gorchwylion; a hwy a ddyrchafwyd i swyddau a sefyllfaoedd anrhydeddus ac o elw mawr, gyda golwg ar bethau y bywyd hwn, yn eglwysi yr Almaen a Belgium, y rhai oeddynt dan ei lywyddiaeth ef; ac y mae yn beth mawr os gellir rhoi rhan o'r llafur i gyfrif llwyddiant teyrnas Iesu Grist, yn wirioneddol.

Llawer a ddywedir am ddychweliad y Saeson yn Lloegr, a sefyllfa crefydd yn yr ynys hon, am y canrif dan sylw, o ba le yr oedd y cennadau uchod yn myned allan, gan mwyaf. Ymddengys yn dra eglur mai prif waith y rhai blaenaf yn eu mysg, a'r rhai a lanwent y sefyllfaoedd uchaf yn yr eglwys yma, oedd ymdrechu â'u holl egni i ddwyn y Cymry, a'r Ysgotiaid—canys felly y gelwid trigolion yr Iwerddon, yn gystal â Chaledonia, y pryd hwnw—pa rai oeddynt lawer cywirach eu barn, a phurach eu hymarferiadau crefyddol na hwy eu hunain, i ymostwng i holl drefniadau a defodau eglwys Rhufain. Nid anhawdd yw gweled mai tra arwynebol oedd crefydd y Saeson yn gyffredin; canys, yn ol a ddywed haneswyr credadwy, newidient eu crefydd yn rhwydd, yn ol fel y byddai eu tywysogion. Pan y byddai un, neu rai, o'r rhai hyn yn wresog dros y grefydd gatholig, yr oedd y deiliaid felly; ond pan y byddai rhai o honynt am fwrw hon ymaith, a dwyn i mewn yr hen grefydd Baganaidd, byddent hwythau felly; ac yr oeddynt mewn rhyfeloedd gwaedlyd yn barhaus â'u gilydd, nes y llyngcwyd y saith teyrnas i fynu yn hollol mewn unbenaeth.

Er mor uchel y dyrcha Milner gymmeriad amryw bersonau ag oeddynt yn byw yn yr oes hon, ac er cymmaint yr ymddengys am bleidio Cristionogaeth, o'r fath ag oedd yn y sefydliad o honi yn mhlith y Saeson, efe a ddywed fod yr olygfa ar y byd Cristionogol yn alarus ac yn ofidus iawn. "Eilunaddoliaeth," medd ef, "oedd yn cyflym a helaeth ymdaenu dros holl

* Addefa Mr. Milner iddo fod yn foddion, trwy awdurdod y duc Carloman, i roddi Adelbert o Gaul, a Clement o Caledonia, dau gennadwr crefyddol yn ei esgobaeth, yn ngharchar dros eu hoes. Ond ymdrecha yr hanesydd uchod gyfiawnhau Boniface â'i holl egni, trwy ddangos fod rhyw beth yn gyfeiliornus iawn yn ngolygiadau y ddau garcharor.—*Milner's Church Hist. vol.* iii. *p.* 196. Eithr y gwirionedd yw, mai eu cyfeiliornadau oedd eu hanymostyngiad i eglwys Rhufain, dros yr hon yr oedd yr archesgob yn dwyn y fath sêl, fel na allai oddef i neb ei gwrthsefyll; er eu bod yn llawer cywirach eu barn am egwyddorion syml yr efengyl na'r archesgob ei hun, yn enwedig Clement, yr hwn a fawr ymdebygai i Gristion tra syml.—*Mosheim's Eccl. Hist. vol.* i. *p.* 273.

Europe ac Asia, yn mhlith y rhai a broffesent yr efengyl—dynion yn ymlithro ac yn ymadael â'r ffydd, ac â gorchymynion Iesu Grist, yn mhob un o'r gwledydd a efengylasid unwaith."* Bede y Monach hefyd, yr hwn oedd yn byw y pryd hwnw, er nad yw yn hanesydd anmhleidgar, a ddywed yn ei lythyr at Egbert, archesgob Caerefrog, ychydig cyn ei farw, "fod llawer tref a phentref yn Lloegr heb weled esgob na bugail, o un sefyllfa, erioed, etto yn gorfod talu at eu cynnaliaeth; a bod llawer yn cymmeryd arnynt fod yn fugeiliaid heb fedru eu Credo a Gweddi yr Arglwydd, y rhai a gyfieithasai efe i'r Saesoneg, er mwyn iddynt hwy eu dysgu a'u hadrodd i'w pobl." Yna erfynia ar yr archesgob roddi allan ei orchymyn archesgobaethol, i beri iddynt wneuthur felly.

Yn mhlith y lluaws a goffeir am danynt yn y canrif hwn, y tebyccaf i ddyn duwiol a syml o bawb dynion cyhoeddus a welir yn yr eglwys y dyddiau hyny, oedd yr hybarch BEDE. Ganed ef tua'r flwyddyn 673, mewn lle a elwir Ffarrow, yn agos i Durham, yn yr ynys hon. Rhoddwyd ef pan yn ddeuddeg mlwydd oed, mewn monachdy yn Wearmouth; a symmudwyd ef wedi hyny i Ffarrow, lle yr arosodd hyd ddiwedd ei oes. Ymddengys ei fod yn ddyn helaeth mewn pob cangen o ddysgeidiaeth a ddysgid yr oes honno, ac yn un a fu yn ddiwyd a llafurus iawn trwy ei oes i ddysgu yr ieuengctyd; ac ysgrifenodd lawer o lyfrau yn ystod ei fywyd. Yr oedd yn hynod ddichlynaidd yn ei fywyd, yn gywirach ei olygiadau na'r cyffredin yn yr oes hòno, ac, gobeithir, yn ddyn duwiol.† Er ei neillduo i swydd henuriad, nid yw yn eglur iddo gyflawni nemawr o wasanaeth fel y cyfryw, tu allan i'w gell ei hun, yn y monachdy; ac ni chymmerai un dyrchafiad uwch yn yr eglwys, er ei gymhell i hyny. Annogwyd ef gan y Pab, trwy addewidion o anrhydedd, i ddyfod atto i'w lŷs yn Rhufain; eithr efe a wrthododd, ac ni ymadawsai er dim â gwlad ei enedigaeth. Nid yw yn annhebyg ei fod ef, fel Jerome, yn ystyried mai yr un peth oedd esgob â henuriad, yn ol y gosodiad cyntefig; ac nad oedd un swydd a sefyllfa uwch yn yr eglwys na henuriad, yn ol y drefn apostolaidd. Ei ysgrifau ydynt yn lluosog; a dangosant fesur o rymusder meddwl, medrusrwydd, hyawdledd, a helaethrwydd dysgeidiaeth yr ysgrifenydd: eithr y mae yn eglur fod ysbryd yr amseroedd, ei dymherau coel-grefyddol, a'i ymgyflwyniad i drefniadau eglwys Rhufain, wedi mawr effeithio er eu niweidio oll—yn enwedig ei hanes eglwysig, er casglu defnyddiau at ba un y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes, a'r hwn a gyhoeddodd pan yn ddeg-ar-hugain oed, mewn amryw gyfrolau mawrion. Y mae yn dra diffygiol mewn ysbryd barn, yn llawn o chwedlau gwael am ffug-wyrthiau a ddywedai a gyflawnid yn yr oesoedd hyny trwy ddynion byw a meirw, ac o hanesion celwyddog a dychymmygol am bethau a phersonau, pa rai a gyhoeddid i'r byd er dyrchafu unbenaeth eglwysig Rhufain. Gwnaeth ei hanesyddiaeth lawer o niwaid yn y byd, nid yn unig ei waith yn gosod allan y pethau hyn yn yr addurniadau mwyaf golygus, trwy ei athrylithrwydd a'i hyawdledd, ond trwy i eraill hefyd eu cymmeryd ar ei dystiolaeth ef yn lle gwirionedd, a'u taenu trwy eu hysgrifau. Eithr teilynga ganmoliaeth am ei ymdrechiadau i roddi rhanau o'r ysgrythyrau yn iaith ei genedl, yr hyn nid oedd o'r blaen—gorchwyl, er ei bwysfawrogrwydd, ni ofalid, ac ni ymdrechid ond ychydig yn ei gylch y dyddiau hyny. Bu farw Bede yn y flwyddyn 735, pan yn y

* Milner's Church Hist. vol. pp. 107, iii. 158. † General Biographical Dict.

62 mlwydd o'i oedran, o fewn ei gell, mewn dirfawr boen corphorol, eithr yn ymgynnal yn dawel mewn amynedd, ac yn llawn o orfoledd, a diddanwch yn ei enaid.*

Un o'i ddysgyblion ef oedd ALCUIN, yr hwn a aned yn rhyw barth o Loegr, er nad oes sicrwydd yn mha le; a chwedi marwolaeth Bede, cymmerwyd sylw o hono gan Egbert, archesgob Caerefrog, yn mha le y neilldwyd ef yn ddiacon. Offa, brenin y Mercianiaid, a'i hanfonodd ef yn y flwyddyn 790 i Ffraingc, yn gennadwr drosto i lŷs Charles Fawr, yr hwn a'i hoffodd gymmaint, fel ei cadwodd yno; ac ni ddychwelodd mwy i wlad ei enedigaeth. Gwnaeth ef yn athraw iddo ei hun, ac yn un o'i brif gynghoriaid. Meddylir ei fod yn achos o sefydliad yr athrofäau ag ydynt hyd heddyw yn Paris a Pavia, a ddechreuwyd y pryd hwnw, ac o lawer o gyfreithiau a sefydliadau daionus eraill, a wnaed gan Charles, er dyrchafu a meithrin dysgeidiaeth, a'r moddion i'w chyrhaedd; er na buant, o herwydd llygredigaeth yr oesoedd, yn effeithiol er atteb y dyben amcanedig. Priodolir y gwrthsafiad a wnaeth yr amherawdwr yn erbyn yr eilunaddoliaeth a orlifai dros yr eglwysi, fel y sylwyd yn barod, i ymdrechiadau a chynghor Alcuin; adgasrwydd ac ansynwyroldeb pa arferiad oedd mor eglur, fel y gallesid meddwl nad oedd eisiau rhyw ras mawr i weled y drwg a'r ynfydrwydd o honi. Yr oedd efe yn bresennol yn nghymmanfa Ffrankffort; a thrwy gymmeradwyaeth y brenin, derbyniwyd ef yn aelod o honi: a dywedir mai efe yn benaf oedd awdwr y llyfrau a roddwyd allan yn enw y brenin yn erbyn eilunaddoliad. Ysgrifenodd ar athrawiaeth y Drindod, yn erbyn cyfeiliornad Ffelix, a godai yn yr eglwysi, ac amryw draethodau eraill; yn mha rai y dangosir grymusder ei ddeall, athrylithdra ei feddwl, a helaethrwydd ei ddysgeidiaeth. Gwedi iddo dreulio tua deuddeg mlynedd yn llŷs Charles, a derbyn ganddo lawer o anrhydedd ac urddas, efe a ymadawodd âg ef, yn y flwyddyn 802, o herwydd gwendid nattur; ac a aeth i fonachdy St. Martin, yn Tours, lle y gorphenodd ei oes, yn y flwyddyn 804, wedi cyrhaedd hir ddyddiau.†

Er dyfned oedd yr Ital wedi suddo mewn tywyllwch cyfeiliornadau ac eilunaddoliaeth, yr oes hon, etto yr oedd yno ambell un yn dysgleirio ychydig, ac yn amddiffyn y gwirionedd; yn mhlith pa rai, teilynga enw PAULINUS o Aquileia ei gadw mewn coffadwriaeth. Yr oedd efe yn un o aelodau cymmanfa Ffrankffort, yn wrthwynebwr cadarn i'r eilun-addoliaeth ag oedd ar gynnydd, yn ddyn tra dysgedig, ac yn meddu ar olygiadau mwy cywir a syml ar athrawiaethau yr efengyl na'r cyffredin; a dywedir ei fod yn wr defosiynol iawn. Gwrthsafai yr athrawiaeth Babaidd o Draws-sylweddiad, a ddechreuid ei gosod i fynu y pryd hwnw. "Yr elfenau," medd ef, "yn yr ordinhad, ydynt ychydig ddefnyddiau naturiol; y maent yn effeithio angau neu fywyd yn y bwyttawyr, yn ol fel y byddont yn meddu ar ffydd yn Nghrist, neu yn amddifad o honi." Ar achos arall, efe a ddywed,—"Paul a Phedr nid ydynt gyfryngolwyr; ond cennadau dros Grist oeddynt." Gorphenodd ei yrfa yn ei esgobaeth yn Aquileia, yn y flwyddyn 804, a'r 78 o'i oedran. Arferai ddywedyd am falchder, "nad oes bechod hebddo, ac na chyflawnir un nad yw ynddo—mai ef ydyw dechreu a diwedd, a'r achos o bob pechod."‡

* Milner's Church Hist. vol. iii. p. 147. † General Biographical Dict.
‡ Milner's Church Hist. vol. iii. p. 214.

Y dyn mwyaf ei ddysg yn y dwyrain, yn y canrif hwn, oedd, IOAN DAMASCENUS, yr hwn, er ei fod yn dwyn enw Cristion, a wasanaethai fel prif weinidog yn llŷs y *Caliph* Mahometanaidd, yn Damascus. Ond er ei fawr ddysgeidiaeth a'i ddoniau, braidd y gellir meddwl am neb yn dwyn enw Cristion, ag oedd wedi suddo yn ddyfnach nag ef mewn coel-grefydd a gwag-ymarferiadau, yn nghyd â'r eilunaddoliaeth ag oedd mewn ymarferiad, yn bleidiwr gwresog i ba un yr ymddangosodd yn ei ysgrifau. Dysgeidiaeth Plato oedd wedi syrthio i hollol anghymmeradwyaeth er ys amser cyn hyn, yn mhlith dysgedigion Cristionogaidd, trwy y mynych ddedfrydiad a wnaed ar athrawiaethau Origen; eithr ni chynnygasai neb gyssoni a chydblethu dysgeidiaeth Aristotle âg egwyddorion Cristionogaeth, hyd Damascenus. Ond efe a ddefnyddiodd ei holl alluoedd, ei athrylith, a'i hyawdledd i hyn, yr hyn a fawr effeithiodd i dywyllu purdeb gwir grefydd yn mhellach. Heblaw fod ei ysgrifau wedi eu mawr anfuddioli trwy effeithiad ei ysbryd coel-grefyddol, gellir barnu am dano ei fod yn un o bleidwyr cadarnaf pob cyfeiliornadau a dirywiadau yn yr eglwys, a ymddangosasai mewn unrhyw oes.*

Tua diwedd y canrif o'r blaen neu ddechreu hwn, y dechreuwyd archesgobaeth Caerefrog, ac yr adeiladwyd yr eglwys gadeiriol gan Edwin y brenin, yn ol cyngor Paulinus, yr hwn a fuasai yn foddion i'w ddychwelyd i'r ffydd. Yn nghylch yr un amser y dechreuwyd esgobaeth Llan Elwy, gan un Kentigern, esgob o Glasgow, yn yr Alban, yr hwn, o herwydd rhyw derfysgiadau, a ffoisai oddi yno. Adeiladwyd Llan Elwy ar y cyntaf yn fonachdy; a'r fath oedd tymherau coel-grefyddol yr oes honno, fel y dywedir fod yno 965 o breswylwyr yn fuan. Kentigern a alwyd yn ol i Glasgow, pan y gadawodd y monachdy dan ofal un Asaph, yr hwn a wnaed yn abad ac yn esgob yno, ac enw pa un a ddwg y lle hyd heddyw.†

* General Biographical Dict. † Milner's Church Hist. vol. iii. p. 120.

TERFYN YR WYTHFED CANRIF.

— Gwrthen darllen y rybrol Awst. 22. 1845
W Edward

H.C. 12.4.47